# 200 bywgraffiad yn Dathlu Daucanmlwyddiant Llambed

**Fel rhan o ddathliadau Daucanmlwyddiant, cynhaliodd staff yn y tîm Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu brosiect i archwilio bywydau cyn-fyfyrwyr a'n staff yn Llambed. Mae eu prosiect yn darparu gwybodaeth am y rhai sydd wedi gwneud eu marc ar draws pob cefndir gan gynnwys Ysgolheictod, y Lluoedd Arfog, Y Celfyddydau, Crefydd, Addysg, Chwaraeon ac Adloniant ynghyd â meysydd eraill.**

**Lluniwyd gan Ruth Gooding a Nicky Hammond, Casgliadau Arbennig ac Archifau, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, 2022**

**Datganiad Mynediad at Ddata**

**Sylwch: dim ond i destun yn y ddogfen hon y mae'r drwydded CC-BY yn berthnasol. Mae'r ffotograffau wedi'u defnyddio o dan hawlfraint gan ffynonellau trydydd parti gyda chaniatâd ac ni ddylid eu copïo na'u hail-ddefnyddio.**

**Lle nodir hynny, mae rhai ffotograffau wedi'u cyrchu o Wikimedia Commons a gall y telerau trwydded amrywio. Gweler Commons:Reusing content outside Wikimedia - Wikimedia Commons i gael rhagor o fanylion.**

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Agaba, Genevieve | 8 |
| Allen, Graham | 10 |
| Arnopp, Judith | 12 |
| Austin, George | 15 |
| Badham, Leslie | 18 |
| Barnabas, Archimandrite | 20 |
| Barrett, Yr Athro Arthur | 23 |
| Bartlett, David Daniel | 25 |
| Bartlett, John Dudley | 27 |
| Barton, Ian | 29 |
| Bean, Y Parchedig Willoughby | 31 |
| Bendon, Chris | 34 |
| Berg, Maggie | 37 |
| Bianchi, Tony | 40 |
| Bloomfield, Martin | 42 |
| Bowen, Euros | 45 |
| Bowen, Parcell Rees | 48 |
| Breslin, Mike | 50 |
| Brigstocke, Charles Ferdinand | 53 |
| Browne, Edward Harold | 55 |
| Brox, Victor | 58 |
| Burton, Janet | 60 |
| Cater, John | 63 |
| Cawston, John | 66 |
| Cole, Dick | 67 |
| Conti, Jo | 70 |
| Cook, Austin Pugh | 72 |
| Coolidge, William Augustus Brevoort | 74 |

| | |
|---|---|
| Crome, Andrew | 76 |
| Curl, Andrew | 79 |
| David, Y Parchedig Frederick James Taylor | 81 |
| Davies, David 'Bailey' | 83 |
| Davies, Y Parchedig David Henry | 85 |
| Davies, Cara Tallulha | 87 |
| Davies, Y Canon Ellis | 90 |
| Davies, Ivor Thomas | 92 |
| Davies, Yr Esgob Roy Thomas | 94 |
| Dawson, Daniel | 96 |
| Deacy, Chris | 98 |
| Dossett, Wendy | 100 |
| Drennan, Fergus | 103 |
| Driver, Toby | 105 |
| Edmunds, William | 108 |
| Edmunds-Davies, John Charles | 110 |
| Edwards, Aled | 112 |
| Edwards, Dic | 115 |
| Edwards, Ronald | 118 |
| Elis, Islwyn, Ffowc | 120 |
| Else, Richard | 123 |
| Evans, Daniel Ivor | 126 |
| Evans, Daniel Silvan | 129 |
| Evans, David J.A | 131 |
| Evans, D. Simon | 134 |
| Evans, Eric | 136 |
| Evans, Dom Illtud | 139 |
| Evans, John Silas | 141 |
| Evans, Walter | 144 |
| Fawkes, Richard | 147 |
| Fenwick, Yr Esgob Richard David | 150 |

Fisher, John 152

Foggitt, Bill 154

Fonow, Bob 157

Foster, Juliette 160

French, Yr Hybarch Archddiacon Judy 162

Fuller, R.H 165

Garthwaite, Annie 168

Gibson, Yr Athro William 171

Gilliat-Ray, Sophie 173

Greed, Michael 175

Griffith, David 177

Griffiths, Leslie 179

Haines, Elizabeth 182

Harris, William Henry 184

Hassall, Thomas 187

Herbert, Yr Esgob Christopher 191

Herrick, Yr Hybarch Andrew 194

Holdsworth, John 197

Hoyland, Graham 200

Hudson, Jude 204

Hughes, Arthur 207

Hughes, Joseph 209

Hughes, Joshua 212

Isaac, David Lloyd 214

Jackson, Yr Athro Robert 216

James, John 219

Jamieson, Craig 222

Jayne, Francis John 224

Jenkins, John Stanley 227

Jope, Norman 229

Jones, Y Gwir Barchedig Alwyn Rice 233

Jones, Y Parchedig David Thomas 236

Jones, Idris 239

Jones, Isaac 241

Jones, Y Parchedig Maldwyn Lloyd 243

Jones, Maurice 246

Jones, Noel 249

Jones, Thomas Glasfryn 252

Keeble, Yr Athro Neil 254

Kennerley, Alston 257

Khalidi, Omar 259

Knapp, John C. 261

Lewellin, Llewelyn 264

Lewis, Alexander Goldwyer 270

Lewis, Andy 272

Lewis, Leonard Glynne 275

Lightman, Shaun 277

Llewellin, Magnus 280

Lockwood, David 282

Loughlin, Yr Athro Gerard 285

Lucas, Yr Hybarch Ganon Brian 287

Marchant, Ian 290

Markham, E.A. 293

Mathews, Alfred Augustus 295

Matthews, Austin 298

McKeand, Hannah 300

McSharry, Brendan 303

Meadows, Y Parchedig Canon Stanley 305

Miles, Kathy 307

Millam, Peter 310

Morris, Alfred Edwin 313

Morris, Charles Herbert 315

| | |
|---|---|
| Morris, Eric | 317 |
| Mouby, Adrian | 320 |
| Morgan, Alan | 322 |
| Morgan, Paul | 325 |
| Morgan, Y Parchedig Richard Williams | 328 |
| Morgan, Y Canon Sam ‘Patagonia’ | 331 |
| Morris, Henry | 333 |
| Murray, John | 337 |
| Newman, Trevor | 340 |
| Newte, Frank | 342 |
| Nthukah, Yr Esgob Moses | 344 |
| Ollivant, Alfred | 346 |
| Owen, John | 349 |
| Paphides, Pete | 352 |
| Parker, Bruce | 356 |
| Parker, Doctor Linda | 359 |
| Parry-Jones, Daniel | 361 |
| Pennar, Merion | 364 |
| Perowne, John James Stewart | 366 |
| Petro, Pamela | 369 |
| Pintak, Lawrence | 373 |
| Polley, Martin | 376 |
| Powell, H. Jefferson | 379 |
| Price, D. T William | 381 |
| Prince, Henry James | 384 |
| Pritchard, Y Parchedig Howell | 386 |
| Propert, William Peregrine | 389 |
| Ramanathan, P. | 391 |
| Ratnage-Black, Heather | 394 |
| Raven, Thomas Milville | 396 |
| Rees, Arthur Augustus | 398 |

| | |
|---|---|
| Rees, Rice | 401 |
| Rees, Yr Esgob Timothy | 403 |
| Renowden, Raymond | 406 |
| Richards, Yr Hybarch Archddiacon Robert Henry | 408 |
| Rider, Robin | 410 |
| Robbins, Yr Athro Keith | 412 |
| Roberts, Y Parchedig John | 415 |
| Roberts, Thomas Stanley | 419 |
| Rowland, Ernest Melville | 421 |
| Rowlands, Yr Athro John | 423 |
| Roxburgh, William John | 425 |
| Rumsey, Patricia | 427 |
| Ryle, Herbert Edward | 430 |
| Secombe, Y Parchedig Fred | 434 |
| Schapira, Y Parchedig Alexander William | 436 |
| Scott, Yr Athro Michael | 438 |
| Sharpe, Robert Augustus | 441 |
| Shotter, Edward | 443 |
| Simons, Edmund | 446 |
| Sivaraksa, Sulak | 449 |
| Slipman, Sue | 452 |
| Smith, Frederick Seaton | 455 |
| Solow, Doctor Harrison | 457 |
| Stephens, John Griffith | 461 |
| Strand-Jones, John | 463 |
| Stretch, Y Parchedig Thomas James | 466 |
| Thomas, Y Canon David Walter | 469 |
| Thomas, Harry | 471 |
| Thomas, Helen | 473 |
| Thomas, John Roland Lloyd | 476 |
| Thomas, Randolph | 479 |

| | |
|---|---|
| Thompson, Laurie | 482 |
| Timothy, Andrew | 484 |
| Todd, Yr Athro Malcolm | 486 |
| Tout, Thomas Frederick | 488 |
| Townsend, Chris | 491 |
| Tucker, Cliff | 495 |
| Tyrrell-Green, Edmund | 497 |
| Vaughan, Y Gwir Barchedig Benjamin | 500 |
| Vaughan-Jones, Geraint | 502 |
| Verity, Edward Arundel | 504 |
| Walker, Elizabeth A. | 507 |
| Walker, Hugh | 510 |
| Washington-Jones, John | 513 |
| Washington-Jones, Richard | 515 |
| Watson, Sadie | 517 |
| Wheatley, Rebecca | 519 |
| White, Andy | 521 |
| Wilkinson, Yr Is-lyngesydd Peter | 523 |
| Williams, Y Brigadydd A.P. | 525 |
| Williams, Y Gwir Barchedig David | 527 |
| Williams, John | 529 |
| Williams, Rowland | 531 |
| Winfield, Flora | 534 |

# Genevieve Agaba



Mae Genevieve Agaba wedi gweithio ar ystod eang o brosiectau ymchwil datblygiad rhyngwladol.

Mae Agaba yn frodor o Gernyw. Symudodd i Gymru i astudio am radd mewn Anthropoleg ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan. Ar ôl graddio gyda dosbarth cyntaf ac ennill Gwobr Holly Murphy ar gyfer cyflawniad rhagorol, aeth ymlaen i wneud MSc mewn Datblygu Adnoddau Naturiol Rhyngwladol ym Mhrifysgol Cymru, Bangor. Fel rhan o'i phrosiect traethawd estynedig, treuliodd dri mis yng Nghenia fel cymrawd ymchwil yng Nghanolfan Amaeth-goedwigaeth y Byd. Yn y rôl hon, cyfrannodd at gamau cyntaf prosiect a ariennir gan yr UE sy'n ymchwilio gwybodaeth amaeth-ecolegol leol ac effeithiau amgylcheddol systemau ffermio amaeth-goedwigaeth coffi tyddyn.

Wrth barhau ym Mhrifysgol Bangor, daeth yn swyddog ymchwil, a ariannwyd gan brosiectau a arweiniwyd gan Ganolfan Amaeth-goedwigaeth y Byd. Yn y rôl hon, roedd yn rhan o ystod eang o brosiectau ymchwil a datblygu rhyngwladol yn y trofannau. Roedd ei gweithgareddau'n cynnwys ymchwil cynradd ac eilaidd ar systemau ffermio tyddyn a newid mewn defnydd tir. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn byw yng Nghenia am flwyddyn, yn arwain arolwg o wybodaeth leol am briodoleddau ffisegol coed a welir mewn ffermydd coffi yng Nghenia, Wganda a Rwanda. Yn dilyn hyn, bu'n gweithio fel partner addysgu a Swyddog Cymorth Prosiect ymchwil ym Mhrifysgol Bangor, gyda theithiau gwaith aml i Ddwyrain Affrica. Roedd yn drefnydd modiwl a daeth yn ddirprwy gyfarwyddwr rhaglenni coedwigaeth dysgu o bell llwyddiannus iawn y Brifysgol.

Yn 2018, symudodd Agaba i Brifysgol Southampton fel uwch-gynorthwyydd ymchwil. Gweithiodd o dan Brosiect Cronfa Ymchwil Heriau Byd-eang, *Building REsearch Capacity for sustainable water and food security In the drylands of sub-Saharan Africa (BRECcIA).* Roedd ei ffocws ar gryfhau capasiti ymchwil a galluoedd ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa yng Nghenia, Malawi a Ghana, yn y meysydd cysylltiedig o ddiogelwch dŵr a bwyd.

Yn 2021, ymunodd Agaba â'r Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad yn 2021. Sefydlwyd y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad ym mis Tachwedd 2017 fel ymchwiliad annibynnol, gan archwilio 'o ble mae ein bwyd yn dod, sut rydym yn cefnogi ffermio a chymunedau gwledig a sut rydym yn buddsoddi yn y nifer o fuddion y mae cefn gwlad yn eu darparu.' Daeth yn elusen annibynnol ym mis Ebrill 2020. Rôl Agaba yw Arweinydd Rhaglen: Ymchwiliadau sy'n seiliedig ar le. Nod y llinyn gwaith

hwn yw deall anghenion a blaenoriaethau lleol, sy'n ymwneud â bwyd, ffermio a chefn gwlad. Y nod yw symud i system fwyd yn seiliedig ar egwyddorion amaeth-ecolegol, sy'n gallu diwallu anghenion cymdeithas heb ddiraddio'r amgylchedd ymhellach. Mae rôl Agaba'n cwmpasu pedair gwlad y DU.

Ochr yn ochr â'i gwaith, mae Agaba yn astudio ar gyfer Doethuriaeth ar hyn o bryd mewn Amaeth-goedwigaeth o Brifysgol Bangor. Mae'n archwilio rolau coed mewn systemau ffermio tyddyn a'r wybodaeth leol sy'n sail i ymgorffori coed mewn tirweddau amaethyddol, gyda'r nod o lywio dyluniad opsiynau amaeth-goedwigaeth a fydd yn ymarferol ar gyfer cartrefi gwledig capasiti isel yn Nwyrain Wganda a Chanol Cenia.

Mae hefyd yn rhedeg elusen fach wedi'i lleoli yn y DU o'r enw Wamumbi Orphan Care Foundation sy'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliad cymunedol (Wamumbi Orphan Care) i ddarparu gwasanaethau allgymorth i blant amddifad yng Nghanol Cenia, gan gymryd agwedd gyfannol tuag at wella eu llesiant a'u rhagolygon bywyd. Datblygodd hyn o gysylltiadau a gafodd eu gwneud yn ystod ei hymchwil MSc.

**Ffynonellau**

Prifysgol Bangor. (2020). Genevieve Lamond. Cyrchwyd ar 14 Gorffennaf 2021 o https://www.bangor.ac.uk/natural-sciences/research/environment-natural-resources-and-geography/students/genevieve-lamond.php

Agaba. G. (2021). Genevieve (Lamond) Agaba [Tudalen LinkedIn]. LinkedIn. Cyrchwyd ar 14 Gorffennaf 2021 o https://www.linkedin.com/in/genevieve-agaba-7107872b/

Prifysgol Southampton (2019). Genevieve Agaba. Cyrchwyd ar 14 Gorffennaf 2021 o http://generic.wordpress.soton.ac.uk/sogesresearch/new-staff/genevieve-agaba/

Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau, Gweithgynhyrchu a Masnachu. (dim dyddiad) Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad. Cyrchwyd ar 14 Gorffennaf 2021 o https://www.thersa.org/projects/archive/public-services-communities/food-farming-and-countryside-commission

Food, Farming & Countryside Commission. (dim dyddiad) Our people. Cyrchwyd ar 14 Gorffennaf 2021 o https://ffcc.co.uk/our-people

Wamumbi Orphan Care. (dim dyddiad) *Wamumbi Orphan Care.* Cyrchwyd ar 14 Gorffennaf 2021 o https://www.wamumbiorphancare.org.uk/

# Graham Allen

Mae'r Athro Graham Allen yn awdur ac yn academydd o Gorc yn Iwerddon. Astudiodd Allen yng Ngholeg Dewi Sant, Llambed, rhwng 1982 a 1985, lle enillodd radd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Saesneg.



©AllmianYakta / CC BY-SA (https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0)

Ar ôl astudio ar gyfer ei MA (1986) yn Adran Saesneg Prifysgol Sheffield, aeth yn ei flaen i gwblhau ei PhD yno yn llwyddiannus ym 1992. Bu'n tiwtora ym Mhrifysgolion Sheffield a Chaergrawnt cyn dod yn Ddarlithydd Iau yn yr Adran Saesneg ym Mhrifysgol Dundee (1990 i 1995), ac wedyn daeth i weithio yn y pen draw i Goleg Prifysgol Corc o 1995, lle mae bellach yn Athro Llenyddiaeth.

Mae'r Athro Allen wedi cyhoeddi'n helaeth ym meysydd theori lenyddol a diwylliannol ac ar bynciau oddi mewn i astudiaethau llenyddol Rhamantaidd. Gwnaeth ei enw yn ymchwilydd i ddechrau ar sail y gwaith a gyhoeddodd ym maes theori lenyddol a diwylliannol. Cafodd ei lyfr llwyddiannus *Intertextuality*, yng nghyfres New Critical Idiom, ei gyfieithu i nifer o ieithoedd gwahanol. Cyhoeddwyd ail argraffiad o'r llyfr hwn, a oedd yn cynnwys pennod newydd a gomisiynwyd, yn 2011. Ddau ddegawd ar ôl yr argraffiad hwn, hwn yw'r prif arweiniad i'r pwnc o hyd ac mae wedi ei ddyfynnu dros 2,500 o weithiau.

Mae ei ddiddordebau dysgu ym maes theori lenyddol a diwylliannol ynghyd â llenyddiaeth Ramantaidd; mae ei waith damcaniaethol yn canolbwyntio'n rhannol ar gwestiynau addysgu, yn enwedig yr agweddau hynny ar addysgu sy'n parhau'n anfesuradwy a hyd yn oed yn anweledig. Gan ddyfynnu Jacques Derrida, mae'n credu bod addysgu'n digwydd yng nghlust y llall. Mae'n dweud mai'r hyn sy'n cymell ei waith addysgu, yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol, yw'r awydd nid yn unig i bwysleisio hyn o'r newydd, ond hefyd i'w archwilio.

Mae'r Athro Allen hefyd yn un o Gymrodyr Gwadd Nodedig yn Ysgol Graddedigion Llundain, yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol *The Oxford Literary Review*, *Barthes Studies*, *Digital Literary Studies*, ac yn adolygydd rheolaidd ar gyfer nifer o gylchgronau sydd wedi eu hadolygu gan gymheiriaid.

Drwy gydol ei yrfa lenyddol mae wedi cael ei enwebu a'i roi ar y rhestr fer ar gyfer llawer o wobrau, gan ennill, yn 2010, wobr gerdd sengl Listowel *gyda The One That Got Away,* sef cerdd a oedd hefyd yn deitl ar gasgliad.
Mae Graham Allen wedi cyfrannu i broffil cynyddol Ysgol Saesneg Coleg Prifysgol Corc mewn ysgrifennu creadigol. Mae wedi bod yn cyhoeddi ei waith creadigol, sef barddoniaeth yn bennaf, ers mis Rhagfyr 2006. Cyhoeddwyd ei e-gerdd gyfredol *Holes,* ynghyd â'i ddau gasgliad cyntaf o farddoniaeth, *The One That Got Away*

(2014), a *The Madhouse System* (2016) gan New Binary Press. Caiff ei gasgliad newydd, *A Tower That Knows No Ghost*, ei gyhoeddi gan Salmon Press yn 2020. Does dim dwywaith nad yw ei waith mewn theori lenyddol a diwylliannol wedi cael effaith ryngwladol. Arweiniodd y monograff ar *Harold Bloom* (1994) at wahoddiad i gyd-olygu *Salt Companion to Harold Bloom* 2007, a heb os nac oni bai, hwn yw'r gwaith pwysicaf a mwyaf cynhwysol sydd eto i'w gyhoeddi ar Bloom. Yn sgil y gwaith hwn daeth nifer o wahoddiadau i gyfrannu i gyhoeddiadau a chynadleddau.

**Ffynonellau**:

University College Cork. Darllenwyd 25 Mehefin, 2020, yn
http://publish.ucc.ie/researchprofiles/A014/gallen

Wikipedia. Darllenwyd 25 Mehefin, 2020, yn:
https://en.wikipedia.org/wiki/Graham_Allen_(writer,_academic)

Allen, G. (2016) Holes. Darllenwyd 25 Mehefin, 2020, yn:
http://holesbygrahamallen.org/#

# Judith Arnopp

Awdures ffuglen hanesyddol yw Judith Arnopp. Mae'r rhan fwyaf o'i nofelau wedi'u hysgrifennu o safbwynt menyw ac wedi'u lleoli yng nghyfnod y Tuduriaid.

Dywed Arnopp mai awdures fu hi erioed; yn blentyn darllenodd ei straeon i'w doliau a'i thedis. Yn ddiweddarach, yn ei harddegau, ysgrifennodd ramantau a'u darllen i'w ffrind orau. Pan oedd ganddi deulu ifanc, ysgrifennodd straeon a oedd yn cynnwys ei phlant yn brif gymeriadau. Hefyd, pan oedd ei phlant yn fach, gwerthodd hi a'i gŵr eu tŷ yn ne-ddwyrain Lloegr a phrynu tyddyn ychydig ar gyrion Llambed.

Pan oedd ei merch ieuengaf yn ddeg, cofrestrodd Arnopp ym Mhrifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan yn fyfyriwr aeddfed. Cymerodd BA mewn Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, ac wedyn MA mewn Astudiaethau Canoloesol. Dywed Arnopp am ei blynyddoedd yn fyfyriwr, 'Roedd yn gyfnod anhygoel yn fy mywyd.' Mae'n priodoli llawer o'i llwyddiant diweddarach i'r addysg a gafodd, gan ddweud na fyddai erioed wedi ysgrifennu ei nofelau hanesyddol 'oni bai am fy amser yn Llambed yn astudio Saesneg dan William Marx a Hanes o dan Janet Burton.'

Ar ôl i Arnopp raddio yn 2007, penderfynodd weld a allai ysgrifennu'n broffesiynol. Ceisiodd ddefnyddio'r ddwy sgil iddi eu dysgu yn y brifysgol, sef ysgrifennu creadigol ac ymchwil hanesyddol. Roedd ei thair nofel gyntaf wedi eu lleoli yn yr Oesoedd Canol cynnar. Arwres *Peaceweaver* oedd Eadgyth, gwraig brenin Sacsonaidd olaf Lloegr, Harold Godwinson. Roedd *The Forest Dwellers* a *The Killing of William Rufus* yn cynnwys y bobl gyffredin oedd yn byw yn yr hyn a ddaeth i fod y Fforest Newydd, gan ddisgrifio eu dioddefaint pan gipiodd Gwilym Goncwerwr a'i olynydd Gwilym Goch (Wiliam Rufus) y tir at ddefnydd y brenin ei hun.

Mwynhaodd pobl ffuglen Arnopp a dechrau gofyn iddi a oedd hi erioed wedi ysgrifennu 'llyfr Tuduraidd'. Mewn ymateb, ysgrifennodd *The Winchester Goose*, a'i osod ym mlynyddoedd olaf teyrnasiad Harri VIII. Adroddir y stori o wahanol safbwyntiau Joanie Toogood, putain o Southwark, Evelyn ac Isabella Bourne, aelodau o deulu'r frenhines, a Francis Wareham, sbïwr i Thomas Cromwell, ysgrifennydd y brenin. Dywed Arnopp fod y nofel yn cynnig persbectif newydd ar ddigwyddiadau yn nheyrnasiad Harri VIII ac yn edrych ar sut y gallai'r haenau is fod wedi edrych ar bethau. Cymaint fu llwyddiant y llyfr nes iddi ysgrifennu am gyfnod y Tuduriaid byth oddi ar hynny.

Teimla Arnopp mai mynaich yn bennaf oedd yn ysgrifennu hanes, a bod menywod yn amherthnasol i'r grŵp hwn i raddau helaeth, ac felly ni roddwyd digon o le i fenywod yn y cofnodion. Mae'n ysgrifennu o safbwynt menywod unigol, yn aml aelodau'r teulu brenhinol. Mae *A Song of Sixpence* yn adrodd hanes Elisabeth o Efrog, merch Edward IV a gwraig Harri VII , a hawlydd yr orsedd, Perkin Warbeck. Rhaid i Elisabeth ystyried ai Warbeck yw ei brawd, Rhisiart o Efrog, ac os felly, y brenin cyfreithlon. (Y sôn oedd bod Rhisiart, un o dywysogion y tŵr, wedi ei lofruddio gan ei ewythr Rhisiart III.) Mae Arnopp yn portreadu Warbeck fel y Tywysog Rhisiart go iawn, sy'n golygu bod teyrngarwch Elisabeth yn cael ei rwygo. Mae Arnopp wedi dweud, 'Mae angen i nofelydd gymryd safiad, efallai nad yw bob amser yn un rwy'n ei gredu'n bersonol, ond er mwyn y llyfr rwy'n honni ei gredu.'

Mae ei thriawd *The Beaufort Chronicles* yn olrhain bywyd mam Harri VII, y Fonesig Margaret Beaufort. Mae llyfr cyntaf y gyfres, *The Beaufort Bride* yn dechrau gyda Margaret yn priodi'n blentyn. Yn *The Beaufort Woman* mae'n hwylio ei ffordd trwy lysoedd peryglus Edward IV a Richard III. Llyfr olaf y gyfres yw *The King's Mother*; Margaret sy'n goruchwylio'r gwaith o redeg ei mab, llys Harri VII. Mae Yarde wedi dweud am y gyfres, 'Arnopp yw un o'r awduron hynny sy'n gallu gwneud i hanes

ddod yn fyw ac anadlu bywyd i gymeriadau sydd wedi bod yn farw ers tro ... Os ydych chi'n hoff o gyfnod y Tuduriaid, yn sicr dylai *The Beaufort Chronicle* fod ar eich rhestr o lyfrau i'w darllen.'

Mae Arnopp wedi ysgrifennu dwy nofel sy'n seiliedig ar wragedd Harri VIII. Mae *The Kiss of the Concubine* wedi ei hadrodd gan Anne Boleyn, tra bo *Intractable Heart* yn adrodd hanes gwraig olaf Henry, Katheryn Parr. Mae stori Katheryn yn cael ei hadrodd o bedwar safbwynt; yn ogystal â hi ei hun, yr adroddwyr yw ei phedwerydd gŵr, Thomas Seymour, a dwy o'i llys-ferched, Margaret Neville a'r ferch a fyddai'n dod yn Elisabeth I. Ar ben arall yr ysgol gymdeithasol, arwres *Sisters of Arden* yw Margery, merch amddifad sydd wedi'i magu mewn priordy. Mae'r lleianod wedi'u bwrw allan a'u gadael i ofalu amdanynt eu hunain ar ôl diddymu'r mynachlogydd ac i'r brenin gipio eu tiroedd.

Dywed Arnopp ei bod yn ysgrifennu'r math o lyfrau yr hoffai hi eu darllen. Mae llys y Tuduriaid a seice aelodau allweddol y teulu brenhinol wedi ennyn ei chwilfrydedd erioed. Mae ganddi ddiddordeb mawr mewn persbectif; gall yr un unigolyn fod yn bethau gwahanol i wahanol bobl. O'r herwydd, yn aml mae hi'n ysgrifennu gyda naratifau deuol. Meddai 'Gan fy mod i'n ysgrifennu yn y person cyntaf mae'n rhaid i mi droi i fod fy nghymeriadau, caru'r rhai maen nhw'n eu caru, casáu'r rhai maen nhw'n eu casáu, a thosturio wrth y rhai maen nhw'n tosturio wrthyn nhw.' Mae'n darllen mor eang ag y gall, er mwyn gweld y pwnc o gynifer o wahanol onglau ag y bo modd. Bydd hi'n astudio hanesyddiaeth ei chymeriadau i ddarganfod sut mae cenedlaethau olynol wedi meddwl amdanynt. Ei hoff awdur yw Hilary Mantel; meddai Arnopp, 'Rwy' wrth fy modd â sut mae hi'n cyfleu naws cyfnod, dyfnder cymeriad. Rwy hefyd yn edmygu sut mae hi'n llwyddo i dorri cynifer o reolau llenyddol heb gael ei chosbi.'

Does dim pall ar ymchwil Arnopp, er mai dim canran fach iawn o'r hyn y mae wedi'i ddysgu y bydd hi'n gallu ei chynnwys yn ei nofelau. Mae llawer o'r gwaith ymchwil yn gorgyffwrdd, ond mae angen astudio pob llyfr o'r newydd. Mae'n ymweld â'r cestyll, y trefi a'r gerddi a fydd yn lleoliadau ar gyfer ei ffuglen; mae'n darllen llenyddiaeth gyfoes. Os yw'n bosibl, bydd yn dod o hyd i bortreadau o'i chymeriadau, er mwyn astudio eu golwg a'u dillad. Mae Arnopp hyd yn oed wedi dechrau rhai hobïau, gan gynnwys brodwaith ar ddull yr Oesoedd Canol, er mwyn gweld sut y byddai ei phobl wedi treulio eu hamser. Mae hi hefyd wedi gwneud sawl gŵn Tuduraidd y bydd hi'n eu gwisgo weithiau, gan ddweud 'Dim ond pan fyddwch chi wedi cael eich lasio mewn gŵn Tuduraidd rydych chi'n sylweddoli pa mor gyfyngedig oedd symudiadau menywod bonheddig Tuduraidd.'

Dywed Arnopp am ei ffuglen, 'Rwy'n credu bod fy narllenwyr yn mwynhau fy agwedd at y gwahanol bynciau rwy wedi'u dewis; mae'r persbectif newydd rwy'n ei gyflwyno o gymeriad yn aml wedi gwneud iddyn nhw newid eu rhagdybiaethau ... Rwy'n falch dros ben o ddysgu fy mod i wedi annog rhywun i ddarllen yn ehangach ar bwnc. Pan oeddwn i'n ifanc, ffuglen hanesyddol a'm cyflwynodd i hanes a gwnaeth i mi ddymuno ei hastudio pan oedd hi'n bryd mynd i'r brifysgol... Rwy'n ysgrifennu i wneud iddyn nhw feddwl.'

**Ffynonellau**


Tudor Writing Circle (2019). Interview with Judith Arnopp. Darllenwyd 2 Hydref 2020 yn: https://tudorwritingcircle.com/2019/10/22/interview-with-judith-arnopp/

Arnopp, J. (n.d.) Historical fiction author Judith Arnopp. Darllenwyd 2 Hydref 2020 yn: https://www.judithmarnopp.com/

Arnopp, J. (2012, Tachwedd 23). The next big thing: authors tagging authors! [Postiad Blog]. Darllenwyd 2 Hydref 2020 yn: http://juditharnoppnovelist.blogspot.com/2012/

Rukia Publishing (dim dyddiad) An in depth interview with historical fiction author Judith Arnopp. Darllenwyd Hydref 2020 yn: https://www.rukiapublishing.com/an-in-depth-interview-judith-arnopp.html#

Fischer, C. (2017, 24 Mehefin). Historical Saturday: review: “The Winchester goose” gan Judith Arnopp [Postiad Blog]. Darllenwyd 2 Hydref 2020 yn: https://writerchristophfischer.wordpress.com/2017/06/24/historical-saturday-review-the-winchester-goose-by-judith-arnopp/

Yarde, M.A. (2019, 5 Ebrill). The King’s Mother: Book Three of The Beaufort Chronicles gan Judith Arnopp [Postiad Blog]. Darllenwyd 2 Hydref 2020 yn: https://maryanneyarde.blogspot.com/2019/04/bookreview-kings-mother-beaufort.html

Wertman, J. (2015, 27 Chwefror). Author interview: A Song of Sixpence, gan Judith Arnopp [Postiad Blog]. Darllenwyd 2 Hydref 2020 yn: https://janetwertman.com/2015/02/27/author-interview-a-song-of-sixpence-by-judith-arnopp/

NFReads.com (2020). Interview with author Judith Arnopp. Darllenwyd 2 Hydref 2020 yn: https://www.nfreads.com/interview-with-author-judith-arnopp/

# George Austin

Roedd George Bernard Austin (1931-2019) yn archddiacon Caerefrog, yn enwog neu'n ddrwg-enwog am ei ymlyniad pybyr wrth draddodiad ac yn ffigwr y byddai newyddiadurwyr bob amser yn troi ato pan fyddai angen dyfyniad.

Daeth Austin o Bury, Swydd Gaerhirfryn; roedd ei dad Oswald yn berchen ar siop faco. Enw ei fam oedd Evelyn. Niweidiwyd bywyd cartref Austin gan ei fam-gu ormesol, y credai ei bod yn wrach. Mynychodd Ysgol Eglwys Sant Chad ac wedyn Ysgol Uwchradd Bury, lle daeth yn gapten yr ysgol. Yn ei arddegau, dechreuodd Austin fynychu'r eglwys Anglicanaidd leol a chafodd ei gonffyrmio maes o law. Ar ôl gadael yr ysgol, ymunodd â'r Awyrlu Brenhinol ar gyfer ei wasanaeth milwrol. Fodd bynnag, dangosodd prawf meddygol fod ganddo ffurf guddiedig o'r diciâu; cafodd ei ryddhau'n gyflym.

Cyrchfan nesaf Austin oedd Coleg Dewi Sant, Llambed, lle astudiodd radd mewn athroniaeth. Soniodd am ei amser yno,

'Roeddwn i wrth fy modd yng ngorllewin Cymru ... Doedd gennych chi ddim hawl i gael unrhyw fenywod yn eich ystafell – dim hyd yn oed chwaer. Wnaeth hyn ddim rhwystro pobl rhag ymgyfathrachu â merched lleol a merched Llambed hanner gwragedd clerigol Cymru am wn i. Dysgais fod angen i mi fynd i'r offeren bob dydd a gwnaeth hyn fi'n gatholig. Gweddïodd ffrindiau efengylaidd am fy nhröedigaeth a gwnaeth hi'n fwy catholig byth. Mae arna i ddyled fawr i Gymdeithas Dewi Sant (y Gymdeithas Anglicanaidd erbyn hyn) ac rwy wedi bod yn ddiolchgar iawn am ffrindiau o'r dyddiau hynny fel Noel Jones (Esgob Sodor a Manaw erbyn hyn). Fe wnes i fy nghyffes gyntaf yno ...'

Ar ôl Llambed, aeth Austin ymlaen i Chichester i baratoi i'w ordeinio. Roedd ei swydd gyntaf, un anhapus, yn San Pedr yn Chorley, yn esgobaeth Blackburn. Yn 1957, symudodd i eglwys Sant Clement yn Notting Hill. Y flwyddyn nesaf, dyma'r tensiynau rhwng aelodau'r dosbarth gweithiol gwyn a'r boblogaeth Garibïaidd Affricanaidd newydd yn ffrwydro'n derfysgoedd. Gofynnodd y *Church Times* i Austin am erthygl 1500 gair ar ei waith yn yr ardal; hwn oedd dechrau ei gysylltiad sylweddol â'r cyfryngau. Byddai'n mynd ymlaen i greu cryn enw iddo ei hun yn ddarlledwr ac yn awdur.

Ar ôl hyn, treuliodd Austin flwyddyn yn gweithio'n gaplan ym Mhrifysgol Llundain, ond llwyddodd i gythruddo'r uwch gaplan. Wedyn, aeth yn gurad i Briordy Dunstable, lle treuliodd dair blynedd hapus. Priododd â Roberta Thompson, (Bobbie), yn 1962; gofynnodd iddi am ei llaw dim ond chwe diwrnod ar ôl eu cyfarfod cyntaf! Cawsant un mab, Jeremy. Ar ôl Dunstable, roedd ei swyddi nesaf yn Eaton Bray yn Swydd Bedford ac wedyn yn eglwys San Pedr, Bushey Heath, Swydd Hertford, lle arhosodd am ddeunaw mlynedd.



Priordy Dunstable, lle bu Austin yn gurad
Gan John Armagh – Ei waith eich hun, Parth Cyhoeddus,
https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=4973887

Yn 1970 penodwyd Austin i'r Synod Cyffredinol; daeth yn un o brif lefarwyr yr elfen Eingl-Gatholig gan ymladd brwydr hir i atal y newidiadau a oedd ar y gweill. Daeth yn un o Gomisiynwyr yr Eglwys yn 1978, yn aelod o'r Pwyllgor Sefydlog yn 1985 ac wedi hynny o Gomisiwn Penodiadau'r Goron. Fodd bynnag, pan fethodd ag ennill dyrchafiad uwch, daeth yn argyhoeddedig mai'r rheswm am hyn oedd ei wrthwynebiad i glerigwyr benywaidd a'i gondemniad o ryddfrydiaeth ddiwinyddol.

Penodwyd Austin i eglwys bentref Sant Leonard, Flamstead, Swydd Hertford yn 1988. Fodd bynnag, yn fuan wedyn, cafodd wahoddiad gan archesgob Caerefrog, John Habgood, i ddod yn archddiacon Caerefrog ac yn un o ganonau cadeirlan Caerefrog. Roedd hon yn weithred hael oherwydd dim ond ychydig o amser cyn hyn, roedd Austin wedi dweud wrth gyfwelydd teledu fod Habgood yn anaddas i fod yn archesgob Caergaint! Aeth si ar led mai ymgais i dawelu Austin oedd hon! Byddai ef a Habgood  yn parhau ar delerau da, er iddynt anghytuno'n gyhoeddus iawn o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, cynyddodd proffil cyhoeddus Austin yn syfrdanol yn sgil y penodiad newydd hwn. Dywedodd un newyddiadurwr fod 'Dod o hyd i farn gan George Austin yn debyg i ddod o hyd i waed mewn gwythïen.'

Yn 1991, pregethodd Austin bregeth yng Nghadeirlan Caerefrog lle bathodd y term 'agenda ryddfrydol'. Siaradodd am ymgais i sefydlu 'ffydd a moesoldeb arall na all byth ein bodloni.' Awgrymodd gynllun ar gyfer cyfyngu'r difrod drwy ffurfioli'r rhaniad rhwng Eglwyswyr traddodiadol a rhyddfrydol. Dywedodd Habgood fod Austin wedi'i atgoffa o'r bachgen tew yn *Pickwick Papers* Dickens a oedd yn awchu am godi braw pobl.

Roedd y penderfyniad i ordeinio menywod yn dân ar groen Austin; gwelodd hyn yn rhan o becyn rhyddfrydol, a oedd yn cynnwys hawliau cyfunrywiol, priodas pobl o'r un rhyw a'r lleihau cyffredinol ar gysyniad pechod. Credai hefyd, gan ei bod yn amhosibl i fenyw fod yn offeiriad, na allai fod gan unrhyw fenyw byth alwad i'r offeiriadaeth. Yn 1993, ychydig ar ôl i Dywysoges a Thywysoges Cymru wahanu, dywedodd wrth raglen *Today* y BBC fod y Tywysog Charles yn anaddas i fod yn frenin. 'Ar ôl torri ei addunedau priodas bron ar unwaith, sut y byddai'n gallu mynd i Abaty Westminster a thyngu addunedau'r coroni?', holodd. Y tro hwn, George Carey, archesgob Caergaint, a'i cyhuddodd ef o 'ddiwinyddiaeth megaffon'.

Mwynhaodd Austin waith yn archddiacon ac roedd yn gydwybodol wrth ymweld â'r plwyfi. Fodd bynnag, yn y pen draw, dechreuodd ei farn eithafol ymyrryd â'i gyfrifoldebau, gan fod gwahoddiadau iddo ymweld ag eglwysi wedi lleihau a theimlai'r ddau archddiacon arall na allai eu cynrychioli ar y Synod Cyffredinol. Ym mis Chwefror 1999, penderfynodd y byddai'n 'ymddeol ac yn cau ei geg.'

I ddechrau, arhosodd yn Swydd Efrog; dychwelodd i Bushey Heath yn 2010. Bu farw Austin ar 30 Ionawr 2019.

**Ffynonellau**

Obituary: the ven. George Austin. (2019, 8 Mawrth). *Church Times.* Darllenwyd yn: https://www.churchtimes.co.uk/articles/2019/8-march/gazette/obituaries/obituary-the-ven-george-austin.

Stennett, C. (2019, Chwefror 12). Yr Hybarch George Austin – pla o'r tu allan i ryddfrydwyr Eglwys Loegr a ddatganodd y Tywysog Siarl yn anaddas i fod yn brenin. *Daily Telegraph.* Cyrchwyd yn https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/1718B059A06BC248?p=UKNB [Darllenwyd 29 Ebrill 2020]

Low, R. (1999). Robbie Low: the interview. George Austin. Darllenwyd 29 Ebrill 2020, yn http://trushare.com/46MAR99/mr99lowi.htm .

Austin, Ven. George Bernard, (16 July 1931–30 Jan. 2019), Archdeacon of York, 1988–99, then Emeritus; broadcaster, writer. *WHO'S WHO & WHO WAS WHO.* Darllenwyd 4 Meh 2020, yn https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540891.001.0001/ww-9780199540884-e-6022.

The Times. (2019, February 16). The Venerable George Austin – outspoken archdeacon with a weakness for fine food who declared 'jihad' against liberals and opposed any move to modernise the Church of England. *The Times.* Darllenwyd yn https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/171A71235E7C94A8?p=UKNB

# Leslie Badham

Gwnaeth Leslie Badham gyfuno gweinidogaeth eglwysig, a oedd yn cynnwys bod yn gaplan i'r Frenhines, â darlledu ar y radio, darlithio ac ysgrifennu.

Ganwyd Leslie Stephen Ronald Badham (1908-1975) yn Cosheston, Sir Benfro; ei dad Stephen oedd prifathro'r ysgol leol. Cafodd pump o blant eu geni i'r teulu. Yn drist, bu dau ohonynt farw pan oeddent yn fabanod; wedyn, bu farw brawd a chwaer o'r ddarfodedigaeth pan oeddent yn oedolion ifanc. Y bwriad oedd y byddai'r mab wedi bod yn offeiriad; teimlodd Leslie, ei frawd iau, y dylai ef fynd i mewn i'r weinidogaeth yn ei le.

Gwnaeth Badham astudio Saesneg yng Ngholeg Dewi Sant, Llambed, ac yno, yn ystod ei flwyddyn olaf, daeth yn Uwch Ysgolhaig. Yna, dyfarnwyd iddo ysgoloriaeth i Goleg yr Iesu, Rhydychen, ac yno, astudiodd am ail radd mewn diwinyddiaeth. Ar ôl iddo gael ei ordeinio, gwnaeth weithio yn gyntaf fel curad yn Noc Penfro, ac wedyn yn Ninbych-y-pysgod. Ar ôl hynny, daeth yn ficer Walton West a Talbenny, hefyd yn Sir Benfro. Priododd Effie Garratt yn 1938; ac yn anarferol am y cyfnod hwnnw, roedd ganddi radd BSc o Ysgol Economeg Llundain. Cafodd y pâr bedwar o blant; ac yn ddiweddarach, cafodd eu mab Paul ei benodi'n bennaeth adran ac yn Athro Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol ym Mhrifysgol Cymru Llambed.

Pan ddechreuodd y rhyfel, daeth Badham yn gaplan yn y RAF. Bu farw llawer o bobl y gwnaeth ef weithio â nhw yn ystod yr ymladd. Gwnaeth caplaniaid ymgymryd â'r dasg anodd o ysgrifennu at y sawl a oedd mewn profedigaeth, a thynnu cyrff allan o ddrylliau awyrennau a chladdu'r meirw. Nid yw Paul, mab Badham, yn gwybod pwy yw ei dadau bedydd, oherwydd lladdwyd cymaint o'r rhai mwyaf tebygol. Ar ôl ymadael â'r lluoedd arfog, rhoddwyd iddo breswylfa Coleg yr Iesu yn Rotherfield Peppard, pentref yn y Chilterns, ychydig o filltiroedd i'r gorllewin o Henley-on-Thames. Fel un o breswylfeydd y coleg, yn draddodiadol, ysgolhaig byddai fel arfer wedi byw ynddi; ystyriodd Badham ei fod ef hefyd yn rhan o'r llinach honno.

Mae llyfr Badham *Verdict on Jesus* (Williams a Norgate, 1950) wedi'i seilio ar bregethau y gwnaeth ef eu rhoi yn ei eglwys blwyf. Wedyn, gwnaeth eu mireinio fel sgyrsiau i'w darlledu, cyn eu golygu eto i greu llyfr. Yn ogystal ag archwilio'r hyn a ddywedodd ac a wnaeth yr Iesu, ysgrifennodd Badham am yr effaith y mae bywyd ac addysgu'r Iesu wedi'i chael ar hyd y canrifoedd. Mae'r llyfr yn ystyried effaith gymdeithasol, ddiwylliannol, wleidyddol ac economaidd yr Iesu ar y byd. Diben yr elusen Newson Trust yw dosbarthu *Verdict on Jesus*. Gwnaeth y Parchedig S.J. Newson, un o ficeriaid blaenorol eglwys St Andrew, yn Chelsea, ymadael â'i ystâd i ddarparu copïau ar gyfer holl glerigwyr Anglicanaidd Ynysoedd Prydain, er mwyn bod ganddynt 'well ddealltwriaeth o'n Harglwydd Iesu Grist'. Yn fwy diweddar, mae'r ymddiriedolaeth hefyd wedi dechrau rhoi'r gyfrol hon i weinidogion Methodistaidd ac i weinidogion yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig. Mae'r 5$^{ed}$ argraffiad mwyaf diweddar, a gyflwynir gan ei fab Paul, yn cynnwys tair pennod newydd ar yr Iesu hanesyddol, ar theistiaeth ac athroniaeth, ac ar yr Iesu a'i le yng nghrefyddau'r byd.



Eglwys St John the Baptist, Windsor, lle'r oedd Badham yn ficer.

Yn 1958, daeth Badham yn ficer Eglwys Blwyf  Windsor. Yn 1964, fe benodwyd yn gaplan i Frenhines Elizabeth II; roedd ei ddyletswyddau yn cynnwys pregethu yng nghapel preifat y Frenhines ym Mharc Mawr Windsor. Dywedwyd bod ganddi un o gopïau cyntaf oll *Verdict on Jesus*! Mae cyhoeddiadau eraill Badham yn cynnwys *These Greatest Things*, llyfr o bregethau ar gyfer y Llu Awyr Brenhinol, a *Love Speaks from the Cross,* sy'n archwilio geiriau'r Iesu pan oedd ar y groes.

Yn 1965, cafodd Badham ganser y prostad; deng mlynedd wedyn bu farw o ganser.

**Ffynonellau**


Newsom Trust (2019). Verdict on Jesus. Adalwyd ar Fedi 22 2020 oddi wrth https://verdictonjesus.com/

Badham, Rev. Leslie (Stephen Ronald). (2007). *Who's Who & Who Was Who.* Adalwyd ar Fedi 22 2020 oddi wrth https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540891.001.0001/ww-9780199540884-e-151919?rskey=RjHjPS&result=2

P.H.S. (1995, February 6). The very man - Diary. *Times*. Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/0F9247290F48615C?p=UKNB

Wakeham-Dawson, A., Rance, E. (2020, September 15). From our archive: Sky pilots and the Battle of Britain. *Church Times.* Adalwyd ar Hydref 1 2020 oddi wrth https://www.churchtimes.co.uk/articles/2020/18-september/features/features/from-our-archive-sky-pilots-and-the-battle-of-britain

# Yr Archimandriad Barnabas

Yr Archimandriad Barnabas (1915-1996) oedd yr offeiriad Uniongred Cymraeg cyntaf ers Sgism Mawr 1054.

Enw’r Archimandriad Barnabas pan gafodd ei eni oedd Ian Hamilton Burton. Daeth o Bennal ger Machynlleth. Roedd ei dad Peter Jones Burton yn saer maen; Margaret née Latham oedd ei fam. Ian oedd yr ail o bedwar plentyn i oroesi. Cymraeg oedd ei iaith gyntaf, ac ychydig o Saesneg a fedrai yn ifanc iawn. Yn dilyn anghydfod â'r rheithor dros lanhau'r eglwys, penderfynodd ei fam fynychu capel yr Annibynwyr yn hytrach na'r eglwys, ac eithrio pan oedd ei theulu'n ymweld. Meddai Burton, 'Rhaid i mi gyfaddef ei bod hi’n gas gen i wasanaethau hir a diflas y capel a fy mod i’n caru harddwch a dirgelwch yr Eglwys.' Mynychodd ysgol y pentref, cyn llwyddo arholiad yr Ysgoloriaeth i fynd i Ysgol Ramadeg Tywyn.

Gadawodd Burton yr ysgol yn 1931, ar ôl llwyddo pum credyd mewn pynciau yn y celfyddydau ond heb unrhyw lwyddiant mewn gwyddoniaeth na mathemateg. Eisoes roedd yn grefyddol iawn. Parhaodd i astudio Lladin a Groeg gyda'i Reithor, y Parchedig Robert Davies, ac yn y pen draw dechreuodd baratoi ar gyfer ei ordeinio yn yr Eglwys yng Nghymru. Arferai hefyd helpu gyda mân swyddi o amgylch y pentref i ennill rhywfaint o arian.

Cyfarfu Burton â lleian feudwyaidd Anglicanaidd, y Chwaer Mary Fidelia, a oedd yn byw yn hen dŷ ei daid yn Llanwrin. Yn dilyn ei chyngor, ymunodd ag Urdd Anglicanaidd y Tadau Cowley yn Rhydychen, gan ddod yn ymgeisydd yno ar 7 Medi 1933. Roedd hwn yn amser ffrwythlon iddo, wrth iddo ddarllen yn helaeth a dilyn y rhaglen drylwyr o fywyd mynachaidd.

Wedi penderfynu paratoi ar gyfer cydlynu, gadawodd Burton Cowley yn anfoddog yn 1934 a dychwelyd i Bennal. I fod yn gymwys i’w dderbyn yng Ngholeg Dewi Sant, roedd angen iddo ychwanegu mathemateg at ei dystysgrif ysgol. Er mwyn cyflawni hyn, mynychodd Goleg Sant Ioan, Ystrad Meurig, gan astudio'n galed a byw cwta un filltir o adfeilion Ystrad Fflur. Llwyddodd yr arholiad mynediad ar gyfer Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, ac fe'i derbyniwyd i'r cwrs gradd mewn diwinyddiaeth yn 1935. Fel myfyriwr roedd yn aelod o Gymdeithas uchel eglwysig Dewi Sant. Cwblhaodd ei hyfforddiant ar gyfer yr offeiriadaeth yng Ngholeg Diwinyddol Trelái, cyn ei ordeinio yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Roedd ei guradiaeth gyntaf ym Mae Colwyn, yn gwasanaethu o dan y Canon Clement Thomson, offeiriad Eingl-Gatholig cymedrol. Yn 1940 symudodd i Fwcle, gan wasanaethu’n warden cyrchoedd awyr ar y cyd â'i ddyletswyddau bugeiliol. Ei swyddi nesaf oedd yn Ganon Isaf yn Eglwys Gadeiriol Bangor ac wedyn yn gurad yn y cadarnle Eingl-Gatholig eithafol yng Nglandŵr, ger Abertawe. Gydol yr adeg roedd yn dod yn fwy ac yn fwy ymwybodol o'r gwrthddywediadau a oedd ynghlwm wrth Babyddiaeth Anglicanaidd, yn ogystal â dechrau dyheu am fywyd mynachaidd. Treuliodd ychydig fisoedd gyda Chymdeithas Sant Ffransis yn Cerne Abbas, ac wedyn ymgymerodd â chyfres o swyddi byrion yn gaplan lleianod.



Mike Searle / *St Asaph Cathedral* / CC BY-SA 2.0

Yn 1949 ymunodd â’r Eglwys Gatholig; ym mis Ebrill y flwyddyn honno cafodd ei dderbyn gan dad Jeswitaidd yng nghapel East Hendred House. Ar yr adeg hon, roedd yn byw gyda'i chwaer weddw Morwenna a'i dau blentyn bach. Ar ôl gadael yr offeiriadaeth Anglicanaidd, treuliodd Burton amser yn athro ac wedyn yn ymgeisydd yn Abaty Douai ger Reading. Fodd bynnag, cafodd drafferth gydag awdurdod yr Eglwys Gatholig a methodd â theimlo'n gyfforddus ynddi. Darganfu fod Eglwys Rufain o’r tu mewn yn wahanol iawn i’w hymddangosai allanol. Dywedodd ei fod yn cael ei arwain yn anymwybodol at yr Eglwys Uniongred, ac weithiau byddai'n mynychu gwasanaethau Rwsiaidd neu Roegaidd. Gadawodd Burton yr Eglwys Gatholig, gan ailymuno â'r offeiriadaeth Anglicanaidd yn 1954.

Ym 1956, ymwelodd Burton â Pharis, lle cyfarfu â Père Denis, mynach Uniongred a ddilynai’r ddefod orllewinol. Cafodd y cyfeillgarwch ysbrydol rhwng y ddau ddyn effaith dyngedfennol ar fywyd Burton. Cawsant drafodaethau hir ar natur yr eglwys ac ar gred Denis y dylid ailgynnwys yr Eglwys Orllewinol yn yr Eglwys Uniongred. Daeth Burton i weld mai’r Eglwys Uniongred oedd parhad yr Eglwys anwahanadwy a sefydlwyd gan Grist. Yn 1960 fe'i derbyniwyd i'r Eglwys Uniongred a'i ordeinio ychydig fisoedd wedyn. Dyma pryd y cymerodd yr enw mynachaidd Barnabas. Treuliodd beth amser ym Mharis, gan adrodd defod Bened bob dydd ac ymuno â gwasanaethau Bysantaidd. Yn y pen draw, byddai’n symud o Uniongrededd yn ôl y Ddefod Orllewinol i’r Ddefod Fysantaidd.

Dychwelodd i Loegr yn 1964, gan obeithio dod o hyd i safle addas ar gyfer mynachlog. Yn 1967, darganfu ffermdy ac adeiladau wedi'u hadfer yn rhannol ym mhentref Willand, ger Cullompton yn Nyfnaint. Yno sefydlodd fynachlog y Proffwyd Sanctaidd Elias; yr oedd gan y gymuned newydd bedwar aelod. Addaswyd sied yn gapel. Roedd rhaid cymeradwyo cynlluniau i drosi'r ysgubor yn eglwys a gweddill adeiladau'r fferm yn bedair cell. Nid oedd bywyd yn hawdd, ond roedd bywyd beunyddiol y mynachlogydd yn troi o amgylch y Gwasanaeth Dwyfol a daeth pobl o bell ac agos i gael iachâd a hedd yn yr unigrwydd, y distawrwydd a’r drefn. Roedd yr Archimandriad Barnabas yn awyddus i weld plwyf Uniongred yn datblygu y tu hwnt i'r mynaich, ac yn sefydlu eglwys tŷ bach yn Combe Martin. Bellach hwn yw Plwyf Uniongred y Proffwyd Sanctaidd Elias, gydag eglwys yng Nghaerwysg yn ogystal ag yn Combe Martin.

Dymuniad yr Archimandriad Barnabas, gydol ei oes, oedd sefydlu traddodiad mynachaidd Uniongred ym Mhrydain. Symudodd yn ôl i Gymru yn 1973, gan ymgartrefu ym Melin Newydd, rhwng y Drenewydd a Llanfair Caereinion, y flwyddyn wedyn. Sefydlodd fynachlog, Mynachdy Sant Elias, mewn hen ffermdy yno. Dechreuodd bob dydd gyda Boreol Weddi a daeth i ben gyda Hwyrol Weddi a Chwmplin; cafodd yr amser yn y canol ei dorri gydag oriau Gweddi. Ochr yn ochr â hyn, treuliodd y gymuned amser ar amrywiaeth o dasgau, gan gynnwys coginio, garddio, gwneud gwaith tŷ, a derbyn ymwelwyr. Yn y 1980au, symudodd yr Archimandriad Barnabas i Aberfan, lle daeth yn ffigwr cyfarwydd yn cerdded y strydoedd yn ei hirwisg ddu. Ar ôl hyn, galwyd ef i wasanaethu yng Nghaerdydd; bu farw yno ar 14 Mawrth 1996.

**Ffynonellau**

Price, D.T.W. (1986). Archimandrite Barnabas, *Strange Pilgrimage,* (Stylite Publishing, Welshpool, 1985). *Journal of Welsh ecclesiastical history.* 3, 101-103. Cyrchwyd 7 Hydref 2020 yn: https://journals.library.wales/view/1127665/1127868/100#?cv=100&m=2&h=&c=0&s=0&manifest=https%3A%2F%

A Brief History of the Orthodox Parish of the Holy Prophet Elias in Devon, England. (2011). *Feuillet Exarchat.* 33, 2-3. Cyrchwyd 8 Hydref 2020 o http://www.exarchat.eu/IMG/pdf/English_Feuillet_exarchat_2011_march.pdf

Pike, D.E. (2016, 17 Tachwedd 17). The Chapels of Aberfan (3) The Last 50 Years [Postiad blog]. Cyrchwyd yn: http://daibach-welldigger.blogspot.com/2016/11/the-chapels-of-aberfan-3-last-50-years.html

Archimandrite Barnabas. (1985). *Strange Pilgrimage.* Welshpool: Stylite Publishing

# Yr Athro Arthur Barrett (1836-1898)

Ganwyd Arthur Barrett yn 1836 i John a Martha Richardson, a bedyddiwyd ef yn Nhyddewi, Sir Benfro. Roedd gan Barrett un brawd, John, a oedd yn ddwy flynedd yn hŷn nag ef, a bu'r teulu yn byw yn Y Cwm, Tyddewi. Roedd ei dad yn organydd ac yn athro cerddoriaeth, ond bu ef farw pan oedd Barrett yn dal i fod yn ei arddegau, gan adael Martha yn weddw ac yn dderbynnydd blwydd-dâl.

Mynychodd Barrett ysgol leol, sef Ysgol Ramadeg Tyddewi, cyn ymgofrestru yng Ngholeg Dewi Sant ym mis Chwefror 1853, pan oedd yn ddwy ar bymtheg mlwydd oed. Flwyddyn yn ddiweddarach, cafodd ei ethol ar gyfer Ysgoloriaeth Martha More, a bu ef yn fyfyriwr addawol, ond gwnaeth ymadael â Llambed cyn gorffen ei astudiaethau, gan symud i Rickmansworth, Hertfordshire, lle dechreuodd ef diwtora pedwar o blant yng nghartref clerc o'r enw Francis Houston.

Chwe blynedd wedyn, roedd Barrett wedi rhoi'r gorau i'r swydd hon ac yn byw yn Bombay, gan weithio ym Mhrifysgol Bombay a Choleg Elphinstone fel arholwr Lladin a Groeg.



*Wikimedia Commonshttps://www.flickr.com/photos/61498590@N03/7096863739*

Sefydlwyd Coleg Elphinstone yn 1827 yn dilyn penderfyniad y dylid sefydlu athrofa ar gyfer hyrwyddo addysg dan nawdd y *Bombay Native Education Society.* Casglodd trigolion Mumbai gyfanswm o Rs.2,29,636.00, er mwyn bod yr iaith Saesneg, Y Celfyddydau a Llenyddiaeth Ewrop yn cael eu haddysgu. Roedd y coleg yn rhagflaenydd i sefydlu Prifysgol Bombay, a adweinir erbyn heddiw fel Prifysgol Mumbai, lle gwnaeth Barrett hefyd addysgu. Sefydlwyd y brifysgol yn 1857, a hon oedd un o'r tair prifysgol gyntaf i gael ei sefydlu yn India, i raddau helaeth diolch i waith Syr Charles Wood, a oedd bryd hynny yn Llywydd Bwrdd Rheoli Cwmni Dwyrain India, oherwydd mae'n debyg mai ei anfoniad ef i India yn 1854 oedd y catalydd ar gyfer sefydlu llawer o ganolfannau addysg a phrifysgolion y wlad honno.

Rhestrwyd Barrett yn *The Bombay University Calendar* am y flwyddyn 1868-69 fel arholwr Lladin a Groeg. Y flwyddyn ganlynol, priododd ef â Marianne Hinsley yn Calaba, Bombay a chafodd y pâr ddau o blant, Arthur Leonard Barrett, a anwyd tua 1842, ac Unwin Sankey Barrett, a anwyd yn 1874 yn Arlywyddiaeth Bombay. Aeth Arthur Leonard ymlaen i fod yn filwr yng nghatrawd Hong Kong, a gwnaeth ymddeol yn dilyn gwasanaeth dewr yn y rhyfelgyrch Affganaidd, yn 1921. Mynychodd Unwin Brifysgol Caergrawnt cyn mynd ymlaen i fod yn Feistr Goruchaf Lys De Affrica.

Flwyddyn ar ôl genedigaeth Unwin, dychwelodd Barret am gyfnod byr i Goleg Dewi Sant i sefyll ei arholiadau BA, cyn mynd yn ôl i India a'i swydd yn y Brifysgol. Erbyn cyhoeddiad *College Calendar* 1884-54, roedd Barrett wedi cael ei benodi'n Gymrawd Prifysgol Bombay ac yn gweithio fel darlithydd yng nghyfadran y Celfyddydau; restrir ef fel 'Arthur Barrett, BA Lampeter, and Professor of English Literature'. Flwyddyn yn ddiweddarach, roedd Barrett yn dal i fod yn Athro Llenyddiaeth Saesneg, ond hefyd yn athro gweithredol yn y 'Deccan College', y trydydd hynaf athrofa yn India, a sefydlwyd yn 1821 gan Lywodraethwr Mountstuart Elphinstone fel athrofa ôl-raddedig ac ymchwil. Addysgodd Barrett yno fel athro gweithredol am yr ychydig flynyddoedd nesaf, ond yn 1887-88, gwnaeth newid o addysgu Saesneg i fod yn athro gweithredol Rhesymeg ac Athroniaeth. Yn ogystal â'i ddyletswyddau yn y brifysgol, gwnaeth Barrett, yn 1888, olygu fersiwn o *The Traveller and the Deserted Village.*

Tua 1896, gwnaeth Barrett ymddeol, a symudodd ef a Marianne i Benrhyn Gobaith Da, De Affrica, lle yr oedd Unwin wedi byw ers 1892. Bu farw Barrett yn Queenstown ar Orffennaf 26 1898, yn ddwy a thrigain mlwydd oed. Nodwyd yn ei goflith ei fod wedi treulio

> 'more than thirty years in India, holding various honourable and responsible positions in the Educational Department of the Bombay Presidency. He retired from the service about two years ago and has since lived in Queenstown, where he secured the affection and respect of all who knew him.'

Ysgrifennwyd gan Thomason, K. 'The 'Second Alumnus' Prof. Arthur Barrett (1836-1898)', *The Link (LXXIV),* Haf 2019. Adalwyd oddi wrth https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/alumni/lampeter-society/the-link-summer2019.pdf

# David Daniel Bartlett



Roedd David Daniel Bartlett (1900-1977) yn aelod o Goleg Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan fel myfyriwr, darlithydd ac yna fel athro. Yna, gwasanaethodd fel Esgob Llanelwy am ugain mlynedd olaf ei fywyd gwaith.

Roedd Bartlett yn fab i'r teiliwr, Thomas Bartlett, a'i wraig, Mary Anne. Yn frodor o Gaerfyrddin, cafodd ei fedyddio yn Eglwys San Pedr, Caerfyrddin. Mynychodd Ysgol Ramadeg y Frenhines Elisabeth yn y dref. Dywedir iddo fod yn fyfyriwr yng Ngholeg Dewi Sant ac yntau ond yn 16 mlwydd oed. Daeth yn ysgolhaig ac uwch ysgolhaig ar yr Eglwys yng Nghymru rhwng 1919 a 1920. Fodd bynnag, roedd hefyd yn chwarae rygbi dros y coleg. Ar ôl graddio o Lanbedr Pont Steffan gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Diwinyddiaeth, aeth i astudio ymhellach i St John's College, Rhydychen. Yn Rhydychen, daeth yn ysgolhaig Casberd gan ennill gradd dosbarth cyntaf unwaith eto mewn Diwinyddiaeth. Ag yntau ond yn ei hugeiniau cynnar, dychwelodd i Lambed yn 1923 a daeth yn ddarlithydd mewn Diwinyddiaeth. Cafodd ei ordeinio yn ddiacon ac yna yn offeiriad yn yr un flwyddyn yn 1924. Dilynodd gwrs Meistr yn 1926 cyn derbyn BD yn Llanbedr Pont Steffan yn 1930. Cyfrannodd bennod ar lyfr Numeri o'r Hen Destament i'r llyfr *New Commentary on Holy Scripture*, a olygwyd gan Charles Gore.

Yn 1931, symudodd Bartlett i fod yn offeiriad ar gyfer y plwyf heriol o Ddoc Penfro, Trefonnen ac Upton. Dywedodd *St David's College Magazine,* "Mae Doc Penfro yn blwyf pwysig iawn, nid oedd modd dewis deiliad gwell ac rydym yn sicr y bydd y plwyf yn ffynnu o dan ei arweiniad. Yn y ddarlithfa, rydym bob amser yn gwerthfawrogi trylwyredd Mr Bartlett wrth iddo esbonio problemau anodd, megis y damcaniaethau Galatian o'r gogledd a'r de! Un o'r rhesymau dros ei lwyddiant fel darlithydd yw ei onestrwydd wrth ddelio ag unrhyw gwestiynau mae ei ddosbarth yn dymuno eu trafod."

Yn 1938, daeth Bartlett yn gaplan arholi ar gyfer Esgob Tyddewi, gan arholi ymgeiswyr i'w ordeinio a chynghori'r esgob ynghylch eu haddasrwydd. Yn ystod y rhyfel, daeth yn gaplan gweinyddol i'r sefydliadau milwrol a oedd wedi'u lleoli yn ei blwyf. Arhosodd yn Noc Penfro tan 1946, pan ddychwelodd i Lanbedr Pont Steffan i ddod yn Athro Hebraeg a Diwinyddiaeth yn dilyn cyfnod A E Morris. Roedd yn weithgar iawn yn y coleg, yn gaplan i Fudiad Cristnogol y Myfyrwyr, yn aelod o gangen Llanbedr Pont Steffan o Toc H ac yn gefnogwr brwd o'r holl glybiau chwaraeon. Dywedwyd

amdano, "Yr enghraifft berffaith o ostyngeiddrwydd, duwioldeb ac ysgolheictod gyda'r arweiniad gorau y gallem ofyn amdano."

Arhosodd Bartlett yng Ngholeg Dewi Sant am bedair blynedd cyn cael ei ethol yn Esgob Llanelwy. Cynhaliwyd ei wasanaeth cysegru yn Eglwys Gadeiriol Aberhonddu ar 21 Medi 1950. Cedwir copi o drefn y gwasanaeth yn archifau Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Roedd ei frawd hynaf, Canon A J Bartlett i fod i bregethu ond yn anffodus, bu farw ei frawd ychydig ddyddiau yn unig cyn y gwasanaeth.

Roedd Bartlett yn dibynnu ar ddylanwad bugeiliol, yn hytrach na grym ei swydd. Disgrifiwyd ei ddiddordeb ym mywydau ei offeiriaid a'u leygwyr yn "syfrdanol". Roedd ganddo agwedd addfwyn a thyner at fywyd gan fwrw ymlaen yn dawel gyda'i waith. Byddai'n aml yn meddwl am gwestiwn o bob ongl, cyn dod i farn arno. Roedd yn gyfaill mynwesol i'r Archesgob Morris, ei gyn-gydweithiwr yng Ngholeg Dewi Sant. Hefyd, roedd yn aml yn cael ei ddewis fel yr esgob i gynrychioli Cymru ar y cynghorau canolig o fewn yr Eglwys yn Lloegr. Arhosodd Bartlett yn Llanelwy nes ei ymddeoliad ar ddiwedd 1970. Derbyniodd ddoethuriaeth er anrhydedd gan Brifysgol Cymru ym 1971. Roedd hefyd yn aelod o gyngor Coleg Prifysgol Dewi Sant.

Bu Bartlett farw ar ddydd Sul y Pasg yn 1977 Awst, a chynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy ar 15 Ebrill gan adael ei wraig, Lali a'i fab, John. Dywedwyd ei fod yn ddyn a oedd yn ymddwyn yn anrhydeddus, yn ddibynadwy, yn ddiymhongar ac fel un oedd yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

**Ffynonellau**


Bartlett, Y Gwir Barchedig David Daniel. (2007). Yn: *Who's Who.* Cyrchwyd ar 27 Tachwedd 2020 o https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540891.001.0001/ww-9780199540884-e-152074?rskey=tFcWi2&result=1

Price, D.T.W. (1990). *A history of Saint David's College Lampeter. Volume two: 1898-1971.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Peart-Binns, J.S. (2004). *Martinet and shepherd:* John Morgan (1886-1957), Archesgob Cymru. *Journal of Welsh religious history. N.S. 4*,41-64. Cyrchwyd ar 27 Tachwedd 2020 o https://journals.library.wales/view/1164385/1165777/48#?xywh=-1715%2C-453%2C5860%2C3583

Peart-Binns, J.S. (1985). *Arglwydd Archesgob Cymru. Alfred Edwin Morris – election and aftermath. The Journal of Welsh Ecclesiastical History, 2,*55-86. Cyrchwyd ar 1 Ebrill 2021 ohttps://journals.library.wales/view/1127665/1127759/60#?xywh=-846%2C21%2C4456%2C2294

An appreciation. (1931). *St David's College Magazine, N.S. 12*(2), 46-47

Williams, K.H. (1951). *The Lord Bishop of St Asaph. Gateway, N.S. 5*,2-3

Peart-Binns, J.S. (1990). *Alfred Edwin Morris Archbishop of Wales.* Llandysul: Gomer

Prifysgol Cymru (1971). *Gwasanaeth arbennig gan Brifysgol Cymru ar gyfer derbyn graddedigion i raddau anrhydeddus a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 1971 yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, i ddathlu achlysur corffori Coleg Prifysgol Dewi Sant yn un o sefydliadau cyfansoddol Prifysgol Cymru. Addresses of presentation.* [Llanbedr Pont Steffan: Coleg Prifysgol Dewi Sant]

# John Dudley Bartlett

Roedd John Dudley Bartlett (1907-1967) yn chwaraewr rygbi rhyngwladol i Gymru, a aeth wedyn yn gaplan yn y llynges.

Ganwyd Bartlett ar 6 Awst 1907 yng Nghaerfyrddin, yn fab i John ac Elizabeth Anne Bartlett. Yn ôl cyfrifiad 1911 galwedigaeth ei dad oedd rheolwr argraffwr. Cafodd John y mab ei addysg yn Ysgol Coleg Dewi Sant, Llambed, ac wedyn yng Ngholeg Llanymddyfri. Tra oedd yn Llanymddyfri, enillodd gap Ysgolion Cymru fel asgellwr. Wedyn aeth i Goleg yr Iesu, Caergrawnt. Ni chafodd gynrychioli Prifysgol Caergrawnt mewn rygbi; fodd bynnag, erbyn tymor 1926-27, roedd yn chwarae'n rheolaidd i Lanelli.

Fe'i dewiswyd i dîm Cymru i wynebu'r Alban ar 5 Chwefror 1927 ym Mharc yr Arfau, Caerdydd. Yn ôl y sylw ym mhapur newydd y *Times,* roedd ei ddewis yn arwydd bod 'the Selectors are quite frankly out to make experiments with young players of a new type.' Fodd bynnag, disgrifiwyd amodau'r gêm fel a ganlyn 'about as bad as could be imagined … although the playing field, greatly improved by drainage, was not actually waterlogged, the mud churned up into a black paste …' Cafodd Cymru ei threchu, gan golli o bum pwynt i ddim. Yn ôl y *Times,* roedd Bartlett wedi taclo W.M. Simmers, trichwarterwr yr Alban, yn dda. Yn ôl disgrifiad y *Guardian,* gwnaeth 'excellent work against Simmers'. Fodd bynnag, gwastraffodd gyfle da i sgorio, gydag ymgais aflwyddiannus at gôl adlam.

Ni chwaraeodd Bartlett i Gymru eto yn y tymor hwnnw. Am y tymor nesaf, gadawodd Lanelli ar gyfer Cymry Llundain. Roedd ei gêm ryngwladol nesaf yn erbyn Lloegr, ar gae Sain Helen Abertawe, ar 21 Ionawr 1928. Yn ôl disgrifiad *y Times* nid oedd yn ddigon cyflym, ond yn ôl y *Guardian* roedd yn eithaf da. Hefyd sgoriodd gais, a oedd yn ganlyniad i 'a splendidly swift forward rush.' Fodd bynnag, trechwyd Cymru gan Loegr o ddeg pwynt i wyth.

Roedd gêm nesaf Cymru yn erbyn yr Alban ym Murrayfield ar 4 Chwefror 1928. Y tro hwn roedd Bartlett ar yr ochr fuddugol. Enillodd Cymru o dri phwynt ar ddeg i ddim, eu buddugoliaeth gyntaf yn yr Alban er 1913. Er y dewiswyd Bartlett i chwarae yn y gêm nesaf yn erbyn Iwerddon, bu'n rhaid iddo dynnu'n ôl oherwydd anaf. Ni fyddai'n chwarae rygbi rhyngwladol eto.

Ym mis Hydref 1929, dychwelodd Bartlett i Lambed i astudio fel myfyriwr ôl-raddedig yng Ngholeg Dewi Sant. Bu'n rhan o'r tîm rygbi a orchfygodd Goleg Prifysgol Aberystwyth am y tro cyntaf er nifer mawr o flynyddoedd. Yn ôl cylchgrawn y coleg, 'J.D. Bartlett, who returned after a long absence due to knee trouble, can be said to have won the game with his strong running.' Fe'i hordeiniwyd yn ddiacon yn 1930 ac yn offeiriad yn 1931. Ar ôl treulio pedair blynedd yn gurad yn Eglwys y Santes Fair, Aberteifi, ymrestrodd yn gaplan yn y Llynges Frenhinol. Ei long gyntaf oedd y criwser trwm, HMS Devonshire. Dros y blynyddoedd, gwasanaethodd ar amryw o longau, gan dreulio'r Ail Ryfel Byd ar HMS Cochrane yn gyntaf ac wedyn gyda Gwasanaeth Patrôl y Llynges Frenhinol. Nesaf gweithiodd mewn nifer o gyfleusterau ar y lan, gan gynnwys HMS Terror a HMS Vernon. Yn 1954, aeth yn ôl ar yr môr, ar y criwser dosbarth Dido, HMS Cleopatra, gan symud i HMS Vanguard yn 1956. O 1959 ymlaen gwasanaethodd Bartlett ar HMS Dryad, cartref Ysgol Rhyfela Arforol y Llynges Frenhinol.

Bu farw Bartlett ar Ynys Hayling ar 17 Ionawr 1967. Gadawodd weddw, Elizabeth.

**Ffynonellau**

Walters, S. (2016). *The fighting parsons: the role of St David's College, Lampeter, in the early development of rugby football in Wales.* Caerfyrddin: Canolfan Peniarth

*150 Llambed man geni rygbi yng Nghymru = Lampeter the birthplace of Welsh rugby.* [Llambed]: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Rugby football. Today's international match. (5 February 1927). *The Times* 5. Adalwyd 21 Hydref 2021 o https://go.gale.com/ps/retrieve.do?tabID=Newspapers&resultListType=RESULT_LIST&searchResultsType=SingleTab&hitCount=27&searchType=AdvancedSearchForm&currentPosition=9&docId=GALE%7CCS84089925&docType=Sports+news&sort=Pub+Date+Forward+Chron&contentSegment=ZTMA-MOD1&prodId=TTDA&pageNum=1&contentSet=GALE%7CCS84089925&searchId=R7&userGroupName=nlw_ttda&inPS=true

Rugby football. Scotland's victory in the mud. (7 February 1927). *The Times* 6. Adalwyd 21 Hydref 2021 o https://go.gale.com/ps/retrieve.do?tabID=Newspapers&resultListType=RESULT_LIST&searchResultsType=SingleTab&hitCount=27&searchType=AdvancedSearchForm&currentPosition=10&docId=GALE%7CCS100867143&docType=Sports+news&sort=Pub+Date+Forward+Chron&contentSegment=ZTMA-MOD1&prodId=TTDA&pageNum=1&contentSet=GALE%7CCS100867143&searchId=R7&userGroupName=nlw_ttda&inPS=true

Wales disappoint at Cardiff. (7 February 1927). *The Manchester Guardian* 4. Adalwyd 21 Hydref 2021 o https://www.proquest.com/hnpguardianobserver/docview/477341352/4DF232701B014A69PQ/1?accountid=12799

Rugby football. England's lucky victory. (23 January 1928). *The Times* 5. Adalwyd 21 Hydref 2021 o https://go.gale.com/ps/retrieve.do?tabID=Newspapers&resultListType=RESULT_LIST&searchResultsType=SingleTab&hitCount=65&searchType=AdvancedSearchForm&currentPosition=29&docId=GALE%7CCS84090423&docType=Sports+news&sort=Pub+Date+Forward+Chron&contentSegment=ZTMA-MOD1&prodId=TTDA&pageNum=2&contentSet=GALE%7CCS84090423&searchId=R12&userGroupName=nlw_ttda&inPS=true

Yesterday's rugby games. England wins again. (23 January 1928). *The Observer* 24. Adalwyd 21 Hydref 2021 o https://www.proquest.com/hnpguardianobserver/docview/481206178/F104163D0A12445DPQ/3?accountid=12799

Rugby football club. (1930). *St David's College magazine, 12*(9),24

# Ian Barton



Roedd Ian Barton (1926-2011) yn ddarlithydd clasuron yng Ngholeg Dewi Sant, lle y bu'n gweithio am gyfnod hir; yn ogystal, gwnaeth ennill y sioe gwis radio, *Brain of Britain,* a daeth yn ail yn y gyfres *Mastermind.*

Roedd Barton yn fab i glerigwr, yr Hybarch H. Douglas Barton. Ganwyd ef yn Abertawe, ond gwnaeth fynychu Coleg Marlborough cyn gwneud ei wasanaeth milwrol. Yna, fel ei dad a'i frodyr Peter a Michael cyn ef, aeth i Goleg Corpus Christi (Coleg Corff Crist), Caergrawnt. Yn academaidd-ddawnus, roedd yn Ysgolhaig Sylfaenol yng Ngholeg Corpus Christi yn ogystal â bod yn Ysgolhaig Porson y Brifysgol. Enillodd radd Dosbarth Cyntaf yn y Clasuron a Diploma mewn Archaeoleg Glasurol.

Swyddi academaidd cyntaf Barton oedd ym Mhrifysgol Keele, ac yna ym Mhrifysgol Y Traeth Aur (Prifysgol Ghana erbyn hyn). Yn 1962, penodwyd ef yn ddarlithydd yn y clasuron yng Ngholeg Dewi Sant; dyrchafwyd ef yn uwch ddarlithydd yn 1972. Ddwywaith bu'n bennaeth gweithredol yr Adran Clasuron, a gwnaeth weithio'n ddi-baid fel Deon Cyfadran y Celfyddydau, gan ddechrau yn 1975.

Arbenigedd penodol Barton oedd pensaernïaeth Rufeinig. Bu'n olygydd dau lyfr yn y gyfres Exeter Studies in History, ar gyfer disgyblion yn y chweched dosbarth a myfyrwyr israddedig. Disgrifiodd Freed *Roman public buildings* (Gwasg Prifysgol Exeter, 1989) yn gyfrol fechan sy'n ymdrin â llawer o wybodaeth hanfodol. Ym marn McWhirr, roedd pennod Barton ei hun ar adeiladau crefyddol yn grynodeb da o bwnc cymhleth. Meddai Moorman fod *Roman domestic buildings* (Gwasg Prifysgol Exeter, 1996) yn darparu 'a sound introduction into the study of various forms of living in both the Roman city and the countryside.'

Roedd gwybodaeth gyffredinol Barton yn enfawr, ac oherwydd hynny, roedd yn gystadleuydd rhagorol ar gyfer sioeau cwis y BBC. Yn 1963, enillodd gyfres y gystadleuaeth radio *Brain of Britain,* (a oedd bryd hynny yn rhan o *What Do You Know?*). Yn 1981, daeth yn ail yng nghystadleuaeth derfynol *Mastermind,* gan golli oherwydd dau bwynt yn unig. Dewisodd fel ei bynciau arbenigol Ymerawdwyr Rhufeinig y ganrif gyntaf a'r ail ganrif Oed Crist ar gyfer ei gystadleuaeth ragbrofol a Phensaernïaeth Glasurol Rufeinig a Groegaidd ar gyfer y gystadleuaeth gynderfynol. Gwnaeth Barton gystadlu eto yng nghyfres 1995.

Gwnaeth Barton hefyd hyfforddi tîm Coleg Dewi Sant ar gyfer *University Challenge*. Ystyriwyd y gystadleuaeth hon yn bwysig iawn; dewisodd Barton y cystadleuwyr drwy ddosbarthu cwis gwybodaeth gyffredinol a oedd yn cynnwys 120 o gwestiynau! (Yn 1985, cyflwynodd 20 o gwestiynau nad oedd neb o'r myfyrwyr wedi gallu eu hateb yn gywir, i'r clwb Mastermind!). Roedd timau Coleg Dewi Sant yn llwyddiannus; cyrhaeddodd timau Llambed gystadlaethau cynderfynol cyfresi 1965-66 a 1980-81. Yn 1965, maeddodd Llambed dimau Coleg Penfro Caergrawnt, Coleg Exeter Rhydychen, Coleg Corpus Christi Caergrawnt a Choleg Madlen Caergrawnt. Gwnaeth *The Bulletin of the Lampeter Society* dynnu sylw at y ffaith bod 'This I.T.V. game has given Lampeter more publicity than money could buy.'

Roedd Barton yn weithredol wleidyddol; gwnaeth wasanaethu ar bwyllgor Archif Wleidyddol Llyfrgell Genedlaethol Cymru fel cynrychiolydd y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru. Mynychodd eglwys San Pedr, Llambed am bron hanner can mlynedd. Ar ymddeol, daeth yn Ddarllenydd Lleyg, gan gymryd gwasanaethau hyd yn oed pan oedd yn ei wythdegau.

Priododd Barton Cecilia Phyllis Green yn 1953; cafodd ef a Cecilia ddau fab a dwy ferch. Bu farw ar Fawrth 13 March 2011. Claddwyd ef ym mynwent Eglwys San Pedr.

**Ffynonellau**

In memoriam (2011). *The Letter. 90,*119-120. Adalwyd ar Ionawr 8 2021 oddi wrth https://www.corpus.cam.ac.uk/sites/default/files/images/Development%20Office/The%20letter/Letter_No_90_2011.pdf

Moormann, E. (1999). [Review of the book *Roman domestic buildings,* edited by I.M. Barton] *Mnemosyne, 52*(1), fourth series, 126-127. Adalwyd ar Ionawr 8 2021 oddi wrth http://www.jstor.org/stable/4432940

Freed, J. (1990). [Review of the book *Roman public buildings,* edited by I.M. Barton] *Phoenix 44*(4),400-401. Adalwyd ar Ionawr 11 2021 oddi wrth https://www-jstor-org.ezproxy.uwtsd.ac.uk/stable/1088818?sid=primo&origin=crossref&seq=1#metadata_info_tab_contents

McWhirr, A.D. (1991). [Review of the book *Roman public buildings,* edited by I.M. Barton] *Urban History, 18,* 173-174. https://doi.org/10.1017/S0963926800016060

Obituaries (2011). *Cylchlythyr yr Archif Wleidyddol Gymreig = The Welsh Political Archive newsletter. 42,*5. Adalwyd ar Ionawr 11 2021 oddi wrth https://www.library.wales/fileadmin/fileadmin/docs_gwefan/casgliadau/archifau/archif_wleidyddol/cylchlythyr_awg/saesneg/cylch_awg_42.pdf

Fuller, G. (2012). Membership matters. *Pass: the quarterly magazine of the Mastermind Club. 2012*(1),1. Adalwyd ar Ionawr 11 2021 oddi wrth file:///C:/Users/Ruth%20Gooding/Downloads/PASS+2012+1.pdf

Barton, I.M. (1985). A quiz from Lampeter. *Pass: the bi-monthly magazine of the Mastermind Club. 7*(2),21-22. Adalwyd ar Ionawr 11 2021 oddi wrth file:///C:/Users/Ruth%20Gooding/Downloads/PASS%201985%202%20(5).pdf

University Challenge (1966). *The Bulletin of the Lampeter Society, 19,*10-11.

## Y Parchedig Willoughby Bean (1801-1877)

Bedyddiwyd Willoughby Bean yn eglwys St Mary Abbots, Kensington, yn 1801. Yn fab i Willoughby ac Elizabeth, roedd ganddo ddeg sibling, Elizabeth, Harriet, John, Charlotte, Henry, Henrietta, Alexander, Anne, Susan a Maria. Roedd eu tad, a oedd yn uwchgapten yn y Gwarchodlu Coldstream, wedi cael ei ddal gan y Ffrancwyr yn ystod rhyfeloedd Napoleon, a gorfodwyd iddo dreulio gweddill y rhyfel, gyda'i deulu, yn Amboise, Ffrainc.

Dychwelodd y teulu i Loegr, lle gwnaeth Bean gwblhau ei addysg, ond, ar gyrraedd dwy ar hugain mlwydd oed, gwnaeth ymfudo i Awstralia ar long o'r enw *Courier.* Darparwyd pob dim ar gyfer sicrhau bod dyfodol Bean yn llwyddiannus, pan, ym mis Mai 1823, gwnaeth ei enw ymddangos yn y *Colonial Secretaries Notices of the Institution to Issue Deeds.* Gwnaeth y cyhoeddiad hwnnw ddatgan y byddai Bean yn cael rhyw ddau fil erw o dir yn Brisbane Water. Cafodd hyn ei ddilyn gan lythyr wedi'i ddyddio Mehefin 7 1823, a anfonwyd ar ran Bean at lywodraeth De Cymru Newydd, yn argymell y dylid ystyried ef yn ymsefydlwr rhydd a rhoi rhodd o dir i'w amaethu iddo pan fyddai'n cyrraedd. Byddai'r darn o dir hwnnw wedi'i leoli yn Brisbane Water:

> '…a line west one hundred and forty five chains fifty links to the North East…of Weavers farm commencing at Tarragut Lagoon, and a continued West line eighty nine chains fifty links of Weavers North Boundary; on the West by a line North eighty chains; on the North by a line East to the sea coast, and on all other sides by the sea coast.'

Cyrhaeddodd Bean Sydney yn gynnar yn 1824, a dechreuodd weithio ar unwaith, gan ofyn ym mis Chwefror am ganiatâd i ddefnyddio nifer o droseddwyr i weithio ar ei anheddiad a'i amaethu. Wedi dod yn dirfeddiannwr a ffermwr llwyddiannus, penodwyd Bean yn Ynad yr Heddlu cyntaf  Gosford, swydd y gwnaeth ef ei dal am y pum mlynedd nesaf, ac un a fyddai wedi rhoi bri, grym a chyfoeth iddo yn y gymuned. Fel Ynad yr Heddlu, ei brif ddyletswyddau oedd 'to sit on a bench listening to, and adjudicating upon, the numerous cases brought before him by the extraordinary litigious settlers of Brisbane Water.' (*The Brisbane Water Case 1837-1838*, Gosford District Local History Study Group, 1989). Roedd y rôl hon yn 'difficult office that he handled without help [and] he kept registers and wrote all his own official correspondence.' (*ibid)*

Roedd Bean wedi dod yn gymeriad lled bwysig yn yr ardal leol, ac yn 1828, ymaelododd ef â'r Australian Social Lodge, y drydedd Gyfrinfa Fasonaidd i gael eu sefydlu'n wreiddiol yn Sydney yn 1816. Erbyn i Bean gael ei dderbyn, roedd gan y Gyfrinfa hon tua naw deg o aelodau, gan gynnwys unigolion a oedd yn ymwneud â'r lluoedd arfog, neu a oedd, er enghraifft, i wahanol raddau, yn ymwneud â masnach, pensaernïaeth, meddygaeth neu wleidyddiaeth.

Roedd aelodaeth Bean yn adlewyrchu ei statws a'r swydd a oedd ganddo fel Ynad yr Heddlu, ac, er anfonwyd rhai o'r aelodau yn wreiddiol i Awstralia fel troseddwyr, roedden nhw hefyd, erbyn hyn, ymhlith y da eu ffawd, naill ai fel unigolion, entrepreneuriaid neu ddynion busnes.

Gwnaeth dyletswyddau Bean fel Ynad yr Heddlu ei gadw'n brysur, ac roedd llawer o anghydfodau'r anheddwyr yn ymwneud â'r brif ffynhonnell incwm leol, sef gwartheg, pe bai hynny'n ymwneud â phwy oedd yn eu perchen, eu gwerthu a'u prynu, neu wedi'u dwyn, neu hawliau pori eu perchnogion. Oherwydd prinder ffiniau pendant ac ehangder yr ardaloedd gwledig, yn ogystal â diffyg goruchwyliaeth a'r nifer mawr o droseddwyr a oedd yn gweithio ar y tir, roedd yr amgylchedd yn addas ar gyfer gweithgareddau anghyfreithlon helaeth.
Yn eironig, cafodd Bean ei hun ei ddal yng nghanol un achos o'r fath, ac yn 1837-1838, cyhuddwyd ef o'r union drosedd y byddai ef fel arfer yn ceisio ei datrys ar ran eraill. Yn ôl yn 1831, roedd Bean wedi ymddiswyddo fel Ynad yr Heddlu oherwydd methdaliad, am fod dyletswyddau ei swydd i raddau wedi ei orfodi i esgeuluso ei fuddiannau ef ei hun. Wedi gwerthu ei diroedd ei hun, gwnaeth ef wedyn reoli tiroedd pobl o'r tu allan ar eu rhan. Erbyn 1837, roedd Bean wedi prynu'n gyfreithlon buches o wartheg iddo ef ei hun, ond cyhuddwyd ef, yn ogystal â nifer o 'gyd-droseddwyr' o ddwyn gwartheg. Roedd Bean yn fethdalwr, ac roedd y sawl a gafodd eu cyhuddo gydag ef yn ddrwg-enwog am fod yn 'riddled with mortgage debts, very difficult, mad and perverse trouble makers' (*ibid*). Y prif gyhuddiad yn erbyn Bean a'i gyd-ddiffynyddion yn un o'r 'Brisbane Water Cases' 1837-38 oedd lladd un 'aged, nondescript, one-eyed cow' o'r enw Blindberry a oedd yn pori padogau di-ffens, agored llyn Tuggerah Beach. Roedd anghydfod wedi codi ynglŷn â phwy oedd yn berchen y fuwch, a lladdwyd hi gan un Henry Donnison, a oedd wedi ei phrynu oddi wrth John Moore, a oedd, yn ei dro, wedi prynu'n wreiddiol ei fuches o wartheg oddi wrth Bean.

Er gwaethaf y ffaith bod y tri a gyhuddwyd yn perthyn i'r gwŷr mawr, rhoddwyd Bean, Donnison a Moore mewn cadwynau a'u carcharu gan Ynad yr Heddlu newydd, Alured Tasker Faunce. Fe'u hanfonwyd i garchar Sydney ar Ionawr 27 1837 i aros am y treial, ond yr wythnos wedyn, cafodd y tri ohonynt eu rhyddfarnu a'u rhyddhau heb eu ceryddu. Mae'n debyg mai pwrpas yr achos cyfan oedd bod Llywodraethwr Bourke am ddangos i bawb ei fod ef yn bwriadu glanhau'r ardal a datgelu'r gwir am ynadon llygredig. Er hynny, nodwyd bod Bean, fel ynad ac unigolyn, yn 'respected man of integrity' (*ibid*).

Ym mis Gorffennaf 1838, priododd Bean â Harriet Battley, merch yr Is-gyrnol William Battley, aelod o'r 60$^{fed}$ Reifflwyr, a oedd yn frawd i Thomas Cade Battley, un o anheddwyr cynnar De Cymru Newydd. Unwaith oedd yr achos llys heibio, ymadawodd Bean â'r ardal, a symudodd i Banks Meadow i ffermio, ond unwaith eto, gwnaethpwyd ef yn fethdalwr, ac yn 1844, ymadawodd ef ag Awstralia am Brydain gyda'i wraig a'i ddau blentyn, Harriet a Willoughby. Ar gyrraedd ym Mhrydain, astudiodd Bean am y weinidogaeth yng Ngholeg Dewi Sant, Llambed. Cyrhaeddodd ef y coleg ym mis Hydref 1844, gan ymadael eto bron tair blynedd yn ddiweddarach, ym mis Mehefin 1847. Ganwyd ei drydydd plentyn, Henry, yn Llambed ym mis Mai 1847.

Wedi'i ordeinio yn Llundain ym mis Hydref 1847, dychwelodd y teulu i Awstralia, gan gyrraedd Port Phillip ym mis Ionawr 1848. Ordeiniwyd Willoughby yn ddiacon yn eglwys St James, rhan o Eglwys Loegr, ym Melbourne, ac fe anfonwyd ef i Williamstown, ond yn fuan, rhoddwyd comisiwn newydd iddo, un y gwnaeth Willoughby ymgymryd ag ef ar unwaith. Byddai rhaid i Bean deithio i Gippisland, rhywle nad oedd hi'n bosibl ei gyrraedd bryd hynny

heblaw mewn cwch. Dechreuodd ef a'i deulu ifanc hwylio ym mis Tachwedd 1848 mewn llong fechan o'r enw *Colina*. Nododd Bean bod y 'twenty-one souls aboard…were pressed into a space less than my family and I occupied on the *Stag* from England' [ond] 'after a dreadfully uncomfortable night…offensive from the smell of bilge water they headed up the coast at a good speed.' Ond fore trannoeth, sylweddolodd ef eu bod nhw'n 'driving behind a terrible gale with such thick mist and gusty rain that we could scarcely see from end to end of the vessel.' Parhaodd y storm am naw diwrnod arall, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, collwyd yr angorion a chafodd y llong bron ei dryllio. Pan wnaeth Bean gyrraedd Gippisland, a leolir rhwng trefgorddau Alberton a Tarraville, sefydlodd eglwys, ysgol a phersondy yno.

Bean oedd Gweinidog Anglicanaidd parhaol cyntaf Gippisland, ac fe weithiodd yno am y deng mlynedd nesaf. Ar ôl ymadael â'r persondy yn 1859, cymerodd Bean swydd fel Periglor ardal Tarraville ac, yn 1862, penodwyd ef yn Weinidog Gweinyddol ardal Inverleigh, swydd y gwnaeth ef ei dal tan 1867. Yna, penodwyd Bean yn Gaplan Gwallgofdy Victoria, lle gwnaeth ef weinidogaethu am yr wyth mlynedd nesaf. Bu farw ef yn 1877, yn Victoria, yn un ar bymtheg a thrigain mlwydd oed.

Disgrifiwyd ef gan un a oedd yn ei adnabod fel a ganlyn: '*strongly-built, below average height, careful and methodical, humble-minded but not a great orator. A man of culture, he was considered by Bishop Perry to be the best Greek Scholar in the diocese, and with his French background, he was quite able to conduct a service in French including the sermon…Bean was known to have a liking for brandy, port and curries, and long after the Oyster beds had gone from Port Albert, it was said that Parson Bean knew where to get himself a bagful'.*

Ysgrifennwyd gan Kyle Thomason, cyhoeddwyd yn *The Link,* 2021

## Chris Bendon

Roedd Chris Bendon yn fardd ac ef oedd sylfaenydd Spectrum Press.

Ganwyd Christopher Graham Bendon (1950–2011) yn Leeds; gadawodd Ogledd Lloegr yn 18 oed i fynd i weithio yn Llundain. Yna, yn 1977, ar ôl marwolaeth ei fam, ymddiswyddodd o swydd dda yn Swan Hellenic i fynd yn ôl i addysg amser llawn. Aeth i Goleg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, lle y gwnaeth radd mewn Saesneg. Priododd Sue Moules, y llenor a chydfyfyriwr yn Llanbedr Pont Steffan, yn 1979. Parhaodd ef a Sue i fyw yn Llanbedr Pont Steffan, a chawsant ferch, Cara.

Ymroddodd Bendon ei hun yn llwyr i fywyd coleg. Roedd yn llywydd ar y New Rhymers Club, ac yn trefnu digwyddiadau diwylliannol amser cinio yn ogystal â darlleniadau barddoniaeth. Roedd y beirdd a ddaeth â nhw draw i Lanbedr Pont Steffan yn cynnwys Ted Hughes ac Andrew Motion. Roedd Bendon yn gadeirydd brwdfrydig i'r 'Rag' yn 1978. Gwnaeth drefnu teithiau bws mini i werthu cylchgronau'r Rag yn Abertawe a Chaerdydd, a chafodd nwyddau, gan gynnwys llyfrau nodiadau a llyfrau cyfeiriadau, eu cynhyrchu ochr yn ochr â'r digwyddiadau a chylchgronau traddodiadol. Ef oedd â record y coleg am faint o arian a godwyd; mewn cydnabyddiaeth o'i gyflawniad, dyfarnwyd aelodaeth gydol oes yn Undeb y Myfyrwyr iddo. Fodd bynnag, effeithiodd yr holl weithgareddau codi arian ar ei astudiaethau; ni chyflawnodd y radd dosbarth cyntaf a oedd wedi'i rhagweld iddo.

Ynghyd â chydfyfyriwr israddedig, Norman Jope, sefydlodd Bendon gylchgrawn barddoniaeth, *Outcrop*. Yna, pan aeth Jope ag *Outcrop* yn ôl i Ddyfnaint ag ef, daeth Bendon yn un o bedwar sylfaenydd Spectrum Press. (Y rhai eraill a oedd yn rhan oedd ei wraig Sue Moules a dau fyfyriwr, Julian Ciepluch a Kenneth Livingstone.) Cynhyrchodd y wasg gylchgrawn newydd, *.spectrum*, yn ogystal â phamffledi. Mae Sue Moules yn ei chofio fel gwasg o waith llaw i raddau helaeth, yn llawn delfrydiaeth a dim llawer o arian. Y ganolfan olygyddol oedd ystafell flaen Bendon a Moules mewn fflat yn Heol yr Orsaf. Gan fod hyn cyn cyfrifiaduron, byddai Bendon yn teipio popeth; byddai Moules yn darllen proflenni ac yn ychwanegu enwau a theitlau gyda Letraset. Roedd y chwe chyhoeddiad a gynhyrchwyd yn cynnwys gwaith gan 101 o gyfranwyr, llawer ohonynt yn fyfyrwyr a oedd wedi cael eu cyhoeddi am y tro cyntaf, ond rhai ohonynt yn llenorion proffesiynol. Golygai grant bach gan Gelf Gorllewin Cymru ar gyfer y cyhoeddiadau diweddarach y gellid talu ffi fach i gyfranwyr. Fodd bynnag, er y rhoddodd *.spectrum* le i Lanbedr Pont Steffan ar y map llenyddol, nid oedd erioed bwriad iddo bara am byth. Roedd y gwaith yn llafurus ac yn ddi-dâl; roedd cyfrifiaduron yn dod i'r amlwg ac roedd costau argraffu yn codi. Ochr yn ochr â hyn, roedd pamffledi *.spectrum* yn cynnwys gwaith newydd gan lenorion unigol. Roedd y pamffled cyntaf, a gyhoeddwyd yn 1982, yn cynnwys 'At the End of the Bay', drama gan Dic Edwards. Parhaodd y wasg i gynhyrchu pamffledi nes 1990.



Chris Bendon, hawlfraint y ddelwedd: Cara Bendon

Roedd Bendon wrth ei fodd yn ysgrifennu; cyhoeddodd 15 cyfrol o farddoniaeth drwy ei oes, gydag un arall ar y cam proflenni pan fu farw. Roedd ei bryderon llenyddol yn adlewyrchu ei brofiad o fywyd i gryn raddau – er enghraifft, cefndiroedd diwylliannol gwrthgyferbyniol y Gymraeg a'r Saesneg. Cafodd ei lyfr cyntaf, *In Praise of Low Music* (Outcrop Publications, 1981), ei ddilyn gan *Software* (Spectrum Press, 1984). Yn *Constructions* (Gomer, 1991), datgelodd ei awydd i blannu gwreiddiau yng Nghymru, ei wlad fabwysiedig. Roedd *A Dyfed Quartet* (Headland, 1992) yn archwilio islifoedd hanes economaidd-gymdeithasol Cymru, wrth i Bendon symud drwy dirwedd chwedlonol y wlad. Roedd ei farddoniaeth gynnar yn delynegol a bugeiliol; daeth ei waith diweddarach yn fwy avant-garde. Cafodd ei lyfrau diweddarach *Jewry* (1995), *Crossover: a Play on Words or Libretto for an Imaginary Opera* (1996) a *Novella* (1997) eu cyhoeddi gan Poetry Salzburg. Yn ei ddrama gyhoeddedig gyntaf, *Crossover*, mae'r ddau brif gymeriad 'English Peter' a 'Welsh Pedr' yn cynrychioli Bendon ei hunan. Mae Peter yn saer coed sydd eisiau bod yn fardd; mae Pedr yn fardd a fyddai wedi hoffi bod yn gyfansoddwr. Yn dilyn diwedd priodas y ddau ohonynt, mae'r ddau ddyn yn cael gwyliau pererindod mewn cyfeiriadau gwahanol. Mae Pedr yn mynd i Loegr, a Peter i Gymru.

Mae gwaith Bendon wedi cael ei ddisgrifio fel dysgedig, ond dynol o hyd. Cafodd ei ddisgrifio gan Robert Minhinnick, cyn-olygydd Poetry Wales, fel 'dyfeisgar a dewr'; yn ôl barn Poetry Review, roedd yn 'egnïol, trawiadol a gwreiddiol'. Dyfarnwyd Tlws Coffa Hugh MacDiarmid i Bendon yn 1988 a Gwobr Cystadleuaeth Barddoniaeth The Guardian / WWF yn 1989.

Cafodd Bendon ddiagnosis o ganser yn haf 2011 ac, yn drist, bu farw ychydig fisoedd yn ddiweddarach ar 1 Tachwedd 2011. Mae ei bapurau, gan gynnwys teipysgrifau o'i farddoniaeth, cerddi heb eu cyhoeddi, dyddiaduron, a chasgliad o gylchgronau ac

antholegau, wedi'u storio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae ei ferch Cara wedi gosod mainc goffa er cof amdano ger afon Dulas, ar gampws Llanbedr Pont Steffan, sef lle yr oeddent yn treulio amser gyda'i gilydd yn aml yn ystod ei phlentyndod.




**Ffynonellau**

Llyfrgell Genedlaethol Cymru (d.d.). ‘Fonds GB 0210 CHRDON – Chris Bendon Papers’. Cyrchwyd ar 6 Hydref 2020 o https://archives.library.wales/index.php/chris-bendon-papers-2

Bendon, C. a Moules, S. (2012). ‘Chris Bendon 1950-2011’. *The Link*, 65, 9. Cyrchwyd ar 6 Hydref 2020 o http://www.sdtcom.co.uk/Link/Link%202012.pdf

Moules, S. (2013). ‘Spectrum Press’. *The Lampeter Review*, 7, 141–143. Cyrchwyd ar 6 Hydref 2020 o http://www.lampeter-review.com/issues/tlr_issue_7.pdf

*International Who’s Who Poetry*. 13eg argraffiad. (2005). Llundain: Europa Publications. Cyrchwyd ar 6 Hydref 2020 o https://books.google.co.uk/books?id=mAY2Ja6t6eAC&printsec=frontcover&dq=international+who%27s+who+in+poetry+2005&hl=en&sa=X&ved=2ahUKEwiXmJzui6DsAhXDi1wKHbVMBU4Q6AEwAHoECAUQAg#v=onepage&q=international%20who's%20who%20in%20poetry%202005&f=false

Bendon, C. (2012). ‘Travel-Log Project’. Cyrchwyd ar 6 Hydref 2020 o https://projectravellog.wordpress.com/

Bendon, C. (1996). *Crossover: a play on words or libretto for an imaginary opera*. Salzburg: Prifysgol Salzburg

# Maggie Berg



Mae Maggie Berg yn athro Saesneg yn Queen's University, Kingston, Ontario, yn arbenigwraig ar lenyddiaeth Oes Fictoria, ac yn gydawdur *The Slow Professor: Challenging the Culture of Speed in the Academy.*

Ganwyd Berg yn Portsmouth a magwyd hi ar Ynys Hayling. Yn drist, bu farw ei thad o drawiad i'r galon pan oedd e'n dair a deugain mlwydd oed yn unig. Cafodd ei mam swydd gyda'r *Portsmouth Evening News*. Maggie oedd yr hynaf o bump o blant; mae'n cofio sut y gwnaethant helpu codi ei gilydd. Maggie oedd y cyntaf o'i theulu i fynd i brifysgol; medd hi, oni bai ei bod hi wedi derbyn grant i fyfyrwyr, ni fyddai wedi gallu gwneud hynny.

Graddiodd Berg â gradd dosbarth cyntaf o Goleg Prifysgol Dewi Sant yn 1973; mae'n cofio y cafodd hi amser gwych yn Llambed. Hi hefyd oedd yr Uwch Ysgolhaig, dyfarniad sy'n seiliedig ar ysgoloriaethau olynol. Aeth Berg ymlaen i astudio am DPhil yng Ngholeg Linacre, Rhydychen. Teitl ei thesis oedd *The artistic relationship between John Ruskin and Dante Gabriel Rossetti.*

Ar ôl ennill ei doethuriaeth, symudodd i Ganada, gan dybio y byddai'n cael cymrodoriaeth ôl-ddoethurol blwyddyn o hyd fel Cymrawd Ymchwil Killam yn Dalhousie University, Nova Scotia. Ond, heblaw am flwyddyn yn Ffrainc, gwnaeth aros yng Nghanada am weddill ei gyrfa. Penodwyd i swyddi olynol fel darlithydd yn University of British Columbia, yn Vancouver, McGill University, yn Montreal, ac Université de Toulouse-le-Mirail, yn Toulouse, Ffrainc. Ymunodd â Queen's University, Kingston, yn 1987, gan barhau, ers hynny, i weithio yno. Daeth yn athro llawn yn 1998.

Mae Berg yn rhestru ei meysydd arbenigol fel a ganlyn: Llenyddiaeth Oes Fictoria, y teulu Brontë, theori lenyddol, a rhywedd a rhywioldeb. Medd hi 'Mae astudio diwylliant Oes Fictoria yn gadael i ni weld ein hunain yn fwy clir, naill ai drwy ein rhagflaenyddion, neu ynddynt.' Ei llyfr cyntaf oedd *Jane Eyre: portrait of a life* (Boston, Mass. : G.K. Hall, 1987). Gwnaeth bwysleisio dwy stori Jane Eyre – hanes Jane fel y gwelwn ni hi yn symud ac yn tyfu drwy gydol y stori, a hefyd fel hunangofianwraig yn adfyfyrio ar ei chrefft. Meddai Maynard, 'Ac mae'n dda gweld astudiaeth sy'n symud ymlaen dadansoddiad ffurfiol darn o waith heb ailadrodd cynigion dadadeiladol ffasiynol yn unig.'

Gwnaeth Berg ddilyn hwn gydag ail lyfr ar waith gan aelod o'r teulu Brontë, *Wuthering Heights: the writing in the margin* (Boston, Mass. : G.K. Hall, 1996). Meddai Brady fod gwaith Berg, sy'n dadlau'n glir, ac sydd yn aml yn wreiddiol, wedi dadansoddi'n drwyadl y cysylltiad y mae Emily Brontë yn ei wneud, ond sydd yn aml yn cael ei esgeuluso, rhwng rhyw a thrais. Gwnaeth Brady ddod i'r casgliad

bod llyfr Berg wedi cyflwyno *Wuthering Heights* i'r sawl sy'n anghyfarwydd ag ef, gan gynnig i feirniaid Brontë ddehongliadau syfrdanol ond perswadiol newydd. Mae Berg ar hyn o bryd yn gweithio ar drydydd llyfr am y teulu Brontë, *Animals and Animality in the Brontë Novels.*

Er hynny, yn ôl pob tebyg, mae Berg yn fwyaf enwog am ei llyfr *The Slow Professor: challenging the culture of speed in the academy,* (Gwasg Prifysgol Toronto, 2016), a ysgrifennwyd mewn cydweithrediad â'i chyfaill, Barbara K. Seeber. Gwnaethant ysgrifennu bod y llyfr hwn wedi tyfu oherwydd rhyw ymdeimlad o euogrwydd a ddatblygodd am nad oeddent tan y bore trannoeth wedi darllen e-bost adrannol a anfonwyd atynt am 10.45pm, ac o achos eu bod nhw am wrthod beirniadu traethodau ar gyfer cystadleuaeth, oherwydd rhoddwyd iddynt deg diwrnod o rybudd yn unig. *The Slow Professor* oedd y llyfr cyntaf i ddod â'r mudiad Arafwch ac academia at ei gilydd. Dechreuodd y mudiad Arafwch yn ystod y 1980au mewn ymateb i'r diwydiant bwyd sydyn a oedd wedi dominyddu llawer o'n cyflenwad bwyd byd-eang. Nawr, mae'r mudiad Arafwch yn 'herio'r cyflymdra gorwyllt a'r safoni diwylliant' sy'n digwydd mewn llawer o feysydd. Gwnaeth Berg a Seeber ddadlau o blaid diwylliant proffesiynol nad yw'n canmol prysurdeb ond cydbwysedd, un sy'n 'mentro bod yn amheugar am y proffesiynau hynny sy'n rhoi'r pwyslais ar gynhyrchu.' Maent yn credu bod 'angen amser i feddwl' ar academyddion, ac mae ein myfyrwyr yn teimlo'r un peth. Nid peth moeth yw amser i adfyfyrio a gofyn cwestiynau penagored; mae'n hanfodol i'r hyn yr ydym yn ei wneud.' Gwnaeth Berg a Seeber 'amddiffyn eu cysyniad a elwir 'timelessness,' sef cyfle i ddianc rhag cael ein rheoli gan amser, er mwyn galluogi pobl i feddwl, amsugno a chrynhoi gwybodaeth, neu i ddarllen, addysgu ac ysgrifennu'n fwy ystyriol.

Gwnaeth y ddwy awdures feddwl eu bod nhw wedi ysgrifennu llyfr bach diniwed y byddai dim ond ychydig o bobl â'r un meddylfryd yn ei ddarllen. Ond yn ei le, cawsant eu syfrdanu gan y croeso mawr y cafodd *The Slow Professor.* Gwnaeth bryfocio ymateb; cyrhaeddodd gynulleidfa fyd-eang ar draws amrywiaeth o ddisgyblaethau. Ysgrifennodd Carrière ei bod hi'n anodd dychmygu na fyddai unrhyw aelod amser llawn o unrhyw gyfadran academaidd yn ei fwynhau. Daeth i sylw prif ffrwd y cyfryngau. Cafodd ddwy dudalen yn y *Times Higher Educational Supplement* eu neilltuo ar ei gyfer. Gwnaeth Henry Martyn Lloyd ei adolygu ar gyfer y *Los Angeles Review of Books,* a chafodd ei grybwyll ar radio cenedlaethol Canada. Cafodd Berg a Seeber hyd yn oed eu cyfweld ar raglen CBC (Canadian Broadcasting Corporation), rhaglen boblogaidd a ddarlledir ar foreau Sul. Mewn rhai achosion, gwnaeth pobl hyd yn oed sefydlu grwpiau darllen ar sail *The Slow Professor*. Mae wedi'i gyfieithu i'r ieithoedd Pwyleg a Sbaeneg (ar gyfer darllenwyr yn Ne America), yn ogystal ag i Tsieinëeg.

Yn 2005, enillodd Berg Wobr Rhagoriaeth Addysgu Canghellor A. Charles Baillie, yn Queen's University. Enillodd hefyd, tair o weithiau (yn 1998, 1999 ac yn 2017), Wobr Rhagoriaeth Addysgu W.J. Barnes, yn Queen's University. Mae'n byw yn Kingston gyda'i phartner Scott Wallis, sy'n artist celfyddydau gweledol ac yn baratöwr yn oriel Queen's University. Mae ganddynt un ferch, Rebecca, sy'n seicotherapydd ac yn byw yn Toronto.

**Ffynonellau**

Berg, M. (2019). Curriculum Vitae Maggie Berg. Adalwyd ar Ionawr 28 2021 oddi wrth https://www.queensu.ca/english/sites/webpublish.queensu.ca.englwww/files/files/PDF/CV%20Bio/Maggie%20Berg%20CV%202019%20-%20191008.pdf

Queen's University. Department of English Language and Literature. (n.d.) Maggie Berg, Professor. Adalwyd ar Ionawr 28 2021 oddi wrth https://www.queensu.ca/english/m-berg

Maynard, J. (1989). [Review of the book *Jane Eyre: portrait of a life,* by M. Berg]. *Victorian Studies, 32*(3), 419-421. Adalwyd ar Ionawr 28 2021 oddi wrth http://www.jstor.org/stable/3828504

Brady, K. (1999). Wuthering Heights: The Writing in the Margin. *University of Toronto Quarterly, 68*(1), 487-489. Adalwyd ar Ionawr 28 2021 oddi wrth https://www-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/scholarly-journals/wuthering-heights-writing-margin/docview/224042875/se-2?accountid=130472

Mattocks, K. (2017). Book review. Maggie Berg and Barbara K. Seeber: The Slow Professor: challenging the culture of speed in the academy. University of Toronto Press, Toronto, p. 115. *Higher Education, 74,*377-379. Adalwyd ar Ionawr 29 2021 oddi wrth https://web-a-ebscohost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=2&sid=13513e9d-aa65-44bf-a2fd-d44492102085%40sdc-v-sessmgr03

Flaherty, C. (2016, April 19). 'The Slow Professor.' *Inside Higher Ed.* Adalwyd ar Ionawr 29 2021 oddi wrth https://www.insidehighered.com/news/2016/04/19/book-argues-faculty-members-should-actively-resist-culture-speed-modern-academe

Scoville, C. (2018). The Slow Professor: challenging the culture of speed in the academy by Maggie Berg and Barbara K. Seeber. *University of Toronto Quarterly. 87*(3),341-342. https://doi.org/10.3138/utq.87.3.41

Carrière, M. (2017). The Slow Professor: challenging the culture of speed in the academy. *English Studies in Canada, 43*(1),103-106. Adalwyd ar Ionawr 29 2021 oddi wrth https://web-b-ebscohost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=1&sid=fe917951-6265-47c8-951

Charbonneau, L. (2018, March 23). The slow professor revisited. *University Affairs = Affaires universitaires.* Adalwyd ar Ionawr 29 2021 oddi wrth https://www.universityaffairs.ca/features/feature-article/slow-professor-revisited/

Shook, K. (2018, March 31). Review: The Slow Professor, by Maggie Berg and Barbara Seeber. THE Books [Blog post]. Adalwyd ar Ionawr 29 2021 oddi wrth http://sejinlifeforce.blogspot.com/2018/03/

# Tony Bianchi

Roedd Toni Bianchi (1952-2017) yn 'Geordie', a ddaeth yn enwog fel nofelydd a bardd iaith Gymraeg.

Ganwyd Bianchi yn North Shields ar Ebrill 5 1952. Ef oedd unig blentyn ei rieni: roedd ganddo berthynas anodd gyda'i dad, heddwas o dras Eidalaidd. Mynychodd Bianchi Ysgol Gatholig ar Tyneside. Ymadawodd â'r ysgol gyda chanlyniadau gwael yn ei arholiadau, yn ôl pob tebyg oherwydd gwnaeth ei athrawon ei berswadio i sefyll ei arholiadau flwyddyn yn gynt. Er hynny, yn 1969, daeth yn fyfyriwr yng Ngholeg Dewi Sant, Llambed. Yno, fe raddiodd gyda graddau dosbarth cyntaf mewn dau bwnc, Saesneg ac Athroniaeth, cyn aros ymlaen i ysgrifennu ei PhD ar ddylanwad y chwedl 'Gemini' ar weithiau byrrach Samuel Beckett.



Gan RuthD2018 – ei gwaith ei hun, CC BY-SA 4.0, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=68089563

Hefyd, yn Llambed, gwnaeth Bianchi gwrdd â'r un a fyddai'n wraig iddo yn y dyfodol, Diana; roedd hi'n Gymraes Gymraeg filwriaethus, yn ogystal â bod yn weithredwraig heddychol. Gwnaeth Bianchi astudio cwrs Wlpan er mwyn dysgu Cymraeg; meddai 'Syrthiais mewn cariad a'r Gymraeg yn yr un modd ag y mae dyn yn caru darn o gerddoriaeth.' Cafodd Bianchi a Diana ddwy ferch, Heledd a Rhiannon, y ddwy ohonynt wedi'u henwi ar ôl cymeriadau llenyddiaeth Gymraeg gynnar. Yn drist, daeth eu priodas i ben gydag ysgariad.

Ar ôl graddio, addysgodd Bianchi Saesneg yng Nghei Connah, Sir y Fflint, ac yna yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Ei swydd nesaf oedd fel swyddog llenyddiaeth (Saesneg) gyda Chyngor Celfyddydau Cymru; ymhen hir a hwyr, daeth yn bennaeth yr adran lenyddiaeth. Gwnaeth Bianchi fyw yng Nghaerdydd am weddill ei oes.

Ar ôl ymadael â'r Cyngor Celfyddydau yn 2002, gweithiodd ar ei liwt ei hun fel ysgrifennwr. Gwnaeth ei brofiad o fywyd sefydliadol ysbrydoli ei nofel gyntaf, *Esgyrn Bach* (2006), dychan ar fiwrocratiaeth sefydliadol. Dilynodd hon gyda *Pryfeta* (2007, a gyfieithwyd ganddo fel *Daniel's Beetles,* 2011).

Enillodd *Pryfeta* Wobr Daniel Owen yn 2007, a chafodd y gwaith hwn ei enwebu ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr Llyfr y Flwyddyn Cymru. Gwobrwywyd *Sol a Lara* (2016) â'r Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol 2015. Lleolwyd ei unig nofel iaith Saesneg, *Bumping,* yn nhref ei fagwraeth, North Shields.

Teimlodd Bianchi fod angen i bob nofelydd greu persona sydd ar wahân iddo ef ei hun. Meddai 'Darganfûm yn fuan ei bod hi'n haws creu'r fath fwgwd yn fy ail iaith. A'r rheswm am hyn, wrth gwrs, yw bod y Gymraeg ei hun yn fwgwd.' Roedd ef hefyd yn credu bod ysgrifennu yn y Gymraeg yn gwneud hi'n haws iddo fynd i'r afael â materion personol. (Er enghraifft, gwnaeth *Pryfeta* dynnu ar anhwylder cof ei fam; mewn un stori yn y gyfrol *Cyffesion Geordie oddi Cartref,* aeth clirweledydd ag ef i ymweld â'i dad yn uffern).

Roedd gan Bianchi ddiddordeb arbennig mewn bywydau hen bobl, eu meddyliau weithiau'n llithro ac yn anghysain â'r byd sydd o'u hamgylch. Mae llawer o'i brif gymeriadau yn obsesiynol. Yn ei gasgliad o storïau byrion, *Cyffesion Geordie oddi Cartref* (2011, Confessions of a Geordie away from home), ysgrifennodd am rai o'r ffrindiau a oedd ganddo yn ystod ei blentyndod, y bwlio y gwnaeth ef ei brofi yn yr ysgol, a thrais ei dad).

Gwnaeth Bianchi hefyd feistroli rheolau cymhleth barddoniaeth Gymraeg draddodiadol; yn ogystal â chanu rhydd, cyfansoddodd gynghanedd, (system o gyseinedd ac odli mewnol, sy'n rhan orfodol o 24 mesur caeth y llais barddol Cymraeg). Enillodd lawer o wobrau am gyfansoddi englyn, pennill sy'n cynnwys deg sillaf ar hugain mewn pedair llinell sy'n odli ac sydd yn un o brif fesurau traddodiadol cynghanedd. Ysgrifennodd hefyd fonograff academaidd ar Richard Vaughan,

Gwnaeth Bianchi gefnogi achosion adain chwith drwy gydol ei fywyd, er nad oes dim sy'n wleidyddol amlwg yn ei waith. Bu'n aelod gweithredol o Fudiad Gwrth-apartheid Cymru, a gwnaeth hefyd gefnogi'r ymgyrch diarfogiad niwclear. Roedd yn gymrawd Yr Academi Gymreig. Roedd hefyd yn bianydd dawnus.

Bu farw Bianchi ar Orffennaf 2 2017 yn ei gartref ym Mhontcanna. Gwnaeth ei bartner, Ruth, ei oroesi.

**Ffynonellau**


Tony Bianchi – Geordie writer who became one of the most acclaimed Welsh-language novelists of his age. (2017, July 20). *Daily Telegraph.* Adalwyd oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/165C274D42158220?p=UKNB

Wales arts review. (2018). Remembering Tony Bianchi*.* Adalwyd ar Ebrill 27 2020, oddi wrth https://www.walesartsreview.org/remembering-tony-bianchi/

Bianchi, T. (2010, July 17). Author's notes. *Western Mail.* Adalwyd oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/1310A62D56664C78?p=UKNB.

# Martin Bloomfield



Mae Martin Bloomfield yn hyfforddwr, yn athro ac yn hwylusydd sgiliau cyfathrebu rhyngwladol, ac ef yw creawdwr y wefan Dyslexia Bytes.

Magwyd Bloomfield yng Nghaerefrog. Ar y cychwyn, roedd y teulu'n byw yn gysurus; disgwylir y byddai Martin a'i frodyr yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Aeth i Ysgol Gân Eglwys Gadeiriol Caerefrog cyn mynd i ysgol ramadeg y wladwriaeth, ond gwnaeth honno droi'n ysgol gyfun yn ystod ei amser ynddi. Roedd yn casáu ysgol; er iddo weithio'n galed iawn, mae'n cofio mai barn ei athrawon oedd ei fod yn ddioglyd. Gwnaeth ystyried nad oedd yn deall yr hyn yr oedd ei athrawon am iddo ei wneud, na'r ffordd yr oeddent am iddo ei wneud chwaith. Ddwywaith, cadwyd ef yn ôl am flwyddyn. Ymdrechodd i ennill y cymwysterau yr oedd eu hangen arno i fynd i'r brifysgol, a bu rhaid iddo fynychu dosbarthiadau nos er mwyn astudio am gymhwyster Lefel Uwch ychwanegol.

Roedd Bloomfield yn ddwy flwydd ar hugain oed pan ddaeth yn fyfyriwr israddedig yn astudio athroniaeth yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant. Gwnaeth bychander Llambed olygu bod pawb yn adnabod Bloomfield ar unwaith fel 'yr hogyn sy'n gwisgo esgidiau du a gwyn' neu 'Dodgy Shoes'. Roedd hefyd yn aelod gweithredol o'r Gymdeithas Ffensio. Er gwaethaf y ffaith bod y lle mor anghysbell, dysgodd fod y byd cyfan ar flaenau ei fysedd. Mae'n cofio cymysgu llawer o weithiau gyda myfyrwyr rhyngwladol. Erbyn diwedd ei gyfnod yn Llambed, gwnaeth wrthod ymadael â'r lle, gan aros yno drwy gydol ei wyliau. Byddai'n ffynnu'n academaidd wrth ymgymryd â gwaith prosiect neu wrth ysgrifennu traethawd hir, gwaith a fyddai'n cael ei asesu'n barhaol. Ond roedd yn dal i gael trafferthion gydag arholiadau, gan ennill marciau trydydd dosbarth yn hytrach na rhai dosbarth cyntaf. Er hynny, gwnaeth yn ddigon da i aros ymlaen yn Llambed ac astudio am radd MA. Tuag at ddiwedd ei gyfnod fel myfyriwr, ystyriwyd ei fod yn ddyslecsig.



Ar ôl graddio, treuliodd ychydig o amser fel Athro yn addysgu Saesneg fel Iaith Dramor. Yn gweithio fel Athro Saesneg Byd Busnes yn yr Almaen, sylwodd fod llawer o'r myfyrwyr yr oedd ef yn ymwneud â nhw yn ddeallus, ond er gwaethaf hynny, roeddent yn dal i wneud yn wael yn eu hastudiaethau. Gwnaeth Bloomfield adnabod arwyddion ei ddyslecsia ynddynt, a dechreuodd eu haddysgu yn yr un modd yr hoffai ef fod wedi cael ei addysgu. Gwnaeth eu canlyniadau wella a gofynnodd yr ysgol iddo gynnal gweithdai ymwybyddiaeth o ddyslecsia ar gyfer athrawon eraill. Roedd hwn yn ddechreuad gan Bloomfield i ymgysylltu'n ddyfnach ag astudio dyslecsia.

Gweithiodd Bloomfield am rai blynyddoedd o gwmpas Zürich, lle gwnaeth ei waith gynnwys darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddyslecsia a sgiliau busnes cyfathrebol; yn ogystal, gwnaeth hefyd weithio ym Mheriw ac Awstralia. Ar ddychwelyd i Brydain, gwnaeth weithio fel hyfforddwr SLS, gan addysgu Saesneg Byd Busnes i gleientiaid o bob rhan o Ewrop. Ochr yn ochr â hyn, am ddwy flynedd, bu'n athro/hyfforddwr i Wasanaethau Cyfathrebu Gweithredol, yn cynnig hyfforddiant sgiliau cyfathrebu i gleientiaid busnes rhyngwladol.

Ymunodd Bloomfield ag York Associates fel hyfforddwr ym mis Tachwedd 2009. Mae York Associates yn gorff hirsefydlog sy'n darparu hyfforddiant ym meysydd Saesneg proffesiynol a chyfathrebu rhyngwladol. Mae arbenigeddau Bloomfield yn cynnwys ymwybyddiaeth o ddyslecsia, anghenion addysgol arbennig (AAA), ac ymwybyddiaeth ryngddiwylliannol o ddyslecsia ac anghenion addysgol arbennig. Ers 2019, mae wedi darlithio yng Ngholeg Dinas Leeds yn addysgu safbwyntiau rhyngwladol a rhyngddiwylliannol ar anghenion addysgol arbennig.

Bloomfield yw sylfaenydd Dyslexia Bytes; mae'n ei ddisgrifio fel '"siop un stop" ar-lein er mwyn rhoi safbwynt rhyngwladol a rhyngddiwylliannol ar ddyslecsia.' Dechreuodd ef Dyslexia Bytes fel ffordd o gysylltu pobl ar draws Ewrop a oedd wedi ymuno â'i weithdai AAA, gan ganolbwyntio ar awtistiaeth, ac ADHD, yn ogystal ag ar ddyslecsia. Ar ôl dychwelyd i'w gwaith arferol, byddai'r mynychwyr felly yn gallu rhannu eu profiadau o hyd. Ond gwnaeth Dyslexia Bytes dyfu'n gyflym i fod yn wefan adnoddau ymwybyddiaeth o ddyslecsia bwysig. Mae'n cynnwys ffeithiau ac ystadegau am bobl sy'n dioddef o ddyslecsia, ac mae'n helpu rhai i ddeall pa anawsterau gweithrediadol gweithredol sydd gan bobl sydd â dyslecsia. Mae hefyd yn arddangos pa fuddion sydd wedi cael eu dangos i fod yn

gysylltiedig â meddwl mewn ffordd ddyslecsig, ac mae'n dangos sut y gellir deall dyslecsia o amrywiol safbwyntiau. Ymhlith y bobl ddyslecsig enwog a restrir, ceir Henry Ford, Bill Gates a George Washington. Yng Ngwobrau ELTons y Cyngor Prydeinig 2020, Dyslexia Bytes oedd un o enillwyr Cymeradwyaeth y Beirniaid am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad. Roedd hefyd yn un o'r terfynwyr am y Wobr Arloesedd mewn Adnoddau Athrawon.

Mae Bloomfield wedi annerch Llywodraeth Prydain, amrywiol Siambrau Masnach rhyngwladol, adrannau masnach ryngwladol a chynadleddau rhyngwladol yn fyd-eang. Mae'n ddarlithydd gwadd i brifysgolion ym Mhrydain, yr Almaen, Ffrainc, Rwsia a'r Swistir. Gwnaeth sefydlu a chyflwyno'r wobr flynyddol *Dyslexia in Business*. Mae'n aelod o amrywiol bwyllgorau ymgynghorol rhyngwladol ar gynhwysiad a niwroamrywiaeth. Ar hyn o bryd, mae'n gorffen ei radd PhD ym Mhrifysgol Caerefrog. Yn ystod ei amser sbâr, mae'n gwirfoddoli i Ymddiriedolaeth Gadwraeth yr Eglwysi ac mae'n gynorthwyydd gofal cyffredinol i Brosiect Gofal Cymunedol 'All Saints'.

**Ffynonellau**

York Associates. (2021). Martin Bloomfield. Adalwyd ar Fawrth 5 2021 oddi wrth https://york-associates.co.uk/team/martin-bloomfield-associate-trainer/

Bloomfield, M. (2021). Martin Bloomfield, Relentless optimist. [LinkedIn page]. LinkedIn. Adalwyd ar Fawrth 5 2021 oddi wrth https://www.linkedin.com/in/martin-bloomfield-41370515/

Millin, S. (2020, August 3). Dyslexia bites – Q&A with Martin Bloomfield [Blog post]. Adalwyd ar Fawrth 5 2021 oddi wrth https://sandymillin.wordpress.com/2020/08/03/dyslexia-bytes-qa-with-martin-bloomfield/

Deacy, C. (Interviewer). (2019, October 13). Martin Bloomfield. Adalwyd ar Fawrth 5 2021 oddi wrth https://audioboom.com/posts/7394582-martin-bloomfield

Teaching Students with Dyslexia. (2020, August 25). Discussion with Martin Bloomfield "When Learning is Trauma." [Facebook post]. Adalwyd ar Fawrth 5 2021 oddi wrth https://www.facebook.com/TeachingStudentsWithDyslexia/videos/2649390662015247/

# Euros Bowen

Roedd Euros Bowen (1904-1988) yn fardd crefyddol pwysig, ac yn un o ysgrifenwyr iaith Gymraeg mwyaf cynhyrchiol yr ugeinfed ganrif.

Bowen oedd yr ail o saith o blant y Parchedig Thomas Bowen, gweinidog gyda'r Annibynwyr Cymraeg, a oedd cyn hynny wedi gweithio fel glöwr. Mam Euros oedd Ada, merch isreolwr gwaith glo Tŷn-y-bedw. Gwnaeth Geraint, ei frawd iau, dyfu i fod yn Archdderwydd Cymru o 1979 tan 1981. Ganwyd Euros yn Nhreorci, yn y Rhondda. Gwnaeth gwaith Thomas Bowen olygu bod rhaid i'r teulu symud nifer o weithiau. Mynychodd Euros ysgolion cynradd yn Nhreorci a Llanelli. Treuliodd flwyddyn yn unig mewn ysgol ganolradd, cyn gweithio mewn siop ddodrefn, ac yna fel clerc mewn gwaith tunplat. Ochr yn ochr â hyn, mynychodd ddosbarthiadau nos yn Ysgol Gelf Llanelli.

Yn 1921, aeth Euros Bowen yn ôl i addysg amser llawn; mynychodd Ysgol Ramadeg Yr Hendy-gwyn ar Daf ac Ysgol Goleg Y Ceinewydd. Yna, aeth i goleg Presbyteraidd Caerfyrddin er mwyn cael hyfforddiant fel gweinidog gyda'r Annibynwyr Cymraeg. Ym mis Medi 1924, symudodd i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth cyn cael ei drosglwyddo, yn 1925, i Goleg y Brifysgol, Abertawe. Gwnaeth raddio gydag anrhydedd mewn athroniaeth yn 1928. Ar ôl hyn, dyfarnwyd iddo ysgoloriaeth i Goleg Mansfield, Rhydychen. Yn anffodus, gwnaeth salwch ei rwystro rhag sefyll ei arholiadau terfynol yno; dyfarnwyd iddo radd aegrotat.

Ymunodd Bowen â'r Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru yn 1933 a chafodd ei dderbyn gan Goleg Dewi Sant, Llambed, i gael hyfforddiant ar gyfer bod yn offeiriad. Ordeiniwyd yn ddiacon yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy yn 1934, ac yn offeiriad yn 1935. Daeth yn gurad yn Wrecsam, ac yno priododd Neli Tilston Jones, ysgrifenyddes gyda'r bwrdd trydan. Cafodd ef a Neli ddau fab, Gwyn Euros Bowen a Huw Euros Bowen.

Yn 1939, penodwyd Bowen yn rheithor Llangywer ar lannau Llyn Tegid (Llyn y Bala). Rhoddwyd iddo hefyd, yn 1958, gyfrifoldeb am blwyf Llanuwchllyn. Arhosodd Bowen yn Llangywer tan iddo ymddeol yn 1973. Yna, dychwelodd i Wrecsam ac arhosodd yno am weddill ei oes.



Eglwys St Deiniol, Llanuwchllyn

Roedd Bowen yn credu'n frwdfrydig yn yr iaith Gymraeg. O 1946 tan 1952, gweithiodd gyda J. Gwyn Griffiths a Pennar Davies i gynhyrchu cyfnodolyn llenyddol Cymraeg , sef *Y Fflam.* Prif amcan y cyfnodolyn hwn oedd darparu llwyfan i ysgrifenwyr cenedlgarol iau Cymru. Yna, yn ystod gaeaf 1947, pan nad oedd hi'n bosibl iddo adael ei reithordy oherwydd yr eira trwm, dechreuodd Bowen ysgrifennu barddoniaeth o ddifri. Yn 1948, enillodd ei gerdd 'O'r Dwyrain' y goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Unwaith eto, dwy flynedd wedyn, roedd ei ddarn 'Difodiant' yn llwyddianus. Cyhoeddodd Bowen ei gyfrol gyntaf o gerddi, sef *Cerddi,* yn 1958. Aeth ymlaen i gyhoeddi pedair ar bymtheg cyfrol arall o gerddi.

Bwriad Bowen oedd ehangu ffiniau barddoniaeth Gymraeg. Gwnaeth arbrofi gyda mesurau caeth a'r system gyseinedd ac odli mewnol (*cynghanedd*) o'r fath a geir mewn barddoniaeth Gymraeg draddodiadol. Yn ei waith *Cerddi,* ysgrifennodd nifer o'i gerddi gan ddefnyddio'r hyn a elwid ganddo yn *ugeined,* uned fesur a oedd ef ei hun wedi'i dyfeisio. Yn *Cerddi Rhydd* (1961), ysgrifennodd gan ddefnyddio paragraffau rhythmig, yn hytrach na llinellau. Y prif gyfrwng yn ei waith hwyrach oedd canu rhydd, ond gwnaeth ei hoffter am *gynghanedd* barhau o hyd.

Gall gwaith Bowen fod yn anodd. Methodd ennill y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1963, oherwydd ystyriwyd ei gerdd 'Genesis' yn rhy aneglur. Meddai wrth ei hun 'Pan ddechreuais ysgrifennu barddoniaeth yn 1947, penderfynais na fyddwn yn ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r ddau draddodiad sy'n rhan o'r grefft honno: (i) y traddodiad o gyfleu'n syml yr ystyr llythrennol, y traddodiad lle mae'r farddoniaeth yn creu llun, a dim byd arall, barddoniaeth ffotograffig, a (ii) - y traddodiad lle mae'r farddoniaeth yn gwneud datganiadau, gan ddefnyddio cyffelybiaethau neu drosiadau i greu delweddau er mwyn ei haddurno. Penderfynais ddefnyddio delweddau, nid i addurno, ond fel y cyfrwng mynegi ei hun.' Gwnaeth rhai beirniaid awgrymu fod ei waith wedi'i ddylanwadu arno gan y Symbolwyr [Ffrengig]. Gwnaeth Bowen ei hun wrthod hyn, gan fynnu ei fod wedi datblygu ei ddull cyn iddo ddod yn ymwybodol o'r imagistiaid a'r symbolwyr. Gwelodd ei waith yn waith 'sagrafennwr'; o'i safbwynt ef, roedd ei ddwy rôl fel offeiriad a bardd yn hanfodol debyg. Mae'r holl fyd materol yn dangos grym a daioni Duw, ac mae hyn yn golygu bod ganddo nodweddion y sacrament. I Bowen, mae ymgnawdoliad Crist yn ardystio mai rhodd Duw yw'r byd materol. Roedd ei ddelweddaeth, ar yr un pryd, yn ddiriaethol ac yn haniaethol.

Yn 1977, gwnaeth y bardd a'r beirniad Alan Llwyd gyhoeddi llyfr ar waith Bowen. Ond gwnaeth Bowen wrthod llawer o ddehongliadau Llwyd, gan gyhoeddi ei gyfrol ei hun, *Trin cerddi,* mewn ymateb iddo. Surwyd y berthynas rhwng y ddau fardd.

Cyfieithodd Bowen weithiau gan Sophocles, Virgil ac Athanasius i'r Gymraeg, yn ogystal â chynhyrchu detholiad Cymraeg o farddoniaeth y symbolwyr Ffrengig. Yn 1974, cyhoeddodd gyfrol ddwyieithog a oedd yn cynnwys cyfieithiadau o rai o'i gerddi i'r Saesneg.

Bu farw Bowen yn Ysbyty Maelor, Wrecsam ar Ebrill 2 1988; claddwyd ym mynwent Wrecsam.

**Ffynonellau**

Thomas, P. (2004, September 23). Bowen, Euros (1904–1988), Church in Wales clergyman and Welsh-language poet. *Oxford Dictionary of National Biography.* Adalwyd ar Fehefin 4 2020, oddi wrth https://www-oxforddnb-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-61337

Bowen, Euros (1904-88) poet. (2008). In J. Davies, N. Jenkins, M. Baines, & et. al., *The Welsh academy encyclopedia of wales*. Literature Wales. Credo Reference: https://search.credoreference.com/content/entry/waencywales/bowen_euros_1904_88_poet/0?institutionId=1794

Saunders, T. (1993). Reviewed Work: *Euros Bowen: Priest-Poet/Bardd-Offeiriad* by Euros Bowen, Cynthia Davies, Saunders Davies. *World Literature Today, 67*(3), 651-652. doi:10.2307/40149500

Stephens, M. (ed.) (1998). *The New Companion to the Literature of Wales.* Cardiff: University of Wales Press

Jones, G. & Rowlands, J. (1980). *Profiles: a visitors' guide to writing in twentieth century Wales.* Llandysul: Gomer Press

## Parcell Rees Bowen – Arwr a Chudd-weithredwr y Rhyfel Byd Cyntaf



Ganwyd Parcell Rees Bowen yn Llangain, Sir Gaerfyrddin, ar Orffennaf 22 1893. Wedi derbyn ei addysg yn Ysgol Ramadeg Caerfyrddin, ymgofrestrodd yng Ngholeg Dewi Sant ym mis Hydref 1912. Gwnaeth Bowen, a gafodd y llysenw 'Plancio' pan oedd yno, chwarae rhan weithredol ym mywyd chwaraeon y coleg. Yn flaenorol, wedi chwarae rygbi i'r 'Carmarthen Quins', ymunodd â thîm XV y Coleg yn 1913, gan geisio'n aflwyddiannus i gael ei benodi i'r swydd Ysgrifennydd Rygbi.

Gwnaeth cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf amharu ar fywyd academaidd Bowen, ac fe ymgofrestrodd ar unwaith fel milwr cyffredin yn y '1st Bedfordshire Army Service Corps.' Anfonwyd ef i Ffrainc, ac yno, treuliodd aeaf 1914/15, ond cafodd ei anfon adref ym mis Chwefror 1915 am fod ei draed wedi dioddef yn wael oherwydd ewinrhew. Ar ddychwelyd i'r cwmni, comisiynwyd Bowen yn 2il Is-gapten ym 5ed Bataliwn Catrawd y Cymry. Yn ystod mis Gorffennaf y flwyddyn honno, hwyliodd i Gallipoli ar yr SS Huntsgreen, ac yno bu ei gatrawd yn rhan o'r '159 Brigade, 53rd (Welsh) Division', a wnaeth ymladd yn Gallipoli tan iddi gael ei gwacáu ym mis Rhagfyr.

Yn ystod y flwyddyn ganlynol, anfonwyd yr Adran i'r Aifft ac yno, trosglwyddodd Bowen i'r Corfflu Gynau Peiriant. Ym mis Awst 1917, rhoddwyd iddo ei fedal gyntaf, y Groes Filwrol, am ei ddewrder yn ystod Rhyfelgyrch Palestina. Ym mis Ionawr 1918, trosglwyddodd Bowen i'r Llu Awyr Brenhinol, gan weithio fel Arsylwr i '14 Squadron'. Hedfanodd RE8au gan gefnogi'r Fyddin wrth iddi symud ymlaen drwy Balestina i Ddamascus, tan i'r Cadoediad Twrcaidd ddigwydd ym mis Hydref 1918. Ym mis Chwefror 1919, rhoddwyd iddo'r Groes am Hedfan Neilltuol am ei 'ddewrder a'i bendantrwydd'.

Ar ôl y Cadoediad, gwnaeth Bowen wasanaethu yn Salonika a Mesopotamia cyn iddo gael ei gofrestru'n ddi-waith. Er hynny, gwnaeth ei frwdfrydedd dros antur ei yrru i wirfoddoli am wasanaeth pellach gyda'r Llu Awyr Brenhinol. Ym mis Gorffennaf 1919, cyrhaeddodd yn Archangel, yng ngogledd Gorllewin Rwsia, ac yno, gwnaeth gwrdd â'i hen gydwladwr, yr

archbeilot Ira 'Taffy' Jones. Yn ei hunangofiant, *An Airfighter's Scrapbook*, ysgrifennodd Ira am Bowen, gan ei ganmol i'r cymylau, yn falch bod rhyfelwr arall o Gymru yn ei sgwadron.

Gwasanaethodd Bowen gyda 'No 3 Squadron, Slavo-British Aviation Corps', yn Bereznik. Roedd y Corfflu hwn yn cynnwys cymysgedd o unigolion o Brydain a Rwsia a oedd yn ymladd ar ochr y Rwsiaid Gwynion yn erbyn y Bolsieficiaid. Ym mis Awst 1919, pan oedd Bowen yn hedfan mewn awyren ddwy sedd, gyda'r peilot William Roswell Moscrip wrth y llyw, ddechreuodd frwydr rhyngddynt â Nieuport Bolsiefig uwchben Toima. Cafodd y ddau ohonynt eu hanafu'n ddifrifol yn ystod yr ymladd, a gorfodwyd i Bowen gymryd rheolaeth dros yr awyren ar ôl i Moscrip lewygu, a'i hedfan am gant o filltiroedd, er ei fod wedi cael ei glwyfo yn ystod y frwydr yn ei benelin. Am wneud hyn, ychwanegwyd Bar at ei Groes am Hedfan Neilltuol.

Anfonwyd Bowen adref wedi'i glwyfo, ac unwaith eto, cofrestrwyd ef yn ddi-waith, ond yn methu rhoi'r gorau i'r ymladd, gwirfoddolodd am Gomisiwn yn y Fyddin Lithwanaidd, gan wasanaethu gyda'r fyddin honno o fis Hydref 1919 tan fis Mawrth 1920. Bedwar mis ar ôl iddo ddychwelyd adref, derbyniodd Bowen swydd Dra Chyfrinachol gyda Llywodraeth Prydain, un a oedd wedi'i lleoli yn Nulyn pan oedd 'Yr Helyntion' ar eu gwaethaf. Gan actio mai asiant cwmni glo o Gymru ydoedd, gwnaeth letya gyda chyd-swyddog Prydeinig cudd arall, a daeth y ddau ohonynt yn gysylltiedig ag uned o gudd-weithredwyr Gwasanaeth Cudd-ymchwil Prydain, a elwid wrth eu llysenw 'The Cairo Gang'.

Ar Hydref 27 1920, treuliodd y ddau ddyn y prynhawn yn Donnybrook, yn gwylio gêm pêl-droed, ond ar ôl iddi orffen, gwnaeth Bowen ddiflannu. Darganfuwyd ei gorff yn ddiweddarach mewn mynedfa fwaog ar Lower Merrion Street, yn Nulyn, wedi'i saethu gydag un fwled .45 yn unig. Mae cwestiynau yn cael eu gofyn o hyd ynglŷn â'i farwolaeth, oherwydd fe honnir ei fod wedi cael ei lofruddio gan yr IRA, ond gwnaeth llyfr a gyhoeddwyd yn 1931 awgrymu ei fod wedi cael ei lofruddio gan ei gyd-gudd-weithredwyr Prydeinig.

Anfonwyd corff Bowen yn ôl i Gaerfyrddin, ac yno fe gladdwyd gydag anrhydeddau milwrol llawn ym mynwent Eglwys Dewi Sant, Abergwili.

**Ffynonellau:**

Roberts, Sarah (2017) *Parcell Rees Bowen St David's College Student, WW1 Hero, Wounded by the Bolsheviks, Assassinated in Dublin.* Exhibition booklet

# Mike Breslin

Mae Mike Breslin yn ysgrifenwr sy'n arbenigo mewn chwaraeon moduro, moduro a theithio, ac roedd yn arfer bod yn yrrwr rasio Fformiwla Ford.

Mae Breslin yn frodor o Dde Cymru; ganwyd ef yn Nhredegar a magwyd ef yng Nghaldicot, ond erbyn hyn, mae'n byw yn Llundain. Hyfforddwyd ef fel gyrrwr yn Ysgol Rasio Winfield ac ar gylchffordd Magny Course, Ffrainc (Mae eraill sydd wedi mynychu Ysgol Rasio Winfield yn cynnwys Alain Prost, Damon Hill a Jean Alesi). Aeth Breslin ymlaen yn ystod y 1980au a'r 1990au cynnar i rasio Fformiwla Ford. Mae'n cofio 'gwneud yn lled dda ac yn cael damweiniau'n lled reolaidd.' Ond yn 1989, gwnaeth ddifrod mawr i'w Van Diemen mewn gwrthdrawiad â'r clwydi diogelwch yn Brands Hatch. Yn dilyn hyn, atebodd hysbyseb swydd yn gofyn am ohebydd ar gyfer y rasys a fyddai'n cael eu cynnal ar gylchffordd Pen-bre, Sir Gaerfyrddin. Ar un adeg, roedd yn darparu deunydd yn seiliedig ar rasys Ben-bre i dri chylchgrawn gwahanol.

Ar ôl ymddeol o'r byd rasio, mynychodd Breslin Goleg Prifysgol Dewi Sant yn 1991, fel myfyriwr hŷn, er mwyn astudio athroniaeth. Mae'n dweud y gwnaeth ef fwynhau ei gyfnod yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant. Gwnaeth gwrdd â'i wraig pan oedd yn Llanbed; daethant yn ôl i'r dref i briodi rai blynyddoedd wedyn. Ar ôl graddio, gwnaeth astudio cwrs ôl-raddedig yng Nghanolfan Hyfforddiant Newyddiaduriaeth Mitcham, Surrey. Treuliodd ychydig o amser yn gweithio i'r *South Wales Argus* fel gohebydd busnes, cyn dechrau gweithio ar ei liwt ei hun yn 1999, gan arbenigo mewn chwaraeon moduro a moduro, ac yn fwy diweddar, teithio.

Mae Breslin wedi cyfrannu at gylchgronau moduro a chwaraeon moduro niferus, gan gynnwys *Autosport, Motorsport News* a *F1 Racing.* Mae wedi gweithio i Fformiwla Un, a hefyd, wedi rhoi ar brawf, ar heol ac ar drac, amrywiaeth fawr o gerbydau, gan gynnwys ceir rasio a goruwchgeir. Mae'r sêr F1 y mae ef wedi cyfweld â nhw yn cynnwys Lewis Hamilton a Fernando Alonso.



Mae Breslin wedi ymgymryd â theithiau ffordd ar draws y byd, gan ymweld â chwe chyfandir ac o leiaf 65 o wledydd, ac wedi ysgrifennu amdanynt i gylchgronau. Gwnaeth ei hoff daith olygu gyrru bron 6500 cilomedr ar draws De Affrica mewn cerbyd Nissan 4X4 a oedd wedi cael ei rentu. Teithiodd drwy Dde Affrica, Namibia, Botswana, Zambia a Zimbabwe. Yr uchelbwyntiau oedd gweld Rhaeadrau Fictoria, dod wyneb yn wyneb â grŵp o afonfeirch wrth ganŵio yn Nelta Okavango, a champio ar wylltir Botswana ymhlith nifer o eliffantod.

Yn 2004, treuliodd Breslin dri mis yn gyrru ledled Ewrop mewn hen VW Polo werth £300. Gyrrodd drwy Ffrainc a'r Eidal, hwyliodd ar gwch i Roeg, ac ymhen hir a hwyr gwnaeth gyrraedd Twrci. Wrth ddychwelyd, gwnaeth ei daith fynd ag ef drwy naw gwlad ddwyreiniol a gorllewinol Ewrop. Yn yr Eidal, llwyddodd yrru ar gwrs ffordd Pescara, y gylchffordd hiraf i gael ei defnyddio ar gyfer ras Prif Wobr (Grand Prix) Pencampwriaeth y Byd. Mae ei atgofion eraill yn cynnwys colli'r bibell wacáu yn Nhwrci, ond wedyn

cael rhywun i'w hatgyweirio bron am ddim. Disgrifiodd Breslin ei daith mewn cyfres o erthyglau i *VW Golf.*

Y chweched chyfandir y gwnaeth Breslin ymweld ag ef oedd De America. Un o deithiau ffordd byrraf Breslin oedd hon, yn mesur tua 700 cilomedr yn unig. Gyrrodd Toyota Rav 4 o Arica, yn agos i'r ffin rhwng Periw a Chile, drwy Anialwch Atacama. Ymhen hir a hwyr, cyrhaeddodd ef San Pedro de Atacama. Gwnaeth uchafbwyntiau'r daith gynnwys Valle de Luna, sydd â pheth o olygfeydd anialwch gorau'r byd, gyda llosgfynyddoedd yr Andes yn y pellter ac eira ar eu copaon. Mae teithiau eraill Breslin wedi cynnwys gyrru 4000 cilomedr ar draws Australia, o Adelaide i Darwin; dilyn Ffordd 66 o Los Angeles i Chicago, ac yna gyrru ymlaen i Efrog Newydd er mwyn croesi'r Unol Daleithiau cyfan; a theithio ledled Japan.

Mae Breslin wedi ysgrifennu pum llyfr. Efallai nid yw'n syndod felly mai ef yw awdur *Road Trip Manual: a Practical Manual,* (Haynes, 2020). Mae'r llyfr hwn yn dechrau gyda chanllaw ar sut i gynllunio a mwynhau taith ffordd dda. Yn y penodau diweddarach, mae'n disgrifio ffyrdd eiconig ar bob cyfandir, ac eithrio Antarctica! Yn ysgrifennu yn y *Daily Record,* meddai Giles Blair, 'And his [Breslin] enthusiasm shines through … as he fuses valuable information with inspirational anecdotes and hardearned tips from road trips he has made …' Breslin hefyd yw awdur *The Track Day Manual: the complete guide to taking your car on the race track,* (Haynes, 2008).

Mae Breslin hefyd yn ysgrifennu ffuglen, a'i nofel gyntaf oedd *The Unfair Advantage: a Formula One novel,* (Rough Diamond, 2000). Gwnaeth ddilyn hon gyda *Pieces of Silver* (Pie Shop Publishing, 2014). Mae'r prif gymeriad, Westbury Holt, sydd yn yrrwr rasio Prydeinig ac yn aelod o dîm o'r Almaen yn ystod y 1930au, yn mynd ymlaen i hedfan gyda'r RAF yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Medd Breslin mai stori Richard Seaman, rasiwr Prydeinig a oedd yn gyrru i Mercedes, ond a gafodd ei ladd mewn damwain yn Spa yn 1939, oedd yr ysbrydoliaeth a wnaeth iddo ysgrifennu *Pieces of Silver*. Medd Breslin, 'Rwyf bob amser wedi meddwl, tybed sut y byddai'r rhyfel hwn wedi diweddu o ystyried y deliau a wnaed ganddo a'r cyfeillion a oedd ganddo. Ganwyd y llyfr hwn gyda'r cwestiwn hwnnw, 'Beth petai?'

Ffuglen ddiweddaraf Breslin yw *Faster than the bullet*, (Pie Shop Publishing, 2020). Mae'r stori wedi'i rhannu rhwng yr Ail Ryfel Byd yn y 1940au a rasio modur yn y 1950au. Mae Ingo Six, sy'n hoffi dim yn fwy na gyrru'n gyflym, wedi ymuno â byddin yr Almaen er mwyn cael cyfle i yrru beiciau modur milwrol. Mae'n cael ei rwydo gan waradwyddus ddigwyddiadau'r rhyfel; ac mae un ohonynt yn dod yn gyfrinach drasig. Yn y diwedd, mae'n ffoi i'r Ariannin, gyda hunaniaeth newydd. Mae'n wynebu'r her o gydbwyso ei sgiliau anferth fel gyrrwr rasio yn erbyn yr angen i osgoi sylw'r cyhoedd. Ysgrifennodd Marcus Simmons yn *Autosport*, 'Breslin has come up with a winner – a thriller with more surprise twists than the Futa and Raticosa passes.' Gwnaeth yr adolygydd yn *Business Money* ei ddisgrifio fel ei 'book of the year'.

Mae Breslin yn aelod o'r Gild Ysgrifenwyr ac o grŵp Ysgrifenwyr Moduro Cymru. Cafodd ei gymeradwyo'n uchel yn ystod Gwobrau'r Wasg Gymreig (1999), ac enillodd y wobr Tîm Is-olygu'r/ Cynhyrchu'r Flwyddyn yng Ngwobrau Cyfryngau'r IPC (2003).

**Ffynonellau**

Breslin, M. (2021). Mike Breslin. Freelance motorsport journalist/writer at Bresmedia [LinkedIn page]. LinkedIn. Adalwyd ar Fawrth 10 2021 oddi wrth https://www.linkedin.com/in/mikebreslinbresmedia/?originalSubdomain=uk

Breslin, M. (n.d.) Bresmedia. Adalwyd ar Fawrth 10 2021 oddi wrth https://www.bresmedia.co.uk/

Winfield Racing School. (n.d.) Winfield Racing School. Adalwyd ar Fawrth 10 2021 oddi wrth https://winfieldracingschool.com/

Blair, G. (2020, January 24). Your adventure begins with new Haynes manual. *Daily Record.* Adalwyd ar Fawrth 11 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&t=&sort=YMD_date%3AD&fld-base-0=alltext&maxresults=20&val-base-0=%22mike%20breslin%22&docref=news/178BF10F0B678A58

PIECES OF SILVER Thrilling new novel shines a light on Nazis & the Silver Arrows. (2014, November 10). *M2 Presswire.* Adalwyd ar Fawrth 11 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&docref=news/151836245875E6E0.

Simmons, M. (2020, August 20). Autosport. What's on this week. *Pressreader.* Adalwyd ar Fawrth 11 2021 oddi wrth https://www.pressreader.com/uk/autosport-uk/20200820/284661849548854

Motoring book review. (2020, July 9). *Business Money.* Adalwyd ar Fawrth 11 2021 oddi wrth https://www.business-money.com/announcements/motoring-book-review-2/

## Charles Ferdinand Brigstocke
### O Sir Benfro i Dde Cymru Newydd

Ganwyd Charles Ferdinand Brigstocke yn 1808 yn Llawhaden, Sir Benfro, a dilynodd ei dad Thomas, ficer Llawhaden, i'r Eglwys. Ar ôl mynychu'r ysgol yn Hwlffordd, aeth i Goleg Dewi Sant yn ugain oed, ac ar ôl graddio yn 1832, cafodd ei benodiad cyntaf ym Mryste. Dychwelodd i Sir Benfro yn gurad dan y Parch. Ddr Humphrey yn Ninbych y Pysgod a chafodd ei ordeinio gan Esgob Caerwynt yn 1837. Flwyddyn wedyn, ar argymhelliad y Gymdeithas er Taenu'r Efengyl a chymeradwyaeth Esgob Llundain, penodwyd Brigstocke yn gaplan yn Ne Cymru Newydd.

Yn dilyn ychydig wythnosau yn Ryde ar ôl glanio ar 6 Rhagfyr, cychwynnodd Brigstocke ar y daith bum niwrnod i dref Yass a oedd newydd ei sefydlu, a oedd heb eglwys na ficerdy ar y pryd. O'r herwydd, roedd angen i'r caplan newydd fyw mewn cwt un ystafell. Cynhaliodd Brigstocke wasanaethau dri Sul y mis, i ddechrau yn yr Hen Lys ac wedyn mewn eglwys dros dro. Yn ystod y cyfnod hwn, bu'n weithgar ei ymwneud â'r ymdrechion i godi arian i adeiladu eglwys ar gyfer y dref, ac yn 1847 gosodwyd sylfaen Eglwys Sant Clement ac fe'i hagorwyd yn 1850.



*Eglwys Anglicanaidd Sant Clement, Yass*
*Mattinbgn (sgwrs · cyfraniadau)/CC gan (https://creativecommons.org/licenses/by/3.0)*

Yn ogystal â chynnal gwasanaethau yn Yass, ymwelai Brigstocke â threfi a ffermydd ynysig ar draws ardal eang a oedd yn cynnwys Tumut, Gundagai, Binalong, Boorwa, Adelong a Tarcutta. Roedd llawer o'i deithiau yn cynnwys pellteroedd rhwng 60 a 134km, ac fel llawer o weinidogion teithiol eraill, o bryd i'w gilydd, byddai angen iddo deithio i ardaloedd y tu allan i'w ardal, a elwid yn 'dir neb'. Ar un o'i ymweliadau niferus, cydymdeimlai'r Esgob William Broughton ag anferthedd tasg Brigstocke a gydag amser penodwyd gweinidogion eraill i'r ardaloedd deheuol, ond roedd plwyf Brigstocke yn parhau'n fawr. Fodd bynnag, roedd ganddo gryn egni, oherwydd, yn ogystal â'i waith plwyf, bu'n gyfrifol am adeiladu rheithordy ac ysgol,

roedd yn weithgar yn Sefydliad y Mecanyddion, yn rhan o waith adeiladu ysbyty ar gyfer y dref, yn rhoi hyfforddiant crefyddol i'r carcharorion lleol, a chanfu amser i weithredu'n ysgrifenydd ar y llyfrgell danysgrifio. Ym mis Ebrill 1844 priododd â Susan Adye a chael saith o blant gyda hi, bu farw dau o'r rhain yn eu plentyndod.

Yn 1841, fodd bynnag, roedd Brigstocke yn rhan o ddigwyddiad a orfododd yr Esgob i ddirymu ei drwydded. Ymddangosodd llythyr dienw yn y *Sydney Herald* yn cyhuddo'r ynad lleol, Richard Hardy o 'breaking his Sabbath and countenancing moral laxity in the neighbourhood by riding to the hounds on the Sabbath'[1]. Roedd si mai Brigstocke oedd yr awdur a chynhaliwyd ymchwiliad, a thrwy gyd-ddigwyddiad, un o'r Comisiynwyr oedd y Parch. Ddr Thomas Hassall, neu'r 'Galloping Parson' fel y'i gelwid, gynt o Ysgol Ramadeg Llanbedr Pont Steffan. Cymharwyd llawysgrifen y llythyr ag un Brigstocke ei hun, ac er bod cryn amheuaeth mai ef oedd yr awdur, oherwydd diffyg tystiolaeth llwyddodd i gael ei adfer yn berson Yass. Mae'n debygol mai'r amheuaeth barhaus mai ef oedd yr awdur, fodd bynnag, oedd wrth wraidd y penderfyniad i ddyfarnu iddo un ffyrling o iawndal yn unig pan enillodd yr achos yn y Goruchaf Lys yn erbyn Hardy am enllib maleisus.

Roedd Brigstocke yn y papurau unwaith eto ym mis Gorffennaf 1852 pan ymgymerodd â'r gwaith o gladdu 73 o ddioddefwyr yn dilyn llif erchyll Gundagai, a achosodd 89 o farwolaethau ac a adawodd dim ond tri adeilad yn sefyll. Wedi ugain mlynedd yn weinidog Yass, bu farw Brigstocke yn dilyn salwch mis yn ddim ond 51 ac fe'i claddwyd y tu allan i festri drws Eglwys Sant Clement. Cydnabuwyd ei waith caled a'i ymroddiad gan ei blwyfolion a agorodd gronfa danysgrifio ar gyfer ei garreg goffa, cofeb y tu mewn i'r eglwys a darpariaeth ar gyfer ei wraig a'i bum plentyn oedd yn dal yn fyw.

**Ffynonellau:**


Campbell, Ian, 'Rev. Charles Ferdinand Brigstocke (1807-1859)', *Articles from "The Crossing Place" Newsletter,* (n.d.). Adalwyd o http://sites.rootsweb.com/~auscdfhg/articles_crossing_place.htm

Comisiwn Eglwysig. (1842, Ebrill 15) *The Sydney Herald* Wedi dod o https://trove.nla.gov.au/newspaper/article/28651792?searchTerm=Charles%20ferdinand%20brigstocke&searchLimits=l-Title=37

Phillip, Nan, 'Brigstocke, Charles Ferdinand (1807-1859), *Australian Dictionary of Biography,*1 (1966). Wedi dod o http://adb.anu.edu.au/biography/brigstocke-charles-ferdinand-1826


[1] Phillips, Nan, 'Brigstocke, Charles Ferdinand (1807-1859)', *Australian Dictionary of Biography,* 1 (1966).

# Edward Harold Browne



Edward Harold Browne (1811-1891) oedd ail Is-bennaeth Coleg Dewi Sant, Llambed, cyn iddo ddod yn Esgob Treléi ac yna, Esgob Caer-wynt.

Browne oedd mab ieuaf Cyrnol Robert Browne a'i wraig Sarah Dorothea Steward gynt. Ganwyd ef naill ai yn, neu o gwmpas Aylesbury. Addysgwyd ef yn Eton, ac yna yng Ngholeg Emmanuel, Caergrawnt. Graddiodd gyda gradd BA yn 1832, fel y pedwerydd ar hugain goreugwr. Enillodd ysgoloriaeth ddiwinyddol Crosse yn 1833, ysgoloriaeth Hebraeg Tyrwhitt yn 1834, a'r wobr Norrisaidd yn 1835. Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn 1836 ac yn offeiriad yn 1837. O ran ei eglwysyddiaeth, roedd yn Dractariad brwdfrydig.

Roedd Browne yn gymrawd Coleg Emmanuel am dair blynedd, cyn iddo ddod yn gurad yn Eglwys y Drindod, Stroud am ychydig o fisoedd yn 1840. Hefyd, yn 1840, priododd Elizabeth Carlyon, merch a oedd yn frodorol o Truro. Symudodd nesaf i swydd yn eglwys St James, Exeter, ac yna i swydd arall yn eglwys St Sidwell, Exeter. Yn eglwys St Sidwell, gwnaeth gynhyrfu llawer o'i blwyfolion drwy bregethu gan wisgo gwenwisg.

Yn 1843, penodwyd Browne yn Is-bennaeth ac yn Athro Hebraeg yng Ngholeg Dewi Sant, Llambed. Rhybuddiodd y Pennaeth Llewelyn Lewellin ef gyda'r geiriau 'In this remote country it is well to be, in some degree at least, independent of external resources as to society.' Yn ddiweddarach, gwnaeth Mrs Browne gyfaddef 'we knew nothing of Lampeter, not even being quite sure as to where it was.' Roedd ei amser yng nghanolbarth Cymru yn anodd iddo; roedd terfysgoedd Beca ar eu hanterth, gyda ffermwyr dicllon yn ymosod ar y tolldai a'r tollglwydi. Roedd tŷ'r Is-bennaeth yn agos i dollglwyd; torodd terfysgwr ffenestr drwy daflu tywarchen ati.

Yn ogystal â'r holl drallod hwn yn y gymuned ehangach, gwnaeth Browne ddarganfod bod Coleg Dewi Sant mewn cyflwr gwael. Roedd problemau gyda gweinyddu'r coleg, oherwydd roedd popeth yn cael ei reoli'n bersonol gan y Pennaeth. Gwnaeth Browne, yn ddiweddarach, dynnu sylw Lewellin at y ffaith bod '… the principal is at once tutor, bursar, steward, and even farmer and butcher …' Nid oedd gan y coleg waddol digonol, ac roedd llawer o'r myfyrwyr o safon isel. Yn 1847, llwyddodd Browne gael gwasanaeth arholwyr allanol Rhydgrawnt er mwyn sicrhau safonau academaidd uchel; byddai hyn yn bwysig yn y dyfodol. Cyn iddo ymadael, gwnaeth Browne gynnig cyfres o awgrymiadau ar gyfer diwygio'r sefydliad methedig. Teimlodd y dylai'r cyfrifoldeb am reoli ac am

gyllid gael ei rannu fel sy'n digwydd mewn colegau prifysgolion eraill, a chofnodion busnes y coleg yn agored er mwyn eu bod nhw'n gallu cael eu harchwilio.

Yn ffodus, roedd Browne yn ddarlithydd da ac yn rhoi llawer o'i amser er lles ei fyfyrwyr. Gwnaeth ddarlithio ar ddiwinyddiaeth ddogmatig, hanes yr eglwys, Hebraeg, a Groeg y Testament Newydd. Dywedwyd bod pob un o'i ddarlithiau yn 'all that first-rate lectures should be.' Yn ddiweddarach, cyhoeddodd ei ddarlithiau ar ddiwinyddiaeth ddogmatig yn ei *Exposition of the Thirty-Nine Articles*, (J.W. Parker, 1850-53). Daeth hwn i fod y gwaith safonol ar y pwnc, gyda llawer o argraffiadau yn cael eu cyhoeddi, ac fe ddefnyddid fel gwerslyfr gan ymgeiswyr a oedd am gael eu hordeinio gan Eglwys Loegr. Gwnaeth Browne hefyd lwyddo i ddysgu Cymraeg yn ystod ei amser yn Llanbed.

Ond yn gyffredinol, roedd y blynyddoedd y bu Browne yn Llambed yn rhai anhapus. Roedd ef ac Elizabeth wedi colli tri o blant pan oeddent yno, gan gynnwys merch, Edith Dorothea, a fu farw o'r dwymyn goch. Erbyn diwedd 1848, roedd Mrs Browne yn dweud 'If Harold remains here longer he will go mad!' Ymadawodd Browne â Llambed yn 1850 i fod yn ficer Kenwyn, ger Truro. Ochr yn ochr â hyn, roedd yn gaplan i esgob Cernyw. Yn 1854, dychwelodd i Gaergrawnt i fod yn athro Norrisaidd mewn diwinyddiaeth.

O ran diwinyddiaeth, roedd Browne fel arfer yn geidwadol. Gwnaeth wrthwynebu llawer o'r safbwyntiau a fynegwyd yn *Essays and Reviews* (1860); gwnaeth y gyfrol ddadleuol hon geisio gwneud astudio'r Beibl yn feirniadol ac o safbwynt hanesyddol yn rhywbeth arferol yn Eglwys Loegr. Cyfrannodd Browne at *Aids to Faith,* (John Murray, 1861), ymateb ceidwadol a wnaeth amddiffyn sut y gwelid y Beibl yn draddodiadol. Yn ei erthygl 'Inspiration,' gwnaeth Browne ddadlau bod tadau a diwygwyr yr eglwys wedi gwahaniaethu rhwng yr hyn yr ydym yn ei wybod am ein hunain a'r hyn sy'n cael ei ddatguddio. Mae ei draethawd wedi cael ei ddisgrifio fel y cyfraniad 'most judicious and perhaps the most important' yn y llyfr. Ddwy flynedd wedyn, cyhoeddodd Browne *The Pentateuch and the Elohistic Psalms,* (Parker, Son, and Bourn, 1863), gan wrthwynebu safbwyntiau John William Colenso ar darddiad y Pumllyfr.

Cysegrwyd Browne yn esgob Trelái ym mis Mawrth 1864. Yn rhinwedd ei rôl newydd, ceisiodd ddatblygu isadeiledd goruchwylio a threfnu a oedd yn amlwg fodern. Er gwaethaf ei gydymdeimladau tuag at yr Uchel Eglwys, gweithiodd yn ddiflino er mwyn cael unigolion lleyg i helpu ym mhob gweithgaredd. Yn ei farn ef, roedd cydweithrediad rhwng y clerigwyr a'r lleygwyr, gan gwrdd yn rheolaidd ac ymgynghori yn lled ffurfiol â'i gilydd, yn rhan sylfaenol o drefn lywodraethol yr eglwys. Roedd hwn yn beth arloesol; gwnaeth arloesi'r hyn a fyddai ymhen hir a hwyr yn datblygu'n ffordd safonol i Eglwys Loegr drafod busnes. Roedd ef hefyd yn arloeswr o ran ei gred bod rôl i fenywod, pa beth bynnag oedd eu statws fel gwragedd a merched clerigwyr. Roedd yn gefnogwr cynnar diaconesau. Sefydlwyd The Ely Diocesan Deaconess Home yn Bedford yn 1869.

Yn 1873, cafodd Browne ei enwebu gan Gladstone i fod yn esgob Caer-wynt; gorseddwyd ef y flwyddyn honno ar Ragfyr 11. Yno, gwnaeth barhau i weithredu llawer o'r polisïau yr oedd ef wedi'u dilyn yn Nhrelái. Yn enwedig, ceisiodd ddatblygu gweinidogaeth yr esgobion swffragan. Pan fu farw Archibald Campbell Tait yn 1882, ystyriwyd Browne yn ymgeisydd cryf i'w ddilyn fel Archesgob Caergaint. Er y byddai hwn wedi bod yn benodiad 'diogel iawn' iddo, roedd ei oedran a'i iechyd yn ei erbyn.

Gwnaeth Browne ymddeol fel esgob yn 1890, oherwydd salwch. Bu farw yn ei gartref yn Shales, ger Bitterne, Hampshire, ar Ragfyr 18 1891. Meddai awdur ei goflith yn *The Times*, 'A man of kindly heart, gracious manners, and dignified demeanour, he realized some of the best ideals of an ecclesiastical ruler.'

**Ffynonellau**

Price, D.T.W. (1977). *A History of Saint David's University College Lampeter. Volume one: to 1898.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Garrard, J. (2004). Browne, Edward Harold (1811–1891), bishop of Winchester. *Oxford Dictionary of National Biography.* Adalwyd ar Chwefror 25 2021, oddi wrth https://www-oxforddnb-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-3672

Death Of Bishop Harold Browne. (1891, December 19). *Times*, Adalwyd ar Chwefror 25 2021, oddi wrth https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS85775763/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=b6ecc13e

Death of the late Bishop of Winchester. (1891, December 24). *Church Times.* Adalwyd ar Chwefror 25 2021, oddi wrth https://www.ukpressonline.co.uk/ukpressonline/view/pagview/ChTm_1891_12_24_1282

Kitchin, G.W. (1895). *Edward Harold Browne, D.D., Lord Bishop of Winchester, and Prelate of the Most Noble Order of the Garter. A Memoir.* Adalwyd ar Chwefror 26 2021, oddi wrth https://www.google.co.uk/books/edition/Edward_Harold_Browne_D_D/IeEKAAAAYAAJ?hl=en&gbpv=1&dq=%22edward+harold+browne%22&printsec=frontcover

Knight, F. (2010). Bishops of Ely, 1864-1956. In: P. Meadows (ed.), *Ely: bishops and diocese, 1109-2009* (pp.259-286). Adalwyd ar Chwefror 26 2021, oddi wrth https://www.academia.edu/16563529/Bishops_of_Ely_1864_1956?

# Victor Brox

Dywedwyd bod Victor Brox yn arwr na chafodd y clod a haeddai ym myd cerddoriaeth Blues ym Mhrydain. Ymhlith yr artistiaid y bu'n gweithio gyda nhw roedd Eric Clapton, Muddy Waters, Leonard Cohen, Janis Joplin a Screaming Lord Sutch.

Ganwyd Brox (1941-2023) yn Colby Victor Crozier Hickling yn Stalybridge, Manceinion Fwyaf. Roedd ei dad Samuel Victor yn rheolwr yswiriant. Roedd yn deulu cerddorol; roedd mam y Victor ifanc, Ethel, yn chwarae'r piano a'r mandolin, yn ogystal â chanu. Roedd band cyntaf Victor, a ffurfiwyd pan oedd ond yn ddeuddeg oed, yn perfformio mewn dawnsfeydd yn Neuadd Eglwys y Santes Fair. Yr offeryn cyntaf a ddysgodd oedd y ffidil. Aeth ymlaen at y trombôn, yn awyddus i chwarae ym mand y cadetiaid. Fodd bynnag, pan adawai aelodau eraill, arferai fachu eu hofferynnau, yn awyddus i ddysgu cynifer ohonynt â phosibl. Yn y pen draw gallai ddweud ‘I play most instruments and can knock out a blues on virtually anything.'

Ar ôl mynychu Ysgol Ramadeg William Hulme, aeth Victor i Goleg Dewi Sant, i astudio athroniaeth rhwng 1959 a 1962. Mae cylchgrawn y Coleg, *The Gownsman,* yn sôn amdano'n diddanu'r Gymdeithas Lenyddol ac Athronyddol gyda'i farddoniaeth ei hun. Dywedir ei fod wedi addo cerdd yn y dyfodol, ‘Lament for a burnt hockey stick.'  Yn Llambed, chwaraeodd hefyd mewn band ‘sbasm’, gan ddefnyddio gwrthrychau hapgael i greu cerddoriaeth.

Ar ôl graddio, penderfynodd Victor ei fod am chwarae'r trwmped. Symudodd i Ibiza, cartref y byd jazz bohemaidd ar y pryd. Dywedodd, ‘Charlie Mingus had said that he was going to go and live there so quite a few jazz musicians from Europe and America were there and I got to play with them, so that was a good grounding for me.' Ar yr adeg hon, syrthiodd Victor mewn cariad â Nico, darpar seren Velvet Underground, ar ôl iddi ofyn iddo am wersi canu. Ar ôl dychwelyd i Brydain, dechreuodd weithio fel athro yn Ysgol Iau St Andrew's yn Hadfield. Fodd bynnag, ffurfiodd y Blues Train hefyd a chefnogi artistiaid ar ymweliad o America, gan gynnwys Little Walter a Screaming Jay Hawkins. Yn 1965, priododd y gyfansoddwraig caneuon a'r gantores, Annette Reis. Fe recordion nhw ‘I’ve got the world in a jug’ gyda'i gilydd,  gyda Jimmy Page ar y gitâr. Dyma oedd un o'r recordiau 45 cyntaf yn y byd cerddoriaeth blues Prydeinig. Yn ystod y cyfnod hwn, defnyddiai Victor yr enw Brox.

Symudodd Brox i Lundain yn 1966, ar wahoddiad y cerddor a'r darlledwr Alexis Korner. Rhyddhaodd ei fand nesaf, yr Aynsley Dunbar Retaliation, bedwar albwm rhwng 1968 a 1970. Disgrifir y rhain fel ‘the best of Brox on record.’ Ar yr adeg hon, roedd y band hefyd yn chwarae gyda Jimi Hendrix o bryd i'w gilydd; yn wir, dywedodd Hendrix wrth Brox mai ef oedd ei hoff ganwr gwyn.

Chwaraeodd Brox ran Caiaphas, yr archoffeiriad, ar y recordiad gwreiddiol o waith Andrew Lloyd Webber *Jesus Christ Superstar*  yn 1970*.* Yn 1974, rhyddhaodd ef ac Annette yr albwm, *Rollin’ back*. Cydweithiodd hefyd â Graham Bond, Dr John a Screaming Lord Sutch. Fodd bynnag, roedd y diwydiant cerddoriaeth yn newid cryn dipyn ar y pryd ac, fel y dywedodd Brox, roedd pethau'n dechrau chwythu eu plwc.  Dychwelodd Brox a'i deulu i Fanceinion, a dechreuodd addysgu eto. Ar yr un pryd, ailffurfiodd y Victor Brox Blues Train a ffurfiodd hefyd gwmni cydweithredol i gerddorion, Music Force.  Nod hyn oedd helpu cerddorion i ddod o hyd i gigs byw, gan ddarparu popeth oedd ei angen er mwyn cynnal cyngerdd, gan gynnwys perfformwyr, llogi system ac offer PA , yn ogystal â gosod posteri.

Yn yr 1980au, chwaraeodd Brox yn y band wyth aelod Mainsqueeze gyda Dick Heckstall-Smith. Cyfansoddodd hefyd y sioeau cerdd i blant, *The Book of Dreams* a *Dr Seuss: the musical.*  Yn ddiweddarach, yn y 1990au, canodd gydag Art 314, band blues hynaf Ffrainc. Yn ogystal, fe wnaeth gyfres o deithiau blynyddol blinedig i berfeddwlad Awstralia. Parhaodd Brox i berfformio'n fyw i

mewn i'w wythdegau. Ac yntau'n hapus i chwarae naill ai i dorfeydd enfawr neu i ddwsin o gefnogwyr blues mewn tafarn, ymddangosai'n rheolaidd yn Band on the Wall a Matt and Phreds ym Manceinion. Yn ystod y cyfnod clo, arferai ganu yn y stryd hyd yn oed ym marchnad Ashton gyda'i gitâr acwstig. Chwaraeodd ei gig olaf erioed ym mis Ionawr 2023 yng Ngŵyl Roc a Blues Prydain Fawr yn Skegness, ochr yn ochr â'i ferch Kyla a'i band.

Bu farw o ganser ar 20 Chwefror 2023. Dilynwyd ei angladd yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig Albion, Ashton, gan orymdaith gerddorol o 100 o bobl mewn ffarwel yn arddull New Orleans.

Dywedodd Kyla am ei thad: 'He lived an incredible life and told an incredible story, but they were all true!. … He was playing a tribute gig to Alexis Korner in Buxton once and Jimmy Page and Robert Plant were there. Robert Plant came up to me and my brother Sam and told us how dad was his hero when he was younger. Our jaws were on the floor, but dad just shrugged it off. He never courted fame. I think he needed an audience and he loved being on a stage, but he was just as happy playing in a pub as a festival. He lived for the music.'

**Ffynonellau**


Butler, M. (2023, Ebrill 10). Victor Brox obituary. *The Guardian.* https://www.theguardian.com/music/2023/apr/10/victor-brox-obituary

Butler, M. & Wilkinson, D. (2023, Chwefror 25). The remarkable life of blues legend Victor Brox who played with Hendrix and Clapton, had a love affair with Nico and sang on Jesus Christ Superstar – Victor Brox, said to have recorded the first British blues record, has died. *Manchester Evening News.* https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&t=&sort=YMD_date%3AD&fld-base-0=alltext&maxresults=20&val-base-0=%22victor%20brox%22&docref=news/18FE9F7266FCFCD0

Early blues interview Victor Brox, singer / songwriter / actor /multi-instrumentalist (particularly cornet, keyboards, guitar. Cyrchwyd Ebrill 19 2023 o https://www.earlyblues.com/Interview%20-%20Victor%20Brox.htm

Barlow, N. (2023, Chwefror 26). Victor's blues – a tribute to one of Manchester's greats. About Manchester. Cyrchwyd Ebrill 19 2023 o https://aboutmanchester.co.uk/victors-blues/

Silk, B. (2021, Mai 4). The Blues legend 'born' in a Droylsden schoolroom. Cyrchwyd Ebrill 20 2023 o https://www.questmedianetwork.co.uk/news/tameside-reporter/the-blues-legend-born-in-a-droylsden-schoolroom/

# Janet Burton



Mae Janet Burton yn athro Hanes Canoloesol ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) ac yn arbenigwraig ar urddau mynachaidd a chrefyddol, a chynulleidfaoedd canoloesol.

Cyflwynwyd Burton i hanes canoloesol pan oedd hi'n astudio fel myfyrwraig israddedig ym Mhrifysgol Llundain. Aeth ymlaen i weithio am radd DPhil ym Mhrifysgol Caerefrog; teitl ei thesis oedd *The origins and development of the religious orders in Yorkshire, c. 1069-1200.* Ar ôl hynny, gweithiodd am nifer o flynyddoedd fel archifydd, yn gyntaf yn Sefydliad Ymchwil Hanesyddol Borthwick gynt (Borthwick Institute of Historical Research), ym Mhrifysgol Caerefrog, ac wedyn, ar ôl symud i Gymru, yn Archifdy Ceredigion, a leolir yn Aberystwyth. Gwnaeth jyglo ei swydd ran amser yn Aberystwyth ag addysgu ym Mhrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru, Llambed, yn ogystal ag ymgymryd â gwaith ar ei liwt ei hun ar gyfer gwahanol sefydliadau, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Archaeolegol Caerefrog, English Heritage, a hyd yn oed y Fatican. Yn 1994, penodwyd hi yn ddarlithydd amser llawn yn Llambed; dyrchafwyd hi'n Athro Hanes Canoloesol yn 2006.

Mae Burton wedi ysgrifennu neu olygu deuddeg monograff. Roedd ei chyfrol gyntaf, *English Episcopal Acta V: York, 1070-1154* (Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1988), yn argraff o'r dogfennau anghyhoeddedig hynny a ddosbarthwyd gan y chwe archesgob cyntaf yn dilyn y Concwest, ac fe ymgymerwyd hi â'r gwaith hwn ar wahoddiad yr Academi Brydeinig. Y llyfr cyntaf iddi hi ei ysgrifennu oedd *Monastic and Religious Orders in Britain 1000-1300* (Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 1994), fel rhan o'r gyfres *Cambridge Medieval Textbooks*, ac wedi ei hysbysu gan ei hymchwil cyfoes hi ei hun yn ogystal ag ymchwil eraill. Mae'r llyfr yn symud ymlaen o drafodaeth ar sefydliad y gwahanol fynachlogydd a brodordai i fanylion bywydau crefyddol trigolion y tai hynny. Mae'n archwilio amrywiaeth eang o bynciau, ond mae'n canolbwyntio ar rai penodol, sef sefydliad, goroesiad a thwf y sefydliadau mynachaidd, a chymhellion a pholisïau eu sylfaenwyr a'u noddwyr. Meddai Haseldine, 'It provides an accessible and clear introduction to a wealth of research, but it is in its choice of illustrative material, focusing not on the Ælreds and Saint Hughs, nor on the orders as gradually developing wholes, but on the real struggles and uncertainties of particular institutions, that the book is at its most vivid.'

Yn *The Monastic Order in Yorkshire, 1069-1215* (Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 1999), darparodd Burton adroddiad awdurdodol ar sylfeini a hanes cynnar rhwng chwe deg a saith deg o dai crefyddol

Swydd Efrog a gafodd eu sefydlu rhwng adeiladu Abaty Selby yn 1069 a chynnal y Pedwerydd Cyngor Lateran yn 1215. Teimlodd Dobson mai Burton oedd yr hanesydd delfrydol i ysgrifennu am 'extraordinary exuberance' bywyd crefyddol yn ystod y deuddegfed ganrif yn Swydd Efrog. Ysgrifennodd ef 'the range of her learning is so extensive that she has persuasive new insights to offer on a host of fundamental themes, ranging from monastic recruitment to the function of the Cistercian grange, from the 'cultural identity' of the monks themselves to their much-neglected role as urban landlords.'

Yn *The Cistercians in the Middle Ages* (Gwasg Boydell, 2011), gwnaeth Burton a'i chydawdures, Julie Kerr, gyflwyno arolwg llawn a chynhwysfawr o ddatblygiad yr Urdd Sistersaidd. Mae Holdsworth yn disgrifio'r llyfr fel un sydd wedi'i ddadlau'n dda, ac sy'n hygyrch i ymwelwyr, myfyrwyr ac ysgolheigion sy'n ymweld â safleoedd mynachaidd. Mae'r llyfr yn cynnwys enghreifftiau a ddaw o gyfandir Ewrop, yn ogystal ag o Ynysoedd Prydain, ac mae'n ymwneud â mynachod yn ogystal â lleianod.

Ynghyd â Karen Stöber (yn gynt o Brifysgol Aberystwyth), Burton oedd dechreuwr y prosiect pwysig *Monastic Wales* (www.monasticwales.org). Amcan y prosiect hwnnw oedd 'sefydlu hanes mynachaidd cynhwysfawr Cymru'r Canol Oesoedd a sicrhau bod y canfyddiadau ar gael i ysgolheigion a myfyrwyr, yn ogystal ag i'r cyhoedd ehangach, ar ffurf electronig ac ysgrifenedig'. Bwriad Burton a Stöber oedd symbylu ymchwil academaidd, ond hefyd dosbarthu gwybodaeth ymhlith y cyhoedd ehangach, a dweud y gwir, annog pobl i ymweld â safleoedd mynachaidd penodol. Y cam cyntaf oedd creu cronfa ddata a gwefan; lansiwyd y rhain yn 2009. Yn ogystal â manylion pob urdd a sefydliad, maent yn cynnwys llyfryddiaeth lawn o ffynonellau gwreiddiol a llenyddiaeth eilaidd, cysylltau â deunydd perthnasol sydd wedi'i gyhoeddi ar y we, ac adroddiadau ar waith cysylltiedig sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd. Hefyd, fel rhan o'r prosiect, mae Burton a Stöber wedi golygu casgliad o draethodau, *Monastic Wales: New Approaches* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2013), ac wedi ysgrifennu *Abbeys and Priories of Medieval Wales* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2015), y canllaw darluniadol cyntaf ar dai crefyddol Cymru. Mae Robinson yn disgrifio'r cyhoeddiad hwn fel 'most welcome', gan dynnu sylw at y ffaith ei fod yn cynnwys y brodordai a'r sefydliadau bychain eraill sydd yn aml iawn yn cael eu hepgor. Mae'n ysgrifennu bod llawer iawn os ysgolheictod yn cael ei grynhoi a'i gyflwyno'n ddiymdrech ynddo, a chyda sicrwydd.

Mae hi hefyd wedi cynhyrchu argraffiadau ysgolheigaidd o gartwlari Abaty Byland (2004), hanes sefydlu Byland a Jervaulx (2005), dwy fynachlog Sistersaidd flaenllaw, a hanes sefydlu Selby (2013); mae wedi ysgrifennu dros saith deg o erthyglau a phenodau llyfrau ysgolheigaidd.

Mae ganddi nifer o gredydau fel hanesydd teledu. Mae wedi ymddangos ar *Time Team*, yn gweithio ar raglenni am Towcester yn ne Northamptonshire, Brimham ger Harrogate, a Thetford yn Norfolk. Bu hefyd yn rhan o raglen Dan Snow, *Norman Walks*, yn cyd-deithio ag ef yn y trydydd episod a oedd yn ymwneud ag abatai Swydd Efrog. Esboniodd bwysigrwydd Abaty Ystrad Fflur i Huw Edwards yn y gyfres bwysig *The Story of Wales.*

Mae Burton yn gymrawd o'r Gymdeithas Hynafiaethwyr, yn gymrawd ac yn gyn-is-lywydd o'r Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol ac yn gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru. Mae'n briod â'i chyd-academydd PCYDDS, yr hanesydd canoloesol William Marx.

Er nad yw hi wedi ymddeol (yn llawn) eto, yn 2018, mewn cynulliad annisgwyl yn Rhydychen, cyflwynwyd iddi *Monastic Life in the Medieval British Isles: Essays in Honour of Janet Burton*, a olygwyd gan Karen Stöber, Julie Kerr ac Emilia Jamroziak (Gwasg Prifysgol Cymru).

**Ffynonellau**

University of Wales Trinity Saint David. (2021). Prof Janet Burton BA (Hons.), D. Phil, FSA, FRHistS, FLSW. Adalwyd ar Ionawr 25 2021 oddi wrth https://www.uwtsd.ac.uk/staff/janet-burton/

So who are you Janet Burton? (2010, September 23). *Western Mail.* Adalwyd ar Ionawr 25 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/13270FC13181B8A8?p=UKNB

Haseldine, J. (1995). Monastic and religious orders in Britain 1000-1300. By Janet Burton. (Cambridge Medieval Textbooks.) Pp. xi 354 incl. 4 figs. and 6 maps. Cambridge: Cambridge University Press, 1994. £40. 0521 37441 3. *The Journal of Ecclesiastical History, 46*(4), 704-706. https://doi.org/10.1017/S0022046900080544

Dobson, R.B. (2001). The monastic order in Yorkshire, 1069-1215, by Janet Burton (Cambridge: Cambridge U.P., 1999; pp. 352. £40). Adalwyd ar Ionawr 25 2021 oddi wrth https://www.jstor.org/stable/578799

Holdsworth, C. (2013). The Cistercians in the Middle Ages. By Janet Burton and Julie Kerr. (Monastic Orders.) Pp. viii + 244 incl. 1 map + 4 plates. Woodbridge: Boydell, 2011. £25. 978 184383 6674. https://doi.org/10.1017/S0022046912001844

Monastic Wales. (n.d.) Monastic Wales. Adalwyd ar Ionawr 25 2021 oddi wrth https://www.monasticwales.org/index.php

Robinson, D.M. (2017). Book review: Abbeys and priories of medieval Wales. *The Journal of Ecclesiastical History, 68*(2),401-402. Adalwyd ar Ionawr 25 2021 oddi wrth http://dx.doi.org.ezproxy.uwtsd.ac.uk/10.1017/S0022046916002293

IMDb (n.d.) Janet Burton. Adalwyd ar Ionawr 25 2021 oddi wrth https://www.imdb.com/name/nm2618303/?ref_=fn_al_nm_1

# John Cater



Ganwyd John Charles Cater yn 1953 yn Northampton, Lloegr, a daeth i astudio ym Mhrifysgol Cymru, Llambed yn 1971, gan raddio â gradd BA (gydag anrhydedd) yn 1974. Fel person graddedig, ymunodd â Choleg Polytechnig Lerpwl - Prifysgol John Moore, Lerpwl bellach, i weithio fel cynorthwyydd ymchwil. Yn ddiweddarach, cyflogwyd ef fel Darlithydd a Chymrawd Ymchwil yn yr un sefydliad, yn gweithio ar brosiectau ymchwil y Cyngor Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol a'r Cyngor Cysylltiadau Cymunedol.

Yn rhinwedd ei swydd fel daearyddwr cymdeithasol, mae wedi cyhoeddi yn eang ar hil, tai, datblygiad economaidd a pholisïau cyhoeddus, ac wedi ysgrifennu astudiaethau ymchwil pwysig ar y cyd i'r Cyngor Ymchwil Gwyddorau Cymdeithasol, Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, a'r cyrff a wnaeth eu dilyn. Ar ôl gweithio am ychydig mewn uned bolisi yn Llundain, yn 1979, ymunodd Cater â Phrifysgol Edge Hill, Swydd Gaerhirfryn, ac mae wedi bod yno ers hynny, yn gweithio mewn nifer o swyddi yn ystod ei yrfa ddilynol.

Ar y cychwyn, penodwyd ef yn ddarlithydd Daearyddiaeth, ond daeth yn Bennaeth Polisïau Trefol a Chysylltiadau Hiliol yn 1983, ac yn Is-ddeon y Gyfadran Dyniaethau a Gwyddorau Amgylcheddol a Chymdeithasol yn 1986. Yn 1990, roedd yn gyfrifol am Bolisïau, Cynllunio a Datblygiad ar draws y sefydliad cyfan, a phenodwyd ef yn Gyfarwyddwr Adnoddau yn 1992. Yna, ym mis Mehefin 1993, daeth yn Gyfarwyddwr a Phrif Weithredwr.

Wedi'i benodi yn Is-ganghellor Prifysgol Edge Hill yn 1993, mae John Charles Cater wedi bod yn ei swydd fel pennaeth yn hirach nag unrhyw bennaeth sefydliad addysg uwch arall sydd yn y Deyrnas Unedig ac mae'r rôl y mae ef wedi'i chwarae wedi bod

yn hanfodol i lwyddiant Prifysgol Edge Hill. Dan ei arweinyddiaeth ysbrydoledig, mae wedi goruchwylio datblygiad y Brifysgol honno dros y saith ar hugain mlynedd diwethaf. Gwnaeth ei ymrwymiad i addysg uwch a hyfforddiant athrawon arwain at gael ei wneud yn Gadlywydd Urdd Ardderchocaf yr Ymerodraeth Brydeinig ar Restr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines, 2015.

Yn ogystal â'i rôl fel Is-ganghellor, mae ei gyfrifoldebau presennol yn cynnwys ymwneud ag addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol ar gyfer Universities UK, wedi bod yn gyn-aelod o'r Bwrdd Diwygio Gwaith Cymdeithasol. Ar hyn o bryd, mae'n cynrychioli'r sector mewn trafodaethau ar ariannu addysg a hyfforddiant nyrsys ar gyfer y dyfodol, ac mae'n Gadeirydd Grŵp Ymgynghorol Addysg Athrawon Universities UK.

Mae Dr Cater, ar hyn o bryd, yn gadeirydd grŵp ar y cyd Universities UK (UUK) a Grŵp Ymgynghorol Addysg Athrawon Guild HE (Guild HE Teacher Education Advisory Group - TEAG), ac mae wedi bod yn Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Gyrfaoedd Addysg Uwch ers 1994, ac yn Gadeirydd Lerpwl: Dinas Ddysgu rhwng 2003-2005. Gwnaeth gadeirio'r Gynhadledd Sefydlog ar gyfer Penaethiaid rhwng 2001-2003, wedi bod ei His-gadeirydd rhwng 1997-2001. Roedd yn Gyfarwyddwr yr Asiantaeth Hyfforddiant Athrawon a'i chorff dilynol, Yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu Ysgolion, rhwng 1999-2006, a gwnaeth gadeirio'r Pwyllgorau Achredu ac Archwilio.

Roedd Dr Cater hefyd yn aelod o Banel Ymgynghorol Arbenigol yr Adran Iechyd ar Addysg a Hyfforddiant Nyrsys rhwng 1995-97, ac mae wedi gwasanaethu Rhwydwaith Addysg Iechyd a Pholisi Ymchwil Universities UK ers 2004, ac yn cynrychioli'r holl Is-gangellorion sydd ar Fwrdd Diwygio Gwaith Cymdeithasol yr Adran Iechyd ar y cyd â'r Adran Addysg. Mae'n gyn-gadeirydd Consortiwm Colegol Knowsley 14-19 a Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes Greater Merseyside a Gorllewin Swydd Gaerhirfryn, ac yn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (Quality Assurance Agency QAA) ar Bwerau Dyfarnu Graddau. Yn 2019, penodwyd yn Ddirprwy Raglaw Swydd Gaerhirfryn, a diben y swydd hon yw cynorthwyo'r Arglwydd Raglaw wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau cyhoeddus fel cynrychiolydd personol Ei Mawrhydi mewn sir neu ardal, gan gynnal urddas y Goron.

Mae Dr John Charles Cater CBE yn parhau i arwain Prifysgol Edge Hill i'r cyfeiriad cywir gydag "arweinyddiaeth ragorol a strategol", ac mae'n gwneud hynny drwy fod yn esiampl i eraill, gan gadw'n ffyddlon at ei ymrwymiad ef ei hun i rym trawsnewidiol addysg.

**Ffynonellau:**

Edge Hill University. John Cater. Adalwyd ar Fehefin 10, 2020, oddi wrth https://www.edgehill.ac.uk/corporate-information/directorate/profiles/john-cater/#gref

Edge Hill University. CBE for Edge Hill Vice-Chancellor. Adalwyd ar Fehefin 10, 2020, oddi wrth https://www.edgehill.ac.uk/news/2015/11/cbe-for-edge-hill-vice-chancellor/#gref

Wikipedia. John Cater (academic). Adalwyd ar Fehefin 10, 2020, oddi wrth https://en.wikipedia.org/wiki/John_Cater_(academic)

Wikipedia. Edge Hill University. Adalwyd ar Fehefin 10, 2020, oddi wrth

https://en.wikipedia.org/wiki/Edge_Hill_University

Liverpool John Moores University. Dr John Cater CBE. Adalwyd ar Fehefin 10, 2020, oddi wrth https://www.ljmu.ac.uk/about-us/about-liverpool-john-moores-university/fellows/honorary-fellows-2016/john-cater

# John Cawston

**Caplan y Llynges Frenhinol, Caplan y Fflyd a Chaplan Anrhydeddus i'r Frenhines**

Ymgofrestrodd John Cawston yng Ngholeg Dewi Sant yn 1844, pan oedd yn hugain mlwydd oed, ac yno, cafodd yrfa academaidd ragorol. Enillodd ef wobr Ewclid, cafodd ei ethol yn Ysgolhaig Harford, ac yn 1846, dewiswyd ef yn Uwch Ysgolhaig y coleg. Yn 1847, ordeiniwyd ef gan Esgob Llandaf i guradiaeth St Paul, Casnewydd, Sir Fynwy. Y flwyddyn ganlynol, symudodd ef i St Michael and All Angels, Great Torrington, Dyfnaint, ac yno, fe weithiodd tan 1853, cyn cael ei benodi'n gaplan y Llynges Frenhinol.

Am y naw ar hugain mlynedd nesaf, cafodd Cawston yrfa ragorol, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, fe ddyfarnwyd iddo dair medal. Gwnaeth ef wasanaethu'n gyntaf ar HMS *Bellerophon* ar y Canolfor a'r Môr Du yn ystod Rhyfel Rwsia. Roedd ef yn bresennol yn ystod magneliad a gwarchae Sebastopol (1854-55), cartref Fflyd Môr Du'r Tsar a oedd yn bygwth y Canoldir. Dyfarnwyd iddo ddwy fedal, medal Rhyfel y Crimea a'r fedal Dwrcaidd, gyda chlesbyn Sebastopol am ei fod wedi cymryd rhan yn y frwydr honno.

Gwasanaethodd Cawston nesaf ar HMS *Centaur* (1855-58) ar y Môr Baltig a'r Canolfor, ac oherwydd hynny, rhoddwyd iddo fedal y Baltig. Yna, dilynodd cyfnod yn Ynysoedd India'r Gorllewin ar HMS *Mersey*, a oedd, gyda'i chwaerlong *Orlando*, yn un o'r ddwy long bren hiraf a adeiladwyd ar gyfer y Llynges Frenhinol. Nes ymlaen, gwelwyd Cawston yn ymgymryd â gwasanaeth arbennig ym Mexico yn ystod trafferthion sifil y wlad honno. Yn dilyn gwasanaethu ar HMS *Sutley* ar y Môr Tawel (1862-1867), gwelwyd ef yn gysylltiedig â Magnelaeth y Môr-filwyr Brenhinol, ac yna ym Mhorthladd Portsmouth, lle y bu ef yn gwasanaethu tan 1876.

Gwnaeth penodiadau diweddarach gynnwys caplan Coleg y Llynges Frenhinol, Ysbyty Greenwich gynt, a oedd rhwng 1873 a 1998 yn sefydliad hyfforddi swyddogion y llynges. Yn 1876, cafodd Cawston ei wneud yn Gaplan y Fflyd, swydd y gwnaeth ef ei chadw tan iddo ymddeol yn 1882. Sefydlwyd y rôl Caplan y Fflyd, hynny yw Pennaeth Caplaniaid y Llynges, yn 1859, a Cawston oedd y pedwerydd i gael ei benodi i'r swydd honno.

Yn 1877, er mwyn cydnabod ei wasanaeth i Eglwys y Llynges, dyfarnwyd iddo'r radd DD (Doethur Diwinyddiaeth) gan Dr Tait, Archesgob Caergaint. Cafodd gwasanaeth hir a disglair Cawston i'r Eglwys hefyd ei gydnabod yn 1888, pan benodwyd ef yn Gaplan Anrhydeddus i'r Frenhines.

Gwnaeth ymddeol yn 1882 i Blackheath Park lle y bu ef farw ar Fawrth 3ydd 1900. Cynhaliwyd ei wasanaeth angladdol yn St Margaret's Lee, yr eglwys y gwnaeth ef ei mynychu am lawer o flynyddoedd a lle y gwnaeth ef helpu'n aml gyda'r gwasanaeth. Y Parchedig John L. Robinson, caplan Coleg y Llynges Frenhinol, Greenwich, gwnaeth weinyddu, ac roedd y Caplan y Fflyd ar y pryd hefyd yn bresennol. Gwnaeth Cawston adael ar ei ôl gweddw, merch a mab, hefyd o'r enw John, a ddaeth yn Rheolwr y Bathdy Brenhinol (1917-1921).

**Ffynonellau:**

Cylchgrawn Coleg Dewi Sant, Mehefin 1900, tud. 140-141

# Dick Cole

Richard 'Dick' Cole yw arweinydd y blaid Gernywaidd genedlaethol, Mebyon Kernow, ac mae'n un o arweinwyr gwleidyddol Prydain sydd wedi ein gwasanaethu hiraf.

Mae Cole yn Gernywiad drwyddi draw. Ers cenedlaethau, mae ei deulu wedi byw o gwmpas plwyf St Enoder, ychydig o filltiroedd i'r de-ddwyrain o Newquay. Ei hen, hen dad-cu, John Cole, oedd clerc cyntaf St Enoder, yn ystod y 1800au hwyr. Treuliodd Dick Cole ei blentyndod ychydig y tu allan i bentref Indian Queens. Mynychodd Ysgol Gynradd Indian Queens, ac yna Ysgol Treviglas Newquay. Rhwng 1983 a 1988, bu'n gweithio fel labrwr fferm a garddwr ger pentref Summercourt. Ond gwnaeth hefyd basio tri arholiad level A drwy astudio cwrs gohebol.

O 1988 tan 1991, astudiodd Cole archaeoleg a hanes yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llambed. Ar ôl graddio, parhaodd i aros yn Llambed am dair blynedd arall, gan ymgymryd ag ymchwil ôl-raddedig ac ychydig o addysgu. Yn y brifysgol, gwnaeth Cole ymwneud â Phlaid Cymru; ef oedd ysgrifennydd cangen y brifysgol am ychydig o flynyddoedd, a gwnaeth hefyd gymryd rhan yn ei ddadleuon gwleidyddol cyntaf. Hefyd, yn Llambed gwnaeth Cole gwrdd â'i wraig Ann Reynolds, archaeolegydd arall; gwnaethant briodi yn Eglwys St Enoder yn 1999.

Dychwelodd Cole adref i Gernyw yn 1994, gan ymuno ag uned archaeolegol Cyngor Sir Cernyw. Cynhyrchodd dros 80 o adroddiadau. Roedd y prosiectau y bu ef yn ymwneud â nhw yn cynnwys cloddio eglwys St Piran, Perranzabuloe, a oedd wedi cael ei hamlyncu gan dwyni tywod; y tir caeëdig Rhufeinig-Gernywaidd yn Killigrew, ger Trispen, a Choleg Glasney ym Mhenryn.

Ymaelododd Cole â Mebyon Kernow, Plaid Cernyw, yn 1988; a phedair blynedd yn ddiweddarach daeth yn Swyddog y Wasg ac Ymgyrchoedd i'r blaid honno. Cafodd ei ethol yn arweinydd y blaid yn 1997. Sefydlwyd Mebyon Kernow yn 1951 yng Ngwesty dirwest Oates, yn Redruth. Amcanion gwreiddiol y blaid oedd 'i astudio'r cyflyrau lleol a cheisio gwella unrhyw rai a allai fod yn niweidiol i'r hyn a oedd orau i Gernyw,' i 'feithrin yr iaith Gernyweg a llenyddiaeth Cernyw,' a 'thrwy adnabod eu hunain, i dderbyn ymhellach y syniad bod gan Gernyw nodweddion Celtaidd a'i bod hi'n un o'r chwe chenedl Geltaidd.' Mae'r blaid yn ymgyrchu dros gynulliad Celtaidd sydd â phwerau deddfwriaethol, fel rhan o'r broses o unioni'r fantol o ran democratiaeth yn y Deyrnas Unedig.

Yn 1999, etholwyd Cole yn aelod o gyngor bwrdeistref Restormel, gan gynrychioli plwyf ei gartref, sef St Enoder. Yn ystod y flwyddyn ganlynol, cynhyrchodd y *Declaration for a Cornish Assembly*; a wnaeth alw am gynulliad Cernywaidd datganoledig a refferendwm ar hunanlywodraeth. Er i fwy na 50 000 o bobl, dros 10% o etholwyr Cernyw, ei harwyddo, cafodd y ddeiseb ei diystyried gan lywodraeth Tony Blair. Meddai Cole 'gwnaethant ei hanwybyddu. Dyna oedd gwir dristwch yr 20 mlynedd diwethaf ... nid yw'r llywodraeth ganolog yn deall Cernyw fel y mae hi'n deall Cymru a'r Alban... I raddau, daearyddiaeth yw'r rheswm am hyn - mae'n bell o Lundain ac mae'r Aelodau Seneddol Ceidwadol fel petaent yn gweld bod Cernyw yn lle da iddynt fynd ar eu gwyliau, ond nid ydynt yn ei deall yn fanwl.'

Cadwodd Cole ei sedd ar Gyngor Bwrdeistref Restormel tan iddo gael ei ddiddymu, gan sefydlu awdurdod unedol newydd, Cyngor Cernyw. Ni chaniateir i gyflogeion awdurdod lleol fod yn aelodau etholedig o'r awdurdod; felly, gorfodwyd iddo ddewis rhwng ei broffesiwn fel archaeolegydd a'r rhan yr oedd ef yn ei chwarae yng ngwleidyddiaeth Cernyw. Gwnaeth ymddiswyddo o Uned Archaeolegol Cernyw, ond cafodd ei ethol yn gynghorydd adran St Enoder, gan ennill, yn rhyfedd, 78% o'r bleidlais. Cafodd ei ailethol yn 2013 a 2017; yn 2017 ei fwyafrif o 947 oedd y mwyaf a enillwyd erioed gan unrhyw ymgeisydd yng Nghernyw.

Yn 2014, cafodd y Cernywiaid eu datgan i fod yn lleiafrif cenedlaethol dan Y Confensiwn Fframwaith ar gyfer Amddiffyn Lleiafrifoedd Cenedlaethol. Felly, gwnaethant ymaelodi fel un o aelodau swyddogol cyrion Celtaidd Prydain, fel y gwnaeth y Cymry, yr Albanwyr a'r Gwyddelod. Mae Cole wedi ymgyrchu dros restru 'Cernywaidd' fel cenedligrwydd pendant ar ffurflenni cyfrifiad y DU, gyda'i flwch tic ei hun.  Yng nghyfrifiad 2011, disgrifiodd 73 000 o unigolion Cernyw, neu 14 % o'i phoblogaeth, eu hunain yn Gernywiaid. Dros gyfnod hir, mae Cole wedi ymgyrchu'n uchel yn erbyn newidiadau i etholaethau seneddol sy'n arwain, o bosib, at greu sedd 'Devonwall', gan gynnwys tir a geir yn Nyfnaint yn ogystal â Chernyw. Mae wedi ysgrifennu, 'Mae Cernyw yn genedl hanesyddol gyda'i diwylliant, ei thraddodiadau a'i hiaith ei hun, ond mae'r Cernywiaid yn cael eu hystyried yn lleiafrif cenedlaethol ...Cyflwynais dystiolaeth gerbron y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus gan ofyn yn swyddogol bod yr Aelodau Seneddol yn sicrhau bod y ffin Gernywaidd, sydd wedi bodoli am dros fil o flynyddoedd, yn cael ei pharchu ym mhob adolygiad ffin a gynhelir yn y dyfodol, gan sicrhau na chaiff tiriogaethedd Cernyw ei ddiystyried.'



Dick Cole gyda Ben Lake, AS Plaid Cymru yn cynrychioli Ceredigion

Cole oedd un o dri awdur *Mebyon Kernow and Cornish nationalism,* (Gwasg Academaidd Cymru, 2003), yr astudiaeth academaidd gyntaf i ystyried y blaid Mebyon Kernow a'i lle yn y mudiad Cernywaidd ehangach. Mae Cooper yn disgrifio'r gwaith yn destun pwysig i bawb sydd â diddordeb yn hanes y wladwriaeth Brydeinig fodern a chenhedloedd hanesyddol Ewrop. Hefyd, mae'n dweud bod y cyswllt agos sy'n bodoli rhwng awduron y llyfr a'r wleidyddiaeth maent yn ei disgrifio yn un o gryfderau mwyaf y gyfrol.

Yn 2018, gwnaeth Cole a'i wraig Ann Reynolds gynhyrchu llyfr am y saith deg a thri o ddynion o'u hardal leol a wnaeth farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Wedi ei henwi *Trusting fully trusting. Remembering the men of Fraddon, Indian Queens, St Columb Road and Summercourt who lost their lives in the First World War,* gwnaeth y gyfrol hon ennill Cwpan Holyer an Gof Gorseth Kernow (am y llyfr ffeithiol Cernywaidd gorau i gael ei gyhoeddi yn 2018). Hefyd, yn 2018, cafodd Cole ei ethol yn fardd Gorsedh

Kernow, a rhoddwyd iddo'r enw barddol Gwythyas an Tir, (Gwarcheidwad y Tir). Gwnaeth hyn gydnabod ei waith ymgyrchu dros amddiffyn cyfanrwydd daearyddol a diwylliannol Cernyw.

Mae gan Cole enw da, hyd yn oed ymhlith ei wrthwynebwyr, fel ymgyrchydd diflino dros faterion lleol ac fel Eiriolwr dros y di-rym. Mae wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o ymgyrchoedd a oedd yn ymwneud â thai a chynllunio, gan gynnwys mynnu cael targed tai mwy cynaliadwy, a ffocws cryfach ar ddarparu tai sy'n wir fforddiadwy ar gyfer preswylwyr lleol. Mae wedi ymladd dros ariannu'n deg gwasanaethau cyhoeddus, megis ysbytai ac ysgolion, a dros amddiffyn yr amgylchedd yn well. Mae ef yn bersonol wedi bod yn gyfrifol am dros 40 o geisiadau llwyddiannus am gyllid ar ran grwpiau sydd wedi'u lleoli ym mhlwyf ei gartref, sef St Enoder, gan godi dros £600 000. Meddai ei gydweithiwr Loveday Jenkin amdano: 'Mae ymrwymiad hirsefydlog Dick i Gernyw a'i phobl yn rhyfeddol. Mae ef wedi bod wrth galon cymaint o ymgyrchoedd, ac mae'n wir syndod ei fod wedi dod o hyd i gymaint o nerth i frwydro dros gymunedau Cernyw, dros gyfnod mor arwyddocaol.'

**Ffynonellau**

The infectious zest of Dick Cole. (2013, February 20). *Cornish Guardian.* Adalwyd oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/14496CF4C4C2DF40?p=UKNB

Mebyon Kernow – the Party for Cornwall. (2019, October 23). Cornwall / Ceredigion links [Facebook post]. Adalwyd oddi wrth https://www.facebook.com/MebyonKernow/photos/cornwall-ceredigion-linksplaid-cymru-mp-ben-lake-will-be-a-guest-at-mebyon-kerno/2535513913195837/

Kernow matters. (2020). Dick Cole – politician. Adalwyd ar Fedi 30 2020 oddi wrth https://kernowmatters.wordpress.com/dick-cole-politician/

Morris, S. (2012, January 26). Cornish party Mebyon Kernow sees the future in black and white. *Guardian.* Adalwyd ar Fedi 30 2020 oddi wrth https://www.theguardian.com/uk/2012/jan/26/cornish-party-mebyon-kernow-future

Dale, H. (2017, October 8). Dick Cole celebrates 20 years as leader of Mebyon Kernow. Adalwyd ar Fedi 30 2020 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/1676CE647B4C0208?p=UKNB

Morris, S. (2017, December 26). Westminster failings fuelling Cornish 'crisis of democracy' - Local political leader Dick Cole warns Cornwall will lose out financially due to Brexit, and accuses London of overlooking social problems in the county. *Guardian*, p. 12. Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/169091DE0A925838?p=UKNB

Cole, D. (2020, July 29). Dick Cole. *Cornish Guardian*, p. 21. Adalwyd oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/17C88C2E160C2E28?p=UKNB

Whitehouse, R. (2019, December 10). Dick Cole – St Austell and Newquay general election Mebyon Kernow candidate. Adalwyd ar Hydref 1 2020 oddi wrth https://www.cornwalllive.com/news/cornwall-news/dick-cole-st-austell-newquay-3629059

Cooper, C. (2005). Review: Mebyon Kernow and Cornish nationalism. *Twentieth Century British History.* 16(2),215-217. https://doi-org.ezproxy.uwtsd.ac.uk/10.1093/tweceb/hwi020

Cole, D. (2020). Dick Cole. Adalwyd ar Hydref 1 2020 oddi wrth https://www.blogger.com/profile/08887863266989905144

# Jo Conti

Mae Jo Conti yn ddylunydd gwisgoedd sydd wedi gweithio ym mydoedd opera, hysbysebion teledu, adloniant ysgafn a drama. Hi hefyd yw perchennog Hufen Iâ Conti, sy'n sefydliad eiconig yn Llambed.

Mae Conti yn un o ddisgynyddion teulu enwog a ddaeth i Gymru o'r Eidal, yn wreiddiol o Bardi, sydd wedi'i lleoli ryw ddeugain milltir i'r de-orllewin o Parma. Pan oedd hi'n dair ar ddeg mlwydd oed, daeth ei thad-cu Artillio i Gymru i werthu pren i'r diwydiant glo. Ar y cychwyn, bu ef a'i frodyr Giacomo ac Alfredo yn gweithio i Eidalwyr eraill, ond ymhen hir a hwyr, gwnaethant gynilo digon o arian i agor caffi yn Ystradgynlais. Bryd hynny, nid oedd neb bron wedi clywed am goffi a hufen iâ. Ar ystyried bod yna fwlch yn y farchnad, gwelodd y brodyr botensial i'w harlwyo mewn amgylchedd caffi. Roedd y caffis yn llwyddiant ar unwaith; ar eu hanterth, roedd dau ar bymtheg caffi Conti wedi'u lleoli ar draws De a Gorllewin Cymru. Agorwyd caffi Llambed yn 1933. Magwyd Jo Conti yn Llambed, a gwnaeth fynychu Ysgol Gyfun Llambed. Medd hi 'Ers oeddwn yn fach, gwnaeth y caffi chwarae rhan enfawr yn fy mywyd. Rwy'n cofio pan oeddwn yn naw mlwydd oed yn syllu dros y cownter a gweld fy rhieni wrth eu gwaith. Roedd yn lle gwych i gael fy nghodi oherwydd roedd pawb mor gyfeillgar, ac roedd fy nheulu yn adnabod pawb. Y caffi oedd calon y dref'.

Gradd gyntaf Jo Conti oedd BA mewn Dylunio Ffasiwn o Brifysgol Kingston. Ers hynny, mae wedi bod ar gwrs darlunio ffasiwn yng ngholeg Central Saint Martins, ac wedi astudio am radd Astudiaethau'r Cyfryngau gyda Phrifysgol Cymru, Llambed. Ei gyrfa wreiddiol oedd fel dylunydd a darlunydd ffasiwn. Ond, ar ôl ennill gwobr Dylunydd Y Flwyddyn Cymru, rhoddwyd iddi sioe ysgubol yng Ngwesty'r Savoy yng nghanol Llundain. Ymhlith y sawl a sylwodd ei chasgliad oedd y Fonesig Siân Phillips. O ganlyniad, defnyddiwyd dyluniadau Conti yn y gyfres dditectif Gymraeg *Yr Heliwr*, a wnaeth gynnwys Phillip Madoc. Yn ystod y flwyddyn ganlynol, gofynnodd ddau gynhyrchydd teledu i Conti ddylunio ar gyfer cyfres opera yr oeddent yn gweithio arni, ac a fyddai'n cael ei ffilmio yn Verbier, yn ne-orllewin y Swistir. Ers hynny, mae wedi gweithio ar amrywiaeth o gynhyrchiadau, gan gynnwys yr opera sebon Cymraeg *Pobol y Cwm,* y gyfres blant *Sali Mali,* a hysbysebion ar gyfer Smirnoff Vodka a Bushmills Whiskey. Mae'n gweithio'n rheolaidd i ddrama ysbyty hirsefydlog y BBC, sef, *Casualty.* Yn ystod misoedd yr haf, mae hefyd yn dylunio ar gyfer *Jamie Johnson,* rhaglen CBBC boblogaidd sydd wedi'i seilio ar gyfres o lyfrau gan Dan Freedman. Erbyn hyn, mae pumed gyfres y rhaglen hon, sy'n ymwneud â chwaraewr pêl-droed ifanc ac uchelgeisiol, wedi dod i ben. Yn ogystal â mynd i'r afael â nifer o faterion anodd, mae'r rhaglen hon hefyd wedi cynnwys cameos gan bobl enwog megis Gary Lineker, Jürgen Klopp a Marcus Rashford. Er nad yw hi'n dilyn pêl-droed, medd Conti 'Er mawr syndod a phleser i mi, gwnes fwynhau'n fawr y profiad o weithio ar y rhaglen hon.'

Fel dylunydd gwisgoedd, mae Conti yn gyfrifol am greu'r holl wisgoedd ar gyfer yr actorion sy'n ymddangos mewn cynhyrchiad ffilm neu deledu. Gwnaiff hi gynhyrchu'r dyluniadau cychwynnol a'u gweld drwy'r holl broses tan i'r gwisgoedd gael eu gorffen. Gwnaiff hi sefydlu sut mae pob cymeriad yn cael ei weld;  mae gwisgoedd yn darparu cliwiau cynnil am fywydau a phersonoliaethau pobl. Er gwaethaf y parch sydd ganddi am wisgoedd cyfnod, gall gwisgoedd cyfredol fod yn llawer anoddach i'w cynhyrchu. Y mae cyfoeth enfawr o ddewisiadau dichonadwy ar gael, ac mae'r gynulleidfa yn gyfarwydd â'r dillad y maen nhw eu hunain yn eu gwisgo. Mae'n waith ymdrechgar; mae'r diwrnodau, fel arfer, yn dechrau'n gynnar ac yn gorffen yn hwyr.

Mae Conti hefyd yn ddylunydd gemwaith ac yn ddarlunydd llyfrau profiadol. Yn benodol, mae hi wedi paratoi darluniau ar gyfer *Mabinogion legends: from the Red Book of Hergest*, (Gwasg Llanerch, 1992)

Gan ddychwelyd i amgylchfyd ei phlentyndod, gwnaeth Jo Conti a'i mab Tom gymryd drosodd y busnes teuluol yn Llambed yn 2012. Erbyn hynny, hwnnw oedd y caffi Conti diwethaf a oedd ar ôl, ac un o'r ychydig gaffis Eidalaidd i gael ei sefydlu cyn yr Ail Ryfel Byd. Gweithiodd Jo a Tom yn galed i adfer y caffi i'w ogoniant blaenorol. Erbyn hyn mae'n ffynnu ac yn fan i'r gymuned gwrdd, ac mae'n arlwyo cynnyrch lleol da, yn ogystal â hufen iâ enwog Conti. Ceir hefyd ail gaffi Conti gerllaw, yn Llanerchaeron, ar safle'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r hufen iâ a oedd unwaith ar gael yn Llambed yn unig, ac a oedd yn cael ei gynhyrchu yn unol â rysâit cyfrinachol iawn y teulu, erbyn hyn ar gael mewn llawer o gaffis a bwytai ar hyd ac ar led De a Chanolbarth Cymru.

**Ffynonellau**

Conti, J. (2021). Jo Conti. Costume designer at BBC Studios, Business Owner and Certified Content Marketing Freelancer [LinkedIn page]. LinkedIn. Adalwyd ar Fawrth 11 2021 oddi wrth https://www.linkedin.com/in/jo-conti-525b3632/

Conti, J. (2020). Costume design by Jo Conti. Adalwyd ar Fawrth 11 2021 oddi wrth https://www.joconti.com/

Conti's (2017). Our history / Ein hanes. Adalwyd ar Fawrth 11 2021 oddi wrth https://www.contisicecream.com/history-hanes

Parry, N. (2012, November 14). Family's happy to share memories of our 'café culture'. *Carmarthen Journal.* Adalwyd ar Fawrth 12 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&t=&sort=YMD_date%3AD&fld-

Mandy (2021). Jo Conti. Adalwyd ar Fawrth 12 2021 oddi wrth https://www.mandy.com/uk/crew/jo-conti-1

Gems Agency (2019). Costume designer Jo Conti. Adalwyd ar Fawrth 12 2021 oddi wrth https://www.gemsagency.co.uk/cv_profile/jo-conti/1213

Set-étiquette (2020, June 15). How to become a costume designer: the ultimate guide 2020 [Blog post]. Adalwyd fis Mawrth 2021 oddi wrth https://www.setetiquette.com/how-to-become-a-costume-designer-the-ultimate-guide-2020/

**Austin Pugh Cook**
**1893-1917**



Ganwyd Austin Pugh Cook yn 1893 yn Hwlffordd lle roedd ei rieni yn rhedeg siop lysiau a ffrwythau o gartref y teulu ar Stryd y Bont. Roedd Austin yn ddisgybl talentog ac ar ôl "gyrfa ysgolheigaidd o fri", aeth ymlaen i astudio'r Clasuron yng Ngholeg Dewi Sant. Yma hefyd roedd yn fyfyriwr gweithgar ac enillodd nifer o wobrau ac ysgoloriaethau trwy gydol ei amser yn y coleg. Yn ystod ei gyfnod yn Llanbedr Pont Steffan, ni wnaeth Austin ymroi o'i amser yn gyfan gwbl i'r byd academaidd ond cymerodd ran mewn ystod o weithgareddau allgyrsiol. Roedd yn aelod gweithgar o'r Gymdeithas Gerddorol ac yng ngwanwyn 1915, fe berfformiodd yng nghynhyrchiad y coleg o'r opera *Trial by Jury* a gafodd ei llwyfannu er mwyn codi arian ar gyfer ymdrech y Rhyfel Byd Cyntaf.



Yn hoff o chwaraeon, roedd Austin yn chwarae ar yr asgell ar gyfer ail dîm rygbi XV, ac ar ddiwrnod mabolgampau'r coleg yn ystod mis Mawrth 1914, enillodd ei wobr gyntaf am 'daflu pêl criced'.

Ar ôl iddo raddio ag anrhydedd yn 1915, aeth Austin ar unwaith i listio yn y lluoedd arfog. Ymunodd â'r Milwyr Traed Ysgafn y Llynges Frenhinol fel ail lefftenant a chafodd ei aseinio i'r Fyddin Ymgyrchol Môr y Canoldir gydag ail fataliwn y Llynges Frenhinol. Ym mis Mai 1916, anfonwyd bataliwn Austin i Ffrainc i gefnogi'r ymladd ar y Ffrynt Gorllewinol. Fis yn ddiweddarach, fe'i benodwyd i Fagnelfa Mortar Ysgfan y 188fed Brigâd a chyda'r uned hon, yn Fricourt, roedd yn rhan o'r diwrnodau cyntaf o ymladd ym Mrwydr y Somme.

Roedd mortarau'r ffosydd yn arfau newydd ac anrhagweladwy ac ar 3 Awst 1916, lladdwyd pump o ddynion o frigâd Austin mewn ffrwydrad damweiniol. Er i Austin gael ei niweidio yn y digwyddiad,

llwyddodd i ddianc rhag anaf difrifol ac fe ailymunodd â'i fataliwn dri diwrnod yn ddiweddarach. Yn dilyn cyfnod o salwch yn yr hydref yn 1916, a seibiant yn ei gartref dros y Nadolig, wynebodd y lefftenant newydd gyfnod o ail-hyfforddiant yn Calais. Dychwelodd Austin i wasanaeth gweithredol ar 24 Gorffennaf 1917 ond cafodd ei ladd ddau ddiwrnod yn ddiweddarach wrth ymladd ym Mrwydr Arleux, ger Arras. Roedd yn 23 mlwydd oed.

Claddwyd Austin mewn mynwent i filwyr ffosydd y llynges yn Gavrelle yn Ffrainc ac mae'n cael ei goffáu ar restr anrhydeddau Coleg Dewi Sant ac ar gofeb ryfel yn Eglwys y Santes Fair, Hwlffordd.

“Ymunodd â'r lluoedd ym mis Mehefin 1915 ac roedd yn llawn brwdfrydedd am ei ddyletswyddau newydd. Roedd yn rhan o Frwydr Fricourt, ac o'i uned dim ond ef, swyddog clwyfedig a 30 o ddynion a ddychwelodd adref. Cafodd amser llafurus iawn yn y ffosydd a chafodd nifer o ddigwyddiadau hynod i'w hadrodd."

O'r *Haverfordwest and Milford Haven Telegraph*, 1 Awst 1917

**Ffynonellau:**

Roberts, S. (2018). *1918-2018 – coffâd. Coleg y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.*

## William Augustus Brevoort Coolidge

### Academydd a Mynyddwr



Pan wnaeth y Parchedig John James Lias, Athro Saesneg yng Ngholeg Dewi Sant, Llambed, ymddeol yn 1880, Cymrawd yng Ngholeg Madlen, Rhydychen, oedd ei olynydd, sef William Augustus Brevoort Coolidge. Er nad oedd Coolidge yn Llambed am gyfnod hir, nid oes unrhyw amheuaeth ei fod wedi mwynhau ei amser yno, gan ymdrochi ei hun yn frwdfrydig ym mywyd y coleg, ac fel y mae rhodd yn 1889 i Gronfa Adeiladu ac Ymestyn Cyffredinol y Coleg yn tystiolaethu, gwnaeth y serch a oedd ganddo at y coleg barhau yn hir ar ôl iddo ymadael ag ef. Daeth Coolidge i fyw yn Llambed ym mis Medi, 1880, yn barod ar gyfer Tymor Gŵyl Mihangel, ac roedd yr argraff a gafodd yr ardal arno yn ffafriol: "It is a very pretty place and the walks among the hills very enjoyable". Ond roedd un *caveat*: "the language is the great difficulty". Gwnaeth ymgartrefu'n gyflym yn y coleg, ac mae ei ohebiaeth â'i gyfaill yng Ngholeg Madlen, yr ysgolhaig litwrgïaidd enwog Henry Austin Wilson (1854-1927), yn cyfeirio at y Llyfrgell - "it has some very curious old books but there is no catalogue". Yn ogystal ag addysgu Saesneg, roedd ei gyfrifoldebau yn cynnwys addysgu Hanes a golygu'r *St David's College Magazine*, a gwnaeth ef ei hun gyfrannu "A Visit to the Pays de Neff" at rifyn Tachwedd 1880.

Yna, digwyddodd yr annisgwyliadwy; roedd Coolidge yn dal i fod yn Gymrawd Coleg Madlen (a dweud y gwir, disgwyliwyd y byddai ei gymrodoriaeth yn parhau tan ei farwolaeth), ond yn ystod Gwanwyn 1881, gofynnwyd yn sydyn iddo ddychwelyd i'r coleg er mwyn, ar y cychwyn, ymgymryd â dyletswyddau amhenodol: ond yn anffodus, gwnaeth hyn olygu ymddiswyddo o'i gadair yn Llambed, ymddiswyddiad a wnaeth siomi'n fawr Bwrdd y Coleg a chorff y myfyrwyr. Ymadawodd â Choleg Dewi Sant tuag at ddiwedd mis Mawrth, 1881.

Felly, pwy oedd yr Athro Coolidge? Americanwr oedd ef a anwyd yn Efrog Newydd ar Awst 28, 1850. Masnachwr yn Boston oedd ei dad Frederick, a'i fam oedd Elizabeth Brevoort, aelod o deulu o Efrog Newydd a oedd wedi gwneud ei ffortiwn yn y fasnach grwyn. Un o ddisgynyddion y teulu hwn a aeth ar led oedd Calvin Coolidge (1872-1933), a oedd, o 1923 tan 1929 yn Arlywydd Unol Daleithiau America. Mae tad yr Athro Coolidge yn ffigwr aneglur; magwyd y crwt ifanc gan ei fam a chwaer ei fam Marguerite ('Meta'), un a fyddai'n cael dylanwad ffurfiannol arno, ac yn ei gyflwyno i'w garwriaeth gydol oes, sef dringo mynyddoedd ac ysgrifennu am yr Alpau. Meta oedd un o'r mynyddwragedd cyntaf, ac yn aml, byddai hi a'i nai yn dringo gyda'i gilydd.

Addysgwyd Coolidge yn gyntaf yn St Paul's School, Concord, New Hampshire, ond ar ôl i'w fam, chwaer Lil, a'i fodryb symud i Ewrop, addysgwyd ef yn Elizabeth College, Guernsey, cyn dechrau yng Ngholeg Caerwysg, Rhydychen yn 1869. Cafodd ei ethol yn Gymrawd Coleg Madlen yn 1875 a gwnaeth addysgu Hanes am ugain mlynedd yn y brifysgol, heblaw am y cyfnod byr pan oedd ef yn Llanbed. Ordeiniwyd ef yn Ddiacon yn Eglwys Loegr yn 1882, ac yn Offeiriad yn 1883, gan gynorthwyo, pan oedd ei ddyletswyddau a'i ddiddordebau eraill yn caniatáu, yn eglwys St Laurence, South Hinksey (ei unig brofiad o waith plwyfol) tan iddo ymadael â Rhydychen yn 1896. Ar ôl 1896, gwnaeth Coolidge ei gartref yn yr Alpau a oedd mor annwyl iddo, yn y Chalet Montana, Grindelwald, ac yna, bu farw ef yn 1926. Adeiladwyd Chalet Montana i Coolidge, ac yno, gwnaeth ef sefydlu llyfrgell gynhwysfawr a chasglu ynghyd rhyw 26,000 o gyfrolau ar lenyddiaeth Alpaidd. Erbyn hyn, roedd ei ddringo personol, i ran helaeth, wedi dod i ben; gwelodd y 70au a'r 80au ei weithgaredd mwyaf, ac roedd ambell gopa ar ôl yn Alpau'r Swistir, Ffrainc a'r Eidal nad oedd ef wedi'u dringo. Etifeddiaeth barhaol yr holl weithgaredd hwn oedd ei nifer rhyfeddol o gyhoeddiadau, mewn llyfrau ac erthyglau, ar ardaloedd a mynyddoedd. Roedd ef yn hollol rugl mewn Ffrangeg ac Almaeneg, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y rhestr o'i weithiau. Yn ystod ei flynyddoedd olaf, gwnaeth prifysgol Berne gydnabod ei gyfraniadau ysgolheigaidd ar hanes a daeareg y Swistir, a gwnaethant ei wobrwyo â Doethuriaeth anrhydeddus mewn Athroniaeth.

## Andrew Crome

Mae Andrew Crome yn academydd gyda diddordebau sy'n amrywio o feddwl apocalyptaidd yr $17^{eg}$ a'r $18^{fed}$ ganrif i *Doctor Who.*

Ganwyd Crome yn Llundain, ond symudodd ei deulu i St Andrews pan oedd e'n saith mlwydd oed. Pan oedd e'n ei arddegau, gwnaeth ddilyn nifer o fandiau Cymru; gwnaeth ei frwdfrydedd am y band Catatonia ei arwain at actau llai, gan gynnwys Big Leaves, a wnaeth recordio eu gwaith yn rhannol yn y Gymraeg.  Dyna pam i raddau mae'n meddwl bod Ceredigion wedi bod yn gyrchfan mor ddeniadol iddo. Daeth i Brifysgol Cymru, Llambed i astudio Diwinyddiaeth a Hanes yr hen fyd. Mae'n cofio bod yn ymwybodol iawn o hanes y sefydliad hwnnw a'r naws o draddodiad a oedd yno. Mae hefyd yn galw at gof rhyw gnewyllyn o academyddion a oedd fel petaent yn ymgorffori'r lle.

Ar ôl graddio, aeth Crome ymlaen i ymgymryd ag astudiaethau ôl-raddedig. Dyfarnwyd ei radd PhD yn 2009 gan Brifysgol Manceinion ar sail gwaith â'r teitl *Jews and the literal sense: hermeneutical approaches in the apocalyptic commentaries of Thomas Brightman (1562-1607).* Swydd academaidd gyntaf Crome oedd Darlithydd dros dro mewn Crefyddau a Diwinyddiaeth, a leolir hefyd ym Manceinion. Dilynodd blwyddyn o weithio fel Cymrawd Ôl-ddoethurol Llywodraeth Iwerddon yng Ngholeg y Drindod, Dulyn. Yna, dychwelodd i Brifysgol Manceinion i gychwyn ar swydd Darlithydd Hanes Cristnogaeth. Yn 2016, symudodd i ran arall o'r ddinas i fod yn Uwch-ddarlithydd Hanes Modern Cynnar ym Mhrifysgol Fetropolitanaidd Manceinion.

Ceir dwy agwedd benodol i ymchwil Crome. Ar y naill law, mae'n disgrifio ei hun fel hanesydd sy'n arbenigo mewn meddwl apocalyptaidd ac sy'n canolbwyntio ar y byd Prydeinig ac Iwerydd rhwng y $17^{eg}$ a'r $19^{eg}$ ganrif. Ei lyfr *The restoration of the Jews* (Springer, 2014) oedd y gyfrol gyntaf i archwilio'n fanwl bywyd a gweithiau Thomas Brightman, esboniwr Beibl cyfnod y Tuduriaid a'r Stiwartiaid cynnar. Yn *Christian Zionism and English national identity* (Palgrave Macmillan, 2018), gwnaeth Crome archwilio pam y gwnaeth Cristnogion Prydain, o'r $17^{eg}$ ganrif ymlaen, gredu bod gan eu cenedl genhadaeth arbennig i adfer Palestina i'r Iddewon. Meddai Lewis 'Dyma gyfraniad sydd wedi'i ymchwilio'n ofalus a'i ysgrifennu'n ardderchog.... Mae'n adeiladu ar waith blaenorol ugeiniau o  ysgolheigion, ond mae hefyd yn cynnig mewnwelediadau newydd a threiddiol ar sut oedd Protestaniaid Prydain yn ystyried yr Iddewon, a'u rôl wrth i hanes Prydain esblygu.'

Ar y llaw arall, mewn gwrthgyferbyniad llwyr, mae Crome hefyd yn gweithio ar ddiwylliant poblogaidd yr $21^{ain}$ ganrif. Ei gred yw bod adloniant poblogaidd yn gallu bod yn ffynhonell bwysig arall o wybodaeth am grefydd, gan ddadlau bod ugeiniau o sioeau yn defnyddio themâu crefyddol fel sail i'w plotiau. Yn ogystal ag ysgrifennu ar ddiwylliant pop apocalyptaidd, mae Crome yn fwyaf enwog  am ysgrifennu am *Doctor Who*, cyfres y gwnaeth ddechrau ei gwylio pan oedd yn fachgen bach. Mae hefyd yn cofio darllen y gyfres lyfrau *Target*; dechreuodd ei ddiddordeb yn y sioe hon oherwydd y gair printiedig yn ogystal ag oherwydd gwylio'r episodau eu hunain ar y teledu. Bu Crome yn gyd-olygydd *Religion and Doctor Who* (Darton, Longman a Todd, 2013), casgliad o draethodau a amserwyd i gyd-ddigwydd â phen-blwydd y rhaglen, yn hanner canrif oed. Creda Crome fod ' *Doctor Who*, mewn llawer o fyrdd, yn siartio agweddau Prydeinwyr tuag at Grefydd dros y cyfnod hwnnw o 50 mlynedd,' a bod 'gan Grefydd bob amser, o fewn gwahanol fydysawdau Doctor Who, ryw ran i'w chwarae, ac felly rwy'n dadlau bod rheswm da i ddefnyddio *Doctor Who* i addysgu astudiaethau crefyddol.'  Dywed fod dilynwyr ffuglen wyddonol yn gyfarwydd â meddwl am syniadau mawr. Mae llawer ohonynt â diddordeb yn y rhan y mae crefydd yn ei chwarae mewn cymdeithasau ffuglennol a'r elfennau athronyddol a diwinyddol sy'n codi oherwydd hynny. Mae'r Daleks wedi'u portreadu fel ffwndamentalwyr crefyddol, ac yn fwy diweddar, Eglwys Loegr fel grŵp paramilwrol.  Cynhaliwyd yr episod a welodd  y Doctor, wedi'i actio gan Jon Pertwee, yn atffurfio ac

yn trawsnewid i greu'r Doctor a actiwyd gan Tom Baker mewn canolfan fyfyrdod Bwdhyddion Tibetaidd.

Yn fwy eang, mae Crome wedi ymchwilio i ddilynwyr cyfoes (a ddiffinnir fel hunaniaeth gyfunol wedi'i seilio ar frwdfrydedd a rennir dros ryw elfen o ddiwylliant torfol, a'r cyfranogiad rheolaidd mewn gweithgareddau grŵp sy'n codi oherwydd hyn). Yn enwedig, mae wedi archwilio *My Little Pony,* lein o deganau a gaiff ei marchnata gan Hasbro Inc. ac sy'n gysylltiedig ag amrywiol cartwnau arbennig a chyfresi. Ers 2010, mae'r etholfraint wedi cynhyrchu nifer enfawr o ddilynwyr, fel arfer bechgyn a dynion rhwng pymtheg a phymtheg ar hugain mlwydd oed. Yn ei waith ar y pwnc, mae Crome wedi herio'r farn mai rhywbeth secwlar i gymryd lle crefydd yw bod yn aelod o grŵp o edmygwyr. Mewn gwrthgyferbyniad llwyr, mae'n gweld bod edmygwyr sy'n Gristnogion wedi gallu cynhyrchu gwaith 'ffan' crefyddol, gan gynnwys celfyddyd, ffuglen a hyd yn oed oedfaon eglwysi sydd wedi'u seilio ar themâu 'ffan'. Mae'n bosibl i grwpiau dilynwyr weithio fel iaith a rennir, gan olygu gall y gymuned ehangach o ddilynwyr ymgymryd â gweithiau diwinyddol.

Yn fwy diweddar, mae Crome wedi ysgrifennu ar sut caiff offeiriaid eu darlunio ar deledu cyfoes ym Mhrydain; gwnaeth archwilio *Broadchurch, Broken, Fleabag* a *Rev.* Yn wahanol i'r hen stereoteip o'r clerigwr sy'n bwnglera, mae'r cyfresi newydd hyn yn dangos rôl ganolog clerigwyr mewn plwyfi canol dinas yn ymgymryd yn weithredol â materion diwinyddol.

Mae Crome wedi ysgrifennu i NME a gwefan y BBC. Mae wedi ymddangos ar Radio 4 y BBC, Radio 5 ac ar Radio Manchester, yn ogystal ag ar nifer o orsafoedd radio lleol. Mae *The Times, The Independent* ac *USA Today* wedi cyfweld ag ef ynglŷn â'i ymchwil.

**Ffynonellau**


Manchester Metropolitan University. (2021). Dr Andrew Crome. Adalwyd Ionawr 13 2021 oddi wrth https://www.mmu.ac.uk/hpp/staff/profile/index.php?id=2591

Deacy, C. (Interviewer). (2019, October 22). Andy Crome. Adalwyd Ionawr 11 2021 oddi wrth https://audioboom.com/posts/7402647-andy-crome

Lewis, D. (2019). *Christian Zionism and English national identity, 1600-1805.* By Andrew Crome. New York: Palgrave-McMillan, 2018. vi + 305 pp. $109 hardcover. *Church History, 88*(3),850-852. https://doi.org/10.1017/S0009640719002245

Balstrup, S. (2018). Crome, Andrew and James McGrath (eds.), *Time and relative dimensions in faith: religion and Doctor Who. Journal for the Academic Study of Religion, 31*(3). https://doi.org/10.1558/jasr.38769

Williams, J. (2013, November 1). Let Doctor Who teach us about religion says Christianity expert – TV favourite 'charts changing attitudes' Daleks 'are depicted as religious zealots.' *Manchester Evening News.* Adalwyd Ionawr 13 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/149CE868968C3F50?p=UKNB

Crome, A. (2014, August 20). New series of Doctor Who promises to be great for teaching religious studies. *The Conversation.* Adalwyd Ionawr 13 2021 oddi wrth https://theconversation.com/new-series-of-doctor-who-promises-to-be-great-for-teaching-religious-studies-30428

Chandler, D., & Munday, R. fandom. In *A Dictionary of Social Media*. Adalwyd Ionawr 13 2021, oddi wrth https://www-oxfordreference-

com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/acref/9780191803093.001.0001/acref-9780191803093-e-466.

Crome, A. (2014). Reconsidering religion and fandom: Christian fan works in My Little Pony fandom. *Culture and Religion, 15*(4),399-418. Adalwyd Ionawr 13 2021 oddi wrth http://e-space.mmu.ac.uk/619586/

Crome, A. (2020). “Wonderful”, “hot”, “good” priests: clergy on contemporary TV and the new visibility of religion thesis. *Religions, 11*(1),38. Adalwyd Ionawr 14 2021 oddi wrth https://www.mdpi.com/2077-1444/11/1/38/htm

# Andrew Curl

Mae Andrew Curl wedi bod yn Gyfarwyddwr ac yn Is-lywydd Smithkline Beecham, yn ogystal â Phrif Weithredwr y grŵp elusennau gofal iechyd EnViva Care.

Gwnaeth ei amser yng Ngholeg Dewi Sant, Llambed roi iddo ei flas cyntaf o brofiad busnes, wrth iddo redeg bar Undeb y Myfyrwyr. Gwnaeth hefyd nifer o ffrindiau gydol oes. Pan wnaeth Curl raddio o Lambed yn 1974, roedd yn gwybod ei fod am ddilyn gyrfa mewn busnes ac arweinyddiaeth, gan weithio i gwmni mawr o'r radd flaenaf. Ymunodd â Smithkline Beecham, un o gwmnïau gofal iechyd blaenllaw'r byd a'r darparwr mwyaf o wrthfiotigau a brechlynnau. Arhosodd Curl yno am y saith ar hugain mlynedd nesaf. Yn ystod yr amser hwnnw, gwnaeth reoli gweithrediadau'r cwmni yn America Ladin, Japan, y Dwyrain Pell, India ac Ewrop. Ei rôl olaf gyda'r cwmni oedd Cyfarwyddwr ac Is-lywydd Datblygiad Strategol Ewropeaidd.

Yn 2001, daeth Curl yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain. Gwnaeth ei rôl ganolbwyntio ar bolisi masnach a materion economaidd a chyhoeddus, yn enwedig y rhai a oedd yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig.

Gwnaeth ei waith gyda'r Athro Syr Mike Richards, y Tsar Canser Cenedlaethol ar y pryd, arwain at greu'r Bartneriaeth Fenter Oncoleg Fferyllol. Gwnaeth hon ddatblygu system TG, (C-PORT - Chemotherapy Planning Oncology Resource Tool), i fynd i'r afael â'r ffaith bod y defnydd a wneir o feddyginiaethau canser newydd yn amrywio'n fawr iawn ledled y wlad. Roedd C-PORT yn defnyddio dulliau ystadegol i ragfynegi sut y byddai unedau cemotherapi yn perfformio o dan amgylchiadau gwahanol; felly gwnaeth eu galluogi i ailgynllunio sut y dylent weithredu therapïau wrth i feddyginiaethau newydd ddod ar gael. Gwnaeth hefyd ddangos sut y gallai'r diwydiant fferyllol gydweithio'n effeithiol gyda'r GIG er lles cleifion. Yn gysylltiedig â hyn, Curl oedd enillydd byd-eang y Wobr CIO am greu gwerth busnes ac am arloesi technolegol.

Yn 2006, sefydlodd Curl Pharma Partners er mwyn datblygu rhaglenni partneriaeth rhwng cwmnïau fferyllol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Roedd, yn rhinwedd ei swydd fel prif weithredwr, wedi sefydlu dros bump ar hugain enghraifft o weithio'n arloesol mewn partneriaeth rhwng y GIG a chwmnïau preifat ym Mhrydain.

Roedd Curl yn brif weithredwr grŵp cwmnïau gofal iechyd EnViva am naw mlynedd, rhwng 2011 a 2020. Roedd y grŵp hwn yn ddarparwr arbenigol gofal rheoledig o ansawdd uchel yn y cartref ar gyfer pobl o bob oedran. Roedd y gofal yr oedd yn ei gynnig yn amrywio o ddarparu cwmni a chefnogaeth i'r henoed, a darparu gofal dementia, i ofalu am y sawl a oedd â chyflyrau mwy cymhleth, gan gynnwys parlys yr ymennydd, dystroffi'r cyhyrau, strôc, anafau sbinol, yn ogystal â mathau eraill o gyflyrau sy'n anablu oedolion a phlant.

Mae Curl wedi siarad yn helaeth ar y cyfryngau ynglŷn â gofal iechyd. Yn enwedig, mae ef wedi ymddangos ar *BBC Breakfast, The Today programme,* a *Channel 4 News,* a hyd yn oed CNN. Cyfwelwyd ag ef ar dros ugain rhaglen radio yn y DU.

Mae hefyd wedi bod yn aelod o Gyngor Partneriaid y Sefydliad Rhagoriaeth Glinigol Cenedlaethol dan gadeiryddiaeth Syr Michael Rawlins. Mae'n gyn-noddwr y Gymrodoriaeth Polio Brydeinig ac yn gyn-aelod o Gyngor Ymgynghorol Briffio Rhyngwladol Canolfan Castell Farnham. Mae'n aelod o Gyngor Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae hefyd yn Gymrawd Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau, yn aelod o Sefydliad y Cyfarwyddwyr ac yn dderbynnydd Gwobr Diwydiant y Frenhines.

**Ffynonellau**

Curl, A. (2021). Andrew Curl Chief Executive at Pharma Partners Ltd [LinkedIn page]. LinkedIn. Adalwyd ar Fawrth 19 2021 oddi wrth https://www.linkedin.com/in/andrew-curl-5350b22/

University of Wales Trinity Saint David. (2021). Governance and management. Adalwyd ar Fawrth 16 2021 oddi wrth https://www.uwtsd.ac.uk/governance-management/governance/

Atkin, G. (2007). The NHS and pharma: let's work together. Adalwyd ar Fawrth 19 2021 oddi wrth http://www.pharmafile.com/news/nhs-and-pharma-lets-work-together

ABPI – Appointment. (2001, October 27). *Chemist & Druggist.* Adalwyd ar Fawrth 22 2021 oddi wrth https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/274935123?accountid=130472&pq-origsite=primo

McKee, S. (2007, July 11). Top IT award for industry/NHS chemo project. *PharmaTimes online.* Adalwyd ar Fawrth 22 2021 oddi wrth http://www.pharmatimes.com/news/top_it_award_for_industrynhs_chemo_project_990373

EnViva Paediatric Care. (2016, March 8). EnViva Care Ltd. announces the launch of EnViva Paediatric Care Ltd. [Blog post]. Adalwyd ar Fawrth 22 2021 oddi wrth https://www.envivapaediatric.com/enviva-care-ltd-announces-the-launch-of-enviva-paediatric-care-ltd/

Curl, A. (2000). Profiles. *Lampeter Link, 53*

# Y Parchedig Frederick James Taylor David
# Cyn-fyfyriwr, Darlithydd a Chaplan y Fyddin



Yn ei goflith i Fred David, ysgrifenodd y Pennaeth J.R. Lloyd Thomas am "his devotion of a lifetime to St David's College and his beloved Church." Gallai fod hefyd wedi cynnwys ei ymrwymiad i dref Llambed, lle cafodd David ei ethol yn aelod o'r Cyngor Bwrdeistref a lle, am flwyddyn, yr oedd yn uwchgapten. Gyda'i fyfyrwyr yn ei alw'n serchog 'Dicky Dai', a phobl y dref yn ei alw'n 'Professor David', roedd ef yn hen gyfarwydd â'r coleg fel cyn-fyfyriwr ac fel darlithydd.

Ganwyd David ym mis Ebrill 1907, a mynychodd Ysgol Ramadeg Llanelli cyn ymgofrestru yng Ngholeg Dewi Sant yn 1925 fel Ysgolhaig Eglwysig Cymraeg. Penodwyd ef yn Uwch Ysgolhaig (1927-28), ac yn 1928, enillodd radd dosbarth cyntaf mewn hanes. Dilynodd tair blynedd yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, lle enillodd radd mewn hanes a diwinyddiaeth. Ar ôl cael ei ordeinio, dychwelodd i Goleg Dewi Sant yn 1931 fel Caplan y coleg ac fel Darlithydd Hanes a Diwinyddiaeth, dim ond tair blynedd ar ôl graddio yno. Dewiswyd ef yn gyfwelai ar gyfer cyfres o'r enw *Dons in their Digs* yng nghylchgrawn y myfyrwyr, a dangosodd pa mor amhrofiadol ydoedd drwy wahodd y myfyriwr i de yn ei ystafell yn Hen Adeilad Caergaint, rhywbeth na fyddai athro profiadol fyth wedi'i wneud. Er hynny, gwerthfawrogodd y cyfwelydd haelioni ei wahoddwr hynaws yn fawr, a gwnaethant fwyta ac ysmygu wrth drafod y llyfrau a'r chwaraeon a oedd orau gan David, a'i farn ar ginio'r Coleg.

Yn ystod ei bymtheng mlynedd ar hugain yn y coleg, daeth David yn enwog am fod yn gyfeillgar, am ei ofal dros ei fyfyrwyr, ac am ei allu i wrando ar eu pryderon. Mae rhai cyn-fyfyrwyr yn cofio'n annwyl tiwtorialau yn cael eu cynnal yng nghartref David, lle byddai ei wraig Beryl, a ddaeth wedyn yn warden yn un o'r hostelau ar Stryd y Bont, yn eu darparu'n

hael â choffi. Ochr yn ochr â'i addysgu a'i waith gofal bugeiliol tuag at ei fyfyrwyr, gwnaeth David ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn ystod ei yrfa yn y coleg. Wrth i'r adran hanes ddatblygu dan arweiniad yr Athro Dawson, gwnaeth David roi'r gorau i'w ddarlithiau diwinyddiaeth, gan ganolbwyntio'n unig ar hanes. Daeth yn Gantor, gan gymryd cyfrifoldeb am Gapel y Coleg, gwnaeth gynrychioli'r myfyrwyr ar Gyngor y Coleg, daeth yn Fwrsar Cynorthwyol yn 1958, a dechreuodd ymwneud â Chymdeithas Toc H Dewi Sant a Chymdeithas Genhadol y coleg.

O 1948, tan iddo ymddeol yn 1966, gwnaeth David chwarae rhan weithredol yn diwygio Cymdeithas Llambed. Roedd yn un o dri aelod o staff a oedd hefyd yn raddedigion (ynghyd â'r Athro Morris a'r Parchedig W.H. Harris), ac a oedd wedi llunio cyfansoddiad y gymdeithas yn 1936. Yn 1948, ymgymerodd ef â'r rôl Ysgrifennydd, gan olygu'r *Bulletin* blynyddol a oedd yn hysbysu cyn-fyfyrwyr graddedig am fywyd y coleg, ac yn aml, gwnaeth ysgrifennu'r cynnwys bron ar ei ben ei hun.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, gwnaeth David ymadael â diogelwch bywyd y coleg i wasanaethu gydag Adran Frenhinol Caplaniaid y Fyddin (RACD). Gwnaeth wasanaethu yn India gyda'r bedwaredd fyddin ar ddeg yn Burma, ac er hon oedd Byddin Weriniaeth fwyaf yr Ail Ryfel Byd, fe gyfeirir ati'n aml fel y 'Forgotten Army'. Ar ddychwelyd i fywyd yn y coleg, gwnaeth David neilltuo ei amser i'r Lleng Brydeinig ac i gefnogi Llu Cadetiaid Sir Gaerfyrddin, a wnaeth yn ei dro ei benodi'n Gadlywydd Cadetiaid Sirol. Er gwaethaf yr ymrwymiadau hyn a'i gyfrifoldebau addysgu, dechreuodd David ymwneud â gwleidyddiaeth leol, ac yn 1956, daeth yn gynghorydd ar Gyngor Bwrdeistref Llambed. Cafodd ei benodiad yn faer yn 1962 ei ddathlu gan ei fyfyrwyr a wnaeth gario David, yn eistedd ar sedd, ar eu hysgwyddau, ar orymdaith drwy'r dre, er mawr fwynhad iddo.

Ar ôl pymtheng mlynedd ar hugain yng Ngholeg Dewi Sant, gorfodwyd David i ymddeol yn 1966 yn dilyn strôc. Bu farw tair blynedd yn ddiweddarach, yn ddwy a thrigain mlwydd oed, a chladdwyd ef ym mynwent eglwys San Pedr. Cafodd ei etifeddiaeth i'r coleg ei chrynhoi gan eiriau'r Pennaeth J.R. Lloyd Thomas, "Generations of Lampeter students – whom he never forgot – and many colleagues and a host of friends will not easily forget his cheerful concern and friendliness, and his devotion of a lifetime to St David's College and his beloved Church."

**Ffynonellau:**

Brown, R. (2018/19). *Frederick James Taylor David. The Link.* LXXIII, 28-29. https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/lampeter-society-/the-link-winter-feb19.pdf

By Our Special Correspondent, 'Dons in their Digs', *St David's College Magazine*, 1933, Vol. XII, No.4, 137-138

Price, D.T.W. (1990). *A History Of Saint David's University College Lampeter. Volume Two: 1898-1971*. Gwasg Prifysol Caerdydd

Brown, R. (2020). *A Lampeter Student 1960-1963.*

# David 'Bailey' Davies

Roedd David 'Bailey' Davies (1884-1968) yn chwaraewr rygbi rhyngwladol i Gymru a aeth ymlaen yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf i gael ei wobrwyo â'r Groes Filwrol.

Roedd Davies yn ail fab i ffermwr lleol, sef Thomas Davies o Fferm Beilicoch, Llanwenog. Byddai pawb yn adnabod David fel 'Bailey' neu 'Dai Beili', ar ôl enw ei gartref. Mynychodd Ysgol Ram, ac yna, Ysgol Coleg Dewi Sant. Dysgodd i chwarae rygbi yn ysgol y coleg a datblygodd yn gefnwr rhagorol. Astudiodd fathemateg yng Ngholeg Dewi Sant o 1902 tan 1905, a daeth yn Enillydd Gwobr Bates ac yn Uwch Ysgolhaig. Graddiodd â gradd ail ddosbarth gydag anrhydedd. Chwaraeodd i dîm XV y coleg fel cefnwr a chanolwr, a dechreuodd hefyd i chwarae i Lanelli. Yn mesur 5 troedfedd ac 11 modfedd o ran taldra, roedd yn anghyffredin o dal am y cyfnod hwnnw.



Tîm XV Coleg Dewi Sant yn ystod y tymor 1904-05. Bailey Davies sy'n sefyll diwethaf ar y dde.

Ar adael Llambed, enillodd Davies ysgoloriaeth i Goleg Iesu, Rhydychen. Yno, cafodd ei ddewis i chwarae yn erbyn Caergrawnt yn 1905, 1906 a 1907. Yn ystod yr amser hwnnw, gwnaeth barhau i chwarae i Lanelli yn ogystal ag i Gymry Llundain. Cafodd ei gapio unwaith i Gymru, gan gymryd lle Bert Winfield, a oedd wedi'i anafu, yn y gêm yn erbyn Lloegr a gynhaliwyd ar Faes San Helen, Abertawe, ar Ionawr 12fed 1907. Gwnaeth Cymru chwarae llawer yn well na Lloegr, gan ennill gyda dwy gôl a phedwar cais i ddim. Meddai *The Observer* 'Wales played superb football from beginning to end, and never allowed its opponents to find their game … Davies had not much tackling to do, but his kicking was of a wonderful length, and nothing could have been better than the way he nursed the Welsh forwards' energy.' Ond ysgrifennodd *The Sunday Times,* 'All the new caps played up to international form, with perhaps one exception, Bailey Davies, and he did not let his team down, although doing nothing brilliant.'

Ar ôl graddio o Brifysgol Rhydychen yn 1908, treuliodd Davies flwyddyn fel meistr cynorthwyol yn ôl yng Ngholeg Llanymddyfri. Ei swydd nesaf oedd yn Merchant Taylors' School, a oedd yn

Charterhouse Square yng nghanol Llundain; addysgodd fathemateg, roedd yn gyfrifol am rygbi a gwnaeth arwain y Corfflu Hyfforddi Swyddogion. Yn ogystal, yn 1911, cafodd ei benodi yn 2$^{il}$ Is-gapten yn y Fyddin Diriogaethol. Daeth hefyd yn ddirprwy yng Ngwersyll Ysgolion Bonedd Llundain. Priododd  Elsie Mary Pullinger yn 1914; cawsant bedair o ferched.

Er i Davies wirfoddoli am wasanaeth gweithredol yn 1914, cafodd ei gadw gartref er mwyn hyfforddi swyddogion ar gyfer y byddinoedd newydd. Er hynny, ymhen hir a hwyr, penodwyd i 13$^{eg}$ Catrawd Llundain ac yna, cafodd ei drosglwyddo i'r Gwarchodlu Cymreig. Gwobrwywyd â'r Groes Filwrol am arwain ymosodiad ffos ar Fehefin 1$^{af}$ 1918, a wnaeth arwain at saith ar hugain o Almaenwyr a dau wn peiriant yn cael eu dal. Ar ôl y rhyfel, gwnaeth Davies ddychwelyd i  Merchant Taylors' a daeth yn Feistr Tŷ yno. (Symudodd yr ysgol i'w safle presennol yn Sandy Lodge, Northwood yn 1933.) Gwnaeth Davies redeg Cartreflu'r Ysgol yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Ordeiniwyd Davies yn 1926. O'r diwedd, gwnaeth ymadael â Merchant Taylors' School yn 1946, i fod yn Rheithor Sutton a Ficer Eyeworth, yn Bedfordshire. Ar ôl iddo ymddeol yn 1957, gwnaeth ymsefydlu yn Hendon. Bu farw ar Awst 24 1968. Y mae maen coffa iddo ef ai wraig Elsie yn yr eglwys yn Sutton.

**Ffynonellau**

Walters, W. (2016). *The fighting parsons: the role of St David's College, Lampeter, in the early development of rugby football in Wales.* Canolfan Peniarth

Pierce, D., Jenkins, J.M. & Auty, T. (2018). *Who's who of Welsh international rugby players.* Charlcombe Books

Some new 'caps.' David Davies, of Lampeter and Oxford. (1907, January 12). *Evening Express.* Adalwyd oddi wrth https://newspapers.library.wales/view/4171746/4171748/12/

John, S. (2020). Ceredigion WW1 heroes. Adalwyd ar Fehefin 18, 2020, oddi wrth https://www.wwwmp.co.uk/west-wales-gallantry-awards/ceredigion-ww1-heroes/

Footballer M.C. (1918, July 17). *Cambria daily leader.* Adalwyd oddi wrth https://newspapers.library.wales/view/4105314/4105317/45/

International rugby: Wales outplay England. (1907, Jan 13). *The Observer (1901- 2003)* Adalwyd oddi wrth https://search.proquest.com/docview/480495863?accountid=12799

A Sunday Specialist. (1907, January 13). Notes of the Day. *Sunday Times*, p. 9. Adalwyd oddi wrth https://link.gale.com/apps/doc/FP1801945092/STHA?u=nlw_ttda&sid=STHA&xid=17925163

Lampeter (1918, July 19). *Carmarthen journal and South Wales weekly advertiser.* Adalwyd oddi wrth https://cymru1914.org/en/view/newspaper/3679121/2

# Y Parchedig David Henry Davies – Ficer Cenarth, Hynafiaethydd a Chasglwr



Ganwyd David Henry Davies, neu 'Ficer Cenarth' fel yr oedd pawb yn ei adnabod, yn 1828 yn Sir Aberteifi. Un o ddisgynyddion teulu hen a mawr ei barch, ef oedd mab hynaf Daniel Owen Davies, a oedd yn llawfeddyg milwrol gyda 18fed Gatrawd y Troedfilwyr (Y Gwyddelod Brenhinol), a Margaret Coakeley Jenkins. Gwnaeth ei dad ymddeol o'r fyddin yn 1836, gan sefydlu ymarfer meddygaeth a gweithio yn Aberporth, Llanarth a'r Cei Newydd. Yn 1839, gwnaeth Davies ymgofrestru yn Ysgol Ramadeg Llangoedmor, ac yn 1844, cafodd ei brentisio i'w dad. Pedair blynedd wedyn, roedd yn gweithio yn Llundain fel 'visiting assistant' gyda'r Meistri Barrow & Nicholson. Ond cafodd dechreuad yr epidemig colera Asiaidd yn 1848-49 effaith fawr iawn ar Davies gan ei argyhoeddi mai gwaith cenhadol oedd ei alwedigaeth. Anfonodd gais at, a chafodd ei dderbyn gan Goleg Cenhadol yr Eglwys yn Islington, ond gwnaeth ei dad ei berswadio bod angen y fath gwaith yng Nghymru.

Felly, agorodd fferyllfa yn y Cei Newydd a gweithiodd fel cynorthwyydd yn ymarfer meddygaeth ei dad. Ym mis Gorffennaf 1855, gwnaeth Davies briodi Anne Harries, nith ei gyn-ysgolfeistr, ond yn yr un flwyddyn, ym mis Medi, bu farw ei dad yn sydyn o deiffoid y gwnaeth ef ei ddal oddi wrth forwr. Am fod cyngor cynharach ei dad wedi gwneud argraff arno, penderfynodd Davies i fod yn weinidog. Treuliodd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn dysgu Cymraeg ac yn ymwneud â bywyd y plwyf gyda chefnogaeth ei gyn-ficer, ond gan barhau hefyd i weithio yn ei fferyllfa. Ar Hydref 1af 1862, pan oedd yn 33 mlwydd oed, gwnaeth Davies ymgofrestru am ddwy flynedd yng Ngholeg Dewi Sant.

Ordeiniwyd ef gan yr Esgob Thirlwall yn 1864, a chynigiwyd iddo guradiaeth ym mhlwyf Llanboidy, Sir Gaerfyrddin. Ar ôl blwyddyn, symudodd i blwyf Ystumllwynarth, ger Abertawe a chynigiwyd iddo, yn 1867, swydd yn Llan-non, ger Llanelli. Roedd pethau'n wael yno am nad oedd ficerdy nac arian ar gael i atgyweirio adeiladau'r plwyf. Ond erbyn 1870, roedd ficerdy wedi cael ei adeiladu, gyda Davies ei hun yn codi rhan fawr o'r arian, ac erbyn 1875, roedd yr ysgoldy wedi cael ei ymestyn. Roedd Davies yn ficer cydwybodol a dyfal, ac yn 1877,

penodwyd ef i blwyf Cenarth yn Sir Gaerfyrddin. Arhosodd yn y plwyf hwnnw tan iddo ymddeol yn 1905, yn 77 mlwydd oed. Bu farw bum mlynedd yn ddiweddarach, a chladdwyd ef ym mynwent Llanllwchaiarn, ger y Cei Newydd.

Roedd Davies hefyd yn naturiaethwr brwdfrydig ac yn enwog fel hynafiaethydd a chasglwr, er nad oedd modd iddo gofleidio ei ddiddordeb yn iawn tan farwolaeth ei ail gefnder, y Parchedig Henry Jenkins, a oedd hefyd yn hynafiaethydd ac yn archaeolegydd amatur. Gwnaeth Davies etifeddu casgliad Jenkins ac ystâd Dyffryn Bern yng Ngheredigion. Daeth Davies yn aelod blaenllaw o'r *Cambrian Archaeological Society*, gan roi benthyg darnau a oedd yn ei gasgliad yn rheolaidd. Roedd ei ddiddordebau'n amrywio'n fawr, gan gynnwys 'rare books, quaint china, swords and coins, broadsides and pearls, pictures and portraits, stamps and stones'. Roedd yn gasglwr llyfrau, yn enwedig llyfrau Cymraeg. Gwnaeth *The Cambrian News and Merionethshire Standard* adrodd yn 1903, bod Davies yn berchen 2,000 o lyfrau a phamffledi, gan gynnwys y rhan fwyaf o weithiau diwinyddol Griffith Jones ac argraffiad cyfan o'r *Archaeologia Cambrensis.* Yn ogystal â hyn, roedd ganddo gasgliad helaeth o lyfrau emynau a baledi a gafodd ei gymharu'n ffafriol â chasgliad Myrddin Fardd.

Yn 1904, gwerthodd Davies ei lyfrgell, gan gynnwys ei gasgliad o faledi, i Goleg Dewi Sant am £110, ac ar y cychwyn, cafodd hwn ei arddangos yn Ystafell Gyffredin y Darlithwyr.

**Cyfeirnodau**

Thomas, W. (2005). David Henry Davies: fferyfllydd, llengarwr, hynafiaethydd. *Carmarthenshire Antiquary, 41,* 113-120.

E.L.T (1906). The Rev. D.H. Davies, Vicar of Cenarth. *St David's College Magazine,* Vol. IX, No.4, July 1906, 215-217.

# Cara Tallulha Davies



Mae Cara Tallulha Davies yn gweithio fel cynhyrchydd effeithiau gweledol yn y diwydiant ffilm.

Ganwyd Davies ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac astudiodd y cwrs Cynhyrchu Cyfryngau ym Mhrifysgol Cymru, Llambed Pont Steffan. Graddiodd yn 2007, a chafodd swydd yn stiwdio Framestore yn Llundain. Dechreuodd Cara weithio ym maes Animeiddio Cyfrifiadurol fel cynorthwyydd cynhyrchu, cyn symud i weithio fel cydlynydd ym maes meddalwedd effeithiau gweledol (VFX) yn 2009, ac ymhen amser daeth yn gynhyrchydd meddalwedd effeithiau gweledol yn 2016 yn Image Engine, yn Vancouver Columbia Brydeinig. Diffinnir effeithiau gweledol fel y newidiadau a wneir i gydran weledol darn o waith trwy dechnegau ffotograffig arbennig, argraffu optegol, neu effeithiau digidol ôl-gynhyrchu. Mae'r rhain yn bennaf yn effeithiau sy'n rhy ddrud, yn rhy beryglus neu'n amhosibl yn gorfforol i'w cyflawni trwy ffotograffiaeth gonfensiynol. Gallant gynnwys delweddau a gynhyrchir gan gyfrifiadur, animeiddio cymeriad, animeiddio 3D, modelu 3D a phaentio matte digidol.

Y ffilm gyntaf i Davies weithio arni oedd *The Tale of Despereaux*, (2008). Mae’r ffilm wedi’i hanimeiddio yn seiliedig ar lyfr plant gan Kate DiCamillo, ac mae’n disgrifio llygoden anarferol o ddewr sy'n gwneud ffrindiau â llygoden fawr fonheddig. Mae'r llygoden yn helpu i adfer hapusrwydd i deyrnas drist. Roedd y cast yn cynnwys Matthew Broderick fel llais Despereaux, yn ogystal â Dustin Hoffman, Emma Watson a Robbie Coltrane.

Gweithiodd Davies fel cydlynydd effeithiau gweledol ar y ffilm ffuglen wyddonol *Avatar* (2009), a gyfarwyddwyd gan James Cameron. Mae'r ffilm yn cynnwys cyn fôr-filwr paraplegig, wedi'i chwarae gan Sam Worthington. Mae ei ymwybyddiaeth yn cael ei fewnblannu mewn “rhithffurf” estron a anfonwyd i wneud ffrindiau â chriw o bobl heddychlon, lle mae ei gynefin dan fygythiad gan fwyngloddio ecsbloetiol. Darlledir y ffilm mewn 3D. Cafodd yr actorion eu troi’n estroniaid glas, ac ychwanegwyd tirwedd fywiog o fflora a ffawna egsotig, creaduriaid gwych a golygfeydd brwydr epig. Ymhlith ei wobrau lluosog, enillodd Avatar Oscar am effeithiau gweledol a gwobr ffilm BAFTA am yr

effeithiau gweledol arbennig gorau. Dywedodd Davies, "I mi, roedd gweithio ar ffilm James Cameron yn gyfle i ddysgu sgiliau newydd, a chefais brofiadau gwych. Mae 3D wedi bod o gwmpas ers cryn amser, ond rwy'n credu mai hon yw'r unig ffilm y gallwch chi wirioneddol weld faint o wahaniaeth y mae'n ei wneud."

Ar ôl sawl prosiect yn Framestore, stiwdio nesaf Davies oedd Aardman Animations ym Mryste, lle bu'n gweithio fel cydlynydd technegol ar *The Pirates! Band of misfits* (2012) am 19 mis.

Yn 2012, symudodd i Vancouver Columbia Brydeinig i fod yn Uwch Gydlynydd Meddalwedd Effeithiau Gweledol yn Image Engine.

Yn ystod ei hamser yn Image Engine, mae hi wedi gallu parhau â dilyniant ei gyrfa ymhellach, gan symud i rôl fel Rheolwr Cynhyrchu. Yn y ffilm American Sniper, cafodd gwrdd a chydweithio â Clint Eastwood a Bradley Cooper. Yna, aeth ymlaen i gynhyrchu ei phrosiect cyntaf, Independence Day: Resurgence

Fel Cynhyrchydd Meddalwedd Effeithiau Gweledol, mae'n rheoli'r sioe a'r gyllideb gyffredinol, yn cynllunio ac yn gweithredu'r amserlen gyda'r Rheolwr, yn cyfathrebu â chleientiaid, yn goruchwylio ac yn cyfarwyddo goruchwylwyr a chynhyrchu yn ôl yr angen, gan sicrhau bod y tîm ar y trywydd cywir ar gyfer cyflawni o fewn y briff creadigol ac ariannol a'r gyllideb. Pan nad yw Cynhyrchydd yn gweithio ar sioe benodol, fel arfer maen cynnig sioeau ar gyfer y stiwdio – o ddadansoddiadau sgriptiau i ddelweddau saethu gorffenedig gyda darpar gleientiaid.

Un ffilm y mae hi wedi gweithio arni yw *Logan* (2017), y trydydd rhan yn nhrioleg Wolverine, wedi'i gyfarwyddo gan James Mangold. Mae Wolverine, y prif gymeriad, a Charles Xavier, ei gydymaith hynod, yn amddiffyn hynodbeth ifanc o'r enw Laura, rhag y Reavers drygionus. Er mai ffilm lyfrau comics yw *Logan*, mae angen yr effeithiau gweledol i bwysleisio'r stori, yn hytrach na'i gorlethu. Fe wnaeth tîm Image Engine, gan gynnwys Davies, lwyddo i ffilmio bron i 300 o olygfeydd. Fe wnaethant greu dyblau digidol real o brif actorion y ffilm, yn ogystal â rhoi pwerau hynod a chrafangau adamantiwm i'r cymeriadau. Mae Logan yn ffilm dreisgar, gyda'i digwyddiadau yn eich cyffwrdd i'r byw. Er mwyn sicrhau diogelwch yr actorion, gwnaeth Image Engine ddyblau digidol llawn ar gyfer sêr y ffilm, yn ogystal â'r nifer o actorion campiau a oedd hefyd yn rhan o'r ffilmio. Mewn erthygl yn *The Times*, disgrifiodd Kevin Maher *Logan* fel gwaith athrylith.

Gweithiodd Davies hefyd ar y ffilm *Detroit* (dan gyfarwyddyd Kathryn Bigelow, a gyhoeddwyd hefyd yn 2017), sy'n ffilm gwbl wahanol i Logan o ran ei harddull. Mae'r ddrama cyfnod droseddol yn archwilio'r terfysgoedd yn ymwneud â hil a ysgydwodd Detroit ym mis Gorffennaf 1967, yn dilyn ymosodiad gan yr heddlu ar glwb didrwydded. Cyfrannodd Image Engine at 199 o olygfeydd ag effeithiau gweledol 'anweledig'. Fe wnaethant ychwanegu at leoliadau o'r tu allan i Detroit ac ychwanegu effeithiau gan gynnwys gwaed, tân a mwg i'r golygfeydd terfysgol. Cafodd llawer o'r golygfeydd eu ffilmio ym Moston, Massachusetts; defnyddiodd Image Engine ddelweddau a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur i ail-greu Detroit o'r 1960au, gan weithio'n aml o ffotograffau du a gwyn cyfoes.

Yn fwy diweddar, mae Davies wedi bod yn rhan o ddrama Netflix, *Lost in Space,* a chyfres Disney+, *The Mandalorian*.Yn rhan o'r gyfres *Star Wars*, mae *The Mandalorian* yn cychwyn bum mlynedd ar ôl digwyddiadau *Return of the Jedi*.Mae'r Mandaloriaid yn bobl ryfelgar sydd yn aml wedi gwrthdaro â marchogion Jedi. Yn serennu yn y gyfres, mae Pedro Pascal fel saethwr ar ei ben ei hun, yn rhannau allanol yr alaeth, ymhell o awdurdod y Weriniaeth Newydd. Mae'r effeithiau gweledol wedi cynnwys creu androidau a dyblau digidol, yn ogystal ag amgylcheddau digidol helaeth ac arachnidau marwol sy'n bwyta bodau dynol.

Mae Davies yn brofiadol iawn, yn canolbwyntio ar fanylion ac yn angerddol am ei gwaith.

**Ffynonellau**

Wales-born Cara worked on the epic blockbuster Avatar (2009, 13 Rhagfyr). *Wales online.* Cyrchwyd ar 16 Mehefin 2021 o https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/wales-born-cara-worked-epic-blockbuster-2064934

Visual effects; VFX; special. (2014). Yn R. W. Kroon, A/V a to z: An encyclopedic dictionary of media, entertainment and other Audiovisual terms. McFarland. Cyrchwyd ar 17 Mehefin 2021 o https://search.credoreference.com/content/entry/mcfav/visual_effects_vfx_special/0?institutionId=1794

The Tale of Despereaux (2008). (n.d.) Yn: *Internet Movie Database.* Cyrchwyd ar 17 Mehefin 2021 o https://www.imdb.com/title/tt0420238/?ref_=fn_al_tt_1

Avatar (2009). (n.d.) Yn: *Internet Movie Database.* Cyrchwyd ar 17 Mehefin 2021 o https://www.imdb.com/title/tt0499549/?ref_=ttawd_awd_tt

Cara Tallulha Davies (n.d.) Yn: *Internet Movie Database.* Cyrchwyd ar 17 Mehefin 2021 o https://www.imdb.com/name/nm2957047/?ref_=fn_al_nm_1

Davies, C.T. (2021). Cara Tallulha Davies, Cynhyrchydd Meddalwedd Effeithiau Gweledol yn Image Design Inc. [LinkedIn page]. LinkedIn. Cyrchwyd ar 17 Mehefin 2021 o https://www.linkedin.com/in/caratallulhadavies/

Image Engine (2020). *Imagine Engine.* Cyrchwyd ar 18 Mehefin 2021 o https://image-engine.com/

Singh, A. (2009, 11 Rhagfyr). A film unlike anything you have ever seen. *Daily Telegraph.* Cyrchwyd ar 17 Mehefin 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&docref=news/12C8D00E81220618.

Williams, D. (2009, 13 Rhagfyr). Bringing Avatar to life. *Wales on Sunday.* Cyrchwyd ar 17 Mehefin 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&docref=news/12C978C2593E3050.

Maher, K. (2017, March 3). A Wolverine to wolf down – the big film. The climax to the X-men franchise is a significant work of movie genius, says Kevin Maher. *The Times.* Retrieved June 18 2021 from https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&docref=news/162E6ABB310F0948

## Canon Ellis Davies

Roedd Ellis Davies (1872-1962) yn hynafiaethydd o Gymru, yn ogystal â chlerigwr.

Roedd tad Davies, a elwid hefyd yn Ellis Davies, yn arddwr yn Nannerch, Sir y Fflint; ganwyd y mab ar 22 Medi 1872. Fodd bynnag, symudodd y teulu yn fuan i Laniestyn, ym Mhenrhyn Llŷn. Addysgwyd Ellis yn Ysgol Ramadeg Botwnnog. Enillodd ysgoloriaeth i Goleg Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan yn 1892. Fel myfyriwr yno, roedd hefyd yn ennill gwobrau bob blwyddyn. Graddiodd yn 1895 gyda gradd dosbarth cyntaf. Ar ôl cael ei ordeinio, bu'n gweithio fel curad yn Llansilin ger Croesoswallt, yr Hen Golwyn a St Giles, Rhydychen. Yn ystod ei gyfnod yn Rhydychen, cwblhaodd radd bellach; enillodd radd BA o Goleg Caerwrangon yn 1907 a chwblhaodd ei radd MA yn 1911. Roedd hefyd yn gaplan Cymreig i Goleg Iesu ac Ysbyty Radcliffe.

Ymhen amser, daeth Davies yn ôl i Gymru. Fe'i penodwyd yn ficer Llanddoged, Sir Ddinbych yn 1909 ac yna'n rheithor Chwitffordd, Sir y Fflint yn 1913. Arhosodd yn Chwitffordd nes iddo ymddeol yn 1951. Fel gwobr am ei wasanaeth hir, roedd ganddo ganondy yn Llanelwy rhwng 1937 a 1946; fe'i gwnaed yn Ganon Emeritws yn 1946. Roedd yn ganghellor yr esgobaeth rhwng 1944 a 1947.

Ei gariad cyntaf oedd cerddoriaeth a chyfansoddodd sawl emyn a llafargan.



Y tu mewn i eglwys y Santes Fair a Sant Beuno yn Chwitffordd, Sir y Fflint.
Llywelyn2000 / CC BY-SA ([https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0))

Fodd bynnag, roedd Davies yn fwy adnabyddus fel hynafiaethydd. Daeth yn aelod o Gymdeithas Archeolegol Cambria yn 1913; dywedwyd mai dim ond dau gyfarfod cyffredinol blynyddol y collodd o hynny hyd at ei farwolaeth. Hefyd yn 1913, cynigiodd Eisteddfod Genedlaethol y Fenni wobr am lawlyfr ar olion Prydeinig a Rhufeinig mewn unrhyw sir yng Nghymru. Enillodd Davies y wobr hon am ei waith ar Sir Ddinbych. Ar ôl ymchwil bellach, fe'i cyhoeddwyd yn 1929 o dan y teitl *The prehistoric & Roman remains of Denbighshire.* Unwaith eto, yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghorwen yn 1919, enillodd wobr am draethawd ar enwau lleoedd yn Sir Feirionnydd. Yna, yn 1956, dyfarnwyd Gwobr G.T. Clark iddo am ymchwil ar hanes Celtaidd; y gwaith llwyddiannus oedd *The prehistoric and Roman remains of Flintshire* (1949). Buan y daeth y ddau lyfr ar hynafiaethau Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn weithiau safonol. Yn flaenorol, roedd y siroedd hyn wedi cael eu hesgeuluso gan archeolegwyr; rhestrodd Davies y darganfyddiadau archeolegol a'r cyfeiriadau llenyddol gyda gofal manwl.

Yn ogystal, ysgrifennodd Davies *Llyfr y Proffwyd Hosea* (1920) a *Flintshire place-names* (1959), yn ogystal â nifer o erthyglau yn *Yr Haul, Y Llan, Dictionary of Welsh biography* a nifer o gyfnodolion hanesyddol. Roedd yn gyd-olygydd ar y cylchgrawn *Archaeologia Cambrensis* rhwng 1925 a 1940, ac yna aeth ati i'w olygu ar ei ben ei hun nes 1948. Fe'i etholwyd yn gymrawd Cymdeithas yr Hynafiaethwyr yn 1929; cafodd anrhydedd Doethur mewn Llên yn 1959 gan Brifysgol Cymru. O 1940 ymlaen, roedd yn aelod o Lys Llywodraethwyr Amgueddfa Cymru.

Priododd Ellis Davies Mary Louisa, merch y Parchedig David Davies o Lansilin. Bu farw Mary ar 27 Mai 1937. Bu farw Ellis Davies yn ei nawdegau ar 3 Ebrill 1962 yng Nghaerwys, Sir y Fflint, gan adael tri mab a thair merch ar ei ôl. Rhoddodd ei blant ei gasgliad personol mawr o lyfrau i Lyfrgell Cymru yng Ngholeg Dewi Sant.

**Ffynonellau**

James, M. A., (2001). Davies, Ellis (1872 - 1962), offeiriad a hynafiaethydd. *Dictionary of Welsh Biography*. Cyrchwyd ar 5 Mehefin 2020, o https://biography.wales/article/s2-DAVI-ELL-1872

Lloyd, J.D.K. (1962). Canon Ellis Davies. *Archaeologia Cambrensis.* 111,168-169. Cyrchwyd o https://journals.library.wales/view/4718179/4743853/195#?xywh=-1841%2C-2%2C5945%2C3639

Canon Ellis Davies, M.A., D.Litt., F.S.A. (1872-1962), is-lywydd y Gymdeithas. (1962). *Cyhoeddiadau Cymdeithas Haness Sir y Fflint.* 20, 116-117. Cyrchwyd o https://journals.library.wales/view/1256711/1259251/115#?cv=115&m=19&h=&c=0&s=0&manifest=https%3A%2F%2Fdamsssl.llgc.org.uk%2Fiiif%2F2.0%2F1256711%2Fmanifest.json&xywh=-1738%2C-1%2C6493%2C3974

# Ivor Thomas Davies

Roedd Ivor Thomas (I.T.) Davies (1892-1959) yn chwaraewr rhyngwladol i Gymru.

Roedd I.T. yn fab i glerc cyfraith, Thomas Davies. Fe anwyd yng Nghaerfyrddin a mynychodd Ysgol Ramadeg y Frenhines Elizabeth, Caerfyrddin, ac yna, Ysgol Coleg Dewi Sant, Llambed. Gwnaeth fatriciwleiddio i'r coleg ei hun ar Hydref 13 1911.

Roedd yn chwaraewr amryddawn gwych a oedd yn dda mewn athletau, criced, nofio, saethu a rhwyfo, yn ogystal â rygbi. Dechreuodd chwarae rygbi pan oedd yn dal i fod yn yr ysgol yng Nghaerfyrddin; gwelid ei chwarae gorau fel asgellwr tri chwarter. Yn Llambed, gwnaeth chwarae i Harlecwiniaid Caerfyrddin, Llanelli a Chymry Llundain, ac yn rheolaidd i dîm XV y Coleg. Yn Llambed hefyd, yn ffyddlon i'w goleg, gwnaeth chwarae am dymor fel hanerwr, yn hytrach nag yn ei le arferol. Mae rhai pynditiaid wedi dyfalu oni bai am hyn, gallai fod wedi chwarae i Gymru yn gynt.



Tîm XV 1[af] Coleg Dewi Sant 1913-14. Davies sydd yn eistedd ar y llawr ar y chwith.

Dewiswyd Davies yn asgellwr wrth gefn i'r gêm Cymru yn erbyn Lloegr ym mis Ionawr 1914. Yna, ar Chwefror 7 1914, chwaraeodd i Gymru yn erbyn yr Alban ym Mharc yr Arfau, Caerdydd. Ef oedd aelod ieuaf tîm Cymru. Sgoriodd gais mewn buddugoliaeth i Gymru, gyda 24 pwynt i 5. Meddai *The Guardian* 'Er iddo wastraffu un neu ddau gyfle drwy daro ymlaen, roedd Ivor Davies yn llwyddiant ysgubol.' Bryd hynny, yr enw a ddefnyddid ar gyfer tîm brawychus Cymru, dan arweinyddiaeth yr arswydus Parchedig Alban Davies, oedd y 'Terrible Eight.' Meddai David Bain, Capten yr Alban wedyn mai'r 'Tîm mwyaf brwnt a wnaeth ennill.' Yna, gwnaeth I.T. Davies chwarae i Gymru (ar Faes San Helen, Abertawe), pan enillodd Cymru yn erbyn Ffrainc gyda sgôr o 31-0.

Gwnaeth *The Cambrian News* adrodd am y croeso a gafodd Ivor T. Davies yn Llambed, gan ddweud bod 'Nifer mawr o edmygwyr wedi mynd i Gaerdydd i weld ef yn chwarae, a chafwyd cymeradwyaeth uchel ganddo drwy gydol y gêm. Ar ddychwelyd, ar y dydd Llun, gwnaeth torf o fyfyrwyr gwrdd ag ef yn yr Orsaf a'i gario ar eu hysgwyddau i'r Coleg gan ganu "He is a jolly good fellow" a chaneuon poblogaidd eraill.'

Ar Fawrth 2 1914, chwaraeodd Davies mewn gêm a welodd Cymru yn maeddu Ffrainc yn hawdd gyda sgôr o 31-0 i Gymru ar Faes San Helen, Abertawe. Cynhaliwyd y gêm nesaf iddo chwarae ynddi, yn erbyn Iwerddon, ar Faes Balmoral, Belfast, ar Fawrth 14 1914. Caiff y gêm honno ei chofio fel y gêm fwyaf bwystfilaidd a brwnt i gael ei chwarae erioed. Y noson cyn y gêm, aeth rhai o aelodau tîm Iwerddon i westy tîm Cymru i wawdio'r 'Terrible Eight'. Drannoeth, cafodd y bygythiadau a'r addewidion eu gwireddu'n ffyrnig ar y maes. Hefyd, roedd y ddaear mor fwdlyd nes bod y maes bron â bod o dan dŵr mewn mannau. Gwnaeth y glaw trwm olygu ei bod hi bron yn amhosibl trafod y bêl yn ddiogel. Dywedwyd nad oedd Mr Tulloch, y dyfarnwr o'r Alban, wedi cymryd llawer o sylw o'r holl ymladd a ddigwyddodd. Enillodd Cymru gydag 11 pwynt i 3, gyda Davies yn sgorio cais.

A dweud y gwir, roedd Davies, erbyn hyn, wedi cymryd ei le ymhlith arwyr Coleg Dewi Sant. Cynhaliwyd cinio canmoliaethus er anrhydedd iddo ar Fawrth 18 1914. Gwnaeth cylchgrawn y coleg nodi, 'Mae ei goleg yn falch ohono; mae ei gymdeithion bron â'i addoli, ond drwy gydol y cyfan mae'n parhau i fod yr un 'I.T.' diymhongar, unigolyn yr ydym yn ei anrhydeddu'n orfoleddus ac un y mae hi'n fraint i ni fod yn gysylltiedig ag ef.'

Ond gwnaeth y Rhyfel Byd Cyntaf olygu na fyddai Davies yn chwarae rygbi rhyngwladol eto. Chwaraeodd i Gymru yn erbyn y Barbariaid ar Faes Parc yr Arfau, Caerdydd, ar Ebrill 17 1915. Amcan y gêm honno oedd recriwtio ar gyfer y Gwarchodlu Cymreig a oedd newydd gael ei sefydlu. Yn ystod y penwythnos hwnnw, recriwtiwyd bron â 200 o ddynion, ac fe roddwyd elw'r gêm (£245) i wahanol gronfeydd ar gyfer y rhyfel. Er i Gymru ddewis tri ar ddeg o chwaraewyr rhyngwladol, nid oedd hynny'n ddigon i faeddu'r Barbariaid. Y sgôr terfynol oedd 26-10 i'r Baa-Baas, (pedair gôl a dau gais yn erbyn gôl adlam a dau gais). Sgoriodd Davies un o'r ceisiadau i Gymru.

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, bu Davies yn ymladd yn yr 2il Warchodlu Dragŵn ac yna, yn y Corfflu Gynnau Peiriant. Mae'n debyg y gwnaeth weithio wedyn fel gwas sifil. Bu farw yn Hampstead ar Orffennaf 2 1959.

**Ffynonellau**


Walters, S. (2016). *The fighting parsons: the role of St David's College, Lampeter, in the early development of rugby football in Wales.* Canolfan Peniarth

Football In Wales. (1915, April 19). *Times*, p. 13. Adalwyd oddi wrth https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS218694803/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=78a36aca

Lampeter. (1914, February 13). *The Cambrian News and Merionethshire Standard.* Adalwyd oddi wrth https://newspapers.library.wales/view/3412167/3412172/50/

Wales defeat Scotland: great game at Cardiff Welsh forwards in form. (1914, February 9). *The Manchester Guardian (1901-1959)* Adalwyd oddi wrth https://search.proquest.com/docview/475759624?accountid=12799

# Yr Esgob Roy Thomas Davies

Bu Roy Thomas Davies (1934-2013) yn Esgob Llandaf o 1985 tan 1999.

Un o Langennech oedd Davies, pentref a leolir ychydig o filltiroedd i'r dwyrain o Lanelli. Ei rieni oedd Hubert, a oedd yn gweithio mewn ffatri, a Dilys. Oherwydd roedd llawer o bobl yn Llangennech yn siarad Cymraeg, yn ôl pob sôn, ni siaradodd ef unrhyw Saesneg tan oedd tua saith mlwydd oed. Ond roedd yn fachgen galluog, ac enillodd ysgoloriaeth i fynd i Ysgol Ramadeg Bechgyn Llanelli, ac yna, ysgoloriaeth arall i fynychu Coleg Dewi Sant, Llambed. Graddiodd yn 1955, ac ef oedd y cyntaf ers 1927 i ennill gradd dosbarth cyntaf gydag Anrhydedd yn y Gymraeg. Aeth ymlaen i astudio yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen; enillodd ddiploma mewn diwinyddiaeth a gradd B.Litt. yn 1959. Nesaf, derbyniodd hyfforddiant ar gyfer cael ei ordeinio yng Ngholeg Anglo-Gatholig St Stephen, Rhydychen.

Treuliodd Davies ei weinidogaeth gyfan yng Nghymru. Ei swydd gyntaf oedd curad Eglwys St Paul, Llanelli, ac arhosodd yno am bum mlynedd. Ar ôl hynny, o 1964 tan 1967, bu'n Ficer Llanafan, pentref a leolir deng milltir i gyfeiriad y de-ddwyrain o Aberystwyth. Ei swydd nesaf oedd caplan yr Eglwys yng Nghymru i Goleg Prifysgol Cymru Aberystwyth. Yna, daeth yn ysgrifennydd Cyngor Taleithiol Cenhadaeth ac Undeb yr Eglwys yng Nghymru. Yn 1979, symudodd yn ôl i weinidogaeth blwyfol, ac i fod yn ficer Eglwys Dewi Sant, Caerfyrddin. Bu'n Archddiacon Caerfyrddin o 1982 tan 1985, ac ochr yn ochr â hyn, yn Ficer Llanegwad o 1983 tan 1985. Yn 1985, penodwyd Davies yn Esgob Llandaf; arhosodd yn Llandaf tan iddo ymddeol yn 1999.

Roedd Davies yn ŵr Uchel Eglwysig ymroddedig; byddai'n mynegi ei ffydd drwy ei ysbrydolrwydd sacramentaidd dwys, drwy ganolbwyntio ar weddïo a thrwy garu pobl. Er nad oedd yn bregethwr cyffrous, yn ôl pob sôn, roedd ganddo'r ddawn i esbonio'n syml ac o'r galon. Ond roedd wedi ymrwymo ei hun i gadw at y traddodiad Catholig, rhywbeth a fyddai'n golygu mynd yn groes i'r llif o ran y farn boblogaidd. Yn y 1970au, pleidleisiodd fel rhan o gorff llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru o blaid y cynnig bod yna wrthwynebiadau sylfaenol i ordeinio menywod yn offeiriaid. Yna, yn 1994, roedd ef yn un o ddau esgob a bleidleisiodd yn erbyn cynnig i ordeinio menywod. Pan fethodd y cynnig hwnnw, cafodd Davies lawer o feirniadaeth lem. Yn y diwedd, newidiodd ei farn. Yn 1996, gwnaeth eilio cynnig a oedd yn cefnogi ordeinio menywod yn offeiriaid, gan ddadlau 'I cannot go on saying 'Hold it', because things cannot go on as they are … The danger with a stalemate is that we are going to be preoccupied with this matter at the cost of neglecting our wider mission.' Ond drwy wneud hyn, gwnaeth gynhyrfu gelyniaeth yn ei gefnogwyr blaenorol. Yn anffodus, gwnaeth y mater hwn gymylu llawer o'i esgobaeth.

Roedd Davies yn enwog am ei frwdfrydedd dros yr iaith Gymraeg, gan annog ei defnydd yng ngwasanaethau'r eglwys. Er na wnaeth ef hwn yn fater gwleidyddol, roedd yn sensitif i arwyddocâd ysbrydol y Gymraeg, yr iaith y gwnaeth nifer o bobl ei defnyddio gyntaf i weddïo ac i fynegi eu ffydd. Ar ôl ymddeol, gwnaeth werthfawrogi'n fawr gweinidogaethu mewn pentrefi lle y byddai'r Gymraeg yn cael ei siarad, yn ogystal â chynnal enciliadau achlysurol. Dychwelodd i Sir Gaerfyrddin i fyw yn Llangynnwr.

Bu farw Davies, yn ddi-briod, ar Awst 7 2013.  Gofynnodd na ddylai gwasanaeth coffa gael ei gynnal ar ei gyfer yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, na molawd chwaith yn ei angladd yn Llangynnwr. Meddai ei olynydd, Barry Morgan, amdano 'Bishop Roy was a true pastor of pastors …. He led a priestly life of prayer, devoted his life to the Church and he adored people …. His strong pastoral skills, coupled with a phenomenal memory for names and faces and a strong desire to foster the vocations of

young people, endeared him to all who met him and he will be greatly missed throughout the diocese.'

**Ffynonellau**

Davies, Rt Rev. Roy Thomas, (31 Jan. 1934–7 Aug. 2013), Bishop of Llandaff, 1985–99. *Who's Who & Who Was Who.* Adalwyd ar Ragfyr 16 2020, oddi wrth https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540891.001.0001/ww-9780199540884-e-13123.

The Rt Rev. Roy Davies – obituaries High church Bishop of Llandaff who changed his mind about women priests. (2013, September 2). *Daily Telegraph.* Adalwyd ar Ragfyr 16 2020, oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/14891D8E27912A68?p=UKNB

Price, D.T.W. (1990). *A History of Saint David's University College Lampeter. Volume two: 1898-1971.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru


Archbishop mourns 'pastor of pastors.' (2013, August 8). *Western Mail.* Adalwyd ar Ragfyr 16 2020, oddi wrth from https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/148139B579C68AE8?p=UKNB

St Deiniol's Group (2014). Crossing thresholds. Adalwyd ar Ragfyr 16 2020, oddi wrth http://cinw.s3.amazonaws.com/wp-content/uploads/2015/03/Crossing-Thresholds-English.pdf

Morrison-Wells, J. (2014). The Rt Revd Roy Thomas Davies. *The Link 67,*14. Adalwyd ar Ragfyr 16 2020, oddi wrth https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/alumni/lampeter-society/Link2014.pdf

Williams, M. (2013, August 23). Obituary: the Rt Revd Roy Thomas Davies. *Church Times.* Adalwyd ar Ionawr 4 2021, oddi wrth from https://www.churchtimes.co.uk/articles/2013/23-august/gazette/obituaries/obituary-the-rt-revd-roy-thomas-davies

# Daniel Dawson
# Athro Hanes Modern



Bu Daniel Dawson yn aelod o staff y coleg o 1923 tan iddo farw ar Ragfyr 28[ain], 1961 yn 65 mlwydd oed. Ysgrifennodd y Pennaeth J.R. Lloyd Thomas am ei yrfa hir a'i wasanaeth ymroddedig i Goleg Dewi Sant fel a ganlyn ar gyfer *The Bulletin of the Lampeter Society.*

'Professor Dawson was a Yorkshireman of the West Riding. He showed his early ability by winning one of the two State Scholarships in those days awarded for the whole of Yorkshire. He entered Leeds University, where Professor A. J. Grant described him as his outstanding student in a remarkable year. He took a First in History and then joined the West Yorkshire Regiment. He quickly rose to the rank of sergeant but was soon severely wounded on the Somme. On the way home the hospital ship was sunk and this experience impeded his recovery and he spent many months in hospital. Afterwards, with a research scholarship he went up to Peterhouse, Cambridge, and at Cambridge took first place among notable contemporaries. His research work took him to Vienna, and was subsequently published as *The Mexican Adventure* and for this he obtained the M.Litt.

When he came to St. David's College in 1923, he was still a sick man, and the present writer well remembers how the College "nurse", Mrs Williams, helped to bring him back to health with rough but loving care. He made a remarkable recovery, and quickly took up tennis and golf, in both of which he was no mean performer, playing regularly for the College.

During the first war, when numbers at College fell to almost nothing, the History honours school had been suspended, and Mr Dawson, as lecturer in charge, had to rebuild it. This he quickly did and soon established it as the strongest honours school in the College. In 1931 he was joined by one of his own students, the Rev. F.J.T. David, and together they have maintained a standard of scholarship which commanded the respect of the Board of Examiners, and which produced a steady crop of sound Firsts. Meanwhile it was not until 1940 that a vacant Chair was found for him to become Professor of History.

The heavy burden of teaching put an end to the production of books, but this meant no neglect of serious study. He kept abreast of every development and his wide reading in many fields made him one of the best informed men and a stimulating and delightful companion. He became a great teacher and his demands upon himself were quite relentless. He expected much of his men, but his own example was the greatest inspiration to them. After his marriage to Mary Bartlett, the sister of one of his colleagues, their home became an open house to all who passed through the College, and few of his former men failed to call there whenever anywhere near Lampeter.

In the second world war he became one of the deputy commissioners of Civil Defence for Cardiganshire and was co-opted on the Borough Council, and from then onwards he took an increasing interest in town affairs, and was soon accepted by all as if he had been born and bred a Cardi. After the war he succeeded the late Professor Cayo Evans as College Bursar (having been himself Censor for many years), an honorary post but one making heavy demands on time, he showed himself to be a practical man of affairs and a most conscientious steward of the meagre resources of the College. He held this post until illness forced him to give it up, much to the regret of the domestic staff of the College who loved him for his essential fairness and integrity and for his genuine concern for their welfare.

No one rejoiced more than he did when the settlement with the University Grants Committee secured the future of the College, and it is part of our sorrow that he did not live long enough to enjoy some of the fruits of the settlement, such as the greater leisure which an expanding department would have brought to him. He reached the age of retirement in October 1961, but agreed to accept an extension urged on him by the College Council, although not in the best of health at that time. In the last few years the History department had grown steadily, with more men reading honours than ever before, and there is no doubt that this was a great burden to carry after his serious illness a few years ago.

As with many another before him he probably came to St. David's College expecting to stay for a few years and then move on. He stayed for a lifetime, with forty years of unremitting work. His life and work will always be a living part of the College.'

Yn ddiweddarach, sefydlwyd Gwobr Hanes yn ei enw, er cof amdano.

**Ffynonellau:**

Lloyd Thomas, J.R., (1962) Professor Dawson, 1896-1961. *Bulletin of the Lampeter Society, April XV*, 12-14.

'Daniel Dawson Obituary', (1962). *Gateway. The Student Journal of the University College of St David's, Lampeter, March XV,* 2.

# Chris Deacy

Mae Chris Deacy yn ddarlithydd diwinyddiaeth ac astudiaethau crefyddol ym Mhrifysgol Caint.

Astudiodd Deacy yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llambed, fel myfyriwr israddedig a myfyriwr ôl-raddedig. Dyfarnwyd iddo radd BA mewn Diwinyddiaeth, ac wedyn, gradd MA ar 'Farwolaeth ac Anfarwoldeb'. Teitl ei waith ar gyfer ei radd PhD, a ddyfarnwyd iddo yn 1999, oedd *Screen Christologies: an Evaluation of the Christian Concept of Redemption and its Application through Film.'* Aeth ymlaen i addysgu yn y coleg a elwid bryd hynny Coleg y Drindod, Caerfyrddin.

Yn 2004, ymunodd Deacy â Phrifysgol Caint. Ers 2013, mae wedi bod yn Uwch Diwtor i'r Ysgol Diwylliant ac Ieithoedd Ewrop. Mae hefyd wedi bod yn Gyfarwyddwr Addysgu a Dysgu'r Ysgol, yn ogystal â Phennaeth Astudiaethau Crefyddol. Sail ei lyfr cyntaf, sef *Screen Christologies: Redemption and the Medium of Film,* (Gwasg Prifysgol Cymru, 2001), oedd y traethawd ar gyfer ei radd PhD. Ef gosododd y sylfaen ar gyfer archwilio sut, yng nghymdeithas gyfoes y gorllewin, y gellid ystyried ffilm yn gyfrwng ac yn ffordd bwysig o gyfleu gobeithion a gwerthoedd crefyddol.

Gwnaeth ddilyn hwn gyda *Faith in Film: Religious Themes in Contemporary Cinema,* (Ashgate, 2005). Ynddo, gwnaeth ddadlau y dylid cydnabod sinema yn 'ystorfa ddichonol a ffrwythlon sy'n bwysig ar seiliau crefyddol yn niwylliant cyfoes y gorllewin.' Gwnaeth Deacy archwilio'r ffordd y mae cynulleidfaoedd yn ymladd gyda'u credoau a'u gwerthoedd crefyddol. Ymhlith y ffilmiau y gwnaeth ef eu harchwilio oedd *Billy Liar, Groundhog Day* a *The Passion of the Christ*; cydbwysodd dadansoddi naratif y ffilm yn erbyn sylwadau'r gwylwyr a roddwyd ar Gronfa Ddata Ffilmiau'r Rhyngrwyd (Internet Movie Database - IMDb). Yn ei hadolygiad ohono, yn *Literature and Theology,* meddai Wright fod '*Faith in Film* yn astudiaeth gyfoeth gyda llawer i'w chymeradwyo.'

Gwnaeth llyfr Deacy, a gyhoeddwyd yn 2012, sef *Screening the afterlife: theology, eschatology and film* (Routledge, 2012), gysylltu yn ôl â'i radd MA yn Llambed, sef Marwolaeth ac Anfarwoldeb. Ei fwriad oedd cyfosod safbwyntiau escatolegol Diwinyddiaeth Gristnogol yn erbyn darllen yn feirniadol nifer o destunau ffilm sy'n mynd i'r afael â chwestiynau sy'n ymwneud â marwolaeth a'r bywyd tragwyddol.'

Gan adael ffilm, aeth Deacy ymlaen, yn 2016, i gyhoeddi *Christmas as Religion: Rethinking Santa, the Secular and the Sacred*. Ei ddadl oedd bod y Nadolig ei hun yn grefydd nad yw'n bosibl ei hosgoi; yn ei farn ef, gall prynwriaeth fod yn grefyddol a gall crefydd fod yn brynwriaethol ac yn drosgynnol. Mae gan grefydd y Nadolig ryw naws drosgynnol, yn enwedig mewn cyswllt â hiraeth sy'n ymwneud â'r teulu neu blentyndod. Yn benodol, mae'n archwilio'r dilynwyr a'r ymdeimlad o gymuned a gynhyrchir gan y rhaglen radio flynyddol, *Christmas Junior Choice.* Ysgrifenna Ribovich, 'Yn bennaf oll, mae llyfr Deacy yn gyfoes ac yn ddiddorol dros ben – a lle mae'n gadael cwestiwn heb ei ateb, mae'n gosod sylfaen er mwyn bod eraill yn gallu adeiladu arni.' Mae Deacy hefyd wedi ysgrifennu llawer o benodau ar gyfer llyfrau, ac erthyglau ar gyfer cyfnodolion, y rhan fwyaf ohonynt ar y perthnasau sy'n bodoli rhwng crefydd a ffilm neu rhwng crefydd a diwylliant poblogaidd.

Ar hyn o bryd, mae Deacy yn gweithio ar brosiect am hiraeth a chrefydd. Mae'n diffinio hiraeth fel 'y dyheu trist hwnnw sy'n digwydd naill ai mewn lle penodol neu dros/ a thros gyfnod am gartref nad yw bellach yn gyrraeddadwy.' Atodir ei ymchwil gan gyfres o bodlediadau ar gyfweliadau o'r enw 'Nostalgia.' Mae gan lawer o'i gyfweleion gysylltiad â Llambed; yn aml, cynfyfyrwyr neu gyn-aelodau staff ydynt. Yn ystod y sgyrsiau, mae'n archwilio cwestiynau gwaelodol megis 'Beth sydd yn ein llunio?', 'Sut y gwnaethom gyrraedd y man hwn,' a 'Beth wnaeth ddylanwadu arnom, o ran llyfrau, cerddoriaeth, ffilmiau, chwaraeon a'n perthnasau gydag aelodau'r teulu i'n hachosi ni i gyrraedd y man hwn.'

Mae Deacy wedi gofalu cadw cyswllt gyda PCYDDS; yn benodol, ar hyn o bryd, mae'n is-gadeirydd Cymdeithas Llambed.

**Ffynonellau**

University of Kent. (n.d.). Dr Chris Deacy. Adalwyd Mehefin 29 2020 oddi wrth https://www.kent.ac.uk/european-culture-languages/people/1618/deacy-chris#teaching

University of Kent. Kent Academic Repository. (n.d.). Screen Christologies: Redemption and the Medium of Film. Adalwyd Mehefin 29 2020 oddi wrth https://kar.kent.ac.uk/1121/

Wright, M.J. (2007). [Review of the book *Faith in film. Religious themes in contemporary cinema,* by Christopher Deacy]. *Literature and Theology,* 21(1),104-105. Adalwyd oddi wrth www.jstor.org/stable/23927315

Ortiz, G.W. (2012). [Review of the book *Screening the afterlife: theology, eschatology and film* by Christopher Deacy]. *Journal of contemporary religion,* 27(3),505-506. https://doi.org/10.1080/13537903.2012.722303

Ribovich, L. (2019). [Review of the book *Christmas as religion: rethinking Santa, the secular, and the sacred,* by Christopher Deacy]. *Journal of Religion,* 99(2),236-238. https://doi.org/10.1086/702016

Deacy, C. (2020). Nostalgia and the 'New visibility' of religion. *Religions, 11*(5), 267. https://doi.org/10.3390/rel11050267

# Wendy Dossett



Mae Wendy Dossett yn Athro Cysylltiol Astudiaethau Crefyddol ym Mhrifysgol Caerllion, yn Gyfarwyddwr Ymchwil Chester Studies of Addiction, Recovery and Spirituality Group, a Phrif Ymchwilydd The Higher Power Project.

Daeth Dossett i Goleg Prifysgol Dewi Sant yn 1987 i astudio Llenyddiaeth Saesneg ac Astudiaethau Crefyddol. Mae'n cofio'r teithiau hirion ar y bws i Lambed a chefn gwlad prydferth Ceredigion, yn ogystal â rhai o gymeriadau'r campws, a hufen iâ enwog Conti.

Ar ôl graddio, aeth Dossett ymlaen i archwilio diddordeb mewn Bwdhaeth drwy ymgymryd ag astudiaeth bellach. Fel rhan o'i PhD yn Llambed, gwnaeth hi dreulio peth amser yn byw mewn Teml Fwdhaidd 'Pure Land' yn Tokyo. Teitl ei thesis oedd *Essence and manifestation: some problems of definition in the study of religion with special reference to Jōdō Shinshū.* Yna, cafodd ei hyfforddi (yng Ngholeg y Drindod) i fod yn athrawes Addysg Grefyddol. Am y chwe blynedd nesaf, gwnaeth hi ymwneud ag hyfforddi athrawon Add Gref a rhedeg Canolfan Adnoddau Addysg Grefyddol y Coleg.

Bu Dossett yn ddarlithydd Astudiaethau Crefyddol ym Mhrifysgol Cymru Llambed o 2000 tan 2010. Roedd ei rôl yn cynnwys bod yn gyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Profiad Crefyddol Alister Hardy. Mae'r ganolfan hon yn cynnwys dros 6 000 o adroddiadau ar brofiadau crefyddol ac ysbrydol a gafodd eu mynegi gan aelodau'r cyhoedd. Goruchwyliodd Dossett hefyd waith ymchwil llawer o fyfyrwyr ac ysgolheigion a wnaeth ddefnyddio casgliad Alister Hardy.

Gweithiodd am flwyddyn ar Brosiect Rhoserchan, prosiect preswyl i ailsefydlu pobl sydd â dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol, ac a leolir ychydig y tu allan i Aberystwyth. Gwnaeth hyn roi profiad ymarferol iddi a fyddai'n sail yn y dyfodol ar gyfer ei hymchwil ar ysbrydolrwydd ac adferiad yn dilyn caethiwed. Drwy Brifysgol Bangor, cafodd ei hyfforddi'n athrawes ymwybyddiaeth ofalgar, ac mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn defnyddio ymwybyddiaeth ofalgar i drin anhwylderau camddefnyddio sylweddau.

Ar ôl ymadael â Llambed, daeth yn uwch-ddarlithydd Astudiaethau Crefyddol ym Mhrifysgol Caerllion, lle mae hefyd yn Gyfarwyddwr Ymchwil Chester Studies of Addiction, Recovery and Spirituality Group. Disgrifiodd Dossett ei gwaith fel archwilio 'a variety of religious, spiritual and

secular responses to anxiety and dislocation associated with modernity, especially in relation to the phenomenon of recovery from addiction.'

Dosset yw Prif Ymchwilydd y Higher Power Project, prosiect ymchwil sy'n ceisio cofnodi a mapio'r amrywiaeth o ddealltwriaeth sy'n ymwneud â 'grym uwch' neu'r 'grym hwnnw sy'n fwy na nhw eu hunain' ac a ddefnyddir gan bobl yn y broses Adferiad Deuddeg Cam er mwyn osgoi dibynnu ar sylweddau. (Mae sefydliadau sy'n defnyddio'r rhaglen Deuddeg Cam yn cynnwys Alcoholigion Anhysbys). Yn gyntaf oll, rhaid i'r dioddefwyr gydnabod bod y grym ewyllys sydd ganddynt yn annigonol. Yr ail gam yw 'Came to believe that a Power greater than ourselves could restore us to sanity'. Ond nid duw crefydd, o reidrwydd, yw'r grym uwch hwn. Gallai fod yn ffrindiau neu grŵp cefnogi'r unigolyn; gallai fod yn natur, neu ryw rym arall. Gofynnwyd i'r sawl a wnaeth gymryd rhan ym mhrosiect Dossett i drafod beth oedd y grym uwch hwn yn ei olygu iddyn nhw. Gwnaethant ddarganfod bod cymryd rhan yn y prosiect ymchwil hwn yn aml wedi'u helpu i adfer mewn ffordd fwy dwys. Mae Dossett wedi dweud 'Whatever impacts my research does or doesn't have for the Research Excellence Framework or REF, the fact that it has helped and reassured the very people who have generously shared their story with me means a great deal.'

Dossett oedd un o gyd-olygyddion *Alternative Salvations: Engaging the Sacred and the Secular,* a gyhoeddwyd gan Bloomsbury yn 2015. Gwnaeth y gyfrol hon archwilio cysyniadau eang, gan gynnwys y 'crefyddol', y 'secwlar', yr 'ysbrydol', yr 'ôl-Gristnogol', a'r 'ôl-secwlar'; gwnaeth cyfres o astudiaethau holi i ba raddau y mae'r categorïau eang hyn yn ddefnyddiol. Cyfrannodd Dossett ei hun bennod ar Adferiad Deuddeg Cam, gan adolygu gwreiddiau Cristnogol Alcoholigion Anhysbys a'r defnydd a wneir o iaith 'grym uwch' ymhlith aelodau'r grŵp hwnnw. Mae Dossett hefyd wedi ysgrifennu nifer o erthyglau mewn cyfnodolion eraill, yn ogystal â phenodau mewn llyfrau. Ei herthygl a gaiff ei dyfynnu fwyaf yw 'Addiction, Spirituality and 12-Step programmes', a gyhoeddwyd yn *International Social Work,* cyf. 56, rhif. 3 (2013). Dewiswyd yr erthygl hon yn 'Erthygl Ymchwil Allweddol', gan Psychology Progress 'wedi'i dewis o amrywiaeth eang o gyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid ac a gafodd ...eu dyfarnu'n bwysig dros ben yn eu meysydd priodol eu hunain'.

Yn ogystal â'i phrif ddiddordeb ymchwil, mae Dossett yn parhau i ymwneud ag addysg grefyddol mewn ysgolion, ynghyd â hyfforddiant athrawon. Am yr ugain mlynedd diwethaf, mae wedi bod yn brif arholwr Lefel A i un o'r Pedwar Bwrdd Arholi Cyhoeddus. Mae hyn wedi golygu ysgrifennu meysydd llafur, gosod papurau arholiad, arwain y timau marcio a darparu datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon. Mae hi wedi ysgrifennu sawl gwerslyfr Lefel A a Lefel UG, (*Religion in Contemporary Society; Religious Experience; Buddhism for AS Students* a *Judaism for AS Students*). Am ddeng mlynedd, bu hi'n ysgrifenyddes Shap Working Party for Religions in Education. Am bum mlynedd, cynrychiolodd hi TRS-UK, (y corff sy'n gweithio ar ran adrannau diwinyddiaeth ac astudiaethau crefyddol yn y DU) ar Gyngor Addysg Grefyddol Cymru a Lloegr.

**Ffynonellau**

University of Chester (2020). Dr Wendy Dossett. Adalwyd ar Orffennaf 22 2020 oddi wrth https://www1.chester.ac.uk/departments/theology-and-religious-studies/staff/wendy-dossett

Wendy Dossett (2020). *LinkedIn* [Tudalen broffil]. Adalwyd ar Orffennaf 22 2020 oddi wrth https://www.linkedin.com/in/wendy-dossett-2833a8a2/

Reed, M. (Producer). (Producer). (2019, May 11). Celebrating your unsung impacts. [podlediad clywedol]. Adalwyd ar Orffennaf 22 2020 oddi wrth https://www.fasttrackimpact.com/podcast/episode/548d0c68/celebrating-your-unsung-impacts

Alcoholics Anonymous (n.d.) The twelve steps of Alcoholics Anonymous. Adalwyd ar Orffennaf 22 2020 oddi wrth https://www.alcoholics-anonymous.org.uk/About-AA/The-12-Steps-of-AA

# Fergus Drennan

Mae Fergus Drennan, a elwir hefyd yn 'Fergus y Chwilotwr' yn disgrifio ei hun yn arbrofwr ac yn addysgwr bwyd gwyllt.

Ganwyd Drennan yn Wimbledon, a symudodd i Gaint pan oedd yn saith mlwydd oed. Dysgodd yn gyntaf sut i chwilota fel plentyn bach, drwy gasglu dant y llew i roi i'w grwban anwes. Ar ôl iddo ymadael â'r ysgol, astudiodd arlwyo yn y coleg yn Thanet; dysgodd sgiliau technegol y mae ef, erbyn hyn, yn dibynnu arnynt. Yna, mynychodd y brifysgol yn Llambed, lle y gwnaeth ef astudio Astudiaethau Crefyddol. Yn ystod ei flwyddyn olaf, gwnaeth gynilo arian drwy fyw mewn pabell a bwyta llysiau gleision a ffyngau lleol, yn ogystal â bwyd a oedd ar ôl gan ffreutur Undeb y Myfyrwyr a bwyd a wrthodwyd gan ddosbarthydd bwydydd organig. Yn cyfeirio at y cyfnod hwnnw, mae'n dweud 'Wrth edrych yn ôl ar fy holl fywyd, dyna'r adeg pan oeddwn hapusaf.'

Ar ôl graddio, treuliodd ychydig o amser yn addysgu yn Tsieina. Gwnaeth ei swydd nesaf fynd ag ef yn ôl i Gaint, yn gwerthu llysiau mewn marchnad ffermwyr a oedd wedi'i lleoli yn Siediau Nwyddau Caergaint. Fel eilbeth, gwnaeth werthu ffyngau yr oedd ef ei hun wedi'u casglu, a syrypau a chordialau a wnaed o blanhigion gwyllt. Am ychydig, bu'n gweithio gyda chwilotwr arall, Miles Irving, yn cyflenwi rhai o'r bwytai gorau, gan gynnwys The Ivy a Fifteen, bwyty Jamie Oliver, â chynhyrchion. Ond teimlodd fod cael ei orfodi i ddilyn trefn benodol yn achosi iddo ddigalonni. Hefyd, gwnaeth sylweddoli y gallai chwilota masnachol arwain at or-gasglu, ac felly, nid oedd hyn yn beth cynaliadwy.

Creda Drennan fod casglu bwyd gwyllt yn draddodiad diamser, ac yn ffordd sylfaenol y gall pob un ohonom ei defnyddio i reoli ein diet. Mae chwilota yn ymwneud â deall y dirwedd a'r ardal. Teimla fod llawer o'i weithgaredd yn ymwneud â chysylltu, gan ddweud 'Os gwnewch chi bwyntio at unrhyw un o'r rhain [cynhwysion a gasglwyd] sydd yma, cewch stori. Felly, pan rwy'n bwyta'r bwyd, rwy'n ail-fyw'r stori honno – o le daeth y bwyd a beth ddigwyddodd pan oeddwn yn ei gasglu.' Dywed hefyd, 'rwy mor hoff o arafwch y broses. I raddau, mae'n wrthryfel yn erbyn y diwylliant cyflymder.' Mae Drennan yn treulio ei ddiwrnod cyfan yn chwilio am ac yn paratoi bwyd; y mae bron popeth y mae ef yn ei wneud yn arbrofol ac yn cymryd llawer iawn o amser. Y mae ganddo hefyd gymhelliant cryf i beidio â gwastraffu unrhyw beth. Mae'n sychu mes am sawl wythnos cyn eu rhostio i greu coffi neu eu malu i gynhyrchu blawd. Mae'n cynhyrchu ceuled dail, protein a ddaw o ddanadl poethion, llysiau'r gymalwst neu graf gwyllt. Caiff y dail eu rhoi mewn hylifydd, eu berwi ac yna, eu hidlo. Mae Drennan wedi dysgu sut i ddefnyddio madarch i greu papur, a dweud y gwir, mae wedi cynhyrchu llyfr cyfan, yn cynnwys 150 o dudalennau, gan ddefnyddio ffyngau yn unig. Am nad yw'n hoff o fagu anifeiliaid i'w lladd, mae Drennan, i ran helaeth, yn llysfwytäwr. Er hynny, mae'n defnyddio anifeiliaid sydd wedi'u lladd ar yr heol, yr hyn a elwir ganddo yn gig damweiniol: mae hwn yn cynnwys ffesantod, cornchwiglod, moch daear, llwynogod cwningod a gwiwerod. Mae cig moch daear yn addas ar gyfer byrgyrs, ac mae cig llwynogod orau pan gaiff ei bot-rostio mewn gwin coch, gyda madarch gwylltion. Medd Drennan mai ei gamgymeriad mwyaf oedd bwyta grifft broga.

Mae ganddo uchelgais hirsefydlog i fyw am flwyddyn ar fwyd a gasglwyd yn unig. Ei amcan trosfwaol yw ymchwilio i'r rôl y dylai chwilota ei chwarae mewn Prydain fodern. Mae'n gobeithio archwilio'r buddion a'r peryglon. Mae'n argyhoeddedig bod y fath brosiect yn bosibl, ac mae wedi mynd nifer o weithiau heb brynu bwyd am fisoedd ar y tro. Ar wahanol adegau, mae wedi byw drwy bob mis, ac eithrio mis Chwefror, ar fwyd gwyllt yn unig. Fel arfer, mae hyn yn golygu dwy awr y dydd yn chwilota, pedair awr yn prosesu'r bwyd a'i goginio, ac wedyn, llawer o oriau yn ymchwilio.

Mae Drennan yn disgrifio ei weithgareddau addysg bwyd gwyllt fel gwaith ond nid swydd. Wedi'r cyfan, mae swydd yn gwneud arian! Yn 2007, gwnaeth ymddangos yn y gyfres BBC3 *Roadkill Chef.* Ei brif ffynonellau arian yw rhedeg cyrsiau dydd, er enghraifft, ar chwilota am ffyngau, ochr yn ochr ag ysgrifennu erthyglau ar gyfer cylchgronnau. Mae wedi ysgrifennu i amrywiaeth o bapurau newydd a chylchgronnau gan gynnwys *BBC Countryfile Magazine, The Ecologist, Country Kitchen* a *Survival Skills Magazine.*

**Ffynonellau**


Davidson, M. (2015, Oct 31). Make your home where food is free - Max Davidson meets the property owners who really are living off the fat of the land. *Daily Telegraph*, p. 4,5. Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/158D2B4EE8EDB110?p=UKNB

Montgomery, H. (2013, April 28). Look what I've found – feature towards a better future. 'Wild man' Fergus Drennan tells Hugh Montgomery how he learnt to forage – and why we should too. *Independent,* p. 16, 17, 19, 21. Adalwyd oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/145F387F85B68258?p=UKNB

Scott, C. (2008, April 27). A life in the day – interview. *Sunday Times magazine,* p. 66. Adalwyd oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/12076A9650BF4310?p=UKNB

Drennan, F. (n.d.) Fergus the Forager & friends. Adalwyd ar Fedi 17 2020 oddi wrth https://fergustheforager.co.uk/

Saner, E. (2019, October 29). 'I make tagliatelle with them': will acorns become the next 'superfood'? – They can be roasted for coffee and ground down to make flour – and you can pick them up free at your local park. *Guardian.* Adalwyd oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/176E0EE3C236F0B8?p=UKNB

Maklouf, L. (host), & Drennan, F. (interviewee). (2019, October 3). *Fergus the Forager.* [Audio podcast]. Laetitia Maklouf: gardening in five minutes a day. Adalwyd ar Fedi 17 2020 oddi wrth https://laetitiamaklouf.com/podcast/tag/fergus+drennan

Why Fergus is wild about food foraging. (2007, November 15). *Kentish Gazette Canterbury & District.* Adalwyd ar Fedi 18 2020 oddi wrth https://www.pressreader.com/uk/kentish-gazette-canterbury-district/20071115/282497179312908

# Toby Driver



Mae Toby Driver yn archeolegydd ac yn gyn-hanesydd.

Astudiodd Driver archeoleg ym Mhrifysgol Southampton, cyn ymuno â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn 1995. Teitl ei swydd yw Uwch-Archwilydd (Arolwg o'r Awyr); mae wedi rheoli'r rhaglen rhagchwiliad Cymru gyfan am dros 20 mlynedd.

Ffotograffiaeth o'r awyr yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gofnodi safleoedd a thirweddau; yn ddi-os, weithiau, dyma'r unig ffordd o ddarganfod henebion. Mae'n cynnwys arsylwi a thynnu lluniau o'r dirwedd o'r arwyr, ac yna dehongli a mapio safleoedd o'r delweddau a gynhyrchir. Mae defnyddio awyrennau ysgafn yn golygu y gellir arolygu cannoedd o filltiroedd o fewn ychydig oriau. Mae gweithio o leoliad mor uchel yn helpu i egluro trefn safleoedd cymhleth ac mae'n dangos nodweddion a allai fod yn anweladwy o'r ddaear.

Yn benodol, darparodd haf hir a phoeth 2018 amodau perffaith ar gyfer archeoleg o'r awyr. Datgelwyd llawer o safleoedd anghofiedig eto fel ‘nodau cnwd’ neu batrymau twf mewn cnydau aeddfedu a glaswelltiroedd wedi'u sychu. Mewn saith wythnos o hedfan ledled Cymru, tynnodd Driver tua 5,700 o luniau. O'r cyfnod Rhufeinig yn unig, mae ei ganfyddiadau'n cynnwys gwersylloedd ymdeithio newydd yn Five Lanes yn Sir Fynwy a Three Cocks ym Mharc Gwernyfed, Powys, ynghyd â chaerau yn Carrow Hill, Sir Fynwy. Three Cocks a Fferm Graig-Olway, yn agos i Frynbuga.

Teitl doethuriaeth Driver, a ddyfarnwyd gan Brifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan yn 2005, oedd *The hillforts of North Ceredigion: architecture, landscape approaches and cultural contexts.* Nid oedd y grŵp hwn o dros gant o fryngaerau'n hysbys iawn ac nid ydynt wedi’u cloddio o gwbl fwy neu lai Wrth ddadansoddi'r safleoedd unigol, arddangosodd Driver eu bod yn ‘fannau soffistigedig tri dimensiwn.’ Wedyn, adeiladodd ar y gwaith hwn gan gyhoeddi *Architecture, regional identity and power in the Iron Age landscapes of Wales,* (Cyfres Prydain BAR, 2013). Ar lefel fwy poblogaidd, cyhoeddodd*The hillforts of Cardigan bay* hefyd, (Logaston Press, 2016). Fel y mae'n egluro yng nghydnabyddiaethau'r llyfr, llywiwyd llawer o'r cynnwys gan gwestiynau a ofynnwyd iddo yn ystod darlithoedd neu deithiau cerdded tywysedig.  Mae'n disgrifio'r bobl a adeiladodd y bryngaerau, ac

wedyn yn byw ynddynt, gan ysgrifennu am eu patrymau o fywyd bob dydd a thrafod yr arteffactau a ddarganfyddwyd.

Cafodd *Pembrokeshire – Historic landscapes from the air* (Comisiwm Brenhinol, 2007) gan Driver ei anelu at gynulleidfa anarbenigol hefyd. Cyflwynodd ffotograffiaeth o'r awyr, ac wedyn archwilio chwe isranbarth y sir. Disgrifiodd Austin y llyfr fel 'cyfraniad sylweddol i astudiaeth academaidd o dirweddau Sir Benfro a mynediad y cyhoedd i archeoleg a hanes y rhan ysblennydd hon o'r byd.' Mae'r gyfrol hon hefyd wedi'i darlunio'n ardderchog.

Mae Driver wedi cyd-gyfarwyddo cloddiadau ar Ynys Skomer oddi ar arfordir Sir Benfro, ac yn fila Rufeinig Abermagwr. Ar Skomer, darganfyddodd ef a'i dîm leoliadau gerrig defodol o Oes Newydd y Cerrig a'r Oes Efydd nad oeddent yn hysbys o'r blaen. Fe wnaethant ddangos hefyd y gallai'r systemau caeau ddyddio'n yn ôl i o leiaf cyfnod hwyrach yr Oes Efydd. Y safle yn Abermagwr, tua wyth milltir i dde-ddwyrain Aberystwyth, yw'r unig fila a gofnodir yng Ngheredigion, ynghyd â'r fila fwyaf anghysbell wedi'i darganfod hyd yn hyn yng Nghymru. Cafodd ei sefydlu tua OC 230, ond cafodd ei gadael tua OC 330 yn dilyn tân mawr. Roedd yr adeilad yn gymharol wladaidd, gyda lleoedd tân agored a lloriau clai. Fodd bynnag, roedd ei gynnwys yn cynnwys darnau o lestr gwydr nadd o ansawdd uchel, a gynhyrchwyd yn Y Rheindir.

Ym mis Mai 2021, cymerodd Driver ran yn y rhaglen BBC, *Great British Railway Journeys,* gan arwain Michael Portillo o gwmpas bryngaer Pen Dinas, ar gyrion Aberystwyth. Eglurodd yr hanes a phwysigrwydd cloddiadau o'r safle yn y 1930au, ac wedyn siaradodd am y ffyrdd y mae technoleg newydd, gan gynnwys dronau, yn helpu archeolegwyr i archwilio'r ardal heddiw. Mae Driver hefyd wedi cyfrannu at raglen *Weatherman Walking* Derek Brockway.Y tu hwnt i hynafiaeth, gwelwyd ef yn ymweld â Phier Llandudno ym mis Mai 2021; dyluniodd ei hen dad-cu ei waith metel addurnol.

Ar hyn o bryd, mae Driver yn rhan o'r prosiect CHERISH chwe blynedd rhwng Cymru ac Iwerddon a ariennir gan yr UE, sy'n archwilio'r newid yn yr hinsawdd a threftadaeth arfordirol yng Nghymru ac Iwerddon. Nod y rhaglen yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, stormusrwydd uwch, a digwyddiadau tywydd eithriadol ar dreftadaeth ddiwylliannol riffiau, ynysoedd a phenrhynion moroedd rhanbarthol Cymru ac Iwerddon. Yn benodol, mae'n canolbwyntio ar y penrhynion a'r ynysoedd o amgylch Sir Benfro, Bae Ceredigion a Phenrhyn Llŷn, ynghyd â safleoedd ar hyd arfordiroedd de a dwyrain Iwerddon.

Mae Driver yn ymddiriedolwr Cymdeithas Hynafiaethau Cymru ac yn gymrawd Cymdeithas Hynafiaethwyr Llundain. Mae hefyd wedi addysgu yn adran archeoleg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae'n briod â Becky; Mae ganddynt ddau fab, Aric a Charlie.

**Ffynonellau**

CHERISH. (2021). Toby Driver. Cyrchwyd ar 21 Mehefin 2021 o http://cherishproject.eu/en/?s=toby+driver

Driver, T. (2021). Dr Toby Driver FSA [Tudalen LinkedIn]. LinkedIn. Cyrchwyd ar 21 Mehefin 2021 o https://www.linkedin.com/in/dr-toby-driver-fsa-9394203b/

Driver, T. (2013). *Architecture, regional identity and power in the Iron Age landscapes of Mid Wales. The hillforts of North Ceredigion.* Rhydychen: Archaeopress

Driver, T. (2016). *The Hillforts of Cardigan Bay: discovering the Iron Age communities of Ceredigion.* Woonton Almeley: Gwasg Logaston

Driver, T., Burnham, B., a Davies, J.L. (2020). Roman Wales: aerial discoveries and new observations from the drought of 2018. *Britannia, 51*, 117-145. https://doi.org/10.1017/S0068113X20000100

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru. (2018). Abermagwr: Y fila Rufeinig anghysbell yng Nghymru lle darganfuwyd bowlen unigryw o wydr nadd a thystiolaeth gynnar o grefft y töwr yng Nghymru. Cyrchwyd ar 22 Mehefin 2021 o https://cbhc.gov.uk/abermagwr-y-fila-rufeinig-anghysbell-yng-nghymru-lle-darganfuwyd-bowlen-unigryw-o-wydr-nadd-a-thystiolaeth-gynnar-o-grefft-y-towr/

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru. (2021). Dyddiau aur bryngaer Pen Dinas, Aberystwyth: 'Great British Railway Journeys' ar BBC Two Cyrchwyd ar 22 Mehefin 2021 o https://cbhc.gov.uk/dyddiau-aur-bryngaer-pen-dinas-aberystwyth-great-british-railway-journeys-ar-bbc-two/?

Austin, D. (2010). Pembrokeshire: Historic landscapes from the air. Gan Toby Driver. 245mm. Tt 286, 379 lluniau Aberystwyth: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, 2007. ISBN 9781871184297 £29.95 (clawr caled); 9781871184334 £19.95 (clawr meddal). *The Antiquaries Journal, 90*, 479-480. dyddiad cyhoeddi:10.1017/S0003581510000260

Lloyd Jones, E. (12 Mai 2021). Weatherman walking – Llandudno [Postiad blog]. Cyrchwyd ar 22 Mehefin 2021 o http://idigarchaeology.co.uk/weatherman-walking-llandudno/

.

**William Edmunds**

William Edmunds (1827–1875) oedd dirprwy brifathro cyntaf yr hyn a oedd i ddod yn Goleg y Drindod, Caerfyrddin.

Cafodd Edmunds ei eni a'i fagu yn Llanbedr Pont Steffan, yn fab i'r cyfrwywr, Edmund Edmunds, a'i wraig, Mary. Cafodd ei fedyddio ar 27 Rhagfyr 1827. Fe'i haddysgwyd yn Ysgol Ramadeg Llanbedr Pont Steffan, cyn iddo fynd ymlaen i Goleg Dewi Sant. Yno roedd yn un o'r myfyrwyr mwyaf nodedig, gan ddod yn uwch-ddisgybl ac ennill sawl gwobr. Yn 1849, cafodd ei ordeinio gan esgob Tyddewi, Connop Thirlwall. Dyfarnwyd Gwobr yr Esgob iddo hefyd am yr ymgeisydd mwyaf llwyddiannus. Fodd bynnag, ei benodiad cyntaf oedd fel dirprwy brifathro Coleg Hyfforddi Caerfyrddin, sef rhagflaenydd Coleg y Drindod. Bodlonodd amod y Gymdeithas Genedlaethol y dylai'r dirprwy brifathro allu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Yn wir, anogodd y boneddigion i ddysgu rhywfaint o Gymraeg llafar er mwyn medru cyfathrebu â'r tlodion mewn ffordd ystyrlon, wrth wrthwynebu 'unrhyw gri cul o wladgarwch neilltuedig'. Fodd bynnag, perthynas anodd oedd rhwng Edmunds a William Reed, prifathro'r coleg, yn aml. Yn ei ddyddiaduron, mae Edmunds yn sôn yn aml am absenoldeb Reed o'r coleg. Ysgrifennodd ar 2 Ebrill 1852, 'Mr Reed yn absennol o'r ysgol heddiw! Wedi cyflwyno gwers ar y litani a dwy wers Ladin. Mae eu Lladin yn druenus!' Collodd hyder hefyd yn y cwricwlwm, gan ddweud, 'Yr hyn yr ydym yn ei alw'n addysgu wedi cael ei derfynu'n llwyr.'

Gadawodd Edmunds Gaerfyrddin yn 1853 i fynd yn bennaeth Ysgol Ramadeg Llanbedr Pont Steffan. Bach iawn o ddisgyblion oedd yno ar y pryd, gan fod cystadleuaeth o Ystradmeurig ac o'r ysgol newydd yn Llanymddyfri. Canolbwyntiodd Edmunds ar wella enw academaidd yr ysgol, ac fe ffynnodd o dan ei arweiniad. Mynychodd disgyblion o bob sir yng Nghymru. Ar un adeg, dywedwyd bod hanner y myfyrwyr yng Ngholeg Dewi Sant wedi mynychu'r ysgol ramadeg cyn hynny. Aeth rhai ohonynt ymlaen i ennill anrhydeddau uchel yn Rhydychen.

Edmunds a drefnodd yr apêl ar gyfer cyflwyno tysteb i Llewelyn Lewellin, prifathro cyntaf a hir ei wasanaeth Coleg Dewi Sant.

Yn 1863, penodwyd Edmunds hefyd yn ficer amhreswyl Rhostïe, yn agos i Lanilar. Cafodd yr hawl i gadw ciwrad, ac roedd yn byw yno yn ystod gwyliau ysgol. Adeiladodd tŷ ysgol ac adnewyddodd y ficerdy.

Roedd Edmunds yn ysgolhaig talentog, ac yn fyfyriwr hanes lleol brwd. Roedd yn gysylltiedig â'r 11eg argraffiad o *Drych y Prif Oesoedd* Theophilus Evans yn 1854, gan ychwanegu cyflwyniad hir. Yn 1856, cyhoeddodd lyfr sillafu Cymraeg, *Gwers-lyfr Llanbedr: yn Cynwys Gwersi Hawdd i Ddysgu Sillebu a Darllen Cymraeg.* Hefyd yn y flwyddyn hon, adolygodd *Y Ffydd Ddiffuant* gan Charles Edwards ar gyfer ei wythfed argraffiad. Cafodd papur Edmunds o 1859, 'On some old families in the neighbourhood of Lampeter', ei gyhoeddi yn *Archælogia Cambrensis* yn 1860, ac ychydig yn ddiweddarach ar ffurf llyfr.

Bu farw Edmunds yng nghartref ei frawd ar 21 Chwefror 1875; cafodd ei gladdu yn eglwys blwyf Llanbedr Pont Steffan.

**Ffynonellau**

Jones, D. G. (1959). Edmunds, William (1827–1875), ysgolfeistr a llenor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Ar gael o: https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EDMU-WIL-1827. [Cyrchwyd ar 30 Ebrill 2020]

Price, D.T.W. (1977). *A history of Saint David's University College Lampeter. Vol 1: to 1898.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Visit to Lampeter. *Transactions and archaeological record, Cardiganshire Antiquarian Society.* 1911; 1(1): 32-47. Ar gael o: https://cylchgronau.llyfrgell.cymru/view/1177372/1177373/59#?c=&m=&s=&cv=59&manifest=https%3A%2F%2Fdamsssl.llgc.org.uk%2Fiiif%2F2.0%2F1177372%2Fmanifest.json&xywh=-2136%2C-226%2C6836%2C4508 [Cyrchwyd ar 30 Ebrill 2020]

Cambrian News and Merionethshire Standard. Lampeter. In memoriam. *Cambrian News and Merionethshire Standard.* 12 Mawrth 1875. Ar gael o: https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/view/3307292/3307297/17/. [Cyrchwyd ar 30 Ebrill 2020]

Grigg, R. (1998). *History of Trinity College Carmarthen 1848–1998.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

# John Charles Edmunds-Davies
# 1893-1917



Ganwyd John Edmunds-Davies yn Llanbedr Pont Steffan yn 1893 i Walter ac Agnes. Roedd yn unig blentyn, yn dilyn marwolaethau ei dri brawd a chwaer yn fabanod. Roedd Walter yn gymeriad lleol pwysig a oedd yn berchen ar siop ddefnydd ac yn 1911, gwasanaethodd fel Maer Llanbedr Pont Steffan. Derbyniodd John ei addysg yn Ysgol Coleg Dewi Sant, Coleg Aberhonddu ac Ysgol Sir Tywyn. Pan ddechreuodd y rhyfel, cofrestrwyd John yng Ngholeg Dewi Sant.

Ymunodd John â Bataliwn Catrawd Llundain ar gyfer Prifysgolion ac Ysgolion Bonedd ym mis Medi 1914 fel milwr cyffredin cyn cael ei ddyrchafu i Ddegfed Bataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Yn 1916, gadawodd John am Ffrainc a derbyn swydd fel swyddog bomio ei fataliwn a oedd yn rhan o nifer o frwydrau'r Somme yn ystod y flwyddyn honno.

Ar ôl byw trwy arswyd y Somme, daeth John adref i Gymru am gyfnod byr ac ym mis Hydref 1916, priododd Olive Gwynedd Davies o Gaerfyrddin; aethon nhw ar eu mis mêl i Fae Langland ym Mhenrhyn Gŵyr.

Y gwanwyn canlynol, bu bataliwn John yn rhan o Frwydr Arras a ymladdwyd rhwng 9 Ebrill ac 16 Mai 1917. Cafodd John anaf angheuol yn Vimy Ridge ar ddiwrnod cyntaf yr ymladd. Yn ôl adroddiadau'r papurau newydd "cafodd ei anafu â shrapnel ac er iddo oroesi'r llawdriniaeth, cafodd ei daro'n wael eto cyn marw". Roedd ei rieni a'i wraig ifanc wedi dechrau teithio i Ffrainc ar unwaith ond pan wnaethant gyrraedd Llundain, dywedwyd wrthynt am ei farwolaeth. Bu John farw yn Ysbyty Abbeville ar 12 Ebrill yn 23 mlwydd oed.

Fe'i disgrifiwyd yn ei ysgrif goffa fel dyn o "gymeriad hwyliog a charedig yr oedd pawb a oedd yn ei adnabod yn ei hoffi'n fawr. Yn ystod ei yrfa fer, roedd wedi gwneud nifer o ffrindiau a bydd colled fawr ar ei ôl. Roedd yn athletwr da ac enillodd gapiau dros ei ysgol a'i

goleg. Roedd yn fatiwr brwd a chyflawnodd gamp unigryw wrth chwarae gyda'i gatrawd yn Nhywyn pan gipiodd chwe wiced mewn un belawd."

Mae John wedi'i gladdu ym mynwent gymunedol Abbeville yn Ffrainc ac wedi'i goffau ar restr anrhydedd y coleg a chofeb dref Llanbedr Pont Steffan. Rhoddwyd cwpwrdd llyfrau a chasgliad o lyfrau i'r coleg 'er serchus gof' amdano gan ei rieni a'i fodrybedd; mae'r rhain bellach yn Llyfrgell y Sylfaenwyr. Mae ffenestr wydr lliw sy'n dynodi 'cyfiawnder ac aberth' wedi'i gosod er cof amdano yn eglwys blwyf leol San Pedr.

"Pan dderbyniwyd y newyddion, ymledodd tywyllwch dros y dref, gan fod is-gapten yn ddyn poblogaidd."

*Cambrian News and Merionethshire Standard, 20 Ebrill 1917*

**Ffynonellau:**

Roberts, S. (2018). *1918-2018 A Commemoration. Saint David's College, Lampeter.* Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

## Aled Edwards



Aled Edwards yw prif weithredwr Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru, ac mae'n ymgyrchydd dros alltudion.

Mae Edwards yn Gymro Cymraeg ac yn frodor o Ogledd Cymru. Magwyd yn Nhrawsfynydd, pentref yn Eryri. Yn drist, bu farw ei dad David ychydig cyn chweched pen-blwydd Aled, ac fe godwyd gan ei fam, Katie. Mynychodd Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog, ac yna astudiodd Hanes a Diwinyddiaeth yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant. Yn Llanbed, daeth yn Llywydd Undeb Gristnogol y coleg. Ar ôl graddio, hyfforddwyd i fod yn offeiriad yng Ngholeg y Drindod, Bryste. Ordeiniwyd yn ddiacon yr Eglwys yng Nghymru yn 1979, ac yn offeiriad yn 1980.

Swydd glerigol gyntaf Edwards oedd dirprwy gurad yng Nglanogwen, ychydig o filltiroedd i'r de-ddwyrain o Fangor. Yn dilyn hyn, gwnaeth weithio fel ficer Llan Dinorwig a Phenisa'r-waun (eto ger Bangor) o 1982 tan 1985. Ei rôl nesaf oedd rheithor Botwnnog, Prosiect Eciwmenaidd Lleol ar y cyd rhwng yr Anglicaniaid a'r Presbyteriaid ym Mhen Llŷn. Yn 1999, symudodd i'r de er mwyn cychwyn ar ei swydd fel Ficer Eglwys Dewi Sant, sydd yng nghanol Caerdydd.

Yn 1999, yn dilyn datganoli yng Nghymru, penodwyd Edwards yn Swyddog Cyswllt cyntaf Cytûn yn y Cynulliad Cenedlaethol. Fel rhan o'i rôl newydd, dechreuodd gymryd rhan weithredol iawn ym maes gwleidyddiaeth. Mae wedi dweud 'mae gennyf argyhoeddiad cryf bod eciwmeniaeth yn llifo fel rhan o ewyllys Duw ar gyfer Ei eglwys a'r byd. Credaf yn gryf mewn Cymru lle mae pobl yn dod at ei gilydd i greu math newydd o genedligrwydd bywiog a chymdeithas nad yw'n gadael neb ar ôl – yn enwedig y sawl mwyaf archolladwy a'r rhai sydd wedi'u gwahardd.' Llyfr cyntaf Edwards oedd *Transforming Power: a Christian Reflection on Welsh Devolution,* (Cyhoeddiadau'r Gair, 2001). Ef hefyd oedd golygydd *From Protest to Power: stories from The National Assembly for Wales* (Cyhoeddiadau'r Gair, 2003). Mae wedi bod yn gefnogwr cadarn o ddatganoli yng Nghymru, gan ysgrifennu 'Ers y datganoli, mae Cymru wedi dod yn gymuned fwy cynhwysol a chroesawgar sy'n cael ei llunio'n fwyfwy gan ymrwymiad at gyfleoedd cyfartal a hawliau dynol a rennir.'

Yn 2006, daeth Edwards yn brif weithredwr Cytûn. Hefyd, yn ystod y flwyddyn honno, rhoddwyd iddo OBE am ei wasanaethau elusennol yng Nghymru.

Drwy gydol ei amser yng Nghytûn, cafodd Edwards enw da am fod yn ymgyrchydd dros alltudion. Mae wedi bod yn gadeirydd i Gyngor Ffoaduriaid Cymru ac i Alltudion ar Waith (Displaced People in

Action; DPIA), elusen a leolir yng Nghaerdydd. Yn ogystal ag eiriol drostynt, mae DPIA wedi helpu alltudion i feddu ar sgiliau iaith Saesneg er mwyn iddynt ailhyfforddi a dod o hyd i waith.

Drwy DPIA, gwnaeth Edwards sefydlu Grŵp Meddygon Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid Cymru (Wales Asylum Seeking and Refugee Doctors Group; WARD). Er gwaethaf eu potensial enfawr, roedd hi'n anodd dros ben i feddygon a deintyddion a oedd yn alltudion fod yn rhan o'r system a geir yn y DU. Roedd y broses yn rhwystrol yn ogystal ag yn un ddrud. Bwriad y cynllun WARD, a ddechreuodd yn 2002, oedd helpu meddygon a oedd yn geiswyr lloches i gael eu cofrestru gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC). Yn enwedig, gwnaeth eu helpu i basio'r profion iaith Saesneg sydd yn angenrheidiol os ydynt am weithio o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Gwnaeth hefyd ddarparu canolfan galw heibio er mwyn eu galluogi i gael mynediad at y rhyngrwyd ac at gyfnodolion meddygol a chyfleusterau eraill. Yn 2018, meddai Edwards fod y cynllun hwn o'r radd flaenaf wedi ailhyfforddi dros gant o feddygon sydd wedi cofrestru gyda'r GMC, a gallai fod werth dros £30 miliwn i'r GIG. Dywedodd Brian Gibbons, Cyn-weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cynulliad Cymru, 'Os oes gennym bobl yng Nghymru sydd wedi cael eu hyfforddi'n feddygon, yna, rydym am iddynt weithio fel meddygon. Mae'r math cynllun o les i bawb – y meddyg a all ddefnyddio ei sgiliau, y GIG a'r cleifion.'

Yn ystod yr Hydref, 2008, treuliodd Edwards bythefnos o wyliau yng Ngharliffonia yn ymgyrchu gydag ymgyrch Barak Obama. Mwynhaodd ei amser gyda'r tîm a wnaeth hyfforddi gwirfoddolwyr i wneud galwadau ffôn er mwyn cysylltu â phleidleiswyr mewn taleithiau a oedd yn dangos gogwydd. Siaradodd hefyd am ymateb Ewrop i'r etholiad mewn digwyddiad ymgyrchu a gynhaliwyd yn Sonoma, a leolir yng ngwlad gwin Califfornia. Disgrifiodd Edwards ei brofiadau yn *West Wing Wales – Obama for America, a Welsh campaign experience* (Cyhoeddiadau'r Gair, 2009). Mae hefyd wedi sôn am weld hanes yn digwydd o flaen ei lygaid.

Roedd Edwards yn aelod o Bwyllgor Cymru ar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o 2007 tan 2017. Cafodd ei dderbyn yn aelod o Orsedd y Beirdd yn 2008, gan fabwysiadu'r enw Barddol Aled Madryn. Dyfarnwyd iddo Wobr Cydnabod Cyflawniad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2010 a daeth yn Ganon Metropolitanaidd yn yr Eglwys yng Nghymru yn 2014. Roedd yn gyfarwyddwr Stadiwm y Mileniwm ccc rhwng 2013 a 2017. Yn ogystal, mae wedi darlledu'n rheolaidd ar deledu iaith Gymraeg a Saesneg.

Heblaw am ei waith, roedd Edwards hefyd yn rhedwr hirbell brwdfrydig, a gwnaeth hyd yn oed gystadlu mewn wltra-farathonau er mwyn codi arian ar gyfer elusennau. Yn ogystal â rhedeg marathon Llundain, gwnaeth orffen y ras wltra 50 km o hyd drwy Barciau Brenhinol Llundain a'r ras 100 km o'r enw 'Race to the Stones' (sy'n dilyn llwybr cenedlaethol y Ridgeway). Mae'n briod i Marie, therapydd lleferydd ac iaith ers dros ddeugain mlynedd. Mae ganddynt dri o blant sy'n oedolion, Seimon, Meleri a Steffan, a chwe ŵyr.

**Ffynonellau**

Edwards, Rev. Canon Aled, (born 4 Oct. 1955), Chief Executive, Cytûn Churches Together in Wales, since 2006. *Who's Who & Who Was Who.* Adalwyd Ionawr 15 2021, oddi wrth https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540884.001.0001/ww-9780199540884-e-151488.

Cytûn. (2021). The Reverend Aled Edwards OBE. Adalwyd Ionawr 15 2021, oddi wrth https://www.cytun.co.uk/hafan/?page_id=101&lang=en

Anglican Communion News Service. (2006, May 4). *Churches Together in Britain and Ireland on behalf of CYTUN.* [Datganiad i'r Wasg]. Adalwyd Ionawr 15 2021, oddi wrth https://www.anglicannews.org/news/2006/05/churches-together-in-britain-and-ireland-on-behalf-of-cytun.aspx

Order of the British Empire – The Queen's birthday honours. (2006, June 17). *The Times.* Adalwyd Ionawr 15 2021, oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/1124F7D67308B668?p=UKNB

Edwards, A. (2018). Silence is not an option – Wales must advocate for the poor and oppressed. Adalwyd Ionawr 15 2021, oddi wrth https://nation.cymru/opinion/silence-is-not-an-option-wales-must-advocate-for-the-poor-and-oppressed/

Edwards, A. (2017). Evidence for Local Government and Communities Committee. Response from Displaced People in Action. Adalwyd Ionawr 15 2021, oddi wrth https://business.senedd.wales/documents/s57718/RAS%2046%20-%20Displaced%20People%20in%20Action.h

Brindley, M. (2005, September 19). The Western Mail: refugee doctors now at work. *Western Mail.* Adalwyd Ionawr 18 2021, oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/10CBFE8DCD934FB0?p=UKNB

Edwards, A. (2011). Before the referendum tomorrow, ask what devolution has done for Wales. Adalwyd Ionawr 18 2021, oddi wrth https://www.opendemocracy.net/en/opendemocracyuk/before-referendum-tomorrow-ask-what-devolution-has-done-for-wales/

Edwards, A. (2008). Aled Edwards. Adalwyd Ionawr 18 2021, oddi wrth http://alededwards.blogspot.com/2008/06/

Edwards, A. (2009, January 21). The Western Mail: watching history unfold in the US. Adalwyd Ionawr 18 2021, oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/125E067F5F6575D8?p=UKNB

# Dic Edwards

Mae Dic Edwards yn ddramodydd, awdur a bardd cynhyrchiol, wedi ysgrifennu dros ugain o ddramâu.

Ganwyd a magwyd Edwards yng Nghaerdydd. Ar ôl gadael yr ysgol, astudiodd yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, ac wedyn Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Daeth ei lwyddiant llenyddol cyntaf yn gynnar; ym 1974 cyfrannodd gerdd o'r enw *'Dead leaves'* i raglen BBC Radio Four, *Wales, where is your culture?*

Awdur gwleidyddol yw Edwards; daw ei waith o ddiwylliant Cymreig trefol, dosbarth gweithiol, a Saesneg ei iaith. Yn aml mae ei ddramâu yn ymwneud â'r rhai y mae'n eu disgrifio fel 'y dadfeddianedig.' Mae ei derm 'theatr ar gyfer y dadfeddianedig' yn tyfu o deimladau dwfn o wrthodiad – y dosbarthiadau gweithiol yn cael eu gwrthod gan y wladwriaeth Brydeinig, ac, yn fwy dadleuol, y mwyafrif Saesneg ei iaith yn cael ei wrthod gan elît diwylliannol Cymru.

Mae Edwards yn ysgrifennu ar gyfer y llwyfan yn unig, yn hytrach nag ar gyfer y sinema neu'r teledu. Mae'n dadlau bod ffilm yn dweud ei storïau gyda lluniau ac y bydd y gynulleidfa ond yn gweld yr hyn mae'r cyfarwyddwr am iddi ei weld. Mewn cyferbyniad, mae theatr yn dweud ei storïau gyda geiriau. Yr unigolyn pwysicaf yw'r dramodydd; dylai ef neu hi ysgrifennu'r ddrama yn y fath ffordd fel mai'r gynulleidfa sy'n penderfynu ar ei faterion. Mae Edwards wedi nodi mai, 'Theatr yw'r unig le ble gallwch adrodd stori angenrheidiol am ein bywydau cymdeithasol mewn ffordd sy'n ymgysylltu â'r gynulleidfa a'u deallusrwydd yn weithgar, yn greadigol ac yn foesol…'

Roedd ei ddrama gyntaf, drama un-act o'r enw *Late City Echo* (1981), yn ymwneud â streic y diffoddwyr tân. Roedd ei bedwaredd ddrama *Looking for the World* (1986) wedi ei lleoli yng Ngwlad Groeg yn ystod jwnta'r Cyrnoliaid, ac yn dangos ei bwyslais cynyddol ar wleidyddiaeth fyd-eang. Cafodd ei ddramâu cynnar, megis y rhain, eu perfformio'n wreiddiol gan Theatr y Sherman, Caerdydd.

Yn *Wittgenstein's daughter* (1993), mae cymeriad y teitl, Alma, yn gadael ei gŵr ffasgaidd Ffrengig ac yn ceisio dod o hyd i'w gwreiddiau tybiedig hithau yng Nghaergrawnt. Mae hi'n cael ymweliad yno gan ysbryd yr athronydd Wittgenstein sy'n ceisio, gan ei fod yn pryderu am ei enw da ar ôl ei farwolaeth, ei darbwyllo mai ei ferch ef yw hi mewn gwirionedd. Mae'r ddrama yn rhannol yn trin ein perthynas â hanes, – ymgais Alma i adennill ei gorffennol ac ymdrech Wittgenstein i newid ei orffennol ef.

Mae llawer o waith Edwards wedi bod yn ddadleuol. Mae ei ddrama *Utah Blue,* (a berfformiwyd gyntaf gan Made in Wales Stage Company yn 1995), yn edrych ar hanes drwg-enwog y llofrudd dwbl, Gary Gilmore. Ar ôl cael ei ddyfarnu'n euog o lofruddiaeth, brwydrodd Gilmore dros yr hawl i gael ei ddienyddio gan fintai saethu, yn hytrach na bod yn garcharor am oes. Rhennir y ddrama yn ddau hanner; mae'r rhan gyntaf yn trafod digwyddiadau'r gorffennol ac wedyn y digwyddiadau ychydig cyn marwolaeth Gilmore. Yn yr ail hanner, mae Edwards yn trin canlyniadau'r dienyddiad. Mae brawd Gary, Mikal, y cymeriad canolog newydd, yn cael ei arsylwi'n agos gan gorff Gary. Yn ysgrifennu yn *The Independent,* disgrifiodd Sarah Hemming hi fel drama anfad a phryfoclyd, ac yn ddarn tywyll a heriol.

Yn *Over Milk Wood,* mae Edwards yn dangos cymeriad Dylan Thomas, Huw Pugh, yn ceisio dianc rhag cysylltiadau'r ddrama radio enwog. Mae Thomas yn ysgrifennu am gynlluniau Pugh i lofruddio ei wraig; felly gorfodir Pugh i ffoi ar ôl darllediad cyntaf y ddrama. Mae'r gynulleidfa yn ei ddilyn ar daith hunan-ddarganfod i'r Unol Daleithiau. Mae'n cwrdd â Gwyddeles, Sinead, sy wedi blino ar weld

ei mamwlad yn 'tagu ar ei gorffennol'; mae'n ceisio helpu Pugh i oresgyn ei hiraeth di-baid. Mae *Over Milk Wood* wedi ei chyfieithu i'r Gatalaneg fel *Sobre El Bosc Lacti.*

*Franco's Bastard* (2002) oedd y drydedd ddrama yn unig yr oedd Edwards wedi ei lleoli yng Nghymru. Roedd hi wedi ei hysbrydoli'n rhannol gan ddigwyddiadau yn ystod ei gyfnod fel myfyriwr yn Llambed. Tra oedd yno, cwrddodd â Julian Cayo-Evans, a oedd yn fab i'r cyn-athro mathemateg ond hefyd yn sylfaenydd Byddin Rhyddid Cymru, mudiad cenedlgarol Cymreig paramilwrol. (Yn wir, ymosododd Cayo-Evans ac un o'i gefnogwyr ar Edwards gyda photel a morthwyl; torrwyd gên Edwards a threuliodd wythnos mewn ysbyty!) Er nad yw *Franco's Bastard* yn fywgraffyddol, mae'r cymeriad canolog, Carlo, yn arweinydd grŵp cenedlgarol bach mewn amgylchedd gwledig. Mae Edwards wedi nodi, 'Dyw hi ddim am Cayo, ond fe oedd yr unig berson fel 'na roeddwn i erioed wedi ei nabod, felly fe oedd y model rôl perffaith.' Drwy ei phedwar cymeriad, mae'r ddrama yn portreadu'r sbectrwm llawn o genedlaetholdebau a'r ysgogiadau ar gyfer cenedlaetholdeb. Mae dau berson ifanc o Gaerdydd, Ben a Serena, yn teithio ar wahân i Orllewin Cymru. Cyn bo hir maent yn cael eu dal ym myd Carlo, sydd, mae'n ymddangos, yn addo rhoi 'bywyd yn llawn heddwch a doethineb' iddynt, 'bywyd yn llawn diwylliant ac arwriaeth.' Fodd bynnag, mae Edwards yn ystyried cenedlaetholdeb yn sbectrwm o rymoedd negyddol, a fydd yn twyllo pawb sy'n ymwneud â nhw. Perodd *Franco's Bastard* ymatebion cryf; ar noson y perfformiad cyntaf, neidiodd Gethin ap Iestyn, cyfaill Cayo-Evans, ar y llwyfan i brotestio. Mewn perfformiad arall, taenodd tri o bobl fomiau drewi ac wedyn cerdded allan!

Mae ei ddramâu eraill yn niferus. Maent yn cynnwys *Long to rain over us* (1987) a *Low People* (1989)*,* a berfformiwyd yn yr Haymarket, Caerlŷr; *Casanova Undone* (1992) a berfformiwyd yn Citizens Theatre Glasgow, a'r White Bear, Llundain; *Astrakhan* (2005) a berfformiwyd gan ADC Caergrawnt yng Ngŵyl Caeredin, a *The Pimp* (2006) a berfformiwyd yn y White Bear, Llundain, a Theatr Origen Theatre, Efrog Newydd.

Mae Edwards hefyd wedi ysgrifennu libretos ar gyfer operâu. Er enghraifft, cafodd ei gomisiynu i ysgrifennu *The Beggar's New Clothes,* gwaith a oedd yn ail-wneud *The Beggar's Opera* gan John Gay*.* Yn ysgrifennu yn *The Independent,* disgrifiodd Maycock y gwaith hwn fel 'y peth prin hwnnw, theatr wleidyddol sy'n gallu gwneud i chi chwerthin ni waeth pa ochr bynnag rydych yn sefyll arni.' Edwards hefyd a ysgrifennodd y libreto ar gyfer *Manifest Destiny* dadleuol iawn Keith Burstein*,* sy'n portreadu menyw Balesteinaidd a demtiwyd i ddod yn fomiwr hunanleiddiol.

Mae Edwards yn credu'n gryf bod addysg yn galluogi pobl. Mae'n gweithio'n rheolaidd gyda Chwmnïau Theatr mewn Addysg, yn enwedig *Spectacle Theatre,* a leolir yn y Porth. Ef hefyd oedd sylfaenydd Ysgrifennu Creadigol yn PCYDDS.

**Ffynonellau**

Edwards, Dic. yn Birch, D. (Gol.), (2009). The Oxford Companion to English Literature. : Oxford University Press. Adalwyd 1 Gorffennaf 2020, o https://www.oxfordreference.com/view/10.1093/acref/9780192806871.001.0001/acref-9780192806871-e-8648.

Dic Edwards. (2005). Yn: H.W. Davies (gol.) *Now you're talking: contemporary Welsh dramatists in conversation with Hazel Walford Davies.* Cardigan: Parthian

Edwards, D. & Betts, T. (2002) Introduction. Yn: Edwards, D. *Franco's bastard; Lola Brecht.* London: Oberon Books

von Rothkirch und Pathen, A.V. (2003). *The place of Wales: staging place in contemporary Welsh drama in English.* (Traethawd doethurol, Prifysgol Abertawe, Y Deyrnas Unedig). Adalwyd o https://cronfa.swan.ac.uk/Record/cronfa42349

Hanks, R. (1994, Chwefror 9). Theatre / The London fringe: best left unsaid. *The Independent.* Adalwyd o https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/131FE8C1CEE0B358?p=UKNB

Hemming, S. (1995, Mawrth 1). Get me to the church before the curtain gets up – new stages: Wales Cardiff theatre companies are rushing to get to church – well, a church turned arts venue, the result of creative vision and business sense. *The Independent.* Adalwyd o https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/131FE8C1CEE0B358?p=UKNB

Dube, S. (2002, Mai 6). Fury continues over Cayo play. *Western Mail.* Adalwyd o https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/131FE8C1CEE0B358?p=UKNB

Maycock, R. (1993, Awst 25). Dressed up for a classic rollicking tale: Beggar's New Clothes – Broomhill. *The Independent.* Adalwyd o https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/131FE8C1CEE0B358?p=UKNB;

# Ronald Edwards

Roedd Ronald Edwards (1914–1995) yn rhan o frwydr Monte Cassino fel caplan yn y fyddin. Dyfarnwyd Gorchymyn Gwasanaeth Nodedig iddo am ei ddewrder wrth achub dynion a oedd wedi'u clwyfo.

Ganwyd Edwards ym Mhontardawe, yn fab i glerigwr. Mynychodd Ysgol Uwchradd Rochdale, cyn darllen diwinyddiaeth yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Roedd yn cael ei adnabod fel un da gyda chwaraeon – roedd yn gapten ar y clwb rygbi, ac roedd hefyd yn chwarae criced a golff. Roedd yn aelod gweithgar o'r cymdeithasau dramatig a dadlau. Ar ôl cwblhau ei addysg, bu'n gweithio fel curad ym Manceinion rhwng 1938 a 1942. Pan oedd yno, priododd Olive Mills, a chawsant fab a merch.

Yna, gwirfoddolodd Edwards i fod yn gaplan yn y lluoedd. Gwasanaethodd gyda'r fyddin gyntaf yn Affrica, yr wythfed fyddin yn yr Eidal ac yna yng Ngwlad Groeg. Roedd ganddo ddisgwyliad uchel iawn ohono'i hun, gan ysgrifennu at ei wraig, 'Bydd angen Ei gryfder a'i ddewrder mwyaf ar bob un ohonom a rhaid i mi fod yr olaf i ddangos unrhyw dystiolaeth o ofn.'

Treuliodd frwydr Monte Cassino gyfan ar y rheng flaen gyda'r milwyr, a hynny gyda phelenni, mortarau a gynnau peiriant yn cael eu saethu'n ddi-baid atynt. Yn benodol, nofiodd deirgwaith ar draws afon Gari, ger Cassino, i gymryd cyflenwadau meddygol ac i achub milwyr a oedd wedi'u clwyfo. Ar Fai 12, casglodd Edwards ddynion a oedd wedi'u clwyfo o sawl bataliwn, a threuliodd y rhan fwyaf o'r noson honno yn annog milwyr. Drannoeth, dywedwyd wrtho fod rhwng 30 a 40 o ddynion wedi'u clwyfo yn sownd yr ochr arall i'r afon. Roedd yr holl gychod ymosod naill ai wedi suddo neu wedi'u difrodi. Gwirfoddolodd Edwards ar unwaith i nofio ar draws i weld pa gymorth y gellid ei roi. Gan glymu cebl signal o amgylch ei ganol, nofiodd drwy'r dŵr garw. Yna, daeth o hyd i feddyg gyda chyflenwad o sblintiau a gorchuddion. Ceisiodd y ddau ddyn helpu pâr o swyddogion wedi'u clwyfo yn gyntaf. Yn dilyn hyn, dychwelodd Edwards i'r afon i weld a allai ddod o hyd i gwch i achub y rhai a anafwyd.

Wrth fethu â dod o hyd i long addas, nofiodd Edwards yn ôl ar draws yr afon. Yno, fe helpodd i geisio achub cwch ymosod. Fodd bynnag, bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r ymgais, oherwydd tân-belenni. Yna gwelodd gwch yng nghanol yr afon ond roedd wedi'i glymu mewn rhaffau. Unwaith eto, nofiodd allan gyda llinyn wedi'i glymu o'i gwmpas. Er gwaethaf y bomiau morter a'r tân-belenni o'i gwmpas, o'r diwedd, llwyddodd i ryddhau'r llong a'i dynnu i'r lan gyferbyn. Yna fe'i ddefnyddiwyd i achub y rhai a oedd wedi'u clwyfo.

Yn ddiweddarach, bu Edwards yn cofio'n ôl, 'Ar un o'r teithiau ar draws yr afon gyda dau droedfilwr clwyfedig, cawsom ein saethu gan Spandau. Sefais a chwifio baner y Groes Goch. Dewch, gadewch imi ddweud gair am yr Hun. Ar wahân i achosion ynysig a allai fod wedi bod yn ddamweiniau yn hawdd, sylwodd Ef yn ffyddlon ar faner y Groes Goch. '

Dyfarnwyd Gorchymyn Gwasanaeth Nodedig iddo ar unwaith. Darllenodd y dyfyniad, 'Roedd ei weithredoedd yn allweddol wrth achub bywydau rhai o'r clwyfedig a lleihau'r amser a ddioddefodd eraill. Roedd yn ysbrydoliaeth i bawb, ac arbedodd ei weithred ddewr amser gwerthfawr i'r rhai a glwyfwyd.' Dywedodd Edwards wrth ei wraig yn unig ei fod wedi cael 'y diwrnod mwyaf cyffrous a gwefreiddiol yn fy mywyd.' Gan nad oedd eisiau ei dychryn, ni ddywedodd wrthi beth roedd wedi ei wneud! Dim ond ychydig fisoedd yn ddiweddarach y dysgodd hi'r manylion gan y wasg – roedd cywilydd ar Edwards am y cyhoeddusrwydd!

Cafodd Edwards ei rhyddhau o'r fyddin ym 1946 a daeth yn rheithor Sant Paul, Higher Blackley, Manceinion. Symudodd ymlaen i Ashton-on-Ribble, Preston ym 1950. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, gofynnodd y caplan cyffredinol iddo ailymuno â'r lluoedd. Cafodd ei bostio i fataliwn hyfforddi'r gard yn Pirbright. Yna, cafodd ei gysylltu â 32 brigâd y gwarchodlu ym Mharth y Gamlas, cyn gwasanaethu yn Tripolitania. Dychwelodd i Brydain ym 1957 fel caplan a darlithydd yn Ysgol Cadetiaid Mons Officer, Aldershot. Daeth yn uwch-gaplan yn Blandford ym 1962 ac yna'n uwch-gaplan i Luoedd Prydain yng Ngwlad Belg ym 1964.

Gadawodd Edwards y fyddin ym 1965. Roedd yn adnabyddus am ei garedigrwydd, ei ddealltwriaeth a'i synnwyr o hwyl ac roedd wedi bod yn hynod boblogaidd gyda'r rhai a ddaeth o dan ei ofal bugeiliol.

Treuliodd Edwards yr 11 mlynedd nesaf fel caplan yn ysgol y Licensed Victuallers School yn Slough. Bu farw ym mis Medi 1995.

**Ffynonellau**

Daily Telegraph. "The Reverend Ronald Edwards." *Daily Telegraph*, 11 Medi. 1995, t. 21. Ar gael yn: https://link.gale.com/apps/doc/IO0701418537/TGRH?u=nlw_ttda&sid=TGRH&xid=debfd524. [Cyrchwyd ar 14 Mai 2020]

Robinson, A.C. (2008). *Chaplains at war: the role of clergymen during World War II.* Llundain: Tauris Academic Studies

# Islwyn Ffowc Elis

Islwyn Ffowc Elis (1924-2004) oedd un o ysgrifenwyr iaith Gymraeg mwyaf poblogaidd yr 20fed ganrif; ystyrir y mai ef yw tad y nofel Gymraeg fodern.

Ganwyd Islwyn Foulkes Ellis yn fab hŷn i Edward Ivor Ellis a'i wraig Catherine Kenrick gynt. Roedd Edward Ivor yn denant fferm; ers oedd e'n bum mlwydd oed, trigodd Islwyn yn fferm ei deulu yn Aberwiel, ychydig y tu allan i bentref Glynceiriog, yn Sir Ddinbych. Er roedd llai na dwy filltir i'r ffin gyda Lloegr, roedd cartref y teulu Ellis drwyddi draw yn Gymraeg. Enwyd Islwyn ar ôl y bardd enwog: fel y rhan fwyaf o blant cefn gwlad bryd hynny, ni siaradodd unrhyw Saesneg tan oedd yn ddeng mlwydd oed. Yn ddiweddarach, gwnaeth roi ei sylwadau ar y gwahaniaeth rhwng y Cymry a'r Saeson, 'Roeddem ni, yn ein dyffryn rhwng y mynyddoedd, yn siarad Cymraeg. Roedden nhw, ar y plaen, yn siarad Saesneg. Roeddem ni yn gallu canu'n ddigymell mewn harmoni. Ond nid oedden nhw'n gallu gwneud hynny. Roeddem ni'n siarad am bregethwyr a beirdd, ond roedden nhw'n siarad am beldroedwyr a cheffylau rasio.'

Mynychodd Elis ysgol ramadeg yn Llangollen. Yn wladgarwr ymroddedig, dechreuodd ddefnyddio'r ffurf Gymraeg o'i gyfenw. Cafodd ei wawdio gan ei athrawon oherwydd ei genedlaetholdeb, a chafodd ei gynhyrfu am nad oedd yn cael ei addysgu am hanes Cymru. Er hynny, aeth ymlaen, yn 1942, i Goleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, gan raddio yn y Gymraeg ac Athroniaeth. Yn ogystal ag astudio, dechreuodd ysgrifennu barddoniaeth, storïau a thraethodau. Uchelgais ei dad oedd i Elis fod yn glerigwr yn yr Eglwys Bresbyteraidd yng Nghymru. Ar ôl graddio, treuliodd ddwy flynedd yn y coleg diwinyddiaeth yn Aberystwyth cyn ymgymryd â blwyddyn o hyfforddiant rhagordeiniad yn y Bala. Oherwydd yr oedd yn wrthwynebwr cydwybodol, ni wnaeth ei wasanaeth milwrol. Ond daeth yn enwog yn Aberystwyth fel cyfansoddwr caneuon, bardd a chrëwr ffuglen.

Yn ystod ei amser yn y Bala, gwnaeth Elis gwrdd ag Eirlys Rees Owen, merch i ffermwr.  Priododd y pâr yn 1950; cawsant un ferch, Siân. Yn yr un flwyddyn, ordeiniwyd Elis yn weinidog Methodist-Galfinaidd gan gymryd swydd yn Llanfair Caereinion, tua wyth milltir i'r gorllewin o'r Trallwng. Daeth yn gyfaill i'r bardd R.S. Thomas, a oedd yn offeiriad ym Manafon gerllaw. Er gwaethaf hyn, roedd Elis yn anhapus yn ei rôl fel clerigwr. Nid oedd yn teimlo bod gwaith bugeiliol yn addas ar ei gyfer, ac yn anhapus gyda'r eglwys sefydliadedig, dechreuodd amau'r hyn yr oedd yn ei gredu. Symudodd i swydd yn Niwbwrch, Sir Fôn, ond ar ôl dioddef gwaeledd oherwydd gorweithio, yn ogystal â rhyw ymdeimlad o fethu, penderfynodd adael y weinidogaeth. Dychwelodd i Fangor i ganolbwyntio ar ei ysgrifennu ac i gynhyrchu rhaglenni radio ar gyfer y BBC. Gwnaeth Elis weithio fel darlithydd Cymraeg a Drama yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin o 1963 tan 1968. Yna, gweithiodd  fel golygydd a chyfieithydd i Gyngor Llyfrau Cymru yn Aberystwyth, ac yna fel ysgrifennwr ar ei liwt ei hun wedi'i leoli yn Wrecsam. Rôl ddiwethaf Elis oedd darlithydd Cymraeg ac wedyn darllenydd yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, lle y gwnaeth weithio o 1975 tan 1988. Roedd yn athro cydwybodol ac ysbrydoledig, ac yn hapusaf pan oedd yn annog ei fyfyrwyr i ysgrifennu.

Yn 1953, cyhoeddwyd nofel gyntaf Elis, *Cysgod y Cryman* (a'i theitl wedi'i gyfieithu i *The Shadow of the Sickle)*, a gwnaeth hyn ei sefydlu yn nofelydd iaith Gymraeg blaenllaw ei gyfnod. Y llyfr hwn yw rhan gyntaf saga'r teulu Vaughan, perchnogion cyfoethog Lleifior, fferm yn Sir Drefaldwyn. Mae Elis yn dogfennu perthnasau personol a chymdeithasol dryslyd wrth ddisgrifio sut mae Harri Vaughan, mab y perchennog, yn cofleidio gwerthoedd Marcsaidd-Leninaidd yn y brifysgol ym Mangor. Yn ddewr, mae Elis yn cyflwyno cymeriad cydymdeimladol o'r Almaen. Daeth Karl Weissman i'r fferm yn garcharor rhyfel; ar ôl i'r rhyfel ddod i ben, penderfynodd aros yng Nghymru, ac ymhen hir a hwyr, gwnaeth ef a chwaer Harri, Greta, ddyweddïo. Yn 1999, dewisodd Cyngor Llyfrau Cymru  *Cysgod y Cryman* yn Llyfr Cymraeg y Ganrif, (ynghyd â *Collected Poems* R.S. Thomas yn Saesneg). Tair blynedd

yn ddiweddarach, ysgrifenodd Elis ddilyniant iddo, (*Return to Lleifior*), lle mae Harri Vaughan yn ceisio rhedeg fferm ar seiliau cydweithredol. Cafodd y llyfrau hyn eu haddysgu mewn ysgolion a chawsant eu haddasu ar gyfer radio a'r teledu, gan ddod yn glasuron Llenyddiaeth Gymraeg.

Er na wnaeth Elis ysgrifennu cystal eto, roedd ei nofelau hwyrach yn aml yn arloesol gyda neges wleidyddol waelodol. Roedd *Ffenestri Tua'r Gwyll (*Windows towards the Twilight, 1953*)* yn nofel seicolegol wedi'i seilio ar fyd y celfyddydau. Ynddi, mae menyw ganol oed gyfoethog yn dominyddu ac yn ecsploetio'r arlunwyr a'r ysgrifenwyr sy'n dibynnu ar ei nawddogaeth. Gwnaeth *Wythnos yng Nghymru Fydd* (A Week in the Wales of the Future, 1957) gyferbynnu ardal a elwir yn Orllewin Lloegr, lle mae pob ôl o ddiwylliant Cymru wedi cael ei ddileu, gyda chymdeithas iwtopaidd sy'n mwynhau hunanlywodraeth lawn. Yn *Tabyrddau Babongo* (Drums of the Babongo, 1961), gwnaeth Elis archwilio gwladychiad Affrica a'i oblygiadau o ran diwylliannau eraill sydd wedi'u gormesu. Ei lyfr *Y Blaned Dirion (*The Fair Planet*,* 1968) oedd y ffuglen wyddonol gyntaf yn yr iaith Gymraeg. Aeth Elis ymlaen i ysgrifennu storïau byrion, cyfieithu *Arabian Nights* i'r Gymraeg ac i fod yn awdur drama am Howell Harris, arweinydd y Diwygiad Methodistaidd yng Nghymru. Yn 1993, dyfarnwyd iddo, gan Brifysgol Cymru, y radd D.Litt. am ei wasanaethau i lenyddiaeth ei famwlad. Yn 2002, daeth yn Llywydd Anrhydeddus Cyfeillion Cyngor Llyfrau Cymru.

Bu Elis yn ymrwymedig i genedlaetholdeb gwleidyddol Cymru am ei holl oes. Ymunodd â Phlaid Cymru pan oedd yn dal i fod yn fyfyriwr ym Mangor. Gwnaeth sefyll fel ymgeisydd Plaid i Sir Drefaldwyn yn etholiadau cyffredinol 1959 a 1964, ac yn isetholiad 1962. Dywedwyd bod dau gefnogwr, fel cyhoeddusrwydd ar ei gyfer, wedi paentio 'Elis' ar glogfaen mawr ar hyd yr A44, yn agos i'r ffin gyda Cheredigion. Ond gwnaeth rhywun anhysbys newid y graffiti yn gyflym i 'Elvis'. Yn fwy llwyddiannus, roedd Elis yn swyddog gwasg a chyhoeddiadau yn ystod isetholiad Caerfyrddin yn 1966, pan wnaeth Gwynfor Evans ennill sedd gyntaf y blaid yn San Steffan. Gwnaeth hefyd olygu papur newydd Plaid Cymru, sef *Y Ddraig Goch* (The Red Dragon).

Bu farw Elis o fronco-niwmonia a methiant y galon yn yr ysbyty yng Nghaerfyrddin ar Ionawr 22 2004. Cynhaliwyd ei wasanaeth angladdol chwe diwrnod yn ddiweddarach yn Aberystwyth.

**Ffynonellau**

Stephens, M. (2008, October 04). Elis, Islwyn Ffowc (1924–2004), Welsh-language writer. *Oxford Dictionary of National Biography* Adalwyd ar Hydref https://www.oxforddnb.com/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-94093.

Rees, D.B. (2004, March 22). Obituary: Islwyn Ffowc Elis: one of the 20th century's most popular Welsh language writers. *The Guardian.* Adalwyd ar Hydref 19 2020, oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&t=language%3AEnglish%21English&sort=YMD_date%3AD&page=4&fld-base-0=alltext&maxresults=20&val-base-0=%22islwyn%20ffowc%20elis%22&docref=news/10180674DACCEB50

ELIS, Islwyn Ffowc (1924-2004) novelist. (2008). In J. Davies, N. Jenkins, M. Baines, & et. al., *The Welsh academy encyclopedia of wales*. Literature Wales. Credo Reference: https://search.credoreference.com/content/entry/waencywales/elis_islwyn_ffowc_1924_2004_novelist/0?institutionId=1794

Historypoints.org. (n.d.) Novelist Islwyn Ffowc Elis' former home, Bangor. Adalwyd ar Hydref 20 2020, oddi wrth https://historypoints.org/index.php?page=novelist-islwyn-ffowc-elis-former-home-bangor

GWales.com (n.d.). Bibliographical information. Shadow of the Sickle. Adalwyd ar Hydref 20 2020, oddi wrth http://www.gwales.com/goto/biblio/en/9781859026526/

Stephens, M. (2012, December 5). John Hefin – Obituaries. Film-maker whose work celebrates Wales and its people. *Independent.* Adalwyd ar Hydref 20 2020, oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&t=pubname%3ATND1%21Independent%252C%2BThe%252FThe%2BIndependent%2Bon%2BSunday%2B&sort=YMD_date%3AD&fld-base-0=alltext&maxresults=20&val-base-0=islwyn%20ffowc%20elis&docref=news/142FC3FB888C9940#copy

Stephens, M. (2004, January 27). Obituary: Islwyn Ffowc Elis – writer who liberated the Welsh-language novel. *Independent* Adalwyd ar Hydref 20 2020, oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&t=pubname%3ATND1%21Independent%252C%2BThe%252FThe%2BIndependent%2Bon%2BSunday%2B&sort=YMD_date%3AD&fld-base-0=alltext&maxresults=20&val-base-0=islwyn%20ffowc%20elis&docref=news/132990452E9268B8

# Richard Else



Mae Richard Else yn ysgrifennwr, yn ffotograffydd, yn gynhyrchydd teledu ac yn academydd; yn benodol, mae'n wneuthurwr ffilmiau blaenllaw ar leoliadau anghysbell.

Cafodd Else ei addysg yng Nghaerlŷr (Leicester); ei swydd gyntaf oedd ailgylchu tapiau yn BBC Radio Leicester. Astudiodd Saesneg yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llambed. Ar ôl graddio, bu'n gweithio i radio lleol a theledu yng Nghaerdydd, cyn symud i weithio yn Newcastle upon Tyne ar nodweddion teledu.

Yn 1982, dechreuodd Else weithio ar raglen ddogfen am ysgrifennwr a cherddwr mynydd-diroedd Ardal y Llynnoedd a oedd yn enwog am fod yn feudwyaidd, sef Alfred Wainwright. Oherwydd y gwnaeth Wainwright, dro ar ôl tro, wrthod ag ymddangos ar y teledu, byddai'r rhaglen yn archwilio ei lyfrau, gan gynnwys cyfweliadau â'i gyfeillion. Ond yn rhyfedd, meddai Wainwright wrth ei gyhoeddwr, 'It sounds like an obituary. I think I ought to take part.' Y tro cyntaf i A.W. gwrdd ag Else, meddai wrtho, 'I think you've got a scoop, young man.' Gwnaeth Wainwright ymddangos am ychydig o funudau ar ddiwedd y rhaglen. Cafodd y rhaglen ei derbyn yn dda; ychydig o flynyddoedd yn ddiweddarach, perswadiodd Else Wainwright i gymryd rhan mewn cyfres o'r enw '*Wainwright's Lakeland & England's North Country.'* Rôl Wainwright oedd bod yn dywysydd i'r mynydd-diroedd, gan gadw mor agos i'w lyfrau ag yr oedd yn bosibl ei wneud (Am nad oedd am gael ei boeni gan bobl a fyddai'n ei adnabod yn sydyn, cynhaliwyd dim ond dwy o'r rhaglenni yn unig yn Ardal y Llynnoedd). Y cyflwynydd a oedd yn gweithio gydag A.W. oedd Eric Robson, darlledwr profiadol, ond hefyd yn ffermwr defaid o Gymbria. Roedd Wainwright yn anfodlon siarad, gan ffafrio bod y camera yn canolbwyntio ar y mynydd-diroedd yn hytrach nag arno ef. Ond eto, fe ddaeth yn seren annhebygol. Teimlad Else yw 'We found a silent majority, we appealed to viewers who like slow, thoughtful people.' Gwnaeth Else ddwy gyfres arall gyda Wainwright, *Wainwright's Coast to Coast Walk* a *Wainwright in Scotland.* Gwnaeth Else, yn ddiweddarach, ddisgrifio'r deng mlynedd a 5000 o filltiroedd y gwnaeth ef dreulio gyda Wainwright yn ei lyfr *Wainwright Revealed,* (Mountain Media, 2017).

Ar ôl penderfynu ei fod am ganolbwyntio ar raglenni antur eithafol, gwnaeth Else ddilyn hwn gyda *The Climbers.* Cyflwynodd Chris Bonington gyfres o raglenni ar ddatblygiad mynydda modern. Hefyd,

wrth ffilmio ymgais Bonington i ddringo Elbrus, mynydd uchaf Ewrop, daeth Else ar draws ei gydweithredwr nesaf, Cameron McNeish.

Yn 1994, cynhyrchodd Else *The Edge,* cyfres ar hanes mynydda yn yr Alban. Roedd yr amserlen yn dynn; dim ond pedwar mis oedd ganddynt i ffilmio ac i gyflwyno chwe rhaglen. Meddai Else ''It was tricky to arrange, tricky to film, and we had very little time to capture the action.' Mae McNeish, a gyflwynodd y gyfres, yn cofio bod bron pawb a oedd yn y criw yn ddringwyr. Medd ef eu bod nhw wedi gweithio oriau hir anghredadwy o dan amgylchiadau anodd er mwyn ffilmio'r weithred ddringo iawn. Roeddent hefyd yn sensitif i anghenion eraill a oedd yn defnyddio'r mynydd. Dangosodd y gyfres y darn o ffilm cynhyrfus mwyaf syfrdanol am ddringo yn yr Alban a gafodd ei dynnu erioed. Enillodd yr ail episod, sy'n dangos W.H. Murray a'r blynyddoedd cyn yr Ail Ryfel Byd, wobr BAFTA'r Alban.

Yn dilyn hyn, gweithiodd Else gyda McNeish, eto ar *Wilderness Walks.* Ym mhob episod, cyfunodd McNeish heic gyda chyfweliad â rhywun cyhoeddus. Gwnaeth Chris Brasher, cyd-sylfaenydd Marathon Llundain ddringo Ben Macdhui, sydd yn y Cairngorms, gydag ef, a gwnaeth Donnie Munro, prif ganwr blaenorol Runrig, ddringo'r 'Red Cuillins of Skye.' Mewn un rhaglen, gwnaeth y fforiwr Americanaidd Matty McNair, fynd ar daith o 90 milltir ar sled gŵn ar draws Ynys Baffin yn ystod y gaeaf. Gan ystyried yr oerfel gwynt, roedd y tymheredd mor isel â minws can gradd Celsius.

Yn 2008, dechreuodd Else gynhyrchu *The Adventure Show*; daeth yn gynhyrchydd gweithredol yn 2011. Mae'r rhaglen, sy'n cael ei darlledu'n fisol, wedi tyfu'n raddol i fod yn rhan annatod o amserlen oriau brig BBC yr Alban. Mae'n disgrifio ei hun yn gyfres sy'n weledol syfrdanol, wedi'i hadeiladu ar sail sîn chwaraeon antur ffyniannus yr Alban – o reidio beiciau mynydd a defnyddio caiacau, i rasio antur, brigdonni a rasys marathon i fyny'r mynyddoedd. Mae llawer o'r episodau wedi dangos un o'r cyflwynwyr yn cymryd rhan mewn ras o ryw fath; a dweud y gwir, yn 2012, Deziree Wilson oedd y trydydd yn yr adran ferched i orffen ras 'Goat Fell Hill' ar Ynys Aran. Mae nifer o raglenni 'arbennig' sy'n gysylltiedig â *The Adventure Show* wedi cael eu darlledu. Gwnaeth *The Great Climb,* a ddarlledwyd yn 2010, ddangos y dringwyr Dave MacLeod a Tim Emmett yn dringo'n llwyddiannus Sron Ulladale, craig ordo odidog wedi'i lleoli ar ran anghysbell o Ynys Harris. Dywed bod gan y graig hon un o'r wynebau mwyaf anodd i ddringo yn y byd, ac mai hi yw'r dibyn mewndirol gorau ym Mhrydain. Er gwnaeth y dringo, ac felly'r darllediad, barhau am bum awr a hanner, cafodd y rhaglen nifer enfawr o wylwyr; yn ôl barn rhai dringwyr, hon oedd y rhaglen orau erioed ar chwaraeon i gael ei chynhyrchu. Ysgrifennodd Dave MacLeod, 'If you watched the program, you saw some of the problems we dealt with as climbers to get to the top – a painful ankle and wet rock. But you won't have seen all the equally hard work, good judgement calls and quick thinking that made it all happen behind the camera.' Meddai Else, 'The Great Climb is arguably the most complex programme ever mounted by BBC Scotland.' Gwnaeth ennill wobr BAFTA'r Alban am y rhaglen fyw orau.

Mae Else wedi cyfuno darlledu â gyrfa academaidd. Ef oedd Pennaeth cyntaf y Cyfryngau ym Mhrifysgolion Sheffield Hallam a Teesside; a gwnaeth gynllunio cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig, gan sicrhau buddsoddiad allanol sylweddol. Ar hyn o bryd, mae'n Gymrawd Athrawol yng Ngholeg St Chad a Phrifysgol Dyrham. Mae ganddo ddiddordeb arbennig yn y berthynas sy'n bodoli rhwng y cyfryngau a chyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant. Mae Else wedi ymgymryd ag ymchwil ac arfer proffesiynol ar gyfer amrywiaeth eang o gleientiaid; mae ei brosiectau diweddar wedi derbyn cyllid gan Y Gronfa Loteri Fawr, Media Box, y Comisiwn Rhanbarthol Eglwysi a Sefydliad Joseph Rowntree. Mae hefyd wedi gweithio'n agos gyda'r elusen Masnach Deg Traidcraft, yn dogfennu ei gwaith mewn llawer o wledydd.

Yn fyd-eang, mae Else else wedi ennill dros ddeg ar hugain o wobrau pwysig; yn ogystal â'r ddwy wobr BAFTA'r Alban, cafodd ei anrhydeddu gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol a gwyliau ffilmiau a gynhaliwyd yng Nghanada, yr Unol Daleithiau, Japan a thir mawr Ewrop. Ef oedd ail enillydd y Scottish Award for Excellence in Mountain Culture. Ef hefyd oedd un o'r ychydig o Ewrop i ymddangos yn *Voices from the Summit* y National Geographic*.* Mae wedi ysgrifennu wyth o lyfrau am y byd awyr agored, gan gynnwys *The Sutherland Trail* (Mountain Media, 2009), *The Skye Trail* (Mountain Media, 2010), a *Scotland End to End* (Mountain Media, 2012), (pob un ohonynt wedi'i ysgrifennu ar y cyd gyda Cameron McNeish).

Mae Else wedi byw yng nghysgod y Cairngorms am yr ugain mlynedd ddiwethaf.

**Ffynonellau**

IMDb (n.d.). Richard Else (1). Adalwyd Ionawr 26 2021, oddi wrth https://www.imdb.com/name/nm2796419/?ref_=fn_al_nm_1

Scarrott, L. (2009). Richard Else adventure film-maker. Adalwyd Ionawr 26 2021, oddi wrth http://www.ex-bbc.net/Ariel/Arielwk232009.pdf

Davies, H. (1995). *Wainwright: the biography.* Adalwyd Ionawr 26 2021, oddi wrth https://www.google.co.uk/books/edition/Wainwright/mwtCXNiDAkMC?hl=en&gbpv=1&dq=davies+and+wainwright&printsec=frontcover

*Wainwright used to hide from fans.* [Radio program] Broadcasting House, BBC Radio 4 [n.d.] Adalwyd Ionawr 27 2021, oddi wrth https://www.bbc.co.uk/sounds/play/p05pfpm4

McNeish, C. (2014, September 29). The Edge – twenty years on … [Blog post]. Adalwyd Ionawr 27 2021, oddi wrth https://cameronmcneish.wordpress.com/2014/09/29/the-edge-twenty-years-on/

Wells, C. (n.d.) And now for something Else. Adalwyd Ionawr 27 2021, oddi wrth http://www.scottishoutdoors.co.uk/outdoors/template_files/triple_echo.cfm.htm

The Adventure Show. (2021). The Adventure Show [Facebook page]. Adalwyd Ionawr 28 2021, oddi wrth https://www.facebook.com/adventureshow/?ref=page_internal

Scottish Hill Racing. (n.d.) Goatfell Race 19-May-2012. Adalwyd Ionawr 28 2021, oddi wrth https://www.1owww.scottishhillracing.co.uk/RaceResults.aspx?RaceID=RA-0037&RaceYear=2012


Climbing film 'first' wins BAFTA nomination. (2011, September 28). *Strathspey & Badenoch Herald.* Adalwyd Ionawr 28 2021, oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/13A17A75F96E0E90?p=UKNB

Couple 'thrilled' at film and tv accolade. Government to give woodland projects cash. (2011, November 16). *Strathspey & Badenoch Herald.* Adalwyd Ionawr 28 2021, oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/13B1A414DE4E7FC8?p=UKNB

MacLeod, D. (2010, August 30). The Great Climb success [Blog post]. Retrieved Adalwyd Ionawr 28 2021, oddi wrth http://davemacleod.blogspot.com/2010/08/great-climb-success.html#comment-form

## Daniel Ivor Evans

O fyfyriwr yn Llanbedr Pont Steffan i Esgob yn Esgobaeth
yr Ariannin, Dwyrain De America
ac Ynysoedd y Falkland.



*Esgob Evans, Mawrth 1939*
*https://www.falklandsbiographies.org/biographies/169*

Ganwyd Daniel Ivor Evans ar 5 Gorffennaf 1900, yn seithfed plentyn i David Hugh Evans a Mary Rowlands. Gwneuthurwr cabinet oedd ei dad, ac roedd y teulu'n byw yn 24 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan. Mynychodd Evans Ysgol y Coleg ac yn un ar bymtheg oed, ymunodd â Chatrawd Gwirfoddolwyr y Llynges Frenhinol. Ar ddiwedd y rhyfel, aeth i astudio yng Ngholeg Dewi Sant a graddiodd yn 1922. Ordeiniwyd ef gan yr Esgob Bevan yn 1924, a gwasanaethodd fel curad yn Eglwys Sant John-Juxta-Abertawe. Ar ôl tair blynedd, trosglwyddwyd ef i Eglwys Sant Martin, Y Rhath o dan y Canghellor Dr. Hopkins James; gwasanaethodd yno tan 1930 cyn iddo fynd i deithio i Dde America. Am y pum mlynedd nesaf, bu’n gweithio fel caplan cynorthwyol i’r Archddiacon W. H. Hodges yn Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr (Dirprwy Eglwys Gadeiriol) yn Buenos Aires.

Yn ystod yr amser hwnnw, ymgymerodd Evans â nifer sylweddol o ddyletswyddau ychwanegol. Roedd yn gaplan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristnogol ar gyfer Ardaloedd Tramor yn Cordoba rhwng 1930 a 1934, a chafodd ei enwebu yn Ysgrifennydd i Bwyllgor Synod a Sefydlog yr Esgobaeth yn 1931, yn gaplan domestig i'r Esgob Every rhwng 1932 a 1937, yn Offeiriad Anrhydeddus Toc H yn 1932 ac yn gaplan y Taleithiau Gorllewinol a Chanolog yn 1935. Rhwng 1936 ac 1938, roedd yn gaplan i blwyfi Hurlingham a Ville Devote, ac yn 1936 gwnaed ef yn Ganon Anrhydeddus yn Nirprwy Eglwys Gadeiriol Sant Ioan. Yn 1938, symudodd Evans i Rio de Janeiro, lle bu'n rheithor yn Eglwys Crist am yr wyth mlynedd nesaf.

Yn 1939, dychwelodd Evans i Brydain am gyfnod byr; ar 24 Chwefror, Dydd Sant Matthias, cysegrwyd ef yn Esgob yn Abaty San Steffan gan Archesgob Caergaint. Cofnododd Coleg Dewi Sant y digwyddiad hwn gyda balchder yng Nghylchgrawn yr Ysgol o dan y pennawd 'Esgob newydd Llambed', gan ddod â'r erthygl i ben gyda'r addewid y byddent 'yn ei gofio yn ein gweddïau, ynghyd â'r llu o ddynion eraill o Lambed sy'n gweithio mewn eglwysi tramor'.[1]

Ym mis Hydref yr un flwyddyn, cafodd Evans rôl fel cynorthwyydd i'r Esgob J.R. Weller, ac ymgymerodd ag ymweliad bugeiliol hollgynhwysfawr â'r ardaloedd cenhadol yn yr Ariannin a Paraguayan Chaco, yr holl gaplaniaethau ym Mrasil, yr Ariannin, Uruguay, Ynysoedd y Falkland a hyd yn oed i Dde Georgia. Mae'r map isod yn rhoi syniad o'r pellteroedd y mae Evans yn eu teithio, ynghyd â'r Parchedig G.K. Lowe wrth iddyn nhw dreulio bron i fis yn teithio ar gefn ceffyl ac mewn cwch yn ymweld â ffermydd ac aneddiadau.

Yn 1940, priododd Evans â Leone Ernestine Helene Lefeure. Ym mis Awst y flwyddyn honno, ailgydiodd yn ei ddyletswyddau yn Eglwys Crist, gan ymgymryd â goruchwyliaeth Archddiaconiaeth y gogledd hefyd. Roedd hyn yn cynnwys ymweld o bryd i'w gilydd â'r River Plate ar gyfer gwasanaethau bedyddiadau esgob. Roedd cyfranogiad Brasil yn yr Ail Ryfel Byd, yn ymladd ochr yn ochr â'r cynghreiriaid, yn golygu bod gofynion newydd ganddo. Fe'i comisiynwyd i weithredu dros Eglwys Esgobol America yn gweinidogaethu i filwyr yr Unol Daleithiau ym Mrasil. Ymwelodd â'r llongau milwyr ac roedd yn ymwneud â'r Genhadaeth i Forwyr.

Yn 1946, olynodd Evans yr Esgob Weller fel Esgob Esgobaethol yn yr Ariannin a Dwyrain De America gydag Ynysoedd y Falkland (a Deon Port Stanley). Cafodd ei orseddu ar 2 Awst 1946 yn Eglwys Gadeiriol Sant Ioan, ac ar 3 Mawrth 1947 yn Eglwys Gadeiriol Crist, Stanley. Roedd ehangder ei esgobaeth yn golygu bod ei rôl yn cwmpasu cryn dipyn o deithio ar y môr, yn ogystal â theithio ar y trên, ar awyren ac ar geffyl. Yn 1950, cofnodwyd bod 70 o'r 275 diwrnod a feddiannwyd gan ymweliadau y tu allan i ranbarth River Plate, wedi'u treulio yn ymweld ag Ynysoedd y Falkland.

Fodd bynnag, cafodd Evans amser i gyfrannu pennod ar Sant Ioan Fedyddiwr yn *The Apostle's doctrine and fellowship: a symposium on the Christian year, the sacraments and services, some aspects of the outreach of the church*, a gyhoeddwyd yn 1958. Roedd yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â thair iaith arall, a byddai'n darlledu'n aml i'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia. Yn 1952, dyfarnwyd y CBE i Evans. Yn 62 oed, bu farw yn ei waith ar 30 Gorffennaf 1962, ar y daith adref o wasanaeth ordeinio pedwar offeiriad.

Er gwaethaf blynyddoedd lawer yn Ne America, ni anghofiodd Evans ei dref enedigol. Mae archifau'r brifysgol yn dal anerchiad goleuedig gan Faer, Henaduriaid a Chynghorwyr Bwrdeistref Llanbedr Pont Steffan ar ei ddyrchafiad i Fôr yr Ariannin a Dwyrain De America, gan ddiolch iddo am ei gefnogaeth barhaus a'i gyfraniadau ariannol i'r dref.

[1]Cylchgrawn Coleg Dewi Sant, t.11.

**Ffynonellau:**

Eglwys Anglicanaidd Canada. Cyrchwyd o http://archives.anglican.ca/en/list?q=&p=1&ps=&sort=title_sort+asc&name_facet=Mitchell%2C+Walter%2C+1876-1971 [Cafwyd mynediad 28 Mai 2020]


Howat, Jeremy (2019). Evans, Daniel Ivor (1900-1962). *Dictionary of Falklands Biography*. Ar gael yn: https://www.falklandsbiographies.org/biographies/169 [Cafwyd mynediad 28 Mai 2020].

New Bishop for South America *The Standard,* 16 Mai 1946. Ar gael yn: https://www.nationalarchives.gov.fk/jdownloads/Press%20Cuttings/1944%20to%201946.pdf [Cafwyd mynediad 28 Mai 2020].

Ave. Lampeter's new bishop. (1939). *The Lampeter magazine. The magazine of St David's College, Lampeter. 16*(2), 11

## Daniel Silvan Evans (1818-1903)

## Clerigwr, ysgolhaig a geiriadurwr



Mae cylchgrawn Coleg Dewi Sant ar gyfer 1903 yn cynnwys coflith i Daniel Silvan Evans, wedi'i ysgrifennu gan y Pennaeth Llewellyn John Montfort Bebb, lle mae'n disgrifio Evans fel 'the most distinguished student who has owed his early training to Lampeter'. Ganwyd ef ym mhentref bychan Llanarth, yn Sir Aberteifi. Yn fab i ffermwr, dangosodd Evans ei rinweddau academaidd yn gynnar yn ei fywyd, gan gyhoeddi ei gasgliad cyntaf o gerddi a thraethodau, *Blodue Ieuainc*, pan oedd yn bump ar hugain mlwydd oed, a roddwyd iddo'r enw barddol Daniel Las. Wedi dechrau pregethu i'r gynulleidfa Annibynnol yr oedd ef hefyd yn aelod ohoni, penderfynodd Evans ar yrfa yn y weinidogaeth, ac yn 1845, ef oedd y pedwar canfed myfyriwr i fynychu Coleg Dewi Sant. Tair blynedd yn ddiweddarach, cafodd ei ethol yn Ysgolhaig a Darlithydd Cymraeg, ond ar ôl wyth mis yn unig o addysgu, ordeiniwyd ef yn ddiacon, yn offeiriad yn ystod y flwyddyn ganlynol, a rhoddwyd iddo ei guradiaeth gyntaf yn Llandygwnning (Llandegonwy) ar Ben Llŷn. Ar ôl pum mlynedd, symudodd i fod yn gurad ym mhlwyf cyfagos Llangian, a deng mlynedd yn ddiweddarach, penodwyd ef yn Rheithor Llanymawddwy, ym Meirionydd. Yn 1876, cynigiwyd i Evans breswylfa Llanwrin yn Sir Feirionydd, lle y bu'n Rheithor am ddwy ar bymtheg mlynedd. Mewn cydnabyddiaeth o'i wasanaeth plwyfol hir, gwnaethpwyd ef yn Ganon Anrhydeddus Bangor yn 1888, cynigiwyd iddo Sedd Brebendaidd yn yr Eglwys Gadeiriol yn 1891, a gwnaethpwyd ef yn Ganghellor Bangor yn 1895 ac yn Gaplan i Esgob Bangor yn 1899.

Yn ystod ei fywyd, cyfunodd Evans ei waith plwyfol â'i weithgareddau academaidd, gan gyhoeddi, cyfieithu a golygu tipyn sylweddol o waith. Er ei brif ddiddordeb oedd y Gymraeg, roedd ganddo hefyd ddiddordeb mewn llên gwerin a hanes Cymru, ac yn 1882 ysgrifennodd ar y cyd *Ysten Sioned*, casgliad o chwedlau gwerin, straeon ysbrydion, cerddi a phenillion. Ef oedd golygydd *Archaeologia Cambrensis* rhwng 1871 a 1875, ac yn 1878, gwnaeth olygu *Celtic Remains* gan Lewis Morris.

Roedd ganddo ddiddordeb gydol oes yn academia, ac am gyfnod, roedd yn Arholwr Cymraeg i Goleg Dewi Sant, a rhwng 1875-1883 yn Athro Cymraeg rhan amser ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Dyfarnwyd iddo, yn 1897,  Gymrodoriaeth o dair blynedd yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen er mwyn cydnabod ei enwogrwydd fel ysgolhaig Cymraeg, ac yn 1901, rhoddwyd iddo'r radd anrhydeddus D.Litt. gan Brifysgol Cymru.

Ond etifeddiaeth Evans yw ei eiriadur mawr; gwnaeth Pennaeth Bebb honni y cafodd hwn ei ddechrau pan oedd Evans yn Llambed, gan ddweud 'Whenever he read a book, from Llywarch Hen down to Ceiriog or Daniel Owen, he read it with a view to collecting materials for his lexicon'. Cyhoeddodd Evans eiriadur Cymraeg - Saesneg mewn dwy gyfrol yn 1852 a 1858, ond ni chyhoeddwyd rhan gyntaf y *Geiriadur Cymraeg* tan 1887. Cwblhawyd y gyfrol gyntaf, mor bell â'r llythyren 'C', erbyn 1893, a chyhoeddwyd rhifyn cyntaf yr ail ran yn 1896. Ond, er gwaethaf help gan ei fab John, ni chafodd y geiriadur fyth ei gwblhau. Erbyn iddo farw, roedd Evans wedi cynhyrchu dros 1900 o dudalennau ar gyfer ei eiriadur, ond wedi cyrraedd y llythyren 'E' yn unig, y rhan olaf hon yn cael ei chyhoeddi yn 1906 gan Walter Spurrell.

Bu farw Evans ar Ebrill 13$^{eg}$ 1903, yn bum mlwydd a phedwar ugain oed, a chladdwyd ef ym mynwent Cemaes, ger Llanwrin. Yn ei goflith, awgrymodd y Pennaeth Bebb y byddai sefydlu llyfrgell Gymraeg wedi'i henwi ar ei ôl yng Ngholeg Dewi Sant yn goffâd addas iddo 'to kindle an interest in the study of Welsh literature and history', ond, yn drist, ni ddigwyddodd hyn. Ond yn Eisteddfod Llambed, a gynhaliwyd ym mis Awst 1907, gwnaeth y coleg gynnig gwobr am 'Life and Work of Chancellor Silvan Evans'. Flynyddoedd wedyn, ar Orffennaf 5$^{ed}$ 1956, gwnaeth Esgob Bangor weinyddu mewn gwasanaeth a fynychwyd gan y bardd a'r awdur Cymraeg T.H. Parry-Williams, er mwyn gosod carreg fedd ar fedd Evans. Cedwir ei lawysgrifau a'i bapurau preifat yn archifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Ffynonellau:**

Hughes, R. E. (1959). Evans, Daniel Silvan (1818-1903), cleric, translator, editor, and lexicographer. *Dictionary of Welsh Biography.* Ar gael oddi wrth: https://biography.wales/article/s-EVAN-SIL-1818 [Adalwyd ar Fai 27 2020].

Lloyd, J. E., and Beti Jones. Evans, Daniel Silvan (1818-1903), Welsh scholar and lexicographer. *Oxford Dictionary of National Biography.* Ar gael oddi wrth: https://www-oxforddnb-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-33034?rskey=corBJo&result=1 [Adalwyd ar Fai 27 2020].

St David's College Magazine, Vol. VIII, No. 6, June 1903, pp.253-255.

St David's College Magazine, Vol. IX, No. 5, February 1907, p.268.

# David J.A. Evans




Mae David J.A. Evans yn Athro Daearyddiaeth Ffisegol ym Mhrifysgol Durham.

Astudiodd Evans ddaearyddiaeth ym Mhrifysgol Prifysgol Tyddewi, Llanbedr Pont Steffan, gan raddio yn 1982. Ochr yn ochr â'i astudiaethau, bu'n gapten ar y tîm criced am ddwy flynedd. Mae'n cofio cael llythyr personol i'w longyfarch gan bennaeth y coleg, Brian Morris, pan drechodd y tîm Brifysgol Efrog. Cyrhaeddodd tîm Llanbedr Pont Steffan y rowndiau terfynol cenedlaethol, gan golli i Durham yn rownd yr wyth olaf.

Ar ôl Llanbedr Pont Steffan, ymroddodd Evans i MSc ym Mhrifysgol Memorial Newfoundland; Ymchwiliodd i hanes rhewlifol Mynyddoedd y Selamiut ac ardal Nachvak Fjord gogledd Labrador. Yn dilyn hyn, arhosodd yng Nghanada i astudio ar gyfer ôl-ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Alberta. Roedd ei ymchwil yn seiliedig ar hanes rhewlifol gogledd-orllewin Ynys Ellesmere, y man mynyddig mwyaf gogleddol o ynysfor Arctig Canada. Teitl y traethawd ymchwil terfynol oedd: *Late Quaternary History of Phillips Inlet and the Wootton Peninsula, North West Ellesmere Island, Canadian High Arctic.*

Ar ôl dychwelyd i Brydain, swydd gyntaf Evans oedd fel darlithydd yng Ngholeg y Brenin, Prifysgol Llundain. Yna symudodd i Brifysgol Glasgow, lle arhosodd am 14 mlynedd. Yn 2004, symudodd i Brifysgol Durham, lle mae wedi bod yn gweithio byth ers hynny.

Mae Evans yn ei ddisgrifio ei hun fel geomorffolegydd rhewlifol; mae ei waith yn canolbwyntio ar ailadeiladu cyn-rewlifoedd a llenni iâ dros amser. Diffinnir geomorffoleg fel y wyddoniaeth sy'n ymwneud â deall ffurf arwyneb tir y ddaear a'r prosesau mae'n cael ei lywio ganddynt, yn y presennol yn ogystal â'r gorffennol. Mae ymchwil Evans wedi datblygu modelau systemau tir i asesu cydberthnasau proses a ffurf rhewlifol, (y cysylltiadau rhwng prosesau ffisegol a nodweddion arwyneb y Ddaear). Mae ei waith yn y maes hwn wedi ymdrin â mynyddoedd lledred-canol llaith, er enghraifft ym Mhrydain, yn ogystal â'r Arctig Uchel sych. Yn ogystal â hyn, mae Evans wedi astudio amgylcheddau gwaddodol rhewlifol, yn enwedig y gydberthynas rhwng deinameg rhewlifoedd a tharddiad rhewglai tanrewlifol, y gwaddodion a gynhyrchir gan weithredoedd uniongyrchol rhew rhewlif. Mae hefyd wedi cyfrannu at ailadeiladu gorchuddion rhewlifol o'r oes gynt. Mae hyn wedi

cynnwys hanesion rhewlifiant a'r newid cysylltiedig yn lefel y môr yn Arctig Uchel a Thir Mawr yr Arctig Canada Svalbard, Arctig Norwy, Gwlad yr Iâ a De Georgia.

Y llyfr cyntaf a ysgrifennodd Evans oedd *Glaciers & glaciation,* (Arnold, 1998), gydag ail argraffiad yn cael ei gyhoeddi yn 2010. Ei nod ef a'i gydawdur Douglas I. Benn oedd cwmpasu'r holl agweddau pwysig ar rewlifoedd a'u heffeithiau. Rhagwelodd Hodgkins y byddai'r gyfrol yn dod yn feincnod ar gyfer testunau am flynyddoedd i ddod, gan ysgrifennu 'Mae'n anodd dod o hyd i unrhyw ddiffygion bach … ac yn amhosibl dod o hyd i unrhyw rai mawr.' Daeth Clarke i gasgliad fod y llyfr yn 'synthesis modern a fydd yn cael ei werthfawrogi gan wyddonwyr proffesiynol a myfyrwyr graddedig tu mewn a thu hwnt i'r ddisgyblaeth. Y llyfr hwn yw'r gorau o'i fath, mae'n gyfraniad sylweddol at wyddoniaeth ac addysg.'

Llyfr mawr nesaf Evans oedd *Glacial Landsystems,* (Arnold, 2003) gyda chyfraniadau gan ystod eang o arbenigwyr ar rewlifiant, ac yn arddangos yr enghreifftiau diffiniol o arwyddiannau gwahanol cyn-rewlifoedd ar wyneb y Ddaear. Dilynwyd hyn gan lyfr a ddygir y teitl *A Practical Guide to the Study of Glacial Sediments* (Arnold, 2004), gydag ail argraffiad yn dod yn 2021.

Mae Evans hefyd wedi ysgrifennu *Till: a glacial process sedimentology*, (Wiley Blackwell). Mae dyddodion rhewglai yn sylweddol gan eu bod yn darparu mewnwelediadau pwysig i'r amgylchedd o dan lenni iâ a rhewlifoedd, a'r prosesau sy'n digwydd yno. Cynhyrchodd Evans adolygiad cynhwysfawr o'r llenyddiaeth ar 'wyddoniaeth rhewglai', gan ddefnyddio ei ymchwil ei hun ac archif ffotograffau i ddatblygu sail resymegol a dull enwi ar gyfer cyfeiriadau ymchwil yn y dyfodol. Evans hefyd yw awdur *Vatnajokull National Park (South Region) – Guide to a glacial landscape legacy* (VNP, 2016), a *Glaciation: a very short introduction* (Oxford University Press, 2018).

Yn ogystal â sawl pennod mewn llyfrau a gwyddoniaduron, mae Evans wedi ysgrifennu tua 160 o erthyglau cyfnodolion. Mae Google Scholar ar hyn o bryd yn rhestru ei fynegai-h fel 59 (59 papur a ddyfynnir ohonynt o leiaf 59 gwaith yr un). Dyfarnwyd Medal Busk y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol iddo yn 2017 am ragoriaeth a gwreiddioldeb yn yr astudiaeth o dirweddau a phrosesau rhewlifol ac ymrymuso'r genhedlaeth nesaf. Dywed Evans, 'Rwyf wedi bod yn hynod ffodus o gael ymgymryd ag ymchwil fy ngyrfa yn rhai o dirweddau mwyaf trawiadol y byd, yn enwedig y lleoedd lleiaf hygyrch hynny megis Arctig Canada, Svalbard, Gwlad yr Iâ a De Georgia.'

**Ffynonellau**


Prifysgol Durham. (2021). Yr Athro David J.A. Evans. Cyrchwyd ar 13 Gorffennaf 2021 o https://www.durham.ac.uk/staff/d-j-a-evans/#biography

Evans, D.J.A., Clark, C.D. a Mitchell, W.A. (2005). 'The last British ice sheet: a review of the evidence utilised in the compilation of the glacial map of Britain.' *Earth-Science Reviews, 70*(3-4), 253-312. https://doi.org/10.1016/j.earscirev.2005.01.001

Hodgkins, R. (1999). 'Glaciers and glaciation. D.I. Benn and D.J.A. Evans.' *Journal of Quaternary Science, 14*(7), 721-722. Cyrchwyd ar 13 Gorffennaf 2021 o https://onlinelibrary-wiley-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/epdf/10.1002/%28SICI%291099-1417%28199912%2914%3A7%3C721%3A%3AAID-JQS451%3E3.0.CO%3B2-Q

Phillips, E. (2019). Holocene book review: 'Till: a glacial process sedimentology.' *The Holocene, 29*(1), 181-182. Cyrchwyd ar 13 Gorffennaf 2021 o https://journals-sagepub-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/full/10.1177/0959683618816541

Prifysgol Durham. (2017). Geography professors honoured for outstanding achievements. Cyrchwyd ar 14 Gorffennaf 2021 o https://www.dur.ac.uk/news/research/?itemno=31584

# D. Simon Evans

Roedd Daniel Simon Evans (1921-1998) yn ysgolhaig Celtaidd ac yn arbenigwr ar seintiau cynnar Prydain.

Roedd Simon yn blentyn hynaf i David Evans, a oedd yn ysgrifennydd cangen leol i Undeb yr Amaethwyr ac yn is-swyddog treth, a'i wraig, Sarah Jane née Lewis. Roedd ganddo frawd a chwaer iau. Ei frawd oedd David Ellis Evans, a oedd yn athro Astudiaethau Celtaidd. Ganwyd yn Llanfynydd yn Sir Gaerfyrddin, a mynychodd Ysgol Gynradd Llanfynydd, yn ogystal â'r capel Methodistaidd Calfinaidd yn y pentref. Aeth ymlaen i Ysgol Ramadeg Llandeilo, lle daeth yn brif fachgen. Astudiodd ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe, gan ennill ysgoloriaeth Mary Towyn Jones yno. Graddiodd mewn Groeg a Lladin yn 1942, a chydag anrhydedd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg yn 1943. Ei gyrchfan nesaf oedd y Coleg Diwinyddol Unedig yn Aberystwyth, lle astudiodd radd mewn diwinyddiaeth. Ar ôl hyn, treuliodd flwyddyn yng Ngholeg yr Iesu yn Rhydychen.

Ym mis Hydref 1946, aeth Evans yn ôl i Goleg Prifysgol Abertawe, fel darlithydd cynorthwyol yn y Gymraeg (ac am ychydig flynyddoedd, fel darlithydd anrhydeddus mewn Hebraeg). Yn dilyn hyn bu cyfres o swyddi academaidd. Bu'n Athro Cymraeg yng Ngholeg Prifysgol Dulyn rhwng 1952 a 1962, ac yna'n ddarlithydd mewn Cymraeg yng Ngholeg Dewi Sant tan 1966. Yn ystod ei amser yn Llanbedr Pont Steffan, ymddengys iddo grybwyll y syniad o gyhoeddi cyfnodolyn dysgedig yn y coleg. Ef oedd golygydd y gyfrol gyntaf o *Trivium*, a ymddangosodd ym mis Mai 1966. Ar ôl hyn, roedd Evans yn bennaeth Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Lerpwl rhwng 1974 a 1988, cyn dychwelyd i Lanbedr Pont Steffan fel Athro Cymraeg. Gweithiodd yn ddiwyd i ddatblygu adran y Gymraeg yn uned academaidd gref. Ar wahân i hyn, bu'n Ddirprwy Brifathro am bedair blynedd. Ar ôl iddo ymddeol, parhaodd fel Cyfarwyddwr Anrhydeddus y Ganolfan Ymchwil ac Ysgoloriaeth.

Roedd prif ymchwil Evans mewn gramadeg a chystrawen rhyddiaith Cymraeg Canol, ac felly y trawsnewidiad rhwng Cymraeg Canol a Chymraeg Fodern. Cyhoeddodd nifer o erthyglau arwyddocaol ar y Gernyweg a'r Gymraeg. Mae ei lyfrau *Gramadeg Cymraeg Canol* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1951) ac *A Grammar of Middle Welsh* (Sefydliad Astudiaethau Uwch Dulyn, 1964) wedi dod yn glasuron.

Ochr yn ochr â hyn, bu Evans yn gweithio ar lenyddiaeth grefyddol ganoloesol, gan gynnwys bywydau'r seintiau. Roedd ei lyfr, *Medieval Religious Literature* (Gwasg Prifysgol Cymru ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, 1986) yn rhan o'r gyfres Writers of Wales. Disgrifiodd Scattergood y gyfrol fel un a amlinellodd bwnc, themâu ac arddulliau rhyddiaith a phenillion y Gymraeg sydd wedi goroesi cyn y Diwygiad Protestannaidd mewn modd cryno ond awdurdodol. Fe'i hanelwyd at siaradwyr di-Gymraeg a'r rheiny nad oeddent yn arbenigo yn yr iaith. Yn 1959, cyhoeddodd Evans y llyfr *Buched Dewi* (Gwasg Prifysgol Cymru), argraffiad o fersiwn Cymraeg Canol o'r 14eg ganrif o fywyd Dewi Sant, a gymerwyd o Lansteffan MS.27 gydag amrywiadau o Goleg yr Iesu, Rhydychen, MS.1.19. (Er bod y cyfnod yng Nghymru wedi'i seilio'n glir ar yr hyn a ysgrifennwyd gan Rhygyfarch, mae'n hepgor y rhan fwyaf o'r deunydd sy'n cysylltu Dewi Sant ag Iwerddon.) Yn 1988, cyhoeddodd Evans gyfieithiad Saesneg, *The Welsh Life of St David*, (Gwasg Prifysgol Cymru), wedi'i seilio ar Goleg yr Iesu, Rhydychen, MS.1.19. Anelwyd hwn at fyfyrwyr na fyddent efallai wedi gallu darllen y rhifyn Cymraeg. Adolygodd ac ehangodd Evans y cyflwyniad a'r nodiadau o rifyn Cymraeg 1959. Curadodd a golygodd bamffledi G. H. Dobles, *Lives of the Welsh Saints* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1993) gan ychwanegu cyflwyniad newydd.

Yn 1977, cyflwynodd Evans rifyn o *Historia Gruffud vab Kenan* (Gwasg Prifysgol Cymru). O ganlyniad, daeth cofiant i Gruffydd ap Cynan i fod, a ysgrifennwyd yn ôl pob tebyg gan glerigwr tua diwedd y

12fed ganrif. Er nad oedd y testun ddim ond ychydig dros ddeg ar hugain o dudalennau o hyd, roedd y cyflwyniad yn cynnwys tri chant o dudalennau, a'r nodiadau a'r mynegeion yn gant arall. Dilynodd Evans hyn gyda chyfieithiad Saesneg o'r testun Cymraeg Canol, *A Mediaeval Prince of Wales*, (Llanerch, 1990). Gyda Rachel Bromwich, cyhoeddodd rifyn safonol y stori ryddiaith Ganoloesol, *Culhwch ac Olwen*, (argraffiad Cymraeg yn 1988, gyda chyfieithiad Saesneg wedi'i gyhoeddi yn 1992). Llyfr olaf Evans oedd *O Fanc y Spite: atgofion am Gapel y Methodistiaid yn Llanfynydd, a'r Fro*, (Mellen, 1997), hanes ei bentref enedigol a'i gapel.

Dyfarnwyd anrhydedd Doethur mewn Llên i Evans gan Brifysgol Cymru yn 1979. Gwasanaethodd fel ysgrifennydd Bwrdd Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Cymru. Dyfarnwyd iddo Wobr Goffa Vernam Hull ddwywaith, a chyflwynodd Darlith Goffa G.J. Williams yn 1980 ar 'Llafar a Llên yn yr hen gyfnod.'

Roedd gan Evans a'i wraig, Frances, un mab o'r enw Dafydd H. Evans, ac roedd gobeithion iddo ddilyn ôl troed ei dad fel ysgolhaig o Gymru.

Bu farw Evans yng Nghaerfyrddin ar 4 Mawrth 1998. Enwir neuadd breswyl yn Llanbedr Pont Steffan ar ei ôl.

**Ffynonellau**


Ben Rees, D. (1998, 18 Ebrill). Ysgrif goffa: Yr Athro D. Simon Evans. *Independent.* Cyrchwyd ar 1 Mawrth 2021 https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/13204E3319A21A70?p=UKNB

Williams, J.E.C. (1998, 1 Ionawr). Ysgrifau coffa. Yr Athro Emeritws D. Simon Evans, MA, BD, Baglor mewn Llên, Doethur mewn Llên, 29 Mai 1921 – 4 Mawrth 1998. *Journal of Welsh Religious History, 6,*60-61. Cyrchwyd ar 1 Mawrth 2021 o https://datasyllwr.llgc.org.uk/journals/pdf/AWJCG006006.pdf

Roberts, B.F. (2015). EVANS, DANIEL SIMON (1921-1998), Ysgolhaig o Gymru. *Dictionary of Welsh Biography.* Cyrchwyd ar 1 Mawrth 2021 o https://biography.wales/article/s10-EVAN-SIM-1921

Price, D.T.W. (1990). *A History of Saint David's University College Lampeter. Yr ail gyfrol: 1898-1971.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Scattergood, J. (1989). [Adolygiad: heb deitl]. *The Yearbook of English Studies, 19*, 301-304. doi:10.2307/3508061

Dewi Sant (St David). (485?) [n.d.] Yn: *A Welsh Classical Dictionary.* Cyrchwyd ar 1 Mawrth 2021 o https://www.library.wales/fileadmin/fileadmin/docs_gwefan/casgliadau/Drych_Digidol/Deunydd_print/Welsh_Classical_Dictionary/05_D-E-F.pdf

# Eric Evans

Roedd Eric Evans (1928-1996) yn Ddeon Eglwys Gadeiriol St Paul.

Ganwyd Evans yn Arberth, yn fab i Eric Evans a'i wraig Florence Rogers gynt. Bedyddiwyd ef Thomas, ond roedd pawb yn ei adnabod wrth ei enw canol, Eric. Ar ymadael â'r ysgol, gwnaeth astudio am radd BA yng Ngholeg Dewi Sant, Llambed, ac yna, am radd MA yng Ngholeg St Catherine, Rhydychen. Yna, gwnaeth baratoi ar gyfer bod yn offeiriad yn y sefydliad Anglo-Gatholig, St Stephen's House, sy'n dal i fod yn Rhydychen o hyd. Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn 1954, ac yn offeiriad yn 1955.

Swydd glerigol gyntaf Evans oedd fel curad ym Margate. Pan oedd yno, gwnaeth gwrdd â Linda Budge a'i phriodi; cawsant ddwy ferch. Yn 1958, daeth Evans yn uwch-gurad yn eglwys St Peter, sydd yng nghanol Bournemouth. Yn ystod ei amser yno, derbyniodd hyfforddiant fel Samariad, a daeth yn sylfaenydd ac yn gyfarwyddwr cyntaf cangen Bournemouth. Daeth hefyd ymlaen yn dda gyda phobl ifanc. Yn 1962, symudodd i esgobaeth Caerloyw i fod yn gaplan ieuenctid. Dywedwyd y gallai eistedd mewn cae gyda gwydr o gwrw, ac ar yr un pryd, esbonio'n glir diwinyddiaeth Sant Paul ynglŷn ag iachawdwriaeth i'r bobl ifanc a oedd o'i gwmpas. Yn 1969, daeth yn ganon-genhadwr esgobaethol, ac yna, yn 1975, yn archddiacon Cheltenham. Gwnaeth y rolau hyn olygu byw yn y Clos yng Nghaerloyw am bedair ar bymtheg mlynedd; roedd yn hoff iawn o'r eglwys gadeiriol, y ddinas a'r esgobaeth. Pan oedd yno, gwnaeth ei rolau gynnwys bod yn llywodraethwr Coleg Merched Cheltenham, ac yn gaplan i'r Corfflu Hyfforddiant Awyr, i Goleg Addysg Caerloyw ac i Heddlu Swydd Gaerloyw. Yn 1981, daeth yn gadeirydd i'r Cyngor Gofal Eglwysi. Er gwaethaf y bygythiadau o ladrata a fandaliaeth, roedd yn gwrthwynebu'n gryf cadw eglwysi ar glo. Ei gred oedd 'Our churches are in a sense sacramental. They are an outward and visible sign of God in our presence. People need an awareness of the numinous, and visit churches simply because they are different from other buildings.'

Gwnaeth ei benodiad yn ddeon Eglwys Gadeiriol St Paul yn 1988 beri syndod i rai. Y sôn oedd mai Margaret Thatcher oedd yn gyfrifol am hyn, am nad oedd hi wedi maddau'r gyfundrefn flaenorol am naws gwasanaeth diolchgarwch Ynysoedd y Falklands a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 1982. Ond nid oedd Cabidwl Eglwys Gadeiriol St Paul yn dîm arbennig o hapus nac unedig. Daeth Evans â doniau bugail a heddychwr. Dywedwyd y daeth heddwch yn ôl yn ystod ei gyfnod yno, a gwelwyd mwy o gariad ac undeb ymhlith y Cabidwl na welodd neb erioed o'r blaen. Roedd ef yn ffodus - daeth tair o'r pedair Canoniaeth yn wag ychydig ar ôl iddo gyrraedd, gan ddod â'r rhan fwyaf o'r absennu drwg-enwog i ben. Dywedwyd hefyd fod arddull fwyn Evans ei hun yn magu cytgord. Er enghraifft, gwnaeth annog aelodau cymuned yr eglwys gadeiriol i fwyta cinio gyda'i gilydd, gan gredu y byddai'r sawl sy'n rhannu pryd yn llai tebygol o gweryla. Byddai'n ceisio cael pawb i gyrraedd consensws yng nghyfarfodydd y Cabidwl, ond yn anaml iawn y bydden nhw'n pleidleisio dros unrhyw beth. Gwnaeth weithio dros warchod ac addasu adeiladwaith y gadeirlan. Yn ariannol, roedd hi bron yn doredig. Yn 1991, gorfodwyd iddi gymryd cam dadleuol a chodi tâl ar ymwelwyr am fynediad, un o'r eglwysi cadeiriol cyntaf i wneud hynny.



Gwnaeth Evans ymdoddi'n rhwydd i Ddinas Llundain. Yn areithydd ar ôl cinio rhagorol, ac yn Saer Rhydd blaenllaw, roedd Evans yn addas iawn ar gyfer digwyddiadau dinesig a chiniawau lifrai. Penodwyd ef yn gaplan Gild y Rhyddfreinwyr, a phob blwyddyn, byddai'n cynnal y seremoni fer Bendithio'r Arglwydd Faer, sy'n digwydd yn ystod Sioe'r Arglwydd Faer. Yn 1922, gwnaethpwyd ef yn Rhyddfreiniwr Anrhydeddus yr Hybarch Gwmni Garddwyr. Mewn cyferbyniad, byddai'r deondy yn croesawu pawb; dywedwyd bod Linda, gwraig Evans, yn paratoi 200 o gwpanau o de'r wythnos i gardotwyr a fyddai'n cnocio'r drws.

Roedd Evans yn draddodiadwr Anglo-Gatholig, ac yn gwrthwynebu'n gryf ordeinio menywod. Gwnaeth ddadlau 'The Church of England should not go it alone on the issue of women priests.' Ond ni anwadalodd ei ffyddlondeb at Eglwys Loegr. Meddai 'If we are to keep the Church of England together we need more love and prayer, not to have a go at each other.' Roedd ei wleidyddiaeth hefyd yn geidwadol, ac roedd yn aelod o'r Carlton Club. Yn enwedig, roedd yn gefnogwr cryf o'r frenhiniaeth, gan ddadlau y dylid parchu 'the oldest continuing human constitutional organism in the world apart from the papacy'. Yn rhinwedd ei swydd, gwnaeth adeiladu cysylltiadau agos gyda'r Teulu Brenhinol, gan gymryd rhan yn trefnu gwasanaethau cenedlaethol-bwysig, er enghraifft, dathlu hanner canmlwyddiant diwrnod VE. Yn 1996, gwnaethpwyd Evans yn farchog Urdd Frenhinol Fictoria, anrhydedd a ddaeth drwy rodd bersonol y Frenhines.

Hefyd, yn 1996, gwnaeth salwch orfodi Evans i ymddeol, ddwy flynedd cyn ei oed ymddeol dichonadwy, sef deg a thrigain mlwydd oed. Yn drist, bu farw yn ei gwsg ar Awst 17, chwe wythnos cyn y byddai wedi gorffen gweithio. Meddai Canon Michael Saward 'For many years he had suffered from arthritis, he'd had a long-standing chest complaint and he had been on an oxygen supply on and off for the last three months.' Cynhaliwyd angladd Evans yn Eglwys Gadeiriol Caerloyw, a dilynwyd hwn, ddeuddydd wedyn, gan wasanaeth o ddiolchgarwch yn Eglwys Gadeiriol St Paul. Mewn llythyr personol at ei wraig, ysgrifenodd y Frenhines 'He will be a great loss to the Church and his many friends.'

**Ffynonellau**

Evans, Very Rev. (Thomas) Eric, (1 Feb. 1928 – 17 Aug. 1996), Dean of St Paul's, since 1988. *Who's Who & Who Was Who.* Adalwyd ar Chwefror 3 2021 oddi wrth

https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540891.001.0001/ww-9780199540884-e-178296?rskey=GIxFge&result=45

[Hill, C.] (1996, August 30). The Very Revd. Eric Evans. *Church Times.* Adalwyd ar Chwefror 3 2021 oddi wrth https://www.ukpressonline.co.uk/ukpressonline/view/pagview/ChTm_1996_08_30_004

The Very Rev. Eric Evans – obituary. (1996, August 19). *The Times.* Adalwyd ar Chwefror 3 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/0F924A2E22FAF302?p=UKNB

The Very Rev Eric Evans (1996, August 19). *The Daily Telegraph.* Adalwyd ar Chwefror 3 2021 oddi wrth https://link.gale.com/apps/doc/IO0701656103/TGRH?u=nlw_ttda&sid=TGRH&xid=f644c40f

Halliburton, J. (1996, August 19). The Very Rev Eric Evans. *The Independent.* Adalwyd ar Chwefror 3 2021 oddi wrth https://link.gale.com/apps/doc/FQ4200443031/INDA?u=nlw_ttda&sid=INDA&xid=660c06cd

Longley, C. & Gledhill, R. (1989, October 3). Women priest issue casts shadow over Rome unity – Anglican and Roman Catholic churches. *The Times.* Adalwyd ar Chwefror 3 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/0F91035A0ACC2904?p=UKNB

Hidalgo, L. (1993, May 10). Bishop says Anglican rebels are faithless. *The Times.* Adalwyd ar Chwefror 3 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/0F91FB04B2EB75B6?p=UKNB

Smith, G. (1996, August 25). Three good men and true. *Sunday Times.* Adalwyd ar Chwefror 3 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/0F92A0BA0139303C?p=UKNB

Dean of St Paul's dies. (1996, August 18). *Independent on Sunday.* Adalwyd ar Chwefror 4 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/131FFEED792B3548?p=UKNB

Knowsley, J. (1996, August 18). Queen's tribute as Dean Evans dies. *Sunday Telegraph.* Adalwyd ar Chwefror 4 2021 oddi wrth https://link.gale.com/apps/doc/IO0700767562/TGRH?u=nlw_ttda&sid=TGRH&xid=33d2a703

# Dom Illtud Evans

Roedd Dom Illtud Evans (1913-1972) yn offeiriad Catholig, yn llenor, ac yn ddarlledwr adnabyddus.

Er iddo gael ei eni yn Chelsea, daeth o deulu anghydffurfiol o Gymru. Roedd ei dad, David Spencer Evans, yn bostfeistr; ei fam oedd Catherine née Jones. Enwyd eu mab yn John Alban. Aeth i Ysgol Ramadeg Tywyn yng ngogledd-orllewin Cymru felly cafodd fagwraeth ddwyieithog. Roedd hefyd yn alluog yn academaidd; mynychodd Goleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan yn 1931 fel enillydd gwobr Saesneg Bates. Mae nifer o rifynnau *College Magazines* yn cynnwys enghreifftiau o'i ysgrifennu cynnar. Roedd hefyd yn aelod o Gymdeithas Eingl-Gatholig Dewi Sant y Coleg. Fodd bynnag, cafodd ei ddiarddel o Goleg Llanbedr Pont Steffan yn 1934 am gyfaddef ei fod yn gyfunrhywiol. Yn ôl cofnodion cyfarfod arbennig a gynhaliwyd gan Fwrdd y Coleg ar 15 Mehefin 1934,

'Cyflwynodd y Sensor gyhuddiad yn erbyn J. Alban Evans o geisio annog cyn-fyfyriwr, ar sawl achlysur, i gyflawni gweithred o anfoesoldeb dybryd yng nghyffiniau'r Coleg. Cyfaddefodd Evans ei fod yn euog a chafodd ei ddiarddel o'r Coleg.'

Yn ddiweddarach, lansiodd ei gyfaill, Cliff Tucker, ymgyrch i ennill gradd iddo ar ôl ei farwolaeth.

Ar ôl gadael y Coleg dechreuodd Evans weithio fel newyddiadurwr; defnyddiodd y sgiliau a ddysgodd drwy gydol ei offeiriadaeth. Tua'r adeg hon, trodd at yr Eglwys Gatholig Rufeinig; ymunodd ag Urdd y Dominiciaid yn 1937. Cafodd ei ordeinio'n offeiriad chwe mlynedd yn ddiweddarach gan fabwysiadu'r enw Illtud ar ôl sylfaenydd y fynachlog yn Llanilltud Fawr. Symudodd Evans i Gaergrawnt i ddechrau. Yna, o 1955 i 1958, gwasanaethodd fel prior yn eglwys St Dominic yng ngogledd-orllewin Llundain. Fodd bynnag, roedd yn fwyaf adnabyddus fel ysgrifennwr a darlledwr. Bu'n olygydd adolygiad misol Dominicaidd *Blackfriars* o 1950 tan 1962; yna, bu'n gyfrifol am ei ail-lansio fel *New Blackfriars.* Hefyd, cyfrannodd at amrywiaeth o gyhoeddiadau eraill:- *Time and Tide, The Tablet* (yn aml, gan ddefnyddio'r ffugenw Aldate), *The Times, The Times Literary Supplement, Saturday Review* a *The Observer.* Roedd yn ysgrifennu am amrywiaeth o bynciau gan gynnwys celf grefyddol, llenyddiaeth, a bywgraffiadau yn ogystal â diwygio'r system gosb. Disgrifiodd ei lyfr, *One and Many*, (Blackfriars, 1957), Grist yn byw fel Catholig gan droi'r mwyafrif yn un.

Treuliodd Evans y rhan fwyaf o'r 1960au yn yr Unol Daleithiau. Yn gyntaf, bu'n byw yn Efrog Newydd cyn dod yn Bregethwr-Cyffredinol yn Dominican Provincial House of Studies, Oaklands, California, yn 1966. Yna, bu'n dysgu homileteg a chynhaliodd encilion esgobaethol. Bu hefyd yn olygydd cysylltiol *Faith Now.*

Ers dechrau ei offeiriadaeth, roedd gan Evans ddiddordeb penodol mewn popeth a oedd yn gysylltiedig â maes trosedd a chosb; ymwelodd â charchardai a chanolfannau adsefydlu ar draws Prydain. Yn yr Unol Daleithiau, hwn oedd ei brif ddiddordeb. Ymwelodd â nifer o benydfeydd gan lunio adroddiad ar ddull gweithredu'r system barôl ar gyfer William J Kirby Foundation of Washington DC. Anerchodd Gynhadledd Flynyddol Cymdeithas Gystwyol America yn 1961 a chafodd ei benodi'n ddirprwy i Gyngres y Cenhedloedd Unedig ar Atal Troseddu a Dulliau Trin Troseddwyr yn 1961. Ymhlith ei gyhoeddiadau mae erthygl bwysig o'r enw 'Punishment' ar gyfer *The Catholic Encyclopaedia,* cyfrol 11, a gyhoeddwyd yn 1969.

Hefyd, enillodd enw da am helpu offeiriaid yr oeddent wedi'u cynhyrfu gan y newidiadau a roddwyd ar waith gan Fatican II; yn aml, bu'n ailgymodi grwpiau yr oeddent wedi'u gwahanu gan wahaniaethau o ran traddodiad, hyfforddiant, ac oedran.

Nid oedd Evans erioed wedi mwynhau iechyd da; dychwelodd i Brydain yn 1970 ar ôl cael strôc. Bu farw yn Athen ar 22 Gorffennaf 1972, yn 59 oed yn unig. Cafodd ei gladdu yn y fynwent Gatholig yn Heraklion. Mae ei bapurau wedi'u cadw yng Nghasgliadau Arbennig Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

**Ffynonellau**

Father I. Evans. (1972, 2 Awst). *Times*, 17. Cyrchwyd o https://link.gale.com/apps/doc/CS287930114/TTDA?u=nlw_ttda&sid=TTDA&xid=99a25ad3

Disgrifiad o 'Dom Illtud Evans, Dom Illtud Evans Papers, 1944-1972. University of Wales Trinity Saint David / Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. GB 1953 DIE' ar wefan Archives Hub, Cyrchwyd ar 8 Medi 2020 o https://archiveshub.jisc.ac.uk/data/gb1953-die

Disgrifiad o 'Dyson, Anthony Edward, 1928-2002, academic, educationalist, literary critic, gay rights campaigner, Papers of Tony Dyson and Cliff Tucker, 1934-2002. University of Manchester Library. GB 133 AED' ar wefan Archives Hub, Cyrchwyd ar 8 Medi 2020 o https://archiveshub.jisc.ac.uk/data/gb133-aed

Dominican Friars – England & Scotland. (2016). Fr Illtud Evans OP – a Welsh Dominican Convert. Cyrchwyd ar 8 Medi 2020 o https://www.english.op.org/latest-news/illtud-evans-a-welsh-dominican-convert

Martindale, C. (1958). Reviews [Review of the book *The one and the many* by I. Evans]. *Blackfriars, 39*(454), 35-36. Cyrchwyd ar 9 Medi 2020 o http://www.jstor.org/stable/43815584

Hislop, I., & Bailey, B. (1972). Illtud Evans—an appreciation. *New Blackfriars, 53*(628), 386-387. Cyrchwyd ar 9 Medi 2020 o http://www.jstor.org/stable/43245809

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd y Coleg. (15 Mehefin 1934). Archifau Coleg Dewi Sant, Llyfrgell ac Archifau Roderic Bowen. (UA/C/1/8)

# John Silas Evans

Roedd John Silas Evans (1864-1953) yn awdur llyfrau poblogaidd Saesneg a Chymraeg ar seryddiaeth, yn ogystal â bod yn offeiriad.

Roedd Evans yn ddyn lleol; ganwyd ym Mhencarreg ar Fawrth 11 1864. Enw ei dad oedd Evan Evans. Mynychodd John Silas Evans ysgol Alcwyn C. Evans yng Nghaerfyrddin, ac yna, yr hen ysgol ramadeg yn Llambed. Dyfarnwyd iddo'r ysgoloriaethau Phillips a Treharne i Goleg Dewi Sant. Graddiodd yn 1885, wedi ennill y gwobrau Cymraeg a Gwyddoniaeth. Am y flwyddyn nesaf, addysgodd mewn coleg yng Nghofentri. Ar ôl hynny, cafodd ei ordeinio'n ddiacon yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy yn 1887, ac yn offeiriad yn 1888. Roedd gan Evans hanes eithriadol; dywedwyd ei fod yn gallu cynnal gwasanaethau bron yn unig oddi ar ei gof.

Swydd glerigol gyntaf Evans oedd fel curad, yn Niserth, Sir Ddinbych, o 1887 tan 1890. Yn dilyn hyn, bu'n gurad yn Rhos-ddu, ger Wrecsam, o 1890 tan 1895, yn ficer Llanelwy ac yn ficer corawl yr eglwys gadeiriol o 1895 tan 1901, ac yn ficer Cyffylliog, a leolir i'r gorllewin o Ruthun, o 1901 tan 1909. Ei swydd olaf oedd ficer Llanrhaeadr-ym-mochnant gyda Llanarmon Mynydd Mawr (o 1909 tan 1938). Lleolir Llanrhaeadr-ym-mochnant ym mynyddoedd y Berwyn, rhwng y Bala a Chroesoswallt. Clerigwr blaenorol enwocaf yr eglwys oedd William Morgan, a wnaeth gyfieithu, am y tro cyntaf, y Beibl i'r Gymraeg. Daeth Evans yn ganon Llanelwy yn 1928.



John Silas Evans, o Gasgliad Portreadau'r Cymry sydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Roedd Evans yn seryddwr brwdfrydig, a byddai'n arfer defnyddio telesgop pedair modfedd a wnaed gan Tulley. Cyflwynodd ei lawysgrif iaith Gymraeg am seryddiaeth i gystadleuaeth Eisteddfod Genedlaethol 1920 ar gyfer gwaith gwreiddiol newydd. Ond er i'r beirniaid ganmol ei gyfraniad, nid oedd y gwaith yn eu barn nhw yn addas ar gyfer y gystadleuaeth *belles lettres*. Felly, ni chafodd ei ystyried ar gyfer y wobr. Am hynny, cyhoeddodd Evans ei waith ar ffurf llyfr, *Seryddiaeth a Seryddwyr,* yn 1923. Mae'r gwaith hwn wedi'i rannu'n ddwy; caiff y rhan gyntaf, sy'n ymwneud â seryddiaeth ei hun, ei dilyn gan fywgraffiadau byrion ar y seryddwyr mawr. Mae'r llyfr yn gorffen gyda phennod ar seryddiaeth yng Nghymru. Gwnaeth adolygiad yn yr *Archaeologia Cambrensis* ei

ddisgrifio fel y gwaith pwysig cyntaf ar seryddiaeth yn yr iaith Gymraeg. Gwnaeth Evans ei hun fathu llawer o'r termau technegol a ddefnyddiwyd ynddo.

Dilynodd Evans *Seryddiaeth a Seryddwyr* gyda llyfr iaith Saesneg ar seryddiaeth boblogaidd, sef *Marvels of the sky,* (cyhoeddwyd gan A.H. Stockwell, 1931). Gwnaeth gyflwyno *Marvels of the sky* i 'fy nghymar cyson a ffyddlon, fy hen delesgop plygiannol.'

Hefyd, yn 1931, cyhoeddodd *Ad astra,* casgliad o wyth pregeth yn ymwneud â'r berthynas rhwng gwyddoniaeth a chrefydd. Yn y rhagymadrodd, gwnaeth Evans ddisgrifio'r eitemau cydrannol fel 'cyfres fer o bregethau neu anerchiadau, seryddol eu cynnwys, ar agwedd grefyddol y wyddor honno.' Yn y sgwrs gyntaf, o'r enw 'In the beginning, God', gwnaeth drafod nifer o bwyntiau dadleuol, gan gynnwys goblygiadau amcangyfrifon gwyddonol ynglŷn ag oed y ddaear ar gyfer stori'r greadigaeth yn Llyfr Genesis. Gwnaeth y chweched bregeth, 'Are the planets inhabited?' ystyried posibilrwydd bodolaeth pethau byw estron a chanddynt ffurf wahanol. Gwnaeth y seithfed anerchiad, 'Which was the star of Bethlehem?', archwilio sail wyddonol y seren enwog honno, yn ogystal â'i hystyr ysbrydol ehangach.

Ym mis Tachwedd 1923, etholwyd Evans yn gymrawd y Gymdeithas Seryddol Frenhinol; parhaodd i fod yn aelod tan fis Rhagfyr 1932. Cymaint oedd ei frwdfrydedd dros seryddiaeth, cafodd Evans nenfwd corff eglwys Llanrhaeadr-ym-mochnant ei baentio â sêr a phlanedau yn erbyn cefndir glas.



Eglwys St Dogfan, Llanrhaeadr-ym-mochnant, lle'r oedd Evans yn ficer

Roedd diddordebau eraill Evans yn cynnwys llên gwerin a hanes lleol. Ysgrifennodd am ei blwyf, *Hanes Llanrhaeadr ym Mochnant*; a chafodd hwn ei gyhoeddi yn 1940. Disgrifiodd dirnodau lleol, gan gynnwys Pistyll Rhaeadr a nifer o feini hirion a chrugiau. Adroddodd am hanes hynafol yr ardal, ei bywyd crefyddol a'i llên gwerin. Ysgrifennodd hefyd am y tu mewn i'w eglwys, St Dogfan, a'i ddisgrifio'n 'hen iawn, ond yn naturiol, wedi'i adfer llawer o weithiau.'

Ar ymddeol yn 1938, symudodd Evans i Aberystwyth er mwyn gallu cyrraedd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn hawdd. Gwnaeth enwi ei gartref newydd Ad astra. Ymhen hir a hwyr, dychwelodd adref i Bencarreg ac ysgrifennodd hanes lleol y plwyf hwnnw. Yno, y bu farw ar Ebrill 19 1953, ac fe gladdwyd ym mynwent yr eglwys.

**Ffynonellau**

Ellis, M. G., (2001). Evans, John Silas (1864 - 1953), priest and astronomer. *Dictionary of Welsh Biography*. Adalwyd ar Fehefin 5 2020, oddi wrth https://biography.wales/article/s2-EVAN-SIL-1864

Jones, B. (2011). Canon J. Silas Evans (1864-1953). Adalwyd ar Fai 7 2020, oddi wrth http://www.jonesbryn.plus.com/wastronhist/people/jsevans/p_jsevans.html.

Seryddiaeth a Seryddwyr. Gan y Parch J. Silas Evans. (1924). *Archaeologia Cambrensis, 1900 Journal of the Cambrian Archaeological Association.* 7$^{th}$ series 4,226-227. Adalwyd oddi wrth https://journals.library.wales/view/4718179/4731052/262#?cv=262&m=29&h=&c=0&s=0&manifest=https%3A%2F%2Fdamsssl.llgc.org.uk%2Fiiif%2F2.0%2F4718179%2Fmanifest.json&xywh=-1121%2C-170%2C4396%2C3384

John Silas Evans. (2020, April 19). In *Wikipedia.* https://en.wikipedia.org/wiki/John_Silas_Evans

# Walter Evans

Gweithiodd Walter Evans (1916-2007) fel caplan yn y fyddin am bron deugain mlynedd, gan wasanaethu yng Ngogledd Affrica, yr Eidal, Gwlad Belg, yr Almaen, Malaia, Singapore, Cenia ac Oman. Gelwid wrth ei lysenw 'Evans above', a gwnaeth weithio bron ym mhob math o swydd a oedd gan gaplaniaeth y fyddin ei chynnig.

Ganwyd Evans ar Awst 2 1916 yng nghartref teulu ei fam yn Eglwyswrw, Sir Benfro. O fewn ychydig o wythnosau aethpwyd ag ef i Lambed; bedyddiwyd ef yn Evan Walter yn Eglwys St Pedr. Mae cofrestr y bedyddiadau yn rhoi enwau ei rieni fel David, saer dodrefn, ac Eleanor. Bu'r teulu yn byw yn Station Terrace, a gwnaeth Walter, pan oedd yn ifanc, fynychu Ysgol Coleg Dewi Sant. Gwnaethant fynychu eglwys St Pedr, lle y bu Walter yn gôr-fachgen (o ansawdd canolig).

Yn drist, bu farw mam Walter yn 1932 o ganser yr afu, pan oedd Walter dim ond yn bymtheg mlwydd oed. Yn ystod y deuddeg wythnos pan oedd hi'n sâl, arhosodd Walter gartref o'r ysgol i helpu ei dad. Gwnaeth hyn olygu na wnaeth ef sefyll ei arholiadau Tystysgrif Ysgol Uwch (a oedd yn gywerth â Lefelau A). Ond am ei fod wedi pasio Tystysgrif Ysgol Rhydychen gydag wyth credyd , gwnaeth hyn ei alluogi i sefyll arholiad am Ysgoloriaeth i Goleg Dewi Sant. Ymhen hir a hwyr, gwnaeth raddio yn 1936 gyda gradd mewn hanes, ychydig cyn ei ben-blwydd yn ugain mlwydd oed. Y pennaeth bryd hynny oedd Maurice Jones, cyn-gaplan yn y fyddin, a wnaeth annog yn gyson nifer bach o ddynion i ymuno â'r lluoedd arfog.

Ar ôl iddo raddio, gwnaeth Evans lwyddo pasio Rhan 1 a Rhan 2 o'r Arholiad Ordeinio Cyffredin yn ogystal â threulio blwyddyn yn addysgu yn Ysgol Coleg Dewi Sant. Ar ôl cael ei ordeinio, ei swydd gyntaf oedd fel curad yn Arberth. Yna, symudodd i Aberteifi, gan aros yno am ddwy flynedd cyn ymuno â'r Fyddin. Bu'n weithredol yn gyrru ambiwlans i'r Patrôl Cyrchau Awyr (Air Raid Patrol - ARP), sef car mawr a oedd wedi cael ei addasu i gario pedwar stretsier. Roedd hefyd yn ymwneud a'r Gwarchodlu Cartref fel rhyw fath o Swyddog Cudd-ymchwil.

Yn 1942, derbyniwyd Evans yn gaplan milwrol. Roedd ei gwrs derbyn yn fyr ac yn llym, ac yn parhau pythefnos yn unig. Cafodd ei anfon yn gyntaf yn ôl i Gymru at uned 184 (Byddin) Maesgatrawd y Magnelwyr Brenhinol, yng Ngwersyll Coed-y-Brenin, ychydig o filltiroedd i'r gogledd o Ddolgellau. Roedd hwn yn wersyll hyfforddi enfawr a phrysur. Ar ôl ychydig o fisoedd yno, anfonwyd ef at uned 79 (Iwmyn Hertfordshire ) Llu Gwrthawyrennol Trwm y Magnelwyr Brenhinol. Cyrhaeddodd yn Bône (Annaba), yng ngogledd-ddwyrain Algeria, ym mis Chwefror 1943. Yna, gwnaeth ei gatrawd ddechrau amddiffyn yn wrthawyrennol tref a phorthladd Skikda, tua 60 milltir i'r gorllewin o Bône. Bob dydd Sul, byddai Evans yn ceisio cynnal gwasanaeth o 30 munud ar gyfer pob mintai. Yn aml, byddai'n cynnal wyth neu naw gwasanaeth y dydd, ac weithiau un neu ddau wasanaeth min nos yn ystod yr wythnos. O safbwynt y dynion, roedd ymweliad y caplan a'r gwasanaeth yn rhan fawr o'r ddefod wythnosol. Roedd salwch yn rhan fawr o fywyd. Ar un adeg, roedd tua 150 o'r 1000 o ddynion a oedd yn y gatrawd yn yr ysbyty, y mwyafrif ohonynt yno oherwydd malaria. Yn ddiweddarach, yn 1943, symudodd uned 79 (Llu Gwrthawyrennol Trwm – Heavy Anti-Aircraft - HAA) yn ôl i Bône. Yn ogystal ag addoli yn Saesneg, gwnaeth Evans a chyd-gaplan a oedd hefyd yn Gymro Cymraeg drefnu gwasanaethau misol yn y YMCA.

Yn ystod adeg y Pasg, 1944, hwyliodd y gatrawd i'r Eidal. Y meysydd awyr o gwmpas Foggia, ger Bari, ar arfordir yr Adriatig oedd ei chyrchfan nesaf. Ei rôl byddai amddiffyn y Llu Awyr Brenhinol rhag gwrthymosodiadau gan yr Almaenwyr. Ar ôl ychydig o fisoedd yno, gwnaeth symud i gyfeiriad y gogledd er mwyn darparu grym tanio ar gyfer 5$^{ed}$ Fyddin yr Americaniaid, a leolwyd yng ngorllewin yr

Eidal, ac yna i ffrynt yr 8fed Fyddin yn Rimini.  Ymhen hir a hwyr, dadfyddinwyd uned 79 HAA, a chafodd Evans ei anfon am gyfnod byr i uned 56 Catrawd Drom, y Magnelwyr Brenhinol (a fyddai yn y dyfodol yn enwog oherwydd roedd Spike Milligan yn arfer bod yn un o'i haelodau).

Byddai rôl nesaf Evans yn un anarferol; anfonwyd ef at y Grŵp Brigâd Iddewig Annibynnol a oedd newydd gael ei sefydlu. Roedd y Frigâd yn cynnwys carcharorion a oedd wedi dianc o'r gwersylloedd crynhoi, gwirfoddolwyr Iddewig o bob rhan o'r byd, ac Iddewon o Balestina ei hun, pob un ohonynt yn cael ei gynorthwyo gan arbenigwyr o'r unedau Prydeinig a oedd wedi'u lleoli yn yr Eidal. Roedd tua 20% o'r frigâd yn dod o Brydain; ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn aelodau o Eglwys Loegr. Gwnaeth Evans, a oedd wedi'i leoli gyda'r Ambiwlans Maes, weinidogaethu ochr yn ochr â thri chaplan Iddewig.  Sylwodd Evans nad oedd Gorchmynion Brigâd yn cael eu rhoi ar y Sabath Iddewig, na'r post yn cyrraedd chwaith. Ar ôl i'r rhyfel yn Ewrop ddod i ben, gwnaeth cerbydau'r Frigâd gymryd rhan weithredol, gan gludo Iddewon a oedd wedi cael eu dadleoli i lawr drwy'r Eidal er mwyn eu galluogi i hwylio i Balestina.

Ar ôl cyfnod byr yng Ngwlad Belg a'r Iseldiroedd, anfonwyd Evans i'r Almaen gyda'r Marchlu Brenhinol. Roedd bywyd yn yr Almaen yn ddiddorol a dweud y lleiaf. Roedd yno filoedd o bobl a oedd wedi cael eu dadleoli a ffoaduriaid, dwsinau o encilwyr, a phob math o ysbïwr.

Yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn honno, pan oedd Evans ar ymweliad â Phrydain, priododd ef Peggy Evans. Cartref Peggy oedd pentref Llanfihangel-ar-arth, un ar ddeg o filltiroedd i gyfeiriad y de-orllewin o Lambed. Byddai hi a Walter yn cael dwy ferch, Ann a Ruth.

Cafodd Walter ei ddadfyddino yn gynnar yn 1947. Ar ôl treulio ychydig o fisoedd fel curad dros dro, daeth yn Rheithor Didmarton gydag Oldbury-on-the Hill a Sopworth, lle gwledig ar y ffin rhwng Swydd Gaerloyw a Wiltshire. Arhosodd Evans yn Didmarton am bum mlynedd. Daeth yn Gynghorydd Dosbarth Gwledig y plwyf , ymunodd â'r Fyddin Diriogaethol (Territorial Army – TA) a daeth yn Gaplan (TA) i Iwmyn Brenhinol Wiltshire. Ond dechreuodd sylweddoli ei fod yn gweld eisiau disgyblaeth strwythuredig, brawdoliaeth a chwlwm cyffredin y fyddin. Bryd hynny, roedd Rhyfel Corea yn cael ei ymladd, ac roedd caplaniaid milwrol yn brin. Ym mis Gorffennaf 1952, ailymunodd Evans â'r Adran Caplaniaid Byddin Frenhinol, roedd ef ynghlwm wrth 'The Buffs' (Catrawd Frenhinol Dwyrain Caint). Ar y cychwyn, lleolwyd ef yn Nofr; ym mis Chwefror 1953, gwnaeth y bataliwn ymladd yn erbyn llifogydd Arfordir y Dwyrain a wnaeth niwed difrifol i foryd Tafwys. Yn ystod y mis canlynol, aeth ef gyda'r 'Buffs' i Genia, a oedd bryd hynny yng nghanol gwrthryfel y Mau-Mau. Cawsant eu lleoli yn gyntaf  yn Ol-joro-orok,  9000 troedfedd uwchben lefel y môr, ond pedair milltir yn unig o'r cyhydedd. Ar y cychwyn, rôl  y 'Buffs' oedd 'cadw a chynnal heddwch'; wedyn, eu tasg oedd restio llwythddynion y Kikuyu a oedd wedi cymryd rhan yn y gwrthryfel. Yn 1955, ar ôl cyfnod byr ym Mhrydain, symudodd y 'Buffs' i'r Almaen, gan ymuno â Garsiwn Wuppertal. Ar ôl i'r 'Buffs' ymadael am Aden, arhosodd Evans yn yr Almaen; anfonwyd ef i  Krefeld, sydd ar y Rhein.  Anfonwyd ef nesaf yn ôl i Brydain at Fataliwn Arweinwyr Iau'r Troedfilwyr, a oedd wedi'i leoli yn Plymouth, ac yna, i'r Academi Filwrol Frenhinol yn Sandhurst.

Yn 1962, anfonwyd Evans at Dirluoedd y Dwyrain Pell, ac yn gyntaf i Kluang, ym Maleisia. Oherwydd roedd ei ferched yn dal i fod yn yr ysgol, aeth yno ar ei ben ei hun, gan adael Peggy ym Mhrydain. O bosib, oherwydd hyn, cafodd ei symud o gwmpas llawer o weithiau  - i Brunei ac i Singapore, yn ogystal ag i Faleisia ei hun. Yn Singapore, bu'n warden 'Church House', encilfa fechan a thŷ gorffwys ar Ynys Blakang Mati, (a elwir erbyn hyn yn Sentosa). Yna, yn dechrau ym mis Ionawr 1965, cafodd ei anfon nesaf i brifysgol y fyddin ei hun, y Coleg Milwrol Brenhinol yn Shrivenham, ger Swindon. Meddai ef mai hwn oedd un o'r lleoedd gorau ar gyfer anfon pobl a oedd ar gael. Hefyd, yn 1965, fe wobrwywyd ef ag MBE yn ystod Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines. Ond byddai'n aros yn

Shrivenham am ddwy flynedd yn unig; ei gyrchfan nesaf oedd Depo'r Caplaniaid yn Bagshot, Surrey. Byddai caplaniaid newydd yn dod yno i gael eu dogfennu, eu hyfforddi a'u citio. Y lle olaf i Evans gael ei anfon oedd yr Henffordd, cartref yr SAS. Roedd y gwersyll wedi dirywio a chwt yr eglwys mewn cyflwr ofnadwy. Roedd Evans bob amser wedi bod o blaid ymweld â phobl yn rheolaidd. Drwy fynd o ddrws i ddrws, fel y dyn llaeth a dyn y post, ei fwriad oedd ymweld â phob tŷ tuag unwaith pob chwech neu wyth wythnos.

Erbyn hyn, oed ymddeol arferol caplaniaid y fyddin oedd pum deg a phum mlwydd oed. Roedd hi'n amser i Evans ddychwelyd i fywyd bob dydd. Ym mis Ionawr 1972, daeth yn gaplan i Ysbyty Brenhinol Chelsea; arhosodd yno tan oedd yn chwe deg a phum mlwydd oed. Roedd tua 400 o bensiynwyr preswyl yn byw yno; byddai tua 70 o bobl yn cael ei derbyn a 70 yn marw yno bob blwyddyn. Gwnaeth Evans gynnig gweinidogaeth lawn a gwnaeth fwynhau ei waith yn fawr. O fis Tachwedd 1980 tan fis Tachwedd 1981, ef hefyd oedd Caplan yr Arglwydd Faer, yn cynorthwyo'r Cyrnol a'r Henadur Ronald Gardner-Thorpe, a oedd yn gyn-Brif Swyddog bataliwn gyda'r 'Buffs'. Fel rhan o'i ddyletswyddau, gwnaeth bregethu tair gwaith yn Eglwys Gadeiriol St Paul, gofyn bendith ar nifer mawr o giniawau a gynhaliwyd yn Neuadd y Gorfforaeth a'r Plasty, a mynychu priodas y Tywysog Siarl a'r Arglwyddes Diana Spencer.

Yn 1985, symudodd Evans yn ôl i'w gartref yng Ngheredigion; gwnaeth ef a Peggy ymgartrefu yn Llandysul. Bu farw yn 2007. Siaradodd y Cadfridog Syr Peter de la Billière, yn ei angladd, a gynhaliwyd yn eglwys blwyf St Tysul, Llandysul.

Ysgrifennodd Evans am ei waith 'The Chaplain represents something basic to men's needs, whatever they are involved in. My task, as I saw it, was to do my best, wherever I found myself, and represent a standard which many forget in their anxiety to be something different and new in their lives.' Meddai De la Billière amdano 'A good Padre is the conscience of the Commanding Officer and the patron of the men – certainly this fits Padre Evans.'

**Ffynonellau**

Evans, W. (1996). *'Evans above …!! The life and times of an army chaplain 1942-1981.* Llandysul: Walter Evans

'Evans above'. A tribute to Revd. E.W. (Walter Evans) MBE. (2007) *The Journal / The Regimental Association of The Queen's Own Buffs (PWRR). 15,*37-38. Adalwyd ar Ragfyr 11 2020 oddi wrth http://thequeensownbuffs.com/wp-content/uploads/2016/12/Journal-No-15-Autumn-2007.pdf

## Richard Fawkes

Roedd Richard Brian Fawkes (1944-2020) yn ddramodydd, yn awdur ac yn gyfarwyddwr.

Ganwyd Fawkes yn Camberley; ei rieni oedd Stanley a Dorethy. Cafodd ei addysg yn y 'Royal Masonic School for Boys', Bushey. Yna, treuliodd ddeunaw mis yn gweithio i'r Gwasanaeth Gwirfoddol Dramor fel hyfforddwr yn yr 'Outward Bound School' yng Nghenia. Astudiodd Saesneg yng Ngholeg Dewi Sant, Llambed, cyn ymuno â'r BBC fel hyfforddai cyffredin yn 1967. Gweithiodd i'r BBC tan 1971, ac yna, ymunodd â chwmni cynhyrchu hysbysebion. Ar ôl hynny, gweithiodd ar ei liwt ei hun fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol. Yn ystod gweddill ei yrfa, gweithiodd fel cyfarwyddwr llwyfan a sgrîn, fel dramodydd ac fel awdur naw llyfr ar gerddoriaeth glasurol.

Yn gynnar iawn ym mywyd Sianel 4, gwnaeth Fawkes gyfarwyddo *Tom Keating on Painters.* Roedd Keating yn artist ac yn adnewyddwr gweithiau celf; gwnaeth gyfaddef ei fod wedi paentio ffugiadau er mwyn dwyn dial ar fasnachwyr a oedd yn elwa ar draul artistiaid. Yn ei raglen deledu, trafododd ei hoff artistiaid a'u harddulliau. Yn ysgrifennu yn *The Times,* disgrifiodd Peter Davalle sut roedd y gyfres wedi diddymu natur sychlyd ac ymhoniad hanes celfyddyd, gan adael lle i ddealltwriaeth am, a chariad diffuant at gelfyddyd ffynnu. Gwnaeth Fawkes hefyd gyfarwyddo'r rhaglen Sianel 4 *Every Window Tells a Story,* lle y gwnaeth Malcolm Miller esbonio a dehongli ystyr ffenestri lliw. Unwaith eto, gwnaeth Davalle grybwyll bod Miller yn siarad iaith y gallai pawb ei deall; yn benodol, fe ddisgrifiodd yr eglwys gadeiriol fel rhwymiad llyfr, a'r ffenestri fel y testun. Gwnaeth *Changing Faces*, a ddarlledwyd gyntaf yn 1987, olrhain rolau a delfrydau cyfnewidiol arlunwyr portreadau Prydain, ac unwaith eto, roedd y gyfres yn ysgafn heb fod yn arwynebol.

Ar y llwyfan, gwnaeth gwaith Fawkes gynnwys cynhyrchu *Faust* (2005) a *The Merry Wives of Windsor* (2006) i Opera South. Yn gweithio gydag arbenigwr opereta Tom Higgins, gwnaeth gydgynllunio, ac yna cyfarwyddo *Waltzing in the Clouds,* gwaith sy'n seiliedig ar fywyd a cherddoriaeth y cyfansoddwr Robert Stolz. Ysgrifennodd hefyd y libretos ar gyfer operâu Priti Paintal, sef *Survival Song* a *Biko.* Gwnaeth *Survival Song* bortreadu'r digwyddiadau a wnaeth arwain at lofruddiaeth drwy dorri gwddf mewn treflan yn Ne Affrica. Ysgrifennwyd fel astudiaeth ar gyfer yr opera siambr dwy act diweddarach ar fywyd Steve Biko, a gomisiynwyd fel cynhyrchiad ar y cyd gan Birmingham Rep. a Royal Opera Garden Venture.

Llyfr cyntaf Fawkes, a ysgrifennwyd ar y cyd â Michael Darlow, oedd *The last corner of Arabia,* (Quartet Books, 1976). Roedd Darlow wedi ymweld ag Oman ar ddymuniad y Swltan, er mwyn creu rhaglen ddogfen ar yr hyn a oedd bryd hynny yn wlad annatblygedig iawn ond yn un a oedd yn strategol hanfodol. Am fod y rheolwr blaenorol wedi gwrthod ei moderneiddio, nid oedd ganddi ysbyty addas a dim ond dwy filltir o heol oedd wedi'u gosod. Gwnaeth Fawkes fynd gyda Darlow fel rheolwr cynhyrchu. Roedd y cytundeb yn cynnwys cymal y byddai Darlow yn ysgrifennu llyfr am ei brofiadau. Oherwydd roedd Fawkes newydd ddechrau ysgrifennu o ddifrif, gwnaeth y ddau ddyn rannu'r penodau rhyngddynt. Roedd ffotograffau i fynd gyda'r testun, y rhan fwyaf ohonynt wedi'u tynnu gan y dyn camera, Peter Middleton.

Roedd y rhan fwyaf o gyfrolau diweddarach Fawkes yn ymwneud â cherddoriaeth, yn enwedig cerddoriaeth glasurol. Ei lyfr nesaf oedd *Fighting for a Laugh: Entertaining the British and American Armed Forces 1939-1946* (Macdonald and Jane's, 1978), astudiaeth gynhwysfawr ar adloniant yn ystod adeg y rhyfel. Yna, cyhoeddodd *Dion Boucicault* (Quartet Books, 1979). Y llyfr hwn oedd y bywgraffiad modern cyntaf am ddramodydd, actor a rheolwr amryddawn a wnaeth fyw yn ystod y 19$^{eg}$ ganrif, a phriododd tair gwaith, cafodd ei gyhuddo o ddeuwriaeth, a gwnaeth a chollodd sawl ffortiwn.

Dilynodd *Welsh National Opera* (Julia McRae, 1986), hanes y cwmni o'i ddyddiau cyntaf gyda chôr amatur i sefydliad pwysig sy'n gallu cynnig llawrydd i gynhyrchwyr rhyngwladol cyffrous. Roedd y rhan fwyaf o destun Fawkes yn cynnwys dadansoddiad byr ar bob cynhyrchiad. Yn ysgrifennu yn *The Financial Times,* meddai Loppert, 'But the book is at once a solid job of reporting, and something else as well – the sense of excitement that WNO performance can inspire certainly returns in the reading.'

Yn *The Classical Music Map of Britain* (Elliott & Thompson, 2010), ysgrifennodd Fawkes gasgliad o storïau am gyfansoddwyr Prydeinig, wedi'u trefnu yn ôl eu lleoliad daearyddol. Gwnaeth pob cofnod ddisgrifio pam roedd man penodol mor arbennig i'r cyfansoddwr dan sylw, pa ddarnau cafodd eu cyfansoddi yno ac a ydy'r lleoliad ar hyn o bryd ar agor i'r cyhoedd. Meddai Fawkes, 'There's something wonderful about being able to go and look at something connected with a composer. I would like to think that readers will keep the book in their cars and as they travel around the country use it as a guide to places of interest.'

Roedd Fawkes hefyd yn awdur dau lyfr llafar, *The History of Opera* and *The History of Classical Music*, (y ddau ohonynt wedi'u cyhoeddi gan Naxos). Gwnaeth gyfrannu at ystod eang o gyhoeddiadau, gan gynnwys *Opera Now, Classical Music Magazine, The Singer, Gramophone, The Telegraph* a *The Independent.*

Priododd Fawkes Cherry Cole yn 1971; cafodd ef a Cherry ddau fab a merch. Bu farw yn Chiswick ar Ionawr 8 2020.

**Ffynonellau**

Artists' Collecting Society. (2012-2020). Tom Keating (1917-1984). Adalwyd ar Dachwedd 9 2020 oddi wrth https://artistscollectingsociety.org/members/tom-keating/

Davalle, P. (1987, January 21). A darkening of joy and glory. *Times*, 43. Adalwyd ar Dachwedd 9 2020 oddi wrth https://link.gale.com/apps/doc/IF0500255308/TTDA?u=nlw_ttda&sid=TTDA&xid=06e6a7f7

Fawkes, R. (n.d.) Richard Fawkes. Adalwyd ar Dachwedd 9 2020 oddi wrth https://richardfawkes.wordpress.com/work/

Davalle, P. (1986, March 3). Choice. *Times*, 31. Adalwyd ar Dachwedd 10 2020 oddi wrth https://link.gale.com/apps/doc/IF0503024849/TTDA?u=nlw_ttda&sid=TTDA&xid=cf217121

Morison, P. (1987, October 22). Light touch with portrait painters. *Daily Telegraph*, 10. Adalwyd ar Dachwedd 10 2020 oddi wrth https://link.gale.com/apps/doc/IO0701129500/TGRH?u=nlw_ttda&sid=TGRH&xid=d3b850ba

Opera South. (n.d.) Past opera productions. Adalwyd ar Dachwedd 10 2020 oddi wrth http://iph.org.uk/theatre/OperaSouth2010/pa_index.html

Spotlight on local talent. (2000, May 19). *Greater London, Kent, and Surrey counties publications.* Adalwyd ar Dachwedd 10 2020 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/10D872D87AD11DD6?p=UKNB

Clements, A. (1992, June 2). Arts: Biko – opera. *Financial Times.* Adalwyd ar Dachwedd 10 2020 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/11416EF0DF7C97B8?p=UKNB

Fanshawe, S. (Host). (1992, May 29). *Terence Davies' The Long Day Closes* [Radio Broadcast]. Adalwyd ar Dachwedd 10 2020 oddi wrth https://www.bbc.co.uk/sounds/play/p03m0v1h

British Entertainment History Project. (n.d.) Interview no. 709 – Michael Darlow – Transcript. Adalwyd ar Dachwedd 13 2020 oddi wrth https://historyproject.org.uk/sites/default/files/Michael%20Darlow%20transcript.pdf

Barrett, D. (1981). [Review of the book *Dion Boucicault: a biography,* by R. Fawkes] *Theatre Journal, 33*(1),125-126. https://doi:10.2307/3207502

Yorkshire Post: celebration of true classical icons and unsung heroes. (2012, June 22). *Yorkshire Post.* Adalwyd ar Dachwedd 13 2020 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/13F9AB9175ACE010?p=UKNB

Stead, P. (1986). [Review of the book *Welsh National Opera,* by R. Fawkes] *Welsh History Review, 13,*520. Adalwyd ar Dachwedd 13 2020 oddi wrth https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/1310493106?rfr_id=info%3Axri%2Fsid%3Aprimo&imgSeq=1

# Yr Esgob Richard David Fenwick



Wedi ei eni yng Nghaerdydd, derbyniodd Richard ei addysg gynnar yn Ysgol Eglwysig Llandaf. Ar ôl methu'r arholiad 11+ yn argyhoeddiadol (!), ymhen hir a hwyr, aeth i Uwchysgol Treganna, ac yna i Lambed, man yr oedd ef bob amser wedi ei hoffi'n frwdfrydig. A dweud y gwir, lawer yn ddiweddarach, gwnaeth wasanaethu am ddeng mlynedd ar Gyngor y Brifysgol. Gwnaeth raddio gyda gradd BA yn 1966.

Yn astudio Diwinyddiaeth yng Ngholeg Fitzwilliam, a Neuadd Ridley, Caergrawnt, ordeiniwyd ef yn 1968, a daeth yn gurad Sgiwen, ac wedyn yn gurad Eglwys St Augustine, Penarth. Yn y cyfamser, gwnaeth barhau gyda'i astudiaethau, yn enwedig Cerddoriaeth. Yn dilyn derbyn Cymrodoriaethau yng Ngholeg Cerdd Llundain (Organ) ac yng Ngholeg y Drindod, Llundain (Cyfansoddi), enillodd radd Mus.B., yn 1979, yng Ngholeg y Drindod Dulyn. Dilynodd hon gyda gradd MA o Brifysgol Cymru (thesis ar Syr John Goss yn Eglwys Gadeiriol St Paul), gan astudio yn Llambed dan athro mawr ei barch, y Canon  William Price. Yna, astudiodd am radd PhD mewn Hanes Eglwysig ("Eglwys Rydd Loegr c 1845 - c 1945"), eto gyda Dr Price.

Roedd cerddoriaeth bob amser yn bwysig iawn iddo. Gwnaeth astudio canu'r organ dan yr organydd enwog a dall o Gymru, David Williams, a gwnaeth ei hoffter mawr am y weinidogaeth a cherddoriaeth fynd ag ef ymlaen o'i guradiaethau i Eglwys Gadeiriol Rochester, ac yna i Eglwys Gadeiriol St Paul, Llundain. Fel Ail Gantor Eglwys Gadeiriol St Paul, ef oedd yn gyfrifol am lunio pob gwasanaeth pwysig, yn eu plith, Gwasanaeth Diolchgarwch Pen-blwydd y Fam Frenhines, yn bedwar ugain mlwydd oed, a'r Briodas Frenhinol, yn 1981. Yna, treuliodd 8 mlynedd brysur iawn fel Ficer Ruislip, ac ar ôl hynny, symudodd i fod yn Ganon-gantor ac yn Is-ddeon yn Eglwys Gadeiriol Guildford. Yn 1997, penodwyd ef yn Ddeon Trefynwy a hefyd yn Ficer Plwyf Cadeiriol Casnewydd. Hefyd, bryd hynny, rhwng 1997 a 2011, bu'n Gadeirydd Comisiwn Litwrgaidd Cymru, ac yn Warden y Gild Cerddorion Eglwysig hirsefydlog.

Yn 2011, etholwyd ef yn Esgob St Helena gan Eglwys Anglicanaidd De Affrica, a chafodd ef ei gysegru yn Eglwys Gadeiriol St Mark, George (ar y Penrhyn Gorllewinol). Gwnaeth ef a Jane dreulio 7 mlynedd yn yr esgobaeth hudol a mynyddig honno yn Nhe'r Iwerydd ... tŷ Napoleon yn Longwood yw dim ond un o nifer o fannau aruthrol y gellid eu fforio. Hefyd, roedd Ynys y Dyrchafael yn rhan o'i esgobaeth. Ond gwnaeth ymweld â De Affrica lawer o weithiau ar gyfer mynychu'r Synodau, ac roedd teithio yn antur go iawn, oherwydd tan 2017, yr unig ffordd o gadw

mewn cyswllt ag eraill oedd drwy ddefnyddio hen Long y Post a oedd yn cymryd 5 diwrnod i'r gyrraedd y Penrhyn (neu wyth diwrnod, ar achlysur, pan fyddai'r peiriant yn methu).

Mae cerddoriaeth yn parhau i fod yn agos at ei galon. Yn ogystal â rhyw 150 o gyngherddau organ unigol dros y blynyddoedd, mae ef wedi perfformio ddwywaith yn Eglwys Gadeiriol St Paul, Llundain. Mae hefyd wedi cynnal perfformiadau yn Eglwysi Cadeiriol Rochester, Guildford, Cofentri, Bangor, Casnewydd a Newcastle on Tyne – a 6 o weithiau yn Eglwys Gadeiriol St Paul, ar Ynys St Helena. Hefyd, mae wedi rhoi 6 perfformiad ar Organ Capel Llambed yn ystod yr Aduniad Blynyddol.

Ers iddo ymddeol ac ymadael â St Helena, y mae ef a'i wraig Jane (deintydd) wedi byw yng nghartref ei deulu yn Llandaf. Mae Richard yn parhau i gynnal gwasanaethau ac i bregethu ledled y wlad – unwaith eto, mae'n dal i chwarae llawer o gerddoriaeth, er bod clefyd pandemig C19 wedi rhoi stop ar ei gyngherddau ar gyfer 2020. Ond fel mae'n ei ddweud, "diolch i'r drefn, rwyf innau a Jane yn dal i fod yma, pan rydym wedi colli'n drasig cymaint o bobl!"

Yn 2019, yn Llundain, etholwyd ef yn Feistr y Gild Cerddorion Eglwysig. Mae Cymrodorion Anrhydeddus y Gild yn cynnwys Rick Wakeman, y Fonesig Patricia Routledge, y Fonesig Mary Archer, a'r diweddar Fonesig Dame Vera Lynn (a oedd mor annwyl i bawb). Felly, mae ganddo ddigon i'w wneud, a diolch i'r drefn, mae'n brysur iawn!

# John Fisher

Gweithiodd John Fisher (1862-1930) gyda'r mwy enwog Parch. Sabine Baring Gould ar y gwaith clasurol, *Lives of the British saints*.

Un o Landybïe, ger Rhydaman oedd Fisher; ef oedd mab hynaf Edward a Mary Fisher. Mynychodd ysgol genedlaethol, Llandeilo-Talybont (Pontarddulais), cyn symud ymlaen i Ysgol Llanymddyfri. Yna, roedd yn ysgolhaig, arddangoswr ac enillydd yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Graddiodd gyda gradd ail ddosbarth BA mewn Ieithoedd Modern a Llenyddiaeth yn 1884, a BD yn 1891. Cafodd ei ordeinio'n ddiacon yn 1885 ac yn weinidog yn 1886. Bu'n gyfrifol am dair curadiaeth yn esgobaeth Llanelwy, ym Mhontblyddyn, Llanllwchaearn, a Rhuthun. Yn 1901, fe'i penodwyd yn rheithor dros Cefn, tua phum milltir i'r dwyrain o Langollen.

Yn yr un flwyddyn, daeth Fisher hefyd yn llyfrgellydd yr eglwys gadeiriol dros Lanelwy. Yno y lluniodd gatalog llawysgrifol o'r casgliad. Gwnaed yn ganon ac yn sacristan yn 1916 ac yn ganghellor ar yr eglwys gadeiriol yn 1927. Yn 1921, cafodd ei benodi yn gaplan arholi'r Gymraeg i'r Archesgob Alfred George Edwards. Yn y rôl hon, byddai wedi bod yn gyfrifol am arholi ymgeiswyr ar gyfer eu hordeinio ac yn cynghori Edwards ynghylch eu haddasrwydd. Rhwng 1905 a 1909, roedd yn arholwr y Gymraeg yng Ngholeg Dewi Sant. Roedd yn aelod o gorff llywodraethu'r Eglwys yng Nghymru o 1917 ymlaen.

Roedd Fisher hefyd yn weithredol fel hanesydd lleol a hynafiaethydd. Ymunodd â Chymdeithas Archaeolegol Cambria yn 1899 a golygodd *Archaeologia Cambrensis* o 1917 hyd at 1925. Roedd yn ysgrifennydd cyffredinol y Gymdeithas rhwng 1914 a 1917 ac yn is-lywydd o 1925 ymlaen. Ysgrifennodd Fisher nifer sylweddol o erthyglau ar gyfer *Archaeologia Cambrensis.* Roedd y rhain yn cynnwys 'Some place-names in the locality of St Asaph' (6$^{ed}$ cyfres, c. 14, 1914); 'Wales in the time of Queen Elizabeth' (6$^{ed}$ cyfres, c. 15, 1915) a 'Bardsey Island and its saints' (7$^{fed}$ cyfres, c. 6, 1926).

Yn 1899, golygodd Fisher y llawysgrifau Cefn Coch, dwy lawysgrif bron â bod yn llawn o farddoniaeth, yn bennaf gan lenorion o ogledd Cymru. Fodd bynnag, ei brif waith llenyddol, a ysgrifennwyd ar y cyd â Sabine Baring Gould, oedd *The lives of the British saints.* Mae'r isdeitl yn diffinio cwmpas y gwaith: *The saints of Wales and Cornwall and such Irish saints as have dedications in Britain.* Casglodd y ddau awdur y traddodiadau a oedd yn gysylltiedig â'r seintiau cynnar, gan gynhyrchu trysor cudd o ffeithiau a storiau. Fodd bynnag, roedd Baring Gould a Fisher weithiau yn anfeirniadol o'u ffynonellau, ac yn tueddu i gyfuno seintiau anghysylltiedig ag enwau tebyg. Cafodd y chwe chyfrol yr ysgrifennwyd ganddynt eu cyhoeddi o dan nawdd yr Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion rhwng 1907 a 1913. Er gwaethaf eu cyfyngiadau, nid ydynt wedi'u disodli gan ffynhonnell debyg hyd yma. Mae'r gwaith wedi'i ymgyflwyno i bedwar ysgolhaig blaenorol a oedd wedi gweithio yn yr un maes; un ohonynt yw Rice Rees, athro cyntaf y Gymraeg yng Ngholeg Dewi Sant.

Aeth Fisher ymlaen i olygu detholiad o gyfnodolion a nodiadau taith yr oedd Richard Fenton (1747-1821), yr ysgrifennydd topograffig Cymreig, wedi'u gadael mewn llawysgrif. Cyhoeddodd Cymdeithas Archaeolegol Cambria y gwaith fel *Tours in Wales (1804-1813).* Golygodd Fisher *Allwydd Paradws* gan John Hughes hefyd. Ei waith olaf oedd argraffiad o gyfieithiad William Salesbury o'r efengylau a'r epistolau, *Kynniver llith a Ban.* Roedd y gwaith hwn yn y wasg pan fu farw Fisher.

Etholwyd Fisher yn Gymrawd y Gymdeithas Hynafiaethau yn 1918 a derbyniodd radd D.Litt. anrhydeddus gan Brifysgol Cymru yn 1920. Roedd yn aelod o'r Comisiwn Henebion (Cymru) ac o lys a chyngor Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Cynrychiolodd Gymdeithas Archaeolegol Cambria ar lys Llywodraethwyr Prifysgol Cymru ac ar ei Bwrdd Astudiaethau Celtaidd.

Mynychodd Fisher gyfarfod pwyllgor i Gymdeithas Archaeolegol Cambria yn Amwythig ar 9 Mai 1930. Bu farw yn sydyn iawn yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, yn nhŷ ei frawd, y Rheithordy, Pontfadog. Claddwyd Fisher ym mynwent eglwys gadeiriol Llanelwy.

**Ffynonellau**

Davies, E., (1959). Fisher, John (1862 - 1930), ysgolhaig Cymreig. *Y Bywgraffiadur Cymraeg*. Cyrchwyd ar 5 Mehefin 2020, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-FISH-JOH-1862

Y Parch. Ganghellor John Fisher, B.D., D.Litt., F.S.A. (1930). *Archaeologia Cambrensis, 1900 Journal of the Cambrian Archaeological Association.* 85, 225-226. Cyrchwyd o https://journals.library.wales/view/4718179/4734246/264#?xywh=-1711%2C-273%2C6439%2C3941

Price, D.T.W. (1977). *A History of Saint David's University College Lampeter. Volume one: to 1898.* Gwasg Prifysgol Cymru

Seintiau. *The saints.* (dd.) Cyrchwyd ar 12 Mai, 2020, o http://welshsaints.ac.uk/the-saints/

# Bill Foggitt

Yn genedlaethol, daeth Bill Foggitt (1913-2004) yn enwog fel daroganwr tywydd amatur, am fod ei ragfynegiadau, yn aml, yn fwy cywir na rhai'r daroganwyr tywydd proffesiynol.

Roedd Foggitt yn un o deulu o feteorolegwyr. Aeth ei hen dad-cu Thomas (tua 1810 i 1885) ati i astudio'r tywydd a ragflaenodd llif trychinebus yr afon Tees yn 1771. Gwnaeth grynhoi set o ystadegau, gan gynnwys tymheredd yr aer a chyfeiriad y gwynt. Roedd mab Thomas a thad-cu Bill, sef William, yn fotanegydd gweithredol, a dweud y gwir, daeth yn gymrawd y Gymdeithas Linneaidd yn 1903. Gwnaeth tad Bill, Benjamin, astudiaethau manwl ar ymddygiad adar. Dechreuodd Bill gadw cofnodion tywydd pan oedd yn ddeuddeg mlwydd oed, pan roddwyd iddo gan ei dad ddyddiadur ar gyfer bechgyn ysgol i'w lenwi, Mae ei gofnod cyntaf yn darllen fel a ganlyn 'Snow showers. King slightly better.' Yn drist, mae'r rhan fwyaf o gofnodion y teulu erbyn hyn wedi'u colli, er achubwyd rhai ohonynt gan Swyddfa Dywydd Bracknell.

Ganwyd Bill yn Thirsk, a mynychodd Ysgol Ramadeg Thirsk. Ar ymadael â'r ysgol, aeth i weithio i fusnes siop fferyllydd y teulu. Ond nid oedd e'n ddisgybl da, a datblygodd ddiddordeb mewn bod yn glerigwr. Cafodd ei hyfforddi i fod yn bregethwr lleyg gyda'r Methodistiaid, ond roedd ei ymdrechion i fod yn weinidog amser llawn yn fethiant llwyr. Gwnaeth drosglwyddo ei uchelgeisiau i'r eglwys Anglicanaidd, gan ymuno â Choleg Dewi Sant, Llambed yn 1939. Gwnaeth gwasanaethu yn y fyddin yng Ngogledd Affrica gyda Chorfflu Arfau'r Goron aflonyddu ar ei astudiaethau. Ond gwnaeth raddio gyda gradd BA yn 1946. Hefyd, ar Ŵyl San Steffan 1946, gwelodd ef a'i dad haid o adenydd cwyr yn bwyta aeron prennau celyn. Meddai ei dad fod hwn yn arwydd o aeaf garw o'u blaenau; roedd yr adar wedi ffoi rhag tywydd oer Sgandinafia. Ac yn wir, roedd gaeaf 1947 yn un o'r gaeafau caletaf a allai unrhyw un ei gofio. Ysgrifennodd y Foggitt ifanc lythyr i bapur newydd cenedlaethol; argraffwyd hwn ochr yn ochr â llun o aden gwyr.

Yn drist, un o nodweddion yr ychydig flynyddoedd nesaf oedd cyfres o siomedigaethau. Ar ôl cael ei wrthod i fod yn offeiriad Anglicanaidd, gweithiodd fel athro Saesneg ac Astudiaethau Crefyddol yn Ne Swydd Efrog ac yn Stoke-on-Trent. Eto'n aflwyddiannus, ymgymerodd â nifer o swyddi ym Mirmingham. Fe briododd ef Dora Winifred Kevan yn 1946; methodd eu priodas yn fuan wedyn a gwnaeth ef a Winifred wahanu. Ond am eu bod nhw'n Gristnogion ymroddedig, ni wnaethant ysgaru, a gwnaeth Foggitt hyd yn oed fynychu angladd ei wraig.

Yn 1966, dychwelodd Foggitt adref i Swydd Efrog. Nid oedd yn unig yn ddi-waith, ond gwnaeth bron â cholli coes mewn damwain ffordd y tu allan i'w gartref. Yng nghanol ei iselder ysbryd, awgrymodd ei fam ei fod e'n astudio'r cofnodion tywydd teuluol. Cyn bo hir, gwnaeth ei wybodaeth am lên gwerin cefn gwlad sicrhau bod ganddo fwy o ddilynwyr. Yna, dilynodd gyrfa hir o wibdeithiau, llythyrau, colofnau a darllediadau yn ymwneud â byd natur. Roedd ei ragfynegiadau yn seiliedig ar ymddygiad planhigion ac anifeiliaid, ac ar yr argyhoeddiad bod y tywydd yn beth cylchol. Gwnaeth cofnodion y teulu ddangos bod gaeaf garw yn dod bob pymtheg mlynedd, a haf poeth iawn bob dwy ar hugain mlynedd. Sylwodd Foggitt, pe bai'r gwennoliaid yn dychwelyd i Brydain yn gynnar ym mis Ebrill, byddai'r haf canlynol yn gynnes. Byddai brogaod yn silio yn rhan ddyfnaf pwll yn arwydd o gyfnod hir o dywydd sych. Byddai blodau yn cau eu petalau cyn cawodydd glaw er mwyn amddiffyn eu paill. Meddai wrth un cyfwelydd, 'I use pine cones for short-term forecasts … I have one hanging on the wall and when damp weather's coming or rain or wind, the scales close up …. Seaweed works too … The damp atmosphere acts on salts inside it.'

Yn 1980, gofynnwyd iddo wneud hicyn bob nos ar Deledu Swydd Efrog, sef Foggitt's Forecast. Daeth awr orau Foggitt yn 1985. Roedd y Swyddfa Dywydd wedi rhoi rhybudd bod y sbel bresennol o

dywydd oer yn mynd i barhau. Ond roedd Foggitt wedi gweld twrch daear yn rhoi ei drwyn uwchben yr eira, a blaguryn yn agor ar y jasmin gaeaf. Gwnaeth ragweld yn gywir y byddai tywydd cynhesach yn cyrraedd cyn bo hir. Yn fuan, gwnaeth teledu a radio cenedlaethol ei ogoneddu. Fel y Swyddfa Dywydd, methodd ragweld storm fawr 1987. Ond er hynny, roedd wedi sylweddoli y gallai fod gwyntoedd cryfion. Gwnaeth gofio bod 'My neighbour's cat, Blackie, went crackers, jumping up poles and into trees. That was a sure sign.' Yn 1990, cyhoeddodd Bwrdd Croeso Lloegr bamffled yn cynnwys pum deg o'i 'Be your own forecaster tips.' Gwnaeth British Telecom osod llinell er mwyn bod pobl yn gallu ffonio i mewn am 'Foggit's Forecasts.' Gwahoddwyd ef gan yr Athro John Gilbert o Brifysgol Reading i gymryd rhan mewn prosiect yn seiliedig ar synhwyro o hirbell mewn addysg uwch. Daeth hwn yn rhan o'r cwricwlwm gwyddoniaeth cenedlaethol.

Gwnaeth daroganwyr proffesiynol ystyried Foggitt gyda digrifwch amheugar. Ond roedd hyn cyn dyddiau cyfrifiaduron pwerus; yn aml, roedd ei ragfynegiadau mor gywir â rhai'r daroganwyr tywydd confensiynol. Gwnaeth un o gyflogeion Teledu Swydd Efrog, Bob Rust, gyfaddef bod rhagolygon Foggitt yn aml mor gywir, nes achosi pryder iddo ef a'i gydweithwyr pan nad oedd eu rhagfynegiadau nhw yn cyd-fynd â rhai Foggitt. Meddai dyn tywydd arall a oedd ar y teledu lleol wrtho, '… I'm obliged to say I don't agree with you even when I know you're probably right.'

Ymhen hir a hwyr, gwnaeth haul Foggitt fachlud. Roedd yn gweithio mewn maes annaroganadwy, ac roedd hi'n anochel y byddai ef yn gwneud camgymeriadau o bryd i'w gilydd. Yn 1993, methodd ragfynegi un o'r hafau gwlypaf erioed i gael eu cofnodi. Cafodd ei gam-drin yn llym gan ddarllenwyr a gwylwyr a oedd wedi dioddef deugain diwrnod o law yn olynol. Gwnaeth un ysgrifennwr llythyrau fygwth ei gael ef wedi'i saethu; teimlodd Foggitt y dylai ofyn i'r heddlu ei ddiogelu. Roedd ef yn amheugar ynglŷn â chynhesu byd-eang, gan bryderu'n fwy am y posibilrwydd o oes iâ fach gerllaw.

Nid oedd gan Foggitt ei hun lawer o ddiddordeb mewn arian na ffriliau enwogrwydd. Byddai ef a'i gyffeillion, a elwid yn Thirsk 'the Magic Circle', yn ymweld yn rheolaidd â'r dafarn The Three Tuns. Ei gymar arall oedd ei ddaeargi gwrychog, Polly. Meddai ei fywgraffydd, Mike Cresswell, amdano 'As long as he had enough in his pocket to get his pint in the local pub in Thirsk and to meet up with his friends, he was happy.'

Bu farw Foggitt yn Ysbyty'r 'Friarage', Northallerton ym mis Medi 2004. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys y Methodistiaid, St James, yn Thirsk. Yn grefyddol tan y diwedd, ef ei hun wnaeth ddewis y tri emyn. Meddai'r Parchedig Geoffrey Bruce, a wnaeth arwain y gwasanaeth, 'He reminded us of the world around us … He was a warm, open and quiet personality with a fund of stories about all sorts of things. He always had a twinkle in his eye and humour was always present.'

**Ffynonellau**


Bill Foggitt (2004, September 16). *The Times.* Adalwyd ar Dachwedd 17 2020 oddi wrth https://link.gale.com/apps/doc/IF0502700961/TTDA?u=nlw_ttda&sid=TTDA&xid=ce2144e7

Bill Foggitt: amateur weatherman who made predictions from plant and animal behaviour and often beat the Met Office. (2004, September 16). *Daily Telegraph* Adalwyd ar Dachwedd 17 2020 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/10525FE9B0499C4C?p=UKNB

Wainwright, M. (2004, September 18). Bill Foggitt. *The Guardian.* Adalwyd ar Dachwedd 17 2020 oddi wrth https://www.theguardian.com/news/2004/sep/18/guardianobituaries.obituaries

Brace, M. (1994, December 4). First-hand: how I knew all along it would be a warm November. *Independent.* Adalwyd ar Dachwedd 17 2020 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/131FE9113AF1D418?p=UKNB

Hortoris. (2016, May 23). Bill Foggitt old weather guru [Blog post]. Adalwyd ar Dachwedd 17 2020 oddi wrth https://www.godsowncounty.co.uk/yorkshire-folk/bill-foggitt-yorkshire-weather-guru/#:~:text=Bill%20Foggitt%20(1913%2D2004),than%20those%20of%20the%20professionals.

Chapman, H. (2004, September 18). Sunshine bathes church for funeral of weatherman Bill. Adalwyd ar Dachwedd 17 2020 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/10D85B5A632B5AF5?p=UKNB

# Bob Fonow



Mae Bob Fonow yn disgrifio ei hun yn rheolwr adfer cwmnïau, ac yn ddatryswr problemau corfforaethol; mae wedi bod yn ymgynghorydd ac yn fentor i weithredwyr a swyddogion llywodraethau yn Asia, y Dwyrain Canol, Ewrop a'r Unol Daleithiau.

Mae Fonow yn dod o Steubenville, Ohio; gwnaeth fynychu Uwchysgol Ganolog Gatholig Steubenville. Mae'n cofio'r is-bennaeth yn dweud wrtho y byddai ef bob amser yn unigolyn canolig, ac felly, roedd yn benderfynol na fyddai hwnnw'n digwydd! Ar ôl ymadael â'r ysgol, ymunodd ag Awyrlu'r Unol Daleithiau (UD). Rhoddwyd i weithio ar raglenni mathemateg a ffiseg; telathrebu a chyfathrebu data byddai ei wybodaeth dechnegol graidd am lawer o'i yrfa. Anfonwyd Fonow i Japan gyda Gwasanaeth Diogelwch yr Awyrlu, cyn gwasanaethu yn yr Eidal ac ym Mhrydain.

Ar ôl gwasanaethu am wyth mlynedd, ymadawodd Fonow â'r Awyrlu yn Suffolk, sef RAF Bentwaters, ym mis Awst 1976. Drannoeth, cyrhaeddodd yn Llambed i astudio hanes modern fel myfyriwr hŷn, a byddai 'GI Bill' yr UD (sef, y 'new deal for veterans') yn talu am hyn. Roedd ei flwyddyn gyntaf yn anodd, wrth iddo ddysgu sut i astudio ac ysgrifennu mewn Prifysgol Brydeinig. Ond ar ôl hynny, gwnaeth yn dda, a llwyddodd ennill bwrsari i astudio am radd MSc mewn Cysylltiadau Rhyngwladol yn Ysgol Economeg Llundain. Wrth i Fonow astudio, roedd ei wraig Brydeinig, Dorothy, wrthi'n gweithio fel gweithiwr cymdeithasol, yn gyfrifol am Lambed a rhannau o Geredigion. Ganwyd eu merch Nia dim ond deufis ar ôl i Bob sefyll ei arholiadau terfynol. Dilynwyd hi gan fab, Jay.

Ar ôl ymadael ag Ysgol Economeg Llundain, gwnaeth Fonow weithio fel Uwch-arolygydd Traffig Telathrebu gyda British Telecom International, gan symud ym mhen hir a hwyr i'r adrannau gwerthiannau, rheoli gwerthiannau a rheoli cyffredinol. Ond yn 1993, sefydlodd ef RGI Ltd, cwmni ymgynghorol sy'n cynghori rheolwyr ac sy'n darparu adferiadau, datrysiadau a thrawsnewidiadau busnes i gwmnïau mewn trallod o gwmpas y byd. Diffinnir adferiad fel techneg neu arfer rheoli sy'n ceisio diogelu gwerth cwmni mewn trallod. Mae RGI yn ceisio datrys y problemau a rhoi'r cwmni sy'n methu yn ôl ar y trywydd iawn, ac yn ôl i'w berchnogion. Datrysiad yw gorchwyl byrdymor ar gyfer datrys problem argyfyngus. Gall y broblem hon fod bron unrhyw sefyllfa annisgwyl sydd angen mynd i'r afael â hi yn gyflym ac yn effeithiol. Mae Fonow wedi dysgu bod y rhan fwyaf o broblemau yn codi naill ai oherwydd penderfyniadau gwael gan yr uwch reolwyr, neu oherwydd bod y prif weithredwyr yn cymryd mwy nag ydynt yn ei roi.

Mae aseiniadau Fonow wedi mynd ag ef i Tsieina, Japan, Rwsia, y Swistir a'r Dwyrain Canol. Yn ei farn ef, ei gyflawniad proffesiynol mwyaf oedd ei waith yn Iraq. O 2006 i 2008, bu'n Uwch Ymgynghorydd Adran Wladol yr Unol Daleithiau i Lywodraeth Iraq ar Delathrebu ac Ailadeiladu'r

Rhyngrwyd. Gwnaeth hyn gynnwys cydlynu timau o arbenigwyr rhyngwladol, gan gynnwys rhai o'r Unol Daleithiau ac Iraq. Roedd hwn yn un o lwyddiannau ailadeiladu, ac mae'n dal i weithio'n dda

Mae Fonow hefyd wedi gweithio ddwywaith fel ymgynghorydd technegol i Asiantaeth Masnach a Datblygiad yr Unol Daleithiau, yn Ramallah, ar y Lan Orllewinol, yn helpu'r Palestiniaid i ddatblygu eu systemau Rhyngrwyd a data.  Pan oedd yno, ddwywaith rhoddwyd iddo ganiatâd arbennig i weld Eglwys y Geni ym Methlehem, ac yn enwedig, y crypt a gaiff ei ystyried yn draddodiadol y man lle ganwyd Iesu Grist. Gwnaeth hyn olygu y cafodd ef weld sut mae pobl sy'n ymweld â'r man cysegredig hwn am y tro cyntaf yn ymateb. Yn ei farn ef, hwn oedd y profiad mwyaf rhyfeddol iddo gael erioed.

Yn ddiweddar, dychwelodd Fonow i'r Unol Daleithiau ar ôl byw yn Beijing am ddeng mlynedd, lle y bu'n gweithio fel cyfarwyddwr anweithredol i is-gwmni RGI yn Tsieina, sef Beijing Mao Rui. Yn ogystal â RGI China, mae Mao Rui hefyd yn rhedeg 'Discover Club', rhaglen ar ôl ysgol a gynhelir mewn rhan o'r ddinas lle y lleolir y brifysgol. Mae'r rhaglen hon yn paratoi myfyrwyr ar gyfer dyfodol sy'n gofyn am ruglder yn yr iaith Saesneg, yn ogystal â darparu ar eu cyfer cymysgedd o ddiwylliant ac addysg Tsieina a'r Gorllewin. Mae'r myfyrwyr mwyaf academaidd, sy'n debygol o astudio dramor, yn dilyn cwricwlwm traddodiadol, ond sy'n cael ei addysgu drwy gyfrwng yr iaith Saesneg. Caiff y sawl sy'n llai deallus fwy o ryddid. Mae'n bosibl i addysgu yn ôl diddordebau'r myfyriwr; roedd un llanc yn casáu Saesneg tan iddo ddysgu am rasio Fformiwla 1. Mae pob gwers yn cynnwys ymarferion geirfa ac ysgrifennu. Mae Fonow yn dal i addysgu bob dydd ar-lein, oherwydd, yn ei farn ef, mae hi'n ddyletswydd ar fusnesau a swyddogion sy'n dod i ddiwedd eu gyrfa i drosglwyddo gwybodaeth i'r cenedlaethau sy'n dilyn.

Er gwaethaf ei holl deithio, mae ei ddiddordeb yn Llanbed wedi parhau; medd ef ei fod wedi gadael ei galon yno. Ond erbyn canol y 1990au, daeth yn amlwg bod angen partner ar Lambed. Gwnaeth Fonow ymgysylltu llawer o weithiau ag Uwch Reolwyr Llambed, gan gynnig nifer o opsiynau er mwyn cefnogi cydweithrediad agosach rhwng Prifysgol Cymru, Llambed a Choleg y Drindod, Caerfyrddin. Ar y cychwyn, ni wnaeth y cynllun i sefydlu prifysgol ar gyfer Gorllewin Cymru ddwyn ffrwyth; roedd Y Drindod yn ei ystyried yn fwy fel cais i gymryd drosodd yn hytrach na chais i gyfuno. Gwnaeth syniadau Fonow ddylanwadu ar y cynllun a gafodd yn y diwedd ei ddefnyddio fel fframwaith cyfuno ar gyfer sefydlu Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Er mwyn cydnabod ei waith, yn 2012, gwnaethpwyd ef yn gymrawd anrhydeddus y brifysgol. Yn ei araith ar dderbyn yr anrhydedd hwnnw, gwnaeth sôn am yr hyn a elwid ganddo yn werthoedd Llambed a'r Drindod Dewi Sant: ymdrech a hunanddibyniaeth; bod yn agored i'r ffaith ei bod hi'n bosibl i ymarfer pob cred heb ragfarn; a gwedduster, nodwedd sy'n seiliedig ar garedigrwydd, ystyriaeth a thegwch.

**Ffynonellau**

Fonow, R. (2021). Bob Fonow [LinkedIn page]. LinkedIn. Adalwyd ar Ionawr 20 2021 oddi wrth https://www.linkedin.com/in/bobfonow/

Alumni spotlight. Bob Fonow '67. (2019). *The crusader newsletter.* Winter edition 2019. Adalwyd ar Ionawr 20 2021 oddi wrth P

Fonow, R. (2013). Honorary Fellowship 2012 – Degree Day Speech. *The Link extra.* Adalwyd ar Ionawr 20 2021 oddi wrth https://www.uwtsd.ac.uk/media/old-tsd-website/content/documents/alumni/lampetersociety/the_link2013.pdf

RGI Ltd. (2019). Revenue Growth Intl. Ltd. Adalwyd ar Ionawr 21 2021 oddi wrth http://www.rgiltd.com/

Fonow, R. (2016, December 6). Moving to America [Blog post]. Adalwyd ar Ionawr 21 2021 oddi wrth https://ncte.org/blog/2016/12/moving-to-america/

# Juliette Foster

Mae Juliette Foster wedi mwynhau gyrfa proffil uchel yn y cyfryngau, yn cyflwyno rhaglenni blaenllaw ar gyfer rhai o ddarlledwyr blaenllaw Prydain. Mae hi wedi bod yn ohebydd teledu, yn gyflwynydd teledu a radio, ac ar hyn o bryd mae hi'n rhedeg busnes cyfryngau a chyfathrebu, gan arbenigo mewn cymedroli cynadleddau, siarad yn gyhoeddus, darlledu a hyfforddi ar gyfer y cyfryngau.

Ganwyd Juliette yn y DU yn 1964 a gwnaeth fynychu Prifysgol Cymru, Llambed o 1982 i 1985, lle enillodd hi radd mewn Hanes/Hanes Eglwysig.

Ar ôl graddio, cafodd Juliette hyfforddiant fel Newyddiadurwraig Radio yng Ngholeg Argraffu Llundain. Yna, gweithiodd ar ei liwt ei hun fel gohebydd i Radio BBC Llundain, ac yn 1988, cafodd hi ei swydd gyntaf ar y teledu fel ymchwilydd i raglen materion cyfredol y BBC, *Brass Tacks*. Roedd Juliette yn un o chwech o bobl a gafodd eu dewis gan yr AACRT (Asian, African Caribbean Reporters Trust) i dderbyn hyfforddiant fel gohebydd teledu gyda'r BBC. Nod yr ymddiriedolaeth, a gafodd ei sefydlu gan lywodraethwr du cyntaf y BBC, Y Fonesig Jocelyn Barrow, oedd recriwtio a datblygu pobl ifanc o gymunedau lleiafrifol ethnig Prydain, a'u harwain at adeiladu gyrfaoedd yn y cyfryngau o fewn y Gorfforaeth.

Ymhen hir a hwyr, gwnaeth Juliette ymadael â'r BBC ac ymuno â'r orsaf deledu amser brecwast TV-am fel newyddiadurwraig gynhyrchu. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, fe ddyrchafwyd hi i'r rôl Gohebydd Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Dwyreiniol a Gorllewinol Lloegr. Pan gollodd TV-am ei etholfraint ddarlledu, gweithiodd Juliette fel gohebydd ar ei liwt ei hun, ac yn ddiweddarach, ymunodd hi â'r darlledwr o'r Unol Daleithiau, Bloomberg Business Television, lle gwnaeth hi gyflwyno sioeau bore, penwythnos a min nos.

Yn 2001, ymunodd hi â Sky News, ar y cychwyn fel cysylltwr busnes, ond aeth ymlaen i gyflwyno rhai o raglenni blaenllaw'r sianel, gan gynnwys *Live at Five, Sky News at Ten,* a'r rhaglen amser brecwast *Sunrise*, sydd wedi ennill sawl gwobr. Ar ôl ymadael â Sky News yn 2006, gwnaeth Juliette weithio ar ei liwt ei hun fel cyflwynydd busnes i'r BBC News Channel a BBC World. Hefyd, 2006 oedd y flwyddyn pan sefydlodd hi Magnus Communications, sy'n cynnig strategaethau a hyfforddiant ar gyfer y cyfryngau, yn ogystal â gwasanaethau darlledu a hwyluso cynadleddau. Fel Rheolwr Gyfarwyddwr, mae hi wedi dod â dros 30 o flynyddoedd o brofiad gyda hi i'r busnes ac wedi creu portffolio trawiadol gafaelgar o gleientiaid, gan gynnwys PWC, DMA, Black Rook Productions, SIBOS a'r OECD (Organisation for Economic Cooperation & Development).

Cafodd gwaith Juliette ei gydnabod yn ffurfiol gan y cawr o fanc HSBC a'r European Federation of Black Women Business Owners, a wnaeth ei hanrhydeddu â gwobr broffesiynol i gydnabod ei chyflawniadau. Cafodd ei hethol yn Bersonoliaeth Deledu'r Flwyddyn yn y dyfarniadau BEFTA 2014 am ei gwaith fel cysylltwr yn y sioe *This Day Live* sydd ar y sianel Affricanaidd Arise News.

Yn siaradwraig brofiadol ac yn gymedrolwr sydd â sgiliau cynadledda a chyflwyno dadleuon heb eu hail, mae Juliette yn berfformwraig fedrus.

Foster, J. (2016) *Juliette Foster.* Adalwyd oddi wrth http://www.juliettefoster.co.uk/

Wikipedia. *Juliette Foster* Adalwyd ar Fehefin 25 2020 oddi wrth

https://en.wikipedia.org/wiki/Juliette_Foster

London Speaker Bureau. *Juliette Foster.* Adalwyd ar Fehefin 25 2020 oddi wrth

https://londonspeakerbureau.com/speaker-profile/juliette-foster/

# Yr Hybarch Archddiacon Judy French

Mae Judith Karen "Judy" French (a anwyd ar Dachwedd 18 1960 yn Portsmouth) yn offeiriad Anglicanaidd Prydeinig. Mae hi wedi bod yn Archddiacones Dorchester, yn Esgobaeth Rhydychen, ers 2014.

Roedd French yn dair blwydd oed pan symudodd ei rhieni a'i brawd deunaw mis oed i Kenya oherwydd swydd ei thad fel peiriannydd telathrebu. Ar ôl plentyndod eidylaidd a dreuliwyd yn fforio parciau gêm a thraethau hyfryd, mynychodd French ysgol fonedd yn Bournemouth. Pan oedd hi'n bedair blynedd ar ddeg oed, derbyniodd hi fedydd esgob yn ei hen eglwys 'gartref', yn Portsmouth, ac ar orffen yn yr ysgol, symudodd yno, gan ennill Diploma Astudiaethau Busnes cyn dechrau ei bywyd gwaith fel clerc cyfrifon i gwmni yswiriant. Dechreuodd fynd i'r eglwys a chwarae rhan lawn ym mywyd yr eglwys ac yn yr addoli, gan ddod yn aelod ieuaf y Cyngor Plwyf Eglwysig pan oedd hi'n bedair ar bymtheg mlwydd oed. Yn ei hugeiniau cynnar, teimlodd French ei bod hi'n cael ei galw i i fod yn offeiriad ordeiniedig yn Eglwys Loegr. Ar ôl llwyddo pasio ei harholiad Lefel Uwch mewn Hanes drwy fynychu dosbarthiadau nos, anogwyd hi gan yr Eglwys i wneud cais am le mewn prifysgol fel myfyrwraig hŷn. Treuliodd dair blynedd yn astudio Diwinyddiaeth yng Ngholeg Dewi Sant Llambed ac yn canu'n rheolaidd yng Nghôr Capel y Coleg. Mae French yn cofio'r cyfnod hwnnw fel trobwynt allweddol yn ei thaith alwedigaethol: "Drwy gydol fy amser yn y brifysgol, roeddwn yn brwydro dros a oedd Duw yn fy ngalw i gael fy ordeinio, neu a'i syniad twp oedd y cyfan. Un diwrnod, roeddwn yn eistedd yng nghapel y coleg, wedi penderfynu fy mod wedi cael hen ddigon. Gofynnais i Dduw roi arwydd i mi o fewn y deng munud nesaf gan adael i mi wybod a oedd ef yn fy ngalw i fod yn offeiriad neu beidio. Bum munud wedyn daeth y caplan i mewn gan ddweud bod rhaid iddi fynd i rywle a gofyn a fyddwn innau'n fodlon cymryd y Foreol Weddi yn ei lle. A dyna fe."

Ar ôl graddio o Lambed yn 1989, cafodd hyfforddiant ar gyfer cael ei hordeinio yn St Stephen's House, Rhydychen, ac felly dechreuodd ei dyletswyddau gweinidogaethol fel diacones blwyf yn Esgobaeth Portsmouth (1991–1994). Cafodd French y fraint o fod yn rhan o eiliad hanesyddol, oherwydd, o'r ddwy ar bymtheg ar hugain o fenywod a oedd ymlith y cyntaf i gael eu hordeinio'n offeiriaid Eglwys Loegr yn Eglwys Gadeiriol Cofentri yn 1994, hi oedd un o'r ieuaf.



*Eglwys Gadeiriol Cofentri*
*DeFacto / CC BY-SA (https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0)*

Ar ôl cael ei hordeinio, gwnaeth wasanaethu fel curad cynorthwyol yn Esgobaeth Cofentri (1994–1997), ac yna fel Ficer yn Esgobaeth Rhydychen o 1997 tan 2014. Gwnaeth hefyd wasanaethu fel Deon Ardal Chipping Norton (2007–2012). Yn 2012, gwnaed hi'n Ganon Anrhydeddus o Eglwys Gadeiriol Christ Church, Rhydychen, ac ar Fehefin 19eg 2014, cafodd ei phenodi'n Archddiacones Dorchester mewn gwasanaeth a gynhaliwyd yn Eglwys Gadeiriol Christ Church, rôl y mae hi'n gwasanaethu ynddi hyd yn oed heddiw. Mae dyletswyddau French yn amrywiol ac yn cynnwys cyflwyno i'r esgob ymgeiswyr sydd am gael eu hordeinio, cynefino a sefydlu gweinidogion, cynnal ymweliadau â'r plwyfi, cynnal wardeniaid yr eglwys yn eu swyddi, darparu gofal bugeiliol a thai ar gyfer y clerigwyr, trafod cwynion a chwestiynau, ac ymweld â'r tri chant dau ddeg chwech o eglwysi sydd yn Archddiaconiaeth Dorchester. Medd French am ei gwaith: "Yn fy marn i, mae gwaith archddiacones yn canolbwyntio ar wasanaethu a chynnig cefnogaeth ac anogaeth i'n heglwysi, i'n clerigwyr, ac i'n pobl. Mae'r ffocws ar wasanaethu yn y rôl hon yn parhau i fod yn thema gref, ac mae gweithio ochr yn ochr â chymaint o unigolion talentog yn beth hyfryd."

**Ffynonellau:**


Church of England. (n.d.). *Archdeacon › The Glossary: Church of England Companion*. Adalwyd ar Fai 5 2020 oddi wrth https://www.churchofenglandglossary.co.uk/dictionary/definition/archdeacon

Diocese of Oxford. (n.d.-a). *Archdeacon Judy*. Diocese of Oxford. Adalwyd ar Fai 5 2020 oddi wrth https://www.oxford.anglican.org/who-we-are/dorchester/archdeacon-judy/

Diocese of Oxford. (n.d.-b). *Churches in Dorchester Archdeaconry*. Diocese of Oxford. Adalwyd ar Fai 5 2020 oddi wrth https://www.oxford.anglican.org/who-we-are/dorchester/dorchester-archdeaconry-churches/

Duckles, J. (2014, April 10). *God in the life of Judy French*. Diocese of Oxford. Adalwyd oddi wrth from https://www.oxford.anglican.org/god-life-judy-french/

Wilkipedia. (2020). Judy French. In *Wikipedia*. Adalwyd oddi wrth https://en.wikipedia.org/w/index.php?title=Judy_French&oldid=950245989

# R.H. Fuller

Roedd Reginald Horace Fuller (1915-2007) yn ysgolhaig Testament Newydd blaenllaw.

Roedd Fuller yn fab i Horace Fuller, peiriannydd amaethyddol, a'i wraig Cora Lottie Heath gynt. Daeth o Horsham, West Sussex, lle gwnaeth fynychu Ysgol Collyer. Roedd yn fachgen côr yn ei eglwys blwyf leol pan oedd rhwng naw a phymtheg mlwydd oed. Ar ôl ymadael â'r ysgol, aeth ymlaen i addysg uwch yng Ngholeg Peterhouse, Caergrawnt. Ar ôl ennill ei radd BA, treuliodd flwyddyn arall yn astudio ym Mhrifysgol Tübingen, man a oedd yn enwog am ei radicaliaeth Feiblaidd. Yn ddiweddarach gwnaeth hel atgofion am fod mewn ystafell fechan gyda grŵp o ddiwinyddion pan, yn sydyn, gwnaeth Adolf Hitler gerdded i mewn. Ar ddychwelyd adref, aeth i Goleg y Frenhines, Birmingham, i baratoi ar gyfer bod yn offeiriad. Pan oedd yno, gwnaeth gwrdd ag Ilse Barda, merch a oedd yn frodorol o Fienna; digwyddodd hyn yn ordeiniad cydfyfyriwr iddo a oedd wedi ffoi o'r Almaen. Priododd Fuller Ilse yn 1942; aethant ymlaen i gael tair merch, Caroline, Rosemary a Sarah.

Ordeiniwyd Fuller yn 1941; bu'n gurad yn Bakewell ac wedyn yn Ashbourne-with-Mapleton, Derbyshire. Yn dilyn hyn, dychwelodd i Firmingham; cyfunodd addysgu yng Ngholeg y Frenhines gyda gweithio fel curad yn Edgbaston. Ei rôl nesaf oedd fel Athro Diwinyddiaeth a Hebraeg yng Ngholeg Dewi Sant; gweithiodd yn Llambed o 1950 tan 1955. Cofiodd Ilse ei fod wedi dysgu 'Cymraeg y Llyfr Gweddi' er mwyn ei fod yn gallu cynnal gwasanaethau; bu'n weithredol yn y plwyfi o amgylch.

Cam nesaf Fuller oedd symud i'r Unol Daleithiau er mwyn bod yn Athro Llenyddiaeth ac Ieithoedd y Testament Newydd yn Athrofa Ddiwinyddol Seabury-Western, yn Evanston, Illinois. Wedi'i leoli ar lan ogleddol Llyn Michigan, roedd hwn yn lle braf i godi teulu a oedd yn tyfu. Ond ymhen hir a hwyr, roedd hi'n amser i symud ymlaen; yn 1966, penodwyd Fuller yn Athro Baldwin yn Athrofa'r 'Union', Efrog Newydd. Arhosodd yno am chwe blynedd cyn cael ei apwyntio yn Athro Molly Laird Downs yn yr Athrofa Esgobol yn Alexandria, Virginia. Arhosodd yn Virginia am weddill ei oes, gan ddod yn Athro Emeritws ar ymddeol yn 1985. Daeth yn ddinesydd Americanaidd yn 1995.

Yn ddiwinyddol, gwnaeth Fuller gyfuno meddwl yn feirniadol ag 'ymrwymiad cadarn i athrawiaethau uniongred yr eglwys.' Er enghraifft, gwnaeth wrthod safbwyntiau Bultmann ar ddadfythu, am fod y rhain, yn ei farn ef yn tanseilio'r hyn y mae'r Eglwys yn ei bregethu. Gwnaeth Fuller bwysleisio'r parhad di-dor rhwng y ddau destament. Er roedd yn cydnabod y llinynnau gwahanol a geir yn niwinyddiaeth y Testament Newydd, roedd hefyd yn gweld bod gan bregethu'r Crist Atgyfodedig ganol rhesymegol.

Ei lyfr cyntaf, a ysgrifennwyd ar y cyd gyda Richard Hanson, oedd *The Church of Rome: a dissuasive* (SCM Press, 1948). Meddai Stephen Neill 'This is a useful and timely book ... The writers are young crusaders, intelligent and well-read.' Pan oedd Fuller yn Llambed, cyhoeddodd *The Mission and Achievement of Jesus,* (SCM Press, 1954). Gwnaeth ddadlau bod yr Iesu, wrth yr hyn yr oedd yn ei ddweud a'i wneud, wedi gosod sylfaen diysgog y gellid adeiladu athrawiaeth yr apostolion arno'n gadarn. Gwnaeth Bream ei grynhoi fel a ganlyn 'This book is well worth careful study ... And the treatment is full, yet remains compact.' Nes ymlaen, ysgrifennodd Fuller ddilyniant iddo gan gyhoeddi *The Foundations of New Testament Christology,* (Lutterworth Press, 1965). Ei fwriad oedd adnabod ac ail-lunio'r gwahanol strata a wnaeth ddatblygu Cristoleg yr eglwys gynnar wrth iddi symud drwyddynt, o Jerwsalem y ganrif gyntaf i Gyngor Calcedon yn 451 Oed Crist. Yn 1966, cyhoeddodd Fuller *A Critical Introduction to the New Testament* (Duckworth); am ychydig, hwn oedd y testun safonol ym Mhrydain ac yn yr Unol Daleithiau. Meddai Rollins 'Professor Fuller has made

careful selection from a broad base of opinion, to produce a balanced and unified picture of NT literary and historical-critical scholarship today.'

Ym marn Fuller, dylid pregethu neges y Beibl bob dydd Sul. Yn *The Use of the Bible in Preaching* (Bible Reading Fellowship, 1981), gwnaeth sefydlu canllawiau cryno a sylfaenol ar gyfer esbonio a phregethu. Ei ddadl oedd bod gan y Beibl neges awdurdodol a dwyfol sydd i'w chael yn, ac sy'n cael ei mynegi drwy ei gymeriad dynol. Y ffordd i ddarganfod y neges hon yw drwy gyfwng sgiliau esboniadol da. Roedd Fuller ei hun yn enwog am roi pregethau byr ond dwys.

Roedd Fuller yn gyfieithydd ac yn awdur blaenllaw. Y llyfr cyntaf iddo drosi i'r Saesneg oedd clasur modern Dietrich Bonhoeffer, *The Cost of Discipleship*, (SCM Press, 1959). Pan oedd yn Llambed, gweithiodd ar argraffiad cyntaf *Letters and Papers from Prison,* (SCM Press, 1953). Mae Ilse, gwraig Fuller, wedi dweud , 'Books were hard to get during this post-war period, and we are happy to think that many people who might not have had a chance to do so otherwise heard about Bonhoeffer through Reg.' Mae'r gweithiau eraill y gwnaeth ef eu cyfieithu o'r Almaeneg yn cynnwys *Primitive Christianity* gan Bultmann a'i draethodau yn *Kerygma and Myth; Unknown Sayings of Jesus* gan Jeremia, a *Reverence for Life* gan Albert Schweitzer.

Roedd Fuller yn eciwmenydd gweithredol. Roedd yn aelod o Gomisiwn Ffydd a Threfn Cyngor Eglwysi'r Byd o 1957 i 1961, ac o'r sgyrsiau Esgobol-Lwtheraidd rhwng 1968 a 1980. Gwnaeth hefyd gynorthwyo sgyrsiau Lwtheraidd-Gatholig yn yr Unol Daleithiau. Yn ogystal, gwnaeth helpu gyda Chynhadledd Esgobion Catholig yr Unol Daleithiau ynghylch â'r llithlyfr. Yn 2001, rhoddwyd iddo'r Wobr Eciwmeniaeth flynyddol gyntaf gan Gonsortiwm Diwinyddol Washington. Roedd yn athro gwadd i wyth athrofa a choleg yn yr Unol Daleithiau, Canada ac Awstralia. Yn ogystal â derbyn sawl doethuriaeth anrhydeddus, roedd yn llywydd y Gymdeithas Astudiaethau Testament Newydd rhwng 1983-84.

Cwympodd Fuller ar Fawrth 25 2007 gan dorri ei glun, diwrnod ar ôl ei ben-blwydd yn naw deg a dwy oed. Bu farw ar Ebrill 4 yn dilyn cymhlethdodau'r llawdriniaeth. Meddai Martha J. Horne, deon Athrofa Ddiwinyddol Virginia amdano, 'Dr Fuller was a mentor to many, many students over the years who not only studied New Testament and Greek with him, but who witnessed his faithful life of prayer, study, fellowship, and devotion to family and friends."

**Ffynonellau**

Davies, J. (2007, May 24). Reginald Fuller – a theologian of stature. *Salisbury Journal.* Adalwyd ar Chwefror 10 2021 oddi wrth https://www.salisburyjournal.co.uk/news/1422958.reginald-fuller-a-theologian-of-stature/

The Rev Professor Reginald Fuller. (2007, April 26). *The Times.* Adalwyd ar Chwefror 10 2021 oddi wrth https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/IF0503524155/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=7bfbacac

Hultgren, A.J. & Hall, B. (eds.), *Christ and His Communities: Essays in Honor of Reginald H. Fuller.* (pp. 1-7). Adalwyd ar Chwefror 10 2021 oddi wrth

https://b-k.cc/book/1099268/5e5d89?redirect=160906215

Canon Reginald Horace Fuller. (2007, May 10). *Church Times.* Adalwyd ar Chwefror 11 2021 oddi wrth https://www.churchtimes.co.uk/articles/2007/11-may/news/uk/canon-reginald-horace-fuller

Rourke, M. (2007, April 18). Reginald Fuller, 92; biblical scholar. *Los Angeles Times.* Adalwyd ar Chwefror 11 2021 oddi wrth https://www.latimes.com/archives/la-xpm-2007-apr-18-me-fuller18-story.html

Neill, S. (1949). The Church of Rome, a dissuasive. By Richard Hanson and Reginald Fuller. S.C.M. Press. 8/6. *Churchman, 63*(2),108-109. Adalwyd ar Chwefror 11 2021 oddi wrth https://biblicalstudies.org.uk/pdf/churchman/063-02_108.pdf

Bream, H. (1955). *The Mission and Achievement of Jesus.* By REGINALD H. FULLER. ("Studies in Biblical Theology," No. 12.) Chicago: Alec R. Allenson, Inc., 1954, $1.25. *The Journal of Religion, 35*(4),255-256. Adalwyd ar Chwefror 11 2021 oddi wrth https://www.jstor.org/stable/1200853

Rollins, W.G. (1968). THE FOUNDATIONS OF NEW TESTAMENT CHRISTOLOGY. By Reginald H. Fuller. New York: Charles Scribner's Sons, 1965. 268 pp. $5.95. *Journal for the Scientific Study of Religion, 7*(1),155-156. Adalwyd ar Chwefror 11 2021 oddi wrth https://www.jstor.org/stable/1385148

Rollins, W.G. (1967). *A Critical Introduction to the New Testament,* by Reginald H. Fuller. London: Duckworth, 1966. Pp. ix+221. 15s. *Journal of Biblical Literature, 86*(2),229. Adalwyd ar Chwefror 11 2021 oddi wrth https://www.jstor.org/stable/3263285

Reginald H. Fuller 1915-2007. (2007). *SBL Forum Archive.* Adalwyd ar Chwefror 12 2021 oddi wrth https://www.sbl-site.org/publications/article.aspx?articleId=665

# Annie Garthwaite



Gadawodd Annie Garthwaite yrfa 30 mlynedd ym maes busnes rhyngwladol i ddod yn nofelydd hanesyddol.

Magwyd Garthwaite mewn ardal dosbarth gweithiol yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr. Mae hi'n disgrifio ei thad fel 'dyn undeb a sosialydd o'i ben i'w draed'. Ar ôl rhoi'r gorau i'w galwedigaeth wreiddiol fel nyrs pan briododd, gwnaeth ei mam amrywiaeth o swyddi dinod. Fodd bynnag, dysgodd Garthwaite sut i ddarllen ymhell cyn dechrau yn yr ysgol. Roedd ei mam yn mwynhau straeon ac am rannu hyn gyda'i merch. Erbyn i Annie droi'n ddeg oed, byddai'n darllen beth bynnag yr oedd ei mam yn ei ddarllen, yn aml sagâu teuluol gan Catherine Cookson neu hanesion rhamantaidd gan Jean Plaidy a Georgette Heyer.

Er gwaethaf llwyddo yn yr arholiad 11+, mynychodd Garthwaite yr ysgol dros yr heol i'w chartref. Roedd hon yn hen ysgol uwchradd fodern a oedd wedi dod yn ysgol gyfun y flwyddyn flaenorol. Fel arfer, roedd bechgyn yn disgwyl cael eu cyflogi yn y gwaith dur, a merched i adeiladu cyfnewidfeydd ffôn ar gyfer Siemens. Fodd bynnag, bendithiwyd Garthwaite gydag athro hanes ysbrydoledig, Keith Hill, a oedd yn 'dysgu hanes fel y digwyddodd ddoe'. Yn falch o gael disgybl â diddordeb am unwaith, dechreuodd roi llyfrau ychwanegol i Garthwaite. Trwy astudio Rhyfeloedd y Rhosynnau ar gyfer Hanes Safon Uwch y gwnaeth hi glywed am Rhisiart III am y tro cyntaf. Sylweddololodd hi hefyd nad yw'r gorffennol 'yn sefydlog, yn ddiffiniol neu'n unigol. Mae'n ddeunydd crai stori, y mae modd ei ddehongli, ymchwilio iddo, a'i ailadrodd.'

Roedd Garthwaite yn un o'r disgyblion cyntaf o'i hysgol i fynd ymlaen i'r brifysgol. Astudiodd Lenyddiaeth Saesneg yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Ar ôl graddio, dechreuodd yrfa ym maes busnes; erbyn iddi fod yn ei thridegau, roedd hi'n arwain cyfathrebiadau Ewropeaidd ar gyfer cwmni rhyngwladol Americanaidd. Mae'n dweud, 'Rwy'n cofio braidd dim merched eraill ar fy lefel reoli, dim ond ychydig yn y cwmni drwyddo draw. Roeddwn yn dysgu'n uniongyrchol sut mae menywod yn arfer pŵer mewn amgylcheddau lle mae dynion yn dominyddu.' Yn 1998, sefydlodd Garthwaite ei chwmni cyfathrebu a marchnata ei hun, sef Annie Garthwaite Communications Limited. Fodd bynnag, drwy'r amser, gwnaeth ei hangerdd dros hanes ac adrodd straeon barhau. Gwnaeth hi addo iddi ei hun y byddai'n rhoi'r gorau i weithio ar ôl troi'n 55 oed a

dechrau ysgrifennu. Yn 2017, dechreuodd Prifysgol Warwick i astudio am MA mewn Ysgrifennu Creadigol.

Roedd diddordeb Garthwaite mewn Rhisiart III wedi parhau. Yn 2012, ymwelodd hi â'r maes parcio enwog yng Nghaerlŷr i weld y twll lle cafodd ei gorff ei ddarganfod. Tair blynedd yn ddiweddarach, safodd hi y tu allan i Eglwys Gadeiriol Caerlŷr i wylio ei angladd ar sgrin fawr. Fodd bynnag, ochr yn ochr â hyn, roedd hi wedi datblygu diddordeb cryfach byth mewn mam Rhisiart, sef Cecily Neville (1415–1495), yr unig brif gymeriad i fyw trwy gyfnod cyfan Rhyfeloedd y Rhosynnau. Yn 2017, cyhoeddodd hanesydd, Joanna Laynesmith, ei bywgraffiad, *Cecily Duchess of York* (Bloomsbury Academic, 2017). Mae Garthwaite yn disgrifio mynd ar ofyn Laynesmith i gael cinio gyda hi; siaradodd y ddwy fenyw tan amser swper. Mae hi'n dweud y sylweddolodd y gallai Cecily roi gwers i unrhyw un o ran sut i weithredu mewn byd dynion.

Treuliodd Garthwaite dair blynedd yn ysgrifennu ei nofel *Cecily* (Penguin, 2021). Mae'r stori'n dechrau yn 1431, pan fo Cecily yn 16 oed, ac yn gorffen yn 1461, pan ddaw ei mab hynaf yn frenin fel Edward IV. Gwelir Neville yn gwneud popeth y gall i lywio dyfodol ei theulu a'i gwlad, naill ai trwy ddiogelu priodasau manteisiol i'w phlant neu drwy ysgrifennu at y frenhines, sef Marged o Anjou, er mwyn ceisio adfer ei gŵr i ffafr y brenin. Mae Garthwaite ei hun yn dweud, ‘Nid wyf am ichi gredu bod Cecily yn dda. Rwyf am ichi gredu ei bod yn eithriadol … Mae'n rhannol oherwydd ei bod mor frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant nad yw'n gweld ei hun yn glir o gwbl weithiau.’ Cymaint oedd llwyddiant y llyfr y cafodd ei enw fel dewis gorau gan *The Times* a *Sunday Times*. Dywedodd Antonia Senior, ‘Mae Cecily ei hun yn gymeriad cryf wedi’i dynnu’n dda sy’n dod yn fyw yn y cyhoeddiad cyntaf cyfareddol hwn. Rydym yn edrych ymlaen at glywed mwy gan Annie Garthwaite a Cecily.’ Ysgrifennodd Linda Hill, ‘Am nofel hanesyddol anhygoel y mae Cecily. Mae'n eithaf anodd credu bod Cecily yn nofel gyntaf gan ei bod wedi'i hysgrifennu mor gymhellol … Ond yr hyn sy’n rhoi mantais i Cecily gan Annie Garthwaite yw’r ffeministiaeth; y mewnwelediad i fenyw gref mewn byd o ddynion, a'i gwerthfawrogi.’

Mae Garthwaite yn gweithio ar ddilyniant a fydd yn parhau â stori Cecily ar ôl i'w mab hynaf ddod yn frenin fel Edward IV. Dywed, ‘Pa bynnag safbwynt a gymeraf ar rai o’r materion dadleuol, rwy’n siŵr o wylltio rhai gyda’r ail lyfr. Nid yn unig y byddwn yn ysgrifennu am Cecily ond am ei phlant, gan gynnwys Rhisiart III, sydd deyrn mwyaf dadleuol Lloegr wedi'r cwbl.’

Mae Garthwaite yn byw gyda'i phartner a chasgliad o anifeiliaid, yn agos i gadarnle Iorcaidd Llwydlo.

**Ffynonellau**

Garthwaite, A. (2021). ‘Annie Garthwaite’. Cyrchwyd ar 9 Medi 2021 o https://www.anniegarthwaite.com/about

Garthwaite, A. (2021). ‘Annie Garthwaite’. [Tudalen LinkedIn]. LinkedIn. Cyrchwyd ar 9 Medi 2021 o https://www.linkedin.com/in/anniegarthwaite/

Lavelle, E. (19 Awst 2021). ‘“I don’t want you to think Cecily is good; I want you to think she’s extraordinary,” – an interview with “Cecily” author, Annie Garthwaite’. *Nothing in the Rulebook.* Cyrchwyd ar 9 Medi 2021 o https://nothingintherulebook.com/2021/08/19/i-dont-want-you-to-think-cecily-is-good-i-want-you-to-think-shes-extraordinary-an-interview-with-cecily-author-annie-garthwaite/

‘Cecily by Annie Garthwaite’ (2 Awst 2021). *She reads novels.* Cyrchwyd ar 10 Medi 2021 o https://shereadsnovels.com/2021/08/02/cecily-by-annie-garthwaite/

Senior, A. (7 Gorffennaf 2021). 'The best new historical fiction for July 2021 – a game of love in the court of James I – Antonia Senior picks historical tales from England, France, Russia and Trinidad'. *The Times.* Cyrchwyd ar 10 Medi 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&t=&sort=YMD_date%3AD&fld-base-0=alltext&maxresults=20&val-base-0=%22annie%20garthwaite%22&docref=news/18397BE5D74A1CC8#copy

Hill, L. (29 Gorffennaf 2021). 'Cecily by Annie Garthwaite'. *Linda's Book Bag.* Cyrchwyd ar 10 Medi 2021 o https://lindasbookbag.com/2021/07/29/cecily-by-annie-garthwaite/

# Yr Athro William Gibson



Mae William Thomas Gibson yn athro hanes eglwysig ym Mhrifysgol Oxford Brookes, ac yn awdur cynhyrchiol.

Addysgwyd Gibson yn Ysgol Ramadeg Huish, Taunton. Aeth ymlaen i astudio ym Mhrifysgol Cymru, Llambed, lle y bu'n ysgolhaig Butler o 1978 i 1982. Am fod yr ysgoloriaeth hon werth £60 y flwyddyn, roedd yn ychwanegiad sylweddol at y grant yr oedd yn ei gael. Gwnaeth Gibson raddio gyda gradd BA mewn hanes. Yna, gwnaeth ymgymryd ag astudio am radd MA, gan ysgrifennu thesis gyda'r teitl *The diocese of Bath and Wells in the eighteenth century.* Ar ôl hyn, cafodd hyfforddiant fel athro yng Ngholeg Lincoln, Rhydychen. Gwnaeth Gibson addysgu hanes a gwleidyddiaeth am un ar ddeg o flynyddoedd yn Gosport a Southampton. O 1992 i 2004, bu hefyd yn arolygwr cofrestredig addysg bellach i AEM (HMI), Cyngor Cyllido Addysg Bellach (FEFC), ac Ofsted. Er gwaethaf hyn oll, llwyddodd ysgrifennu ei PhD, *The family and the church in the eighteenth and nineteenth centuries.* Dyfarnwyd y radd hon iddo gan Brifysgol Middlesex yn 1994. Rhoddwyd iddo hefyd radd DLitt gan Brifysgol Cymru yn 2003.

O 1994 i 2004, gweithiodd Gibson i Goleg Technoleg Basingstoke, yn gyntaf fel cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr, ac yna fel pennaeth y Gyfadran Gelfyddydau a Gwasanaethau Proffesiynol. Yn dilyn hyn, aeth yn ôl i weithio llawn amser ym myd academia. Bu'n Gyfarwyddwr Academaidd Dysgu Gydol Oes ym Mhrifysgol Oxford Brookes o 2004 tan 2008; ers 2008, mae wedi bod yn gyfarwyddwr Canolfan Methodistiaeth a Hanes Eglwysig Rhydychen. Dyrchafwyd i athro yn 2006.

Llyfr cyntaf Gibson oedd *Church, state and society, 1760-1850,* a gyhoeddwyd yn 1994, fel rhan o'r gyfres 'British history in perspective'. Mae wedi mynd ymlaen i ysgrifennu nifer o lyfrau sy'n disgrifio'n bennaf hanes yr eglwys yn ystod yr 17$^{eg}$ a'r 18$^{fed}$ ganrif, gan ganolbwyntio ar Anglicaniaeth. Mae Gibson wedi ceisio herio'r llun traddodiadol sydd gennym o Eglwys Loegr yn ystod y 18$^{fed}$ ganrif hir fel un a oedd yn fydol, yn ddiog ac yn llygredig. Mae wedi cyflwyno llun mwy cytbwys, gan ddisgrifio'r eglwys yn un a oedd wedi'i threfnu'n effeithiol, yn addasadwy ac yn un a oedd wedi ymrwymo ei hun i ymgymryd â gwaith bugeiliol effeithiol. Llyfr mwyaf diweddar Gibson yw *Sex and the church in the long eighteenth century*, a ysgrifennwyd mewn cydweithrediad â Joanne Begiato, ac a gyhoeddwyd yn 2017. Yn *Enlightenment prelate, Benjamin Hoadly, 1676-1761,* ysgrifennodd Gibson astudiaeth bwysig ar un o esgobion eglwys Loegr a gafodd ei wawdio fwyaf. Mae Nockles wedi disgrifio'r llyfr fel 'fascinating, scholarly, exhaustively researched, yet not always persuasive.' [1] Mae Gibson hefyd wedi ysgrifennu am hanes Coleg Dewi Sant; ef hefyd oedd awdur *In a class by itself: the fight for survival of St David's College, Lampeter,* a gyhoeddwyd yn 2007. Cyfrannodd bennod ar Lambed, sef 'Thomas Frederick Tout at Lampeter: the making of a historian'

at y gyfrol *Thomas Frederick Tout: refashioning history in the twentieth century,* a olygwyd gan Caroline M. Barron a Joel T. Rosenthal, ac a gafodd ei chyhoeddi yn 2019.

Mae Gibson wedi golygu nifer mawr o lyfrau, rhai ohonynt yn weithiau safonol. Gwnaeth ef a John Morgan-Guy olygu *A history of religion in the diocese of St David's 1485-2011,* a gyhoeddwyd yn 2015 (hwn oedd hanes cyntaf esgobaeth Dewi Sant i gael ei gyhoeddi ers 1888). Ynghyd â Keith A. Francis, gwnaeth Gibson olygu *The Oxford handbook of the British sermon, 1689-1901,* a gafodd ei gyhoeddi yn 2012. Y gyfrol fwyaf diweddar iddo ei golygu yw *Teleology and modernity* (2019); ei gyd-olygyddion oedd dau academydd arall o Brifysgol Oxford Brookes, Dan O'Brien a Marius Turda.

Mae Gibson wedi ysgrifennu llawer o erthyglau ar gyfer cyfnodolion, yn ogystal â phenodau llyfrau, ar destunau sy'n amrywio o hanes prifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt i gyfenwau Prydain a theulu John Wesley. Yn ogystal â hyn, mae wedi cyfrannu sawl erthygl at *Oxford dictionary of national biography;* mae'r rhain yn cynnwys darnau am John Baskett, argraffydd y brenin; Bernard Gardiner, Is-ganghellor Prifysgol Rhydychen; a Lewis Bagot, esgob Bryste, Norwich a Llanelwy.

Mae Gibson yn gymrawd Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau, y Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol, y Gymdeithas Burgon a'r Gymdeithas Hynafiaethwyr. Mae'n golygu'r *Journal of religious history, literature and culture,* sy'n cael ei gyhoeddi gan Wasg Prifysgol Cymru. Gan ddechrau yn 2012, mae wedi cadeirio bwrdd golygyddol y gyfres Routledge Methodist studies. Mae'n aelod o gyngor Cymdeithas Gofnodion Swydd Rydychen. Mae wedi bod yn athro gwadd, yn ymweld â Phrifysgol Sassari, Sardinia, a Phrifysgol Claremont-Auvergne.

Mae Gibson yn gydweithredwr tymor hir i John Morgan-Guy - cymrawd ymchwil anrhydeddus Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae'n un o gefnogwyr mwyaf ymroddedig Llambed, ac mae'n gyfrannwr at *The Link,* cylchgrawn Cymdeithas Llambed.

**Cyfeirnodau**

1. Nockles, P. (2005). *The English Historical Review, 120*(486), 474-476. Adalwyd ar Fehefin 4, 2020, oddiwrth from www.jstor.org/stable/3490954

# Sophie Gilliat-Ray



Sophie Gilliat-Ray yw cyfarwyddwr Canolfan Astudiaethau Islam yn y DU ac Athro Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddol Prifysgol Caerdydd.

Astudiodd Gilliat-Ray yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llambed fel myfyrwraig israddedig ac ôl-raddedig. Enillodd hi radd dosbarth cyntaf mewn Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol, ac yna gradd MA (gyda rhagoriaeth) mewn Astudiaethau Rhyng-ffydd. Dyfarnwyd iddi ei PhD yn 1994, am thesis o'r enw *Perspectives on the Religious Identity of Muslims in Britain.*

Ar ôl ymadael â Llambed, treuliodd Gilliat-Ray dair blynedd ym Mhrifysgol Warwick, fel cymrawd ymchwil yn yr Adran Gymdeithaseg ac fel tiwtor rhan amser yn yr Athrofa Addysg. Yn 1998, symudodd i Brifysgol Exeter, eto fel cymrawd ymchwil Cymdeithaseg. Yna, yn 1999, symudodd i Ysgol Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddol Prifysgol Caerdydd. Treuliodd hi bum mlynedd fel cymrawd ymchwil yno cyn dod yn ddarlithydd ac yna, yn uwch ddarlithydd. Penodwyd hi'n athro yn 2013.

Mae ymchwil Gilliat-Ray wedi canolbwyntio ar astudio'n wyddonol ac yn gymdeithasol rôl crefydd ym mywyd cyhoeddus Prydain, yn enwedig mewn sefydliadau cyhoeddus. Mae ei gwaith yn hyrwyddo gwell ddealltwriaeth am Islam a bywyd cymunedau Mwslimaidd ym Mhrydain. Yn 2005, sefydlodd hi 'Canolfan Astudiaethau Islam y DU'. Meddai hi, 'I set up the Centre because I felt there was nowhere in the UK that gave a grassroots approach to the study of Muslim communities in Britain. There are Islamic Studies departments at Exeter, Durham, Oxford and Cambridge universities, but they don't focus on the grassroots to the same level.' Mae'r Ganolfan wedi tyfu i fod y sefydliad academaidd blaenaf o ran ymchwilio i, ac addysgu am Islam a Mwslimiaid ym Mhrydain. Mae'r pynciau sydd wedi cael eu harchwilio gan y ganolfan yn cynnwys gwaith gan ysgolheigion cyfreithiol Islamaidd ym Mhrydain, 'Gerddi Islamaidd' yn y DU, a gwaith caplaniaid ac imamiaid Mwslimaidd. Yn 2013, cyflwynodd y ganolfan MOOC (Massive Open Online Course) cyntaf Prifysgol Caerdydd o'r enw *Muslims in Britain: changes and challenges.* Gwnaeth y cwrs atynnu dros 22 000 o ddysgwyr.

Gilliat-Ray yw  awdures *Muslims in Britain: an Introduction,* (Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 2010). Ei bwriad oedd 'to provide an accessible introduction to the history, the institutions and the diversity among Muslims in Britain, drawing upon the academic scholarship of the past three decades.' Mewn adolygiad a gyhoeddwyd yn *Journal of Contemporary Religion,* meddai Mckinney, 'This is an

important book that provides a thoughtful and illuminating introduction to Muslim Britain.' Gilliat-Ray yw prif awdures *Understanding Muslim Chaplaincy,* a gyhoeddwyd gan Ashgate yn 2013. Seiliwyd y llyfr ar 'the first major empirical study of Muslim chaplaincy undertaken to date'; cyfwelodd yr ymchwilwyr â 65 o gaplaniaid sy'n weithredol mewn amrywiaeth o wahanol sectorau. Yn ysgrifennu yn y *Journal of Pastoral Care & Counselling,* mae Long yn disgwyl i'r gyfrol hon i barhau yn waith hanfodol am flynyddoedd i ddod. Yn ychwanegol i hyn, Gilliat-Ray yw hefyd awdures llawer o benodau mewn llyfrau ac erthyglau mewn cyfnodolion.

Bu Gilliat-Ray yn aelod o'r Comisiwn ar Islam, Cyfranogiad a Bywyd Cyhoeddus (2015-2017), a gafodd ei gadeirio gan Y Gwir Anrhydeddus Dominic Grieve QC. Yn benodol, gwnaeth hi arwain yr is-grŵp o arweinwyr Mwslimaidd. Meddai, 'We will be talking to Muslims and probing what the issues are and what the barriers to public life are … We want to come back with useful, practical suggestions, not just report back.' Gwnaeth yr adroddiad terfynol argymell bod llywodraeth Prydain yn mabwysiadu diffiniad o ragfarn wrth-Fwslimiaid, yn ogystal â chomisiynu adolygiad annibynnol o'r rhaglen 'Prevent'. Yn gyfnewid am hyn, gwnaeth yr adroddiad hefyd argymell gwell arweinyddiaeth o fewn cymunedau Mwslimaidd, gan gynnwys penodi imamiaid a anwyd ym Mhrydain.

Ym mis Mawrth 2005, gwobrwywyd Gilliat-Ray â 'Gwobr Rhagoriaeth' gan *The Muslim News* am ei gwaith ym maes addysg. Etholwyd hi yn aelod o Gymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2019, ac mae hi hefyd yn aelod o'r Panel REF 2021 ar Ddiwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol. Dyfarnwyd iddi OBE yn Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Frenhines 2020 am ei gwasanaethau i addysg ac i'r gymuned Fwslimaidd yn y DU.

**Ffynonellau**

Cardiff University. (n.d.). Professor Sophie Gilliat-Ray. Adalwyd ar Fehefin 25 2020 oddi wrth https://www.cardiff.ac.uk/people/view/73020-gilliat-ray-sophie

Cardiff University. (n.d.) Centre for the Study of Islam in the UK. Adalwyd ar Fehefin 25 2020 oddi wrth http://sites.cardiff.ac.uk/islamukcentre/about/

Wightwick, A. (2015, October 1). Academic who is reaching out to Britain's alienated Muslims – when she set up the Islam UK Centre in 1995, Professor Sophie Gilliat-Ray hoped to forge links between communities – links which are even more vital today with the rise of radicalisation and Islamophobia. *Western Mail.* Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/15834E55F589D368?p=UKNB

Mckinney, S.J. (2012). [Review of the book *Muslims in Britain: an introduction*, by S. Gilliat-Ray]. *Journal of contemporary religion.* 27(2). Adalwyd oddi wrth https://columbiacollege-ca.libguides.com/apa6/bookreviews

Long, I.J. (2015). [Review of the book *Understanding Muslim chaplaincy,* by S. Gilliat-Ray, M. Ali and S. Pattison]. *Journal of pastoral care & counselling.* 69(3),186-187. Adalwyd oddi wrth https://journals-sagepub-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/full/10.1177/1542305015594339

Vale, J. (2017, Jul 3). Government urged to agree formal definition of anti-Muslim prejudice to tackle discrimination - Independent report on 'Unlocking British Muslim Potential' stresses need to define hate crimes against followers of Islam in the same way anti-Semitism was demarcated last year. *Independent, The/The Independent on Sunday: Web Edition Articles*. Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/1665CFBBC98783A0?p=UKNB

# Michael Greed



© Philippe Gueissaz

Chwaraeodd Michael Greed ran yn y broses o gyfieithu'r Beibl i'r Dartareg, iaith a siaredir gan dros bum miliwn o bobl yn y Rwsia Ewropeaidd ac yn Siberia.

Daeth Greed i Goleg Prifysgol Dewi Sant yn 1978 i astudio Saesneg a Diwinyddiaeth. Yn ystod ei gyfnod yn Llambed, bu gyntaf yn drysorydd, ac yna yn ysgrifennydd yr Undeb Gristnogol. Enillodd radd dosbarth 2:1 yn 1981.

Yn 1988, priododd Greed â Teija Vormisto, merch a oedd yn frodorol o Tampere, a leolir yng ngorllewin y Ffindir. Y flwyddyn ganlynol, gwnaeth ef a Teija ymuno â Chyfieithwyr Beibl Wycliffe. Cawsant eu trosglwyddo'n fuan i SIL International, sefydliad partner Wycliffe. Mae SIL yn diffinio ei hun fel 'global, faith-based nonprofit [organization] that works with local communities around the world to develop language solutions that expand possibilities for a better life. SIL studies, develops and documents languages, particularly lesser-known languages. It aims to expand linguistic knowledge, promote literacy and translate the Bible into people's 'heart language.' Gall gweithgareddau SIL gynnwys asesu a dogfennu ieithoedd, ynghyd â llythrennedd ac addysg, a darparu adnoddau iechyd a datblygu cymunedau. Mae rhai o'r grwpiau iaith yn fach iawn; yn ddiweddar, er enghraifft, rhestrwyd yr iaith Orok, gyda 47 o siaradwyr yn unig, a'r iaith Ket gyda dim ond 210 o siaradwyr.

Yn 1991, symudodd Michael, Teija a'u merch fach chwe mis oed i Leningrad, (St Petersburg bellach). Yna, ddwy flynedd yn ddiweddarach, gwnaethant symud eto i Kazan sydd yng nghanol Rwsia (erbyn hyn gyda mab bach yn ogystal â merch). Eu bwriad oedd dysgu Tartareg er mwyn iddynt fod yn gallu cymryd rhan yn y prosiect i gyfieithu'r Beibl i'r iaith honno. Wedi'i lleoli yn agos i gydlifiad yr afonydd Volga a Kazanka, Kazan yw prifddinas gweriniaeth Rwsiaidd Tatarstan. Mae cyfansoddiad Tatarstan yn ei diffinio'n weriniaeth amlhiliol; mae ganddi ddwy iaith swyddogol, Rwseg a Thartareg. Y grwpiau ethnig mwyaf yw'r Tartariaid (sy'n bobl Dyrcig) a'r Rwsiaid. Mae'r wyddor a ddefnyddir ar gyfer Tartareg wedi amrywio dros y blynyddoedd. Yn 1927, dechreuwyd i ddefnyddio'r wyddor Ladin yn swyddogol ar gyfer y Dartareg yn hytrach na'r wyddor Arabeg. Ond ar ddiwedd y 1930au, cafodd lle'r wyddor Ladin ei gymryd gan yr wyddor Syrilig. Yn fwy diweddar, sbardunodd perestroika ymdrech weithredol i atgyfodi hunaniaeth genedlaethol, diwylliant ac iaith y Tartariaid.

Roedd rhai rhannau o'r Beibl wedi cael eu cyfieithu i'r Dartareg yn ystod y 19$^{eg}$ a'r 20$^{fed}$ ganrif gynnar. Ond ar ôl cwymp yr Undeb Sofietaidd, gwnaeth yr Institute of Bible Translation, SIL International a'r

Cymdeithasau Beibl Unedig greu tîm i gyfieithu'r Beibl cyfan i'r Dartareg, gan weithio ar yr Hen Destament a'r Testament Newydd ar yr un pryd. Cyhoeddwyd yr *Incil* (Y Testament Newydd) yn 2001; argraffwyd copïau cyntaf y Beibl cyfan, sef yr *Izge Yazma*, yn 2016. Mae Greed wedi ysgrifennu ar sut y gwnaeth cyfieithu testunau hynafol i'r Dartareg gyfoethogi'r iaith honno a'i chapasiti. Mae'r Beibl yn cynnwys ysgrifeniadau sy'n cynrychioli amrywiaeth eang o genres llenyddol; roedd rhai ohonynt, er enghraifft barddoniaeth Hebraeg, gyda'i chyffelybiaeth nodedig, yn anghyfarwydd yn y Dartareg. Roedd y Beibl Tartareg yn cynnwys nifer o eiriau, cysyniadau ac ymadroddion newydd (er enghraifft, 'imandaş' sydd ganddo'r ystyr 'cyd -gredwr'. Ystyr 'iman' yw 'ffydd', ac mae 'daş' yn cyfleu 'profiad a rennir'). Meddai adolygydd academaidd fod yr *Izge Yazma* wedi ehangu gallu'r iaith Dartareg i gyfleu amrywiaeth o dermau a chysyniadau, yn ogystal â chyfrannu at esblygiad ei statws llenyddol.

Yn 2000, symudodd Greed yn ôl i St Petersburg i fod yn Gyfarwyddwr Cysylltiol SIL International yn y gwladwriaethau ôl-Sofietaidd. Erbyn hyn, roedd ef wedi gallu hyfforddi rhai o'i gydweithwyr Tartaraidd er mwyn iddynt barhau i gyfieithu'r Beibl. Yn ystod y cyfnod hwnnw, daeth ymglymiad uniongyrchol Greed i ben, ac felly, yn 2003, gwnaeth ef a Teija symud i Lahti, yn ne'r Ffindir. O 2008 tan 2013, bu'n gyfarwyddwr SIL ar gyfer gwaith a gynhaliwyd yn y gwladwriaethau ôl-Sofietaidd. Yna, treuliodd dair blynedd yn astudio am radd MA mewn Arweinyddiaeth Fyd-eang ym Mhrifysgol Caerloyw. Ers 2016, mae wedi bod yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu i SIL International yn Ewrasia. Mae ei rôl yn golygu goruchwylio cyfathrebiadau SIL, o Anialwch y Sahara i Siberia.

**Ffynonellau**


Williams, N. (2020/21). Nevil Williams's experience in the late 1970s: 1977-1980. *The Link, 77,*26. Adalwyd ar Chwefror 1 2021 oddi wrth https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/alumni/lampeter-society/the-link--winter-2020-2021.pdf

SIL (2020). SIL. Adalwyd ar Chwefror 1 2021 oddi wrth https://www.sil.org/

Veinguer, A.A. & Davis, H.H. (2007). Building a Tatar elite: language and national schooling in Kazan. *Ethnicities, 7*(2),186-207. https://doi.org/10.1177/1468796807076840

SIL in Eurasia. (2021). A brief history of Tatar Bible translation. Adalwyd ar Chwefror 1 2021 oddi wrth https://eurasia.sil.org/language/translation/the_tatar_bible/a_brief_history_of_tatar_bible_translation

Greed, M. (2018). The translation of the Bible into Tatar enriches the Tatar language. Adalwyd ar Chwefror 1 2021 oddi wrth https://eurasia.sil.org/about/news/translation-bible-tatar-enriches-tatar-language

Domagala, M. & Greed, M. (2019). The voice of God speaking to Siberian hearts. Adalwyd ar Chwefror 1 2021 oddi wrth http://www.missionfrontiers.org/pdfs/MF40-5_Sept-Oct_19-21_voice_of_God.pdf

# David Griffith

Ysgolfeistr, curad a dyddiadurwr oedd David Griffith (1841-1910). Mae ei ysgrifeniadau yn ffynhonnell o wybodaeth amhrisiadwy am hanes yr Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru.

Ganwyd Griffith yn Nhŷ Cnap, Y Bontnewydd, ger Caernarfon. Mynychodd yr ysgol eglwysig leol ac ymhen hir a hwyr, daeth yn ddisgybl-athro yn yr ysgol honno. Yna, aeth i Goleg Hyfforddi Gogledd Cymru, yng Nghaernarfon. Er iddo ymadael â'r coleg heb dystysgrif, oherwydd nawdd deon Bangor, James Henry Cotton, rhoddwyd iddo swydd athro didrwydded yn yr ysgol yng Nghapel Curig. Arhosodd yno am bedair blynedd ar ddeg; mae ei ddyddiaduron yn llawn o wybodaeth am bobl, lleoedd a llên gwerin yr ardal.

Yn 1875, aeth i Goleg Dewi Sant, Llambed i astudio ar y cwrs tystysgrif dwy flynedd. Roedd nifer o esgobion yn derbyn y ffordd ddwyflynyddol hon fel modd o ennill cymhwyster ar gyfer cael eich ordeinio. Fel Griffith, roedd y rhan fwyaf o bobl a oedd ar y cwrs yn gyn-athrawon ysgol gyda gwybodaeth dda am grefydd, ond heb lawer o allu yn y Clasuron. Teimlodd yn gryf ei fod dan anfantais wrth gystadlu â'i gyd-fyfyrwyr a oedd wedi cael gwell addysg nag ef; hefyd, yn ei farn ef, roedd y disgyblion a ddaeth o ysgolion bonedd yn snoblyd.

O 1877 tan 1883, bu Griffith yn gurad yn Eglwys y Santes Fair (St Mary), Aberdâr, ychydig o filltiroedd i'r de o Ferthyr Tudful. Ond yn ei farn ef, offeiriaid a oedd am Rufeineiddio pethau oedd ei gydweithwyr yno; hefyd, nid oedd yn hoff o gynulleidfa Saesneg eglwys St Elvan. Pan ddaeth yn gurad yn eglwys Gymraeg y Santes Fair (St Mair), gwnaeth feirniadu Piwritaniaeth ei chynulleidfa a dylanwad y sawl a oedd wedi ymadael â'r capeli Cymraeg ac yn ceisio newid yr eglwys i gapel. Ar Fedi 22 1881, ysgrifenodd yn ei ddyddiadur 'English organists are the death of our Welsh psalmody.'

Ar ôl ei gyfnod yn Aberdâr, symudodd yn ôl i Ogledd Cymru; o 1883 tan 1896 bu'n gurad mewn nifer o blwyfi ar Ynys Môn. Yn dilyn arosiadau byrion yng Ngaerwen ac Amlwch, treuliodd naw mlynedd ym Mhentraeth. Yn y diwedd, gwnaeth gweryla gyda gwraig y rheithor. Gwnaeth gofnodi yn ei ddyddiadur, 'the churchkilling Rectoress pounced upon us mercilessly for introducing the office of Holy Baptism into the Public Prayer for Sunday morning.' Gwnaeth y sefyllfa waethygu'n gyflym. Pan wnaeth Griffith wrthod ymddiheuro, rhoddwyd iddo dri mis o rybudd.

Dilynodd cyfres o swyddi byrdymor eraill; gweithiodd yn Nhrefdraeth, sydd hefyd yn Sir Fôn, Hirwaun, Deri ger Bargoed, a Mallwyd. Ei swydd olaf oedd yng Nghwmafon, ychydig o filltiroedd o Flaenafon. Mae'n debyg roedd Griffith yn ddyn anodd. Roedd yn or-sensitif, roedd ganddo duedd i ddychmygu pethau afiach, ac roedd ef mor anfaddeugar y byddai hyd yn oed yn cofio pen-blwyddi rhai digwyddiadau annymunol. Roedd ganddo bob math o ragfarn – yn erbyn Saesonaeth yr Eglwys yng Nghymru, yn erbyn Byddin yr Iachawdwriaeth, ac yn erbyn yr Undodiaid. Wrth iddo fethu cael ei ddyrchafu, aeth yn chwerw tuag at Esgobion Cymru am eu bod nhw, yn ei farn ef, wedi colli cysylltiad â bywydau'r Cymry. Er hynny, roedd yn hael dros ben tuag at grwydriaid a'r sawl a oedd yn anghenus, gan olygu ei fod ef ei hun, bob amser, yn dlawd. Roedd yn ymweld â'i blwyfolion yn ddiflino, ac roedd yn enwog am ei ofal tuag at y sawl a oedd yn sâl neu yn hen. Roedd ganddo ddiddordeb mawr yn hanes a thraddodiadau'r eglwys leol, a gwnaeth gyfrannu erthyglau niferus at *Yr Haul* a'r *Anglican Cymro*.

Bu farw Griffiths ar Ionawr 12 1910, yn gurad o hyd. Nifer o flynyddoedd wedyn, cyfrannodd ei hen blwyfi drwy ychwanegu maen coffa at ei fedd. Mae ei bapurau yn Archifau Prifysgol Bangor.

**Ffynonellau**

Richards, T., (1959). GRIFFITH, DAVID (1841 - 1910), schoolmaster, cleric, and diarist. *Dictionary of Welsh Biography*. Adalwyd ar Ragfyr 1 2020, oddi wrth https://biography.wales/article/s1-GRIF-DAF-1841

Description of 'David Griffith, Curate, Journals and papers of David Griffith, Curate, 1853 - 1896. Archifdy Prifysgol Bangor / Bangor University Archives. GB 222 BMSS DG' on the Archives Hub website. Adalwyd ar Ragfyr 1 2020, oddi wrth https://archiveshub.jisc.ac.uk/data/gb222-bmssdg

Notes and comments. (1990). *Journal of Welsh Ecclesiastical History, 7,* 84. Adalwyd ar Ragfyr 1 2020, oddi wrth https://journals.library.wales/view/1127665/1128296/83#?cv=83&m=6&h=&c=0&s=0&manifest=https%3A%2F%2Fdamsssl.llgc.org.uk%2Fiiif%2F2.0%2F1127665%2Fmanifest.json&xywh=-1670%2C-48%2C5804%2C3549

Price, D.T.W. (1977). *A history of Saint David's University College Lampeter. Volume one: to 1898.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Roberts, R.O. (1961). David Griffith (1841-1910). *Province, 12*(2), 60-66; *12*(3),103-106

# Leslie Griffiths



Mae Leslie Griffiths yn arglwydd mewn swydd, yn gyn-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd ac yn gyn-weinidog arolygol Capel Wesley, ar ymyl Dinas Llundain.

Ganwyd Griffiths yn 1942 ym Mhorth Tywyn, Sir Gaerfyrddin. Roedd ei fagwraeth yn galed. Roedd ei dad Sidney bant ar ddyletswydd lyngesol yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a daeth priodas ei rieni i ben gydag ysgariad. Gorfodwyd ei fam, Olwen, i chwilio am waith yn y ffatri dunplat leol. Roedd y gwaith yn galed, ac yn fuan, dirywiodd ei hiechyd. Dim ond y Cymorth Gwladol oedd gan Olwen ar ôl i'w chynnal hi a'r ddau fab. Roedd y teulu yn byw mewn ystafell-benty a leolwyd mewn iard adeiladwyr leol; gwnaeth y bechgyn dderbyn prydau ysgol am ddim drwy gydol eu haddysg orfodol. Meddai Griffiths '… term-time saw us well fed … I can still taste and smell the mounting panic as … holidays drew near.' Gan ddechrau pan oedd yn bymtheg mlwydd oed, gwnaeth Griffiths weithio bob haf: fel postmon, gyda'r Comisiwn Coedwigaeth, yn helpu gwerthwr cynhyrchion cig cyfanwerthol, a llawer llawer mwy.

Er gwaethaf amgylchiadau tlawd ei deulu, gwnaeth Griffiths basio'r arholiad 11+ ac aeth i Ysgol Ramadeg Llanelli (yr unig aelod o'i gymuned i wneud hynny). Er nad oedd y teulu'n grefyddol, anfonid Griffiths i Ysgol Sul Fethodistaidd er mwyn rhoi amser i'w fam wneud ychydig o waith tŷ. Daeth aelodau ei gapel at ei gilydd gan roi arian i brynu ei wisg ysgol, i dalu am wibdeithiau ysgol ac i ddarparu cyfeirlyfrau ar ei gyfer. Medd ef 'These Methodists became a kind of corporate and surrogate parent.'

Gwnaeth Griffiths ymadael â'r ysgol gyda naw lefel O a thair lefel A. Ymhlith ei gyd-ddisgyblion yn y chweched dosbarth oedd Michael Howard, a fyddai yn y dyfodol yn arweinydd y Blaid Geidwadol. Ond yn wahanol i Howard, ni chafodd Griffiths ei osod yn y Grŵp Rhydgrawnt; dywedodd ei brifathro wrtho na fyddai ef yn gallu ymdopi'n gymdeithasol. Yn lle hynny, astudiodd Griffiths ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd, lle ymhlith ei gyfeillion oedd Neil Kinnock, a fyddai yn y dyfodol yn arweinydd y Blaid Lafur. Enillodd Griffiths radd dda. Ar ôl ychydig o amser yng Nghaerdydd fel is-gymrawd ymchwil, penodwyd ef yn ddarlithydd cynorthwyol Saesneg Canoloesol yng Ngholeg Dewi Sant. Mae'n disgrifio ei gyfnod yn Llambed yn amser hapus dros ben. Gwnaeth fynychu capel St Thomas, y capel bach Methodistaidd ar sgwâr y farchnad. Rhoddwyd iddo gyfle i bregethu yno yn rheolaidd ochr yn ochr â derbyn hyfforddiant fel pregethwr lleyg. Datblygodd ei sgiliau bugeiliol;

teimlodd alwedigaeth i'r weinidogaeth. Ymadawodd â Llambed yn 1967 er mwyn cael ei hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth Fethodistaidd yn Wesley House, Caergrawnt. Ar yr un pryd, astudiodd am radd M.A. mewn Diwinyddiaeth. Yn 1969, priododd ef â Margaret Rhodes, radiotherapydd ysbyty; aethant ymlaen i gael dau fab a merch.

Treuliodd Griffiths y rhan fwyaf o'r 1970au yn gweithio i'r Eglwys Fethodistaidd yn Haiti, ac yno, cafodd ei ordeinio. Yn 1970, roedd Haiti yn wladwriaeth heddlu o hyd, dan yr unben drwg-enwog, François Duvalier, (PapaDoc). Roedd Griffiths yn gyfrifol am 48 o eglwysi gwasgaredig. Roedd bron pob aelod o'i gynulleidfaoedd yn anllythrennog ac nid oedd yr un ohonynt yn siarad Ffrangeg, iaith swyddogol Haiti. Dysgodd Griffiths i siarad iaith y Creoliaid; dysgodd hefyd i weld y byd datblygol drwy lygaid y bobl gyffredin yn hytrach na drwy lygaid dosbarthiadau gwleidyddol. Ers iddo ddychwelyd i'r DU yn 1980, mae wedi bod yn ymgyrchydd blaenllaw dros Haiti yn y sectorau gwleidyddol a'r sectorau nid er elw. Teitl thesis Griffiths am y radd PhD y dyfarnwyd iddo yn 1987 gan Ysgol Astudiaethau Dwyreiniol ac Affricanaidd Prifysgol Llundain oedd '*A history of Methodism in Haiti 1817-1916.'*

Gan ddechrau yn 1980, gweithiodd Griffiths ar nifer o gylchdeithiau Methodistaidd yn ninas Llundain ac o'i chwmpas. Bu'n Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd o 1994 tan 1995. Yna, yn 1996, penodwyd ef yn uwcharolygydd Capel Wesley, 'y fam-eglwys Methodistiaeth fyd-eang.' Disgrifiodd ei hun yn warcheidwad esgyrn Wesley ac yn gyfrifol am yr Amgueddfa Fethodistiaeth. Ochr yn ochr â hyn, roedd yn ddarlledwr i Radio BBC ac yn cyfrannu at 'Thought for the Day', 'Prayer for the Day' a Gwasanaeth Dyddiol Radio 4, yn ogystal â 'Pause for Thought' ar Radio 2. Yn 2000, daeth yn ganon anrhydeddus yn Eglwys Gadeiriol St Paul. Yna, yn 2004, penododd Tony Blair ef yn Arglwydd am Oes y Blaid Lafur; mabwysiadodd y teitl 'Lord Leslie Griffiths of Pembrey and Burry Port.' Disgrifiodd Griffiths y cyfuniad hwn o rolau fel 'royal flush.'

O'r diwedd, yn 2017, gwnaeth Griffiths ymddeol o weinidogaethu'n weithredol yn yr eglwys Fethodistaidd. Mae'n parhau i fod yn weithredol fel arglwydd mewn swydd. Mae wedi bod yn is-gadeirydd Grŵp Hollbleidiol Seneddol Haiti ers 2010 a Cambodia ers 2011. O 2017 tan 2020, ef oedd Llefarydd yr Wrthblaid (yn Nhŷ'r Arglwyddi) ar faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a hefyd yn Weinidog yr Wrthblaid yng Nghymru. Yn dilyn hyn, cafodd ei ethol yn un o gynrychiolwyr Senedd y DU a oedd yn ymweld â Chynulliad Seneddol Cyngor Ewrop, lle mae'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Ymfudo. Wrth gyfeirio at Dŷ'r Arglwyddi, medd ef, 'I love it. It's such a friendly place, and the grand people I'd only previously seen on television turn out to be simple souls and breathing human beings.'

Mae Griffiths wedi ysgrifennu wyth llyfr, gan gynnwys *The Aristide Factor* (Lion, 1997), bywgraffiad Jean-Bertrand Aristide, llywydd cyntaf Haiti i gael ei ethol yn ddemocrataidd. Ymddangosodd ei hunangofiant ef ei hun, sef *View from the Edge* (Continuum) yn 2010. Bu Griffiths yn llywydd Brigâd y Bechgyn o 2011 tan 2020; mae'n ymddiriedolwr Premier Christian Radio. Am y deng mlynedd diwethaf, mae wedi bod yn Gadeirydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Central Foundation Schools of London, gyda chyfrifoldebau am ddwy ysgol uwchradd canol dinas – y naill ar gyfer bechgyn yn Islington, a'r llall ar gyfer merched yn Tower Hamlets. Mae ganddo nifer o ddoethuriaethau anrhydeddus a chymrodoriaethau mewn colegau. Yn benodol, daeth yn gymrawd anrhydeddus Prifysgol Cymru Llambed yn 2006 ac yn gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2012.

**Ffynonellau**

Griffiths of Burry Port, Baron, (Rev. Dr Leslie John Griffiths) (born 15 Feb. 1942). *Who's Who & Who Was Who*. Adalwyd ar Ionawr 4 2021, oddi wrth https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540884.001.0001/ww-9780199540884-e-18252.

Griffiths, L. (2020, October 28). I may sit in the House of Lords now, but I know the reality of food poverty. Boris Johnson hasn't got a clue - Seeing Marcus Rashford helping out at a food distribution centre triggered memories of my own childhood – that's what led me to make my speech in the Lords. *The Independent.* Adalwyd ar Ionawr 4 2021, oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/17E6A6E2A068B8F0?p=UKNB

Board man passes water. (2014, June 8). *Llanelli Star Series.* Adalwyd ar Ionawr 4 2021, oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/14E87323167BBCC0?p=UKNB

Fitzwilliam College University of Cambridge. (2021). Leslie Griffiths. Adalwyd ar Ionawr 4 2021, oddi wrth https://www.fitz.cam.ac.uk/about/history/fitzwilliam-150/fitzwilliam-150-challenging-stereotypes/leslie-griffiths

Griffiths, L. (1999). The struggle for identity: a personal recollection. *Political Theology. 1*(1),27-41. Adalwyd ar Ionawr 4 2021, oddi wrth https://web.a.ebscohost.com/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=3&sid=1dded384-0b3c-4ee2-a4a9-a0f1981f02bd%40sessionmgr4007

Griffiths, L. (n.d.) Rev Dr Lord Leslie Griffiths. Adalwyd ar Ionawr 4 2021, oddi wrth https://www.lesliegriffiths.com/about

MacMath, T.H. (2013, April 12). Interview: Leslie Griffiths Methodist minister and life peer. Adalwyd ar Ionawr 4 2021, oddi wrth https://www.churchtimes.co.uk/articles/2013/12-april/features/interviews/interview-leslie-griffiths-methodist-minister-and-life-peer

# Elizabeth Haines



Mae Elizabeth Haines yn artist, sydd wedi gweithio fel arlunydd, darlunydd, athrawes ac ysgrifennwr.

Cafodd ei hyfforddi yng Ngholeg Celfyddyd Brighton, a gwnaeth ddarlunio hunangofiant Lavinia Derwent, yr ysgrifennwr o'r Alban, yn ogystal â nifer mawr o lyfrau a storïau addysgol. Mae bellach yn canolbwyntio yn unig ar baentio ac addysgu.

Symudodd Haines i Sir Benfro yn 1968, ac mae'n gweithio mewn stiwdio ar ei fferm rhwng Mynyddoedd y Preseli. Mae eu lluniau wedi'u gwreiddio yn nhirweddau Cymru a Ffrainc, er nad yw y rhan fwyaf ohonynt bellach yn dopograffig. Mae ei dulliau o weithio wedi esblygu'n raddol gan greu dull mwy hyblyg a dychmygus, ac mae ei harddull wedi mynd yn fwy haniaethol, yn fwy awgrymus ac yn fwy rhyfedd. Mae'n cerdded rhaff dynn rhwng y byd go iawn a'r byd dychmygol, rhwng y ffigurol a'r haniaethol, gan ddefnyddio barddoniaeth fel ffynhonnell bwerus ar gyfer cael syniadau. Er bod ei gwaith bob amser yn cael ei atgyfnerthu drwy dynnu llun o'r byw, caiff ei ddisgrifio'n aml naill ai'n swrrealaidd neu'n debyg i freuddwyd. Gwnaiff hi ddechrau ar baentiad drwy wneud marciau sy'n edrych fel petaent wedi'u gwneud ar hap, ac yna, drwy adael y testun i esblygu. Dywed hi, 'There usually comes a point where the music of shape and colour take on the appearance of something I once saw or experienced, perhaps forgotten since that moment, and I work on it until it feels right.' Mae'r casglwr William Gibbs wedi dweud y canlynol am ei lluniau, 'You can enter them on a simple level … but from these emerge a larger space and deeper forms, sometimes there are hints of mountains and forests, intimations of buildings and trees and the further you go into the picture the more there is to see.'



Gwnaeth anafu ei harddwrn de yn 1999 ei gorfodi i baentio gyda'i llaw chwith, a gwnaeth hyn achosi ei chelfyddyd i newid. Medd hi, 'Painting with the left hand and, so we are told, with the right side of the brain, freed me from the constraints of traditional perspective and composition and allowed my work to become more uninhibited, drawing deeply on memory and imagination.' Pan fo angen, mae'n dal i baentio gyda'i llaw chwith. Mae ei hoff artistiaid yn cynnwys arlunwyr Ewropeaidd yr 20fed ganrif gynnar, gan gynnwys Klee a Kandinsky, arlunwyr yr ysgol Frutanaidd, megis Palmer a Hitchens, arlunwyr St Ives a lliw-wyr yr Alban.

Mae Haines bob amser wedi bod â diddordeb yn y berthynas sy'n bodoli rhwng gwahanol linynnau'r celfyddydau. Medd hi, 'I came to philosophy not from an academic standpoint but as a practitioner in one of the arts, fascinated by the possibility of family relationships between them all.' Astudiodd am radd PhD mewn athroniaeth ym Mhrifysgol Cymru Llambed a dyfarnwyd hon iddi yn 2001. Teitl ei thesis oedd, 'The Web of Exchange: a study of relationships between the separate arts.' Mae'n ddiolchgar dros ben i'w thiwtor Bob Sharpe, gan ysgrifennu 'He was a wonderful supervisor, and I was not the only person to remark … that he was the best teacher I ever had.'

Mae addysgu wedi bod yn ddiddordeb hirsefydlog ganddi, ac mae hi wedi rhedeg gweithdai i blant ac i oedolion am dros 40 mlynedd. Mae ganddi ddiddordeb penodol mewn defnyddio celfyddyd i gyflwyno athroniaeth i blant, ac mae'n cynnal mewn ysgolion sesiynau sy'n cyfuno celfyddyd a meddwl, 'Meddwl drwy gyfrwng Celfyddyd'. Mae hi'n ymestyn yr athroniaeth draddodiadol sydd y tu cefn i weithgareddau plant, sef trafodaethau ystyriol a heriol, er mwyn cynnwys arsyllu, darlunio ac arlunio. Gofynnir i'r plant 'Can we think with shapes, forms and colours as well as we can with words?' Cafwyd y sylwadau canlynol oddi wrth rai, 'I learnt if you focus you can draw better,' 'To do art you've got to use your brain and your heart' ac 'I have learnt that when you really look at a picture properly it is easier to draw it and you notice things you didn't before.'

Mae Haines wedi bod yn Arlunydd Preswyl yn yr Eisteddfod Genedlaethol, yn yr Academi Gerdd Frenhinol ac mewn nifer o ysgolion. Mae gan Gymdeithas Celfyddyd Gyfoes Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Phrifysgol Cymru, ynghyd â chasgliadau preifat di-rif yma a thramor, rai o'i phaentiadau. Yn ogystal â'i horiel stiwdio, mae ei lluniau hefyd i'w cael mewn nifer o orielau llai, gan gynnwys The Attic Gallery, Abertawe; Oriel Canfas, Aberteifi; Goat Street Gallery, Tyddewi; a The Golden Sheaf Gallery, Arberth.

**Ffynonellau**

Haines, E. (2020). *Welcome to the website of artist Elizabeth Haines.* Adalwyd ar Fedi 18 2020 oddi wrth http://www.elizabethhaines.co.uk/


Arts Wales: artist philosophical after abstract changes. (2002, August 17). *Western Mail.* Adalwyd oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/0F58E1F768E5FD84?p=UKNB

Gallery Q. (n.d.). Elizabeth Haines. Adalwyd ar Fedi 18 2020 oddi wrth https://www.galleryq.co.uk/artist/elizabeth-haines/

Canfas. (2019). Elizabeth Haines. Adalwyd ar Fedi 18 2020 oddi wrth https://www.canfas.co.uk/artist-profiles/elizabeth-haines/

Haines, E. (2010). Some memories of doing philosophy at Lampeter, 1994-2001. *The Link.* 64, 8-9. Adalwyd ar Fedi 18 2020 oddi wrth http://www.sdtcom.co.uk/Link/Lampeter%20Link%204-2010.pdf

# William Henry Harris



Roedd William Henry Harris (1884-1956) yn gysylltiedig â Llambed am y rhan fwyaf o'i fywyd, naill ai fel myfyriwr neu academydd.

Ganwyd Harris ar Ebrill 28 1884 ym Mhantysgallog, ger Merthyr Tudful. Ei rieni oedd John ac Anne Harris. Mynychodd ef Ysgol Sir Merthyr Tudful, ac ar ôl ymadael â'r ysgol, gweithiodd mewn nifer o wahanol swyddi. Dechreuodd astudio yng Ngholeg Dewi Sant pan oedd yn dair ar hugain mlwydd oed. Yn Llambed, roedd yn Ysgolhaig Treharne ac yn Uwch Ysgolhaig; yn ogystal â hyn, ef oedd enillydd y gwobrau am y traethodau gorau yn y Saesneg a'r Gymraeg (Gwobr Creaton). Graddiodd yn 1910 gyda gradd B.A. dosbarth cyntaf gydag anrhydedd. Aeth ymlaen i fod yn Ysgolhaig Ymchwil Meyrick yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen. Yno, enillodd radd B.Litt., a graddau B.A. a M.A. mewn Diwinyddiaeth.

Ordeiniwyd Harris yn ddiacon yn 1913, ac yn offeiriad yn 1914. Lleolwyd ei guradiaeth gyntaf yn Ystradgynlais, ar lannau'r Tawe. Daeth yn offeiriad cynorthwyol yn Christ Church Abertawe yn 1917, ac yn All Saints Ystumllwynarth yn 1918. Yna, yn 1919, dychwelodd i Lambed. Penodwyd ef yn ddarlithydd diwinyddiaeth; dyrchafwyd ef yn athro yn 1940. Yn 1941, er mawr foddhad iddo, penodwyd ef yn athro Cymraeg. Gwnaeth cenedlaethau o fyfyrwyr gyfeirio ato fel 'Pa Bill.'

Er mai anghydffurfwyr oedd ei deulu, daeth Harris yn un o Anglo-Gatholigion blaenllaw Cymru. Yn Llambed, gwnaeth gymryd rhan weithredol yng Ngild Catholig Dewi Sant. Ei ddylanwad ef, i ran helaeth, oedd y rheswm paham y penderfynwyd yn 1925, i sefydlu a chynnal Cymundeb yn ddyddiol yng nghapel y coleg, ac yn dechrau yn 1933, cafodd urddwisgoedd Ewcaristig eu gwisgo. Hefyd, yn 1931, ysgrifennodd Harris ddau bamffled ceiniog, sef, *Yr Eglwys Gatholig* a *Gweinidogaeth yr Eglwys.*

Roedd Harris yn aelod o bwyllgor *Emynau'r Eglwys (Llyfr emynau'r eglwys Gymraeg)* ers i'r pwyllgor gael ei sefydlu yn 1934. Mae'r llyfr emynau hwnnw (a gyhoeddwyd yn 1941 a 1951) yn cynnwys ei gyfieithiadau ef o emynau yn yr ieithoedd Lladin a Groeg, yn ogystal â rhai Saesneg. Gwnaeth y llyfr hyrwyddo safbwynt Catholig eithafol, ac felly, roedd yn ddadleuol dros ben. Roedd Harris yn aelod o'r Comisiwn Litwrgïaidd, a sefydlwyd i adolygu'r Llyfr Gweddi Gyffredin. Cyfieithodd hefyd 'The Office of Compline' i'r Gymraeg, *Cwmplin, Gwasanaeth diwedydd,* (1941).

Yn 1937, yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi, etholwyd ef yn Brebendari ac yn Ganon St Nicholas, Penffos, ac yn drysorydd yn 1948. Roedd yn bregethwr da, a gwnaeth atynnu torfeydd i Dyddewi pan oedd yn ganon yno. Gwahoddwyd ef ddwywaith yn Bregethwr Arbennig pan gynhaliwyd yr Ŵyl Gymraeg yn Eglwys Gadeiriol St Paul, Llundain. Yng nghapel y coleg Llambed dywedwyd bod ei bregethau yn 'very light soufflé, embellished with lashings of Anglo-Catholic cream'. Meddai ei goflith yn *The Bulletin of the Lampeter Society* 'He read his sermons from piles of what looked like scrap paper and never varied a word from his manuscript.'

Ond roedd Harris hefyd yn ddyn yr oedd ganddo safbwyntiau cadarn. Ar Dachwedd 10 1940, y diwrnod pan fu farw Neville Chamberlain, mynychodd yr Athro A.E. Morris, a oedd yn henadur, y gwasanaeth maerol yng Nghapel yr Undodiaid, Llambed. Bythefnos yn ddiweddarach, gwnaeth Harris ragflaenu ei bregeth yng nghapel y coleg gyda phenillion Trindodaidd o Gredo Athanasiws a'r Colect ar gyfer Sul y Drindod. Disgrifiodd ef hyn yn weithred er mwyn gwneud iawn am fod 'some among us [who] have recently associated themselves in public worship with those who deny the doctrine of the Trinity.' Gwnaeth yr anghydfod a ddilynodd wastraffu llawer iawn o amser yn ystod y deunaw mis nesaf. Ym mis Mawrth 1941, gwnaeth Morris, a fyddai yn ddiweddarach yn cael ei benodi'n archesgob Cymru, fygwth mynd i'r gyfraith ynglŷn â Harris os nad oedd e'n ymddiheuro. Cafodd y rhan fwyaf o'r staff hefyd eu tynnu i mewn i'r frwydr, a gwnaeth y dadleuon lusgo ymlaen tan Chwefror 1942.

Yn hollol annisgwyl, roedd Harris yn frwdfrydig dros Esperanto, a gwnaeth hyd yn oed redeg dosbarth Esperanto wythnosol yn Llambed. Gwnaeth bregethu yn Esperanto yn ystod Uchel Offeren Anglicanaidd a gynhaliwyd yn Birmingham yn 1920, a gwnaeth hefyd gynhyrchu geiriadur Cymraeg-Esperanto. Efallai yn fwy rhagweladwy, roedd ef hefyd yn aelod o Orsedd y Beirdd, a'i enw barddol oedd 'Arthan'.




Carreg fedd Harris ym mynwent eglwys St Martin, Ruislip

Priododd Harris â Dorothy Clough yn 1924; cawsant ddwy ferch, Llywela ac Elizabeth. Defnyddiwyd gwisg briodas Dorothy i wneud set o urddwisgoedd clerigol i'w gŵr. Gwnaeth merched Harris eu rhoi i gapel y coleg yn 2005; maent bellach yn cael eu cadw yn y Casgliadau Arbennig. Arhosodd Harris ar staff Coleg Dewi Sant tan ei farwolaeth ar Ionawr 23 1956. Bu farw mewn ysbyty yn Llundain a chladdwyd ef yn Ruislip, Middlesex. Cedwir cwpan cymun a phlât cymundeb yng nghapel y coleg er cof amdano.

**Ffynonellau**

Ellis, M. G., (2001). Harris, William Henry (1884 - 1956), priest, Professor of Welsh, St. David's College, Lampeter. *Dictionary of Welsh Biography*. Adalwyd ar Fehefin 4 2020, oddi wrth https://biograpOales Press

Price, D.T.W. (1990). *A history of Saint David's University College Lampeter. Volume two: 1898-1971.* Gwasg Prifysgol Cymru.

Yates, N. (2009). *From the 'naughty nineties' to the 'swinging sixties': the strange phenomenon of Anglican Ultra-Catholicism and Lampeter, Wales and the Oxford Movement.* Prifysgol Cymru, Llambed

Lloyd Thomas, J.R. (1956). In Memoriam. William Henry Harris, M.A., B.Litt., Priest. *Bulletin of the Lampeter Society 9,* 5-7

# Thomas Hassall (1794-1868)

"Y Person Carlamus"

Ganed Thomas Hassall yn Coventry yn 1794, yn blentyn hynaf Rowland ac Elizabeth. Roedd ei dad yn bregethwr ac yn
aelod o Gymdeithas Genhadol Llundain, ac yn 1796 atebodd eu hapêl am hanner cant o genhadon i hwylio am Tahiti ar y llong genhadol gyntaf i Foroedd y De. Ar 10 Awst 1796, ac yntau ond yn ddwy oed, ymunodd Thomas a'i deulu â'r llong 300-tunnell *Duff,* a gyrhaeddodd Tahiti ar ôl 208 diwrnod ar y môr.



*Ildio Ardal Matavai ar Ynys Otaheite i'r Capten James Wilson at ddefnydd y cenhadon a anfonwyd yno gan y Gymdeithas honno yn y llong Duff*.
https://commons.wikimedia.org/wiki/File:The_Cession_of_the_District_of_Matavai_in_the_Island_of_Otaheite_to_Captain_James_Wilson_for_the_use_of_the_Missionaries_Sent_Thither_by_that_Society_in_the_Ship_Duff,_by_Robert_Smirke.jpg

Darluniwyd dyfodiad y cenhadon ar yr ynys gan yr arlunydd Robert Smirke mewn paentiad a gomisiynwyd gan Gymdeithas Genhadol yr Eglwys. Yn y paentiad, gellir gweld Samuel (brawd iau Thomas) ym mreichiau ei fam sy'n penlinio, wrth i Thomas sefyll rhwng y ddau ŵr bonheddig ar ei law dde.

Arhosodd teulu Hassall ar yr ynys am bymtheng mis cyn symud i Parramatta, yr ail ddinas hynaf yn Awstralia. Yn 1813, yn bedair ar bymtheg oed, agorodd Thomas Ysgol Sul gyntaf Awstralia; gan ddysgu darllen, ysgrifennu a'r ffydd Gristnogol. Fe'i cyn i ddechrau yn nhŷ ei dad, symudodd yr ysgol i Eglwys Sant Ioan; ac ym mis Rhagfyr 1815, ffurfiwyd Sefydliad Ysgol Sul De Cymru Newydd. Gweithredodd Thomas yn uwcharolygydd ac ysgrifennydd, gan

gychwyn "Gofynion a Rheolau" ffurfiol ar gyfer arweiniad yr athrawon, ac roedd tad Thomas yn un ohonynt.

Penderfynodd Thomas ar yrfa yn yr Eglwys, ond roedd y diffyg cyfleoedd i astudio diwinyddiaeth yn Awstralia yn golygu y bu rhaid iddo wneud taith deg mis o hyd ar y *Kangaroo* i Brydain yn 1817. Trefnodd Charles Simeon, un o sylfaenwyr Cymdeithas Genhadol yr Eglwys, gydag Esgob Tyddewi i Thomas i fynychu'r Ysgol Ramadeg drwyddedig yn Llambed. Ei brifathro oedd y Parch. Eliezer Williams, a oedd wedi dychwelyd i Gymru, ar ôl cael ei addysgu yng Nghaerfyrddin a Rhydychen a'i ordeinio yn 1778, ar gais yr Esgob Burgess i fod yn ficer Llanbedr Pont Steffan. Sefydlodd Williams yr ysgol ramadeg ac erbyn 1819 roedd ganddi 80 o ddisgyblion, dau athro cynorthwyol a phymtheg o fyfyrwyr diwinyddiaeth. Ar ei farwolaeth yn 1820 olynwyd ef gan John Williams, ac yn y pen draw unwyd yr ysgol â Choleg Dewi Sant.

Roedd yr hyfforddiant diwinyddol a dderbyniodd Thomas yn seiliedig ar destunau Hebraeg a Groeg y Beibl, ac ar destunau safonol megis y rhai a ysgrifennwyd gan Dadau'r Eglwys, *Apologia* Jewell ac *Ecclesiastical Polity* Hooker. Yn ei hunangofiant, mae Eliezer Williams yn dweud i Thomas ennill y wobr am y bregeth gryno orau yn 1818. Maes o law aeth David Thomas Jones, myfyriwr diwinyddiaeth arall ac un o gyfeillion Thomas, yn genhadwr yn anheddiad Red River Canada; gan ddychwelyd maes o law i Lanbedr Pont Steffan i dderbyn swydd athro Cymraeg yng Ngholeg Dewi Sant. Tra roedd yng Nghanada, bedyddiodd David fachgen ifanc Chipewyan a'i enwi ar ôl Thomas Hassall o Lanbedr Pont Steffan.

Yn dilyn ei ordeinio yn 1820 a marwolaeth ddisymwth ei dad yn 1821, dychwelodd Thomas i Awstralia ar y llong garcharorion *Mary*. Am y ddwy flynedd nesaf gwasanaethodd yn gurad i Samuel Marsden, Uwch Gaplan Eglwys Loegr yn Ne Cymru Newydd, a chyn-gaplan i'r carcharorion yn Botany Bay. Ar 12 Awst 1822, priododd Thomas â merch hynaf Samuel, Anne, y bu ganddo dri mab a phump o ferched. Ddwy flynedd ar ôl eu priodas, penodwyd Thomas yn gaplan i'r wladfa gosb ym Mhorth Macquarie a rhoddwyd iddo'r cyfrifoldeb o adeiladu ei heglwys gyntaf.



*Eglwys Thomas, Porth Macquarie gan Joseph Cefnler, 1830*au.
[http://acms.sl.nsw.gov.au/item/itemDetailPaged.aspx?itemID=826178](http://acms.sl.nsw.gov.au/item/itemDetailPaged.aspx?itemID=826178)

Sefydlwyd y wladfa yn 1821, ac erbyn 1824 roedd dros 1100 o droseddwyr yn gweithio yn y dorfgadwyn, a hynny mewn amaethyddiaeth neu waith adeiladu cyhoeddus. Dyluniwyd Eglwys Sant Thomas ym Mhorth Macquarie gan Francis Greenway, pensaer a anwyd yn Lloegr ac a gludwyd i Awstralia. Gosodwyd y garreg sylfaen ar 8 Rhagfyr 1824 yn ystod gwasanaeth a gynhaliwyd gan Thomas. Fodd bynnag, byr fu ei gyfnod ym Mhorth Macquarie, wrth i'w wrthwynebiad i driniaeth lem y troseddwyr arwain at wrthdrawiad â chapten y wladfa.

Ym mis Gorffennaf 1825, trosglwyddwyd Thomas a'i deulu i ardal Bathurst, lle daeth yn gaplan cyntaf ar y rhanbarth. Rhoddwyd eiddo iddo yn O'Connell Plains, a Lampeter Farm oedd yr enw a roddodd arno oedd. Am ddwy flynedd teithiodd y saith milltir i dreflan Bathurst bob dydd Sul i gynnal gwasanaeth; gan ddychwelyd gyda'r nos i bregethu yng Nghapel Salem, yr oedd wedi ei adeiladu ger ei gartref. Yn 1827, penodwyd Thomas i blwyf newydd arall yn Cowpastures, lle mae'n gweithio am y 40 mlynedd nesaf. Prynodd ystâd fawr Denbeigh yn Cobbitty, a oedd yn cynnwys 83 erw o wenith a chorn, llwyn olewydd a gwinllan fach.

Roedd ei blwyf yn helaeth, ac yn cynnwys ardaloedd pellennig megis Goulburn, 149km o Cobbitty a Bang, taith o 78 km. Yn ystod y cyfnod hwn daeth yn adnabyddus dan yr enw "Y Person Carlamus", gan ymweld â'i gynulleidfaoedd agosach ar gefn ceffyl yn wythnosol neu'n fisol, a rhai mwy anghysbell bob chwarter, bob hanner blwyddyn neu bob blwyddyn. Roedd ei gynulleidfa amrywiol yn byw mewn bythynnod ger y ffordd a chytiau ym mherfeddion y gwyll, ac ymroddiad Thomas yn ennill iddo'r teitl o fod y "cyntaf o 'bersoniaid gwyll' Awstralia". Ar wahân i'w ddyletswyddau bugeiliol blinedig, roedd Thomas hefyd yn ffermwr defaid ac yn ynad. Yn 1843, cydnabuwyd ei ymroddiad a'i waith caled gan Archesgob Caergaint, a ddyfarnodd iddo radd M.A.

Bu farw Thomas ym 1868 ac mae wedi ei goffáu gan gofeb syml yn y fynwent yn Cobbitty.

Y Parch. THOMAS HASSALL, M.A.
Caplan Gwladfa, a Deiliad Cyntaf,
a bregethodd yr efengyl yma am
40 mlynedd, ac a hunodd yn yr Iesu,
29 Mawrth, 1868,
78 oed.

I gydnabod ei gyfraniad hanesyddol at addysgu a dysgu, anrhydeddodd Awstralia Hassall drwy enwi ysgol newydd ar ei ôl. Agorodd Thomas Hassall Goleg Anglicanaidd yn 2000.

**Ffynonellau:**

Gunson, Neil. (1966) Hassall, Thomas (1794-1868). *Australian National Dictionary of Biography*. Wedi dod o http://adb.anu.edu.au/biography/hassall-thomas-2167

Hassall, Thomas 1794-1868. (1868, April 6). *Sydney Morning Herald*. Retrieved from http://oa.anu.edu.au/obituary/hassall-thomas-2167

Thomas Hassall Anglican College (2020). *History.* Wedi dod o https://www.thac.nsw.edu.au/content/history

Thomas Hassall. (1913, September 13). *Windsor and Richmond Gazette.* Wedi dod o https://trove.nla.gov.au/newspaper/article/85850187?searchTerm=thomas%20hassall&searchLimits=

# Yr Esgob Christopher Herbert



Esgob Saint Albans o 1995 tan 2009 oedd Christopher William Herbert.

Ganwyd Herbert yn Lydney yn Fforest y Ddena yn 1944. Roedd ei dad, Walter, wedi dechrau ei yrfa fel dyn ffowndri a mowldiwr mewn gweithfeydd haearn lleol ond aeth ymlaen i helpu i redeg buses y teulu o gludo ar y ffyrdd. Enillodd Christopher ysgoloriaeth yn Ysgol Bechgyn Trefynwy cyn astudio Astudiaethau Beiblaidd ac Athroniaeth yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Yn Llanbedr Pont Steffan, gofynnwyd iddo gadeirio Ystafell Gyffredin y Myfyrwyr gan un grŵp o bobl, a gofynnwyd iddo arwain Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr gan grŵp arall. Sylweddolodd mai crefydd, yn hytrach na gwleidyddiaeth oedd ei alwad. Ar ôl graddio yn 1965, aeth Herbert i astudio yng Ngholeg Diwinyddol Wells i hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth. Enillodd dystysgrif ôl-raddedig mewn Addysg o Brifysgol Bryste.

Cafodd Herbert ei ordeinio yn 1967. Ei swydd glerigol gyntaf oedd fel curad cynorthwyol yn Eglwys St Paul's, Tupsley, Henffordd. Priododd Jan Turner y flwyddyn ganlynol; (mae dau fab a phedwar o wyrion ganddo ef a Jan). Hefyd, yn ystod ei gyfnod yn Tupsley, dysgodd Herbert addysg grefyddol ac astudiaethau cymdeithasol yn y Bishop of Hereford's Bluecoat School. Daeth yn gynghorydd addysg grefyddol ar gyfer esgobaeth Henffordd yn 1971 a chyfarwyddwr addysg ar gyfer yr esgobaeth yn 1976. Daeth yn ganon mygedol yng nghadeirlan Henffordd yn 1977.

Yn 1981, dychwelodd Herbert i offeiriadaeth blwyf, fel ficer St Thomas on the Bourne, Farnham, Surrey. Penodwyd yn gyfarwyddwr hyfforddiant ôl-ordeiniad ar gyfer esgobaeth Guildford cyn ei urddo'n ganon ar gyfer gadeirlan Guildford yn 1984. Ei benodiad nesaf, ar ôl St Thomas, oedd fel archddiacon Dorking o 1990 tan 1995.

Yn 1995, fe'i benodwyd yn esgob St Albans. Cafodd ei ddisgrifio gan Mary Ann Sieghart fel "os unrhyw beth, yn Anglo-Gatholig" cyn symud ymlaen a dweud "nid yw'n perthyn i unrhyw enwad yn yr eglwys mewn gwirionedd. Mae ganddo gyffyrddiad ysgafn, synnwyr da o ddigrifwch a thalent am gyd-dynnu'n dda iawn gyda phobl eraill. Efallai mai dyma pam y mae'n cael ei ddewis i gadeirio'r trafodaethau mwyaf cynhennus yn y Synod Cyffredinol."

Yn ystod ei amser yn St Albans, roedd Herbert yn gadeirydd y Cyngor Caplaniaid Ysbyty, cadeirydd y Synod Cyffredinol, cadeirydd cenedlaethol y Cyngor Cristnogion ac Iddewon a chadeirydd

Rhwydwaith yr Eglwysi yn Nwyrain Lloegr. Ymunodd â Thŷ'r Arglwyddi yn 1999. Gan ddangos arbenigedd penodol ym maes moeseg feddygol, roedd yn aelod o Bwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi a fu'n craffu ar gynigion sy'n ymwneud â newid y gyfraith ar ewthanasia a hunanladdiad cynorthwyedig. Roedd hefyd yn rhan o Bwyllgor Craffu cyn-ddeddfwriaethol Tŷ'r Arglwyddi a oedd ynghlwm â'r gwaith ar ffrwythlondeb ac embryoleg dynol. (Yn ystod ei ymddeoliad, mae Herbert wedi dod yn athro gwadd ar foeseg Gristnogol ym Mhrifysgol Surrey.)

Tra yn St Albans, enillodd MPhil yn 2002 a Doethuriaeth yn 2008 o Brifysgol Caerlŷr. Teitl ei MPhil oedd *Shaping the resurrection in late medieval religion and theology: with special reference to the work of Hans Memling.* Roedd ei Ddoethuriaeth yn archwilio tarddiad y Beddrod Pasg yn eglwysi Lloegr cyn cyfnod y Diwygiad Protestannaidd.

Enillodd Herbert ddoethuriaeth er anrhydedd yn y pynciau dyneiddiol ym Mhrifysgol Hertfordshire yn 2003 a doethuriaeth er anrhydedd yn y Celfyddydau yn 2008 ym Mhrifysgol Bedfordshire, y ddwy ar gyfer ei wasanaeth i'r gymuned. Hefyd yn 2008, derbyniodd y teitl o ddinesydd er anrhydedd ar gyfer Fano yn nhalaith Pesaro ac Urbino yn yr Eidal, sy'n gefeillddinas i St Albans. Cydnabyddiaeth o'i rôl yn meithrin cydberthnasau rhyng-eglwysig a chymunedol rhwng y ddwy ddinas oedd yr anrhydedd hwn.

Gadawodd Herbert St Albans yn 2009, i ymgymryd â'r hyn sy'n ymddangos fel ymddeoliad hynod weithgar. Daeth yn gyfarwyddwr anweithredol gwirfoddol ar gyfer Cymdeithas Abbeyfield, elusen sy'n darparu tai gwarchod a chartrefi gofal i bobl hŷn. Mae'n gwasanaethu fel esgob cynorthwyol er anrhydedd ar gyfer yr esgobaethau yn Guildford, Caersallog a Chaer-wynt, ac mae'n gyfarwyddwr anweithredol gwirfoddol ar gyfer yr Ysbyty Brenhinol ar gyfer Niwro-anabledd yn Putney.

Mae Herbert yn awdur toreithiog sydd wedi ysgrifennu amrywiaeth o lyfrau ar gyfer oedolion a phlant. Mae *Seeing & believing: praying with paintings of the life, death and resurrection of Christ* wedi'i seilio ar ei drafodaethau a gynhaliwyd o gwmpas ei esgobaeth. Sylweddolodd bod grym delweddau i ddal dychymyg a chyfleu'r ffydd Gristnogol yn llawer mwy effeithiol nag unrhyw bregeth. Yn *Foreshadowing the Reformation: art and religion in the fifteenth-century Burgundian Netherlands* (Routledge, 2017), ceisiodd gywiro'r tueddiad cyfoes i fychanu cyd-destun crefyddol celf ganoloesol hwyr. Credodd Herbert mai 'paentiadau yw hanes syniadau ar ffurf weledol'; ac yng ngogledd Ewrop yn y 15fed ganrif, roedd y syniadau hynny'n grefyddol, yn ogystal â bod yn rhai gwleidyddol ac economaidd. Archwiliodd ddetholiad o baentiadau, gan gymysgu'r ffefrynnau adnabyddus megis Ghent Altarpiece gan Van Eyck gyda gweithiau sy'n llai adnabyddus, gan gynnwys The Last Judgement gan Memling sydd bellach yn y cael ei gadw yn Gdansk.

Mae nifer o lyfrau Herbert yn ymwneud â gweddïo ac ysbrydolrwydd ac mae wedi ysgrifennu sawl llyfr gweddi, gan gynnwys *Pocket Prayers for Children* a *Pocket Prayers for Commuters.*Casgliad o weddïau yw *The Prayer Garden* ar gyfer pob diwrnod o fywyd plentyn sy'n cynnwys amrywiaeth eang o themâu.

Mae Herbert yn darlithio'n gyson ar gelf Gristnogol ac yn enwedig celf yr Oesoedd Canol. Bu'n siaradwr gwadd yn yr Oriel Genedlaethol, Sefydliad Celf Courtauld, King's College yn Llundain, Prifysgol Caerlŷr, Abaty Westminster a'r Gymdeithas Gelf yn ogystal â grwpiau eglwysig. Mae hefyd yn arwain teithiau tywys arbenigol o gwmpas y prif orielau celf yn Llundain. Wrth drafod Herbert, dywedodd Neil MacGregor, cyn-gyfarwyddwr yr Oriel Genedlaethol, "Mae'n siaradwr o fri am baentiadau. Mae wir yn deall y gellid archwilio rhai gwirioneddau'n well mewn ffurf weledol yn hytrach nag mewn geiriau."

**Ffynonellau**

Herbert, C. (2020). Three abbeys: Gwefan y Gwir Barchedig Ddoctor Christopher Herbert. Cyrchwyd ar 4 Mehefin, 2020 o http://www.threeabbeys.org.uk/

Herbert, y Gwir Barchedig Christopher William, (ganwyd 7 Ionawr, 1944), Esgob St Albans, 1995–2009; Esgob Cynorthwyol er Anrhydedd: Esgobaeth Guildford, ers 2009; Esgobaeth Caer-wynt, ers 2010; Esgobaeth Chichester, 2010–2014; Esgobaeth Caersallog, a Dirprwy'r Archesgob, 2011. *Who's who & Who was who.* Cyrchwyd ar 4 Mehefin, 2020 o: https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540884.001.0001/ww-9780199540884-e-33656.

Howes, G. (2017). *Christopher Herbert, Foreshadowing the Reformation: art and religion in the fifteenth-century Burgundian Netherlands. Theology.* 120(3),221-222. Cyrchwyd o: https://journals-sagepub-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/full/10.1177/0040571X16684444f.

Sieghart, M.A. (28 Mai, 2002). Everybody's favourite long shot. *The Times.* Cyrchwyd o https://link.gale.com/apps/doc/IF0501488167/TTDA?u=nlw_ttda&sid=TTDA&xid=cf202091.

## Yr Hybarch Andrew 'Andy' Herrick



Wedi ei eni a'i fagu yn Gainsborough, Lincolnshire, cyfnewidiodd Herrick nodweddion gwastad tirwedd Dyffryn Trannon am dopograffeg donnog Dyffryn Teifi, gan gyrraedd yn Llambed i astudio Diwinyddiaeth yn 1977. Yn dod o deulu a oedd ganddo wreiddiau Methodist dwfn, cynlluniodd ef ar y cychwyn i ddilyn gyrfa yn Lloegr fel gweinidog yr enwebiad hwnnw, ond er gwaethaf hynny, byddai ei ddyfodol ef fel gwas i bobl yr Eglwys yng Nghymru.

Dechreuodd Sara Pollard ar yr un pryd yng Ngholeg Dewi Sant, i astudio Cymraeg a Daearyddiaeth. Yn dod o Landaf, maestref gadeiriol Caerdydd, ei thynged hi a thynged Herrick i'r dyfodol byddai rhannu gweinidogaeth yng Nghymru, gan briodi mewn dim ond ychydig o wythnosau, ar ôl i'r ddau ohonynt raddio yn ystod haf 1980.

Yn dilyn dwy flynedd ychwanegol o astudio yn Neuadd Wycliffe, Rhydychen, ordeiniwyd ef yn ddiacon yn 1982 ac yn offeiriad yn 1983. Yn ystod hyn oll, roedd ef wedi dysgu tipyn o Gymraeg, ac felly, pan benodwyd ef yn gurad i Fywoliaeth Aberystwyth yn 1982, gweithiodd bron yn hollol yn Eglwys y Santes Fair, eglwys blwyf gyfrwng Cymraeg y dref.

Yn dechrau yn 1985, gwnaeth ef weithio am ddau gyfnod o dair blynedd yr un fel Rheithor plwyfi gwledig a glan môr Ceredigion, gan weinidogaethu i boblogaeth amrywiol o bobl leol a rhai ar eu gwyliau, yn ogystal ag i staff Sefydliad Ymchwil Taflegrau RAE Aberporth. Hefyd , treuliodd Herrick y blynyddoedd 1984-88 yn arwain gwaith ymhlith pobl ifanc fel Swyddog Ieuenctid Esgobaethol Tyddewi.

Gwnaeth dyletswyddau'r Gadeirlan wedyn gadw Herrick yn brysur pan benodwyd ef yn Ail Gantor Eglwys Gadeiriol Tyddewi, lle, rhwng 1991-94, bu ef yn gyfrifol am drefnu'r addoli yn unol â chalendr gwasanaethau, digwyddiadau ac achlysuron arbennig y Gadeirlan.

Gwnaeth ei swydd nesaf ei ddarparu ef â her hollol gyferbyniol, sef, fel ficer yn nhirwedd ôl-ddiwydiannol tref Rhydaman, sydd wedi'i lleoli yn Sir Gaerfyrddin. Yno, daeth ef ar draws y diweithdra eang a'r heriau a achoswyd gan broblemau cymdeithasol cydredol.

Yr un mor frwdfrydig ag y bu ef erioed, gwnaeth Herrick, rhwng 1988 a 2000 ymgymryd â nifer o gyfrifoldebau a wnaeth ragori ar ei ddyletswyddau plwyfol. Cyfunwyd caplaniaethau i

Gadetiaid Awyr y Llu Awyr Brenhinol, Cadetiaid Byddin Dyfed a theuluoedd milwrol lleol â dyletswyddau ar Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru a Chomisiwn Bugeiliol yr Esgob.

Gwnaeth y mileniwm newydd fynd â Herrick yn ôl i Aberystwyth, lle, am bymtheg mlynedd, gwnaeth ef weinidogaethu ar y cychwyn fel ficer tîm yn Eglwys St Michael, yn bennaf gyfrifol am waith efengylu ymhlith myfyrwyr y brifysgol a phobl ifanc eraill, a hefyd yn gyfrifol am y tîm addoli ar gyfer pobl o bob oedran. Fel ficer Eglwys St Anne yn ardal Penparcau'r dref, ardal a oedd ganddi lawer o dai cymdeithasol, roedd gweinidogaeth Herrick yn hynod am ei bod hi'n darparu'r angenrheidiau ffisegol a chefnogol nad oedd, oni bai hynny, ar gael mewn ardal mor dlawd a difreintiedig. Drwy gydol yr amser hwn yn Aberystwyth, gwasanaethodd Herrick fel Caplan Cynorthwyol yn ysbyty mawr Bronglais.

Wedi'i benodi yn ganon anrhydeddus i Gadeirlan Tyddewi yn 2012, dychwelodd Herrick i Lambed yn 2015 fel Offeiriad â Gofal am grŵp o bump o eglwysi Llambed sydd wedi'u canoli ar eglwys blwyf fawr oes Fictoria, sef Eglwys St Peter. Yno, dechreuodd ef raglen o gofleidio'r gymuned er mwyn cynyddu'r gynulleidfa, yn ogystal â dechrau gwerthuso a hyrwyddo teilyngdod pensaernïol ac artistig sylweddol Eglwys St Peter.

Ar hyn o bryd, ac ers 2018, wrth iddo wasanaethu fel Archddiacon Ynys Môn, yn Esgobaeth Bangor, mae arweinyddiaeth Herrick wedi ceisio cynorthwyo ac annog eglwysi'r ynys wrth iddynt geisio addasu i heriau addoli a chenhadu newydd; hefyd mae ef yn cynnig uwch arweinyddiaeth esgobaethol fel aelod o Gyngor yr Esgob.



Pan oedd ef yn Eglwys St Peter, Llambed, gwnaeth Herrick chwarae rhan yn gwarchod a hyrwyddo cofebion amlwg y Rhyfel Mawr sydd yn yr eglwys. Gwnaeth hyn adlewyrchu ei ddiddordeb hirdymor mewn cyrff elusennol sy'n cefnogi aelodau gorffennol a phresennol y lluoedd arfog a'u teuluoedd.  Drwy gyfuno'r gefnogaeth hon a'i hoffter mawr am gerdded hirbell sy'n rhoi prawf ar wytnwch corfforol, mae ef yn mynd yn rheolaidd ar hirdeithiau o gwmpas meysydd brwydr Gwlad Belg a Ffrainc, yn aml yng nghwmni ei ferch Rachel.

Yn anffodus, wedi ymddeol o chwarae rygbi'n rheolaidd pan oedd ef yn 38 mlwydd oed, mae Herrick yn parhau i fod yn gefnogwr gweithredol, ond o'r llinell ystlys, ac wedi chwarae i'r coleg rhwng y blynyddoedd 1977 a 1980, mae ef dal yn dod i weld tîm cyn-ddisgyblion y coleg yn chwarae, sef y 'Lampeter Old Codgers'.

Yn bwriadu ymddeol yn 2022, mae Herrick a Sara yn gobeithio ymsefydlu eto yn Llambed, gan gwblhau, felly, cylch o wasanaethu pedwar deg pump o flynyddoedd o hyd, a chyrraedd yn ôl i'r man lle gwnaeth y cyfan ddechrau. Ond nid yw'r sawl sy'n gyfarwydd â chymeriad Herrick yn disgwyl rhyw lawer bydd ei ymddeoliad ef yn un eisteddol iawn.

# John Holdsworth



Mae John Holdsworth yn ysgolhaig Beiblaidd, yn ddiwinydd ymarferol ac yn gyn-archddiacon esgobaeth Tyddewi a Chyprus a'r Gwlff.

Addysgwyd Holdsworth yn Ysgol Ramadeg Leeds ac yna yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Yn dilyn hyn, hyfforddodd ar gyfer yr offeiriadaeth yng Ngholeg Sant Mihangel, Llandaf; Cafodd ei ordeinio yn ddiacon yn 1973 ac yn offeiriad yn 1974. Roedd cyfres o swyddi i ddilyn yn Ne Cymru. Bu Holdsworth yn gurad St Paul, Casnewydd am bedair blynedd, yn ficer Abercraf a Challwen rhwng 1977 a 1986, ac yna'n ficer Gorseinon tan 1997. Ochr yn ochr â hyn, roedd yn Gaplan yr Esgob dros Addysg Ddiwinyddol rhwng 1980 a 1997.

Parhaodd Holdsworth i astudio, gan raddio gyda MTh o Goleg Prifysgol Caerdydd yn 1975. Teitl ei Ddoethuriaeth, a oruchwyliwyd gan D.P. Davies ac a ddyfarnwyd gan Goleg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, ym 1992, oedd 'The relationship between worship and suffering in 1 Peter and Revelation.' Archwiliodd y cysylltiadau rhwng y ddau lyfr hyn o'r Testament Newydd, a ysgrifennwyd i gymunedau yn yr un ardal ddaearyddol, o fewn amser byr i'w gilydd o bosibl.

Yn 1997, dychwelodd i addysg uwch amser llawn i ddod yn bennaeth a warden yng Ngholeg Diwinyddol Sant Mihangel, Llandaf. Sant Mihangel oedd yr unig goleg hyfforddiant gweinidogol ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru. Cafodd Holdsworth glod eang am osod y seiliau ar gyfer ei foderneiddio. Daeth yn ganolfan o amrywiaeth, rhagoriaeth a diwinyddiaeth gorfforol. Yn unol ag un o'i brif ddiddordebau, dechreuodd y rhaglen ar gyfer Astudiaethau Caplaniaeth. Yn ogystal ag arwain Sant Mihangel, bu Holdsworth yn darlithio mewn astudiaethau Beiblaidd ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd.

Yn 2003, daeth yn Archddiacon Tyddewi ac yn ficer Steynton, ger Aberdaugleddau. Fel Archddiacon, roedd ganddo rôl yn uwch-dîm arwain yr esgobaeth. Roedd ei gyfrifoldebau yn eang, yn amrywio o oruchwylio deunydd adeiladau eglwysi i ofal bugeiliol y clerigwyr i gymryd rhan yn y gwaith o drefnu plwyfi a gweinidogaethau lleol. Ochr yn ochr â hyn, roedd ganddo nifer o swyddi ar gyfer CYTUN, a'i rhagflaenydd, Cyngor Eglwysi Cymru. Mewn gwirionedd, mae wedi cynrychioli Cymru mor bell i ffwrdd â Strasbwrg, Oslo, Basel ac Israel / Palestina.

Ei swydd nesaf oedd ei swydd gyntaf y tu allan i Gymru; yn 2010, cafodd ei benodi i'r rôl newydd fel Archddiacon Gweithredol Cyprus a'r Gwlff. Yn ogystal â Chyprus, mae'r esgobaeth enfawr yn cwmpasu Penrhyn Arabia, Irac ac Yemen. Dywedodd y Gwir Barchedig Michael Lewis, yr esgob esgobaethol 'Mae'r swydd newydd hon yn rôl bwysig mewn ardal bwysig. Mae'n gofyn am ddychymyg, profiad a gallu creadigol.' Roedd Holdsworth hefyd yn gaplan eglwys St Helena, Larnaca. Cymerodd ymddeoliad ffurfiol yn 2019, gan barhau fel Cyfarwyddwr Gweinidogaeth am ddwy flynedd drawsnewidiol arall; mae'n parhau yn y rôl hon. Ar yr un pryd, daeth yn Ganon Diwinyddol Eglwys Gadeiriol St Pauls, Nicosia.

Mae Holdsworth yn awdur toreithiog, yn aml yn gosod ei lyfrau yn y gofod rhwng astudiaeth boblogaidd o'r Beibl a chyflwyniadau academaidd i ddiwinyddiaeth. Roedd Dwelling in a Strange Land (Gwasg Caergaint, 2003) yn Llyfr y Grawys, wedi'i ysgrifennu'n rhannol mewn ymateb i ddigwyddiadau 11 Medi 2001. Ar ôl archwilio argyfwng ffydd a ysgogwyd gan yr alltudiaeth Iddewig ym Mabilon, aeth Holdsworth ymlaen i ddisgrifio'r eglwys fel 'lle i alltudion.'

Yn *Lies, sex and politicians : communicating the Old Testament in contemporary culture* (Gwasg SCM, 2010), dangosodd berthnasedd parhaus yr Hen Destament. Cynigiodd daith dywysedig o ddetholiad o'i uchafbwyntiau, ynghyd ag ystyried rhai o'r darnau mwy anodd. Dywedodd Jensen, 'Mae ychydig o lyfrau yn yr Hen Destament sy'n llwyddo i gau'r bwlch rhwng y gorffennol a'r presennol mewn ffordd nad yw'n rhy syml neu'n anwybodus, ac sy'n ddarllenadwy hefyd. Dyma un ohonynt.'

Llyfr diweddaraf Holdsworth yw *Honest sadness: lament in a pandemic age* (Sacristy Press, 2021). Mewn ymgysylltiad di-rwystr â dioddefaint, bu'n olrhain galarnad trwy'r Beibl, o Genesis i'r Datguddiad. Yn ei farn ef, galarnad yw cyfrwng anghofiedig y Beibl mewn ymateb i ddioddefaint personol, cyfunol a byd-eang. Ochr yn ochr â deunydd Beiblaidd, disgrifiodd Holdsworth rai o'i brofiadau ei hun gyda thrawma, mewn lleoedd sy'n amrywio o Sir Gaerhirfryn i Baghdad. Fe'i disgrifiwyd gan James Woodward fel diwinyddiaeth ar ei gorau, 'yn rhydd o ystrydeb, llaw fer fformiwläig, iaith lwythol ac unrhyw foddhad byrhoedlog y gallem ei ennill o fyw ar yr wyneb.' Fe'i disgrifiwyd gan John Saxbee fel 'un o'r llyfrau mwyaf rhyfeddol yr wyf erioed wedi'i ddarllen.'

Mae Holdsworth yn rhestru darlledu fel un o'i ddifyrion; mae wedi ymddangos yn aml ar BBC Wales a Radio 4. Hefyd, ef oedd prif gyflwynwr rhaglenni crefyddol ar gyfer HTV Cymru rhwng 1988 a 1998, gan weithio ar ryw 150 o eitemau. Roedd yn athro gwadd ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam rhwng 2012 a 2018; Mae ganddo Ddoethur mewn Diwinyddiaeth anrhydeddus o Goled Queen's, Newfoundland.

**Ffynonellau**

Holdsworth, Ven. Dr. John Ivor (ganwyd 10 Chwefror 1949). Cyrchwyd ar 24 Mehefin 2021 o https://doi.org/10.1093/ww/9780199540884.013.U20481

Holdsworth, yr Hybarch John Ivor.Yn:*Crockford's Clerical Directory* (argraffiad 101, 2010-2011). Llundain: Church House Publishing

Holdsworth, J.I. (1992). *The relationship between worship and suffering in 1 Peter and Revelation.* (Traethawd ymchwil doethurol heb ei gyhoeddi). Coleg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, y Deyrnas Unedig.

BBC. (2010). From the Landsker line to Larnaca. Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2021 o http://news.bbc.co.uk/local/southwestwales/hi/people_and_places/religion_and_ethics/newsid_8728000/8728370.stm

Duggan, M. (Medi 26 2007). Church in Wales governing body: St Michael's is to be saved for the future. *Church Times.* Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2021 o https://www.churchtimes.co.uk/articles/2007/28-september/news/uk/church/in/wales-governing-body-st-michael-s-is-to-be-saved-for-the-future

Francis, L. (Tachwedd 2010). Gallu rhoi sylw i fanylion a chywirdeb. *Pobl Dewi.* Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2021 o https://s03.amazonaws.com/3/4/2013/cinw/wp-content/uploads/sites/4/2013/03/PoblDewi10November.pdf


Saxbee, J. (Mehefin 2021). Honest sadness: lament in a pandemic age. *Pobl Dewi.* Cyrchwyd ar 29 Mehefin 2021 o

Lent Book selection (27 Chwefror 2007). *Church Times.* Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2021 o https://www.churchtimes.co.uk/articles/2004/30-january/books-arts/book-reviews/lent-book-selection

Jenson, P. (2011). [Adolygiad o'r llyfr *Lies, sex and politicians: communicating the Old Testament in contemporary culture*, gan J. Holdsworth]. *Theology, 114*(2),125-126. Cyrchwyd ar 25 Mehefin o https://journals-sagepub-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/full/10.1177/0040571X10393632

Woodward, J. (9 Ebrill 2021). Theology for pandemic times [Postiad blog]. Cyrchwyd ar 25 Mehefin 2021 o https://jameswoodward.info/blog/theology-for-pandemic-times/

# Graham Hoyland



Mae Graham Hoyland yn ysgrifennwr, gwneuthurwr rhaglenni dogfen, morwr a mynyddwr. Ef oedd y pymthegfed Prydeiniwr i ddringo Everest.

Magwyd Hoyland yn swydd Rutland, lle gwledig dros ben. Mae'n cofio dringo i mewn i hen dwbyn ymolchi pan oedd ef tua saith mlwydd oed. Hwyliodd i lawr afon fechan, brwsiodd heibio canghennau a gwelodd golygfeydd newydd ymhellach i lawr yr afon. Penderfynodd bryd hynny yr hoffai ef fod yn anturiaethwr. Astudiodd yn ysgol Oakham, sefydliad annibynnol blaenllaw.

Aeth Hoyland ymlaen i astudio llenyddiaeth Saesneg yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant. Yn Llambed, roedd yn aelod o glwb mynydda'r myfyrwyr ac o glwb y Crwydrwyr Toeon neu 'Roof Ramblers'. Byddai hyn yn achosi iddo benderfynu nes ymlaen i ddringo Everest. Ar ôl graddio, ymunodd â'r BBC fel cynhyrchydd a chyfarwyddwr. Gweithiodd ar ystod eang o raglenni a oedd yn amrywio o *Dragons' Den* i *Around the World in 80 Faiths* a *The Other Boat Race.*

Ochr yn ochr â hyn, gwnaeth diddordeb mawr Hoyland mewn mynyddoedd barhau. Pan oedd yn dair blynedd ar ddeg oed, gwnaeth gwrdd â rhywun a oedd yn perthyn iddo o bell, sef Howard Somervell, y mynyddwr, llawfeddyg a chenhadwr (roedd y teulu yn ei adnabod wrth yr enw 'Uncle Hunch'). Roedd Somervell wedi bod yn ffrind agos i George Mallory, ac yn aelod o alldaith 1924 i Everest. Roedd Somervell wedi ymgeisio cyrraedd y copa gydag arweinydd yr alldaith, Edward. F. Norton. Gwnaethant gyrraedd o fewn 1 000 o droedfeddi o'r copa cyn gwneud y penderfyniad i droi yn ôl. Yn ystod eu disgyniad, gwnaethant gwrdd â Mallory a'i gydymaith dringo, Sandy Irvine. Gwnaeth Mallory amlinellu cynlluniau ar gyfer ei ymgais ef ei hun i gyrraedd y copa. Roedd hefyd wedi anghofio ei gamera; gwnaeth Somervell roi benthyg ei gamera Kodak 'Vest Pocket' iddo. Ni ddaeth Mallory ac Irvine fyth yn ôl; mae'n ddirgelwch beth ddigwyddodd iddynt. Flynyddoedd wedyn, meddai Somervell wrth yr Hoyland ifanc 'So if my camera was ever found, you could prove that Mallory got to the top.' Swynwyd y llanc gan y chwedl.

Dywed Hoyland am Everest 'I have spent over two years of my life on that mountain, returning there again and again,' ac 'It is a moral crucible in which we are tested, and usually found wanting. … Twice Everest has nearly killed me. But I find it utterly addictive.' Dringodd ef y mynydd hwnnw gyntaf yn 1993, dim ond y pymthegfed (neu'r ail ar bymtheg) Prydeiniwr i wneud hynny. Dywedodd mai dim ond ychydig yn fwy na bwrdd ystafell fwyta yw maint y copa.

Ymhen hir a hwyr, perswadiodd Hoyland y BBC i ariannu alldaith i chwilio am gamera colledig Somervell; comisiynwyd y rhaglen yn 1998. Pe bai'r alldaith yn llwyddiannus, byddai'n anochel y byddent hefyd yn dod o hyd i gorff naill ai Mallory neu Irvine. Hefyd, ym marn Kodak, gwneuthurwr y camera, pe bai'r ffilm wedi'i dinoethi, ac yna wedi'i chadw ar dymheredd dan sero, mae'n debygol y byddai wedi bod yn bosibl i ddatblygu unrhyw luniau a gafodd eu tynnu. Yn 1975, dywedwyd bod Wang Hung-bao, cludydd uchder uchel Tsieineaidd, wedi dod o hyd i gorff 'English dead,' ar uchder o ryw 26 000 o droedfeddi. Gwnaeth yr alldaith Brydeinig-Americanaidd, gan gynnwys y BBC, ddechrau chwilio am ei gorff marw. Yn drist, bu rhaid i Hoyland ddychwelyd i'r Gwersyll Cychwyn oherwydd salwch pen mynydd. Ond yn wir, daeth ei gyd-ddringwyr ar draws corff marw Mallory yn gorwedd ar ei wyneb ar waelod llechwedd sgri. Ar ôl casglu ei eiddo, gwnaethant gladdu ei gorff ymhlith y creigiau gan ddarllen a chynnal drosodd Wasanaeth Claddedigaeth.

Yn 2006, aeth Hoyland yn ôl i Everest, y tro hwn, wedi ei wisgo yn yr un modd â Mallory. Drwy ddefnyddio'r tameidiau o ddefnydd a oedd ar ôl ar gorff marw Mallory, gwnaeth dau deiliwr replicâu cywir o ddillad Mallory a oedd hyd yn oed yn fanwl gywir o safbwynt fforensig. Byddai un siwt, wedi'i chreu yn unol â mesuriadau Mallory, yn cael ei harddangos. Crëwyd y set arall o ddillad i Hoyland; byddai ef yn eu rhoi nhw ar brawf er mwyn gweld a fydden nhw'n ddigonol ar gyfer cyrraedd y copa yn llwyddiannus. Meddai ef 'First impressions were of beautiful natural materials … There were something like eight layers of material around my waist and yet it all felt warm, light and comfortable.' Gwnaeth Hoyland hefyd ddarganfod ei fod yn gallu symud yn hawdd iawn o hyd. Ei dyb oedd, pe bai'r tywydd wedi parhau i fod yn braf, 'Mallory and Irvine could have reached the summit comfortably wearing this clothing.' Ond yn y diwedd, ac yn amharod i wneud hynny, daeth Hoyland i'r casgliad na fyddai Mallory ac Irvine wedi gallu cwblhau eu hesgyniad oherwydd y tywydd ofnadwy a'r pwysedd baromedrig isel. Mae wedi ysgrifennu'r canlynol am Mallory 'What he didn't know was that the rapidly falling air pressure was effectively making the mountain higher, and that the incoming blizzard was going to make his clothing very thin indeed.'

Mae Hoyland yn forwr ac yn fynyddwr medrus. Medd ef fod y ddau weithgaredd, mewn rhai ffyrdd, yn eithaf tebyg a bod 'Both … involve uncomfortable battles with the elements interspersed with short moments of pleasure, and both seem to attract similar personalities.' Wedi dringo Everest a Denali (Mount McKinley gynt) a hwylio dros Gefnfor y De i Antarctica, roedd ganddo uchelgais i fordeithio dros y saith fôr a dringo i ben y saith copa. Mae ei brosiect 'Seven Seas, Seven Summits' yn golygu ei fod yn dringo'r mynydd uchaf ar bob cyfandir, ochr yn ochr â hwylio'r saith fôr. Mae'n gobeithio mai ef bydd y cyntaf i gyflawni hyn. Yn 2009, prynodd gwch hwylio ail-law; gwnaeth ei ddefnyddio i hwylio Gogledd yr Iwerydd. Hyd yn hyn, mae wedi llwyddo dringo pump o'r saith copa, gyda dim ond Mount Vinson yn Antarctica a'r Carstensz Pyramid yn Awstralasia ar ôl. O ran y cefnforoedd, mae ef wedi hwylio Cefnfor yr Arctig, Cefnfor y De, Gogledd yr Iwerydd a Chefnfor yr India, gyda De'r Iwerydd, a Gogledd a De'r Môr Tawel ar ôl i'w gwneud. Mae ef wedi dweud 'The sea scares me more than mountains. It can really feel like it's out to get you and sometimes you feel very vulnerable.'

Mae Hoyland yn awdur i bedwar llyfr. Yn ogystal â *The last hours on Everest: the gripping story of Mallory and Irvine's fatal ascent,* (HarperCollins, 2014), mae hefyd wedi ysgrifennu *Yeti: an abominable history* (HarperCollins, 2019). Ar ôl disgrifio dod o hyd i olion traed yn yr eira na allwyd eu hesbonio, gwnaeth groniclo'r troeon honedig pan welwyd y bwystfil chwedlonol hwnnw sydd, o ran taldra, yn mesur saith troedfedd ac sydd ganddo, yn ôl pob sôn, draed sy'n wynebu tuag yn ôl. Yna, aeth ymlaen i drafod bwystfilod eraill y soniwyd amdanynt mewn llên gwerin gyfoes, gan gynnwys anghenfil Loch Ness, a Bigfoot, fersiwn Gogledd America o'r ieti. Yn ysgrifennu yn *The*

*Times,* meddai Richard Morrison 'So Hoyland's book is not so much an abominable history of the yeti as of human gullibility.'

Mewn cyferbyniad llwyr, sylweddolodd Hoyland fod tymor y Gwanwyn yn Lloegr yn symud tua'r gogledd mwy neu lai'r un mor gyflym ag y mae rhywun yn cerdded. Penderfynodd gerdded o arfordir y de i Ororau'r Alban er mwyn mwynhau gweld y Gwanwyn yn ymddangos yn y gwahanol ardaloedd y byddai ef yn teithio drwyddynt. Gan ddechrau yn Christchurch, ychydig o filltiroedd i'r dwyrain o Bournemouth, cyrhaeddodd y ffin gyda'r Alban yn Gretna Green ar Fehefin 20fed, diwrnod diwethaf y Gwanwyn. Wrth gerdded ar hyd labyrinth o lwybrau troed hynafol, gwnaeth farcio pob milltir drwy blannu mesen. Disgrifiodd ei daith yn *Walking through Spring,* (HarperCollins, 2016).

Cafodd llyfr diweddaraf Hoyland *Merlin: the power behind the Spitfire, Mosquito and Lancaster: the story of the engine that won the battle of Britain and WWII,* (HarperCollins, 2020), ei gyhoeddi mewn pryd i goffáu pen-blwydd dechrau Brwydr Prydain, yn bedwar ugain mlwydd oed. Ynddo, mae'n rhoi hanes peiriant Merlin Rolls Royce a wnaeth bweru pob un o awyrennau mwyaf eiconig y rhyfel ac a wnaeth, yn ôl pob tebyg, atal Hitler rhag goresgyn. Meddai Greenwood yn *The Spectator,* 'Hoyland marries the drama and excitement with a clear focus on the technical: he puts you in the cockpit and into the very guts of the machines.'

Mae Hoyland wedi ysgrifennu i *The Times, The Mail on Sunday* a *The Independent.* Mae wedi darlithio ar 'Mount Everest' ac ar ei lyfrau mewn amrywiol leoliadau, gan gynnwys sefydliad y Smithsonian, yr Alpine Club, Y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol ac yn Seremoni Gwobr Aur Dug Caeredin ym Mhalas St James.

**Ffynonellau**

Poston, P. (2013). Interview with Graham Hoyland, author of the new book "Last hours on Everest – the gripping story of Mallory and Irvine's fatal ascent." Adalwyd ar Ragfyr 4 2020 oddi wrth https://www.explorersweb.com/news.php?url=interview-with-graham-hoyland-author-of-_137226662

Hoyland, G. (2020). Graham Hoyland author [LinkedIn page]. LinkedIn. Adalwyd ar Ragfyr 4 2020 oddi wrth https://www.linkedin.com/in/graham-hoyland-a3044828/?originalSubdomain=uk

Hoyland, G. (2019). Graham Hoyland. Adalwyd ar Ragfyr 4 2020 oddi wrth https://www.grahamhoyland.com

Calder, C. (2013, August 12). Book review: Last Hours on Everest, by Graham Hoyland – Mallory's attempt to conquer the 'Third Pole' show the human costs of climbing Everest. *Independent.* Adalwyd ar Ragfyr 4 2020 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/14828ED3C068C068?p=UKNB

Everest: summit of achievement. (2003). London: Bloomsbury

Hoyland, G. (2006, July 8). Dress rehearsal for an epic quest – Men. *The Times* Adalwyd ar Ragfyr 4 2020 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/112F28769AD310C0?p=UKNB

Hoyland, G. (2010, August 27). Mystery at the top of the world – Viewspaper Did George Mallory make it to the summit of Everest before he died? Graham Hoyland argues that he couldn't have – due to a deadly combination of bad weather and worse luck. *Independent.* Adalwyd ar Ragfyr 7 2020 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/131DDD8D30201180?p=UKNB

Hoyland, G. (2002, February 23). High places: climb every mountain, sail every sea – there's nothing mountaineers like more than absurd challenges, says Graham Hoyland. So he has risen to the occasion and devised a conquest to put them in seventh heaven. *Independent.* Adalwyd ar Ragfyr 7 2020 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/132A8F901AD264E0?p=UKNB

BBC (2012). Readers' own adventurous expeditions. Adalwyd ar Ragfyr 7 2020 oddi wrth https://www.bbc.co.uk/news/magazine-19818883

Morrison, R. (2018, May 26). The hairy hoax in the Himalayas – our willingness to believe that the yeti exists is a perfect example of human gullibility says Richard Morrison. Book of the week. *The Times.* Adalwyd ar Ragfyr 7 2020 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/16C28FEABB1C5AD0?p=UKNB

Greenwood, C. (2020, October 24). The power behind the few: Rolls-Royce's Merlin engine. Adalwyd ar Ragfyr 7 2020 oddi wrth https://www.spectator.co.uk/article/the-power-behind-the-few-rolls-royce-s-merlin-engine

# Jules Hudson

Mae Jules yn archaeolegydd, yn ysgrifennwr, ac yn ddarlledwr sydd efallai fwyaf enwog am gyflwyno *Countryfile* ac *Escape to the country.*

Ganwyd Jules yng Nghaer Colun (Colchester) yn 1970. Roedd ei dad yn beiriannydd mecanyddol ac yn gyfarwyddwr technegol i E.H. Bentall & Co., cwmni a oedd yn cynhyrchu peiriannau amaethyddol. Gwnaeth ei fam redeg busnes gwely a brecwast yno am ddeugain mlynedd. Yn ei farn ef, gwnaeth '*growing up in a home where there were lots of different faces from around the world gave me the confidence to engage with people, to talk and listen to them*.' Mynychodd ef Uwchysgol Fechgyn Caer Colun ac yna, Uwchysgol Ipswich fel lletywr diwrnodau gwaith yn unig. Gwnaeth ei ddiddordeb mewn archaeoleg ddatblygu'n gynnar. Yr hyn yr oedd ef am ei gael, yn fwy na dim byd arall, ar gyfer ei seithfed pen-blwydd oedd taith dywysedig o'r cromgelloedd Rhufeinig sydd dan Gastell Caer Colun. Ar ymadael â'r ysgol, dechreuodd weithio i Ymddiriedolaeth Archaeolegol Caer Colun, ac yno, gwnaeth ddarganfod ei ddiddordeb mawr mewn Archaeoleg Maes a gwyddor gloddfaol.

Yn y diwedd, gwnaeth ei gymdogion ei berswadio i wneud cais am le mewn prifysgol; daeth i Brifysgol Cymru Llambed i astudio archaeoleg. Yma, gwnaeth fyw yn Llanddewi Brefi, yr union bentref lle, yn ôl pob sôn, cododd y tir o dan Dewi Sant; y pentref a fyddai ymhen hir a hwyr yn gartref iddo am fwy na hanner ei fywyd.



*Eglwys Dewi Sant, Llanddewi Breifi*
https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Eglwys_Dewi_Sant-Llanddewi-Brefi-01.jpg
Roger Kidd / Eglwys Dewi Sant, Llanddewi-Brefi, Ceredigion

Wedi ei hudo gan hanes milwrol, derbyniwyd ef yn 1993 i gael ei hyfforddi fel swyddog milwrol gan Academi Filwrol Frenhinol Sandhurst. Ond pan ddiddymwyd ei uned ddetholedig, sef y 3$^{edd}$ Gatrawd Danciau Frenhinol, yn dilyn Adolygiad gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, ymddiswyddodd Hudson a gwnaeth ei fywyd ddilyn llwybr gwahanol. (Cwblhaodd ei hyfforddiant fel swyddog milwrol lawer yn ddiweddarach yn ei fywyd; mae

bellach yn gwasanaethu yng Nghronfa Fyddin Peirianwyr Brenhinol Sir Fynwy Frenhinol). Cyrchnod nesaf Jules oedd Prifysgol Durham lle astudiodd am radd Meistr mewn Arolygu Archaeolegol; yna, gwnaeth weithio fel geoffisegydd.

Yn Durham, gwelodd, ar hap, griw ffilm ar Lawnt y Castell yn gweithio ar addasiad o *Jude the Obscure.* Penderfynodd roi cynnig ar weithio ym myd teledu oherwydd gwnaeth ef ei ystyried yn ffordd o fynegi ei greadigrwydd a'i ddiddordeb mewn hanes. Symudodd i Lundain i weithio 'for very little, making tea and sweeping floors. I started from the bottom up as a runner, then junior researcher, researcher and eventually producer.' Gwnaeth ei swyddi cyntaf ym myd teledu gynnwys gwaith ar gyfer y Discovery Channel a gweithio sawl tro ar raglen *Time Team* i Sianel Pedwar. Bu hefyd yn gweithio y tu cefn i'r llwyfan i *Horizon* ac ar dair cyfres ar hanes milwrol a gyflwynwyd gan y diweddar Athro a Brigadydd, Richard Holmes.

Dechreuodd gyrfa Jules gyda *The making of England* i Meridian*,* i'w dilyn gan *Revival,* sioe ITV am ailgreu digwyddiadau hanesyddol. Yna, yn 2007, penderfynodd pennaeth y teledu oriau dydd fanteisio ar hoffter mawr Jules, sef byw yn y wlad, gan gynnig iddo'r cyfle i helpu cyflwyno *Escape to the Country,* rhywbeth a wnaeth brofi i fod yn gyfle a fyddai'n newid ei fywyd ac y byddai ef bob amser yn ddiolchgar amdano. Ar y sioe, caiff prynwyr arfaethedig eu dangos amrywiaeth o dai delfrydol, a rhoddir hefyd iddynt gyfle i brofi byw yn y wlad ac ymwneud â chrefftau a gorchwylion cefn gwlad traddodiadol.

Yn hanesydd milwrol brwdfrydig, mae ef hefyd wedi cyflwyno nifer o raglenni poblogaidd ar yr Ail Ryfel Byd – *How we won the war, s*y'n disgrifio ymdrechion dynion a menywod cyffredin gartref yma ym Mhrydain; *Dig 1940* sy'n archwilio archaeoleg filwrol, a *Dive WWII* sy'n adrodd hanes Brwydr yr Iwerydd. Gwnaeth *Defenders of the sky,* a ddangoswyd ar y Sianel Hanes H2, archwilio deng o feysydd awyr pwysicaf Prydain, o'r tro cyntaf i rywun hedfan i'r ras arfau niwclear. Am dros ddegawd, bu Jules yn rhan o dîm cyflwyno *Countryfile* a *Countryfile Diaries,* ac mae hefyd wedi cyflwyno nifer o raglenni ar dreftadaeth adeiledig Prydain, yn ogystal â *Britain's Heritage Heroes*, ochr yn ochr â John Craven.

Cyhoeddwyd llyfr cyntaf Jules, *Walled Gardens*, yn 2018 gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac yn fuan, daeth hwn yn llyfr llwyddiannus dros ben. Ynddo, gwnaeth ef archwilio hanes, dylunio ac etifeddiaeth ddiwylliannol gerddi llysiau ledled y DU sydd â mur o'u cwmpas. Dilynwyd y llyfr hwn gan *The Escape to the Country Handbook* (2020)*,* a gafodd hefyd ei gyhoeddi gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac sy'n cynnig cyngor ymarferol ar sut a ble i fyw yng nghefn gwlad Prydain. Yn ogystal, mae Jules yn ysgrifennu erthyglau i amrywiaeth o gylchgronau, gan gynnwys ysgrifennu colofn yn rheolaidd i *Welsh Border Life.*

Mae Jules bellach yn byw ar Ororau Cymru gyda'i wraig Tania, eu mab Jack a'r ddau gi Labrador Teddy ac Iolo. Roedd yn Llywydd Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig rhwng 2015 a 2018, a gwnaethpwyd ef yn Gymrawd Anrhydeddus Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn 2013.

**Ffynonellau**

Parker, P. (2015, August 22). My 'Escape to the country dream.' *EA life.* Adalwyd ar Fai 21 2020, oddi wrth: http://www.juleshudson.com/wp/wp-content/uploads/2015/10/jules1-2.pdf

Jules Hudson. (2018). Adalwyd ar Fai 22 2020, oddi wrth:https://www.juleshudson.com/

White, R. (2020, April 5). A country escape – the rural property show presenter Jules Hudson shows Roland White his Herefordshire haven. *Sunday Times.* Adalwyd ar Fehefin 1 2020, oddi wrth: https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/17A26E5D1AD166F8?p=UKNB.

# Arthur Hughes

Ysgrifennwr, bardd, ysgolhaig a beirniad llenyddol oedd Arthur Hughes (1878-1965).

Brodor o Fryn Melyn, ger Harlech, oedd Hughes. O'r pedwar plentyn a oedd gan John Hughes Jones, meddyg, ac Annie Harriet Jones, ef oedd yr hynaf. Gwnaeth y teulu fyw yn Llundain, ond roedd ei fam yn wreiddiol yn dod o Dalsarnau, ardal Ardudwy. Yn defnyddio'r ffugenw Gwyneth Vaughan i ysgrifennu, byddai Annie yn cyfrannu'n aml at gyfnodolion Cymraeg. Ysgrifennodd hi hefyd bedair nofel, ac roedd hi'n ddylanwad pwysig ar ddiddordebau llenyddol Arthur. Mae'n debyg roedd Arthur yn blentyn rhagaeddfed, ac fe wnaeth geisio'n gynnar dysgu Almaeneg a Groeg. Hyd yn oed pan oedd yn ifanc iawn, roedd yn frwdfrydig dros ieithoedd a Plato, ac yn awyddus i ddysgu am weithiau athronwyr yr henfyd, megis Homer, Plato a Dante, ac i ymgyfarwyddo ei hun â llenyddiaeth Shakespeare a Milton. Dysgodd hefyd i ganu'r delyn. Ond ychydig iawn yr ydym yn gwybod am ei addysg yn yr ysgol.

Yn 1902, daeth Arthur yn Ysgolhaig Cymraeg yng Ngholeg Dewi Sant, Llambed; dyfarnwyd iddo'r Ysgoloriaeth Eldon, werth £20 y flwyddyn. Graddiodd gyda gradd BA Dosbarth Cyntaf gydag Anrhydedd yn 1905, a'i diwtor Cymraeg yn ystod ei flwyddyn gyntaf yn Llambed oedd Robert Williams, gŵr gradd o Goleg Merton, Rhydychen. Cyfrannodd Hughes hefyd erthygl o'r enw *Welsh in Lampeter* at gylchgrawn y coleg ar gyfer mis Mehefin 1904. Meddai ef, 'With regard to the internal life of the College …, perhaps one of the most encouraging signs is the interest which, on the whole, appears to be taken in Welsh questions of the day.' Ond aeth ymlaen i dynnu sylw at ffaith bwysig - er roedd gan lyfrgell y coleg lawer o lyfrau am Gymru, roedd hi'n amlwg nad oedd ganddi lawer o lyfrau wedi'u hysgrifennu yn y Gymraeg. Hefyd, aeth ymlaen i grybwyll nad oedd Ystafell Ddarllen y Myfyrwyr yn derbyn yr amrywiol gyfnodolion eglwysig Cymraeg, heb sôn hyd yn oed am *Cymru* ac *Y Geninen.*

Mae'n debyg roedd iechyd Hughes yn wael ar ôl iddo raddio; gwnaeth ei fam ei ddisgrifio'n 'confirmed invalid.' Gofynnwyd iddo hefyd, mae'n debyg, i ad-dalu'r arian ysgoloriaeth y gwnaeth ef ei dderbyn. Mae'n bosibl y gwnaeth ef, yn wreiddiol, ymuno â Llambed gan fwriadu bod yn offeiriad, ond gwnaeth wedyn newid ei feddwl. Ond ar nodyn mwy hapus, cyhoeddodd Hughes ddwy antholeg ar lenyddiaeth Gymraeg, *Cywyddau Cymru* (Jarvis a Foster, 1908), a *Gemau'r Gogynfeirdd* (D. Caradog Evans, 1910). Gwnaeth adolygiad o *Cywyddau Cymru* yn *The Nationalist* ddisgrifio Hughes fel 'a young Welsh scholar of unusual promise,' gan ddod i'r canlyniad 'We expect great things of Mr Hughes; this his first book does him great credit.' Y gynulleidfa y gwnaeth y cyhoeddiad hwn ei thargedu oedd plant ysgol a myfyrwyr prifysgolion, a'i brif ffocws oedd datblygiad llenyddiaeth Gymraeg o ganol y bedwaredd ganrif ar ddeg tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Argraffwyd ei waith ysgolheigaidd nesaf, sef 'Gemau'r Gogynfeirdd' ym Mhwllheli, oherwydd ef oedd ei olygydd, ac roedd yn byw yno ar y pryd. Ysgrifennodd un o'i gyfeillion ysgolheigaidd, yr ieithydd Ifor Williams, ragair i'r cyhoeddiad hwnnw.

Yn drist, bu farw mam Hughes yn 1910. Yn dilyn y digwyddiad trist hwn, gwahoddwyd Hughes y flwyddyn ganlynol, dan nawdd Eluned Morgan, un o gyfeillion ei fam, i ymfudo i'r Wladfa Gymraeg ym Mhatagonia, ac i hwylio gyda'r fintai ddiwethaf i gael ei threfnu, a oedd yn cynnwys 113 o ymfudwyr o Gymru, ar yr agerlong *Orita*. Cyrhaeddodd y llong Puerto Madryn ar Dachwedd 27 1911, ac mewn llythyr a ysgrifennodd ef yn 1912 at ei chwaer Laura, a oedd gartref, meddai Hughes ei fod wedi dechrau dysgu Sbaeneg. Ei fwriad oedd aros yno ychydig o fisoedd yn unig, ond ar ôl i Eluned ddychwelyd i Gymru yn 1912, aeth Hughes i fyw yn Fron Deg, yn y Gaiman. Nes ymlaen yn ystod y cyfnod hwnnw, ar Ionawr 10 1918, priododd ef weddw o'r enw Mrs H.M. Durrouzet. (Tad-cu

ei wraig, W.E. Williams, oedd sylfaenydd ardal Treorci, Chubut). Daeth Erw Fair (cartref ei wraig), a oedd wedi ei leoli yn ardal Treorci, Chubut, yn gartref teuluol i Arthur a Hannah.

Roedd Hughes yn feirniad llenyddol nodedig, ac yn aml, byddai'n adolygu llyfrau a gyhoeddwyd yng Nghymru a fyddai o ddiddordeb i'r gymuned Gymraeg yn yr Ariannin. Roedd ganddo, fel ysgolhaig, ysgrifennwr, bardd a thelynor, ddylanwad mawr ar ddiwylliant Cymreig Patagonia. Byddai'n cyfrannu'n aml at bapur Cymraeg Patagonia, sef *Y Drafod*, gan ysgrifennu yn y Gymraeg, Saesneg a Sbaeneg. Cafodd nifer o'i erthyglau hefyd eu cyhoeddi yn *Y Gwerinwr* ac yn y *Gwiliedydd*. Gwnaeth hefyd gyfieithu cerddi Ffrangeg ac Almaeneg i'r Gymraeg, a chafodd rhai erthyglau am yr iaith Hebraeg a'i llenyddiaeth eu cyhoeddi yn 1902 yng nghylchgrawn yr Eglwys, sef, *Yr Haul.* Mae'n debyg fe aeth Hughes yn drwm ei glyw pan oedd yn lled ifanc. Yn y diwedd, achosodd ei fyddardod ef i ymddeol a rhoi'r gorau i fywyd cyhoeddus.

Roedd gan Hughes bedwar o blant, tair merch a mab. Cydnabuwyd dwy o'i ferched yn feirdd enwog, a daeth Irma Hughes de Jones yn fardd cadeiriog y wladfa, a gwasanaethodd hi hefyd fel golygydd *Y Drafod* am bron hanner cant o flynyddoedd. Bu farw Hughes ar Fehefin 25 1965.

**Ffynonellau**

Williams, R.B. (2001). Hughes, Arthur (1878-1965). *Dictionary of National Biography.* Adalwyd ar Awst 23 2021 oddi wrth https://biography.wales/article/s2-HUGH-ART-1878?&query=arthur%20hughes&searchType=nameSearch&lang[]=en&sort=sort_name&order=asc&rows=12&page=1

Hughes, A. (1904). Welsh in Lampeter. *St David's College, Lampeter. The College and School Magazine. 8*(7), 302-307.

*Cywyddau Cymru.* Wedi eu dethol a'u golygu gan Arthur Hughes. (1909). *The Nationalist, 2*(24), 33. Adalwyd ar Awst 23 2021 oddi wrth https://journals.library.wales/view/2407833/2408698/32#?cv=32&m=24&h=&c=&s=&manifest=https%3A%2F%2Fdamsssl.llgc.org.uk%2Fiiif%2F2.0%2F2407833%2Fmanifest.json&xywh=-1017%2C1026%2C4943%2C2545

Parry, T. (1979). Arthur Hughes 1878-1965. *Taliesin, 38,* 6-23.

# Joseph Hughes (Carn Ingli)

## Clerigwr a Bardd

Wedi'i eni yn 1803, ac yn frodor o Barcau, Trefdraeth, Sir Benfro, gwnaeth Joseph Hughes fyw am y rhan fwyaf o'i fywyd gwaith yn Meltham, Swydd Gaerefrog. Cafodd ei addysg yn ysgolion gramadeg Caerfyrddin ac Ystrad Meurig, cyn mynd i Goleg Dewi Sant yn 1824. Ar ôl graddio, ordeiniwyd ef yn ddiacon gan Esgob Tyddewi a gwnaethpwyd ef yn offeiriad yn ystod y flwyddyn ganlynol. Ei unig guradiaeth yng Nghymru oedd yn Llanfihangel Penbedw, Sir Benfro, ond dim ond curadiaeth fer oedd hon, oherwydd erbyn 1830, penodwyd ef yn beriglor cyntaf yr eglwys newydd yn Lockwood, Almondbury, Swydd Gaerefrog.



*Adfeilion eglwys St. Michael yn Llanfihangel Penbedw*
https://upload.wikimedia.org/wikipedia/commons/b/b8/Church_of_St._Michael_-_geograph.org.uk_-_572000.jpg ©Roger W Haworth / Church of St. Michael

Treuliodd Hughes saith mlynedd yn Lockwood, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, gwnaeth gwrdd â Catherine Laycock a'i phriodi, a chawsant un ferch, Jane. Yn dilyn cyfnod byr o weithio fel curad yn Lerpwl, symudodd y pâr yn ôl i Swydd Gaerefrog, gan gymryd curadiaeth Meltham, lle gwnaeth Hughes weithio tan ei farwolaeth yn 1863, yn un a thrigain mlwydd oed. Gwnaeth ei goflith yn y *Huddersfield Chronicle* ei ddisgrifio fel a ganlyn: 'an amiable man and respected Christian minister… [who] by his faithful preaching, active benevolence, and his unwearied exertions wrought a gratifying change to Meltham.' Roedd hyn yn amlwg ar ddiwrnod ei angladd pan wnaeth clerigwyr a gwŷr mawr y gymdogaeth, Bwrdd Lleol Meltham, yr ysgolion a nifer mawr o drigolion y dref sefyll mewn rhes ar hyd y ffordd sy'n arwain i'r eglwys, y ffordd

y byddai'r orymdaith angladdol yn ei dilyn. Ond nid gweinidog mawr ei barch yn unig oedd Hughes, roedd ef hefyd yn awdur ac yn fardd a elwid yng Nghymru wrth yr enw Carn Ingli, enw a fabwysiadwyd ganddo ar ôl mynydd ym mro ei febyd, Trefdraeth.



*Carn Ingli*
https://upload.wikimedia.org/wikipedia/commons/c/ca/Mynydd_Carningli_-_geograph.org.uk_-_27994.jpg ©Richard Webb / Mynydd Carn Ingli

Yn ogystal ag ysgrifennu cerddi niferus, roedd Hughes yn gyfieithydd dawnus, yn cyfieithu, ymhlith eraill, emyn cenhadol yr Esgob Herbert, sef *From Greenland's Icy Mountains* a rhannau o *Night Thoughts* gan Edward Young. Ef hefyd ysgrifennodd hanes safonol Meltham, gan ddechrau ar y gwaith hwnnw yn 1851, ond pan fu farw, nid oedd wedi'i orffen a chafodd ei olygu gan ei wraig Catherine, ac yn y diwedd ei gyhoeddi yn 1866. Drwy gydol ei fywyd, gwnaeth Hughes ddychwelyd yn rheolaidd i Gymru er mwyn mynychu, ac ar lawer o achlysuron, cynnal yr eisteddfod flynyddol.

A dweud y gwir, Hughes oedd un o bedwar o hyrwyddwyr Eisteddfod Fawreddog Llangollen 1858 a wnaeth, er gwaethaf y cweryla rhwng y beirniaid a'r pwyllgor dros ddyfarnu'r gwobrau, a'r ffaith bod y pafiliwn yn llawn tyllau a wnaeth adael y glaw i mewn, helpu sefydlu'r Eisteddfod Genedlaethol, sy'n parhau hyd heddiw. Cafodd yr eisteddfod ei hysbysebu ledled Cymru, Lloegr ac America, gan atynnu miloedd o bobl a oedd wedi teithio ar droed, ar y gamlas neu ar drenau gwibdaith o Ogledd a De Cymru, Lerpwl, Manceinion a Birmingham.

Hon oedd yr eisteddfod gyntaf i Orsedd y Beirdd wisgo gynau yn hytrach na'r sashiau arferol ar eu breichiau. Gwnaeth hi hefyd gyflwyno rhai cystadlaethau anghyffredin, megis gwobr o £3 i'r labrwr dydd gyda'r nifer mwyaf o blant a oedd yn gallu darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg, a £2 am y gân orau i gael ei chyfeilio drwy daro ffon yn erbyn y llwyfan.

Hughes hefyd oedd Ysgrifennydd a Bardd swyddogol Cymdeithas Clerigwyr Cymru yn West Riding, grŵp o glerigwyr o Gymru a oedd yn byw yn yr ardal ac a ddechreuodd i gwrdd yn 1852 er mwyn trafod materion a oedd yn ymwneud â'r Eglwys yng Nghymru, gan gyhoeddi eu trafodion ym mhapurau newydd a chyfnodolion Cymru.

Mae Hughes wedi'i gladdu gyda'i wraig a'i ferch ym mynwent eglwys St. Bartholomew, Meltham.

**Ffynonellau:**

Brooke, Alan. (2013, January 22). The Reverend Thomas Jones – the Druid Curate of Netherthong [Blog Post]. Adalwyd oddi wrth: https://undergroundhistories.wordpress.com/2013/01/22/the-reverend-thomas-james-the-druid-curate-of-netherthong/

Death of the Rev. Joseph Hughes (Carn Ingli), Incumbant of Meltham. (1963, May 9) *Huddersfield Chonicle.* Adalwyd oddi wrth: https://huddersfield.exposed/wiki/The_Welshman_(27/Nov/1863)_-_Death_of_the_Rev._Joseph_Hughes

Emlyn, Hedd ap. Llangollen Eisteddfod – September 1858. Adalwyd oddi wrth: http://www.llangollen.com/llangollen-eisteddfod-september-1858/

Williams, Daniel, 'Hughes, Joseph (Carn Ingli; 1803-1863), cleric and eisteddfodic poet, *Dictionary of Welsh Biography* (1959). Adalwyd oddi wrth: https://biography.wales/article/s-HUGH-JOS-1803?&query=st%20davids%20college%20lampeter&lang%5b%5d=en&sort=score&order=desc&rows=12&page=4

# Joshua Hughes



Joshua Hughes (1807-1889) oedd esgob Cymraeg cyntaf Llanelwy am bron cant a hanner o flynyddoedd.

Ganwyd Hughes yn New Mill, Nanhyfer, Sir Benfro ar Hydref 7 1807. Ei rieni oedd Caleb Hughes, melinydd, a'i wraig Magdalen. Cafodd ei addysg yn ysgol ramadeg Ystrad Meurig; ar ôl hynny, ef oedd un o'r myfyrwyr cyntaf i fynychu Coleg Dewi Sant, Llambed, ac astudiodd yno o 1828 tan 1830. Bob blwyddyn, byddai'n ennill dosbarth cyntaf yn yr arholiadau, a gwobrau am ei draethodau Cymraeg a Lladin. Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn 1830, ac yn offeiriad yn 1831. Ymhen hir a hwyr, yn 1868, graddiodd o Lambed gyda gradd B.D. Daeth dau o'i frodyr yn glerigwyr.

Priododd Jones yn 1832; ei wraig oedd Margaret, gweddw Capten Gun a merch y barwnig Gwyddelig, Syr Thomas Mckenny. Oherwydd y briodas honno, etifeddodd ystâd ar lannau Llyn Como. Cafodd ef a Margaret dri mab a phum merch; ac o'r rhain oll, byddai Joshua Pritchard Hughes yn cael ei benodi'n esgob Llandaf, a Thomas McKenny Hughes yn athro daeareg yng Nghaergrawnt.

Gweithiodd y mab hynaf, Joshua Hughes, fel curad yn Aberystwyth, ac yna yn Eglwys Dewi Sant, Caerfyrddin. Yn 1838, penodwyd ef yn ficer Abergwili, pentref ychydig o filltiroedd i gyfeiriad y gogledd-gogledd-ddwyrain o Gaerfyrddin. Roedd llys esgob Tyddewi yn ei blwyf ef, a gweithiodd yn agos gyda'r Esgob Thirlwall, gan addysgu Cymraeg iddo. Daeth Hughes yn ficer Llandingad, Llanymddyfri yn 1845. Yno, gweithiodd yn eiddgar, yn aml yn marchogaeth 25 o filltiroedd ar ddyddiau Sul i gynnal pedwar gwasanaeth. Efengylaidd oedd eglwysyddiaeth Hughes. Roedd yn fugail cydwybodol ac yn bregethwr da. Gweithiodd yn arbennig o galed ar ran achosion addysgol - ysgolion eglwysig, ysgolion Sul, ac addysg uwch. Ymhen hir a hwyr, daeth yn ddeon gwlad ac yn broctor confocasiynol yr esgobaeth. Yn y ddadl dros ddyfodol Coleg Dewi Sant, roedd e'n ffafrio cyfuno â Choleg Crist Aberhonddu. Pe bai hynny wedi digwydd, byddai'r sefydliad a grëwyd gan y cyfuno wedi'i leoli yn Aberhonddu.

Yn 1870, ar ymddeoliad yr Esgob Thomas Vowler Short o Lanelwy, aeth Gladstone, y prif weinidog, i drafferth fawr i sicrhau olynydd a oedd yn Gymro Cymraeg. Meddai Gladstone 'I have not since taking my present office felt more strongly the gravity of any matter of duty requiring to be done

than this of the Welsh bishopric.' Gwnaeth hen is-bennaeth Hughes yn Llambed ei gymeradwyo yn 'good man, a pupil of mine, with whom I have entertained very friendly relations ever since my early connection.' Yn dilyn proses ddethol hir, gwnaeth Gladstone enwebu Hughes yn esgob Llanelwy; ef oedd y Cymro Cymraeg cyntaf yn y rôl honno ers i John Wynne ymadael yn 1727. Hefyd, byddai'n pregethu yn y Gymraeg ar bob cyfle. Roedd penodiad Hughes yn ddadleuol. Nid oedd wedi mynychu unrhyw un o brifysgolion Lloegr; yn ôl pob sôn, mae'n debygol y gwnaeth Gladstone feddwl bod gan Hughes radd o Gaergrawnt, oherwydd cafodd ei gamarwain gan wall yn *Crockford's Clerical Directory*. Yna, ceisiodd yn aflwyddiannus ddianc o'r penodiad. Ynghyd â hyn, nid oedd llawer y tu allan i Gymru yn gwybod am Hughes, a dim ond profiad o weinidogaeth blwyfol yng Nghymru oedd ganddo. Roedd llawer o'r uwch glerigwyr esgobaethol yn ystyried eu hunain yn well nag ef o ran eu haddysg a'u statws cymdeithasol. Mae'n bosibl hefyd nad oedd hanes ei briodas ffodus wedi gwella ei statws. Ond cafodd penodiad Hughes effaith symbylol dros ben ar farn y wlad Gymreig. Yn ogystal â hyn, roedd ei amser fel esgob yn llwyddiannus, a gwelwyd cynnydd sylweddol. Adeiladwyd eglwysi newydd, yn ogystal â llawer o ysgolion eglwysig. Cyflwynodd Hughes fwrdd addysg esgobaethol yn 1870, cymdeithas ymestyn eglwysi yn 1871, a chynhadledd esgobaethol yn 1878. Er gwaethaf awyrgylch chwerw'r cyfnod hwnnw, sefydlodd berthnasau da gyda'r anghydffurfwyr. Gweithiodd yn galed i ddod o hyd i glerigwyr a oedd yn medru'r Gymraeg ar gyfer plwyfi Cymraeg a dwyieithog, yn ogystal ag annog cynnal gwasanaethau Cymraeg ar gyfer Cymry Cymraeg a oedd yn byw mewn trefi Saesneg eu hiaith. Mynnodd hefyd fod plwyfolion Cymraeg yn cael ei gwasanaethu, hyd yn oed pe bai hynny'n golygu gorfodi offeiriaid nad oedd yn gallu eu gwasanaethu eu hunain i gyflogi curadiaid addas ar gyfer hynny.

Tarwyd Hughes â'r parlys ym mis Awst 1888; ac o ganlyniad, methodd lofnodi'r weithred i ymddeol o'i esgobaeth. Bu farw ar Ionawr 21 1889, a chladdwyd ef yn Llanelwy.

**Ffynonellau**

Havard, W. T., (1959). Hughes, Joshua (1807-1889), bishop. *Dictionary of Welsh Biography*. Ar gael oddi wrth: https://biography.wales/article/s-HUGH-JOS-1807. [Adalwyd ar Ebrill 28 2020]

Buckland, A. R., and D. T. W. Price. "Hughes, Joshua (1807–1889), bishop of St Asaph." *Oxford Dictionary of National Biography.* 23 Sep. 2004; Ar gael oddi wrth: https://www-oxforddnb-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-14083. [Adalwyd ar Ebrill 28 2020]

Cragoe, M. A question of culture: the Welsh church and the bishopric of St Asaph, 1870. *Welsh history review = Cylchgrawn hanes Cymru.* 1996;18(1-4):228-254. Ar gael oddi wrth: https://journals.library.wales/view/1073091/1082967/239#?xywh=-1619%2C-63%2C5617%2C3438. [Ar gael o Ebrill 28 2020 ymlaen]

Brown, R.L. (2005). *In Pursuit of a Welsh Episcopate. Appointments to Welsh Sees, 1840-1905.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

# David Lloyd Isaac

Roedd David Lloyd Isaac (1818-1876) yn awdur cynhyrchiol yn ogystal â chlerigwr.

Ganwyd Isaac yn Llanwenog, tua phum milltir i orllewin de-orllewin Llanbedr Pont Steffan. Daeth yn aelod o Eglwys Bedyddwyr Aberduar yn Llanybydder. Yn 1835, ymunodd ag Academi Bedyddwyr y Fenni i hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth; y flwyddyn ganlynol, symudodd gyda'r coleg i Bont-y-pŵl. Daeth yn weinidog ar gapel Bedyddwyr Cymru y Tabernacl yng Nghastell-nedd yn 1838. Roedd yn llawn bywyd, a bu bron â threblu nifer y bobl yn ei gynulleidfa, a sefydlodd eglwysi newydd yn Aberdulais, Glyn-nedd a Phontardawe. Sefydlodd Gymdeithas Cymreigyddion yng Nghastell-nedd hefyd. Fodd bynnag, cododd anawsterau pan ddychwelodd ei ragflaenydd fel gweinidog, Titus Jones, i'r dref a dechreuodd gasglu cynulleidfa mewn cystadleuaeth.

Amheuwyd Isaac o anuniongrededd. Wedi'i siomi gan yr honiad, derbyniodd gynnig i weinidogaeth yn Eglwys Trosnant, Pont-y-pŵl yn 1841. Y flwyddyn ganlynol, fe briododd Jemima Thomas yng nghapel Bedyddwyr Bethania, Castell-nedd. Dywedir bod Isaac yn gymeriad atyniadol, gan weinidogi dros eglwys gyda dros ddau gant o aelodau. Fodd bynnag, roedd ei amser yno yn gythryblus. Yn benodol, bathwyd y llysenw 'Lawr ag e' arno. Yn ystod un o'r dadleuon eithaf aml gyda'i gynulleidfa, dywedir bod hen wraig wedi'i chythruddo cymaint nes gweiddi 'Lawr ag e'.

Daeth gweinidogaeth Isaac yn Nhrosnant i ben yn sydyn yn 1853, pan drodd yn ddadleuol at Anglicaniaeth. Yna astudiodd am ddwy flynedd yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Mae cofnodion Bwrdd y Coleg ar gyfer 16 Mehefin 1855 yn adrodd y dyfarnwyd Gwobr Traethawd Creaton iddo werth £7 am "Swrdwal". Ordeiniwyd Isaac yn ddiacon yn Llandaf ym mis Medi 1855, ac yna fel offeiriad ym mis Medi 1856. Roedd ei guradiaeth gyntaf yn Llangadog ger Castell-nedd. Yn 1858, symudodd Isaac i Langathen, tua 12 milltir i ddwyrain y gogledd-ddwyrain o Gaerfyrddin. Mae'n ymddangos ei fod wedi bod yn gydwybodol, gan lwyddo i gynyddu nifer y cymunwyr. Roedd yn gyfrifol am adferiad sylweddol o eglwys St Cathen. Tynnwyd yr oriel orllewinol, a rhoddwyd llawr, seddi a tho newydd i'r adeilad. Yn ogystal â hyn, adeiladodd Isaac ysgol a ficerdy, ac ailadeiladodd gapel adfeiliedig. Arhosodd Isaac yn Llangathen tan 1871, pan ddaeth yn ficer i Langamarch yn Sir Frycheiniog.



Eglwys Llangathen, lle'r oedd Isaac yn offeiriad

Drwy gydol ei fywyd, roedd Isaac yn awdur cynhyrchiol, ond un eithaf ansystematig, ar hanes, hynafiaeth ac ieitheg. Fel bedyddiwr, roedd yn gyfrannwr rheolaidd i *Seren Gomer*; ar ôl iddo ddod

yn Anglicanwr, byddai'n ysgrifennu'n rheolaidd ar gyfer *Yr Haul*, cylchgrawn swyddogol yr Anglicaniaid. Nodai Jenkins ei gasgliad amrywiol '*Llyfrgell Llwyd o Llangathen'*(1858-59) a'i erthygl ar gyfieithwyr y Beibl, a gyhoeddwyd yn 1856. Gwnaeth hefyd ennill gwobr Eisteddfod am draethawd ar *'Hanes Llanbedr a'r Gymmydogaeth'* yn 1860.

Yn 1859, cyhoeddodd Isaac *Siluriana*, cyfrol am hanes Sir Fynwy a Morgannwg. Mae'r dudalen deitl yn ei ddisgrifio fel casglwr; roedd wedi cynnwys darnau mawr o lawysgrif anorffenedig a chaotig a ysgrifennwyd gan William Davies (1756-1823). Dywed Phillips ei bod yn aml yn amhosibl gwahaniaethu rhwng gwaith y ddau awdur. Mae'r gwaith gorffenedig yn anhrefnus o hyd; yn y rhagair, eglurai Isaac na fwriadwyd unrhyw hanes olynol na threfn gronolegol. Yn ychwanegol, cafodd rhai penodau eu hysgrifennu'n annibynnol, yn aml ar gyfer papurau newydd neu gylchgronau. Fodd bynnag, er gwaethaf ei olygu rhyfedd, mae'r llyfr yn llawn o wybodaeth anghyffredin.

Bu farw Isaac yn Llangamarch ar 31 Mawrth 1876; mae yna lechen er cof amdano ar wal ddeheuol yr eglwys. Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru 44 o lyfrau nodiadau bach, sy'n cynnwys nodiadau o'i bregethau.

**Ffynonellau**

Jenkins, R. T., (1959). ISAAC, DAVID LLOYD (1818 - 1876), clerigwr ac awdur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Cyrchwyd ar 21 Gorffennaf 2021, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ISAA-LLO-1818

The Rev. David Lloyd Isaac. (1937). *Transactions and archaeological record / Cardiganshire Antiquarian Society, 12,* 46. Cyrchwyd ar 21 Gorffennaf 2021 o https://cylchgronau.llyfrgell.cymru/view/1177372/1178863/47#?xywh=-3322%2C-243%2C9410%2C4844

Llangamarch. (2021). Parch. D. Lloyd Isaac. Cyrchwyd ar 21 Gorffennaf 2021 o https://www.llangammarchhistory.co.uk/local-people-of-interest/rev-d-lloyd-isaac.html

Phillips, D.R. (1994). *A romantic valley in Wales. The history of the Vale of Neath.* [S.l.]: Gwasanaeth Archifau Sir Gorllewin Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Castell-nedd

Bradney, J.A. (1992). *A history of Monmouthshire from the coming of the Normans into Wales down to the present time.* Llundain: Academy Books

Phillips, D.R. (1916). 'A forgotten Welsh historian (William Davies, 1756-1823)'. *The journal of the Welsh Bibliographical Society,* 2(1),1-43. Cyrchwyd ar 22 Gorffennaf 2021 o https://cylchgronau.llyfrgell.cymru/view/1226390/1226691/6#?xywh=-2358%2C-173%2C6697%2C3447

Isaac, D.L. (cyfansawdd) *Siluriana: or, contributions towards the history of Gwent & Glamorgan.* Cyrchwyd ar 23 Gorffennaf 2021 o https://books.google.co.uk/books?id=swsLAAAAYAAJ&pg=PA1&source=gbs_toc_r&cad=3#v=onepage&q&f=false

Married. (1842, December 31). *Monmouthshire Merlin.* Cyrchwyd ar 23 Gorffennaf 2021 o https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/view/3393843/3393846/32/

# Yr Athro Robert Jackson

Mae Robert Jackson yn arbenigwr mewn addysg grefyddol a rhyngddiwylliannol, ac yn Gyfarwyddwr Sefydlol Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwig (Warwick Religions and Education Research Unit -WRERU).

Ganwyd Robert Mason David ('Bob') Jackson ar Fehefin 11 1945 yn Ilkeston, Derbyshire. Mynychodd Ysgol Hallcroft, cyn astudio diwinyddiaeth yng Ngholeg Dewi Sant, Llambed. Yna, astudiodd am Dystysgrif Addysg i Raddedigion yng Ngholeg Fitzwilliam Caergrawnt. Yng Nghaergrawnt, roedd yn aelod o Footlights, clwb theatraidd enwog y brifysgol.

Roedd swydd addysgu gyntaf Jackson wedi'i lleoli yn Uwchysgol Nottingham, lle y gwnaeth ef weithio o 1967 tan 1971. Yna, symudodd i Goleg Addysg Cofentri a dechreuodd i astudio, dros gyfnod hir, addysg fel disgyblaeth benodol. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cwblhaodd astudio am radd MA mewn athroniaeth. Yn 1978, ymgorfforwyd Coleg Addysg Cofentri ym Mhrifysgol Warwig o dan yr enw Campws Westwood. Daeth Jackson yn rhan o'r Adran Addysg Gelf (yn ddiweddarach yr Athrofa Addysg, ac wedyn y Ganolfan Astudiaethau Addysg). Roedd y gwaith tuag at ei radd PhD, a ddyfarnwyd iddo yn 1994, yn ymwneud â'r berthynas rhwng addysg grefyddol ac astudiaethau crefyddol. Hefyd, yn 1994, daeth Jackson yn gyfarwyddwr cyntaf WRERU, Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwig. Dyrchafwyd ef yn 1995 yn Athro Crefyddau ac Addysg. Arhosodd gydag WRERU tan iddo ymddeol yn 2012; mae'n parhau i chwarae rhan yng ngwaith yr uned. Yn 2006, dyfarnwyd iddo radd DLit gan Brifysgol Cymru, Llambed, am ddetholiad o'i waith cyhoeddedig. Mae ganddo ddoethuriaethau anrhydeddus a ddyfarnwyd iddo gan Brifysgol Diwinyddiaeth Norwyaidd (MF) Oslo, a hefyd gan Brifysgol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Norwyaidd (NTNU) Trondheim.



Robert Jackson

Mae Jackson yn dadlau, os ydy addysg yn ymwneud â deall profiad dynol yn ei gyfanrwydd, yna, rhaid iddo hefyd gynnwys crefydd. Mae ef yn ystyried addysg grefyddol yn rhan bwysig o ddatblygiad personol a chymdeithasol myfyrwyr. Ei waith ymchwil cynharaf oedd gwaith ethnograffig ar deuluoedd Hindŵ ym Mhrydain yr ymgymerwyd ag ef gydag Eleanor Nesbitt. Yn dilyn hyn, ysgrifennodd gyfres o lyfrau ar Hindŵaeth, gan gynnwys *Approaches to Hinduism* (1988, gyda Dermot Killingley); *Religions through Festivals: Hinduism* (1989), a *Listening to Hindus* (1990, gyda Nesbitt).

Cyhoeddodd Jackson *Religious Education: An Interpretive Approach* (Hodder a Stoughton) yn 1997. Gwnaeth ddadlau, yn hytrach na dilyn ymagwedd 'ffenomenolegol' Ninian Smart at addysg grefyddol, gallai anthropoleg, efallai, fod yn fethodoleg ffrwythlon. Mae ymagwedd ddeongliadol Jackson yn archwilio'r perthnasau dynamig sy'n bodoli rhwng unigolion, y grwpiau y maent hwy yn ymwneud â nhw, a thraddodiadau crefyddol ehangach. Ceir hefyd ynddi elfen adfyfyriol, lle mae'r myfyriwr yn ystyried goblygiadau'r dysgu newydd o safbwynt ei ddatblygiad ef ei hun. Yn *Rethinking Religious Education and Plurality* (RoutledgeFalmer, 2004), awgrymodd Jackson fod potensial addysgol astudio crefydd mewn ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth heb ei lawn werthfawrogi. Dylid ystyried ysgolion cymunedol fel rhai sy'n darparu cyd-destun lluosogaethol ar gyfer datblygiad addysgol, yn hytrach na fel mannau dysgu secwlar. Mae'r amrywiaeth o grefyddau a'r ffyrdd o fyw a geir yn ysgolion y wladwriaeth yn cynnig cyfle enfawr ar gyfer cynnal deialog.

Mae Jackson wedi chwarae rhan fawr yng ngwaith Cyngor Ewrop ar bolisi crefydd ac addysg. Mae ei rôl wedi cynnwys cyfrannu at waith y Cyngor ynglŷn ag addysgu crefyddau, addysg ryngddiwylliannol a dinasyddiaeth. Yn benodol, mae ef wedi cynnal astudiaeth ar ran y Cyngor, yn archwilio'r posibilrwydd o sefydlu canolfan addysgol Ewropeaidd; byddai rhan o'i chylch gwaith yn cynnwys astudiaethau ar amrywiaeth grefyddol. Mewn ymateb i hyn, agorodd yr European Wergeland Centre yn Oslo yn 2008. Mae'n disgrifio ei hun yn ganolfan adnoddau addysg i hyrwyddo dealltwriaeth ryngddiwylliannol, hawliau dynol a dinasyddiaeth ddemocratig. Jackson oedd ei hathro cyntaf, ac mae hefyd yn athro gwadd i Goleg Prifysgol Oslo ac Akershus, lle'r oedd y ganolfan wedi'i lleoli'n gyntaf.

Hefyd, roedd Jackson yn gyd-drefnwr y Cyfnewid Cyngor Ewrop cyntaf i gael ei gynnal rhwng arweinwyr cymunedau ffydd a chymdeithasau dyneiddiol. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn yn Strasbourg ym mis Ebrill 2008. Roedd ef hefyd yn rhan o'r tîm a wnaeth ddrafftio Argymhelliad Cyngor y Gweinidogion ar addysgu am argyhoeddiadau crefyddol ac anghrefyddol (a gyhoeddwyd yn 2008). Cyhoeddwyd ei lyfr *Signposts: Policy and Practice for Teaching About Religions and Non-Religious Worldviews* gan Gyngor Ewrop yn 2014 i gynorthwyo'r sawl sy'n gweithredu argymhellion y Cyngor.

Gwnaeth Jackson olygu *Resource: The Journal of the National Association of Teachers of Religious Education* o 1978 tan 1996. Daeth yn olygydd y cyfnodolyn *British Journal of Religious Education* ym mis Medi 1996; ynddo, gwnaeth wella ansawdd y cyflwyniadau drwy gyflwyno system gadarn o adolygu gan gymheiriaid.

Etholwyd Jackson yn Gymrawd Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol yn 2010. Yn 2013, rhoddwyd iddo gan Gymdeithas Addysg Grefyddol (Religious Education Association - REA) yr Unol Daleithiau wobr William Rainey Harper (a ddyfernir i arweinwyr rhagorol y mae eu gwaith nhw mewn meysydd eraill wedi effeithio'n ddwys ar addysg grefyddol). Gwnaethpwyd Jackson hefyd yn aelod gydol oes o'r REA. Mae ef hefyd yn aelod gydol oes o Gymdeithas Darlithwyr Addysg Grefyddol Prifysgolion. Yn 2017, dyfarnwyd i Jackson ddoethuriaethau anrhydeddus gan Brifysgol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Norwyaidd Trondheim a Phrifysgol Diwinyddiaeth Norwyaidd (MF) Oslo. Mae hefyd yn athro gwadd yn Adran y Dyniaethau ac Addysg Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Stockholm.

Yn ogystal â'i weithgareddau academaidd, mae Jackson yn gerddor jas brwdfrydig. Pan oedd yn Llambed, byddai'n chwarae jas gyda Band Jas Dyffryn Teifi. Ers y 1980au, mae wedi canu'r trombôn i fand o'r enw Spicy Jazz. Yn 1987, gwnaeth gynnig bod y blaenwr band a thrympedwr, Humphrey Lyttelton, yn cael doethuriaeth anrhydeddus gan Brifysgol Warwig. Yna, gwahoddwyd Lyttelton i chwarae fel cerddor gwadd gyda Spicy Jazz, ac fe ysgrifennodd y nodyn ar gyfer clawr eu recordiad *Coming of Age*. Ar ôl marwolaeth Lyttelton yn 2008, daeth Jackson yn Noddwr Ymddiriedolaeth

Humph, a sefydlwyd er mwyn codi arian ar gyfer cerddorion jas ifanc. Mae Jackson hefyd yn fardd; mae detholiad o'i waith wedi cael ei gyhoeddi yn *Narrowboat Music* (Grevatt & Grevatt).

**Ffynonellau**

Robert Jackson (educator). (2020, May 30). In *Wikipedia.* https://en.wikipedia.org/wiki/Robert_Jackson_(educator).

University of Warwick. (2020). Professor Robert Jackson*.* Adalwyd ar Fai 29, 2020, oddi wrth*:* https://warwick.ac.uk/fac/soc/ces/research/wreru/aboutus/staff/rj.

Jackson, R. (2015). Inclusive study of religions and other worldviews in publicly-funded schools in democratic societies. In: Stoekl, K. (ed.) *The future of religious education in Europe.* European University Institute, 2015. Adalwyd oddi wrth: https://cadmus.eui.eu/bitstream/handle/1814/37735/FutureReligiousEducationEurope_2015.pdf?sequence=1&isAllowed=y.

Hull, J.M. (2006). Rethinking religious education and plurality: issues in diversity and pedagogy. *British educational research journal.* 32(1):151-152. Adalwyd oddi wrth: www.jstor.org/stable/30032666.

The European Wergeland Centre. Adalwyd ar Fai 29, 2020, oddi wrth: https://theewc.org/

# John James

Roedd John James (1923-1993) yn awdur ffuglen hanesyddol; yn ôl ei ffrind Byron Rogers ef oedd 'nofelydd hanesyddol mwyaf fy oes.'

Brodor o Aberafan oedd James. Astudiodd athroniaeth yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, ac wedyn cwblhaodd MA mewn seicoleg yng Ngholeg Selwyn, Caergrawnt. Daeth yn seicolegydd i'r Weinyddiaeth Amddiffyn; roedd ei ddyletswyddau'n cynnwys darlithio ar ddethol a hyfforddi criwiau awyr ar gyfer yr RAF yn Brampton. Bu hefyd yn gweithio'n athro ac wedyn i'r Gwasanaeth Sifil Gwyddonol. Priododd â Helen Mary Norman yn 1953; cafodd y pâr ddau o blant.

Ysgrifennodd James gyfres o nofelau hanesyddol. Yng ngeiriau Byron Rogers, 'Roedd John yn deall y gorffennol oherwydd ei fod yn gallu byw ynddo ... Gwyddai sut y byddai dyn o gyfnod arall wedi gwisgo a'r hyn y byddai wedi'i fwyta, ond yn bwysicach, gwyddai beth oedd yn mynd ymlaen yn ei ben.' Wrth esbonio pam roedd yn well ganddo ffuglen hanesyddol, meddai James 'Os ysgrifennwch am y presennol mae'n llawer anoddach gwneud i bethau swnio'n argyhoeddiadol. Ond mae ysgrifennu am y gorffennol yn golygu eich bod chi'n ysgrifennu am sefyllfa lle mae gennych o leiaf gymaint o wybodaeth ag unrhyw un arall.'

Llyfr cyntaf James oedd *Votan* (1966), wedi ei leoli yn yr 2$^{il}$ ganrif OC. Mae Photinus, offeiriad i Apollo, yn mynd ar daith i'r gogledd i ddod o hyd i ambr. Ar ei ffordd daw llwyth ar ei draws, sy'n credu mai ef yw'r duw Votan neu Odin. Yn y pen draw, mae Photinus yn cyrraedd Asgard, lle mae'n canfod mai dim ond meidrolion yw'r rhai y credir eu bod yn dduwiau Llychlynnaidd. Falhala yw canolfan fasnachu'r byd gorllewinol. Mewn adolygiad yn y *Daily Telegraph,* meddai David Holloway, 'Ac eithrio ambell lithriad bob hyn a hyn, mae Mr James yn ysgrifennu ag awch mawr. Pentyrrir digwyddiad ar ben digwyddiad, a phob un wedi ei weld trwy lygaid braidd yn sinigaidd Photinus/Votan. Galwodd Neil Gaiman *Votan* 'y llyfr gorau i'w ysgrifennu erioed, fwy na thebyg, am y Northmyn.'

Ar ôl *Votan* ysgrifennodd James *Not for all the gold in Ireland,* (1968). Mae Photinus yn teithio i Brydain ac Iwerddon; mae James yn gwasgaru'n ofalus gymeriadau o'r *Mabinogi* a chwedlau'r *Táin* o Iwerddon. Roedd ei drydedd nofel *Men went to Cattraeth* (1969) yn seiliedig ar *Y Gododdin*. Mae'r gerdd hir hon, y dywedir iddi gael ei chyfansoddi ar ddiwedd y 6$^{ed}$ ganrif OC, yn disgrifio taith gan 300 o ryfelwyr Celtaidd o Aber Gweryd i Gatraeth (Catterick yn Swydd Efrog fwy na thebyg). Yna trechwyd y Brythoniaid gan lu Eingl-Seisnig mwy o faint. Yn ôl adolygydd nofel James yn *The Observer,* '... mae'r awdur wedi cyfuno nofel o dân dychmygus llwm sy'n disgrifio sut y symudodd y sifalri Celtaidd Rhufeinig, a gynhaliwyd yng Nghaeredin, yn hyderus i'r de drwy'r wal adfeiliedig i gael gwared ar aneddiadau'r Saeson, gan ymdrin â'i ffawd.

Cafodd y tair nofel eu hailargraffu mewn un rhwymiad yn 2014, yn y gyfres Fantasy Masterworks. Mae'r gyfrol yn cynnwys cyflwyniad gan un o edmygwyr James, Neil Gaiman.

Mae gwaith diweddarach James yn llai adnabyddus. Ysgrifennodd un nofel arall a oedd wedi ei lleoli yn y byd Rhufeinig. Yn *Bridge of Sand* (1976), mae'r dychanwr Juvenal yn arwain milwyr Rhufeinig i goncro Iwerddon, gan deithio dros bont hudol o dywod. Caiff gymorth gan Vergilius, sef y bardd Fyrsil. Ysgrifennodd James bedair nofel hefyd, wedi eu lleoli yn y 17$^{eg}$ a'r 18$^{fed}$ ganrif. Yn *Seventeen of Leyden* (1970), mae ei arwr, meddyg, yn ceisio dod â phum merch yn ôl a oedd wedi'u gwahardd o India'r Gorllewin. Gan ysgrifennu yn y *Daily Telegraph* meddai Crichton, fod y nofel yn 'gymysgedd o'r gwaedlyd a'r tyner, gyda rhai troeon difyr ac annisgwyl. 'Mae *Lords of Loone* (1972) yn hanes o fywyd cefn gwlad, wedi ei leoli ym Mhrydain yn y 18$^{fed}$ ganrif. Mae *Talleyman* (1986) a *Talleyman on Ice* (1989) yn cynnwys swyddog yn y llynges yn Iwerddon yn y 1840au.

Gadawodd James nawfed nofel heb ei gorffen. Ar ôl ei farwolaeth, darganfu ei blant o'r diwedd yn y llofft gasgliad o 5 disg hyblyg ¼ modfedd, wedi'i labelu *The Fourth Gwenevere.* Trefnodd yr awduron neo-baganaidd, John a Caitlin Matthews, i'r testun gael ei adalw o'r ffeiliau, ac wedyn cwblhau'r llyfr. Fe'i cyhoeddwyd yn 2014. Yn y *Welsh Triads* adroddir bod Brenin Arthur wedi cael tair gwraig flaenorol, pob un o'r enw Gwenhwyfar. Yn llyfr James, pedwaredd wraig Arthur yw'r ddolen gyswllt linachyddol rhwng y Brythoniaid a'r Saeson. Bwriedir i'w priodas gynhyrchu ar arweinydd a fydd yn dderbyniol i'r Brythoniaid a'r Saeson.

Ysgrifennodd James hefyd un llyfr ffeithiol, *The Paladins: a social history of the RAF up to the outbreak of World War II*, a gyhoeddwyd gan Macdonald ym 1990.

Bu farw James yng Nghaergrawnt ym 1993, yn chwe deg naw oed. Mae wedi'i gladdu, yn unol â'i ddymuniad, gyda thywysogion Cymru yn abaty adfeiliedig Ystrad Fflur.



*https://commons.wikimedia.org/wiki/File:DSCN4297-strata-florida-arch.JPG Gan William M. Connolley. / CC BY-SA (http://creativecommons.org/licenses/by-sa/3.0/)*

**Ffynonellau**

Rogers, B. (1993, October 10). Mourning the glories of a past master. *Sunday Telegraph*, p. 3. Retrieved from https://link.gale.com/apps/doc/IO0701311211/TGRH?u=nlw_ttda&sid=TGRH&xid=4ecec387

John James (writer). (2020, April 19). In *Wikipedia, The Free Encyclopedia.* Retrieved 8 July, 2020, from https://en.wikipedia.org/wiki/John_James_(writer)#Fiction

Holloway, D. (1966, August 18). No Gods in this Valhalla. *Daily Telegraph*, p. 18. Retrieved from https://link.gale.com/apps/doc/IO0704567350/TGRH?u=nlw_ttda&sid=TGRH&xid=cd752b76

Gododdin, Y. (2009). In Birch, D. (Ed.), The Oxford Companion to English Literature. : Oxford University Press. Retrieved 9 July 2020, from https://www.oxfordreference.com/view/10.1093/acref/9780192806871.001.0001/acref-9780192806871-e-8771.

Fiction round-up. (1969, August 10). *The Observer.* p. 24. Retrieved from https://search.proquest.com/hnpguardianobserver/docview/475928133/6C09FE1CBFA347D8PQ/1?accountid=12799

Brockway, A. (2010, February 3). John James – Votan [Blog post]. Retrieved 9 July 2020, from http://babylonwales.blogspot.com/2010/02/john-james-votan.html

Crichton, I. (1970, July 16). Merlin's New Role. *Daily Telegraph*, p. 7. Retrieved from https://link.gale.com/apps/doc/IO0704701462/TGRH?u=nlw_ttda&sid=TGRH&xid=606c7d86

James, J. (2014). *The Fourth Gwenevere.* London: Jo Fletcher Books. Retrieved from https://books.google.co.uk/books?id=MKNhBQAAQBAJ&printsec=frontcover&dq=%22lords+of+loone%22&hl=en&sa=X&ved=2ahUKEwjc8P7Wi8DqAhWC-aQKHd8iBkc4FBDoATAAegQIABAC#v=onepage&q&f=false

# Craig Jamieson

Craig Jamieson yw'r Ceidwad Llawysgrifau Sansgrit ym Mhrifysgol Caergrawnt.

Ganwyd Jamieson yn Toronto, Ontario, ac fe fynychodd Ysgol Uwchradd Sherwood yn Hamilton, ond symudodd i Brydain ar gyfer ei addysg uwch. Fel myfyriwr israddedig, astudiodd am radd mewn athroniaeth yng Ngholeg Dewi Sant Llambed, a gwnaeth ddilyn hyn gyda gradd MA oddi wrth Brifysgol Caergrawnt. Teitl y traethawd ar gyfer ei radd MPhil a ddyfarnwyd iddo yn 1979 gan Goleg y Brenin, Llundain, oedd *Mindfulness in Santideva's Siksasamuccaya.* Symudodd i Brifysgol Caerlŷr lle addysgodd ef Fwdhaeth. Mae bellach wedi'i leoli ym Mhrifysgol Caergrawnt; mae'n aelod o'r Gyfadran Ddwyreiniol ac o Goleg y Brenin.

Yn 2000, cyhoeddodd ef *A Study of Nāgārjuna's Twenty verses on the Great Vehicle (Mahāyānavimśikā) and his Verses on the heart of dependent origination (Pratītyasamutpādahrdayavyākhyāna),* (Peter Lang). Cynhyrchodd Jamieson argraffiadau beirniadol ar dri thestun, pob un ohonynt wedi'i briodoli i Nagarjuna, ysgolhaig Bwdhaidd o'r ail ganrif Oed Crist. Ochr yn ochr â'r rhain, oedd cyfieithiadau i'r Saesneg a oedd yn seiliedig ar y fersiynau Sansgrit gwreiddiol a wnaeth oroesi, ond wedi'u hystyried yng ngolau'r fersiynau ac esboniadau mwy cyfan Tibetaidd.

Yn *The Perfection of Wisdom* (Frances Lincoln, 2000), gwnaeth ef ddethol a chyfieithu darnau o'r Aṣṭasāhasrikāprajñāpāramitā. Mae'n debygol y cafodd hwn ei ysgrifennu tua 100 mlynedd Cyn Crist, ac mae'r testun yn ymwneud â llawer o bynciau Mahāyāna pwysig, gan gynnwys gyrfa bodhisattva, natur gwacter a datblygiad a chymhwysiad Perffeithrwydd Doethineb. Caiff yr athrawiaeth ei chyflwyno ar ffurf deialog rhwng y Bwdha ac un o'i ddisgyblion, yr *arhat* Subhūti. Mae gan destun Jamieson luniau cyfoethog a ddaeth o ddwy lawysgrif yng nghasgliad Caergrawnt sydd wedi'u hysgrifennu ar ddail palmwydd, sef, MS Add. 1464, sy'n dyddio o'r 10fed ganrif Oed Crist (985 OC), a MS Add. 1643, sy'n dyddio o'r 11eg ganrif (1015 OC), llawysgrifau sydd dros fil o flynyddoedd oed. Ysgrifennodd y Dalai Lama ragymadrodd i'r gyfrol, gan esbonio ei pherthnasedd i'r athroniaeth Fwdhaidd ac i hanes ei fywyd ei hun.

Gwnaeth Jamieson ymwneud â *Buddha's word: the life of books in Tibet and beyond*, arddangosfa amgueddfa gyntaf Caergrawnt ar gelfyddyd ac arteffactau Tibetaidd, wedi'u harddangos gyda llawysgrifau a llyfrau printiedig. Gwnaeth yr arddangosion gynnwys llawysgrifau Bwdhaidd goliwiedig cynnar, enghreifftiau o gloriau pren a oedd wedi'u goliwio'n fedrus, paentiadau sgrôl y gwnaeth y sawl a oedd ar yr alldaith Younghusband ddrwg-enwog ddod yn ôl gyda nhw, ac anrheg oddi wrth y Dalai Lama. Roedd rhai ohonynt heb gael eu harddangos erioed o'r blaen. Casglwyd eitemau oddi wrth Amgueddfa Archaeoleg ac Anthropoleg Caergrawnt, Amgueddfa Gwyddorau Daear Sedgwick, Amgueddfa Fitzwilliam, Llyfrgell y Brifysgol, Coleg Emaniwel a Choleg Penfro. Dros y blynyddoedd, mae Jamieson hefyd wedi curadu llawer mwy o arddangosfeydd traddodiadol o lyfrau a llawysgrifau ar gyfer llyfrgelloedd.

Gwnaeth Jamieson hefyd gymryd rhan yng nghyfres 'India Unboxed' Caergrawnt, dilyniant o ffilmiau byrion yn dathlu pen-blwydd annibyniaeth India, yn ddeng mlwydd a thrigain oed, a Blwyddyn Diwylliant y DU-India 2017. Gwnaeth ffilm gyntaf y gyfres, o'r enw *The Perfection of Wisdom,* gynnwys MS. Add. 1464, y llawysgrif Sansgrit ddyddiedig a darluniedig hynaf yn y byd.

Mae Jamieson yn golygu cyfres Sefydliad Bwdhaidd Caergrawnt, ac mae'n olygydd comisiynu i'r cyhoeddwr Hardinge Simpole, yn ogystal ag yn gwasanaethu ar bwyllgor NACIRA (National Committee on Information Resource for Asia). Y tu allan i'r gwaith, mae ef wedi bod ar alldeithiau Arctig i Arctig Uchel Canada, Yr Ynys Las a Norwy. Mae'n hoffi cerddoriaeth Bob Dylan, mae'n uwch-

olygydd i'r cyhoeddwr EDLIS Café Press ac mae'n cydlynu grŵp academaidd sy'n ymchwilio i Dylan ac yn cynhyrchu llyfrau megis *Bob Dylan's Hibbing* (2019). Mae hefyd yn creu fideos o foch daear i Overhall Grove, sy'n rhan o'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt.

**Ffynonellau**

Attwood, T. (2020). Bob Dylan's Hibbing from EDLIS Café: book review. Adalwyd ar Hydref 23 2020 oddi wrth https://bob-dylan.org.uk/archives/124289781091782891

Jorgensen, J. (2001). JAMIESON, R.C., A Study of Nâgâijuna 's Twenty Verses on the Great Vehicle (Mâhâyanavims' ikâ) and His Verses on the Heart of Dependent Origination (Pratîtyasamutpâdahrdayakârikâ) with the Interpretation of the Heart of Dependent Origination (Pratltya samutpâdahrdayavyâkhyâna). New York : Lang, 2000. 183 p. *Revue Bibliographique de Sinologie.* N.S. 19 (2001), 436. Adalwyd ar Hydref 23 2020 oddi wrth https://www.jstor.org/stable/24581116 9780820418995


Keown, D. (2004). Aṣṭa-sāhasrikā-prajñā-pāramitā Sūtra. In A Dictionary of Buddhism. : Gwasg Prifysgol Rhydychen. Adalwyd ar Hydref 23 2020 oddi wrth https://www-oxfordreference-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/acref/9780198605607.001.0001/acref-9780198605607-e-182. 9780670889341

Cambridge Digital Library. (2015). Sanskrit manuscripts. Adalwyd ar Hydref 23 2020 oddi wrth https://cudl.lib.cam.ac.uk/collections/sanskrit/1

Museum of Archaeology and Anthropology. (2020). Buddha's word: the life of books in Tibet and beyond. Adalwyd ar Hydref 26 2020 oddi wrth https://maa.cam.ac.uk/buddhas-word-the-life-of-books-in-tibet-and-beyond/

University of Cambridge. (2020). World's oldest, illustrated Sanskrit manuscript launches India Unboxed film series. Adalwyd ar Hydref 26 2020 oddi wrth https://www.cam.ac.uk/news/worlds-oldest-illustrated-sanskrit-manuscript-launches-india-unboxed-film-series

# Francis John Jayne



Francis John Jayne (1845-1921) oedd ail bennaeth Coleg Dewi Sant, ac ef gwnaeth wasanaethu hiraf fel esgob Caerllion yn hanes yr esgobaeth honno.

Ganwyd Jayne yn Llanelli; ef oedd mab hynaf John Jayne, perchennog gwaith glo, a'i ail wraig Elisabeth Haines. Cafodd ei addysg yn Ysgol Rugby, ac yna, yng Ngholeg Wadham, Rhydychen, lle y gwnaeth rwyfo i'r coleg. Gwnaeth yn dda yn academaidd hefyd, gan ennill dosbarth cyntaf triphlyg mewn 'Mods', 'Greats', a Chyfreitheg a Hanes Modern. Yn ogystal, enillodd y wobr Hall-Haughton Uwch am astudio'r Testament Newydd yn yr iaith Roeg. Daeth yn gymrawd Coleg yr Iesu, Rhydychen, yn 1868; roedd yn ddarlithydd hanes modern yno rhwng 1871 a 1879. Ordeiniwyd Jayne yn 1870; ochr yn ochr â'i waith academaidd, gwnaeth weinidogaethu yn eglwys St Clement, mewn rhan ddosbarth gweithiol o'r ddinas. Ond, y flwyddyn ganlynol, gwnaeth ymddiswyddo fel curad pan benodwyd ef yn diwtor yng Ngholeg Keble, a oedd newydd gael ei sefydlu. Priododd ef ag Emily Sarah Garland yn 1872; cafodd y pâr chwe mab a thair merch. Roedd y sawl a oedd yn gyfarwydd ag ef yn ystod y cyfnod hwnnw yn ei gofio fel 'a handsome, athletic man, with hair falling oddly over his brow, and a thoughtful, not to say reserved appearance.'

Penodwyd Jayne yn ail bennaeth Coleg Dewi Sant Llambed yn 1879. Yn ôl Price, rhaid bod Jayne wedi cyferbynnu'n anhygoel â'i ragflaenydd oedrannus, Llewelyn Lewellin, a fu farw yn ei swydd. Dywedwyd mai llwyddiant mwyaf bywyd Jayne oedd ei flynyddoedd yn Llambed, oherwydd caiff ei gofio fel ail sylfaenydd y coleg. Yn wahanol i Lewellin, roedd yn amharod i gymryd cyfrifoldebau clerigol ehangach, a gwnaeth ddefnyddio ei egni anferth ar gyfer adeiladu pob agwedd o'r coleg. Pan gyrhaeddodd Jayne, dim ond trigain o fyfyrwyr oedd gan y coleg; pan ymadawodd, saith mlynedd yn ddiweddarach, roedd eu niferoedd wedi dyblu i dros gant ac ugain. Yn ystod yr amser hwnnw cyflwynwyd statudau newydd a chyflawnwyd perthynas agos gyda phrifysgolion Rhydychen a

Chaergrawnt. Cyflwynwyd cwrs trwyddedog mewn diwinyddiaeth o ddwy flynedd. Yn 1884, agorwyd, yn Llambed, Ysgol Coleg Dewi Sant; un o'i hamcanion oedd paratoi bechgyn ar gyfer y Coleg ei hun.

Wrth i nifer y myfyrwyr gynyddu, roedd yr adeiladau a oedd eisoes yn bodoli yn rhy fach ar eu cyfer. Agorwyd yr Adeilad Caergaint ar Fehefin 24 1887; gwnaeth gynnwys dwy ddarlithfa, labordy ffiseg, 21 o setiau o ystafelloedd dwbl, ystafell ymolchi a swyddfeydd.



Yr Hen Adeilad Caergaint, a adeiladwyd pan oedd Jayne yn bennaeth

Ailadeiladwyd capel y coleg, gan ostwng y llawr ac ychwanegu at y capel eil ogleddol. Weithiau, beirniadwyd Jayne am reoli staff Llambed yn awtocratig, ond roedd yr academyddion a benodwyd ganddo yn cynnwys ysgolheigion enwog fel T.F. Tout a Hastings Rashdall. Roedd yn gyfeillgar tuag at y myfyrwyr; ar brynhawniau Sul, byddai fel arfer yn mynd am droeon hir gyda'r glasfyfyrwyr. Mae'n debyg nad oedd ef wedi gwneud ymdrech i ddysgu'r Gymraeg; dywedwyd amdano 'Yet never a word of Welsh knows he, more than his Grace of Canterburie.'

Methodd Jayne weithredu argymhellion Comisiwn Aberdâr, a wnaeth gymeradwyo sefydlu prifysgol Cymru ffederal. Ond rai blynyddoedd wedyn, gwnaeth ef gynnig yn Nhŷ'r Arglwyddi 'that it was desirable that the assent of Her Majesty be withheld from the Draft Charter of the University of Wales until such portions of the Charter be omitted as prevent the inclusion of St David's College, Lampeter, as a constituent College of the University of Wales.' Er y gwnaeth Tŷ'r Arglwyddi dderbyn y cynnig, gwnaeth y llywodraeth ei anwybyddu.

Yn 1886, penodwyd Jayne yn Ficer Leeds, rôl bwysig, ac yn un a oedd yn aml yn arwydd o bethau mawr i ddod. Yn ystod ei gyfnod byr yno, dechreuodd gynnal gwasanaethau arbennig misol i ddynion, ac adeiladodd dŷ clwb ar gyfer athletau yng Nghlwb Hamdden yr Eglwys Blwyfol. Llwyddodd hefyd sefydlogi cyllidau'r plwyf, er gwaethaf y ffaith bod llawer o'r trigolion cyfoethocaf wedi dechrau symud i'r maestrefi.

Er hynny, dim ond ar ôl dwy flynedd yn unig, enwebwyd Jayne yn esgob Caerllion. Pan gafodd ei gysegru ar Chwefror 24 1889, ef oedd yr esgob ieuaf yn Eglwys Loegr. Yn ddiddorol, yn yr un flwyddyn, daeth gŵr chwaer ei wraig, y Parchedig A.G. Edwards, yn Esgob esgobaeth gyfagos, sef Llanelwy.

Treuliodd Jayne weddill ei yrfa yng Nghaerllion. Nid oedd llawer yn ei adnabod y tu allan i'w esgobaeth ei hun, a'i brif gryfder oedd ym maes gweinyddu. Roedd yn gyfarwydd iawn â'i esgobaeth ac roedd pawb ynddi yn ei adnabod; gwnaeth ei rhedeg gydag egni a doethineb. Roedd ei bregethau yn ystyriol ac yn ddiddorol, yn hytrach na bod yn huawdl. Roedd Jayne yn hoff o weithio'n dawel ac roedd yn casáu rhodres. Roedd ei eglwysyddiaeth ef ei hun yn gymedrol, a dywedwyd mai ei esgobaeth ef oedd efallai'r un fwyaf heddychol a threfnus yn Lloegr gyfan. Honnwyd weithiau ei fod ef yn penodi clerigwyr dibynadwy a gweithgar, yn hytrach na rhai oherwydd ei gwreiddioldeb a'i gweledigaeth eang.

Roedd Jayne yn fwyaf enwog am ei ddiddordeb mewn dirwest. Un o'i uchelgeisiau oedd cadw tŷ tafarn, oherwydd yn ei farn ef, y ffordd orau i leihau meddwdod oedd diwygio a gwella tai tafarn. Roedd yn cefnogi'r system Göteborg, system yr oedd Joseph Chamberlain hefyd ei ffafrio, a gwnaeth sefydlu'r People's Refreshment House Association Limited. Ymhen hir a hwyr, roedd y gymdeithas honno yn berchen ar 130 o dafarnau a gwestai.

Yn anaml y byddai Jayne yn cymryd gwyliau. Yn y diwedd, cafodd waeledd drwy orweithio; gwnaeth ymddiswyddo ym mis Ebrill 1919. Yn drist, ni wnaeth ei iechyd wella; bu farw yn ei gartref, The Quarry, yng Nghroesoswallt ar Awst 23 1921. Claddwyd ef yn Bowden, Swydd Gaerlleon. Meddai ei goflith yn *The Manchester Guardian* 'Simple, gentle, energetic, and unassuming, a sound scholar and a man of business, he represented a type of ecclesiastic which has been one of the chief glories of the Church of England.'

**Ffynonellau**


Price, D.T.W. (1977). *A history of Saint David's University College Lampeter. Volume one: to 1898.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru


Death Of Bishop Jayne. (1921, August 25). *Times*, 11. Adalwyd oddi wrth https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS186847513/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=c5fa0771

Price, D.  (2007, January 04). Jayne, Francis John (1845–1921), bishop of Chester. *Oxford Dictionary of National Biography.* Adalwyd ar Fedi 9 2020, oddi wrth https://www-oxforddnb-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-34162.

Dr. Jayne. (1921, Aug 25). *The Manchester Guardian (1901-1959)* Adalwyd oddi wrth https://search.proquest.com/docview/476495460?accountid=12799

Bishop Jayne. (1921, August 25). *Daily Telegraph*, 11. Adalwyd oddi wrth https://link.gale.com/apps/doc/IO0705743278/TGRH?u=nlw_ttda&sid=TGRH&xid=a0a9522a

# John Stanley Jenkins
## 1896-1916



Ganwyd John Stanley Jenkins yn Paddington, Llundain, yn 1896, i rieni a anwyd yng Nghymru, Mary a David. Bu farw Mary pan oedd John yn fachgen ifanc, a phan briododd David am yr ail waith, cafodd John bum sibling. Erbyn 1911, roedd 'Johnny' yn byw gyda pherthnasau yn Llambed. Roedd ei fodryb yn gweithio i fusnes ffrwythwr ac roedd ei ewythr David, a anwyd yn Llambed, yn gweithio fel 'Sgowt y Coleg'.

Roedd John yn ddisgybl yn Ysgol y Coleg, lle'r oedd yn chwarae i'r tîm rygbi XV cyntaf. Aeth i'r Coleg 'ei hun' ym mis Hydref 1914, ond byddai ei yrfa yn y coleg yn parhau am dymor yn unig. Roedd John yn ddyn bach, yn mesur rhyw 5' 2¾" o ran taldra, a phan ddechreuodd y rhyfel, y taldra gofynnol oedd 5' 3". Codwyd hwn yn fuan i 5' 6" ond yna, cafodd ei ostwng fesul tipyn wrth i'r galw gan y ffrynt am atgyfnerthiadau gynyddu. Pan, ym mis Ragfyr 1914, ostyngwyd y taldra gofynnol unwaith eto i 5' 3", roedd hi'n amlwg bod taldra John yn *ddigon agos* i'r hyn y gofynwyd amdano gan y rheoliadau i fodloni'r swyddogion recriwtio. Ysgrifennodd John at ei dad i ofyn am ganiatâd i ymuno gan ychwanegu: 'You would not have me be a coward, would you?' Gwnaeth ymgofrestru gyda chronfa wirfoddolwyr y Llynges Frenhinol ym mis Ionawr 1915.

Ar y cychwyn, gwnaeth John wasanaethu fel Llongwr Cyffredin ym Mataliwn y Benbow, ond yn fuan, cafodd ei ddyrchafu i Longwr Abl. Ym mis Mehefin 1915, trosglwyddwyd ef i'r Bataliwn Anson a hwyliodd i Orsaf y llongau cyflenwi ym Mudros, lleoliad a oedd yn strategol bwysig i'r Cynghreiriaid wrth iddynt geisio cipio awenau Culforoedd y Dardanelles. Cymerodd yr Adran ran yn yr ymladd yn Gallipoli, ac ym mis Chwefror 1916, clwyfwyd John ac anfonwyd ef i'r ysbyty ym Mudros cyn cael ei drosglwyddo i'r Llong Ysbyty H.S. Somali. Erbyn mis Ebrill, roedd wedi gwella digon i ddychwelyd i Orsaf y llongau cyflenwi.

Trosglwyddwyd adran John o awdurdod y Morlys i awdurdod y Swyddfa Ryfel a chafodd ei hailenwi 63[ain] Adran (y Llynges Frenhinol). Ymadawodd yr Adran â Mudros a hwyliodd i Marseilles ym mis Mai 1916 er mwyn ymuno yn yr ymladd ar y Somme. Ym mis Tachwedd 1916, gwnaeth yr Adran ymladd ym Mrwydr Ancre, gan gynnwys yr ymosodiad ar Beaumont Hamel. Canlyniad y frwydr honno oedd 22,000 o bobl wedi'u lladd mewn pum diwrnod. Roedd John yn un ohonynt; lladdwyd ef ar faes y gad ar Dachwedd 13 1913, yn hugain mlwydd oed.

Does neb yn gwybod os oes gan John fedd, ond caiff ei goffáu ar Gofeb Thiepval yn Ffrainc, ar gofeb ryfel Tref Llambed ac ar Restr y Gwroniaid Coleg Dewi Sant.

"a bright and charming young man"

Dyfyniad o *The Cambrian News and Merionethshire Standard*, Rhagfyr 22[ain] 1916

**Ffynonellau:**

Roberts, S. (2018). *1918-2018 A Commemoration. Saint David's College, Lampeter.* Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

# Norman Jope



Awdur sydd wedi cyhoeddi'n eang ac sy'n arbenigo mewn barddoniaeth yw Norman Jope (1960-). Mae'n well ganddo osgoi cyfyngiadau'r term 'bardd', oherwydd mae'n ystyried barddoniaeth yn weithgaredd yn hytrach nag yn hunaniaeth, ac mae hefyd yn ysgrifennu (ond yn llai gweladwy) mewn genres eraill. Nid yw erioed wedi cystadlu mewn cystadleuaeth farddoniaeth chwaith.

Ganwyd Jope yn Plymouth ar Fai 28ain 1960 a magwyd ef yn Plympton sy'n gyfagos. Mynychodd Ysgol Ramadeg Plympton – *alma mater* yr arlunwyr Reynolds, Eastlake, Haydon a Northcote – rhwng 1971 a 1978. Ac yno, dechreuodd, yn 1975-76, ei ddiddordeb mewn barddoniaeth: yn manteisio ar yr amrywiaeth o farddoniaeth a gafodd ei chyfieithu ac a oedd ar gael yn ystod y saithdegau, dechreuodd ymgyfarwyddo ei hun â'r sîn barddoniaeth rhyngwladol.

Mynychodd ef Goleg Prifysgol Dewi Sant rhwng 1978 a 1982, yn wreiddiol i astudio Saesneg, cyn newid i Athroniaeth (penderfyniad nad oedd, wrth gwrs, yn gysylltiedig â'r ffaith bod grant ar gael i astudio am flwyddyn ychwanegol). Pan oedd yn fyfyriwr israddedig, gwnaeth fwynhau'r sîn llenyddol bywiog a oedd ar gael ar gampws bryd hynny a daeth yn ffrindiau gydag ysgrifennwyr eraill, gan gynnwys
Chris Bendon (sydd hefyd yn y gyfrol hon). Yn rhinwedd ei swydd fel ysgrifennydd y New Rhymers' Club, manteisiodd ar gronfa ariannol yr Ysgrifenyddiaeth Farddoniaeth Genedlaethol i wahodd nifer o feirdd enwog i ddarllen yn Llambed. Gwnaeth hefyd olygu'r cylchgrawn barddoniaeth *Outcrop*, gan fwynhau ei gyhoeddiadau cylchgrawn cyntaf, a'u dilyn gyda dau lyfryn (chapbook) a argraffwyd gan argraffwyr y Coleg: *Primal Solutions* (Outcrop, 1981) ac *A Second Adam* (Outcrop, 1982). Roedd hefyd yn aelod o dîm University Challenge y coleg a wnaeth gyrraedd rownd gynderfynol cystadleuaeth 1981.

Ar ôl graddio, symudodd Jope yn ôl i Plymouth ac, yn 1983, i Ganolbarth Gorllewin Lloegr. Bu'n byw yno am ychydig yn llai nag wyth mlynedd (yn Leamington Spa a Birmingham) cyn dychwelyd i Plymouth. Yn dilyn cyfnod o ysgrifennu 'for the desk drawer,' dechreuodd gyhoeddi gwaith eto yn 1988 a gwnaeth tri 'chapbook' arall ymddangos, sef: *Spoil* (Spectrum, 1989), *Tors* (Phlebas, 1990) ac *In the Absence of a Summit* (Phlebas, 1992). Mae safonau gweithgynhyrchu elfennol y pum llyfryn hyn yn adlewyrchu'r technolegau a oedd ar gael bryd hynny, ac mae Selected Early Poems yn hir-ddisgwyliedig.

Yn 1989, lansiodd Jope y cylchgrawn llenyddol a diwylliannol *Memes*, gan ddefnyddio newyddair Richard

Dawkins fel ei deitl mewn cyfnod pan nad oedd y gair hwnnw yn gyfarwydd i'r rhan fwyaf o bobl. Cyhoeddwyd deg rhifyn, tan 1994, a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o ysgrifenwyr a darlunwyr cyfoes. Mae gweld y gair yn cael ei ddefnyddio'n barhaol yn ystod 2020 wedi codi gwên ar wyneb Jope (a heb os, ar wyneb Dawkins).

Yn ystod y nawdegau, bu Jope yn byw yn Swindon a Bryste cyn dychwelyd i Plymouth yn 1999. Gwnaeth ei gasgliad go iawn cyntaf, *For the Wedding-Guest* (Stride, 1997), ymddangos bryd hynny a chafodd un o'i gerddi, sef, 'The Pox in Roseland', ei chyhoeddi fel 'Poem of the Day' yn yr I*ndependent* ym mis Tachwedd 1996. Erbyn hynny, roedd gwaith Jope wedi ymddangos mewn amrywiol farchnadoedd yn y DU a Gogledd America. Roedd Jope hefyd yn cyfrannu'n rheolaidd i Ŵyl Farddoniaeth Wessex a oedd yn cael ei chynnal yn flynyddol yn Blandford Forum, Dorset dan nawdd y cylchgrawn llenyddol rhyngwladol *Tears in the Fence* a'i olygydd David Caddy.

Ar ddychwelyd i Plymouth, dechreuodd Jope ymwneud â'r hyn yr oedd pawb bryd hynny yn ei adnabod fel y Plymouth Poetry Exchange, ac a wnaeth wedyn esblygu a newid ei enw i'r Plymouth Language Club (Chwefror 2000 tan heddiw). Ynghyd â Steve Spence, mae ef bellach yn un o gydlynwyr y gyfres ddarllen hon sydd, gyda dros gant o ddigwyddiadau i'w henw, yn un o'r digwyddiadau barddoniaeth byw sydd wedi rhedeg hiraf yn y DU. Gwnaeth grŵp trafod cysylltiedig gwrdd rhwng 2003 a 2014 mewn amrywiol leoliadau ar draws Plymouth a De Dyfnaint. Mae Jope hefyd wedi darllen yn aml yng nghyfres ddarllen Kenny Knight's Cross-Country Writers yn Plymouth. Yn 2006, gwnaeth ef olygu ar y cyd yr antholeg *In the Presence of Sharks: New Poetry from Plymouth* (Phlebas, 2006) gyda'r diweddar Ian Robinson, gan dynnu at ei gilydd gwaith deuddeg bardd blaenllaw o Plymouth. Yn ddiweddar, mae ei weithgareddau fel hyrwyddwr llenyddol wedi arwain at y papur newydd dyddiol lleol, sef y *Plymouth Herald*, yn ei urddo yn un o'r 'fifty coolest Plymothians.'

Mae Jope wedi gweithio fel gweinyddwr ers mis Mawrth 2002 yn yr hyn a elwir bellach Plymouth Marjon University. Yn ystod yr amser hwnnw, mae wedi cael tri chasgliad arall o gerddi wedi'u cyhoeddi yn y DU: *The Book of Bells and Candles* (Waterloo Press, 2009): *Dreams of the Caucasus* (Shearsman Books, 2010): ac *Aphinar* (Waterloo Press, 2012). Yn ogystal, mae wedi parhau i gyhoeddi ei ysgrifeniadau mewn nifer o siwrnalau (papur ac ar-lein), ac yn 2005, cafodd ei waith ei gynnwys mewn detholiad o gerddi rhyddiaith Prydeinig cyfoes yn y cylchgrawn Americanaidd *Sentence*. *Portland: A Triptych* (gyda Tim Allen a Mark Goodwin) a gafodd ei gyhoeddi gan Knives, Forks and Spoons yn 2018, ac mae rhagor o gasgliadau yn aros i gael eu cyhoeddi.

Yn 1996, symudodd ei bartner, yr arlunydd Lynda Stevens, i Budapest lle mae'n dal i fyw. Ers hynny, mae Jope wedi parhau i ysgrifennu am Budapest a Hwngari, er bod ei ddealltwriaeth o'r Hwngareg heriol yn dal i fod yn elfennol. Cafodd casgliad o gerddi a thestunau am Hwngari o'r enw *Gólyák és rétesek* (Storks and Strudels), a gyfieithwyd gan Zoltán Tarcsay, ei gyhoeddi yn 2018 gan FISz-Apokrif a'i lansio yn ystod Wythnos Lyfrau Budapest. Cynhaliwyd digwyddiad dilynol yn gynnar yn 2019 yn yr Írók Boltja (Siop Lyfrau'r Ysgrifenwyr), y siop lyfrau lenyddol fwyaf mawreddog yn Budapest. Cafodd Jope hefyd wahoddiad i ddarllen ei waith yn Undeb Ysgrifenwyr Bucharest ym mis Hydref 2008, ac mae darnau unigol wedi cael eu cyfieithu i nifer o ieithoedd eraill, gan gynnwys Rwmaneg, Ffrangeg a Hebraeg.

Mae Jope wedi ysgrifennu beirniadaeth lenyddol i *Tears in the Fence*, *Stride* a marchnadoedd eraill, ac wedi cyd-olygu *Critical Companion to Richard Berengarten* (Salt, 2011 a Shearsman, 2016). Mae'r cydweithrediad rhyngwladol hwn, sy'n dathlu gwaith y bardd Seisnig, Iddewig a rhyngwladol blaenllaw a elwid gynt wrth yr enw Richard Burns, yn ymateb beirniadol cyson, sydd dros bum can o dudalennau o hyd, i waith y bardd.

Efallai'r enw gorau am waith Jope ei hun, gwaith sydd wedi symud yn ôl ac ymlaen rhwng y categorïau 'barddoniaeth' a 'barddoniaeth ryddiaith' ers iddo ddechrau ysgrifennu, yw 'moderniaeth barhaus'. Er i'r

gwaith hwnnw ymateb hyd yn oed tan heddiw i amrywiaeth o ddylanwadau, mae prif leisiau rhyngwladol canol yr ugeinfed ganrif yn ffocal, a cheir dim ond cymharol ychydig o ddidoliad ac eironi ôl-fodern. Mae Beirdd Rhamantaidd Lloegr hefyd yn gysonyn, hyd yn oed os ydynt weithiau yn ddylanwad claddedig - mae teitl llyfr cyntaf Jope yn cyfeirio yn naturiol at Ancient Mariner ei gyd-Ddyfneintiad Coleridge.

Mae themâu teithio, lleoliad a lle yn amlwg yn ysgrifennu Jope, ac mae ganddo ddiddordeb arbennig yn y ffyrdd y mae mannau yn cysylltu gyda'i gilydd mewn cyd-destun cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'n farddoniaeth nad oes ofn arni enwi mannau a phobl, ac sy'n symud yn hawdd rhwng yr haniaethol a'r diriaethol, yn ogystal â rhwng fframiau cyfeirio penodol.

Yn ysgrifennu am waith Jope, mae David Pollard wedi nodi ' this is a poetry of exile, of the wandering Jew, of the traveller that knows that what he does is better than to arrive yet yearns, nonetheless, to be, to find a topos and to know...'. Mae Todd Swift wedi disgrifio Jope fel 'one of the more intriguing innovative poets now writing in the UK' ac wedi nodi bod 'his work is at times satisfyingly strange, exotic and linguistically rich'. Yn ysgrifennu am *Dreams of the Caucasus*, mae Donald Gardner yn nodi bod 'Jope's reach is romantic and wide, not only geographically – from the Sahara to the Hungarian *puszta* and on to the Arctic Circle. As with much travel writing, there is a goal beyond the journey. These texts are an attempt to read nature for signs and they also represent a quest for the elemental in himself, a sort of spiritual geology'. Mae Alan Morrison wedi ysgrifennu 'for me, the ringing glory of Jope's poetry – and (…) his poetic prose – is the seemingly effortless way in which he is able to balance his modernist sensibilities with an immediately attractive, painterly and musical application of language'.

Bwriad tymor hir Jope yw ymuno â'i bartner yn Budapest, dysgu Hwngareg o'r diwedd, a chyfnewid afonydd Plym a Tamar am Ddonwy…, ond cadw'r tair ohonynt mewn cof.

**Ffynonellau**

Telford, W. (2020, May 25). The cool list: 50 people who make Plymouth the coolest city. *Plymouth Live.* Adalwyd ar Ragfyr 29 2020 oddi wrth (https://www.plymouthherald.co.uk/whats-on/whats-on-news/cool-list-50-people-who-4159988

Jope, N. (2005). L'arbre du ténéré. *Sentence: a journal of prose poetics. 3,* 77. Adalwyd ar Ragfyr 29 2020 oddi wrth http://firewheel-editions.org/sentence/back-issues/ind/sentence-3

Norman Jope: Gólyák és rétesek (kétnyelvű könyvbemutató) (2018). *Hegyvidék ittlakunk.hu.* Adalwyd ar Ragfyr 29 2020 oddi wrth https://12.kerulet.ittlakunk.hu/programok/180602/norman-jope-golyak-es-retesek-ketnyelvu-konyvbemutato

Art7. (2019). Írók Boltja: Februári programok. Adalwyd ar Ragfyr 29 2020 oddi wrth https://art7.hu/irodalom/irok-boltja

Richard Berengarten (2020). In *Wikipedia.* Adalwyd ar Ragfyr 29 2020 oddi wrth https://en.wikipedia.org/wiki/Richard_Berengarten

Pollard, D. (2018). Norman Jope: An Appreciation. *Tears in the Fence 68*, 147-150.

Swift, T. (2006, June 9). Poem by Norman Jope [Blog post]. Adalwyd ar Ragfyr 29 2020 oddi wrth https://toddswift.blogspot.com/2006/06/poem-by-norman-jope.html

# Y Gwir Barchedig Alwyn Rice Jones

Roedd Alwyn Rice Jones (1934-2007) yn archesgob Cymru am wyth mlynedd yn yr 1990au. Yn ystod yr amser hwn, llywiodd yr Eglwys yng Nghymru trwy gyfnod o newid sylweddol.

Roedd Jones yn falch iawn o'i wreiddiau yng Ngogledd Cymru. Cafodd ei eni yng Nghapel Curig yng nghalon Eryri mewn cymuned Gymraeg, a'r Gymraeg oedd ei iaith gyntaf drwy ei oes. Yn drist iawn, bu farw ei ddau riant, John ac Annie, erbyn ei fod yn 14 oed.

Mynychodd Jones Ysgol Ramadeg Llanrwst ac yna enillodd ysgoloriaeth i astudio'r Gymraeg yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Graddiodd yn 1955. Yn dilyn hyn, aeth ymlaen i Dŷ Fitzwilliam, Caergrawnt, i astudio diwinyddiaeth. Enillodd BA yn 1957 ac MA yn 1961. Hyfforddodd ar gyfer yr offeiriadaeth yng Ngholeg Sant Mihangel, Llandaf, a chafodd ei ordeinio'n ddiacon yn 1950 ac yn offeiriad yn 1959.

Roedd ei swydd glerigol gyntaf fel curad cynorthwyol yn Llanfairisgaer yn Sir Gaernarfon ar lân afon Menai. Gweithiodd yno rhwng 1958 ac 1962. Yn dilyn hyn, daeth yn ysgrifennydd Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr a Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr mewn Ysgolion. Yn 1965, cafodd ei benodi gan ei fentor, yr Esgob Gwilym Williams, yn gyfarwyddwr addysg ar gyfer esgobaeth Bangor. Hefyd, gwnaeth Williams ei benodi yn gaplan ieuenctid, yn warden ordinandiaid, caplan archwilio a chaplan anrhydeddus Eglwys Gadeiriol Bangor.

Yn ogystal â'r rolau hyn, roedd Jones yn diwtor cynorthwyol mewn addysg grefyddol ym Mhrifysgol Cymru Bangor ac yn gynghorydd crefyddol i bwyllgor Cymru'r Pwyllgor Darlledu Annibynnol. Yn ddiweddarach, yn 1991, daeth yn gadeirydd Panel Crefyddol Ymgynghorol S4C.

Priododd Jones â Meriel Thomas yn 1968, a chawsant ferch o'r enw Nia.

Yn 1975, symudodd Jones yn ôl i weinidogaeth blwyf, gan ddod yn ficer Porthmadog. Rhoddodd hyn y cyfle iddo wella ei sgiliau bugeiliol fel clerigwr wrth ei waith. Fodd bynnag, roedd yn amlwg y byddai'n cael dyrchafiad. Ar ôl pedair blynedd ym Mhorthmadog, cafodd ei benodi yn ddeon Eglwys Gadeiriol Aberhonddu. Ar y cyd â'r Esgob Benjamin Vaughan, gweithiodd yn galed i godi proffil yr eglwys gadeiriol a'i sefydlu fel man gweddi a phererindod.

Yn 1982, cafodd ei benodi'n Esgob Llanelwy. Yn ogystal â hyn, roedd yn Archesgob Cymru rhwng 1991 a'i ymddeoliad yn 1999. Yn ystod ei gyfnod yn y rôl hon, mynychodd ddwy gynhadledd Lambeth. Ar ôl y gynhadledd yn 1998, cynhaliodd noswaith diwylliannol Gymreig, gan berswadio pob esgob o Gymru, gan gynnwys Archesgob Caergaint y dyfodol, Rowan Williams, i ddarparu'r adloniant naill ai trwy ganu neu ddweud jôcs.

Yn ogystal, cynrychiolodd Jones ei eglwys yng ngwasanaeth Cyngor Eglwysi'r Byd yn Canberra yn 1991 a gwasanaethodd fel llywydd Cyngor Eglwysi Prydain ac Iwerddon rhwng 1997 a 2000. Fel rhyddfrydwr diwinyddol, roedd yn eciwmenydd ymroddedig ac yn lladmerydd dros gyfiawnder cymdeithasol. Beirniadodd fomio Kosovo ac roedd yn gefnogwr brwd o'r ymgyrch i sefydlu cynulliad cenedlaethol i Gymru.

Ar adegau, gallai fod yn ddadleuol. Flwyddyn ar ôl marwolaeth Diana, Tywysoges Cymru, dywedodd wrth ei glerigwyr ei bod yn credu bod gormod o sylw yn cael ei roi i'w statws. Roedd yn fodlon i glerigwyr unigol benderfynu a ddylid gweddïo mewn eglwysi i nodi pen-blwydd ei marwolaeth. Yn 1997, galwodd am ddiddymu'r gyfraith sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gynnwys gweddi ac addoliad mewn gwasanaethau dyddiol. Roedd yn teimlo nad oedd gwasanaethau'n effeithiol ac nad oedd plant yn eu deall neu'n eu gwerthfawrogi o reidrwydd.

Roedd Jones yn weinidog talentog ac yn ffyddlon iawn i'w blwyfolion, ei esgobion a'i gyd-glerigwyr. Oherwydd hyn, llwyddodd i gyflwyno newid sylweddol. Gwrthododd clerigwyr corff llywodraethu'r Eglwys yng Nghymru ordeinio menywod i'r offeiriadaeth yn 1994. Fodd bynnag, llwyddodd Jones, a oedd yn gefnogwr brwd o glerigwyr benywaidd, i atgyfodi'r mesur. Pan gymeradwywyd ordeinio menywod yn y pen draw yn 1996, fe'i cefnogwyd gan bob un o'r chwe esgob a 68 y cant o'r clerigwyr. Yn wahanol i Loegr, ni adawodd unrhyw glerigwyr yr Eglwys yng Nghymru oherwydd y mater; i raddau helaeth, roedd hyn i'w briodoli i radlonrwydd Jones tuag at ei wrthwynebwyr. At hyn, arweiniodd Jones y ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i bobl sydd wedi ysgaru ailbriodi yn yr eglwys, gan ddod â blynyddoedd o ansicrwydd i ben.

Arhosodd Jones yn Llanelwy ar ôl iddo ymddeol. Bu farw yn sydyn ar 12 Awst 2007. Dywedodd ei olynydd fel Archesgob Cymru, Dr Rowan Williams, 'Arweiniodd Alwyn Rice Jones yr Eglwys yng Nghymru gyda dewrder a chynhesrwydd a gweledigaeth trwy rai blynyddoedd heriol. Rwy'n credu y byddai pawb yn cytuno mai ef oedd un o arweinwyr mwyaf hoffus yr eglwys.'



*Eglwys Gadeiriol Aberhonddu ©David Merrett*
[https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Brecon_Cathedral_(5726564531).jpg](https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Brecon_Cathedral_(5726564531).jpg)



*Capel Curig ©Noel Walley* https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Capel-PA052376.JPG

**Ffynonellau**

Ancientbriton. (30 Rhagfyr 2016). Twenty disastrous years of decline. *AncientBriton*. https://ancientbritonpetros.blogspot.com/search

'The Daily Telegraph (16 Awst 2007). Obituary of The Most Rev Alwyn Rice Jones Former leader of the Church in Wales who kept up the momentum in the cause of the ordination of women priests', Daily Telegraph, Cyrchwyd o: https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/11B1DE88A6E68EA0?p=UKNB.

Jones, Rt Rev. Alwyn Rice, (25 March 1934–12 Aug. 2007), Archbishop of Wales, 1991–99; Bishop of St Asaph, 1982–99. *Who's who & Who was who.* Cyrchwyd ar 4 Mehefin 2020, o https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540891.001.0001/ww-9780199540884-e-22254.

Morgan, B. (15 Awst 2007). Obituary: The Rt Revd Alwyn Rice Jones. *Church Times*. Cyrchwyd o https://www.churchtimes.co.uk/articles/2007/17-august/gazette/obituary-the-rt-revd-alwyn-rice-jones

Morgan, Barry. (16 Awst 2007). "The Right Rev Alwyn Rice Jones – Obituaries Former Archbishop of Wales." *Independent.* Cyrchwyd o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/11B11BF96DDB3A30?p=UKNB.

The Right Rev Alwyn Rice Jones. (23 Awst 2007). *The Times*, t. 69. Cyrchwyd o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/IF0503581300/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=7dad0544

# Y Parchedig David Thomas Jones

O waith cenhadol yn Anheddiad Red River Canada i
Athro Cymraeg yng Ngholeg Dewi Sant.

Mae'r wybodaeth am fywyd cynnar David Thomas Jones yn denau ac yn anghyson. Fe'i ganwyd rhwng 1795 a 1799 ac yn ei eiriau ei hun daeth o 'stoc ffermio'. Treuliodd ddwy flynedd yn astudio yn Ysgol Ramadeg Llanbedr Pont Steffan dan ei sylfaenydd y Parchedig Eliezer Williams, ac yn ystod y cyfnod hwn y derbyniwyd ef gan y Gymdeithas Genhadol Gristnogol yn ymgeisydd ar gyfer gwaith cenhadol. Galluogodd y cyflog blynyddol o £40 a ddarparai'r gymdeithas i Jones iddo gwblhau ei astudiaethau yn Llanbedr Pont Steffan, ac yn dilyn hyn parhaodd â'i hyfforddiant diwinyddol dan y Parchedig Thomas Sharpe yn Mattishall.

Erbyn Awst 1823, ar ôl ei urddo'n ddiacon ac yn offeiriad, roedd Jones ar fwrdd llong Cwmni Bae Hudson, y *Prince of Wales* , ar ei ffordd i Ganada.



*Llongau Cwmni Bae Hudson y Prince of Wales ac Eddystone yn ffeirio gyda'r Inuit oddi ar Ynysoedd Savage Uchaf, Culfor Hudson culfor, Canada gan Robert Hood, a gedwir yn Llyfrgell ac Archifau, Canada*
*https://commons.wikimedia.org/wiki/File:HBC-Upper_Savage_Islands-Hudson_Strait.jpg*

Y bwriad oedd y byddai'r Jones dibrofiad yn gweithio dan awdurdod John West, Caplan cyntaf Cwmni Bae Hudson (CBH). Fodd bynnag, roedd West wedi ei wneud ei hun yn amhoblogaidd yng ngolwg George Simpson, llywodraethwr adran ogleddol CBH, ac wedi cael ei alw adref. Fodd bynnag, ystyriai Simpson fod Jones yn 'great acquisition'[1] ac felly y bu. Gyda chymorth ei gydweithiwr y Parchedig William Cockran, a ymunodd â Jones yn 1825, datblygodd presenoldeb Cristnogaeth Brotestannaidd yn gyflym ar hyd afon Red. Erbyn 1836 roeddent wedi goruchwylio gwaith adeiladu Sant Paul (neu'r Eglwys Ganol fel y'i gelwid) a Sant Andrew (sef yr Eglwys Uchaf) yn ogystal â sefydlu Cenhadaeth Indiaidd a oedd yn gwasanaethu Indiaid Salteaux. Yn ôl adroddiadau Cymdeithas Genhadol yr Eglwys roedd y cynulleidfaoedd ar y Sul ar gyfartaledd dros 450 o bobl a thros 600 o unigolion wedi eu bedyddio yn yr anheddiad.

[1] Johnson, S.M. a T.F. Bredin. Jones, David Thomas, *Dictionary of Canadian Biography*: http://www.biographi.ca/en/bio/jones_david_thomas_7E.html

Rhoddodd un o’r ymsefydlwyr y disgrifiad hwn o Jones: 'fine and eloquent preacher; tender-hearted, kind, and liberal to a fault… he was all but idolized'[2].

Yn 1828 dychwelodd Jones am gyfnod byr i Brydain gan ddychwelyd y flwyddyn ganlynol gyda'i briodferch, Mary. Ychydig ar ôl dychwelyd, awgrymodd y dylid adeiladu ysgol breswyl neu academi 'for the moral improvement, religious instruction, and general education of Boys; the sons of Gentlemen belonging to the Fur Trade'[3]. Gyda chymeradwyaeth y Llywodraethwr Simpson adeiladwyd yr Academi ac roedd yn cynnwys adain ar wahân i ferched o dan oruchwyliaeth Mary Jones. Hon fu etifeddiaeth Jones, oherwydd erbyn 1835 roedd tri ar hugain o fechgyn a phedair ar hugain o ferched yn mynychu Academi Red River, a unwyd yn 1833 ag ail Academi yn Kildonan ac yn 1849 daeth yn Goleg Sant Ioan. Fodd bynnag, roedd Jones a Cockran yn llai llwyddiannus gyda'r ysgol breswyl i’r Indiaid a sefydlwyd gan John West, yn bennaf oherwydd gwrthwynebiad y Llywodraethwr Simpson a'i wrthodiad i ganiatáu i blant Indiaidd newydd ei mynychu.




Eglwys Brotestannaidd ac Ysgol Genhadu, Trefedigaeth Red River, 1820-1840
https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Protestant_Church_and_Mission_School,_Red_River_Colony.jpg © C. Heath
Wikimedia Commons

Oherwydd awyrgylch gwleidyddol anheddiad Red River roedd rhaid i Jones droedio llwybr anodd. Fe’i brawychwyd gan y modd y byddai’r masnachwyr ffwr yn ecsbloetio'r boblogaeth ond roedd y diwylliant Indiaidd yr un mor wrthun iddo. Yn gaplan i CBH a chenhadwr i'r Gymdeithas Genhadol Gristnogol, ymdrechodd i osgoi gwrthdaro a chadw’r ddysgl yn wastad. Dechreuodd yr awyrgylch gofidus a'r amodau caled effeithio ar iechyd Jones. Roedd bywyd cenhadwr yn anheddiad Red River yn golygu oriau hir mewn amodau rhewllyd yn yr hydref, y gaeaf a'r gwanwyn, tra roedd yr haf yn drymaidd a’r mosgitos yn bla. Yn nyddiadur Jones yn 1837 mae'n dweud y byddai’n codi am 4 a.m. i farchogaeth i Grand Rapids, yn gadael Cockran am 9:00 a.m., ac yn pregethu yn yr anheddiad Indiaidd am 11:00, gan ddychwelyd adref am

[2] Ibid.
[3] Ibid.

9:00 p.m. Mae cofnod arall yn disgrifio sut y syrthiodd ef a'i geffyl i mewn i afon a chael eu gorfodi i barhau â'u taith yn wlyb diferu ac yn crynu[4].

Yn 1836 dioddefodd Jones gyfres o drychinebau; ym mis Mehefin cafodd y newyddion fod ei fam wedi marw ac nad oedd y Gymdeithas Genhadol Gristnogol bellach yn gallu darparu cefnogaeth ychwanegol i anheddiad Red River; yr haf hwnnw cyrhaeddodd llong CBH yn rhy hwyr i ddadlwytho'r cyflenwadau angenrheidiol; ym mis Awst, difethodd haid o adar ei gnwd haidd ac ym mis Hydref, bu farw ei wraig Mary wrth roi genedigaeth i blentyn, gan adael Jones i ofalu am bump o blant o dan bum mlwydd oed. Ar 11 Awst 1838 dychwelodd e a'i deulu adref ac yn 1839 roedd Jones yn gweithio'n gurad yn Eglwys Llambed. Yn ddiweddarach y flwyddyn honno fe'i penodwyd yn Athro'r Gymraeg yng Ngholeg Dewi Sant. Fodd bynnag, byr fu ei yrfa addysgu oherwydd yn dilyn trawiad paralytig yn 1843 roedd yn rhaid iddo ymddeol i fywoliaeth Llangoedmor, lle bu farw ar 26 Hydref 1844.
Adroddodd ei ysgrif goffa yn *Yr Haul* ei fod wedi ei ddonio â'r rhinweddau uchaf; yn bregethwr ei fod yn fwy dawnus o lawer na'r cyffredin; yn Gristion ei fod yn ddidwyll a diduedd[5].

**Ffynonellau:**

Ar gyfer y cofiant hwn manteisiwyd yn helaeth ar erthygl a ysgrifennwyd gan D.T.W. Price ac a roddodd yn garedig i archif y Brifysgol.

Price, D. T. W, 'A Welsh Missionary At Canada's Red River Settlement, 1823-38', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* xxvii (1991-2), tt. 217-244

Johnson, S.M. a T.F. Bredin. Jones, David Thomas, *Dictionary of Canadian Biography.* Ar gael: http://www.biographi.ca/en/bio/jones_david_thomas_7E.html [darllenwyd: 23 Mai 2020]

*Llyfrgell Genedlaethol Awstralia*. Ar gael: https://trove.NLA.gov.au/ [darllenwyd 23 Mai 2020].

[4] Ibid. t. 224.
[5] Ibid. t. 241.

# Idris Jones



Idris Jones oedd esgob Glasgow a Galloway, a Phrif Esgob (Primus) Eglwys Esgobyddol yr Alban.

Ganwyd Idris yn yr Ardal Ddu, yn fab i Edward Jones a'i wraig Alice (Burgess gynt). Mynychodd Ysgol Ramadeg West Bromwich; meddai nad oedd ef wedi mwynhau ei addysg yn fawr tan iddo gyrraedd y chweched dosbarth. Er hynny, teimlodd gyntaf yr alwad i fod yn offeiriad pan oedd yn ddeuddeg mlwydd oed yn unig. Mae'n cofio mai dylanwad ficer yr eglwys lle'r oedd e'n canu yn y côr oedd, i ran helaeth, y rheswm am hynny.

Ar ôl ymadael â'r ysgol, astudiodd Jones yng Ngholeg Dewi Sant Llambed, gan raddio yn 1964. Medd ef 'The debt that I owe … is almost beyond description. Firstly for admitting me as an undergraduate and then for the privilege of being lectured by so many outstanding members of staff and giving me a basis in higher education that has stood the test of time.' Wedi byw yn Lloegr a Chymru, ei gyrchfan nesaf oedd yr Alban. Cafodd ei hyfforddi i fod yn offeiriad yn New College, Caeredin, lle dyfarnwyd iddo'r radd Trwyddedog mewn Diwinyddiaeth.

Ordeiniwyd Jones yn ddiacon yn 1967, ac yn offeiriad yn 1968. Ei swydd glerigol gyntaf oedd gartref yn Swydd Stafford; gwnaeth wasanaethu fel curad cynorthwyol yn eglwys St Mary, Stafford, am dair blynedd tan 1970. Yna, gweithiodd fel Cantor Eglwys Gadeiriol St Paul, Dundee, o 1970 tan 1973. Yn rhinwedd y rôl honno, roedd yn gyfrifol am gyfarwyddo'r canu yn yr eglwys gadeiriol ac am y gwasanaethau corawl.

Yn 1973, dechreuodd Jones yn y swydd a fyddai'r un olaf iddo y tu allan i'r Alban; daeth yn brif offeiriad (priest-in-charge) eglwys St Hugh, Gosforth, ar gyrion Newcastle-upon-Tyne. Hefyd yn 1973, fe briododd ef ag Alison Margaret Williams; ganwyd iddynt ddau fab.

Symudodd Jones yn ôl i'r gogledd unwaith eto yn 1980 i fod yn rheithor yn eglwysi St Mary a St Peter, Montrose, a hefyd yn eglwys St David, Inverbervie. Ochr yn ochr â gweithio, llwyddodd ddod o hyd i amser ar gyfer astudio ymhellach; dyfarnwyd iddo'r radd Doethur mewn Gweinidogaeth gan Athrofa Ddiwinyddol Efrog Newydd yn 1987. Ar ôl ymadael â Montrose, treuliodd dair blynnedd fel caplan Anglicanaidd ym Mhrifysgol Dundee, a hefyd fel prif offeiriad (priest-in-charge) yn eglwys All Souls, Invergowrie. Ei rôl olaf fel offeiriad plwyfol cyffredin oedd fel rheithor eglwys Holy Trinity, Ayr, gan ddechrau yno yn 1992. Cwblhaodd hefyd ddiploma mewn Therapy sy'n Canolbwyntio ar Unigolion, a bu'n weithredol fel seicotherapydd lleyg. Roedd yn Gyfarwyddwr Astudiaethau Bugeiliol yn Athrofa Ddiwinyddol Eglwys Esgobyddol yr Alban o 1995 tan 1999, (pan oedd yn dal i fod yn offeiriad yn eglwys Holy Trinity).

Yn 1998, cafodd Jones ei gysegru'n Esgob Glasgow a Galloway. Roedd ei esgobaeth newydd yn cynnwys de-orllewin yr Alban, (Wigtonshire, Kirkcudbright, Dumfriesshire, Ayrshire, Lanarkshire, Renfrewshire, Dunbartonshire a rhan o Stirlingshire). Yn 2006, etholwyd ef yn Brif Offeiriad (Primus) Eglwys Esgobyddol yr Alban, ac felly ef oedd arweinydd y 50,000 o Anglicaniaid a oedd yn yr Alban. Pan ddewiswyd Jones, roedd yr esgobion wedi'u rhannu'n gyfartal yn ddwy rhwng y ddau ymgeisydd; yn y diwedd, penodwyd Jones drwy 'fwrw coelbren!'

Mae Jones yn awgrymu y gallai 'esgob llywyddol' neu 'esgob-gymedrolwr' fod yn well deitl na 'Prif Offeiriad' (Primus). Yn wahanol i fod yn archesgob, ystyrir y Prif Offeiriad (Primus) y cyntaf ymhlith cydraddolion ('primus inter pares'). Caiff ei ethol gan y chwe esgob cyfredol arall sydd yn yr Alban i fod yn gynullwr yn eu cyfarfodydd ac yn brif gysegrwr Esgobion. Mae ef hefyd yn eu cynrychioli nhw a'r eglwys ehangach gartref ac fel rhan o'r Cymundeb Anglicanaidd. Roedd Jones yn un o 657 o esgobion a wnaeth fynychu'r bedwaredd ar ddeg Gynhadledd Lambeth a gynhaliwyd yng Nghaergaint yn 2008. Meddai ef 'And it was incredible to have experts from all areas of secular life bringing us up to speed on issues like climate change.'

Gwnaeth Jones ymddeol yn 2009. Roedd yn mwynhau golff a garddio, yn cynnig ei wasanaeth fel offeiriad pan oedd angen, ac o bryd i'w gilydd, yn canu'r organ yn ei eglwys leol. Ond, mae hefyd wedi bod yn weithredol yn Trades House of Glasgow. Sefydlwyd y Trades House yn 1605 i helpu diogelu a chefnogi crefftwyr Glasgow; heddiw, mae'n elusen sy'n canolbwyntio ar fentrau addysgol ac ar gynnal pobl sydd mewn angen. Mae'r Tŷ a'i bedair masnach ar ddeg yn dosrannu tua £600000 y flwyddyn ymhlith elusennau, yn ogystal â threfnu gwobrau crefft a helpu prentisiaid. Roedd Jones yn Gasglwr i'r Trades House rhwng 2012 a 2013, ac yna, yn Gynullwr Hwyr rhwng 2013 a 2014. Yna, bu'n Ddiacon-gynullwr rhwng 2014 a 2015. Yn y rôl honno, roedd ganddo'r teitl parchus ' Y Trydydd Dinesydd' a byddai'n cymryd rhan yn nigwyddiadau seremonïol yr Arglwydd Brofost.

Yn 2007, gwnaethpwyd Jones yn gymrawd anrhydeddus Prifysgol Cymru Llambed.

**Ffynonellau**

MacMath, T.H. (2013, March 1). Interview: Idris Jones, former Primus, Scottish Episcopal Church. *Church Times.* Adalwyd ar Ionawr 22 2021 oddi wrth https://www.churchtimes.co.uk/articles/2013/1-march/features/interviews/interview-idris-jones-former-primus-scottish-episcopal-church

Jones, Rt. Rev. Dr Idris (2021). *Who's Who & Who Was Who.* Adalwyd ar Ionawr 22 2021 oddi wrth https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540884.001.0001/ww-9780199540884-e-17241?rskey=yWsJwf&result=2

# Isaac Jones

Roedd Isaac Jones (1804-1850) yn gyfieithydd gweithiau Saesneg i'r Gymraeg, ac roedd yn gweithio ar adeg pan oedd y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn siarad Cymraeg yn unig.

Brodor o Geredigion oedd Jones. Ganwyd ef ar 2 Mai 1804 yn Llanychaearn ger Aberystwyth. Gwehydd oedd ei dad ac ef oedd ei athro cyntaf; dywedir ei fod yn gwybod rhywfaint o Ladin yn saith oed. Ar ôl hynny, aeth i'r ysgol yn ei blwyf ac yna i'r ysgol ramadeg yn Aberystwyth. Daeth yn gynorthwyydd yn ei ysgol hŷn ac yn brifathro yno yn 1828. Ar yr adeg hon, roedd cynifer â 100–120 o ddisgyblion yn yr ysgol. Dywedir bod Jones yn fyr iawn, ond dros ei bwysau. O ganlyniad fe'i gelwid yn 'Isaac Dew.'

Roedd Jones yn aelod cynnar o Goleg Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan. Aeth i'r coleg yn 1834; etholwyd ef yn ysgolhaig Eldon Hebraeg yno'r flwyddyn ganlynol. Fe'i ordeiniwyd yn ddiacon ym mid Medi 1836 ac yn offeiriad ym mis Medi 1837. Roedd ei ddwy guradiaeth gyntaf yn ardal Aberystwyth – Llanfihangel Genau'r-glyn ac yna Capel Bangor. Tra yn Llanfihangel, roedd hefyd yn brifathro'r ysgol ramadeg yn y pentref. Ym mis Chwefror 1840, symudodd Jones i Ynys Môn i ddod yn gurad Llanedwen a Llanddeiniol-fab. Bu yno hyd ei farwolaeth gynamserol.

Roedd Jones yn ysgolhaig, gramadegydd a chyfieithydd Cymraeg rhagorol. Gan weithio gydag Owain Williams o Waunfawr, bu'n gyd-olygydd y gwyddoniadur Cymraeg cynnar, *Y geirlyfr Cymraeg.* (Er y gwnaed ymdrechion blaenorol i lunio gwyddoniadur Cymraeg yn 1721 ac 1795, hon oedd yr ymdrech lwyddiannus gyntaf i gynhyrchu gwyddoniadur cyffredinol Cymraeg.) Cyhoeddwyd *Y geirlyfr Cymraeg* mewn 45 o rannau; ymddangosodd y cyntaf yn 1830 a'r olaf yn 1835. Cyhoeddwyd y gwaith cyflawn mewn dwy gyfrol, wedi'u rhwymo'n un fel arfer. Ysgrifennodd Jones yr ail gyfrol gyfan. Daeth yn adnabyddus iawn ac roedd yn eitem gwerthfawr yng nghartrefi'r Cymry.

Golygodd Jones ail gyfrol Testament Newydd William Salesbury; cyhoeddwyd hwn yng Nghaernarfon yn 1850, ychydig cyn ei farwolaeth. Roedd y gweithiau a gyfieithodd i'r Gymraeg yn cynnwys *Dictionary of the Bible* gan Gurney (1835) a *Commentary on the New Testament* gan Adam Clark (1847). Bu Jones hefyd yn cynorthwyo'r Parchedig E. Griffiths o Abertawe i gyfieithu *Exposition* gan Matthew Henry. Jones oedd awdur y gyfrol *Gramadeg Cymreig* (1832, 1841) a sawl pamffled a thraethawd.

Ni phriododd Jones erioed. Bu farw yn Llanidan, ar Ynys Môn ar 2 Rhagfyr 1850. Fe'i claddwyd ym mynwent Llanidan.

**Ffynonellau**

Thomas, D., a Millward, E. (2004, Medi 23). Jones, Isaac (1804–1850), translator . *Oxford Dictionary of National Biography.* Cyrchwyd ar 5 Mehefin. 2020, o https://www-oxforddnb-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-15018.

Ellis, T. I., (1959). JONES, ISAAC (1804 - 1850), clerigwr a chyfieithydd. *Dictionary of Welsh Biography*. Cyrchwyd ar 5 Mehefin 2020, o https://biography.wales/article/s-JONE-ISA-1804

Samuel, D. (1894). The history of the grammar school (continued). *The Aberystwyth Grammar School magazine.* 4(2),17-21. Cyrchwyd o https://journals.library.wales/view/2520560/2520754/2#?xywh=-1536%2C-2%2C5754%2C3521.

Davies, J.I. (1984). The history of printing in Montgomeryshire, 1789-1960. *Montgomeryshire collections relating to Montgomeryshire and its borders.* 72,37-44. Adalwyd o https://journals.library.wales/view/1264487/1269493/38#?xywh=-1725%2C-28%2C6467%2C3957.

# Y Parchedig Maldwyn Lloyd Jones

Roedd Maldwyn Lloyd Jones (1917-2014) yn glerigwr Anglicanaidd, yn genhadwr yn Ne America, ac yn gaplan llyngesol. Mae rhai o'r digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag ef yn debyg i'r anturiaethau sydd yn *The boys' own paper.*

Ganwyd Maldwyn yn Fochriw, ger Merthyr Tudful. Roedd ei deulu yn un agos, ac o ran materion ariannol, yn lled ddiogel. Roedd ei dad yn isreolwr y meysydd glo. Yn 1925, symudodd y teulu i Fanwen yng Nghwm Nedd. Cafodd Maldwyn ei addysg yn Ysgol Ramadeg Castell-nedd, ac yna, yng Ngholeg Dewi Sant, Llambed. Roedd gan Maldwyn hoffter parhaol am Lambed. Roedd yn aelod sefydlu ac yn Is-lywydd Cymdeithas Llambed; pan fu farw, mae'n debyg mai ef oedd yr aelod hynaf.

Ordeiniwyd Maldwyn yn ddiacon yn 1940, ac yn offeiriad yn 1941. Lleolwyd ei swydd glerigol gyntaf yng Ngorseinon, ar gyrion Abertawe. Yno, dysgodd am bwysigrwydd ymweliadau bugeiliol. Ar ôl hyn, daeth yn gaplan ac yn athro mathemateg yn ysgol breswyl Kingham, yn esgobaeth Rhydychen.

Nesaf, symudodd i Dde America. Am ei fod yn ieithydd dawnus, gwnaeth y Society for the Propagation of the Gospel ei recriwtio i wasanaethu yno. Daeth yn gaplan i Lysgenhadaeth Prydain yn Brazil, yn gwasanaethu'n gydwybodol y gymuned alltud ehangach. Roedd yn gaplan eglwys All Saints Nichteroy o 1946 i 1948, ac yn brifathro ysgol St Paul, Sao Paulo, o 1948 i 1950.



Eglwys gadeiriol Christ Church, Stanley, Ynysoedd Falkland

Cafodd ei anfon nesaf i Ynysoedd Falkland. Bryd hynny, roedd Ynysoedd Falkland wedi cael eu hychwanegu at yr esgobaeth Anglicanaidd anferth sy'n cynnwys yr Ariannin gyfan, yn ogystal â dwyrain De America.  Yn ddamcaniaethol, yr esgob, Y Gwir Barchedig Daniel Ivor Evans, gŵr gradd arall o Lambed, oedd Deon Stanley. Ond roedd angen clerigwr arno i fyw ar Ynysoedd Falkland, yn ogystal â gofalu amdanynt. Roedd Maldwyn yn gyfrifol am yr ynysfor cyfan. Gwnaeth gymryd gofal dros dro am yr eglwys gadeiriol, cefnogi'r Rhaglaw ac ymweld â'i gymuned wasgaredig, gan fynd ar gefn ceffyl i deithio o un man i'r llall.

Yn 1952 cyflawnodd Maldwyn ei uchelgais hirsefydlog drwy ymuno â'r Llynges Frenhinol. Gweithiodd fel caplan llyngesol tan 1968. Roedd ei ddoniau yn arbennig o addas ar gyfer bywyd morol – byddai'n gofalu'n fugeiliol am bawb, roedd yn hoffi trefn, yn mwynhau arferion sy'n gysylltiedig â rhenc, ac roedd ganddo'r gallu i ddifyrru. Yn ystod bombardio Gogledd Korea, gwnaeth wasanaethu ar HMS *Newcastle.* Yno, datblygodd ef yr arfer disgybledig o ddathlu'r cymun bendigaid am 7 yb; byddai hefyd darlleniad byr o'r Beibl a sesiwn weddïo yn cael eu cynnal am 12.25 yp. Byddai

pob un o'r rhain yn cael ei gyhoeddi dros uwchseinydd y llong. Byddai'r cwmplin yn dechrau am 9.15 yh. Ceisiodd ddod i adnabod pob aelod o'r criw, 850 ohonynt, wrth ei enw bedydd, a byddai'n gwneud ymdrech arbennig i chwilio am y sawl a oedd yn drist neu mewn profedigaeth. Gwnaeth hefyd wasanaethu ar HMS *Tiger,* ei long hapusaf.



HMS Tiger, llong hapusaf Maldwyn

Gan Hugh Llewelyn o Keynsham, y DU - HMS Tiger, CC BY-SA 2.0, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=74607084

Gwnaeth y treialon bomiau atomig a brofodd Maldwyn achosi niwed parhaol i'w olwg. Pregethodd i forwyr o Brydain ac America mewn eglwys gadeiriol orlawn yn Honolulu. Hyfforddwyd ef fel offeiriad comando gyda'r Môr-filwyr Brenhinol, gan ennill y beret gwyrdd enwog. Chwaraeodd ran weithredol yng ngoresgyniad Suez, lle gwnaeth ef ofalu am y sawl a oedd wedi'u hanafu'n angheuol ar y traeth. Ymhen hir a hwyr, gwnaethpwyd ef yn gyfrifol gan y llynges am hyfforddi caplaniaid newydd.

Ar ôl ymadael â'r Llynges Frenhinol, aeth Maldwyn yn ôl i fyd addysg. Roedd yn gaplan Ysgol Filwrol Shattuck, yn Faribault, Minnesota, o 1968 i 1970. Yna, cafodd ei hyfforddi i addysgu Saesneg fel iaith dramor. Ar ddychwelyd i Brydain, gweithiodd yng Ngholeg Addysg Bellach Wandsworth.

Ni wnaeth Maldwyn erioed briodi. Ar ôl ymddeol o weinidogaethu llawn amser yn 1972, rhoddwyd iddo Drwydded Gyffredinol gan Esgobaeth Bangor ar gyfer 1972 tan 1982. Yna, gwnaeth fyw am rai blynyddoedd yn Tirley, ger Tewkesbury. Bu farw ar Ragfyr 27 2014 yng Nghartref Gofal Bae Langland, Abertawe. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Llwydcoed; yn hollol briodol, gwnaeth gŵr gwadd arall o Lambed, y Parchedig Bill Fillery, weinyddu yn y gwasanaeth.

**Ffynonellau**

McCloy, R. (2015, February 13). Revd. Maldwyn Lloyd Jones. *Church Times.* Adalwyd oddi wrth https://www.churchtimes.co.uk/articles/2015/13-february/gazette/obituaries/the-revd-maldwyn-lloyd-jones

McCloy, R., Fenwick, R. (2015). The Reverend Maldwyn Lloyd Jones, R.N.[retired] 1917-2014. *The Link.* 68,24-25. Adalwyd oddi wrth https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/alumni/lampeter-society/Link2015.pdf

# Maurice Jones

Gwnaeth Maurice Jones (1863-1957) arwain Coleg Dewi Sant, Llambed, am bedair blynedd ar ddeg, a'i achub ar adeg pan oedd cyflwr y coleg i weld yn anobeithiol.

Daeth Maurice o Drawsfynydd, ychydig o filltiroedd i'r de o Ffestiniog. Ef oedd yr ail o saith o blant William Jones, crydd y pentref, a'i wraig Catherine. Ond er gwaethaf cyflwr diymhongar eu cartref, roedd yn llawn o lyfrau. Ac eithrio'r rheithor, Maurice oedd yr unig unigolyn yn y pentref i dderbyn papur newydd Saesneg yn rheolaidd. Ysgrifennodd Maurice yn ddiweddarach fod ei yrfa addysgol wedi bod 'entirely due to an accident.' Cynigiwyd iddo le am ddim yn Ysgol Friars Bangor gan ei phrifathro, D. Lewis Lloyd, mab yng nghyfraith ei reithor lleol. Ar ôl Ysgol Friars, mynychodd Maurice Goleg Crist Aberhonddu pan symudodd Lloyd yno. Felly, achubwyd Jones rhag gweithio drwy gydol ei oes naill ai fel crydd, neu yn chwareli llechi Blaenau Ffestiniog.

Ar ymadael â'r ysgol, aeth i Goleg yr Iesu, Rhydychen ac enillodd radd dosbarth cyntaf mewn diwinyddiaeth; ef hefyd oedd cocs cwch y coleg. Yn ddiweddarach, gwnaeth gyfaddef mai ei reswm am fod yn glerigwr oedd y ffaith mai'r Eglwys oedd yr unig gorff a oedd yn fodlon ei helpu'n ariannol i dderbyn hyfforddiant. Ond ni wnaeth fyth ddifaru gwneud y dewis hwnnw. Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn 1886, dim ond pythefnos ar ôl iddo orffen ei gwrs. Bu'n gurad yng Nghaernarfon ac yn y Trallwng, cyn gwneud cais i fod yn gaplan yn y fyddin am dâl offeiriad o £300 y flwyddyn (yn hytrach na £120 am fod yn gurad). Yn drasig, yn ystod y blynyddoedd hyn, bu farw ei wraig gyntaf Catherine (Griffith gynt) o'r ddarfodedigaeth a'u dau blentyn bach. Byddai ef yn priodi ddwywaith eto; bu farw ei ail wraig Emily (Longmore gynt) yn 1906. Priododd ef Jenny Bell yn 1911.

Treuliodd Jones bum mlynedd ar hugain yn y fyddin, yn gwasanaethu'n fyd-eang. Roedd ef bob amser wedi gallu trafod dynion yn dda, ac felly roedd e'n arbennig o addas ar gyfer y swydd hon. Treuliodd chwe blynedd ym Malta, ac yno bu'n Gadeirydd Bwrdd Arholwyr y Brifysgol ac o'r Comisiynwyr Sifil. Yn ystod Rhyfel y Boer, bu ef yn gaplan i'r Arglwyddi Roberts a Kitchener. Byddai Roberts yn mynychu tri gwasanaeth bob dydd Sul, a Kitchener dim ond un yr wythnos (i fodloni Jones). Yna, treuliodd Jones dair blynedd ar ddeg ar wyliadwriaeth gartref a'u dilyn gyda chyfnod yn Jamaica. Pan ddechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf, dywedwyd wrtho, fel uwch gaplan, y byddai'n cael parhau i aros ar y ffrynt gartref. Gwnaeth ymddeol o'r fyddin yn gaplan dosbarth cyntaf yn 1914.

Gyrfa nesaf Jones oedd fel clerigwr cefn gwlad; penodwyd ef i weithio o breswylfa Rotherfield Peppard, Coleg yr Iesu, ychydig o filltiroedd i'r gorllewin o Henley-on-Thames, yn Swydd Rydychen. Yn ôl pob sôn, roedd gan ei bregethau rym anferth. Ochr yn ochr â'u waith plwyfol, roedd yr hawl ganddo i ysgrifennu ac i weithredu, yn rhinwedd ei swydd, fel arholwr yn Rhydychen. Roedd ef bob amser wedi parhau i astudio, pa le bynnag y cafodd ei anfon. Dyfarnwyd iddo radd BA gan Brifysgol Rhydychen yn 1907, ac yna DD yn 1914 am ei lyfr *St Paul the Orator*, (Hodder a Stoughton, 1910). Yn awr, cynhyrchodd nifer o lyfrau a rhes o erthyglau yn y Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Dros y deng mlynedd nesaf, cyhoeddodd *The New Testament in the Twentieth Century* (Macmillan, 1914); *The Epistle to the Philippians* (Methuen, 1918); *The Four Gospels* (SPCK, 1921) a *The Epistle of St Paul to the Colossians* (SPCK, 1923).



Penodwyd Jones yn bennaeth Coleg Dewi Sant, Llambed, sefydliad a oedd wedi hen ddigalonni. Roedd cynllun ei ragflaenydd, Gilbert Cunningham Joyce, i'w drawsnewid i goleg diwinyddiaeth ôl-raddedig wedi methu, ond roedd y coleg wedi'i hollti gan ymraniadau. Dim ond deg a thrigain o fyfyrwyr oedd gan y coleg erbyn hyn, ac roedd ei statws a'i safonau yn is nag erioed o'r blaen yn ei hanes. Roedd penodiad Jones wedi rhyfeddu pawb. Roedd bron yn drigain mlwydd oed; roedd eisoes wedi gwneud cais i fod yn Athro Cymraeg ar ddau achlysur, ac unwaith i fod yn bennaeth, ond heb ddod ar unrhyw restr fer. Meddai yn ddiweddarach 'After having been rejected on three previous occasions Lampeter in its distress had called me to come to the rescue.'

Roedd pobl gwasg yr iaith Gymraeg wrth eu boddau pan benodwyd Jones. Medd Morgan, 'Apart from the election of Timothy Rees to Llandaff …. , it is difficult to imagine a more inspired appointment within the new Church during these years.' Mae'n debyg mai ateb Jones i broblemau Llambed oedd cynyddu nifer y myfyrwyr ond gadael gwaith y coleg, i ran helaeth, heb ei newid. Dechreuodd ei waith yn Llambed gydag ymgyrch recriwtio un dyn, gan bregethu ledled Cymru, yn enwedig yn ei ardal frodorol yng ngogledd y wlad. Ymwelodd Jones â nifer o ysgolion uwchradd gan ddarganfod nad oedd neb o gwbl yn gwybod am Goleg Dewi Sant. Cynyddodd nifer y myfyrwyr o 75 yn haf 1923 i 126 yn Hydref 1924. Dan arweinyddiaeth Jones, daeth Llambed i ran helaeth yn le i hyfforddi clerigwyr ar gyfer y dyfodol. Ystyriodd ef y coleg yn ' home sanctified by religious discipline as well as sound learning.'

Erbyn i Jones ymddeol yn 1938, roedd gan Lambed ddau gant o fyfyrwyr preswyl. Roedd ef wedi llwyddo codi proffil a morâl Llambed, rhoi'r coleg ar sylfaen ariannol gadarn a chyfoethogi statws yr iaith Gymraeg ynddo. Roedd ef yn agos at y myfyrwyr, ac roedden nhw'n ei adnabod fel 'Prinny Bach'. Meddai Price 'it is clear that this 'wise, understanding and friendly man often went out of his way to help those in need and distress.'

Daeth Jones yn ganon yn eglwys gadeiriol Tyddewi yn 1923. Yn yr un flwyddyn, daeth hefyd yn gymrawd Coleg yr Iesu, Rhydychen. Mewn cyferbyniad, roedd yn aelod o Orsedd y Beirdd, a'i enw barddol oedd Meurig Prysor. Ef oedd trysorydd yr Eisteddfod o 1925 i 1938, a daeth bron yn Archdderwydd yn 1935. Roedd yn Is-lywydd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion.

Ar ymddeol, symudodd Jones i Lundain, a gwelwyd dau gartref yn cael eu bomio. Yn 1944, erbyn hyn yn ei wythdegau, daeth ef yn offeiriad Bradden, pentref bach yn ne Northamptonshire. Ar ôl tair blynedd yno, symudodd yn ôl i Lundain, gan barhau i arwain y gwasanaethau Sul. Bu farw yn ei gartref yn Addington, Surrey, ym mis Rhagfyr 1957. Meddai awdur ei goflith yn y *Church Times* 'His short, stocky figure, pugnacious, with a zest for life; his amazing memory for names and faces, keen wit, sound scholarship and practical wisdom were sadly missed when, in his nineties, he found that his legs could no longer carry his heart where it longed to be.'

**Ffynonellau**

Price, D.T.W. (1990). *A History of Saint David's University College Lampeter. Volume two: 1898-1971.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Canon Maurice Jones. (1957, December 9). *Times.* Adalwyd ar Chwefror 17 2021 oddi wrth https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS218323337/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=c4710a29

Canon Maurice Jones. Scholarly Principal of Lampeter. (1957, December 13). *Church Times.* Adalwyd ar Chwefror 17 2021 oddi wrth https://www.ukpressonline.co.uk/ukpressonline/view/pagview/ChTm_1957_12_13_013

Ellis, M. G., (2001). JONES, MAURICE (1863 - 1957), priest and college principal. *Dictionary of Welsh Biography*. Adalwyd ar Chwefror 17 2021 oddi wrth https://biography.wales/article/s2-JONE-MAU-1863

Morgan, D. (2011). *The Span of the Cross.* 2nd edition. Adalwyd ar Chwefror 18 2021 oddi wrth https://www.google.co.uk/books/edition/The_Span_of_the_Cross/8TC-DwAAQBAJ?hl=en&gbpv=1&dq=maurice+jones+and+factionalism&pg=PT124&printsec=frontcover

# Yr Esgob Noël Jones

Roedd Noël Debroy Jones (1932-2009) yn gymeriad a hanner a ddaeth yn Brif Lyngesydd, ac yna, yn esgob Sodor a Manaw.

Ganwyd Jones ar Ddydd Nadolig 1932 i Brinley a Gwendoline Jones. Addysgwyd ef yn Ysgol 'Haberdashers'', Trefynwy, ac yna yng Ngholeg Dewi Sant Llambed. Ar ôl graddio, astudiodd ar gyfer cael ei ordeinio yng Ngholeg Diwinyddiaeth Wells. Gweithiodd fel curad yn eglwys St James, Tredegar, ac yna yn eglwys St Mark, Casnewydd.

Symudodd nesaf i ogledd Nigeria; daeth yn ficer Kano, lle, yn ôl pob son, y cafodd ef effaith fawr mewn byr amser. Mewn ardal Islamaidd, sylwyd ei fod yn agored i rai traddodiadau Cristnogol eraill. Oherwydd y byddai ef bob amser yn gwisgo casog, heblaw am achlysuron pan gynhelid chwaraeon, nid oedd hi'n hawdd ei gamgymryd am rywun arall.

Yn 1962, anfonwyd Jones i Singapore a Brunei fel caplan llyngesol. Roedd hwn yn gyfnod anodd i'r Llynges Fach gyda'r glannau o longau pysgota ffrwydron oherwydd daeth hi'n rhan o wrthryfel Brunei (yn erbyn cynhwysiad arfaethedig Brunei yng ngwladwriaeth Malaysia). Sefydlodd Jones gydberthynas hynod o dda gyda'r llongwyr; dywedwyd y byddai'r dynion yn y llongau pysgota ffrwydron a oedd wedi eu hangori tipyn o bellter wrth yr un yr oedd ef yn cynnal gwasanaeth Sul ynddi, yn llogi tacsis dŵr er mwyn ei glywed yn pregethu. Yn Singapore, cynhaliodd ef ei fedydd llyngesol cyntaf, gan ddefnyddio cloch *HMS Puncheston*, wedi ei throi wyneb i waered, fel bedyddfaen.

Nesaf, gwnaeth Jones wasanaethu gyda'r Môr-filwyr Brenhinol, lle y gwnaeth ef weithio gyda '42 Commando' gan gymryd rhan yn y ciliad o Aden. (Roedd e'n falch ei fod wedi pasio Cwrs Comando'r Môr-filwyr Brenhinol!). Uned Jones oedd yr olaf i ymadael. Gwnaeth Jones adrodd stori am ymweld ag ysbyty gan ddisgwyl gweld dynion wedi'u clwyfo ynddi. Yn lle hynny, daeth o hyd i'r gelyn, a gwnaeth eu hadnabod oherwydd roedd ganddynt dwrbanau a drylliau. Meddai ei fod wedi troi a rhedeg ar unwaith 'like a madman for a low wall, which I hopped over just in time'

Yn 1969, priododd Jones â Joyce Leelavathy Aralanandam yn Singapore. Cafodd y pâr ddau o blant, Vanessa a Ben.

Treuliodd Jones dair blynedd fel caplan staff i'r Weinyddiaeth Amddiffyn; yna, o 1977 tan 1980, bu'n Uwch Gaplan i'r lluoedd Prydeinig yn Hong Kong. Yn rhinwedd y swydd hon, byddai'n ymweld â theulu pob morwr gan gyflwyno ei hun fel 'your vicar'. Ar un achlysur, dechreuodd rhai o'r gweithwyr cynhyrfawr Tsieineaidd a oedd yn adeiladu ar safle *HMS Tamar* derfysgu. Yn dawel, gwnaeth Jones ddiarfogi'r arweinydd a oedd ganddo fwyell.

Erbyn dechrau Rhyfel Ynysoedd Falkland, roedd Jones yn ôl ym Mhrydain. Rhoddwyd iddo'r dasg anodd o roi newyddion drwg i'r perthnasau agosaf. Dywedwyd ei fod wedi gwneud hyn gyda thosturi a gallu mawr. Penodwyd ef yn gaplan anrhydeddus i Frenhines Elizabeth II yn 1983 ac yn Gaplan y Llynges ac yn Archddiacon y Llynges Frenhinol yn 1984. Gwnaeth gynorthwyo ym mhriodas Dug a Duges Efrog yn Abaty Westminster yn 1986.



Eglwys Gadeiriol Peel, ar Ynys Manaw lle y bu Jones yn esgob

Mewn cyferbyniad llwyr, yn 1989, penodwyd Jones yn Esgob Sodor a Manaw, (Ynys Manaw a'i hynysigau cyfagos). Mae hon yn esgobaeth anarferol; mae'r esgob yn aelod llawn o senedd yr ynys, sef y Tynwald, ac mae ganddo'r hawl i bleidleisio, ond dim hawl i gael sedd yn Nhŷ'r Arglwyddi. Ar y dechrau, roedd y swydd hon yn dipyn o ysgytwad diwylliannol iddo, ond yn fuan, roedd Jones wedi ymgysylltu â'r gymuned gyfan. Dywedwyd bod pawb yn y gymuned fechan hon yn adnabod yr esgob, ar y maes awyr, yn yr archfarchnad, ac yn yr eglwys, oherwydd ei gasog borffor. Caiff ei gofio'n annwyl fel 'the bishop in the pink dress.' Roedd yn weithredol iawn o ran materion lleol, ac yn ôl pob sôn, roedd yn rhedeg yr esgobaeth 'like an aircraft-carrier!'

O ran ei eglwysyddiaeth, roedd Jones yn Anglo-Gatholig ac yn draddodiadwr blaenllaw yn y dadleuon ynglŷn â dyfodol Eglwys Loegr. Daeth yn wrthwynebwr cadarn ei argyhoeddiad o ran ordeinio menywod. Byddai'n gwrando ar y dadleuon, ond bob tro byddai'n dod i'r casgliad 'I just have this gut feeling that it is wrong.' Roedd hefyd yn gwrthwynebu ailbriodi ysgaredigion yn yr eglwys, gan ddweud ei fod am osgoi achosi parau i dyngu anudon o flaen yr allor. Teimlodd fod yr unigolyn a oedd yn ailbriodi, yn ei hanfod, yn dweud 'Nid oeddwn yn ei wir feddwl y tro diwethaf'.

Ar ôl iddo ymddeol, daeth Jones yn esgob cynorthwyol Caerefrog, a gwnaeth hefyd helpu yn y plwyfi lleol ac yn eglwys All Saints Caerefrog. Bu farw o ganser yn St Christopher's Hospice, Scarborough, ar Awst 28 2009.

**Ffynonellau**

Jones, Rt Rev. Noël Debroy, (25 Dec. 1932–28 Aug. 2009), an Hon. Assistant Bishop, diocese of York, since 2003. *Who's who & Who was who.* Adalwyd ar Fehefin 5 2020, oddi wrth https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540891.001.0001/ww-9780199540884-e-35599.

The Right Rev Noël Jones. (2009, September 11). *The Times.* p. 81. Adalwyd oddi wrth https://go-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ps/retrieve.do?tabID=Newspapers&resultListType=RESULT_LIST&searchResultsType=SingleTab&searchType=AdvancedSearchForm&currentPosition=5&docId=GALE%7CIF0503913854&docType=Obituary&sort=Pub+Date+Reverse+Chron&contentSegment=ZTMA-MOD2&

Obituary of the Right Reverend Noel Jones outspoken and conservative Bishop of Sodor and Man who went supermarket shopping in his purple pomp. (2009, September 11). *Daily Telegraph.* Adalwyd oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/12AACE63D3FC64E0?p=UKNB.

Obituary: the Rt Revd Noël Debroy Jones. (2009, September 23). *Church Times.* Adalwyd oddi wrth https://www.churchtimes.co.uk/articles/2009/25-september/gazette/obituary-the-rt-revd-noël-debroy-jones

# Thomas Glasfryn Jones
**1884-1917**



Ganwyd Thomas Glasfryn Jones yn 1884 yn Llangeitho, saith milltir i'r gogledd o Lambed. Ef oedd trydydd plentyn John a Mary Jones; ei fam oedd merch Lewis Davies, saer coed yn Llambed, ac roedd ei dad yn saer maen.

Mynychodd Thomas Ysgol Sir Tregaron cyn ymgofrestru yng Ngholeg Dewi Sant gydag ysgoloriaeth fynediad, yn 1902. Astudiodd am radd BA mewn Hanes, gan arbenigo mewn Diwinyddiaeth, ac ar ôl graddio o Lambed yn 1905, parhaodd gyda'i astudiaethau yng Ngholeg Diwinyddol Mihangel Sant, Aberdâr. Ar ôl cael ei ordeinio, penodwyd Thomas yn Gurad Mostyn, ger Treffynnon, ac arhosodd yno am y naw mlynedd nesaf.

Yn 1916, cynigiwyd i Thomas guradiaeth Bylchau ger Dinbych, ond yn lle hynny, dewisodd ymrestru gyda'r lluoedd; ymunodd ag Iwmyn Penfro fel Caplan 4ydd Dosbarth â chomisiwn yn Adran Caplan y Fyddin gydag 11eg Bataliwn Cyffinwyr De Cymru. Gwnaeth dros bum mil o gaplaniaid y fyddin gymryd rhan yn y Rhyfel Byd Cyntaf, a gwnaeth 179 ohonynt golli eu bywydau. Eu tasg anfilwrol oedd gofalu am anghenion ysbrydol ac emosiynol y milwyr, ond yn aml, bydden nhw hefyd yn cael eu maglu yng nghanol y frwydr, yn dyst i farwolaeth a grym distrywiol rhyfel, ac yn profi'r un amgylchiadau erchyll â'r sawl a oedd dan eu gofal.

Cymerodd adran Thomas ran mewn brwydrau yn Ffrainc a Fflandrys drwy gydol y flwyddyn ganlynol, ac ar Fawrth 24 1917, wrth iddo roi cymorth i filwr clwyfedig ar faes y gad, tarwyd Thomas gan fwled saethwr cudd. Gwnaeth y clwyfau ergyd gwn i'w ysgyfaint a'i asgwrn cefn ei adael wedi'i barlysu, a chafodd ei anfon i Ysbyty'r Ymerodraeth. Wedi ei sefydlu'n wreiddiol er mwyn darparu gofal i gleifion tramor a oedd yn talu ffioedd, cafodd yr ysbyty hwn yn Llundain ei feddiannu gan y Swyddfa Ryfel er mwyn trin swyddogion a oedd yn

dioddef o baraplegia a achoswyd gan drawma, ac anafiadau i'r ymennydd oherwydd clwyfau a achoswyd gan fwledi neu shrapnel. Yn llai na thair wythnos ar ôl iddo gael mynd i'r ysbyty, bu farw Thomas o'i glwyfau. Roedd yn ddeuddeng mlwydd ar hugain oed.

Dychwelwyd corff marw Thomas i Langeitho, i'w gladdu ym mynwent eglwys Sant Ceitho. Mae'n cael ei goffáu ar Restr Gwroniaid y Coleg ac ar gofebion eraill yn Llangeitho a Mostyn. Caiff Thomas hefyd ei gofio ar y Rhestr Gwroniaid sydd yn Eglwys y Drindod Croesoswallt, sef eglwys ei ddarpar wraig  Miss P. Roberts, a'r un sydd ar glwydi'r gofeb ryfel ym Mharc Cae Glas, Croesoswallt. Yn ystod ei gyfnod ym Mostyn, roedd wedi lletya gyda'r teulu Bithell, a phan, yn 1925, adeiladodd Mr Bithell gartref newydd i'w deulu, enwyd y tŷ 'Glasfryn' er anrhydedd iddo.

> "a good man and true, an eloquent and earnest preacher, and one who made the great sacrifice, and who shared all the perils and dangers of the men to whom he administered at the front"

Dyfyniad o'r adroddiad am yr angladd, *County Herald* April 1917

**Ffynonellau:**

Roberts, S. (2018). *1918-2018 A Commemoration. Saint David's College, Lampeter.* Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

# Yr Athro Neil Keeble

Mae Neil Keeble yn athro emeritws Astudiaethau Saesneg ym Mhrifysgol Stirling, ac yn arbenigwr ar hanes llenyddol a chrefyddol modern cynnar Lloegr.

Astudiodd Keeble yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, rhwng 1963 a 1966. Fel pob ymgeisydd yn y dyddiau hynny, cafodd ei gyfweld gan y Prifathro, J.R. Lloyd Thomas. I Keeble, y daith o Lundain ar drên stêm dros nos oedd y daith fwyaf anturus iddo ymgymryd â hi hyd y pwynt hwnnw. Pan gyrhaeddodd ben ei daith, mae'n cofio iddo gael ei synnu i glywed staff yr orsaf reilffordd yn siarad Cymraeg! Roedd wrth ei fodd hefyd â lleoliad rhyfeddol Llanbedr Pont Steffan, gan nodi bod y lle yn ymddangos iddo fel bryniau Arthuraidd. Roedd y coleg yn fach ac mewn sefyllfa ariannol ansicr, gyda dim ond ychydig o gannoedd o fyfyrwyr. Yn ystod trydedd flwyddyn Keeble, byddai'r tri myfyriwr yn ei ddosbarth anrhydedd yn ei flwyddyn olaf yn cwrdd yng nghartref yr Athro Stanley Boorman ar Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan.  Gyda'i gilydd, roedd y lleoliad, maint y coleg a'r gymhareb rhwng staff a myfyrwyr yn gyfuniad unigryw o ran profiad addysg uwch, ac mae Keeble ei hun yn ei ddisgrifio fel 'profiad delfrydol'.Ac iddo ef, roedd yn ddelfrydol mewn ffordd arall hefyd: ar ddechrau ei flwyddyn academaidd olaf (1965), derbyniodd y Coleg fyfyrwyr benywaidd am y tro cyntaf. Dywedwyd bod Lloyd Thomas wedi addo y câi bob un ohonynt 'radd dda a gŵr da!' Er gwaethaf ymgais y coleg i wahardd y ddau ryw rhag cyfarfod yn ystafelloedd ei gilydd, cyfarfu hanner y grŵp cyntaf o ferched â'u priod yn Llanbedr Pont Steffan! Ymhlith y rhain roedd Jenny Bowers, aelod blaenllaw o Gymdeithas Ddramatig y Coleg, dramsoc. Priododd hi a Neil yn 1968. Aethant ymlaen i gael dau fab o'r enw Oliver ac Owen, a merch o'r enw Sophie.

Ar ôl graddio gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Saesneg, symudodd Keeble i Goleg Penfro yn Rhydychen i weithio ar Ddoethuriaeth mewn Athroniaeth. Yn ei draethawd ymchwil, o'r enw *Some literary and religious aspects of the works of Richard Baxter,* archwiliodd glerigwr Piwritanaidd mwyaf dylanwadol yr ail ganrif ar bymtheg, ac (ar ôl John Bunyan) yr awdur crefyddol a werthodd orau. Er y byddai Keeble yn mynd ymlaen yn ddiweddarach i weithio ar hanes llenyddol a chrefyddol modern cynnar Lloegr yn ehangach, parhaodd ei ddiddordeb yn y traddodiad Piwritanaidd ac anghydffurfiaeth drwy gydol ei yrfa.

Yn 1969, symudodd Keeble i Ddenmarc i addysgu Saesneg ym Mhrifysgol Aarhus. Bum mlynedd yn ddiweddarach, dychwelodd i Brydain ac i Brifysgol Stirling, lle treuliodd weddill ei yrfa. Symudodd yn raddol i fyny'r ysgol yrfaol, gan ddatblygu o fod yn ddarlithydd i fod yn ddarllenydd, wedyn yn athro, ac yna'n ddirprwy brifathro. Treuliodd saith mlynedd olaf ei fywyd gwaith fel uwch ddirprwy brifathro.

Ochr yn ochr ag addysgu a bod yn uwch reolwr y brifysgol, llwyddodd Keeble i ddilyn gyrfa ymchwil brysur. Roedd ei lyfr, *Richard Baxter: Puritan man of letters,* (Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1982), yn astudiaeth drylwyr o ysgrifau swmpus Baxter (dros 140 o deitlau!). Amlinellodd drywydd gyrfa Baxter fel awdur, nodau a dulliau ei waith, ynghyd â'i farn ar ddiben ysgrifennu. Disgrifiodd McGree y llyfr fel un 'i'w groesawu'n fawr' a'i fod yn llyfr sy'n cyflawni 'ei ddibenion yn gampus'. Teimlai fod Keeble wedi cynhyrchu 'portread argyhoeddiadol, craff o feddylfryd a synwyrusrwydd dyn eithriadol'.

Yn ei waith mawr, *The Literary Culture of Nonconformity in Later Seventeenth-Century England* (Gwasg Prifysgol Caerlŷr, 1987), esboniodd Keeble yn ofalus gyd-destun gwaith Baxter, Milton, Bunyan a llawer o awduron anghydffurfiol llai adnabyddus, gan gynnwys y Crynwyr. Dadleuodd fod yr hyn a ysgrifennwyd gan anghydffurfwyr 'yr un mor ddiddorol ac arloesol' â gwaith ysgrifenwyr a beirdd yr Adferiad, ac yn fwy dylanwadol yn barhaol. Disgrifiodd Backscheider y llyfr fel un arloesol.

Roedd *The Restoration: England in the 1660s* gan Keeble, yn rhan o'r gyfres 'History of Early Modern England' gan Blackwell, (yr oedd pob cyfrol ohoni'n ymdrin â degawd penodol). Archwiliodd Keeble Adferiad Siarl II i'r frenhiniaeth, a chanlyniadau hynny o safbwynt gwleidyddol, crefyddol a diwylliannol yn ystod y blynyddoedd yn union ar ôl hynny. Dywedodd Spurr 'Gellir argymell astudiaeth lliwgar N. H. Keeble o ddatblygiad cyhoeddus y broses [o newid cyfundrefn] a'i goblygiadau gwleidyddol a diwylliannol i ddarllenwyr sy'n newydd i'r cyfnod a'r rhai sydd eisoes yn gyfarwydd ag ef'.

Mae diddordeb Keeble yn Richard Baxter wedi parhau trwy gydol ei yrfa. Yn 1974, golygodd *hunangofiant* Baxter yn y gyfres Everyman's Library. Gyda Geoffrey F. Nuttall, lluniodd *A Calendar of the Correspondence of Richard Baxter* (1991), sef yr ymgais gyntaf i ddefnyddio dull systematig a chronolegol o gofnodi pob un o'r 1,200 o lythyrau sy'n bodoli. Yn fwy diweddar, ef oedd y golygydd cyffredinol ac un o bedwar golygydd rhifyn ysgolheigaidd cyntaf papurau hunangofiannol Baxter, sef *Reliquiae Baxterianae*, (pum cyfrol a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Rhydychen, 2020). Roedd hyn yn seiliedig ar y ffolio a gyhoeddwyd ar ôl ei farwolaeth yn 1696, ac ar lawysgrif wreiddiol Baxter, y mae llawer ohono wedi goroesi yn Llyfrgell Dr Williams a'r Llyfrgell Brydeinig yn Llundain. Gan gwmpasu bywyd Baxter o'r 1620au i'r 1680au, dyma un o'r ffynonellau hanesyddol cyfoes pwysicaf, sydd hefyd yn ddogfen allweddol yn natblygiad ysgrifennu am hanes bywyd a genre hunangofiant.

Mae Keeble wedi golygu (naill ai'n gyfan gwbl neu ar y cyd) bum cyfrol o draethodau gwreiddiol: - dwy gyfrol ar John Bunyan, *The writing of the English Revolution*, The 'Great Ejection' of 1662, ac ar hanes llyfrau'r ddeunawfed ganrif. Bu hefyd yn golygu *The cultural identity of seventeenth-century woman,* (Routledge, 1994), sef blodeugerdd o destunau modern cynnar. Mae'r gyfrol yn cynnwys 200 o ddarnau gan awduron cyfoes, sy'n ystyried gwahanol agweddau ar adeiladwaith diwylliannol menywdod. Ysgrifennodd Keeble gyflwyniadau i'r 17 adran. Disgrifiodd Sharpe y llyfr fel 'cymorth ymchwil hynod o ddefnyddiol ar gyfer astudiaethau modern cynnar' ac yn 'amhrisiadwy ar gyfer dysgu seminarau ar ferched modern cynnar'.

Ar lefel fwy poblogaidd, mae Keeble wedi golygu cyfres John Bunyan, *The Pilgrim's Progress,* yn y gyfres World's Classics, a Memoirs of the Life of Colonel Hutchinson gan Lucy Hutchinson yn y gyfres Everyman's Library. Mae hefyd wedi golygu dau ddarn o waith gan Daniel Defoe yn *Complete Works* gan Pickering a Chatto, darn gan Andrew Marvell yn *Prose Works* gan Wasg Prifysgol Yale, a (gyda Nicholas McDowell), darn arall gan John Milton yn *Complete Works* gan Wasg Prifysgol Rhydychen.

Mae Keeble wedi ysgrifennu dros saith deg o draethodau ac erthyglau ar gyfer cyfnodolion, gweithiau cyfeirio a symposia. Ymhlith y rhain mae deuddeg erthygl ar gyfer yr *Oxford Dictionary of National Biography*, gan gynnwys darn hir ar Richard Baxter. Roedd Keeble hefyd yn olygydd cyswllt i'r *Oxford Dictionary of National Biography*. Mae'n gymrawd o Gymdeithas Lloegr, y Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol a Chymdeithas Frenhinol Caeredin. Yn 2000, cafodd ei sefydlu fel cymrawd anrhydedd o Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, sef enw'r coleg bryd hwnnw.

**Ffynonellau**

*Loaring, J. (2017). Love at Lampeter* (pennod newydd). *Y ddolen.* Cyrchwyd ar 23 Tachwedd 2020 o

Prifysgol Stirling (dim dyddiad). Yr Athro Neil Keeble. Cyrchwyd ar 27 Tachwedd 2020

Lewalski, B. (1987). [Adolygiad o'r llyfr *Richard Baxter: Puritan man of letters,* gan N.H. Keeble] *The Yearbook of English Studies, 17,* 283-284. Dynodwr gwrthrych digidol: 10.2307/3507698

McGee, J.S. (1983). [Adolygiad o'r llyfr *Richard Baxter: Puritan man of letters,* gan N.H. Keeble] *Journal of Church and State, 25*(3), 566-567. Cyrchwyd ar 26 Tachwedd 2020 o https://www.jstor.org/stable/23916590

Backscheider, P.R. (1988-1989). [Adolygiad o'r llyfr *The literary culture of Nonconformity in later seventeenth-century England,* gan N.H. Keeble] *Eighteenth-Century Studies 22*(2),261–264.Dynodwr gwrthrych digidol :10.2307/2738879

Spurr, J. (2003). [Adolygiad o'r llyfr *The Restoration: England in the 1660s,* gan N.H. Keeble] *English Historical Review,* 118(478), 1057–1058. Cyrchwyd ar 27 Tachwedd 2020 o

Sharpe, P. (1996). [Adolygiad o'r llyfr*The cultural identity of seventeenth-century woman: a reader*, golygwyd gan N.H. Keeble]. *Continuity and Change, 11*(1),135–136.Dynodwr gwrthrych digidol: 10.1017/S026841600000312X

## Alston Kennerley

Mae Alston Kennerley yn hanesydd morwrol.

Ganwyd Kennerley yn Lerpwl; ond rhannwyd ei flynyddoedd cynnar a'i addysg rhwng Lerpwl, Fremantle yng Ngorllewin Awstralia, Southport, a Chroesoswallt. Er iddo basio wyth lefel 'O', gwnaeth ymadael â'r ysgol pan oedd yn un ar bymtheg mlwydd oed er mwyn ymuno fel prentis â'r Llynges Fasnachol, ond yn fuan, dyrchafwyd ef yn swyddog mordwyo. Gwnaeth basio arholiad y llywodraeth, gan ennill ei Thystysgrif Cymhwyster fel Capten.

Ar ôl deng mlynedd ar y môr, penderfynodd Kennerley newid cyfeiriad ei yrfa, gan obeithio y gallai ef fynd i'r brifysgol. Roedd ceisiadau UCAS am y flwyddyn honno wedi gorffen yn barod. Awgrymodd y Parchedig John Chalk, Curad Cynorthwyol Abergele, y byddai'n werth i Alston ysgrifennu llythyr personol at Lloyd Thomas, pennaeth Coleg Dewi Sant. Aeth Kennerley ar ei sgwter Lambretta 125 i Lambed er mwyn cael ei gyfweliad. Roedd Lloyd Thomas yn deall gwerth cymwysterau morwrol proffesiynol, ac roedd yn fodlon ei dderbyn mewn ffydd heb unrhyw lefel 'A'. Gwnaeth Kennerley uwchraddio ei sgwter i Lambretta 150, gan ychwanegu car clun ato i gludo ei fagiau.

Ei bedwar pwnc yn ystod ei flwyddyn gyntaf oedd hanes, athroniaeth, Groeg ac astudiaethau Beiblaidd. Yn ystod ei dymor cyntaf, disgwylid i fyfyrwyr sefyll arholiad traethawd bob yn ail wythnos, gan ysgrifennu traethawd ar un o chwe thestun a oedd wedi'u hysgrifennu mewn sialc ar y bwrdd. Er, ar y cychwyn, roedd hi'n amhosibl i Kennerley wneud hyn, yn raddol dysgodd i ysgrifennu'n rhugl. Bant o'i astudiaethau, ymunodd ef â'r clwb hoci; er gwaethaf aelodaeth fechan y clwb hwnnw, ni chafodd y tîm ei faeddu yn unrhyw un o'r un ar ddeg gêm a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn olaf Kennerley. Rhoddwyd i Kennerley ei liwiau am chwarae hoci. Mae hefyd yn cofio canu gyda'r gymdeithas gorawl a darllen yn y capel. Roedd pawb yn cymryd rhan yn nigwyddiadau'r diwrnod RAG blynyddol. Mae gan Kennerley lun o hyd o'r Parchedig F.J.T. David, a oedd bryd hynny yn faer Llambed ac yn ddarlithydd hanes a diwinyddiaeth, yn cael ei gludo o gwmpas y dref mewn cadair ar gefn tryc y coleg!

Graddiodd Kennerley gydag anrhydedd mewn hanes ym mis Gorffennaf 1964. Symudodd i Goleg Prifysgol Aberystwyth i astudio cwrs ôl-raddedig mewn addysg, yn ogystal â chwrs astudiaethau Beiblaidd. Ei swydd nesaf oedd fel Darlithydd Pynciau Morwrol yng Ngholeg Technoleg Plymouth, (Ysgol Fordwyo Plymouth gynt). Yn athrofa hirsefydlog, roedd Ysgol Fordwyo Plymouth yn cynnig addysg alwedigaethol i forwyr masnachol. Pan benodwyd Kennerley, ef oedd yr unig ŵr gradd ar y staff! Ef oedd arweinydd pwnc Astudiaethau Breiniol (unrhyw beth nad oedd ar y maes llafur morwrol) pob un o 300 o gadlanciau'r Llynges Fasnachol a oedd ar y gofrestr. Ei ail bwnc oedd mordwyo.

Byddai Kennerley yn aros yn Plymouth am weddill ei yrfa. Ymhen hir a hwyr, newidiodd y Coleg Technoleg i Goleg Polytechnig Plymouth a nesaf i Goleg Polytechnig y De-orllewin, ac yn ddiweddarach fyth i Brifysgol Plymouth. Mae Kennerley wedi hyfforddi myfyrwyr ar amrywiol lefelau, gan gynnwys OND, HND a B.Sc. Yn ogystal â mordwyo a hanes morwrol, mae hefyd wedi addysgu gwaith cargo, morwriaeth, technegau astudio a sut i ddefnyddio llyfrgell.

Dyfarnwyd PhD Kennerley iddo yn 1989, ac enw ei thesis oedd 'British seamen's missions and sailors' homes, 1815 to 1970: voluntary welfare provision for serving seafarers.' Mae wedi cyhoeddi erthyglau niferus mewn cyfnodolion ac wedi ysgrifennu penodau ar amrywiol bynciau morwrol mewn llyfrau. Mae ei benodau mewn llyfrau wedi cynnwys hanes morwrol Dyfnaint, Cernyw a Gwlad yr Haf. Mae ei themâu eraill wedi cynnwys addysg a lles morwyr, crefydd morwyr a Joseph Conrad. Cyhoeddwyd hanes swyddogol ei sefydliad ef ei hun, *The Making of the University of Plymouth*

(cyhoeddwyd gan Brifysgol Plymouth) yn 2000. Disgrifiodd y broses o atgyfnerthu a wnaeth yn y diwedd greu prifysgol aml-gampws gymhleth gyda'i holl gyfleoedd a'i heriau. Gyda Richard Harding ac Adrian Jarvis, gwnaeth Kennerley olygu *British ships in China seas: 1700 to the present day,* (Amgueddfeydd Cenedlaethol Lerpwl, 2004). Mae'r gyfrol hon yn casglu at ei gilydd pedwar ar bymtheg papur a roddwyd mewn cynhadledd a gynhaliwyd yn Amgueddfa Forwrol Merseyside, Lerpwl. Meddai Jamieson, 'Collections of conference papers can be highly variable in quality, but this particular set are of a generally high standard, with full references after most papers … The book will be of use to both those interested in the history of British shipping and those looking at the economic development of China.'

Roedd Kennerley hefyd yn un o dri golygydd y gyfrol *The maritime history of Cornwall,* (Gwasg Prifysgol Caerwysg, 2014). Yn rhyfedd, er bod y môr wedi bod yn ganolog i hanes Cernyw, dyma'r hanes morwrol llawn, cyntaf o'r penrhyn. Ysgrifennodd Milne, 'The underlying research base of the book is very substantial, and the range of sources formidable … The editors are to be commended for pulling so many threads together in such a capable way, and their editorial contributions certainly make the volume much more coherent than is often the case with multi-author projects on this scale. This book sets some important standards for maritime-regional studies.' Yn y digwyddiad "Cornish Bookers" 2015, gwnaeth Gorsedh Kernow's Holyer an Gof wobrwyo'r gyfrol fel y gwaith ffeithiol (morwrol, treftadaeth ddiwydiannol a'r amgylchedd ) gorau, 2015.

Mae Kennerley wedi cyfrannu erthyglau am Frank Thomas Bullen ac Agnes Elizabeth Weston at yr *Oxford Dictionary of National Biography.* Mae ei waith ar fywgraffiad Bullen yn nwylo cyhoeddwr. Mae'n gymrawd y Sefydliad Morwrol, yn Gymrawd Churchill (1991), yn aelod o'r Gymdeithas Ymchwil Morwrol, o Gymdeithas Hanes Morwrol y De-orllewin ac o'r Gymdeithas Hanes Morwrol Ryngwladol. Mae'n gymrawd anrhydeddus Prifysgol Caerwysg ers 1990. Mae'n dal i fod yn Gydymaith Ymchwil Anrhydeddus Prifysgol Caerwysg, ac mae'n parhau i weithio ar ei raglen ei hun, yn cynnal ymchwil hanes morwrol.

**Ffynonellau**

Robbins, R. (2003). Universities: past, present, and future. *Minerva, 41*(4), 397-406. Adalwyd ar Fehefin 7 2021 oddi wrth https://www.jstor.org/stable/41821259

Jamieson, A.G. (2005). Book review: *British ships in China seas: 1700 to the present day. International Journal of Maritime History, 17*(1),300-302. https://doi.org/10.1177/084387140501700118

Review: The Maritime History of Cornwall. (2015). *International Journal of Maritime History*, *27*(3), 604–606. https://doi.org/10.1177/0843871415586662v

Parker, S. (2015, Gorffennaf 28). Study of archaeology and landscape scores hat-trick at 'Cornish Bookers.' *Western Morning News.* Adalwyd ar Fehefin 7 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&docref=news/156D99A4C329B910.

# Omar Khalidi

Roedd Omar Khalidi (1952-2010) yn ysgolhaig Mwslimaidd, yn ysgrifennwr, yn actifydd ac yn llyfrgellydd.

Ganwyd Khalidi yn Hyderabad, yr wythfed o ddeg o blant. Ei dad oedd Abu Nasr Khalidi, ysgolhaig astudiaethau Arabaidd ac Islamaidd enwog ym Mhrifysgol Osmania. Astudiodd Omar am radd BA ym Mhrifysgol Talaith Wichita, Kansas; ac fe raddiodd yn 1980. Yn 1991, dyfarnwyd iddo radd Meistr yn y Celfyddydau Breiniol gan yr Extension School, Prifysgol Harvard. Enw ei thesis ar gyfer ei radd PhD y dyfarnwyd iddo yn 1994 gan Goleg Prifysgol Dewi Sant oedd *Indian Muslims in the political process.*

Rhwng 1981 a 1983, bu Khalidi yn llyfrgellydd pensaernïaeth a chynllunio yn Llyfrgell Prifysgol y Brenin Saud, Riyadh, Saudi-Arabia. Treuliodd weddill ei yrfa fel Llyfrgellydd Pensaernïaeth Islamaidd i'r Aga Khan yn Llyfrgell Rotch, MIT. Fel llyfrgellydd, roedd yn enwog am ei garedigrwydd a'i amynedd. Meddai ei gydweithwraig Karen Gyllensvard, 'He was a great reference librarian especially in his fields. He spent a lot of time with students and researchers, and was always patient and willing to take the time to help people.' Bu Khalidi yn Llywydd Cymdeithas Llyfrgellwyr y Dwyrain Canol rhwng 2008-2009.

Ond roedd ef hefyd yn ysgolhaig da a di-flewyn-ar-dafod. Daeth Khalidi yn arbenigwr byd-enwog mewn dau faes, sef statws Mwslimiaid India'r gorffennol a'r presennol, ac ar fosgiau'r gorllewin. Cyhoeddodd yn eang ar y pynciau hyn ac ar hanes Hyderabad, y ddinas a oedd yn gartref iddo. Ei waith cyntaf, a gyhoeddwyd yn 1981 gan Gymdeithas Hanesyddol Hyderabad oedd *The British residents at the court of the Nizams of Hyderabad.* Yn *Romance of the Golconda diamonds* (Mapin Publishing, 1999), ysgrifennodd am y diemwntau a gafodd eu mwyngloddio o gwmpas Hyderabad, gan gynnwys y Koh-i-Nor enwog. Ond gwnaeth Khalidi hefyd ehangu ei orwelion ac ysgrifennodd am y problemau economaidd-gymdeithasol sy'n wynebu lleiafrif Mwslimaidd India. Yn *Indian Muslims since independence,* (Vikas, 1995), gwnaeth ddadlau bod cyflwr Mwslimiaid India wedi gwaethygu'n sylweddol ym mhob sector ers dyfodiad annibyniaeth. (Cafodd Mwslimiaid eu gwasgaru'n denau ledled y wlad. Nid oedd Wrdw yn cael ei haddysgu mewn ysgolion, ac eithrio yn Kashmir. Ar ôl y rhaniad, gwnaeth llawer o Fwslimiaid dosbarth canol, a allai fod wedi darparu arweinyddiaeth, ymfudo i Bakistan.) Yn *Khaki and the ethnic violence in India* (Three Essays Collective, 2010), gwnaeth Khalidi drafod cyfansoddiad ethnig lluoedd arfog India. Roedd cynrychiolaeth annigonol gan Fwslimiaid yn thema arwyddocaol yn rhedeg drwy gydol y llyfr; (gwnaeth gymharu triniaeth y Mwslimiaid gyda thriniaeth y Sikhiaid, a gafodd eu recriwtio mewn niferoedd mawr, gan godi weithiau i swyddi amlwg). Teimlir bod gwaith Khalidi wedi ysgogi'r Pwyllgor Sachar i gynnal cyfrifiad cymuned-eang o luoedd arfog India.

Yn dilyn hyn, daeth pawb i adnabod Khalidi fel actifydd a oedd wedi ymrwymo ei hun i ymladd dros gyfiawnder cymdeithasol i Fwslimiaid lleiafrifol India ac o gwmpas y byd. Ei gred oedd bod yr Hindŵaeth a oedd wedi'i hymgorffori ym mheirianwaith swyddogol India yn golygu nad oedd y wlad yn wladwriaeth secwlar. Roedd ganddo weledigaeth y byddai India yn genedl secwlar, flaengar a democratig sy'n gwarantu hawliau dynol i bawb. Bu Khalidi yn weithredol mewn amrywiaeth o sefydliadau Mwslimiaid India yn yr Unol Daleithiau, gan gynnwys Ffederasiwn y Mwslimiaid o Dras Indiaidd, Cronfeydd Cymorth ac Elusennau Mwslimiaid India, Cyngor Mwslimiaid India a Chymdeithas Mwslimiaid India.

Gwnaeth diddordeb Khalidi mewn mosgiau ddilyn yn naturiol o ganlyniad ei swydd fel llyfrgellydd pensaernïaeth Islamaidd. Dechreuodd ddogfennu pensaernïaeth mosgiau'r Unol Daleithiau ac ysgrifennodd sawl eitem amdanynt. Cafodd ei draethawd dylanwadol 'Approaches to mosque

design in North America' ei gynnwys yn *Muslims on the Americanization path?,* a gafodd ei olygu gan Y.Y. Haddad a J.L. Esposito. Gwnaeth ef ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio patrymau Dwyrain Canol traddodiadol yng nghymdogaethau America. Daeth i'r canlyniad bod defnyddio'r fath batrymau yn atgyfnerthu'r farn bod Islam yn grefydd statig; dylai cynllunwyr mosgiau adeiladu adeiladau sy'n cyflawni gofynion Mwslimiaid ond sydd hefyd yn bodloni anghenion amgylchedd gwahanol. Gwnaeth Adran Wladol yr UD ddefnyddio ei arbenigedd pensaernïol a'i anfon ddwywaith i India, dwywaith i Bakistan ac unwaith i Afghanistan.

Bu farw Khalidi yn drasig mewn damwain ar hap yng ngorsaf MBTA Kendall Square. Roedd e'n ddiabetig, ac mae'n debyg gwnaeth y siwgr yn ei waed gyrraedd lefelau annormal. Yn ôl pob sôn, roedd e'n ceisio dal trên er mwyn prynu meddyginiaeth yn yr orsaf nesaf. Yn drist, mae'n debyg y gwnaeth ef lewygu gan syrthio o flaen injan a oedd yn dod ar y pryd. Daeth Nigar, ei wraig, i wybod am ei farwolaeth dim ond ar ôl iddi gysylltu â'r heddlu i ddweud nad oedd ef wedi dod adref. Gwnaeth merch Khalidi, sef Aliya, ei oroesi. Daeth bron mil o bobl i'w angladd yng Nghanolfan Ddiwylliannol Cymdeithas Islamaidd Boston, yn Roxbury. Meddai'r *Arab News* 'India has become a little poorer with the passing of Dr Omar Khalidi, a great scholar and the man who articulated the voice of the Indian Muslims during some of their darkest hours.'

**Ffynonellau**


Massachusetts Institute of Technology (2010). Remembering Omar Khalidi. Adalwyd ar Fehefin 9 2020, oddi wrth http://news.mit.edu/2010/khalid-rememberance

Rabbat, N. (2010). Omar Khalidi (1954-2010). *MELA Notes,* (83), 1-2. Adalwyd ar Fehefin 9 2020, oddi wrth www.jstor.org/stable/29785922

ARCHNET (n.d.). Omar Khalidi 1952-2010. Adalwyd ar Fehefin 11 2020, oddi wrth https://archnet.org/authorities/2736

Sanyal, U. (1997). Indian Muslims since independence. By Omar Khalidi [Review] *The Journal of Asian Studies, 56*(1), 233-234. doi:10.2307/2646405

Guha, S. (2011). Khaki and the ethnic violence in India: armed forces, police and paramilitary forces during communal riots. 2nd ed. rev. and updated. *Pacific Affairs,* 84(2), 375-377. Adalwyd ar Fehefin 11 2020, oddi wrth www.jstor.org/stable/23056792

Ayub Khan, M. (2010, December 2). Obituary: Omer Khalidi. *The Muslim Observer.* Adalwyd ar Fehefin 11 2020, oddi wrth https://web.archive.org/web/20111002214817/http://muslimmedianetwork.com/mmn/?p=7505

Johnson, A.J. (2001). Yvonne Yazbeck Haddad and John L. Esposito. Muslims on the Americanization Path? [Review]. *Islamic studies,* 40(1),168-172. Adalwyd oddi wrth www.jstor.org/stable/20837085

International and Comparative Librarianship. (2010). Dr Omar Khalidi – a rare scholar-cum-librarian-obituary. Adalwyd ar Fehefin 12 2020, oddi wrth http://lisindica.blogspot.com/2010/12/dr-omar-khalidi-rare-scholar-cum.html

# John C. Knapp



John C. Knapp yw llywydd Coleg Washington a Jefferson, un o golegau celfyddydau breiniol hynaf yr Unol Daleithiau.

Mae Knapp yn frodor o Atlanta; cafodd ei addysg yn Uwchysgol Decatur. Yna, aeth i Brifysgol Talaith Georgia lle y dyfarnwyd iddo radd BSc mewn bywyd trefol, gan ganolbwyntio ar gyfathrebu. Aeth ymlaen i astudio am radd MA mewn Astudiaethau Diwinyddol yn Athrofa Ddiwinyddol Columbia. Teitl y thesis ar gyfer y radd PhD y dyfarnwyd iddo gan Brifysgol Cymru Llambed yn 1999 oedd *Self-deception and moral blindness in the modern corporation.* Bu hefyd yn Ddarlithydd Gwadd Anrhydeddus yn Llambed.

Ochr yn ochr ag astudio, Knapp oedd llywydd Knapp Inc., ymgynghoriaeth cyfathrebu corfforaethol, o 1986 tan 2001. Diben yr asiantaeth hon oedd helpu cwmnïau, asiantaethau'r llywodraeth, prifysgolion a chyflenwyr nwyddau meddygol i fynd i'r afael ag amrywiaeth eang o faterion sensitif, gan gynnwys diogelwch cynhyrchion, effaith ar yr amgylchedd, aflonyddu rhywiol a gwahaniaethu hiliol. Yna, yn 2003, penodwyd ef yn Athro Arweinyddiaeth Foesegol gan Brifysgol Talaith Kennesaw, Georgia. Bu hefyd yn Uwch-ysgolhaig yn Athrofa Arweinyddiaeth, Moeseg a Chymeriad Siegel.

Knapp oedd sylfaenydd yr Athrofa Ddeheuol ar gyfer Busnes a Moeseg Broffesiynol (The Southern Institute for Business and Professional Ethics); a gwnaeth ef ei harwain o 1992 tan 2006, pan ddaeth yr athrofa honno yn uned o Goleg Busnes J. Mack Robinson, Prifysgol Talaith Georgia. Dechreuodd yr Athrofa Ddeheuol fel menter annibynnol yn seiliedig ar y gymuned. Ei bwriad oedd codi ymwybyddiaeth a gwella'r ddealltwriaeth o foeseg a geir ym myd busnes a bywyd proffesiynol, yn ogystal â sbarduno deialog ddefnyddiol o fewn y gymuned. Yn dilyn ei chyfuno â Phrifysgol Talaith

Georgia, daeth Knapp yn Athro yno, ac yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Moeseg a Chyfrifoldeb Corfforaethol.

Yn 2008, symudodd Knapp i Brifysgol Samford, coleg Cristnogol a leolir yn Birmingham, Alabama. Daeth yn Athro Teuluol Mann ym maes Moeseg ac Arweinyddiaeth, yn ogystal ag yn sylfaenydd ac yn gyfarwyddwr Canolfan Moeseg ac Arweinyddiaeth Frances Marlin Mann. Mae'r Ganolfan Mann yn ceisio hwyluso'n ymarferol gwell ddealltwriaeth o'r cymeriad Cristnogol, yn ogystal â hwyluso arwain drwy wasanaethu, ac unplygrwydd moesol myfyrwyr Samford. Yn rhinwedd ei swydd fel Athro, gwnaeth Knapp ddatblygu cwricwlwm moeseg gymhwysol newydd, ynghyd ag arwain prosiectau rhyngwladol yn Asia, Ewrop, Affrica a'r Dwyrain Canol.

Yn 2013, penodwyd Knapp yn ddeuddegfed llywydd Hope College, Holland, Michigan. Coleg celfyddydau breiniol Cristnogol yw Hope College, wedi'i sefydlu'n wreiddiol yn y 19$^{eg}$ ganrif gan fewnfudwyr o'r Iseldiroedd, mewn partneriaeth ag Eglwys Ddiwygiedig America. Mae gan y coleg bellach 3 300 o fyfyrwyr israddedig. Gwnaeth Knapp arwain datblygiad 'Hope for the World: 2025,' cynllun strategol o ddeng mlynedd i gyfoethogi gwahanolrwydd yr athrofa fel man sy'n enwog am ei ragoriaeth mewn materion academaidd, am ddatblygu ffydd, ac am gynwysoldeb ac ymgysylltu byd-eang. Amcan y Ganolfan Boerigter, a sefydlwyd gan Knapp yn 2017, oedd trawsnewid ymagwedd y coleg tuag at baratoi ar gyfer gyrfa, a chyfarparu pob myfyriwr ar gyfer llwyddiant gyrfaol a datblygiad proffesiynol.  Roedd Knapp ei hun yn enwog am feithrin diwylliant o gynhwysiant, parch a chefnogaeth, yn enwedig ar gyfer grwpiau o aelodau'r coleg nad oedd ganddynt gynrychiolaeth ddigonol.

Yn 2017, symudodd Knapp i Pennsylvania, i fod yn drydydd Llywydd ar ddeg Coleg Washington a Jefferson. Sefydlwyd Coleg Washington a Jefferson yn wreiddiol yn 1781, yn seiliedig ar dri choleg ar ffurf cabanau coed. Yn ôl datganiad o fwriad y coleg, mae'n bwriadu graddio 'people of uncommon integrity, competence and maturity who are effective lifelong learners and responsible citizens, and who are prepared to contribute substantially to the world in which they live.' Mae gan Knapp ymrwymiad cryf tuag at addysg gelfyddydau breiniol; mae'n dadlau bod cefndir yn seiliedig ar y celfyddydau breiniol yn gosod sylfaen gadarn lle y caiff myfyrwyr eu haddysgu i feddwl yn feirniadol. Yn enwedig, caiff myfyrwyr eu haddysgu i ystyried pethau o safbwynt sawl disgyblaeth er mwyn mynd i'r afael â phroblemau cymhleth sydd angen eu hystyried o bob cyfeiriad. Yng Ngholeg Washington a Jefferson, mae Knapp wedi cyflwyno'r Symposiwm blynyddol ar Ddemocratiaeth sy'n cynnwys arweinwyr meddwl o bob rhan o'r byd, ynghyd â rhaglennu gan staff a myfyrwyr y coleg ei hun.

Mae Knapp wedi ysgrifennu'n helaeth, gan gynhyrchu amrywiaeth eang o lyfrau ac erthyglau. Gwnaeth olygu, gyda David J. Siegel, *The Business of Higher Education,* (Praeger, 2009), set o dair cyfrol sy'n cynnwys 35 o draethodau unigol a ysgrifennwyd gan amrywiaeth eang o gyfranwyr. Mae'r gyfrol gyntaf yn ymwneud ag arweinyddiaeth a diwylliant, yr ail yn ymwneud â rheoli a strategaethau cyllidol, a'r drydedd yn ymwneud â materion marchnata a buddiannau defnyddwyr. Gwnaeth Knapp hefyd olygu *For the Common Good: the Ethics of Leadership in the 21$^{st}$ Century* (Praeger, 2006), lle mae cyfranwyr o fyd busnes, addysg, crefydd a gwleidyddiaeth yn gosod yr hyn sy'n foesegol-hanfodol ar gyfer arweinyddiaeth. Ysgrifennwyd y rhagair gan Gyn-lywydd yr Unol Daleithiau, Jimmy Carter. Disgrifiwyd y gyfrol yn 'stellar collection' ac yn ' valuable addition to the literature on leadership and professional ethics.'  Mae cyfrol olygedig arall o'r enw *Leaders on Ethics: Real-World Perspectives on Today's Business Challenges,* yn cynnwys areithiau gan weithredwyr nodedig a wahoddwyd gan Knapp i annerch cynulleidfaoedd o arweinwyr busnes ac arweinwyr cymunedau. Yn  *How the Church Fails Business People* (Eerdmans, 2012), defnyddiodd Knapp gasgliadau arolwg a gafodd ei gynnal ar 230 o bobl byd busnes. Gwnaeth gynnig fframwaith

diwinyddol newydd ar gyfer byw fel Cristion ym myd busnes, ac fe aeth i'r afael â'r tueddiad cynnil i ddatbrisio gwaith secwlar. Llyfr diweddaraf Knapp yw *Ghostwriting and the Ethics of Authenticity,* (Palgrave Macmillan, 2016), a gafodd ei gyd-ysgrifennu gan Azalea Hulbert. Gwnaeth y ddau awdur ymchwilio i hanes rhith-ysgrifennu fel arfer proffesiynol, gan archwilio'r cysylltiad rhwng dilysrwydd personol a'r defnydd a wneir o rith-awduron mewn cyd-destunau corfforaethol, cyfreithiol, gwleidyddol, addysg uwch a gwyddonol.

Mae Knapp wedi annerch cynulleidfaoedd academaidd a phroffesiynol ar draws y byd. Ers 2004, mae ef wedi arwain Conclaf Rhydychen ar Addysg Uwch Fyd-eang, encil blynyddol ar gyfer llywyddion prifysgolion a cholegau a gynhelir bob blwyddyn yn Rhydychen. Bu'n gyfarwyddwr y Stellenbosch Seboka ar Addysg Uwch ac Arweinyddiaeth Foesegol, sef casgliad o arweinwyr prifysgolion o bob rhan o Dde Affrica.

Mae gan Knapp a'i wraig Kelly bump o blant sy'n oedolion, a nifer cynyddol o ŵyrion. Mae'n henuriad ordeiniedig yn Eglwys Bresbyteraidd Unol Daleithiau America.

**Ffynonellau**

Washington & Jefferson College. (2020). John C. Knapp, Ph.D. Bio. Adalwyd ar Fedi 28 2020 oddi wrth https://www.washjeff.edu/about-wj/office-of-the-president/john-c-knapp-ph-d-bio/

Knapp, J. (2020). John Knapp. President of Washington & Jefferson College [LinkedIn page]. LinkedIn. Adalwyd ar Fedi 28 2020 oddi wrth https://www.linkedin.com/in/jcknapp/

Georgia State University. (2007). The Southern Institute for Business and Professional Ethics joins Robinson College of Business. Adalwyd ar Fedi 28 2020 oddi wrth https://robinson.gsu.edu/2007/12/southern-institute-business-professional-ethics-joins-robinson-college-business/

Hope College. [2017]. President John C. Knapp to leave Hope for Washington & Jefferson. Adalwyd ar Fedi 28 2020 oddi wrth https://hope.edu/news/2017/campus-life/president-john-knapp-to-leave-hope-for-washington-jefferson.html

Washington & Jefferson College. (2017, August 1). *New W&J President John C. Knapp, Ph.D., speaks about his liberal arts philosophy.* Adalwyd ar Fedi 28 2020 oddi wrth https://www.youtube.com/watch?v=WeeoSZWGISQ

Leaf, G. E. (2007). For the common good: the ethics of leadership in the 21st century. *Choice, 44*(10), 1798. https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/225732768?accountid=130472

ABC CLIO (2020). The Business of Higher Education by John C. Knapp and David J. Siegel, Editors. Adalwyd ar Fedi 29 2020 oddi wrth https://products.abc-clio.com/ABC-CLIOCorporate/product.aspx?pc=C3295C

# LLEWELYN LEWELLIN
1798-1878
PRIFATHRO CYNTAF COLEG DEWI SANT LLANBEDR PONT STEFFAN.

Yn 1822, gosodwyd carreg sylfaen yr hyn a ddeuai'n Goleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Yn y flwyddyn honno hefyd graddiodd rhyw Llewelyn Lewellin ag Anrhydedd Dosbarth Cyntaf yn *Lit. Hum.* o Goleg yr Iesu, Rhydychen. Yn 1878, flwyddyn ar ôl Jiwbilî Aur y Coleg, bu farw'r un Llewelyn Lewellin, ac yntau'n dal yn ei swydd yn Brifathro cyntaf y Coleg a'i Athro cyntaf mewn Diwinyddiaeth a Groeg, a bu'n darlithio ei fyfyrwyr cwta ddeuddydd cyn ei farwolaeth.

Ganwyd Lewellin yn 1798, yn Nhremaen yng Nghoety, Pen-y-bont ar Ogwr, i Richard Lewellin tenant ar ystâd Dunraven a Maria, merch David Jones, Rheithor Llangan. Roedd Jones yn glerigwr Efengylaidd blaenllaw a oedd yn gysylltiedig ag Iarlles Huntington. Yn dair ar ddeg oed, aeth Lewellin i Ysgol Ramadeg y Bont-faen, ac oddi yno aeth i astudio yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen yn 1818. Enillodd Ysgoloriaeth rhwng 1821 a 1826. Graddiodd â BA yn y Clasuron yn 1822; aeth ymlaen i ennill M.A. yn 1824; BCL yn 1827 a DCL yn 1829. Ni chafodd ei ethol i Gymrodoriaeth, ond gweithredodd yn Feistr Ysgolion yn 1824 a 1825 a chymerodd ddisgyblion preifat a oedd yn cynnwys Rice Rees, Athro'r Gymraeg yn Llanbedr Pont Steffan maes o law.

Yn ystod yr un cyfnod fe'i gwnaed yn Ddiacon yn 1822 ac ordeiniwyd ef i'r Offeiriadaeth yn 1823, ar y ddau achlysur gan Esgob Rhydychen ac ar Deitl ei Ysgoloriaeth. Yn 1826 yn wyneb y posibilrwydd bod ei Ysgoloriaeth ar fin dod i ben, gwnaeth gais llwyddiannus am Brifathrawiaeth Ysgol Ramadeg Bruton, (yn ddiweddarach Ysgol y Brenin, Bruton). Yn yr un flwyddyn, fodd bynnag, cysylltodd John Scandrett Harford ag ef, gan weithredu ar ran yr Esgob Jenkinson, er mwyn cynnig Prifathrawiaeth Coleg

Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, i Lewellin, a derbyniodd yntau'r cynnig. Roedd Harford, banciwr o Fryste a pherchennog ystâd Peterwell wedi cynnig Cae'r Castell, Llanbedr Pont Steffan yn safle i'r Coleg. Mae'n werth nodi bod yr Esgob Burgess, yn 1825, wedi derbyn llythyr gan Copleston, Profost Oriel, Rhydychen, ar ran ffrind, yn cymeradwyo Lewellin yn Athro yn Llanbedr Pont Steffan.

Parhaodd Lewellin yn ei swydd yn Brifathro Llanbedr Pont Steffan, Uwch Athro Diwinyddiaeth ac Athro Groeg am hanner cant ac un o flynyddoedd. At hynny, o 1833 tan ei farwolaeth, yr oedd hefyd yn Ficer Llanbedr Pont Steffan; ac o 1840, eto hyd ei farwolaeth bu'n Gantor a Deon Tyddewi, a benodwyd gan yr Esgob Jenkinson. Bu'n Ail Brebendari Cwrsal er 1827 a hefyd yn 1833, bu'n dal Prebend yng Ngholeg Crist, Aberhonddu, Eglwys Golegol, yn olynydd i'r Archddiacon Thomas Beynon.

Ar yr un pryd, bu ganddo swydd ddinesig yn Llanbedr Pont Steffan, gan wasanaethu ar y cyngor ac yn Borthfaer (Maer) a hefyd yn gwasanaethu'n Ynad ar dair Sir Aberteifi, Caerfyrddin a Sir Benfro. Eisteddai'n rheolaidd ar Fainc Llanbedr Pont Steffan a gwnaeth hynny bythefnos cyn ei farwolaeth.

Felly, rhaid i unrhyw asesiad o gyfnod hir Lewellin yn ei swyddi ystyried sawl elfen: ei gymwysterau academaidd; ei allu addysgu, ei arweinyddiaeth o Goleg Dewi Sant; ei gyfraniad i hyfforddi clerigwyr Anglicanaidd; ei rinweddau personol a'i gyd-destun teuluol a chymdeithasol; ei ymwneud â bywyd plwyfol a sifil Llanbedr Pont Steffan; ei waith yn Gantor a Deon Eglwys Gadeiriol Tyddewi; a'i agwedd at iaith a diwylliant Cymru.

Datgelwyd ei allu academaidd pan gafodd ei dderbyn i Goleg yr Iesu, Rhydychen, er nad oedd wedi bod yn un o'r pum Monitor yn Ysgol Ramadeg y Bont-faen. Er na chafodd ei ethol i Gymrodoriaeth, cadarnhawyd ei allu gan yr Ysgoloriaeth a enillodd yn 1821 a'r radd anrhydedd dosbarth cyntaf a ddyfarnwyd iddo yn 1822 ar ôl cael hyfforddiant gan Richard Westbury, sef yr Arglwydd Westfield maes o law, ac mewn blwyddyn pan gafodd rhyw E.B. Pusey o Goleg Eglwys Crist yntau radd dosbarth cyntaf.

Cydnabuwyd ei allu gweinyddol gan Brifysgol Rhydychen pan wnaethant ef yn Feistr Ysgolion, (Arholwr Cyhoeddus). Cafodd ei botensial arweinyddol ei gydnabod gan ei benodiad yn Feistr Bruton a Phrifathro Coleg Dewi Sant.

Mae’n amlwg ei fod yn athro da ac yn uchel ei barch gan ei ddisgyblion, a'i hanrhydeddodd â chyflwyniad yn 1856, a oedd ar ffurf y portread gan Pickersgill sy'n hongian yn Hen Neuadd y Coleg, ac epergne arian.

O dan ei arweiniad, yn 1852 a 1865, cafodd y Coleg yr hawl i ddyfarnu graddau Baglor mewn Diwinyddiaeth a Baglor yn y Celfyddydau. Cafodd Lewellin gefnogaeth dda gan Is-Brifathrawon galluog ac egnïol, megis Ollivant, Browne, Williams, Perowne a Davy, a daeth tri o’r rhain yn esgobion. Ar yr un pryd, cynorthwywyd ei weinidogaeth blwyfol yn Llanbedr Pont Steffan gan guradiaid, a nifer o’r rhain wedi graddio’n ddiweddar o'r coleg. Yn ystod ei Ficeriaeth ailadeiladwyd Eglwys Plwyf Llanbedr Pont Steffan yn1840 ac 1870. Yn ystod misoedd yr haf preswyliai yn Nhyddewi yn Ddeon ac yn ystod ei gyfnod yno gwelodd y transept deheuol yn cael ei droi’n eglwys blwyf ar gyfer y gynulleidfa Gymraeg, gwaith gan Butterfield ar y groglen a ffenestr dransept y gogledd ac wedyn y gwaith adfer mawr rhwng 1865 a 1873 gan Gilbert Scott.

Un mater pwysig a gododd yn ystod Prifathrawiaeth Lewellin oedd y lle a roddwyd i'r Gymraeg yng ngweithgareddau'r Coleg. Cymaint fu anfodlonrwydd dau gymwynaswr cynnar, fel y newidiodd yr Archddiacon Thomas Beynon ei ewyllys gan wrthod gadael degymau bywoliaeth gyfoethog Talyllychau i'r Coleg pan fu farw yn 1833, ac yr aeth egni Thomas Phillips i sylfaenu Coleg Llanymddyfri yn 1848. Mae'n amlwg fod Lewellin yn siarad Cymraeg, fel y tystiodd Daniel Ddu yn ei gerdd adeg agor y coleg yn 1827; roedd Lewellin wedi annerch Eisteddfodau lleol yn Gymraeg; ac wrth osod carreg sylfaen yr eglwys newydd yn 1868, rhoddodd gyfieithiad Cymraeg o'r trafodion i'r gynulleidfa. Mae'n amlwg hefyd, ar ôl marwolaeth Rice Rees, Athro cyntaf y Gymraeg

yn 1839, fod gan y Gymraeg statws is yn y coleg, a'r gadair yn parhau heb ei llenwi. Yn ei awydd i sicrhau bod y coleg yn goroesi, ni wnaeth Lewellin ddim i atal myfyrwyr di-Gymraeg na myfyrwyr o Loegr rhag dod i'r Coleg.

Wynebodd Lewellin gryn elyniaeth wrth gyflawni ei swyddogaethau'n Brifathro. Roedd yr Archddiacon John Williams, a olynodd yn Ficer Llanbedr Pont Steffan, wedi disgwyl mai ef fyddai'r Prifathro cyntaf ond cafodd anghytundeb â'r Esgob Burgess ynghylch cyfeiriad y Coleg arfaethedig ac roedd wedi mynd i'r Alban yn Rheithor cyntaf Academi Caeredin. Roedd yn gyfaill i Syr Benjamin a'r Fonesig Hall, sef Arglwydd ac Arglwyddes Llanofer maes o law a oedd yn wladgarwyr Cymreig i'r carn ac yn barod i gondemnio Lewellin a Llanbedr Pont Steffan am elyniaeth dybiedig i le'r Gymraeg yn yr Eglwys yng Nghymru. Rhoddodd Arglwyddes Llanofer y safle ar gyfer Coleg Llanymddyfri, a daeth Williams yn Warden cyntaf arno, ond daeth Lewellin i'r agoriad. Gwadodd Phillips fod sefydlu Llanymddyfri yn golygu diwedd Llanbedr Pont Steffan ac yn wir ystyriwyd y byddai'r Sefydliad Canolradd Canolradd Cymreig yn darparu ymgeiswyr addas ar gyfer Coleg Llanbedr Pont Steffan a oedd wedi bod yn cwyno am gymwysterau addysgol isel y myfyrwyr a oedd yn dechrau ynddo.

Daw yn amlwg o ymateb y rhai o'i gwmpas fod elfen awtocrataidd yn perthyn i gymeriad Lewellin. Rhedai'r Coleg yn ei ddyddiau cynnar fel pe bai'n Ysgol Ramadeg, fel y nododd Browne wrtho, a hynny yn bennaf, yn absenoldeb Bwrdd, am ei fod yn cyflawni'r holl swyddogaethau llywodraethu ac ariannu ar ei ben ei hun. Er enghraifft, ef oedd Trysorydd y Coleg a byddai'n cyflenwi bwyd o'i fferm, y Bryn, am dâl uwch na'r arfer. Fodd bynnag, derbyniodd geisiadau Browne a daeth dull llywodraethu'r coleg yn fwy unol ag ymarfer cyfoes. Ar y llaw arall, gan na fu'n Gymrawd o Goleg yr Iesu, ond yn diwtor preifat, nid oedd ganddo unrhyw brofiad o lywodraethu corfforaethol. Fodd bynnag, credai'r myfyrwyr a'r staff ei fod yn berson caredig yn y bôn, er iddo yntau gyfaddef bod ganddo dymer gyflym. Rhaid nodi hefyd fod y Coleg,

o dan Lewellin, yn darparu ar gyfer anghenion nid yn unig Esgobaeth Tyddewi, fel y rhagwelwyd yn wreiddiol, ond hefyd yr Eglwys ymhellach i ffwrdd a'i bod wedi gwneud hynny drwy gynhyrchu clerigwyr o ansawdd, a oedd wedi gwneud yn fawr o'r cyfle a gynigiwyd iddynt am addysg glasurol a diwinyddol.

Mae angen pwysleisio dau ffactor arall. Pan gyrhaeddodd Lanbedr Pont Steffan yn 1826, roedd yn ddi-briod. Ar 14 Medi 1831, priododd â Caroline sef trydedd ferch George Smith o Foelallt, perthynas i'r Arglwydd Carrington. Bu farw yn 1868. David oedd y mab hynaf, a fu farw o fethiant y galon yn 1873 yn Uwcharolygydd yr Heddlu ym Mrynbuga. Yn 1834, ganwyd Emily, gwraig y Parchg O. A. Nares maes o law ac awdures cofiant am ei thad; wedyn Frances (Fanny) a fu farw'n ddi-briod yn 1866; yna Llewelyn Alfred Treharne a fu farw'n faban; ac yn olaf George Smith Lewellin yn 1840, a fu farw'n glerigwr heb fywoliaeth a thiwtor preifat yn 1919.

Ymgais ei dad i greu amodau academaidd ffafriol ar gyfer gyrfa academaidd yr olaf yn Llanbedr Pont Steffan a arweiniodd at anghytundeb hallt â'r Is-Brifathro a'r Uwch Diwtor, Rowland Williams yn 1860, a gofnodwyd gan Williams yng Nghofrestr y Tiwtoriaid ac a arweiniodd Williams i ysgrifennu at olygydd *The Welshman* i roi manylion y mater.

Y ffactor arall y mae angen ei ystyried oedd iechyd bregus Lewellin, a fu'n broblem ers tro. Yn ôl ei adroddiad ei hun, rhybuddiwyd ei dad na fyddai'n goroesi Rhydychen. Bu'n wael iawn ei iechyd yn ystod y blynyddoedd hynny. Ar ben hynny, dywedwyd wrtho na fyddai'n goroesi bum mlynedd yn Llanbedr Pont Steffan. (Roedd yn saith deg saith pan ddywedodd hyn). Yn y 1860au, mewn llythyrau at ei nai, sonia Charles am gael ei gyfyngu i'w wely gan amryw afiechydon yn ogystal ag am fynd Aberystwyth i wella'i iechyd. Efallai mai dyma pam roedd yn dibynnu ar eraill i'w gynorthwyo yn ystod ei yrfa hir.

Wrth hyrwyddo buddiannau ei deulu, wrth ddefnyddio dirprwyon a mwynhau segurswyddi, yn ei ymwneud â bywyd dinesig, yn enwedig yn yr ynadaeth, mae Lewellin yn fwy

cynrychioliadol o’r ddeunawfed ganrif hir na’r cyfnod Fictoraidd deinamig. Yn ei flynyddoedd cynharach, fodd bynnag, roedd yn ffigwr egnïol a deinamig. Fel y nododd mwy nag un o'i gydweithwyr a'i gydnabod, pe bai wedi gallu ymddeol ar yr adeg arferol, byddai wedi gadael atgof mwy sawrus na'r goeden wpas. Fodd bynnag, heb gynllun pensiwn — mae'n anodd gweld sut y byddai sefyllfa ariannol fregus Coleg Dewi Sant yn ystod ei ddegawdau cynnar wedi caniatáu hynny — ynghyd â'r ffaith, yn wahanol i nifer o'i Is-Brifathrawon, na ddaeth yn esgob, nid oedd ganddo ddewis ond aros yn ei swydd cyhyd ag y gwnaeth.

Wyn Evans. Adfent 2021.

Mae'r darn byr hwn yn pwyso'n drwm ar gyfrol gyntaf D.T.W. Price *A History of St David’s College Lampeter*; Mrs Emily Nares *Pleasant Memories of Eminent Churchmen, with a Memoir of Dr. Lewellin, late Dean of St Davids* a ysgrifennwyd tua 1907 Erthygl Mr David Gorman ar Lewellin yn *Country Quest* a hefyd ar ddeunydd gwreiddiol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Roderic Bowen yn Llanbedr Pont Steffan, yr wyf yn ddyledus iawn i’w Llyfrgellwyr a'u Staff am eu cymorth parhaus wrth i mi chwilota ym mywyd a gyrfa Llewelyn Lewellin.

# Alexander Goldwyer Lewis

Dyn lleol a ddaeth yn archddiacon Bombay oedd Alexander Goldwyer Lewis (1849–1904).

Ganwyd Goldwyer Lewis yn Llandeilo, Sir Gaerfyrddin, yn blentyn i Thomas a Marie Victorie Lewis. Mae ffurflen cyfrifiad 1851 yn rhestru man geni ei fam fel Grenada. Disgrifir Thomas fel cyfreithiwr a beili uchel dros Sir Aberteifi. Ar ôl mynychu'r ysgol yn Aberhonddu, aeth Alexander i Goleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Yn ddiweddarach, dywedwyd y byddai wedi disgleirio mewn unrhyw brifysgol. Daeth yn uwch-ysgolhaig, yn ogystal ag ennill y wobr glasurol. Graddiodd ym mis Mehefin 1871 gydag anrhydedd dosbarth cyntaf yn y Clasuron. Er ei gyflawniadau academaidd, cafodd amser hefyd i fod yn weithgar ar y cae chwaraeon ac fel cadeirydd y gymdeithas ddadlau. (Yn ddiweddarach, cwblhaodd ei radd BD yn Llanbedr Pont Steffan ym 1884, pan oedd gartref ar ffyrlo. Byddai hefyd yn dod yn gymrawd o Brifysgol Bombay).

Ordeiniwyd Lewis yn ddiacon gan Esgob Llanelwy, Joshua Hughes, ym 1872, ac yna'n offeiriad ym 1873. Cafodd ei swydd glerigol gyntaf fel curad yn Erbistock, ychydig filltiroedd i'r de o Wrecsam. Wedi hyn, bu'n gweithio fel curad yng Nghroesoswallt rhwng 1874 a 1875. Hefyd, ym 1875, priododd Annie Blaikie – roedd gan y pâr fab a dwy ferch.

Treuliwyd yr un mlynedd ar hugain nesaf o fywyd Lewis yn India. Aeth i'r dwyrain fel caplan yn sefydliad eglwysig Bombay. (Adnewyddwyd siarter Cwmni Dwyrain India ym 1813 – roedd hyn wedi cynnwys creu esgobaeth o Calcutta a fframwaith eglwysig. Yn dilyn hyn, sefydlwyd esgobaethau Madras a Bombay yn y 1830au. Daeth Sant Thomas – a gysegrwyd ym 1718, ac un o'r eglwysi hynaf yn India – yn eglwys gadeiriol Anglicanaidd Bombay.)

Daeth Lewis yn gaplan Neemuch ar 4 Mehefin 1875. Mae Neemuch ym Madhya Pradesh, yng nghanol India, ac wedi'i leoli ar lwyfandir yr ucheldir, 500 metr uwch lefel y môr. Ugain mlynedd yn flaenorol, roedd yn ganolfan aflonyddwch yn ystod gwrthryfel India.




Y tu mewn i eglwys gadeiriol Sant Thomas, Mumbai. Cymerwyd y llun yn y 1860au.

Yna daeth Lewis yn gaplan garsiwn dros dro yn yr arlywyddiaeth ym mis Ebrill 1876. Treuliodd rywfaint o amser hefyd yn gweithio yn Quetta. Gwnaeth yr Esgob Louis George Mylne ef yn archddiacon ac yn ddirprwy'r esgob ym 1888. Daeth yn archddiacon Bombay ym 1890, gan wasanaethu yn y rôl hon tan 1896. Ym 1894, roedd yn gomisiynydd â gofal dros yr esgobaeth. Ar yr adeg hon, roedd Bombay (neu Mumbai) yn ganolfan fawr ar gyfer masnach mewnforio, a gefnogwyd pan agorwyd Camlas Suez ym 1869. Roedd y rheilffordd gyntaf yn India, o Bombay i Thana, wedi

agor ym 1853, a chafodd y felin nyddu a gwehyddu gyntaf ei sefydlu ym 1857. Yn fuan iawn, daeth y ddinas yn ganolbwynt diwydiant cotwm India. Fodd bynnag, wrth i'r boblogaeth gynyddu, cynyddodd y tlodi hefyd a daeth amodau gorlawn ac afiach yn fwy cyffredin.

Yn ystod ei gyfnod yn India, ysgrifennodd Lewis bamffled o'r enw '*The position and prospects of the Anglican branch of the Catholic church in India*.' Ynddo, mynegodd y gobaith am eglwys Indiaidd, gyda'i pheiriannau eglwysig ei hun a'i harweinyddiaeth frodorol ei hun. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yn teimlo bod 'rhaid gwneud llawer mewn ffordd wahanol iawn i'r hyn sydd, yn anffodus, y dull ystrydebol o waith cenhadol.' Beirniadodd hefyd bolisi cyffredin y cenhadon o gyfeirio eu hymdrechion tuag at aelodau'r castiau isaf, heb wneud fawr o ymdrech i drosi'r rhai o safle uwch. Cyhoeddwyd y llyfryn gan A.R. Mowbray rywbryd yn yr 1880au. Cedwir copi yng nghasgliadau arbennig Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Ar ôl dychwelyd adref ym 1896, daeth Lewis yn rheithor Aldford, ger Caer. Symudodd i reithordy Davenham, ger Northwich, ym 1903. Cynrychiolodd gynfyfyrwyr yn nathliadau pen-blwydd Coleg Dewi Sant yn 75 ym 1902. Parhaodd yn gefnogwr brwd i waith cenhadol ac i Gymdeithas Taenu'r Efengyl. Fe'i disgrifiwyd fel pregethwr egnïol a huawdl, ac fel eglwyswr cymedrol uchel, 'ond gyda safbwyntiau yn cael eu hehangu a'u meddalu gan brofiad eang o ddynion a bywyd yn gyffredinol.'

Ni fu Lewis fyw yn hen. Bu farw yn dilyn salwch o dri mis yng nghartref ei chwaer-yng-nghyfraith, ger Croesoswallt.

**Ffynonellau**

The Times. (1904, 7 Ionawr). Ysgrif goffa. *The Times.* Cyrchwyd o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS16969255/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=1953e7b9.

Bye-gones. (1904, 6 Ionawr). Current notes. *Bye-gones.* Cyrchwyd o https://journals.library.wales/view/2092910/2844669/4#?xywh=-1453%2C-120%2C5659%2C3464.

Ancestry. Cyrchwyd ar 13 Mai 2020, o: https://www.ancestrylibraryedition.co.uk/

Price, D.T.W. (1977). *A history of Saint David's University College. Lampeter. Volume one: to 1898.* Gwasg Prifysgol Cymru

Buckley, J.R. (1904, 9 Ionawr). Mr A. Goldwyer Lewis. An appreciation by a Lampeter contemporary. *Evening express.* Cyrchwyd o https://newspapers.library.wales/view/4138999/4139001/21/.

Bombay Civil List a gywirwyd hyd at 1 Ionawr 1877. (1877) Argraffwyd yn Government Central Press. Cyrchwyd o https://books.google.co.uk/books?id=1YMIAAAAQAAJ&pg=RA1-PA116&dq=%22#v=onepage&q&f=false

Obituary. (1904). *St David's College, Lampeter. The college and school magazine. 8*(7),318-319

Death of the Rev. A. Goldwyer-Lewis. (1904, 6 Ionawr). *The Chester courant and advertiser for North Wales.* Cyrchwyd ar 7 Medi 2021 o https://newspapers.library.wales/view/3663142/3663150/126/

# Andy Lewis




Mae Andy Lewis yn droellwr, yn gerddor ac yn gynhyrchydd recordiau; mae ei gyflawniadau yn cynnwys chwarae bas gyda Paul Weller.

Dechreuodd diddordeb Lewis mewn cerddoriaeth yn gynnar; roedd ei freuddwyd fel llanc ifanc yn un syml, sef sefyll ar ei draed a chwarae i bobl. Mae'n credu y gwnaeth ef berfformio ei gig go iawn gyntaf mewn clwb ieuenctid a gynhaliwyd mewn neuadd eglwys, pan oedd ef tua phedair blwydd ar ddeg oed. Daeth i Goleg Prifysgol Dewi Sant, Llambed, yn 1988 i astudio Hanes ac Astudiaethau Oes Fictoria. Hyd yn oed pan oedd yn fyfyriwr, byddai'n troelli. Mae'n cofio roedd ganddo ddau beth nad oedd gan neb arall: car modur a chasgliad enfawr o recordiau. Byddai'n gyrru i Andy's Records yn Aberystwyth i berswadio Andy i gael recordiau hyrwyddol ar ei gyfer, er mwyn iddo eu chwarae yn nisgos Undeb y Myfyrwyr. Byddai Lewis yn chwarae cymysgedd o ddeunyddiau yn dyddio o'r 1960au a cherddoriaeth 'indie'. Roedd hwn, medd ef, yn gyfnod ffantastig i ddarganfod cerddoriaeth newydd. Ond medd ef, hefyd, 'I was the only mod in the village.'

Ar ôl iddo raddio, aeth Lewis adref i Lundain. Ochr yn ochr â gweithio fel postmon, gofynnwyd iddo fod yn droellwr gwadd yn Wendy May's Locomotion. Hwn oedd ei gyfle mawr cyntaf. Byddai noson glwb Wendy May ar nosweithiau Gwener yn 'Town & County Club' Kentish Town yn denu'n rheolaidd 2000 o glybwyr. Ceir manylion am hyn yn y llyfr *31 Songs* gan Nick Hornby. Yn 1993, gwnaeth Lewis helpu sefydlu'r hyn y byddai pawb yn ei adnabod fel 'Blow Up', digwyddiad nos Sadwrn a gynhaliwyd mewn ystafell uwchben y Laurel Tree, tafarn yn Camden Town. Cyn bo hir, byddai'n orlawn yno bob nos Sadwrn. Gwnaeth 'Blow Up' ddylanwadu ar arddull a sain cenhedlaeth. Gwnaeth *Time Out's London Calling* ei ddisgrifio fel 'the breeding ground of the Brit Pop sound.' Meddai Forrest y byddai'n eich gwthio i'r llawr ac yn cicio 'cŵl' yn eich wyneb. Roedd cwsmeriaid Blow Up yn cynnwys aelodau'r band Blur. Gwnaeth Lewis gymaint o argraff arnynt nes iddynt fynd ag ef gyda nhw fel troellwr ategol ar eu taith Parklife. Gwnaeth roi ei ddeciau recordiau yng nghefn ei gar a dilynodd eu minibws. Yn 2001, dechreuodd gyflwyno sioe wythnosol o'r enw *The Andy Lewis Indulgence,* i'r darlledwyr rhyngrwyd www.soul24-7.com. Gwnaeth hyn arwain at gynigion gwaith o bob rhan o'r byd.

Ond cariad cyntaf Lewis bob amser oedd creu cerddoriaeth; mae'n canu'r gitâr fas, ac ar achlysur, y soddgrwth a'r offeryn allweddellau. Gyda Pete Twyman, Miles Chapman a Wesley Doyle, sefydlodd y band Britpop Pimlico. Daeth eu LP, *Housebound,* allan yn 1998. Yn ddiweddarach, byddai Twyman a Chapman, yn ogystal ag Alex Richards, yn rhan o'r Red Inspectors. Daeth eu halbwm cyntaf *Are we*

*the Red Inspectors? Are we?* allan yn 2011. Mae'n cynnwys amrywiaeth eang o arddulliau - o 'mod', drwy ddylanwadau dwyreiniol i 'easy listening'. Medd Lewis, 'My own personal take on it is that it's a bit like watching an episode of *The Sweeney* – there's incidental music, then someone doing a turn in a pub, etc.' Mae ef hefyd wedi chwarae i Spearmint.

Yn 2005, cafodd Lewis gytundeb gyda'r label record Acid Jazz fel unawdydd. Ei albwm cyntaf ar ei ben ei hun oedd *Billion Pound Project;* gwnaeth hwn gynnwys nifer o ganwyr gwadd, megis Keni Burke, Bettye Lavette a Reg King. Roedd yr albwm yn llwyddiannus, a gwerthwyd tua 10 000 o gopïau o gwmpas y byd. Er gwaethaf hynny, bu rhaid i Lewis wneud gwaith cyffredin o hyd. Roedd hwn yn cynnwys helpu'n ymarferol, fel 'roadies,' y band Dogs, a oedd ar y pryd yn teithio fel act ategol i Paul Weller. Gwnaeth rhywun yr oedd Lewis yn ei adnabod ers tro, Phil Jupitus, ei gyflwyno i Weller, ac ymhen hir a hwyr, dangosodd Lewis i gyn-arweinydd y Jam gopi o *Billion Pound Project* a CD gyda rhai traciau enghreifftiol arno. Cynigiodd Weller gyfrannu tuag at albwm nesaf Lewis (*You Should Be Hearing Something Now,* 2007). Gwnaethant weithio ar record sengl a gyrhaeddodd y brig "Are you trying to be lonely?" Yn dilyn hyn, talodd Lewis y gymwynas yn ôl drwy chwarae bas a'r soddgrwth ar albwm *22 Dreams* Weller*.* Yna, gwnaeth Weller ei wahodd i ymuno â'i fand byw fel chwaraewr bas, chwaraeodd ei gig gyntaf ym mis Mawrth 2008. Medd Lewis ei fod wedi mynd o fod yn ddilynwr Paul Weller i chwarae gydag ef. Yn ogystal â chwarae'n fyw, cyfranodd at yr albymau *Wake up the Nation* a *Sonik Kicks.* Gwnaeth ffarwelio â band Paul Weller yn 2016.

Mewn cyferbyniad llwyr, mae Lewis hefyd wedi creu albwm, *Summer Dancing,* gyda Judy Dyble, aelod sefydlol o'r grŵp roc gwerin Fairport Convention. Meddai Lewis 'with Judy's words and my bucolic melancholia, this was the kind of record I always wanted to make.' Meddai Jude Rogers yn *The Guardian,* 'Together, this odd couple have made a fittingly odd, sweetly sunlit album, full of psychedelic pastoralism edging nervously into atmospheric electronics, sounding like a shyer take on cult late 60s bands …'

Yn y cefndir, gwnaeth Lewis gynhyrchu record LP Swedeg Magnus Carlson, sef *Den långa vägen hem,* un y dylanwadwyd arni gan Ganu'r Enaid Gogleddol. Gwnaeth hon fynd yn syth i frig siartiau Sweden. Mae ef wedi gweithio gyda Bluetones, Lisa Stansfield, Louis Philippe a hyd yn oed Gabriella Cilmi, yn ogystal ag ail-gymysgu llawer o ganeuon eraill. Mae'n dal i weithio fel troellwr; mae'n cyflwyno sioe wythnosol ar-lein i Soho Radio. Mae'n dweud amdano ei hun, 'I just plan to keep making records that people will like … As long as I can keep playing records and making music, I'll be happy.'

**Ffynonellau**

Lewis, A. (2020). Andy Lewis, the bass player at Solid Bond Productions [LinkedIn page]. LinkedIn. Adalwyd ar Chwefror 5 2021 oddi wrth https://www.linkedin.com/in/andy-lewis-1b96a813/?originalSubdomain=uk

Devine, K. (2011, Medi 21). *Devine encounters: Andy Lewis – Paul Weller's bassist* [Ffeil fideo]. Adalwyd ar Chwefror 5 2021 oddi wrth https://www.youtube.com/watch?v=8XiXw2QIABE

Mandy, (2021). Andy Lewis. Adalwyd ar Chwefror 5 2021 oddi wrth https://www.mandy.com/uk/music-professional/andy-lewis-3

Say it with garage flowers (2012, April 8). Interview: Andy Lewis [Blog post]. Adalwyd ar Chwefror 5 2021 oddi wrth https://sayitwithgarageflowers.com/2012/04/08/interview-andy-lewis/

Lewis, A. (2011). Welcome to andylewis.info. Adalwyd ar Chwefror 5 2021 oddi wrth http://www.andylewis.info/

M-XCLOUD. (2019). Wendy May's Locomotion – 21.11.2019. Adalwyd ar Chwefror 8 2021 oddi wrth https://www.mixcloud.com/1btn/wendy-mays-locomotion-21-11-2019/

Blow Up. (2021). Blow Up history. Adalwyd ar Chwefror 8 2021 oddi wrth https://www.blowupclub.com/about/history/

Forrest, E. (1994, August 7.) Generation X. *Times.* Adalwyd ar Chwefror 8 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/0F929D63212F0276?p=UKNB

Tony's page. (2017, August 18). The Andy Lewis story [Blog post]. Adalwyd ar Chwefror 8 2021 oddi wrth https://tonyspageblog.wordpress.com/2017/08/18/the-andy-lewis-story/

Paul Weller Band. (n.d.) Andy Lewis: bass guitar. Adalwyd ar Chwefror 8 2021 oddi wrth https://paulwellerband.weebly.com/andy-lewis.html

Acid Jazz. (n.d.) Judy Dyble & Andy Lewis. Summer Dancing CD. Adalwyd ar Chwefror 9 2021 oddi wrth https://acidjazz.bigcartel.com/product/judy-dyble-andy-lewis-summer-dancing-cd

Rogers, J. (2017, August 24). Judy Dyble and Andy Lewis – Summer Dancing review – fittingly odd sunlit pastoral electronica. Adalwyd ar Chwefror 9 2021 oddi wrth https://www.theguardian.com/music/2017/aug/24/judy-dyble-and-andy-collins-summer-dancing-review-fittingly-odd-sunlit-pastoral-electronica

Jennings, D. (Host). (2021, February 2). Andy Lewis – Musician, DJ & Producer – "From Blow Up! to Thunderclouds" (EP11) [Audio podcast episode]. In *Desperately Seeking Paul: the Paul Weller Fan Podcast.* Adalwyd ar Chwefror 10 2021 oddi wrth https://paulwellerfanpod.podbean.com/e/ep11-andy-lewis-musician-dj-producer-from-blow-up-to-thunderclouds/

Wallace, P. (n.d.). Andy Lewis discusses live, love and happiness. *Zani.* Adalwyd ar Chwefror 11 2021 oddi wrth https://www.zani.co.uk/archive/music-archive/item/385-andy-lewis-discusses-life-love-and-happiness

## Leonard Glynne Lewis
**1894-1917**



Ganwyd Leonard Glynne Lewis yn 1894 ym Mhontypridd, lle'r oedd ei rieni, Daniel ac Edith, yn rheoli tloty'r dref. Yr hynaf o saith o blant, aeth Leonard i'r Ysgol Ramadeg i Fechgyn leol cyn lletya yng Ngholeg Crist Aberhonddu. Gwnaeth Leonard, a elwid 'Siwel' gan ei ffrindiau, ymgofrestru yng Ngholeg Dewi Sant yn 1912, a dyfarnwyd iddo ysgoloriaeth i ddilyn gradd yn y Clasuron.

Nid dim ond gallu academaidd oedd gan Leonard, roedd ef hefyd yn sbortsmon brwdfrydig a galluog. Roedd e'n chwarae mewn nifer o safleoedd i'r tîm XV $1^{af}$, gan gynnwys canolwr, trichwarterwr a chefnwr, ac fe enillodd ef ei gap yn chwarae rygbi. Roedd Leonard hefyd yn chwarae criced i'r tîm XI $1^{af}$, yn ogystal â chwarae i'r tîm hoci, yn rhedeg ei dîm pêl-droed ei hun, o'r enw The Heracleans, yn ystod y gwyliau, ac fe ddaeth ef yn ail yn y ras ¼ milltir ym mabolgampau'r Coleg yn 1914.

Ni wnaeth Leonard orffen ei radd, ond fe ymunodd ef â Bataliwn y Prifysgolion a'r Ysgolion Bonedd unwaith y cafodd y rhyfel ei gyhoeddi. Treuliodd nifer o gyfnodau yn yr ysbyty yn ystod ei wasanaeth milwrol. Yn gynnar yn 1916, cafodd ei anfon adref am dri mis gyda dolur traed y ffosydd, ac yn ddiweddarach yn yr un flwyddyn, cafodd ei drin am gael ei wenwyno â nwy. Yn 1917, cafodd Leonard gomisiwn, ac fe ymunodd ef â $18^{fed}$ Bataliwn Catrawd Frenhinol Cymru fel $2^{il}$ Is-gapten pan oedd y bataliwn wedi'i orsafu ger Cambrai, yn paratoi ar gyfer y frwydr a oedd ar ddod. Yn ystod camau cyntaf Brwydr Cambrai, gwnaeth gweithredoedd Leonard ennill iddo'r Groes Filwrol am ddewrder. Gwnaeth y dyfyniad a gyhoeddwyd yn y *London Gazette* ar Dachwedd $19^{eg}$ 1917 ddarllen;

> "For conspicuous gallantry and devotion to duty. He guided a raiding party to the assembly position, and thence to a gap in the enemy's wire, a distance

> of 800 yards. With his sergeant he was the first of his party to enter the enemy trenches. Although stunned by a bomb on entering, he led his party forward with courage and determination, and with a small group of men continued the clearing of the trench until the time for the withdrawal."


Lladdwyd Leonard bum diwrnod yn ddiweddarach yn ystod y Frwydr am Goedwig Bourlon. Roedd yn dair blwydd ar hugain oed.
Caiff Leonard ei goffáu ar Gofeb Rhyfel Cambrai, yng Ngholeg Crist Aberhonddu, yn yr Ysgol Ramadeg i Fechgyn, Pontypridd, ac ar restr y gwroniaid sydd yn y Coleg.
Yn y rhifyn coffa o'u *School Magazine*, gwnaeth ei gyn-gyd-ddisgyblion gofio Leonard fel unigolyn tawel a thawedog:

> "a gallant and cheerful soul' [with] 'a genial and quaint sense of humour that made him generally popular."

**Ffynonellau:**

Roberts, S. (2018). *1918-2018 A Commemoration. Saint David's College, Lampeter.* Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

# Shaun Lightman



Mae Shaun Lightman yn gerddwr rasio, a gynrychiolodd Prydain Fawr yng Ngemau Olympaidd Mecsico yn 1968.

Ganwyd Lightman yn Hounslow yn ystod yr Ail Ryfel Byd, yn wir, yn ystod ymosodiad o'r awyr. Ar ôl i'r rhyfel ddod i ben, roedd ei rieni'n beicio'n rheolaidd y pellter o 60 milltir o Hounslow i Littlehampton er mwyn gwersylla dros nos. Dywed, 'Cefais fy magu yn disgwyl treulio oriau ar y ffordd.'

Mae Lightman yn cofio iddo gamu ar drac athletau am y tro cyntaf ar ôl ei ben-blwydd yn 10 oed. Yr haf hwnnw, enillodd ei dystysgrif gyntaf am yr ail safle yn y ras 440 llath. Addysgwyd ef yng Ngholeg Hounslow. Ei feistr chwaraeon oedd Bill Hamblin, a oedd hefyd yn hyfforddi Don Thompson – y cerddwr rasio a enillodd y fedal aur yn y Gemau Olympaidd, yn ogystal â'r sbrintwyr Buster Watson ac Ade Mafe. Y tu allan i'r ysgol, ymunodd Lightman â Harriers Dyffryn Tafwys ac yna'r Clwb Cerdded Metropolitan. Ei ras hir gyntaf oedd ras Garnet ar 3 Chwefror 1961. Roedd y ras hon yn ymestyn dros 10 milltir, a gorffennodd gydag amser o 89 munud, 1 eiliad, yn 37ain allan o'r 108 o bobl a orffennodd y ras. Enillodd y bencampwriaeth genedlaethol un filltir ar gyfer y to iau ym 1961, ac yna'r bencampwriaeth genedlaethol un filltir yn 1963. Yn ugain oed, Lightman oedd piau record to iau y byd o 6 munud, 46.3 eiliad am daith gerdded un filltir.

Astudiodd Lightman hanes yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Yn ogystal ag astudio, cafodd amser i fod yn llywydd Cymdeithas Dewi Sant. Roedd ffocws y coleg ar rygbi undeb yn golygu nad oedd yn arbennig o hawdd parhau â'i hyfforddiant mewn cerdded. Graddiodd ym 1966, gan ddod yn athro cyfarwyddyd crefyddol ac addysg gorfforol yn Winton House Croydon. Sylweddolodd hefyd fod ganddo gyfle i ddod yn athletwr rhyngwladol. Penderfynodd ef a'i hyfforddwr, Tom Misson, mai ei brif ddigwyddiad fyddai'r daith gerdded 50k. Meddai Lightman, 'Nid oedd gennyf y cyflymder ar gyfer 20k a gall pobl ddod allan o unman, ond ar gyfer 50k, rydych chi'n gwybod bod pobl yno am amser hir.' Yn 1967, cystadlodd ym Mhencampwriaethau'r Byd (Cwpan Lugano), gan ddod nawfed yn y 50k.

Yn 1968, cystadlodd Lightman yng Ngemau Olympaidd Mecsico. Dyma'r Gemau Olympaidd cyntaf i ddefnyddio llwybr synthetig a'r cyntaf i gael ei ddangos mewn lliw ar y teledu. Yn bwysicach fyth i'r athletwyr dygnwch, dyma hefyd hefyd oedd y gêm gyntaf i gael ei chynnal ar uchder. (Wrth i uchderau gynyddu uwchlaw 1600m, mae'r nifer uchaf o ocsigen yn lleihau; gall hyn effeithio'n andwyol ar berfformiad mewn digwyddiadau pellter hir). Mae Lightman yn cofio anadlu'n drwm wrth gerdded i

fyny'r grisiau. Roedd erthyglau yn y wasg hyd yn oed yn awgrymu y gallai cystadleuwyr farw. Ar gyfer y ras 50k, roedd yr uchder tua 7000 troedfedd a'r tymheredd yn 100 gradd fahrenheit! Dywedwyd ei fod yn 'ddifrifol' ac nid yw felly'n syndod bod Lightman wedi llewygu pan oedd oddeutu 40k i mewn i'r ras. Fodd bynnag, digwyddodd weld y dyn a oedd â record y byd, Gennadiy Agapov, yn mynd i mewn i ambiwlans, a meddyliodd, 'Gallaf ei basio.' Pan ddaeth Lightman i mewn i'r stadiwm, roedd yn argyhoeddedig mai ef oedd yr olaf! Mewn gwirionedd, roedd wedi gorffen yn y ddeunawfed safle allan o 36 o'r rhai a ddechreuodd y ras, gydag amser o 4 awr 52 munud 20 eiliad. Dywed am gystadlu yn y Gemau Olympaidd, 'Tu hwnt i'r trac, roedd yn wirioneddol wych. Fe wnes i fwynhau yn fawr. Ond ar y trac, nid oeddem yn barod o gwbl… '

Yn 1969, cystadlodd Lightman yn y gemau Ewropeaidd 50km yn Athen. Unwaith eto, roedd y gwres yn greulon. Llewygodd ar 35 km, ac roedd hi'n ddwy awr cyn iddo ddod ato ef ei hun. Roedd yn hapusach wrth gystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad yn 1970 yng Nghaeredin. Daeth yn seithfed yn y daith gerdded ras 20 milltir gydag amser o 2 awr 44 munud. Yn 1973, cystadlodd eto ym Mhencampwriaethau'r Byd, gan gwblhau'r ras 50k gydag amser personol gorau o 4 awr 15 munud. Dyma'r tro olaf iddo ymddangos fel uwch chwaraewr rhyngwladol, er iddo barhau i wneud sgwadiau 'B'.

Ymddeolodd Lightman o gystadlaethau rhyngwladol yn 1979, ond penderfynodd barhau fel hyfforddwr ac fel cerddwr clwb. Ymhlith y cerddwyr y mae wedi'u hyfforddi mae Mark Easton, Chris Cheeseman a Sean Sullivan, yn ogystal â phobl ifanc leol.

Yn broffesiynol, bu Lightman yn addysgu yn Ysgol Frenhinol Russell, Croydon, rhwng 1973 a 2006. Bu'n allweddol yno wrth gyflwyno astudiaethau busnes ar gyfer TGAU a Safon Uwch. Yn ogystal, sefydlodd Madden House ar gyfer bechgyn dydd, yn ogystal â dod yn arweinydd tîm ar gyfer bwrdd arholi AQA.

Hyd yn oed yn ei saithdegau, mae gan Lightman grŵp hyfforddi o hyd ac mae'n cystadlu'n rheolaidd, gan gerdded dros glwb cerdded Surrey ac ar gyfer Harriers Blackheath a Bromley. Mae'n seithfed ar restr y Deyrnas Unedig ar gyfer y daith gerdded 20k i'w grŵp oedran.

Ochr yn ochr â cherdded, mae Lightman wedi bod yn ddarllenydd yn Eglwys Sant Ffransis, Selsdon, ers 1980. Dywed, 'Fe wnes i ddarganfod bod fy ffydd wedi rhoi mantais ychwanegol imi gyda cherdded rasio gan fy mod yn gallu cyfeirio fy meddyliau dros y pellteroedd hir hynny. Canfûm fod y ddisgyblaeth yr oedd ei hangen ar gyfer athletau a chrefydd yn eithaf tebyg.' Mae wedi bod yn gaplan yn Eglwys Gadeiriol Southwark ac wedi gwasanaethu fel un o'r 12 caplan gêm yng Ngemau Olympaidd Llundain yn 2012. Mae wedi bod yn briod ag Andreeq ers dros 50 mlynedd – mae ganddynt ddau o blant sydd wedi tyfu'n hŷn, Sarah a Joanne ac, hyd yn hyn, un wyres, Bryony. Mae Lightman yn nodi na fyddai unrhyw un o'i gyflawniadau wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth ei wraig a'i ferched.

**Ffynonellau**

Mexico bound. (1966, May 13). *Gownsman,* t. 5

Biography. (Gwanwyn 2019). *Veterans Athletic Club newsletter.* Cyrchwyd ar 16 Mehefin 2021 o http://www.vetsac.org.uk/Newsletters/VAC%20Newsletter%20Spring%202019%20Website.pdf

Aitken, A. (2013). Alastair Aitken's interviews and reports. Shaun Lightman (Medi 2013). Cyrchwyd ar 16 Mehefin 2021 o https://www.highgateharriers.org.uk/hh_archive/aa_reports/aa_report183.html

Power of 10. (n.d.) Shaun Lightman. Cyrchwyd ar 16 Mehefin 2021 o https://thepowerof10.info/athletes/profile.aspx?athleteid=37628

Street, T. (2014, 22 Gorffennaf). Commonwealth Games: Lightman was Hounslow's very own Eric Liddell. *My London.* Cyrchwyd ar 16 Mehefin 2021 o https://www.mylondon.news/sport/other-sport/commonwealth-games-shaun-lightman-hounslows-7463207

# Magnus Llewellin



Magnus Llewellin yw golygydd y *Times* yn yr Alban.

Mae Llewellin yn frodor o Groesoswallt, Swydd yr Amwythig; mae'n fab i Phil a Beth Llewellin. Mynychodd Magnus Ysgol Uwchradd Bechgyn Croesoswallt, ysgol ramadeg y wladwriaeth. Ar ôl hyn astudiodd hanes yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, gan raddio gyda 2:1 yn 1986. Bellach dywed iddo dreulio tair o flynyddoedd hapusaf ei fywyd yn Llambed.

Ar ôl gadael canolbarth Cymru, enillodd Llewellin ddiploma ôl-raddedig mewn hysbysebu yng Ngholeg Watford. Yn dilyn hyn symudodd i ogledd Lloegr i weithio'n ohebydd i'r *Ellesmere Port Pioneer,* papur lleol ar gyfer y dref ddiwydiannol ar Afon Merswy. Wedyn daeth yn ddirprwy olygydd newyddion y *Chester Chronicle*, wythnosolyn hanesyddol a gyhoeddwyd gyntaf yn y 18fed ganrif.

Yn 1990, symudodd Llewellin i'r gyntaf o gyfres o swyddi yn yr Alban. Ymunodd â'r papur dyddiol, yr *Edinburgh Evening News* yn uwch ohebydd, ond fe'i dyrchafwyd yn gyflym i fod yn ddirprwy olygydd newyddion. Wedyn symudodd i'r *Daily Record , papur* dyddiol uchaf ei werthiant yn yr Alban ar y pryd; i ddechrau rhedai swyddfa Caeredin ac wedyn aeth yn olygydd newyddion cynorthwyol. Yn 1998, daeth Llewellin yn olygydd newyddion y *Scotsman,* ymgeisydd Caeredin i fod yn bapur newydd 'cenedlaethol' yr Alban. Yn 2000, fe'i penodwyd yn Olygydd cynorthwyol Business AM, papur dyddiol a gwefan busnes a materion cyfoes yn yr Alban y gwnaeth helpu i'w sefydlu.

Wedyn symudodd Llewellin i'r *Herald, un* o'r papurau dyddiol hynaf yn y byd ac ymgeisydd Glasgow i fod yn bapur newydd yr Alban. Ymunodd yn olygydd newyddion; fodd bynnag, cafodd ei ddyrchafu'n uwch olygydd cynorthwyol, ac wedyn daeth yn olygydd yn 2012. Tra roedd yn olygydd, wynebodd her y refferendwm ar annibyniaeth yr Alban. Parhaodd yr *Herald* yn niwtral ar y pwnc, gan ddatgan 'Byddwn yn parhau i ddwyn y ddwy ochr i gyfrif a chraffu ar eu polisïau heb ofn na ffafriaeth ar ein tudalennau newyddion, sylwadau a golygyddol.' Calondid i Llewellin oedd gweld cefnogwyr y naill ochr a'r llall ymosod ar y papur!

Yn 2015, daeth Llewellin yn brif olygydd ar Grŵp yr *Herald* a'r *Times*, gan oruchwylio'r *Herald,* y *Sunday Herald, y National* a'r *Evening Times.* Yn 2016, daeth yn olygydd yr Alban i'r *Times.* Meddai

golygydd y *Times* , John Witherow*,* 'Mae Magnus yn newyddiadurwr a golygydd eithriadol gyda phrofiad enfawr o farchnad papurau newydd a marchnad ddigidol yr Alban. Mae ei benodiad yn atgyfnerthu penderfyniad y *Times* i ehangu yn yr Alban.'

Wrth sôn am ei grefft, mae Llewellin wedi dweud, 'Rydyn ni'n gwneud rhywbeth sy'n fenter anrhydeddus o hyd yn fy marn i ... Rydyn ni – yn fwy na neb arall – yn torri'r newyddion ac yn rhoi'r farn y mae eraill yn ei dilyn.' Mae'n gredwr yn yr hen draddodiad o guro ar ddrysau a throedio'r llathenni caled wrth fynd ar ôl y gwirionedd. Pan oedd yn ifanc, dywedwyd wrtho fod angen i newyddiadurwr da fod mor gyfrwys â llygoden fawr a bod yn eithaf croendew!

Mae Llewellin yn briod â Katie; mae ganddynt ddwy ferch ac maent yn byw yng Nghaeredin. Mae wedi hyrwyddo MCR Pathways ac mae'n wirfoddolwr gyda'r rhain, rhaglen fentora mewn ysgolion sy'n cefnogi pobl ifanc yn y system ofal neu ar ymylon y system ofal i'w helpu i wireddu eu potensial llawn drwy addysg. Mae ei hobïau'n cynnwys cerdded ac mae wedi bod ar sawl taith pellter hir. Yn 2015 arweiniodd dîm o'r Herald yn Her Caledonian, gan godi bron £10 000 ar gyfer yr elusen Foundation Scotland. Cerddodd ei grŵp 54 milltir mewn 24 awr, gan ddechrau i'r gogledd o Fort William a gorffen ychydig i'r de o Tyndrum. Meddai Llewellin, 'Roedd hi'n fraint i bob un ohonom fod yn rhan o achlysur mor ysbrydoledig a chyfeillgar.'

**Ffynonellau**

Llewellin, M. (2020). Magnus Llewellin, Editor, The Times Scotland [LinkedIn page]. LinkedIn. Retrieved June 30 2020 from https://www.linkedin.com/in/magnus-llewellin-3885475/

Llewellin, Magnus Clenyg Crush, (born 6 Aug. 1965), Editor, Scotland, The Times, since 2016. *Who's Who & Who Was Who.* Retrieved 30 Jun. 2020, from https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540884.001.0001/ww-9780199540884-e-283599.

Endurance hikers do battle with the Scottish elements to raise 300 000 for good causes (2015, June 15). *The Herald.* Retrieved from https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/156D7D5AEE57C8E8?p=UKNB

Greenslade, R. (2014, September 11). Rupert Murdoch's Sun swings towards yes vote for Scotland – damning of Better Together campaign and praise for Alex Salmond indicate Scots edition will urge independence. *The Guardian.* Retrieved from https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/150502DB92538358?p=UKNB

Ponsford, D. (2016, May 27). Times signals 'determination to expand in Scotland' with appointment of Magnus Llewellin as Scottish editor. *Press Gazette.* Retrieved July 1 2020, from https://www.pressgazette.co.uk/times-signals-determination-to-expand-in-scotland-with-appoint-of-magnus-llewellin-as-scottish-editor/


# David Lockwood

Roedd David Nicholas Lockwood (1923-2006) yn glerigwr cefn gwlad, yn fardd ac yn fywgraffydd.

Roedd Lockwood yn frodor o Scarborough. Nid oedd ei fagwraeth wedi bod yn hawdd; gwnaeth ei dad gefnu ar ei deulu pan oedd David dim ond yn bedair blwydd oed. Er bod ei fam yn gweithio fel llyfrgellydd, roedd y teulu yn dal i fod yn dlawd iawn. Mynychodd David Ysgol Ramadeg Drax, ond bu rhaid iddo ymadael â'r ysgol pan oedd yn bymtheg mlwydd oed er mwyn dod o hyd i waith. Dywedodd yn ddiweddarach mai ymadael â'r ysgol oedd un o'r pethau mwyaf caled y bu rhaid iddo ef ei wneud erioed. Am bedair blynedd, cyflogwyd ef fel garddwr yn y blanhigfa leol. Ar ôl hynny, daeth o hyd i waith mewn llyfrgell; gwnaeth hyn ei helpu i ennill ei dystysgrif ysgol uwchradd. Yn 1948, pan oedd yn bum mlwydd ar hugain oed, dechreuodd yng Ngholeg Dewi Sant, Llambed. Dyfarnwyd iddo Ysgoloriaeth Phillips am ddwy flynedd, ac yna, gwnaeth raddio â gradd BA mewn Saesneg, gydag anrhydedd. Yn ôl Price, roedd Lockwood yn hoff iawn o Lambed.

Hefyd, pan oedd Lockwood yn Llambed, gwnaeth gwrdd â'r ferch a fyddai, ymhen hir a hwyr, yn wraig iddo, sef Wilhelmina. Yn 1950, digwydd bod Lockwood yn un o grŵp o fyfyrwyr Llambed a seiclodd ar draws Ewrop er mwyn gweld perfformiad o Ddrama'r Pasg yn Oberammergau. Yn Heidelberg, gwnaeth gwrdd â grŵp o ferched o'r Iseldiroedd (wedi penderfynu cael gwydraid o gwrw yn lle mynychu'r Hwyrol Weddi gyda'i ffrindiau). Yn eu plith oedd Willy, a oedd bryd hynny'n fyfyrwraig yn astudio meddygaeth. Gwnaeth y pâr briodi yn 1954. Aethant ymlaen i gael tair merch, Diana, Helena, a Laura, ac i fabwysiadu mab, Peter.

Ar ôl ymadael â Llambed, gwnaeth Lockwood baratoi ar gyfer cael ei ordeinio yn Queen's College, Birmingham. Gwnaeth weithio fel curad yn Halesowen, ac yna yn Bewdley, ychydig o filltiroedd i'r gorllewin o Kidderminster. Yn 1960, daeth yn Rheithor Great Witley a Little Witley, yn ardal Bryniau Malvern.



Eglwys Great Witley, lle'r oedd Lockwood yn rheithor

Bu tueddiadau llenyddol gan Lockwood erioed, ac ochr yn ochr â'i waith plwyfol, roedd hi'n bosibl iddo ddod o hyd i amser i ysgrifennu. Ar ôl pedair blynedd, symudodd y teulu eto, y tro hwn i blwyfi Hanley Castle a Hanley Swan, (hefyd yn ardal bryniau Malvern). Byddent yn aros yno am y ddwy flynedd ar bymtheg nesaf.

Yn drist, ym mis Ebrill 1971, tarwyd y teulu â thrasiedi; cafodd Helena eu merch ganol, ei bwrw a'i lladd gan gar ar ei ffordd adref o'r ysgol. Dim ond un ar ddeg mlwydd oed oedd hi. Er i'r drasiedi siglo ffydd Lockwood yn fawr, daeth drwodd y profiad hwnnw gyda rhyw ymdeimlad newydd fod Duw yn ei fywyd. Yn ddiweddarach, ysgrifennodd lyfr amdano Helena, *Love and Let Go* (Mayhew-McCrimmon, 1975), i'w helpu ymdopi â'i alar. Meddai Lockwood roedd ef eisiau 'pin Helena down, capture her as she was before time tidied up my memories of her.' Yn ysgrifennu yn y *Church Times,* meddai Pruen am y llyfr, 'Gently and poetically written, it is deeply personal, and is indeed one of those volumes which the author has written for his own sake as much as for that of his readers, who in a sense are eavesdroppers.'

Yn 1981, gwnaeth Lockwood ymddeol yn gynnar, gan fwriadu treulio ei amser yn ysgrifennu. Yn yr un flwyddyn, dyfarnwyd iddo radd MA gan Brifysgol Birmingham am ei thesis ar Thomas Carlyle. Yn 1962, gwnaeth ef ymaelodi â'r Kilvert Society, yn dathlu gwaith y clerigwr a dyddiadurwr Fictoraidd, Francis Kilvert. Gwnaeth Lockwood ddathlu canmlwyddiant a hanner genedigaeth Kilvert drwy ysgrifennu'r bywgraffiad cyntaf amdano, *Thomas Kilvert,* (Seren Books: Poetry Wales Press, 1990). Meddai Palmer am ysgrifennu Lockwood, 'He has researched far and wide … and has come up with many fascinating titbits of information.' Ddwy flynedd wedyn, gwnaeth Lockwood ei ddilyn gyda *Kilvert, the Victorian* (Seren Books, 1992). Cyflwynodd ef ddetholiad o ddarnau o ddyddiaduron Kilvert wedi'u trefnu yn ôl y flwyddyn. Ysgrifennodd Lockwood ragymadrodd i ddetholiad pob blwyddyn. Meddai Price nad oedd ef yn gallu meddwl am well gyflwyniad i Kilvert. Daeth Lockwood yn llywydd y Kilvert Society yn 1999. Cyhoeddodd hefyd sawl cyfrol o farddoniaeth: *Private View* (a argraffwyd gan Stanbrook, 1968), *Winter Wheat* (Gomer, 1986), *Marked Paper* (Gomer, 1995) a *The Coming of Age* (Three Peaks Press, 2004).

Bu farw Lockwood yn ei gartref ar Fawrth 9fed 2006. Cynhaliwyd gwasanaeth i ddathlu ei fywyd yn Eglwys San Pedr, Y Clas ar Wy; claddwyd ef ym mynwent Eglwys Llowes, ychydig o gamau o'i gartref.

**Ffynonellau**

Price, D.T.W. (2006, November 2). The Revd. David Lockwood. *Church Times.* Adalwyd ar Chwefror 1 2021 oddi wrth https://www.churchtimes.co.uk/articles/2005/29-july/gazette/the-revd-david-lockwood

Price, D.T.W. (2005). Obituary. The Reverend David Lockwood M.A. President of the Kilvert Society. *The Journal of the Kilvert Society, 17,*1-2.. Adalwyd ar Chwefror 1 2021 oddi wrth http://www.thekilvertsociety.org.uk/assets/downloads/archive/kilvert-society-journal-17.pdf

Cranston, P. (2005). A portrait of the Reverend David Lockwood priest and poet. *The Journal of the Kilvert Society, 17,*1-2.. Adalwyd ar Chwefror 2 2021 oddi wrth http://www.thekilvertsociety.org.uk/assets/downloads/archive/kilvert-society-journal-17.pdf

Pruen, H. (1975, July 25). Life & death. *Love and let go.* By David Lockwood (Mayhew-McCrimmon, 80 p.) *Church Times..* Adalwyd ar Chwefror 2 2021 oddi wrth https://www.ukpressonline.co.uk/ukpressonline/view/pagview/ChTm_1975_07_25_007

Martin, J. (1976, June 4). Enter the trouble-sharers. *Daily Telegraph.* Adalwyd ar Chwefror 2 2021 oddi wrth https://go.gale.com/ps/retrieve.do?tabID=Newspapers&resultListType=RESULT_LIST&searchResultsType=SingleTab&hitCou

Palmer, B. (1990, July 27). Doyen of diaries. David Lockwood. Francis Kilvert. Seren Books, Poetry Wales Press £10.99. *Church Times..* Adalwyd ar Chwefror 2 2021 oddi wrth https://www.ukpressonline.co.uk/ukpressonline/view/pagview/ChTm_1990_07_27_011

# Yr Athro Gerard Loughlin



Mae Gerard Loughlin yn Athro Catholig Diwinyddiaeth a Chrefydd ym Mhrifysgol Durham.

Daeth rhieni Loughlin o Galway, yng ngorllewin Iwerddon. Er y ganwyd ef yn Lerpwl, treuliodd ef y rhan fwyaf o'i blentyndod yng Nghanolbarth Lloegr. Roedd ei dad yn feddyg. Dechreuodd ym Mhrifysgol Cymru, Llambed yn 1976 er mwyn astudio am radd mewn Diwinyddiaeth a Saesneg. Yn hel atgofion am ei gyfnod fel myfyriwr israddedig, mae'n cofio diflasu ei diwtoriaid gyda thraethodau hir dros ben mewn cyfnod pan nad oedd cyfyngiad i nifer y geiriau. Gwnaeth hefyd gymryd rhan yn y Gymdeithas Gatholig. Ar ôl iddo raddio, arhosodd ymlaen i astudio am radd MA mewn Saesneg yn seiliedig ar ymchwil. Testun ei thesis oedd y nofelau Moderniaeth Gatholig a gyhoeddwyd a'r ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a'i oruchwylwraig oedd Barbara Dennis.

Gyda chymorth Paul Badham, llwyddodd wneud ac ennill cais am Ysgoloriaeth Ymchwil mewn Diwinyddiaeth yng Ngholeg y Drindod Caergrawnt, a symudodd yno yn 1980. Sail ei ymchwil doethurol oedd gwaith John Hick - ef, bryd hynny, oedd athronydd crefydd enwocaf y byd Saesneg, ac roedd yn gymeriad dadleuol, ac yn enwog am amau uniongrededd Cristnogol, ac am hyrwyddo amleglwysiaeth grefyddol. Cafodd Loughlin bedwar goruchwyliwr yn ystod ei gyfnod yng Nghaergrawnt, y ddau unigolyn cyntaf hefyd yn ddadleuol: sef Yr Esgob John A.T. Robinson, yn enwog am ysgrifennu *Honest to God,* a Don Cupitt, yr anffyddiwr Cristnogol fel y'i gelwid. Cawsant eu dilyn gan Nicholas Lash a Brian Hebblethwaite. Gwnaeth Lash gynghori Loughlin i ddarllen gwaith Wittgenstein, ac ar ôl cyfnod byr i ffwrdd o Gaergrawnt, yn Chicago, gwnaeth thesis terfynol Loughlin gynnig asesiad negyddol dros ben o waith Hick.

Ar ôl hyn, gwnaeth Loughlin aros yng Nghaergrawnt i astudio am Dystysgrif Addysg i Raddedigion yng Ngholeg Homerton. Ei swydd gyntaf oedd yng Ngholeg Chweched Dosbarth St Dominic, Harrow. Ond parhaodd i ysgrifennu erthyglau a gwneud ceisiadau am swyddi academaidd, ac yn y diwedd, cynigiwyd iddo swydd fel darlithydd astudiaethau crefyddol ym Mhrifysgol Newcastle. Er roedd yr adran hon yn un fach iawn, roedd hi'n cynnig rhaglenni BA a MA, yn ogystal â goruchwyliaeth ymchwil doethurol. Roedd Loughlin yn Bennaeth Adran yno o 1996 tan 2001. Ond nid yw prifysgolion modern yn hoff o adrannau bychain. Yn 2004, caewyd yr adran a chafodd yr ychydig aelodau staff a oedd ar ôl eu trosglwyddo i Adran Diwinyddiaeth Durham, a newidiodd hon ei henw i 'Adran Diwinyddiaeth a Chrefydd' er mwyn cydnabod pwysigrwydd cynyddol ei darpariaeth

astudiaethau crefyddol. (Ar yr un pryd, gwnaeth grŵp bach o ieithyddion Durham ymuno ag Adran Saesneg Newcastle.) Ers hynny, mae Loughlin wedi parhau i weithio yn Durham.

Mae ei ddiddordebau academaidd bob amser wedi bod yn rhyngddisgyblaethol, yn croesi'r ffiniau rhwng diwinyddiaeth, athroniaeth, ac astudiaethau llenyddol a diwylliannol. Ei lyfr cyntaf oedd *Telling God's story: Bible, church and narrative theology,* a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Caergrawnt yn 1996. Ei fwriad oedd dangos mai diwinyddiaeth yw'r 'discipline of a practice which is first and last the following of a story: the life, death and resurrection of Jesus Christ.' Disgrifiodd Rowan Williams y llyfr fel 'lively and splendidly literate essay on what we might now mean by the authority of Scripture and sacrament … [A] timely, provocative and enjoyable book.'

Llyfr nesaf Loughlin oedd *Alien sex: the body and desire in cinema and theology,* (Blackwell, 2004). Ym marn Stanley Hauerwas, roedd y llyfr hwn yn 'absolutely brilliant'. Gwnaeth Arthur Bradley ei enwebu fel ei lyfr y flwyddyn (2005) ym maes astudiaethau crefyddol, a gwnaeth Kent Brintnall ddarganfod ei fod yn 'standing head and shoulders above the existing literature in the expanding field of religion and film scholarship.'

Mae Loughlin wedi golygu dau lyfr ar ddiwinyddiaeth a rhywioldeb. Y cyntaf ohonynt oedd *Sex these days: essays on theology, sexuality and society,* wedi'i olygu ar y cyd gyda Jon Davies (Gwasg Academaidd Sheffield, 1997). Yn *Queer theology: rethinking the western body* (Blackwell, 2007), gwnaeth y cyfranwyr ailddarllen y traddodiad Cristnogol o safbwynt theori cwiar. Mae Loughlin yn gydolygydd y cyfnodolyn *Theology and sexuality* (sy'n cael ei gyhoeddi gan Routledge), ac yn olygydd cynorthwyol *Literature and theology,* (sy'n cael ei gyhoeddi gan Wasg Prifysgol Rhydychen).

**Ffynonellau**


Deacy, C. (interviewer). (2019, July 15). *Nostalgia interviews with Chris Deacy. Gerard Loughlin.* [Podlediad Clywedol]. Adalwyd oddi wrth https://audioboom.com/posts/7315968-gerard-loughlin

Loughlin, G. [2019]. *After Lampeter: an academic journey.* Llawysgrif heb ei chyhoeddi.

Durham University. (2020). Professor Gerard Loughlin, BA MA (Wales) PhD PGCE (Cambridge). Adalwyd ar Fehefin 8 2020, oddi wrth https://librarydevelopment.group.shef.ac.uk/referencing/apa.html#W

Brintnall, K. (2006). Alien Sex: The Body and Desire in Cinema and Theology. *Film Quarterly, 60*(2), 78-78. doi:10.1525/fq.2006.60.2.78.1

## Yr Hybarch Ganon Brian Lucas CB QHC



Magwyd Brian Lucas ym Mhort Talbot, De Cymru, gyda theulu estynedig o'i gwmpas, ac mewn tŷ a oedd 'bob amser yn llawn chwerthin'. Daeth i Goleg Dewi Sant yn 1959 a gwnaeth ef hollol ymdrochi ei hun ym mywyd y coleg. Ymunodd â'r Gymdeithas Ddrama a chafodd ei ethol fel cynrychiolydd y coleg ar Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, gan ddod yn un o gyfarwyddwyr Gownsman Publications, cwmni cyfyngedig a oedd yn gweinyddu cylchgrawn y coleg.

Ar ôl graddio gyda BA yn y dyniaethau yn 1962, gwnaeth Lucas astudio diwinyddiaeth am ddwy flynedd yn St Stephen's House, Rhydychen. Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn 1964, ac yn offeiriad yn 1965, pan wnaeth ef ddechrau ar ei dair blynedd gyntaf o weinidogaeth yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, Caerdydd. Yn 1967, symudodd i blwyf Castell-nedd a chafodd y dasg a'r her o adeiladu a sefydlu eglwys newydd ar ystad dai fawr. Mae'n disgrifio'r tair blynedd hyn fel cyfnod a wnaeth ei baratoi'n 'llawn ar gyfer yr hyn a fyddai'n dod.'

Er hynny, gwnaeth ei ddiddordeb mawr mewn hedfan a'i rôl fel Caplan Anrhydeddus i Sgwadron Castell-nedd o'r Corfflu Hyfforddiant Awyr newid cyfeiriad gyrfa Lucas. Ym mis Mehefin 1970, yn dilyn cysegru'r eglwys newydd, o'r enw 'St Peter and St Paul' yn ardal y Cymla, Castell-nedd gan Archesgob Cymru, comisiynwyd ef i Gangen Caplaniaid y Llu Awyr Brenhinol. Y flwyddyn ganlynol, penodwyd ef i RAF St Mawgan yng Nghernyw fel caplan gorsaf. Gwnaeth ail benodiad yn 1972 fynd â Lucas i RAF Luqa, Malta, lle gwnaeth ef wasanaethu am dair blynedd cyn dychwelyd i Brydain i gymryd swydd yn RAF Honington, East Anglia.

Yn 1979, penodwyd Lucas yn Gaplan Staff i'r Pen Gaplan yn y Weinyddiaeth Amddiffyn, rôl a gafodd ei dilyn gan deithiau yng Nghyprus a phenodiad i Goleg RAF Cranwell, Lincolnshire (1985-87). Gwnaeth cael ei ddyrchafu'n Ben Gaplan Cynorthwyol fynd â Lucas dramor am ei benodiad olaf, y tro hwn i Bencadlys RAF yr Almaen (1987-89). Gwnaeth ei ddyletswyddau fel caplan ymestyn o Viborg yng Ngogledd Denmarc i Munich, ac o Berlin i Sardinia.

Ar ôl dychwelyd i ddechrau yn ei swydd fel Pen Gaplan Cynorthwyol ym Mhencadlys RAF 'Support Command', Brampton, penodwyd Lucas yn Gaplan Anrhydeddus i Ei Mawrhydi y Frenhines (QHC). Yn 1991, dyrchafwyd ef yn Is-farsial yr awyrlu, yn Ben Gaplan (RAF), a chan Archesgobion Caergaint a Chaerefrog, yn Archddiacon y Llu Awyr Brenhinol. Yr un flwyddyn, ym mis Tachwedd, cafodd ei orseddu'n Ganon Prebendaidd St Botolph yn Eglwys Gadeiriol Lincoln. Ddwy flynedd wedyn, ar Restr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd, cafodd ei wneud yn Gydymaith Urdd Fwyaf Anrhydeddus y Baddon.

Gwnaeth Lucas ymddeol o'r RAF ac ymddiswyddo fel Curad Lincoln yn 1995. Rhoddwyd iddo gan Archesgob Caergaint y teitl Archddiacon Emeritws i'r RAF. Yn 1996, penododd Esgob Lincoln ef yn Ganon Emeritws Lincoln, pan benodwyd ef i Reithordy Bywoliaeth Caythorpe, Fulbeck a Carlton Scroop gyda Normanton, yn Esgobaeth Lincoln. Gwnaeth ymddeol o weinidogaethu amser llawn yn 2003.

Er gwaethaf pwysau ei yrfa broffesiynol, bu Lucas yn Gaplan Anrhydeddus i'r Bomber Command Association, y Coastal Command Association, y Worshipful Company of Horners (bellach Emeritws), ac am lawer o flynyddoedd yn Llywydd Anrhydeddus No.3 Welsh Wing, Air Training Corps. Rhwng 1998 a 2008, bu Lucas yn Ysgrifennydd Anrhydeddus y Savage Club yn Whitehall, wedi cael ei ethol yn aelod yn 1996, a chafodd ei wneud yn Aelod am Oes Anrhydeddus yn 2018. Yn 2011 etholwyd ef yn Gadeirydd Corff Llywodraethol Academi Syr William Robertson, ond gwnaeth ymddiswyddo yn 2018, pan etholwyd ef yn Gadeirydd cyntaf Bwrdd Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Ysgolion Aspire.

Mae Lucas hefyd wedi dod o hyd i amser ar gyfer cyhoeddi ei gofiannau, sef *Reflections in a Chalice*, dwy gyfrol ar Eglwysi Cadeiriol Gothig mawreddog Ffrainc, *A Glimpse of Glory*, a detholiad o'i bregethau, *Alive in Christ.* Mae ef yn briod, gwnaeth ei wraig Joy raddio o brifysgolion Abertawe a Hull, ac mae ganddynt dri phlentyn a saith o wyrion /wyresau.



**Ffynonellau**

Lucas, B (2011). *Reflections in a Chalice. The Memoirs of a Practical Priest.* Adastral Books.

*About the Author* (n.d.), Publisher Biography.

Rectror Retires (2003, September 4). *Grantham Journal.* Adalwyd ar Hydref 7 2020 oddi wrth https://web.archive.org/web/20171017042030/http://www.granthamjournal.co.uk/news/rector-retires-1-32412

Lucas, Ven. Canon Brian Humphrey, (born 20 Jan. 1940) Author; Chaplain-in-Chief, and Archdeacon of the Royal Air Force, 1991-95, Archdeacon Emeritus, 1996. (2007, December 01), Adalwyd oddi wrth https://www.ukwhoswho.com/search?q=brian+lucas&searchBtn=Search&isQuickSearch=true

# Ian Marchant




Mae Ian Marchant yn ysgrifennwr, yn ddarlledwr ac yn berfformiwr.

Magwyd ef yn Newhaven, ar arfordir East Sussex, lle y gwnaeth ef fynychu ysgol gyfun. Roedd ei dad yn gweithio yn y dociau, a'i fam yn gweithio mewn archfarchnad. Ef oedd yr unig un yn ei flwyddyn yn yr ysgol i fynd yn syth i'r brifysgol, heb egwyl. Yn 1976, dechreuodd yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant er mwyn astudio athroniaeth; roedd y coleg mor bell o'r de-ddwyrain ag yr oedd hi'n bosibl iddo ei drefnu! Mae wedi dweud ers hynny roedd e'n chwilio am le a oedd yn fwy go iawn na'r de. Mae'n disgrifio'r ardal o gwmpas Llambed bryd hynny fel y Gorllewin Gwyllt ac yn ganolfan diwylliant yr hipis. Hwn oedd y cyfnod a welodd ymddangosiad pync-roc, a gwnaeth Marchant ganu ym mand pync-roc cyntaf canolbarth Cymru, sef The Repeaters. Ar achlysur, byddai hefyd yn mynd i'r capel, weithiau i gefnogi ffrindiau a oedd yn ordinandiaid. Ond oherwydd y gwnaeth ef fynd i'r brifysgol er mwyn ffoi o'i gartref ac i fwynhau ei hun, ni wnaeth ef lawer o waith academaidd o gwbl. Mae'n cofio athro yn ei alw i mewn i'w swyddfa ac yn dweud wrtho 'Mr Marchant, you've been with us almost three years, yet we have no record of any written work from you.' Gwnaeth Ian ymadael â Llambed heb radd! Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, gwnaeth ddychwelyd i fyd addysg er mwyn astudio Hanes Gwyddoniaeth ym Mhrifysgol Lancaster, gydag Ysgrifennu Creadigol fel ei ail bwnc. Y tro hwn, wedi'i ysgogi gan ei ddiddordeb yn y testun, gwnaeth lwyddo!  Ymhen hir a hwyr, fe enillodd gymhwyster oddi wrth Lambed, 'Tystysgrif Addysg i Raddedigion', (gyda rhagoriaeth!).

Yn ystod ei fachgendod, gwnaeth Marchant amrywiaeth eang o waith. Gweithiodd fel ariannwr bwci, yn ogystal â gwerthu recordiau ail-law a chyfarpar ysmygwyr ym marchnad Llandrindod. Erbyn diwedd y 1990au, roedd e'n byw mewn carafán ar lotments yn Lancaster, ac yn ysgrifennu nofel. Ond cafodd ei nofel gyntaf, *In Southern Waters,* ei chyhoeddi gan Victor Gollancz yn 1999. Yn ysgrifennu yn *The Times,* gwnaeth Teeman ei disgrifio yn stori am gariad, bywyd ac anffawd warthus ymhlith criw o hipis Brighton. Yn ei farn ef, roedd hon yn  'one of those curios that deserves to become a cult.' Ail nofel Marchant oedd *The Battle for Dole Acre* (Weidenfeld & Nicolson, 2001). Ynddi, mae'r pen-cogydd Terry Whittaker yn cael ei dynnu i mewn i frwydr i achub noddfa asennod leol rhag cael ei throi'n faes parcio.

Ar ôl penderfynu bod realiti yn fwy anrhagweladwy na phethau dyfeisiedig, dechreuodd Marchant ysgrifennu gweithiau ffeithiol. Cyhoeddwyd *Parallel Lines* gan Bloomsbury yn 2003; mae Marchant yn ei ddisgrifio fel llyfr am reilffyrdd sydd wedi ailddyfeisio gwylio trenau cyfoes. Y ddwy gyflinell yw rheilffyrdd rhamantaidd breuddwydion y sawl brwdfrydig, a'r rhwydwaith go iawn sy'n methu am fod naill ai dail neu'r math anghywir o eira ar y lein. Teithiodd Marchant o gwmpas Prydain ar bob math o drên, o reilffyrdd ager cul i drenau cymudwyr gorlawn a Rheilffordd Danddaearol Llundain. Gwnaeth gyfuno ei odyseia reilffyrdd â chofiannau teuluol a hanes cymdeithasol. Gwnaeth adolygiad Nicholas Lezard yn *The Guardian* ddisgrifio'r llyfr hwn yn glasur bach.

Yna, yn 2004, gyda ffotograffydd yn gwmni iddo, gwnaeth Marchant grwydro o dafarn i dafarn am fis gan ddechrau yn nhafarn The Turk's Head sydd yn St Agnes, ar Ynysoedd Sili, a gorffen yn The Baltasound Hotel ar Ynysoedd Shetland. Cyfaill o'i ddyddiau yn Llambed oedd ei gydymaith, sef Perry Venus a oedd hefyd yn mynd wrth yr enw Paul Williams, chwaraewr bas The Repeaters. Ar y ffordd, gwnaethant ymweld â chymaint o 60 000 o dafarnau Prydain ag yr oedd hi'n bosibl iddynt ymweld â nhw. Disgrifiodd Marchant ei siwrnai yn *The Longest Crawl,* (Bloomsbury, 2007). Meddai Lezard, 'So he has a way of telling a story, a pleasing tone, and a way of shoving in a lot of information – and philosophy, too, at one point – without a trace of lecturing.' Gwnaeth Simon Armitage ei alw'n 'drunkenly funny, obsessively factual, soberingly poignant.' Cafodd *The Longest Crawl* y fraint ddwbl anarferol o fod yn llyfr y mis ar gyfer mis Medi 2007 yn *The Sunday Sport* a hefyd yn *The Church of England Newspaper.*

Mae *Something of the Night,* (Simon & Schuster, 2013), yn llyfr lled hunangofiannol arall, y tro hwn yn archwilio gweithgareddau liw nos Prydain. Ysgrifennodd Marchant am goelcerthi a thân gwyllt, bywyd mewn gorsafoedd gwasanaethau traffyrdd a nosweithiau allan yn feddw. Gwnaeth gyfweld â gweithwyr sifftiau, gweision modurdai nos a'r sawl a oedd wedi ymgynnull i arsyllu ar asteroidau. Ceir drwy gydol y llyfr hwn fanylion am gwsg, breuddwydion, a rhythmau circadaidd. Fel y mae ef bob amser yn ei wneud, gwnaeth Marchant hefyd ysgrifennu am orffennol ef ei hun, gan gynnwys ei flynyddoedd fel myfyriwr yn Llambed.

Yn ddiweddarach, cafodd Marchant sioc ar ddarganfod bod gan lawer o fyfyrwyr israddedig fylchau ofnadwy yn ei gwybodaeth am rannau helaeth o hanes diwylliannol diweddar Prydain. Ceisiodd fynd i'r afael â hyn yn *A Hero for High Times: a Younger Reader's Guide to the Beats, Hippies, Freaks, Punks, Ravers, New-Age Travellers and Dog-on-a-Rope Brew Crew Crusties of the British Isles, 1956-1994,* (Vintage, 2018). Caiff hanes gwrthddiwylliant Prydain ei adrodd o safbwynt cyfaill Marchant, sy'n byw mewn hen fws ysgol a leolir mewn coedwig yng Nghymru. Mae Marchant yn ysgrifennu am hanes yr hipis ar gyfer y sawl a oedd yn rhy ifanc i fod yno ar y pryd. Yn ysgrifennu yn *The Times,* disgrifiodd Roger Lewis y llyfr fel 'a masterpiece for oddballs.'

Mae Marchant wedi cyflwyno amrywiaeth o raglenni i Radio Tri a Radio Pedwar; mae'r testunau wedi amrywio o hanes gwifrau pigog i sut i fynd ag alpaca am dro. Rhwng y rhain ceir testunau eraill, megis byw ar gefn y grid, colli gwallt a diflaniad diwydiant haearn Sussex. Mae ef wedi ysgrifennu ar gyfer y rhan fwyaf o'r wasg sydd o ansawdd, ac mae'n ysgrifennu'n gyson fel dyddiadurwr i'r *Church Times.*

Rhwng 2002 a 2006, bu Marchant yn gyd-gyfarwyddwr canolfan yr Arvon Foundation, elusen sy'n annog ysgrifennu creadigol, wedi'i lleoli yn Totleigh Barton, yng ngogledd Dyfnaint. Mae Marchant bellach yn addysgu ysgrifennu creadigol ym Mhrifysgol Dinas Birmingham. Mae ef hefyd yn perfformio fel digrifwr ar ei sefyll, gan fabwysiadu'r cymeriad Lionel Spume FRSL, bardd bohemaidd oedrannus. Am lawer o flynyddoedd, gwnaeth hefyd chwarae gyda'i ffrind Chas Ambler yn y band

lled chwedlonol, Your Dad. Mae'n byw yn Llanandras, ger y ffin rhwng Cymru a Lloegr ac medd ef 'I'm a Radnorshire man, even though I'm from Surrey … Borders are where writers should be.'

**Ffynonellau**


Simon & Schuster. (2020). Ian Marchant. Adalwyd ar Orffennaf 15 2020 oddi wrth https://librarydevelopment.group.shef.ac.uk/referencing/apa.html#W

Marchant, I. (2020). These are the web pages of Ian Marchant. Adalwyd ar Orffennaf 15 2020 oddi wrth http://ianmarchant.com/

Marchant, I. (2018, April 13). A late arrival to the Church of England. *Church Times.* Adalwyd oddi wrth https://www.churchtimes.co.uk/articles/2018/13-april/faith/faith-features/a-late-arrival-to-the-church-of-england

Marchant, I. (2012, March 18). Where do we draw the line? *The Express on Sunday.* Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/13DA079B4D78E5F8?p=UKNB

Marchant, I. (2009, November 29). A day trip to Lampeter – Panasonic GF-1 + 20 mm Pancake [Blog post]. Adalwyd ar Orffennaf 15 2020 oddi wrth https://yammerman.wordpress.com/2009/11/29/a-day-trip-to-lampeter-panasonic-gf-1-20mm-pancake/

White, J. (2018, February 15). Ian Marchant – A Hero for High Times. [Podlediad clywedol]. Adalwyd ar Orffennaf 16 2020 oddi wrth https://www.owltail.com/podcast/UIwEm-The-Lumieres-Podcast/episodes

Teeman, T. (1999, August 7). Welcome to the house of fun - Books. *The Times,* p. Metro 22. Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/0F9298EF617D7F42?p=UKNB

Lezard, N. (2004, Jul 10). The Guardian: Saturday Review: Paperbacks: Nicholas Lezard's choice: Railing against the train system. *The Guardian.* Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/103BEFF9143FC37B?p=UKNB


Lezard, N. (2007, July 7). The Guardian: Review: Nicholas Lezards paperback choice: Round Britain with a pint. *The Guardian.* Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/11A4070ED5A365F0?p=UKNB

Lewis, R. (2018, February 10). When the kids were all revolting - This mad, sweary history celebrates the lost counter-culture of Britain, says Roger Lewis. *The Times.* p. 13. Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/16A0816037D55D90?p=UKNB

Nikki-Ann (2012). Meet the author: Ian Marchant (plus giveaway!). Adalwyd ar Orffennaf 17 2020 oddi wrth http://notesoflife.co.uk/2012/02/meet-the-author-ian-marchant-plus-giveaway/

# E.A. Markham

Roedd Edward Archibald 'Archie' Markham (1939-2008) yn fardd, dramodydd, nofelydd ac academydd o Montserrat.



*Markham yn ei ail flwyddyn yng Ngholeg Dewi Sant o'r Gownsman 25 Hydref, 1963*

Ganed Markham ar ynys fach Montserrat yn y Caribî ar 1 Hydref 1939. Symudodd ei rieni, a oedd yn gymharol gefnog yno o Orllewin India'r Iseldiroedd er mwyn i'w mab gael ei eni'n Brydeiniwr. Aeth i unig ysgol ramadeg yr ynys. Pan wahanodd ei rieni yn 1956, daeth i Brydain gyda'i fam. Yn fuan wedyn roedd yn astudio athroniaeth a Saesneg yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Aeth ymlaen i ymchwilio i gomedïau'r 17^eg^ ganrif ym Mhrifysgol East Anglia, cyn dod yn ddarlithydd yng Mholytechnig Kilburn.

Cafodd un ddramâu Markham , *The Masterpiece,* ei pherfformio tra roedd yn dal yn fyfyriwr yn Llambed. Fodd bynnag, er iddo ddechrau ar ei yrfa lenyddol yn ddramodydd, cafodd ei waith gorau ar y llwyfan ei wneud yn weinyddwr a chyfarwyddwr. Sefydlodd Gwmni Theatr y Caribî yn 1969 a chynhaliodd Weithdy Theatr y Caribî am sawl mis. Rhwng 1972 a 1974 adeiladodd dai gyda mudiad cydweithredol o Ffrainc. Cynhaliodd gymrodoriaethau ysgrifennu yn Hull a Llundain, yn ogystal â threulio tair blynedd yn awdur preswyl ym Mhrifysgol Ulster. Treuliodd ddwy flynedd ym Mhapua Gini Newydd, yn gweithio yn gydlynydd cyfryngau ar gyfer Llywodraeth Daleithiol Enga . Disgrifiodd y profiad hwn *yn A Papua New Guinea sojourn.* Ym 1991 fe'i penodwyd yn ddarlithydd mewn llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Sheffield Hallam; daeth yn athro ysgrifennu creadigol yno ym 1997.

Cyhoeddwyd casgliadau barddoniaeth cyntaf Markham gan weisg annibynnol bach. Ymhlith y rhain, ymddangosodd *Crossfire* yn 1972 a *Mad and other poems* yn 1973. Yn y pen draw, yn 1984, cyhoeddodd Anvil Press *Human rites,* casgliad o'i waith gorau hyd hynny. Ymhlith casgliadau diweddarach o'i waith roedd *Living in disguise* (1986), *Towards the end of a century* (1989) a *Fragments of memory* (2003). Roedd ei farddoniaeth bob amser yn synnu'r darllenydd, ac eithrio yn ei hawydd i osgoi unrhyw ystrydebau Caribïaidd.

Aeth Markham yn ei flaen i lunio sawl casgliad o straeon byrion, gan gynnwys *Something unusual* (1986) *a Taking the drawing room through customs* (2002). Roedd ei nofel *Marking time* (1999) *yn* seiliedig ar ei brofiadau ym Mhrifysgol Sheffield Hallam. Pan ddywedodd wrth ei fyfyrwyr beth oedd yn bod ar y nofel gampws yn ei farn ef, dyma nhw'n awgrymu ei fod yn ysgrifennu un! Roedd hefyd yn olygydd ardderchog, yn gweithio ar *The Penguin book of Caribbean short stories*, er enghraifft, a'r cylchgronau llenyddol *Artrage, Ambit* a *Sheffield Thursday.*



Pan ffrwydrodd llosgfynydd Soufrière Hills difethwyd Plymouth, prifddinas Montserrat
Gan giggel, CC GAN 3.0, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=54500914

Ni chollodd Markham erioed ei ymdeimlad o fod yn un o blant Montserrat. Dinistriwyd Montserrat gan gorwynt Hugo yn 1989; wedyn, yn 1997, dinistriwyd y brifddinas, Plymouth, gan gyfres o ffrwydradau llosgfynydd yn y Soufrière Hills. Ymatebodd Markham trwy fynd ati'n egnïol i godi arian yn egnïol gydag ychydig o'i farddoniaeth orau. Cofnododd *The Hugo Poems* (1993) *a A rough climate* (2002) y trychinebau mewn ffordd a oedd yn eu cysylltu â phryderon mwy a chyda datblygiad Markham ei hun. Dyfarnwyd y Dystysgrif Anrhydedd i Markham gan lywodraeth Montserrat ym 1997.

Mae llawer o ysgrifennu creadigol Markham yn dangos gallu theatraidd i ymddangos ei hun ar ddulliau gwahanol, sy'n ei alluogi i osgoi ystrydebau. Gan ddefnyddio'r traddodiad Caribïaidd o ddefnyddio masgiau i siarad mewn lleisiau mewn deialog, cyhoeddodd yn aml dan wahanol ffugenwau. Yn Paul St Vincent, trawsnewidiodd ei hun yn aelod ifanc dig o ddosbarth gweithiol Antigua, a oedd wedi dod i fyw i dde Llundain yn wyth oed. Dyfeisiodd Paul St Vincent hyd yn oed bersona arall, y gwrth-arwr Lambchops. Roedd Markham yn rhentu ystafell yn Battersea a dechreuodd ysgrifennu am brofiadau canol dinas ar ffurf Creole. Yn Sally Goodman, daeth Markham yn ffeminydd o Gymraes. Dywedodd am Sally, 'Mae hi'n Cymraes, yn ifanc, yn wyn, â llygaid glas, gwallt golau, yn debyg iawn, mewn ffordd, i fi.' Roedd y ddau 'fardd' fel petai'n datblygu eu bywyd eu hunain a hyd yn oed rhagori ar lwyddiant eu creawdwr! Yn ddiweddarach, yn ei ffuglen, creodd hunan arall yn rheolaidd, yr academydd dysgedig ond di-glem, Pewter Stapleton.

Gwrthwynebodd Markham unrhyw ymgais i'w roi mewn blwch naill ai'n fardd Caribïaidd neu fardd Prydeinig. Ysgrifennodd mewn Saesneg safonol ac yn *patois* India'r Gorllewin.

Ar ôl ymddeol o Brifysgol Sheffield Hallam yn 2005, aeth i fyw i Baris. Bu farw'n sydyn o drawiad ar y galon ar 23 Mawrth 2008.

# Alfred Augustus Mathews

Chwaraeodd Alfred Augustus (Alf) Mathews (1864-1946) rygbi dros Gymru, pan oedd yn dal yn fyfyriwr yn Llambed.

Ganed Alf yn Rhymni, ychydig filltiroedd i'r de-orllewin o Lynebwy. Roedd yn fab i Jenkin ac Elizabeth Mathews; ei dad oedd prif gyfrifydd ac yn ysgrifennydd Gwaith Haearn Rhymni ac roedd hefyd yn ynad. Alf oedd y pedwerydd mab; roedd ganddo dair chwaer. Cafodd ei addysg yn Llundain, yn Ysgol Bluecoat Christ's Hospital. Wedyn, yn bymtheg oed fwy na thebyg, symudodd i Goleg Llanymddyfri, lle dysgodd chwarae rygbi. Cofnodir i Mathews chwarae i'r coleg yn erbyn Abertawe; sgoriodd gais ac enillodd Llanymddyfri o saith cais i ddim.

Ymunodd Mathews â Choleg Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan yn 1883, gan raddio gyda gradd BA yn 1886. Roedd yn chwaraewr amryddawn dan gamp, a oedd yn rhagori mewn tennis a phumoedd. Cystadlodd yn y ras filltir, y ras ffos a pherth a'r ras rwystrau ym Mabolgampau'r Coleg yn 1885. Fodd bynnag, ei gamp orau oedd rygbi. Bu'n is-gapten y XV Rygbi yn nhymor 1884-85. Dywedwyd iddo gyfrannu:

'very largely to the success of the team both in the field and out of it. As one of the team's organisers he has been most enthusiastic and as a player most unselfish, passing often and generally at the proper time. He is not fast but makes good use of his pace. This season he was first reserve half-back for Wales. May he succeed in getting the much-coveted 'Colours' next year.'
(*St David's College and School gazette,* rhif 1, Mai 1885)



Tîm rygbi Coleg Dewi Sant, tymor 1885-86. Mae A. A. Mathews yn eistedd yn y canol, gyda'r bêl. Mae E. M. Rowland, a chwaraeodd hefyd dros Gymru, ar ddiwedd y rhes ganol i'r chwith.

Enillodd Mathews ei unig gap dros Gymru yn y gêm yn erbyn yr Alban, a chwaraewyd ym Mharc yr Arfau Caerdydd ar 9 Ionawr 1886. Yn ôl y sôn, tynnodd capten Cymru, C. H. Newman, yn ôl fore'r

gêm. Bu Mathews yn bartner i 'Buller' Stadden o Gaerdydd yn safle'r hanerwr. Yn ystod y gêm, arbrofodd Cymru gyda chwarae pedwar trichwarterwr yn hytrach na thri. Hwn oedd y tro cyntaf i hyn gael ei wneud ar lefel ryngwladol. Fodd bynnag, chwaraeodd wyth blaenwr Cymru yn wael ac nid oeddent yn ddigon cryf i herio'r naw Albanwr oedd yn eu herbyn. Ychydig o gyfleoedd a gafodd cefnwyr Cymru i arddangos eu sgiliau. Hanner ffordd trwy'r gêm, aeth Cymru yn ôl i'r patrwm arferol, ond erbyn hynny roedd y drwg wedi ei wneud. Enillodd yr Alban o ddwy gôl ac un cais i ddim. Rhoddodd Cymru y gorau i batrwm y pedwar trichwarter ar gyfer y pedwar tymor nesaf.


Graddiodd Mathews gyda gradd BA ym Mehefin 1886. Cafodd ei urddo'n ddiacon yn 1887 ac yn offeiriad yn 1888. Gwasanaethodd yn gurad yn Eglwys y Drindod Sanctaidd Abertawe rhwng 1887 a 1892 ac yn ficer yno tan 1897. Chwaraeodd yn rheolaidd dros Abertawe yn ystod tymhorau 1887-88 a 1888-89. Yn enwedig, roedd yn rhan o dîm Abertawe a chwaraeodd yn erbyn Brodorion Seland Newydd (y tîm rygbi tramor cyntaf erioed i fynd ar daith). Enillodd y Brodorion 11-0. Ni pharhaodd gyrfa dosbarth cyntaf Mathews yn hir ar ôl hyn, er iddo barhau i chwarae i dîm ei blwyf. Daeth hefyd yn ddyfarnwr, gan ennill enw da am fod yn hollol deg.

Roedd Eglwys y Drindod Sanctaidd, lle bu Mathews yn gweithio, yng nghanol Abertawe. Fe'i hadeiladwyd yn 1843 i geisio ymdopi â'r cynnydd cyflym ym mhoblogaeth y dref. Roedd Mathews yn boblogaidd a daeth yn dipyn o bersonoliaeth yn y dref. Ar ôl gorffen chwarae rygbi'n gystadleuol, ffurfiodd Glwb Pêl-droed y Drindod i'r dynion ifanc lleol. I ddiolch am hyn, dyma nhw'n rhoi beic iddo. Wedyn, yn 1897, ymadawodd Mathews i fynd yn ficer Blaenafon gyda Chapel-Newydd yn Sir Fynwy.

Y flwyddyn nesaf priododd Mathews ag Ethel Frances Evans, merch Dr Edward Beynon Evans, meddyg teulu o Abertawe. Roedd gan y pâr bedair merch ac un mab, Kenneth, a ddaeth yn gaplan milwrol ar y cadgriwser Norfolk gan ennill DSC. Priododd Barbara, merch ieuengaf Alf ac Ethel, â'r gwleidydd ceidwadol Henry Brooke, ac yn y pen draw daeth yn Farwnes Brooke o Ystradfellte. Eu hŵyr, Peter Brooke, oedd Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon rhwng 1989 a 1992 pan fu'n un o benseiri'r broses heddwch.

Yn 1904 symudodd Mathews i Eglwys Sant Paul, Casnewydd, lle arhosodd tan 1933. Yn 1930 fe'i penodwyd hefyd yn Ddeon Gwledig Casnewydd ac yn un o Ganoniaid Trefynwy. Dywedwyd ei fod yn ddyn o weithgarwch diflino ac o egni di-ben-draw. Yn syth ar ôl cyrraedd ymdaflodd yn gyfan gwbl i waith y Plwyf. Oherwydd ei osgo hoffus a chydymdeimladol iawn, enillodd ymddiriedaeth ei gynulleidfa yn fuan a dechreuodd ar unwaith ar raglen estyniad i'r Eglwys.' Gweithiodd yn ddiflino hefyd i gefnogi'r eglwys dramor, yn enwedig codi arian ar gyfer ysbytai yn Peshawar a Mombassa.

Roedd gweinidogaeth Mathews yn golygu ei fod yn deall y problemau a achoswyd gan dlodi a diweithdra. Yn benodol, roedd yn ymwybodol o'r trueni a ddaeth yn sgil alcoholiaeth. Rywbryd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, addunedodd i ymwrthod ag alcohol. Hyd yn oed yn ystod ei yrfa rygbi, yr oedd yn wyliadwrus o beryglon alcohol, gan ddweud, 'Yn aelod o dîm pêl-droed Abertawe gallaf dystio nad oes angen diod feddwol i symbylu campau chwaraeon, er fy mod i'n llwyr ymwrthodwr, dydw i byth yn brin o egni nac yn colli fy meddwl, a dydw i ddim yn hyfforddi chwaith yn ystod yr wythnos, a phe bai pawb yn ymatal rhag diodydd meddwol dydw i ddim yn credu y byddai angen hyfforddiant.'



Y Parch. A. A. Mathews

Yn 1933, symudodd Mathews i'w blwyf olaf, sef St Stephen a St Tatham yng Nghaer-went. Ar ôl iddo ymddeol, treuliodd saith mlynedd olaf ei fywyd yn Great Milton, Llanwern, ychydig y tu allan i Gasnewydd. Fe'i claddwyd gydag Ethel ym mynwent Eglwys Blwyf y Santes Fair, Llanwern. Mae ei wyrion Henry Brooke yn cofio 'dyn mawr iawn a charedig, gyda mwstas gwyn blewog, o ychydig eiriau ond roedd ei gyfeillgarwch yn tywynnu.'

**Ffynonellau**

Pierce, D. Jenkins, J.M. & Auty, T. (2018). *Who's who of Welsh international rugby players.* Charlcombe Books

Walters, S. (2016). *The fighting parsons: the role of St David's College, Lampeter, in the early development of rugby football in Wales.* Canolfan Peniarth

Ancestry. (2020). Canfuwyd yn https://search.ancestrylibraryedition.co.uk

Brooke, H. (2017). My Welsh grandfather. Canfuwyd 17 June 2020 yn https://sirhenrybrooke.me/2017/03/17/my-welsh-grandfather/

Newport past (n.d.). Reverend Alfred Augustus Mathews vicar of St Paul's church Newport 1904-1933. Canfuwyd 18 Mehefin 2020 yn http://www.newportpast.com/gallery/photos/php/photo_page.php?search=&search2=&pos=1559

# Austin Matthews

Gwnaeth Austin David George Matthews (1904-1977) gynrychioli Lloegr ym maes criced, a Chymru ym maes tennis bwrdd, yn ogystal ag ennill Cap rygbi'r undeb am chwarae yn un o Dreialon Terfynol Cymru.

Roedd Austin yn dod o Benarth; ei rieni oedd Frederick Harper Matthews, naddwr glo, a'i wraig Mary Margaret. Ar ôl ymadael â'r ysgol, astudiodd ddiwinyddiaeth yn Llambed, wedi cael ei dderbyn yno ym mis Hydref 1925. Ond penderfynodd nad oedd ef yn 'really fitted for the church.' Symudodd i Northamptonshire, gan chwarae rygbi am y tro cyntaf i Northampton Saints, a chriced am y tro cyntaf i'r tîm sirol yn 1927. Ym maes rygbi, roedd e'n flaenwr o'r safon uchaf a oedd hefyd wedi chwarae i Ganolbarth Dwyrain Lloegr ac i Benarth. Ef gwnaeth arwain tîm y 'Saints' yn 1935, yn rhinwedd ei swydd fel capten. Caiff y cap a enillodd ef wrth chwarae i Northampton ei gadw yn archifau Clwb Pêl Droed Rygbi Penarth, yn ogystal â'r cap a enillodd ef yn 1929 yn un o dreialon rygbi terfynol Cymru. Yn ddiweddarach, byddai Matthews yn dyfarnu ar gyfer taith gyfunol gyntaf Rhydychen a Chaergrawnt i'r Ariannin yn 1948.

Fel cricedwr, roedd Matthews yn bowlio gyda'i fraich dde yn gyflym-gymedrol ac yn llawn nerth. Meddai ei goflith yn *Wisden* 'he was accurate and had the cardinal merits of keeping the ball on the wicket and making it run away.' Yn ystod ei naw blynedd yn chwarae i Northants, enillodd 567 wiced, 26.45 o rediadau'r un, ar gyfartaledd. Ef oedd enillydd wicedi blaenllaw'r sir yn 1936, pan enillodd 83 wiced. Roedd hefyd yn fatiwr defnyddiol ar lefel is, ac enillodd ddau gant o rediadau o'r rheng flaenaf.

Ond roedd Northants yn dîm gwan; mae'n anhebygol y byddai Matthews wedi gallu cadw ei le yn un o'r timau cryfach. Yn 1937, gwnaeth orffen chwarae i'r sir yn dilyn anghytundeb dros delerau cytundeb proffesiynol newydd a thros oedi'r trafodaethau am flwyddyn budd-dal ddichonadwy. Gan feddwl bod ei yrfa yn chwarae i'r sir drosodd, daeth o hyd i swydd yn hyfforddi criced a rygbi yn Ysgol Fonedd Stowe, ger Buckingham. Ac eithrio ei wasanaeth yn y RAF yn ystod adeg y rhyfel, arhosodd yn Stowe tan 1953.

Ar ddiwedd tymor yr haf, 1937, ymadawodd Matthews â Stowe er mwyn ymweld â'i deulu yn Ne Cymru. Yno, gwnaeth gwrdd unwaith eto â'i hen gyfaill Maurice Turnbull, capten tîm criced Morgannwg. Cafodd Matthews ei ddrafftio'n gyflym fel aelod o'r tîm. Roedd sawl bowliwr wedi'u hanafu, ac felly cytunodd Matthews helpu ychydig o weithiau, ond erbyn hyn fel chwaraewr amatur. Yn un o'r gemau cyntaf ar ran ei sir newydd, enillodd 14 wiced am 132 o rediadau yn erbyn Sussex yn Hove. Meddai gohebydd *The Times* 'His fast medium bowling was not deadly in the last sense of that word, but it was always accurate. The ball was always doing something, and he never let the batsman feel he could relax.' Gwnaeth ddilyn hyn gyda chwe wiced yn erbyn Gwlad yr Haf yn Weston-super-Mare.

Mewn llai na thair wythnos ar ôl ymuno â thîm Morgannwg, cafodd Matthews ei gynnwys yn sgwad Lloegr i chwarae yn erbyn Seland Newydd yn yr 'Oval'. Ym marn *The Times*, roedd y Dewiswyr, drwy wneud hyn, wedi synnu pawb yn fawr. Roedd aelodau eraill y tîm yn cynnwys Len Hutton, Cyril Washbrook a Denis Compton. Yn y diwedd, gwnaeth y gêm, wedi'i heffeithio gan law a'i chwarae ar lain ddifywyd, orffen gyda gêm gyfartal. Gwnaeth Matthews orffen gyda'r ffigurau parchus 2 wiced am 65 o rediadau. Ond ni fyddai'n chwarae fyth eto i Loegr.

Gwnaeth Matthews barhau i chwarae criced o'r rheng flaenaf tan oedd ef wedi cyrraedd canol ei bedwar degau, gan ymddeol, o'r diwedd, yn 1947. Enillodd 225 wiced i Forgannwg, gyda 15.88 o rediadau'r un, ar gyfartaledd. Roedd Matthews yn gryf ei argyhoeddiad ynglŷn â hyfforddi, a

byddai'n ysgrifennu'n aml amdano. Yn benodol, cyfrannodd ef erthygl nodwedd 'Cricket a game – not a subject' at argraffiad 1966 o *Wisden.* Yn ei farn ef, ni ddylid ymhyfrydu ormod mewn hyfforddi er ei fwyn ei hun.

Bu farw Matthews ym Mae Penrhyn, Llandudno, ar Orffennaf 29 1977. Gwnaeth ei goflith yng nghylchgrawn cyn-fyfyrwyr Stowe, *The Stoic,* ei ddisgrifio fel a ganlyn 'a personality who loved people, whose enthusiasm was infectious, and whose laugh was worth going a long way to hear.'

**Ffynonellau**


ESPN Cricinfo (n.d.) Austin Matthews England. Adalwyd ar Ionawr 7 2021 oddi wrth https://www.espncricinfo.com/england/content/player/16942.html

Austin Matthews (1978). *The Stoic, 161,* 178. Adalwyd ar Ionawr 7 2021 oddi wrth https://stowemedia.azureedge.net/cmsstorage/uploads/medialibrary/stowe/old-stoic-events/os%20publications/the_stoic_161_july_1978.pdf

Northampton Saints (n.d.) Club records. Adalwyd ar Ionawr 7 2021 oddi wrth https://www.northamptonsaints.co.uk/club/history/club-records

Halford, B. & Hignell, A. (2018). *The daffodil blooms: the glorious rise of Glamorgan CCC to county champions in 1948.* Bedford: ACS. Adalwyd ar Ionawr 7 2021 oddi wrth https://www.google.co.uk/books/edition/The_Daffodil_Blooms/n67RDwAAQBAJ?hl=en&gbpv=1&dq=daffodil+blooms&pg=PP1&printsec=frontcover

From Our Special Correspondent. (1937, August 7). Glamorgan's Smart Win. Times, 4. Adalwyd ar Ionawr 7 2021 oddi wrth https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS67711239/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=a0d97d18

The Third Test Match. (1937, August 9). *Times*, 4. Adalwyd ar Ionawr 7 2021 oddi wrth https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS67449097/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=11a81fec

From Our Cricket Correspondent. (1937, August 18). Cricket. Times, 5. Adalwyd ar Ionawr 7 2021 oddi wrth https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS84095250/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=e4b2cb62

Museum of Welsh Cricket. (n.d.) Austin Matthews. Adalwyd ar Ionawr 7 2021 oddi wrth https://glamorgancricketarchives.com/austin-matthews/


# Hannah McKeand

Mae Hannah McKeand yn alldeithwraig begynol; yn 2006, gwnaeth hi osod record cyflymder y byd am sgïo'n solo, heb unrhyw gefnogaeth, i Begwn y De.

Astudiodd McKeand y clasuron a hanes yr hen fyd ym Mhrifysgol Cymru, Llambed. Mae hi wedi dweud, 'I didn't want to be in a big city as I wanted to be somewhere intimate where I would get to know lots of people and be able to escape into the hills when it got too much for me … I loved being in a small department and all the lecturers knowing me by name and I made some amazing friends during my time there.'

Ar ôl ymadael â Llambed, gweithiodd McKeand am nifer o flynyddoedd fel rheolwr marchnata i gwmni theatr. Ond yn 2001, gwnaeth ei thad bedydd adael gwaddol iddi; teimlodd hi y dylai hi ei ddefnyddio ar gyfer rhywbeth arbennig. Felly, dechreuodd hi ymweld ag Anialwch Gorllewinol enfawr Gogledd Affrica, ail ddiffeithwch mwyaf y byd. Yna, daeth hi'n awyddus i wybod am ddiffeithwch mwyaf oll y byd, sef Antarctica.  Yn 2004, ymunodd hi â thaith dywysedig i sgïo o arfordir Antarctica i Begwn y De, gan ddilyn llwybr Hercules, pellter o 690 o filltiroedd. Er gwaethaf diffyg profiad McKeand, gwnaeth hi ffynnu a theimlodd hi'n hollol gyffyrddus yn yr amgylchedd anghyfeillgar hwn.

Ddwy flynedd wedyn, gwnaeth McKeand ddychwelyd i'r Antarctig, gan wneud yr un siwrnai ar ei phen ei hun a heb unrhyw gefnogaeth. Roedd y daith yn golygu tynnu sled a oedd yn pwyso 80 kg dros yr eira, gyda'r tymheredd mor isel â minws 35˚C. Gwnaeth hi ddefnyddio 8000 o galorïau y dydd. Llwyddodd McKeand orffen y daith mewn 39 diwrnod, 9 awr a 33 munud, gan dorri record y byd (ar gyfer y ddau ryw) drwy gyrraedd mwy na dau ddiwrnod yn gynt. Gosodwyd y record flaenorol hefyd gan fenyw o Brydain, sef Flora Thornewill. Mae McKeand wedi dychmygu, "There's a tradition of suffering with men. They want it to be the most savage and hard experience. But the girls' thinking is: 'Let's make it as nice as possible.'"



Golygfa o len iâ a mynyddoedd Antarctica

Ers hynny, mae McKeand wedi tywys nifer o gleientiaid unigol ar alldeithiau i Begwn y De, gan ddilyn llwybr Messner, yn ogystal â llwybr Hercules. Yn 2012, dyfarnwyd iddi ail Record Byd Guinness am orffen mwy o alldeithiau i Begwn y De nag unrhyw un arall. Gwnaeth y rhain olygu llusgo slediau am dros 6000 o filltiroedd ar draws yr Antarctig.

Daeth sefyllfa fwyaf heriol McKeand ar daith i'r Arctig yn 2008. Roedd hi wedi gobeithio mai hi fyddai'r fenyw gyntaf i deithio ar ei phen ei hun o arfordir gogleddol Canada i Begwn Daearyddol y Gogledd; (gwnaeth hi geisio gwneud hyn gan ddefnyddio'r llwybr anoddaf, a heb unrhyw gefnogaeth). Ond, ar ôl pythefnos o sgïo, gwnaeth hi gwympo drwy grac dwfn yn yr iâ. Cafodd ei thrapio yn y twll wyth troedfedd, wedi afleoli ei hysgwydd yn y ddamwain. Ar ôl awr o ymdrech, llwyddodd ddianc, drwy ddefnyddio ei sgi fel ysgol un gris.

McKeand yw sylfaenydd Polar Expedition Training (PET). Wedi'i leoli yn Norwy, wrth galon Parc Cenedlaethol Hardangervidda, mae PET yn darparu hyfforddiant o'r rheng flaenaf i alldeithwyr pegynol, yn ogystal â phrofiadau sgïo a defnyddio slediau cŵn ac esgidiau eira. Mae myfyrwyr McKeand wedi cynnwys Lewis Clarke, a aeth ymlaen i fod yr ieuaf i sgïo o arfordir Antarctica i Begwn y De, a Mollie Hughes, y ferch ieuaf i sgïo ar ei phen ei hun, heb unrhyw gefnogaeth, i Begwn y De.

Yn ogystal â'i hanturiaethau Antarctig, mae McKeand wedi bod ar alldeithiau i Dde America, gan gynnwys yr Amazon, i'r Aifft, Libya, y Swdan, Namibia ac Afghanistan. Yn 2010, gwnaeth hi gyd-dywys a mentora chwe llysgennad ieuenctid ar heic 200 km o hyd drwy goedwig law'r Amazon. Yna, chwe blynedd yn ddiweddarach, gwnaeth hi gyd-dywys pum llysgennad ieuenctid ar alldaith redeg, pythefnos o hyd, i Bolivia gan orffen wyth marathon mewn wyth diwrnod. Mae hi hefyd wedi hwylio o gwmpas y byd; yn 2005, cymerodd hi ran yn y Ras Iotiau Cliper o Gwmpas y Byd. Yn 2007, hwyliodd hi yn yr iot *Blizzard* o Tasmania drwy Gefnfor y De i Dde Chile. Mae McKeand bellach yn gweithio fel tywysydd maes pegynol, yn ogystal â fel ymgynghorydd logisteg a siaradwr ysgogiadol. Mae'n Gymrawd y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol, yn aelod o'r Explorers Club ac yn aelod o'r International Polar Guide Association. Mae hi hefyd wedi ennill gwobrau fel ysgrifennwr teithio; yn 2018, enillodd hi Wobr Ysgrifennwr Teithio'r Flwyddyn AITO (am erthygl sy'n llai na 1500 o eiriau). Gwnaeth ei darn, "A world in a grain of sand" ar gyfer *Suitcase Magazine,* ddisgrifio ei thaith i'r Anialwch Gorllewinol ac i Len Dywod Selima.

Yn ôl McKeand, y mannau mwyaf heriol y mae hi wedi dod o hyd iddynt yw rhannau anghysbell y cefnforoedd, ymhell o unrhyw dir. Y rhannau o'r byd sydd orau ganddi yw'r rhai anghysbell a gwag, yr anialychau mawr a'r tiroedd anial pegynol. Wrth gyfeirio am yr Antarctig, medd hi, 'It is so completely unimaginable. I have skied to the South Pole more times than anyone ever and I still can't really get my head around the place. Every day I ski all day across empty rolling plains of ice and every night invent a small home of canvas in the white nothingness …'

**Ffynonellau**

McKeand, H. (n.d.). Hannah McKeand. Adalwyd ar Fehefin 15, 2020, oddi wrth https://www.hannahmckeand.com/

Hannah McKeand: polar explorer. (2012, Summer). *Campus: the magazine for University of Wales alumni.* Adalwyd ar Fehefin 15, 2020, oddi wrth https://www.wales.ac.uk/Resources/Documents/Alumni/Newsletters/Campus2012(English).pdf

Cooper, T. (2008, Mar 8). The Daily Telegraph: A woman's place is at the Pole Hannah McKeand is piling on the pounds in more ways than one for a solo bid to reach the top of the world, as Tarquin

Cooper reports. *Daily Telegraph, The (London, England)*. Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/11F5883E131B3088?p=UKN

Woman abandons solo North Pole adventure after plunge through ice. (2008, Mar 24). *The Times,* p. 22. Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/11F9F0A392AC0B68?p=UKNB

SIMPSON, A. (2006, Dec 30). The Guardian: Woman treks alone to South Pole in 39 days: Hannah McKeand breaks record for 690-mile trip Journey to raise cash for breast cancer charity. *The Guardian.* Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/1165BF87308D8120?p=UKNB

# Brendan McSharry



Mae Brendan McSharry OBE wedi gweithio fel cyfarwyddwr gwlad i'r Cyngor Prydeinig mewn chwe gwlad yn Asia ac Affrica. Mae wedi gweithio mewn tair ar ddeg o wledydd i gyd ar draws pedwar cyfandir.

Magwyd McSharry mewn cymuned Gatholig yng Ngogledd-orllewin Llundain. Daeth i Goleg Dewi Sant am fod y coleg wedi'i leoli ymhell o fywyd y ddinas fawr. Mae'n cofio Llambed fel lle i ddysgu ac yn gymuned i fyw ynddi a oedd yn gartrefol, wedi'i lleoli mewn amgylchedd darluniadol, gwledig Cymraeg. Ar ddechrau'r tymor, byddai'n arfer ffawdheglu o Lundain i Lambed; unwaith cafodd lifft gan yrrwr lori nad oedd yn siarad unrhyw Saesneg o gwbl, dim ond Cymraeg. Yn ogystal ag astudio, McSharry oedd capten tîm rasio draws gwlad y coleg, sef Clwb y 'Harriers'. (Yn hwyrach yn ei fywyd, aeth ymlaen i redeg nifer o rasys marathon).

Graddiodd gyda BA mewn Saesneg a Hanes. Yn ei farn ef, roedd ei gyfnod yn Llambed yn un ffurfiannol oherwydd gwnaeth y coleg achosi iddo 'open my mind, think critically, enjoy reading and learning, value diversity, value the past and appreciate friendship.'

Ar ôl graddio, aeth McSharry yn ôl i weithio yn Llundain fel cydlynydd hyfforddiant galwedigaethol yn yr Adran Gyflogaeth. Yna, dychwelodd i fyd academia i astudio am Dystysgrif Addysg i Raddedigion ym Mhrifysgol Caerwysg. (Ychydig o flynyddoedd wedyn, gwnaeth astudio am radd MA mewn Ieithyddiaeth ac ELT ym Mhrifysgol Leeds).

Dechreuodd gyrfa dramor McSharry yn 1975; byddai'n treulio'r 41 o flynyddoedd nesaf yn gweithio ym maes cysylltiadau diwylliannol, addysg a hyfforddiant, yn bennaf i'r Cyngor Prydeinig. Ei gyrchfan cyntaf oedd Sweden, lle y gwnaeth weithio fel athro Saesneg fel Iaith Dramor yn Folkuniversitetet Kursverksamheten. Aeth ymlaen i weithio fel hyfforddwr TEFL (Teaching English as a Foreign Language) yn yr Eidal, Indonesia, Gwlad y Tai, Irac ac Ecwador. Mae hefyd wedi gweithio fel rheolwr rhaglenni addysgol a diwylliannol yn y sectorau oedolion a datblygu cymorth. Mae wedi bod yn gyfarwyddwr gwlad i'r Cyngor Prydeinig yn Yemen, Zambia, Bahrain, Irac, Nepal, Bangladesh a Phalestina. Roedd yn gyfarwyddwr rhanbarthol ardal y Lefant yn y Dwyrain Canol o 2015 i 2018.

Roedd gan ei rôl heriau. Yn Yemen, cafodd aelod o'r uwchstaff ei herwgydio, ynghyd â'i wraig a'i blentyn. Meddai McSharry, 'Sometimes there is inter-tribal warfare within areas of Yemen which are no-go.' Roedd y dioddefwr ar y ffordd i 'meeting and didn't turn up. We got a message from one of my students saying what had happened.' Diolch i'r drefn, cafodd y sefyllfa ei datrys yn ddiogel. Mae McSharry hefyd wedi ymdopi â thaflegrau 'sgyd' yn Irac lle y bu'n byw mewn 'pod' gwrthfortar, ymgiliad athro o Wlad y Tai a oedd yn derbyn bygythiadau ar ei fywyd, a daeargryn yn Nepal. Mae elfennau boddhaol ei yrfa wedi cynnwys darparu hyfforddiant sgiliau i bobl ifanc dan anfantais,

cysylltu athrofeydd addysg y DU â rhai tramor, hyrwyddo astudio ôl-raddedig ym Mhrydain ar gyfer personél sector cyhoeddus gwledydd sy'n datblygu, a hyrwyddo artistiaid sydd ag anableddau.

Gwobrwywyd McSharry â MBE am wasanaethau i fyd addysg yn yr Eidal yn 1994 ac OBE am wasanaethau i fyd addysg a diwylliant yn Irac yn 2012. Mae'n diwtor CELTA & DELTA ac yn aseswr i Brifysgol Caergrawnt, ac yn Gymrawd Cysylltiol yr Athrofa Farchnata Siartredig. Ar hyn o bryd, mae'n ymgynghorydd addysg i'r Athrofa Eingl-Almaenaidd yn Stuttgart. Mae ei ddiddordebau yn cynnwys ffitrwydd a lles, hanes milwrol, dysgu ieithoedd, crefydd gymharol a materion rhyngwladol. Mae'n aelod o Gymdeithas Virginia Woolf ac o Ymddiriedolaeth Charleston House. Mae'n aelod brwdfrydig o Gymdeithas Llambed ac yn olygydd presennol y cylchgrawn cyn-fyfyrwyr, *The Link.* Mae hefyd yn gobeithio astudio rhan amser tuag at radd MA o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant mewn ysgrifennu creadigol.

Mae McSharry yn byw gyda'i ŵr yn Stuttgart, Yr Almaen.

**Ffynonellau**

McSharry, B. (2018). Distinguished alumni. *The Link.* 71,16. Adalwyd ar Orffennaf 17, 2020, oddi wrth https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/lampeter-society-/thelink2018.pdf

McSharry, B. (2020). Brendan McSharry's experience in the late 60s: 1968-1971. *The Link.* 76,15-16. Adalwyd ar Orffennaf 17, 2020, oddi wrth https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/alumni/lampeter-society/the-link-summer-2020.pdf

Brendan of Arabia. (1999, May 29). *Greater London, Kent, and Surrey Counties Publications.* Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/10D8758671D691EE?p=UKNB

# Y Parchedig Ganon Stanley Meadows

Dywedwyd am Stanley Meadows (1914-2009) neu 'Canon Stan': 'roedd e'n ddyn nodedig, a wnaeth pethau hynod, mewn cyfnod rhyfedd.'

Daeth Meadows o gefndir breintiedig. Roedd ei dad, Henry Richardson Meadows, yn fasnachwr mewnforio. Roedd Stanley yn un o chwech o blant. Yn eironig, roedd ei dystysgrif geni wedi'i hysgrifennu yn Almaeneg; ganwyd ef yn Riesisheim, yn Alsace, ar Chwefror 23 1914. Roedd gan ei deulu dŷ hefyd ger Llyn Como; dysgodd y Stanley ifanc Eidaleg pan oedd ar ei wyliau yno. Addysgwyd Meadows yn Ysgol Wellington, Gwlad yr Haf, ac yna, fe ymunodd ef â'r Gwarchodlu Coldstream. Yn 1936, gwnaeth sefyll yn wyliadwrus yn angladd George V.

Ond penderfynodd Meadows ymadael â'r Fyddin a pharatoi ar gyfer cael ei ordeinio. I'r perwyl hwn, daeth i Goleg Dewi Sant, Llambed, i astudio Diwinyddiaeth. Ond er gwaethaf hyn, aflonyddwyd ar ei addysg gan ddechreuad yr Ail Ryfel Byd. Aeth yn ôl i'r Fyddin fel ail is-gapten gyda Ffiwsilwyr Swydd Gaerhirfryn. Ei ddyletswydd gyntaf oedd diogelu arfordir Swydd Efrog rhag goresgyniad posibl yn Sandsend, i'r gogledd o Whitby. Yn 1941, anfonwyd ef i Dde Affrica; gwnaeth wasanaethu fel capten cudd-ymchwil gyda'r Wythfed Fyddin am weddill y rhyfel yn Ewrop. A dweud y gwir, ef oedd un o'r ychydig bobl a gafodd ganiatâd i weld signalau'r gelyn ar ôl iddynt gael eu rhagod a'u datgodio gan Enigma ym Mharc Bletchley. Yn dilyn rhyddhad Rhufain yn 1944, treuliodd sawl mis yn y ddinas dragwyddol.

Ar ddychwelyd adref, aeth Meadows yn ôl i Lambed i ail-gydio ar ei astudiaethau. Er gwaethaf ei fagwraeth, dewisodd weithio mewn ardaloedd canol dinas, yn hytrach na mewn plwyfi mwy cyfoethog. Yn 1948, daeth yn gurad yn eglwys St Mark, Worsley; gwnaeth dreulio ail guradiaeth yn eglwys y Drindod, Littleborough. Ei swydd nesaf oedd rheithor eglwys St George, Charlestown, Salford, o 1951 tan 1961. Yn dilyn hyn, symudodd i St George â St Barnabas ym Miles Platting, mewn ardal ganol dinas boblog iawn ym Manceinion. Yno, gwnaeth Meadows oruchwylio cyfuniad llwyddiannus tri phlwyf, yn ogystal â goruchwylio adeiladu eglwys newydd, sef eglwys St Cuthbert. Ochr yn ochr â'i ddyletswyddau eraill, roedd Meadows yn gaplan i 45ain Brigâd Barasiwtiau'r Fyddin Diriogaethol, a gwnaeth ef ei hun neidio nifer o weithiau. Gwobrwywyd ef â'r Fedal Diriogaethol yn 1961. Ni wnaeth Meadows erioed geisio cuddio'r hyn yr oedd ef yn ei feddwl. Ar un achlysur, gwnaeth esgob Manceinion ofyn iddo pam oedd y groes yn eglwys St Cuthbert ar ongl. Fe atebodd, 'It is like the Rector – slightly left of centre.'



Gwnaethpwyd Meadows yn ganon anrhydeddus yn 1971. Chwe blynedd yn ddiweddarach, gwnaethpwyd ef yn Ddeon Gwlad Ardwick. Gwnaeth barhau i gynnal gwasanaethau ar ôl iddo ymddeol, yn ogystal â gweithio fel tywysydd rhan amser yn Eglwys Gadeiriol Manceinion.

Roedd yn ddringwr ac yn gerddwr brwdfrydig. Yn ystod ei lencyndod, bu'n hyfforddwr yng Nghanolfan Plas Y Brenin, Eryri. Yn ddiweddarach, roedd e'n aelod o'r Rucksack Club; Yn 1969, ef oedd llywydd y Manchester Pedestrians Club.

Priododd ef dair gwaith; daeth ei briodas gyntaf, i Violet Smith yn 1940, i ben gydag ysgariad ar ddiwedd y rhyfel. Daeth ei ail briodas, i Edna Walker yn 1982, i ben â'i marwolaeth. Yn 1989, priododd ef Ivy Harris; gwnaeth hi fyw tan 2008. Gwnaeth merch o'i briodas gyntaf ei oroesi.

Bu farw Meadows ar Sul y Pasg, 2009.

**Ffynonellau**

Obituary of The Rev Canon Stanley Meadows Intelligence officer who saw the decoded Engima intercepts and later worked as a priest in Manchester. (2009, May 14). *Daily Telegraph*. Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/128CD0812E5A2E30?p=UKNB

Death of a very remarkable man. (2009, May 22). *Manchester Evening News.* Adalwyd oddi wrth https://www.manchestereveningnews.co.uk/news/local-news/death-of-a-very-remarkable-man-920270

Tributes to hero clergyman. (2009, May 15). *Manchester Evening News.* Adalwyd oddi wrth https://www.manchestereveningnews.co.uk/news/greater-manchester-news/tributes-to-hero-clergyman-919586

# Kathy Miles

**Bardd Gwobrwyedig**



Ganwyd Kathy Miles yn 1952 yn Lerpwl. Gweithiodd ei thad fel clerc i'r gwasanaeth sifil, ond ef hefyd oedd  y 'Northern Music Critic' i'r Daily Telegraph, ac felly, cafodd Miles lawer o gyfle i brofi cerddoriaeth glasurol, bale a'r celfyddydau ers oedd hi'n ifanc. Symudodd hi i Orllewin Cymru yn 1972 i astudio Saesneg ym Mhrifysgol Cymru Llambed, wedi treulio blwyddyn i ffwrdd yn gweithio y tu cefn i lwyfan yr Everyman Theatre yn Lerpwl lle y gwnaeth nifer o sêr y dyfodol, megis  Antony Sher, Alison Steadman a Jonathan Pryce ddechrau eu gyrfaoedd. Ar orffen ei gradd, priododd hi â Peter Miles – a oedd bryd hynny yn ddarlithydd yn yr Adran Saesneg yn Llambed – a chafodd hi swydd yn llyfrgell y brifysgol lle y gweithiodd hi am y 37 o flynyddoedd nesaf, yn delio'n bennaf â benthyciadau rhwng llyfrgelloedd a rheoli anghenion llyfrgell myfyrwyr dysgu o bell y brifysgol. Yn 1980, mynychodd hi Goleg Llyfrgellwyr Cymru ac enillodd hi radd ôl-raddedig mewn llyfrgellyddiaeth.

Mae Miles wedi bod yn ysgrifennu ers roedd hi'n blentyn, a phan oedd hi'n 16 mlwydd oed, enillodd hi'r 'Honey Magazine Poetry Competition', a ddyfarnwyd gan Roger McGough; drwy gyd-ddigwyddiad, ef hefyd oedd y beirniad pan enillodd hi'r Bridport Poetry Prize yn 2015. Ond pan oedd hi yn ei hugeiniau, canolbwyntiodd Miles yn bennaf ar ysgrifennu rhyddiaith a drama, a chafodd hi rywfaint o lwyddiant gyda'r ail; derbyniwyd drama un act  y gwnaeth hi ei hysgrifennu gan Gymdeithas Ddrama Cymru, ac fe enillodd hi Gystadleuaeth Fonolog Un Llais Cymru. Yn 1984, gwnaed Gillian Clarke yn gymrawd ysgrifennu'r brifysgol, a sefydlodd hi Weithdy Ysgrifenwyr Llambed (Lampeter Writers' Workshop), gyda Miles a Sue Moules yn aelodau sefydlu; mae'r gweithdy yn parhau heddiw a hwn yw grŵp ysgrifennu hynaf Cymru. Gwnaeth ysbrydoliaeth ac anogaeth y grŵp arwain at Miles yn canolbwyntio ar farddoniaeth yn hytrach nag ar genres eraill, ac er bod ganddi ddiddordeb o hyd mewn ysgrifennu storïau byrion a gweithiau ffeithiol creadigol, erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o'i hallgynnyrch ym maes barddoniaeth.

Yn 1988, cyhoeddodd Miles ei chasgliad cyntaf, The Rocking Stone. Dilynwyd hwn yn 1995 gan The Third Day: Landscape and the Word, a oedd yn antholeg olygedig o ffotograffau a cherddi a wnaeth amlygu a dathlu rhai o safleoedd treftadaeth hanesyddol Cymru. Comisiynwyd cerddi gwreiddiol oddi wrth ysgrifenwyr megis Dannie Abse, Raymond Garlick, Peter Finch, Ruth Bidgood, Sheenagh Pugh, Gillian Clarke a RS Thomas, gyda chyflwyniad

gan Clay Jones. Gwnaeth yr antholeg hefyd gynnwys cerdd gan y diweddar Brian Morris a oedd bryd hynny, yn Brifathro Llambed. Lansiwyd y llyfr yn 1995 yng Ngŵyl Lenyddiaeth Y Gelli Gandryll.

Er roedd Miles yn dal i ysgrifennu rhwng y blynyddoedd 1995 a 2009 – pan gyhoeddwyd ei llyfr nesaf, The Shadow House – gwnaeth salwch ac amgylchiadau personol anodd olygu y byddai rhaid i farddoniaeth gymryd sedd gefn am ychydig. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd Peter a hithau ysgariad a symudodd Miles i le a ddisgrifiwyd ganddi fel 'a ramshackle self-build house' mewn pentref ychydig y tu allan i Aberaeron. Yma, gwnaeth ei hysgrifennu ffynnu unwaith eto a dechreuodd hi gymryd mwy o ddiddordeb yn y byd naturiol a'r tirweddau o'i chwmpas. Adlewyrchwyd hyn yn ei harddull farddol hwyrach, ac er bod ganddi o hyd ddiddordeb enfawr yn y byd tu allan, mae ei gwaith erbyn hyn yn canolbwyntio'n helaeth iawn ar wneud cysylltiadau rhwng amgylcheddau dynol ac amgylcheddau naturiol. Mae hi'n mwynhau'n fawr ysgrifennu barddoniaeth anthropomorffig a sŵomorffig, lle mae nodweddion dynolryw ac anifeiliaid yn ymdoddi, ac mae'n darganfod yn yr ysgrifennu hwn ffordd o ymdopi â galar a cholled, ar lefel bersonol ac o safbwynt ein tirweddau a'n bywyd gwyllt sy'n diflannu'n gyflym oherwydd newid trychinebus yn yr hinsawdd.
Yn 2014, gwnaeth Miles ymddeol o'i swydd yn y llyfrgell er mwyn astudio am radd MA Ysgrifennu Creadigol yn Llambed dan diwtelaeth y tiwtoriaid Menna Elfyn, Samantha Wynne-Rhydderch, Dic Edwards a Jeni Williams. Newidiodd y profiad hwn ei bywyd, oherwydd gwnaeth ef ei galluogi hi i ysgrifennu amser llawn a gwneud yr un ymdrech a defnyddio'r un ddisgyblaeth wrth ysgrifennu ei gwaith creadigol ei hun â'r ymdrech y byddai hi cyn hynny wedi ei wneud ar gyfer ei swydd amser llawn, ac oherwydd yn aml y byddai rhaid iddi weithio sifftiau gyda'r nos a dros y penwythnosau, nid oedd y fath swydd yn addas ar gyfer ysgrifennu o ddifrif ac yn gyson. Yn ystod blwyddyn y traethawd hir ar gyfer ei MA, gwnaeth un o'r cerddi y gwnaeth hi eu cyfansoddi ar gyfer ei gwaith cwrs ennill y Bridport Prize, cystadleuaeth farddoniaeth genedlaethol fawreddog dros ben. Gwnaeth hyn roi'r hyder iddi hi barhau ysgrifennu, a chyhoeddi ei thrydydd casgliad llawn, sef Gardening With Deer.

Ers 2015, mae Miles wedi gweithio fel ysgrifennwr hunangyflogedig. Ymunodd hi â thîm o'r enw The Lampeter Review fel cyd-olygydd, ac mae hi hefyd wedi gweithio fel golygydd gwadd i'r cylchgrawn barddoniaeth Artemis. Ddwywaith, mae hi wedi bod yn feirniad i Gystadleuaeth Farddoniaeth Ryngwladol Cymru ac wedi hwyluso gweithdai yn lleol ac ar gyfer Gŵyl Farddoniaeth Torbay. Yn aml, caiff hi ei gwahodd i gynnal darlleniadau, ac mae ei gwaith hi'n ymddangos yn eang mewn cylchgronau ac antholegau. Ar hyn o bryd, mae hi'n gweithio ar gasgliad hyd llawn, ac ar ôl hynny, mae hi'n gobeithio datblygu ac ehangu ei diddordeb mewn gweithiau ffeithiol creadigol.

**Cyhoeddiadau**

Bone House (Indigo Dreams, 2020)
Inside the Animal House (Rack Press, 2018)
Gardening With Deer (Cinnamon Press, 2016)
The Shadow House (Cinnamon Press, 2009)
The Third Day: Landscape and the Word (Gwasg Gomer, 1995)
The Rocking Stone (Poetry Wales Press, 1988)

**Gwobrau Diweddar**

Enillydd, Shepton Mallet Snowdrop Festival Competition, 2022
Cyd-enillydd, Broken Spine Arts Collective Competition, 2022
Trydydd, Second Light Poetry Competition, 2021
Trydydd, Gwobrau Llyfrau Barddoniaeth Cymru, 2021
Gwobr y Tanysgrifwyr, Acumen Poetry Competition, 2020
Trydydd, National Memory Day Poetry Competition, 2018
Ail, Kent and Sussex Open Poetry Competition, 2018
Enillydd, Wells Literature Festival Competition, 2017
Enillydd, Cystadleuaeth Farddoniaeth Penfro, 2016
Enillydd, Bridport Poetry Prize, 2015
Enillydd, Cystadleuaeth Farddoniaeth Cymru, 2014

# Peter Millam

Peter Millam (1936-2010) oedd Uwch Gaplan Eglwys Gadeiriol Christ Church ar Ynysoedd Falkland. Gwnaeth gyrraedd y tudalennau blaen ledled y byd am ei ymglymiad â'r cwmni hedfan Aerolinas Argentina pan wnaeth awyren a oedd wedi'i herwgipio lanio ar gae rasio Port Stanley.

Gwasanaethodd tad Millam, William Robert Millam, ar Ynysoedd Falkland fel Is-swyddog /Telegraffydd. Yno, gwnaeth gwrdd â Beatrice Orissa Bender, merch i rai o ymsefydlwyr arloesol y drefedigaeth. Priododd y pâr yn Lloegr yn 1923, a ganwyd Peter yn Portsmouth. Fel plentyn, gwnaeth gwrdd yn aml â gwesteion o'r ynysoedd, a gwnaeth dyfu wedi'i drochi yn llên gwerin Ynysoedd Falkland. Mynychodd ef Ysgol Ramadeg Sirol Bromley, ac yna Ysgol Ramadeg Cheltenham. Ar ôl ymadael â'r ysgol, mynychodd Goleg Dewi Sant, Llambed ac yna, Coleg Ridley, Caergrawnt. Treuliodd dair blynedd yn addysgu Saesneg ac Ysgrythur yn ysgol Tinkers Farm, cyn cael ei ordeinio yn offeiriad. Gwasanaethodd yn Eglwys Gadeiriol Caerloyw ac yna yn Christ Church, Cheltenham.

Priododd Millam â Jillian Helen Ridgway yn 1960; cawsant bedwar o blant Rosalind Caroline, Kevin John, Sarah Elizabeth ac Andrew Peter.

Yn 1966, daeth Millam yn uwch (ac unig) gaplan Eglwys Gadeiriol Christ Church, Port Stanley, prifddinas Ynysoedd Falkland. Cafodd y teulu groeso cynnes; meddai Millam yn ddiweddarach bod pobl yn ei ystyried yn fachgen lleol a oedd wedi codi yn y byd. Yn ogystal â bod yn weinidog gweinyddol, roedd ei ddyletswyddau yn cynnwys agor y cyngor deddfwriaethol gyda gweddïau a gwasanaethu'r genhadaeth i forwyr. A dweud y gwir, ar achlysur, byddai'r barnwr gweithredol yn cyfeirio achosion llys ato, pe bai e'n meddwl y gallai'r 'padre' ddatrys yn foddhaol anghydfodau cartref. Gwnaeth Millam ymweld â phob rhan o'r ynysoedd, yn teithio mewn Land Rover, awyren fôr Beaver, cwch, ar gefn ceffyl neu ar droed i gynnal priodasau, bedyddiadau a chyfarfodydd gweddi, Cyrhaeddodd South Georgia yn 1967, ac yno, gwnaeth weddïo wrth ochr bedd Syr Ernest Shackleton ac arwain gwasanaeth yn eglwys Grytviken. Ym mis Mawrth 1968, gwnaeth allforio chwe deg o bengwiniaid i Loegr ar gyfer Len Hill o Birdland, Swydd Gaerloyw; dim ond un aderyn bu farw ar y ffordd.

Dim ond ar ôl ychydig o fisoedd ers i Millam gyrraedd Ynysoedd Falkland, roedd ef yn un o ddau offeiriad a gafodd eu hymglymu yn yr ymgais i herwgipio un o awyrennau cwmni hedfan Aerolinas Argentina. Roedd grŵp o genedlaetholwyr asgell dde o'r Ariannin, aelodau o'r grŵp 'Condor', wedi cipio awyren DC-4 gan orfodi'r peilot ei hedfan i Port Stanley. Yna, bu rhaid i'r awyren lanio dan orfod ar y cae rasio. Cafodd Millam, yn ogystal â Phrif Swyddog yr Heddlu, a phum aelod o arsiwn y Môr-filwyr Brenhinol, eu cymryd yn wystl pan wnaeth ef gynnig help. Gwnaeth yr herwgipwyr adael iddo fynd i roi gwybod i'r llywodraethwr gweithredol eu bod nhw wedi dod i 'ryddhau'r ynysoedd rhag gormes gan y Prydeinwyr.' Gwnaeth Millam, ynghyd â Thad Rodolfo Roel, offeiriad Catholig a oedd yn medru siarad Sbaeneg, ddychwelyd i'r awyren er mwyn trefnu bod y menywod a'r plant yn cael eu rhyddhau. Yng nghanol y dryswch, llwyddodd ef smyglo Terry Peck, Prif Swyddog yr Heddlu, drwy ei guddio dan ei fentyll clerigol, a'i roi ar gefn Land Rover! Ar ôl i'r herwgipwyr dreulio noswaith oer dros ben heb fwyd na dŵr, llwyddodd y ddau offeiriad sicrhau eu hildiad, gan ryddhau gweddill y gwystlon. Meddai Millam yn ddiweddarach 'This earned me a free drink in any Royal Marine Mess!'

Roedd ail hanner y 1960au yn wleidyddol gynhyrfus i'r Ynysoedd Falkland. Gwnaeth gweinidog Swyddfa Dramor Prydain, yr Arglwydd Chalfont, ymweld â nhw ym mis Hydref 1968, gan obeithio perswadio'r ynyswyr i adael yr Ariannin ymwneud â'u busnes. Gofynnwyd i'r teulu Millam ei dderbyn a threfnu te ar ei gyfer, ac yno, gwnaeth gwrdd â rhai o aelodau cynulleidfa'r eglwys gadeiriol. Yn ddiweddarach, ysgrifennodd Millam, 'Lord Chalfont confidently expected that an

English-born, -bred and -trained Anglican contract priest would hold “sensible” views regarding relations with Argentina. I am proud to say that he left the deanery almost a broken man.’ Yn hwyrach y noswaith honno, gwnaeth Chalfont wynebu cyfarfod cyhoeddus gelyniaethus yn Neuadd Dref Port Stanley. O hynny ymlaen, bu Millam yn gefnogwr brwd o’r ymgyrch ‘Keep the Falklands British.’



Gwnaeth Millam ddychwelyd i Loegr ym mis Mehefin 1970. Parhaodd yn ddi-ball ffyddlon i’r Ynysoedd Falkland am weddill ei oes a gwnaeth ymladd yn ddiflino dros yr ynysoedd yn y cyfryngau ac mewn pwyllgorau. Roedd yn aelod sefydlol ac yn swyddog lles Pwyllgor Ynysoedd Falkland. Ar ôl y goresgyniad gan yr Ariannin yn 1982, ef oedd y cyntaf i ddarlledu i’r ynyswyr ar Wasanaeth Byd y BBC; darllenodd yr ail wers yng Ngosber yr Ynysoedd Falkland yn Eglwys Gadeiriol St Paul ar Sul y Blodau canlynol. Cymerodd ran hefyd yn y broses o gael dinasyddiaeth Brydeinig lawn i drigolion Ynysoedd Falkland, yn ogystal â hawl preswylio. Tuag at ddiwedd ei fywyd, pan oedd yn ddifrifol sâl, gwnaeth ymadael â’i wely yn yr ysbyty i arwain y gwasanaeth wrth y Gofadail a wnaeth goffáu pen-blwydd y fuddugoliaeth lyngesol a drodd y fantol, sef Brwydr yr Ynysoedd Falkland, 1914.

Gweithiodd Millam fel ficer Pulloxhill â Flitton o 1970 tan 1979, yn St Paul Luton rhwng 1979-1989 ac yna, yn Chipping Camden ag Ebrington o 1989 i 1994. Yn 1992, roedd yn gaplan i Uchel Siryf Swydd Gaerloyw. Gwnaeth iechyd gwael olygu y byddai rhaid iddo ymddeol yn gynnar, yn 1994. Gwnaeth un o’i lythyrau at y *Daily Telegraph* ddisgrifio gwerthiant ei lyfrgell o lyfrau diwinyddiaeth, a gasglwyd ganddo dros gyfnod o ddeugain mlynedd, am £170 yn unig. Mewn cyferbyniad, gwnaeth calendr Pirelli, yn dal yn ei focs, ac yn dyddio o’r 1980au cynnar, a roddwyd iddo gan ei fodurdy fel ‘jôc ddrwg’, werthu am £200!

Bu farw Millam yn Ysbyty St Richard, Chichester, ar Fehefin 8fed 2010, yn saith deg a phedair blwydd oed.

**Ffynonellau**

Dictionary of Falklands Biography including South Georgia. (2018). Millam, Peter John 1936-2010. Adalwyd ar Fedi 15 2020 oddi wrth https://www.falklandsbiographies.org/biographies/327

The Reverend Peter Millam. (2010, July 9). *Daily Telegraph.* Adalwyd oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/130E036E723F3478?p=UKNB

Daily Telegraph Correspondent. (1966, September 30). Islanders Keep Watch as Invaders Shiver. *Daily Telegraph*, 30. . Adalwyd oddi wrth https://link.gale.com/apps/doc/IO0704764560/TGRH?u=nlw_ttda&sid=TGRH&xid=b2217f6e

Millam, P. (2001, November 30). Tea but no sympathy. *Daily Telegraph. .* Adalwyd oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/0F2B73578D7370B5?p=UKNB

Millam, P. (1994, May 20). Snapped up. *Daily Telegraph. .* Adalwyd oddi wrth https://go.gale.com/ps/retrieve.do?tabID=Newspapers&resultListType=RESULT_LIST&searchResultsType=SingleTab&hitCount=2&searchType=AdvancedSearchForm&currentPosition=2&docId=GALE%7CIO0701920089&docType=Letter+to+the+editor&sort=Pub+Date+Forward+Chron&contentSegment=ZTHA-MOD1&prodId=TGRH&pageNum=1&contentSet=GALE%7CIO0701920089&searchId=R4&userGroupName=nlw_ttda&inPS=true

Millam, P. (2002). A Falklands link. *The Link 55,* 5-7

# Alfred Edwin Morris

Meddai Alfred Edwin Morris (1894-1971) amdano'i hun, 'Fi oedd y Sais cyntaf i ddod yn archesgob Cymru ac mae'n debyg mai fi fydd yr olaf hefyd.'

Daeth Morris o Lye, ger Stourbridge. Ef oedd yr hynaf o bedwar mab Alfred Morris, gemydd, a'i wraig Maria Beatrice, née Lickert. Roedd ei ysgol gyntaf yn Stambermill, Swydd Gaerwrangon; wedyn aeth i Ysgol Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Gwasanaethodd yng Nghorfflu Meddygol Brenhinol y Fyddin yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ar ôl i'r rhyfel ddod i ben, enillodd Morris brif ysgoloriaeth hŷn i astudio yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Daeth yn brif ysgolhaig ac ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Diwinyddiaeth yn 1922. Yn ystod ei gyfnod yno, enillodd y wobr Hebraeg ddwywaith, ynghyd â gwobr Bates a'r wobr ddiwinyddol. Aeth yn ei flaen i Goleg Sant Ioan Rhydychen, lle, ddwy flynedd yn ddiweddarach, enillodd radd dosbarth cyntaf arall mewn Diwinyddiaeth. Yn Rhydychen, enillodd wobr iau Cyfieithiad y Deg a Thrigain yn 1923 a gwobr iau'r Testament Groeg yn 1924. Aeth ei symudiad nesaf ag ef yn ôl i Lambed, lle cafodd ei benodi'n Athro Hebraeg a Diwinyddiaeth i ddilyn Tyrrell Green. Cafodd ei urddo'n ddiacon yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn ddiweddarach y flwyddyn honno ac yn offeiriad yn 1925. Hefyd yn 1925, priododd ag Emily Louisa Davis; cafodd y pâr bedwar mab ac un ferch.

Yn 1932, cymerodd Morris ei radd BD yn Llanbedr Pont Steffan; hola Price ai hon yw'r unig enghraifft o bennaeth adran yn dod yn fyfyriwr ôl-raddedig yn ei adran ei hun! Gallai Morris fod yn ddadleuol a bu ychydig o wrthdaro ag aelodau eraill y staff. Fe'i cyhuddwyd gan un o'i gydweithiwr o geisio dysgu Cymraeg gyda'r bwriad o ddod yn esgob. Rhoddodd y gorau ar unwaith i'w ymdrechion i ddysgu'r iaith. Mewn hunangofiant anghyhoeddiedig, meddai Morris 'The innuendo wounded me so deeply that I resolved there and then that I would never lend any colour to it, and I at once dropped my attempt to learn Welsh.' Roedd Morris hefyd yn rhan o ffrae hir â'r Athro William Henry Harris.


Etholwyd Morris yn henadur bwrdeistref Llanbedr Pont Steffan yn 1936 a gwasanaethodd yn faer Llambed yn 1942.

Arhosodd Morris yn Llambed nes iddo gael ei benodi'n esgob Trefynwy yn 1945. Hwn oedd y tro cyntaf iddo gael ei gyflogi gan yr Eglwys; ni fu erioed yn offeiriad plwyf. Yn ei rôl newydd, ysgrifennodd dri llyfr yn eithaf cyflym ar ôl ei gilydd, *The Church in Wales and Nonconformity* (1949), *The Problem of Life and Death* (1950) a *The Catholicity of the Book of Common Prayer* (1952). Ym 1957, fe'i hetholwyd yn archesgob Cymru, (gan barhau'n esgob Trefynwy). Roedd yr Esgob W. Glyn H. Simon o Landaf yn feirniadol o'i benodiad, gan ystyried Morris yn Sais i'r carn. Fodd bynnag, gorfu gyfaddef bod Morris yn ddiwinydd da.

Unwaith eto, nid oedd ofn dadleuon ar Morris. Roedd yn ddyn cadarn ei farn ac yn anaml iawn y byddai'n tawelu er mwyn cadw'r ddysgl yn wastad. Wrth bregethu yn Abaty Westminster yn 1952, dywedodd mai dogfen wladol oedd y llw y byddai'r frenhines yn ei dyngu adeg ei choroni. Nid oedd yn dilyn y dylai aelodau Eglwys Loegr dderbyn yr ymadrodd 'y grefydd ddiwygiedig Brotestannaidd a sefydlwyd yn ôl y gyfraith' yn ddisgrifiad o'u ffydd eu hunain. Disgrifiodd hefyd anghydffurfwyr a Chatholigion yn dresbaswyr, gan ddatgan mai'r Eglwys yng Nghymru yw'r 'Church in this land, and we cannot, without denying our very nature, yield one iota of this claim'. Yn 1961, ymwthiodd i un o ddadleuon 'y capel a'r llan' ynghylch agor tafarndai agor ar y Sul. Cyhoeddodd lyfryn yn dadlau bod alcohol yn rhodd gan Dduw, er ei fod yn beryglus i rai ac y dylent ei osgoi. 'There is no difference in drinking on Sunday and in drinking on any other day,' meddai.

Roedd Morris yn adnabyddus iawn, yn annibynnol ei feddwl ac yn ddewr. Ffurfiodd ei farn ei hun, ar ôl treulio cryn dipyn o amser yn astudio'r pwnc a mynegodd y farn honno'n groyw bob tro. Roedd yn well awdur na siaradwr; braidd yn ddiflas oedd ei arddull wrth bregethu. Roedd hyd yn oed ei wrthwynebwyr yn cydnabod ei ddidwylledd.

Roedd Morris yn gefnogwr cryf iawn i Goleg Dewi Sant gydol ei oes; dywedodd unwaith fod ganddo gariad 'o waelod calon' at y sefydliad. Ymddeolodd yn 1967, gan symud yn ôl i Lanfair  Clydogau, ychydig y tu allan i Lambed. Bu farw yn  Hafdir, Llanbedr Pont Steffan, ar 19 Hydref 1971.



Alfred Edwin Morris

**Ffynonellau**

Peart-Binns, J.S. (1985). Arglwydd Archesgob Cymru. Alfred Edwin Morris – election and aftermath. *Journal of Welsh ecclesiastical history.* 2,55-86. Canfuwyd yn https://journals.library.wales/view/1127665/1127759/60#?cv=60&m=1&h=&c=0&s=0&manifest=https%3A%2F%2Fdamsssl.llgc.org.uk%2Fiiif%2F2.0%2F1127665%2Fmanifest.json&xywh=-1594%2C0%2C5534%2C3387. [Darllenwyd 5 Mai 2020]

Price, D.T.W. (1990). *A history of Saint David's University College Lampeter. Volume two: 1898-1971.* University of Wales Press

Obituary Most Revd Dr A.E. Morris former archbishop of Wales. (1971, October 20). Canfuwyd yn https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS271152468/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=aced7050

Witton-Davies, C.  (2004, September 23). Morris, (Alfred) Edwin (1894–1971), archbishop of Wales. *Oxford Dictionary of National Biography.* Canfuwyd 5 Meh. 2020, yn https://www-oxforddnb-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-31467

## Charles Herbert Morris
**1892-1917**



Ganwyd Charles Herbert Morris yn Y Trallwng yn 1892; ef oedd yr ieuaf o ddau ar bymtheg o blant a anwyd i William a Jane Morris. Roedd y rhan fwyaf o aelodau'r teulu Morris yn gweithio i'r diwydiant dillad lleol, ac yn cael eu cyflogi naill ai fel dilledyddion, gwniyddesau neu hetwyr.

Ond nid oedd Charles yn bwriadu dilyn a gwneud yr un fath o waith â'i deulu, ac wedi astudio'n flaenorol yn yr Ysgol Goleg, ymgofrestrodd yng Ngholeg Dewi Sant yn 1912, gyda'r bwriad o ymuno â'r Weinidogaeth. Nid oedd cyflawniadau academaidd Charles cystal â'i allu ar y maes chwaraeon. Yn ystod ei gyfnod yn Llambed, chwaraeodd Charles i'r ail dîm rygbi XV, i'r tîm hoci ac i'r tîm pêl-droed; enillodd ei gap gyda'r tîm pêl-droed XI cyntaf. Fel athletwr unigol, daeth yn ail yn y ras glwydi ym mabolgampau'r Coleg 1914, a daeth yn gyntaf yn y naid uchel.

Dim ond pum mis ar ôl iddo gystadlu yn y mabolgampau, gwnaeth Charles adael ei astudiaethau y tu cefn iddo ac ymuno â Bataliwn Pals Gogledd Cymru. Cafodd gomisiwn gyda'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, a gwnaeth wasanaethu gyda nhw mewn llawer o frwydrau'r Ffrynt Gorllewinol. Yn 1916, ymladdodd ef yn y Somme, ym Mrwydr Coedwig Mametz, lle gwnaeth ei gatrawd ddioddef yn ofnadwy o ran niferoedd mawr yr anafedigion a'r meirw. Yn ystod haf 1916, neilltuwyd Charles yn arsyllwr i Sgwadron 59 Y Corfflu Hedfan Brenhinol, ac yn ystod y gwanwyn canlynol, neilltuwyd ef i ffotograffio targedau ar gyfer y Magnelwyr Brenhinol yn yr ardal o gwmpas Étaing er mwyn cefnogi ymosodiad y gwanwyn ar Arras.

O hynny ymlaen, cafodd mis Ebrill 1917 ei alw'n 'Bloody April' ymhlith y Corfflu Hedfan Brenhinol. Cafodd dros draean o aelodau'r Corfflu Hedfan Brenhinol eu hanafu, a gwnaeth disgwyliad oes is-swyddog newydd yn y rheng flaen ddisgyn ar gyfartaledd i un ar ddeg

diwrnod yn unig. Roedd awyren ddwbl, ddwy sedd R8 Charles ar gyfer rhagarchwilio strategol a bomio yn un o chwe awyren yn ei sgwadron a gafodd eu saethu i lawr mewn un diwrnod yn unig gan grŵp o Sgowtiaid Albatros yr Almaenwyr a oedd ar sail dechnegol yn uwchraddol. Cawsant eu harwain gan Rittmeister Manfred von Richthofen, 'Y Barwn Coch'. Cafwyd y newyddion bod Charles ar goll ar Ebrill 13 1917, ond daethpwyd fyth o hyd i'w gorff. Roedd yn bum mlwydd ar hugain oed.

Caiff ei goffáu ar y gofeb yn Arras ar gyfer y Gwasanaethau Hedfan, ar Restr y Gwroniaid yn y Coleg, ac ar gofgolofn ryfel Rhyl, cartref ei chwaer. Bu farw Edwin, brawd Charles, y flwyddyn flaenorol yn ymladd gyda Lluoedd Canada, ac mae'r ddau frawd yn cael eu cyd-anrhydeddu ar blac a osodwyd gan eu teulu yn Eglwys Crist, yn nhref eu cartref, sef Y Trallwng.

Hysbysiad 'Ar goll' a gyhoeddwyd yn y *Llangollen Advertiser*, Ebrill 27ain 1917,

"Lieutenant Morris has been in much fighting on the Western Front and took part in the taking of Mametz Wood, in which engagement he was one of three officers in his regiment who came out unscathed."

**Ffynonellau:**

Roberts, S. (2018). *1918-2018 A Commemoration. Saint David's College, Lampeter.* Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

# Eric Morris



Mae Eric Morris yn hanesydd milwrol, a wnaeth addysgu yn Academi Filwrol Frenhinol Sandhurst cyn dod yn ymgynghorydd a sylwebydd blaenllaw ar faterion geo-strategol rhyngwladol, sy'n amrywio o'r cyfleoedd masnachol a wnaeth godi pan ddaeth y Rhyfel Oer i ben, i'r bygythiad gan derfysgaeth radicalaidd. Roedd ef yn gynigydd cynnar bod angen seiberddiogelwch er mwyn diogelu buddiannau cenedlaethol critigol.

Roedd tad Morris, Clifford Morris, yn ddyn busnes yng Nghaerdydd. Wedi'i enwi ar ôl ei dad, yn ystod ei fachgendod, mynychodd Clifford Eric Morris Ysgol Uwchradd Howardian, Caerdydd, cyn mynd i Goleg Dewi Sant i astudio hanes yn 1959. Yr Athro Hanes yn Llambed bryd hynny oedd Daniel Dawson. Yn drist, roedd gan Dawson anableddau sylweddol, o ganlyniad ei anafau yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae Morris yn cofio ei gasglu o'i gartref ar Heol y Bryn a'i ddychwelyd unwaith eto i'w gartref. Meddai ef 'Cafodd yr Athro Danny ddylanwad dwys ar fy mywyd proffesiynol, a gwnaeth ef ennyn fy niddordeb mewn Hanes Milwrol... Heblaw am anogaeth gychwynnol Danny, rwy'n amau y byddai'r cyfleoedd (diweddarach) hynny wedi dod fy ffordd.'

Ar ôl graddio, aeth Morris ymlaen i astudio am ddiploma ôl-raddedig mewn addysg ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd, ac yna am radd MA Gwleidyddiaeth Gorllewin Ewrop ym Mhrifysgol Caerlŷr. Swydd academaidd gyntaf Morris oedd darlithydd hanes rhyngwladol yn ysgol ôl-raddedig Gwleidyddiaeth Ewropeaidd Prifysgol Lerpwl. Yn ystod ei gyfnod yno, cafodd ei secondio i Bencadlys Rheolaeth Orllewinol Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig, Caerllion. Roedd ei rôl yno yn ymwneud ag addysgu hanes milwrol a pherthnasau rhyngwladol i fyfyrwyr newydd y Coleg Staff. Ochr yn ochr â hyn, roedd ef hefyd yn ddarlithydd gwadd perthnasau rhyngwladol ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth.

Yn 1970, symudodd Morris i Academi Filwrol Frenhinol Sandhurst, lle gwnaeth ef addysgu amrywiaeth eang o gyrsiau Astudiaethau Strategol a Pherthnasau Rhyngwladol. Fel Dirprwy Bennaeth Astudiaethau Rhyfel, daeth ef yn rhan o dîm o sifiliaid a addysgodd pawb a oedd, yn y dyfodol, am fod yn swyddog yn y Fyddin Brydeinig am draddodiadau eu proffesiwn. Mae Martin Walker wedi dweud roedd y tiwtoriaid yn debyg i rywbeth rhwng melin drafod a llinell gydosod, lle byddai pawb yn ysgrifennu'n helaeth, ond hefyd yn cynnig syniadau dwfn am wir natur rhyfel ei hun.

Gwnaeth academyddion Sandhurst gydnabod yn fwyfwy pwysigrwydd cofnodi atgofion cynfilwyr. Gwnaeth Morris gyfweld â chynfilwyr glaniadau Salerno 1943. Mewn cyferbyniad â hyn, gwnaeth ef hefyd gyflwyno a datblygu hapchwarae argyfwng, yn gyntaf ar gyfer y lluoedd milwrol, ac yna, ar gyfer diwydiant yn gyffredinol.

Ymadawodd Morris â Sandhurst yn 1984; ar y cychwyn, ymunodd ef â chwmni diogelu bwtigau fel ymgynghorydd i Weinyddiaeth Materion Tramor Sawdi-Arabia. Yna, ddwy flynedd wedyn, sefydlodd ef ei ymgynghoriaeth geo-wleidyddiaeth a gwrthderfysgaeth ryngwladol ei hun. Ochr yn ochr ag ysgrifennu a darlithio, adeiladodd ef dîm yn cynnwys saith aelod o staff amser llawn a nifer o aelodau staff rhan-amser, gan gynghori, ymhlith eraill, BAE Systems ynglŷn â materion geo-wleidyddol; ysgrifennu a pharatoi ymarferion efelychu ar gyfer gwasanaethau argyfwng y DU ar gynllunio mewn argyfwng pe bai ymosodiadau cemegol neu fiolegol yn digwydd; cyfrannu at sylwebaeth deledu brif ffrwd yr Unol Daleithiau a'r DU ar derfysgaeth, gan gynnwys y BBC yn Llundain ac yng Nghymru, ac arwain ar ysgrifennu a datblygu Janes World Insurgency and Terrorism, un o'r pyrth ar-lein cyntaf ar gyfer busnesau ac academyddion.

Yn 2004, ymunodd ymgynghoriaeth Morris â'r Good Governance Group, G3, a ddaeth yn un o gwmnïau cudd-wybodaeth busnes blaenllaw Llundain. Yn rhinwedd ei swydd fel cadeirydd gweithredol ar gyfer y Dwyrain Canol, gwnaeth Morris gynghori llywodraethau, cwmnïau a buddsoddwyr cyfoethog ar faterion yn ymwneud â geo-wleidyddiaeth a diogelwch, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y Dwyrain Canol a De Asia. Daeth ef yn uwch fentor ac ymghynghorydd i Uwch Reolaeth NATO o ran perthnasau sifil / milwrol, datrysiadau gwrthdaro a gweithrediadau cefnogi heddwch, gan helpu paratoi uwch swyddogion ar gyfer gweithrediadau yn Afghanistan ac Irac. Gwnaeth hefyd gynghori Pwyllgor Dethol Amddiffyn Tŷ'r Cyffredin ac arwain reidiau meysydd brwydr yr uwch reolaeth, yn bennaf ar ryfelgyrch Eidalaidd yr Ail Ryfel Byd. Gweithgareddau hyfforddi milwrol ffurfiol sy'n canolbwyntio ar ddadansoddi rhyw ryfelgyrch neu frwydr gynt yw'r reidiau staff hyn. Gwnaeth Morris ddarlithio yn rheolaidd ar amrywiaeth o faterion cwnstablaidd a oedd yn ymwneud â geo-wleidyddiaeth, diogelwch neu faterion morwrol, ac annerch asiantaethau cudd-wybodaeth cynghreiriol y DU, academïau amddiffyn, colegau'r heddlu ac arweinwyr gwledydd datblygol, gan gynnwys rhai yn y Gwlff, De-ddwyrain Asia, Pakistan, a De Affrica wedi'r apartheid.

Gwnaeth Morris ymddeol o G3 yn 2015, gan ailsefydlu ei gwmni ei hun. Ers hynny, mae ef wedi bod yn uwch-ymgynghorydd i lywodraeth Oman ar faterion polisi tramor.

Mae Morris yn, ac yn dal i fod, yn awdur cynhyrchiol. Ei lyfr cyntaf oedd *Blockade: Berlin and the Cold War,* (Hamish Hamilton, 1973), a wnaeth ddisgrifio rôl Berlin o ran achosion rhyngwladol o 1945 tan 1972. Meddai'r adolygydd ar gyfer *The Times,* 'Mr Morris's world-strategic view of the city is a refreshing one.' Yn *The Russian Navy: myth and reality* (Hamish Hamilton, 1977), gwnaeth Morris adolygu treftadaeth a chynnydd y llynges Sofietaidd a'i defnydd o'r polisi tramor. Meddai Kime, 'The student of foreign affairs who is not a specialist in military matters will be considerably informed by Eric Morris. His book contains much that the scholar needs to know in order to gain some appreciation of the complex factors affecting the development of contemporary Soviet naval power.'

Ar gyfer ei lyfr *Corregidor: the nightmare in the Philippines* (Hutchinson, 1981), gwnaeth Morris gyfweld â deugain o oroeswyr Ffilipino ac Americanaidd y rhyfelgyrch Philipinaidd 1941-42. Mae ef yn disgrifio'n glir ymdrechion y personél milwrol a meddygol a wnaeth ymladd a marw er mwyn rhoi amser i America i ymateb i'r ymosodiad gan y Japaneaid yn y Pasiffig. Mae'r disgrifiad canlyniadol yn bersonol ac yn hawdd iawn ei ddarllen. Yn ei lyfr *Circles of hell* (Hutchinson, 1993) a gafodd ei gymeradwyo gan y beirniaid, ysgrifennodd Morris ddisgrifiad heriol o'r rhyfel yn yr Eidal 1943-1945, wedi'i lunio o gwmpas ditment llym o gadfridogion y Cynghreiriaid. Meddai Watkins, 'Eric Morris

reveals the war in Italy in all its glory and squalor, from high-level political machinations to the terrors and privations of the individual soldier, in a style of writing that immediately engages the reader's attention and holds it throughout.' Mae Morris hefyd wedi cyfrannu at lawer o lyfrau a chyfnodolion eraill. Mae ef ar hyn o bryd yn ymchwilio i, ac yn ysgrifennu llyfr am dad Pamela, ei wraig, a'i wasanaeth fel cyfeiriwr i'r Rheolaeth Awyrennau Bomio. Cafodd ei saethu i lawr a'i ladd mewn cyrch awyr uwchben yr Almaen.

Mae Morris yn briod â Pamela, sydd yn gyn-athrawes. Mae ganddynt ddau o blant, Christopher, sy'n feddyg, a Leah, a wnaeth ei ddilyn i weithio yn y busnes diogelwch / cudd-wybodaeth, a phump o wyrion / wyresau, un ohonynt hefyd yn awdur.  Heblaw am ei astudiaethau milwrol, roedd ef yn ynad am dros ddeng mlynedd ar fainc Bro Morgannwg.

**Ffynonellau**

Professor Danny Dawson – a further tribute. (2016). *The Link extra.* Adalwyd ar Orffennaf 23 2021 oddi wrth https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/alumni/lampeter-society/The-Link-Extra-2016.pdf

Walker, M. (1981, December 19). Giving the unblooded a view of the past. *The Guardian*.  Adalwyd ar Awst 9 2021 oddi wrth https://www.proquest.com/historical-newspapers/giving-unblooded-view-past/docview/186313280/se-2?accountid=12799

Generous donors whose funds kept Werritty in business – G3 big player in strategic analysis run by Reagan's troubleshooter. (2011, October 14). *The Times.* Adalwyd ar Awst 9 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&docref=news/13A6188216CBDC78.

Quick guide. (1973, March 15). *Times.* Adalwyd ar Awst 10 2021 oddi wrth https://link.gale.com/apps/doc/CS169703535/TTDA?u=nlw_ttda&sid=bookmark-TTDA&xid=6032bc54

Kine, S.F. (1978). [Review of the book *The Russian navy: myth and reality,* by E. Morris]. *Slavic Review, 37*(3), 506-507 Adalwyd ar Awst 10 2021 oddi wrth https://www.jstor.org/stable/2497702

Watkins, D.L. (1994). [Review of *Circles of hell,* by E. Morris]. *Military Review, 74*(6), 86-87. Adalwyd ar Awst 10 2021 oddi wrth https://books.google.co.uk/books?id=qI0ujKXGxZIC&pg=PA86&lpg=PA86&dq=%22eric+morris%22+%22circles+of+hell%22&source=bl&ots=rVR-znk1ej&sig=ACfU3U1xUhRhautL-6Y0yWVtFjFAJYu9ew&hl=en&sa=X&ved=2ahUKEwiJgIXXqabyAhU8VRUIHde4DB84HhDoAXoECBYQAw#v=onepage&q=%22eric%20morris%22%20%22circles%20of%20hell%22&f=false

## Adrian Mourby



Mae Adrian Mourby yn fwyaf adnabyddus am fod yn newyddiadurwr, ysgrifennwr teithio a nofelydd, yn ogystal â chynhyrchydd dramâu ac operâu.

Roedd tad Mourby, Roy, yn athro o'r Trallwng, a oedd wedi gwasanaethu yn y Weinidogaeth Aer; ei fam oedd Peggy, Bradshaw gynt. Roedd y teulu'n byw ym Mirmingham. Aeth Adrian i Goleg Dewi Sant, Llambed, yn 1975. Yn benderfynol i gael gyrfa ym myd ffilm, roedd yn rhan o'r Clwb 'New Rhymers', lle cyfarwyddodd sioeau. Hefyd, fe gynhyrchodd ffilmiau byr a sioeau sleidiau tâp ar y campws. Ar ôl graddio, aeth ymlaen i Ysgol Ffilm Prifysgol Bryste. Pan yn fyfyriwr cafodd yrfa actio fer, yn chwarae dyn bar mewn tair pennod o'r gyfres dditectif *Shoestring.*

Symudodd nesaf i'r BBC a dyrchafodd i rolau cynhyrchydd a chyfarwyddwr dramâu teledu a radio. Yn arbennig, cynhyrchodd addasiad teledu o *The Old Devils* Syr Kingsley Amis, a enillodd nifer o wobrau rhyngwladol. Ar lefel llai uchel-ael, ysgrifennodd ar gyfer *The Archers* a bu'n olygydd y rhaglen hefyd. Yn 1992 gadawodd y BBC i fod yn ysgrifennydd ar ei liwt ei hun ac yn gyfarwyddwr opera achlysurol.

Mae Mourby wedi ysgrifennu tair nofel gyhoeddedig, ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar gyfres o chwe nofel. Ei ddarn cyntaf o waith ffuglen oedd *We think the world of him* (Hodder and Stoughton, 1995). Ar ôl colli ei swydd, daw Duncan Lewis yn ŵr tŷ; mae ei wraig yn dychwelyd i weithio'n llawn amser. Ei lyfr nesaf oedd *The four of us* (Sceptre, 1997), yn trin a thrafod David Mosford, darlithydd hanes mewn prifysgol yng Nghymru. Mae *Wishdaughter* (Gwasg Seren, 2004) yn llyfr mwy tywyll. Mae gohebydd opera, Bill Wheeler, yn teithio i Israel i ymchwilio i Richard Wagner. Mae'n darganfod llythyr y dywedir ei fod mor llidiol y bydd yn sicrhau na fydd gweithiau Richard Wagner byth yn cael eu chwarae yn Israel. Ar hyn o bryd, mae Mourby yn gweithio ar gyfres o chwech o lyfrau; o'r rhain, mae *Dancing in the desert, Faithful in my fashion* ac *A dark & knowing forest* yn gyflawn ac yn aros i gael eu cyhoeddi.

Ysgrifennodd Mourby ddwy gyfres o gomedi *Whatever happened to...?* BBC Radio 4, yn disgrifio bywyd tragwyddol gwahanol gymeriadau o ffuglen plant. Mae'r chwiorydd hyll, a chwaraewyd gan Prunella Scales ac Eleanor Bron, yn cyflwyno'u hunain fel dioddefwyr llofruddiad cymeriad gan heddlu cudd Cinderella. Caiff y Blaidd Mawr Drwg, sydd wedi lladd Hugain Fach Goch a'r Tri Mochyn Bach, ei ddatgan yn ddieuog. Yn werthwr ffenestri, mae gan y blaidd bob hawl i fod ar do tŷ'r moch. Caiff mam-gu Miss Hood ei phortreadu fel dynes sy'n 'hoff o'i hwyl' ac yn mwynhau cael ei chlymu. Enillodd Mourby Wobr Arian Sony am Ysgrifennu Creadigol ar y Radio am y gyfres. Dilynodd hwn gyda llyfr o'r enw *Whatever happened to...?: the ultimate sequels* (Souvenir, 1997). Roedd y cymeriadau yn hwn yn cynnwys Jane Eyre, Jim Hawkins o *Treasure Island* a Dorothy Gale o *The Wonderful Wizard of Oz.*

Mae Mourby wedi teithio ac ysgrifennu am deithio'n helaeth, gan ymweld â thros ugain o wledydd yn 2008, er enghraifft. Mae wedi cerdded ar Mur Mawr Tsieina, wedi rhoi troed ar dir Antarctica, eistedd gyda gorilaod yn Rwanda ac wedi bod ar saffari yn Nhanzania, Botswana a Namibia. Yn 2017, cyhoeddodd *Rooms of one's own: 50 places that made literary history,* (Icon Books). Dilynodd ei arwyr llenyddol o gwmpas y byd, gan geisio archwilio mannau byw a gweithio ysgrifenwyr enwog. Roedd y lleoedd a drafodai'n amrywio o Rydychen J.R.R Tolkien i Fangkok Somerset Maugham i Baris James Joyce a Fenis George Sand. Cafodd y gyfrol ei chanmol yn fawr yng nghategori Llyfr Teithio Naratif Orau gwobrau *2018 British Guild of Travel Writers.* Yn *Rooms with a view: the secret life of grand hotels* (Icon, 2018), adroddodd Mourby hanesion cyfrinachol pumdeg o westai mwyaf crand y byd. Mae e hefyd wedi ysgrifennu llyfrau tywys yr AA i Fenis (2007) a Brwsel a Bruges (2008), yn ogystal â chyfrannu at nifer o lyfrau tywys *Eyewitness* Dorling Kindersley.

Efallai bod Mourby yn fwyaf enwog am fod yn ddilynwr opera brwd. Mae e wedi cynhyrchu sawl opera, yn cynnwys *Semele* Handel, (llwyfannwyd ym Malta, 2002); *Così fan tutte* Mozart (Rhydychen, 2004), a *Marriage of Figaro* Mozart (Gŵyl Blewbury, 2006). Mae Mourby hefyd wedi ysgrifennu nifer o draethodau rhaglenni: mae'r cwmnïau y mae e wedi gweithio gyda nhw'n cynnwys Opera Brenhinol Covent Garden, English National Opera, y Wienerstaatsoper a'r Grand Théâtre de Genève. Mae'n golofnydd ar gyfer cylchgrawn *Opera now* ac ef oedd crëwr ac ysgrifennwr *Tristan and Matilda*, stribed comig hir-sefydlog yn y cylchgrawn hwnnw. Yn 2007, enillodd Wobr Arbennig ar gyfer Newyddiaduraeth Opera flynyddol y Fondazione Festival Pucciniamo. Mae'n arwain teithiau opera i'r Eidal bron bob haf.

Mae Mourby wedi ysgrifennu i'r rhan fwyaf o bapurau newydd o 'ansawdd' Prydain, yn cynnwys llawer, llawer iawn o erthyglau yn *The Independent*, *The Guardian* a'r *Times Educational Supplement*. Ar hyn o bryd, mae'n cyfrannu'n rheolaidd at gylchgrawn teithio'r *Sunday Times*. Dywed Mourby ei fod, fel bron â bod pob ysgrifennwr Prydeinig, yn byw yng Ngogledd Rhydychen gyda'i wraig a dwy gath!

**Ffynonellau**


Llyfrgell Llinach. (n.d.). *Llyfrgell Llinach.* Adalwyd ar 2 Mehefin 2020, o https://www.ancestrylibraryedition.co.uk/

Mourby, A. (2013, 15 Meh). The Guardian: Family: 'I'll never measure up to my dad': My father had a dignity that few men show these days, says Adrian Mourby. He was a good husband, parent and grandfather. In short, he was a grownup. *Guardian, The (Llundain, Lloegr)*. Adalwyd o https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/146F01BEC286B698?p=UKNB

Mourby, A. (2013, 30 Meh). The Guardian: Family: ' A celebration of Roy and Peggy: After his mother's death, Adrian Mourby had to sort out the house in which he'd grown up. It was a challenge, dismantling what was left after more than 60 years of an exceptionally happy marriage. *Guardian, The (Llundain, Lloegr).* Adalwyd o https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/14A6B860D7F96F98?p=UKNB

Mourby, A. (2020). Adrian Mourby. Adalwyd ar 3 Mehefin 2020, o https://librarydevelopment.group.shef.ac.uk/referencing/apa.html.

Hoyle, M. (1995, 14 Hyd). Arts: Jokes, cliches and media-talk - Radio. *Financial Times (Llundain, Lloegr)*, t. XII.. Adalwyd o https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/113FBF18D3FB8580?p=UKNB

# Alan Morgan

Roedd pawb yn adnabod Alan Morgan (1940-2011), Esgob Swffragan Sherwood, fel ‘esgob y meysydd glo’.

Codwyd Morgan yng nghymoedd glo De Cymru, gyda dealltwriaeth dda o bobl y pyllau glo. Pan oedd yn ei arddegau, bu farw un o’i ewythrod o glefyd yr ysgyfaint a elwir niwmoconiosis, ac a achoswyd drwy fod ym mhresenoldeb llwch glo am gyfnod hir. Cafodd Morgan sioc pan wnaeth y Bwrdd Glo Cenedlaethol geisio peidio â rhoi lwfans glo bellach i’w weddw. Meddai ‘That was so unjust and it stayed with me for the rest of my life.’

Mynychodd Ysgol Ramadeg Fechgyn Tregŵyr cyn astudio athroniaeth a hanes yng Ngholeg Dewi Sant, Llambed. Ar ôl iddo raddio, cafodd ei hyfforddi ar gyfer cael ei ordeinio yng Ngholeg Mihangel Sant, Llandaf. Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn 1964 ac yn offeiriad yn 1965. Hefyd yn 1965, priododd ef â Patricia, ac aethant ymlaen i gael mab a merch, Jonathan ac Eleanor.

Roedd swyddi clerigol cyntaf Morgan wedi’u lleoli yn ôl yn Abertawe, fel curad cynorthwyol yn Llangyfelach a Threforys, ac wedyn yn y Cocyd. Ar ôl hynny, symudodd ef i Ganolbarth Gorllewin Lloegr ac i blwyf  St Mark a St Barnabas, Cofentri. Yn 1973, daeth yn ficer tîm St Barnabas. Ar ôl hyn, treuliodd bum mlynedd fel Swyddog yr Esgob â Chyfrifoldeb Cymdeithasol, eto yn esgobaeth Cofentri. Roedd yn Archddiacon Cofentri o 1983 tan 1989. Yn y rôl honno, bu’n weithgar iawn yn ystod streic hir y glowyr o 1984 i 1985.

Penodwyd Morgan yn Esgob Swffragan Sherwood yn 1989, ac felly yn esgob cynorthwyol yn gyfrifol am rannu a chynorthwyo Esgob esgobaethol Southwell a Nottingham. Digwyddodd hyn dim ond mewn pryd iddo fod yn dyst i gwymp terfynol y diwydiant glo, ac i brofi’r rhaglen cau pyllau yn ystod y 1990au. Rhwng 1980 a 1997, collodd maes glo Nottinghamshire bron 36 000 o swyddi. Erbyn 2000, dim ond pedwar pwll glo a 1900 o weithwyr oedd ar ôl. Ar ben hynny, collodd diwydiannau a oedd yn cyflenwi a gwasanaethu’r pyllau glo lawer o filoedd o swyddi ychwanegol. (Caewyd y gwaith glo olaf, sef Thoresby, yn 2015).


cc-by-sa/2.0 - Thoresby Colliery by Chris Allen - geograph.org.uk/p/3565195

Gwnaeth Morgan bopeth a oedd yn bosibl iddo ei wneud i brotestio yn erbyn cau'r pyllau glo. Gwnaeth gadeirio Grŵp Cefnogi Pwll Glo Mansfield, gan orymdeithio drwy ei dref er mwyn dangos ei wrthwynebiad. Gwnaeth ymladd yn aflwyddiannus dros y glowyr ar deledu lleol a chenedlaethol a gwnaeth hyd yn oed gwrdd â Gweinidog Ynni'r Blaid Geidwadol, Tim Eggar. Meddai Morgan, nes ymlaen, am y cau, 'When all that went, the whole community infrastructure collapsed. Every support structure went, as did their incomes – the only alternative employment was primarily for women who had been used to staying at home, or low-paid security jobs and driving taxis. Heads went down. There was no pride, no hope.'

Yn 1997, penodwyd Morgan yn aelod o Gyrchlu Maes Glo John Prescott, y Dirprwy Brif Weinidog. Gwnaeth adroddiad y Cyrchlu, *Making the Difference,* alw am bethau cael eu rhoi ar waith er mwyn codi safonau addysg, cynnig cymorth i ddechrau ac ehangu busnesau, ac i adennill 29 o safleoedd gynt y gweithiau glo. Gwnaeth hefyd argymell sefydlu rhwydwaith o Undebau Credyd, gyda chymorth ariannol y Loteri Genedlaethol, er mwyn helpu lliniaru dyledion ar yr aelwyd.

Daeth Morgan yn gadeirydd cyntaf Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, elusen annibynnol wedi'i hyrwyddo gan John Prescott a oedd yn cynnig grantiau ac yn canolbwyntio ar gymunedau'r meysydd glo gynt. Amcangyfrifir bod yr ymddiriedolaeth wedi gwasanaethu tua 4.8 miliwn o bobl a oedd yn byw mewn ardaloedd lle'r oedd o leiaf 10% o'r swyddi yn 1981 yn ymwneud â chloddio am lo. Gwnaeth gweithwyr rhanbarthol yr ymddiriedolaeth siarad â chymunedau, darganfod eu hanghenion a'u hannog i wneud ceisiadau am grantiau. Meddai Morgan 'Unlike a lot of organisations, it is not our intention to do things for the people, our goal is to enable the people to do things for themselves … The worth of the trust is revealed in a balance sheet that shows it has brought more than GBP 27m of investment into Notts coalfield communities – not just its own money, but also additional funding from other agencies and the private sector.'

Mewn cyferbyniad â hyn, roedd Morgan hefyd yn gadeirydd gweithgor Bwrdd Cyfrifoldeb Cymdeithasol Eglwys Loegr a wnaeth gynhyrchu adroddiad ar ddyfodol y teulu, *Something to Celebrate: valuing families in church and society,* (1995). Gwnaeth y ddogfen hon ailddatgan ymrwymiad yr Eglwys ynglŷn â phriodi. Ond gwnaeth hefyd alw ar yr Eglwys i gofleidio'r sawl syn cyd-fyw heb briodi gan ei rhybuddio rhag "judgmental attitudes about 'fornication' and 'living in sin'". Gwnaeth hefyd annog "ready welcome" i bobl hoyw.

Roedd Morgan yn ymwneud ag amrywiaeth eang o sefydliadu gwirfoddol. Roedd yn cadeirio Cyngor Cenedlaethol y Sefydliadau Gwirfoddol, roedd yn ymddiriedolwr Sefydliad Cymorth i Elusennau, ac yn llywydd Help the Helpless Nottinghamshire. Gwnaeth ymddeol yn 2004; ar Restr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd ganlynol, dyfarnwyd iddo OBE am wasanaethau i gymuned Nottinghamshire.

Bu farw ar Hydref 24 2011. Meddai Paul Butler, Esgob Southwell a Nottingham, amdano 'Bishop Alan was a tireless campaigner on behalf of the marginalised and the poor, and his time in the diocese was marked by his passion for justice and single-minded efforts to bring people together. He was also someone with a real human touch and compassionate approach to those of much faith and those of little.'

**Ffynonellau**

Bishop's tireless work breathed new life into mining communities. (Tachwedd 8 2011). *Nottingham Post.* Adalwyd ar Ionawr 19 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/13AE8A0355B3D4F8?p=UKNB

Morrison-Wells, J. (2012). The Rt. Revd. Alan Morgan OBE 1940-2011 – the coalfield bishop. *The Link, 65,*5. Adalwyd ar Ionawr 19 2021 oddi wrth http://www.sdtcom.co.uk/16_base/Lampeter%20Link/Link%202012.pdf

Faith, hope – no charity handouts. (Mawrth 4 2004). *Nottingham Evening Post.* Adalwyd ar Ionawr 19 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/1012177E72710BBA?p=UKNB

Morgan, Rt Rev. Alan Wyndham (Mehefin 22 1940 - Hydref 24 2011), Bishop Suffragan of Sherwood, 1989-2004. *Who's Who & Who Was Who.* Adalwyd ar Ionawr 19 2021 oddi wrth https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540891.001.0001/ww-9780199540884-e-34704?rskey=Ji7qPF&result=1

Brindle, D. (Medi 20 2000). Pits and the pendulum. *Guardian.* Adalwyd ar Ionawr 20 2021 oddi wrth https://www.theguardian.com/society/2000/sep/20/guardiansocietysupplement

Jones, S. (Mehefin 19 1998). National news: ministers urged to back mining communities. *Financial Times.* Adalwyd ar Ionawr 20 2021 oddi wrthhttps://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/113D71E3502529D8?p=UKNB

Wainwright, M. (Medi 17 1999). New trust given pounds 52m to regenerate coal towns. *Guardian.* Adalwyd ar Ionawr 20 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/0F274B966B04DC23?p=UKNB

Church warned 'living in sin' is outdated concept. (Mehefin 7 1995). *Independent.* Adalwyd ar Ionawr 20 2021 oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/131FED5FE378A0A0?p=UKNB

# **Paul Morgan**



Mae Paul Morgan wedi gweithio fel uwch arweinydd elusen iechyd meddwl genedlaethol, fel arbenigwr llyfrau hynafiaethol, ac wedi ysgrifennu nofelau, storïau, erthyglau ac adolygiadau.

Mae teulu Morgan yn dod o Gymru; mae teulu ei dad wedi byw am genedlaethau yn Llanfihangel-y-Creuddyn. Ganwyd ef yn Llundain, ond fe fagwyd ac addysgwyd ef yn Llundain ac yng Nghymru. Mae'n ddwyieithog, yn siarad Cymraeg yn ogystal â Saesneg. Ar ôl ymadael â'r ysgol, fe astudiodd Athroniaeth a Saesneg yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llambed. Gwnaeth raddio yn 1976, ac yna, fe astudiodd am radd MA wedi'i seilio ar waith yr awdur Vladimir Nabokov, sef awdur *Lolita*. Gwnaeth ei radd PhD, y dyfarnwyd iddo yn 1990, ymchwilio i ysgrifeniadau Richard Hughes, awdur *A High Wind in Jamaica* a *The Fox in the Attic.*

Yn ystod y 1980au, gwnaeth Morgan weithio fel arbenigwr llyfrau prin yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; roedd ei ddyletswyddau yn cynnwys edrych yn fanwl ar gatalogau gwerthwyr llyfrau er mwyn sicrhau nad oedd argraffiadau gwerthfawr yn cael eu gwerthu dramor. Ochr yn ochr â hyn, bu'n gweithio fel golygydd cynorthwyol y *New Welsh Review* yn ystod y blynyddoedd ar ôl i'r cyhoeddiad hwnnw ddisodli *The Anglo-Welsh Review. New Welsh Review* yw prif gylchgrawn llenyddol iaith Saesneg Cymru. Yn ystod y 1990au cynnar, bu Morgan hefyd yn olygydd *The Year's Work in English Studies,* yr adolygiad blynyddol o waith ysgolheigaidd ar yr iaith Saesneg a'i llenyddiaeth.

Yn 1991, gwnaeth ef benderfyniad enfawr i ymfudo i Awstralia. Yn fuan ar ôl iddo gyrraedd, gwnaeth Morgan gwrdd â hen ffrind ac un o'i gyd-fyfyrwyr graddedig yn Llambed, Caroline Crosse. Gwnaeth ef a Caroline briodi yn 1992. Erbyn hyn, maent wedi hollol ymgartrefu yn Awstralia, er eu bod nhw'n treulio'n gyson rhan o'r flwyddyn yn Ewrop. Medd Morgan, er bod pobl yn Awstralia yn sylweddoli o hyd mai acen o Brydain sydd ganddo, ym Mhrydain, maent yn meddwl mai Awstraliad ydyw!

Ar ôl ymfudo, cyflogwyd Morgan ar y cychwyn fel arbenigwr gwybodaeth gan yr Australian Bureau of Agricultural and Resource Economics and Sciences. Gwnaeth hyn olygu gwneud defnydd cynnar o'r rhyngrwyd ar gyfer gwybodaeth academaidd a gwybodaeth y llywodraeth. Yna, gan newid cyfeiriad ei yrfa yn hollol, gwnaeth ymgymryd ag uwch-rôl gan weithio i'r elusen iechyd meddwl genedlaethol, SANE Australia (a gafodd ei sefydlu'n wreiddiol dan yr enw Schizophrenia Australia Foundation). Bu Morgan yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu'r elusen o 1996 i 2015, yn ogystal â gweithio fel ei Dirprwy Gyfarwyddwr. (Mae SANE Australia yn gweithio am fywyd gwell i'r sawl sy'n dioddef afiechyd meddwl drwy addysgu'r gymuned ehangach, drwy gynnal ymchwil cymhwysol a thrwy ymgyrchu dros well wasanaethau a gwell agweddau). Bu Morgan yn gyfrifol am lawer o raglenni a enillodd wobrau ac sy'n ceisio helpu pobl sydd ag afiechyd meddwl a'u teuluoedd. Roedd y rhain yn cynnwys gwneud defnydd arloesol o apiau. Er enghraifft, gwnaeth yr ap *Talking Anxiety* roi gwybodaeth sylfaenol am anhwylderau gorbryder, gan gynnwys manylion ynglyn â lle y gallwch gael cymorth, sut i helpu eich hunan, yn ogystal â chyfle i glywed gan eraill sy'n wynebu problemau tebyg.

Ers 2015, mae Morgan wedi bod yn bennaeth ei fusnes ymgynghori ei hun.  Drwy'r busnes hwn, mae'n darparu ystod o wasanaethau cyfathrebu proffesiynol ar gyfer y sectorau iechyd, meddygol, busnes, y llywodraeth a'r sectorau anllywodraethol.

Ochr yn ochr â'i swydd bob dydd, mae Morgan wedi dod o hyd i amser i ysgrifennu'n helaeth, gan gynnwys astudiaeth feirniadol a dwy nofel. Ei gyfrol gyntaf, yn dilyn ei PhD, oedd *The Art of Richard Hughes: a study of the novels,* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1993). Meddai'r *New Welsh Review*, 'This is an admirable and, in my opinion, seminal work of criticism.'

Mae Morgan wedi ysgrifennu cyhyd ag y gall gofio. Mae'n disgrifio ei storïau fel 'the lies that tell the truth.' Mae ganddo ddiddordeb mawr mewn geiriau, gan ddweud  'You can spend all day thinking about one word. It's the nearest thing we have to magic, this incredible power and emotional resonance in the simplest words.' Ei nofel gynharaf oedd *The Pelagius Book* (Viking, 2005). Gwnaeth Morgan ailgreu bywyd a meddyliau Pelagiws, yr athronydd a'r athro Prydeinig o'r bumed ganrif, a gwrthwynebwr Awstin Sant o Hippo, gan ddefnyddio fel cefndir iddynt yr Ymerodraeth Rufeinig ddadfeiliol.  Mae cynorthwy-ydd Pelagiws, Celestiws, yn ei annog i ddogfennu'r geiriau y mae ef yn eu defnyddio ar lafar. Mae Pelagiws yn gwrthod ysgrifennu llyfr ar ei athrawiaethau rhag ofn iddynt ddatblygu'n ddogma. Mae'r beirniad enwog, Peter Pierce, yn disgrifio llyfr Morgan fel a ganlyn 'elegant, as well as a serious, humanist enterprise.' Am fod gan *The Pelagius Book*, enw mor dda, cafodd ei osod fel testun ysgol yn Awstralia.

Yn 2007, cyhoeddodd Morgan *Turner's Paintbox,* (Viking). Cafodd y llyfr ei ysbrydoli gan ymweliad ag oriel Tate Britain. Gwnaeth Morgan grwydro i mewn i oriel ochr fechan a daeth o hyd i focs paent yr arlunydd Mudiad Rhamantaidd o Loegr, J.M.W. Turner. Meddai Morgan, 'It was just this ratty, paint-smeared tin like something from a kid's art class. To think that out of this little thing had come all those huge, beautiful, extraordinary paintings.' Mae *Turner's Paintbox* yn disgrifio cwrs perthynas drychinebus rhwng Gerard, ymgynghorwr celfyddyd, a Julia, athrawes afieithus, gan ddefnyddio darluniau enfawr Turner fel cefndir iddi. Mae Galer yn disgrifio Morgan fel 'a most elegant writer of a book written with immense care'. Mae nofel sydd ar ddod, *The Winter Place,* yn rhamant adeg rhyfel sy'n archwilio themâu sy'n ymwneud â chof, amser, colled a chariad.

Mae Morgan wedi cyhoeddi storïau byrion, erthyglau ac adolygiadau niferus. Mae'n cyfrannu'n rheolaidd at yr *Australian Book Review.* Mae ei storïau byrion wedi'u cynnwys mewn amrywiaeth o siwrnalau llenyddol, gan gynnwys *Quadrant, Meanjin, Sleepers* a *Going down Swinging,* yn ogystal ag antholegau, gan gynnwys New *Australian Stories* (Scribe). Mae Morgan wedi bod yn aelod o'r Arts Development Panel of Creative Victoria; mae ar hyn o bryd yn Ysgrifennydd Cyfathrebu ac Aelodaeth PEN Melbourne, ac mae'n aelod gweithredol o'r rhwydwaith PEN Writers in Prison.

**Ffynonellau**

Morgan, P. (n.d.) Paul Morgan. Adalwyd ar Hydref 5 2020, oddi wrth https://paulmorgan.com/

Sullivan, J. (2007, March 31). Memo from Turner. *The Age.* Adalwyd ar Hydref 5 2020, oddi wrth https://www.theage.com.au/entertainment/books/memo-from-turner-20070331-ge4jub.html

Morgan, P. (2020). Paul Morgan, Principal at Morgan Communications [LinkedIn page]. LinkedIn. Adalwyd ar Hydref 5 2020, oddi wrth https://www.linkedin.com/in/paulmorganprofile/

SBS News. (2013, August 26). The creators of a new iPhone and iPad app aiming to help people with mental health disorders hope the device will make it easier for people who need to seek help. Adalwyd ar Hydref 5 2020, oddi wrth https://www.sbs.com.au/news/anxiety-there-s-now-an-app-for-that

Pierce, P. (2005, June 11). The task of resurrecting Pelagius; FICTION: [First Edition]. *The Age* Adalwyd ar Hydref 5 2020, oddi wrth https://www-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/363753942?accountid=130472

Bradley, J. (2007, May 5). Turner's Paintbox. *The Age.* Adalwyd ar Hydref 6 2020, oddi wrth https://www.theage.com.au/entertainment/books/turners-paintbox-20070505-ge4tg5.html

Galer, K. (2007, April 28). Turner's Paintbox by Paul Morgan. *Perth Now.* Adalwyd ar Hydref 6 2020, oddi wrth https://www.perthnow.com.au/news/wa/picks-of-the-week-ng-55a240ac42cd36ff7393dbcae4762f21

**Y Parchedig Richard Williams Morgan (c. 1815-1889) Tractariad o Gymro a Diwygiwr Celtaidd**

Ganwyd y Parchedig Richard Williams Morgan yn Llangynfelyn, Ceredigion tua 1815. Ac yntau'n nai i John Williams, Archddiacon Ceredigion, fe'i haddysgwyd yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Roedd yn gurad Mochdre, Sir Drefaldwyn, o 1842-53. Yn 1842, fe'i penodwyd yn gurad parhaol Tregynon, Sir Drefaldwyn; swydd a ddaliodd tan 1862.



*Need caption*

Ychydig flynyddoedd ynghynt, roedd grŵp o academyddion a chlerigwyr Anglicanaidd o Rydychen wedi mynd i deimlo'n gynyddol anhapus ynglŷn â'r diffyg difrifoldeb yr oedd y sefydliad fel petai'n ei ddangos i'w ddyletswyddau crefyddol. Arweiniodd hyn at sefydlu *Mudiad Rhydychen* a gyhoeddodd nifer o bamffledi yn sefydlu athrawiaethau a diwygiadau, a ddaeth yn adnabyddus fel Tractariaeth.

Ac yntau wedi'i herio gan lawer o'r dadleuon a fynegwyd gan *Fudiad Rhydychen*, daeth Morgan yn un o nifer o Dractariaid yng Nghymru. Nid oedd mewn unrhyw ffordd yn wrth-Gatholig, ond yn sicr yn wrth-Babaidd a gwrth-Rufeinig. Gan nad oedd hyn yn cael ei ystyried yn safbwynt eithafol, cafodd ef a'i gyd-Dractariaid eu derbyn yn gyffredinol o fewn yr eglwys Anglicanaidd.

Fel y rhan fwyaf o'r Tractariaid Cymreig eraill, roedd Morgan yn wladgarwr balch o Gymro, er bod ganddo natur 'bigog' weithiau. Ac yntau'n ymgyrchydd di-flewyn-ar-dafod dros ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn ysgolion ac eglwysi, roedd yn ffyrnig ei feirniadaeth o glerigwyr Saesneg yng Nghymru (gan gynnwys ei esgob ei hun) na ddysgodd Gymraeg ac a gynhaliai wasanaethau yn Saesneg yn unig – iaith nad oedd neb yn ei deall. Dadleuai nad oedd gweinyddu'r sacramentau mewn iaith estron "yn rhywbeth ffug ynddo'i hun, ond yn enllibus i'r ffydd Anglo-Gatholig", a bod esgobion a wnâi hyn ddim yn wir arweinwyr eglwysig, ond yn esgobion mewn enw yn unig.

Mae'n debygol i'w feirniadaeth a'i alwadau parhaus am newid olygu nid yn unig y câi ei ddiystyru ar gyfer penodiadau uwch yn yr eglwys, ond hefyd arweiniodd at wrthod cymun i Morgan yn ei eglwys ei hun yn Nhregynon yn 1857. Er na ymddiswyddodd ei guradiaeth yn ffurfiol tan 1862, ni ddaliodd swydd eglwysig fyth eto yng Nghymru.

Chwaraeodd Morgan ran allweddol hefyd yn y mudiad adfywio Celtaidd. Roedd yn un o bedwar a fu'n gyfrifol am drefnu Eisteddfod Llangollen yn 1858. Profodd hwn i fod yn ddigwyddiad hanesyddol arwyddocaol, oherwydd derbynnir i raddau helaeth mai dyma lle plannwyd gwreiddiau'r Eisteddfod Genedlaethol gyfredol. Cyfrannodd hefyd at *Orsedd y Beirdd* (cymdeithas o feirdd, awduron, cerddorion, artistiaid a phobl eraill sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i genedl, iaith, a diwylliant Cymru) o dan ei enw Barddol 'Môr Meirion'.

Yn niwedd y 1850au, symudodd Morgan i Lundain, lle treuliodd y rhan fwyaf o'r blynyddoedd oedd ganddo'n weddill. Yn sgil ei angerdd dros adfywiad Celtaidd daeth yn gyd-sylfaenydd yr *Eglwys Brydeinig Hynafol* yn 1874 (ar y cyd â Jules Ferrette). Roedd y mudiad crefyddol hwn yn hyrwyddo adfer yr eglwys Gristnogol i'r arddull a ymarferwyd yn y mileniwm cyntaf yn Ynysoedd Prydain. Roedd yn dilyn Cristnogaeth Geltaidd neu neo-Geltaidd gyfoes – math o ffydd sy'n portreadu ffurf dyner, oddefgar, 'wyrdd', myfyriol , egalitaraidd a chyfannol o ffydd ac arfer Cristnogol. Cafodd Morgan ei "fedyddio, ei dderbyn, ei ordeinio a'i gysegru' gan Ferrette yn Batriarch cyntaf yr Eglwys ar 6 Mawrth 1874 a rhoddwyd iddo'r enw crefyddol 'Mar Pelagius I'.

Parhaodd yr *Eglwys Brydeinig Hynafol* yn y DU tan ganol yr ugeinfed ganrif. Er nad yw'n bodoli bellach, gellir dweud bod nifer o gyrff eglwysig presennol yn deillio (neu'n deillio'n rhannol) o'r mudiad, ynghyd â mynegiannau Celtaidd llai ffurfiol o ffydd. Mae olyniaeth o Mar Pelagius I i'w gweld yn yr *Eglwys Esgobol Brotestannaidd Rydd* (y *Cymundeb Rhydd Anglicanaidd* bellach), ac o fewn rhai canghennau o'r eglwys Uniongred.

Yn awdur toreithiog, ysgrifennodd Morgan nifer o lyfrau, erthyglau a barddoniaeth farddol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Efallai mai ei waith enwocaf oedd *Verities of the Church*, lle bu'n esbonio ei "hoffter dwfn o'r ffydd Gatholig, sy'n cael ei gwarchod a'i lledaenu gan Eglwys Apostolaidd Lloegr."

Yn ychwanegol at ei ymrwymiad i ddilynwyr yr *Eglwys Brydeinig Hynafol*, parhaodd Morgan i wasanaethu fel curad Eglwys Loegr ar dri achlysur arall, cyn ei farwolaeth yn 1889.

**Ffynonellau:**

ap Emlyn, H. (n.d.). Llangollen Eisteddfod—September 1858. *Llangollen.Com*. Ar gael o: http://www.llangollen.com/llangollen-eisteddfod-september-1858/ [Cyrchwyd 23 Ebrill 2020]

BBC. (2014). *BBC Wales—Eisteddfod—Guide—What is the Gorsedd?* Ar gael o: http://www.bbc.co.uk/wales/eisteddfod2008/sites/guide/history/pages/gorsedd.shtml [Cyrchwyd 23 Ebrill 2020]

Freeman, P. (2000). The Revd Richard Williams Morgan of Tregynon and his writings. *Montgomeryshire*

*Collections*, *88*, 87–93.

Independent Sacramental Movement. (n.d.). *Richard Williams Morgan—Morningstar*. Ar gael o: https://sites.google.com/site/gnostickos/bishopsmorgan [Cyrchwyd 23 Ebrill 2020]

Jones, N. C. (1959). *MORGAN, RICHARD WILLIAMS (Môr Meirion, c. 1815—C. 1889), cleric and author Dictionary of Welsh Biography*. Ar gael o: https://biography.wales/article/s-MORG-WIL-1815 [Cyrchwyd 23 Ebrill 2020]

Lord, P. (1995). *Words with Pictures: Welsh Images and Images of Wales in the Popular Press, 1640-1860* (First Edition edition). Planet Books.

Morgan-Guy, J. (2003). A short biography of the Reverend Richard Williams Morgan (c:1815–1889), the Welsh poet and re-founder of the ancient British Church. An enquiry into the origins of neo-Celtic Christianity, together with a reprint of several works by Richard Williams Morgan and Jules Ferrette, etc. By G. H. Thomann. Pp. Iii+133. Solna, Sweden: St Ephrem's Institute, 2001, £10 (paper). *The Journal of Ecclesiastical History*, *54*(1), 97–194. Cambridge Core. Ar gael o: https://doi.org/10.1017/S0022046903615691 [Cyrchwyd 23 Ebrill 2020]

*Reconciliation Cross*. (n.d.). Ar gael o: https://www.seiyaku.com/customs/crosses/reconciliation.html [Cyrchwyd 23 Ebrill 2020]

Schlossberg, H. (n.d.). The Tractarian Movement. In *Religious Revival and the Transformation of English Sensibilities in the Early Ninteeenth Century.* Ar gael o: http://www.victorianweb.org/religion/herb7.html [Cyrchwyd 23 Ebrill 2020]

University of Oxford. (1834). *Tracts for the times*. London : Printed for J.G.F. & J. Rivington & J.H. Parker, Oxford. Ar gael o: http://archive.org/details/a633807606univuoft [Cyrchwyd 23 Ebrill 2020]

Wilkipedia. (2019). Richard Williams Morgan. In *Wikipedia*. Ar gael o: https://en.wikipedia.org/w/index.php?title=Richard_Williams_Morgan&oldid=918370015 [Cyrchwyd 23 Ebrill 2020]

Wilkipedia. (2020a). Ancient British Church. In *Wikipedia*. Ar gael o: https://en.wikipedia.org/w/index.php?title=Ancient_British_Church&oldid=936511575 [Cyrchwyd 23 Ebrill 2020]

Wilkipedia. (2020b). Neo-Celtic Christianity. In *Wikipedia*. Ar gael o: https://en.wikipedia.org/w/index.php?title=Neo-Celtic_Christianity&oldid=944148774 [Cyrchwyd 23 Ebrill 2020]

# Y Canon Sam 'Patagonia' Morgan 1907 – 2005

Ganwyd Sam Morgan ym mhentref bychan Pinged ym mhlwyf Pembre a Llandyr ym mis Gorffennaf 1907. Mynychodd ef Goleg Dewi Sant, Llambed yn 1927, ac fe ordeiniwyd ef yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi ar ôl graddio yn 1932. Yn ystod ei gyfnod yn Nhyddewi, bu'n aelod ac yn Ysgrifennydd y Clwb Rhedwyr Traws Gwlad (Harriers), gan ennill ei gap yn 1931.



*Sam yw'r trydydd ar y chwith yn eistedd ar sedd*

Roedd ei guradiaeth gyntaf ym mhlwyf Llandysul. Bu'r cyfnod hwnnw yn amser arbennig iddo, oherwydd dyna'r man lle gwnaeth ef gwrdd â, a phriodi, ei wraig Babs yn 1935. Gwnaeth hi gefnogi ei weinidogaeth yn ffyddlon, gan wasanaethu ochr yn ochr ag ef am bron 70 o flynyddoedd.

Yn ystod yr un flwyddyn a briododd Sam a Babs, gwnaethant hwylio dros Fôr yr Iwerydd er mwyn ateb y galwad i Sam wasanaethu fel Caplan yr eglwys Anglicanaidd ym Mhatagonia. Gwnaeth ef arwain, drwy gyfrwng y Saesneg a'r Gymraeg, eglwysi yn Llanddewi a Threlew, a oedd wedi'u lleoli yn ardal Chubut. Ganwyd eu merch Doreen yno yn 1936.

Ar ôl treulio saith mlynedd yn gweinidogaethu yn nyfnderoedd Dyffryn Chubut, mor bell â Rio Gallegos yn Ne Patagonia, ac ar draws godrefryniau Mynyddoedd yr Andes, roedd hi'n amser i fynd adref i Sir Aberteifi. Cafodd ei alw wrth ei lysenw "Sam Patagonia" am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod hwnnw, a gwnaeth yr enw hwn aros gydag ef drwy gydol ei oes.

Ar ôl taith beryglus wrth ddychwelyd dros Fôr yr Iwerydd yn 1942, pan oedd yr ail Ryfel Byd yn ei anterth, ymsefydlodd Sam a'i deulu eto yng Nghymru. Daeth yn ficer Llanwnnen a Llanwenog, a ganwyd ei fab Gareth yn 1943. O 1964-1978, gwnaeth ef wasanaethu ym mhlwyf Felin-foel, Llanelli.

Hyd yn oed ar ôl ymddeol, parhaodd Sam i fod yn weithgar yn gwasanaethu'r eglwys a'r gymuned tan ychydig o wythnosau cyn iddo farw yn 2005, yn arwain ac yn pregethu mewn gwasanaethau ac yn gwasanaethu'n ddyfal fel Caplan y Burma Star (corff o gyn-filwyr y ddau Ryfel Byd o Lanelli) ac fel Llywydd ei glwb bowlio. Ef hefyd oedd aelod hynaf Cymdeithas Llambed, a byddai ef, yn ddi-ball, yn mynychu'r aduniadau ac yn cynnal y gwasanaethau

Cymraeg ar foreau Sadwrn. Mae ei goflith yng nghylchgrawn y gymdeithas yn galw i gof ‘he drove his car until he was well into his 90s. He also continued to smoke, quite liked a drink, and had a robust sense of fun’.

Parhaodd “Sam Patagonia” gadw ei lysenw hyd yn oed ar ôl ei farwolaeth, pan ddaeth ei fab Gareth ar draws dogfen hanesyddol bwysig yn 2015, mewn croglofft yn Lloegr. Awdur yr adroddiad teipiedig am lofruddiaeth tri Chymro ifanc gan Indiaid Tehuelche yn 1884 oedd yr unig oroeswr, John Daniel Evans.

Am fod y Wladfa Gymraeg ym Mhatagonia yn cael ei dathlu fel un o’r gwladfeydd cyntaf yn Ne America lle gwnaeth anheddwyr ddysgu byw gyda’r bobl leol, yn hytrach na’u lladd er mwyn dwyn eu tiroedd, mae’r digwyddiad trasig hwn wedi hir achosi dryswch. Gwnaeth yr adroddiad ddarparu llawer o fewnwelediadau, a darganfuwyd mai’r Canon Morgan ei hun daeth â’r ddogfen hon yn ôl o Batagonia yn 1942.

# Henry Morris

Fel sylfaenydd colegau pentref Swydd Gaergrawnt, roedd Henry Morris (1889-1961) yn un o arloeswyr mawr addysg gymunedol.

Morris oedd y seithfed o wyth o blant William Morris, plymwr medrus a'i wraig Mary Elen Mullin. Daeth o Southport. Bu farw ei fam pan oedd yn ddeuddeg oed. Pan oedd Morris yn bedair ar ddeg, gadawodd yr ysgol i weithio fel gwas swyddfa gyda phapur newydd y *Southport Visiter.* Fodd bynnag, rhwng 1906 ac 1910, astudiodd mewn dosbarthiadau nos yn Institiwt Harris, Preston. Yn ddiweddarach yn ei fywyd, roedd ganddo gywilydd o'i dras isel.

Yn un ar hugain oed, aeth Morris i Goleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan gan obeithio hyfforddi fel offeiriad. Roedd hyn yn ystod cyfnod tymhestlog yn hanes yr eglwys Anglicanaidd yng Nghymru. Yn 1912, roedd deiseb yn erbyn datgysylltu'r eglwys Anglicanaidd yng Nghymru yn cylchredeg o gwmpas y coleg yn ogystal â thref Llanbedr Pont Steffan. Ysgrifennodd Morris at y wasg yn ddienw, gan gwyno bod y myfyrwyr wedi'u gorfodi i arwyddo'r ddeiseb. Mynegodd pennaeth y coleg, Llywellyn Bebb, ei ddicter a chynhaliodd y myfyrwyr gyfarfod i geisio canfod pwy oedd awdur y llythyr. Siaradodd dau fyfyriwr, Morris yn eu plith, am yr angen am ryddid barn, cawsant eu hel o'r cyfarfod mor bell â thŷ'r Athro Tyrrell Green. Cododd Morris wŷs yn erbyn chwe myfyriwr am ymosod. Ysgrifennodd ddwywaith ar ôl hynny at y wasg, gan ddisgrifio'r coleg fel 'magwrfa ar gyfer y math gwaethaf o ragfarn eglwysig'. Yn y pendraw, gollyngodd yr ynadon yr holl gyhuddiadau o ymosod.

Gadawodd Morris Lanbedr Pont Steffan gyda gradd ail ddosbarth mewn diwinyddiaeth ac aeth ymlaen i Goleg Caerwysg, Rhydychen yn 1912. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, bu'n gwasanaethu yng Nghorfflu Gwasanaeth Brenhinol y Fyddin, gan dreulio amser yn Ffrainc a'r Eidal. Ar ôl dychwelyd adref, enillodd radd ail ddosbarth uwch mewn gwyddorau moesol yng Ngholeg y Brenin, Caergrawnt.

Ei swydd gyntaf ar ôl graddio oedd ysgrifennydd cynorthwyol addysg yng Nghaint. Fodd bynnag, symudodd yn fuan i Swydd Gaergrawnt lle cafodd ei ddyrchafu'n fuan i fod yn ysgrifennydd addysg y cyngor. Ei gyflawniad cyntaf oedd sefydlu maes llafur crefyddol cytûn i ysgolion y sir. Dilynodd hyn gydag ymgyrch egnïol ac ysbrydoledig i sefydlu colegau pentref. Yn 1924, cyhoeddodd bamffled o'r enw 'The village college. Being a memorandum on the provision of educational and social facilities for the countryside, with special reference to Cambridgeshire.' Ar yr adeg hon, roedd ardaloedd amaethyddol yn cael eu diboblogi fwyfwy ac roeddynt yn ddifreintiedig yn economaidd. Roedd y rhan fwyaf o blant Swydd Gaergrawnt yn cael eu haddysg mewn ysgolion i bob oedran ac yn gadael yr ysgol i weithio yn bedair ar ddeg oed. Yn yr ysgolion lleiaf, roedd plant rhwng tair a phedair ar ddeg oed yn cael eu dysgu gan un athro mewn un ystafell.

Syniad Morris oedd gwneud yr ysgol wledig yn ganolfan ddiwylliannol ranbarthol ac yn ganolbwynt gweithgaredd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol. Credai y dylai ardaloedd gwledig gynnig cyfleusterau a oedd yr un mor ddeniadol â'r rhai yn y dinasoedd. Byddai'r ysgolion yn ganolbwynt i fywyd lleol ac ar gael i bobl o bob oedran. Byddai sawl pentref yn rhannu un ysgol; byddai'r adeilad canolig hwn yn cael ei ddefnyddio gan oedolion yn ogystal â phlant. Byddai'n cynnwys gweithdai, llyfrgell, campfa a neuadd y gellid ei defnyddio i lwyfannu dramâu neu gyngherddau. Awgrymodd Morris y dylid adeiladu 10 ysgol o'r fath. Yn 1930 agorodd y coleg pentref cyntaf yn Sawston.



Coleg Pentref Impington

Wrth astudio yn Rhydychen, cafodd Morris ei ysbrydoli gan bensaernïaeth arbennig y ddinas, roedd yn credu'n gryf mewn pwysigrwydd awyrgylch addysgol sy'n ddymunol yn esthetig. Yn wir, comisiynodd Walter Gropius a'i gydweithiwr o Loegr, Maxwell Fry, i ddylunio Coleg Pentref Impington. Codwyd yr adeilad yn 1938 a daeth yn enghraifft o foderniaeth ddynol ac yn enghraifft eithriadol o waith Gropius yn y Deyrnas Unedig. Yn ôl Pevsner, dyma un o'r adeiladau gorau o'i gyfnod ym Mhrydain. Ymhlith y colegau pentref eraill roedd Bottisham, Linton a Bassingbourn. Yn ychwanegol at hyn, llwyddodd Morris i ysbrydoli staff yr awdurdod addysg lleol, a aeth â'i syniadau gyda nhw wrth symud i siroedd eraill. Roedd R.A. Butler, llywydd y Bwrdd Addysg rhwng 1941 ac 1945, yn edmygu cyflawniadau Morris a chafodd ei urddo'n CBE yn anrhydeddau pen-blwydd 1942.

Yn y pendraw, enillodd Morris enw da yn genedlaethol. Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, cynghorodd Swyddfa'r Trefedigaethau ar ddarpariaeth addysg bellach yng Ngorllewin Affrica. O 1947, cafodd ei secondio gan y Weinyddiaeth Cynllunio Gwlad a Thref i gynghori ar ddarpariaeth gymdeithasol a diwylliannol trefi newydd. Roedd Morris yn argyhoeddedig bod artistiaid yn hanfodol er lles cymdeithas. Roedd yn pryderu eu bod yn tueddu i weithio ar eu pen eu hunain, a'u bod yn cael eu llesteirio gan gost gynyddol stiwdios a'r anhawster o ddod â'u gwaith i sylw'r cyhoedd. Un o'i gyflawniadau mwyaf oedd sefydlu cymuned artistiaid a chrefftwyr Digswell. Llwyddodd i berswadio'r llywodraeth a Chorfforaeth Datblygu Welwyn Garden City i sefydlu ymddiriedolaeth ar gyfer artistiaid proffesiynol. Cartref cyntaf yr ymddiriedolaeth oedd Tŷ Digswell, plasty o gyfnod y rhaglywiaeth ar gyrion Welwyn Garden City. Aeth y gorfforaeth ati i adnewyddu'r tŷ i greu llety, stiwdios a gweithdai i'r artistiaid ac yna ei brydlesu i Ymddiriedolaeth Digswell am rent isel. Daeth rhai o'r artistiaid a weithiodd yno yn fyd enwog; gan gynnwys y crochenydd stiwdio Hans Coper, yr ysgrythwr John Brunsden a'r cerflunydd John Mills.

Yn ôl Nan Youngman, roedd Morris yn:

'dal gydag wyneb hir gwelw a llygaid glas gwyllt. Roedd ei wallt yn lliw llygoden yn denau ac yn syth - roedd un cudyn hir yn hongian allan yn y cefn bob amser. Roedd ganddo lais bendigedig ac, fel mae llawer yn tystio, roedd yn anodd rhagweladwy ei hwyliau, ond doedd byth yn ddiflas.'

Gallai Morris fod yn gymeriad anodd gweithio gydag ef, ond ysbrydolodd deyrngarwch mawr ymhlith ei ffrindiau agos. Cyflawnodd ei ddibenion gydag egni angerddol, gan wthio gwrthwynebiad o'r neilltu a bwrw ymlaen â'r gwaith nes ei fod wedi'i gwblhau. Yn ystod ei oes, nid oedd y bobl a oedd yn ei adnabod yn ymwybodol ei fod yn hoyw, er bod ffrindiau yn gwybod am ei nwydau a'i rwystredigaethau rhywiol.




Plac coffaol ar Yr Hen Granar, Silver Street, Caergrawnt, lle bu Morris yn byw tan 1946

Verbcatcher / CC BY-SA (https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0)

Wrth i'w iechyd dorri, gwnaeth Morris ymddeol o'r Weinyddiaeth Cynllunio Gwlad a Thref ar ddiwedd 1960. Bu farw o gyfuniad o niwmonia a chlefyd Parkinson ar 10 Rhagfyr 1961 yn Ysbyty Hill End, St Albans. Ymhlith y rhai a oedd yn bresennol yn ei angladd yn amlosgfa Golders Green roedd Henry Moore a J.B. Priestley.

**Ffynonellau**

Cunningham, P. (2004, Medi 23). Morris, Henry (1889–1961), educational administrator. *Oxford Dictionary of National Biography.* Cyrchwyd ar 5 Mehefin. 2020, o https://www-oxforddnb-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-63830.

Price, D.T.W. (1990). *A history of Saint David's University College Lampeter. Volume two: 1898-1971. Gwasg Prifysgol Cymru*

Read, Herbert. (1961, Rhagfyr 13). Mr. Henry Morris. *The Times*, t. 16. Cyrchwyd o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS269050253/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=7a486c5a.

Russell, Gordon. (1961, Rhagfyr 15). Mr. Henry Morris. *Times*, t. 15. Cyrchwyd o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS253190543/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=398a1c79.

Bennett, O. (2015, Tachwedd 17). Bauhaus and moral purpose: the very model of modern community schools. *Guardian.* Cyrchwyd o https://www.theguardian.com/education/2015/nov/17/bauhaus-community-schools-village-colleges-cambridgeshire

Digswell Arts. (2020). *History.* Working for artists in Hertfordshire for over 60 years. Cyrchwyd ar Mai 11 2020, o https://digswellarts.org/history/

Telford, A.E. (1995). *Community education and the conflict of ideals in the history of English adult education movements.* (Traethawd doethurol, Prifysgol Durham, Y Deyrnas Unedig). Adalwyd o https://core.ac.uk/download/pdf/9640385.pdf. [Cyrchwyd ar 12 Mai 2020]

# John Murray



John Murray yw Gohebydd Pêl-droed y BBC.

Magwyd Murray ar fferm fynydd anghysbell yn Northumberland; mae eiddo'r teulu yn pontio Mur Hadrian. Mynychodd yr ysgol yn Newbrough, yn Haltwhistle ac yn Haydon Bridge. Chwaraeodd amrywiaeth o chwaraeon – rygbi'r undeb a chriced, yn ogystal â phêl-droed. Mae'n cofio aros yn Leeds pan oedd yn ddisgybl yn y chweched dosbarth i wylio gêm brawf yn Headingley. Trwy siawns, cyfarfu ag aelod o dîm cynhyrchu'r rhaglen Test Match Special a chafodd ei gyflwyno i'r sylwebydd enwog, Christopher Martin-Jenkins. Cynghorodd CMJ iddo chwarae cymaint o chwaraeon â phosibl a cheisio cael dealltwriaeth o sut mae chwaraeon yn gweithio a sut maent yn cael eu chwarae. Tua'r un adeg, cyflawnodd Murray ei brofiad gwaith yn *Hexham Courant*.

Astudiodd Murray ddaearyddiaeth yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan rhwng 1985 ac 1988. Ochr yn ochr â'i waith academaidd, chwaraeodd ran fawr yn y tîm pêl-droed gan wasanaethu fel cyd-ysgrifennydd am ddwy flynedd yn ogystal â chwarae yn y gôl. Gan feddwl am ei yrfa yn y dyfodol, ysgrifennodd adroddiadau ar eu gemau'n rheolaidd i *Cardigan and Tivyside Advertiser.* Mewn cyfarfod â chynghorydd gyrfa yn ei flwyddyn olaf cafodd ei lywio tuag at newyddiaduraeth radio.

Ar ôl graddio, dilynodd gwrs ôl-raddedig mewn newyddiaduraeth radio yng Ngholeg Technoleg Darlington. Ar ôl iddo gymhwyso, dychwelodd i ardal gogledd-ddwyrain Lloegr i weithio yn TFM, gorsaf radio fasnachol ar Teesside. Ei swydd oedd gohebu ar newyddion a chwaraeon; yma y cyflwynodd ei sylwebaethau pêl-droed cyntaf. Ar ôl hynny, symudodd i BBC Radio Cleveland ac yna, ar ôl blwyddyn, i radio rhwydwaith y BBC. Yn wreiddiol, cafodd Murray ei gyflogi yno fel cynhyrchydd. Fodd bynnag, roedd nifer fawr o gemau pêl-droed yn cael eu darlledu ar yr adeg honno ac, yn gyflym, derbyniodd gyfleoedd i sylwebu. Y twrnamaint cyntaf iddo ei fynychu oedd Cwpan y Byd 1998 a chwaraewyd yn Ffrainc. Mae'n cofio gweithio ochr yn ochr â chyn-reolwr tîm pêl-droed Lloegr, Graham Taylor.

Daeth Murray yn Ohebydd Pêl-droed yn 2014 gan ddilyn ôl-troed Brian Moore, Bryon Butler a Mike Ingham. Dywedodd, 'Felly, ers i'r rôl hon gael ei chreu yn y 1960au, fi yw'r pedwerydd person yn unig i'w chyflawni,' ac 'Rwy'n ystyried ei bod yn fraint cael bod yn rhan o'r pedwarawd hwnnw yn fraint'.

Mae rôl Murray yn cynnwys rhoi newyddion am bob un o'r gemau pêl-droed ar y lefel uchaf a phob gêm pêl-droed y mae tîm pêl-droed Lloegr yn ei chwarae.

Ar gyfartaledd, mae'n sylwebu ar ddwy i dair gêm bob wythnos. Mae'n dweud mai ei swydd fel darlledwr yw ceisio dod â'r gwrandäwr i'r digwyddiad y mae'n gweithio ynddo. Mae hyn yn cynnwys creu darluniau. Mae hefyd yn bwysig i'r gwrandawyr glywed yr hyn sy'n digwydd. Gall pobl droi'r radio ymlaen ar unrhyw adeg a byddant yn dymuno gwybod y sgôr.

Er gwaetha'r toreth o wybodaeth ystadegol sydd ar gael, mae Murray yn cadw ei gofnodion ei hun ar bob tîm mawr gan gynnwys pob tîm yn Uwch Gynghrair Lloegr a'r mwyafrif o dimau ym Mhencampwriaeth Lloegr. Fel arfer mae'n llunio llwyth o nodiadau ar gyfer pob gêm y mae'n gweithio arni, yn llawer mwy nag y bydd yn debygol o'u defnyddio. Os bydd gofyn iddo roi sylwebaeth ar dîm anghyfarwydd, er enghraifft, yng Nghwpan Lloegr, bydd yn ceisio eu gwylio'n chwarae o flaen llaw. Pan fydd yn gweithio dramor, yn aml, bydd yn siarad â sylwebwyr lleol; mae cam-ynganu enwau'r chwaraewyr yn hawdd iawn.

Mae Murray hefyd wedi gohebu ar ystod o chwaraeon eraill. Mae wedi gweithio ar y Gemau Olympaidd a Gemau'r Gymanwlad. Yn 2012, rhoddodd sylwebaeth ar seremoni agoriadol a seremoni cau Gemau Olympaidd Llundain ar gyfer Radio 5. Wrth sôn am gynnwys radio'r BBC ar gyfer Gemau Olympaidd Rio 2016, dywedodd David McCarthy, 'Mae'n fywiog, yn llawn gwybodaeth, ac yn creu darlun trwy eiriau… mae unigolion fel Iain Carter a John Murray yn rhoi sylwebaeth ar gampau megis canŵio a rhwyfo ac nid ydynt yn esgus eu bod yn arbenigwyr arnynt… ond maent yn ddarlledwyr o'r radd flaenaf.' Mae Murray wedi ymwneud â byd criced gan weithio i *Test Match Special* yn ystod taith Lloegr o Sri Lanka yn 2003. Fodd bynnag, ei ail gamp ddarlledu yw golff. Dywedodd, 'Mae teithio i Augusta bob blwyddyn ar gyfer y Masters yn bleser anferthol ac rwyf wrth fy modd yn rhoi sylwebaeth ar Gwpan Ryder.' Ar gyfer Cwpan Ryder, gall y sylwebwyr fynd allan ar y cwrs a phob un yn dilyn gemau unigol. Yn 2010, ar gwrs y Celtic Manor, rhoddodd Murray sylwebaeth ar y rownd olaf rhwng Graeme McDowell o Ewrop a Hunter Mahan o UDA. Ar gyfer y pytiad buddugol dros Ewrop, mae'n cofio, 'Ond roeddwn i'n sefyll mor agos ato [McDowell] ar y cwrs roedd e'n gallu fy nghlywed yn rhoi sylwebaeth felly, es i'n ddistaw gan geisio ei alluogi i ganolbwyntio ac weithiau gall distawrwydd fod mor effeithiol ar y radio. Llwyddodd i bytio'r bêl yn y twll ac aeth y dorf yn wallgof.'

Enwodd Sports Journalists' Association Murray yn Sylwebydd Chwaraeon y Flwyddyn ar gyfer 2016 a 2018. Mae hefyd wedi gweithio ar Jiwbilî Aur y Frenhines ac ar briodas Tywysog William a Kate Middleton. Dywedodd, 'Rwyf wrth fy modd gyda'r digwyddiadau seremonïol hynny… mae gweithio ar rywbeth sy'n hollol wahanol yn gwneud i chi feddwl am y ffordd rydych chi'n cyflawni eich swydd bob dydd.'

Mae Murray yn wrandäwr radio selog gan werthfawrogi agosrwydd ac uniongyrchedd y fformat. Mae hefyd yn gwerthfawrogi gallu darlledu i filiynau o bobl gan barhau i fod yn anhysbys. Er bod niferoedd anferthol yn adnabod ei lais, ychydig iawn fyddai'n ei adnabod ar y stryd.

**Ffynonellau**

Rushworth, S. (2019, Ebrill 3). The voice of British sport. *North East Times Magazine.* Cyrchwyd ar 19 Chwefror 2021 o https://netimesmagazine.co.uk/editorial/the-voice-of-british-sport/

King, M. (2012, Ebrill 21). Work: my greatest mistake: how John Murray learned always to keep his eye on the ball. *Guardian.* Cyrchwyd ar 19 Chwefror 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/13E5931E8ADFB4E8?p=UKNB

Ry (2018, Tachwedd 2). *Football commentator John Murray – 'The Biz' – ep 1.* [Ffeil Fideo]. Cyrchwyd ar 19 Chwefror 2021 o https://www.youtube.com/watch?v=J8Xkgk39XUI

90 min football. (2020, Mawrth 16). *John Murray talks through life as a radio commentator and his biggest moments in football*. [Ffeil fideo]. Cyrchwyd ar 19 Chwefror 2021 o https://www.youtube.com/watch?v=QJVwHjgWrf0

Nichol, S. (2014, Awst 15). New nationwide voice of football John Murray steps out from behind the microphone – Northumberland-born John Murray and former has begun his new role as the BBC's Chief Football Correspondent. *Evening Chronicle.* Cyrchwyd ar 22 Chwefror 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/151195D9B4F6C2F8?p=UKNB

McCarthy, D. (2016, Awst 10). 'BBC commentators win gold for stating the bleeding obvious so far at the Olympics.' – David McCarthy reckons the coverage from Clare Balding and co in Rio has been below par at the world's biggest sporting event. *Daily Record.* Cyrchwyd ar 22 Chwefror 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/15EB18A52E9ED080?p=UKNB

Dann, T. (Host). Podcast: BBC Radio's football correspondent John Murray [Pennod podlediad sain]. In *Radio Today.* Cyrchwyd ar 22 Chwefror 2021 o https://radiotoday.co.uk/2016/10/podcast-bbc-radios-football-correspondent-john-murray/

Prifysgol De Montfort Caerlŷr. (2021). BBC Five Live's 'Voice of Football' creates big match atmosphere at packed talk. Cyrchwyd ar 22 Chwefror 2021 o https://www.dmu.ac.uk/about-dmu/news/2016/march/bbc-five-lives-voice-of-football-creates-big-match-atmosphere-at-packed-talk.aspx

# Trevor Newman



Mae Trevor Newman wedi dysgu daearyddiaeth mewn wyth gwlad a thri chyfandir.

Cafodd Newman ei eni yn Folkestone a'i fagu yn Hythe, Caint. Roedd ei deulu yn rhedeg cadwyn o siopau dodrefn yn ogystal â chwmni symud dodrefn (pob un o'r enw "Newman and Sons"). Roedd ei fam yn gweithio fel cogydd yn un o'r tafarndai lleol. Mynychodd Trevor Ysgol Ramadeg Harvey yn Folkestone. Roedd yn swyddog yno, yn ogystal â chynrychioli'r ysgol mewn pêl-droed a rygbi'r undeb.

Ef oedd y cyntaf o'i deulu i fynd i'r brifysgol, gan gyrraedd Coleg Prifysgol Dewi Sant yn 1982 i astudio daearyddiaeth. Roedd hwn yn gyfnod cyffrous i'r pwnc yn Llanbedr Pont Steffan; ymhlith darlithwyr Newman oedd Mike Walker, Dave Day, Dave Kirby, Paul Cloke, John Dawson a Rob Page. Pan nad oedd yn astudio, cynrychiolodd y coleg mewn pêl-droed a hoci, (chwaraeodd fel cefnwr pêl-droed a gôl geidwad hoci). Ei lysenwau oedd Blimp (gan ei fod yn fyrdew) ac Elder Lemon ar ôl lliw ei grys gôl geidwad).

Yn ystod ei flynyddoedd yn Llanbedr Pont Steffan, sylweddolodd Newman mai ei uchelgais oedd bod yn athro. Fodd bynnag, roedd yn amharod i ddilyn cwrs TAR yn syth, heb brofi bywyd y tu allan i addysg yn gyntaf. Felly, treuliodd dair blynedd yn gweithio yn Llundain fel drafftiwr dylunio. Ar ôl hynny, cynigiwyd pecyn diswyddo iddo gan fod yr adran yn symud i Sheffield. Achubodd ar y cyfle i hyfforddi fel athro(rhywbeth yr oedd wedi bwriadu ei wneud erioed). Aeth i Brifysgol Abertawe yn 1988, gan gymhwyso fel athro'r flwyddyn ganlynol. Daearyddiaeth oedd ei brif bwnc ac Addysg Gorfforol oedd ei ail bwnc.

Swydd gyntaf Newman oedd mewn ysgol wledig yng nghanol Llynnoedd Norfolk. Mae'n cofio gwers ar dwristiaeth, lle gofynnodd i ddisgyblion blwyddyn 10, "Pwy sydd wedi bod ar wyliau dramor?" Cafodd ei synnu nad oedd pedwar o'r dosbarth wedi ymweld â Norwich, ond deunaw milltir i ffwrdd! Dysgodd hefyd i chwarae Tchoukball, (gêm dan do a gafodd ei dyfeisio yn y 1970au a oedd yn cynnwys elfennau o bêl-law, pêl foli a phêl fasged).

Cynrychiolodd Newman Brydain Fawr mewn twrnamaint yn y Swistir yn ogystal â bod yn gapten Cymru yn y gêm ryngwladol gyntaf rhwng Cymru a Lloegr, a gafodd ei chwarae yng Ngŵyl Gerddi Glyn Ebwy yn 1992. Roedd dau o gyn-fyfyrwyr Llanbedr Pont Steffan yn rhan o dîm Cymru ar y diwrnod hwnnw hefyd.

Daeth ei swydd nesaf ag ef yn ôl i Gymru, i ysgol uwchradd Gatholig ym Mhontypridd. Arhosodd yno am y naw mlynedd nesaf, ar yr adeg hon y cyfarfu â'i wraig Lynda. Un noson wlyb yn 1999 wrth aros mewn tagfa draffig ar y briffordd, dywedodd Lynda eu bod yn mynd i rigol. Efallai y dylen nhw geisio gwneud rhywbeth ychydig yn wahanol. Y flwyddyn ganlynol, symudon nhw i Ysgol Ryngwladol St Andrews, Blantyre, Malaŵi ar gyfer swydd ddysgu ryngwladol gyntaf Trefor. Roedd y ddaearyddiaeth yn ysblennydd; mae'n cofio teithiau maes ar ben llwyfandiroedd 1500 metr a mellt yn torri ar draws gwersi. Yn anffodus, yn sgil cwymp economi Malaŵi bu'n rhaid i'r Newmans ddychwelyd i Brydain ar ôl blwyddyn yn unig. Fodd bynnag, roedd y cariad tuag at deithio wedi cydio ynddynt.

Ar ôl treulio blwyddyn yn dysgu yn Kettering yng Nghanolbarth Lloegr, roedd ail swydd dramor Newman yn Kuwait yn Ysgol Saesneg Fahaheel. Roedd hon yn swydd am gyfnod byr iawn yn unig oherwydd dechreuodd ail ryfel y gwlff. Gweithiodd Newman nesaf yn Yeovil, cyn symud i'r Almaen i fod yn bennaeth yr adran ddaearyddiaeth yn Ysgol Brydeinig Berlin, ysgol ryngwladol yn cynnig addysg Brydeinig. Yn y swydd hon, daeth yn athro ac yn eiriolwr dros y Fagloriaeth Ryngwladol.

Yn 2006, symudodd Newman yn ôl i Affrica i ddysgu yn Ysgol Ryngwladol Moshi ar lethrau isaf mynydd Kilimanjaro. Aeth ar ei daith maes gyntaf i Barc Cenedlaethol Tarangire; mae'n cofio dihuno i weld anifail yr oedd llew wedi'i ladd dros nos 50 metr o'i babell. Symudodd yn ôl i Ewrop yn 2008 i fod yn bennaeth Dyniaethau yn Ysgol Ryngwladol St Dominic, Lisbon. Dair blynedd yn ddiweddarach, symudodd i Goleg y Dadeni Hong Kong; sefydlwyd yr ysgol bum mlynedd cyn hynny i wasanaethu anghenion y cymunedau lleol ac alltudion. Yn ogystal â dysgu, roedd Newman yn mwynhau trefnu teithiau i Mali, gwylio llawer o gystadlaethau rygbi saith bob ochr ac archwilio bron pob darn o Dde Ddwyrain Asia. Dathlodd ei ben-blwydd yn hanner cant oed gan gerdded llwybr yr Inca ym Mheriw.

Gadawodd Hong Kong yn 2020; ei gyrchfan nesaf yw Bangkok, lle mae wedi'i benodi i swydd Pennaeth Daearyddiaeth a Gwleidyddiaeth Fyd-eang yn Ysgol Ryngwladol St Andrews. Mae'n dweud bod popeth mae wedi'i wneud yn ei yrfa wedi bod yn bosibl oherwydd ansawdd y dysgu a'r ysbrydoliaeth a gafodd wrth astudio yn yr adran ddaearyddiaeth yn Llanbedr Pont Steffan.

# Frank Newte – Darlithydd a Thorrwr Codau



Ganwyd Frank Richard Newte yn 1913, yr ieuengaf o dri brawd, mynychodd Colet Court, Llundain, lle derbyniodd ei addysg am dair blynedd gan George Ewart Bean, archeolegydd o fri o Loegr. Enillodd Newte ysgoloriaeth i Goleg Hertford, Rhydychen lle cafodd yrfa academaidd ddisglair. Ymaelododd â'r Brifysgol yn 1932 ac enillodd radd ddosbarth cyntaf yn arholiadau'r flwyddyn gyntaf yn y Clasuron yn 1934. Y flwyddyn ddilynol, enillodd Wobr fawreddog y Canghellor ar gyfer Barddoniaeth Ladin a gafodd ei hadrodd yn Theatr Sheldonian, Rhydychen a'i chyhoeddi gan Blackwells. Yn 1936, enillodd Newte radd yn y Clasuron ac un arall mewn Diwinyddiaeth y flwyddyn ganlynol.

Yn 1938, ymunodd Newte â Choleg Dewi Sant i gynorthwyo'r Athro Harold Harris ag addysgu'r Clasuron. Flwyddyn yn ddiweddarach, gadawodd Lanbedr Pont Steffan i weithio gyda'r Magnelwyr Brenhinol fel Uwch-sarsiant Catrodol, yn ôl pob sôn. Dychwelodd i'r Coleg yn 1946 lle y parhaodd i addysgu am 31 o flynyddoedd.

Pan gyhoeddwyd *Secret Days: Code-breaking in Bletchley Park* gan Asa Briggs yn 2011, datgelwyd bod Newte, mewn gwirionedd, wedi bod yn aelod o Gorfflu Cudd-wybodaeth y Fyddin. Yn rhan o dîm a ddewiswyd yn arbennig, bu'n rhan o SIXTA, sef acronym ar gyfer 'Number 6 Intelligence School Traffic Analysis'. Ym mis Mai 1942, trosglwyddwyd SIXTA i Barc Bletchley, Swydd Buckingham, lle chwaraeodd y grŵp rôl hanfodol i dorri Côd Enigma. Fel nifer o'r aelodau staff a oedd yn gweithio ym Mharc Bletchley, ni soniodd Newte air am ei rôl yn ystod y rhyfel.

Ar ôl dychwelyd i Goleg Dewi Sant, parhaodd yn ei swydd fel darlithydd yn y Clasuron a chyfunodd hyn â rôl Llyfrgellydd y Coleg. Ochr yn ochr â'i gyfrifoldebau, ysgrifennodd Newte nifer o lyfrau a chyfieithiadau. Fel rhan o'i gyhoeddiad arobryn o gerdd ar Boudica ym 1935, ychwanegodd gyfieithiadau o waith Plato, Isocrates a Comedies of Terence ymhlith eraill.

Er iddo gael ei ddisgrifio fel dyn 'swil, petrusgar, anymwthiol, ac ecsentrig', roedd Newte yn boblogaidd ymhlith y myfyrwyr yng Ngholeg Dewi Sant. Roeddynt yn ei gofio'n canu'r piano a'r sŵn yn cario ar draws y Cwad, y ffaith ei bod yn dioddef o ddiffyg treuliad a'i barodrwydd i fenthyg ei gar yn ôl yr angen. Byddai nifer o fyfyrwyr yn mynd i siopa ar ei ran ac, yn aml,

byddai'n mynd â grwpiau o fyfyrwyr dramor yn ystod gwyliau'r haf ar yr amod mai nhw oedd yn gyrru.

Pan fu farw Newte, yn 64 oed, cofnododd y Prifathro, Lloyd Thomas, yn ei *Adroddiad Blynyddol 1976-77*, fod Capel y Coleg dan ei sang gan fyfyrwyr ac aelodau staff. Ysgrifennodd yr Athro Norman Gully, aelod o adran y Clasuron, am 'ei wasanaeth diwyd fel athro ac ysgolhaig Lladin' a dywedodd y byddai'n 'cael ei gofio'n annwyl a gyda pharch gan nifer fawr o fyfyrwyr ac aelodau staff'.

Yn 2013, rhoddodd Cymdeithas Llambed gyllid i ddarparu plac llechen yn coffau gwaith Newte fel darlithydd ac fel torrwr codau. Mae'r plac hwn i'w weld yn y porth bwaog sy'n arwain i'r Cwad, islaw ystafelloedd Newte yn y Tŵr.




**Ffynonellau:**

Staples, C. (2018). Lampeter's Bletchley Park Code-Breaker: Frank Richard Newte – Based on a visit to Bletchley Park. *The Link*, (67), 3.

"Lampeter Society Annual Report 2013" (2014). *The Link,* (71), 4-5.

Ysgrif goffa a ysgrifennwyd gan Michael Newte, ffynhonnell anhysbys.

# Esgob Moses Nthukah

Moses Masamba Nthukah yw esgob esgobaeth Mbeere, Kenya.

Ganwyd Nthukah yn 1964. Hyfforddodd fel offeiriad yng Ngholeg Diwinyddiaeth a Datblygiad St Andrews, Kabare. Dyfarnwyd diploma iddo yn niwinyddiaeth ac offeiriadaeth yn 1993, cyn iddo gael ei ordeinio y flwyddyn ganlynol. Wedi hyn, parhaodd i astudio tra'n gweithio mewn sawl plwyf yn Kenya yn esgobaethau Embu a Mbeere. Enillodd radd mewn duwdod a thrwydded mewn diwinyddiaeth o Brifysgol St Paul, Limuru.

Symudodd Nthukah i Brydain ar ôl hyn, gan astudio ar gyfer MA yng Ngholeg Ridley Hall, Caergrawnt. Teitl ei draethawd ymchwil oedd *Development as a form of pastoral ministry: with a case study of Njarange area project, Kenya.* Dychwelodd i Kenya yn 2001 i weithio fel Deon Academaidd yng Ngholeg Diwinyddiaeth a Datblygiad St Andrews, Kabare. Hefyd, astudiodd ar gyfer MSc mewn rheoli datblygiad byd-eang drwy'r Brifysgol Agored.

Daeth Nthukah yn ôl i'r DU i astudio ymhellach yn 2003, gan wneud gwaith ymchwil ôl-raddedig ym Mhrifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan a Chanolfan Astudiaethau Cenhadaeth yn Rhydychen. Dyfarnwyd Doethuriaeth iddo mewn Diwinyddiaeth a Datblygiad Plwyfol gan Goleg Offeiriadol Tŷ Alcuin, Minnesota, yn 2014.

Yn ystod ei gyfnod ym Mhrydain, bu Nthukah hefyd yn gweithio fel offeiriad plwyf yn Esgobaeth Henffordd. Bu'n gweithio yng ngrŵp eglwysi Archenfield, yn ne a gorllewin y sir ac roedd yn byw mewn pentref bychan o'r enw Much Birch. Fodd bynnag, ni fu'n byw yno am gyfnod hir. Yn 2008, cafodd ei benodi'n esgob ei esgobaeth gartref, Mbeere, taith ddwy neu dair awr mewn car i'r gogledd-ddwyrain o Nairobi.

Crëwyd esgobaeth Mbeere o esgobaeth Embu yn 1997; mae'n cynnwys 62 plwyf gyda 239 o eglwysi. Dim ond yr ail esgob yw Nthukah, yn dilyn y Gwir Parchedig Gideon Ireri. Ar adeg penodi Nthukah, roedd yr esgobaeth yn llawn gwrthdaro a gwahaniaethu rhwng llwythau, a oedd yn adlewyrchu problemau hanesyddol. Daeth i'r amlwg fod yr esgob newydd yn gyfryngwr o fri cyn pen dim.

Ardal gras a lletgras yw Mbeere, ac mae'r rhan fwyaf o'i dinasyddion yn ffermwyr bychan. Tyfir india corn, ffa, pys gwartheg (cowpeas), pys colomennod (pigeon peas), miled a sorgwm fel cnydau cynhaliaeth, gyda gramau gwyrdd, ffacbys a chotwm fel cnydau arian. Dywedodd Nthukah, 'Yr heriau cyffredin sy'n wynebu'r eglwys ym Mbeere yw tlodi a sychder a newyn rheolaidd, ond credaf y bydd Duw yn cryfhau ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer ymyriadau priodol.' Helpodd Nthukah i ddatblygu Arloesedd Bywoliaethau Amaethyddiaeth Cynaliadwy (SALI). Roedd hyn yn galluogi ffermwyr bychan i addasu i newid hinsawdd drwy gyfuno ffyrdd modern a thraddodiadol o greu rhagolygon tywydd. Rhannodd y prosiect wybodaeth hinsawdd benodol i ardaloedd a rhagolygon tywydd, oedd yn golygu bod modd i ffermwyr blannu cnydau addas ar yr adeg briodol.

Roedd Undeb y Mamau Mbeere wedi nodi'r angen i blant byddar gael addysg uwchradd. Wrth weithio gydag Ymddiriedolaeth Affrica Peter Cowey, llwyddodd Nthukah i sefydlu Ysgol Uwchradd y Santes Fair Magdalen i Blant Byddar yn Riandu yn 2012. Gan weithio ochr yn ochr â phobl ifanc byddar ac anfyddar o Kenya , aeth tri grŵp o wirfoddolwyr o'r DU i'r wlad i helpu i adeiladu'r ysgol. Nod yr ysgol yw rhoi cyfle i blant byddar gael mynediad i gyflogaeth a gallu cynnal eu hunain, yn ogystal â datblygu eu sgiliau iaith a rhoi'r hyder iddynt gyfathrebu. Mae 80 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Roedd lle ar gyfer 300 o bobl yn unig yn y gadeirlan gyntaf, Eglwys St Peter gynt yn Siakago; ac yn 2013 penderfynodd synod esgobol adeiladu cadeirlan newydd yn ei lle gyda digon o le ar gyfer rhwng 2500 a 3000 o bobl. Roedd yr agoriad yn 2019 yn gyfle hefyd i ddathlu canmlwyddiant yr eglwys wreiddiol yn yr esgobaeth.

Hefyd, datblygodd Esgobaeth Mbeere Offeiriadaeth Chwaraeon dan arweiniad yr Eglwys ar gyfer efengyliaeth a chymod. Cafodd Nthukah ei ysbrydoli gan raglen chwaraeon ieuenctid; roedd ganddo weledigaeth ar gyfer defnyddio pêl-droed ar gyfer cenadaethau a rhoi newidiadau ar waith mewn cymunedau. Fel rhan o'r gwaith hwn, trefnodd ymweliadau gan y Parch. Andy Bowerman, caplan clwb Southampton yn Uwch Gynghrair Lloegr, a seren arfordir y de Kenya, Victor Wanyama

Mae Nthukah wedi ysgrifennu'n helaeth am sefydliadau ffydd a lleihau tlodi yn Kenya . Yn benodol, ef yw awdur *Africa's faith based organizations in transformational development: assessing poverty reduction and its implications for pastoral theology,* (Lambert, 2015). Yn y gwaith hwn, archwiliodd natur ac effeithiolrwydd strategaethau sefydliadau Cristion i leihau'r argyfwng tlodi parhaus yn ei esgobaeth. Gyda Julius M. Gathogo, mae'n gydawdur *A Fallow Goldmine: One Hundred Years of Mbeere Mission in Kenya (1919-2019),* (Kairos, 2019).

Mae Nthukah yn angerddol dros rannu newyddion da Iesu Grist; cymod, cyfryngu a gwella; heddwch a chyfiawnder; datblygu trawsnewidiol; a materion cyd-destunol diwinyddol bugeiliol. Mae'n briod â Lucy Mothoni Masamba, ac mae ganddynt dri o blant sy'n oedolion.

**Ffynonellau**

BBC, Hereford & Worcester. (2008). The Revd. Moses is to become a bishop. Cyrchwyd ar 14 Medi 2020 o http://www.bbc.co.uk/herefordandworcester/content/articles/2008/09/19/herefordshire_priest_becomes_kenya_bishop_feature.shtml


Nthukah, M. (2020). Moses Nthukah, Diocesan Bishop at Diocese of Mbeere. [Tudalen LinkedIn]. LinkedIn. Cyrchwyd ar 14 Medi 2020 o https://www.linkedin.com/in/moses-nthukah-30871829/

WA Anglicana (2016, 18 Mai). Who will be the next archbishop of ACK? (2016). [Blogiad]. Cyrchwyd ar 14 Medi 2020 o https://waanglicana.wordpress.com/2016/05/18/who-will-be-the-6th-archbishop-of-ack/

Project Riandu Volunteers (d.d.). The need, the change-makers, the partnership and the impact. Cyrchwyd ar 14 Medi 2020 o http://www.projectriandu.com/the-project.html

Candle news Kenya. (2019, 15 Rhagfyr). Imposing Mbeere ACK Cathedral enriches beauty of Siakogo town. [Blogiad]. Cyrchwyd ar 14 Medi 2020 o http://candlenewskenya.blogspot.com/2019/12/imposing-mbeereack-cathedral-enriches.html

# Alfred Ollivant



Alfred Ollivant (1798–1882) oedd is-bennaeth cyntaf Coleg Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan, ac yn ddiweddarach, daeth yn Esgob Llandaf.

Ganwyd Ollivant ym Manceinion, yn fab iau i William Ollivant a'i wraig Elizabeth. Symudodd i Lundain pan ddaeth ei dad yn glerc yn Swyddfa'r Llynges. Roedd y teulu'n byw yn 11 Smith Street, Sgwâr Northampton. Pan oedd yn ifanc, addysgwyd Alfred yn Ysgol Sant Paul ac yna aeth i Goleg y Drindod, Caergrawnt. Yn llwyddiannus yn academaidd, roedd yn ysgolhaig Craven yn 1820, graddiodd yn chweched oreugwr yn 1821 ac enillodd fedal y canghellor yn y Clasuron. Yn 1822, dyfarnwyd ysgoloriaeth Hebraeg Tyrwhitt iddo. Etholwyd ef hefyd i gymrodoriaeth yn y coleg. Dyfarnwyd ei B.D. a D.D. iddo yn 1836.

Penodwyd Ollivant i Goleg Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan a oedd newydd ei sefydlu yn 1827. Yn ogystal â bod yn is-bennaeth, roedd yn uwch-diwtor, yn athro Hebraeg, ac yn ail athro mewn diwinyddiaeth. Roedd yn un o dri aelod o staff yn unig – y lleill oedd y pennaeth Llewelyn Lewellin a'r athro Cymraeg, Rice Rees. Roedd Llanbedr Pont Steffan yn ynysig, felly roedd Ollivant a Lewellin yn ddibynnol ar gwmni ei gilydd. Trwy drugaredd, fe dynnodd y ddau ddyn ymlaen yn dda. Yn ddiweddarach, disgrifiodd merch Lewellin Ollivant fel 'dyn difrifol a oedd yn addawol yn ôl ei olwg, gyda chalon garedig iawn.' Daeth Ollivant i Lanbedr Pont Steffan fel dyn sengl a phriododd Alicia Olivia Spencer o Bramley Grange, Swydd Efrog, yn 1831. Goroeswyd hwy gan dri mab. Roedd Ollivant yn ficer ac yn rheithor segur yn Llangeler, yng ngogledd Sir Gaerfyrddin, a llwyddodd i ddysgu Cymraeg a phregethu yno'n rheolaidd.

Dychwelodd Ollivant i Gaergrawnt yn 1843 fel athro brenhinol mewn diwinyddiaeth. Yna, yn 1849, penodwyd ef yn Esgob Llandaf. Roedd ei benodiad yn un chwerw. Roedd un grŵp yn teimlo bod Ollivant yn ddyledus am ei ddyrchafiad oherwydd y ffaith iddo siarad Cymraeg ac roeddent yn ystyried hyn yn fuddugoliaeth i'r rhai a oedd eisiau esgobion Cymraeg eu hiaith. Roedd carfan arall yn ystyried Ollivant yn esgob Seisnig arall, ac yn cwyno bod ei Gymraeg yn warthus!

Roedd esgobaeth Llandaf wedi dioddef tlodi ac wedi cael ei hesgeuluso ers amser maith, gydag olyniaeth o esgobion absennol. Yn wir, roedd mor waddoledig nes bod gan yr esgob fel arfer ryw swydd arall ar yr un pryd. Roedd rhagflaenydd Ollivant, Edward Copleston, hefyd wedi bod yn ddeon yn Eglwys Gadeiriol Sant Paul, a dim ond bob hydref y byddai'n ymweld â Llandaf. I’r gwrthwyneb, llwyddodd Ollivant i fyw yn ei esgobaeth, wrth i'r comisiynwyr elusennau brynu preswylfa swyddogol, Tŷ Llandaf, iddo yn 1849. At hynny, cynyddwyd ei gyflog o £3150, gan ei godi i'r lefel isaf o £4500. Roedd diwydiannu yn golygu bod cymoedd de Cymru wedi newid yn aruthrol – roedd Ollivant yn arbennig o bryderus am esgeulustod yr eglwys o'r caeau glo. Ymatebodd trwy sefydlu Cymdeithas Estyniad Eglwys esgobaethol yn 1850, a'i nod oedd annog datblygiad yr eglwys Anglicanaidd yn y cymunedau diwydiannol. Y dull gweithredu oedd darparu curad ychwanegol mewn plwyf diwydiannol ac yna sefydlu cynulleidfa newydd. Dim ond ar ôl hynny y codwyd adeilad eglwys newydd. Cafodd dros 170 o eglwysi naill ai eu hadeiladu neu eu hadfer trwy ei raglen o adeiladu eglwysi ac ysgolion. Nid oedd llawer o arian ar gael – pan godwyd eglwysi newydd, roedd yn y ffordd rataf bosibl.

Ar yr adeg hon, roedd yr eglwys gadeiriol ganoloesol yn Llandaf yn adfeilion. Yn hanner cyntaf y ddeunawfed ganrif, roedd John Wood o Gaerfaddon wedi adeiladu eglwys o fewn eglwys yn y pen dwyreiniol, yn arddull glasurol ystafelloedd ymgynnull Caerfaddon! Roedd Ollivant yn gyfrifol am adfer yr hen adeilad yn llwyr, dan gyfarwyddyd y pensaer adfywiad gothig, John Prichard, a'i bartner J.P. Seddon. Tynnwyd y gwaith o'r ddeunawfed ganrif a gwnaed gwaith adfer ac ailadeiladu llawer mwy trylwyr a chydymdeimladol. Defnyddiwyd y gorffennol fel canllaw – lle nad oedd dim o'r hen adeilad yn aros, roeddent yn anelu at gytgord. Roedd Seddon hefyd yn cynnwys rhai ffigurau amlwg o frawdoliaeth y Cyn-Raffaelaidd, a’r mudiad celf a chrefftau, gan gynnwys D.G. Rossetti a William Morris, yn ogystal â llu o grefftwyr.

Ac yntau’n fyfyriwr yng Nghaergrawnt, roedd Ollivant wedi cael ei ddylanwadu gan y clerigwr efengylaidd enwog, Charles Simeon. Bu'r dylanwad hwnnw arno ar hyd ei oes. Roedd yn ddiwinydd pwyllog a cheidwadol, ac yn nerfus o feirniadaeth feiblaidd. Yn 1857, ysgwyddodd y ddyletswydd i wrthbrofi gwaith Rowland Williams, eiriolwr ysgolheictod newydd yr Almaen. Roedd Ollivant hefyd yn amheus o Eingl-Babyddiaeth, er enghraifft yn gwrthwynebu ficer y Santes Fair yng Nghaerdydd yn gwisgo gwenwisg gyda chroes fawr arno. Mewn cyferbyniad llwyr, fodd bynnag, roedd yn cydymdeimlo ag Anghydffurfiaeth. Cynhyrchodd Ollivant nifer fawr o fân gyhoeddiadau – yn benodol, mae ei daliadau tair blynedd i'r clerigwyr yn ei esgobaeth yn ffynonellau hanesyddol defnyddiol o hyd. Roedd hefyd yn aelod o'r panel a gynhyrchodd fersiwn ddiwygiedig y Beibl yn 1870.



Bedd Ollivant yn Eglwys Gadeiriol Llandaf

Bu farw Ollivant ar 16 Rhagfyr 1882. Claddwyd ef ar dir yr eglwys gadeiriol. Yn ddigon addas, mae cofeb iddo ger yr allor uchel yn yr eglwys gadeiriol. Roedd wedi bod yn un o esgobion mwyaf Llandaf, gan drawsnewid yr eglwys yn sefydliad hyblyg a milwriaethus. Rhoddodd arweinyddiaeth ragorol, gan weld egni a bywyd ysbrydol newydd yn cael ei rannu trwy ei esgobaeth.

**Ffynonellau**

Jones, O. (2004, Medi 23). Ollivant, Alfred (1798–1882), bishop of Llandaff. *Oxford Dictionary of National Biography.* Cyrchwyd ar 14 Hydref 2020, o https://www-oxforddnb-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-20742.

Ellis, T. I., (1959). OLLIVANT, ALFRED (1798–1882), bishop. *Dictionary of Welsh Biography*. Cyrchwyd ar 14 Hydref 2020, o https://biography.wales/article/s-OLLI-ALF-1798


Price, D.T.W. (1977). *A History of Saint David's University College Lampeter. Volume one: to 1898.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Wills, W.D. (1968). The established church in the diocese of Llandaff, 1850-70. *Welsh History Review = Cylchgrawn Hanes Cymru.* 4(1-4),235-271 Cyrchwyd ar 15 Hydref 2020 o https://journals.library.wales/view/1073091/1074521/242#?xywh=-428%2C-52%2C3516%2C2149

The Victorian Web. (2019). Llandaff Cathedral (Eglwys Gadeiriol Llandaf). Cyrchwyd ar 15 Hydref 2020 o http://www.victorianweb.org/art/architecture/prichard/2.html

Brown, R.L. (2005). *In Pursuit of a Welsh Episcopate: Appointments to Welsh Sees, 1840-1905.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

# John Owen




Roedd John Owen (1854-1926) yn athro Cymraeg yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, ac yn ddiweddarach yn brifathro yno. Gadawodd Llanbedr Pont Steffan i ddod yn esgob Tyddewi.

Ganed Owen yn Ysgubor Wen, Llanengan yn Sir Gaernarfon. Roedd ei dad, Griffith Owen, yn wehydd a ddatblygodd i fod yn fasnachwr gwlân. Ei fam oedd Ann Jones gynt. Roedd y teulu'n grefyddol; bu Griffith Owen yn ddiacon am nifer o flynyddoedd yng nghapel Methodistiaid Calfinaidd Bwlch yn Llanengan. Mynychodd Owen yr Ysgol Brydeinig yn Llanengan ac yna Ysgol Ramadeg Botwnnog. Pan oedd ond yn bymtheg oed, penododd ei brifathro ef yn feistr cynorthwyol, gan roi cyfle iddo baratoi ar gyfer mynediad i'r brifysgol.

Yn 1872, dyfarnwyd ysgoloriaeth fathemategol i Owen yng Ngholeg Iesu, Rhydychen. Dywedodd yn ddiweddarach fod awyrgylch y coleg yn y dyddiau hynny yn 'awyrgylch Cymreig.' Er mawr siom i Owen, graddiodd yn 1876 gyda gradd ail ddosbarth yn unig. Erbyn hyn, roedd wedi dechrau ymbellhau o'i deyrngarwch cynharach i'r capel. Hyd yn oed tra roedd yn dysgu ym Motwnnog, roedd wedi dechrau mynychu eglwys y plwyf lleol. Yna yn Rhydychen, dylanwadwyd arno gan A.M.W. Christopher, rheithor Sant Aldates. Ar ôl gadael y brifysgol, ystyriodd yrfa yn ordeinio, ond penderfynodd ddysgu am ychydig flynyddoedd yn gyntaf. Ei swydd gyntaf oedd fel meistr cynorthwyol yn ysgol ramadeg Appleby yn Westmorland. Ar yr adeg hon, cyfarfu ag Amelia Longstaff a'i phriodi; cawsant bedwar mab a chwe merch.

Yn 1879, dychwelodd Owen i Gymru i ddod yn athro'r Gymraeg ac yn ddarlithydd y Clasuron yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Cafodd ei gadarnhau a'i ordeinio y flwyddyn honno, cyn cael ei offeirio yn 1880. Mae Price yn nodi efallai mai ef oedd yr athro Cymraeg mwyaf trylwyr a ddysgodd erioed yn Llanbedr Pont Steffan. Yn wir, roedd yn fwy cartrefol yn y Gymraeg nag yn y Saesneg. Yn ystod amser Owen yn Llanbedr Pont Steffan, tyfodd y dewis o astudio'r Gymraeg i safle cryfach, gyda phwyslais ar hanes a diwylliant Cymru, ar gyfieithu i'r Saesneg ac o'r Saesneg, ac ar baratoi pregeth. Fodd bynnag, roedd yn anodd cynnwys y Gymraeg fel pwnc ar gyfer y radd BA, gan nad oedd yr arholwyr allanol o Rydychen a Chaergrawnt yn ei siarad. Dim ond yn 1888, ar ôl i Owen symud ymlaen, y daeth y Gymraeg yn elfen ddewisol o'r radd lwyddo. Yn ystod ei gyfnod yn Llanbedr Pont Steffan, daeth Owen yn adnabyddus fel hyrwyddwr yr eglwys yng Nghymru. Cymerodd ran yn

yr ymgyrch ‘Eglwys mewn Perygl,’ gan ddadlau dros statws parhaus yr Eglwys yng Nghymru fel eglwys wladol sefydledig.

Yn 1885, penodwyd Owen yn warden Coleg Llanymddyfri; roedd ei rôl yno yn fwy agored i annog traddodiadau Cymreig y sefydliad. Roedd yn parhau i gadw mewn cysylltiad agos â Llanbedr Pont Steffan, gan ei fod yn arholwr allanol yn y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd ei arhosiad yn Llanymddyfri yn fyr. Yn 1889, fe wnaeth A.G. Edwards, esgob Llanelwy a rhagflaenydd Owen yn Llanymddyfri, wahodd Stephens i ymuno ag ef fel deon. Disgrifiwyd Owen fel ‘deon dadleuol esgob milwriaethus.’ Roedd yr eglwys yn wynebu bygythiad dadsefydlu, yn ogystal â drwgdeimlad mawr dros y degwm, a dalwyd i Eglwys Lloegr hyd yn oed gan anghydffurfwyr. Ceisiodd Owen wahanu'r ddau fater, ac ennill cefnogaeth yn Lloegr. Cynyddodd ei gyfraniad mewn addysg; dywedwyd ei fod yn dangos bron cymaint o frwdfrydedd dros fuddiannau addysg genedlaethol â buddiannau ei eglwys ei hun. Yn benodol, cafodd ei enwebu i wasanaethu ar bwyllgor siarter Prifysgol Cymru, a ffurfiwyd ym mis Tachwedd 1891.

Unwaith eto roedd amser Owen fel deon yn fyr. Yn 1892, fe'i penodwyd yn bumed prifathro Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Roedd ei egni yno yn syfrdanol; dywedwyd nad oedd unrhyw un yn fwy addas ar gyfer y gwaith. Dywedodd Timothy Rees yn ddiweddarach bod ‘yr holl fyfyrwyr yn teimlo ei effaith. Gwnaeth argraff dda ar y bobl frwdfrydig, a dychrynodd y bobl ddiog. Roedd hyd yn oed ei weld yn cerdded ar draws y cwadrangl ar ei ffordd i ddarlithoedd, gyda'i gap yn gam a'i gŵn o chwith, a'r pentwr anochel o lyfrau wedi'u pentyrru o dan ei fraich, fel gwylio byddin yn mynd dros y bryn.’ Yn ogystal ag arwain y coleg, bu Owen yn darlithio'r Testament Newydd ac mewn Diwinyddiaeth yn gyffredinol.

Ar yr adeg hon, bu Owen yn ymladd brwydr hir ond aflwyddiannus i goleg Llanbedr Pont Steffan gael ei gynnwys yn rhan o Brifysgol Cymru, ynghyd â'r colegau yn Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd. Iddo ef, roedd y coleg yn rhoi graddau o dan siarter frenhinol, felly roedd yn amhosibl dychmygu y dylid ei eithrio. Fodd bynnag, dadleuodd cefnogwyr Prifysgol Cymru fod Coleg Dewi Sant wedi’i sefydlu fel coleg diwinyddol i hyfforddi dynion ifanc ar gyfer y weinidogaeth. Felly, dylid ei drin fel unrhyw goleg enwadol arall. Bu Owen yn deisebu i'r Cyfrin Gyngor, gan ddatgan ‘Nid ydym yn gwrthwynebu Prifysgol Cymru. I’r gwrthwyneb, rydym o'i blaid, ac mae'r Coleg hwn wedi mynegi dro ar ôl tro ei barodrwydd i gydweithredu ym mudiad Prifysgol Cymru, ond dylai fod yn Brifysgol Cymru mewn gwirionedd ac mewn enw...' Roedd yn dadlau bod Llanbedr Pont Steffan yn dysgu pynciau eraill yn ogystal â diwinyddiaeth, ac nid oedd yn gorfodi unrhyw brofion barn crefyddol. Ar ôl i'w ddeiseb gael ei gwrthod, cyfarfu Owen â'r prif weinidog, W.E. Gladstone, ym Mhenarlâg yn ystod haf 1893. Cytunodd Gladstone i fewnosod cymal yn siarter Prifysgol Cymru, a oedd yn caniatáu i gynyddu nifer y colegau. Felly, gallai fod yn bosibl i Goleg Dewi Sant ddod yn rhan o'r Brifysgol rhyw dro yn y dyfodol. Sicrhaodd Owen siarter newydd ar gyfer y coleg yn Llanbedr Pont Steffan ym 1896. Sefydlodd hyn gyngor y coleg a chadarnhaodd fod y sefydliad wedi’i sefydlu i ‘dderbyn ac addysgu pob unigolyn, boed hynny ar gyfer Gorchmynion Sanctaidd ai peidio.’

Yn 1897, penodwyd Owen yn Esgob Tyddewi, yr esgobaeth fwyaf yng Nghymru a Lloegr ar y pryd. Dywedodd Daniel Parry-Jones amdano, ‘Ef oedd yr Esgob mwyaf Cymreig a fu erioed: craig o Gymreictod wedi'i naddu o'r gadwyn Cyn-Gambriaidd honno sy'n brigo yn y gogledd.' Enillodd Owen enw da fel yr ‘esgob brwydrol,’ ond roedd hefyd yn drafodwr medrus. Yn y gwrthdaro hir dros ddatgysylltu, casglodd lu o wybodaeth fel y gallai'r Eglwys gyflwyno ei hachos yn y ffordd orau bosibl. Daeth yn brif lefarydd, gan siarad mewn 80 cyfarfod cyhoeddus yn hanner cyntaf 1912. Ar ôl pasio’r ddeddf, bu’n cynorthwyo i ddelio â phroblemau ymarferol trefnu talaith newydd Cymru. Tua diwedd ei gyfnod fel esgob, llwyddodd i sicrhau sefydliad esgobaeth newydd yn Abertawe ac Aberhonddu, gyda'r hen eglwys briordy yn Aberhonddu yn dod yn eglwys gadeiriol.

Yn anffodus, dinistriwyd palas esgob Owen yn Abergwili, ychydig y tu allan i Gaerfyrddin, gan dân yn 1903. Er i'w deulu ddianc, roedd cost ailadeiladu'r palas yn golygu bod Owen mewn dyled fawr. Sbardunodd y pwysau cysylltiedig ddirywiad sylweddol i iechyd Owen. Roedd Owen wastad wedi dioddef o flinder nerfol yn gysylltiedig â gorweithio a dim digon o ymarfer corff. Nawr fe brofodd waeledd nerfol, gan olygu bod gweithio yn amhosibl. Parhaodd ei iechyd gwael i fod yn broblem am weddill ei oes. Yn ystod haf 1926, dywedodd wrth ffrind 'Rwy'n tynnu fy arfwisg i ffwrdd.' Bu farw yn Llundain ym mis Tachwedd 1926, a chladdwyd ef yn Abergwili. Mae delw iddo yn yr eglwys gadeiriol yn eglwys gadeiriol Tyddewi.

**Ffynonellau**

Ellis, T. I., (1959). OWEN, JOHN (1854 - 1926), egsob. *Dictionary of Welsh Biography*. Cyrchwyd ar 12 Hydref 2020, o https://biography.wales/article/s-OWEN-JOH-1854

Walker, D. (2008, 03 Ionawr). Owen, John (1854–1926), esgob Dewi Sant.*Oxford Dictionary of National Biography.* Cyrchwyd ar 12 Hydref 2020, o https://www-oxforddnb-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-35347.

Price, D. T. W. (1977). *A History of Saint David's University College Lampeter. Volume one: to 1898.* Caerdydd: Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Davies, T.H. (1928). Ysgrif goffa. Y Gwir Barchedig John Owen, Esgob Tyddewi (1854-1926). *Transactions on the Honourable Society of Cymmrodorion.* 1926-1927. Cyrchwyd ar 14 Hydref 2020, ohttps://journals.library.wales/view/1386666/1403194/205#?xywh=-1920%2C-52%2C6254%2C3824

The Bishop of St. David's. (1926, 5 Tachwedd). *Times*, 9. Cyrchwyd o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS151198565/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=8074799e

Parry-Jones, D. (1975). *A Welsh country parson.* Llundain: B.T. Batsford.

# Pete Paphides

Mae Pete Paphides yn adolygydd cerddoriaeth, darlledwr, perchennog labeli recordiau a chyn brif adolygydd roc *The Times.*

Daeth Christakis Paphides, tad Pete Paphides, o bentref Groegaidd Ayios Ermolaos yng Nghyprus. Cafodd ei fam, Victoria, ei magu ar gyrion Athen. Wedi'u denu gan y rhagolygon cyflogaeth yn y DU, fe symudon nhw i Birmingham. Roedd Chris yn fecanig da, ac yn gobeithio y gallai ddod o hyd i brentisiaeth yn y ffatri geir enfawr yn Longbridge. Roedd hyn yn anos nag yr oedd wedi'i ragweld. Fel llawer o bobl o Gyprus, daethant, yn y pendraw, i redeg siop sglodion. Yno y gwnaethant fagu dau fab, Savvakis (Aki) a Takis.

Pan oedd Takis yn bedair oed, dychwelasant i Gyprus am wyliau haf hir a bodlon, gyda'r bwriad o ddychwelyd adref am byth. Yn fuan wedi hyn, fodd bynnag, meddiannwyd Cyprus gan Dwrci. Roedd yr ynys yn rhanedig, ac nid oedd bellach yn lle diogel i fagu plant. Ar ôl iddynt ddychwelyd i orllewin Canolbarth Lloegr, dechreuodd Takis yn yr ysgol fabanod. Daeth yn ddetholus fud am dair blynedd; byddai ond yn siarad â'i rieni, ei frawd a'i athrawon weithiau. Yn y pen draw, ei frawd hŷn, Aki, a'i perswadiodd i ddechrau siarad eto.

Daeth cerddoriaeth yn ysgogiad enfawr i Takis yn gynnar iawn yn ei fywyd; prynodd ei record gyntaf pan oedd yn naw oed. Roedd cerddoriaeth bop yn sicr yn dylanwadu arno, ond roedd hefyd yn ymddangos fel pe bai'n disgrifio'r ffordd roedd yn tyfu i fyny. Mae'n dweud 'Roeddwn i'n ceisio dod o hyd i ffordd i mewn i bethau. Roeddwn i'n chwilfrydig.' Mae'n credu ei fod yn chwilio am bont i Brydeindod. Penderfynodd hefyd ei fod am gael ei alw'n Peter. Taniwyd ei ddiddordeb mewn newyddiaduraeth gerddoriaeth yn gynnar iawn. Pan oedd yn un ar ddeg, defnyddiodd bapur sglodion i greu cylchgrawn 16 tudalen o'r enw *Pop Scene*. Ceisiodd adolygu pob record a oedd yn y 75 uchaf. Wrth ysgrifennu am *Green Door* gan Shakin' Stevens, a oedd yn rhif un yr wythnos honno, datganodd, 'Rwy'n ei hoffi, mae'n dda, ond nid yw'n iawn sut y gall ddewis un hen gân, ei chanu a'i gwerthu. Beth am bethau newydd, Mr Stevens?'

Nid oedd yn arbennig o lwyddiannus yn yr ysgol. Er iddo ennill pedair Safon Uwch yn y pen draw, nid oedd ei raddau'n ddigon da i fynd i Goleg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Fodd bynnag, ffoniodd yr Athro David Cockburn a'i berswadio i adael iddo ddod beth bynnag. Astudiodd athroniaeth, y mae'n teimlo ei bod yn 'radd dda iawn i'w wneud i fod yn well awdur.' Ar ôl ychydig ddyddiau, teimlai ar goll ac yn hiraethus. Roedd wrth ei fodd yn mynd i siopau recordiau, ond ymddengys bod y siop gerddoriaeth agosaf saith milltir ar hugain i ffwrdd. Yna, dywedodd ei ffrind Andy Lewis wrtho am Hag's, sef siop recordiau ail-law uwchben swyddfa asiant teithio. Aeth Paphides i mewn i'r siop a meddwl, 'Rwy'n gallu aros. Dyma fydd y cyfan sydd ei angen arnaf. ' Tra'r oedd yn Llanbedr Pont Steffan, cynhyrchodd ffansîn 48 tudalen hefyd, sef *Perturbed.* Roedd yn cynnwys gwerthfawrogiad o'i hoff grwpiau: Dexys Midnight Runners, y Go-Betweens, a Lilac Times.

Ar ôl graddio, aeth Paphides i Lundain i weithio fel newyddiadurwr llawrydd i *Melody Maker.* Tua'r un pryd, cyfarfu â Caitlin Moran, a oedd hefyd yn ysgrifennu i *Melody Maker*. Mae wedi dweud 'Roeddwn i'n genfigennus ohoni am ei bod hi'n wych.' Priododd ef a Caitlin yn 1999; mae ganddyn nhw ddwy ferch, Dora ac Eavie.

Ar ôl dwy flynedd yn *Melody Maker,* aeth Paphides ymlaen i weithio yn *Time Out* am wyth mlynedd. Roedd yn brif adolygydd roc *The Times* rhwng 2005 a 2010, a chafodd gyfweliadau ag artistiaid fel Beyonce, ABBA, Coldplay, Kanye West a Neil Diamond. Ochr yn ochr â hyn, cyflwynodd bodlediad cerddoriaeth wythnosol ar gyfer *The Times*. Mae wedi gweithio ar ei liwt ei hun ar gyfer *The Guardian, Observer Music Monthly, Mojo* a chylchgrawn *Q.* Mae hefyd wedi gwneud sawl rhaglen

ddogfen ar gyfer BBC Radio 4. Yn *Lost Albums,* adroddodd stori am albymau gwych y gellir, am amrywiaeth o resymau, gael eu hystyried yn rhai 'coll'. Roedd y rhain yn cynnwys *Bambu*, gan y cyn-aelod o'r Beach Boys, Dennis Wilson, a *Sing Slowly Sisters* gan Robin Gibb. Er syndod i Paphides, caniataodd Gibb i'w ganeuon gael eu darlledu am y tro cyntaf. Yn *Follow Up Albums,* archwiliodd Paphides y pwysau ar gerddorion i sicrhau llwyddiant masnachol enfawr. Archwiliodd *Don't Stand Me Down* gan Dexys Midnight Runners*, Tusk* gan Fleetwood Mac a *Dog Man Star* gan Suede*.* Yn *The Songs of Molly Drake,* adroddodd Paphides hanes caneuon a recordiwyd yn breifat gan fam y canwr cwlt, Nick Drake. Enillodd y rhaglen Wobr Aur Gŵyl Radio Efrog Newydd. Mae Paphides yn cyflwyno sioe gerddoriaeth wythnosol ar gyfer Soho Radio hefyd.

Mae casgliad Paphides o gerddoriaeth yn enfawr; mae ganddo tua 50,000 o recordiadau. Mae ei gartref yn cynnwys ystafell sy'n llawn i'r nenfwd gyda silffoedd a dreir yn dal recordiau. Mae uned ynys yn y canol yn cynnwys hyd yn oed mwy o recordiau. Mae'n nodi, 'Cefais y dreir wedi'u gwneud yn arbennig er mwyn cyfleu'r teimlad o bori trwy recordiau mewn siop.' Mae ei chwaeth yn eclectig; mae ei hoff albymau yn amrywio o *Voulez-Vous* gan Abba, i *Party Time* gan The Heptones a *Moon Shaped Pool* gan Radiohead*.* Yn ôl Robert Crampton mae ganddo glust wych am y pethau da, waeth beth yw'r cyfnod, y genre neu'r artist.

Ym mis Medi 2015, cafodd y delweddau o ffoaduriaid o Syria a welwyd ar y newyddion teledu argraff ddofn ar Paphides a'i wraig Caitlin. Roedd Paphides yn cofio cân Crowded House *Help is Coming;* a ymddangosodd gyntaf ar albwm yn 1999 o draciau prin a thraciau oedd heb eu rhyddhau. Mae'n sôn am bobl sy'n rhoi eu ffydd mewn pobl a sefydliadau nad ydynt wedi dod ar eu traws eto. Awgrymodd i Neil Finn, awdur a phrif ganwr y gân, y dylid ei rhyddhau fel sengl elusennol gyda'r elw'n mynd i Gronfa Achub y Plant yn Syria. Cafodd fideo cysylltiedig ei gynhyrchu gan Mat Whitecross. Cafodd Benedict Cumberbatch ei berswadio gan Caitlin i recordio cyflwyniad, sef dyfyniad o gerdd, *Home*, gan y bardd Somalia-Prydeinig, Warsan Shire. Cytunodd George Osborne, Canghellor Prydain, i hepgor y TAW. Y diwrnod ar ôl i'r sengl gael ei ryddhau, dangosodd Clwb Pêl-droed Arsenal y fideo yn ystod hanner amser, gan gyfrannu £1 am bob tocyn a werthwyd, gan wneud cyfanswm o dros £60,000. Roedd Cumberbatch, yn chwarae *Hamlet* ar y pryd a chodwyd oddeutu £100,000 trwy ddarllen cerdd Warsan Shire ym mhob perfformiad. Cyfrannwyd tua £200,000 trwy rif testun pwrpasol. Mae Paphides wedi dweud 'Ni all diwylliant poblogaidd ddatrys y problemau hyn ond ... gall greu ymwybyddiaeth sy'n ... pwyso ar lywodraethau i ysgwyddo'u rhwymedigaethau dyngarol.'

Yn fwy diweddar, lansiodd Paphides label recordiau Needle Mythology sydd wedi'i neilltuo'n bennaf i ailgyhoeddi albymau na roddwyd digon o sylw iddynt, ac nad yw llawer ohonynt erioed wedi bod ar gael ar finyl o'r blaen, gan eu "rhyddhau â'r cariad y maent yn ei haeddu." Ymhlith yr artistiaid y mae eu gwaith wedi'i ryddhau ar y label mae Stephen Duffy, Ian Broudie, Tanita Tikaram, Bernard Butler a Catherine Anne Davies, a'r bwriad yw rhyddhau deitlau estynedig gan Neil a Tim Finn yn 2021.

Ym mis Mawrth 2020 hefyd cyhoeddwyd llyfr cyntaf Paphides *Broken Greek: a story of chip shops and pop songs,* (Quercus, 2020). Mae'n disgrifio sut yr oedd yn ei chael yn anodd cysoni ei hunaniaethau fel Groegwr o Gyprus ac fel Sais o Birmingham. Ochr yn ochr â hyn, mae'n ysgrifennu am effaith cerddoriaeth arno; mae'n gofyn, 'Ydych chi weithiau'n teimlo bod y gerddoriaeth rydych chi'n ei chlywed yn esbonio eich bywyd i chi?' Ond stori ei rieni yw'r llyfr hefyd, a'u brwydr nhw i lwyddo mewn bywyd. Wrth ysgrifennu yn y *New Statesman,* dywedodd y cyn-weinidog Llafur, Alan Johnson 'Alla i ddim dweud wrthych pa mor dda yw'r llyfr hwn.' Cafodd ei ddisgrifio gan Nick Lezard, yn *The Spectator* fel 'gorchest wych.' Tynnwyd sylw ato fel Llyfr yr Wythnos BBC Radio 4 ym mis Mai 2020. Ers hynny mae wedi cael ei ddewis gan y cynhyrchydd Andrew Eaton (*The Crown, 24 Hour Party People)* ar gyfer cyfres deledu.

**Ffynonellau:**

Harris, J. (2020, Mawrth 5). *Broken Greek by Pete Paphides* adolygiad – siopau sglodion a cherddoriaeth bop – ysgrif atgofus gan yr adolygydd cerddoriaeth, sy'n adrodd sut y dysgodd plentyn sensitif, tawel i rieni o fewnfudwyr ymdopi, gyda chymorth Abba a bandiau pop eraill. *Guardian* Cyrchwyd ar Chwefror 4 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/179867D4398F32F0?p=UKNB

D'Ancona, M. (2020, Ebrill 17). Tortoise Book Club gyda Pete Paphides ar Broken Greek. [Ffeil fideo]. Cyrchwyd ar Chwefror 4 2021 o https://www.youtube.com/watch?v=E2FyNDcxtLc

Crampton, R. (2020, Chwefror 29). *How love and pop music saved my life* – cafodd Pete Paphides ei fagu uwchben siop sglodion yn Birmingham, yn fab i fewnfudwyr Groegaidd o Gyprus. Yn swil ac yn fewnblyg, roedd ganddo gyfrinach euog: Pop Prydain. Mae cyn-adolygydd roc y *Times* yn sôn wrth Robert Crampton am ei gofiant newydd, syrthio mewn cariad â Caitlin Moran, sydd bellach yn wraig iddo, a'i obsesiwn â cherddoriaeth – 50,000 o albymau hyd yma. *The Times* Cyrchwyd ar Chwefror 4 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/1796944DD8A36368?p=UKNB

Paphides, P. (2005, Medi 11). *There's a boy down the chip shop swears he owns it*. Efallai na fyddai tyfu i fyny mewn tecawê Groegaidd yn Birmingham wedi bod yn rhywbeth y byddech wedi clochdar amdano, meddai Peter Paphides, ond arogl penfras, selsig sych a chebabs oedd y sbardun. *Observer* Cyrchwyd ar Chwefror 4 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/10CAAD277626EA40?p=UKNB

Spice, A. (2013). *The private collection*: cyfweliad estynedig gyda'r newyddiadurwr cerddoriaeth Pete Paphides ar y trysorau pop sy'n cuddio yn ei gasgliad syfrdanol o recordiau. Cyrchwyd ar Chwefror 4 2021 o https://thevinylfactory.com/features/the-private-collection-extended-interview-with-music-journalist-pete-paphides-on-the-pop-gems-hidden-within-his-astonishing-record-collection/

HomeProtect.co.uk (2017). *Pete Paphides: the record collector*. Cyrchwyd ar Chwefror 5 2021 o https://www.homeprotect.co.uk/discover/stories/pete-paphides-record-collector

Paphides, P. (n.d.) Pete Paphides. Cyrchwyd ar Chwefror 5 2021 o https://www.petepaphides.co.uk/

Paphides, P. (2007, Ebrill 27). *Here's some you won't remember*. *The Times.* Cyrchwyd ar Chwefror 5 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/118C6F4848AF9A30?p=UKNB

Moran, C. (2015, Medi 14). *I drank half a bottle, then Benedict rang* – Wrth wylio'r newyddion, roedd Caitlin Moran a'i gŵr Pete Paphides yn teimlo bod yn rhaid iddyn nhw wneud rhywbeth. Doedden nhw ddim ar eu pen eu hunain. *The Times.* Cyrchwyd ar Chwefror 5 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/157DB984CCFF3D70?p=UKNB

Paphides, P. (2015). *Help is coming*: Pete Paphides yn trafod sengl elusennol annhebygol Crowded House i gefnogi ffoaduriaid. Cyrchwyd ar Chwefror 5 2021 o https://escapismmagazine.com/the-refugee-crisis/how-i-got-involved/help-is-coming-pete-paphides-refugees/

Clay, C. (2020, Mawrth 7). *Just for the records*: ffan pop enfawr yn dwyn i gof – atgofion gonest, doniol Pete Paphides o'i blentyndod yng Nghanolbarth Lloegr yn hudo Joe Clay. *The Times.* Cyrchwyd ar Chwefror 5 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/1798E290005363A8?p=UKNB

Johnson, A. (2020). *Pop with chips*. [Adolygiad o'r llyfr *Broken Greek* gan P. Paphides]. *New Statesman, 149*(5510), 47. Cyrchwyd ar Chwefror 5 2021 o https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/2377663066?accountid=130472&pq-origsite=primo

Lezard, N. (2020, Mawrth 21). *Broken Greek*: stori am siopau sglodion a chaneuon pop gan Pete Paphides – adolygiad. *The Observer.* Cyrchwyd ar Chwefror 5 2021 o https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/2381622979?pq-origsite=primo&cyfrifid = 130472

## Bruce Parker MBE



Mae Bruce Rodney Wingate Parker wedi cael gyrfa hir a llwyddiannus fel newyddiadurwr a chyflwynydd teledu.

Ganwyd yn Llandudno yn 1941, a threuliodd Parker ei blentyndod yn Guernsey. Addysgwyd ef yng Ngholeg Elisabeth, sef ysgol annibynnol ar gyfer bechgyn a sefydlwyd yn 1563 gan Elisabeth I. Dychwelodd i Gymru yn 1960 i astudio gradd mewn Saesneg yng Ngholeg Dewi Sant. Roedd ei amser yn Llanbedr Pont Steffan yr un mor brysur â'i yrfa ddiweddarach, ac yma yn y coleg y dechreuodd ei broffesiwn newyddiadurol. Yn ei arddegau, ysgrifennodd Parker ar gyfer papur newydd lleol Guernsey, ac yn ystod ei amser yng Ngholeg Dewi Sant, bu'n golygu cylchgrawn y coleg, sef y *Gownsman*. Cyfunodd hyn ag ysgrifennu darnau ar gyfer papurau newydd y *Western Mail* a'r *South Wales Echo*, tra hefyd yn ysgrifennu am newyddion y myfyrwyr yng Nghymru ar gyfer *The Times* a *The Times Educational Supplement*. Roedd Parker yn Ysgrifennydd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, yn rhan o dîm dadlau Coleg Dewi Sant yng Nghystadleuaeth yr *Observer Mace,* ac yn un o sefydlwyr clwb reiffl y coleg.

Ar ôl graddio, astudiodd Parker ar gyfer diploma addysg ym Mhrifysgol Reading, gan ddychwelyd i Guernsey i addysgu yn ei hen ysgol, Coleg Elisabeth. O ganlyniad i'w brofiad mewn newyddiaduraeth ac addysgu. rhoddodd y BBC y cynnig iddo dreialu prosiect radio lleol, gan gynhyrchu rhaglenni ar gyfer ysgolion amrywiol. Arweiniodd ei lwyddiant at rwydwaith o orsafoedd radio lleol y BBC ledled y Deyrnas Unedig. Gwahoddwyd Parker i ymuno â'r BBC fel gohebydd teledu, gan weithio'n gyntaf ym Mryste ac yna yn Southampton. Yn 1967, ef oedd cyflwynydd cyntaf y rhaglen ranbarthol nosweithiol *South Today*, a bu'n cyflwyno'r rhaglen am y 35 o flynyddoedd nesaf. Yn ystod yr amser hwn, cyflwynodd raglenni eraill ar gyfer BBC1 a BBC2 hefyd, yn cynnwys *Nationwide*, *Badger Watch*, *Songs of Praise* a *Mainstream*, rhaglen wythnosol sy'n adrodd ar gerddoriaeth fyw, adloniant a'r celfyddydau ledled y wlad. Ar 17 Mai 1977, cyflwynodd Parker y bennod gyntaf o *Antiques Roadshow*, a ddechreuodd fel rhaglen ddogfen am dŷ ocsiwn yn Llundain ar daith o amgylch gorllewin Lloegr. Yn ddiweddarach, dyfeisiodd a chyflwynodd *The Week's Antiques* ar gyfer Radio 4 a'r rhaglen rhanbarthol *Today* o'r de a'r gorllewin.

Mae gan Parker ddiddordeb mawr ym Mhrosiect Mary Rose, a daeth yn rhan o'r prosiect yn y 1970au pan oedd arteffactau'n cael eu darganfod o'r llongddrylliad. Yn 1982, ddeuddeg mlynedd yn ddiweddarach, arweiniodd y darllediad allanol o godi'r llong ryfel. Mae hefyd wedi bod yn gysylltiedig â datblygiadau diweddarach, gan gynnwys adeiladu'r amgueddfa Mary Rose yn iard llongau Llongborth.

Fodd bynnag, gwir gariad Parker yw gwleidyddiaeth, ac mae wedi nodi nad oedd 'unrhyw beth wedi fy nghyffroi'n fwy nag angori rhaglenni canlyniadau'r etholiad rhanbarthol…', y cyntaf ohonynt a gyflwynodd yn 1970 pan ddaeth Edward Heath yn Brif Weinidog. Rhwng 1992 a 2002, Parker oedd golygydd gwleidyddol *BBC South*, a chyflwynodd *South of Westminster* a *South on Sunday.* Am ddeng mlynedd olaf ei yrfa, bu'n aelod o Oriel Wasg a Chyntedd Tŷ'r Cyffredin yn San Steffan, gan gyfweld â phob un o'r prif weinidogion, o Anthony Eden i David Cameron.

Cydnabuwyd cyfraniad hir Parker i ddarlledu rhanbarthol y BBC yng Ngwobrau Teledu Ruby yn 2003, pan gyflwynwyd Gwobr Arbennig iddo. Yn 2018, derbyniodd Gymrodoriaeth er Anrhydedd gan Brifysgol Winchester, am ei wasanaethau i ddarlledu a chyflwyno.

Fodd bynnag, ers iddo ymddeol yn 2003, nid yw Parker wedi cael bywyd tawel. Mae wedi ysgrifennu dau lyfr: *History of Guernsey's Full-Bore Rifle Shooting* (2011) ac *A History of Elizabeth College* (2016). Roedd yn gadeirydd Cyngor Plwyf Appleshaw yn Hampshire a llywodraethwyr Ysgol Harestock yn Winchester. Mae'n un o ymddiriedolwyr Eglwys Gadeiriol Winchester ac yn gadeirydd Cyfeillion yr Eglwys Gadeiriol, ac mae'n cadeirio Sefydliad Coleg Elisabeth ac Ymddiriedolaeth Gibson Fleming yn Guernsey. Mae hefyd yn is-noddwr ambiwlans awyr Hampshire ac Ynys Wyth, yr elusen *Smile Support and Care*, yn cefnogi teuluoedd â phlant ac oedolion ifainc anabl, ac yn llysgennad ar gyfer Southampton Leukemia Busters. O ganlyniad i'r nifer o weithiau elusennol hirsefydlog hyn, cyflwynwyd MBE iddo yn 2017.



**Ffynonellau:**

Gaunt, A. (2019) 'Whatever Happened To Old-So-And-So…?' *The Link* Rhif. XXIII, Gaeaf 2018/19. Cyrchwyd ar 10 Chwefror 10 2021 o https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/lampeter-society-/the-link-winter-feb19.pdf

Steele, J. (2017, 11 Mawrth) 'Former BBC Journalist, Bruce Parker, honoured at the Palace'. *Andover Advertiser.* Cyrchwyd o https://www.andoveradvertiser.co.uk/news/15173026.former-bbc-journalist-bruce-parker-honoured-at-the-palace/

Hossein-Pour, A. (2018, 19 Hydref. 'Veteran journalist and Appleshaw resident honoured at university's celebration'. Cyrchwyd o https://www.romseyadvertiser.co.uk/news/andover/16994119.veteran-journalist-appleshaw-resident-honoured-universitys-celebration/

Swyddfa'r Wasg y BBC (2014, 24 Medi) 'First winners of the Ruby Television Awards announced'. Cyrchwyd o

http://www.bbc.co.uk/pressoffice/pressreleases/stories/2003/02_february/14/ruby_awards.shtml



**Dr Linda Parker, Hanesydd Milwrol a Phegynol**

Mae Linda Parker yn hanesydd blaenllaw ac yn ysgolhaig annibynnol sydd wedi ysgrifennu am gaplaniaeth y fyddin yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd, hanes milwrol, cymdeithasol a chrefyddol, yn ogystal â fforio pegynol.

Wedi ei geni yng Nghymru, mae Parker yn gyn-athrawes hanes gyda dros ugain mlynedd o brofiad. Astudiodd hi am ei PhD ym Mhrifysgol Birmingham, ac ers hynny, mae hi wedi ysgrifennu chwe llyfr, wedi cyfrannu penodau at lawer o lyfrau academaidd, ac wedi ysgrifennu erthyglau ar destunau sy'n amrywio o daith Rudolph Hess i'r Alban, cymhariaeth o agweddau sifiliaid tuag at frwydrau awyr yn ystod 1917/18 a 1944/45, a Phrydain a'r Arctig yn ystod y 19$^{eg}$ a'r 20$^{fed}$ ganrif. Mae hi'n aelod o'r Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol, Cymdeithas y Ffrynt Gorllewinol (the Western Front Association) a'r Comisiwn Americanaidd ar Hanes Milwrol (American Commission for Military History), ac yn gyd-sylfaenydd y Gymdeithas Filwrol Fodern Prydeinig (British Modern Military Society), sy'n cynnal sgyrsiau misol ar hanes milwrol y ddau can mlynedd diwethaf.

Gwnaeth llyfr cyntaf Parker, *The Whole Armour of* God, a ysgrifennwyd yn 2009 a'i gyhoeddi gan Helion, ailasesu rôl caplaniaid Anglicanaidd y Fyddin, gan archwilio eu rôl amwys yn y ffosydd a'r cyhoeddusrwydd llym y cawsant yn ystod y 1920au a'r 1930au. Gwnaeth *Shell Shocked Prophets*, a ysgrifennwyd yn 2015, barhau gyda'r thema caplaniaid, gan archwilio sut gwnaeth eu profiadau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ddylanwadu ar eu rolau yn ystod eu bywydau fel sifiliaid rhwng y rhyfeloedd.

Yn 2019, ymchwiliodd Parker i rôl y caplaniaid hedegog yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Defnyddiodd *Nearer my God to Thee* ddeunydd nas cyhoeddwyd, disgrifiadau uniongyrchol a llythyrau i ddangos eu gwaith amrywiol. Yn glanio â'u minteioedd gan ddefnyddio parasiwtiau a gleiderau y tu ôl i rengoedd y gelyn, gwnaethant rannu'r un peryglon â'r

dynion a oedd angen eu gofal; gwnaethant hefyd gynorthwyo'r staff meddygol, cynnal gwasanaethau a chladdu'r meirw. Pan oedd angen, byddent yn cymryd rheolaeth yn ystod brwydr ac yn dod yn garcharorion rhyfel yn hytrach na gadael milwyr clwyfedig heb eu trin.

Mae Parker hefyd wedi ysgrifennu am ddau o gaplaniaid y fyddin sydd fwyaf enwog ymhlith y cyhoedd, sef Studdert Kennedy "Woodbine Willie", yn *A Seeker After Truths* (2018), a Tubby Clayton yn *A Fool for Thy Feast (2015),* a ddisgrifiwyd gan y *Church Times* fel 'a sensitive and well-researched biography'. Ar ôl y rhyfel, gwnaeth Tubby sefydlu'r mudiad adeg heddwch Toc H, a wnaeth ymledu'n gyflym ledled Prydain a'r byd, gan gynnwys Coleg Dewi Sant, man y gwnaeth Tubby ymweld ag ef ar ddau achlysur. Mae Parker ei hun yn ymddiriedolwraig Mudiad Toc H, ac yn gynullydd Toc H Wessex.

Pwnc arall sydd o ddiddordeb mawr i Parker yw alldeithiau pegynol. Yn 2013, ysgrifennodd hi *Ice, Steel and Fire. British Explorers in Peace and War 1921-45,* lle gwnaeth hi archwilio amrywiaeth o alldeithiau pegynol a wnaeth ddigwydd cyn y rhyfel. Gwnaeth y rhain gynnwys alldeithiau prifysgolion i Spitsbergen a arweiniwyd gan George Binney yn y 1920au, a Sandy Glen yn y 1930au, ac a wnaeth gyfrannu at gynnydd mewn hediadau pegynol a radar. Fel teithwraig frwdfrydig ei hun, mae Parker wedi dilyn yn olion traed rhai o'r fforwyr Arctig beiddgar hyn. Mae hi wedi mynd ar fordeithiau i Green Harbour, Barentsberg, lle suddwyd y llong yr oedd Sandy Glen arni yn ystod Gweithrediad Fritham yn 1942, ac wedi ymweld hefyd â nifer o fannau yn Svalbard y gwnaeth ef eu fforio yn ystod y 1930au. Yn 2018, teithiodd Parker i Narvik a Harstad, yn Norwy, lle gwnaeth y fforwyr Quentin Riley ac Andrew Croft gymryd rhan yn yr Ymgyrch Norwyaidd yn 1940, ac i Tromso, lle dechreuodd llawer o'r fforiadau pegynol. Mae ganddi gynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys teithiau i'r Ynys Las i olrhain fforwyr eraill.

# Daniel Parry-Jones

Clerigwr ac awdur oedd Daniel Parry-Jones (1891-1981), ac mae'n fwyaf adnabyddus am gofnodi traddodiadau gwlad.

Daeth Parry-Jones o fferm yn Llangeler, Sir Gaerfyrddin, tua deunaw milltir i'r de-orllewin o Lanbedr Pont Steffan. Fel ail fab y teulu, cafodd ei enwi ar ôl ei dad-cu mamol. Roedd yn un o ddeg o blant; cafodd ef, ei frodyr a'i chwiorydd eu magu yn gweithio ar y fferm. Roedd ei dad, Thomas, yn warden eglwys yn Eglwys Loegr; roedd ei fam Mary, yn ddynes grefyddol iawn ac yn Anghydffurfwraig.

Dechreuodd Daniel yr ysgol pan oedd yn bump oed, gan gerdded bron i dair milltir bob ffordd. I blentyn sy'n siarad Cymraeg, nid oedd yn brofiad da. Dywedodd, ‘Fe ddysgwyd popeth i ni trwy gyfrwng iaith ddieithr, nad oeddem yn gwybod dim amdani ond y negyddol a'r cadarnhaol. …Y canlyniad ofnadwy oedd nad oeddem yn dysgu ein iaith ein hunain na'r Saesneg. Tybiwyd nad oedd pobl cyfrwng y Gymraeg, fel ni, yn bodoli, ond ystyriwyd y Saesneg fel iaith adnabyddus a chyfarwydd. ’ Ychydig wythnosau'n ddiweddarach dechreuodd fynd i'r ysgol Sul, lle dysgodd yr wyddor a hanfodion y Gymraeg. Mewn cyferbyniad llwyr, roedd wrth ei fodd â'r dosbarth a'i wersi. Ysgrifennodd yn ddiweddarach, ‘Yr ysgolion Sul oedd y modd a oedd, yn anad dim arall, yn cyfrannu at warchod y Gymraeg.’

Gadawodd Parry-Jones yr ysgol pan oedd yn bedair ar ddeg oed. Fodd bynnag, roedd wrth ei fodd yn darllen a sylweddolodd ei deulu na fyddai'n gwneud ffermwr da. O ganlyniad, symudodd ymlaen i'r Ysgol Ramadeg ym Mhencader. Dim ond bryd hynny y dysgwyd Saesneg iddo fel pwnc. Roedd yn cofio darllen ei lyfr Saesneg cyntaf tua'r amser hwnnw, *Manco, the Peruvian Chief,* gan W.H.G. Kingston. Roedd hefyd yn cario llyfr nodiadau gydag ef, lle roedd yn cofnodi geiriau anghyfarwydd â'u cyfieithiad Cymraeg.

Aeth Parry-Jones i Goleg Dewi Sant ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed yn 1909. Roedd ei lyfr *Welsh Country Upbringing* yn cynnwys cyfrif o’i amser yno. Ar yr adeg hon, roedd sgowtiaid yn gofalu am anghenion myfyrwyr, yn gwneud swyddi fel cynnau tanau, gwneud gwelyau a golchi llestri ar ôl prydau bwyd. Roedd y myfyrwyr yn bwyta brecwast, te a swper yn eu hystafelloedd eu hunain. Cinio am 6pm oedd yr unig bryd o fwyd yr oeddent yn ei fwyta gyda'i gilydd yn y neuadd. Byddai Parry-Jones yn aml yn cael gwydraid o gwrw gyda’i bryd o fwyd, i atgoffa’i hun ei fod bellach yn oedolyn! Roedd yn mwynhau chwarae rygbi, ond yn wynebu cystadleuaeth gan y rhai a oedd wedi chwarae'r gêm yn yr ysgol, ac felly roedd yn cael trafferth cael ei ddewis i chwarae i'r tîm cyntaf. Fodd bynnag, bu'n chwarae tenis, dysgodd ddawnsio a dechreuodd ysmygu. Cafodd ei synnu gan y diffyg dylanwad Cymreig, gan deimlo nad oedd yn ‘goleg Cymreig o gwbl… dim ond coleg yng Nghymru.’ Nid oedd y mwyafrif o'r academyddion yn gyfarwydd â bywyd a diwylliant Cymru. Lorimer Thomas, Athro Cymraeg, oedd yr unig siaradwr Cymraeg yn eu plith. Mewn cyferbyniad, roedd y myfyrwyr yn cynnwys rhai dynion o Gymru a oedd wedi dysgu siarad Saesneg trwy ddarllen y Beibl.

Wrth i Parry-Jones raddio yn un ar hugain oed, bu’n rhaid iddo aros dwy flynedd cyn gallu cael ei dderbyn yn yr eglwys. Treuliodd ddwy flynedd fel darllenydd lleyg yn ei blwyf cartref cyn cael ei ordeinio yn Eglwys y Santes Fair, y Fenni, yn 1914. Roedd ei guradiaeth gyntaf yn Eglwys Santes Catrin, Pontypridd, am gyflog blynyddol o £130. Roedd yn un o dîm o ficer, tri churad, chwaer un o aelodau Byddin yr Eglwys a dau ddarllenydd lleyg. Ei gyfrifoldeb penodol oedd goruchwylio'r gynulleidfa Gymraeg. Roedd ei ardal ymweld yn cynnwys ardal fusnes y dref a llawer o strydoedd bach a dwys eu poblogaeth. Roedd yn ymweld â'r wyrcws yn wythnosol. Ysgrifennodd am rai o'r bobl y cyfarfu â nhw yno, ‘Dyma'r bobl yr oedd y Rhondda wedi'u difetha, y bobl oedd yn dioddef, wedi'u

hecsbloetio heb lawer o ystyriaeth am eu lles.’ Fodd bynnag, roedd y Rhondda yn dal i fod yn lle llewyrchus ar yr adeg hon. Roedd hyn yn ystod dyddiau cynnar y Rhyfel Byd Cyntaf; roedd y galw am lawer o nwyddau wedi cynyddu ac roedd y pyllau glo ar waith yn gyson.

Roedd symudiad nesaf Parry-Jones yn golygu ei fod, am y tro cyntaf yn ei fywyd, wedi’i amgylchynu gan Saeson. (Yn eironig, yr adeg hon hefyd y cyfarfu â’i wraig!). Daeth yn gurad yn Eglwys Sant Thomas, Stockport, tref ddiwydiannol tua deng milltir i’r de-ddwyrain o Fanceinion. Roedd Parry-Jones yn gyfrifol am un o'r ddwy eglwys genhadol, yn darparu ar gyfer gweithwyr y felin a'u teuluoedd. Roedd y bobl fusnes a phobl o ddosbarthiadau proffesiynol yn mynychu eglwys y plwyf! Roedd hi'n dal i fod yn amser rhyfel ac ymunodd Parry-Jones â chwmni Stockport, 9fed Catrawd Gwirfoddolwyr Swydd Gaer. Ar ddydd Sadwrn, byddai'n aml yn mynd i Ashby-de-la-Zouch i gael hyfforddiant reiffl awyr agored. Ar ôl arfer â saethu gartref ar y fferm, enillodd lawer o wobrau.

Gan fod Parry-Jones yn briod nawr, roedd angen swydd a thŷ arno. Yn 1920, dychwelodd i Gymru, y tro hwn i Bontarddulais, ger Abertawe. Roedd yn bentref mawr, gwasgarog; y prif ddiwydiannau oedd glo, tun a haearn. Yn ystod ei amser yno, ganwyd dwy ferch iddo ef a'i wraig. Daeth yn anodd byw ar gyflog curad o £3 yr wythnos. Symudodd Parry-Jones ymlaen i ddod yn gurad yng ngofal Glais, ym mhentrefan Llansainlet, am dâl blynyddol o £180.

Roedd swydd gyntaf Parry-Jones yn gyfrifol am Llanfihangel Rhydieithon yn unig, sef plwyf ar dir mynyddog tua deng milltir i'r gogledd-ddwyrain o Landrindod. Yn ddiweddarach, dysgodd mai ffactor a chwaraeodd rôl fawr yn ei benodiad oedd y gallai ei wraig chwarae'r organ! Bu bron i'w gyflog ddyblu a symudodd ei deulu i ficerdy hardd gyda saith ystafell wely a seler win. Yn ystod y cyfnod hwn, cawsant drydydd plentyn, mab y tro hwn.

Arferai Parry-Jones gerdded ar hyd a lled Coedwig Maesyfed, weithiau'n cerdded 30 milltir mewn diwrnod. Dysgodd y chwedlau a'r hanesion lleol, gan eu hysgrifennu a'u cyhoeddi yn y *Western Mail*. Ysgrifennodd am eglwysi a bywyd eglwys Sir Faesyfed, gan gyfrannu erthyglau i bapur newydd *Y Llan*. Dechreuodd hefyd ar arddull awduriaeth llawer mwy personol, er mwyn ei blant yn bennaf. Roeddent yn tyfu i fyny heb y gallu i siarad Cymraeg ac yn anwybodus o'r gymuned wledig y ganwyd eu tad ynddi. Aeth Parry-Jones ati i ysgrifennu stori ei fywyd. Ysgrifennodd yn helaeth. Dywed Parry-Jones fod yr hyn a oedd wedi'i fwriadu fel stori syml i blant wedi tyfu'n ‘ddarlun cynhwysfawr o agweddau niferus ar hen gymdeithas wledig Cymru fel yr oedd yn gweithredu pan oeddwn yn fachgen.’ Cyhoeddwyd hwn yn y pen draw o dan yr enw *Welsh Country Upbringing* (Bastford, 1948). Roedd yn llwyddiannus. Wrth ysgrifennu yn *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion,* dywedodd W.J. Williams, ‘Mae’r llyfr hwn, yn ei ffordd naïf ei hun, yn ddiffuant, ac yn hollol werthfawr.’

Arhosodd Parry-Jones yn Sir Faesyfed am naw mlynedd tan1936. Fodd bynnag, digwyddodd y rhan fwyaf o'i weinidogaeth fel offeiriad plwyf yn Llanelli, (plwyf gwasgaredig ychydig y tu allan i'r Fenni yn hytrach na'r dref ddiwydiannol yn Sir Gaerfyrddin). Yn ogystal ag eglwys y plwyf, roedd tair eglwys genhadol a hefyd ystafell eglwys, lle cynhelid gwasanaethau canol yr wythnos. Roedd Parry-Jones wrth ei fodd yn casglu chwedlau a llên gwerin lleol, gan nodi, ‘Roedd y chwedlau hyn ychydig y tu ôl i ni… maent yn dyst i’r hyn a feddiannwyd ar wahanol adegau, ac wir yn dylanwadu ar feddyliau pobl y wlad. Maent yn dangos hefyd pa mor gryf yw cof y werin.’



Eglwys Llanelli, lle bu Parry-Jones yn offeiriad.

Penodwyd Parry-Jones yn Ddeon Gwledig Crucywel yn 1957 ac yn Ganon Anrhydeddus Eglwys Gadeiriol Aberhonddu yn 1959. Ar ôl pum mlynedd ar hugain yn Llanelli, ymddeolodd ef a'i wraig gan symud i fyw i Gasnewydd, lle'r oedd un o'i ferched yn byw. Bu farw yn 1981.

Yn ogystal ag ysgrifennu *Welsh Country Upbringing* a chyhoeddi nifer o erthyglau cyfnodol, roedd yn awdur pum llyfr arall, sef *Welsh Country Characters* (1952), *Welsh Legends a Fairy Lore* (1953), *Welsh Children's Games and Pastimes* (1964), *My Own Folk* (1972), ac *A Welsh Country Parson* (1975). Nod ei ysgrifau oedd creu rhywbeth a oedd yn cyfleu'r gwrthwyneb i bortread negyddol Caradog Evans o fywyd Cymru. Maent yn darparu cofnod amhrisiadwy o'r arferion a fu. Mae ei bapurau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Ffynonellau**


Llyfrgell Genedlaethol Cymru (n.d.). Fonds GB 0210 DANES – Papurau Daniel Parry-Jones. Cyrchwyd 16 Hydref 2020 o https://archives.library.wales/index.php/daniel-parry-jones-papers-2

Price, D.T.W. (1990). *A History of Saint David's University College Lampeter. Yr ail gyfrol:1898-1971.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

PARRY-JONES, Daniel (1891-1981) awdur. (2008). Yn J. Davies, N. Jenkins, M. Baines, ac ati, *The Welsh academy encyclopedia of wales*. Llenyddiaeth Cymru. Credo Reference. Cyrchwyd o https://search.credoreference.com/content/entry/waencywales/parry_jones_daniel_1891_1981_author/0?institutionId=1794

Parry-Jones, D. (1948). *Welsh country upbringing.* Llundain: B.T. Batsford

Parry-Jones, D. (1975). *A Welsh country parson.* Llundain: B.T. Batsford

Williams, W.J. (1949). Welsh country upbringing. D. Parry Jones. Batsford, Llundain. Price 12s 6d. [Adolygiad o'r llyfr]. *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion.* 1948, 501-502. Cyrchwyd ar 3 Tachwedd 2020 o https://journals.library.wales/view/1386666/1413524/508#?xywh=-1920%2C-52%2C6254%2C3824

# Meirion Pennar

Roedd Andreas Meirion Pennar (1944-2010) yn fardd, yn academydd, yn gyfieithydd ac yn ymgyrchydd dros y Gymraeg.

Meirion Pennar oedd yr hynaf o bump o blant a anwyd i'r awdur a'r diwinydd, W.T. Pennar Davies a'i wraig o'r Almaen, Rosmarie, née Wolff. Cafodd ei eni yng Nghaerdydd, ond symudodd ei deulu i Fangor yn 1946 ac yna i Aberhonddu yn 1950. Dan arweiniad ei dad, dechreuodd ysgrifennu cerddi (yn Saesneg) i eisteddfod Ysgol Ramadeg y Bechgyn yn Aberhonddu. Yna, fel disgybl chweched dosbarth yn Ysgol Ramadeg Dinefwr, Abertawe, dechreuodd ysgrifennu cerddi yn y Gymraeg.

Ar ôl gadael yr ysgol, astudiodd Pennar y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe, cyn treulio cyfnod fel myfyriwr ôl-raddedig yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen. Teitl ei Ddoethuriaeth a ddyfarnwyd iddo yn 1975 oedd *Women in Medieval Welsh literature: an examination of some literary attitudes before 1500.* Bu'n gweithio i Gyngor Llyfrau Cymru, cyn troi nôl i'r byd academaidd i ddarlithio yn y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol Dulyn. Yn Iwerddon, cwrddodd Pennar â'i ddarpar wraig, Carmel Gahan. Cawson nhw un mab, Gwri. Fodd bynnag, roedd Pennar yn dioddef o iselder, ac yn y pen draw, chwalodd y briodas.

Dychwelodd Pennar i Gymru yn 1975 i ddarlithio yn y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant. Ei brif ddiddordebau oedd barddoniaeth ganoloesol a nofelau'r 19eg ganrif. Bu'n gweithio yn Llanbedr-Pont-Steffan am bedair blynedd ar bymtheg. Fodd bynnag, bu iddo ymddeol yn gynnar oherwydd salwch yn 1994, cyn symud i Abertawe i ofalu am ei fam a'i frawd iau, Geraint.

Fel awdur, ceisiodd Pennar fynd â barddoniaeth Gymraeg i gyfeiriadau newydd heb fychanu ei hanes cyfoethog. Dywedir bod ei lyfr cyntaf, *Syndod y Sêr*, (Llyfrau'r Dryw, 1971), wedi cyrraedd y byd llenyddol 'fel utgorn yn canu yn ystod gwasanaeth yn y capel'. Yn ei ragair, disgrifiodd Pennar rai o'i ddylanwadau. Roedd beirdd y grŵp 'Expressionismus' modernaidd o'r Almaen wedi cael dylanwad mawr arno. Gan eu dilyn nhw, gwrthododd ffurfiau artiffisial ar farddoniaeth a bu'n barddoni heb unrhyw batrwm neu atalnod, fel bod modd rhoi rhwydd hynt i'w deimladau a'i feddyliau. Ceisiodd greu 'fel gwe o'm bol fy hun'. Roedd yn rhaid i ddarllenwyr ddod i arfer â'i ddull o drefnu geiriau mewn "clystyrau" yn hytrach na llinellau neu benillion.

Roedd *Pair Dadeni* gan Pennar, (Gwasg Gomer, 1977), yn cynnwys un gerdd 28 tudalen o hyd a oedd yn ail-greu stori Efnisien a Bendigeidfran o ail gainc *Y Mabinogi.* Yn ogystal â'r elfen fytholeg, roedd yn trafod sefyllfa Iwerddon fodern yn helaeth iawn. Cyhoeddodd ddwy gerdd hir arall, *Saga* (1972) ac *Y Gadwyn* (1976). Ar adeg ei farwolaeth, roedd ei gyfrol ddwyieithog *Glesni,* heb ei chyhoeddi. Roedd y gyfrol hon yn cynnwys rhai cerddi a ysgrifennodd yn dilyn marwolaeth ei dad, a cherddi eraill am ei ieuenctid yn Aberhonddu.

Roedd cyfieithiadau Pennar o hen farddoniaeth Gymraeg yn boblogaidd. Cyhoeddodd *Taliesin poems,* (Llanerch, 1988), cyfieithiadau o waith y bardd o'r chweched ganrif a oedd yn canu clod nifer o frenhinoedd yng Nghymru, gogledd Lloegr a'r Alban. Cyhoeddodd hefyd ddetholiad o adrannau o Lyfr Du Caerfyrddin, *Black Book of Carmarthen* (Llanerch, 1989), llawysgrif a grëwyd gan gopïydd dienw yng nghanol y 13eg ganrif, a oedd yn cynnwys cymysgedd o farddoniaeth grefyddol a seciwlar. Roedd detholiadau Pennar yn cynnwys y deialog rhwng Myrddin a Thaliesin, yn ogystal â'r penillion a oedd yn ôl bob sôn, wedi'u hysgrifennu gan Myrddin ar ôl Brwydr Arfderydd. Hefyd, cyhoeddodd Pennar *Peredur* (Gwasg Llanerch, 1991), un o'r chwedlau o'r *Mabinogi.* Ar adeg ei farwolaeth, roedd yn cyfieithu'r Gododdin.

Roedd Pennar yn genedlaetholwr brwd, a chymerodd ran yn ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith i hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg. Safodd fel ymgeisydd Seneddol ar ran Plaid Cymru yn etholaeth Gorllewin Abertawe yn Etholiad Cyffredinol 1983. Roedd hefyd yn ysgrifennu ar gyfer cyhoeddiad Plaid Cymru, *Y Ddraig Goch.*

Yn anffodus, bu farw Pennar yn gynamserol ar 10 Rhagfyr 2010 yn dilyn llawdriniaeth. Cynhaliwyd ei angladd yng Nghapel Ebeneser Newydd, Abertawe.

**Ffynonellau**

Gruffudd, H., (2012). PENNAR, ANDREAS MEIRION (1944-2010), poet and scholar. *Dictionary of Welsh Biography*. Cyrchwyd ar 18 Chwefror 2021, o https://biography.wales/article/s8-PENN-MEI-1944

Stephens, M. (2010, Rhagfyr 28). Meirion Pennar – viewspaper poet who challenged his readers to understand his cerebral verse. *Independent.* Cyrchwyd ar 18 Chwefror 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/13466A36B44F4410?p=UKNB

# John James Stewart Perowne

John James Stewart Perowne (1823-1904) oedd Is-Ganghellor Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan; yn hwyrach yn ei yrfa, daeth yn Ddeon Eglwys Gadeiriol Peterborough ac yna'n Esgob Caerwrangon.

Hanodd Perowne o deulu â gwreiddiau Huguenot. Roedd ei dad a'i fam, Y Parch. John Perowne a'i wraig Eliza Scott gynt, yn genhadon a oedd yn gwasanaethu gyda'r Gymdeithas Genhadol Eglwysig. Cafodd ei eni yn Burdwan, yn Bengal, yr hynaf o dri brawd a daeth y tri ohonynt yn wŷr eglwysig amlwg. Cafodd ei addysgu gan ei dad cyn iddo fynychu Ysgol Ramadeg Norwich. Ar ôl hynny, enillodd ysgoloriaeth i Goleg Corpus Christi, Caergrawnt. Bu'n ysgolor prifysgol Bell ym 1842, yn enillydd aelodau ym 1844, ym 1846 ac ym 1847, yn ysgolor Crosse ym 1845 ac yn ysgolor Tyrwhitt ym 1848.

Dyfarnwyd gradd BA i Perowne ym 1845 a'i radd MA iddo ym 1848; yn hwyrach, enillodd radd BD ym 1856 a gradd DD ym 1873. Am gyfnod byr, gweithiodd fel meistr cynorthwyol yn Ysgol Cheam cyn cael ei urddo'n ddiacon ym 1847 ac yn offeiriad ym 1848. Gweithiodd fel curad yn Tunstead, Norfolk, am ddwy flynedd cyn dod yn feistr yn Ysgol y Brenin Edward yn Birmingham ym 1849. Nesaf, dychwelodd i Gaergrawnt lle cafodd ei benodi'n Gymrawd ac yn diwtor cynorthwyol yng Ngholeg Corpus Christi. Ochr yn ochr â hyn, bu'n darlithio ar ddiwinyddiaeth yng Ngholeg y Brenin, Llundain ac yn bregethwr cynorthwyol yn Lincoln's Inn.

Ym 1862, priododd Perowne Anna Maria Woolrych, merch Humphrey William Woolrych. Ganwyd pedwar mab ac un ferch iddynt.

Daeth cyswllt cyntaf Perowne â Choleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan fel arholwr allanol ym 1851 ac ym 1852. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, ym 1862, cafodd ei benodi'n Is-Ganghellor yn lle'r dadleuol Rowland Williams. Pan gyrhaeddodd yn Llanbedr Pont Steffan nid oedd yn gallu cerdded am ei fod wedi torri ei goes yn dringo mynyddoedd yr Alpau! Yn wahanol i Williams, nid oedd gan Perowne lawer o gydymdeimlad at draddodiadau Cymru a hoffai fod wedi dileu'r iaith Gymraeg oddi ar faes llafur y Coleg. Yn nhermau eglwysyddiaeth, hanodd o gefndir efengylaidd. Fodd bynnag yn ystod ei gyfnod yn Llanbedr Pont Steffan, cafodd ei ddylanwadu'n gryf gan Esgob Tyddewi yr Eglwys Lydan. Urddwyd Perowne yn ganon Eglwys Gadeiriol Tyddewi ym 1867 ac yn ganon Eglwys Gadeiriol Llandaf ym 1869. Bu hefyd yn rheithor Llandysilio, tua naw milltir i'r gogledd-orllewin o'r Trallwng o 1870 i 1871.

Cyflawnodd Perowne ei waith academaidd mwyaf nodedig yn Llanbedr Pont Steffan. Ym 1864 ac ym 1868, cyhoeddodd sylwebaeth dros ddwy gyfrol a chyfieithiad o *The Psalms,* (Bell a Daldy). Daeth hwn yn waith safonol gan ennill enw da i Perowne fel ysgolhaig ar yr Hen Destament. Cyflwynodd y darlithoedd Hulseaidd yng Nghaergrawnt ym 1868; ei bwnc oedd 'anfarwoldeb.' Ym 1870, cafodd ei ddethol fel un o Gwmni Adolygu'r Hen Destament. Yn ddiweddarach, bu'n goruchwylio cyhoeddi Cambridge Bible for Schools a Cambridge Greek Testament for Schools.

Dychwelodd Perowne i Gaergrawnt ym 1872; daeth yn Athro Hulseaidd yno ym 1875. Yn drist iawn, bu'n feirniadol o Lanbedr Pont Steffan. Dywedodd wrth ymchwiliad yr Arglwydd Aberdâr i addysgu uwch ac addysg ganolradd yng Nghymru ym 1880 fod Llanbedr Pont Steffan wedi'i ynysu a bod diffyg dylanwadau cymdeithasol da yno. Dylai'r Coleg gael ei symud i Landaf neu rywle hygyrch a phoblog tebyg arall. Credodd fod gan radd BA Llanbedr Pont Steffan, yr oedd wedi cynorthwyo â'r gwaith o'i chyflawni, rywfaint o werth ond nid gwerth a oedd yn cyfateb i radd brifysgol!

Urddwyd Perowne yn Ddeon Peterborough ym 1880. Roedd ganddo'r dasg frys o adnewyddu'r eglwys gadeiriol; yn benodol, ymddengys bod ei thŵr canolog ar fin dymchwel. Ar ôl ei ailadeiladu, roedd angen adnewyddu ardal ganolog ac ardal ddwyreiniol yr eglwys. Yn ogystal â pharhau â'r gwaith hwn, datblygodd Perowne y gwasanaethau addoli a magodd berthynas gyfeillgar ag anghydffurfwyr.

Ystyriwyd Perowne ar gyfer rôl esgob Bangor ym 1889 yn dilyn ymddiswyddiad James Colquhoun. Fodd bynnag, er iddo dreulio amser yng Ngheredigion, nid oedd yn gallu siarad gair o Gymraeg. Yn weddol fuan ar ôl hyn, cafodd ei enwebu fel esgob Caerwrangon yn dilyn marwolaeth Henry Philpott. Cafodd ei gysegru ar 2 Chwefror 1891 yn Abaty Westminster. Fodd bynnag, erbyn yr amser hwn, roedd yn 68 oed ac roedd ei esgobaeth newydd yn un anodd.



Llys yr Esgob Perowne, Castell Hartlebury

Roedd Llys yr Esgob, Castell Hartlebury, yn anghysbell, ddeng milltir i'r gogledd o Gaerwrangon a 22 milltir i'r de-orllewin o Birmingham. Yn anarferol, nid oedd cynhadledd esgobaethol ar y pryd. Yn fwy arwyddocaol, roedd yn dod yn fwy amlwg bod angen i ddinas Birmingham ddod yn esgobaeth ar wahân. Fodd bynnag, roedd codi'r arian angenrheidiol ar gyfer hyn wedi profi'n anodd. Roedd Perowne yn amwys; ei ateb ef oedd cryfhau systemau'r esgobaeth bresennol. Creodd Archddiaconiaeth Birmingham ac urddodd esgob cynorthwyol. Roedd hyn yn ffordd ratach o ffurfio esgobaeth newydd ond fel ateb dros dro yn unig. I'r perwyl hwn, crëwyd yr esgobaeth newydd ym 1905; daeth olynydd Perowne yng Nghaerwrangon, Charles Gore, yn esgob cyntaf arni.

Yn ddadleuol, roedd Perowne o blaid creu cysylltiadau agosach rhwng Anglicaniaeth ac Anghydffurfiaeth. Mynychodd Gynadleddau Aduniad Grindelwald a gynhaliwyd rhwng 1892 ac 1895. Y rhain oedd y trafodaethau cyntaf, er nad yn rhai ffurfiol, rhwng arweinwyr eglwysi Prydain ynghylch aduno Protestaniaeth Brydeinig. Yn ystod cynhadledd 1892, gwrthododd Perowne theori olyniaeth apostolaidd. Dywedodd hefyd ei fod o'r farn nad oedd angen ail-urddo Anghydffurfwyr os oeddent yn uno â'r Eglwys yn Lloegr. Yn ogystal, arweiniodd wasanaeth cymun yn yr eglwys Zwinglïaidd leol ar gyfer cyfranogwyr y gynhadledd gan weinyddu'r cymun i anghydffurfwyr blaenllaw. Denodd hyn feirniadaeth eang gan aden Anglicanaidd-Gatholig yr eglwys. Darllenodd llythyr yn *The Church Times,* a arwyddwyd Vox Querentis, 'Mae Dr Perowne wedi bod yn brysur … yn sarhau teimladau Gwŷr Eglwysig ond, yng Nghynhadledd Grindelwald, mae ef wedi rhagori ar ei hun. Ni all gair ysgafnach na "brad" nodweddu'n ddigonol ei ymddygiad hynod drist yno." Wrth edrych yn ôl, mae Ruth Rouse wedi dadlau mai Cynadleddau Grindelwald oedd un o'r ffactorau a lwyddodd i

wneud y symudiad eciwmenaidd cyfoes yn bosibl. Credodd eu bod 'wedi dechrau cyfnod newydd yn nhwf y syniad eciwmenaidd'.

Ar ôl ymddeol ym 1901, symudodd Perowne i Southwick Park, ger Tewkesbury. Bu farw ar 6 Tachwedd 1904. Cynhaliwyd gwasanaeth ei angladd yn Hartlebury ac mae wedi'i gladdu yn y fynwent yno.

**Ffynonellau**

Buckland, A., & Wood, S. (2004, Medi 23). Perowne, John James Stewart (1823–1904), bishop of Worcester. *Oxford Dictionary of National Biography*. Cyrchwyd ar 2 Mawrth 2021 o

https://doi-org.ezproxy.uwtsd.ac.uk/10.1093/ref:odnb/35483

Price, D.T.W. (1977). *A History of Saint David's University College Lampeter. Volume One: to 1898.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Death of Bishop Perowne. (1904, Tachwedd 8). Daily Telegraph, Cyrchwyd 2 Mawrth 2021 o

https://link.gale.com/apps/doc/IO0707323896/TGRH?u=nlw_ttda&sid=TGRH&xid=ba7d4691

Perowne, Rt Rev. John James Stewart. (2007). *Who's Who & Who Was Who.* Cyrchwyd ar 2 Mawrth 2021 o

https://doi.org/10.1093/ww/9780199540884.013.U189847

Oldstone-Moore, C. (2009). The forgotten origins of the ecumenical movement in England: the Grindelwald Conferences, 1892-95. *Church History, 70*(1),73-97. Cyrchwyd ar 5 Mawrth 2021 o

https://doi.org/10.2307/3654411

# Pamela Petro



Artist, awdur ac addysgwr yw Pamela J. Petro. Er ei bod hi'n Americanes, mae ei chariad at Gymru'n rhan ganolog o'i gwaith.

Ganwyd Petro yn New Jersey; roedd ei thad, Stephen Petro, yn beiriannydd sifil a'i mam, Patricia, yn ysgrifenyddes. Cwblhaodd ei gradd israddedig ym Mhrifysgol Brown, yn Providence, Rhode Island. Roedd Cwricwlwm Newydd Brown yn annog cymaint o hyblygrwydd â phosibl yn astudiaethau pob myfyriwr. Penderfynodd Petro ganolbwyntio ar rywbeth annibynnol, gan weithio ar 'Astudiaethau Geiriau a Delweddau' ('Word and Image Studies').

Un diwrnod yn ystod ei blwyddyn olaf, gwelodd Petro boster yn hysbysebu cwrs MA, 'Y Gair a'r Dychymyg Gweledol' ('The Word and the Visual Imagination') yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, a phenderfynodd wneud cais ar unwaith. Yng Nghymru, bu'n byw mewn ffermdy y tu allan i dref fechan. Un diwrnod, gwelodd ffarmwr Pamela yn darlunio'r bryniau ag arddull eithaf argraffiadol. Gofynnodd, 'Duw, duw, ferch, onid ydyn nhw'n dysgu sut i arlunio yn America?' Rhoddodd hyn syniad iddi ar gyfer ei thraethawd ymchwil. Teitl ei thraethawd hir oedd *Discourse on display: the narrative of the exhibition,* a defnyddiodd theori strwythurol i ddatgloi haniaethau'r unfed ganrif ar hugain i'r gwyliwr cyffredin. Yn syml, ei nod oedd addysgu pobl i weld mewn ffordd wahanol.

Roedd Petro'n caru Cymru. Dysgodd i ddynwared defaid ac yfed wisgi. Yn bwysicach na dim, dechreuodd ddeall cefn gwlad Cymru. Roedd wedi cael ei magu yn New Jersey, lle roedd y dirwedd drefol yn ddigon dwys i guddio'r tir a thystiolaeth am unrhyw feddiannaeth yno cyn oddeutu 1900. Sylweddololodd mai ffermdir Gorllewin Cymru oedd y dirwedd aml-ddimensiynol cyntaf iddi gael profiad ohoni. Gwelodd dystiolaeth o Oes yr Iâ, Oes y Cerrig a'r Canoloesoedd. Mae wedi ysgrifennu am eglurder pob elfen o'r golygfeydd a'r ffordd y mae'r afonydd, y bryniau, y dyffrynnoedd a'r ucheldir yn gweithio gyda'i gilydd. Nododd, 'Ro'n i'n teimlo fel fy mod wedi dod o hyd i allwedd i fap nad oeddwn erioed yn gallu ei ddarllen o'r blaen, ond heb y map hwnnw, doedd gen i ddim synnwyr o fy hun na'm rhywogaeth ar y blaned.' Mae Cymru wedi dod yn ail gartref iddi bellach; mae'n dweud ei bod wedi ymweld â'r wlad dau ddeg wyth o weithiau dros dri deg saith o flynyddoedd.

Ar ôl cwblhau ei chwrs MA, dychwelodd Petro i Efrog Newydd am gyfnod byr i weithio ym maes cyhoeddi, cyn symud i New England i ddod yn ysgrifennydd llawrydd. Yn 1992, dychwelodd Petro i Lanbedr Pont Steffan i ddysgu siarad Saesneg ar Gwrs Wlpan dwys, "bŵtcamp". Fodd bynnag, roedd Cymraeg yn fwy anodd nag yr oedd hi wedi'i ddisgwyl. Pryd bynnag y byddai'n oedi neu'n gwneud camgymeriad, byddai siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn troi at y Saesneg oherwydd cyfuniad o gwrteisi ac embaras. Penderfynodd Petro ddod i gymunedau Cymraeg mewn a di-Saesneg lle byddai pobl yn gorfod siarad â hi yn eu mamiaith. Roedd ei llyfr cyntaf, *Travels in an Old Tongue* (HarperCollins, Flamingo, 1997), yn olrhain ei thaith, yn dechrau yn Llanbedr Pont Steffan ac yn dod i ben ym Mhatagonia, gan ymweld ag un deg pedwar o wledydd rhwng y ddau le. Ym mhob gwlad, daeth o hyd i Gymry neu arbenigwyr lleol ar ddiwylliant Cymreig, a thrafododd natur Cymreictod gyda nhw. Wrth ysgrifennu yn *The Times*, dywedodd Ffion Jenkins fod y gyfrol yn gofnod o Gymru a'r Gymraeg o safbwynt y rhai sydd wedi gadael. Yn *The Spectator,* nododd Byron Jenkins nad oedd ganddo ond canmoliaeth uchel i'r llyfr.

Llyfr nesaf Petro oedd *Sitting up with the Dead: a Storied Journey through the American South*, (HarperCollins, Flamingo, 2001). Aeth ar gyfres o bedair taith drwy ddeuddeg talaith yn ardal hanesyddol taleithiau'r De i gasglu straeon traddodiadol a chwrdd â'r bobl oedd yn eu hadrodd. Yn y lleoedd y bu iddi ymweld â nhw, canolbwyntiodd ar straeon sy'n 'cynnig meinwe cysylltiol cymuned.'

Yn *The Slow Breath of Stone: a Romanesque Love Story* (HarperCollins, Fourth Estate, 2005), dilynodd Petro daith cwpl o America, Kingsley a Lucy Porter, trwy dde-orllewin Ffrainc. Roedd Kinglsey yn hanesydd pensaernïol o Brifysgol Harvard, a Lucy'n ffotograffydd. Roedd y ddau wedi cofnodi'r abatai Romanesg yn nyffryn Lot. Gan ddefnyddio llythyrau perthnasol, papurau a ffotograffau Lucy, aeth Petro o bentref i bentref, yn dilyn llwybr y cwpl a gwreiddiau daearegol y cerrig Romanesg. Yn ysgrifennu yn *The Guardian,* nododd Joanna Kavenna, 'Mae'r llyfr yn dod yn glytwaith o linellau: y cwpl, y Romanesg, taith Petro at hunan-wybodaeth, ei meddyliau am gariad, bwyd a marwolaeth.'

Mae llawer o'i gwaith diweddar yn cynnwys y cysyniad hynod Gymreig, hiraeth. (Fel arfer, gellid cyfieithu hiraeth i'r Saesneg fel "homesickness" neu "longing", ond mae Petro yn ei ystyried fel y teimlad poenus o ddyheu am rywbeth neu rywun - cartref, diwylliant, ieuenctid - sydd wedi cael ei adael ar ôl, neu sydd ar goll, neu nad yw'n bosibl ei gyrraedd yn y dyfodol. Dyma fyddwch chi'n ei deimlo pan rydych chi'n chwarae rhan lawn yn y byd ond rydych eisiau mwy na'r hyn mae'r eiliad presennol yn ei ganiatáu. Mae'n dweud bod hiraeth yn wahanol i hel atgofion syml oherwydd ei agwedd greadigol; pan nad oes modd cael yr hyn rydych chi ei eisiau, rydych chi'n creu rhywbeth i wneud yn iawn am y golled. Yn ei barn hi, hiraeth yw maen prawf diwylliant creadigol Cymreig.) Unwaith eto, mae pedwerydd llyfr Petro, *The Long Field - a Memoir, Wales, and the Presence of Absence* (Little Toller Books,2021), yn cynnwys Llanbedr Pont Steffan a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Fel ffordd i mewn i'r pwnc, archwiliodd Petro hiraeth yr estron, rhywun sy'n caru Cymru, ond na all fyth fod yn Gymro go iawn.

Mae Petro hefyd yn artist gweledol talentog, ac mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn nofelau/hunangofiannau graffeg a pharu geiriau a darluniau. Mae hi'n aml yn argraffu ffotograffau'n uniongyrchol ar gerrig, ac yn eu disgrifio nhw fel 'petrograffau' drwy chwarae ar ei henw hi a'r gair Groegaidd ar gyfer cerrig. Mae'n casglu cerrig, eu gorchuddio mewn emwlsiwn ffotograffeg, eu hargraffu nhw â darluniau dynol ac yna'n dychwelyd y cerrig i'w lleoliad gwreiddiol. Wrth i'r cerrig erydu oherwydd dŵr a'r tywydd, mae Petro'n cofnodi'r broses gyda'i chamera. Mae'n nodi bod y canlyniadau yn 'ysgogi mewn dyddiau blynyddoedd yn mynd heibio, ac yn ein glynu at gylchoedd naturiol o ddadelfeniad ac ailgyflenwad.'

Ym mis  Ionawr 2011, treuliodd Petro fis fel Artist Preswyl yn Ffin Ddeheuol y Grand Canyon. Yn dilyn y  profiad hwn, aeth ati i greu  cyfres o ffotograffau digidol ac yna llyfr artistiaid, *AfterShadows.* Yn y Grand Canyon, tynnodd luniau o'r cysgodion enfawr a grëwyd gan y cerrig. Wedi hynny, argraffodd y lluniau ar gerrig mân gwyn o'r traeth ym Mae Fundy, a'u trefnu nhw i gynrychioli teithiau cerdded yr oedd wedi'u cyflawni neu leoedd o amgylch y ddaear mewn cylchfaoedd  amser gwahanol ar yr un adeg. Tynnodd lun o'r cerrig bychan yn erbyn amrywiaeth o gefndiroedd ac yn y bore, yng nghanol y dydd a chyda'r nos. Parodd y darluniau â thraethawd o'r enw 'Erosion.' Disgrifiodd Petro'r canlyniad fel  fersiwn 'bapur' o lyfr artist; gan fod y Grand Canyon yn gofadail cyhoeddus, penderfynodd gadw'r fersiwn orffenedig yn eithaf bychan a'r pris yn gymharol isel.

Ymdrech oedd 'The Dusk Series' i ddadadeiladu tirweddau confensiynol. Wrth dynnu lluniau yn y gyfres hon, symudodd Petro ei chamera i fyny ac i lawr yn fwriadol, fel bod pob llun allan o ffocws. Cafodd y lluniau i gyd eu tynnu fin nos; mewn lleoliadau'n cynnwys Cymru, Nova Scotia a'r Amazon yn BBrasil, yn ogystal â New England ac Oregon. Dywedodd, 'Fin nos, mae'r byd wedi'i guddio'n rhannol, mae'n rhaid i ni edrych am allan ac edrych yn fanylach i weld beth sydd yno, ond mae'n rhaid inni hefyd edrych am i mewn yn fwy nag y byddem yn ystod y dydd i ddychmygu beth sydd ar goll.'

Mae Petro wedi bod ynghlwm wrth addysgu rhaglen Gradd Feistr Celf Gain Prifysgol Lesley mewn ysgrifennu creadigol ers 2011. Mae hefyd yn darlithio yn yr Adran Saesneg yng Ngholeg Smith, ac mae'n Gyd-gyfarwyddwr, gyda Dominic Williams, yr Ysgol Haf Ysgrifennu Creadigol Dylan Thomas, a sefydlwyd gan ei ffrind Menna Elfyn, ac sy'n cael ei chynnal bob blwyddyn ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Daeth yn gymrawd er anrhydedd PCDDS  yn 2014. Yn ogystal â Pharc Cenedlaethol Grand Canyon, mae wedi bod ar gyfnodau preswyl llenyddol a chelf gweledol yn MacDowell Colony, Spring Creek Project for Ideas, Nature and the Written Word, a Sefydliad Black Rock Arts. Mae hi'n byw gyda'i phartner, Marguerite Harrison, yn Northampton, Massachusetts.

**Ffynonellau**

Petro, P. (2020). Pamela Petro. Cyrchwyd ar Hydref 28 2020 o https://pamelapetro.com/biography-and-contact/

Petro, P. (1994). Independent concentration. *Women's review of books. 11*(5),13-14. Cyrchwyd ar Hydref 28 2020 o https://www.jstor.org/stable/4021700

Petro, Pamela J. 1960- . *Contemporary Authors, New Revision Series*.  Cyrchwyd ar Hydref 17, 2020 o Encyclopedia.com: https://www.encyclopedia.com/arts/educational-magazines/petro-pamela-j-1960

Brown University. (d.d.) 1969. The New Curriculum introduced. Cyrchwyd ar Hydref 28 2020 o https://www.brown.edu/about/history/timeline/new-curriculum-introduced

Petro, P. (2012, Medi 18). Dreaming in Welsh. *The Paris Review.* Cyrchwyd ar Hydref 28 2020 o https://www.theparisreview.org/blog/2012/09/18/dreaming-in-welsh/

Jenkins, F. (1997, Gorffennaf 24). Just as Welsh as you feel – Books. [Adolygiad o'r llyfr *Travels in an old tongue* gan P. Petro]. *Times,* t. 37. Cyrchwyd ar Hydref 28 2020 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&docref=news/0F924C68156DE4AF.

Rogers, B. (1997, Awst 23). A bizarre enterprise. *The Spectator, 279*, 31. Cyrchwyd ar Hydref 28 2020 o https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/201173370?accountid=130472

McMahon, F. (2004). [Adolygiad o'r llyfr *Sitting up with the dead: a storied journey through the American* South, gan P. Petro]. The *Journal of American Folklore, 117*(464), 205-206. Cyrchwyd ar Hydref 28, 2020, o http://www.jstor.org/stable/4137830

Kavenna, J. (2005, Mai 7). The Guardian: Saturday Review: Travel: Romancing the stones: A trail through the Romanesque intrigues Joanna Kavenna: The Slow Breath of Stone: A Romanesque Love Story by Pamela Petro 297tt, Fourth Estate, pounds 20. *The Guardian.* Cyrchwyd ar Hydref 28 2020 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&docref=news/109F2B250A782123.

Olsthoorn, J.C. (2015). Yearning for the irretrievable – Pamela Petro: art & interview. *Numéro Cinq, 6*(3). Cyrchwyd ar Hydref 28 2020 o http://numerocinqmagazine.com/2015/03/08/yearning-for-the-irretrievable-pamela-petro-art-interview

Petro, P. (2018). Petrograph Gallery. [Blogiad]. Cyrchwyd ar Hydref 28 2020 o http://petrographs.blogspot.com/

Li, A. (2019, Hydref 3). Exhibit explores art as environmental advocacy. Art at Watson's new exhibition opens, draws education to 'ecology of dusk.' *The Brown Daily Herald.* Cyrchwyd ar Hydref 29 2020 o https://www.browndailyherald.com/2019/10/03/exhibit-explores-art-environmental-advocacy/

## Lawrence Pintak



Yn newyddiadurwr ac yn ysgolhaig arobryn, mae Lawrence Pintak wedi gohebu o bedwar cyfandir, o 18 o wledydd Affricanaidd a 15 talaith Arabaidd. Mae wedi cael ei ddisgrifio fel cofnodwr mwyaf blaengar y rhyngweithio rhwng y wasg Arabaidd a gwasg y Gorllewin.

Pan oedd yn dal i fod yn yr ysgol, gwyliodd Pintak Dean Brelis yn gohebu o Ucheldiroedd Golan ar gyfer CBS News. Sylweddolodd Pintak yn gyflym mai dyma roedd eisiau ei wneud â'i fywyd. Cafodd ei addysg yn Ysgol Newyddiaduraeth Medill, Prifysgol Northwestern, rhwng 1973 ac 1976. Yna, symudodd i'r Brifysgol Americanaidd yn Washington DC; graddiodd gyda BA mewn Cyfathrebu yn 1979. Ar ddiwedd yr 1970au, ysgrifennodd hefyd sawl erthygl am dde Affrica ar gyfer *The Times,* gan gynnwys gohebu ar ryfel annibyniaeth Zimbabwe.

Daeth Pintak yn ohebydd y Dwyrain Canol gyda CBS News yn 1980. Roedd yn byw yn Beirut yn ystod y cyfnod hwn a bu'n gohebu ar bynciau megis dyfodiad terfysgaeth Islamaidd fodern, gan gynnwys cynnydd Hezbollah a dechrau'r ymgyrchoedd bomio gan hunanladdwyr. Gan mai gweithwyr y cyfryngau oedd yr Americanwyr olaf yno, daethant yn dargedau ar gyfer herwgipwyr. Yn sgil bygythiadau ar fywyd Pintak gan filisia o blaid Syria bu'n rhaid iddo adael Libanus am flwyddyn. Cafodd rhai o'i griw eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol, a chafodd llawer o'i ffrindiau eu cadw'n wystlon. Disgrifiodd Pintak ei brofiad yn ei lyfr cyntaf, *Beirut outtakes: a TV correspondent's portrait of American encounter with terror,* (Lexington Books / DC Heath and Company, 1988). Cyflwynodd chwalfa Libanus drwy gyfrwng portreadau byrion, yn efelychu slot o ugain neu dri deg eiliad ar y teledu. Disgrifiodd Nakhleh y llyfr fel rhywbeth a oedd yn cynnig 'golwg synoptig deallus ac yn llawn gwybodaeth o'r holl brif ddigwyddiadau yn nhrasiedi Libanus.'

Yn 1988, daeth Pintak yn rheolwr gyfarwyddwr Pintak Communications International, cwmni ymgynghori ym maes y cyfryngau yn Washington D.C. a Jakarta. Gweithiodd ar chwyldro Indonesia yn 1998 ar gyfer ABC News a'r *The San Francisco chronicle.* Yn Indonesia, cwrddodd â'i wraig a dyma lle ganwyd ei blant. Aeth ymlaen i weithio fel golygydd yn Worcester Publishing rhwng 1998 a 2000 ac yna'n gyfarwyddwr golygyddol Office.com am gyfnod byr. Yn dilyn hyn, dechreuodd weithio yn y maes academaidd fel cyfarwyddwr cyfathrebu'r Ganolfan Newid Cymdeithasol ym Mhrifysgol Harvard. Treuliodd y ddwy flynedd nesaf fel Athro Newyddiaduraeth Ymweld Howard R. Marsh ym Mhrifysgol Michigan.

Aeth Pintak yn ôl i'r Dwyrain Canol yn 2005 i ddod yn gyfarwyddwr Canolfan Hyfforddiant ac Ymchwil Newyddiaduraeth Kamal Adham ym Mhrifysgol Americanaidd Cairo. Wedi'i sefydlu yng nghanol yr 1980au, hon oedd y ganolfan hyfforddi fwyaf ar gyfer newyddiadurwyr yn y Dwyrain Canol. Fel rhan o'i rôl, roedd Pintak yn gyhoeddwr-sefydlwr y cyfnodolyn ar-lein pwysig, *Arab media*

*& society.* Tua'r un pryd, astudiodd ar gyfer M.Phil ac yna PhD, wedi'u dyfarnu gan Brifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan. Teitl ei draethawd ymchwil ar gyfer ei PhD oedd *Islam, nationalism and the mission of Arab journalism: a survey of attitudes towards religion, politics and the role of the Arab media in the twenty-first century.*

Symudodd Pintak yn ôl i UDA yn 2009 i ddod yn ddeon sefydlwr Coleg Cyfathrebu Edward R. Murrow ym Mhrifysgol Talaith Washington. Yn ystod ei gyfnod yno, llwyddodd y coleg i sicrhau sawl grant a gwobr arobryn, gan gynnwys partneriaethau newydd gydag Adran y Dalaith a'r Sefydliad Carnegie-Knight . Ef oedd hefyd yn gyfrifol am *The Murrow Interview,* cyfres o sgyrsiau darlledu gyda chymeriadau blaenllaw ym maes cysylltiadau rhyngwladol a newyddiaduraeth fyd-eang. Yn ogystal, roedd Pintak yn ymgynghorydd i Adran Dalaith UDA y Ganolfan Ragoriaeth Newyddiaduraeth a ariennir gan UDA, yn Sefydliad Gweinyddiaeth Busnes, Karachi. Fe ddatblygodd y radd feistr newyddiaduraeth broffesiynol gyntaf ym Mhacistan, yn ogystal â rhoi cyngor i ysgolion newyddiaduraeth mewn ardaloedd llwythol yn y wlad.

Daeth Pintak yn Ddeon Ysgol y Cyfryngau a Chyfathrebu i Raddedigion ym Mhrifysgol Aga Khan, Nairobi yn 2020. Dywedodd mai ei nod yw helpu'r rhaglen ifanc i ehangu ei gorwelion ledled Dwyrain Affrica a thu hwnt.

Yn dilyn *Beirut Outtakes,* mae Pintak wedi ysgrifennu pedwar llyfr arall, sydd oll yn ymwneud â'r rhyngweithio rhwng y cyfryngau Arabaidd a gorllewinol. Yn *The New Arab Journalist: Mission and Identity in a Time of Turmoil,* (Bloomsbury, 2010), archwiliodd sut roedd gweithwyr proffesiynol yn y wasg Arabaidd yn ystyried eu hunain ar adeg dyngedfennol. Roedd yn gallu defnyddio cyfweliadau uniongyrchol gyda llawer o ohebwyr a golygyddion, yn ogystal â'r arolwg eang traws-ffiniol cyntaf o newyddiadurwyr Arabaidd. Disgrifiodd sut roedd y newyddiadurwyr hyn yn dal i fod o dan warchae wrth i lywodraethau geisio rheoli'r neges sy'n cael ei chyfleu. Ym marn Sabry, roedd y llyfr yn alluog, yn hael ac yn bwysig, gan uno theori ac ymarfer mewn ffordd gyfoethog iawn. Cyfrol ddiweddaraf Pintak yw *America & Islam: Soundbites, Suicide Bombs, and the Road to Donald Trump* (Bloomsbury, 2019). Archwiliodd berthynas yr Unol Daleithiau ag Islam, gan ystyried Trump yn symptom o ddegawdau o gamddealltwriaeth am y byd Mwslimaidd. Chwalodd Pintak ystrydebau allweddol sydd wedi llywio canfyddiad America o Fwslimiaid y byd. Disgrifiodd Hurd y llyfr fel un pwysig ac amserol. Roedd yn un o chwe llyfr a gyrhaeddodd rownd derfynol gwobr llyfr Cymdeithas Newyddion Crefyddol 2020.

Gwnaed Pintak yn Gymrawd y Gymdeithas Newyddiadurwyr Proffesiynol yn 2017 am 'wasanaeth rhagorol i broffesiwn newyddiaduraeth' ledled y byd. Derbyniodd y wobr Uwch Ysgolhaig gan y Gymdeithas Addysg ym maes Newyddiaduraeth a Chyfathrebu Torfol yn 2019. Mae wedi ennill dwy wobr Clwb y Wasg Tramor, a chael ei enwebu ddwywaith am wobr Emmy rhyngwladol.

**Ffynonellau**

Pintak, L. (2020). Lawrence Pintak, Dean, Graduate School of Media and Communications at Aga Khan University [tudalen LinkedIn]. LinkedIn. Cyrchwyd ar 3 Medi 2020 o https://www.linkedin.com/in/lawrencepintak/

Pintak, L. (d.d.) Lawrence Pintak. Cyrchwyd 3 Medi 2020 o https://pintak.com/

Coleg Cyfathrebu Edward R. Murrow. (d.d.) Lawrence Pintak. Cyrchwyd ar 3 Medi 2020 o https://murrow.wsu.edu/people/lawrence-pintak/

Coleg Cyfathrebu Edward R. Murrow. (d.d.) Amserlen. Cyrchwyd ar 7 Medi 2020 o https://murrow.wsu.edu/about-the-college/murrow-facts/history/

US Arab Radio. (2019, 20 Medi). *America and Islam: the journey of an author and his book.* [Ffeil fideo]. Cyrchwyd 7 Medi 2020 o https://www.youtube.com/watch?v=V_990Ydasn8

Religion and Media Interest Group. (2020). Pintak named dean of Graduate School of Media and Communications at Media and Communications at Aga Khan University, Nairobi. Cyrchwyd ar 7 Medi 2020 o http://religionandmedia.org/pintak-named-dean-at-aga-khan/

Nakhleh, E. (1991). Larry Pintak, Beirut Outtakes: A TV Correspondent's Portrait of American Encounter with Terror (Lexington, Mass.: Lexington Books/D.C. Heath and Company, 1988). Tud. 365. *International Journal of Middle East Studies.* 23(3), 459-460.

DOI: https://doi-org.ezproxy.uwtsd.ac.uk/10.1017/S0020743800057834

Sabry, T. (2012). The new Arab journalist: mission and identity in a time of turmoil, by Lawrence Pintak. London: I.B. Tauris, 2011. *Middle East Journal.* 66(1),190-192. Cyrchwyd o https://www-jstor-org.ezproxy.uwtsd.ac.uk/stable/41342789

Hurd, E.S. (2020). Islam in America: an eminent journalist connects American anti-Muslim rhetoric to U.S. foreign policy in the Middle East. Gaeaf 2020. Cyrchwyd ar 7 Medi 2020 o https://www.thecairoreview.com/book-reviews/islam-in-america/

# Martin Polley – Hanesydd Chwaraeon



Mae Martin Polley wedi bod yn Athro Hanes ym Mhrifysgol De Montfort ers 2014, ac yn Gyfarwyddwr ei Raglen Hanes Chwaraeon a Diwylliant Rhyngwladol.

Ganwyd Polley yn nwyrain Llundain yn 1956, ac aeth i ysgol Burlington Danes cyn cofrestru ar gyfer Coleg Prifysgol Dewi Sant i astudio hanes. Graddiodd gyda gradd dosbarth cyntaf yn 1987 a chwblhaodd ei PhD yn 1991, gan ysgrifennu ei draethawd ymchwil ar *The Foreign Office and International Sport, 1918-1948.* Chwaraeodd rhan lawn ym mywyd prifysgol, a chynrychiolodd Dewi Sant drwy chwarae pêl-droed a thraws gwlad, ymddangosodd mewn dau o gynyrchiadau'r Gymdeithas Ddrama, *Macbeth* a *Tartuffe* a chafodd ei ethol yn Is-lywydd Lles Undeb y Myfyrwyr (1985-6). Dechreuodd ei yrfa hir fel addysgwr yn adran hanes y brifysgol, lle bu'n addysgu'n rhan amser tra'n ymchwilio ei PhD. Yma yng Ngholeg Dewi Sant , bu iddo gwrdd â'i wraig, Catherine, ac mae'r ddau newydd ddathlu eu pen-blwydd priodas 31 o flynyddoedd.

Ar ôl dwy flynedd yn gweithio fel cynorthwyydd ymchwil hanesyddol yn y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, ymunodd Polley â Choleg King Alfred, Caer-wynt (Winchester) (bellach yn cael ei alw'n Brifysgol Winchester). Gan weithio i ddechrau fel Darlithydd ac Uwch Ddarlithydd yn yr adrannau hanes ac astudiaethau chwaraeon, bu'n addysgu cyrsiau hanes modern, hanesyddiaeth a hanes chwaraeon. Yn 2001, symudodd Polley i Brifysgol Southampton, lle bu'n Uwch Ddarlithydd Chwaraeon am ddeuddeg mlynedd. Ail-ymunodd â'r staff addysgu ym Mhrifysgol Winchester yn 2013, eto fel darlithydd Astudiaethau Chwaraeon a Hanes, cyn symud i Brifysgol De Montfort.

Yn ystod ei yrfa academaidd, mae Polley wedi cynhyrchu ystod eang ac amrywiol o gyhoeddiadau ac erthyglau, wedi cyfrannu sawl darn o waith at *Oxford Dictionary of National Biography* ac wedi cyflwyno papurau mewn sawl cynhadledd ym Mhrydain a thramor. Ymhlith ei ddiddordebau mae hanes chwaraeon a hamdden, rhywedd a chwaraeon, hanes y Gemau Olympaidd modern a'i olynwyr, chwaraeon, gwleidyddiaeth a diplomyddiaeth a threftadaeth chwaraeon. Cafodd ei lyfr cyntaf *Moving the Goalposts: a history of sport and society since 1945* (Routledge, 1998) lawer o ganmoliaeth, gan dderbyn cydnabyddiaeth, 'Bydd y rhai sy'n addysgu modiwlau ar hanes cymdeithasol a diwylliannol chwaraeon yn falch o weld y gwaith

hwn…bydd hefyd yn dod yn destun hanfodol ar gyfer astudio diwylliant poblogaidd ar ôl y rhyfel ym Mhrydain.'

Cyhoeddwyd cyfeirlyfr, *An A-Z of Modern Europe since 1789* (Routledge) yn 2000, a'r pum cyfrol *The History of Sport in Britain 1888-1914* (Routledge) dair blynedd yn ddiweddarach, o dan olygyddiaeth Polley. Yn 2007, ysgrifennodd lyfr testun ar hanes chwaraeon yn seiliedig ar ei brofiadau o addysgu'r pwnc, *Sports History: a practical guide* (Palgrave). Roedd y llyfr hwn yn boblogaidd iawn hefyd, ac fe'i hystyriwyd yn 'gyflwyniad o'r radd flaenaf i hanes chwaraeon…' ac yn 'llyfr dysgedig ac ystyrlon a fydd yn amhrisiadwy i fyfyrwyr chwaraeon sy'n astudio hanes'.

Y flwyddyn cyn Gemau Olympaidd Llundain, cyhoeddodd Polley *The British Olympics: Britain's Olympic Heritage 1612-2012* (English Heritage, 2011). Ym marn *The Independent* roedd y gwaith yn 'gofnod wedi'i ymchwilio'n helaeth o berthynas Prydain â'r mudiad Olympaidd…' a nododd *The Times Literary Supplement* ei fod yn 'ddarn o waith ymchwil dysgedig a thrylwyr'. Denodd Gemau Olympaidd Llundain 2012 lawer o sylw a brwdfrydedd ymhlith y cyhoedd, a mynegwyd hyn ar sawl ffurf ddiwylliannol. Un enghraifft o'r fath y bu Polley ynghlwm ag ef mewn rôl ymgynghorol oedd prosiect treftadaeth Gemau Olympaidd y Theatr Ieuenctid Genedlaethol, *White City/Black Country*. Penllanw'r fenter ddwy flynedd hon oedd drama newydd a gafodd ei pherfformio am y tro cyntaf ym mis Awst 2011, yn dathlu rôl sylweddol yr Ardal Ddu yng Ngemau Olympaidd 1908 ac 1948. Helpodd Polley, ymgynghorydd hanesyddol y prosiect, y criw ifanc i archwilio cefndir cymdeithasol a hanesyddol y Gemau Olympaidd hyn. Dywedodd cyfarwyddwr y ddrama fod ei weithdai yn 'llawn gwybodaeth ac yn gyffrous, rhoddodd wybodaeth gyd-destunol ardderchog i'r cast o'r cyfnodau amser a'r digwyddiadau roedd ein cynhyrchiad yn ymwneud â nhw…mewn ffordd a oedd yn berthnasol i'r prosiect, ac…yn hygyrch i bawb.' Mae Polley hefyd wedi rhannu ei wybodaeth a'i frwdfrydedd dros y Gemau Olympaidd gyda grŵp oedran iau, yn gweithio gydag Ysgol Gynradd Eglwys Loegr St Bede ar ei phrosiect ysgrifennu creadigol, *Voices.*

Ochr yn ochr â'i ymrwymiadau academaidd a'i waith ymgynghorol, mae Polley wedi bod ynghlwm â sawl prosiect ffilm, teledu a radio. Ymhlith y rhain mae rhaglenni dogfen megis *The Game of Their Lives* (Verymuchso/BBC 4), *The First True Olympians* (BBC 4) *The 1960s* (UKTV History) a *Word of Mouth* (BBC Radio 4).

**Ffynonellau:**

Polley, M. (d.d.). *Biography.* Martin Polley, Hanesydd Chwaraeon. https://martinpolley.co.uk/biography/ Cyrchwyd 2021, 10 Mawrth.


Polley, M. (d.d) *Work.* Martin Polley, Hanesydd Chwaraeon. https://martinpolley.co.uk/work/ Cyrchwyd 2021, 10 Mawrth.

Polley, M. (d.d.). *Professor Martin Polley.* Prifysgol De Montfort, Caerlŷr. https://www.dmu.ac.uk/about-dmu/academic-staff/art-design-humanities/martin-polley/martin-polley.aspx Cyrchwyd 2021, 10 Mawrth.

*National Youth Theatre search the Black Country for Olympic tales.* (2011, 1 Gorffennaf). Black Country Living Museum. https://www.bclm.co.uk/news/national-youth-theatre-search-the-black-country-for-olympic-tales-/68.htm#.YFHeNejFJPZ Cyrchwyd 2021, 10 Mawrth.

Williams, Jack (Dr). (1998, Medi). *Moving the Goalposts: a history of sport and society since 1947.* Reviews in History. https://reviews.history.ac.uk/review/59 Retrieved 2021, 10 Mawrth.

# H. Jefferson Powell



Mae H. Jefferson Powell yn athro'r gyfraith ym Mhrifysgol Duke, Durham, Gogledd Carolina. Gwasanaethodd hefyd yn Adran Cyfiawnder yr Unol Daleithiau o dan ddau lywydd.

Cafodd Powell ei eni yng Ngogledd Carolina yn 1954. Fel aelod cyntaf o'i deulu i fynychu'r brifysgol, cyrhaeddodd Llanbedr Pont Steffan i astudio anrhydedd mewn diwinyddiaeth yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant yn 1972. Dyfarnwyd cyfres o wobrau iddo: Ysgolhaig Rhan Un, 1973, Ysgolhaig Salisbury a Van Mildert, 1974, Uwch-ysgolhaig, W.D. Ysgoloriaeth Coffa Llewellyn, 1974-1975, Gwobr Rev Principal Maurice Jones (Ysgoloriaeth Groeg), Gwobr Ewyllys Groeg Rev Evan Jones, 1975. Mae Powell yn dweud bod ei ddyled i Goleg Dewi Sant yn anfesuradwy, mae'n cofio bod ffrind agos wedi dweud wrtho unwaith, 'Eich coleg a'ch gwnaed.'

Dychwelodd Powell i'r UD i astudio am radd Meistr yn y Celfyddydau ym Mhrifysgol Duke, ac wedyn gradd Meistr mewn Diwinyddiaeth yn Iâl. Ar ôl hyn, ymgymerodd â gradd Doethur Cyfreitheg yn Ysgol y Gyfraith Iâl. Dyfarnwyd Doethuriaeth iddo gan Brifysgol Duke yn 1991. Enw ei draethawd ymchwil oedd *'American constitutionalism as a moral tradition: a theological interpretation.'*

Treuliodd Powell ei yrfa yn y byd academaidd yn bennaf, ynghyd â chyfrifoldebau mewn llywodraeth ffederal a gwladwriaethol. Ei swydd academaidd gyntaf oedd fel Cydymaith Ymchwil yn Ysgol y Gyfraith Iâl. Ar ôl hyn gweithiodd fel athro cyswllt ac yna fel athro'r gyfraith ym Mhrifysgol Iowa. Yn 1989, aeth yn ôl i Brifysgol Duke. Mae wedi aros yn Duke ers hynny, heblaw am dreulio dwy flynedd fel athro cadeiriol y gyfraith ym Mhrifysgol George Washington, (2010-2012). Ochr yn ochr â hyn, roedd Powell yn fargyfreithiwr arbennig i'r Twrnai Cyffredinol ar gyfer talaith Gogledd Carolina rhwng 1991 a 1993. Bu'n ymwneud ag Adran Cyfiawnder yr UD o dan arlywyddiaeth Clinton ac Obama (1993 i 2000 a 2011-2012). Yn benodol, roedd yn weithgar yn Swyddfa'r Cwnsler Cyfreithiol, y corff sy'n rhoi cyngor cyfreithiol i'r Llywydd a phenaethiaid asiantaethau llywodraeth yr UD. Yn 1996, Powell oedd y Prif Ddirprwy Gyfreithiwr Cyffredinol. Yn ddiweddarach, roedd yn Ddirprwy Gynorthwyydd Twrnai Gwladol o 2011 tan 2012. Mae hefyd wedi briffio a dadlau achosion mewn llysoedd ffederal a llysoedd y wladwriaeth, gan gynnwys Goruchaf Lys yr Unol Daleithiau.

Fel ysgolhaig, mae gan Powell ddiddordeb arbennig yng nghyfansoddiad yr Unol Daleithiau. Mae ei waith wedi ymdrin â hanes a goblygiadau moesegol cyfansoddiadaeth America, pwerau'r gangen weithredol, a rôl y cyfansoddiad wrth wneud penderfyniadau deddfwriaethol a barnwrol. Mae wedi cadw diddordeb mewn diwinyddiaeth ac mae nifer o'i ysgrifau yn ymdrin â safbwyntiau Cristnogol ar y cyfansoddiad. Yn *The moral tradition of American constitutionalism*, (Gwasg Prifysgol Duke, 1993),

cynigiodd ‘safbwynt unigolion beirniadol mewnol’ ar argyfwng cyfansoddiadaeth America, ynghyd â chynnwys ei safbwynt Cristnogol ei hun. Yn *Constitutional conscience:* the moral dimension of judicial decision (Gwasg Prifysgol Chicago, 2008), ceisiodd Powell wrthbrofi'r syniad nad oes lle i foesoldeb wrth feirniadu ac wrth ddehongli cyfansoddiad America. Iddo ef, bu elfen foesol wrth wneud penderfyniadau barnwrol ers dyddiau cynharaf system yr UD. Yn ddiweddarach, mae Powell wedi ysgrifennu *Targeting Americans: the constitutionality of the U.S. drone war*, (Gwasg Prifysgol Rhydychen, 2016). Yn y llyfr hwn, archwiliodd a yw'r cyfansoddiad yn caniatáu i swyddogion y llywodraeth ladd dinasyddion yr UD sydd â dronau milwrol. Daeth i'r casgliad nad yw'r cyfansoddiad yn gosod rhwystrau i ymosodiadau drôn wedi'u targedu, ar yr amod eu bod wedi’u hawdurdodi gan y Gyngres ac yn dilyn ‘rhesymeg filwrol wirioneddol.’

Mae Powell wedi ysgrifennu nifer o benodau llyfrau ac erthyglau mewn cyfnodolion, ynghyd ag addysgu amrywiaeth o gyrsiau. Mae ei fodiwlau diweddar wedi cynnwys cyfraith gyfansoddiadol, clinig diwygiad cyntaf a chamweddau urddasol. Dyfarnwyd iddo Wobr Rhagoriaeth mewn Addysgu Bach Prifysgol Duke ar gyfer 1998-1999, a Gwobr Ysgolhaig/Athro ei brifysgol ar gyfer 2001-2002. Mae hefyd yn olygydd Cyfres Hanes Cyfreithiol Gwasg Academaidd Carolina. Y tu allan i'r gyfraith, un o'i ddiddordebau hynaf yw mewn Byzantium. Mewn cyferbyniad hollol, mae ei fryd ar farddoniaeth fel ffordd o fynegi ffydd grefyddol. Yn y dyfodol, mae'n gobeithio cyhoeddi gwaith ynglŷn â hyn.

**Ffynonellau**

Powell, H.J. (dim dyddiad) [Curriculum vitae]. Cyrchwyd ar 8 Mehefin 2020 o https://law.duke.edu/sites/default/files/cv/powell_cv.pdf

Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Duke. (2020). H. Jefferson Powell. Cyrchwyd ar 8 Mehefin 2020 o https://law.duke.edu/fac/powell/

Tushnet, M. (1995) [Adolygiad o'r llyfr *The moral tradition of American constitutionalism,* gan H.J. Powell]. *Journal of legal education,* 45(2),303-308. Cyrchwyd o www.jstor.org/stable/42893389

Braman, E. (2010). [Adolygiad: heb deitl] *Perspectives on Politics, 8*(2), 681-683. Cyrchwyd ar 8 Mehefin 2020 owww.jstor.org/stable/25698661

Peabody, B. (2017).  Powell, J. Jefferson. Targeting Americans: the constitutionality of the U.S. drone war. *Congress & the presidency.* 44(2),297-299. https://doi.org/10.1080/07343469.2017.1314729

# D.T. William Price



David Trevor William Price yw awdur *A History of Saint David's University College Lampeter,* sef hanes swyddogol y sefydliad.

Mab offeiriad oedd Price. Er iddo gael ei eni ym Mae Colwyn, tyfodd i fyny yn Swydd Amwythig, yn fachgen balch o'i Gymreictod. Mynychodd Ysgol Ramadeg Wem cyn derbyn Ysgoloriaeth Agored i ddarllen Hanes Modern yng Ngholeg Keble Rhydychen. Ei swydd gyntaf ar ôl graddio oedd fel Golygydd Cynorthwyol i'r *Victoria County History of Shropshire.*

Daeth Price i ddysgu Hanes yng Ngholeg Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan yn 1970, a chafodd ddyrchafiad yn Uwch Ddarlithydd Hanes a Diwinyddiaeth yn 1987. Cafodd ei ddenu gan draddodiad Anglicanaidd y coleg, yn ogystal â'r cyfle i adfywio ei Gymraeg. Ar y dechrau, mae'n dweud fel iddo dreulio awr yng Ngwesty'r Castle, sawl gwaith yr wythnos yng nghwmni Idris Reynolds o'r Llyfrgell, yn siarad Cymraeg yn unig.

Ochr yn ochr â'i ddarlithio, daeth Price yn archifydd anrhydeddus cyntaf y sefydliad. Casglodd ac ymgynullodd ddefnyddiau archifol yn perthyn i hanes CDS, ynghyd â phapurau cyn aelodau staff a myfyrwyr. Cadwyd y rhain mewn blychau wedi eu mynegeio a'u rhifo. Ar y cyd â threfnu'r cofnodion, gweithiodd Price ar *A History of Saint David's University College Lampeter.* Nododd y gyfrol cyntaf, a gwmpasodd y cyfnod tan 1898, ben-blwydd y coleg yn 150 oed. Cyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru yn 1977. Dywedodd yr adolygydd yng Ngheredigion fel a ganlyn: 'The Reverend D.T.W. Price has an interesting tale to relate. In this task, he has succeeded admirably…'. Cyhoeddwyd yr ail gyfrol yn 1990 a oedd yn cwmpasu'r cyfnod o 1898 i 1971. Disgrifiodd Gibson hwn fel: 'fascinating, sympathetic but balanced account of the development of a university college.'

Yn ogystal, ysgrifennodd Price astudiaeth ddwyieithog, *Yr Esgob Burgess a Choleg Llanbedr = Bishop Burgess and Lampeter College,* (Gwasg Prifysgol Cymru, 1987*).* Mae'r rhan gyntaf yn archwilio bywyd ac amser Thomas Burgess, a'r ail ran yn manylu ar y coleg a sefydlodd. Roedd y gyfrol yn rhan o'r gyfres ddwyieithog Dydd Gŵyl Dewi Sant. Nododd Jones, 'It is a tale well told, written lucidly in English and Welsh.'

Gan edrych tu hwnt i'r stori Llanbedr Pont Steffan, cyhoeddodd Price *A History of the Church in Wales in the Twentieth Century,* mewn fersiynau Saesneg a Chymraeg, (Church in Wales Publications, 1990). Ysgrifennodd Herbert: 'What we have from his meticulous pen and twinkling eye

is a view of an ecclesiastical institution, struggling to establish an identity, wrestling with huge social forces; and language.' Llyfr diweddaraf Price yw bywgraffiad Esgob Bangor a wasanaethodd am gyfnod hir, sef *Archbishop Gwilym Owen Williams: 'G.O.': His Life and Opinions,* (Church in Wales Publications, 2017). Yn ysgrifennu yn y *Church Times,* disgrifiodd Williams waith Price yn drylwyr iawn. Cyfrannodd Price lawer o erthyglau i gyfnodolion hefyd, gan gynnwys adroddiad o gyfraniad graddedigion Llanbedr Pont Steffan i'r Eglwys yng Nghymru. Roedd yn aelod o Fwrdd yr Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Cymru am dros ugain mlynedd. Cafodd ei ethol yn gymrawd y Gymdeithas Hanes Frenhinol yn 1979 ac yn gymrawd Cymdeithas yr Hynafiaethwyr yn 1995. Cafodd ei wobrwyo gyda doethuriaeth anrhydeddus gan PCYDDS yn 2018.

Ochr yn ochr â'i waith academaidd, ordeiniwyd Price yn ddiacon yn 1972 ac yn offeiriad yn 1973, lle cynhaliwyd y gwasanaeth, yn bur anarferol, yng nghapel y coleg. Yn y blynyddoedd a ddilynodd, cafodd amrywiaeth o swyddi yn Esgobaeth Tyddewi a'r Eglwys yng Nghymru, yn ogystal â'r coleg ei hun. Roedd yn gaplan yn Llanbedr Pont Steffan o 1979 tan 1980, ac yn ddeon y Capel o 1990 tan 1991. Ar ben hynny, golygodd y *St David's Diocesan Directory* blynyddol o 1981 tan 1998. Roedd yn archifydd yr esgobaeth rhwng 1982 a 1998, a chafodd ei wneud yn Ganon Preswyl Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn 1992. Yn 2018, fe'i benodwyd yn Ganon Anrhydeddus Eglwys Gadeiriol Sant Paul, yn San Helena.

Daeth Price yn offeiriad â gofal ym Metws Bledrws yn 1986, lle gwasanaethodd fel offeiriad di-gyflog ochr yn ochr â'i waith academaidd. Ymhen amser, teimlodd bod rhaid iddo ddewis rhwng yr eglwys a'r byd academaidd. Yn 1997, trodd at weinidogaeth fugeiliol llawn amser. Daeth yn Ficer Cydweli a Llandyfaelog yn Sir Gaerfyrddin. Roedd hefyd yn Guriad Ymchwiliadol i Esgob Tyddewi, gan gynghori'r esgob ar faterion diwinyddol. Yn dilyn hyn, daeth Price yn offeiriad â gofal ym Myddle a thair plwyf gyfagos yn Swydd Amwythig. Ar ei ymddeoliad yn 2008, aeth Price yn ôl i Wem; daeth yn Ddeon Gwlad Wem a'r Eglwys Newydd.

Mae wedi parhau â'i ddiddordeb mewn hanes lleol. Yn ystod 2003 a 2015, roedd yn golygu *Transactions of the Shropshire Archaeological and Historical Society*. Mae wedi bod yn ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth Eglwysi Hanesyddol Swydd Amwythig ers 2005, a nawr mae'n Gadeirydd. Cyfrannodd hefyd at *The Victoria History of Shropshire: Wem*, wedi'i olygu gan Judith Everard, James P Bowen a Wendy Horton (2019). Fodd bynnag, mae'n dweud nad yw wedi gallu gadael Cymru. Roedd yn Gynghorydd Taleithiol ar Archifau i'r Eglwys yng Nghymru a chyfrannodd i benodau yn *Religion and Society in the Diocese of St Davids 1485-2011, edited by William Gibson and John Morgan-Guy, (Ashgate, 2015)* ac *A New History of the Church in Wales, edited by Norman Doe, (Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 2020)*.

Priododd William ac Alison, yn 1973. Aeth eu tri phlentyn, Clare, Michael ac Abigail i'r ysgol yn Llanbedr Pont Steffan. Aeth Abigail ymlaen i astudio diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan. O ran diddordebau, mae Price yn rhestru rheilffyrdd, ieithoedd, ac edrych ar eglwysi. Mae wedi ymweld â phob eglwys Anglicanaidd yng Nghymru.

**Ffynonellau**

Gradd er Anrhydedd (Doethur mewn Diwinyddiaeth), Honorary Doctorate (Doctor of Divinity) Y Parchedig Ganon The Reverend Canon D T William Price (2018). Graddio Graduation 2018, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, University of Wales Trinity Saint David, Campws Llambed, Lampeter Campus

Roberts, S. (2018). Catalog Archif Llyfrgell Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan, Coleg Dewi Sant gynt. Cyrchwyd ar 24 Chwefror 2021 o https://uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/library-and-learning-resources/roderic-bowen/library-archive-catalogue-of-the-university-of-wales-lampeter-formerly-st.-davids-college.pdf

D.M.J. (1979) [Review of the book *A History of Saint David's University College Lampeter. Volume one: to 1898,* by D.T.W. Price]. *Ceredigion: journal of the Cardiganshire Antiquarian Society, 8*(1-4),237-238. Cyrchwyd ar 24 Chwefror 2021 o https:// cylchgronau.llyfrgell.cymru /view/1093205/1096097/266

Gibson, W.T. (1990). Academic phoenix. The history of Saint David's College Lampeter. Vol 2:1898-1971 by D.T.W. Price. Gwasg Prifysgol Cymru, 270 pages, £12.95. *RSA Journal, 139*(5413),953. Cyrchwyd ar 24 Chwefror 2021 o https://www.jstor.org/stable/41378085

Jones, R.B. (1988). [Adolygiad o'r llyfr *Yr Esgob Burgess a Choleg Llanbedr = Bishop Burgess and Lampeter College,* gan D.T.W. Price]. *Welsh History Review = Cylchgrawn Hanes Cymru, 14*(1-4),152-153. Cyrchwyd ar 24 Chwefror 2021 o https://journals.library.wales/view/1073091/1080171/155#?cv=155&m=13&h=&c=0&s=0&manifest=https%3A%2F%2Fdamsssl.llgc.org.uk%2Fiiif%2F2.0%2F1073091%2Fmanifest.json&xywh=-1681%2C-47%2C5776%2C3531

Herbert, C. (1991). [Adolygiad o'r llyfr *A History of the Church in the Twentieth Century* gan D.T.W. Price]. *The Journal of Welsh Ecclesiastical History, 8*,82-83. Cyrchwyd ar 24 Chwefror 2021 o https:// cylchgronau.llyfrgell.cymru /view/1127665/1128385/87#?cv=87&m=7&h=&c=0&s=0&manifest=https%3A%2F%2Fdamsssl.llgc.org.uk%2Fiiif%2F2.0%2F1127665%2Fmanifest.json&xywh=-1670%2C68%2C5804%2C3455

Wilbourne, D. (2018, June 8). *Archbishop Gwilym Owen Williams – "G.O.": His Life and Opinions* gan D.T.W. Price. *Church Times.* Cyrchwyd ar 24 Chwefror 2021 o https://www.churchtimes.co.uk/articles/2018/8-june/books-arts/book-reviews/welsh-golden-age-that-never-came

Deacy, C. (Cyfwelydd). (3 Chwefror 2019). William Price. [Podlediad sain]. Cyrchwyd ar 24 Chwefror 2021 o https://audioboom.com/posts/7162959-william-price

## Henry James Prince – Y myfyriwr a oedd yn credu mai ef oedd Duw



Ganwyd Henry James Prince yn 1811, yn blentyn ieuengaf i blannwr o India'r Gorllewin a fu farw yn fuan ar ôl ei enedigaeth. Magwyd Prince mewn 'tlodi ffasiynol' yng Nghaerfaddon, yn derbyn gofal yn bennaf gan Martha Freeman, hen wraig gyfoethog oedd yn ffrind i'w fam ac yn lletywr. Er gwaethaf y gwahaniaeth oedran sylweddol, priododd Prince â Martha yn 1834. I ddechrau, ar ôl penderfynu ar yrfa yn y byd meddygol, daeth Prince yn brentis i lawfeddyg apothecari yn ninas Wells. Yn ddiweddarach symudodd i Lundain, i Ysbyty Guy's ac Ysgol Anatomeg Stryd Webb, lle cwblhaodd ei hyfforddiant. Yn 1832, cymhwysodd fel Trwyddedai Cymdeithas yr Apothecari, ac fe'i penodwyd yn Swyddog Meddygol Preswyl yn Ysbyty Cyffredinol Caerfaddon, a oedd yn ysbyty mawreddog.

Fodd bynnag, oherwydd dylanwad Martha a oedd yn Gristion defosiynol, ynghyd ag ysfa Efengylaidd gynyddol yn ei fywyd crefyddol ei hun, penderfynodd Prince gefnu ar feddyginiaeth a throi at weinidogaeth ordeiniedig yr Eglwys Sefydledig. Yn mis Mawrth 1836, derbyniwyd ef i Goleg Dewi Sant, lle profodd ei fod yn fyfyriwr uwch na'r cyffredin, ac o fewn dim, roedd wedi sefydlu ei hun fel arweinydd grŵp o'r enw "y Brodyr o Lanbedr Pont Steffan".

Yn 1840, cafodd ei ordeinio gan Esgob Caerfaddon a Wells ar gyfer plwyf gwledig Charlinch (neu Charlynch) ger Bridgwater yng Ngwlad yr Haf. Fodd bynnag, ymhen amser, fe wnaeth Prince rannu'r plwyf trwy gyhoeddi mai dim ond y cyfiawn, a oedd yn tueddu i fod yn fenywaidd a deniadol, y gellid eu derbyn i'r eglwys, gan greu'r hyn a elwir wedyn yn "Ddiwygiad Charlynch".

Ar ôl iddo gael ei ddiswyddo o'i guradiaeth gan yr Esgob, symudodd Prince i blwyf Stoke-by-Clare, Suffolk, gyda chanlyniadau dramatig tebyg. Wedi'i ffieiddio ag Eglwys Loegr, ymbellhaodd Prince a symud i Brighton, lle sefydlodd Gapel Adullam, gan sefydlu ei hun fel pregethwr ffasiynol yn gyflym. Yna symudodd i Ystafelloedd Ymgynnull y Gwesty Brenhinol yn Weymouth, lle datganodd ei hun fel Datguddiad Duw ar y ddaear.

Yn 1842, bu farw Martha, a gwnaeth Prince sôn am ei hun trwy briodi eto, ychydig fisoedd yn ddiweddarach. Roedd Julia, ei ail wraig, yn chwaer rheithor o fodd annibynnol. Yn 1846, wedi'i ariannu gan ei ddilynwyr benywaidd yn bennaf, adeiladodd Prince "Agapemone", "Cartref Cariad", ar safle 200 erw yn Spaxton, yn agos at Charlych. Yma roedd y gymuned, a oedd yn cynnwys menywod dibriod cyfoethog yn bennaf, yn dilyn bywyd crefyddol yn seiliedig ar

ddamcaniaethau amrywiaeth o gyfriniaeth ysbrydol Almaenig, ac yn aros am yr Ail Ddyfodiad. Beth bynnag, fe wnaethant barhau i gynhyrchu sibrydion. Cyhoeddodd adroddiad yn yr *Illustrated London News*, "Maent wedi trosi'r capel yn dŷ gwledda, ac wedi cyfnewid gwledda a mwynhad am le preifat i weddïo", ond roedd gwaeth i ddod. Un agwedd ar “sofraniaeth ddwyfol” Prince oedd yr “Ymddangosiad Mawr”, pan ddewisodd Prince, a elwir yn ‘Anwylyd’, forwyn ifanc addas o blith yr Agapemoniaid, a “chymryd ei chnawd â nerth ac awdurdod yr Ysbryd Glân”, ar wely a sefydlwyd gerbron y Bwrdd Sanctaidd yn y capel, a gerbron y gynulleidfa a oedd wedi ymgynnull.

Yn 1857, gan gredu mai ef oedd Ysbryd Glân Duw, ysgrifennodd Prince *The Little Book Open*, y datganodd ynddo:

*“This one man, myself, has Jesus Christ selected and appointed His witness to His counsel and purpose, to conclude the day of grace and to introduce the day of judgement, to close the dispensation of the spirit, and to enter into covenant with the FLESH.”*

Er gwaethaf ei honiad mai ef oedd y Meseia, bu farw Prince yn 1899, a chredir ei fod wedi'i gladdu yn sefyll yn unionsyth, o fewn muriau Agapemone. Fodd bynnag, parhaodd ei etifeddiaeth, gydag ôl yr Agapemoniaid yn parhau hyd at y 1960au.

**Ffynonellau**

Morgan-Guy, John. (2019). *Henry James Prince. The Lampeter student who believed he was God.* Llyfryn wedi'i argraffu yn fewnol i gyd-fynd â'r arddangosfa.

Banerjee, Jacqueline. (2016, 12 Hydref). Henry James Prince and the Agapemonites. *The Victorian Web, literature, history & culture in the age of Victoria.* http://www.victorianweb.org/religion/agape.html

# Y Parchedig Howell Prichard

Ganwyd Howell Prichard yn 1805 yn Trallong, Sir Frycheiniog, i'w rieni Howell Prichard ac Elizabeth Powell. Roedd ei dad yn ffermwr ac wedi priodi Elisabeth Powell y flwyddyn flaenorol. Roedd gan Howell ddau frawd a phedair chwaer; Elizabeth, Thomas, Elizabeth, William, Sarah a Rees.


Cyn iddo gael ei dderbyn i Goleg Dewi Sant, roedd Howell wedi mynychu Coleg Crist, Aberhonddu. Roedd Howell yn un o'r myfyrwyr cyntaf i gofrestru yn Llanbedr Pont Steffan, gan ymuno â'r coleg ar y diwrnod agoriadol, 1 Mawrth 1827, yn 21 oed. Roedd llawer o'i gyd-fyfyrwyr hefyd o gefndiroedd amaethyddol a byddai'r gobaith o gael bywyd i ffwrdd o ffermio wedi cynnig sicrwydd ariannol, statws ac, i rai, antur. Roedd rheolau'r coleg yn llym a chafodd rhai myfyrwyr eu diarddel; cafodd Howell ei hun ei geryddu yn nhymor Mihangel yn 1828 am ryw ddrygioni anhysbys. Ymhlith y troseddau a allai arwain at ddiarddel myfyrwyr dros dro roedd rhegi, gadael y campws gyda'r nos, meddwdod ac absenoldebau dro ar ôl tro heb ganiatâd.

Ordeiniwyd Howell yn Ddiacon yng nghapel y Coleg ym mis Awst 1829 ac fe'i penodwyd yn Gurad Cyflogedig Dulas, Henffordd. Y flwyddyn ganlynol, sefodd Howell ei arholiadau ond ni chafodd ei dderbyn i fod yn Offeiriad, yn fwyaf tebygol oherwydd ei ddiffyg gwybodaeth o'r ysgrythur, Lladin neu ddiwinyddiaeth nag am ymddygiad gwael. Dair blynedd yn ddiweddarach penodwyd Howell yn Gurad Cyflogedig of Llansanffraid a Llansbyddyd yn esgobaeth Dewi Sant. Ym mis Medi 1834, fe wnaeth Howell ailsefyll ei arholiadau yn llwyddiannus ac fe'i ordeiniwyd yn offeiriad yng nghapel y Coleg. Parhaodd i gyflawni ei ddyletswyddau offeiriadol yn Llansbyddyd am y deng mlynedd nesaf.

Yng nghanol yr 1840au, daeth tro ar fyd i Howell pan gafodd ei benodi i ardal Montpelier, Jamaica. Roedd Esgob Jamaica wedi gwneud ceisiadau yn yr *Ecclesiastical Gazette* am sawl swydd wag ar yr ynys ac, ar argymhelliad ei Esgob, penodwyd Howell yn Gurad yn Jamaica. Un o'i ddyletswyddau cynharaf yn 1844 oedd claddu'r Parchedig William Fraser yn Falmouth, Trelawny; roedd Fraser wedi gwasanaethu'r eglwys yn Jamaica ers 1806.

Planhigfa siwgr oedd ardal Saint James, Montpellier yn Jamaica yn wreiddiol. Roedd y blanhigfa wedi newid dwylo sawl gwaith ers iddi gael ei chreu gan y Capten Francis Sadler yn yr 1740au ac, erbyn 1840, roedd yr ystâd yn eiddo i deulu de Walden. Yn dilyn diddymu caethwasiaeth, dechreuodd yr ystâd ddioddef yn ariannol, fel llawer yn y trefedigaethau. Yn 1848, gorchmynnodd Tŷ'r Cyffredin ymchwiliad i sefyllfa economaidd y trefedigaethau ddegawd ar ôl rhyddfreinio; yn 1806 roedd siwgr Gorllewin India wedi cynrychioli 55.1% o farchnad Gogledd yr Iwerydd, ond erbyn 1851 roedd wedi gostwng i ddim ond 13%. Gwaethygwyd y dirywiad ar ôl rhyddfreinio gan y dirwasgiad economaidd yn Ewrop yn 1846-1847 a gafodd ganlyniadau dramatig ar y diwydiant siwgr yn Jamaica. Yn yr hinsawdd economaidd ansicr ac ansefydlog, derbyniodd planwyr Jamaica lai a llai o gyfalaf gan fasnachwyr a chyllidwyr Prydain gan arwain at lawer o achosion o fethdaliad. Erbyn yr 1850au, roedd ystâd Montpellier wedi newid i ffermio gwartheg.

Chwaraeodd Howell Prichard ran sylweddol yn adfywiad yr ystâd a'r ynys, fel y gwnaeth llawer o'r clerigwyr a gyrhaeddodd yn ystod yr 1830au-1850au. Daethpwyd â Howell ei hun drosodd i'r wlad i "gynorthwyo'r Gwyddelod a'r Albanwyr amddifad" yr effeithiwyd arnynt gan y diddymiad a'r dirywiad economaidd. Roedd yr eglwys yn un o golofnau'r ynys yn ystod yr amseroedd caled hyn a dywedodd yr Anrhydeddus Arglwydd Walden fod "Clerigwyr Eglwys Loegr yn cael mwy o ddylanwad bob dydd ar y Negros, ac yn cydweithredu â'r perchnogion wrth annog diwydiant".



Ystâd Montpellier, Sant James, o *A Picturesque Tour of the Jamaica Island gan James Hakewill*, 1825. *Hurst and Robinson & Co.*
https://en.wikisource.org/wiki/Page:A_Picturesque_Tour_of_the_Island_of_Jamaica.djvu/95

Yn 1846 priododd Howell Mary Harriet Marrett, merch ieuengaf y Capten Joseph Marrett o'r Llynges Frenhinol, yn Eglwys Sant Michael, Swanswick, Jamaica. Ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach, cafodd Mary ferch o'r enw Mary Elisabeth, a dwy flynedd yn ddiweddarach ganwyd eu hail ferch, Louisa Gwenllian Sarah. Yn ystod y cyfnod hwn, bu Howell yn ymwneud â sefydlu eglwys newydd, Capel Sant Paul, Montpellier a fynychwyd gan lawer o drefolion Bae Montego a'r ardaloedd allanol. Dywedodd Howell, wrth ysgrifennu yn ôl at ei bapur newydd lleol yng Nghymru, *The Cardiff and Merthyr Guardian*, y byddai sefydlu'r capel "o ddiddordeb i lawer o'ch darllenwyr" a nododd fod llawer ohonynt yn ffrindiau ac yn berthnasau iddo. Dywedodd, "er ei fod wedi byw am nifer o flynyddoedd yn yr hinsawdd drofannol a nychlyd hon, [mae fy] iechyd corfforol a meddyliol yn dda iawn".

Erbyn 1850, roedd Howell yn gymeriad adnabyddus ar ynys Jamaica a nododd y *Jamaica Almanac* yn 1851 ei fod hefyd yn rheolwr banc cynilion Sant James, rhywbeth nad oedd yn anghyffredin bryd hynny i barchedigion ac aelodau'r eglwys. Mae hefyd wedi'i restru fel Curad yr Ynys ar Ynys Sant James. Roedd Howell yn cadw golwg ar y datblygiadau yn ei sir a'i wlad enedigol trwy ei danysgrifiad i bapur newydd *The Cardiff and Merthyr Guardian.*

Ar ôl bod yn un o fyfyrwyr cyntaf y coleg, roedd Howell hefyd yn un o'r graddedigion cyntaf, ac yn 1853 dychwelodd i sefyll yr arholiad ar gyfer ei Radd Baglor mewn Diwinyddiaeth yn

llwyddiannus o dan siarter newydd 1852. Dychwelodd Howell i Jamaica, ond ar ôl dioddef ychydig flynyddoedd gydag iechyd gwael, gadawodd yr ynys ac, yn 1859, dechreuodd swydd fel Curad yn Knockin, Swydd Amwythig.

Mae Cyfrifiad 1871 yn cofnodi bod Howell a'i wraig wedi cael merch arall, Howellina Powell Milner Prichard, a anwyd yn 1864, tra bod papurau'r flwyddyn honno'n adrodd ei fod yn rhoi nawdd i Gymdeithas Gorawl Knockin. Yn 1876, bu Howell yn byw'n hapus ym Melverley yn Swydd Amwythig a threuliodd y pum mlynedd nesaf yno. Bu farw Howell ym mis Ebrill 1881 yn 76 oed, a chladdwyd ef yn Eglwys Plwyf Melverley.

**Ysgrifenwyd gan:**

Thomason, K. (2018). The 'First Alumnus' ? – Revd. Howell Prichard). *The Link* (XXI), 18-19. Cyrchwyd o https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/lampeter-society-/thelink2018.pdf

# William Peregrine Propert

Bu William Peregrine Propert yn gysylltiedig ag Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi fel corwr, corwr-ficer lleyg, ac organydd am dros 65 o flynyddoedd.

Ganwyd Propert ar 24 Chwefror 1831 yn Hubberston. Y capten David Propert, yr harbwr feistr yn Aberdaugleddau oedd ei dad, ac Anne Peregrine oedd ei fam. Mynychodd Ysgol y Gadeirlan yn Nhŷ Ddewi. Yn blentyn, roedd ganddo lais trebl pur, yn canu anthemau'r gwasanaethau fel unawdydd. Dysgodd chwarae'r organ hefyd. Symudodd i Lanbedr Pont Steffan yn gyntaf. Ysgolhaig Bates ac organydd y coleg ydoedd, a chipiodd ddwy wobr yn 1849. Roedd hefyd yn ganolog mewn grŵp bach a oedd yn cwrdd bob wythnos i astudio cerddoriaeth.

Yn 1851, penodwyd Propert yn Ficer-Lleyg Iau ac Organydd Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi, a bu yn y swydd tan 1871. Fodd bynnag, llwyddodd i astudio ochr yn ochr gyda'r swydd. Ef oedd y myfyriwr cyntaf i ennill gradd gyfunol yn y Celfyddydau a Cherddoriaeth ym Mhrifysgol Rhydychen. Aeth ymlaen i astudio diwinyddiaeth, y clasuron, y gyfraith a mathemateg yn ogystal â cherddoriaeth yng Nghaergrawnt. Priododd Emily Mortimer yn 1859. Roedd ganddynt ddau fab, M.D. Propert, a oedd yn swyddog i'r Bwrdd Llywodraeth Leol, a Peregrine Sydney Goldwin, a oedd yn ficer yn Llundain.



Eglwys Gadeiriol TŶ Ddewi, lle roedd Proppert yn organydd

Gan Nilfanion - Wikimedia UK, CC BY-SA 4.0, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=47733084

Bu Propert yn organydd yn Nhŷ Ddewi tan 1883, ac yna'n ficer-lleyg corawl. Ni chafodd yr organ ei defnyddio, fodd bynnag, rhwng 1864 a 1883. Roedd yn ymddangos bod digon o amser gan Propert ar gyfer ei doreth o ddiddordebau eraill. Ymysg ei ffrindiau, roedd y cyfansoddwyr Thomas Attwood Walmisley, Sebastian Wesley, Syr George Elvey a Dr Corfe.

Mewn galwedigaeth arall, daeth yn aelod o'r Deml Fewnol, ac yn 1873 dilynodd radd Meistr y Gyfraith yng Nghaergrawnt. Cafodd alwad i'r Bar yn 1873 a chymerodd ei ddoethuriaeth yn y Gyfraith yn 1878. Er na wnaeth ymarfer y gyfraith, enillodd enw da iddo ef ei hun ar draws de Cymru fel cynghorwr cyfreithiol. Dewiswyd ef gan Lywodraeth Japan i fod yn diwtor i ddau fyfyriwr ifanc a anfonwyd i Brydain i gael eu hyfforddi yng nghyfraith Lloegr a chyfraith Rufeinig. Roedd yn aelod o'r

Gymdeithas Feteoroleg Frenhinol, a bu'n gwneud cyfres o arsylwadau meteoregol yn Nhŷ Ddewi. Cafodd y rhain eu cyhoeddi, a datganwyd eu bod o werth cenedlaethol. Roedd yn aelod o'r Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol, ochr yn ochr â diddordebau mewn botaneg, daeareg, ac entomoleg.

Bu farw Propert ar 3 Hydref, 1906 yn ei gartref, Tŷ'r Manor, yn Nhŷ Ddewi.

**Ffynonellau**

Musical Times. (1906, Tachwedd 1). We regret to record the death … *Musical Times.* Cyrchwyd o https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/7443365?rfr_id=info%3Axri%2Fsid%3Aprimo&imgSeq=3.

The Times. (1906, Hydref 5). Obituary. *The Times.* 5 October 1906. Cyrchwyd o https://go-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ps/retrieve.do?tabID=Newspapers&resultListType=RESULT_LIST&searchResultsType=SingleTab&searchType=AdvancedSearchForm&currentPosition=129&docId=GALE%7CCS151450437&docType=Obituary&sort=Pub+Date+Forward+Chron&contentSegment=ZTMA-MOD1&prodId=TTDA&contentSet=GALE%7CCS151450437&searchId=R3&userGroupName=walamp&inPS=true&ps=7&cp=129

Price, D.T.W. (1990). *A history of Saint David's College Lampeter. Volume two: 1898-1971.* University of Wales Press

Weekly mail. (1906, Hydref 6). Death of Dr Propert. *Weekly mail.* 6 Hydref 1906. Cyrchwyd o https://newspapers.library.wales/view/3378461/3378467/119/

Ancestry. Cyrchwyd 22 Mai 2020, o https://www.ancestrylibraryedition.co.uk/search/

[Untitled article] (1965). *The Bulletin of the Lampeter Society, 18,* 8

Death of W.P. Propert (1906, Hydref 4). *Western Mail.* Cyrchwyd 10 Medi o https://www.britishnewspaperarchive.co.uk/viewer/bl/0000104/19061004/144/0005

# P. Ramanathan

Roedd Pathmanathan Ramanathan (1932-2006) yn gyfreithiwr a barnwr blaenllaw o Sri Lanka.

Roedd Ramanathan (roedd yn cael ei adnabod fel Rama) yn aelod o deulu elitaidd Tamil Hindŵaidd. Cafodd ei eni ar 1 Medi 1932. Ei dad oedd Sangarapillai Pathmanathan, brocer adnabyddus yn y diwydiant te a llefarydd ar ran Planhigfeydd yr Iseldiroedd. Ei fam oedd Srimani, née Rajendra. Roedd ei hen dad-cu, Syr Ponnambalam Ramanathan, wedi bod yn gyfreithiwr cyffredinol. Ymhlith perthnasau eraill Ramanathan roedd Syr Ponnambalam Arunachalam, llywydd a sylfaenydd Cyngres Genedlaethol Ceylon, ac Ananda Coomaraswamy, dehonglydd cynnar celf Indiaidd i'r gorllewin.

Mynychodd Ramanathan Goleg Sant Joseph yn Colombo ac yna Ysgol Uwchradd Montford, ysgol genhadol flaenllaw yn ne India. Yno, disgleiriodd yn academaidd ac ym maes chwaraeon. Ar ôl iddo adael yr ysgol, daeth i'r Deyrnas Unedig i gael mwy o addysg. Mynychodd Goleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, am gyfnod byr, cyn mynd ymlaen i Gray's Inn i fynd yn fargyfreithiwr. Yno roedd yn byw yn London House, neuadd breswyl i fyfyrwyr o'r Gymanwlad. Roedd ganddo nifer o ffrindiau o Sri Lanka, ac fe aeth nifer ohonynt yn eu blaenau i fod yn adnabyddus yn eu meysydd dewisol, naill ai yn Sri Lanka neu dramor. Ar ôl gorffen ei addysg, bu'n gweithio i Gyllid y Wlad yn Llundain am gyfnod.

Dychwelodd Ramanathan adref fel Bargyfreithiwr yn y Gyfraith; cafodd ei dderbyn fel Adfocad y Goruchaf Lys. Treuliodd gyfnod byr yn gweithio fel Bargyfreithiwr Preifat, cyn ymuno ag adran y Twrnai Cyffredinol fel cwnsler y goron ar ddiwedd yr 1970au. Roedd yn hoff iawn o elfen droseddol y gwaith bargyfreithiol ac roedd yn uchel ei barch am fod yn deg.

Fe'i penodwyd yn gyflym i'r Fainc, yn gyntaf fel barnwr yr Uchel Lys. Yn y rôl hon, bu'n gwasanaethu ledled y wlad, yn Galle, Matara, Jaffna, Kurunegala ac Anuradapura. Yna, cafodd ei ddyrchafu yn farnwr yn y Llys Apêl. Pan oedd yn llywydd y Llys Apêl, cafodd ei ethol yn Feistr ar y Fainc gan Gymdeithas Anrhydeddus Gray's Inn. Yn y pen draw, daeth yn aelod o Fainc Goruchaf Lys Sri Lanka. Roedd hefyd yn aelod o'r Llys Cyflafareddu Parhaol yn Hague. Roedd gan Ramanathan y rhinweddau sy'n angenrheidiol i fod yn farnwr da - didueddrwydd, uniondeb ac ymdeimlad cryf o gyfiawnder a thegwch.

Ar ôl iddo ymddeol, roedd Ramanathan yn siaradwr cyhoeddus poblogaidd a bu'n weithgar mewn ystod o weithgareddau gwirfoddol. Bu'n gadeirydd y Comisiwn Hawliau Dynol am gyfnod byr, lle gwnaeth lawer i ad-drefnu'r sefydliad. Gwasanaethodd hefyd fel Llywodraethwr Talaith y Gorllewin ac fel canghellor Prifysgol Uva Wellassa. Dyfarnodd arlywydd Sri Lanka y teitl anrhydeddus iddo, 'Deshamanya', sef yr ail anrhydedd sifil uchaf yn Sri Lanka.

Priododd Ramanathan yn gymharol hwyr yn ei fywyd ; roedd ei wraig, Mano, hefyd yn atwrnai wrth gyfraith. Roedd hi'n gweithio fel drafftiwr cyfreithiol yng Ngweinyddiaeth Gyfiawnder Sri Lanka. Roedd Ramanathan yn hoff iawn o gŵn ac yn aelod hirsefydlog o'r Kennel Club. Ei hoff gŵn oedd dachshunds. Roedd yn Hindw defosiynol ac yn ymddiriedolwr Teml Sri Ponnambala Vaneswara.

Bu farw Ramanathan ar 7 Rhagfyr 2006.

Teml Hindŵaidd Sri Ponnambala Vaneswara yn Sri Lanka, lle gwasanaethodd Ramanathan fel ymddiriedolwr.



*Teml Hindwaidd Sri Ponnambala Vaneswara yn Sri Lanka, lle gwasanaethodd Ramanathan fel ymddiriedolwr.*
©Teseum https://www.flickr.com/photos/teseum/36087297613



*Grey's Inn ©Chensiyuan*
*https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Gray%27s_inn_zz.JPG*

**Ffynonellau**

An elite judge and a great personality. (2017, 7 Rhagfyr). *Daily mirror online.* Cyrchwyd o *http://www.dailymirror.lk/news-features/An-elite-judge-and-a-great-personality-Deshamanya-Justice-P-Ramanathan/131-141760.*

Cooray, M. (2007, 30 Medi). Appreciations Justice P. Ramanathan. *Observer online.* Cyrchwyd o: https://web.archive.org/web/20070930181524/http://www.sundayobserver.lk/2006/12/10/imp05.asp.

De Silva, G.P.S. Justice P. Ramanathan. (2008, 7 Rhagfyr). *The island online.* 7 Rhagfyr 2008. Cyrchwyd o: http://www.island.lk/2008/12/07/features5.html

Maniccavasagar, K.C. (2007, 15 Ionawr). Deshamanya Justice Ramanathan – a colossus, multi-dimensional and multi-faceted personality. *Daily news online.* Cyrchwyd o https://archive.is/20130218224301/http://www.dailynews.lk/2007/01/15/fea20.asp.

Sanmuganathan, M. (2009, Medi 1). Remembering Justice Ramanathan: a man for all seasons. *Sunday observer.* Cyrchwyd o*:* http://www.island.lk/2009/09/01/features2.html.

Time Out. (d.d.). *Sri Ponnambala Vaneswarar Kovil*. Time Out Sri Lanka. Cyrchwyd 2 Mehefin 2020, o https://www.timeout.com/sri-lanka/attractions/sri-ponnambala-vaneswarar-kovil

# Heather Ratnage-Black

Mae Heather Ratnage-Black wedi cynrychioli'r Llu Awyr Brenhinol a Phrydain Fawr ar y sled sgerbwd. Mae bellach ar fwrdd y Bobsled a'r Sled Sgerbwd Prydeinig.

Mae Ratnage-Black yn hanu o Ogledd Lloegr. Cafodd ei magu yn Norton-on-Tees, ychydig o filltiroedd i ogledd-ddwyrain Middlesbrough. Derbyniodd ei haddysg yng Ngholeg Bede yn Billingham cyn astudio daearyddiaeth yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Roedd eisoes yn hoff o chwaraeon, roedd ei diddordebau yn y brifysgol yn cynnwys beicio mynydd.

Wrth adael addysg amser llawn, ymunodd Ratnage-Black â'r Llu Awyr Brenhinol. Yn 2001, cwblhaodd gwrs i ddechreuwyr ar y sled sgerbwd gyda'r fyddin yn Igls, Awstria. Ar gyfer y gamp, rhaid i gystadleuwyr neu 'llithrwyr' redeg nerth eu traed rhwng 20 a 30 metr wrth wthio sled. Wedyn, maent yn neidio ar y sled a theithio i lawr llwybr sydd wedi'i orchuddio ag iâ at gyflymderau hyd at 80 milltir yr awr. Yn wahanol i'r gamp debyg o'r sled luge, maent yn cystadlu yn gorwedd ar eu brestiau ac wysg eu pennau. Daeth y sled sgerbwd yn rhan fawr o fywyd Ratnage-Black. Am y deng mlynedd nesaf bu'n ymwneud â thîm y Llu Awyr Brenhinol, yn gyntaf fel athletwr cystadleuol, cyn troi'n rheolwr y tîm. Yn yr ail rôl, roedd yn gyfrifol am ddatblygu athletwyr, cydlynu'r rasys Ewropeaidd, datblygiad hyfforddwyr a phob agwedd o ddiogelwch. Daeth yn gadeirydd ar gyfer Sled Sgerbwd y Lluoedd Arfog yn ddiweddarach. Ratnage-Black yw'r cyfarwyddwr digwyddiadau ar gyfer Pencampwriaethau'r Chwaraeon Iâ blynyddol Lluoedd Arfog y DU, sy'n cynnwys y bobsled, sled luge a'r sled sgerbwd. Fel aelod o'r bwrdd, mae bellach ar gorff llywodraethu cenedlaethol Bobsled a'r Sled Sgerbwd Prydain. Ymhlith ei chyd-aelodau mae Lizzie Yarnold, a enillodd ddwy fedal aur yng Ngemau Olympaidd y Gaeaf.

Ochr yn ochr â hyn, roedd Ratnage-Black yn datblygu ei gyrfa yn y llu awyr. Rhwng 2003 ac 2007, roedd yn gweithio fel cadlywydd awyr ar gyfer gweithrediadau awyr yn RAF Marham yn Norfolk. Wedi hynny, daeth yn swyddog gweithrediadau sgwadron awyr, cyn treulio peth amser mewn rolau cynllunio. Ers 2010, mae wedi bod yn gweithio yn RAF Waddington yn Swydd Lincoln. I ddechrau, roedd yn ymwneud â'r prosiect ISTAR, llygaid a chlustiau'r Llu Awyr Brenhinol yn yr awyr. Roedd hi'n ymwneud yn benodol â llywodraethu a sicrhau systemau rheoli diogelwch yn benodol. Yna, yn 2013, daeth yn Rheolwr Sicrwydd, Diogelwch a Gwelliant Parhaus yng Nghanolfan Rhyfela yn yr Awyr. Mae'r Ganolfan Rhyfela yn yr Awyr yn darparu cymorth teithiau integredig i gadlywyddion y rheng flaen.

Mae Ratnage-Black wedi bod ar wasanaeth ddwywaith yn y ganolfan awyr sydd wedi'i lleoli ym Maes Awyr Kandahar, Afghanistan. Yn 2008 a 2009, treuliodd bum mis fel Swyddog Gweithrediadau'r Orsaf ar gyfer taith Sefydliad Cytuniad Gogledd Iwerydd (NATO). Yn 2012, bu'n gweithio fel Arweinydd Sgwadron Gweithrediadau'r Adain Awyr Byddin Ymdeithiol Rhif 904. Roedd ei dyletswyddau'n cynnwys rheoli'r ystafell gweithrediadau awyr, adrodd ar ddiogelwch awyr, cynllunio diogelwch y lluoedd a chynllunio rhag rhaid. Mae wedi ennill Clod Urddasol Pennaeth y Llu Awyr.

Ochr yn ochr â phwysau bywyd yn y llu awyr, parhaodd Ratnage-Black i astudio. Roedd ei hail radd, a ddilynodd trwy'r Brifysgol Agored, yn radd BA mewn Plentyndod ac Ieuenctid. Yn dilyn hynny, dilynodd gwrs diploma'r Brifysgol Agored mewn Astudiaethau Crefyddol. Mae'n parhau i fod yn egnïol ac yn hoff iawn o chwaraeon. Mae hi'n wregys du mewn bocsio cic ac yn rhedeg rasys pellter hir yn rheolaidd, gan gynnwys marathonau eithafol. Mae'r rhain wedi cynnwys cymryd rhan yn nigwyddiad 100 cilomedr Saint Cuthbert's Way, gan ddechrau ym Melrose a gorffen yn Lindisfarne. Yn ddiweddar, rhedodd 35 milltir o'i chartref yn Boston i Gastell Lincoln er mwyn codi arian ar gyfer

yr elusen, Autism Aware UK. Yn ogystal â chefnogi ymdrechion chwaraeon ei phlant ei hun, mae Ratnage-Black wedi bod yn hyfforddi tîm o dan saith oed clwb rygbi Lincoln am ddeng mlynedd.

**Ffynonellau**

British Bobsleigh & Skeleton (n.d.). Heather Ratnage-Black, Aelod Bwrdd. Cyrchwyd ar 21 Hydref 2020 o https://www.thebbsa.co.uk/the-bbsa/board/directory/heather-ratnage-black

Ratnage-Black, H. (2020) Heather Ratnage-Black. Assurance, safety and continuous improvement manager at Royal Air Force. [Tudalen LinkedIn]. LinkedIn. Cyrchwyd ar 21 Hydref 2020 o https://www.linkedin.com/in/familyrats/

Tomlinson, A. (2010). tobogganing, skeleton. In A Dictionary of Sports Studies. : Gwasg Prifysgol Rhydychen. Cyrchwyd ar 21 Hydref 2020 o https://www-oxfordreference-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/acref/9780199213818.001.0001/acref-9780199213818-e-1131.

Llu Awyr Brenhinol. (2020). RAF Waddington. Cyrchwyd ar 21 Hydref 2020 o https://www.raf.mod.uk/our-organisation/stations/raf-waddington/

NewSliders.com (2010). Cyrchwyd ar 23 Hydref 2020 o http://www.newsliders.com/

# Thomas Milville Raven

Roedd Thomas Milville Raven (1827-1896) yn ffotograffydd arloesol, ac yn offeiriad.

Roedd Thomas Milville yn fab i glerigwr, Thomas Raven, a'i wraig Susannah, Horrocks gynt. Yn amlwg, cafodd ei fedyddio gan ei dad ei hun yn eglwys y Drindod, Preston. Ym 1849, priododd ag Eliza Whitaker yn Padiham, Swydd Gaerhirfryn. Cafodd ei addysgu yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, a chafodd ei ordeinio'n ddiacon yn 1850 ac yn offeiriad yn 1852. Roedd ei guradiaeth gyntaf yn Nhrefaldwyn; dilynodd cyfres o swyddi yn Baxterley yn agos i Atherstone; Lockington; Waldingfield, a Scruton ger Bedale. Yn y pen draw, cafodd ei benodi'n ficer St Gregory Crakehall, pentref yn Nyffrynnoedd Swydd Efrog, yn 1867. Dywedir iddo hefyd adeiladu a chynnal ar ei gost ei hun eglwys gyfagos St Mary Magdalene yn Langthorne.

Ochr yn ochr â hyn, roedd yn ffotograffydd amatur ymroddedig. Daeth o deulu creadigol; roedd un o'i frodyr yn arlunydd ac roedd ei chwaer wedi priodi'r arlunydd Cyn-Raffaëlaidd a'r arlunydd gwydr lliw, Henry Holiday. Ymunodd Raven â Chymdeithas Ffotograffig yr Alban yn 1856 a dechreuodd arddangos ar unwaith, golygfeydd caloteip a phapur cwyr o bensaernïaeth a safleoedd archeolegol yn bennaf.

Dywedodd Raven yn Journal of the Photographic Society, 'Ar ôl darllen papur gwych Dr Keith ar y broses papur cwyr y penderfynais ei mabwysiadu. Bryd hynny, roeddwn yn byw mewn plwyf gwledig yn Swydd Gaerefrog, ac roedd yn rhaid imi ymdopi ag anawsterau a thrafferthion ffotograffig ar fy mhen fy hun heb gyngor unrhyw un.' Ym mhroses galoteip William Henry Fox Talbot, amlygwyd papur â gorchudd o ïodid arian yn y camera a'i ddatblygu'n ddelwedd negyddol dryloyw. Yna , gellir defnyddio'r negatif i wneud nifer fawr o brintiau positif trwy argraffu cyswllt syml. Addaswyd hyn gan y broses papur cwyr, a gyflwynwyd gan Gustave Le Grey ym 1851. Roedd y papur wedi'i drwytho â chwyr cyn ei sensiteiddio yn hytrach na gorchuddio cwyr ar y negatif gorffenedig.

Mae gwaith ysgrifennu Raven yn disgrifio profiad ffotograffydd amatur ymroddedig, yn cario, yn ogystal â'i gamera, cyflenwad helaeth o gemegau, darn ychwanegol o wydr llifanedig ar gyfer y ffrâm ffocysu ac un neu ddau ddarn o wydr ar gyfer y sleidiau tywyll. Er bod ei gyfrifon yn gyfarwyddol ynglŷn â ffotograffiaeth, nid ydynt yn datgelu llawer amdano ef ei hunan. Yn benodol, ysgrifennodd am ei deithiau i Ffrainc, gyda chyrchfan yn y Pyrenees yn y pen draw. Cyrhaeddodd ef ac Eliza ym Maul ym mis Rhagfyr 1857. Bryd hynny, roedd merch gyda nhw. Fodd bynnag, ni sonnir amdani naill ai yng Nghyfrifiad 1581 na 1861, neu mewn cysylltiad ag ymweliad diweddarach â Ffrainc. Cyflwynodd Raven nifer sylweddol o olygfeydd papur cwyr o olygfeydd a phensaernïaeth Ffrainc i arddangosfa Cymdeithas Ffotograffig Glasgow yn 1859.

Ar ôl iddo ddychwelyd i Brydain gyda'i hinsawdd oerach, dechreuodd Raven ail-ddefnyddio caloteip, teimlai ei fod 'heb ei ail' ar gyfer portreadu tirweddau. Roedd hefyd yn defnyddio'r broses colodion, ffordd o gyflawni arwynebau sensitif ysgafn sy'n aros yn eu lle ar eu cynhalwyr. (Gan fod y deunydd ffotograffig wedi'i orchuddio, ei sensiteiddio, ei ddatgelu a'i ddatblygu o fewn tua 15 munud, roedd angen ystafell dywyll gludadwy ar y dechneg!) Yn anarferol, cynhyrchodd Raven olygfa colodion sych o Gastell Stirling. Roedd ei ddelweddau ar gyfer arddangosfa'r Gymdeithas Ffotograffig yn 1861 yn cynnwys cymysgedd o olygfeydd, portreadau ac astudiaethau penddelwau, gan ddefnyddio technegau papur cwyr a cholodion. Arddangosodd eto yn Arddangosfa Ryngwladol 1865 yn Nulyn. Roedd arddangosfa Cymdeithas Ffotograffiaeth yr Alban yn 1856 hefyd yn cynnwys saith caloteip, wedi'u llofnodi gan 'E. Raven' anesboniadwy. Mae hunaniaeth y ffotograffydd yn ansicr, brawd iau Thomas, Eustace, neu ei wraig, Eliza.

Cafodd Raven ei ethol fel aelod o'r Gymdeithas Ffotograffiaeth yn Llundain, ar yr un diwrnod â Julia Margaret Cameron, sef 7 Mehefin 1864. Roedd hefyd yn aelod o Gymdeithas Archeolegol Swydd Efrog ac yn gymrawd Cymdeithas Frenhinol Caeredin.  Bu farw yn 1896, yn 68 oed.

**Ffynonellau**

Obituary notices of ordinary fellows. (1895-6). *Proceedings of the Royal Society of Edinburgh.* 21, 175. Cyrchwyd ar 21 Hydref 2020 o https://archive.org/details/proceedings2118951897roya/page/174/mode/2up?q=milville+raven

Luminous-Lint. Photography: history, evolution and analysis. (2020). Approved biography for Thomas Milville Raven courtesy of the Metropolitan Museum of Art (Efrog Newydd, UDA). Cyrchwyd ar 22 Hydref 2020 o http://www.luminous-lint.com/app/photographer/Thomas_Milville__Raven/A/

Raven, T.M. (1858). Pau and the Pyrenees, with a slight sketch of a photographic tour made to them through the west of France. .*Journal of the Photographic Society.* 5(69-86), 104-108. Cyrchwyd ar 22 Hydref 2020 o https://archive.rps.org/archive/volume-5/723845-volume-5-page-54?q=raven

Early photography. (2020). Calotype and other early paper processes. Cyrchwyd ar 22 Hydref 2020 o http://www.earlyphotography.co.uk/site/gloss14.html#gloss_wax

# Arthur Augustus Rees

Roedd Arthur Augustus Rees (1815-1884) yn bregethwr efengylaidd poblogaidd.

Arthur oedd seithfed plentyn, a phlentyn ieuengaf John Rees, tirfeddiannwr yng Nghaerfyrddin, a'i wraig Anne Catherine née Vander Horst, merch conswl Americanaidd ym Mryste. Roedd plentyndod Arthur yn ansefydlog. Bu ei dad yn byw am beth amser yn Ffrainc, tra arhosodd ei fam ym Mhrydain. Ymddengys nad oedd gan ei fam ddiddordeb arbennig ynddo. Pan oedd Arthur rhwng pump a thair ar ddeg oed, cafodd ei 'daflu o gwmpas y wlad o un ysgol i'r llall.'

Roedd ei dad wedi bod yn swyddog morwrol, ac yn wir, roedd yn bresennol ym mrwydrau Camperdown a Copenhagen. Pan oedd yn dair ar ddeg oed, dilynodd Arthur ôl troed ei dad trwy ymuno â'r Llynges Frenhinol fel gwirfoddolwr o'r radd flaenaf. Arhosodd yn y llynges am bum mlynedd, gan wasanaethu yn gyntaf yn nwyrain Môr y Canoldir, ac yna yn bennaf yn nyfroedd Portiwgal. Gan ei fod braidd yn bengaled, weithiau byddai'n gwrthdaro gyda'i uwch swyddogion a chafodd ei chwipio sawl gwaith. Gadawodd y Llynges yn 1833 yn dilyn un o'r gwrthdrawiadau hyn, lle dywedodd ei gapten wrtho nad oedd yn ddigon addas i fod ar long.

Mae ansicrwydd ynghylch beth wnaeth Rees ar ôl iddo adael y Llynges. Roedd ganddo lais canu da, ac roedd yn gallu chwarae'r gitâr. Ymddengys iddo dreulio amser yn Llundain ar gyrion y byd theatraidd. Fodd bynnag, yn 1834 neu 1835, profodd dröedigaeth efengylaidd. Astudiodd ei Feibl, mabwysiadodd agwedd fwy difrifol tuag at fywyd, a daeth yn Gristion trylwyr. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, dysgodd Ladin a Groeg iddo'i hun. Ar ôl iddo wneud argraff dda ar rai clerigwyr o Fryste, fe wnaethant godi arian er mwyn iddo gael mynd i Goleg Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan.

Derbyniwyd Rees yn fyfyriwr ar 1 Mawrth 1836. Roedd ei gyfoeswyr yn cynnwys Henry James Prince, mab ieuengaf perchennog planhigfa yng ngorllewin India. Roedd gan Rees a Prince gysylltiad agos am y tair blynedd nesaf; roeddent wrth wraidd grŵp o fyfyrwyr Cristnogol, 'Brodyr Llambed.' Er gwaethaf anghymeradwyaeth awdurdodau'r coleg o'u duwioldeb gorliwiedig, etholwyd Rees yn ysgolhaig Hannah More yn 1837 ac yn ysgolhaig Butler yn 1838.

Ar ôl iddo raddio, ymddengys bod Rees wedi treulio peth amser yng nghartref Prince yng Nghaerfaddon; cyfarfu hefyd ag Eleanor, ei ddarpar wraig, sef chwaer Prince. Derbyniodd Rees wahoddiad i weithio yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, ar ôl i Alfred Ollivant, ei diwtor yng ngholeg Llanbedr Pont Steffan, ei argymell i Reithor Sunderland, y Parchedig William Webb. Ordeiniwyd ef yn gurad yn 1841, ac ymddengys iddo dreulio'r rhan fwyaf o'i amser mewn fam eglwys, Capel Sant Ioan, yn hytrach nag Eglwys Plwyf fwy parchus y Drindod Sanctaidd. Am ychydig, roedd pethau'n mynd yn dda; roedd yn boblogaidd a thyfodd ei gynulleidfa dosbarth gweithiol o ran maint. Fodd bynnag, ymddengys nad ef oedd y gŵr mwyaf diplomyddol. Ar ôl iddo bregethu gerbron cynulleidfa ychydig yn fwy chwaethus yn Houghton-le-Spring, bu cwynion am rywfaint o'i iaith ddigyfaddawd. Pan ymchwiliodd esgob Durham, Edward Maltby, i'r achos, roedd rhaid i Rees gyfaddef ei fod wedi traddodi pregeth ddifyfyr. Gorchmynnodd yr esgob iddo ysgrifennu ei bregethau yn llawn, a'i wahardd rhag pregethu y tu allan i'w blwyf ei hun. Er i Rees gael ei ordeinio'n offeiriad fis yn ddiweddarach, buan iawn y disbyddwyd amynedd ei reithor. Naw mis yn ddiweddarach, cafodd rybudd o dri mis. Dywedir bod tair mil o bobl wedi mynychu ei wasanaeth ffarwel.

Dychwelodd Rees ac Eleanor i'w chartref yng Nghaerfaddon. Gofynnodd Rheithor Walcott Sant Swithin iddo fod yn gyfrifol am gapel a gafwyd yn ddiweddar yn Thomas Street. Ymgymerodd Rees â'i ddyletswyddau â 'brwdfrydedd ac egni… yn arbennig ymhlith y boblogaeth dlotaf.' Fodd bynnag, gwrthododd esgob Durham gymeradwyo ei benodiad. Er gwaethaf protestiadau'r rheithor a'r gynulleidfa, cafodd Rees ei ddiarddel o'i rôl.

Cyhoeddodd Rees bamffledyn yn egluro ei deimladau; *Solemn protest before the church and nation of the Rev. Arthur A. Rees, late minister of Thomas Street Episcopal Chapel, Bath: against his virtual ejection from the ministry of the Church of England,* (T. Noyes, 1844). Yn y pen draw, sylweddolodd ei fod wedi ei 'eni i fod yn wrthwynebwr,' er ei bod hi'n well ganddo bob amser gael ei alw'n anghydffurfiwr.

Yn fuan wedi hynny, dychwelodd Rees i Sunderland, i ffwrdd o'r ardal lle'r oedd ei frawd-yng-nghyfraith cynyddol enwog yn gweithio. Yn y gogledd-ddwyrain, fe'i croesawyd yn ôl gan lawer o'i gyn-blwyfolion. Ar ôl etifeddu rhywfaint o arian gan ei dad, llwyddodd i adeiladu eglwys newydd, anenwadol. Agorodd Capel Rhydd Bethesda, Sunderland, ym mis Mawrth 1845; yn wahanol i'r mwyafrif o gapeli ar y pryd, nid oedd seddi i'w rhentu. Gweithiodd Rees yno hyd ei farwolaeth yn 1884. I ddechrau, roedd yn defnyddio llyfr gweddi ac yn pregethu mewn gwn ddu. Fodd bynnag, daeth yn fwy anghydffurfiol yn gyflym. Fe wnaeth George Müller, un o sylfaenwyr mudiad y Brodyr, fedyddio Rees fel credadun trwy drochiad llwyr. Dilynodd deuddeg cant o'i gynulleidfa esiampl Rees trwy gael eu bedyddio. Yn ogystal, mabwysiadodd Rees arfer y Brodyr o gynnal cymun bob wythnos ar fore Sul. Fodd bynnag, roedd ganddo'r enw am fod yn unbenaethol; roedd yn cael ei adnabod yn lleol fel 'pab y Gogledd.' Roedd y ffurf o lywodraeth eglwysig a fabwysiadodd yn tueddu tuag at Bresbyteriaeth. Roedd yn angerddol dros safbwyntiau apocalyptaidd, gan gysylltu ei ddamcaniaethau ag esgyniad a chwymp Napoleon III yn Ffrainc.

Roedd ffrindiau Rees yn cynnwys nifer o efengylwyr blaenllaw eraill, yn eu plith C.H. Spurgeon, F.B. Meyer a D.L. Moody. Roedd ei bamffled, *Reasons for not co-operating in the alleged Sunderland revivals,* (Wm. Henry Hills, 1859) yn gwrthwynebu menywod, ac yn arbennig Phoebe Palmer, a oedd yn pregethu yng nghyfarfodydd adfywio Sunderland. Roedd ymateb Catherine Booth, *Female ministry: women's right to preach the gospel* (1861) yn un o rannau ffeministaidd mawr y 19eg ganrif. Mewn cyferbyniad, roedd capel Rees yn un o'r cyntaf i gynnal cenhadaeth Saesnig D.L. Moody yn 1873. Dywedir i'r term *efengylau* darddu gyda Rees, wrth iddo ddisgrifio Ira D. Sankey, a oedd yn unawdydd ac emynydd i Moody, fel cantores yr efengyl.

Bu farw Rees ym mis Ebrill 1884. Fe'i disgrifiwyd fel 'un o'r gweinidogion mwyaf egnïol, gweithgar, dyfalbarhaol a llwyddiannus yng Ngogledd Lloegr.'

**Ffynonellau**

Stunt. T.C.F. (2006). The early development of Arthur Augustus Rees and his relations with the Brethren. *Brethren Historical Review,* 4(1),22-35. Cyrchwyd ar 26 Mawrth 2021 o http://www.brethrenhistory.org/qwicsitePro2/php/docsview.php?docid=422

Everett, J. (1867). *The midshipman and the minister: the quarter-deck and the pulpit.* Llundain: Hamilton, Adams, a'i gwmni. Cyrchwyd ar 26 Mawrth 2021 o https://www.google.co.uk/books/edition/The_Midshipman_and_the_Minister_the_Quar/rE8BAAAAQAAJ?hl=en&gbpv=1&dq=%22arthur+augustus+rees%22&pg=PA116&printsec=frontcover

Capel Rhydd Bethesda (2019). Hanes. Cyrchwyd ar 26 Mawrth 2021 o https://www.bethesdafreechurch.org/history

Murdoch, N. (1984). Female Ministry in the Thought and Work of Catherine Booth. *Church History, 53*(3), 348-362. Cyrchwyd ar 29 Mawrth 2021 o http://www.jstor.org/stable/3166274

Grass. T. (2013). Undenominationalism in Britain, 1840-1914. Yn: P.J. Lalleman, P.J. Morden & A.R. Cross (gol.), *Grounded in grace: essays to honour Ian M. Randall.* (tt. 69-84). Cyrchwyd ar 29 Mawrth 2021 o https://books.google.co.uk/books?id=_FQTEAAAQBAJ&pg=PA74&lpg=PA74&dq=sunderland+%22a.a.+rees%22&source=bl&ots=mTTZJWxXnz&sig=ACfU3U2u17rdVa65rglCUbGDgJ9rgnS85A&hl=en&sa=X&ved=2ahUKEwizrLeuotXvAhXhUBUIHf-SCHA4FBDoATACegQIBRAD#v=onepage&q=sunderland%20%22a.a.%20rees%22&f=false

Marwolaeth pregethwr Cymreig nodedig. (1884, 19 Ebrill). *Weekly Mail.* Cyrchwyd ar 29 Mawrth 2021 o https://newspapers.library.wales/view/3373088/3373092/86/

Marwolaeth pregethwr Cymreig nodedig. (1884, 18 Ebrill). *Western Mail.* Cyrchwyd ar 29 Mawrth 2021 o https://newspapers.library.wales/view/4314577/4314579/10/

# Rice Rees

Roedd Rice Rees (1804-1839) yn un o'r tri darlithydd gwreiddiol yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, ac efe oedd y llyfrgellydd cyntaf.

Cafodd Rees ei eni yn y Ton ym mhlwyf Llandingad, Llanymddyfri. Mae'n debyg y bu ei dad, David Rees, yn anghytunwr; cafodd Rice Rees ei fedyddio mewn capel annibynnol. Yn ei arddegau canol, cafodd ei addysgu am gyfnod byr yn Ysgol Ramadeg Llanbedr Pont Steffan, ac roedd yn byw mewn llety yn y dref. Ar ôl hynny, treuliodd beth amser yn ôl yn ei gartref. Cafodd ei baratoi ar gyfer Rhydychen gan ei ewythr, W.J. Rees a oedd yn glerigwr llenyddol a ficer Cascob yn Sir Faesyfed. Roedd Rice eisoes wedi datblygu diddordeb brwd yn hanes a diwylliant Cymru; cafodd ei ddiddordeb ei ysgogi gan John Howell, (Ioan Glan Dyfroedd).

Dechreuodd Rice Rees yng Ngholeg Iesu Rhydychen yn 1822; graddiodd o'i BA yn 1826, MA yn 1828 a BD yn 1837. Roedd yn ysgolhaig ei goleg rhwng 1825 a 1828; cafodd ei ethol yn gymrawd yn 1828. Hefyd yn Rhydychen, daeth yn aelod o Eglwys Loegr. Roedd cymysgedd o nerfusrwydd a gorweithio, a roddodd straen ar ei olwg, yn golygu na fu'n llwyddiannus yn arholiadau terfynol ei radd israddedig. Fodd bynnag, pan sefydlwyd Coleg Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan, penodwyd Llewellyn Lewellin, sef tiwtor Rees yn Rhydychen, yn bennaeth yno. Gofynnwyd i Lewellin a oedd e'n gwybod am unrhyw un a allai fod yn diwtor clasurol ac Athro Cymraeg. Dywedodd '… Rwy'n eich sicrhau syr, yr oedd yn wir bleser gen i gael cyfle o'r fath, o dystio i gyraeddiadau cyffredinol hen ddisgybl ac ymddygiad moesol rhagorol bob amser.' Yn 22 oed yn unig, cafodd Rice Rees ei benodi fel darlithydd Cymraeg a llyfrgellydd. Byddai ei gyflog yn £150 a gâi ei dalu o grant llywodraeth nes y deuai bywoliaeth yn wag, ynghyd â chyfran o'r ffioedd dysgu. Byddai hefyd yn cael set o ystafelloedd cyfforddus yn y coleg. Derbyniodd Rees ar sail amodol, gan ddweud nad oedd yn barod i sefyll arholiad yn y Gymraeg ar unwaith, gan nad oedd erioed wedi'i hysgrifennu na'i hastudio'n systematig. Cyfaddefodd yn ddiweddarach nad diffyg rhuglder yn y Gymraeg oedd wedi dylanwadu ar ei ateb ond ei ofn o arholiadau! Yn 1826 a 1827, dilynodd gwrs astudio yn y Gymraeg. Yn ogystal â dod yn Athro'r Gymraeg, roedd hefyd yn llyfrgellydd ac yn gyfrifol am y bwtri. Cafodd ei ordeinio'n ddeon yn 1827 ac yn offeiriad yn 1828, gan ddod yn rheithor Llanddewi Felffre yn 1832.

Symudodd Rees i'r coleg newydd ym mis Chwefror 1827. Ar ddydd Llun 5 Mawrth, 'cafodd y fraint o fod y cyntaf i roi darlithoedd yng ngholeg Dewi Sant i ddosbarth o tua 18 o ddynion yn Sant Ioan.' Gan nad oedd yr ystafelloedd darlithio'n barod, roedd yn rhaid rhoi darlithoedd yn y neuadd. Er gwaethaf cael tri aelod o staff yn unig, roedd y coleg newydd yn ceisio darparu cwrs prifysgol cyfan. Rhoddodd Rees 14 o ddarlithoedd bob wythnos; yn ystod dyddiau cynnar y coleg, addysgodd y Testament Groegaidd, *Gwasanaethau Cicero*, Horace a'r Gymraeg. Erbyn 1829, roedd wedi ychwanegu Herodotus a Rhesymeg at y rhestr hon. Fel llyfrgellydd, creodd gatalog o'r casgliad. Yn 1836, cyhoeddodd ei frawd, William, *gatalog o lyfrau sydd ar adnau yn Llyfrgell Coleg Dewi Sant*. Hefyd, cofnododd bob llyfr yn y gofrestr o roddion yn ofalus, yn ogystal â gludo dalennau llyfrau gydag enwau'r rhoddwyr arnynt yn y cyfrolau eu hunain. Gweithiodd hefyd fel arholwr Cymraeg ar gyfer esgobaeth Tyddewi, er mwyn profi hyfedredd clerigwyr a benodwyd i blwyfi Cymraeg. Cafodd ei benodi'n gaplan yr esgob yn 1838.

Roedd Llanbedr Pont Steffan yn anghysbell, a daeth Rees i'r casgliad fod popeth yn ddrud oherwydd cost enfawr y drafnidiaeth yno. Yn 1828, prynodd gaseg ar gyfer teithio, gan dalu £26 a 5 swllt amdani.

Roedd Rees yn ysgolhaig naturiol. Dechreuodd ei lyfr The Welsh saints fel traethawd, y cafodd ei gyflwyno i eisteddfod Caerfyrddin ar gyfer 'Y traethawd gorau ar weithiau'r Cristnogion cynnar, gan bwy y sefydlwyd yr eglwysi Cymraeg, ac i bwy y cawsant eu cysegru.' Ehangodd y cyfansoddiad yn llyfr, a gyhoeddwyd yn 1836. Nododd disgrifiad J.E. Lloyd ohono ei fod yn 'llawn a goleuol' a pharhaodd i fod yn awdurdod safonol dros y cenedlaethau i ddod. Chwaraeodd ran sylweddol hefyd yn y gwaith o ddiwygio'r Llyfr Gweddi Gyffredin Cymraeg rhwng 1838 a 1839. Ar adeg ei farwolaeth, roedd yn gweithio ar argraffiad o *Canwyll y Cymry* gan Rhys Prichard. Gorffennwyd hwn yn 1841 gan ei frawd, William Rees, sef cyhoeddwr yn Llanymddyfri. Dechreuodd Rice Rees hefyd weithio ar argraffiad o *Liber Landavensis*. Cwblhaodd ei ewythr, W.J. Rees, y dasg yn 1853, er yn annigonol.

Nid oedd Rees erioed yn gryf ac mae'n amlwg yr oedd yn gorweithio. Bu farw ar 20 Mai 1839, wrth ochr y ffordd ym Mhontnewydd ar Wy, Sir Frycheiniog, wrth deithio o gartref ei ewythr yng Nghasgob i Lanbedr Pont Steffan. Dywedir iddo gwympo'n farw o gefn ei geffyl. Mae wedi'i gladdu ym mynwent eglwys Llandingad ac mae llech er cof amdano yn wal ystlys y de.

**Ffynonellau**


Jones, S. (1959). REES, RICE (1804-1839), cleric andscholar. *Dictionary of Welsh Biography.* Cyrchwyd ar 9 Hydref 2020 o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-REES-RIC-1804 <https://biography.wales/article/s-REES-RIC-1804>

Lloyd, J., a Banerji, N. (2004, 23 Medi). Rees, Rice (1804–1839), historian. *Oxford Dictionary of National Biography.* Cyrchwyd ar 9 Hydref 2020 o https://www.oxforddnb.com/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-23287.

Price, D. T. W. (1977). *A History of Saint David's University College Lampeter. Volume one: to 1898.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Davies, J. (1905) y Parch. Rice Rees. *Old Wales.* 1(5), 152–154. Cyrchwyd ar 9 Hydref 2020 o https://journals.library.wales/view/2414565/2471288/25#?xywh=-1925%2C-570%2C5944%2C3634

# Yr Esgob Timothy Rees

Timothy Rees oedd yr esgob esgobaethol cyntaf yn yr Eglwys yng Nghymru ddatgysylltiedig gyda gradd o Lanbedr Pont Steffan yn unig.

Dyn lleol oedd Rees. Fe'i ganwyd yn Llan-non ar 15 Awst 1874. Ei rieni oedd David a Catherine Rees o Lain Llan-non. Roedd y teulu'n Gymry Cymreig a gwnaeth Rees siarad Cymraeg cyn iddo ddysgu Saesneg. Yn wir, wrth siarad yn gyhoeddus, roedd bob amser yn fwy cartrefol yn siarad Cymraeg. Addysgwyd Rees yn Ysgol Ardwyn, Aberystwyth, ac Ysgol Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, cyn iddo ennill ysgoloriaeth i Goleg Dewi Sant. Yn Llanbedr Pont Steffan, gwnaeth argraff yn gyflym yn y Gymdeithas Lenyddol a Dadlau; dywedwyd amdano, 'Teimlwyd fel siaradwr Cymraeg o fri wedi cyrraedd y coleg y flwyddyn honno.' Graddiodd Rees yn 1896 gyda BA. Ar ôl hynny, gwnaeth hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth yng Ngholeg Sant Mihangel, Aberdâr. Cafodd ei ordeinio fel diacon ym mis Rhagfyr 1897 ac yn offeiriad flwyddyn yn ddiweddarach. Roedd yn gurad yn Aberpennar rhwng 1897 a 1901. Dychwelodd wedyn i Goleg Sant Mihangel, Aberdâr, lle'r oedd yn gaplan rhwng 1901 a 1906.

Cam nesaf Rees oedd symud i Gymuned yr Atgyfodiad, Mirfield, Gorllewin Swydd Efrog, sef cymuned fynachaidd Anglicanaidd. Dechreuodd ei yrfa fel mynach yn 1907. Daeth yn fwyfwy adnabyddus fel pregethwr efengylaidd, ym Mhrydain a thramor. Cynhaliodd genadaethau yn Seland Newydd, Canada a Sri Lanka.

Yn 1915, roedd Rees yn un o ddeunaw o dadogion Mirfield i fod yn gaplaniaid y fyddin. Gwnaeth wasanaethu ar long ysbyty Gallipoli, yn yr Aifft ac ar y Somme. Dywedwyd amdano, 'Ar hyd y ffosydd adfeiliedig yr âi, yn chwilio am y clwyfedig, yn annog y byw, yn claddu'r marw … Yn darged i saethwyr cudd y gelyn yn gyson, bob tro mewn perygl o du sieliau'r gelyn, ac yn hynod anghyfforddus, gwnaeth weithio'n ddiflino i leddfu poen llawer o'r clwyfedig.' Yn ogystal â chael ei enwi mewn adroddiadau ddwywaith, derbyniodd y Groes Filwrol yn 1917 am ei waith yn achub ac yn helpu milwyr clwyfedig ar y Somme. Wedi hynny, cafodd ei anfon i ysbyty a oedd yn gofalu am ddynion a oedd yn dioddef o glefydau gwenerol. Fel caplaniaid eraill y fyddin, gwnaeth ei ddiwinyddiaeth ei hun ddatblygu dros y cyfnod hwn a gwnaeth ymgysylltu â'r cysyniad dadleuol bryd hynny o Dduw dioddefus. Mae ei emyn enwocaf, 'God is love, let heaven adore him', yn cynnwys y geiriau:

> 'And when human hearts are breaking,
> Under sorrow's iron rod,
> That same sorrow, that same aching,
> Wrings with pain the heart of God.'

Roedd Rees yn warden Coleg yr Atgyfodiad, canolfan hyfforddiant diwinyddiaeth cymuned Mirfield, rhwng 1922 a 1928. Yna gwnaeth sicrhau bod y coleg yn ddiogel ac wedi'i adeiladu ar sylfaen dda. Roedd sawl un o'i emynau wedi'u cynnwys yn *Mirfield Mission Hymn Book* (1922).

Yn annisgwyl, cafodd Rees ei benodi'n Esgob Llandaf yn 1931. Daeth yn amlwg yn fuan fod Rees, dyn diymhongar â chwaeth syml iawn, yn llai o brelad ac unben na gweinidog ac efengylwr. Roedd yn esgob rhagorol, yn efengylwr Catholig ag ysbrydolrwydd dwys, isymwybod cymdeithasol a chalon fugeiliol.

Roedd y dirwasgiad diwydiannol wedi bwrw De Cymru'n arbennig o galed a dyma oedd y cyfnod mwyaf anodd. Roedd ffigurau diweithdra'n amrywio o 23% i 65%; roedd yn rhaid i Rees wynebu'r problemau a achoswyd. Roedd wir yn cefnogi'r gweithiwr ac yn gweithio'n galed i leihau'r trallod a achoswyd gan gyfnodau estynedig o segurdod gorfodol. Ym mis Ebrill 1932, lansiodd apêl Esgob

Llandaf, yn gofyn i ddarllenwyr y *Church Times* gyfrannu. Gwnaeth gynnal tŷ agored rheolaidd yn Llys Esgob i grwpiau o bobl ddi-waith, yn cymysgu gyda'i westeion heb rwystr ac yn sicrhau y cafodd pryd o fwyd da ei goginio iddynt. Sefydlodd 'fand cenhadwyr ifanc', sef grŵp bach o glerigwyr di-briod, a oedd yn cael eu hanfon i'r plwyfi tlotaf er mwyn helpu gyda gwaith cymorth. Roedd Rees yn gadeirydd Pwyllgor Diwydiannol Llandaf, lle trafododd ffyrdd o helpu'r sefyllfa gyda gwleidyddion lleol ac arweinwyr diwydiannol. Fel llywydd cyntaf Cyngor Gwasanaeth Cymdeithasol De Cymru a Sir Fynwy, roedd yn amlwg wrth hyrwyddo clybiau galwedigaethol a gweithgareddau eraill ar gyfer pobl ddi-waith a'u teuluoedd. Dywedodd y Foneddiges Rhys Williams amdanynt:

'Roedd yr Esgob Rees ymhlith y cyntaf i weld y drygioni moesol mawr a wnaed gan bobl Prydain yn erbyn pobl yr ardaloedd dirwasgedig yn y 1930au … Efallai fod y rhan a wnaeth chwarae wrth ail-lunio meddwl gwleidyddol ei amser a pheryglu cerydd y sir yn fwy sylweddol nag yr ydym yn ymwybodol ohono.'

Roedd hefyd yn areithiwr gwych, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Yn drist iawn, fe wnaeth iechyd Rees fethu. Bu farw ar ôl cyfnod hir o salwch ar 29 Ebrill 1939. Yn addas iawn, cafodd ei emyn 'God is love' ei ganu yn ei angladd. Cafodd ei gladdu'n agos at yr eglwys gadeiriol; mae yna gofeb efydd iddo ar lawr Capel y Forwyn Fair.



Bedd Rees ym mynwent eglwys gadeiriol Llandaf

**Ffynonellau**

'The Bishop of Llandaff' (1 Mai 1939). *The Times*. Cyrchwyd o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS151205025/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=46c0988f.

Price, D. T. W. (1990). *A History of Saint David's University College Lampeter.Volume Two: 1898–1971*.Gwasg Prifysgol Cymru

Ellis, T. I. (1959). 'Rees, Timothy (1874–1939), esgob Llandaf'. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Cyrchwyd ar 4 Mehefin 2020 o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-REES-TIM-1874

Parker, L. M. (2013). *Shell-shocked Prophets:the influence of former Anglican army chaplains on the Church of England and British society in the inter-war years*.(Traethawd doethurol, Prifysgol Birmingham, y Deyrnas Unedig.) Cyrchwyd o https://etheses.bham.ac.uk/id/eprint/4495/

Josselyn-Cranson, H. (2018). *'"O God, the strength of those who war":* the hymns and hymn writers of World War I'. *Lied und Populäre Kultur.* 63, 167–188. Cyrchwyd o https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/2210887830/fulltextPDF/D9077690F87243EEPQ/1?accountid=130472

Rees, J. L. (1945). *Timothy Rees of Mirfield a Llandaff: biography*.A. R. Mowbray

# Raymond Renowden



Astudiodd a darlithiodd Charles Raymond Renowden (1923-2000) yn Llanbedr Pont Steffan, yn ogystal â gwasanaethu yn y Corfflu Cudd-wybodaeth a chwrdd â'r Ymerawdwr Hirohito.

Ganwyd Renowden yn Nhrealaw yn y Rhondda; ei dad, Charles, oedd y ficer yno. Roedd Glyndŵr, brawd iau Raymond, a raddiodd yng Ngholeg Dewi Sant, yn gaplan pennaf yr Awyrlu Brenhinol. Symudodd y teulu i Sir Aberteifi a mynychodd Raymond Ysgol Ramadeg Llandysul. Ymunodd â Choleg Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan yn 1941. Bryd hynny, roedd disgyblion o Ysgol Coleg Wycliffe yn Stonehouse, Caerloyw, wedi cael eu symud i Lanbedr Pont Steffan. Roedd llawer o gyfleusterau'r coleg dan waharddiad i israddedigion. Roedd rhaid i fyfyrwyr fyw mewn llety a chynhaliwyd darlithoedd mewn amryw o neuaddau o amgylch y dref. Ar wahân i astudio yn y llyfrgell, mynychu'r capel ac o bosibl ddefnyddio tŷ'r prifathro, ni aeth llawer o'r myfyrwyr i mewn i adeiladau'r coleg o gwbl.


Ymunodd Renowden â'r Gwarchodlu Cartref. Cofiodd iddo gael 'trowsus at fy ngwddf … gwisg ryfel fel siaced yn hongian yn llac, a helmed yn hongian dros fy nghlustiau ar bob ongl. Yn ogystal, cefais 'reiffl' heb daniwr! Yn ôl pob tebyg, roedd i fod i gael ei ddefnyddio fel pastwn…' Fe wirfoddolodd i ymuno â gwasanaeth criw awyr yr Awyrlu Brenhinol yn 1943. Fodd bynnag, gohiriwyd ei wasanaeth a chwblhaodd ei flwyddyn israddedig olaf fel cadét Peilot, Llywiwr a Swyddog.

Gadawodd Renowden Lanbedr Pont Steffan gyda gradd dosbarth cyntaf mewn diwinyddiaeth.  Wrth iddo drosglwyddo i'r fyddin, fe hyfforddodd yng Ngwarchodlu'r Grenadwyr a Gwasanaeth Cudd-wybodaeth y Fyddin. Fel aelod o'r Gwasanaeth Cudd-wybodaeth, gwasanaethodd yn gyntaf yn India ac yna yn Japan. Yn ystod ei gyfnod yn India, daeth yn rhugl yn Japaneaidd. Un o'i ddyletswyddau cyntaf yn Japan oedd mynd gyda'r Ymerawdwr Hirohito ar ymweliad ag adfeilion Hiroshima, ychydig ar ôl i'r bom atomig gael ei gollwng. Sylwodd Renowden ar flodyn bach yn tyfu yng nghanol y dinistr, a dehonglodd hyn fel arwydd o obaith. Fodd bynnag, âi ymlaen yn ddiweddarach i ddioddef drwg effeithiau'r ymbelydredd, a bu'n rhaid iddo gael llawdriniaeth ddifrifol ar ei ysgwydd yn hwyrach yn ei fywyd.

Ar ôl iddo ddychwelyd adref, aeth Renowden fel ysgolhaig i Goleg Selwyn yng Nghaergrawnt ac yna hyfforddodd fel offeiriad. Rhwng 1951 a 1955, bu'n gweithio fel curad yn Hubberston, ger Aberdaugleddau. Priododd Ruth Collis hefyd yn 1951; cawsant fab a dwy ferch.

Nesaf, aeth Renowden yn ôl i Goleg Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan, i weithio fel darlithydd Athroniaeth. Daeth yn bennaeth ei adran yn 1957 ac yna'n uwch ddarlithydd mewn Athroniaeth a Diwinyddiaeth yn 1969. Roedd ganddo ddiddordeb arbennig yng nghroestoriad athroniaeth a chrefydd. Ni lwyddodd unrhyw un o'i fyfyrwyr i ddianc rhag y cwestiynau mawr am wirionedd Cristnogaeth.

Yn 1956, daeth ei wraig Ruth, yn ddarlithydd Mathemateg, a hi oedd y fenyw gyntaf i fod yn rhan o staff parhaol y coleg.



Yr olygfa o'r awyr o eglwys gadeiriol Llanelwy

Ar ôl 16 mlynedd o addysgu rhagorol, gadawodd Renowden Lanbedr Pont Steffan yn 1971 i ddod yn ddeon Llanelwy. Yn ogystal â'i allu academaidd, cyflwynodd sgiliau gweinidog a oedd yn siarad Cymraeg i'w rôl newydd. Yn ystod ei gyfnod fel deon, daeth yr eglwys gadeiriol yn ganolbwynt bywyd esgobaethol. Bu'n ymwneud cryn dipyn â phwyllgorau a chynghorau. Roedd yn gyfrifol am adnewyddu llyfrgell yr eglwys gadeiriol, gan ei gwneud yn bosibl iddi gael ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd a chynadleddau, yn ogystal â gwaith ymchwil. Gweithiodd gyda'r Athro William Mathias i sefydlu Gŵyl Gerddoriaeth Gogledd Cymru, y cafodd ei lansio yn 1972 a'i chynnal yn yr eglwys gadeiriol. Yn ogystal, am y rhan fwyaf o'r cyfnod hwn, roedd Renowden hefyd yn ficer eglwys plwyf Llanelwy a dau bentref cyfagos. Ac eto, llwyddodd i ddod o hyd i amser i ysgrifennu sawl llyfr, gan gynnwys *New patterns of ministry* (1973) a *The role of the cathedral today and tomorrow* (1974). Ar ôl ymddeol yn 1992, ysgrifennodd gofiant academaidd i un o'i ragflaenwyr o'r enw *A genial kind of divine*: *Watkin Herbert Williams, 1845–1944* (1998).

Bu farw Renowden ar 15 Mai 2000.

**Ffynonellau**

The Very Reverend Raymond Renowden. (2000, 31 Mai). *Daily Telegraph*, t. 27. Cyrchwyd o https://link.gale.com/apps/doc/IO0700836022/TGRH?u=nlw_ttda&sid=TGRH&xid=99ff10e5.

Evans, P. (2016). The Very Reverend Raymond Renowden and the 70th anniversary VJ day commemorations. *Dolen.* 69,6. Cyrchwyd o https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/alumni/lampeter-society/The-Link---March-2016.pdf.

Price, D. T. W. (1990). *A History of Saint David's University College Lampeter. Volume Two: 1898–1971.* Gwasg Prifysgol Cymru

# Yr Hybarch Archddiacon Robert Henry Richards

Cafodd Robert ei eni yn Abergwaun, Sir Benfro ar 9 Chwefror 1869. Mynychodd Ysgol Ramadeg Abergwaun cyn ymuno â Choleg Dewi Sant yn 1899, lle enillodd radd ail ddosbarth yn y Clasuron. Bu'n guradur yng Nghasnewydd, Lerpwl a Hoden yn Swydd Efrog gan gwrdd a phriodi â'i wraig Florence Mary yng Nghasnewydd, cyn cael ei wahodd gan yr Archesgob Mercer i fod yn rheithor New Norfolk, Tasmania. Ddwy flynedd ar ôl hynny, cafodd ei benodi'n Genhadwr Esgobaethol a Deon Gwledig Zeehan, 1911-1915, Rheithor Queensland, 1919-1921, ac yn olaf Archddiacon Hobart yn 1923. Fel Archddiacon Hobart, roedd Thomas yn gyfrifol am sawl eglwys ac yn cynnal pum gwasanaeth bob dydd Sul. Roedd hefyd yn olygydd y *Church News*, yn eistedd ar sawl pwyllgor ac yn dal sawl swydd o fewn y sefydliad Masonig gan gynnwys Caplan Cyfrinfa Llynges a Milwrol Tasmania.

Roedd bob amser yn hynod o boblogaidd, yn enwedig ymhlith y mwynwyr, ac roedd yn bresennol ym mwynglawdd copr Mount Lyell yn 1912, pan aeth y tŷ pwmp ar dân gan achosi marwolaeth pedwar deg dau o ddynion. Cafodd ganmoliaeth arbennig am ei wasanaethau arwrol yn ystod y trychineb.

Yn 1914, Robert oedd un o'r pedwar caplan cyntaf a gafodd eu penodi i Luoedd Ymerodrol Awstralia. Fel caplan gyda'r drydedd brigâd, gadawodd Hobart ar 20 Hydref 1914 ar yr S.S. Geelong gyda 912 o filwyr i'r Aifft. Gwasanaethodd yn yr Aifft yn Gallipoli, yn Ffrainc ac ym mhencadlys yr Awstraliad yn Horseferry Road yn Llundain, a oedd wedi adleoli o Gairo yn 1916.




*S.S. Geelong*
http://digital.sl.nsw.gov.au/delivery/DeliveryManagerServlet?embedded=true&toolbar=false&dps_pid=IE1649009&_ga=2.53504744.1165295238.1535330948-471006855.1534086563

Mewn cyfweliad papur newydd gyda'r *Mercury* ar ôl dychwelyd i Hobart i wella ar ôl cyfnod o waeledd yn 1916, adroddodd Robert rai o'i brofiadau adeg y rhyfel.

*"…cafodd ein dynion eu hyfforddi'n drylwyr; roedd lluoedd Prydeinig eraill yn yr Aifft yn eu hedmygu, a barnwyd mai nhw oedd y milwyr gorau yr oeddent erioed wedi'u gweld. Cymerodd ein brigâd ran yn y seremoni ffurfiol yn Cairo i gysylltu'r Aifft o dan y Cadfridog Maxwell. Cafodd ein brigâd ei dewis hefyd i ddarparu'r parti glanio cyntaf ar Benrhyn Gallipoli o dan y Brigadydd Sinclair Maclagan, a oedd yn anrhydedd mawr. Nid yw geiriau o ganmoliaeth yn ddigon ar gyfer y milwr ardderchog hwnnw - un o'r swyddogion gorau i arwain y frigâd. Cyn y glanio sy'n hanesyddol erbyn hyn, cawsom ein cludo i ynys Lemmos, lle hyfforddodd y lluoedd am wythnosau mewn gorymdeithiau ffordd, dringo uchderau ac yn y blaen i'w cadw'n heini, gyda lluoedd eraill o'r Aifft yn ymuno â ni'n raddol. Fy nyletswydd oedd ymweld â nifer penodol o longau, cynnal gwasanaethau, mynd i'r safleoedd ysbyty a gwneud gwaith bugeiliol mewn ffordd gyffredinol. Hyd at adeg y glanio nodedig yn Gallipoli, roedd iechyd ein lluoedd yn ardderchog. Tra yn yr Aifft, bu farw dau neu dri o'n brigâd o wahanol achosion, ond dim un dyn o Dasmania, ac ar y cyfan, cawsom amser hapus.."*

Cafodd Robert ei hun sawl dihangfa lwcus a chafodd ei daro gan shrapnel ar llabed ei glust ac ar achlysur arall roedd mor agos i lwybr tân-belen fel ei bod yn crafu un o'i goesau.

Bu farw Robert Henry Richards ar 11 Hydref 1929 ac fe'i claddwyd ym Mynwent Cornelian Bay, Hobart. Adroddodd *yr Advocate* fod llawer wedi mynychu ei angladd gan gynnwys y Prif Swyddog, yr Anrhydeddus J.C.M. Phee a'r Cadlywydd Gwladol, Lefftenant-cyrnol H.F. Cox Taylor D.S.O. Yn ei anerchiad, dywedodd yr Archesgob Hay fod yr Archddiacon Richards "yn cael ei garu gan fwynwyr Arfordir y Gorllewin a'i blwyfolion yn Wynyard ac ardaloedd eraill". "Byddai'n bob amser yn cael ei gofio gan y bechgyn a ymladdodd ar feysydd y gad yn Gallipoli a Ffrainc. Gorchuddiwyd ei arch â Jac yr Undeb ac atseiniwyd y Post Olaf a Reveille.

**Ffynonellau:**

Archdeacon Richard's Return. Experiences at the Dardanelles. Our Brave Tasmanians. (1916, Ionawr 6). *The Mercury.* Cychwyd o https://trove.nla.gov.au/newspaper/article/1058671

Y diweddar Archddiacon Richard. (1929, Hydref 4) *Advocate.* Cyrchwyd o https://trove.nla.gov.au/newspaper/article/67679144?searchTerm=archdeacon%20robert%20henry%20richards&searchLimits=

Ysgrif Goffa'r Hybarch Archddiacon Richard. Splendid Services. (1929, Hydref 2). *The Mercury.* Cyrchwyd o https://trove.nla.gov.au/newspaper/article/29135549?searchTerm=archdeacon%20robert%20henry%20richards&searchLimits=

# Robin Rider



Robin Rider (1931-1995) oedd llyfrgellydd proffesiynol cyntaf Coleg Dewi Sant.

Roedd Rider yn hanu o Gaergrawnt, ac yn hwyrach, enwodd ei gartref yn Llanbedr Pont Steffan yn 'Caergrawnt' ar ôl ei dref enedigol. Mynychodd Ysgol Perse cyn astudio'r Clasuron yng Ngholeg y Drindod. Ar ôl graddio ym 1953, gweithiodd fel cynorthwyydd catalogio yn llyfrgell Sefydliad Addysg, Prifysgol Southampton, ac yna'n llyfrgellydd cynorthwyol yng Ngholeg y Frenhines, Dundee. Ochr yn ochr â hyn, gweithiodd i ennill ei gymwysterau proffesiynol; cafodd ei benodi'n Gymrawd Cymdeithas y Llyfrgelloedd ym 1959.

Daeth yn Is-lyfrgellydd yng Ngholeg Dewi Sant ym 1961 ac, felly'n gyfrifol am bob agwedd o weithredu'r llyfrgell. Roedd ei dasg yn anferthol. Cyn hyn, cynhaliwyd y llyfrgell gan aelodau o'r staff academaidd, wedi'u cynorthwyo gan fyfyrwyr. Ar yr un llaw, roedd y stoc yn amhrisiadwy gan gynnwys llawysgrifau o'r oesoedd canol a gweithiau argraffedig cynnar yn ogystal â chasgliad unigryw o bamffledi o'r 17eg ganrif a'r 18fed ganrif. Fodd bynnag, roedd y casgliad, a oedd wedi'i leoli yn yr Hen Adeilad ar yr adeg honno, yn anhrefnus ac roedd y rhan fwyaf ohono heb ei gatalogio. Tasg fwyaf buan Rider fyddai sefydlu a chynnal llyfrgell academaidd fodern ar gyfer aelodau'r coleg. Cafodd y systemau a'r gweithdrefnau a gyflwynwyd ganddo eu defnyddio nes i'r coleg fabwysiadu system awtomatig ym 1989. Roeddent yn cynnwys datblygu system ddesg, cyflwyno cyfleusterau llungopïo, ac aildrefnu daliadau'r llyfrgell. Am ei fod wedi catalogio'r rhan fwyaf ohono, roedd yn gyfarwydd iawn â'i stoc!

Agorwyd llyfrgell newydd, a ddyluniwyd i gadw 85,000 o gyfrolau a 75 o ddarllenwyr, gan Ddug Caeredin ym mis Gorffennaf 1966. Fodd bynnag, canfu yn fuan ei bod yn rhy fach a, chyn hir, cafodd ei ymestyn. Ail-agorodd Tywysog Siarl yr adeilad a ail-fodelwyd ym 1984. Arhosodd y stoc llyfrau prin yn yr Hen Adeilad a elwir yr Hen Lyfrgell yn ddiweddarach (ar ôl hynny, cafodd ei hailenwi'n Llyfrgell y Sylfaenwyr).

Ym 1989, penododd y coleg George Lilley yn llyfrgellydd ar lefel broffesiynol. Parhaodd Rider fel dirprwy galluog a ffyddlon tan 1989 pan gymerodd ymddeoliad cynnar. Galluogodd hyn iddo

ddychwelyd at ei gariad cyntaf, y casgliad llyfrau prin godidog. Am y pum mlynedd nesaf, ef oedd Curadur Anrhydeddus Llyfrgell y Sylfaenwyr.


Yn drist iawn, bu farw Rider yn sydyn yn y cartref yn Llanbedr Pont Steffan yr oedd yn ei rannu gyda'i frawd ar 4 Ionawr ym 1995. Roedd ond yn 63 oed. Ar gyfer ei angladd, cynhaliwyd gwasanaeth yn ei gartref, wedi'i ddilyn gan wasanaeth cyhoeddus yn Eglwys Sant Pedr, Llanbedr Pont Steffan. Dywedwyd amdano, 'Bu Robin yn llyfrgellydd proffesiynol, ymrwymedig o'r uniondeb eithaf, â meddwl miniog, yn ddoeth yn ac annibynnol ei farn nad oedd unrhyw beth yn ormod o drafferth iddo.' Yn briodol iawn, cyhoeddwyd cyfrol o draethodau, *The Founders' Library University of Wales, Lampeter, Bibliographical and Contextual Studies* (Trivium Publications, 1997) er anrhydedd iddo. Yn ogystal, gadawodd arolwg anorffenedig o argraffu a chyhoeddi yn Llanbedr Pont Steffan a'r cyffiniau.

**Ffynonellau**

Reynolds, I. (1997). Robin Rider (1931-1995). Yn W. Marx (gol.) *The Founders' Library University of Wales, Lampeter bibliographical and contextual studies.* Trivium Publications

Lilly, G. (1995). In memoriam. Robin C. Rider. *The Lampeter Link , 48*, 42-43

# Yr Athro Keith Robbins



Roedd Keith Gilbert Robbins (1940-2019) yn Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, a hefyd yn Uwch Is-Ganghellor Prifysgol Cymru.

Roedd Keith yn fab i Gilbert Henry John ac Edith Mary Robbins. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg Bryste rhwng 1949 ac 1958. Yn ddiweddarach, ysgrifennodd hanes y coleg, ynghyd â gwasanaethu ar Fwrdd y Llywodraethwyr ac fel Llywydd Cymdeithas yr Hen Frysteiaid. Yn y brifysgol, astudiodd hanes yng Ngholegau Magdalen a St Anthony, Rhydychen. Teitl ei DPhil, a ddyfarnwyd iddo yn 1964, oedd *The abolition of war: a study in the organisation and ideology of the Peace Movement, 1914-1919.* Ychydig cyn iddo adael Rhydychen, priododd Janet Carey yn 1963. Cafodd ef a Janet dri mab ac un ferch.

Ei swydd academaidd gyntaf oedd ym Mhrifysgol Caerefrog, fel darlithydd cynorthwyol cyntaf ac yna darlithydd. Yn 1971, daeth yn athro a phrifathro yr adran hanes yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru (Prifysgol Bangor). Roedd hefyd yn ddeon Cyfadran y Celfyddydau rhwng 1977 ac 1979.Symudodd i'r gogledd yn 1980, ar ôl cael ei benodi yn Athro Hanes Modern ym Mhrifysgol Glasgow. Roedd yn bennaeth adran am ddeng mlynedd rhwng 1981 ac 1991.

Rhwng 1992 a 2003, roedd Robbins yn brifathro Coleg Prifysgol Dewi Sant, ac yna'n Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan. Ochr yn ochr â hyn, gwasanaethodd fel Uwch Is-Ganghellor Prifysgol ffederal Cymru ar y pryd rhwng 1995 a 2001. Mae aelodau Cymdeithas Llanbedr Pont Steffan yn cofio dyn cyfeillgar iawn a oedd yn hawdd siarad ag ef , er ei fod yn ŵr o statws ac awdurdod mawr.

Ochr yn ochr â'i rolau arwain, roedd Robbins yn hanesydd modern enwog. Roedd yn awdur dros 20 o lyfrau, ynghyd â nifer o erthyglau mewn cyfnodolion. Ei lyfr cyntaf oedd *Munich 1938*, (Cassell, 1968). Ei nod oedd edrych ar ddatblygiad argyfwng Munich heb gael ei rwystro gan gysyniad dyhuddiad. Dywedodd Fergusson ei fod yn llyfr beirniadol, darllenadwy iawn sy'n llawn gwybodaeth. Yn *The Eclipse of a Great Power: Modern Britain 1870-1975* (Longman, 1983), dechreuodd naratif Robbins yn ystod blynyddoedd Gladstone-Disraeli gan orffen gyda llywodraethau Wilson a Heath. Dywedodd un adolygwr mai hwn oedd y gwerslyfr mwyaf ffraeth a ddarllenodd erioed; roedd Robbins wedi cynnwys detholiad o eiriau mwys ei dad-cu hyd yn oed. Yn *The First World War* (Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1984), gwnaeth Robbins grynhoi'r llenyddiaeth enfawr ar y Rhyfel Byd Cyntaf yn gyfrol cryno a darllenadwy o lai na 200 o dudalennau. Rhywsut, llwyddodd y llyfr i fod yn gynhwysfawr ac i osgoi gorsymleididio. Yn *Great Britain: Identities, Institutions, and the Idea of Britishness* (Longman, 1997), archwiliodd wreiddiau hanesyddol hunaniaeth genedlaethol Prydain. Felly, cynigiodd Robbins adroddiad ar darddiad y mathau o densiynau a'r gwrthdaro rhwng hunaniaethau a fyddai'n taro'r Deyrnas Unedig.

Ar ôl iddo ymddeol, golygodd Robbins *History of Oxford University Press. Volume 4,* sy'n cwmpasu'r blynyddoedd rhwng 1970 a 2004. Roedd ei waith yn cynnwys ymdrin yn ofalus â rhai materion sensitif iawn, megis incwm ac enillion byd-eang y wasg a'i statws elusennol, ynghyd â rhai materion yn ymwneud â'r personél. Roedd pob un o'r rhain yn gofyn i Robbins gydweithio â chyfreithwyr a chyfrifyddion y wasg. Gwnaeth ymdrin â'r materion yn eithriadol o ddiplomataidd a gyda synnwyr digrifwch coeglyd.

Roedd Robbins yn athro gwadd ym Mhrifysgol British Columbia yn 1983 ac ym Mhrifysgol Gorllewin Awstralia yn 1995. Roedd yn llywydd y Gymdeithas Hanesyddol rhwng 1988 ac 1991, ac yn olygydd ei chyfnodolyn *History* rhwng 1977 ac 1986. Dyfarnwyd DLitt er anrhydedd iddo gan Brifysgol Gorllewin Lloegr yn 1999 a chan Brifysgol Cymru yn 2005. Daeth yn gymrawd Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan yn 2006 a chymrawd Prifysgol Bangor yn 2010. Roedd yn gymrawd sefydlol Cymdeithas Ddysgedig Cymru a gwasanaethodd ar ei chyngor rhwng 2010 a 2017.

Bu farw Robbins ym mis Medi 2019; cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Brifysgol Mair Forwyn, Rhydychen. Disgrifiodd Jeremy Smith, Deon Cynorthwyol y Sefydliad Addysg a'r Dyniaethau ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ef fel 'Is-Ganghellor hirsefydlog ac amlwg Llanbedr Pont Steffan, dyn hynaws iawn ac uchel ei barch, a hanesydd adnabyddus ym maes hanes modern Prydain .' Dywedodd yr Athro Bill Gibson 'Fy argraffiadau o Keith oedd ei fod yn ddyn arbennig o hael, yn ysgolhaig medrus o'r radd uchaf, ac yn gymeriad doeth a phwyllog, a fyddai wedi ei wneud yn llwyddiannus mewn unrhyw faes a ddewisodd.'

**Ffynonellau**


Robbins, yr Athro Keith Gilbert, (9 Ebrill 1940–12 Medi 9 Ebrill 1940–12. 2019), Is-Ganghellor (Prifathro gynt), Prifysgol Cymru (Coleg Prifysgol Dewi Sant gynt), Llanbedr Pont Steffan, 1992–2003; Uwch Is-Ganghellor, Prifysgol Cymru, 1995–2001.(2019).*Who's Who & Who was.* Cyrchwyd ar 26 Hydref 2020 o https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540891.001.0001/ww-9780199540884-e-32666.

Ysgol Ramadeg Bryste. (2019). Professor Keith Robbins, OB 1949-1958. Cyrchwyd ar 26 Hydref 2020 o https://www.bristolgrammarschool.co.uk/whats-on-and-news/news/professor-keith-robbins-ob-1949-1958

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. (20 Medi 2019). Yr Athro Keith Robbins, FRSE, FRHistS FLSW [Datganiad i'r wasg]. Cyrchwyd ar 27 Hydref 2020 o https://www.uwtsd.ac.uk/cy/newyddion/datganiadau/datganiadau-ir-wasg-2019/yr-athro-keith-robbins-frse-frhists-flsw.html

D.P. Davies & Prof. Keith Robbins. (2019/20). *The Link. 75*, 29-30. Cyrchwyd ar 27 Hydref 2020 o https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/alumni/lampeter-society/the-link--winter-2019-20.pdf

Fergusson, G. (1969). *International Affairs (Royal Institute of International Affairs 1944-), 45*(1), 107-108. Dynodwr Gwrthrych Digidol:10.2307/2612627

PUGH, M. (1983). [Adolygiad o'r llyfr *The eclipse of a great power: modern Britain 1870-1975*, gan K.G. Robbins]. *History, 68*(224), 535-536. Cyrchwyd ar 27 Hydref 2020 o http://www.jstor.org/stable/24417728

Berg, M. (1986). [Adolygiad o'r llyfr *The First World War,* gan K.G. Robbins]. *The Historian, 49*(1), 127-127. Cyrchwyd ar 27 Hydref 2020 o http://www.jstor.org/stable/24446802

Ellis, J. (1998). [Adolygiad o'r llyfr *Great Britain: identities, institutions, and the idea of Britishness,* gan K.G. Robbins]. *Albion: A Quarterly Journal Concerned with British Studies, 30*(4), 656-657. Dynodwr Gwrthrych Digidol:10.2307/4053853

## Y Parchedig John Roberts (1853-1949) "*Gobeithio na fyddwch chi byth yn mynd â mi oddi wrth fy Indiaid.”*

Ganwyd John Roberts ar Fferm Llewerllyd, Dyserth, ar 31 Mawrth, 1853 yn fab i Robert ac Elinor. Addysgwyd ef yn Ysgol Ramadeg Rhuthun ac yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan (a oedd yn gysylltiedig â Phrifysgol Rhydychen ar y pryd). Graddiodd gyda BA ac ordeiniwyd ef yn ddiacon yn 1878 yn Eglwys Gadeiriol Caerlwytgoed gan y Parchedig George Augustus Selwyn. Gwasanaethodd fel curad am gyfnod byr yn Dawley Magna yn Swydd Amwythig ond gadawodd yn ddiweddarach y flwyddyn honno am Ynysoedd Bahama.

Ordeiniwyd Roberts yn offeiriad gan y Gwir Barchedig Francis Cramer Roberts yn Nassau, daeth yn gaplan Eglwys Gadeiriol Sant Matthew, a bu'n gweinidogaethu i'r trefedigaethau gwahanglwyfus. Yn ystod y cyfnod hwn, cyfarfu ag organydd yr eglwys gadeiriol Laura Alice Brown, a ddaeth yn ddiweddarach yn wraig iddo.



Er bod y gwaith hwn yn galed, nid oedd yn fodlon. Ar y cyfan, roedd pobl yr ynysoedd yn Gristnogion, ac roedd ef eisiau bod lle nad oedd unrhyw gredinwyr. Yn 1880, gwnaeth Roberts ei ffordd i Efrog Newydd a gwneud cais am ei ddewis cyntaf o waith offeiriadol: gweinidogaethu i Americanwyr Brodorol. Tra roedd yn Efrog Newydd, cyfarfu â'r Esgob John Franklin Spalding (1828-1902), Esgob cenhadol Wyoming a Colorado. Gofynnodd Roberts am un peth yn unig gan Spalding – iddo ei anfon i wneud “*gwaith cenhadol yn eich maes anoddaf*”.

Anfonwyd Roberts gan yr Esgob Spalding i Greeley, Colorado yn gyntaf; yna i Pueblo i weinidogaethu gyda glowyr a chael rhywfaint o brofiad ymarferol. Daeth yn Rheithor Eglwys y Drindod, Pueblo, a sefydlodd Genhadaeth y Drindod yn Ne Pueblo yn 1882; lle bu'n cynorthwyo i weithio yn yr ysbyty yn ystod epidemig y frech wen.

Ym mis Chwefror 1883, rhyddhaodd Spalding ef i wasanaethu yng nghyrion pellaf Fort Washakie, lle roedd Asiantaeth Indiaidd Shoshone a Bannock a Rhandir Indiaidd Shoshone (a elwid yn ddiweddarach yn Rhandir Indiaidd Wind River) wedi'u lleoli. Roedd taith Roberts yno yn un gofiadwy. Aeth ar y trên i Green River ac yna teithio'r 150 milltir olaf mewn coets fawr. Daeth y siwrnai hon yng nghanol storm eira, gyda'r tymheredd yn agos at 60 gradd islaw sero. Yn y pen draw cymerodd hi wyth diwrnod i wneud siwrne a ddylai fod wedi cymryd 36 awr ond o'r diwedd fe gyrhaeddodd ei gartref newydd ar Chwefror 10, 1883.

Yn fuan ar ôl cyrraedd, ysgrifennodd Roberts lythyr at Laura Brown yn nodi na ddylai hi ei ddilyn i Wyoming o dan unrhyw amgylchiadau. A hithau o deulu cyfoethog yn Nassau ac wedi arfer â gweision a thiwtoriaid preifat, roedd yn argyhoeddedig na fyddai hi'n goroesi'r gaeafau erchyll a'r amodau byw cyntefig. Ysgrifennodd yn ôl ato a dweud ei bod yn dod - ac i gwrdd â hi yno! Yn ddim ond pedair ar bymtheg oed, a heb weld ei gilydd ers tair blynedd, teithiodd dros 5,000 o filltiroedd a chyrraedd fore Dydd Nadolig, 1884. Fe'u priodwyd y prynhawn hwnnw yn y briodas gyntaf i gael ei chynnal yn Eglwys Esgobol newydd St. Thomas.

Roedd y ddau lwyth o Americanwyr Brodorol ar y rhandir lle'r oedd Roberts yn gwasanaethu yn dlawd ac yn byw yn syml. Indiaid Mynydd oedd y Shoshones, ac roedd yr Arapahoe, a oedd yn byw tua 20 milltir o Fort Washakie, yn Indiaid y Gwastadeddau. Nid oedd y naill na'r llall yn gyfeillgar tuag at y llall.

Yn raddol llwyddodd Roberts i ennill eu hymddiriedaeth, gan ddysgu ieithoedd Shoshone ac Arapahoe a chofnodi eu geirfa. Yn wahanol i lawer o genhadon eraill, roedd Roberts yn parchu'r bobl ac yn eu hannog i gadw eu diwylliant brodorol; tra ar yr un pryd, yn eu helpu i addasu i'r byd oedd yn datblygu o'u cwmpas. Roedd ei barch yn amlwg yn ei fywyd personol – cafodd ei blant a oroesodd, Eleanor, Gwen, Marion, Gladys ac Edward (bu farw eu cyntaf-anedig, bachgen, yn fuan wedi iddo gael ei eni) eu magu ar y rhandir, roeddent yn rhugl yn yr ieithoedd brodorol ac fe'u haddysgwyd ochr yn ochr â'r plant brodorol.

Ym mis Ebrill 1884, cafodd Roberts y fraint o weinyddu yn angladd Sacajawea, y cyfieithydd enwog ac arweinydd Alldaith Lewis a Clark yn 1803-1806. Yn 1887, rhoddodd arweinydd y llwyth, Chief Washakie, 160 erw o dir i Roberts i adeiladu tŷ ac ysgol genhadol. Aeth Roberts ati i godi arian ar gyfer y gwaith, a dysgwyd y bechgyn sut i wneud celfi ar gyfer yr adeiladau newydd. Roedd y tŷ, a gwblhawyd yn 1890, yn ddigon mawr i ganiatáu i ferched Shoshone ac Arapahoe letya yno'n ddiogel. Bu *Ysgol Genhadol Esgobol Shoshone* yn gwasanaethu ei chymuned tan 1945. Yn gofeb hanesyddol hyfryd yn Wyoming, yn anffodus collwyd yr ysgol i dân yn 2016.



*Ysgol Genhadol Esgobol Shoshone, c.1900*

[https://commons.wikimedia.org/wiki/File:View_of_east_elevation_-_Shoshone_Episcopal_Mission,_Boarding_School_and_Roberts_Residence,_Wind_River_Indian_Reservation,_Fort_Washakie,_Fremont_County,_WY_HABS_WYO,7-FOWA.V,2A-1.tif](https://commons.wikimedia.org/wiki/File:View_of_east_elevation_-_Shoshone_Episcopal_Mission,_Boarding_School_and_Roberts_Residence,_Wind_River_Indian_Reservation,_Fort_Washakie,_Fremont_County,_WY_HABS_WYO,7-FOWA.V,2A-1.tif)

Bu farw Chief Washakie yn 1900, a bu Roberts yn gweinyddu yn yr angladd. Roedd yn gyfnod o alar a gorfoledd; gan fod Washakie wedi troi at Gristnogaeth dair blynedd ynghynt yn 97 oed, a threuliodd ei flynyddoedd olaf yn gwbl gefnogol i waith Roberts.

Yn ychwanegol at ei wasanaeth ymhlith yr Americanwyr Brodorol, trefnodd Roberts gynulleidfaoedd yn Lander, Dubois, Crowheart, Riverton, Thermopolis, Milford, Hudson a Shoshoni. Mae pob un ond y tri olaf yn dal i fod yn gynulleidfaoedd gweithredol.

Cafodd John Roberts ei anrhydeddu am ei weinidogaeth arloesol a'i ymdrechion diflino wrth addysgu a deall ei Americanwyr Brodorol 'ef'. Yn 1932, dyfarnwyd Doethuriaeth yn y Gyfraith iddo yn Wyoming, a Doethuriaeth mewn Diwinyddiaeth yn Evanston, IL. Yn 1933, cyflwynwyd baner Wyoming i gôr mawr yr Eglwys Gadeiriol Genedlaethol yn Washington er anrhydedd i'r Parchedig a Mrs Roberts. Neilltuir hefyd ddiwrnod gwledd iddo yng nghalendr litwrgaidd yr Eglwys Esgobol (UDA) ar 25 Chwefror.

Bu Roberts yn gweinidogaethu yn Wyoming am 66 mlynedd. Bu farw ar 22 Ionawr, 1949 a chladdwyd ef ym Mynwent Mount Hope yn Lander. Wedi ei farwolaeth, casglodd a chofnododd ei ferch Eleanor gyfnodolion a phregethau ei thad. Ffurfiodd y rhain sylfaen ar gyfer llyfr am fywyd Roberts o'r enw *Walk Softly, This is God's Country*, a gyhoeddwyd yn 1997.

***Ffynonellau:***

Allagree, H. (2011, February 25). The Rev. John Roberts (1853—1949). *The Good Heart*. Ar gael o: http://thegoodheart.blogspot.com/2011/02/rev-john-roberts-1853-1949.html [

Anderson, L. (2016, March 23). Shoshone Episcopal Mission School. *Alliance for Historic Wyoming*.

Ar gael o:https://www.historicwyoming.org/profiles/shoshone-episcopal-mission

Crofts, B., Markley, E., & Roberts, J. (1997). *Walk Softly, This Is God's Country: 1883-1949 Among Shoshone and Arapaho Indians/Wind River Reservation*. Mortimore Pub.


John, H. (2009). Dyserth—John Roberts. *A Welshman Amongst the Indians in Wyoming.* Ar gael o: https://www.dyserth.com/johnroberts.html

Murphy, W. (2014, November 8). *The Reverend John Roberts, Missionary to the Eastern Shoshone and*

*Northern Arapaho Tribes*. Ar gael o: https://www.wyohistory.org/encyclopedia/reverend-john

roberts-missionary-eastern-shoshone-and-northern-arapaho-tribes

# Thomas Stanley Roberts (1868-1935)



Cafodd Thomas Stanley Roberts ei enwi ar ddiwedd haf 1868, yn druenus fisoedd yn unig cyn i'w dad, y Capten Thomas Roberts, gael ei golli ar y môr oddi ar arfordir De America. Yr ieuengaf o dri brawd a chwaer, Mary (1858-1876) a Gwynne (1860-1940), yn gyntaf, mynychodd Roberts Ysgol Genedlaethol Abergwaun, cyn cofrestru yn Ysgol Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan. Yn 1889, dechreuodd ei yrfa academaidd yng Ngholeg Dewi Sant, ac er nad oedd yn ddyn chwaraeon, ymrwymodd yn llwyr i fywyd coleg gan gymryd rhan yn rheolaidd mewn cymdeithasau dadlau Cymraeg a Saesneg. Yn 1890, cafodd ei ethol yn is-olygydd cylchgrawn y coleg, ac yn dilyn hyn, cafodd ei benodi ar bwyllgor y cylchgrawn. Yn ystod ei flwyddyn olaf, cafodd Robert ei ethol yn Uwch-Ysgolhaig, rôl a oedd â chyfrifoldebau a dyletswyddau eraill o fewn y coleg. Graddiodd â gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth mewn Hanes, ar ôl ennill dwy ysgoloriaeth hanes yn ystod ei yrfa Coleg. Parhaodd ei addysg yn Peterhouse, coleg hynaf Caergrawnt, a sefydlwyd gan Hugo de Balsham, Esgob Ely ym 1284 a rhoddodd ei siarter gan y Brenin Edward I. Astudiodd am Dripos Hanesyddol (BA anrhydeddau) a phasiodd yr arholiadau gyda dosbarth cyntaf yn ystod tymor y Pasg 1897. Graddiodd gyda BA yn 1897 ac MA yn 1900, ar ôl ennill Gwobr Tywysog Cydweddog yn 1900, am y traethawd hir gorau sy'n cynnwys ymchwil hanesyddol wreiddiol.

Fe wnaeth Roberts barhau yng Nghaergrawnt fel un o'r darlithwyr Hanes tan 1903, pan gafodd ei benodi i'r swydd wag darlithydd hanes yng Ngholeg Dewi Sant. Roedd ei faes llafur yn cynnwys pwnc newydd o hanes Cymru, pwnc sydd wedi'i anwybyddu'n fawr gan y coleg yn flaenorol. Fodd bynnag, cafodd swydd addysgu flaenorol Richard yng Nghaergrawnt ddylanwad sylweddol ar ei yrfa academaidd diweddarach. Pan gynigiodd David Davies, yr Arglwydd Davies o Landinam, gwleidydd rhyddfrydol a dyngarwr, waddoli cadeirydd i Brifysgol Aberystwyth mewn Hanes Gwladychol, nododd y dylid penodi ei gyn-diwtor yng Nghaergrawnt i'r gadair. Ym mis Hydref 1907, derbyniodd Robert y swydd, yn byrhau ei yrfa yn ei goleg blaenorol, er yr oedd yn amlwg bod ganddo ymroddiad gydol oes i'r coleg a fynychodd, gan wasanaethu'n ddiweddarach ar Gyngor y Coleg rhwng 1929 a 1935.

Ar lefel bersonol yn ogystal ag ar lefel academaidd, profodd 1907 i fod yn arwyddocaol i Roberts, sef y flwyddyn y priododd Dorothy Susanna Johns, y cafodd dair merch gyda hi, Elizabeth, Dorothy ac Ann. Addysgodd yr Athro Robert, a elwir yn annwyl gan ei fyfyrwyr yn 'Stanley Bobs', ym Mhrifysgol Aberystwyth am saith mlynedd ar hugain, cyn ymddeol yn 1934. Yn ystod ei yrfa, cyfrannodd erthyglau i Gymdeithas Hanes Ceredigion ac *Aberystwyth Studies*, cyfnodolyn a gyhoeddwyd gan y brifysgol. Yn anffodus, bu farw'n sydyn o drawiad ar y galon yn ei gartref newydd yn Sir Benfro llai na blwyddyn ar ôl ei ymddeoliad.

Nododd un o'i ysgrifau coffa ei fod yn lleygwr Anglicanaidd defosiynol ond anarferol o oddefgar, gyda diddordeb cydymdeimladol mewn Anghydffurfiaeth. Roedd Roberts yn ddiwinydd ac yn Ganoloeswr, yn gyfarwydd iawn â dadleuon y Diwygiad Protestannaidd, yn wybodus am hanes y babaeth ynghyd â chlerigwyr a barwniaeth Lloegr yr unfed ganrif ar ddeg a'r ddeuddegfed ganrif. Honnodd yr Athro Hugh Walker o Goleg Dewi Sant ei fod yn un o Gymry mwyaf nodedig ei genhedlaeth '…yr hanesydd mwyaf gwreiddiol yr wyf erioed wedi'i adnabod'.

**Ffynonellau:**

Family history research undertaken by Thomas Latter, Thomas Stanley Roberts' grandson, which he kindly shared.

Ellis, E.L. (1972) *The University College of Wales Aberystwyth 1872-1972.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

# Ernest Melville Rowland

Ernest Melville Rowland (1864-1940) oedd y chwaraewr rygbi cyntaf o Goleg Dewi Sant i ennill cap dros Gymru.

Roedd Rowland yn fab i'r Parchedig Evan Rowland, cyn-fyfyriwr Coleg Dewi Sant ei hun, a'i wraig Jane, Morris gynt. Ernest oedd yr hynaf o blith o leiaf 15 o blant. Roedd yn un o bump o frodyr i gael eu hordeinio. Ganwyd yng Nghastell-nedd, ond buan y symudodd y teulu i Hendy-gwyn ar Daf yn Sir Gaerfyrddin ac yna i Arberth. Mynychodd Goleg Chardstock, (yn Dorset bryd hynny), cyn symud i Goleg Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan yn 1883.

Roedd yn sbortsmon o fri, yn cynrychioli'r coleg yn y timau pêl-droed a chriced yn ogystal â rygbi. Roedd yn is-gapten i'r tîm criced yn 1885, a sgoriodd gôl yn erbyn Coleg Prifysgol Aberystwyth yn gêm gyntaf Llanbedr Pont Steffan o dan reolau pêl-droed y gymdeithas. Roedd yn aelod o'r pwyllgor trefnu ar gyfer Chwaraeon Athletau'r Coleg a gynhaliwyd ar yr ail ddydd Llun ym mis Tachwedd ar y pryd. Roedd hefyd yn gystadleuydd cryf mewn nifer o ddigwyddiadau yno.

Fodd bynnag, rygbi oedd prif chwaraeon Rowland, lle roedd yn flaenwr athletaidd gwych. Ar yr adeg hon, roedd tîm Coleg Dewi Sant yn ddigon cryf i gystadlu yn erbyn y goreuon yng Nghymru. Chwaraeodd tîm y coleg yn erbyn timau megis Llanelli, Abertawe a Chastell-nedd. Cafodd Rowland ei ddewis i chwarae dros Gymru yn erbyn Lloegr ar Faes St Helen yn Abertawe ar 3 Ionawr 1885. Dyma'r wythfed gêm ryngwladol i Gymru ei chwarae; Rowland oedd yr 51ain chwaraewr i ennill cap dros Gymru. Fodd bynnag, Lloegr enillodd y gêm yn erbyn Cymru o un gôl a phedwar cais i un gôl ac un cais. Y blaenwyr o Gymru gafodd y bai am y grasfa. Roedd Rowland yn un o bedwar blaenwr na chafwyd eu dewis ar gyfer y gêm nesaf yn erbyn yr Alban. Ni chwaraeodd i Gymru fyth wedyn.

Ymddengys nad oedd Rowland yn boblogaidd iawn ymhlith ei gyd-fyfyrwyr. Ymddengys fod *St David's College and School Gazette* o fis Mai 1885 yn gwawdio ei berfformiad, a phrin iawn yw'r ganmoliaeth gan ei ddisgrifio fel:

"blaenwr cryf a defnyddiol, yn ddriblwr ac yn deg wrth ymdrin â'r bêl, ond fel taclwr nid yw bob amser yn ddiogel; dewiswyd eleni i chwarae yn y gêm rhwng Cymru a Lloegr."

Yn 1884, roedd Rowland wedi bod yn ddigon llwyddiannus i ennill ysgoloriaeth gwerth £24 ar gyfer hanes modern. Fodd bynnag, ar 18 Chwefror 1886, cyhoedded bwrdd y coleg:

"Cafodd Mr E M Rowland ei ddiarddel am weddill y tymor (o ganlyniad i gyfuniad o droseddau difrifol): a phenderfynwyd iddo gadw'r isafswm o'i gyfnod preswyl (wyth wythnos) yn y ddau dymor arall sy'n angenrheidiol ar gyfer ei radd."

Graddiodd Rowland yn yr haf 1886, gan basio yn unig. Ar adeg y cyfrifiad yn 1891, roedd mewn cyflogaeth fel ysgolfeistr yn Exmouth House Boys' School, Stoke Damerel ar gyrion Plymouth. Mae'n rhaid ei fod wedi ymfudo yn fuan i Ganada; ac yn 1894 cafodd ei ordeinio yn ddiacon ar gyfer y genhadaeth yn Clarendon gyda Palmerston yn esgobaeth Ontario. Cafodd ei wneud yn offeiriad y flwyddyn wedyn. Roedd yn gyfrifol am wasanaethu'r Holy Trinity Church, Plevna a'r All Saints Church, Oompah, gyda St Stephen's Church, Strathadden. (Lleolir Plevna tua 120 milltir i'r dde-orllewin o Ottawa.)

Yn 1896, priododd Hannah Lilian Gilbert o Oompah. (Roedd Hannah hefyd yn hanu o Brydain. Ganwyd yn Bury, Sir Gaerhirfryn, yn 1875 ond gadawodd Loegr yn 1886). Roedd pedair merch a thri mab gan y cwpl. Yn 1902, symudodd Rowland i Newborough, cyn mynd ymlaen i Powassan yn 1905.

Ei swydd olaf oedd fel rheithor West Flamborough gyda Rockton. Gweithiodd yno o 1913 tan ei ymddeoliad yn 1930.



Christ Church, West Flamborough, lle roedd Rowland yn rheithor.

Yng Nghanada, ymddengys bod Rowland wedi mwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon maes. Ysgrifennodd sawl erthygl yn *Road and Gun in Canada* yn gofyn i'r deddfau gêm gael eu gorfodi. Ym mis Chwefror 1909, disgrifiodd taith hela ddeng diwrnod i ardal y Parry Sound. Roedd ei griw, sef naw unigolyn, wedi lladd 11 o geirw a chlwyfo un arall.

Bu Rowland farw ar 5 Ebrill 1940 yn Flamborough, Ontario.

**Ffynonellau**

Walters, S. (2016). *The fighting parsons: the role of St David's College, Lampeter, in the early development of rugby football in Wales.* Canolfan Peniarth

Jenkins, J.M., Pierce, D. & Auty, T. (1991). *Who's who of Welsh international rugby players.* Charlcombe Books

Ancestry. (2020). Cyrchwyd o: https://search.ancestrylibraryedition.co.uk

Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan (4 Hydref 1884). *Aberystwyth observer and Merionethshire news.* Cyrchwyd o: https://newspapers.library.wales/view/3043832/3043836/45/

Rowland, E.M. (1909). *Rod and gun in Canada.* 10(9),859-861. Cyrchwyd ar 17 Mehefin 2020 o https://archive.org/details/rodandguncanada19081909/page/n397/mode/2up

Rowland, E.M. (1909). *Rod and gun in Canada.* 11(1),54-56. Cyrchwyd ar 17 Mehefin 2020 o https://archive.org/details/rodandguncanada1909/page/n87/mode/2up

# Yr Athro John Rowlands

## Nofelydd, Academydd ac Adolygydd Bwyd o Gymru

Bu John Rowlands yn dysgu yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin a Choleg Prifysgol Dewi Sant, lle daeth yn Uwch Ddarlithydd y Gymraeg yn 1973. Fe'i ganwyd ar 14 Awst 1938 ar fferm yn Nhrawsfynydd, Gwynedd. O oedran ifanc roedd ei rieni yn ei annog i ddarllen a thrafod llenyddiaeth, a chymerai ran yn yr Eisteddfod leol yn rheolaidd. Mynychodd Ysgol Ramadeg Blaenau Ffestiniog ac roedd yn gyfoeswr i'r awdur, y dramodydd a'r darlledwr Gwyn Thomas. Enillodd Rowlands ei radd ym Mhrifysgol Bangor, gan raddio gydag anrhydedd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg yn 1959. Cyflwynodd ei MA ar *Delweddau Dafydd ap Gwilym*, ac ar ôl hynny derbyniodd Gymrodoriaeth Prifysgol Cymru i astudio yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, rhwng 1961 ac 1963. Dyfarnwyd ei DPhil iddo am *A Critical Edition and Study of the Welsh Poems Written in Praise of the Salusburies of Llyweni*, a gyhoeddwyd yn 1967.

Yn 1960 ac yntau'n dal yn fyfyriwr, ysbrydolwyd Rowlands i ddechrau ysgrifennu gan y dramodydd a'r adolygydd John Gwilym Jones. Drwy ei nofelau Cymraeg cynnar, *Lle Bo'r Gwenyn* (1960) ac *Yn Ôl l'w Teyrnasoedd* (1963) enillodd enw i'w hun fel un o'r enghreifftiau prin yng Nghymru o "Ddynion Ifanc Dig". Roedd ei drydedd nofel, *lenctid yw 'Mhechod* (1965) wedi creu cymaint o gynnwrf yng Nghymru ag y gwnaeth *Lady Chatterley's Lover* yn Lloegr bum mlynedd ynghynt. Roedd gwaith cynnar Rowlands, a osodwyd yn gyffredinol mewn byd modern llwm, yn ymwneud â'r seicoleg ddynol, gan bortreadu unigolion bregus ac ynysig, wedi'u mygu gan draddodiadau. Mae ei gofnod yn yr *Oxford Companion to the Literature of Wales*, yn cyfeirio at ei ymdriniaeth ddiamwys o olygfeydd rhywiol a'i ddealltwriaeth o ymddygiad pobl ifanc. Un enghraifft o'r fath yw *Arch ym Mhrâg* (1972) a ysgrifennwyd pan oedd Rowlands yn darlithio yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant. Mae'r nofel yn ymwneud â deffroad gwleidyddol grŵp o bobl ifanc yn byw yn Tsiecoslofacia yn 1968. Fodd bynnag, yn ddiweddarach yn ei yrfa roedd ei waith yn cwmpasu comedi a thrasiedi. Ysgrifennodd y nofel ddychanol *Tician Tician* (1968), am fywyd mewn tref brifysgol yng Nghymru, lle'r oedd y prif gymeriad, sef darlithydd ifanc, yn seiliedig arno ef ei hun.

Roedd y nofel hefyd yn archwilio'r argyfwng oedd yn wynebu'r Gymraeg, a oedd yn bwnc o bwys mawr i Rowlands. Golygodd *Sglefrio ar Eiriau* yn 1992 gan ddod ag wyth adolygydd ynghyd i drafod gwahanol agweddau ar lenyddiaeth gyfoes Cymru. Yn y flwyddyn 2000 cyfrannodd *Y Sêr yn eu Graddau* i'r gyfres *Y Meddwl a'r Dychymyg Cymreig*, a oedd yn trafod y nofel fodern Gymraeg. Dair blynedd yn ddiweddarach cyd-olygodd Rowlands *The Bloodaxe Book of Modern Welsh Poetry: Twentieth Century Welsh Language Poetry in Translation.* Fodd bynnag, roedd ei ddiddordebau'n amrywiol ac ysgrifennodd nifer o lyfrau ar achau Cymru ac roedd yn gyd-awdur ar rai eraill, yn ogystal â nifer o gyhoeddiadau ar hanes Cymru a hanes lleol. Ysgrifennodd Rowlands hefyd fonograff ar yr awdur T. Rowlands Hughes, ar gyfer y gyfres *Writers of Wales*, un o'i ychydig lyfrau Saesneg.

Cyfunwyd y gwaith swmpus hwn ag addysgu. Bu Rowlands yn addysgu yn Abertawe, Coleg y Drindod, Caerfyrddin, Prifysgol Bangor a Choleg Prifysgol Dewi Sant. Yn 1975 fe'i penodwyd yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth, gan ddod yn Uwch Ddarlithydd yn 1976, yn Ddarllenydd yn 1992 ac yn Athro yn 1996. Yn dilyn ei ymddeoliad yn 2003, parhaodd Rowlands i weithio fel golygydd, adolygydd a beirniad ar gyfer cystadlaethau llenyddol mewn Eisteddfodau. Roedd hefyd yn gerddor talentog ac roedd gan ei gydweithwyr yn Aberystwyth atgofion hoffus iawn ohono'n canu'r piano mewn partïon Nadolig. Roedd bwyd a gwin yn bethau eraill a oedd yn ennyn ei frwdfrydedd. Cyfrannodd Rowlands golofn reolaidd fel adolygydd bwytai i gylchgrawn *Barn*, ac agorodd westy a bwyty bach yn ddiweddarach, sef *Y Goeden Eirin* yn Groeslon, gyda'i wraig Luned.

**Ffynonellau:**

Stephens, M. (2015, Mai 17) *Independent*: 'John Rowlands: Author who eschewed popular taste in order to explore the human mind and his own inner life'. *Independent* (Llundain, Lloegr). Cyrchwyd o https://www.independent.co.uk/news/people/john-rowlands-author-who-eschewed-popular-taste-order-explore-human-mind-and-his-own-inner-life-10256109.html

'Talu teyrngedau i'r Athro John Rowlands' (2015, Chwefror). Prifysgol Aberystwyth. Cyrchwyd o: https://www.aber.ac.uk/cy/news/archive/2015/02/title-164011-cy.html

'John Rowlands' (2020) *Encyclopedia.com.* Cyrchwyd o: https://www.encyclopedia.com/arts/educational-magazines/rowlands-john-1938

## William John Roxburgh

Cenhadwr i Dde Affrica oedd William John Roxburgh.

Ganwyd yn Annan, tua phymtheng milltir i'r de-ddwyrain o Dumfries. Alexander Roxburgh a'i wraig Agnes, Steel gynt, oedd ei rieni. Cafodd ei addysg yn Ysgol Derby. Ym 1885, priododd ei chwaer, Janie, â Hugh Walker, darlithydd Saesneg yng Ngholeg Dewi Sant. Roedd Johnny hefyd yn aelod yn Llanbedr Pont Steffan, lle roedd yn uwch ysgolhaig ac ysgolor diwinyddol. Yn ogystal ag astudio, chwaraeodd i'r timau criced a thennis lawnt. Yn ddiweddarach, aeth i Goleg y Drindod, Rhydychen. Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn esgobaeth Caer ym 1890 ac yn offeiriad ym 1891.

Aeth ymlaen i genhadaeth Coleg y Drindod yn Stratford yn nwyrain Llundain. Roedd ficer yn Eglwys Sant Ioan wedi codi eglwys newydd yn Heol Dinbych y Pysgod, a chymerodd Coleg y Drindod y genhadaeth drosodd ym 1888. Roedd yr adeiladau yn cynnwys eglwys o frics coch a neuadd fawr gyda thŷ wrth ei ochr. Ar y llawr gwaelod roedd swyddfa, ac uwchben y swyddfa hon roedd ystafell clwb gyda bwrdd biliards. Roedd Roxburgh a chydweithiwr yn byw ar lawr uchel. Tai wedi eu gosod fel tenementau oedd o amgylch, gyda theuluoedd gwahanol yn preswylio mewn un neu ddwy ystafell yr un. Bob ychydig funudau, roedd yr adeilad yn ysgwyd gan sŵn y trenau.

Disgrifiwyd Roxburgh ar y pryd fel hyn: 'Roedd Roxburgh y dyn mwyaf cyfeillgar y gellir ei adnabod, a dyn hyblyg dros ben. Mewn mater o bum munud gallai weddu gydag unrhyw gymdeithas, ac yn yr un modd, ni fyddai angen mwy o amser arno i wneud ffrind agos. Roedd yn byw pob munud o'i fywyd fel petai'r funud honno oedd yr unig un o bwys, ac roedd yn trin pawb a gwrddai fel petai nhw, a nhw yn unig oedd yn bwysig.. Gallai bregethu neu ddarlithio ar fyr-rybudd ac ar unrhyw bwnc, ac roedd ei ddarlithoedd yn ddiddorol, weithiau'n wych. Wedi dweud hynny, nid oedd hi'n bosib dibynnu ar ei ffeithiau, gan fod ei ddychymyg yn ei alluogi i lenwi blychau ei ddiffyg gwybodaeth.'

Byddai'n brysio allan i'r stryd yn y nos i atal ymladd – roedd yn ddigon dewr i ymyrryd mewn anghydfod priodasol pan oedd dau bartner yn feddw. I'r gwrthwyneb, byddai'n fodlon eistedd drwy'r nos gyda chlaf yn marw. Dilynodd ffordd o fyw Spartan – roedd yn hoff o gael bath dŵr oer, ac roedd yn byw yn bennaf ar goco, bara a marmalêd.

Gadawodd Roxburgh Llundain i wasanaethu fel cenhadwr yn safle genhadol Santes Augustine, yn Penhalonga ger Umtali yn Mashonaland (Simbabwe bellach). Aeth yno gyda grŵp bach o leygwyr o esgobaeth Caerlwytgoed. Fe wnaethant sefydlu ysgol hyfforddi ddiwydiannol, ac agorodd ym 1899. Ym 1904, disgrifiodd William Gaul, esgob Mashonaland, y genhadaeth hon gyda'r tri offeiriad, dau leygwr, a chant o fechgyn a dynion o Affrica. Roedd y bechgyn a'r dynion wedi adeiladu ysgoldy mawr o frics coch. Oherwydd dylanwad Roxburgh daeth llawer o genhadon eraill i Mashonaland. Ym 1901, dechreuodd Arthur Cripps, cyd-fyfyriwr i Roxburgh yng Ngholeg Y Drindod, ei wasanaeth cenhadol ym Mashonaland. Ym 1903, cyrhaeddodd Harry Buck, ffrind arall o'r Drindod ym Mhenhalonga. Yn Llanbedr Pont Steffan, fe redodd Janie Walker, chwaer Roxburgh, gangen o Gymdeithas Genhadol Mashonaland. Aeth dau o athrawon Coleg Dewi Sant, sef John Wright Davies a G.E.P. Broderick, yno i fod yn genhadon.

Ym 1904, dychwelodd Roxburgh i Brydain oherwydd anabledd. Daeth yn giwrad Eglwys Sant Philip ym Mirmingham (Eglwys Gadeiriol Birmingham o 1905 ymlaen). Dechreuodd y 'Birmingham Street Boys' Union' yn stryd Suffolk, gyda'r bwriad o geisio helpu'r bechgyn papur newydd a stryd fasnachwyr y ddinas. Roedd y bechgyn yn bennaf yn dod o gartrefi tlawd iawn – roeddent yn gwerthu papurau newydd neu'n gweithio mewn diwydiannau cartref gyda chyflog bach oherwydd bod eu rhieni yn ddi-waith. Parhaodd i gefnogi cenhadaeth Mashonaland, ac ym 1905, dychwelodd i Lanbedr Pont Steffan i roi darlith llusern er mwyn codi arian.

Ym 1906, priododd Roxburgh â'r weddw Mary Louisa Lauria yn Eglwys San Sior, Bloomsbury. Daeth yn ficer 'All Saints', yn Kings Heath y flwyddyn ganlynol. Symudodd am y tro olaf yn ôl i Affrica ym 1913, a'r tro hwn aeth i gyrion Johannesburg fel ficer yn Yeoville. Ag yntau wedi ymlâdd yn llwyr, bu farw yno ar 6 Medi 1919. Mae ffenestr wydr lliw wedi'i chysegru i Roxburgh a'i wraig yn ei eglwys yn King's Heath.

**Ffynonellau**


The Rev. W.J. Roxburgh (1919, September 8). *The Times.* Cyrchwyd 12 Chwefror 2021 o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS235736360/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=0399e58c

William John Roxburgh Priest (1919, September 12). *Church Times.* Cyrchwyd 12 Chwefror 2021 o https://www.ukpressonline.co.uk/ukpressonline/view/pagview/ChTm_1919_09_12_235

West Ham: philanthropic institutions (1973). In: W.R. Powell (ed.) *A History of the County of Essex. Vol. 6* (pp. 141-144). Cyrchwyd 12 Chwefror 2021 o https://www.british-history.ac.uk/vch/essex/vol6/pp141-144

Smith, H. Maynard (1926). *Frank, Bishop of Zanzibar.* Cyrchwyd 12 Chwefror 2021 o http://anglicanhistory.org/weston/frank1.html

House of Training for Women Missionaries, Upton Park. (1904, April 29). *Church Times.* Cyrchwyd 12 Chwefror 2021 o https://www.ukpressonline.co.uk/ukpressonline/view/pagview/ChTm_1904_04_29_567

Welch, P. (2008). *Church and Settler in Colonial Zimbabwe: a Study in the History of the Anglican Diocese of Mashonaland/Southern Rhodesia, 1890-1925.* Cyrchwyd 15 Chwefror 2021 o https://ebookcentral.proquest.com/lib/aber/reader.action?docID=468507#

Dargue, W. (2011-16). A history of Birmingham churches from A to Y. Kings Heath All Saints. Cyrchwyd 15 Chwefror 2021 o https://ahistoryofbirminghamchurches.jimdofree.com/kings-norton-st-nicolas/all-saints-kings-heath/

Roxburgh, A.J. (1906). The school mission. *The Bromsgrovian, N.S. 20*(3),75-76. Cyrchwyd 15 Chwefror 2021 o http://www.bromsgrove-schoolarchive.co.uk/Filename.ashx?tableName=ta_publications&columnName=filename&recordId=122

Ecclesiastical intelligence. (1907, October 14). *Times.* Cyrchwyd 15 Chwefror 2021 o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS151844174/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=a94f75c8

# Patricia Rumsey



Mae Patricia Rumsey yn Fam Abades ar gymuned grefyddol fach; ochr yn ochr â hyn, mae'n ysgrifennu ar litwrgi ac ar fynachaeth gynnar.

Ganed Rumsey yn Rugby a mynychodd Ysgol Uwchradd Rugby. Gan deimlo galwad crefyddol, gwnaeth ymrwymiad i leiandy Urdd y Santes Clare (Poor Clares) yng Nghaerefrog, gan gymryd yr enw Sister Francisca. Gwnaeth ei haddunedau cyntaf fel lleian yn 1962, yn wir ar ddiwrnod agoriadol Vatican II. Mae'r 'Poor Clares' yn urdd fyfyriol, a sefydlwyd gan y Santes Clare o Assisi (1194-1253) o dan arweiniad ac ysbrydoliaeth Sant Ffransis. Mae bywyd y lleianod yn dal i fod yn seiliedig ar y rheolau a ysgrifennodd y Santes Clare iddi hi ei hun a'i chwiorydd. Er bod arferion wedi amrywio, ystyrir mai'r 'Poor Clares' yw un o'r urddau menywod mwyaf syml yn yr Eglwys Gatholig. Mae'r lleianod yn dilyn delfrydau Clare sef gweddi, cymuned, symlrwydd a pharch at yr amgylchedd. Maent wedi ymroi eu bywydau i weddi, penyd, myfyrdod a gwaith corfforol. Maent yn dathlu'r Swyddogaeth Ddwyfol yn rheolaidd drwy gydol y dydd, gan ddod ag anghenion y byd a'r eglwys at Dduw.

Gwnaeth Rumsey gais i astudio ym Mhrifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan ar ddiwedd yr 1990au. Ar y pryd, roedd yn anarferol iawn i aelod o urdd grefyddol gaeedig Gatholig fynychu prifysgol. Nid ar chwarae bach y llwyddodd Rumsey i gael y caniatâd angenrheidiol gan yr awdurdodau eglwysig. Fodd bynnag, roedd yr Adran Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol yn Llanbedr Pont Steffan yn cynnig MA poblogaidd iawn mewn Cristnogaeth Geltaidd, wedi'i addysgu gan arbenigwyr blaenllaw gan gynnwys Jonathan Wooding a Tom O'Loughlin. Dywedodd Rumsey eu bod hwy, ynghyd â'r holl staff Diwinyddiaeth, yn deall ei sefyllfa anarferol ac yn gwneud popeth o fewn eu gallu i hwyluso ei chynnydd. Gwnaeth lawer o ffrindiau da yn Llanbedr Pont Steffan a mwynhaodd rannu ym mywyd y gaplaniaeth ac addoli yn y capel. Ar ôl cwblhau ei Gradd Meistr yn llwyddiannus, aeth ymlaen i astudio am Ddoethuriaeth ac yna am drwydded ôl-ddoethurol, o dan oruchwyliaeth Tom O'Loughlin. Er bod O'Loughlin, meddai, yn mynnu'r safonau uchaf, roedd bob amser yn deg, yn barod i helpu ac yn athro ysbrydoledig.

Teitl Doethuriaeth Rumsey, a gwblhawyd yn 2006, oedd *Sacred time in early Christian Ireland: the Nauigatio and the Céli Dé in dialogue to explore the theologies of time and the liturgy of the hours in pre-Viking Ireland*. Hwn hefyd oedd llyfr cyntaf Rumsey, a gyhoeddwyd gan T. & T. Clark yn 2007. Trafododd y gwahanol ffyrdd yr oedd dau grŵp mynachaidd Gwyddelig o'r wythfed a'r nawfed ganrif yn deall amser cysegredig. Archwiliodd hefyd y *Nauigatio Sancti Brendani* dylanwadol*,* yr wythfed neu'r nawfed ganrif lle'r oedd St Brendan a'i gydymaith yn hwylio i ddarganfod Tír Tairngire, Tir yr Addewid. Dywedodd Mackley, 'Mae gwaith Rumsey yn hynod ddarllenadwy ac mae'n gyfraniad gwerthfawr i astudio'r *Nauigatio* a'n dealltwriaeth o ddatblygiad Cristnogaeth Wyddelig.'

Yn dilyn hyn, ysgrifennodd Rumsey *Women of the church: the religious experience of monastic women,* ( Columba Press, 2011). Archwiliodd y ffordd y mae menywod wedi cael eu trin mewn cymunedau crefyddol, gan groniclo profiad menywod mynachaidd drwy holl hanes Cristnogaeth. Roedd yr amserlen yn ymestyn o Famau'r Diffeithwch yn y bedwaredd a'r bumed ganrif i'r dadleuon presennol ynghylch neilltuad. Wrth ysgrifennu yn *Church Times,* dywedodd Dunstan, 'Mae'r ysgrifennu'n fanwl ac yn ysgolheigaidd, ac eto'n rhugl ac yn wefreiddiol. I unrhyw un sydd â diddordeb mewn menywod crefyddol, mae hwn yn gofnod huawdl.'

Llyfr diweddaraf Rumsey yw *Lest she pollute the sanctuary: the influence of 'Protoevangelium Iacobi' on women's status in Christianity*, (Brepols, 2020). Archwiliodd destun apocryffaidd o'r ail ganrif, a gaiff ei gydnabod fel yr ysgrifennu Cristnogol mwyaf dylanwadol nad yw'r rhan fwyaf erioed wedi clywed amdano. Dywedir bod y testun wedi'i ysgrifennu gan Iago, hanner-brawd neu lys-frawd Iesu, a'i fod yn disgrifio bywyd y Forwyn Fair, hyd at enedigaeth Iesu ac ymweliad y Magi. Dadleuodd Rumsey fod y portread o Mair yn y gwaith hwn, gyda phwyslais eithafol ac afreal ar ei phurdeb, yn fodel na allai pob menyw ei gyrraedd. Yna gwnaeth asesiad o'r ffordd y mae'r darlun hwn wedi dylanwadu ar y canfyddiad Cristnogol o fenywod drwy'r cenedlaethau hyd at yr unfed ganrif ar hugain.

Mae Rumsey yn Ysgolor Gwadd ac yn ddarlithydd rhan-amser yng Ngholeg Diwinyddol Sarum; mae hi hefyd yn athro cyswllt anrhydeddus ym Mhrifysgol Nottingham. Mae'n aelod o'r Gymdeithas Ar gyfer Astudiaeth Litwrgaidd, y Gymdeithas Ddiwinyddol Gatholig, a Chyngor Ffederasiwn 'Poor Clare' Prydain Fawr. Mae wedi ysgrifennu llawer o erthyglau ac mae'n aelod o fwrdd golygyddol *Studia Traditionis Theologiae: Explorations in Early and Medieval Theology*. Ochr yn ochr â hyn, mae'n Fam Abades y gymuned 'Poor Clare' yn Arkley, Barnet; ar hyn o bryd mae deg lleian yn rhan o'r gymuned. Pan nad yw'n siarad ac yn ysgrifennu, mae'n coginio ar gyfer y grŵp ac yn gofalu am gi'r lleiandy.

**Ffynonellau:**


Prifysgol Nottingham 240 , Ionawr 2017 *Why study the Second Vatican Council by Francisca Rumsey* [Ffeil fideo]. Cyrchwyd ar Mawrth 25 2021 o https://www.youtube.com/watch?v=6zH6a_M0gCQ

Rumsey, T. (2021). Patricia Rumsey Athro Cyswllt Anrhydeddus ym Mhrifysgol Nottingham [tudalen LinkedIn]. LinkedIn Cyrchwyd ar Mawrth 25 2021 o https://www.linkedin.com/in/patricia-rumsey-582b8223/?originalSubdomain=uk

Poor Clare religious order. (2020) Yn *Britannica.* Cyrchwyd ar Mawrth 25 2021 o https://www.britannica.com/topic/Poor-Clares

Arkely Poor Clares . (d.d.) *Arkley Poor Clares.* Cyrchwyd ar Mawrth 25 2021 o https://arkleypoorclares.weebly.com/

Mackley, J. (2008). *Sacred time in early Christian Ireland*. *The monks of Nauigatio and the Céli Dé in dialogue to explore the theologies of time and the liturgy of the hours in pre-Viking Ireland*. Gan Patricia M. Rumsey. Tt. xiv 258. London – New York : T&T Clark, 2007. £70 10 0 567 03205 1; 13 978 0 567 03205 8. *The Journal of Eclesiastical History, 59*(4), 734-734. doi:10.1017/S002204690800567813 978 0 567 03205 8.

Weyl Carr, A., a Kazhdan, A. (1991). *Protoevangelion of James*. Yn *The Oxford Dictionary of Byzantium*. Cyrchwyd ar Mawrth 25 2021, o https://www-oxfordreference-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/acref/9780195046526.001.0001/acref-9780195046526-e-4546.

Index Theologicus. (d.d.) *Lest she pollute the sanctuary: the influence of 'Protoevangelium Iacobi' on women's status in Christianity*. Cyrchwyd ar Mawrth 25 2021 o https://ixtheo.de/Record/1745161074/Description#tabnav

Dunstan, P. (2012, Mai 14). *How sisters fared*. *Church Times.* Cyrchwyd ar Mai 25 2021 o https://www.churchtimes.co.uk/articles/2012/18-may/books-arts/book-reviews/how-sisters-fared

Barnet Society . (2020) *Barnet's Poor Clare Nuns plan delayed 50th birthday party in 2021* . Cyrchwyd ar Mawrth 26 2021 o https://www.barnetsociety.org.uk/component/k2/barnet-s-poor-clare-nuns-plan-delayed-50th-birthday-party-in-2021

# Herbert Edward Ryle



Herbert Edward Ryle (1856-1925) oedd trydydd pennaeth Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Aeth ymlaen i fod yn esgob Caerwysg ac yna'n esgob Caer-wynt.

Roedd Ryle yn ail fab i glerigwr; yn ddiweddarach, penodwyd ei dad, John Charles Ryle, yn esgob cyntaf Lerpwl. Bu farw mam Ryle, Jessie Elizabeth née Walker, pan oedd yn dair oed yn unig; cafodd ei fagu gan ei lysfam, Henrietta neé Clowes. Derbyniodd Herbert ei addysg yn Hill House, Wadhurst, Sussex, ac yna yng Ngholeg Eton. Aeth i Goleg y Brenin, Caergrawnt i astudio'r Clasuron; ar ôl cael ei anafu yn chwarae pêl-droed, dilynodd gwrs gradd *aegrotat* yn 1879. Fodd bynnag, yn 1881, dyfarnwyd gradd dosbarth cyntaf iddo mewn Tripos Diwinyddol, ar ôl iddo ennill pob un o'r tair gwobr a oedd ar gael, (Evans, Scholefield a Hebrew).

Ym mis Ebrill 1881, penodwyd Ryle yn gymrawd Coleg y Brenin. Cafodd ei ordeinio'n ddiacon yn 1882 ac yn offeiriad yn 1883. Hefyd, yn 1883, priododd Nea Hewish Adams, merch yr Uwch-frigadydd Hewish Adams o'r Reifflwyr Gwyddelig Brenhinol. Cawsant dri mab ond, yn drist iawn, bu farw dau ohonynt pan oeddynt yn blant ifanc.


Roedd Ryle yn arholwr yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan yn 1885 ac yn 1886. Yna, ym mis Gorffennaf 1886, ac yntau heb droi'n 30 oed, cafodd ei benodi'n Bennaeth. Ysgrifennodd Edward White Benson, Archesgob Caergaint, ato yn datgan 'y gobaith anwylaf y daw'r Coleg yn fam dduwioldeb ac y bydd ei diwinyddiaeth yn denant byw ac yn dyst i'r enaid ac nid i'r meddwl yn unig.' Er mai Ryle oedd y Pennaeth cyntaf o Loegr, dangosodd fwy o barch at draddodiadau Cymru na'i ddau ragflaenydd, Llewelyn Lewellin a Francis John Jayne. Cadeiriodd gyfarfodydd Bwrdd y Coleg gan

ddangos pwyll a ffraethineb, roedd yn gyfrifol am ailfodelu'r cwrs anrhydedd mewn Diwinyddiaeth a dechreuodd ddiwygio systemau gweinyddiaeth ariannol y Coleg. Wrth sôn am Ryle, dywedodd T.F. Tout, yr Athro Saesneg a Hanes, 'roedd ei ddifrifoldeb, ei ddiffuantrwydd, a'i ymdeimlad crefyddol dwfn yn ei wneud yn rym ysbrydol a moesol go iawn … bu'n fwyaf deniadol yng nghyswllt ysgafnach ein cymdeithas fach ni, - yn garedig, yn bwyllog, ac yn gymwynasgar.' Syniad mwyaf radical Ryle oedd ei gynllun i sefydlu neuadd breswyl er mwyn galluogi myfyrwyr benywaidd i ddod i Lanbedr Pont Steffan. Fodd bynnag, nid arhosodd yng Ngheredigion yn ddigon hir i gyflawni hyn.

Ym mis Mawrth 1888, aeth Ryle yn ôl i Gaergrawnt i ddod yn Athro Hulseaidd mewn diwinyddiaeth yno. Ei brif faes diddordeb oedd yr Hen Destament. Gan weithio o fewn traddodiad ysgolheictod Anglicanaidd rhyddfrydol, cyflwynodd Ryle ganlyniadau ysgolheictod beirniadol o'r cyfandir, yn enwedig gwaith Julius Wellhausen. Dywedwyd ei fod wedi arwain 'meddyliau dynion deallus i sylweddoli mai astudio hanes yr Hen Destament, pwnc nad oedd yn tramgwyddo ar ffydd, oedd ei unig gefndir deallusol diogel.' Bu hefyd yn ddarlithydd poblogaidd a chyfeillgar.

Fel Athro Hulseaidd, roedd disgwyl i Ryle gyhoeddi rhai o'i ddarlithoedd. Gyda Montague James, cyhoeddodd gyfieithiad o *Psalms of the Pharisees, commonly called The psalms of Solomon,* (Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 1891). 120 o flynyddoedd yn ddiweddarach, mae'r gyfrol hwn yn dal i fod mewn print. Ail lyfr Ryle oedd *The canon of the Old Testament: an essay on the gradual growth and formation of the Hebrew canon of scripture* (Macmillan, 1892). Disgrifiodd yr adolygiad yn *The Athenaeum* y gyfrol hon fel yr ymgais mwyaf cywir a darllenadwy o hanes Canon Hebraeg a gyhoeddwyd yn y Saesneg hyd yn hyn. Hefyd, yn 1892, cyhoeddodd Ryle *The early narratives of Genesis* (Macmillan, 1892), gan ymdrin ag 11 o benodau cyntaf Llyfr Genesis gan nodi dylanwad mytholeg Fabilonaidd arnynt. Hefyd, golygodd Ryle Ezra, Nehemiah ac, yn hwyrach, Genesis yn *Cambridge Bible for Schools*. Cyhoeddodd *Philo and Holy Scripture* (Macmillan) yn 1895.

Cafodd Ryle ei ethol yn Llywydd Coleg y Frenhines, Caergrawnt yn 1896; ar ôl hyn, nid oedd ganddo lawer o amser i ysgrifennu. Yna, ym mis Rhagfyr 1900, penodwyd Ryle yn Esgob Caerwysg. Bu'n boblogaidd yn ei esgobaeth ond ni threuliodd amser hir yno. Ychydig dros ddwy flynedd yn ddiweddarach, daeth yn esgob ar esgobaeth fwy a chymhleth Caer-wynt. Yn ei rôl newydd, cyfarwyddodd fil o glerigwyr a rheolodd nawdd 140 o apwyntiadau. Fodd bynnag, roedd wedi gorfod gweithio'n galed iawn yn y ddwy esgobaeth; ym mis Ionawr 1904 cafodd bwl o wayw'r galon wedi'i ddilyn gan lid y pendics. Cafodd wellhad araf. Roedd hefyd wedi codi ofn ar uwch eglwyswyr ei esgobaeth newydd trwy wahardd arferion defodau penodol. Fodd bynnag, yn raddol, llwyddodd i ennyn ffydd y bobl a mawr oedd gofid yr esgobaeth gyfan pan adawodd ei swydd.




Herbert Edward Ryle

Ar ddiwedd 1910, ac yntau'n dioddef o gloffni yn ei droed, yn anfodlon, penderfynodd Ryle symud i ymgymryd â swydd ysgafnach. Cafodd ei benodi'n Ddeon Westminster ychydig cyn coroni George V. Roedd y blynyddoedd nesaf ymhlith blynyddoedd mwyaf ffrwythlon ei yrfa. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, bu'n gyfrifol am nifer o'r gwasanaethau arbennig a gynhaliwyd. Roedd ei bregethau wedi'u paratoi yn ofalus, yn syml eu ffurf ac yn uniongyrchol eu harddull. Dywedodd Archesgob William Temple nad oedd erioed wedi 'clywed yr Efengyl syml yn cael ei phregethu mewn ffordd mor fendigedig.'

Sylweddolodd Ryle mai Westminster oedd yr olygfa naturiol ar gyfer defodau cenedlaethol mawr. Ar ddiwedd y rhyfel, newidiodd ei arddull seremonïol i adlewyrchu anghenion gwlad a oedd wedi colli cynifer o'i phobl â'r diddordeb newyddmewn pasiantri a symbolaeth. Yn benodol, aeth ati i hyrwyddo syniad David Railton y dylai milwr dienw Prydeinig gael ei gladdu yn yr abaty. Mae geiriau Ryle wedi'u harysgrifennu ar garreg fedd y Milwr Dienw sef 'a British warrior unknown by name or rank.'

Yn ystod cyfnod Ryle fel Deon cafodd priodasau'r teulu brenhinol eu symud i Abaty Westminster a daethant yn ddigwyddiadau cyhoeddus. Bu'n cynorthwyo â'r gwaith o weinyddu priodas George VI ac Elizabeth Bowes-Lyon.

Yn 1920, lansiodd yr apêl gyhoeddus gyntaf i godi arian ar gyfer gwaith cynnal a chadw adeiladau'r abaty. Rhoddwyd £170,000 i gronfa Deon Ryle i'w defnyddio er mwyn atgyweirio gwaith cerrig yr abaty.

Urddwyd Ryle yn Farchog Urdd Frenhinol Fictoria yn 1911.

Nid oedd yn gryf yn gorfforol ac roedd ganddo hanes o broblemau ar ei galon. Torrodd ei iechyd yn hydref 1924. Bu farw yn y deondy ar 20 Awst 1925. Claddwyd ef yng nghorff Abaty Westminster ger bedd y Milwr Dienw.

**Ffynonellau**

FitzGerald, M., & Hawke, J. (2020, April 09). Ryle, Herbert Edward (1856–1925), dean of Westminster and biblical scholar. *Oxford Dictionary of National Biography.* Cyrchwyd ar 14 Ionawr 2021 o https://www-oxforddnb-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-35898.

Ysgrif goffa. (1925, Awst 21). *Times*, 12. Cyrchwyd ar 14 Ionawr 2021 o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS202053909/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=da8d43af

Price, D.T.W. (1977). *A History of Saint David's University College Lampeter. Volume one: to 1898.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Adolygiad llyfr. (1893). *The Athenaeum,* (3403), 50-51. https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/historical-periodicals/book-review/docview/9015386/se-2?accountid=130472

Death of Bishop Ryle. (1925, Awst 22). *Daily Telegraph*, 11. Cyrchwyd ar 14 Ionawr 2021 o https://link.gale.com/apps/doc/IO0705038614/TGRH?u=nlw_ttda&sid=TGRH&xid=ce749a32

Abaty Westminster. (2021). Herbert Edward Ryle. Cyrchwyd ar 14 Ionawr 2021 o https://www.westminster-abbey.org/abbey-commemorations/commemorations/herbert-edward-ryle#i12905

# Y Parchedig Fred Secombe

Ysgrifennodd Fred Secombe (31 Rhagfyr 1918 - 8 Rhagfyr 2016) ddeg nofel ddigrif, yn seiliedig ar ei brofiad fel clerigwr yn gweithio yn Ne Cymru.

Roedd Frederick Thomas Secombe yn dod o Abertawe; roedd ei deulu'n byw yn Mynydd Cilfái. Ef oedd yr hynaf o bedwar plentyn Frederick Ernest Secombe, teithiwr masnachol i'r cyfanwerthwr nwyddau Walters and Batchelors, a'i wraig Nellie Jane Gladys née Davies. Ei ddwy chwaer oedd Joan, a fu farw yn bedair oed o beritonitis, a Carol. Enillodd Harry, brawd iau Fred, enwogrwydd cenedlaethol fel aelod o'r 'Goons' , ac yn ddiweddarach fel cyflwynydd *Highway* a *Songs of Praise*.Nid oedd gan y teulu lawer o arian erioed; byddai eu tad yn ychwanegu at ei incwm trwy gystadlu mewn cystadlaethau cartŵn yn y *South Wales Evening Post*. Mynychodd y teulu eglwys blwyf Sant Thomas, Abertawe, ar waelod eu stryd. Byddai Fred a Harry yn mynd yno bedair gwaith bob dydd Sul, (cymundeb 8 o'r gloch, gwasanaeth 11 o'r gloch, yr ysgol Sul yn y prynhawn ac yna'r hwyrol weddi). Yn 12 oed, clywodd Fred bregeth benodol gan genhadwr; penderfynodd ar yr adeg honno y byddai'n dod yn glerigiwr.

Astudiodd Fred yn Ysgol Babanod Sant Thomas ac yna Ysgol Dynefwr, Abertawe. Wrth edrych yn ôl ar ei amser yn yr ysgol uwchradd, dywedodd ei frawd Harry '…roedd fy mrawd hefyd yn ddisgybl safon 'A', ac roedd pob meistr yn fy atgoffa o'r ffaith ei fod wedi gwneud yn dda iawn.' Aeth Fred ymlaen i astudio yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Ar ôl cael ei ordeinio, roedd ei swydd gyntaf fel caplan yn Ysbyty Sant Gwynllyw, Casnewydd, rhwng 1949 ac 1952. Yna cafodd gyfres o swyddi yn Ne Cymru. Roedd yn ficer Llan-arth gyda Cleidda, Llansanffraid a Bryngwyn (1952-1954), rheithor Machen gyda Rhydri (1954-1959) ac yn ficer Eglwys Sant Peter, Y Cocyd, Abertawe (1959-1969). Ar ôl hyn, symudodd i Lundain, gan weithio fel rheithor yn Eglwys y Santes Fair, Hanwell (1969-1983) a deon gwledig gorllewin Ealing (1978-1982). Ei swydd olaf oedd canon mygedol Eglwys Gadeiriol Sant Paul (1981-1983). Ar ôl ymddeol, symudodd yn ôl i Gaerdydd.

Ysgrifennodd Fred hefyd ddeg o nofelau hunangofiannol digrif yn seiliedig ar ei brofiad fel clerigwr yn Ne Cymru. Dywedwyd amdano, 'Mae Fred Secombe i'r clerigwyr fel James Herriot i filfeddygon a Dr Finlay i'r proffesiwn meddygol.' Roedd llyfrau Fred yn cynnwys *How green was my curate* (1989), *A curate for all seasons* (1990) ac *A comedy of clerical errors* (1995). Mae'r straeon yn dechrau ychydig ar ôl yr Ail Ryfel Byd; mae'r cymeriad canolog eisoes wedi mynychu coleg diwinyddol yn ninas gadeiriol Dewi Sant, ar ôl i adeiladau'r coleg yng Nghaerdydd gael eu dinistrio gan ffrwydryn tir Mae'n cael swydd fel curad yn nhref Pontywen, yng nghymoedd de Cymru. Dywedir bod gan Pontywen boblogaeth o chwe mil, gyda phwll glo a gwaith dur ar ei gyrion. Yn un o'i wasanaethau cyntaf, mae Secombe yn baglu dros ei gasog ac mewn ymgais i osgoi cwympo, mae'n llwyddo i daro llyfr gweddi'r ddarllenfa ar y llawr. Yn ddiweddarach, yn un o'r digwyddiadau mwyaf doniol, mae'n mynd yn sownd yng ngwaelod twb bath ei letywraig, sydd newydd gael ei baentio. Yn y diwedd, mae'n priodi Eleanor, y meddyg benywaidd sy'n ei drin. Ar ôl gadael Pontywen, daw'n ficer Abergelly, plwyf diwydiannol mawr yng nghymoedd Gorllewin Sir Fynwy. Ymhen amser, mae hefyd yn cael ei benodi'n ddeon gwledig.

Roedd Fred yn un hoff iawn o Gilbert a Sullivan, a sefydlodd gymdeithasau operatig amatur yn yr eglwys trwy gydol ei weinidogaeth i wreiddio ei eglwysi yn eu cymunedau. Roedd yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Operatig Amatur Y Cocyd yn 1962, (a elwid yn wreiddiol yn Gymdeithas Gilbert a Sullivan Eglwys y Cocyd). Nid yw'n syndod ei fod yn cael ei adnabod fel siaradwr ffraeth mewn ciniawau. Yn ei ysgrif goffa yn y *South Wales Evening Post*, dywedodd Colin Paton, 'Roedd yn ficer da. Trefnodd y plwyf yn dda iawn. Bu'n allweddol wrth ffurfio dwy eglwys newydd yn y plwyf, Sant Teilo yng Nghaereithin a Sant Deiniol yn Blaenymaes. Roedd yn gymeriad dymunol a siriol iawn.'

Wrth ysgrifennu yn *The Link*, cofiodd Richard Fenwick, 'Ond roedd yn ddyn hynod iawn - ac yn ei ffordd, yn llawer mwy doniol na Harry. Roedd yn ddyn gwych – ac yn gwmni rhyfeddol. Ac mewn sawl ffordd, efallai mai ef oedd awen Harry, fel ei frawd hynaf. Roedd ganddo gariad go iawn at hiwmor gwirion - a gallwch weld hynny mewn sawl lle yn ei lyfrau…'

**Ffynonellau**

Barker, D. (2011, 6 Ionawr). Secombe, Sir Harry Donald (1921–2001), entertainer. *Oxford Dictionary of National Biography.* https://www-oxforddnb-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-75800. [Cafwyd mynediad ar 17 Ebrill 2020]

Rev. Fred Secombe. *The Link.* Mawrth 2017. https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/images/news-and-events/2017-2/Lampeter-LINK-Darren-(1)-(1).pdf. [Cyrchwyd ar 17 Ebrill 2020]

Tributes to 'father figure' Secombe. *South Wales Evening Post.* 13 Rhagfyr, 2016. https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/1613C562195D4D28?p=UKNB. [Cyrchwyd ar 17 Ebrill 2020]

Wales online. (2019). *The vanished Swansea school with quite a remarkable list of former pupils.* *https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/vanished-swansea-school-quite-remarkable-15789966* [Cyrchwyd ar 20 April 2020]

Secombe, H. (1989). *Arias & raspberries. The autobiography of Harry Secombe. Vol. 1, 'The raspberry years.'* London: Robson Books

Secombe, F. (1997). *Chronicles of a curate. How green was my curate. A curate for all seasons. Goodbye curate.* London: Fount Paperbacks


Secombe, F. (1994). *Hello, vicar!* London: Fount Paperbacks

Secombe, F. (2001). *More chronicles of a vicar. Pastures new. The changing scenes of life. Mister Rural Dean.* Harrow: Zondervan

# Y Parch. Alexander William (Wilhelm) Schapira

Ganed Alexander William (Wilhelm) Schapira, Iddew Rwsiaidd, 1847 i Stephan mab Ichil Moses Schapira, athro Hebraeg a Dora Kritschilsky. Tua 1868 troes yn Gristion a chafodd ei fedyddio yn Kishinev. Ffoes i Brydain i ddianc erledigaeth a chofrestru yng Ngholeg Dewi Sant ar 4 Hydref 1872. Mae Cofrestr y Tiwtoriaid yn cofrestru cofnodion ei fod yn *"a converted Jew. Educated as a Rabbi. Clever and indefatigable, found great difficulty in acquiring Classics and passing examinations. After 7 terms accepted by the Church Missionary Society and left the College".*

Yn 1876 yn rhan o Gymdeithas Genhadol yr Eglwys teithiodd Schapira i Sierra Leone lle'r ordeiniwyd ef yn ddiacon. Cyfunodd waith cenhadol â rôl Athro Hebraeg a diwinyddiaeth yng Ngholeg Bae Fourah, Freetown. Sefydlwyd y Coleg gan Gymdeithas Genhadol yr Eglwys yn 1827, a'r bwriad gwreiddiol oedd iddo fod yn Ysgol Genhadol Anglicanaidd i hyfforddi athrawon. Ar ôl ymaelodi â Phrifysgol Durham yn 1876, daeth yn sefydliad dyfarnu graddau, gan ddilyn cwricwlwm Prifysgol Durham. Fel sefydliad hollgynhwysol ar gyfer dysgu uwch, gallai unrhyw fyfyriwr o gymeriad da a lwyddodd yr arholiad mynediad fynychu. Darparodd Cymdeithas Genhadol yr Eglwys ddwy ysgoloriaeth hefyd a thalu am y myfyrwyr hynny a ddymunai barhau â'u hastudiaethau mewn diwinyddiaeth.




*Choleg Bae fourah, 1930*
https://commons.wikimedia.org/wiki/File:SierraLeoneHofstra2.2.jpg

Ddwy flynedd wedyn yn 1878, ar ôl dychwelyd i Brydain a phriodi â Theresa Elvina, ordeiniwyd Schapira yn Llundain a daeth yn ddinesydd Prydeinig. Symudodd ef a'i deulu i Gaza lle parhaodd â'i waith cenhadol gyda Chymdeithas Genhadol yr Eglwys. Roedd y Gymdeithas wedi cymryd cyfrifoldeb am bedair ysgol yn ddiweddar, gan addysgu rhwng 250 a 300 o blant, ac ehangodd Schapira rôl addysgol y Gymdeithas ymhellach drwy agor ystafell ddarllen boblogaidd, a ddenai'r Mwslimiaid dosbarth uwch. Yn 1882 agorwyd fferyllfa, a chyda'r rhodd gan y diweddar Parchg John Venn o Henffordd, cyn-Brif Ysgrifennydd Cymdeithas Genhadol yr Eglwys, a chodwyd cronfa i sefydlu cenhadaeth feddygol barhaol. Yn 1879 daeth Schapira i sylw'r papurau newydd am rwystro dinistr darganfyddiad archeolegol pwysig. Wrth chwarela

cerrig, darganfu'r brodorion gerflun carreg pymtheg troedfedd o dduw Philistaidd yr oeddent wedi ei ddinistrio'n rhannol cyn iddo ymyrryd, gan ddarbwyllo'r awdurdodau Twrcaidd i osod gwarchod drosto i atal ei ddinistrio'n llwyr.

Yn 1884 dychwelodd Schapira i Lundain lle bu'n gweithio'n gurad yn Sant Mark, Whitechapel. Mae cyfrifiad 1851 yn cofnodi mai gan y plwyf yr oedd y ganran uchaf o drigolion Gwyddelig a'r rhai a aned dramor, yn bennaf o'r Almaen, yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl a Phrwsia. Roedd y trigolion hynny nad oeddent mewn gwaith tymhorol yn gweithio'n bennaf mewn busnesau teilwrio a gwneud ffrogiau, a ddenai nifer fawr o ddynion Iddewig i'r ardal. Roedd Schapira yn un o bedwar Iddew dychweledig a oedd yn gweithio yn y plwyf. Yn 1890 symudodd ef a'i deulu drachefn, yr adeg hon i Haifa lle daliodd swydd Cenhadwr yr Esgob tan 1895. Yn dilyn ail gyfnod yn gweithio yn yr East End, ac yn glerigwr cenhadol gyda Chronfa Eglwys Dwyrain Llundain, symudodd teulu Schapira am y tro olaf i Dde Cymru Newydd. Yno rhwng 1898 a 1914 bu Schapira yn dal swyddi curad yn Scotsdale, rheithor Cullenswood, offeiriad plwyf George Town, curad yn Woollahra ac wedyn yn olaf gweinidog Ynys Arglwydd Howe. Bu farw ar 14 Hydref 1915 ac mae wedi ei gladdu ym mynwent Waverley, Sydney.

**Ffynonellau:**

Press, Michael D. (2016, 6 Medi). Cerflun marblys 10 troedfedd o Sews yn Gaza yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. *Textual Cultures, Material Cultures.* Adalwyd o http://textualcultures.blogspot.com/2016/09/a-10-foot-marble-zeus-in-nineteenth.html

St George-in-the-East Church. (2020). *Jewish Presence (5) – Clergy*. Adalwyd o http://www.stgitehistory.org.uk/media/jewishconverts.html

Eglwys St George-in-the-East. (2020). *St Mark Whitechapel (Goodman's Fields) 1839-1925*. Adalwyd o http://www.stgitehistory.org.uk/stmarkwhitechapel.html

Prifysgol Sierra Leone. (2014, 17 Gorffennaf) *Historical Background*. Adalwyd o http://www.tusol.org/historical

# Yr Athro Michael Scott



Michael Scott oedd Is-ganghellor a sylfaenydd Prifysgol Glyndŵr; mae'n enwog am sicrhau prifysgol i Wrecsam.

Derbyniodd Scott ei addysg uwchradd yng Ngholeg St Chad, Wolverhampton. Aeth ymlaen i astudio yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Arhosodd yno am bum mlynedd, gan ennill BA yn 1971 ac MA mewn Saesneg yn 1973. Yn Llambed, cyfarfu â'i ddarpar wraig, Eirlys James. Roedd Eirlys, merch leol oedd yn byw yn New Street Llambed, hefyd yn astudio yng Ngholeg Dewi Sant. Graddiodd yn y Gymraeg yn 1973. Priododd y ddau yn ystod yr haf 1974. Dywedodd Scott yn 2015, 'Mae Llambed yn lle arbennig iawn i Eirlys a fi. Dyma'r alma mater i ni ein dau ond yn fwy na hynny, dyma dref enedigol Eirlys … Gwnaethom gyfarfod yn Llambed, a phriodi a dychwelyd yma gyda'n merched Jane a Jennifer.' Yn anffodus, bu farw Eirlys yn 2016; noda Scott fod unrhyw lwyddiant a gafodd yn rhannol o'i herwydd hi. Yn 2020, priododd Margaret, menyw yr oedd wedi'i chyfarfod am y tro cyntaf yn yr ysgol gynradd.

Ar ôl gadael gorllewin Cymru, astudiodd Scott gwrs TAR mewn drama ac addysg i oedolion ym Mhrifysgol Nottingham. Roedd ei swydd academaidd gyntaf yng Ngholeg Polytechnig Sunderland , (bellach Prifysgol Sunderland). Daeth yn Athro Saesneg ac yn Bennaeth Ysgol y Dyniaethau. Yn ystod ei gyfnod yno, sefydlodd berthynas addysgol hirsefydlog gyda Chwmni Brenhinol Shakespeare. Yma hefyd yr ysgrifennodd y cyntaf o'i gyfrolau a'i bapurau academaidd niferus. Yn benodol, ef oedd golygydd-sylfaenydd dwy gyfres ddylanwadol, *Text and Performance* a *The Critics Debate*. Nod *Text and Performance* oedd cyflwyno disgyblion chweched dosbarth ac israddedigion i astudio dramâu a chynyrchiadau ochr yn ochr â dulliau beirniadaeth lenyddol fwy cyfarwydd. Mae'r llyfrau'n archwilio cynyrchiadau mawr y 50 mlynedd diwethaf, yn ogystal â thestunau wedi'u hargraffu. Cyfrannodd

Scott at y gyfrol ar *Antony and Cleopatra.* Er iddo ysgrifennu am Harold Pinter, mae'r rhan fwyaf o waith Scott yn canolbwyntio ar ddramâu'r Dadeni, a Shakespeare yn benodol. Cyhoeddodd *Renaissance Drama and a Modern Audience* yn 1985 a *Shakespeare and the Modern Dramatist* yn 1995. Hyd yn oed fel is-ganghellor prifysgol, roedd Scott yn dal i ysgrifennu am Shakespeare. Dywedodd 'Hobi i mi yw hyn, felly byddaf bob tro'n ceisio dod o hyd i amser.' Cyhoeddwyd *Shakespeare's comedies: all that matters* yn 2014 a *Shakespeare's tragedies: all that matters* yn 2015. Yna, yn 2016, amserwyd *Shakespeare: a complete introduction* er mwyn cyd-fynd â phedwar can mlynedd ers marwolaeth y bardd.

Symudodd Scott i Brifysgol De Montfort, Caerlŷr, yn 1989, fel Pennaeth Ysgol y Celfyddydau a Dyniaethau i ddechrau. Yna, dechreuodd weithio fel uwch arweinydd ar ôl cael ei ddyrchafu yn Ddirprwy Is-Ganghellor. Enillodd ei PhD yn ystod ei amser yn De Montfort.

Yn ystod y cyfnod hwn, llwyddodd i lobïo'r llywodraeth i gael y DU i ailymuno ag UNESCO, ac felly cafodd ei benodi'n ymgynghorydd i Gyfarwyddwr Cyffredinol UNESCO, ar gyfer Cyngres Addysg Uwch y Byd. Bu'n gweithio hefyd gyda Banc y Byd a'r OECD ar raglen sefydlogi prifysgolion Dwyrain Ewrop, yn dilyn cwymp wal Berlin.

Dychwelodd Scott i Gymru yn 2001 fel pennaeth Sefydliad Addysg Uwch Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWI), yn Wrecsam. Roedd yn un o'r colegau mwyaf o'i fath ym Mhrydain. Cymeradwywyd NEWI yn aelod-sefydliad llawn o Brifysgol Cymru yn 2004. Yna, yn 2008, daeth yn brifysgol, gyda phwerau i ddyfarnu ei graddau ei hun a'r awdurdodaeth i ddatblygu ei phroffil ymchwil. Cafodd y brifysgol newydd ei henwi ar ôl arwr canoloesol Cymru, Owain Glyndŵr. Daeth yn un o'r math newydd o sefydliadau, yn arbenigo mewn pynciau galwedigaethol wedi'u teilwra i anghenion busnes. Mae gan y brifysgol gysylltiadau cryf â'i chymuned. Dywedodd Scott, 'Mae'r math o brifysgol y mae Glyndŵr yn ei chynrychioli wedi cael ei greu mewn gwirionedd ar gyfer yr ardal, ei phobl a'i diwydiant. Nid yw'n bodoli ar gyfer ei hun yn unig - mae ar gyfer y gymuned y mae'n ei gwasanaethu.' Mae Prifysgol Glyndŵr yn yr ardal weithgynhyrchu fwyaf yng Nghymru; gall gyflawni gwaith ymchwil cymhwysol yn helpu'r busnesau o'i chwmpas.

Yn ychwanegol at hyn, gwnaeth Glyndŵr ymdrech fawr i gael gwared ar y rhwystrau rhag addysg uwch. Meddai Scott 'Rydym eisiau cefnogi'r bobl sy'n cael eu tangynrychioli i fynd i'r brifysgol, a phrofi nad oes dim i'w ofni.' Dylai addysg brifysgol fod ar gael i bawb. Nod y brifysgol newydd oedd creu cyfleoedd newydd, yn ogystal â swyddi newydd.

Ymddeolodd Scott yn 2015. Dywedodd David Jones, cyn-Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 'Dan ei arweinyddiaeth ef, mae Glyndŵr wedi dod yn fath newydd o brifysgol, sy'n deall anghenion y gymuned y cafodd ei sefydlu ynddi, ond sydd hefyd yn eangfrydig ac yn rhyngwladol ei safbwynt.'

Ar hyn o bryd, mae Scott yn Uwch Ymgynghorydd i Lywydd Prifysgol Georgetown, Washington, ar ôl bod yn Athro Saesneg Ymweld yno. Yn 1989, rhoddodd Georgetown Wobr Ganmlwyddol am Addysgu ac Ysgolheictod Rhagorol iddo. Mae Scott hefyd yn Athro Saesneg Ymweld ym Mhrifysgol Dezhou, Shandong, Tsieina, ac yn gymrawd Llyfrgell Gladstone, Penarlâg. Mae wedi bod yn gyfarwyddwr Comisiwn Cenedlaethol y DU ar gyfer UNESCO ac yn gadeirydd UNESCO Cymru. Roedd yn aelod o gyngor y BBC yng Nghymru rhwng 2013 a 2017. Mae Scott yn gyfarwyddwr Oxford-Scott Education, a ymgorfforwyd yn 2015, sy'n cynnig gwasanaeth ymgynghoriaeth i uwch arweinwyr mewn sefydliadau addysg uwch. Mae'n Uwch Brofost er anrhydedd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac yn Uwch Ddeon a Chymrawd yn Neuadd Blackfriars, Rhydychen.

**Ffynonellau**

Porter, G. (2015, Ion 29). Tributes to Glyndwr University vice-chancellor as he steps down - Politicians and business leaders salute Michael Scott who is credited with securing Wrexham its university status. *Daily Post - North Wales Edition: Web Edition Articles (Cymru)*. Cyrchwyd o <https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/1532DF69E3D1DC60?p=UKNB>

Prifysgol Glyndŵr. (2012). Professor Michael Scott. Cyrchwyd ar 24 Medi 2020 o https://web.archive.org/web/20130217074137/http://glyndwr.ac.uk/en/AboutGlyndwrUniversity/Governance/ExecutiveGroup/ProfessorMichaelScott/

Scott, Prof. Michael, DL; Vice-Chancellor, Prifysgol Glyndŵr, 2008–15. (2019, 1 Rhagfyr). *Who's Who & Who Was Who.* Cyrchwyd ar 24 Medi 2020, o https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540884.001.0001/ww-9780199540884-e-255914.

Scott, M. (2020). Professor Michael Scott. [Tudalen LinkedIn]. LinkedIn. Cyrchwyd ar 24 Medi 2020 o https://www.linkedin.com/in/professor-michael-scott-3b89b712b/

Returning to Lampeter. (Hydref 2015). *Grapevine.* Cyrchwyd ar 24 Medi 2020 o https://issuu.com/lampetergrapevine/docs/grapevine_issue_33_oct_2015


Wiggins, M. (1990). Text and performance, Macmillan, Llundain: Martin Wine, Othello; Gamini Salgado, King Lear; Gordon Williams, Macbeth; Michael Scott, Antony and Cleopatra. *Critical Survey.* 2(1),111-113. Cyrchwyd o https://www-jstor-org.ezproxy.uwtsd.ac.uk/stable/41555513?seq=1#metadata_info_tab_contents

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam (2014). World leading publishing house releases VC's book on Shakespeare comedies. Cyrchwyd ar 24 Medi 2020 o https://www.glyndwr.ac.uk/en/AboutGlyndwrUniversity/Newsandmediacentre/Newsarchive/PressReleases2014/MichaelScottShakespeareComedy/

Bagnall, S. (2008, 6 Mai). College to be university by summer's end. *Daily Post (Lerpwl)*. Cyrchwyd o https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/1208517EB1659970?p=UKNB

'We want to raise the aspirations of communities and open the doors of the university to show that it's not a foreign place'. (2011, 6 Hydref). *Western Mail*. Cyrchwyd o https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/13A3FB9CC288E530?p=UKNB

## Robert Augustus Sharpe – Athro ac Athronydd



Ymunodd Robert (Bob) Sharpe â Choleg Dewi Sant yn 1964 fel Darlithydd Cynorthwyol mewn Athroniaeth a thros y 30 mlynedd ganlynol nes iddo ymddeol fel Athro Emeritws yn 1997, bu'n rhan fawr o ddatblygu'r Adran Athroniaeth.

Ganwyd yn Penzance, Cernyw, yn 1935, cafodd Sharpe ei fagu'n Fedyddiwr llym ac, o oedran ifanc, roedd yn meddu ar ddiddordeb dwfn mewn cerddoriaeth a barhaodd ar hyd ei oes. Astudiodd Saesneg ac Athroniaeth ym Mhrifysgol Bryste lle cafodd ei addysgu gan yr Athro Stephen Körner, un o athronwyr blaenllaw Prydain ddiwedd yr 20fed ganrif. Gadawodd Fryste gan ennill gradd MA ac astudiodd ar gyfer ei radd Doethuriaeth yng Ngholeg Birkbeck, Llundain, ar y pwnc 'Induction and Falsifiability'. Ar ôl Cymrodoriaeth ddwy flynedd ym Mhrifysgol  Reading, ymunodd Sharpe â Choleg Dewi Sant fel Darlithydd Cynorthwyol gan ddod yn Ddarlithydd yn 1985 ac yn Athro Emeritws yn 1997.

Roedd ysgrifennu Sharpe yn cynnwys athroniaeth, moeseg, seicoddadansoddi, athroniaeth gwyddoniaeth, ac athroniaeth y meddwl. Yn 1983, cyhoeddodd *Contemporary Ascetics: A Philosophical Analysis*, a honnodd nad oes 'dim byd yn gydradd â gwerth a phwysigrwydd y celfyddydau'. Yn 1997, dilynwyd hyn gan *The Moral Case against Religious Belief*, lle trafododd yr effaith lwgr y gallai crefydd ei chael ar foesoldeb, gan ddadlau bod addysgu

Cristnogol ar faterion rhywiol yn groes i'n dealltwriaeth o natur ddynol. Roedd yn ymwneud â'r pwnc hwn am ddeng mlynedd olaf ei fywyd ac roedd yn gweithio ar y dilyniant i hyn pan fu farw.

Dylanwadodd angerdd Sharpe am gerddoriaeth ar ei ysgrifennu ac archwiliodd y cysylltiadau rhwng cerddoriaeth a dyngarwch. Yn *Music and Humanism,* a gyhoeddwyd yn 2000, trafododd natur chwaeth, ystyr gerddorol, ei gwerth a'i mynegiant, a'i lle yn hanes cerddoriaeth. Cafodd ei adolygu'n frwd fel, 'darn o ysgrifennu y sylwyd arno'n gyfoethog a hynod graff y dylai gael ei ddarllen gan unrhyw un â diddordeb yn y maes estheteg gerddorol bresennol'. Yn 2004, cyhoeddodd *The Philosophy of Music*, a gafodd ei ganmol am ei ehofnder a'i onestrwydd. Hefyd, daeth â'i gariad at gerddoriaeth i mewn i'r brifysgol gan gynnal grwpiau gwerthfawrogi cerddoriaeth ar gyfer y myfyrwyr.

Roedd Sharpe hefyd yn addysgwr angerddol a chafodd ei ddisgrifio gan ei gydweithiwr, David Cockburn, yn 'athro gwych yr oedd ei frwdfrydedd tryloyw am y pwnc, ei ffordd hollol ddiymhongar, a'i amynedd di-ben-draw wedi ysbrydoli cenedlaethau o fyfyrwyr.' Arweiniodd ei angerdd am addysgu at wrthdaro ag ochr fasnachol byd addysg. Mewn llythyr i *The Independent* yn 2001, protestiodd Sharpe fod, 'Yr ysbryd hynod isel ym myd addysg yn y wlad hon, nid yn unig yn ymwneud â'r ffordd y mae helfeydd papurau diddiwedd a diangen wedi ymyrryd â dysgu ac addysgu; mae hefyd yn ganlyniad i'r ffordd yr ymddengys fod byd addysg yn cael ei gynnal gan bobl nad ydynt yn meddu ar unrhyw ddealltwriaeth o'r ffordd y mae addysg yn cyfoethogi bywydau na'r ffordd y gall fod yn siwrnai o ddarganfod…'

Yn ystod ei ymddeoliad, darganfu Sharpe y pleser a ddaw o natur ac anifeiliaid gan ddod yn fwyfwy gofidus am y creulondeb y mae bodau dynol yn achosi iddynt. Bu farw ar Ddydd Gŵyl Dewi 2006, wedi'i oroesi gan ei ail wraig, Lynne, a'i ddau blentyn, Catherine a Julian, o'i briodas flaenorol.

Yr Athro R. A. Sharpe (2006, Mai 15). *Independent.* Cyrchwyd o https://www.independent.co.uk/news/obituaries/professor-ra-sharpe-478295.html

R. A. Sharpe Protecting the human condition from Wagner and God (2006, Ebrill 24). *The Guardian.* Cyrchwyd o https://www.theguardian.com/news/2006/apr/24/guardianobituaries.obituaries

*The Link Extra* (2017) https://uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/corporate-comms/Lampeter-LINK-Extra_Final_Digital.pdf

# Edward Shotter

Roedd Edward Frank (Ted) Shotter (1933-2019) yn Ddeon Rochester ac arloeswr yn yr astudiaeth o foeseg feddygol.

Ganwyd Shotter yn Grimsby. Roedd ei dad, Frank Edward Shotter, yn ddyn busnes; roedd ei fam, Minnetta, yn wraig tŷ. Ar ôl mynychu Ysgol Sylfaen Humberstone yn Cleethorpes, astudiodd bensaernïaeth ym Mhrifysgol Durham. Gan deimlo ei fod yn cael ei alw i'r weinidogaeth, aeth ymlaen i Goleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, i astudio diwinyddiaeth. Yna, hyfforddodd ar gyfer ordeinio yn St Stephen House, Rhydychen. Roedd ei swydd gyntaf, o 1960 tan 1962, yn eglwys St Peter, Plymouth. Yn dilyn hynny, symudodd i Lundain i weithio i'r Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr. Roedd Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr yn ceisio datblygu ffyrdd arloesol ac an-sectyddol o gyfrannu at y prifysgolion, ac ysgolion meddygol Llundain yn benodol.

Bryd hynny, roedd rhai meddygon yn parhau i gredu y gallai moeseg feddygol 'gael ei ddysgu ar rownd y ward.' Fodd bynnag, roedd eraill yn dechrau sylweddoli bod datblygiadau gwyddonol a newid cymdeithasol wedi creu angen cynyddol ar gyfer astudio moeseg mewn addysg feddygol. Ysgrifennodd Andrew Goddard am Shotter: 'Heb os, ef oedd y prif rym wrth wneud myfyrwyr a meddygon ym Mhrydain yn ymwybodol o foeseg feddygol.'

Creodd Shotter y Grŵp Meddygol Llundain yn 1963, a alluogodd wedyn y gwaith o ffurfio grwpiau tebyg yn ysgolion meddygol eraill Prydain. Roedd pob un o'r grwpiau amrywiol i gael rhaglen flynyddol o ddarlithoedd, seminarau, symposia a chynadleddau ar 'faterion a godwyd gan ymarfer meddygaeth sy'n ymwneud â disgyblaethau eraill.' Dewisodd y myfyrwyr y pynciau i'w trafod, gan gynnwys *The nature and management of terminal pain* gan Cicely Saunders, *Child abuse* gan Christine Cooper a *Preparation for death* gan Anthony Bloom. Dechreuodd llawer o bobl a oedd i ddod yn ffigurau blaenllaw ym maes moeseg feddygol a chyfraith feddygol eu gyrfaoedd gyda'r grwpiau hyn. Gan ymdrechu i gynnal didueddrwydd a chynrychiolaeth gytbwys, ni siaradodd Shotter ei hun erioed yn un o'r digwyddiadau hyn. Roedd yn credu bod rhan o'i lwyddiant yn dibynnu ar beidio â chael ei ddehongli fel 'ymarfer caplaniaeth.'

Tyfodd y Sefydliad Moeseg Feddygol (bellach yn adnabyddus fel Cymdeithas Astudio Moeseg Feddygol), yn sgil gwaith Grŵp Meddygol Llundain. Shotter oedd ei gyfarwyddwr cyntaf, gan wasanaethu o 1974 tan 1989. Yn 1987, argymhellodd gweithgor y sefydliad yn 'The Pond Report' y dylid cynnwys moeseg feddygol 'hanfodol' neu 'ddadansoddol' yn y cwricwlwm meddygol. Roedd Shotter hefyd yn sefydlydd y *Journal of Medical Ethics* dylanwadol, gan alluogi bod y ddoethineb yr oedd wedi'i feithrin yn cael ei gadw mewn ysgrifau ysgolheigaidd. Cyd-olygodd ei lyfr cyntaf, *Matters of life and death,* (Darton, Longman a Todd) yn 1970. Ef hefyd oedd un o'r tri cyd-awdur ar gyfer y llyfr *Life before birth: consensus in medical ethics,* (SPCK, 1986), a oedd yn ymwneud â moeseg erthyliadau a thriniaeth anffrwythlondeb.

Gwnaed Shotter yn brebendwr Eglwys Gadeiriol St Paul yn 1977. Yna, yn 1989, cymerodd ei yrfa dro arall, a daeth yn ddeon Eglwys Gadeiriol Rochester. Ymdrechodd i ymgysylltu'r eglwys gadeiriol â'r gymuned ehangach, gan gynnwys cefnogi busnes a menter ym Medway. Roedd yn Gaplan Cwnstablaidd Sir Caint a chadeiriodd Bwyllgor Moeseg ym Mhrifysgol Greenwich. Fodd bynnag, ei etifeddiaeth hirdymor fwyaf yn Rochester oedd ei waith comisiynu o'r ffresgo gwirioneddol cyntaf i gael ei beintio mewn eglwys gadeiriol yn Lloegr ers 800 mlynedd. Er mwyn baratoi ar gyfer pen-blwydd Rochester ym 1400, paentiodd yr arlunydd Rwsiaidd, Sergei Fyodorov, ffresgo o fedydd Crist a dynion Caint ar wal ddwyreiniol yr ale groes ogleddol. Hefyd, daeth Shotter yn ysgrifennydd

Cymdeithas Eglwysi Cadeiriol Lloegr. Ar ei ymddeoliad o Rochester yn 2003, dyfarnwyd y teitl Deon Emeritws iddo.



Eglwys Gadeiriol Rochester, lle roedd Shotter yn ddeon.

Yn anarferol i rywun nad yw'n feddyg, cafodd Shotter Gymrodoriaeth er Anrhydedd yng Ngholeg Brenhinol y Llawfeddygon yn 2007. Roedd hefyd yn gymrawd y Gymdeithas Frenhinol Feddygaeth. Dyfarnodd Canolfan Hastings America'r Wobr Henry Knowles Beecher fawreddog iddo am 'gyflawniadau bywyd mewn biofoeseg.' I'r gwrthwyneb, dyfarnwyd Croes Batriarchaidd Eglwys Uniongred Rwmania iddo yn 1975.

Priododd Shotter â Jane Edgcumbe yn 1978; cafodd y cwpl ddau fab, sef James a Piers, a merch, Emma. Bu farw gartref ar 3 Gorffennaf 2019. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys y Drindod Sanctaidd, Blythburgh.

**Ffynonellau**


The Very Rev Edward Shotter - Dean of Rochester who co-founded the Journal of Medical Ethics and the London Medical Group. (2 Awst 2019).*Daily Telegraph,* t. 27. Cyrchwyd ar 4 Tachwedd 2020 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&docref=news/18397BE5D74A1CC8#copy.

Shotter, Very Rev. Edward Frank, (29 June 1933–3 July 2019), Dean of Rochester, 1989–2003, then Dean Emeritus. Who's Who & Who Was Who, Cyrchwyd ar 4 Tachwedd 2020, ohttps://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540891.001.0001/ww-9780199540884-e-34777.

Boyd, K. (16 Awst 2019). Obituary: The Very Revd. Edward Shotter. *Church Times.* Cyrchwyd ar 4 Tachwedd 2020 o https://www.churchtimes.co.uk/articles/2019/16-august/gazette/obituaries/obituary-the-very-revd-edward-shotter

Gillon, R., Boyd, K., Brazier, M., Campbell, A., Goddard, A., Wing, M. K., Limerick, S., Lock, S., & Montgomery, J. (2019). Guest editorial: a tribute to the Very Reverend Edward Shotter (FCMME). *Journal of Medical Ethics, 45*(10), 629. Cyrchwyd ar 4 Tachwedd 2020 o http://dx.doi.org.ezproxy.uwtsd.ac.uk/10.1136/medethics-2019-105831

Wallersteiner, R. (2019). Edward Shotter: dean emeritus of Rochester, who founded the *Journal of Medical Ethics*. *BMJ : British Medical Journal, 366.* Cyrchwyd ar 4 Tachwedd 2020 o http://dx.doi.org.ezproxy.uwtsd.ac.uk/10.1136/bmj.l5339

# Edmund Simons

Mae Edmund Simons yn arbenigwr treftadaeth, sydd wedi gweithio gyda Phalasau Brenhinol Hanesyddol, wedi ymchwilio i fwyd cynhanesyddol ac wedi helpu i ddatblygu gorsaf forfila yn Ne Georgia i fod yn sylfaen wyddoniaeth newydd.

Darllenodd Simons lyfrau archaeoleg a chlasuron yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, gan raddio yn 1990. Astudiodd radd diploma ôl-raddedig mewn Archeoleg Broffesiynol yn Mhrifysgol Rhydychen yn 1997, ac yna radd Meistr mewn Archeoleg Broffesiynol rhwng 1999 a 2000. Mae ganddo ddiddordeb penodol mewn archeoleg adeiladau; mae'r prosiectau y mae wedi gweithio arnynt yn amrywio o arolygon ar ucheldiroedd a ffermydd, i ddadansoddiad manwl o adeiladau mawr.

Ar ôl cwblhau ei radd Meistr, treuliodd Simons y chwe blynedd nesaf yn gweithio fel Swyddog Prosiect Adeiladau Hanesyddol ar gyfer Archaeoleg Rhydychen. Archaeoleg Rhydychen yw un o'r arferion archeoleg a threftadaeth annibynnol mwyaf yn Ewrop. Mae'n ymgymryd ag ystod o wasanaethau sy'n gysylltiedig â threftadaeth, gan gynnwys gwaith maes archeolegol masnachol cyn ei ddatblygu. Roedd llawer o waith Simon yn gysylltiedig â pharatoi Cynlluniau Rheoli Cadwraeth. Ymhlith yr adeiladau y bu'n ymwneud â nhw roedd Castell Orford a Chastell Framlingham, Tyntesfield, Palas Llys Hampton a waliau dinas Caerwrangon.

Yn 2006, daeth Simons yn bennaeth adran Treftadaeth Adeiledig Grŵp Archeoleg AOC. Yn ystod ei amser yno, daeth AOC yn arweinwyr mewn technegau arolygu arloesol, yn enwedig sganio â laser. Ar ôl hyn, bu Simons yn gweithio fel Prif Ymgynghorydd Treftadaeth a Chadwraeth Adeiledig ar gyfer MOUCHEL plc (2010 i 2011) ac yna'n Brif Ymgynghorydd Treftadaeth Adeiledig ar gyfer Atkins (2012 i 2014) ac URS Corporation (2014-2015). Yn Atkins, bu'n ymwneud ag Asesiadau Effaith Amgylcheddol ar raddfa fawr ar gyfer prosiectau seilwaith mawr, gan gynnwys y cynllun rheilffyrdd Cyflymder Uchel 2.

Ochr yn ochr â'i rolau masnachol, bu Simons yn ymwneud â Phalasau Brenhinol Hanesyddol mewn sawl capasiti rhwng 2000 a 2014. Yn benodol, roedd yn rhan o'r Tîm Hanes Bwyd. Mae hefyd wedi bod yn arbenigwr, yn fentor prosiect ac yn fonitor prosiect ar gyfer Cronfa Dreftadaeth y Loteri.

Yn 2015, daeth Simons yn Ddarllenydd mewn Treftadaeth Ddiwydiannol ym Mhrifysgol Dundee. Ar yr un pryd, fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Treftadaeth cyntaf Ymddiriedolaeth Treftadaeth De Georgia. Mae De Georgia yn ynys anghysbell a digroeso yn ne'r Iwerydd, tua 800 milltir i'r de-ddwyrain o Ynysoedd y Falklands. Mae dros hanner yr arwyneb wedi'i orchuddio'n barhaol ag iâ a dim ond mewn cwch y gellir cael mynediad i'r ynys. Mae hefyd yn amgylchedd cymharol newydd, gyda phoblogaethau mawr o adar môr a mamaliaid morol.

Roedd Simons yn ymwneud yn arbennig â'r cynlluniau i ddatblygu hen Orsaf Morfilod Grytviken. Yr orsaf oedd yr orsaf forfila gyntaf ar y lan a adeiladwyd ar gyfer morfila yn yr Antarctig yn yr oes fodern. Mae hyn yn golygu ei fod yn bwysig yn rhyngwladol. Ar ben hynny, mae cysylltiad agos rhwng yr anheddiad a Syr Ernest Shackleton, sydd wedi'i gladdu yn ei fynwent. Datblygodd Simons gynllun ar gyfer datblygu'r orsaf forfila. Defnyddiwyd y Brif Storfa, sy'n dyddio o tua 1920, i storio darnau sbârnytiau, bolltau, pibellau a ffitiadau ar gyfer y morfilwyr. Pan adawodd y morfilwyr Grytviken yng nghanol y 1960au, roedden nhw'n disgwyl dychwelyd am dymor arall. Gadawyd yr offer a'r offer yn y siop fel yr oeddent pan ymadawodd y morfilwyr. O'r herwydd, mae'r storfa yn rhoi cipolwg gwirioneddol ar sut roedd yr orsaf forfila yn gweithredu.



Gorsaf Morfilod Grytviken

Ar ôl dychwelyd i Brydain, mae Simons ar hyn o bryd yn gweithio gydag English Heritage ar brosiect yn ymwneud â bwydydd cynhanesyddol. Mae'r prosiect ar fwyta cynhanesyddol yn darparu persbectif cynhanesyddol ar sut roedd bwydydd yn cael eu trin ym Mhrydain Neolithig. Mae'r prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar esgyrn ac arteffactau a gloddiwyd o gyfadeilad coffa Côr y Cewri. Mae Simons yn aml yn gweithio gyda'r cyfryngau, naill ai fel cynghorydd arbenigol neu ar y sgrîn. Roedd yn rhan o gyfres S4C, *Y Llys* (2014), lle camodd 17 o bobl yn ôl mewn amser i 1525. Wedi'i leoli yn Llys Tre-tŵr ger Crug Hywel, roedd y grŵp yn byw, gwisgo a gweithio fel y gwnaeth pobl yn ystod teyrnasiad Harri'r VIII. Yn rhaglen Timecrashers (2015) Sianel 4, a gynhaliwyd gan Syr Tony Robinson, cafodd deg o enwogion eu rhoi mewn 'rhanbarth amser' gwahanol. Teithiodd y bobl yn ôl mewn amser i chwe chyfnod gwahanol, yn amrywio o'r Oes Haearn i'r cyfnod Edwardaidd. Mae Simons yn nodi iddo gael 'adolygiadau gwych am weiddi ar enwogion.'

Mae Simons wedi bod yn diwtor treftadaeth dosbarth meistr y Sefydliad Cynllunio Tref Brenhinol ers 2013. Mae'n gymrawd o'r Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol ac yn Gymrawd Cymdeithas Hynafiaethwyr Llundain.

**Ffynonellau**

Simons, S. (2020) Edmund S. Darllenydd, Rheoli Treftadaeth Ddiwylliannol, Prifysgol Dundee, Cymrawd Ymchwil Sefydliad Treftadaeth Ddiwylliannol, Pennaeth Rhyngwladol, Archeoleg Wessex [Tudalen LinkedIn]. LinkedIn. Cyrchwyd ar 30 Tachwedd 2020 o https://www.linkedin.com/in/edmund-s-2b659319/

Consuming Prehistory: Feeding Stonehenge. (n.d.) *Consuming Prehistory: Feeding Stonehenge.* Cyrchwyd ar 30 Tachwedd 2020 o https://consumingprehistory.wordpress.com/meet-the-team/

Llywodraeth De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De. (2020). De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De. Cyrchwyd ar 30 Tachwedd 2020 o https://www.gov.gs/

Ymddiriedolaeth Treftadaeth De Georgia (2020). Prif Storfa. Cyrchwyd ar 30 Tachwedd 2020 o http://www.sght.org/main-store/

Ymddiriedolaeth Treftadaeth De Georgia (2020). Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth Treftadaeth De Georgia 2014-15. Cyrchwyd 30 Tachwedd 2020 o http://sgstage.org/sght/wp-content/uploads/2016/08/SGHT-Annual-Report-2014-15-signed.pdf

S4C (n.d.) *Y Llys.* Cyrchwyd ar 30 Tachwedd 2020 o https://www.s4c.cymru/en/entertainment/y-llys/#

Time Crashers was like a panto version of Wolf Hall – the weekend on television. (2015, 24 Awst). *Daily Telegraph.* Cyrchwyd ar 30 Tachwedd 2020 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/1576C09172A51680?p=UKNB

# Sulak Sivaraksa



Mae Sulak Sivaraksa yn Fwdhaidd ac yn weithredwr cymdeithasol a deallusol sydd wedi cael ei enwebu ar gyfer Gwobr Heddwch Nobel ddwywaith.

Ganwyd Sulak i deulu llewyrchus ac aristocrataidd yn Bangkok yn 1933; bu ei dad yn gyfrifydd ar gyfer Monopoli British-American Tobacco. Tua diwedd yr Ail Ryfel Byd, treuliodd Sulak ddwy flynedd fel mynach newydd mewn mynachlog Fwdhaidd. Ar ôl hyn, cwblhaodd ei addysg uwchradd yng Ngholeg Assumption, sef ysgol Gatholig yn Bangkok.

Ar ôl gadael yr ysgol, symudodd Sulak i Brydain i astudio yng Ngholeg Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan. Roedd yn un o'r ychydig iawn o fyfyrwyr tramor; ym mis Hydref 1959, dim ond 9 o'r 189 o fyfyrwyr yn Llanbedr Pont Steffan oedd o wledydd tramor. Mae Sulak wedi dweud, 'Unwaith, yng Nghaerfyrddin, edrychodd ddwy fenyw arnaf. Trodd un at y llall gan ddweud: 'Dyn du!' Troais ati a dywedais, 'Ddim yn hollol, madam.' Chwaraeodd ran lawn mewn bywyd coleg gan hyd yn oed mynychu'r capel yn rheolaidd. Cafodd bywyd yn y coleg ar yr adeg honno ei nodweddu gan ddarlithoedd a thiwtorialau mewn gwisgoedd yn ogystal â chiniawau ffurfiol dyddiol gyda gras mewn Lladin. Ar ôl ei amser yng Nghymru, symudodd Sulak i Lundain i astudio'r Gyfraith gan ddod yn fargyfreithiwr yn 1961.

Dychwelodd Sulak i Wlad y Thai yn ystod y 1960au i fod yn darlithydd ym Mhrifysgol Thammasat a Phrifysgol Chulalongkorn. Ar yr adeg hon, roedd yn parhau i fod yn amddiffynnwr y frenhiniaeth Thai. Yn 1963, bu'n sylfaenydd ac yn olygydd *Social Science Review*, fforwm mawr ar gyfer myfyrdodau beirniadol ar gymdeithas Thai. Pan oedd yn olygydd, cyfarfu Sulak â Thywysog Sitthiporn sef tywysog blaengar o Wlad Thai. Heriodd Dywysog Sulak ef drwy ofyn iddo, 'Ydych chi'n gwybod unrhyw beth am ffermwyr? Maen nhw'n dioddef ac nid ydych chi'n gwybod unrhyw beth amdano!' Dechreuodd Sulak ymweld â phentrefi, temlau, a chaeau reis er mwyn iddo allu deall amodau byw pobl. Sylweddololodd bod angen bod ymhlith y dioddefaint er mwyn mynd i'r afael â sefyllfa o ddioddefaint. Yn raddol, cafodd Sulak ei weddnewid yn ymgyrchydd lefel sylfaenol dros gyfiawnder cymdeithasol.

Cydnabyddir Sulak am ddechrau symudiad corff anllywodraethol brodorol Gwlad y Thai. Lansiodd nifer fawr o sefydliadau, elusennau, a grwpiau gweithredu. Ymhlith y rhain roedd sefydliad Komol Keemthong, Sefydliad Pridi Banomyong, sefydliad Slum Childcare a Coordinating Group for Religion and Society. Yn ogystal, agorodd Suksit Siam, y siop lyfrau amgen gyntaf yng Ngwlad y Thai a chanolfan ar gyfer trafodaethau a gweithredu cymdeithasol. Heb fawr o syndod, arweiniodd gweithgareddau Sulak at wrthdaro â'r awdurdodau. Cyflawnwyd goresgyniad yng Ngwlad y Thai yn 1976 pan oedd Sulak yn ymweld â Phrydain. Dywedodd, 'Roeddwn i yn Llundain a dysgais drwy bapur newydd fy mod wedi cael fy arestio yn fy absenoldeb. Roeddent wedi llosgi fy holl lyfrau. Byddant wedi fy llosgi'n fyw hefyd felly, fel dyn dewr, arhosais i ffwrdd.' Treuliodd Sulak y ddwy flynedd nesaf y tu allan i Wlad y Thai gan weithio fel athro gwadd ym Mhrifysgol California Berkeley, ym Mhrifysgol Cornell ac ym Mhrifysgol Toronto.

Yn 1984, cafodd Sulak ei arestio a'i gyhuddo o feirniadu'r Brenin yn ei lyfr *Unmasking Thai Society* ac yn ystod cyfweliadau; cafodd ei ryddhau ar ôl i brotestiadau rhyngwladol gael eu cynnal. Yna, yn 1991, rhoddodd araith ym Mhrifysgol Thammasat sef, 'The regression of democracy in Siam.' Ar ôl hyn, cyhoeddwyd warant i'w arestio a bu'n rhaid iddo ymochel yn llysgenhadaeth yr Almaen. Yn y diwedd, llwyddodd i ffoi i Laos ac, yn y pendraw, cyrhaeddodd Stockholm. Ar ôl dychwelyd i frwydro'r cyhuddiadau yn ei erbyn, enillodd ei achos yn 1995.

Mae gweithredu Sulak yn seiliedig ar addysgu Bwdhaidd. Mae'n credu bod 'ymarfer Bwdhaidd, yn anochel, yn cynnwys pryder ynghylch materion cymdeithasol a materion gwleidyddol… Mae ceisio deall Bwdhaeth ar wahân i'w dimensiwn cymdeithasol yn gamsyniad.' Yn ei lyfr mwyaf poblogaidd, *Seeds of Peace* (International Network of Engaged Buddhists, 1992), datblygodd yr hyn a alwodd yn Fwdhaeth gyda "b" fach. Dylai pobl ddatblygu eu cymeriad yn seiliedig ar addysgu Bwdha ynghylch ymwybyddiaeth ofalgar, goddefgarwch, a rhyng-gysylltedd. Hefyd, ail-ddehonglodd Sulak y pum praesept clasurol gan eu symud y tu hwnt i unigolion i'r gymdeithas fwy. Er enghraifft, mae'r praesept cyntaf yn gwahardd cymryd bywyd; heriodd Sulak ei ddarllenwyr i archwilio sut y gallai eu gweithredoedd gefnogi rhyfeloedd, gwrthdaro rhwng yr hiliau, neu fridio anifeiliaid i'w bwyta gan fodau dynol. Mae'n gwrthod cysyniadau gorllewinol ynghylch datblygu gan fod o blaid ymagwedd a ddaw o ddiwylliant brodorol. Yn wir, dywedodd, 'Mae globaleiddio yn grefydd demonaidd sy'n gosod gwerthoedd materolaidd' a 'ffurf newydd o wladychiaeth.' Yn 1989, bu Sulak yn un o sylfaenwyr International Network of Engaged Buddhists.

Cafodd Sulak ei enwebu ar gyfer Gwobr Heddwch Nobel yn 1993 ac yn 1994. Yn 1995, dyfarnwyd Gwobr Right Livelihood, (a alwyd yn Wobr Nobel Amgen), iddo am ei 'weledigaeth, ei weithredu, a'i ymrwymiad ysbrydol wrth geisio proses ddatblygu sydd wedi'i gwreiddio mewn democratiaeth, cyfiawnder, ac uniondeb diwylliannol.' Daeth yn Gymrawd Er Anrhydedd Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan yn 1996 a dyfarnwyd Gwobr Heddwch Niwano iddo yn 2011. Mae wedi ysgrifennu dros gant o lyfrau mewn Thai ac yn y Saesneg.

**Ffynonellau**

The Right Livelihood Foundation. (2016). Sulak Sivaraksa (1995, Gwlad y Thai). Cyrchwyd ar 29 Mawrth 2021 o https://www.rightlivelihoodaward.org/laureates/sulak-sivaraksa/

Pistono, M. (n.d.) The engaged Buddhism of Sulak Sivaraksa. *Kyoto Journal.* Cyrchwyd ar 29 Mawrth 2021 o https://web.archive.org/web/prestigious 20170306211736/http://www.kyotojournal.org/the-journal/heart-work/the-engaged-buddhism-of-sulak-sivaraksa

Byrnes, S. (2011, Mai 8). Breathe in, breathe out, and drop the coke – ArtsBuddhist economist Sulak Sivaraksa has advice for Western capitalist societies. Sholto Byrne slows down and listens. *Independent on Sunday.* Cyrchwyd ar 29 Mawrth 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&docref=news/13719489D4DF2B90.

Niwano Peace Foundation. (2021). Sulak Sivaraksa. Cyrchwyd ar 29 Mawrth 2021 o http://www.npf.or.jp/pdf/grant/2011/biography_e.pdf

St John, R.B. (1998). Loyalty demands dissent: autobiography of an engaged Buddhist. Sulak Sivaraksa [Adolygiad llyfr]. *Journal of the Siam Society, 86*(1 & 2),243. Cyrchwyd ar 29 Mawrth 2021 o https://thesiamsociety.org/wp-content/uploads/1998/03/JSS_086_0q_Reviews.pdf

Price, D.T.W. (1990). *A History of Saint David's University College Lampeter. Volume two: 1898-1971.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

McCloy, R. (2019/20). UWTSD hosts fourth International Interfaith Symposium. *The Link 75,*13-14. Cyrchwyd ar 29 Mawrth 2021 o https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/alumni/lampeter-society/the-link--winter-2019-20.pdf

# Sue Slipman



Sue Slipman oedd llywydd benywaidd cyntaf Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Ers hynny, mae hi wedi dod yn ymgyrchydd profiadol gan weithio mewn amrywiaeth o rolau yn y sector cyhoeddus.

Roedd Slipman yn wyres i fewnfudwyr Iddewig o Rwsia. Dywedodd, 'Bu'r Holocost yn agos iawn i'm teulu.… roedd digon o aelodau o'r teulu nad oeddent wedi goroesi. Felly, roedd yr ymdeimlad hwn o anghyfiawnder ofnadwy yn rhan ohonof wrth dyfu i fyny.' Magwyd Slipman a'i dwy chwaer hŷn yn Brixton, De Llundain. Roedd ei thad yn fasnachlongwr, yn werthwr hufen iâ, ac yn yrrwr tacsi, yn ogystal â rhedeg siop pei a stwnsh cosher. Yn drist iawn, bu farw rhieni Slipman pan oedd hi yn ei hugeiniau cynnar.

Yn gwbl wahanol i Brixton, fe astudiodd Slipman Saesneg yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Pan oedd yn Llanbedr Pont Steffan, ymunodd â'r Blaid Gomiwnyddol. Fodd bynnag, nid oedd ganddi lawer o gyfle i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth myfyrwyr. Dywedodd, 'Nid oedd llawer o wleidyddiaeth myfyrwyr yn Llanbedr Pont Steffan; ar ôl dosbarthu cant o daflenni, dim ond defaid oedd ar ôl.' Graddiodd gan ennill gradd dosbarth cyntaf ac yna symudodd i Brifysgol Leeds i ddilyn astudiaethau ôl-raddedig. Dywedodd am ei chyfnod yn Leeds, 'Roeddwn i fod i astudio llenyddiaeth o'r 18fed ganrif ond, mewn gwirionedd, cafodd ei seilio ar dlodi ymhlith myfyrwyr.' Gweithiodd fel ysgrifennydd amser llawn Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr am ddwy flynedd ac yna bu'n lywydd o 1977 tan 1978 gan gynrychioli Broad Left. Gan ennill y llysenw 'Sue Goch', derbyniodd lawer o sylw yn y wasg. Fodd bynnag, hyd yn oed yn ystod y dyddiau hynny, roedd ganddi fwy o ddiddordeb mewn gwneud i bethau weithio nac mewn sgyrsiau gwleidyddol. Ei blaenoriaeth oedd rhedeg sefydliad mawr a oedd yn trafod â'r Llywodraeth a gydag is-gangellorion. Dywedodd, 'Roeddwn yn dysgu sut i gadeirio cynadleddau o 2,000 o bobl ac roedd tua thraean ohonynt yn udo am fy ngwaed. Felly, rydych chi'n dod i arfer â rheoli sefyllfaoedd anodd, trafod â gweinidogion, a derbyn llawer o sylw yn

y wasg.’ Olynwyd Slipman gan Trevor Phillips; dilynwyd llywydd benywaidd cyntaf Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr gan y llywydd du cyntaf.

Ar ôl gadael Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, dechreuodd Slipman weithio fel trafodwr i Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Cyhoeddus (NUPE) (sydd bellach yn rhan o UNSAIN). Er gwaethaf gwrthdaro â’r hierarchaeth, llwyddodd i aros yn NUPE o 1979 i 1985. Fodd bynnag, yn 1981 roedd yn un o sylfaenwyr y Blaid Democratiaeth Gymdeithasol (SDP) newydd a ffurfiwyd gan David Owen. Dywedodd, ‘Nod yr SDP oedd ystyried strategaethau effeithiol i wella cyfiawnder cymdeithasol mewn ffordd a oedd yn ddichonadwy yn economaidd.’ Pan unodd yr SDP a’r hen Blaid Ryddfrydol 1990, hi oedd yn un o ychydig iawn o bobl a arhosodd gyda David Owen yn rhan o’r SDP ‘barhaus’.

Yn 1985, daeth Slipman yn gyfarwyddwr Cyngor Cenedlaethol Teuluoedd Un Rhiant (NCOPF). Trawsnewidiodd grŵp pwysau traddodiadol ei arddull, a oedd â mwy o ddiddordeb mewn ymgyrchu na chanlyniadau yn sefydliad llyfn a dylanwadol â throsiant blynyddol o tua £1 filiwn. Cyflwynodd Slipman dargedau a chynllun busnes. Chwaraeodd NCOPF ran bwysig mewn sicrhau’r Ddeddf Diwygio Cyfraith Teulu a ddileodd y stigma a oedd ynghlwm ag anghyfreithlondeb ac o ran derbyn lwfans gofal plant ar gyfer y teuluoedd a oedd yn derbyn Credyd Teulu. Hefyd, arweiniodd y gwrthsafiad yn erbyn ceisiadau niferus llywodraeth John Major i osod stigma ar rieni sengl. Er, hefyd, llwyddodd Slipman i drafod contract mawr gyda’r un llywodraeth i NCOPF gynnal y cynlluniau hyfforddiant i helpu menywod di-waith yn ôl i’r farchnad lafur. Dywedodd am ei gwaith, ‘Mae rhannau helaeth o’r sector gwirfoddol yn ymdrin â materion gan feddwl y byddai newid llywodraeth yn ateb popeth. Mae’n rhaid cymryd safbwynt hirdymor ac edrych ar y newidiadau cynyddrannol y gellir eu cyflawni.’

Pan oedd yn NCOPF, daeth Slipman ei hun yn rhan o deulu rhiant sengl. Ganwyd ei mab, Gideon yn 1987.

Bu Slipman yn gyfarwyddwr y Cyngor Defnyddwyr Nwy o 1996 i 1998 ac yna daeth yn Gyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol a Chydymffurfiaeth ar gyfer Grŵp Camelot, gweithredwyr y Loteri Genedlaethol. Cynhaliodd archwiliad cymdeithasol a moesegol o’r cwmni i brofi ei ymrwymiad i waith da; hefyd, ffurfiodd banel o arbenigwyr i gynghori ar gyfrifoldeb cymdeithasol. Dywedodd, ‘Pan fydd Llywodraeth nad yw byth yn mynd i drethu a gwario, mae’n rhaid ystyried sut y gellir codi’r uchafswm arian er mwyn cyflawni’r pethau da.’ Hefyd, dywedodd am y rôl hon ‘…fy mryd ar hyd fy ngyrfa yw dwyn sefydliadau i gyfrif, gofyn sut y gallwch chi uno gwerthoedd masnachol mentergarwch a diwydiant â chyfrifoldeb cymdeithasol.’

Ochr yn ochr â’i rôl yn Camelot, bu Slipman yn gadeirydd anweithredol Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol am ddwy flynedd o 2003 i 2005. Cyfrifoldeb yr ombwdsmon yw datrys anghydfodau rhwng defnyddwyr a chwmnïau gwasanaethau ariannol. Ar gyfartaledd, mae’n ymdrin â 55,000 o achosion bob blwyddyn. Aeth Slipman ymlaen i weithio i’r Rhwydwaith Ymddiriedolaeth Sefydledig yn cynrychioli ysbytai ymddiriedolaeth sefydledig, (a elwir yn Ddarparwyr y GIG bellach), yn gyntaf fel cyfarwyddwr ac yna fel prif swyddog gweithredol. Ar yr adeg honno, bu wrth ei bodd yn rhan o’r broses gythryblus o newid systemau ym maes iechyd,’ gan weld ei rôl yn gyfle arall i archwilio sut y gellir uno effeithlonrwydd economaidd â ffurfiau newydd o atebolrwydd democrataidd.

Gadawodd Slipman y Rhwydwaith Ymddiriedolaeth Sefydledig yn 2012. Ers hynny, mae wedi bod yn gyfarwyddwr anweithredol yn Ymddiriedolaeth Sefydledig Ysbyty Coleg y Brenin. Bu hefyd yn ymddiriedolwr yr Ymddiriedolaeth Arbedion Cyflogaeth Genedlaethol o 2010 tan 2015.

Disgrifiwyd Slipman yn ddeinamo â'i thraed ar y ddaear sy'n meddu ar hiwmor amharchus. Mae hi'n unigolyn pragmatig gan deimlo mai ei harddull yw 'adnabod celfyddyd yr hyn sy'n bosibl a cheisio gweithio gyda'r graen.' Derbyniodd OBE iddi yn 1994.

**Ffynonellau**

John Fairhall, E. C. (1977, Mawrth 29). The NUS elects a woman president. *The Guardian.* Cyrchwyd o https://search.proquest.com/docview/185931319?accountid=12799

Profile: Single mum with attitude: Sue Slipman, one-parent campaigning dynamo. (1994, Mai 21). *The Independent.* Cyrchwyd ar 28 Gorffennaf 2020 o https://www.independent.co.uk/voices/profile-single-mum-with-attitude-sue-slipman-one-parent-campaigning-dynamo-1437553.html

Driscoll, M. (2000, Mawrth 5). Heart and soul of the new, caring Camelot - Interview. *Sunday Times.* p. News Review 8.. Cyrchwyd o https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/0F92A9BB888B8555?p=UKNB

Carvel, J. (2005, Hydref 26). Recovery position. *The Guardian.* Cyrchwyd o https://www.theguardian.com/society/2005/oct/26/health.healthandwellbeing

Brindle, D. (1999, Ebrill 28). The Guardian: At arm's length: finance: If charities get too chummy with government, is there a danger of losing independence? David Brindle listens to people in the field. *The Guardian*. Cyrchwyd o https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/0F26DB97EB5FD8F7?p=UKNB

Doward, J. (1999, Chwefror 21). The Observer: Business: Still a crusader after all these years: Mammon: Sue Slipman was a union radical. Now she's been drafted by the Lottery. She reckons she can be radical again. *The Observer.* Cyrchwyd o https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/0F26D755C1F01849?p=UKNB

Bedell, G. (1994, Ebrill 3). Profile: A militant moderate: Sue Slipman: The champion of the single parent is in need of a new challenge, says Geraldine Bedell. *The Independent on Sunday.* Tud. 019.. Cyrchwyd o https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/131FE8CFE0DA7A08?p=UKNB

Slipman, S. (2020). Sue Slipman, policy strategist and change leader. [Tudalen LinkedIn]. LinkedIn. Cyrchwyd ar 28 Gorffennaf 2020 o https://www.linkedin.com/in/sue-slipman-b68b18a/

NUS connect (2014). Sue Slipman: NUS' first lady. Cyrchwyd ar 29 Gorffennaf 2020 o https://www.nusconnect.org.uk/articles/sue-slipman-nus-first-lady

## Frederick Seaton Smith
## Caplan Byddin y Rhyfel Byd Cyntaf



Ganwyd Frederick ‘Fred’ Seaton Smith ym Monkseaton yn Northumberland yn fab i Frank a Mary Smith. Cofnodir galwedigaeth Smith fel perchennog planhigfa goffi. Roedd Fred wedi bod yn breswylydd yn Ysgol San Pedr yn Efrog cyn iddo gofrestru yng Ngholeg Dewi Sant yn 1910. Fel chwaraewr brwd, chwaraeodd Fred ar gyfer tîm Criced 1af XI, Rygbi 2il XV a'r tîm hoci. Roedd hefyd yn gapten y clwb tenis.

Yn ystod gwyliau'r Pasg yn 1911, priododd Fred â Martha Lilian Boyden, yr oedd ei thad, sef John Augustus Charles Boyden, yn fferyllydd a chemegydd ac yn feistr cyntaf Beacon Lodge yn Pocklington, yn yr East Riding yn Swydd Efrog. Yn fuan ar ôl iddo briodi, cafodd gyrfa academaidd Fred ei hatal pan, ym mis Mehefin 1911, cafodd ef a ‘chyd-droseddwr’ eu gorfodi i adael y coleg am gyfnod o ddeuddeg mis am dorri i mewn i ystafell myfyriwr ac achosi difrod, digwyddiad a elwir yn ‘codi stŵr’. Achosodd difrifoldeb y gosb anghytuno ymhlith y corff myfyrwyr ehangach ac, yn herfeiddiol o awdurdodau'r coleg, cludwyd y pâr euog ar ysgwyddau eu cyd-fyfyrwyr mewn gorymdaith fawreddog tuag at yr orsaf reilffordd, lle dechreuasant eu cyfnod alltudiaeth. Arweiniodd hyn at gosbau pellach yn cael eu rhoi i'r myfyrwyr a oedd wedi cymryd rhan yn yr orymdaith. Ymddangosodd y stori mewn papurau newyddion lleol ac argraffwyd cardiau post o'r olygfa fel cofroddion.

Ar ôl iddo ddychwelyd i Lanbedr Pont Steffan yn 1912, roedd Fred yn y papurau newyddion lleol eto, y tro hwn fel un o grŵp o chwe myfyriwr a gyhuddwyd o ymosod ar gyd-fyfyriwr yn ystod dadl frwd a oedd yn ymwneud â datgysylltiad yr Eglwys yng Nghymru. Pan ddaeth yr achos i'r llys, gwrthodwyd y cyhuddiadau a gwnaed i'r achwynydd dalu'r costau, ond roedd y stori yn y papurau am wythnosau. Pan adawodd Fred Llanbedr Pont Steffan gyda gradd trydydd dosbarth yn 1913, roedd yn sicr wedi gadael ei farc ar y coleg.

Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, cafodd ei ordeinio i guradiaeth St John yn Bradford ac yn 1916, ymgymerodd â rôl guradiaeth yn Eglwys All Saint's, Leeds. Ar gyfer y rhan fwyaf o gyfnod y rhyfel, arhosodd Fred yn was sifil, ond, ar ddechrau 1918, ymunodd ag Adran Gaplaniaid y Fyddin ac roedd yn rhan o Fataliwn 13, catrawdau Efrog a Chaerhirfryn, sef y 1st Barnsley Pals.

Roedd y Bataliwn yn rhan o Frigâd 94, Adran 31 a welodd ymladd mawr ac a ddioddefodd glwyfedigion difrifol yn ystod tramgwyddiad yr Almaen ar 21 Mawrth 1918. Symudodd yr Adran i Flanders i orffwys, ond cawsant eu dal mewn ymosodiad gan yr Almaen lle y gwnaethant chwarae rhan yn Amddiffyniad Coedwig Nieppe. Yn dilyn hyn, symudon nhw i Ypres ac roeddent yn rhan o Weithred Tieghem. Anafwyd Fred yn Ypres yn ystod diwrnodau olaf y rhyfel ac er iddo gael ei symud i'r ysbyty yn Wilmile i gael triniaeth, bu farw o'i anafiadau ar 15 Tachwedd 1918, bedwar diwrnod ar ôl i'r Cadoediad lofnodi. Roedd yn 31 oed.

Claddwyd Fred ym Mynwent Brydeinig Terlincthun, Wimille, yn Ffrainc, ac mae'r arysgrifiad hwn ar garreg ei fedd:

“Death both hide but not divide
Thou art but on Christ’s to other side”

Mae Fred yn cael ei goffáu ar Gofgolofn Rhyfel Ysgol San Pedr yn Efrog ac ar restr gwroniaid y coleg.

**Ffynhonnell:**

Roberts, S. (2018). *1918-2018 A Commemoration. Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan.* Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

# Dr Harrison Solow



Mae Harrison Solow yn ysgolhaig, awdures, darlithydd ac ymgynghorydd yn y byd llenyddol, academaidd, gwyddonol ac adloniant.

Cafodd ei geni yn Hawaii, cafodd ei magu yn ardal Bae San Francisco, a bu'n byw yng Nghanada a'r DU am dros 25 mlynedd. Yn blentyn, roedd hi'n darllen yn doreithiog. Fe wnaeth ei mam ei dysgu i ddarllen cyn iddi ddechrau'r ysgol; erbyn ei bod yn chwech oed, roedd hi wedi darllen cannoedd o lyfrau. Gan nad oedd "rhaglen i blant dawnus" yn ei hysgol gynradd ar y pryd, roedd hi'n astudio'r rhan fwyaf o'i dosbarthiadau gyda disgyblion blwyddyn 6 tra'n saith oed a hithau'n wreiddiol yn ddisgybl blwyddyn 2. Yn ddiweddarach, cafodd ei haddysgu mewn ysgol gwfaint, ac yn 17 oed, aeth i'r Lleiandy Ffransisgaidd i ddechrau ei hyfforddiant fel lleian. Er na fyddai "wedi cyfnewid y blynyddoedd hynny yn y lleiandy am unrhyw beth", canfu yn y pen draw nad hwn oedd ei llwybr mewn bywyd, a gadawodd i ddilyn llwybr o archwilio ac ysgolheictod yn y byd seciwlar.

Priododd yn ei hugeiniau a chafodd ddau fab, y ddau bellach yn oedolion hynod lwyddiannus. Dechreuodd ysgrifennu ar gyfer gwahanol sefydliadau tra roedd ei bechgyn yn ifanc. Pan oedd y bechgyn mewn oedran ysgol, lansiodd Dr Solow yrfa llawn amser fel ymgynghorydd, awdures a gweithredydd ar gyfer sefydliadau fel Y Cyngor Cynghori ar Statws Menywod, y Sefydliad Ymchwil ar Bolisi Cyhoeddus, NASA, ac ar gyfer ffigurau cyhoeddus nodedig yng Nghanada ac UDA.

Mae ganddi bedair gradd o dair gwlad wahanol, gyda gradd BA Anrhydedd o Brifysgol Saint Mary's Jesuit yn Halifax, Nova Scotia, gradd Meistr dwbl yn y Celfyddydau Cain o Goleg Mills yng Nghaliffornia, a gradd Doethuriaeth o Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan. Mae ganddi hefyd gymwysterau sydd gyfwerth â thair gradd BA ychwanegol, yn sgil ei hastudiaethau yn y lleiandy ac mewn amryw o brifysgolion yn yr Unol Daleithiau a Chanada. Yma, astudiodd pob cwrs y gellir ei ddychmygu, o Fioleg Feddygol, i Seryddiaeth, Athroniaeth, Calcwlws, Ffrangeg, Lladin a Cherddoriaeth Lleisiol. Aeth ymlaen i ddysgu Saesneg ym Mhrifysgol California yn Berkeley. Roedd hi hefyd yn Olygydd Prosiectau Arbennig ar gyfer Gwasg Prifysgol California yn yr 1990au.

Fe wnaeth ei gwaith ysgrifennu dynnu sylw'r Wasg, ac ymhen dim, fe'i gwahoddwyd i ysgrifennu llyfr i'r Wasg – gwahoddiad a aeth â hi i Hollywood, ac i fywyd newydd.  Yno y cychwynnodd ei bywyd rhyfeddol a hudolus fel ysgrifennwr yr oedd galw mawr amdani, lle roedd hi'n rhith-awdures,

ysgrifennwr areithiau, ymgynghorydd teledu, darlithydd a siaradwraig yn y diwydiant adloniant, mewn rhaglenni gofod ac ym mydoedd ffuglen wyddonol (llenyddol a ffilm). Wrth iddi orffen ei llyfr (gwaith athronyddol ar arwyddocâd Star Trek yn niwylliant America), a brofodd lwyddiant digynsail ac a oedd yn un o'r ddau lyfr a werthwyd orau yn hanes Gwasg Prifysgol California, fe'i cyflwynwyd gan ffrindiau cyffredin i Herbert F. Solow, sef gweithredwr, cynhyrchydd ac awdur chwedlonol yn y diwydiant, a'r grym gweithredol y tu ôl i Star Trek. Ef oedd pennaeth y stiwdio (Desilu) a gynhyrchodd Star Trek, ac yn ddiweddarach, roedd yn bennaeth ar Paramount Pictures a MGM Studios. Nododd y ddau ohonynt eu bod yn gwybod eu bod am dreulio gweddill eu bywydau â'i gilydd o'r eiliad y gwnaethant gyfarfod. Fel y dywedodd Dr Solow, "Fe briodon ni'r funud y gwnaethon ni gwrdd, er bod y briodas ei hun rai misoedd yn ddiweddarach."

Fel teulu, roeddent yn byw bywyd prysur a chreadigol, wedi'i yrru gan waith, yn gyhoeddus yn y diwydiant ac yn breifat yn eu cartref ym Malibu – gan dreulio amser gyda ffrindiau a theulu, a mynychu digwyddiadau yn Hollywood gyda ffrindiau a chydweithwyr. Roedd y ddau ohonynt ar daith lyfrau ar yr un pryd, ac yn aml yn teithio a darlithio gyda'i gilydd.

Yn 2004, daeth y ddau ohonynt i Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan – Harrison i ddarlithio ac i weithio ar ei gradd PhD, a Herbert i gefnogi Harrison ac i weithio ar ail lyfr. Roedd Dr Solow wedi'i derbyn i sawl prifysgol; fodd bynnag, pan gafodd ei chyfweld gan Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, dywedodd rhywbeth y tu mewn iddi mai "dyma'r lle." (Ar wahân i hynny, ysgrifennodd ei ffrind a'i chydweithiwr Syr Arthur C. Clarke, a oedd yn awdur ffuglen wyddonol ac archwiliwr gwych, eirda ar ei chyfer.)

Yn Llanbedr Pont Steffan, dysgodd Dr Solow sut i siarad Cymraeg; dywedodd, 'Nid wyf yn gwybod sut y gallwch chi wybod rhai pethau sy'n hanfodol i'r Cymry (neu yn hytrach y Gymraeg sy'n cael ei siarad) heb siarad Cymraeg.' Mae hi hefyd wedi ysgrifennu, 'Roedd yn ymddangos i mi fod pawb a oedd yn siarad Cymraeg yn y dref yn astudio'r cyrsiau Cymraeg gyda mi – roeddent i gyd yn mynegi diddordeb eiddgar ac yn cymryd rhan mewn sgyrsiau bywiog.' Roedd hi'n rhan o'r byd Cymraeg a Saesneg ar y campws, gan gynnwys y corau. Roedd hi'n canu bob wythnos yng nghôr capel y brifysgol, gyda chôr Cymru yn cynnwys y Plygain, y gwasanaeth eglwys Cymreig traddodiadol a gynhelir yn gynnar fore Nadolig. Yn academaidd, ffynnodd Solow. Yn anarferol iawn, derbyniwyd ei thesis Doethuriaeth, *The Bendithion Chronicles: An Epistolary Tale in a Variety of Literary Forms*, heb unrhyw angen am newidiadau. Mae'n ei ddisgrifio fel 'gwaith llenyddol epistolaidd, genre cymysg: traethawd ymchwil creadigol gyda sylwebaeth feirniadol am gyfarfyddiad enigmatig â phentref Cymraeg ei iaith, wedi'i bortreadu mewn cyferbyniad â chymdeithas ffilm a theledu Hollywood yr wyf wedi bod yn rhan ohoni ers amser maith.'

Roedd Dr Solow wrth ei bodd yn dysgu yn yr adran Saesneg yn Llanbedr Pont Steffan. Ynghyd â hyn, ysgrifennodd lyfr arobryn, darparodd seminarau ysgrifennu ar benwythnosau yn Gregynog i fyfyrwyr graddedig a'r cyhoedd, bu'n rhan o amryw o bwyllgorau, cyhoeddodd farddoniaeth, a chynhyrchodd draethawd buddugol Gwobr Pushcart o'r enw *Bendithion*, sy'n disgrifio Timothy Evans, canwr talentog a phostfeistr o Lanbedr Pont Steffan. (Mae Gwobr Pushcart yn anrhydeddu awduron gorau'r gweisg bychain o straeon byrion, barddoniaeth a thraethodau yn America.) Cafwyd dros 8,000 o gynigion yn y gystadleuaeth y flwyddyn honno. Hefyd, enillodd Dr Solow sawl gwobr gyntaf am ei straeon byrion a'i barddoniaeth yn ystod ei harhosiad yn Llanbedr Pont Steffan. Yn 2008, fe'i penodwyd yn Awdures Preswyl ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan.

Cyhoeddwyd llyfr Solow, *Felicity & Barbara Pym,* gan Cinnamon Press yn 2010. Mae'n cynnwys cyfres o negeseuon e-bost gan academydd o'r enw Mallory Cooper, at fyfyriwr disglair o'r enw Felicity, sy'n ysgrifennu traethawd am y nofelydd Saesneg, Barbara Pym. Mae Felicity yn cwyno nad oes unrhyw

beth byth yn digwydd yn straeon Pym; mae atebion Cooper yn dod â'r ffocws ar fywyd Pym, a'i byd a'i nofelau. Trwy ei llais, mae Solow yn beirniadu dulliau academaidd o ymdrin â llenyddiaeth. Mae hi'n ymdrechu i ateb y cwestiwn, 'Pam darllen llenyddiaeth?' i Felicity.

Mae Solow hefyd wedi ailysgrifennu llawer iawn o ddeunydd ar bynciau sy'n amrywio o ffiseg i'r diwydiant adloniant. Ei rôl oedd gwneud testunau aneglur yn glir i gynulleidfa na fyddai'n deall y fersiwn wreiddiol yn hawdd. Weithiau byddai'n ysgrifennu'n ddatblygiadol ar gyfer cyhoeddwr dysgedig y mae ei awduron yn academyddion medrus, ond sydd heb arfer ysgrifennu ar gyfer marchnad sy'n llai ysgolheigaidd. Comisiynwyd Solow unwaith i ailysgrifennu llyfr beiblaidd Genesis ar gyfer cyfieithwyr a oedd yn siarad pum iaith, ond nad oeddent yn ysgrifenwyr dawnus yn y Saesneg. Dywed Solow, 'Mae gallu pontio byd yr ysgolhaig/ymchwilydd (neu hyd yn oed awdur arall y mae ei bwnc neu ei ddeunydd yn aneglur) a byd y darllenydd deallus sydd am fynd i mewn i'r byd hwnnw yn foddhad mawr.'

Bu farw Herbert F. Solow, ei henaid hoff cytûn, ym mis Tachwedd 2020. Roedd miloedd o gefnogwyr yn galaru am y golled ac am ei waith ysgrifenedig. Mae Dr Solow yn dal i ymateb i'r miloedd o lythyrau cydymdeimlad sydd wedi'u hanfon ati ar gyfer y cyn Bennaeth MGM, Paramount a Stiwdios Desilu. Roedd Mr Solow yn enwog fel un o sefydlwyr *Star Trek* ac fel y cynhyrchydd gweithredol gwreiddiol, yn ogystal â'r dyn a drodd Mr Spock o'r creadur cythreulig coch, cynffonog a gyflwynwyd iddo yn wreiddiol, i'r Vulcan ymenyddol ac annwyl y mae pawb yn ei adnabod heddiw. Ef hefyd oedd dyfeisiwr y ddyfais "Captain's log", ymhlith llawer o bethau eraill. Teimlir ei golled gan ei ffrindiau a'i gydweithwyr yn Academi Motion Picture Arts and Sciences, The Director's Guild, The Writer's Guild and the Producer's Guild, yn ogystal â'r rhai a oedd yn ei adnabod pan oedd yn rhedeg Stiwdio Boreham Wood yn Llundain fel rhan o'i fandad i MGM. Harrison a Herbert yw cyd-awduron *Star Trek sketchbook:the original series*, (Pocket Books, 1997).

Yn ddiweddar, cafodd Dr Solow ei anrhydeddu gan yr Academi, trwy wahoddiad i barhau i fynychu dangosiadau a digwyddiadau yn yr Academi, fel y bu hi'n gwneud ers degawdau gyda'i gŵr.

Yn 2018, cafodd Harrison Solow ei chroesawu i sefydliad Merched yr Ymerodraeth Brydeinig oherwydd ei llinach (sy'n cynnwys rhywfaint o Gymraeg, er mawr boddhad iddi) a'i chyfraniad at lythyrau Saesneg.

Mae hi'n aelod o Lenyddiaeth Cymru; Cymdeithas yr Ysgolheigion Llenyddol, Beirniaid ac Awduron; y Sefydliad Astudiaethau Rhyng-golegol; Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolheigion; Cymdeithas Llên Saesneg Cymru a Chlymblaid Genedlaethol yr Ysgolheigion Annibynnol.

Mae Dr Solow yn dechrau ymgymryd â'i diddordebau llenyddol eto, ar ôl treulio cyfnod mewn preifatrwydd, ac mae hi newydd gyfrannu cerdd i gasgliad yn canmol Ruth Bader Ginsberg, Ustus y Goruchaf Lys yn America. Mae hi wedi dechrau derbyn gwahoddiadau am gyfweliadau eto ac mae wrthi'n gweithio ar ei phedwerydd a'i phumed llyfr ar yr un pryd.

**Ffynonellau**

Solow, Y.H. (n.d.) Dr Harrison Solow. Cyrchwyd ar 18 Mehefin 2021 o https://drharrisonsolow.medium.com/

Solow, Y.H. (n.d.) Dr Harrison Solow. Cyrchwyd 18 Mehefin 2021 o https://drharrisonsolow.academia.edu/

Broscova, H.R.L. (2010). On liminality, luminescence, & literature. *Carpe Articulum, 3*(3),40-55

Herbert F. Solow (1930-2020). (n.d.) Yn: Inside Star Trek: The Real Story.
https://www.amazon.com/Inside-Star-Trek-Real-Story/dp/0671009745/ref=sr_1_1?crid=3N2K5MXTNZTVY&dchild=1&keywords=inside+star+trek+the+real+story&qid=1628882422&sprefix=Inside+Star+Trek+%2Caps%2C247&sr=8-1

# John Griffith Stephens

Chwaraeodd John Griffith Stephens (1893-1956) rygbi rhyngwladol i Gymru, gan weithio fel curad yn Llanelli yr un pryd.

Roedd Stephens yn dod o ardal Llanbadarn Fawr, ar gyrion Aberystwyth. Roedd ei dad, hefyd o'r enw John Griffith Stephens, yn ffermwr. Aeth Stephens i Ysgol Gynradd Llangynfelyn, Ysgol Sir Aberystwyth, ac yna i Goleg Llanbedr Pont Steffan. Ymaelododd â Choleg Dewi Sant, Llanedr Pont Steffan, ar 13 Hydref 1911, yr un diwrnod ag I.T. Davies, chwaraewr rygbi rhyngwladol arall i Gymru yn y dyfodol.

Bu'n chwarae rygbi dros ei ysgolion yn Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth, ac yna yng Ngholeg Dewi Sant. Roedd yn ddyn mawr, ac felly roedd hi'n amlwg y byddai'n chwarae safle blaenwr ar y cae rygbi. Graddiodd gyda gradd BA ym mis Mehefin 1914. Pan ddechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf lai na deufis yn ddiweddarach, gwirfoddolodd Stephens i'r Corfflu Hedfan Brenhinol. Gwasanaethodd yno tan ddiwedd y rhyfel.



Tîm cyntaf Coleg Dewi Sant, 1912-13 Mae Stephens yn sefyll ar ochr chwith pellaf y rhes ganol.

Ar ôl dychwelyd adref yn ddiogel, ordeiniwyd Stephens yn ddiacon yn 1919, ac yn offeiriad yn 1920. Daeth yn gurad yn Llanelli, lle bu’n gweithio hyd at 1922. Ar yr un pryd, dechreuodd chwarae rygbi eto, gan chwarae i Lanelli. Bu'n cystadlu hefyd dros Gymru ym mhob un o bedair gêm tymor 1921-22. Roedd ei gêm gyntaf yn erbyn Lloegr ar 21 Ionawr 1922 ym Mharc yr Arfau Caerdydd. Dywedwyd bod y cae fel cors. Enillodd Cymru 28 pwynt i 6, (dwy gôl a chwe chais i ddau gais); Roedd Lloegr wedi cael eu gorchfygu. Wrth ysgrifennu ar gyfer y *Daily Telegraph*, dywedodd y Cyrnol Philip Trevor, ‘…roedd y

gêm yn un gyfres hir, ddi-dor o fuddugoliaethau i flaenwyr Cymru.' Hwn oedd y tro cyntaf i'r ddwy ochr wisgo rhifau mewn gêm ryngwladol.

Roedd gêm nesaf Cymru yn erbyn yr Alban yn Inverleith, Caeredin, ar 4 Chwefror 1922. Daeth gêm agos iawn i ben gyda sgôr gyfartal o 9 pwynt, gyda Chymru yn llwyddo i gael gôl adlam yn y munud olaf. Roedd tîm yr Alban yn cynnwys Eric Liddell, a enillodd y 400 metr yng Ngemau Olympaidd Paris 1924 yn ddiweddarach (gan ysbrydoli'r ffilm *Chariots of Fire*). Yna, ar 4 Chwefror 1922, enillodd Cymru gêm wael yn erbyn Iwerddon, gyda sgôr o 11-5. Dywedodd Philip Trevor nad oedd yn cofio gêm ryngwladol, wedi'i chwarae mewn amodau da, lle roedd safon y chwarae mor gymedrol. Fodd bynnag, cyfaddefodd fod Stephens yn un o'r pedwar neu bump a oedd wedi chwarae'n dda. Yng ngêm olaf tymor 1921-22, llwyddodd Cymru i drechu Ffrainc yn Stade Colombes, Paris ar 23 Mawrth 1922, gyda sgôr fuddugol o 11-3. Dywedodd René Crabos, capten Ffrainc, 'Cawsom ein curo gan chwaraewyr a oedd yn well ar y cyfan.' Roedd adroddiad y gêm yn y *Daily Telegraph* yn disgrifio blaenwyr Cymru fel y rhai oedd yn bennaf gyfrifol am y fuddugoliaeth. Roedd Cymru wedi ennill Pencampwriaeth y Pum Gwlad, gan orffen y tymor rygbi heb golli'r un gêm.

Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, dychwelodd Stephens i'r Awyrlu Brenhinol fel caplan. Er iddo chwarae sawl gêm i'r Awyrlu Brenhinol fel cefnwr, ni chynrychiolodd Gymru eto. Yna yn 1928, gadawodd y lluoedd eto ar ôl cwblhau ei wasanaeth. Bu'n gweithio fel curad yn New Brighton ar benrhyn Cilgwri am flwyddyn, ac yna fel ficer yn Eglwys Sant John yn Darlington nes 1954. Yn 1931, priododd Ruby Bray, chwaraewr tenis adnabyddus o Swydd Efrog.

Swydd olaf Stephen oedd fel ficer eglwys bentref yn Bossall gyda Buttercrambe ger Efrog. Bu farw yno ar 14 Mai 1956.

**Ffynonellau**

Walters, S. (2016). *The fighting parsons: the role of St David's College, Lampeter, in the early development of rugby football in Wales.* Canolfan Peniarth

Pierce, D., Jenkins, J.M. ac Auty, T. (2018). *Who's who of Welsh international rugby players.* Charlcombe Books

Trevor, P., C.B.E. (1922, 23 Ionawr). Rygbi Rhyngwladol *Daily Telegraph*, t. 11+. Cyrchwyd o https://link.gale.com/apps/doc/IO0706697575/TGRH?u=nlw_ttda&sid=TGRH&xid=0b107c13

Trevor, P., C.B.E. (1922, 13 Mawrth). Rygbi Rhyngwladol. *Daily Telegraph* , t. [15]. Cyrchwyd o https://link.gale.com/apps/doc/IO0708975536/TGRH?u=nlw_ttda&sid=TGRH&xid=854fcc90

Ein Gohebydd Arbennig. (1922, 24 Mawrth). Y Gêm Rygbi. *Daily Telegraph* , t. [12]. Cyrchwyd o https://link.gale.com/apps/doc/IO0705745447/TGRH?u=nlw_ttda&sid=TGRH&xid=5c232e19

## John Strand-Jones




Roedd John (Jack) Strand-Jones (1877-1958) yn chwaraewr rygbi undeb rhyngwladol i Gymru ac yn gaplan y fyddin yn yr ardal sydd bellach yn cael ei galw'n Pacistan.

Cafodd ei eni yng Nghaeo, Sir Gaerfyrddin, tua deng milltir i'r de-ddwyrain o Lanbedr Pont Steffan; bu farw ei dad Evan, a oedd yn ffermwr, pan oedd yn flwydd oed yn unig. Symudodd mam Strand-Jones, Margaret, i Lanbedr Pont Steffan, lle bu'n cadw llety yn Stryd y Bont.

Astudiodd Strand-Jones yn Ysgol Coleg Dewi Sant, cyn cael ei dderbyn i goleg Dewi Sant ei hun. Graddiodd gyda gradd anrhydedd ail ddosbarth yn 1899. Aeth ymlaen i Goleg yr Iesu, Rhydychen, cyn gorffen ei hyfforddiant diwinyddol yng Ngholeg San Mihangel, Aberdâr.

Roedd ganddo ddawn ragorol mewn chwaraeon. Ym mabolgampau Coleg Dewi Sant yn 1899, enillodd y rasys handicap 440 llath a chlwydi, yn ogystal â'r cystadlaethau taflu pwysau a thaflu pêl criced. Roedd wedi bod yn ddigon da i chwarae rygbi o dro i dro i'r coleg a thimau tref Llanbedr Pont Steffan pan oedd yn fachgen ysgol. Capteiniodd XV Coleg Dewi Sant yn nhymor 1898-99, yn ogystal â chwarae o dro i dro i Lanelli.




XV cyntaf Coleg Dewi Sant ar gyfer tymor 1897-98. Strand-Jones sy'n eistedd ar y pen ar y dde.

Yn Rhydychen, chwaraeodd Strand-Jones i dîm y ‘gleision’ dair gwaith, (yn 1899, 1900 ac 1901) Ei safle gwreiddiol oedd canolwr; fodd bynnag, yn Rhydychen newidiodd i safle’r cefnwr. Gwnaeth hefyd chwarae o dro i dro i dîm Cymry Llundain yn ogystal â thîm Llanelli. Yn 1902, chwaraeodd ei gêm gyntaf dros Gymru, gan gymryd lle’r cawr Billy Bancroft. Roedd ei gêm gyntaf yn erbyn Lloegr ym Mhencampwriaeth y Gwledydd Cartref. Sgoriodd gic gosb, yn ogystal â chreu cais. Cofiodd R. T. Gabe, canolwr Cymru, sut

'chwaraeodd Jones gêm ragorol y diwrnod hwnnw. Mae’n wyrth ei fod wedi llwyddo i chwarae’r gêm heb gael anaf. Ni wnaeth ddisgyn ar y bêl ond yn hytrach gwnaeth ei chodi a rhuthro drwy'r blaenwyr a oedd yn dod tuag ato â’i ben i lawr. Ar ôl un o'r rhediadau dewr hyn fe redodd hanner lled y cae cyn pasio i mi gydag ond Gamlin [cefnwr Lloegr] i'w guro.'

Y sgôr derfynol oedd Lloegr 8 Cymru 9. Chwaraeodd Strand-Jones hefyd ym muddugoliaethau Cymru dros yr Alban ac Iwerddon, (a sgoriodd yn erbyn yr Alban drwy drosi cais). Roedd Cymru wedi ennill y bencampwriaeth a'r Goron Driphlyg. Y flwyddyn ganlynol, chwaraeodd yn erbyn Lloegr (gan sgorio trosiad eto) a’r Alban. Fodd bynnag, cafodd gêm gymysg yn erbyn yr Alban; yn yr ail hanner, dywedir iddo chwarae mewn safleoedd gwael a’i fod wedi cicio'n wael. Collodd ei le yn y tîm i H. B. Winfield, a oedd, yn wahanol i Strand-Jones, wedi bod yn chwarae yn rheolaidd.

Disgrifiodd y sylwebydd enwog, W. J. T. Collins, Strand-Jones yn ei lyfr *Rugby reminiscences.*

'Roedd yn anghonfensiynol – roedd yn aml yn rhedeg pan fyddai'r cefnwr arferol wedi cicio i'r ystlys. Er mwyn dianc rhag gwrthwynebwyr a oedd yn ei ddilyn, roedd yn rhedeg drwy wneud symudiad anarferol i'r ochr, gan dorri gyda chyfres o droeon byr tuag at ochr agored y cae, gan deithio dwsin neu ugain troedfedd i'r dde heb symud ymlaen mwy na dau neu dri llath. Roedd yn beryglus, ond roedd yn gyflym … Roedd yn hynod o ddewr, byddai mynd i lawr ar y bêl o flaen y rhuthr ffyrnicaf …'

Cynrychiolodd Strand-Jones Gymru mewn dwy gamp; ym mis Mawrth 1903, enillodd gap am chwarae hoci i Gymru yn erbyn Lloegr. Chwaraeodd griced dros Sir y Fflint yn 1906 ac yn ddiweddarach dros Sir Gaerfyrddin.

Cafodd ei ordeinio'n ddiacon yn 1903 ac yna'n weinidog yn 1904. Roedd yn gurad yn yr Wyddgrug, Sir y Fflint, rhwng 1903 ac 1908, ac yna yng Nghorwen, Sir Ddinbych. Ymunodd â Chlwb Rygbi Lerpwl a pharhaodd i chwarae o dro i dro i glwb Cymry Llundain. Yn 1909, priododd [â] Winifred Farrant. Yn yr un flwyddyn ymunodd â'r Fyddin fel caplan. Cafodd ei anfon i'r Sefydliad Eglwysig yn Bengal, yn Esgobaeth Calcutta. Gwasanaethodd yn gyntaf yn Karachi ac yna yn Lahore. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, daeth yn uwch-gaplan i Lu Maes Waziristan ar y ffin gogledd-orllewinol. Ar ddiwedd y rhyfel, treuliodd dwy flynedd ar ffyrlo yn ôl ym Mhrydain. Dychwelodd i India yn 1922 fel caplan Lahore, yna Multan ac yn olaf Dalhousie. Roedd yn parhau i fod yn frwd iawn dros chwaraeon drwy gydol y cyfnod hwn a daeth yn adnabyddus am drefnu cystadlaethau rhyng-gatrodol mewn rygbi, hoci a phêl-droed.

Gadawodd Strand-Jones y fyddin yn 1929. Ar ôl dychwelyd adref, gwasanaethodd fel rheithor Hanwood, ar gyrion Amwythig, nes 1934. Roedd hefyd yn gaplan yng Ngharchar Amwythig rhwng 1930 ac 1934.

Ar ôl ymddeol, dychwelodd Strand-Jones i ganolbarth Cymru; bu'n ffermio gyda'i deulu ar fferm Pyllaucrynion ym Mharc-y-rhos, ar gyrion Llanbedr Pont Steffan. Pan ail-sefydlwyd clwb rygbi'r dref ar ôl yr Ail Ryfel Byd, Strand-Jones oedd y cadeirydd rhwng 1947 ac 1948. Bu farw yn Llanbedr Pont Steffan ar 3 Ebrill 1958. Yn 1960, dywedodd ei gyd-chwaraewr R. T. Gabe ohono 'Byddaf yn gwerthfawrogi ei fywyd am byth, gan ei fod wastad yn ddibynadwy ar y cae, ac yn fonheddwr gyda theimladau caredig ac egwyddorion uchel oddi ar y cae.'

**Ffynonellau**


Rev. J. Strand-Jones. (1958, Ebrill 10). *Times*, t. 13. Cyrchwyd o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS218847882/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=3c7ef78b

Militarian: military history form. (2014). John Jones: rugby player. Cyrchwyd ar 12 Mehefin, 2020, o www.militarian.com/threads/john-jones-rugby-player.8713/

Why Strand-Jones was rejected (1903, Mawrth 6). *Evening express,* t. 3. Cyrchwyd o https://newspapers.library.wales/view/4132121/4132124/52/strand-jones

John Strand-Jones. (2019, Medi 26). Yn Wicipedia. https://cy.wikipedia.org/wiki/John_Strand-Jones

Ancestry. (2020). Cyrchwyd o https://search.ancestrylibraryedition.co.uk

Pierce, D., Jenkins, J.M. ac Auty, T. (1991). *Who's who of Welsh international rugby players.* Charlcombe Books.

Walters, S. (2016). *The fighting parsons: the role of St David's College, Lampeter, in the early development of rugby football in Wales.* Canolfan Peniarth

# Y Parchedig Thomas James Stretch



O gasgliad Amgueddfa Caplaniaid y Fyddin Frenhinol


Caplan gyda'r Fyddin a oedd yn bresennol pan ryddhawyd carcharorion gwersyll-garchar Bergen-Belsen.

Ganwyd Thomas James Stretch yn 1915, yng Ngwdig, Sir Benfro, ac addysgwyd ef yn lleol cyn iddo gael cynnig lle yng Ngholeg Keeble, Rhydychen. Yn anffodus, gwnaeth anaf difrifol i un o'i lygaid ar y maes criced ei atal rhag derbyn y cynnig hwnnw, ac yn lle hynny, yn 1934, dechreuodd yng Ngholeg Dewi Sant, lle daeth hi'n amlwg yn fuan bod Llambed wedi elwa o'i bresenoldeb a Rhydychen ar ei cholled. Gwnaeth Stretch ragori'n academaidd, gan ennill nifer o wobrau, yn ogystal â rhagori hefyd mewn chwaraeon, ac er gwaethaf honiadau ei fod yn neilltuo gormod o'i amser yn astudio theori, mae'n enwog am dreulio amser ar y maes golff, gan lwyddo yn y diwedd chwarae a chlirio'i handicap o un ar ddeg.

Yn dilyn ei ordeiniad yn 1938, daeth Stretch yn gurad yn Eglwys Y Drindod, Aberystwyth, tan iddo ddechrau ei wasanaeth rhyfel gydag Adran Frenhinol Caplaniaid Y Fyddin (RACD). Roedd yn gysylltiedig ag 11eg Adran Arfog y Fyddin a oedd yn ymladd ei ffordd i'r Almaen o droedleoedd Normandi, ac wrth wneud hynny, yn dioddef y gyfradd golledion fwyaf a welodd Byddin Prydain yn ystod ei rhyfelgyrch yng ngogledd Ewrop.

Ar Ebrill 15fed, 1945, aeth lluoedd Prydain i mewn i wersyll-garchar erchyll Bergen-Belsen, ac yno, daethant o hyd i ryw 60,000 o garcharorion newynog ac afiach, yn ogystal â 13,000 o gyrff marw nad oedd wedi cael eu claddu. Gwnaeth Richard Dimbleby, gohebydd rhyfel y BBC adrodd mewn darllediad radio sydd bellach yn enwog...

*'Here over an acre of ground lay dead and dying people. You could not see which was which... The living lay with their heads against the corpses and around them moved the awful, ghostly procession of emaciated, aimless people, with nothing to do and with no hope of life, unable to move out of your way, unable to look at the terrible sights around them ... Babies had been born here, tiny wizened things that could not live ... A mother, driven mad,*



*screamed at a British sentry to give her milk for her child, and thrust the tiny mite into his arms, then ran off, crying terribly. He opened the bundle and found the baby had been dead for days. This day at Belsen was the most horrible of my life'*

Er mwyn atal hyd yn oed mwy o afiechyd, bu rhaid claddu ar unwaith y meirw a oedd â theiffws mewn nifer o feddau torfol, gyda chaplaniaid Iddewig a Christnogol y Fyddin yn cyd-weddïo uwchben y tyllau claddu. Roedd Stretch yn un o'r caplaniaid hynny, ac fe gafodd ei recordio ar ffilm newyddion i'r sinema yn sefyll o flaen un o'r beddau torfol a oedd ar agor. Yn edrych at y camera drwy sbectolau â ffrâm drwchus, a'i ddwylo wedi'u gwthio'n gadarn i mewn i bocedi ei wisg ryfel, siaradodd yn fyr ond yn rymus ...

*'I am the Reverend T.J. Stretch attached as padre to the formation concerning this camp. My home is at Fishguard, my parish was at Holy Trinity Church, Aberystwyth. I've been here eight days, and never in my life have I seen such damnable ghastliness. This morning, we buried over 5,000 bodies. We don't know who they are. Behind me you can see a pit which will contain another 5,000. There are two others like it in preparation. All these deaths have been caused by systematic starvation and typhus and disease, which will have spread because of the treatment meted out to these poor people by their SS guards and their SS chief.'*

Gwnaeth Stretch, a'i gydweithwyr clerigol eraill yn y Fyddin wrando'n daer ac yn astud ar garcharorion y gwersyll a oedd wedi goroesi. Gwnaeth Paul Wyand, y gohebydd Movietone News a wnaeth recordio Stretch yn siarad o flaen y twll claddu torfol gofnodi ei fod wedi gweithio *'like ten men, distributing clothing, helping to feed the sick, spreading comfort, and holding services with his colleagues at the mass graves.'*

Roedd stretch yn awyddus bod gwirionedd ofnadwy Bergen-Belson yn cyrraedd y gynulleidfa fwyaf bosibl. Ysgrifennodd, *'This is so ghastly a story that the whole world should know about it'.* O fewn wythnos o fynd i mewn i'r gwersyll, cyflwynodd Stretch ei adroddiad swyddogol ar y digwyddiadau, a'i lofnodi a'i ddyddio fel a ganlyn, *'TJ Stretch C.F., Belsen Camp, April 22nd 1945'*, oherwydd roedd ef yn awyddus bod gwirionedd yr hyn yr oedd ef wedi bod yn dyst iddo yn cael ei ddweud.

Gwnaeth Stretch arddweud ei adroddiad wrth ei fatmon (gwas yn y Fyddin), gan sicrhau bod nifer o gopïau yn cael eu paratoi a bod un ohonynt yn cael ei gyflwyno gerbron ei uwch swyddog uniongyrchol, yr Uwch Gaplan Cynorthwyol, y Parchedig JWG Steele, a wnaeth, yn ei dro, ei ddosbarthu ymhlith yr holl uwch gaplaniaid. Cyrhaeddodd copi arall swyddfa'r *Church Times*, rhan o'r Eglwys Anglicanaidd a oedd wedi'i lleoli yn Llundain. Roedd hwn yn bapur newydd prif ffrwd Cristnogol a oedd yn cael ei ddarllen yn eang, ac o ganlyniad, cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi ganddo yn hwyr ym mis Mai

Gyda dychweliad heddwch, aeth Stretch yn ôl i fywyd eglwysig fel sifiliad, yn gwasanaethu fel offeiriad a Deon Gwlad yn Swydd Gaerhirfryn. Ond gwnaeth gadw a chynnal cyswllt cryf gyda'r Fyddin, fel Uwch Gaplan y Fyddin Diriogaethol yn Swydd Gaerhirfryn. Gwnaeth hefyd barhau i hoffi golff, ac wrth chwarae rownd derfynol Gornest Golff Clerigwyr 1973, bu farw yn dilyn trawiad i'r galon.

Gwnaeth Stretch, ar orffen ei adroddiad swyddogol ar ei brofiad yn Bergen-Belsen ystyried y cwestiwn a fyddai ei ddarllenwyr yn ei gredu. Daeth i'r canlyniad y byddent yn ei gredu, oherwydd...

*'…all I have written I have seen. And what I have seen, I shall never forget. Never.'*

Ac ni ddylem ninnau anghofio chwaith.

**Y Canon David Walter Thomas – Eiriolwr balch dros ffydd, iaith a diwylliant Cymru.**

Clerigwr Cymraeg oedd David Walter Thomas a fu'n allweddol wrth sefydlu'r Eglwys Anglicanaidd Gymraeg gyntaf yn y Wladfa, Patagonia.

Ac yntau wedi'i eni ar 26 Hydref 1829, yn fab hynaf i Evan a Margaret o Gellan, Llanbedr Pont Steffan, addysgwyd Thomas yn y Mwmbwls, Abertawe ac yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Aeth yn ei flaen i Goleg yr Iesu, Rhydychen yn 1847, lle enillodd radd trydydd dosbarth Baglor yn y Celfyddydau yn y Clasuron yn 1851, ac MA yn 1854.
Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn 1852 gan Esgob Rhydychen, Samuel Wilberforce (mab William Wilberforce – yr AS enwog a fu'n arwain y mudiad gwrth-gaethwasiaeth). Fe'i ordeiniwyd yn offeiriad y flwyddyn ganlynol gan Esgob Bangor, Christopher Bethell.

Roedd ei swyddi eglwysig cyntaf fel curad Denio a Llanor ger Pwllheli, Gwynedd (1853) ac yna fel caplan Tremadog ger Porthmadog (1854-1855). Yna daeth yn gurad parhaol Penmachno cyn ei benodi yn 1860 yn ficer eglwys y Santes Ann, Mynydd Llandegai ger Bangor, lle bu'n gwasanaethu am 34 mlynedd.

Yn ystod y cyfnod hwn, daeth Thomas yn ffigwr pwysig wrth hyrwyddo sefydlu Eglwys Anglicanaidd Gymraeg ym Mhatagonia, lle roedd grŵp o ymsefydlwyr o Gymru wedi cyrraedd yn ddiweddar. Y Parchedig Hugh Davies, un o blwyfolion Thomas, oedd y gweinidog Anglicanaidd cyntaf i cyrraedd Patagonia yn 1883. Gyda chefnogaeth Thomas, roedd Davies yn gyfrifol am adeiladu Eglwys Llanddewi, Dolafon, a agorodd yn 1891.

Priododd ag Anna Thomas yn 1871, a chawsant ddau fab a thair merch. Roedd Anna hefyd yn hynod falch o'i hetifeddiaeth Gymreig a bu'n weithgar yn yr ymdrechion i ddiwygio'r Eisteddfod Genedlaethol yn y 1870au a'r 1880au. Daeth eu mab Evan hefyd yn glerigwr, a gwasanaethodd fel Athro yn y Gymraeg yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan rhwng 1903 a 1915.

Yna treuliodd Thomas flwyddyn fel ficer yn Braunston, swydd Northampton cyn symud i wasanaethu fel ficer yng Nghaergybi, Môn yn 1895. Fe'i penodwyd hefyd yn ganon Bangor.



*Need caption*

Ac yntau'n Gymro gwladgarol, cyhoeddodd Thomas yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys casgliad o bregethau ar wyrthiau'r Iesu. Roedd yn eiriolwr cyson i'r wasg eglwysig Gymreig, a gwasanaethodd fel golygydd y cyfnodolyn Cymraeg misol Amddiffynydd yr Eglwys.

Bu farw Thomas ar 27 Rhagfyr, 1905 ac mae wedi'i gladdu ym mynwent eglwys Sant Seiriol yng Nghaergybi, Môn.

**Ffynonellau:**

Butler, B. (2016, Tachwedd 20). *How did historic Gwynedd church bell end up in South America? Northwales*. Ar gael o:
http://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/how-historic-church-bell-gwynedd-12169027

Cox, P. (2015, Hydref 10). *David Walter Thomas (1829-1905)—Find A Grave...* Ar gael o:
https://www.findagrave.com/memorial/153534413/david-walter-thomas

Ellis, T. I. (1959). *THOMAS, DAVID WALTER (1829—1905), cleric. Dictionary of Welsh Biography*. Ar gael o:
https://biography.wales/article/s-THOM-WAL-1829#?c=0&m=0&s=0&cv=15&manifest=https%3A%2F%2Fdamsssl.llgc.org.uk%2Fiiif%2F2.0%2F4974950%2Fmanifest.json&xywh=425%2C731%2C1242%2C801

Evan Thomas (priest). (2020). Yn *Wikipedia*. Ar gael o:
https://en.wikipedia.org/w/index.php?title=Evan_Thomas_(priest)&oldid=938710406

Howat, J. (2003, Tachwedd). *Anglican Baptisms in Patagonia*. Ar gael o:
http://www.argbrit.org/Patagonia/patagoniabapts.htm

Wilkipedia. (2018). David Thomas (missionary priest). In *Wikipedia*. Ar gael o:
https://en.wikipedia.org/w/index.php?title=David_Thomas_(missionary_priest)&oldid=858773202

## Harry Thomas

Harry Thomas (1897-1955) oedd y dyn cyntaf o Lanbedr Pont Steffan i ddod yn esgob yn Lloegr.

Roedd Harry yn fab i Theophilus John Thomas, a oedd yn arddwr a'i wraig, Caroline, Thomas gynt. Fe'i bedyddiwyd yn Aberdâr ar 12 Medi 1897 a bu’n ddisgybl yn Ysgol Castell Cyfarthfa, Merthyr Tydfil. Gwasanaethodd yn y Gatrawd Gymreig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac enillodd dair medal ond hefyd darn o siel Almaenig yn ei gefn.

Ar ôl iddo adael y fyddin, mynychodd Knutsford Orination Test School. Sefydlodd y Parchedig P.B. 'Tubby' Clayton yr ysgol gyda'r nod o addysgu cyn-filwyr er mwyn iddynt allu ennill y cymwysterau yr oedd eu hangen arnynt i fynd i'r brifysgol a gweithio tuag at gael eu hordeinio. Aeth Thomas ymlaen i astudio yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Enillodd ysgoloriaeth Butler, gwerth £30 ar gyfer ei flwyddyn olaf. Ochr yn ochr â'i gwaith academaidd, roedd yn gyfranogwr egnïol ym mywyd y coleg. Dywedwyd amdano ei fod yn dal cymaint o swyddi yn y coleg ag unrhyw fyfyriwr arall hyd at yr amser hwnnw yn ôl pob tebyg. Ymhlith y rhain, roedd yn Llywydd Cyfarfod y Myfyrwyr, Llywydd Dadleuon Lloegr, Llywydd yr Undeb Cristnogol, is-gapten y tîm golff ac yn ysgrifennydd y tîm rygbi. Dywedwyd ei fod yn siaradwr poblogaidd a phwerus, ond yn ganwr drwg-enwog.

Ar ôl cwblhau ei radd, cafodd Thomas ei ordeinio'n ddiacon ym 1923 ac yna yn offeiriad ym 1924. Yn dilyn curadiaethau yn St Brides's Major gyda Wick ac yna yn South Hinksey gyda New Hinksey, dychwelodd i addysg uwch i astudio yng Ngholeg Oriel, Rhydychen. Yna treuliodd gyfnod byr fel cenhadwr yn Sansibar gyda'r UMCA (Universities Mission for Central Africa). Dychwelodd i Brydain ym 1930 i ddod yn is-ganghellor yng Ngholeg Diwinyddol Ely. Ysgrifennodd E.L. Mascall yn ei lyfr cofiannau, *Saraband*, "Mae'r Is-brifathro Harry Thomas wedi bod yn genhadwr yng Nghanol Affrica, ond wedi'i daro gan fellten ac roedd mewn iechyd gwael; fe wnaeth wella'n rhyfeddol ..." Roedd enw gan y coleg am ei Eingl-Gatholigaeth eithafol. Y gred gyffredinol oedd nad oedd unrhyw obaith o gael dyrchafiad eglwysig gan y dynion a gafodd eu hyfforddi yn Ely! Roedd Mascall yn teimlo bod yr hyfforddiant diwinyddol a dderbyniodd yn amwys iawn. Fodd bynnag, roedd yn cofio gyda gwerthfawrogiad bywyd y gymuned a oedd wedi'u hordeinio a'r pwyslais ar y ddisgyblaeth o weddïo'n rheolaidd.

Aeth Thomas tramor eto ym 1936. Roedd William Wand, ei ddeon yng Ngholeg Oriel bellach yn Archesgob Brisbane. Roedd Wand wedi recriwtio Thomas fel prifathro St Francis College, Milton trwy un o'i gomisariaid esgobion. Unwaith eto, fe'i hystyriwyd fel y coleg diwinyddol mwyaf Eingl-Gatholig yn Awstralia. Ochr yn ochr â hyn, daeth Thomas yn Archddiacon yn Brisbane ym 1938. Bu hefyd yn gwasanaethu fel dirprwy'r archesgob pan oedd Wand yn absennol naill ai dramor neu rhywle arall yn Awstralia. Yn ogystal â hyn, bu'n ganon preswyl ar gyfer Eglwys Gadeiriol St John's yn Brisbane.

Dychwelodd Wand i Brydain ym 1943 a chafodd ei benodi’n Esgob Caerfaddon a Wells. Unwaith eto, dilynodd Thomas ef i'w esgobaeth newydd ac ym 1945, fe'i cysegrwyd yn Esgob Cynorthwyol ar gyfer Taunton yng nghladdgell Eglwys Gadeiriol St Paul's. Dywedwyd iddo gael ei groesawu ym mhob ficerdy fel un o'r teulu. Bu'n gadeirydd Pwyllgor Addysg yr Esgobaeth am flynyddoedd lawer. Roedd hefyd yn Is-Ymwelydd i Goleg Dewi Sant ac yn Is-lywydd Cymdeithas Llanbedr Pont Steffan.

Yn ystod haf 1955, aeth Thomas yn sâl. Bu farw bythefnos yn ddiweddarach yn ysbyty yn Wells a chynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Gadeiriol Wells. Gadawodd ei weddw, Léonie, Tod gynt, a mab. Dywedwyd am Thomas, "Bydd sawl yn ei gofio, nid yn unig fel esgob bugeiliol a oedd yn coleddu'r ffydd ac athrawiaeth lawn yr eglwys, ond fel darlithydd anhygoel ... mae pobl eglwysig Gwlad yr Haf yn galaru am golli gwir dad yn Nuw."

**Ffynonellau**

Bishop of Taunton. (11 Gorffennaf 1955). *Times.* Cyrchwyd 17 Chwefror 2021 o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS218715371/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=1b87ac0e

Harry Thomas, beloved Bishop of Taunton. (15 Gorffennaf 1955). *Church Times.* Cyrchwyd 17 Chwefror 2021 o https://www.ukpressonline.co.uk/ukpressonline/view/pagview/ChTm_1955_07_15_012

Thomas, Rt Rev. Harry. (2021). WHO'S WHO & WHO WAS WHO. Cyrchwyd 17 Chwefror 2021 o https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540891.001.0001/ww-9780199540884-e-243652.

Price, D. T. W. (1990). *A History of Saint David's University College Lampeter. Volume Two: 1898-1971.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Mascall, E.L. (1992). *Saraband: the memoirs of E.L. Mascall.* Cyrchwyd 17 Chwefror 2021 o https://books.google.co.uk/books?id=pSeILfiO5pcC&pg=PA102&redir_esc=y#v=onepage&q&f=false

Kidd, A.P. (1990). *The Brisbane episcopate of William Wand 1934-1943.* (Traethawd Meistr). Prifysgol Queensland, Awstralia. Cyrchwyd 17 Chwefror 2021 o https://core.ac.uk/download/pdf/15077813.pdf

Ysgrif goffa (1955). *The Bulletin of the Lampeter Society, 8,*15

Who's who. (1923). *S. David's College Magazine, N.S. 12*(4),155

# Helen Thomas

Mae Helen Wynne Thomas (16 Awst 1966 - 5 Awst 1989) yn cael ei chofio fel merthyr Comin Greenham. Bu farw yno o ganlyniad i'r protestiadau heddwch.

Comin Greenham, ym Merkshire, oedd safle maes awyr yr UD. Ar anterth y Rhyfel Oer, roedd NATO yn bwriadu gosod 96 o deflynnau mordaith a lansir ar y ddaear yno. Byddai bob un o'r taflegrau hyn 16 gwaith yn fwy pwerus na'r bom a ddinistriodd Hiroshima. Ar ddiwedd haf 1981, gorymdeithiodd y grŵp Cymreig ‘Women for Life on Earth’ o Gaerdydd i Gomin Greenham er mwyn protestio. Sefydlon nhw Wersyll Heddwch Merched yno. Wrth i'r brotest dyfu, sefydlwyd gwersylloedd eraill o amgylch ffens y terfyn allanol. Roedd degau o filoedd o ferched yno'n barod i brotestio yn erbyn rhyfel ac arfau niwclear. Roedd y menywod yn byw mewn amodau sylfaenol iawn ac o dan aflonyddwch parhaus, gyda bygythiad parhaus o ddadfeddiant. Roeddent yn trefnu protestiadau heddychlon parhaus, yn amrywio o addurno a thorri ffens y terfyn allanol i flocio'r ffyrdd.

Roedd Helen Thomas yn wreiddiol o Gastellnewydd Emlyn. Roedd ei rhieni, John a Janet, yn rhedeg y siopau JDR Thomas a'r Goleudy. Mynychodd Helen Ysgol Dyffryn Teifi ac yna astudiodd hanes yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan.

Teithiodd Helen i India am chwe wythnos, lle cyfarfu â'r Fam Theresa. Ar ôl iddi ddychwelyd, treuliodd amser yn gweithio i'r elusen Cymorth i Ferched Caerdydd ac elusennau amrywiol eraill. Ymunodd hefyd â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear (CND). Ar ddechrau 1989, symudodd i wersyll Yellow Gate yng Nghomin Greenham. Dywedodd ei mam, ‘Roeddent wedi bod yn brin o ferched bryd hynny ac roedd hi am gymryd rhan.' Dywedodd hefyd: 'Ysgrifennodd atom gan ddweud wrthym bod y merched yn anhygoel o ysbrydoledig a sut roedd hi wir am roi o'i hamser yn enw heddwch.’ Fel siaradwr Cymraeg brwdfrydig, cyfieithodd Helen bamffled cyhoeddusrwydd Greenham i'r Gymraeg ac ysbrydolodd nifer o'i chyd-brotestwyr i ymchwilio i wleidyddiaeth genedlaetholgar Cymru.

Lladdwyd Helen mewn damwain ffordd yn y gwersyll ar ddydd Sadwrn 5 Awst 1989. Cafodd ei tharo gan ddrych ystlys blwch ceffylau heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr, wrth iddi sefyll ar y parth diogel, yn aros i groesi ffordd i bostio dau lythyr. Roedd y blwch ceffylau'n mynd â phedwar ceffyl i arddangosfa elusennol yn Chichester. Penderfynodd y cwest yn Llys Ynadon Newbury fod y farwolaeth yn un ddamweiniol. Er i deulu Helen deimlo na chafodd ei marwolaeth ei harchwilio'n llawn, nid oeddent yn gallu ailagor y cwest.



Gardd heddwch goffa Helen Thomas yng Nghomin Greenham

Wrth i'r Rhyfel Oer ddod i ben, dychwelodd y taflegrau a gweithwyr milwrol America i'r Unol Daleithiau rhwng 1990 a 1992. Caewyd Gwersyll Heddwch y Merched ar 5 Medi 2000. Agorwyd gardd heddwch yno i'r cyhoedd ddwy flynedd yn ddiweddarach. Mae'n cynnwys gardd syml i Helen, yr unig fenyw y sonnir amdani ar y safle. Mae ei gardd yn cynnwys cylch o saith carreg o chwareli Cymru, o amgylch cerflun fflam tragwyddol. Mae mainc wedi'i chysegru hefyd i gofio Helen. Mae wedi ei lleoli wrth gloc y dref yn ei thref enedigol, Castellnewydd Emlyn. Mae'r canwr gwerin, Dafydd Iwan, wedi ysgrifennu cân o'r enw Cân i Helen, er cof amdani.

**Ffynonellau**

Wales online. (2011). *The woman who paid the ultimate price for peace.* Cyrchwyd ar 24 Ebrill 2020 o https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/woman-who-paid-ultimate-price-1808843

Wilkinson, G. (28 Gorffennaf 2010). Friends to remember protestor. *Carmarthen journal.*

*Greenham Common Peace Garden.* (dim dyddiad) Cyrchwyd ar 24 Ebrill 2020 o: http://greenhamcommonpeacegarden.org.uk/.

Titcombe, E.E. (2018) *Yr ymgyrch yn parhau! (The struggle continues!): An exploration of the narratives from Wales, emerging from the Greenham Common women's peace camps 1981-2000.* (Traethawd ymchwil doethurol, Prifysgol Gorllewin Lloegr Bryste, y Deyrnas Unedig). Cyrchwyd o https://uwe-repository.worktribe.com/output/866857.

# John Roland Lloyd Thomas



John Roland Lloyd Thomas (1908-1984) oedd y myfyriwr cyntaf i raddio yn Llanbedr Pont Steffan ac i ddychwelyd fel prifathro’r coleg.

Roedd yn dod o ardal Treharris, tua deng milltir i'r de o Ferthyr Tudful; ei rieni oedd John ac Ann Thomas. Derbyniodd ei addysg yn King's College yn Taunton, cyn treulio tair blynedd yn gweithio i John Cory and Sons Ltd yn y dociau yng Nghaerdydd. Yn 1927, aeth i Goleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan; daeth yn Uwch Ysgolhaig a Llywydd Cyfarfodydd y Myfyrwyr. Fel uwch ysgolhaig, arweiniodd ddirprwyaeth i brotestio yn erbyn presenoldeb gorfodol yn y capel. Graddiodd Lloyd Thomas gyda gradd dosbarth cyntaf mewn hanes, cyn mynd ymlaen i Goleg Iesu, Rhydychen, i astudio diwinyddiaeth. Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn 1932 ac yn offeiriad yn 1933. Roedd ei swydd glerigol gyntaf yn Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr, Caerdydd, lle bu'n gurad rhwng 1932 ac 1940.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, bu’n gweithio fel caplan y fyddin yng Ngogledd Affrica, yr Eidal a Phalestina; yn y pen draw daeth yn brif gaplan Lluoedd y Dwyrain Canol. Yn 1944, fe'i penodwyd yn Rheithor plwyf sylweddol Eglwys Treganna Sant Ioan yng Nghaerdydd. Symudodd i blwyf Sant Marc, Casnewydd yn 1949. Yn yr un flwyddyn, priododd Elizabeth Swaffield; cawsant dair merch. Yn 1952, daeth Lloyd Thomas yn ddeon a ficer Eglwys Gadeiriol Sant Gwynllyw, Casnewydd.

Roedd yn aelod hirsefydlog o Gymdeithas Llanbedr Pont Steffan ac wedi gwasanaethu ar Gyngor Coleg Dewi Sant ers 1950. Yn gynnar yn 1953, gofynnwyd iddo wneud cais am swydd y prifathro. (Dywedodd yn ddiweddarach, pe bai wedi meddwl bod ganddo unrhyw siawns go iawn o gael ei benodi, ni fyddai wedi ymgeisio amdani!) Roedd deg o bobl wedi gwneud cais am y swydd. Fodd bynnag, penodwyd Lloyd Thomas, gan dderbyn gostyngiad yn ei gyflog fel deon. Nid oedd wedi cynhyrchu unrhyw weithiau ysgolheigaidd, nid oedd ganddo brofiad addysgu ac nid oedd yn siarad Cymraeg. Ac eto, roedd ganddo bersonoliaeth gref a stamina enfawr. Mae Price yn nodi mai ef oedd y dyn iawn ar gyfer y coleg ar adeg dyngedfennol.

Ar y pryd, dim ond 128 o fyfyrwyr oedd gan Goleg Llanbedr Pont Steffan; roedd 25 o'r rhain yn aelodau o'r Neuadd Ddiwinyddol. I raddau helaeth, roedd y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr yn ganlyniad uniongyrchol i'r gostyngiad yn nifer y darpar ordinandiaid yng Nghymru a Lloegr. Fodd

bynnag, roedd Lloyd Thomas wedi cymryd y byddai'r coleg yn goroesi, gan ddweud ‘mae'n amhosibl gwneud swydd yn iawn oni bai eich bod yn optimistaidd.’ Gofynnodd i gyn-fyfyrwyr annog dynion i ddod i Goleg Dewi Sant, gan dynnu sylw at y ffaith bod y coleg hefyd yn croesawu myfyrwyr nad oeddynt yn bwriadu dod yn glerigwyr. Byddent yn dal i dderbyn ‘hyfforddiant prifysgol o’r radd flaenaf gyda chefndir Cristnogol.’

Ar y pryd roedd Llanbedr Pont Steffan yn ymladd brwydr hir i sicrhau cydnabyddiaeth a chyllid digonol gan Bwyllgor Grantiau'r Brifysgol a Phrifysgol Cymru. Daeth Lloyd Thomas i'r casgliad yn gyflym, os oedd Llanbedr Pont Steffan am oroesi i’r dyfodol, mai dim ond tua phum mlynedd oedd ganddo i sicrhau cymorth y Trysorlys. Er bod y coleg yn cael ei redeg am y nesaf peth i ddim, fe'i gorfodwyd i apelio i'r Eglwys yng Nghymru am gymorth ariannol. Rhwng 1953 ac 1959, teipiodd Lloyd Thomas ei hun fyrdd o lythyrau i egluro cyflwr ansicr y coleg i bobl ddylanwadol. Manteisiodd hefyd ar bob cyfle i ymgyrchu dros y coleg, ac roedd yn gwrthod derbyn ei fod wedi cael ei drechu ar adegau. Bwriad Apêl Gwaddol Newydd, a lansiwyd ym mis Mai 1955, oedd codi o leiaf £100,000 i ganiatáu i'r coleg aros ar agor. Fodd bynnag, y gwir obaith oedd y byddai ymgyrch codi arian lwyddiannus yn perswadio Pwyllgor Grantiau'r Brifysgol i helpu Llanbedr Pont Steffan. Fe wnaeth trafodaethau gyda Phwyllgor Grantiau'r Brifysgol barhau am gyfnod hir. Ystyriwyd bod Coleg Dewi Sant, a’i nifer amcangyfrifedig o 250 o fyfyrwyr, yn rhy fach, ond gwrthodwyd unrhyw gynnig i ehangu oherwydd ei leoliad anghysbell.

Yn y pen draw, yn 1960, cynigiodd Coleg y Brifysgol, Caerdydd, noddi Coleg Dewi Sant. Roedd Pwyllgor Grantiau'r Brifysgol o'r farn y byddai hyn yn ei alluogi i argymell cymorth ariannol ar gyfer Llanbedr Pont Steffan. Byddai Coleg Dewi Sant yn derbyn grant gan y Trysorlys trwy Brifysgol Caerdydd. Roedd ei sefyllfa ariannol yn sicr am y deng mlynedd nesaf o leiaf. Gwelwyd ehangu sylweddol yn y blynyddoedd canlynol. Derbyniwyd y menywod cyntaf fel israddedigion yn 1965, ac ehangwyd ystod draddodiadol y coleg o bynciau. Yn 1967, cymeradwywyd ymgorffori’r coleg ym Mhrifysgol ffederal Cymru.

Mae’n bosibl oherwydd nad oedd yn gwneud llawer o waith dysgu, derbyniodd Lloyd Thomas gyfrifoldebau gweinyddol. Ym mis Hydref 1956, daeth yn Gofrestrydd; roedd hyn yn cynnwys bod yn gyfrifol am dderbyniadau a llawer o gyfweliadau ag ymgeiswyr. Roedd yn Ganon Eglwys Gadeiriol Dewi Sant rhwng 1956 ac 1975, ac yn Ganghellor rhwng 1963 ac 1975. Mae Price yn nodi ei fod, trwy ei holl flynyddoedd fel prifathro, yn offeiriad yn anad dim; roedd yn ofalus i fynychu capel y coleg bob bore a gyda'r nos yn ystod y tymor.

Ymddeolodd Lloyd Thomas yn 1975; bu farw ar 11 Ebrill 1984. Dywedodd Brian Morris, un o'i olynwyr fel prifathro, yn ei wasanaeth coffa yng nghapel y coleg, ‘Oni bai am Roland Lloyd Thomas, ni fyddai'r un ohonom yma heddiw...Cawn ddiolch iddo ef am oroesiad, steil, a ffyniant presennol y Coleg Prifysgol.’

**Ffynonellau**

Price, D. T. W. (1990). *A History of Saint David’s University College Lampeter. Volume Two: 1898–1971.* Gwasg Prifysgol Cymru

Y Parchedig J. R. Lloyd Thomas. (1984, 19 Ebrill). *The Times*, t. 14. Cyrchwyd o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS237735571/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=0dc080fc

Thomas, y Parchedig. John Roland Lloyd, (22 Chwefror 1908–11 Ebrill 1984), Pennaeth Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, 1953-75; Canon Dewi Sant, 1956–75, Canghellor, 1963–75. *Who’s who*

*& Who was who.* Cyrchwyd ar 4 Mehefin 2020, o https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540891.001.0001/ww-9780199540884-e-169756.

Lloyd Thomas, J.R. (1976). Sgwrs mewn cyfarfod Cymdeithas Llanbedr Pont Steffan am 11.30am ar 18 Mehefin, 1975, a roddwyd gan y Parchedig Brifathro. *Supplement to the Lampeter Society Bulletin, 1976, printed as a tribute to the Rev. Chancellor J.R. Lloyd Thomas, M.A.*

Ysgrifau coffa. Cyn Brifathro, John Roland Lloyd Thomas (1908-1984) (1985). *The Lampeter Link of the Lampeter Society of Old Students 38,* 18-19

# Randolph Thomas



Alfred James Randolph Thomas yw Cadeirydd y Cyngor ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae'n offeiriad yr Eglwys yng Nghymru ac yn gyn-Archddiacon Aberhonddu.

Mynychodd Thomas Ysgol Ramadeg Llanelli, cyn symud i Goleg Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan. Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn 1971 ac yn offeiriad yn 1972. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, priododd Jean Mary Gravell. Cawsant dri mab o'r enw Simon, Stuart a Mathew. Yn anffodus, bu farw Jean yn 2018, yn 67 oed.

Mae Thomas wedi treulio'i weinidogaeth gyfan yn Ne a Chanolbarth Cymru. Gweithiodd fel curad yng Nghydweli yn ei swydd gyntaf. Cafodd ail swydd fel curad yn eglwys Dewi Sant yng Nghaerfyrddin, cyn dod yn ficer tîm yn Aberystwyth yn 1976. Yn 1981, fe'i penodwyd yn ficer Betws a Rhydaman yn un, tua phymtheng milltir i'r gogledd-ddwyrain o Lanelli. Ynghyd â hyn, roedd yn Ddeon Gwledig Dyffryn Aman rhwng 1990 a 1993. Yn ystod ei amser ym Metws a Rhydaman, roedd eisoes yn nodedig am ei rôl mewn materion cyhoeddus, yn enwedig ym maes tai ac addysg.

Nesaf, gwasanaethodd fel ficer Eglwys Sant Pedr yng Nghaerfyrddin, yr eglwys blwyf fwyaf yn esgobaeth Tyddewi, rhwng 1993 a 2002. Yn ystod ei amser yno, rhoddwyd rhaglen adfer fawr ar waith. Llwyddodd archeolegwyr i leoli penglog Syr Richard Steele, yr ysgrifydd, dramodydd a chyd-sylfaenydd enwog *The Tatler,* mewn casged yng nghrypt Eglwys Sant Pedr. Etholwyd Thomas yn ganon o Eglwys Gadeiriol Dewi Sant yn 1996.

Daeth Thomas yn Archddiacon Aberhonddu yn 2003. Yn y Cymun Anglicanaidd, mae archddiaconiaid yn offeiriaid gydag awdurdod gweinyddol a ddirprwyir gan yr esgob. Neilltuir ardal ddaearyddol benodol i bob un, a elwir yn archddiaconiaeth. Mae eu dyletswyddau fel arfer yn cynnwys goruchwyliaeth ddisgyblu gyffredinol o'r clerigwyr a gofalu am eiddo'r eglwys. Ynghyd â'i waith fel archddiacon, roedd Thomas yn Ficer Bronllys gyda Llanfilo rhwng 2002 a 2006 ac yna'n Offeiriad â gofal dros Llanfrynach a Chantref gyda Llanhamlach, ychydig filltiroedd i'r de-ddwyrain o Aberhonddu, rhwng 2006 a 2013. Ymddeolodd Thomas ym mis Ionawr 2013 a chafodd ei anrhydeddu gyda'r teitl Archddiacon Emeritws.

Yn 1989, roedd Thomas yn un o sylfaenwyr Cartrefi Cymru, elusen sy'n cefnogi pobl ag anghenion ychwanegol. Ei nod yw sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu, sy'n byw yng Nghymoedd De Cymru ac yng nghefn gwlad Cymru, yn gallu byw yn eu cymunedau lleol gyda chymorth o'r radd flaenaf. Yn wreiddiol, gobaith Cartrefi Cymru oedd helpu pobl i ddianc o sefydliadau mawr a chael cymorth i fyw yn agosach at eu cartrefi teuluol. Mae bellach yn darparu cymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu i fyw fel tenantiaid â chymorth o gymdeithasau tai.

Yn 1991, sefydlodd Thomas Ganolfan Deuluol Eglwys Sant Paul yn Llanelli i ddarparu cymorth i deuluoedd yn yr ardal leol. Gall plant a'u rhieni a'u gofalwyr gael gafael ar gymorth drwy amrywiaeth o ddarpariaethau. Nod y ganolfan yw sicrhau bod plant yn cael dechrau da mewn bywyd, gyda'r iechyd gorau posibl, yn rhydd o unrhyw gamdriniaeth a cham-fanteisio, a'u bod yn cael ystod gynhwysfawr o gyfleoedd mewn addysg a dysgu. Mae'r ganolfan yn cefnogi pob plentyn o dan 16 oed, yn ogystal ag unrhyw un sy'n ymgymryd â'r 'rôl rhianta'. Mae'n rhoi mynediad am ddim i blant i amrywiaeth eang o weithgareddau chwarae, yn cynnal cyrsiau achrededig am ddim ar sgiliau rhianta, ac yn trefnu teithiau a thripiau am ddim. Mae ei bolisi 'drws agored' yn hybu cyfleoedd cyfartal ar gyfer pob teulu. Mewn maes tebyg, sefydlodd Thomas Ganolfan Deuluol Tŷ Ni yng Nghaerfyrddin yng nghanol y 1990au, a Chanolfan Deuluol Eglwys Sant Ioan yn Aberhonddu yn 2008.

Mae Thomas hefyd wedi cadeirio Grŵp Gwalia, sef un o brif ddarparwyr gwasanaethau tai, gofal a chymorth yn Ne a Chanolbarth Cymru. Mae wedi gwasanaethu fel Ynad Heddwch, fel cyfarwyddwr anweithredol Bwrdd Iechyd Hywel Dda ac fel llywodraethwr Coleg Crist Aberhonddu. Bu'n gadeirydd grŵp Diogelu Eglwysi yng Nghymru tan 2013. Yn 2001, penododd y Frenhines ef yn aelod o Urdd Sant Ioan o Jerwsalem. (Dyma'r urdd foneddigaidd sydd fwyaf adnabyddus am sefydlu a chynnal Ambiwlans Sant Ioan.)

Mae Thomas wedi bod yn Gadeirydd Cyngor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ers2014 ac yn Gadeirydd Prifysgol Cymru ers 2018. Yn ogystal â hyn, bu'n Gadeirydd Prifysgolion Cymru rhwng 2015 a 2019 ac mae wedi bod yn Gadeirydd y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg ers 2015.

**Ffynonellau**


Thomas, R. (2021). Cadeirydd y Cyngor ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant [Tudalen LinkedIn] LinkedIn. Cyrchwyd ar 16 Mawrth 2021 o https://www.linkedin.com/in/randolph-thomas-58589763/

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. (2021). Llywodraethu a rheoli. Cyrchwyd ar 16 Mawrth 2021 o https://www.uwtsd.ac.uk/governance-management/governance/

Tatler essayist's skull discovered in lead box. (2000, 26 Medi). *Guardian.* Cyrchwyd ar 16 Mawrth 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&docref=news/0F28998AD53D7591

Archddiacon. (2013). In Livingstone, E. (gol.) *The Concise Oxford Dictionary of the Christian Church.* Cyrchwyd ar 16 Mawrth 2021 o https://www-oxfordreference-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/acref/9780199659623.001.0001/acref-9780199659623-e-370.

Cartrefi Cymru (2018). Ein taith. Cyrchwyd ar 16 Mawrth 2021 o https://www.cartrefi.coop/who-we-are/our-journey

Thomas, yr Hybarch Alfred James Randolph. Yn: *Crockford's Clerical Directory* (101st ed, 2010-11). Llundain: Church House Publishing

Dewis Cymru. (2021). Canolfan Deuluol Sant Paul – Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd. Cyrchwyd ar 22 Mawrth 2021 o https://www.dewis.wales/ResourceDirectory/ViewResource.aspx?id=22177

Canolfan Deuluol Sant Paul (2020). Adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 ar gyfer Canolfan Deuluol Sant Paul. Cyrchwyd ar 22 Mawrth 2020 o https://register-of-charities.charitycommission.gov.uk/charity-search?p_p_id=uk_gov_ccew_onereg_charitydetails_web_portlet_CharityDetailsPortlet&p_p_lifecycle=2&p_p_state=maximized&p_p_mode=view&p_p_resource_id=%2Faccounts-resource&p_p_cacheability=cacheLevelPage&_uk_gov_ccew_onereg_charitydetails_web_portlet_CharityDetailsPortlet_fileName=0001060020_AC_20200331_E_C.pdf&_uk_gov_ccew_onereg_charitydetails_web_portlet_CharityDetailsPortlet_objectiveId=A10403616&_uk_gov_ccew_onereg_charitydetails_web_portlet_CharityDetailsPortlet_priv_r_p_mvcRenderCommandName=%2Ffull-print&_uk_gov_ccew_onereg_charitydetails_web_portlet_CharityDetailsPortlet_priv_r_p_organisationNumber=1060020

# Laurie Thompson

Academydd a chyfieithydd oedd Laurie Thompson (1938-2015), ac ef wnaeth gyflwyno ditectif ffuglen Henning Mankel, Kurt Wallander, i'r cyhoedd ym Mhrydain.

Ganwyd Thompson yng Nghaer-efrog a'i enw genedigol oedd Laurence Arthur. Gweithiodd ei dad, Leslie, fel teiposodwr ac yna fel prawfddarllenydd gyda'r *Yorkshire Evening Press*. Cyn ei phriodas, roedd ei fam Madge yn gweithio fel paciwr pethau da yn Rowntrees. Derbyniodd Laurie ei addysg yn Ysgol Ramadeg Nunthorpe, a bu'n canu yng nghôr eglwys St Lawrence.

Astudiodd Thompson gwrs Rwsieg dwys tra'n cyflawni ei Wasanaeth Cenedlaethol. Cwblhaodd hefyd Ddyletswyddau Cuddwybodaeth Arbennig yn y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Lloegr. Roedd ei dri chyfieithiad cyntaf a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn llyfrau am drydan. Ar ôl gadael y fyddin, bu'n astudio Almaeneg ym Mhrifysgol Manceinion; ef oedd aelod cyntaf ei deulu i fynd i'r brifysgol. Ar ôl iddo raddio, symudodd i Umeå yng ngogledd Sweden i addysgu Saesneg mewn ysgolion a dosbarthiadau nos , ac wedi hyn, daeth yn ddarlithydd Saesneg ym Mhrifysgol Umeå.

Cwrddodd Thompson â Birgitta Åkerstedt mewn cynhadledd i fyfyrwyr yn Sonnenberg ym Mynyddoedd Harz, yr Almaen. Priodon nhw yn 1963 a ganwyd eu mab, Eric, yn 1966. Dychwelodd Laurie a Birgitta i Brydain yn 1967; daeth yn ddarlithydd Almaeneg a Swedeg yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth. Dyfarnwyd gradd Doethuriaeth iddo yn 1979 am draethawd ymchwil ar y pwnc, *The works of Stig Dagerman.* Symudodd i Goleg Prifysgol Dewi Sant yn 1983 i ddod yn Bennaeth Swedeg. Bu'n Bennaeth Ysgol Ieithoedd Modern yn Llanbedr-Pont-Steffan rhwng 1991 ac 1995. Roedd yn athro iaith ardderchog ac ysbrydoledig; roedd yn gallu dod â gwaith llenyddol i fyw i'w fyfyrwyr. Roedd ei arferion iaith yn enwog. Nododd cyn-ddisgybl, 'Gallai'r brawddegau fod mor anodd fel bod yr ymarfer yn anodd iawn yn aml, oherwydd chwerthin mawr yn y dosbarth.' Ar y llaw arall, roedd yn weithgar tu hwnt ac roedd yn disgwyl i'w fyfyrwyr weithio'n galed hefyd. Ymddeolodd yn gynnar yn 1997, gan barhau i weithio fel darlithydd rhan amser tan 2000.

Wedi dweud hyn, mae'n siŵr mai fel cyfieithydd yr oedd Thompson yn fwyaf adnabyddus, yn enwedig ffuglen trosedd Llychlynnaidd. Dywedodd rhywun wrtho, 'Os wyt ti am fod yn gyfieithydd da, mae'n rhaid i ti feithrin dull awdur a gallu defnyddio'r iaith Saesneg fel awdur'. Gellid dadlau bod diddordeb Prydain mewn ffuglen trosedd Llychlynnaidd neu ffuglen noir o Norwy yn deillio o straeon Wallander gan Henning Mankell. Roedd y straeon hyn yn adrodd hanes ditectif gwrthgymdeithasol a oedd yn dioddef o iselder, ond a oedd yn hynod o drefnus, ac yn byw yn Ystad yn ne Sweden. Gan ddechrau gyda *The White Lioness,* (*den Vita Lejoninnan),* cyfieithodd Thompson bump o'r llyfrau. Dywedwyd amdano fod ganddo 'sgil ddiamheuol o drosi archwiliadau blêr Kurt Wallander yn Saesneg dealladwy.' Byddai'n cysylltu'n aml ag archwilydd yn yr Heddlu er mwyn sicrhau bod y disgrifiadau o waith yr heddlu'n gywir. Cyfieithodd hefyd ddeg o nofelau eraill Manning.

Yn sgil ei lwyddiant â chyfrolau Wallander roedd galw mawr am sgiliau Thompson gan awduron blaenllaw eraill yn Sweden. Cyfieithodd oddeutu pum deg o nofelau i gyd, gan gynnwys rhai gan Håkan Nesser, Åke Edwardson, Åsa Larsson a Mikael Niemi. Llwyddodd i fynd dan groen stori, gan osod y cywair yn berffaith. Fodd bynnag, roedd hefyd yn enwog am fod yn fanwl gywir. Cafodd cyfres gyntaf *Wallander* ar deledu ym Mhrydain ei ffilmio yn Swedeg, a'i darlledu ar BBC4 gydag isdeitlau. Roedd Thompson yn flin iawn ar ôl gweld y cyfieithiadau gwael o regfeydd Swedeg. Magodd berthynas gyda'r rhan fwyaf o'i awduron, a dywedodd 'Ry'n ni gyfieithwyr yn gofalu am eu plant nhw wedi'r cyfan.' Wedi dweud hyn, dywedodd hefyd, 'Os oes gen i broblem nad ydw i'n gallu ei datrys , gallaf gysylltu â Mankell a bydd yn ateb. Ond a dweud y gwir, does ganddo ddim llawer o ddiddordeb yn y cyfieithydd.'

Roedd Thompson yn un o sylfaenwyr ac aelodau SELTA (Cymdeithas Cyfieithwyr Llenyddol Swedeg-Saesneg) . Bu hefyd yn golygu cyfnodolyn y gymdeithas, *Swedish Book Review,* am gyfnod hir. Ei nod oedd cyrraedd y rhai 'gyda diddordeb proffesiynol mewn llenyddiaeth Swedeg… a nifer gynyddol o bobl arferol gyda diddordeb amatur mewn llyfrau Swedeg.' Dyfarnwyd iddo ddoethuriaeth er anrhydedd gan Brifysgol Linköping yn 1986. Yn 1992, derbyniodd Orchymyn Brenhinol y Seren Pegynol am ei wasanaethau i lenyddiaeth a diwylliant Sweden.

Cafodd Thompson ddiagnosis o ganser y coluddyn yn 2010; roedd yn benderfynol o frwydro'r salwch a pharhau i weithio. Yn eironig, cyfieithodd ddyddiaduron canser Henning Mankell hyd yn oed, pan roedd y ddau'n agos at ddiwedd eu bywydau. Bu farw yn Ysbyty Glangwili ar 8 Mehefin 2015. Cynhaliwyd ei angladd yng nghapel prifysgol Llanbedr-Pont-Steffan y mis hwnnw.

**Ffynonellau**

Laurie Thompson – translator who introduced British readers to bestselling Swedish crime fiction such as Wallander. (2015, Mehefin 23). *Times.* Cyrchwyd ar Chwefror 15 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/15625DBF1751F498?p=UKNB

Rees, J. (2006, Ebrill 22). While some authors enjoy celebrity status, too often their translators remain unrecognised and unseen. Jasper Rees talks to the men and women who juggle a reader's sensitivity, a writer's talent and a publicist's enthusiasm to bring foreign literatu [sic]. *Daily Telegraph.* Cyrchwyd ar Chwefror 15 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/11137D0041EB0EF0?p=UKNB

Prifysgol Aberystwyth. (2015). Laurence Arthur Thompson (1938-2015). Cyrchwyd ar Chwefror 15 2021 o https://www.aber.ac.uk/en/development/alumni/obituaries/obituary-profiles/laurence-arthur-thompson/

# Andrew Timothy

Andrew 'Tim' Timothy (1912-1990) oedd cyhoeddwr gwreiddiol *The Goon Show,* cyn mynd yn ddarllenwr newyddion ar y BBC ac wedyn yn bennaeth cynorthwyol cyflwyno.

Timothy oedd mab hynaf y Parchedig Thomas Evans Timothy a'i wraig Alice Spencer, née Comber. Fe'i ganed ym Marylebone a'i fedyddio yn Thomas Eifion Andrew Comber. Fodd bynnag, pan oedd eto'n blentyn bach, symudodd y teulu i Sir Feirionnydd yng Ngogledd Cymru. Ar ôl ysgol fonedd, addysgwyd Timothy yng Ngholeg y Brenin Llundain ac wedyn Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Dilynodd ei dad i'r offeiriadaeth, gan weithio'n gurad yn Hoxton, gogledd Llundain, ac yn gaplan yn y fyddin, gan gyrraedd Ffrainc gyda'r Gatrawd Barasiwt ar Ddydd D ac un.

Priododd Timothy â Gwladys Marian Hailstone yn Kensington yn 1939. Ganed eu mab Christopher, a fyddai'n enwog maes o law am chwarae James Herriott yn y gyfres *deledu All Creatures Great and Small, y* flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, daeth y briodas i ben yn gyflym mewn ysgariad, gan olygu bod rhaid i Timothy ddod o hyd i waith y tu allan i'r Eglwys. Bu'n gweithio i'r Rank Organisation, cyn cael clyweliad ar gyfer y BBC yn 1948. Fe'i cyflogwyd yn gyhoeddwr dros dro, gan ymuno â'r staff parhaol dri mis yn ddiweddarach. Cyn bo hir, daeth gwrandawyr yn gyfarwydd â'i lais ar Light Programme a Home Service.

Daeth Timothy yn gyhoeddwr gwreiddiol ar *The Goon Show*, cyfres gomedi radio eiconig a swreal y BBC gyda Peter Sellers, Harry Secombe, Spike Milligan a Michael Bentine. Timothy oedd y cyhoeddwr a'r comedïwr codi hwyliau rhwng 1951 a 1953, (cyfres 1 i 3, yn ogystal â phenodau 1 i 5 o gyfres 4). Gadawodd, gan ddweud ei fod yn poeni y byddai'n mynd yn wallgof; daeth yn ei le Wallace 'Bill' Greenslade yn ei le, ac arhosodd gyda'r sioe nes iddi ddod i ben yn 1960. Dywedodd aelodau *The Goons* mai 'Ein Tim ni yw'r sbectol un llygad sy'n siarad orau yn y busnes.' Yn 1972, ar ôl marwolaeth Greenslade, dychwelodd Timothy i gymryd rhan yn *The Last Goon Show of all,* gan ddathlu hanner can mlwyddiant y BBC. Darlledwyd y sioe o Theatr Camden, gyda'r Tywysog Philip a'r Dywysoges Anne yn y gynulleidfa.




Gan symud i'r pegwn arall yn llwyr, daeth Timothy yn ddarllenydd newyddion; roedd ei berfformiad yn bwyllog, yn awdurdodol a heb fymryn o ffug bwyslais nac ynganu amheus. Fe'i gwnaed yn bennaeth cynorthwyol cyflwyno yn 1959; arhosodd yn y swydd hon nes ymddeol yn 1973. Roedd

Brian Matthew yn ei gofio yn ddyn cynnes a chyfeillgar, ond hefyd yn weithiwr proffesiynol o’r iawn ryw a oedd yn mynnu safonau uchel.

Yn 1979, roedd gan *The Listener* erthygl hen gydweithiwr i Timothy, Alvar Quan  Lidell, yn gresynu at ddirywiad safonau lleferydd yn y BBC. Roedd Timothy yn un o dri o bobl a benodwyd gan y gorfforaeth i fonitro allbwn y gwasanaeth am fis; yr arbenigwyr eraill oedd Robert Burchfield, prif olygydd Geiriaduron Saesneg Rhydychen, a'r Athro Denis Donoghue, Athro Llenyddiaeth Fodern Saesneg ac Americanaidd yng Ngholeg Prifysgol Dulyn. Teimlai Timothy, er bod safon Saesneg llafar y BBC yn methu o bryd i'w gilydd, bod y pethau da yn aml yn cael eu hesgeuluso, a bod sylwadau a chwynion yn llifo i mewn am y pethau nad oeddent cystal. Roedd yn pryderu fwyaf am enwau  priod nad ydynt yn Brydeinig, gydag enwau anodd weithiau'n cael eu hynganu mewn sawl ffordd mewn un bwletin. Dywedodd am yr Ayatollah Khomeini, 'Rwy wedi clywed o leiaf bedwar fersiwn ar hwn, dau mewn un stori newyddion. Os ydym yn mynd i gamynganu'r enw, gadewch inni fod yn gyson o leiaf.’ Mewn ymateb, cytunodd swyddogion gweithredol y BBC i ofyn i'w staff wneud mwy o ddefnydd o'r Uned Ynganu.

Yn yr un modd â llawer o gyhoeddwyr, gwnaeth Timothy lawer iawn o waith i Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion; ar ôl ei ymddeoliad parhaodd i ddarllen ar eu cyfer. Priododd deirgwaith. Yn dilyn methiant ei briodas gyntaf, ei ail wraig oedd Florence Watkins (1915-1990). Ym 1970, priododd â Brigid Stevens, a oedd yn ei adael. Bu farw Timothy mewn cartref nyrsio yn Horsham ar 9 Rhagfyr 1990.

**Ffynonellau**


Andrew Timothy. (1990, December 31). *Times*. Cyrchwyd yn: https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/IF0500333638/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=5960859c

Safle’r Goon Show (dim dyddiad) *Goon Show site.* Cyrchwyd 3 Medi 2020 yn: http://www.thegoonshow.net/about.asp

Last, R., TV and Radio Staff. (1979, 6 Mehefin). Three experts to watch BBC English. *Daily Telegraph*, 19. Cyrchwyd yn: https://link.gale.com/apps/doc/IO0704370658/TGRH?u=nlw_ttda&sid=TGRH&xid=b7d891fa

Barker, D. (1979, 12 Hyd). Doctor treats BBC's vocal dischords. *The Guardian (1959-2003)* Cyrchwyd yn: https://search.proquest.com/docview/186076654?accountid=12799

BBC (2020). Brian gets ticked off … Cyrchwyd ar 3 Medi 2020 yn: https://www.bbc.co.uk/programmes/articles/5nkB9tncJGPdyMFvCK4n6tp/brian-gets-ticked-off

# Yr Athro Malcolm Todd

Roedd Malcolm Todd (1939-2013) yn hanesydd blaenllaw ac yn archaeolegydd a oedd yn arbenigo ar yr ymerodraeth Rufeinig, ac arweiniodd sawl ymgyrch gloddio sylweddol yn Ne-orllewin Lloegr a Chanolbarth Lloegr.

Daeth o gymuned lofaol ac amaethyddol yn Durham. Fe'i ganwyd yn fab i Wilfrid a Rose Evelyn Todd ar 27 Tachwedd 1939. Mynychodd ysgol ramadeg yn Hartlepool. Gan fod ei dad wedi mynnu na ddylai ei fab ei ddilyn i lawr y pyllau glo, astudiodd Todd y clasuron yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Graddiodd yn 1960, ac aeth ymlaen i wneud diploma mewn archaeoleg glasurol yng Ngholeg Brasenose, Rhydychen. Gan fod ganddo ddiddordeb yn nhaleithiau Rhine ymerodraeth yr Almaen, symudodd i Bonn i fod yn gynorthwyydd ymchwil yn y Rheinisches Landesmuseum. Yn 1964, priododd Molly Tanner; a chafodd y cwpwl fab a merch.

Ymunodd Todd â Phrifysgol Nottingham fel darlithydd yn 1965; gan ddod yn uwch ddarlithydd a darllenydd yn y pen draw. Bu'n cloddio Ancaster, Dwyrain Bridgford (Margidunum) a Newark canoloesol. Yna, yn 1979, penodwyd Todd yn athro archaeoleg ym Mhrifysgol Caerwysg; (er bod archaeoleg wedi cael ei addysgu yno ers peth amser, ef oedd ei athro cyntaf). Roedd ei brif waith maes yn gysylltiedig â'r cyfnod hwn. Darganfu anheddau Rhufeinig nas canfuwyd cynt ym mryngaer oes yr Haearn yn Hembury, a chanfu ddau safle Rhufeinig arosodedig yn Bury Barton.

Dychwelodd Todd i Ogledd-ddwyrain Lloegr yn 1996; daeth yn Bennaeth Coleg Trevelyan, un o golegau Prifysgol Durham, gyda swydd rhan amser yn yr Adran Archaeoleg. Roedd ganddo syniadau cryf am bwysigrwydd colegau yn y brifysgol ac roedd yn benderfynol o weld Trevelyan yn datblygu ac yn cynnal proffil uchel. Crëwyd datganiad cenhadaeth a chynllun datblygu, gan arwain at nifer o ddatblygiadau arloesol. Fodd bynnag, roedd y blynyddoedd hyn yn llai llwyddiannus nag y byddai Todd wedi gobeithio. Roedd yn ei chael yn anodd ymdopi â thechnoleg ac roedd ei ddull o addysgu yn draddodiadol, ar adeg pan oedd addysg uwch yn newid yn gyflym. Ar ôl marwolaeth Todd, dywedodd Brewer yn *Britannia* y byddai'n ysgrifennu yn y ffordd draddodiadol, gyda'r holl ohebiaeth yn cael ei chynnal drwy lythyr yn hytrach nag yn electronig! Ymddeolodd Todd yn gynnar yn 2000, a symudodd yn ôl i Gaerwysg, lle'r oedd ganddo dŷ ers blynyddoedd.

Roedd ffocws ymchwil Todd yn ymwneud â'r rhyngweithio rhwng yr ymerodraeth Rufeinig a gorllewin Ewrop; roedd ganddo ddiddordebau arbenigol yn archaeoleg yr ymerodraeth Rufeinig ddiweddarach a'r Cyfnod Ymfudo; trefoli yn Ewrop gynnar, a'r berthynas rhwng yr ymerodraeth Rufeinig a'r byd barbaraidd cyfoes. Ym Mhrydain, efallai ei fod yn fwyaf adnabyddus fel awdurdod ar y llwythau Almaenaidd ar ffiniau'r ymerodraeth Rufeinig. Cyhoeddodd hefyd waith ar waliau

Rhufain, darnau arian Rhufeinig, trefi a dinasoedd yn y Brydain Rufeinig, ac ar Dde-orllewin Lloegr yn y cyfnodau Rhufeinig a'r canoloesoedd cynnar.

Ysgrifennodd Todd 18 o lyfrau, yn ogystal â nifer o erthyglau. Roedd ei gyfrolau yn cynnwys *The Barbarians: Goths, Franks and Vandals* (1972), *The Early Germans* (1992) a *Migrants and Invaders: the Movement of Peoples in the Ancient World* (2001). Ar ôl ymddeol fe olygodd *Companion to Roman Britain* (2004). Golygodd y cyfnodolyn *Britannia* rhwng 1984 ac 1989; hefyd yn 1984 fe'i penodwyd yn is-lywydd y Gymdeithas Rufeinig. Gwasanaethodd ar y Comisiwn Brenhinol ar Henebion (Lloegr) rhwng 1986 ac 1992, ar Gyngor yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol rhwng 1987 ac 1991, ac fel ymgynghorydd archaeolegol i Eglwys Gadeiriol Durham rhwng 1996 a 2000.

Bu farw Todd o drawiad ar y galon ar 6 Mehefin 2013, yn 73 oed.

**Ffynonellau:**

Brewer, R.J. (2013). Golygyddol. *Britannia.* 44, vii-viii. Cyrchwyd o https://www-jstor-org.ezproxy.uwtsd.ac.uk/stable/42751500?seq=1#metadata_info_tab_contents.

Professor Malcolm Todd. 9 Gorffennaf 2021 *The Times*, t. 48. Cyrchwyd o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/RBWIPJ438158476/TTDA?u=walamp&seid = TTDA&xid = d9a41587

Todd, Yr Athro Malcolm, (27 Tach. 1939–6 Mehefin 2013), Prifathro, Coleg Trevelyan, Durham, 1996–2000. *Who's Who & Who Was Who.* Cyrchwyd ar 5 Mehefin 2020, o https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540891.001.0001/ww-9780199540884-e-37804.

# Thomas Frederick Tout



Gallwch ddadlau mai Thomas Frederick Tout (1855-1929) oedd hanesydd Canoloesol mwyaf cynhyrchiol Lloegr ei gyfnod.

Tout oedd unig blentyn Thomas Edward Tout, gwerthwr gwin, a'i wraig, Anne Charlotte, Finch gynt. Ganwyd Thomas Frederick yn Norwood, Surrey a bu'n ddisgybl yn ysgol ramadeg St Olave's yn Southwark. Daeth yn brif fachgen yn yr ysgol, yna, ym 1874, enillodd ysgoloriaeth hanes Brackenbury yng Ngholeg Balliol, Rhydychen. Enillodd radd dosbarth cyntaf mewn hanes, ac ail ddosbarth mewn *literae humaniores* ( hanes, llenyddiaeth ac athroniaeth yr hen fyd).

Ar ôl graddio, bu Tout yn gweithio fel tiwtor preifat yn Rhydychen am ddwy flynedd. Yna, ym 1881, cafodd ei benodi'n athro Saesneg ac Ieithoedd Modern ac yn ddarlithydd mewn Rhesymeg ac Economeg Wleidyddol yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Daeth yn athro hanes ym 1885. Roedd blynyddoedd Tout yn Llanbedr Pont Steffan yn hollbwysig iddo. Dyma lle bu'n treialu'r rhan fwyaf o'i syniadau a oedd yn gysylltiedig ag ef yn ddiweddarach ym Manceinion. Mae'n ymddangos iddo ddysgu am hyd at 28 awr yr wythnos i hyd at 80 o bobl o dro i dro. Roedd gallu'r myfyrwyr yn amrywio'n fawr, o siaradwyr Cymraeg a oedd yn ystyried y Saesneg fel ail iaith i ysgolheigion eithriadol. Roedd Tout yn dysgu'r maes llafur hanes i gyd cyn iddynt benodi ail ddarlithydd hanes ym 1884. Dysgodd i feistroli cyfnodau enfawr o hanes ac i ddarlithio heb unrhyw nodiadau.

Ym 1883, diwygiodd Tout y cwricwlwm gan gynhyrchu cyfuniad cyflenwol o fodiwlau amlinellol helaeth a chyrsiau pynciau arbennig dwys â thema. Roedd y cyrsiau arbenigol yn defnyddio ffynonellau gwreiddiol. Nododd Gibson bod cwrs pwnc arbennig Tout yn ffordd o gynhyrchu arbenigaethau ynghyd â dealltwriaeth ddofn a gafwyd o fewnwelediad i'r prif ffynonellau perthnasol. Cychwynnodd Tout system asesu fwy ymestynnol gan ddefnyddio cwestiynau a oedd yn gofyn am ddehongliad yn hytrach nag adrodd gwybodaeth. Yn ddiweddarach, dadleuodd mai "hyfforddiant israddedig, sef yr hyfforddiant gorau ar gyfer addysgu'r hanesydd, sydd orau hefyd ar gyfer y gwleidydd, y newyddiadurwr neu aelod diwylliedig cyffredin Cymdeithas."

Roedd Tout yn awdur toreithiog, a dechreuodd gyhoeddi llyfrau pan oedd yn Llanbedr Pont Steffan. Roedd ei erthyglau cyntaf yn adolygiadau llyfrau ar gyfer y *St David's College Magazine*, ac yna adolygiadau ar gyfer yr *English Historical Review.* Datblygodd ddiddordeb mawr yng Nghymru a chyhoeddwyd ei erthygl hir gyntaf ar siroedd Cymru yn *Y Cymmrodor.* Ar y llaw arall, cyfrannodd erthygl ar Gymru i'r *Dictionary of English History* hefyd.Fodd bynnag, cyfraniad mwyaf i waith ysgrifennu ysgolheigaidd Tout yn ystod y cyfnod hwn oedd ei waith i'r *Dictionary of National Biography.* Erbyn 1900, roedd wedi ysgrifennu 240 o gofnodion, sy'n cyfateb i un gyfrol o'r gwaith cyfan. Roedd ei gofnodion yn cynnwys gwaith ar dri brenin Lloegr, sef Edward II, Harri IV a Harri VI.

Fodd bynnag, roedd ei erthyglau'n dueddol o ganolbwyntio ar wŷr mawrion ac uwch-eglwyswyr, gyda thueddiad at Gymru a'r Gororau. Mewn cyferbyniad, ysgrifennodd Tout nifer o werslyfrau llwyddiannus hefyd, gan gynnwys y llyfr i ysgolion, *History of England* (ar y cyd â F. York Powell).

Tout oedd llyfrgellydd y coleg yn Llanbedr Pont Steffan o 1883 i 1890. Roedd ei gyllideb ar gyfer y llyfrau ond yn £28 y flwyddyn ond roedd yn graff wrth ofyn am lyfrau o ffynonellau eraill, er enghraifft y 300 cyfrol o'r gyfres Rolls a roddwyd gan y llywodraeth. Hefyd, creodd gatalog newydd i'r llyfrgell ar y cyd â'r arholwr allanol, C H Firth. Fodd bynnag, ei gyfraniad mwyaf oedd achub ac adfer y Casgliad Traethodynnau, casgliad a esgeuluswyd er ei arwyddocâd enfawr. Aildrefnodd Tout a Firth ychydig o'r cynnwys, gan waredu'r rhai a oedd yn mewn cyflwr rhy wael i'w hachub ac aethant ati i ailrwymo nifer fawr o gyfrolau.

Ym 1890, gadawodd Tout Llanbedr Pont Steffan er mwyn symud i Goleg Owens, a ddaeth yn Brifysgol Manceinion. Roedd y gwerthfawrogiad o'i waith yn enfawr. Wrth ddychwelyd i'r dref ar gyfer cinio tysteb ym mis Tachwedd 1890, dywedir bod nifer fawr o fyfyrwyr wedi'i groesawu wrth yr orsaf ac iddynt gymryd y ceffylau o'r cerbyd a oedd wedi dod i'w gyfarfod er mwyn iddynt dynnu'r cerbyd i'r coleg eu hunain. Ym Manceinion, gweithiodd yn galed i ddatblygu ysgol hanes fach ond addawol. Llwyddodd i weithredu'r syniadau am addysgeg addysgu hanes a ddatblygodd yn Llanbedr Pont Steffan. Unwaith eto, byddai'r myfyrwyr yn astudio pwnc arbennig a thrwy hynny, byddent yn dysgu sut y mae hanes yn cael ei greu. Ym 1902, llwyddodd i ddwyn perswâd ar Gyngor y Brifysgol i sefydlu gwasg cyhoeddi er mwyn lledaenu gwaith yr ôl-raddedigion. Felly, ef oedd sylfaenydd Gwasg Prifysgol Manceinion a Chadeirydd y Pwyllgor o 1902 tan ei ymddeoliad.

Daeth gwaith ysgrifennu hanesyddol mwyaf arwyddocaol Tout yn hwyr yn ei yrfa. Ym 1908, ysgrifennodd adolygiad o *Études de la diplomatique anglaise, 1272-1485* gan Eugène Déprez ar gyfer yr *English Historical Review.* Roedd hynny wedi sbarduno diddordeb mewn hanes gweinyddol, sydd i'w weld yn *The Place of the Reign of Edward II in English History* (1914) a *Chapters in the Administrative History of Medieval England* (chwe chyfrol, 1920-31). Ceisiodd ddisgrifio'r ffordd yr oedd system weinyddol y llywodraeth yn cael ei chynnal, er enghraifft y Dillad a'r Siambr, yn hytrach na chanolbwyntio ar y brenin a'r senedd. Roedd ei waith o gofnodi a mynegeio ffynonellau a oedd wedi'u hesgeuluso hefyd yn gyfrifol am wella cynhyrchiant haneswyr eraill. Dywedir iddo ddechrau bod yn destun cenfigen ymhlith ei staff ei hun hyd yn oed oherwydd ei ddealltwriaeth o'r deunydd perthnasol yn y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus. Parhaodd Tout i weithio ym maes hanes gweinyddol hyd at ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth.

Tout oedd llywydd y Gymdeithas Hanes o 1910 i 1912, a chafodd ei ethol yn gymrawd yr Academi Brydeinig ym 1911.

Ym 1895, priododd Tout â Mary Johnstone, un o'i fyfyrwyr cyntaf ym Manceinion. Cafodd y cwpl ddau fab a merch a oedd yn byw i fod yn oedolion, ond yn drist, bu farw eu mab hynaf yn faban. Bu i Tout ymddeol ym 1925, ac i ddathlu'r achlysur hwn, cyhoeddodd ei gydweithwyr *Essays in Medieval History presented to Thomas Frederick Tout.* Roedd 11 o'r 29 o gyfranwyr o'r gyfrol yn gyn-ddisgyblion iddo. Penderfynodd Tout ddychwelyd i Lundain ac ymgartrefu yn Hampstead. Roedd yn ymddeoliad gweithgar. Roedd yn llywydd y Gymdeithas Hanes Frenhinol o 1926; ac ym 1928, aeth ar daith ddarlithio yn yr Unol Daleithiau a Chanada, gan gynnwys cyflwyno'r darlithiau Messenger ym Mhrifysgol Cornell.

Bu Tout farw yn ei gartref yn Hampstead ar 23 Hydref 1929. Cafodd fywyd llawn, egnïol, defnyddiol a hapus.

**Ffynonellau**

Galbraith, V., a Slee, P.  (23 Medi 2004). Tout, Thomas Frederick (1855–1929), hanesydd. *Oxford Dictionary of National Biography.* Cyrchwyd ar 20 Gorffennaf 2020 o https://www-oxforddnb-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-36539.

Tait, J. (1930). Thomas Frederick Tout. *The English Historical Review, 45*(177), 78-85. Cyrchwyd ar 20 Gorffennaf 2020 o

Barron, C.M. www.jstor.org/stable/553335& Rosenthal, J.T. (goln.) (2019). *Thomas Frederick Tout (1855-1929): refashioning history for the twentieth century.* Cyrchwyd o https://humanities-digital-library.org/index.php/hdl/catalog/view/tout/tout/230-1

Price, D.T.W. (1977). *A history of Saint David's University College Lampeter. Volume one: to 1898.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Professor Tout. (24 Hydref 1929). *Times*, p. 21. Cyrchwyd o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS352657752/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=5a20d6eb

# Chris Townsend



Mae Chris Townsend yn gerddwr pellter hir, ysgrifennydd awyr agored a ffotograffydd.

Cafodd Townsend ei fagu yn Formby, ar arfordir Swydd Gaerhirfryn. Er bod y mynyddoedd agosach yn bell i ffwrdd, datblygodd hoffter o leoedd gwyllt wrth iddo grwydro drwy goedydd, caeau a thwyni tywod ac ar lan y môr. Y bryn cyntaf y bu iddo ei ddringo oedd ar daith yn yr ysgol gynradd. Yn ystod ymweliad â Chaeredin, diflanodd ef a bechgyn arall o'u grŵp i gerdded i fyny Arthur's Seat. Mae Townsend wedi dweud: 'Roeddwn yn gwybod bryd hynny yr oeddwn am wneud hwn dro ar ôl tro eto.'

Ar ôl gadael yr ysgol, astudiodd Townsend Saesneg yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Mae'n cofio crwydro trwy'r caeau, coedydd a bryniau lleol, fel arfer ar deithiau cerdded eithaf byr am hanner diwrnod. Roedd cerdded wrth ochr afon Teifi yn bleser arbennig.

Ym mis Ebrill 1978, aeth Townsend ar ei daith gerdded pellter hir gyntaf, o Land's End i John O'Groats. Cymerodd y daith, a oedd yn ymestyn dros 2,020 km, 71 diwrnod iddo. Ar yr adeg honno, roedd cyfathrebu trwy gardiau post a blychau ffôn; yn anaml y byddai ei deulu'n gwybod yn union ble yr oedd. Cadwodd ddyddiadur, yn disgrifio ei lwybr, y bywyd gwyllt a welodd, a'r lleoedd y byddai'n aros ynddynt bob nos. Cofnododd brisiau'r meysydd gwersylla hyd yn oed (10c ar gyfer Dale Head Farm yn Nyffrynnoedd Swydd Efrog, £1 ar gyfer maes carafannau Pine Woods yn Tyndrum). Ar ddiwedd y daith gerdded, ysgrifennodd, '[D]aw'r rhan galed nawr, sef dychwelyd i Fanceinion. Rwy'n teimlo'n rhyfeddol ar goll. Crwydrais ymhlith y bobl yn John O'Groats heb fod yn hollol sicr beth i'w wneud. Rwy'n teimlo'n falch ac yn drist, fy mod i wedi'i wneud a'i fod drosodd. Yfory y bydd yn teimlo'n real. Mae'n union fel yr arfer heno yn y babell. Rwy'n hoffi byw yn y babell.'

Gan nad oedd Townsend wedi dechrau ysgrifennu o ddifrif eto, ni sylweddolodd y gallai fod angen lluniau arno. Roedd ganddo gamera cryno rhad, ond torrodd hwn yn gyflym! Ar ôl y daith gerdded, ysgrifennodd ei erthygl cylchgrawn gyntaf ar gyfer *Camping World*. Oherwydd y cynghorodd y golygydd Townsend y byddai angen iddo ddarparu lluniau ynghyd â geiriau, prynodd gamera SLR ail law, a dysgodd ei hun sut i dynnu lluniau o ansawdd cyhoeddiadwy.

Alldaith nesaf Townsend oedd Llwybr Crib y Môr Tawel yn yr Unol Daleithiau, llwybr 4,285 km o hyd a greal sanctaidd llwybrau cerdded pellter hir America ym marn sawl un. Mae'r llwybr yn mynd o

ffin Mecsico i ffin Canada, gan ddilyn llinell y mynyddoedd i'r dwyrain o'r Môr Tawel a mynd trwy ddiffeithdiroedd de Califfornia, ardaloedd gwyllt mynyddig y Sierra Nevada, a thirweddau folcanig a choedwigoedd Cadwyn y Rhaeadrau. Bryd hynny, nid oedd yn bosibl anfon bagiau ymlaen. Cariodd Townsend esgidiau eira, cramponau a bwyell iâ trwy'r diffeithdir. Ef oedd un o'r un ar ddeg o bobl yn unig a gwblhaodd y daith gerdded yn 1981; gwnaeth dros gant o bobl ei dechrau y flwyddyn honno. Ers hynny, mae wedi dweud: '[G]wnaeth gryfhau fy nghariad tuag at natur, cerdded a gwersylla yn y gwyllt a dangosodd imi hefyd sut beth oedd anialwch go iawn. Des yn ôl yn benderfynol o wneud llawer mwy o deithiau cerdded hir mewn ardaloedd gwyllt, sef ymrwymiad gydol oes.' Disgrifiodd Townsend ei daith gerdded yn *Rattlesnakes and bald eagles: hiking the Pacific Crest Trail* (Sandstone Press, 2014).

Yn 1987, darllenodd Townsend *Handbook of the Canadian Rockies* gan Ben Gadd.Roedd Gadd wedi ysgrifennu am awgrymiad 'i heicio hyd cyfan y Rockies yng Nghanada, sef pellter o 1,450 km fel yr hed y frân. Mae'n ymddangos yn bosibl gwneud y daith gerdded gyfan yn ystod haf.' Ymgymerodd Townsend â'r her, yn cerdded 2,414 km ar hyd y Rockies yng Nghanada. Dechreuodd yn Llynnoedd Waterton ym mis Mehefin 1988 a chyrhaeddodd afon Liard 97 diwrnod yn ddiweddarach. Hwn oedd y tro cyntaf yr ymgymerwyd â thaith gerdded o'r fath. Cafodd ei rhannu'n fras yn ddau hanner. Roedd yr adran ddeheuol mewn parciau cenedlaethol yn bennaf. Roedd y gogledd yn llawer mwy gwyllt ac yn fwy heriol; ni chwrddodd Townsend ag unrhyw gerddwyr eraill yn y gwyllt, dim ond helwyr mewn gwersylloedd. Disgrifiodd ei antur yn ei lyfr *High Summer:Backpacking the Canadian Rockies* (Oxford Illustrated Press, 1989).

Yn agosach at gartref, yn 1996 daeth Townsend yr unigolyn cyntaf i ddringo pob Munro a chopa yn yr Alban mewn taith gerdded barhaus. (Diffinnir Munro fel mynydd yn yr Alban sydd ag uchder o dros 3,000 troedfedd.) Roedd taith Townsend i bob un o'r 517 o gopaon a restrir yn y tablau o Munros yn cynnwys 2,700 km ar droed a 170,000 metr o ddringo. Mae wedi dweud bod hon yn daith gerdded arbennig o anodd gan ei bod yn cynnwys dringo copaon mewn tywydd gwael. Roedd ei lwybr yn edrych fel llanast o linyn ar y mapiau; yn anarferol, nid oedd hon yn daith gerdded o A i B. Dechreuodd yn Ben More ar ynys Muile (Mull), a gorffennodd yn Ben Hope yn Sutherland. Mae'n cofio'r llawenydd o fod allan ar y bryniau am fisoedd diddiwedd. Disgrifiodd ei daith yn *Munros and Tops* (Mainstream Publishing, 1997).



Ben Hope, y Munro mwyaf gogleddol

Yn 2012, darllenodd Townsend *Ribbon of Wildness* gan Peter Wright. Disgrifiodd Wright asgwrn cefn 1,200 km yr Alban, gan ddechrau yn Peel Fell yn Cumbria a throelli ei ffordd i'r gogledd i Duncansby Head ger John O'Groats. Mae p'un a yw glaw yn llifo i Fôr yr Iwerydd neu Fôr y Gogledd yn dibynnu ar a yw'n disgyn i'r gorllewin neu'r dwyrain o'r llinell honno. Dechreuodd Townsend ar daith i ddilyn olion troed Wright trwy gerdded y llwybr hwn, gan geisio cadw mor agos at y wahanfa ddŵr ag y gallai. Mae'n mynd trwy'r Southern Uplands, yr Iseldiroedd Canolog, yr Ucheldiroedd a'r 'Flow Country', gan groesi 44 Munro a 24 Corbett. Mae Townsend yn dweud: 'Mae'r llwybr yn arbennig o anodd ei ddilyn ac mae bron yn amhosib ei weld mewn mannau. Anaml iawn y mae ar lwybr troed sathredig ac mae'n mynd dros dir garw.' Fodd bynnag, mae hefyd yn dweud: 'Cefais fy synnu gan y tirweddau gwyllt a dramatig rheolaidd ar hyd y llwybr hwn. A des i ar draws casgliad anhygoel o fywyd gwyllt lle y dychmygais na fyddai llawer.' Disgrifiodd Townsend ei daith yn *Along the Divide: Walking the Wild Spine of Scotland* (Sandstone Press, 2018).

Mae rhai o nifer o deithiau gerdded eraill Townsend yn cynnwys y Continental Divide Trail, llwybr sydd bron 5,000 km o hyd; Llwybr Arizona (1,290 km), 2,090 km o'r de i'r gogledd trwy Norwy a Sweden, 1,600 km o'r de i'r gogledd trwy diriogaeth Yukon, y Pacific Northwest Trail (1,930 km), ac 800 km o ddyffryn Yosemite i Death Valley. Mae wedi ysgrifennu 25 o lyfrau. Dyfarnwyd Gwobr Urdd Awduron yr Awyr Agored am Ragoriaeth iddo ar gyfer Llyfr Awyr Agored y Flwyddyn am *The Backpacker's Handbook* (Oxford Illustrated Press, 1993) ac am *Out There: A Voice from the Wild* (Sandstone Press, 2016). Mae'n ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth John Muir, sef elusen cadwraeth yn yr Alban, ac mae wedi bod yn llywydd Cyngor Mynydda'r Alban. Wrth siarad am ei hun, dywedai, 'Nid wyf yn teimlo fy mod yn gwneud unrhyw beth arbennig. Nid yw'r rhan fwyaf o'r hyn yr wyf yn ei wneud yn gyfystyr â mynydda technegol. Os ydych chi'n mynd i ddringo copa ym mynyddoedd yr Himalaia, mae angen arnoch lawer o sgiliau technegol a hyfforddiant. Yr hyn yr wyf yn sôn amdano yw mynd am dro – yr unig beth yw fy mod wedi gwneud teithiau cerdded hirach na'r rhan fwyaf o bobl yn eu gwneud.'

**Ffynonellau**

Russell, F. (2018). My mountains: Chris Townsend. Cyrchwyd ar 5 Ionawr 2021 o https://www.ukhillwalking.com/articles/mountaineering/my_mountains_chris_townsend-11279

Townsend, C. (dim dyddiad) Chris Townsend outdoors. Cyrchwyd ar 5 Ionawr 2021 o http://www.christownsendoutdoors.com/

Davies, C. (2015). How to walk the Pacific Crest Trail: Chris Townsend's tips. Cyrchwyd ar 5 Ionawr 2021 o https://www.thebmc.co.uk/how-to-walk-the-pacific-crest-trail-chris-townsends-tips#:~:text=BMC%20ambassador%20Chris%20Townsend%20looks,PCT)%20is%202%2C663%20miles%20long.&text=BMC%20hill%20walking%20ambassador%20Chris,trail%20was%20still%20being%20established.

Chris to hit the trail once more. (23 Ionawr 2015). *Inverness Courier.* Cyrchwyd ar 5 Ionawr 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/15309F29EBAADD10?p=UKNB

Chris's love affair with the strath is as strong as ever. (18 Medi 2013). *Strathspey & Badenoch Herald.* Cyrchwyd ar 5 Ionawr 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/148F1ADF86B0C4C0?p=UKNB

Russell, F. (15 Medi 2013). My walk on the wet side – Adventurer Chris Townsend braved the worst that the elements could throw at him as he hiked 750 miles across Scotland's watershed. Here he tells a story of rain, solitude, discovery, rain, wildlife, biting clegs and, yes, more rain. *Sunday Mail.* Cyrchwyd ar 5 Ionawr 2021 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/148D6C63725FC468?p=UKNB

Caledonia Collective. (dim dyddiad) Awdur: Chris Townsend. Cyrchwyd ar 6 Ionawr 2021 o https://caledoniacollective.com/author/christownsendcc/

# Cliff Tucker

Roedd Clifford Lewis Tucker (1912–1993) yn ddiwydiannwr, ynad, ymgyrchydd dros hawliau hoywon, a chymwynaswr i Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan.

Rhestrir man geni Cliff fel Redditch ar gofrestri'r coleg; roedd ei dad, Frederick Charles Tucker, yn weinidog i'r Bedyddwyr. Magwyd Cliff yn ystod cyfnod o ddiweithdra uchel a thlodi enbyd. Ymunodd â'r Blaid Lafur yn gynnar yn ei oes a chadwodd ei barch tuag at y dosbarth gweithiol. Ei arwr oedd Ernest Bevin, a oedd yn cyfleu y gwerthoedd oedd Tucker yn credu ynddynt i'r dim. Addysgodd plentyndod Tucker wirionedd dywediad Oscar Wilde hefyd, 'Merthyron yw'r rhai sy'n gorfod byw gyda seintiau.'

Addysgwyd Tucker yn Ysgol Trefynwy ac yna yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, lle graddiodd gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Hanes. Dyfarnwyd yr ysgoloriaeth Phillips mewn hanes iddo hefyd, gwerth £25. Pan adawodd Llanbedr Pont Steffan yn 1934, penderfynodd beidio mynd yn syth i'r weinidogaeth. Mae dau lythyr sympathetig a ysgrifennwyd ato yn y cyfnod hwn gan y Pennaeth Maurice Jones bellach yn archifau'r brifysgol.

Yn 1936, ymunodd Tucker â thîm cysylltiadau diwydiannol ICI. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, symudodd at British Petroleum; teithiodd ymhell yn y Dwyrain Canol a'r Dwyrain Pell, gan weithio ar gysylltiadau llafur a materion staff. Yna symudodd i'r brif swyddfa; roedd yn rheolwr cysylltiadau diwydiannol nes ei ymddeoliad. Er ei fod yn teimlo bod rhai yn yr uwch-dîm arwain yn amheus o'i aelodaeth o'r Blaid Lafur, roedd rheolwyr a'r undebau yn ymddiried ynddo. Roedd gallu negodi'n dda ac yn hwyrach ymlaen yn ei fywyd roedd yn gallu edrych yn ôl ar streiciau a osgowyd neu lle cafwyd cytundeb yn gyflym. Gweithredodd hefyd dros y Sefydliad Llafur Rhyngwladol ac roedd yn ddarlithydd gwadd mewn prifysgolion Prydeinig ac Almaenig.

Rhestrai Tucker ei weithgareddau hamdden fel 'ceisio mynd i'r afael â thlodi a rhagfarn'. Roedd yn weithredol mewn llywodraeth leol ac yn llwyddiannus fel cynghorydd yn Stepney, St Pancras a Camden. Fodd bynnag, cafodd ei siomi'n raddol â'r Blaid Lafur. Erbyn diwedd ei oes, roedd bron yn anwleidyddol, er ei fod wastad ar yr asgell chwith. Gwasanaethodd fel Ynad Heddwch, ac roedd yn ddirprwy gadeirydd Pwyllgor Ynadon Canol Llundain rhwng 1978 a 1981. Roedd hefyd yn rhan o weithgarwch Neuadd Toynbee ac Oriel Gelf Whitechapel.

Roedd Tucker yn ymgyrchydd hirdymor dros hawliau hoywon gyda'i bartner o 35 mlynedd, y beirniad llenyddol A. E. 'Tony' Dyson. Yn benodol, bu'n ymgyrchu dros roi seremoni raddio i'w ffrind, yr offeiriad Catholig hoyw agored Illtud Evans, ar ôl ei farwolaeth. Er bod gan Evans ddawn academaidd ac iddo gael ei dderbyn gan Goleg Dewi Sant fel enillydd Saesneg Bates, cafodd ei ddiarddel am iddo gyfaddef ei fod yn hoyw.

Ceir sylw yn ysgrif goffa Tucker yn *The Lampeter Link* ei fod yn hollol ffyddlon i Goleg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, a'r delfrydau anfesuradwy yr oedd yn sefyll drostynt. Yn ei ragair i hanes swyddogol y sefydliad, cydnabyddai D. T. W. Price y cymorth ac anogaeth a roddwyd iddo gan Tucker. Yn 1994, plannodd Tony Dyson goeden ar gampws Llanbedr Pont Steffan er cof am Tucker. Yna pan fu farw Dyson ym mis Gorffennaf 2002, gadawyd y tŷ yn Hampstead a oedd wedi'i rannu â Tucker i Brifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan. Caiff y cwpl eu coffáu gan ddarlithfa, ysgoloriaeth, a chymrodoriaeth barddoniaeth.



Adeilad Cliff Tucker, Llanbedr Pont Steffan

**Ffynonellau**


‘Clifford Tucker’ (9 Mehefin 1993). *The Times*, t. 17. Cyrchwyd o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/IF0501984878/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=293521db

Price, D. T. W. (1990). *A History of Saint David’s University College Lampeter. Volume Two: 1898–1971.* Gwasg Prifysgol Cymru

Disgrifiad o ‘Dyson, Anthony Edward, 1928-2002, academic, educationalist, literary critic, gay rights campaigner’, Papers of Tony Dyson and Cliff Tucker, 1934-2002. Llyfrgell Prifysgol Manceinion. ‘GB 133 AED’ ar wefan Archives Hub. Cyrchwyd o: https://archiveshub.jisc.ac.uk/data/gb133-aed

P. A. (1994). ‘Appreciations. Clifford Lewis Tucker (1934)’. *The Lampeter Link. 47,* 32–33.

# Edmund Tyrrell-Green



Roedd Edmund Tyrrell-Green (1864-1937) yn Athro Hebraeg a Diwinyddiaeth yng Ngholeg Dewi Sant yn ogystal â blaenor a darlithydd mewn pensaernïaeth.

Ganwyd yn San Steffan. Roedd ei dad, Charles Alexander Green, yn werthwr tai. Astudiodd Edmund yn Christ Church Cathedral School yn Rhydychen ac yna yn St John's College lle enillodd radd dosbarth gyntaf mewn Diwinyddiaeth yn ogystal ag Ysgoloriaeth Denyer a Johnson. Ordeiniwyd yn ddiacon yn 1887 ac yna yn offeiriad yn 1888. Treuliodd dair blynedd yn gweithio fel curad yr eglwys Anglo-Gatholig enwog, St Barnabus, Rhydychen. Yn 1890, fe'i benodwyd yn Athro Hebraeg a Diwinyddiaeth yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan yn dilyn ymddiswyddiad T F Tout. Daeth yn Athro yn 1896. Yn uchel eglwyswr gweithgar, roedd yn enwog am ddarlithio yn ei gasog a'i gŵn fel mater o egwyddor. Disgrifiwyd Tyrrell-Green gan un o'u fyfyrwyr fel "yr aelod o staff mwyaf dynol a'r un sydd â'r diddordeb mwyaf yn faterion crefyddol Cymru." Roedd un o'i gyn-fyfyrwyr eraill, y Canon L G Appleton, yn ei gofio yn cerdded dros y bryniau gyda myfyrwyr. Roedd Tyrrell-Green hefyd yn flaenor ac felly'n gyfrifol am gerddoriaeth gorawl capel y coleg. Roedd yn athro cerddorion a chantorion effeithiol a sensitif iawn. Sylwodd un o'i organyddion dan hyfforddiant, Handel Llewellyn, ar ei gred fod "rhaid i'n cerddoriaeth wrth addoli fod y gorau a rhaid ei pharatoi'n ofalus."

Roedd Tyrrell-Green yn awdur toreithiog, yn aml yn ysgrifennu am faterion athrawiaethol. Cyhoeddwyd ei lyfr, *The Thirty-nine Articles and the age of the Reformation* gan Wells Gardner, Darton & Co yn 1912. Ar lefel ddefosiynol, mae *The Sinner's Restoration* (Wells Gardner, Darton & Co., 1898) yn cofnodi cyfres o chwech o areithiau a roddwyd mewn detholiad o fannau yn Esgobaeth Tyddewi. Mae *How to Preach: A Manual for Students,* (Wells Gardner, Darton & Co, 1905) yn gofnod o'i ddarlithoedd i'r myfyrwyr yn Llanbedr Pont Steffan. I Green, roedd gwirionedd Cristnogol yn bersonol ac felly pregethu oedd y modd a ddewiswyd yn ddwyfol ar gyfer lledaenu Cristnogaeth.

Yn hanesydd lleol brwd, daeth yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi ac fe oedd y cadeirydd cyntaf yn 1909. Gyda'r Parchedig E J Davies, roedd hefyd yn olygydd cyntaf ar gyfer *Transactions of the Cardiganshire Antiquarian Society and Archælogical Record.* Yn seiclwr o fri, ymwelodd â nifer o adeiladau hynafol gan obeithio rhannu ei ddarganfyddiadau. Roedd yn gyfrannydd rheolaidd i gyfnodolion hanes lleol, gan ysgrifennu am bensaernïaeth eglwysig yn bennaf. Yn benodol, daeth yn arbenigwr blaenllaw ar fedyddfeini. Cyhoeddwyd ei erthygl hir "Types

of Baptismal Fonts" yn *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1918-19. *Baptismal fonts: classified and illustrated,* (SPCK, 1928) oedd ei lyfr nesaf. Defnyddiodd ei ddarluniau ei hun yn y ddau lyfr. Roedd ei lyfr *Towers and Spires: Their Design and Arrangement,* (Wells Gardner, Darton & Co., 1908) hefyd yn cynnwys 129 o luniau ei hun mewn pen-ac-inc. Yn y rhagair ar gyfer y llyfr hwn, dywedodd "Roedd paratoi'r llyfr hwn, gyda'r holl ddarluniadau, wedi bod yn llafur cariad yn ystod fy ngwyliau dros yr wyth i ddeg mlynedd diwethaf. Ymwelais yn benodol â bron pob un o'r tyrau a ddarluniwyd gan eu hastudio a'u darlunio. Ychydig iawn o'r darluniau sydd wedi'u gwneud yn gyfan gwbl o luniau."



Roedd Tyrrell-Green yn aelod gweithgar o'r Blaid Ryddfrydol. Yn syndod o bosib, roedd o blaid datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru. Yn 1910, mewn cyfarfod Cynghrair y Rhyddfrydwyr Ifainc, dywedodd bod "cyflwr presennol pethau wedi dwyn gwir lais clerigwyr a lleygwyr wrth reoli materion eglwysig." Roedd yn aelod o Gyngor Ymgynghorol yr Esgobion o 1913 tan 1924. Ar nodyn ysgafnach, ysgrifennodd a chynhyrchodd sawl drama gyda cherddoriaeth achlysurol: *The Ghost of Garston Grange* (1920); *The Heir of Ardley* (1920) a *The Cross and the Crescent* (1921).

Priododd Tyrrell-Green â'r Gymraes, Margaret Roberts, yn Llanrwst yn 1891. Aethant ymlaen i gael tri o blant; ond trist yw nodi i'w mab hynaf, Denis Noel, gael ei ladd mewn rhyfel yn 1917. Cyhoeddodd Margaret farddoniaeth yn ei hawl ei hun, gan gynnwys llyfr er cof am Denis.

Gadawodd Tyrrell-Green Coleg Dewi Sant yn sydyn yn 1924, ar ôl bod yn gweithio yno am 33 blynedd. Cafodd ei ddisgrifio yn y *S. David's College Magazine* fel "ffrind i'r holl fyfyrwyr ac o hyd yn barod i helpu gyda swyddogaethau'r coleg." Dywedodd yr awdur, "Dymunwn iechyd a llwyddiant i'r Athro Green yn ei waith lle bynnag y bo."

Bu Tyrrell-Green farw yn Chichester ar 18 Chwefror 1937.

**Ffynonellau**

Jenkins, G.H. (2009 Ebrill 18). George Eyre Evans [Nodyn flog]. Cyrchwyd ar 9 Gorffennaf 2021 o https://ceredigionhistory.wales/george-eyre-evans/

Price, D.T.W. (1977). *A history of Saint David's University College Lampeter. Volume one: to 1898.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Price, D.T.W. (1990). *A history of Saint David's University College Lampeter. Volume two: 1898-1971.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Green Rev. Edmund Tyrrell- . *Who's Who & Who Was Who.* Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2021 o https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540891.001.0001/ww-9780199540884-e-210384?rskey=CTPYux&result=6

Parry-Jones, D. (1948). *Welsh country upbringing.* Llundain: B.T. Batsford

Disestablishment. Anglican professor's advocacy. (1910, Rhagfyr 17). *The Cardiff Times.* Cyrchwyd ar 12 Gorffennaf 2021 o https://newspapers.library.wales/view/3416333/3416336/39/

Llewellyn, H. (Ebrill 1953). The precentor in the chapel. Yr Athro. E. Tyrrell-Green. *The Bulletin of the Lampeter Society,* t. 15-18

The Rev. E. Tyrrell-Green. (1937, Chwefror 23). *The Times.* Cyrchwyd ar 13 Gorffennaf 2021 o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS269955159/TTDA?u=walamp&sid=bookmark-TTDA&xid=7f54f275

Erthygl olygyddol. (1924). *S. David's College Magazine, 12*(5), 164-165.

# Y Gwir Barchedig Benjamin Vaughan

Roedd Benjamin Noel Young Vaughan (1917-2003) yn esgob am dros 40 o flynyddoedd yn India'r Gorllewin, ac yna yn ôl adref yng Nghymru.

Ganwyd Vaughan (a elwid bob amser yn Binny Vaughan) yn Nhrefdraeth, Sir Benfro ar ddydd Nadolig yn 1917. Roedd ei dad yn henadur yn y dref. Addysgwyd ef yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, ac enillodd radd dosbarth cyntaf yn y Clasuron cyn astudio yn Neuadd Sant Edmwnd, Rhydychen, lle enillodd radd anrhydedd ail ddosbarth mewn Diwinyddiaeth. Cwblhaodd ei hyfforddiant gweinidogol yn Nhŷ Westcott, Caergrawnt. Yn dilyn hynny, gwasanaethodd fel curad yn Llannon ger Llanelli ac yna yn Eglwys Dewi Sant, Caerfyrddin.

Ymfudodd Vaughan wedyn i'r Caribî. Treuliodd y pedair blynedd nesaf yn gweithio fel tiwtor yn Codrington College ym Marbados, sef y brif ganolfan ar gyfer hyfforddiant diwinyddol yn India'r Gorllewin. Daeth rhai o'r offeiriaid a hyfforddodd Vaughan yn esgobion yn y blynyddoedd a ddilynodd annibyniaeth wleidyddol o Brydain. Yn 1952, symudodd Vaughan yn ôl i Goleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, i ddod yn ddarlithydd mewn Diwinyddiaeth. Yn ddiweddarach, derbyniodd y teitl o gymrawd anrhydeddus o Goleg Dewi Sant.

Fodd bynnag, bu ei amser yn Llanbedr Pont Steffan yn gymharol fyr. Yn 1955, galwyd arno i fod yn ddeon a rheithor yng Nghadeirlan Port of Spain, prifddinas Trinidad a Thobago. Yna, yn 1961, fe'i benodwyd yn esgob cynorthwyol ym Mandeville yn Jamaica. Ar yr un pryd, yr oedd hefyd yn archddeiacon yn ne Middlesex ac yn rheithor Manderville am gyfnod.



Cadeirlan San Ioan, dinas Belize

Ym 1967, daeth Vaughan yn esgob ar gyfer British Honduras (gelwir bellach yn Belize). Ymroddodd i fywyd yr esgobaeth fechan a oedd yn dal i gael ei hadfer yn dilyn effeithiau dinistriol corwynt Hattie ym 1961. Roedd Vaughan yn gadeirydd ar gyfer y Cyngor Cenedlaethol Addysg yn British Honduras, y Cyngor Cymdeithasol i Gristnogion a Chomisiwn Amaethyddol yr eglwysi. Yng Nghynhadledd Lambeth yn 1968, ymddangosodd fel eciwmenydd ymroddedig a oedd yn pryderu am gyfiawnder cymdeithasol ac am y tlodion. Yn ystod ei holl waith yn y Caribî, roedd yn deall yr angen i'r eglwys ymateb ar frys i'r byd ôl-drefedigaethol, trwy newid radicalaidd os oedd angen. Ysgrifennodd dri llyfr yn ystod y cyfnod

hwn, sef *Structures for renewal* (1967), *Wealth, peace and godliness* (1968) a *The expectations of the poor* (1972). Roedd yn geidwadol yn ddiwinyddol.

Dychwelodd Vaughan i Gymru yn 1971. Yna, daeth yn ddeon yng Nghadeirlan Bangor ac yn esgob cynorthwyol i'r esgobaeth. Yn 1976, fe'i penodwyd yn esgob Abertawe ac Aberhonddu. Cwmpas ei esgobaeth newydd oedd yr ardal ddaearyddol fwyaf yng Nghymru a Lloegr gan ymestyn o Benrhyn Gŵyr i'r Mynydd Du ar y ffin â Swydd Henffordd. Ar ben hynny, roedd y gadeirlan yn Aberhonddu 40 milltir o brif ganolfan y boblogaeth yn Abertawe. Darparodd Vaughan ffocws yn ochr ddeheuol yr esgobaeth drwy sefydlu eglwys golegaidd y Santes Fair yn Abertawe gyda choleg o gaplaniaid. Roedd maes cyfrifoldeb penodol gan bob un o'r caplaniaid o fewn yr esgobaeth. Roedd Vaughan hefyd yn gyfrifol am sefydlu canolfan deulu yn Abertawe i wasanaethu'r aelodau difreintiedig o'r gymuned. Yn ogystal â hynny, fe weithiodd yn galed ym maes addysg ddiwinyddol ar gyfer offeiriaid a lleygwyr.

Roedd Vaughan yn llywydd y Cyngor Eglwysi yng Nghymru o 1980 tan 1982. Roedd yn aelod o lys Prifysgol Cymru ac o Urdd y Derwyddon, Gorsedd y Beirdd. Yn dilyn ei ymddeoliad, gwasanaethodd fel esgob cynorthwyol er anrhydedd yn ei hen esgobaeth.

Priododd Vaughan ei wraig gyntaf, Nesta Lewis, yn 1945. Bu Nesta farw o ganser yn 1980. Tua'r un pryd â'i ymddeoliad, fe briododd ei gyn-ysgrifenyddes, Magdalene Reynolds. Ni chafwyd unrhyw blant o'r ddwy briodas. Bu Vaughan farw ar 5 Awst 2003. Fe'i disgrifiwyd fel "unigolyn llawn bywyd a oedd wedi cyffwrdd â bywydau llawer o bobl yn ystod ei weinidogaeth hir a bendithiol."

**Ffynonellau**

Ysgrif goffa'r Gwir Barchedig Benjamin Vaughan: Esgob o Gymru a gynorthwyodd yr Anglicaniaid yn India'r Gorllewin a chanolbarth America i addasu i'r byd ôl-drefedigaethol. (2003, Medi 19). *Daily Telegraph.* Cyrchwyd o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/0FDB088E76808DA2?p=UKNB

Ysgrif goffa'r Gwir Barchedig Benjamin. (2003, Medi 19). *The Times.* Cyrchwyd o*:* https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/0FD11180C403B8FE?p=UKNB.

# Geraint Vaughan-Jones

Roedd y Canon Geraint James Vaughan-Jones (1929-2002) yn gyfrifol am adfer y traddodiad canu carolau Cymru, sef plygain, rhag mynd yn angof.

Ganwyd Vaughan-Jones yn Llanerfyl, Sir Drefaldwyn. Roedd ei dad, Robert William Jones, yn bennaeth yr ysgol waddoledig yno, a'i fam oedd Gwendolen. Roedd Robert Jones, a oedd yn cael ei adnabod yn ôl yr enw barddol Erfyl Fychan, yn aelod gweithredol o'r Orsedd, a daeth yn Arwyddfardd a Chofiadur yn y pen draw. Roedd yn gartref cerddorol; Roedd gan Robert ddiddordeb mawr mewn deheurwydd canu penillion, lle y gosodir pennill i alaw, ynghyd â thelyn yn chwarae ail wrth-alaw. Roedd Geraint yn gerddor medrus hefyd, yn canu'r biano a'r delyn. Cafodd ei addysgu i ganu'r delyn driphlyg gan y perfformiwr adnabyddus, Nansi Richards.

Addysgwyd Geraint yn Ysgol Gynradd Llanerfyl, Ysgol Uwchradd y Trallwng i Fechgyn ac wedyn Coleg Dewi Sant. Fodd bynnag, rhoddodd y gorau iddi yn ystod ei flwyddyn olaf yn Llanbedr Pont Steffan heb gymryd gradd. Ar ôl treulio dwy flynedd yn gwneud ei Wasanaeth Cenedlaethol, roedd yn byw am ddeuddeng mlynedd ar gyfandir Ewrop, gan weithio fel cyfieithydd a darlithydd yn yr Almaen, yr Eidal a Sbaen. (Roedd yn ieithydd talentog – roedd ei ffrindiau'n credu ei fod yn siarad naw iaith ac roedd yn rhugl mewn Almaeneg, Eidaleg, Ffrangeg a Sbaeneg.)

Dychwelodd Vaughan-Jones gartref yn 1968 oherwydd marwolaeth ei fam. Roedd yn cofio ei uchelgais gynharach i ddod yn glerigwr a hyfforddodd ar gyfer yr offeiriadaeth yn Llyfrgell St Deiniol, Hawarden. Daeth yn rhan o'r Eglwys yng Nghymru yn 1970 a threuliodd y 25 mlynedd canlynol yn gweithio yn Esgobaeth Bangor ac ym mhentrefi canolbarth Cymru. Roedd ei swydd gyntaf, rhwng 1970 a 1973, fel curad yn Llanaber gyda Chaerdeon, ger Abermaw. Yna, daeth yn ficer yng ngweinidogaeth tîm Dolgellau gyda Llanfachraeth a Brithdir.

Roedd swydd nesaf Vaughan-Jones fel rheithor Mallwyd gyda Chemaes a Llanymawddwy, (yn Nyffryn Dyfi tua hanner ffordd rhwng Dolgellau a Machynlleth). Roedd un o'i ragflaenwyr ym Mallwyd, John Davies (tua 1567 - 1644) wedi bod yn gyfrifol yn bennaf am argraffiad 1630 o Feibl Cymraeg William Morgan; dyma oedd y fersiwn hygyrch cyntaf a oedd ar gael i'r mwyafrif o Gymry. Yng nghysgod y traddodiad hwn, gweithiodd Vaughan-Jones i gasglu a chadw traddodiad llafar plygain. Fel casglwr hen lyfrau a llawysgrifau, roedd mewn sefyllfa dda i ddod o hyd i drysorau anghofiedig.



Eglwys St Tydecho, Mallwyd, lle roedd Vaughan-Jones yn ficer.

Dywedir i'r plygain ddisodli Offeren ganol nos Nadolig yr Oesoedd Canol. Dechreuodd y gwasanaeth yn gynnar ar fore Nadolig, ar unrhyw amser rhwng 3am a 6am. Dilynodd ffurf gryno o wasanaeth y

bore, gydag unawdwyr a grwpiau yn canu carolau ar eu pennau eu hunain, yn aml mewn harmonïau cymhleth tair a phedair rhan. Trosglwyddwyd geiriau'r carolau trwy'r cenedlaethau; yn aml, fe'u henwyd ar ôl y teulu neu'r fferm lle y dechreuodd y gân benodol honno (er enghraifft Carol Wil Cae Coch). Ychydig iawn ohonynt sy'n adnabyddus y tu allan i gylchoedd plygain.

Cyhoeddodd Vaughan-Jones ei gasgliad cyntaf o garolau, *Cyff Mawddwy*, yn 1982; roedd hyn yn cynnwys dwsin o garolau a oedd yn sylfaenol i draddodiad plygain Mallwyd. Yn 1987, cyhoeddwyd Hen Garolau Plygain, gyda 24 o garolau a cherddoriaeth. Cyhoeddwyd trydedd gyfrol, o 26 carol arall, yn 1990. Nod Vaughan-Jones oedd helpu Cristnogion Cymru i ailddarganfod eu treftadaeth. Iddo ef, dylid defnyddio'r plygain fel gwasanaeth eglwys, nid fel adloniant neu gyngerdd yn unig. Yn 2000, cyhoeddodd yr Eglwys yng Nghymru *'Cadw'r Ffydd'*, canllaw i gynnal gwasanaethau plygain yn eu ffurf litwrgaidd gwirioneddol. Gan mwyaf, mae'r plygain bellach yn wasanaethau gyda'r nos a gynhelir yn ystod neu ychydig cyn yr enwog 'Twelve Days of Christmas.'

Roedd Vaughan-Jones hefyd yn ddeon gwledig Cyfelliog gyda Mawddwy rhwng 1985 a 1996. Daeth yn ganon Eglwys Gadeiriol Bangor yn 1986 a phrif gantor yn 1989. Roedd yn gyfieithydd swyddogol ar gyfer cyrff llywodraethu'r eglwys, ynghyd â golygydd llenyddiaeth ar gyfer cyfnodolyn yr eglwys, *Yr Haul.* Roedd yn draddodiadydd o ben Uchel Eglwys y sbectrwm, yn gwrthwynebu ordeinio menywod ac i foderneiddio'r litwrgi diangen. Er iddo fod yn ddyn cymdeithasgar, ni briododd erioed.

Ymddeolodd Vaughan-Jones yn 1996. Bu farw ar 23 Rhagfyr 2002, a chynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Padarn Sant, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth.

**Ffynonellau**

The Daily Telegraph (5 Chwefror 2003). Canon Geraint Vaughan-Jones: Clergyman who re-established the Welsh rural tradition of plygain, the singing of carols in the vernacular. *Daily Telegraph* t. 01. Cyrchwyd o https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/0F904E28AED6EA55?p=UKNB

Vaughan-Jones, G., (2001). Jones, Robert William ('Erfyl Fychan'; 1899 - 1968), hanesydd, llenor, athro ac eisteddfodwr. *Y Bywgraffiadwr Cymreig*. Cyrchwyd ar 24 Mehefin 2020, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-JONE-WIL-1899

Amgueddfa Cymru. (2014). Arferion y Nadolig: Canu Plygain. Cyrchwyd ar 24 Mehefin 2020 o https://amgueddfa.cymru/erthyglau/1185/Christmas-customs-Plygain-Singing

Y Olfa. (2020). Geraint Vaughan-Jones. Cyrchwyd ar 24 Mehefin 2020 o x`x

# Edward Arundel Verity

Roedd Edward Arundel Verity (1822-1910) yn offeiriad plwyf a gafodd ei gyhuddo o ddwyn arian ei eglwys. Roedd hefyd yn gaplan y fyddin a honnodd ei fod wedi gweithio gyda Florence Nightingale. Roedd yn ecsentrig, yn radical ac yn un o offeiriad plwyf mwy lliwgar ei natur.

Ganwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Morgannwg, yn un o 14 plentyn i'r meddyg Dr Abraham Verity, a'i wraig Catherine Jenkins gynt. Fel ei frodyr, hyfforddodd Edward yn wreiddiol fel meddyg, ond wrth roi'r gorau i hyn, aeth i Goleg Tyddewi, Llanbedr-Pont-Steffan yn 1841. Cafodd ei ethol fel uwch-ysgolhaig ym mis Mehefin 1844. Enillodd BD yn 1853 (y flwyddyn gyntaf i'r coleg ddyfarnu'r cymhwyster).

Swydd glerigol gyntaf Verity oedd curad Trawden, Sir Gaerhirfryn. Dywedodd yn ddiweddarach ei fod 'yn gweddu pob y rhanbarth fel yr oedd Livingstone yn Unyanembe yn Affrica.' Dywedir iddo bregethu ei bregeth gyntaf mewn menig lelog, a siaradodd mewn acen nad oedd ei blwyfolion yn ei ddeall. Fodd bynnag, cafodd ei ordeinio fel offeiriad yn 1845, a'i benodi fel ficer cyntaf eglwys newydd, yr Holl Saint, Habergham, ar gyrion Burnley. Ar yr adeg hon, roedd gwasanaethau'n dal i gael eu cynnal yn yr ysgol. Adeiladwyd yr eglwys gan Sir James Kay Shuttleworth o Gawthorpe Hall a John a James Dugdale o Lowerhouse am £5,200, ac fe'i hagorwyd yn 1849. Ar y dechrau, roedd perthynas Verity â'r ddau deulu cyfoethog yn dda. Fodd bynnag, cododd ffrae. Yn ddiweddarach, dywedodd Verity mai'r rheswm dros hyn oedd ei gefnogaeth am y Mesur Deng Awr, a oedd yn cyfyngu oriau gwaith menywod a phlant 13-18 oed i ddeng awr y dydd. Yr hyn sy'n eironig yw ei bod yn debygol fod y Dugdales yn trin eu gweithwyr yn gymharol dda. Fodd bynnag, roedd Verity wedi colli cymeradwyaeth ei noddwyr pwerus. Gwrthododd y Dugdales a'r Shuttleworths ddarparu persondy.

Roedd Verity yn anllythrennog yn ariannol, ac erbyn y 1850au, roedd mewn anhawster ariannol. Roedd wedi rhoi benthyg £350 i'w dad yng nghyfraith, William Turner. Ad-dalodd Turner y ddyled ym mis Medi 1854, ond aeth yn fethdalwr yn fuan wedi hynny. Ym mis Mawrth 1855, cododd ei gredydwyr gamau gweithredu yn erbyn Verity i adennill yr arian, gan ddadlau fod yr ad-daliad gyfystyr â 'dewis twyllodrus' i aelod o'r teulu yn erbyn y dyledwyr eraill.

Gan glywed am ddiffyg caplaniaid, gwirfoddolodd Verity i wasanaethu yn y Crimea, gan adael curad yn rheoli yn Habergham. Soniodd am ysbyty yn Scutari yn ei ddyddiadur, ond nid am Florence Nightingale. Fodd bynnag, honnodd yn ddiweddarach ei fod wedi cwrdd â hi. Roedd y lleoedd y gwnaeth ymweld â nhw yn cynnwys Balaclava, Sebastopol, Inkerman, Varna a Shumla. Yna, marchogodd o Adrianople i Bucharest ar gefn ceffyl, gan ddisgrifio ei anturiaethau mewn llyfr o'r enw *Adventures in European Turkey or a Ride over the Balkan Mountains.* Ymddengys nad oes unrhyw gopïau ohono wedi goroesi.

Dychwelodd adref yn 1856. Er y dyfarnwyd ei fod yn fethdalwr ac iddo dreulio tri mis yn y carchar, roedd yn bendant na fyddai unrhyw beth yn gwneud iddo ymddiswyddo o'i swydd yn Habergham. Fodd bynnag, cynigiodd Syr James Kay Shuttleworth y swydd i Arthur Nicholls, gŵr ffrind teulu, Charlotte Brontë. Gwrthododd Nicholls y swydd; Ysgrifennodd Charlotte at ei ffrind, Ellen Nussey, '… mynegwyd dymuniad cryf y dylai Arthur ddod, ond nid yw hynny'n bosib o gwbl.'

Datblygodd Verity ddiddordeb mewn gweithgareddau undeb llafur, gan ennill enw fel un o'r ychydig glerigwyr yn Eglwys Lloegr a oedd yn radical. Annerchodd sawl cyfarfod yn ystod streic Padiham Weaver yn 1859. Roedd hefyd yn rhan o streic Gwehyddion Colne ac yn cefnogi Cyllellwyr Sheffield.

Roedd wrth ei fodd â dadleuon a gallai siarad neu bregethu ar unrhyw bwnc heb fawr o rybudd. Cymharodd weithwyr y felin â chaethweision gwyn a pherchnogion y felin â deiliaid caethweision, gan gymharu'r melinau i leoliadau llawn drygioni. Siaradodd hefyd mewn sawl tref o blaid y symudiad undeb llafur.

Aeth pethau o ddrwg i waeth pan ddiflanodd set arian y cymun, a roddwyd gan y Dugdales. Cyfaddefodd Verity yn y pen draw iddo werthu'r set ar gyfer sgrap a chadw'r elw! Mae cofnod yn y gofrestr gladdu ar gyfer 1870 yn nodi: 'Ar y Sulgwyn ar 5 Mehefin, cafodd set Gwasanaeth Arian y Cymun ei ddwyn o'r eglwys hon ac ni chafodd ei ddychwelyd.' Honnodd Verity fod y set wedi cael ei rhoi iddo'n bersonol yn lle rhenti'r eisteddleoedd. Fodd bynnag, gwnaeth wardeiniaid yr eglwys ddwyn yr achos gerbron Brawdlysoedd Lerpwl ar 23 Rhagfyr 1870. Canfu y rheithgor bod Verity yn euog, a gorchmynnwyd iddo dalu gwerth yr arian gwreiddiol, ynghyd â chostau sylweddol.

Yna yn 1872, cyhuddwyd Verity o dorri i mewn i'r fynwent i gloddio am gyrff marw John Dawson, a fu farw yn 1871, ac Alice Parker, a fu farw yn 1869. Dywedwyd bod Verity wedi claddu eu cyrff, ynghyd â dau blentyn William Beardsworth, mewn bedd arall. Yn achos Verity, esboniodd fod John Dawson wedi ei gladdu mewn bedd a oedd wedi'i addo i rywun arall. Roedd rhywun wedi gofyn am fedd Alice Parker, fel y gallai gladdu ei ail wraig ger ei wraig gyntaf. Dywedodd Verity bod oddeutu ugain o gyrff wedi cael ei symud dros y blynyddoedd.

Gan fanteisio ar ei waradwydd, dechreuodd Verity ar daith ddarlith o ogledd-ddwyrain Sir Gaerhirfryn, gan siarad am 'The facts and incidents of my life in Lancashire; my trial and the lessons which may be learned from it.' Mewn un ddarlith, disgrifiodd ei blwyfolion fel 'Torf anfoesgar, greulon nad oeddent yn ymwybodol o briodi: yn frwnt ac yn ddrewllyd: yn byw mewn tai â thri neu bedwar teulu.'

Er gwaethaf popeth, arhosodd Verity yn ei swydd yn Habergham am bedair blynedd ar ddeugain, gan ymddeol yn 1893 yn unig. Priododd ddwywaith; ei wraig gyntaf oedd Jane Isabella Turner. Ar ôl iddi farw yn 1857, ailbriododd â Jane Bibby, merch ei warden eglwys. Roedd yn dad i 14 plentyn; ond yn drist iawn, bu farw saith ohonynt yn ystod eu plentyndod. Yn y pen draw, aeth Verity a'i ail wraig, Jane, i fyw gyda'u mab, Frederick Abraham, yn Castleton, ger Rochdale. Bu farw Verity yno ym mis Awst 1910. Cafodd ei gladdu yn Habergham gyda'i ail wraig. Daeth 1,200 o bobl i'w angladd yn ôl pob sôn.

**Ffynonellau**

The Times. Coflith. Y Parchedig E.A. Verity. *The Times.* 25 Awst 1910. Ar gael yn: https://go-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ps/retrieve.do?tabID=Newspapers&resultListType=RESULT_LIST&searchResultsType=SingleTab&searchType=AdvancedSearchForm&currentPosition=12&docId=GALE%7CCS152238873&docType=Obituary&sort=Pub+Date+Forward+Chron&contentSegment=ZTMA-MOD1&prodId=TTDA&contentSet=GALE%7CCS152238873&searchId=R12&userGroupName=walamp&inPS=true&ps=1&cp=12 [Accessed 30 April 2020]

Clercod Plwyfol Ar-lein Sir Gaerhirfryn. *Eglwys yr Holl Saint, Habergham yn Sir Gaerhirfryn.* Ar gael yn: https://www.lan-opc.org.uk/Burnley/Habergham-and-Habergham-Eaves/allsaints/index.html. [Mynediad ar 30 Ebrill 2020]

Brigg, M. Life in east Lancashire, 1856-60: a newly discovered diary of John O'Neil (John Ward), weaver, of Clitheroe. *Transactions of the Historic Society of Lancashire and Cheshire.* 1968;120:87-

133. Ar gael yn: https://www.hslc.org.uk/wp-content/uploads/2017/05/120-7-Brigg.pdf [Accessed 1 May 2020]

Verity, T.E.A., wedi'i olygu gan Ward, J.T., (1977). Edward Arundel Verity, vicar of Habergham: ân Anglican parson of the Industrial Revolution. *Transactions / Lancashire and Cheshire Antiquarian Society, 79*,73-94

Hall, B. (1990). 'Parson sham?' – y Parchedig Edward Arundel Verity. *Lancashire Local Historian, 5,*

# Elizabeth A. Walker



Mae Elizabeth Walker yn brif guradur yn Amgueddfa Cymru – National Museum Wales. Mae ei chyfrifoldebau yn cynnwys casgliadau archaeolegol Palaeoithig a Mesolithig, offer cerrig cynhanesyddol ac archifau archaeolegol.

Fel myfyriwr israddedig, astudiodd Walker archaeoleg ym Mhrifysgol Caerhirfryn o dan arweiniad Roger Jacobi yn y 1980au. Treuliodd ei gwyliau yn cloddio fel gwirfoddolwr ag Amgueddfa Cymru. Roedd ei goruchwylydd, Stephen Aldhouse-Green, yn gweithio ar Brosiect Ymchwil Anheddiad Palaeoithig yng Nghymru. Yr adeg hon cyflwynodd Aldhouse-Green Walker i'r casgliad sylweddol o offer cerrig a ddarganfyddwyd yn Ogof Pontnewydd, ger Llanelwy yn Sir Ddinbych. (Pontnewydd yw'r safle mwyaf gogledd-orllewinol yn Ewrop i fod â thystiolaeth o olion ffosil Neanderthalaidd cynnar. Mae'r darganfyddiadau cynhanesyddol cynnar hyn yn cynnwys dannedd dynol a darn o ên o o leiaf pum unigolyn ynghyd â dros fil o offer cerrig wedi'u gwneud gan y bobl hyn). Y gwanwyn nesaf, roedd Walker yn aelod o dîm yr Amgueddfa a oedd yn cloddio yn Ogof Hoyle's Mouth, ym Mhenalun yn Sir Benfro.



Ogof Pontnewydd, gan Llywelyn2000 – ei waith ei hun, CC BY-SA 4.0, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=34715326

Profiad cyntaf Walker o waith â thâl oedd treulio pedair wythnos yn mesur arteffactau Ogof Pontnewydd. Wedi hynny yn 1987, ymunodd ag Adran Archaeoleg a Nwmismateg yn Amgueddfa

Cymru yn barhaol, fel cynorthwyydd curadurol. Mae hi wedi aros yno byth ers hynny, gan godi'n raddol i fyny'r ysgol yrfaol.

Roedd gradd Meistr Walker, a ddyfarnwyd gan Brifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan yn 2007, a'i doethuriaeth, a ddyfarnwyd gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn 2017, yn delio ag ymarfer archaeoleg yng Nghymru. Teitl ei gradd Meistr oedd 'Aspects of change in museum collecting practice during the twentieth century: some south Welsh archaeological collections.' Teitl ei doethuriaeth oedd 'Collecting the past: aspects of historiography and lithic artefact analysis for the creation of narratives for the Palaeolithic and Mesolithic archaeology of Wales.'

Mewn datblygiad uniongyrchol o'i dyddiau israddedig, mae ffocws ymchwil Walker yn dal i ganolbwyntio ar archaeoleg Palaeolithig a Mesolithig yng Nghymru, (tua 250 000 – 4 000 BCE). Yn ogystal â pharhau i weithio ar Bontnewydd a Hoyle's Mouth, mae wedi cloddio mewn sawl ogof arall o amgylch Cymru. Yn arbennig, mae wedi cyfarwyddo ei chloddiadau ei hun ar ddau safle ar Benrhyn Gŵyr: Ogof Cathole, safle a ddefnyddiwyd fel lloches gan helwyr-gasglwyr Mesolithig a Rhewlifol Hwyr, a Burry Holms, gwersyll Mesolithig cynnar.

Ynghyd â'i gwaith maes yn yr awyr agored, mae Walker wedi gweithio ar gasgliadau amgueddfa sy'n bodoli eisoes. Mae hi'n nodi fel hyn: 'Mae ein hamgueddfeydd yng Nghymru gyda chyfoeth o ddeunydd a adferwyd o ogofâu a safleoedd o bob cyfnod archaeoleg … Mae casgliadau amgueddfeydd gyda photensial sylweddol i ryddhau data newydd am y gorffennol'. Drwy gofnodi casgliadau amgueddfa, mae wedi gallu dod â'r holl ddarganfyddiadau o'r oes Palaeolithig o dde-ddwyrain Cymru at ei gilydd. Cyhoeddodd ei chanlyniadau yn *'No stone unturned: papers in honour of Roger Jacobi'* a olygwyd gan Nick Ashton a Claire Harris, (Lithic Studies Society, [2015]). Mewn ffordd debyg, mae wedi casglu'r darganfyddiadau Palaeolithig a Mesolithig o Sir Benfro ar gyfer *'Prehistoric, Roman and early Medieval Pembrokeshire' (Pembrokeshire County History, vol. I),* (Pembrokeshire County History Trust, 2016).

Mae Walker yn gydawdur â Stephen Aldhouse-Green o *Ice age hunters: Neanderthals and early modern hunters in Wales*, (Amgueddfa Cymru, 1991). Ar y cyd ag Aldhouse-Green a Rick Peterson, golygodd *Neanderthals in Wales: Pontnewydd and the Elwy Valley Caves,* (Oxbow Books and Llyfrau Amgueddfa Cymru, 2012). Mae'r gyfrol yn amlinellu canlyniadau ymchwil sydd wedi'i gwblhau dros ugain mlynedd, gan ddisgrifio'r olion o feddiannaeth a adawyd gan Neanderthaliaid cynnar tua 225,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae Walker hefyd wedi ysgrifennu nifer o erthyglau cyfnodolion a phenodau llyfrau, er enghraifft ar loches Ogof Snail ym Mhen y Gogarth, ger Llandudno, Ogof Foxhole ym Mhenrhyn Gŵyr, a Ffynnon Beuno ac ogofâu Cae Gwyn yn Sir Ddinbych.

Cyfrannodd Walker at raglen deledu Iolo Williams, *'Iolo's Natural History of Wales'*, gan egluro'r esgyrn arth, rhinoseros a llewpart a ddarganfyddwyd mewn ogof ym Mhontnewydd.

Dyfarnodd Cymdeithas Archaeolegol Cambria y wobr GT Clark i Walker yn 2017 am ei gwaith cynhanesyddol. Dyfernir y gwobrau hyn bob pum mlynedd i'r archaeolegwyr a'r haneswyr y bernir eu bod wedi cynhyrchu'r gwaith academaidd mwyaf sylweddol ar bynciau Cymreig. Mae'n gadeirydd ar Banel Cenedlaethol Archifau Archaeolegol yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae hefyd yn gymrawd o Gymdeithas Hynafiaethwyr Llundain ac yn aelod gohebol o'r Gymdeithas Amgueddfeydd.

**Ffynonellau**

Amgueddfa Cymru (d.d.) Proffil Staff Dr Elizabeth Walker Prif Guradur Casgliadau a Mynediad. Cyrchwyd ar 12 Mawrth 2021 o https://amgueddfa.cymru/staff/77/Elizabeth-Walker/?_ga=2.160934654.2124264665.1635152711-1669709978.1624891887.

Walker, E.A. (2021). Elizabeth A. Walker. Prif Guradur Casgliadau a Mynediad yn Amgueddfa Cymru [tudalen LinkedIn]. LinkedIn. Cyrchwyd ar 12 Mawrth 2021 o https://www.linkedin.com/in/elizabeth-a-walker-39661915/

Cymdeithas Archaeolegol Cambria. (2021, Chwefror 19). The Cambrian Archaeological Association is 175 years old! [postiad blog] Cyrchwyd ar 12 Mawrth 2021 o https://cambrians.org.uk/the-cambrian-archaeological-association-is-175-years-old/

PALAEOLITHIC and MESOLITHIC AGES, The (Old and Middle Stone Ages; c.250,000-4000 bc). (2008). Yn J. Davies, N. Jenkins, M. Baines, ac eraill, *The Welsh academy encyclopedia of Wales*. Cyrchwyd ar 15 Mawrth 2021 o https://search.credoreference.com/content/entry/waencywales/palaeolithic_and_mesolithic_ages_the_old_and_middle_stone_ages_c_250_000_4000_bc/0?institutionId=1794

Contributors (2012). Yn: S. Aldhouse-Green, R. Peterson & E.A. Walker (gol.) *Neanderthals in Wales: Pontnewydd and the Elwy Valley caves* (tt. vii-xi). Cyrchwyd ar 15 Mawrth 2021 o https://web-b-ebscohost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/ebookviewer/ebook/bmxlYmtfXzU1MTk5MF9fQU41?sid=79f59457-9c66-4d3a-a50d-fda8a3bab815@sessionmgr101&vid=0&format=EB&rid=1

Williams, I. (cyflwynydd). (2010, Hydref 20). Wales in the Ice Age. [rhaglen cyfres deledu]. Yn *Iolo's Natural History of Wales.* Cyrchwyd ar 15 Mawrth 2021 o https://www.bbc.co.uk/programmes/p00bpl7j

# Hugh Walker



Roedd Hugh Walker (1855-1939) yn ddarlithydd Saesneg yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan am dros hanner can mlynedd.

Ganwyd Walker yn Kilbirnie, tref fach yn Swydd Aeron tuag ugain milltir i'r de-orllewin o Glasgow. Ei rieni oedd James a Janet, née Steele. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Uwchradd Glasgow ac, yna, ym Mhrifysgol Glasgow lle enillodd y fedal ar gyfer Rhesymeg ac Athroniaeth Foesol. Aeth ymlaen i Goleg Balliol, Rhydychen lle'r oedd yn Ysgolor Snell. Graddiodd o Rydychen gan ennill gradd dosbarth cyntaf yn y Dyniaethau Llenyddol. Dyfarnwyd iddo radd LLD er Anrhydedd Prifysgol Glasgow yn 1901 a gradd DLitt er Anrhydedd Prifysgol Cymru yn 1918.

Daeth Walker i Lanbedr Pont Steffan yn 1884, yn wreiddiol fel darlithydd Saesneg ac Athroniaeth. Y flwyddyn ganlynol, priododd Mary Jane Roxburgh ar ôl cwrdd â hi ym Metws-y-coed. Ganwyd iddynt tair o ferched, Agnes Nea, Janet Elsi Alice a Frances Damaris Arnold. Fel ei gŵr, roedd Janie yn awdur medrus. Roedd Walker yn lleygwr ac yn Bresbyteriad yn ôl ei gefndir. Yn Llanbedr Pont Steffan, ymgyrchodd yn galed yn erbyn gwisgo urddwisgoedd Ewcaristig yng nghapel y Coleg. Pregethodd unwaith yn unig, gan ddweud ei fod yn brofiad brawychus!

Cafodd Walker ei ddyrchafu'n Athro yn 1890. Dywedwyd mai ef oedd 'yr athro mwyaf ysbrydoledig ym Mhrydain.' Roedd hefyd yn awdur cynhyrchiol a darllenadwy. Ei lyfr cyntaf oedd *Three centuries of Scottish literature,* (Maclehouse, 1893). Roedd y ddwy gyfrol yn olrhain hanes llenyddiaeth yr Alban o'r Diwygiad a chyfnod Syr David Lyndsay hyd at Syr Walter Scott, gŵr yr oedd Walker yn ei ystyried fel yr enghraifft olaf o Albanwr cenedlaethol nodweddiadol o'i fath. Yn anfoddog braidd, dywedodd yr adolygwr yn *The Athenæum* fod, 'Mr Walker wedi gwneud yn dda o fewn y cyfyngiadau a ddewiswyd ganddo ac mae ei lyfr yn gyfraniad calonogol at egluro pwnc diddorol.'

Llyfr poblogaidd yn hytrach na llyfr academaidd oedd *The Greater Victorian Poets* (Swan Sonnenschein, 1895). Archwiliodd Walker Tennyson, Arnold a Browning gan gyflwyno adroddiadau manwl a chronolegol am bob un ohonynt ynghyd â sylwebaeth ddi-dor.

Roedd gwaith anferthol Walker, *The Literature of the Victorian Era* (Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 1910) yn cynnig cyflwyniad manwl i ysgrifennu Oes Fictoria a'r cyd-destun y cafodd ei greu ynddo.

Rhannodd y llyfr yn ddwy ran: roedd y rhan gyntaf yn ymdrin â 'meddwl damcaniaethol' a'r ail ran yn canolbwyntio ar 'gelf greadigol'. Cafodd yr ail adran ei rhannu'n is-adrannau yn trafod cerddoriaeth a rhyddiaith. Roedd rhan olaf y gyfrol yn ymdrin â hanes a bywgraffiad, llenyddiaeth, a beirniadaeth estheteg yn ogystal ag amrywiaeth o ryddiaith. Gwnaeth Walker ymdrech fwriadol i osgoi cynnwys awduron byw ; er enghraifft, ni chafodd Thomas Hardy ei gynnwys. Dywedodd Darbishire, 'Yn ei hanfod, mae'r llyfr yn fyw. Mae'n ymdrin yn ddigonol â phwnc mawr a bydd yn apelio at yr ysgolhaig a'r darllenwr cyffredin.' Roedd y llyfr mor bwysig mae'n dal i fod mewn print hyd heddiw (Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 2011).

Dair blynedd yn ddiweddarach, cyhoeddodd Walker a'i wraig, Janie, *Outlines of Victorian literature* (Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 1913). Eu nod oedd llunio cyflwyniad hygyrch a oedd wedi'i eirio'n glir ac ennyn diddordeb ym mywydau a gweithiau'r awduron amrywiol. Roedd y gyfrol hon, yn seiliedig ar *The Literature of the Victorian Era*, ond roedd yn llawer llai o ran maint. Unwaith eto, mae'n parhau i fod mewn print hyd heddiw (Gwasg Prifysgol Caergrawnt, 2011).

Cyfrannodd Walker ddwy gyfrol i'r gyfres 'Channels of English literature' ac roedd y ddwy ohonynt yn arloesol o ran eu meysydd pwnc. Yn *The English Essay and Essayists* (Dent, 1915), ceisiodd gyflwyno'r arolwg cyntaf o'r ffurf lenyddol sylweddol hon. Ei nod oedd archwilio gweithiau pob awdur ysgrifau o Brydain nad oedd yn dal yn fyw. Roedd *English Satire and Satirists* (Dent, 1925) yn cynnwys pum canrif o hanes llenyddol o Piers Plowman i Samuel Butler a *The Way of all Flesh.* Hefyd, cyfrannodd Walker i'r *The Cambridge Modern History* a *The Cambridge History of English Literature.*

Ochr yn ochr ag addysgu ac ysgrifennu, cymerodd Walker ran flaenllaw ym myd gwleidyddiaeth leol. Bu'n Faer Llanbedr Pont Steffan yn 1900, yn 1901 ac yn 1902, a dywedwyd mai ef oedd un o arweinwyr yr ymgyrch i adeiladu Neuadd Fictoria yn y dref.

Yn 1930, gwrthododd Walker gynnig i ymddeol. Bu farw ar 28 Mehefin 1939 yn 84 oed ond roedd yn dal i fod yn aelod o staff Coleg Dewi Sant. Cyflwynodd ei ferched baentiad olew ohono gan Ruth Foster i'r Coleg. Mae nodiadau ei ddarlithoedd wedi'u cadw yng Nghasgliadau Arbennig Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac mae neuadd breswyl yn Llanbedr Pont Steffan wedi'i henwi ar ei ôl.

**Ffynonellau**

Walker, Hugh, (7 Jan. 1855–28 June 1939), Professor of English Literature, St David's College, Lampeter, South Wales. *Who's Who & Who Was Who.* Cyrchwyd ar 14 Rhagfyr 2020 o https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540891.001.0001/ww-9780199540884-e-218667.

Dr. Hugh Walker. (1939, Mehefin 30). *Times*, 18. Cyrchwyd ar 14 Rhagfyr 2020 o https://link-gale-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/doc/CS302462174/TTDA?u=walamp&sid=TTDA&xid=09924fef

University honours. (1918, Tachwedd 29). *The Cambrian News and Merionethshire Standard.* Cyrchwyd ar 15 Rhagfyr 2020 o https://newspapers.library.wales/view/3414476/3414482/80/

Price, D.T.W. (1977). *A History of Saint David's University College Lampeter. Volume one: to 1898.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Price, D.T.W. (1990). *A History of Saint David's University College Lampeter. Volume two: 1898-1971.* Caerdydd Gwasg Prifysgol Cymru

*Three Centuries of Scottish Literature.* By Hugh Walker. 2 vols. (Glasgow, MacLehose & Sons.) *Robert Burns.* Par Auguste Angellier. 2 vols. (Paris, Hachette & Co.) [Adolygiad llyfr] (1893). *Athenæum 3420,* 600-601. Cyrchwyd ar 15 Rhagfyr 2020 o https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/8953884?pq-origsite=primo&imgSeq=1

Garrett Fisher, W.E. (1895). *The Greater Victorian Poets.* By Hugh Walker. (Sonnenschein.) [Adolygiad llyfr]. *The Academy 1222,*264. Cyrchwyd ar 15 Rhagfyr 2020 o https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/6746297?pq-origsite=primo

Bryan, W.F. (1916). Reviews. [Adolygiad o'r llyfr *The English essay and essayists,* gan H. Walker]. *Modern Language Notes 31*(6),347-356. Cyrchwyd ar 15 Rhagfyr 2020 o https://www.jstor.org/stable/2915724

# John Washington-Jones

Roedd John Washington-Jones (1887-1974) yn glerigwr Anglicanaidd, a oedd yn gweithio fel ficer gyda'r gwladfawyr Cymreig ym Mhatagonia.

Roedd Washington-Jones yn ddyn lleol; cafodd ei eni ym Mhencarreg, pedair milltir yn unig i'r de-orllewin o Lanbedr Pont Steffan. Ei rieni oedd Rachel a Thomas, a oedd yn ffermwr. Cafodd ei dderbyn i Goleg Dewi Sant yn 1909; er mwyn helpu ei sefyllfa ariannol gweithiodd fel cynorthwyydd deintyddol hefyd! Graddiodd Washington-Jones yn 1912; aeth ei fab Richard a'i ŵyr Niall hefyd ymlaen i raddio o Lanbedr Pont Steffan, gan wisgo'r un cwcwll.

Cafodd Washington-Jones ei drwyddedu yn guradur yn 1913; roedd ei swydd gyntaf yn Llantrisant. Yn 1915 priododd Myfanwy Jones yn Eglwys Sant Illtud, Pen-bre. Erbyn hyn, roedd yn gweithio fel curadur yn eglwys Sant Iago, Blaenafon.

Fodd bynnag, yn 1919, hwyliodd John, Myfanwy a'u mab ifanc Richard am yr Ariannin. Treuliodd y saith mlynedd nesaf fel ficer gyda'r gwladfawyr Cymreig yn Nyffryn Camwy Isaf, Patagonia, wedi'i noddi gan Gymdeithas Cenhadon De America. Cafodd y dyffryn ei wladychu gan allfudwyr Cymreig yn gyntaf ychydig dros hanner canrif ynghynt. Erbyn diwedd y 19eg ganrif, roedd eu niferoedd wedi codi i 4,000 o bobl.

Daeth yr allfudo o Gymru i Ddyffryn Camwy i ben fwy neu lai ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Cyrhaeddodd y grŵp olaf o 120 o wladfawyr yn 1911. Fodd bynnag, cafodd y rhan fwyaf o'r clerigwyr Cymraeg a oedd yn gweithio ym Mhatagonia eu hanfon o'r famwlad. Roedd eu mewnbwn yn hanfodol wrth gyflwyno syniadau newydd i'r cymunedau a oedd mewn trafferthion. Gweinidogion crefyddol oedd y rhan fwyaf o'r bobl a oedd yn hyrwyddo'r diwylliant Cymreig er bod eu hamser ym Mhatagonia yn gymharol fyr yn aml.

Roedd pobl yr eglwys mewn lleiafrif bach ymysg y gwladfawyr, ond nid oedd y tensiwn rhwng pobl yr eglwys a phobl y capel yn bodoli i'r un graddau ag yng Nghymru. Roedd Washington-Jones yn byw yn Nhrelew, tref canolig ei maint a sefydlwyd gan y gwladfawyr Cymreig yn 1871. Roedd pwysigrwydd y wladfa wedi cynyddu yn sgil adeiladu'r rheilffordd i Borth Madryn (Puerto Madryn) yn 1889, gan ei gwneud yn haws allforio cynnyrch amaethyddol. Roedd Washington-Jones yn gwasanaethu dwy eglwys 20 milltir oddi wrth ei gilydd , Eglwys Sant Marc, Trelew ac Eglwys Llanddewi, Dolafon. Adeilad brics syml oedd eglwys Dolafon, a agorwyd yn gyntaf yn 1891. Ei sylfaenydd oedd y Parch. Hugh Davies, y gweinidog Anglicanaidd cyntaf i weinidogaethu yn Nyffryn Camwy.

Agorodd Washington-Jones ysgol ar gyfer plant y gwladychwyr hefyd, eto wedi'i henwi ar ôl Dewi Sant.

Roedd bywyd yn galed ac roedd yn rhaid i'r bobl fod yn ddyfeisgar ac yn annibynnol iawn. Roedd yn dal i gymryd tri diwrnod mewn cert a cheffyl i deithio i'r wladfa o ben y rheilffordd! Roedd yr Eisteddfod yn ddigwyddiad mawr blynyddol. Roedd yn cael ei chynnal yn y felin; defnyddiwyd bagiau o wenith fel seddi. Roedd yn para sawl diwrnod, gyda'r beirniaid yn dod o bob cwr o Ddyffryn Camwy.

Dychwelodd Washington-Jones i Brydain yn ystod Streic Gyffredinol 1926. Ei swydd nesaf oedd fel rheithor Eglwys Sant Michael, Cwmafan, ychydig filltiroedd i'r gogledd-orllewin o Gastell-nedd. Arhosodd yno nes 1941. Yna daeth yn rheithor yn eglwys Sant Ilan, Eglwysilan tua saith milltir i'r de o Gaerffili. Arhosodd yn Eglwysilan nes iddo ymddeol. Bu farw yn 1974; mae eglwys Sant Ilan yn cynnwys ffenestr gwydr lliw er cof amdano.

**Ffynonellau**

Washington-Jones, N. (2020). The long arm of Lampeter academicals. *The Link,* 76, 17. Cyrchwyd ar 16 Tachwedd 2020 o https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/alumni/lampeter-society/the-link-summer-2020.pdf

New curates. (1913, 29 Medi). *Cambria Daily Leader.* Cyrchwyd ar 16 Tachwedd 2020 o https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/view/4425771/4425773/33/

Burryport wedding. (1915, 27 Ionawr). *Cambria Daily Leader.* Cyrchwyd ar 16 Tachwedd 2020 o https://papuraunewydd.llyfrgell.cymru/view/4098337/4098340/46/

Brooks, W.A. (2012). *Welsh Print Culture in y Wladfa: the Role of Ethnic Newspapers in Welsh Patagonia, 1868-1933.* (Traethawd doethurol, Prifysgol Caerdydd, y Deyrnas Unedig). Cyrchwyd ar 16 Tachwedd 2020 o https://orca.cf.ac.uk/46450/1/WelshPrintCultureInYWladfaWalterBrooks.pdf

Every, E.F. (1915). The Anglican Church in South America. Cyrchwyd ar 20 Tachwedd 2020 o http://anglicanhistory.org/sa/every1915/01.html

Howat, J. (2003). Anglican Church Records in the Welsh Colony, Chubut Valley, 1883 to 1903. Cyrchwyd ar 20 Tachwedd 2020 o http://www.argbrit.org/Patagonia/patagoniabapts.htm

Brebbia, C.A. (2007) *Patagonia a forgotten land: from Magellan to Perón.* Southampton: WIT Press

# Richard Washington-Jones

Gwasanaethodd Richard Washington-Jones (1918-2001) yn y Llynges Fasnachol, chwaraeodd rygbi dros Gymry Llundain ac wedyn daeth yn brifathero yn Venezuela.

Roedd Richard yn fab i un o raddedigion Coleg Dewi Sant, John Washington-Jones a'i wraig, Myfanwy. Ar adeg ei enedigaeth, roedd ei dad yn gurad, yn gweithio ym Mlaenafon. Er mai Thomas oedd ei enw bedydd, roedd yn cael ei alw'n Richard, ei enw canol. Yn 1919, aeth y teulu ar long i Batagonia, lle gweithiodd John fel ficer ymhlith y gwladychwr Cymreig. Roedd atgofion cyntaf Richard o'i gyfnod ym Mhatagonia. Dychwelodd y teulu i Gymru pan oedd yn wyth oed. Roedd ei gartref nesaf yng Nghwmafan, ger Castell-nedd. Mynychodd Richard Goleg Crist, Aberhonddu, lle'r oedd yn seren chwaraeon henaidd ei ffordd. Chwaraeodd ddwywaith yng 'ngornest' rygbi flynyddol Aberhonddu yn erbyn Llanymddyfri a chwaraeodd dair gwaith yn y gêm griced. (Collodd y gemau rygbi bob tro ond enillodd yn y criced!)

Fel ei dad, astudiodd Richard yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Fel pencampwr ar y maes chwaraeon , roedd yn gapten y tîm rygbi a'r tîm criced. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn cael ei alw'n 'Washy!'. Graddiodd yn 1939, yn gwisgo cwfwl ei dad. Gwisgwyd y cwfwl am drydedd gwaith, pan raddiodd ei fab ei hun, Niall, o Goleg Dewi Sant yn 1969.

Daeth Washington-Jones yn ddecmon yn y Llynges Fasnachol yn 1940; hwyliodd dair gwaith i Gibraltar ar y S.S. Lapwing. Pan gafodd y llong ei tharo â thorpido ar ei phedwaredd taith, derbyniodd siec am golli ei siwt a'i fandolin. Fodd bynnag, roedd wedi cael ei alw yn ôl o'r llong i dderbyn ei Dystysgrif Raddio o Lanbedr Pont Steffan! Mae'n bosibl bod hyn wedi achub ei fywyd! Ar ôl hynny, ymunodd â'r RAF fel hyfforddwr addysg gorfforol; ei reng oedd awyr-lefftenant. Fodd bynnag, er siom mawr iddo, roedd dallineb lliw yn golygu nad oedd yn gallu hedfan. Fodd bynnag, roedd ef ac un o'i ffrindiau yn arfer trefnu arddangosfeydd ffensio Errol Flynn mewn partïon. Wrth wasanaethu yng Ngwersyll RAF Tremorfa, Caerdydd, cyfarfu Olivari Dottie, Prif Fenyw Awyrennau. Priodon nhw ar 12 Awst 1944; gweinyddodd tad ac ewythr Richard yn y gwasanaeth. Cafodd Richard ac Olivari dri mab, Richard, Nicholas a Niall.

Ar ôl iddo ef ac Olivari gael eu rhyddhau o'r fyddin yn 1945, aeth Washington-Jones ymlaen i Goleg Eglwys y Drindod, Rhydychen. Er iddo dreulio llawer o amser yn chwarae rygbi, llwyddodd i ennill ei Ddiploma Addysg. Roedd ei swydd addysgu gyntaf yn Ysgol Emanuel, Wandsworth, lle'r oedd yn athro addysg grefyddol a rygbi. Ochr yn ochr â hyn, chwaraeodd rygbi dros Gymry Llundain am dri thymor. Ar ôl hynny, bu'n athro Saesneg a rygbi ar long hyfforddi'r Llynges Fasnachol, sef HMS Worcester. Roedd y llong wedi'i hangori yn Greenhythe.

Fel ei dad, gweithiodd Washington-Jones yn Ne America. Daeth yn bennaeth a Chyfarwyddwr Addysg ar saith ysgol Royal Dutch Shell International yn Venezuela. Roedd yn hoff iawn o Venezuela ac yn benodol, roedd yn gwerthfawrogi'r cyfle i archwilio'r jyngl. Cefnogodd gartref plant amddifad yn gofalu am blant brodorol a oedd wedi'u gadael. Yn wir, derbyniodd Washington-Jones anrhydedd gan lywodraeth Venezuela am ei wasanaethau i'r gymuned.

Dychwelodd Washington-Jones i Brydain yn 1962; roedd ei swydd amser llawn olaf fel pennaeth Ysgol Baratoi Forest Grange, Horsham. Ar ôl iddo ymddeol, symudodd i fyw ychydig o filltiroedd i'w fan geni, sef Blaenafon. Dywedodd 'Nid oeddwn erioed yn disgwyl y byddwn yn gorffen fy mywyd fel dyn hapus, ond rwyf wedi gwneud hynny.' Bu farw yn dawel ar 1 Rhagfyr 2001. Mae ei fab Niall yn cofio ei fod yn ddyn llawen a oedd yn mwynhau cael diod a hwyl, ac a oedd yn adnabyddus am ei egni, ei frwdfrydedd, ei fywiogrwydd a'i deimlad o hwyl.

**Ffynonellau**

Washington-Jones, N. (2020). The long arm of Lampeter academicals. *The Link, 76*, 17. Cyrchwyd ar 16 Tachwedd 2020 o https://www.uwtsd.ac.uk/media/uwtsd-website/content-assets/documents/alumni/lampeter-society/the-link-summer-2020.pdf

## Sadie Watson

Mae gan Dr Sadie Watson dros ddau ddegawd o brofiad fel archeolegydd proffesiynol yn gweithio yn y maes, yn bennaf yn Llundain a'i hamgylchoedd.

Dyfarnwyd iddi ei gradd BSc (Anrh.) Gwarchod Treftadaeth gan Brifysgol Bournemouth yn 1995, a'i gradd MA Archeoleg a Threftadaeth gan Brifysgol Leeds yn 2000. Dair blynedd ar ôl i'w gradd BSc gael ei dyfarnu iddi, dechreuodd hi weithio i MOLA (Amgueddfa Archeoleg Llundain), gan ddod yn Swyddog Prosiect yn 2009, yn gyfrifol am y prif safleoedd archeolegol, yn ogystal â thimau gwaith maes sylweddol. Yr un flwyddyn, ymgofrestrodd Watson ym Mhrifysgol Cymru, Llambed (a newidiodd i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn 2010), i astudio am ei PhD mewn Archeoleg Gymwysedig a Methodolegau Archeoleg Maes. Gwnaeth ei thesis, *Digging London: A Reflexive Look at Archaeology in the Western Part of the City* (2016), dynnu'n sylweddol ar ei phrofiad o weithio yn y sector masnachol, gan archwilio'n feirniadol i'r methodolegau a gaiff eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer gwaith maes sy'n benodol i Lundain. Yn 2017, llwyddodd ei chais am swydd fel Archeolegydd Maes Preswyl yn y MacDonald Institute, Prifysgol Caergrawnt.

Mae Watson wedi cymryd rhan yn datgloddio sawl safle Rhufeinig, a chafodd y rhain eu cychwyn oherwydd roedd angen datblygu isadeiledd Llundain. Rhwng 2010 a 2013, gweithiodd hi yn Bloomberg, Llundain, lle cafodd Teml Mithras ei darganfod gyntaf yn 1954. Yn cysylltu'n agos â'r contractwyr a oedd yn gyfrifol am adeiladu Pencadlys Ewropeaidd Bloomberg, gwnaeth Watson arwain timau a oedd yn cynnwys cymaint â 55 o archeolegwyr a weithiodd ar y safle, gan symud 3,500 tunnell o bridd gyda'u dwylo a dod o hyd i, a chofrestru 11,500 o ddarganfyddiadau, gan gynnwys crochenwaith, lledr, tecstilau a phren, Bu Watson hefyd yn Swyddog Prosiect i gloddiadau aml-gyfnod Sugar Quay, un o borthladdoedd canolog Llundain ers diwedd y ganrif gyntaf Oed Crist. Yn ogystal ag archeoleg ymarferol, mae ei rôl hi hefyd yn cynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd drwy roi sgyrsiau, cyflwyniadau ac ysgrifennu blogiau am ei gwaith hi ei hun a gwaith MOLA.

Yn 2019, dyfarnwyd i Watson Gymrodoriaeth Arweinwyr y Dyfodol gan UK Research and Innovation am gyfnod o bedair blynedd, ac o'r 78 derbynnydd, roedd hi ymlith yr ychydig a oedd yn gwneud gwaith maes yn hytrach na gwaith academaidd yn unig. Mae ei Chymrodoriaeth 'Measuring, maximising and transforming public benefit from UK Government infrastructure investment in archaeology', yn canolbwyntio ar sicrhau bod arian y cyhoedd sy'n cael ei wario ar brosiectau isadeiledd, o ganlyniad, yn arwain at gyfleoedd i ymgymryd ag ymchwil perthnasol a chyfranogiad gan y cyhoedd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ffordd dderbyniol o fesur effaith gymdeithasol buddsoddiadau, a allai fod werth miliynau o bunnoedd, ac felly, canlyniad Cymrodoriaeth Watson, mewn cydweithrediad â phartneriaid, gan gynnwys Historic England a HS2, bydd cynhyrchu cyfarwyddyd ar yr arfer gorau, ynghyd â phecyn cymorth y gellid eu defnyddio i hysbysu arfer a pholisi'r dyfodol. Mae hi wedi dweud ac ysgrifennu'n helaeth bod angen i archeolegwyr y sector masnachol ymgysylltu â'r cyhoedd wrth gynllunio, ac ynglŷn â chasgliadau cloddiadau, yn hytrach na gweithio'n anweledig y tu cefn i balisau, oherwydd, fel y dywedodd hi, 'archaeology is a communication.'

Pan ofynnwyd iddi yn 2015 pam y byddai'n argymhell ei phroffesiwn, atebodd Watson, '*it is a career that combines physical work with detailed academic analysis, because women work alongside men on an equal footing, because every day is different and because it is intellectually stimulating*.' Er hynny, mae hi'n awyddus i hyrwyddo newid, gan ddadlau mewn erthygl a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn *Archaeological Dialogues*, 2021, bod archeolegwyr yn gyson wedi profi eu hunain i fod yn 'conservative in method and practice, restrictive when thinking about true innovation and exclusionary'. Mae hi'n ymryson bod angen ar archeoleg fynd i'r afael â materion cyfredol, megis cydraddoldeb, cynhwysiad ac amrywiaeth, fel cymaint o agweddau ar gymdeithas heddiw, a symud tuag at weithredu rheolaeth lorweddol.

**Ffynonellau**:

Watson, Sadie. (2015, July 16). Why I Love Archaeology, *MOLA*. https://www.mola.org.uk/blog/why-i-%E2%9D%A4-archaeology-%E2%80%93-sadie-watson

Watson, Sadie. (2019, September 13). MOLA archaeologist, Sadie Watson, awarded UKRI Future Leaders Fellowship. *MOLA https://www.mola.org.uk/blog/mola-archaeologist-sadie-watson-awarded-ukri-future-leaders-fellowship*

Watson, S. (2017). Post-excavation assessment, analysis and dissemination on modern archaeological practice. *Research proposal submitted as application for Field Archaeologist in Residence, McDonald Institute for Archaeological Research, University of Cambridge.* https://www.academia.edu/33657374/Title_Post_excavation_assessment_analysis_and_dissemination_in_modern_archaeological_practice

Watson, S. (2021). Degrowth in development-led archaeology and opportunities for change. A comment on Zorzin. *Archaeological Dialogues, 28, 22-25. https://www.academia.edu/48897267/Degrowth_in_development_led_archaeology_and_opportunities_for_change_A_comment_on_Zorzin*

# Rebecca Wheatley

Actores, cyflwynydd a chantores cabare yw Rebecca Wheatley; mae hi'n fwyaf enwog am ei rôl yn nrama ysbyty'r BBC, *Casualty.*

Magwyd Rebecca yn Teddington, De-orllewin Llundain, lle mynychodd hi ysgol gwfaint 'St Catherine's.' Mae hi wedi bod yn canu ac yn perfformio ers oedd hi'n naw mlwydd oed; pan oedd hi'n bymtheg mlwydd oed, dechreuodd hi gael hyfforddiant canu clasurol drwy fynychu Opera Workshop ar foreau Sadwrn. Yna, ymunodd hi â band, gan berfformio mwy o ddeunydd pop.

Mewn cyferbyniad llwyr â Teddington, astudiodd Rebecca lenyddiaeth Saesneg yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llambed. Er iddi golli'r cyfle i fynd i ysgol theatr, mae hi wedi dweud 'I wouldn't change anything because I think university is a massive growing time. It's experience and it's life.' Dychwelodd hi i Lundain a threuliodd ddwy flynedd yn gweithio fel rheolwraig docynnau gynorthwyol i'r Piccadilly Theatre, yn y West End. Pan oedd hi yno, enillodd hi ei cherdyn Undeb yr Actorion yn gweithio fel brenhines ddrag yng nghlwb Madame Jojos. Gwnaeth cyfeillion Wheatley ei hannog i ddefnyddio ei thalentau'n broffesiynol, gan fynd â hi i farrau piano a mynnu ei bod hi'n perfformio yno. Gwnaeth hi ymadael â'i gwaith dydd a threuliodd hi saith mlynedd yn canu llawn amser, yn ogystal ag ymgymryd ag ychydig o actio ar gyfer y teledu. Byddai'n perfformio gan ddefnyddio amrywiaeth enfawr o arddulliau a lleoliadau, o ddyn mewn drag i daith o gwmpas yr Almaen fel rhan o gast *Godspell* a *Cabaret*. Ar un adeg, roedd ganddi dri ar ddeg o breswyliadau yr wythnos, gan berfformio ddwywaith y nos.

Daeth ei chyfle mawr yn 1997, pan roddwyd iddi rôl Amy Howard, derbynyddes Ysbyty Holby City yn y ddrama deledu nos Sadwrn, *Casualty.* Meddai 'Getting into Casualty was a big thing for me. It was totally different from anything I'd done before and it was life-changing in all sorts of ways.' Gwnaeth Wheatley gymryd rhan yn y ddeuddegfed tan y bymthegfed gyfres o'r sioe, yn ffilmio tua deg episod ar hugain y flwyddyn. Yn sôn am Amy, meddai hi 'She's good fun and provides a broad shoulder to cry on. Most people love her, especially children … She's vivacious and larger than life and can be quite flirty.' Gwnaeth uchelbwyntiau Amy gynnwys rhoi genedigaeth i'w mab Milo mewn gorsaf betrol ar Noswyl y Nadolig a chanu'r gân 'Everlasting Love' ym mhriodas Charlie a Baz. Yn dilyn hyn, gwnaeth cast *Casualty* ryddhau 'Everlasting Love' fel sengl, gyda Wheatley fel y brif gantores; cyrhaeddodd y sengl rif 5 yn y siartiau. Gwnaeth hi ddilyn hyn gyda'r albwm *Time Stands Still*, sy'n cynnwys ei sengl solo gyntaf, sef 'Stay with me', a gyrhaeddodd rif 10.

Ymadawodd Wheatley â *Casualty* yn 2001; meddai, ' … I did not go into acting to be rich and famous. I loved *Casualty*, but I need to do other things, even if they make me poorer.' Aeth ymlaen i berfformio yn y sioe gerdd West End, *Fame,* gan chwarae rhan yr athrawes Saesneg lem Miss Sherman, sy'n benderfynol bod y prif gymeriad yn cwblhau ei addysg cyn chwilio am enwogrwydd.

Ddwywaith, gwnaeth hi deithio gyda *Mum's the word,* drama am fod yn rhiant, a ysgrifennwyd gan chwe mam a oedd unwaith wedi bod yn actorion proffesiynol. Teimlodd 'I had just had my son when I auditioned for *Mum's the Word* and so much of it was about my life, I just had to be part of it all. So Fred will be joining me for the tour. I think he'll be our official mascot really!' Mae hi wedi bod yn wahoddwraig i'r sioe un fenyw *Big Pants and Botox,* a ysgrifennwyd gan Louise Roche. Mae'r unig gymeriad, Barbara, yn clirio gweddillion ei phen-blwydd, yn hanner can mlwydd oed; mae'n rhannu ei chyfrinachau a'i phryderon mwyaf cuddiedig gyda'r gynulleidfa. Gwnaeth y daith genedlaethol hon, a werthodd bob tocyn, orffen gyda chyfres fer o berfformiadau yn The Arts Theatre a leolir yn y West End. Mae Wheatley hefyd wedi gorffen pedair taith o'r sioe *Menopause the Musical*, a'u dilyn gyda *Menopause the Musical 2.* Mae pedair merch ganol oed, heb, mae'n debyg, lawer yn gyffredin

rhyngddynt, yn cwrdd yn adran *lingerie* storfa adrannol. Mae gan y sioe, sydd yn llawn jôcs un llinell am byliau o wres a cholli cof, drac sain sydd yn llawn ailwampiadau o glasuron pop y 60au, y 70au a'r 80au sy'n cynnwys llawer o ensyniadau.

Mewn cyferbyniad llwyr, gwnaeth Wheatley hefyd gymryd rhan mewn cynhyrchiad gan Grange Park Opera a oedd wedi'i seilio ar *Fiddler on the Roof,* yn chwarae cymeriad y trefnydd priodasau Iddewig Yente, ochr yn ochr â Bryn Terfel. Cafodd y sioe hon ei hailberfformio fel prom BBC a'i darlledu'n fyw ar Radio 3.

Mae Rebecca hefyd yn hoff o gyflwyno. Medd hi amdano, 'A lot of actors don't like it because they like playing other people. I think I can bring my cabaret into presenting and I'm happy to be myself.' Ychydig ar ôl iddi ymadael â *Casualty,* ffilmiodd hi'r rhaglen iechyd *Body Beautiful* i'r Living Channel. Roedd angen rhywun ar y tîm cynhyrchu a oedd yn 'gyfeillgar' er mwyn trafod ffitrwydd a dilyn diet. Medd Wheatley 'I have always been big, so it was important to do something that wasn't patronising to big people. I enjoyed doing that because I was learning a very different skill and I was meeting people who were changing their habits and their lives.'

Gwnaeth Wheatley ymddangos yn rheolaidd yn ystod 2002 ar banel y rhaglen ITV *Loose Women*; mae hi hefyd wedi cyflwyno'n rheolaidd ar raglen *The Wright Stuff* i Sianel 5*.* Mae hi'n dweud ei bod hi'n hapus i roi ei barn ar unrhyw bwnc a allai godi! Yn siarad amdani hi ei hun, medd hi 'Acting, singing, presenting, its all telling stories. I love to tell stories.'

**Ffynonellau**

Rebecca Wheatley. (n.d.) In: *Internet Movie Database.* Adalwyd ar Fedi 21 2020 oddi wrth https://www.imdb.com/name/nm0923700/?ref_=nmbio_bio_nm

Myskow, N. (2000, September 29). The real real me: Rebecca Wheatley - Life doesn't stop because - you'd like to be thinner ..you've got to go with what you've got - Rebecca Wheatley reveals all to Nina Myskow. *Daily Mirror*, p. 30,31. Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/138CC03962E8A928?p=UKNB

Weldon, S. (2000, March 13). Stay With Me, Baby: . . . and watch the rise of TV's Casualty ace who's a singing star too. *Western Daily Press*, p. 7.. Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/0F6D1C1309E4C9A1?p=UKNB

BBC (2014). Casualty. Character: Amy Howard. Adalwyd ar Fedi 21 2020 oddi wrth http://www.bbc.co.uk/drama/casualty/pastcharacters/profiles/index.shtml?content/_amy/page1

Griffin, C. (2010). Holby.tv. Rebecca Wheatley. Adalwyd ar Fedi 21 2020 oddi wrth http://www.holby.tv/rebecca-wheatley/

Graham, N. (2002, January 20). Casualty star keeps finances healthy - Fame and fortune. *Sunday Times,* p. Money 10.. Adalwyd oddi wrth https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/0F8C52F0E1CEDFFC?p=UKNB

Why I just love Fame. (2002, March 8). *Liverpool Echo.* Adalwyd oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/resources/doc/nb/news/0F326208389F1BB3?p=UKNB

# Andy White

Mae Andy White yn ddigrifwr stand-yp.

Brodor o Birmingham yw Andy. Nid oedd yn siŵr beth yr oedd am ei wneud ar ôl gadael yr ysgol, ond ei freuddwyd fawr oedd astudio am radd mewn Saesneg. Fodd bynnag, aeth i Brifysgol Aston yn gyntaf i astudio cynllunio trefi. Nid yw'n syndod nad aeth hwn yn dda a gadawodd ar ôl blwyddyn. Cofiodd fod gan Goleg Prifysgol Dewi Sant enw da am fod yn goleg hawdd cael lle ynddo, felly mynychodd y gynhadledd myfyrwyr newydd. Oherwydd lleoliad anghysbell Llambed, roedd hyn yn cynnwys treulio noson yno, gan roi cyfle i ddarpar fyfyrwyr yfed ym mar Undeb y Myfyrwyr.

Yn Llambed, astudiodd Andy Saesneg ac ymdaflu i fywyd coleg. Y myfyrwyr eu hunain oedd yn gwneud i bethau ddigwydd, felly doedd dim ots bod y lle yng nghanol unman. Dechreuodd gymryd rhan mewn perfformiad byw ac ysgrifennodd a chyfarwyddo sioe sgetsys comedi. Ysgrifennodd erthyglau digri hefyd ar gyfer cylchgrawn y coleg *1822.* Wrth edrych yn ôl arno, mae Andy yn gweld ei weithgareddau allgyrsiol yn paratoi'r tir ar gyfer ei yrfa gomedïol. Cymerodd ran yn yr wythnos yn y RAG, a chred mai ef oedd y casglwr mwyaf llwyddiannus un flwyddyn. Unwaith eto, gall weld sut y helpodd hyn ei gomedi. Mae ysgwyd tun casglu ar gornel stryd, gweiddi ar ddieithriaid am arian yn gwneud i chi ddod allan o'ch cragen. Mae angen i chi oresgyn swildod os ydych am wneud gwaith stand-yp. Cymerodd ran mewn gwleidyddiaeth myfyrwyr, gan gynnwys mynd i rai gwrthdystiadau. Mae'n cofio bod yn un o grŵp bach o Lambed a aeth i Lundain am brotest yn erbyn Plaid Genedlaethol Prydain. Er bod y garfan yn dod o Lambed yn un fach, o'i chymharu â chyfanswm y myfyrwyr, hon oedd y fwyaf o'r holl golegau o Gymru a ddaeth. Rhedodd Andy hefyd ar gyfer llywydd Undeb y Myfyrwyr ym 1994; ef oedd yr ymgeisydd cyntaf i gynnwys cyfeiriad e-bost ar ei lenyddiaeth ymgyrchu!

Ar ôl gadael Llambed, treuliodd Andy beth amser wedi ei 'gaethiwo wrth ddesg' mewn canolfan alwadau. Roedd un o'i gydweithwyr hefyd yn rhedeg ei gwmni cynhyrchu ei hun; roedd yn gwybod bod gan Andy ddiddordeb mewn perfformio ac awgrymodd ei fod wedi rhoi cynnig ar gomedi stand-yp. Trefnodd i Andy roi cynnig ar slot yn Jongleurs yn Battersea. Roedd hyn yn rhan o gystadleuaeth am actau newydd; roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran wedi bod yn rhan o gylch tafarnau Llundain ers blwyddyn neu ddwy. Er na enillodd Andy, credai iddo wneud yn weddol ac yntau'n cystadlu am y tro cyntaf.

Yn 2002 cymerodd Andy ran mewn rhifyn arbennig o *The Weakest Link* ar BBC1, a oedd yn cynnwys comedïwyr newydd. Sioe gwis oedd y *Weakest Link,* wedi ei chyflwyno gan Anne Robinson, lle pleidleisiai cystadleuwyr yn raddol i gael gwared ar y cystadleuwyr gwannaf yn eu barn nhw. Andy a enillodd yn y pen draw; defnyddiodd ei wobr o £9 750 i dalu am ei briodas chwe mis yn ddiweddarach. Mae ei wraig Cait hithau yn un o raddedigion Llambed; cyfarfu'r naill a'r llall tra roeddent yn fyfyrwyr. Maes o law byddai'n disgrifio'r digwyddiad yn ei sioe *It started with a quiz*. Mae ganddynt fab, Henry, a aned yn 2011. Defnyddiodd Andy ei brofiad yn dad ar gyfer sioe stand-yp arall, *Daddy Fool*. Un sioe a ysgrifennodd a oedd yn seiliedig ar ei fywyd academaidd oedd *I Think Therefore I Joke*, a ysbrydolwyd gan y cyrsiau athroniaeth a gymerodd yn ei flwyddyn gyntaf. Mae'n dal i loffa mewn athroniaeth bob hyn a hyn. Llwyddodd i gyfuno ei fywyd stand-yp â'i ddiddordebau athronyddol yn fwy diweddar pan fynychodd gynhadledd ar gomedi ac athroniaeth ym Mhrifysgol Caint yng Nghaergaint yn 2019.

Diffinia Andy ei hun yn Brummie egnïol, hyderus a gwirion sy'n cyfuno lleisiau gwirion ac affro gwyllt i greu effaith gomig fawr. Gall symud o'r ffurf ddigyffro i'r sain uchel a'r corfforol. Meddai 'Rwy'n tynnu wynebau doniol ac yn gwneud lleisiau gwirion. Weithiau rwy'n ychwanegu jôcs. Rwy hefyd yn

ysgrifennu straeon bach rhyfedd.' Mae'n teimlo ei fod yn llawer mwy allblyg ar lwyfan na mewn bywyd go iawn. Mae'n nodi bod gwahanol gynulleidfaoedd yn amrywio. Er enghraifft, os yw'n perfformio mewn Canolfan Gelfyddydau, bydd yn ceisio bod yn weddol addfwyn. Os yw'n credu bod sawl parti dynion neu blu yn bresennol, bydd yn ceisio eu taro'n galed ar y dechrau gyda rhywbeth doniol iawn. Ar gyfer partïon dynion, mae'n tueddu gwneud hwyl am ben y darpar ŵr; ar y llaw arall, mae partïon plu yn aml yn amddiffynnol o'r briodasferch.

Mae Andy yn perfformio'n rheolaidd ledled Prydain, ac weithiau dramor. Mae wedi chwarae gerbron amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd – clybiau comedi, theatrau, llongau mordeithio, prifysgolion, sioe radio a theledu, a digwyddiadau adloniant corfforaethol. Mae wedi gweithio gyda'r phob un o'r prif gadwyni a hyrwyddwyr. Dramor, mae wedi perfformio ym Monte Carlo, Berlin, Adu Dhabi, Dubai, Brwsel a Zurich.

**Ffynonellau**


Deacy, C. (cyfwelydd). (2020, 8 Chwefror). *Nostalgia interviews with Chris Deacy. Andy White.* [Podcast sain]. Cyrchwyd 29 Hydref 29 2020 o https://audioboom.com/posts/7499358-andy-white

The Comedy Agency (dim dyddiad) Andy White. Cyrchwyd 29 Hydref 2020 o http://www.thecomedyagency.co.uk/artists/andy-white/

McMullen, M. (2011, 8 Mehefin). Star Andy's in Market for laughs. *Coventry Telegraph.* Cyrchwyd 29 Hydref 2020 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&docref=news/137BC7881CC5D070.

Collins, C. (2002, 7 Hydref). Comic links show to bride. *Birmingham Mail.* Cyrchwyd 29 Hydref 2020 o https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&docref=news/1391E85B274131C0.

# Yr Is-lyngesydd Peter Wilkinson CB, CVO

Mae Peter Wilkinson yn swyddog y llynges, a gododd i fod yn Ddirprwy Bennaeth y Staff Amddiffyn, yn ogystal â Llywydd Cenedlaethol y Lleng Brydeinig Frenhinol.

Ganwyd Wilkinson yn Leytonstone, Essex, ond oherwydd y bu rhaid i'w deulu symud nifer o weithiau, mynychodd ef yr Ysgol Ramadeg Frenhinol yn High Wycombe. Ar ymadael â'r ysgol, ymunodd ef â'r Llynges Frenhinol, gan astudio yng Ngholeg Britannia'r Llynges Frenhinol, Dartmouth. Ar yr un pryd, astudiodd ef ddaearyddiaeth yn Llambed ar adeg pan yr Adran Ddaearyddiaeth oedd yr adran fwyaf yn y coleg hwnnw. Chwaraeodd ef rygbi a sboncen, ac ef oedd Capten y clwb hwylio. Ef hefyd oedd Trysorydd Clwb Rygbi'r Coleg, ac roedd hyn yn golygu mai ef oedd yn trefnu dosbarthu'r tocynnau ar gyfer gemau rhyngwladol Cymru ym Mharc yr Arfau Caerdydd. Etholwyd ef hefyd yn aelod o Bwyllgor Gweithredol Undeb y Myfyrwyr.

Ar ôl graddio o Goleg Prifysgol Dewi Sant, a chwblhau ei hyfforddiant yn Dartmouth, ymunodd Wilkinson â'r llongau tanfor, yn gweithio ar longau a oedd yn cael eu gyrru gan ddiesel ac ynni niwclear yn ogystal. Fel swyddog iau, ymgymerodd ef ag amrywiaeth o ddyletswyddau, ac yn 1987, dewiswyd ef i fynd ar y Cwrs Ymgymhwyso Prif Swyddogion. Yn dilyn hyn, rhoddwyd iddo reolaeth dros HMS *Otter,* HMS *Superb* a HMS *Vanguard.* Ei long danfor olaf, HMS *Vanguard*, oedd y cyntaf o'r llongau tanfor dosbarth Vanguard i gael eu harfogi gyda thaflegrau balistig. Gyda hyd o 150 metr a dadleoliad o 15 900 tunnell fetrig, hon oedd un o'r llongau tanfor mwyaf i gael eu gweithgynhyrchu yn y DU. Mae Wilkinson wedi disgrifio symudiad araf y llong danfor hon o gwmpas y cefnforoedd, symudiad a oedd yn sicrhau'n barhaol na fyddai hi'n cael ei datgelu. (Mae mwy o gyflymder yn golygu mwy o sŵn!). Pan oeddent yn patrolio, byddai amserlen ddyddiol y criw yn cynnwys gwylio, cysgu a bwyta, gydag amrywiaeth o ymarferion a driliau. Byddai'r cysylltiad â byd mawr y tu allan yn gyfyngedig dros ben. Byddai'r 150 o aelodau'r cwmni llong yn cael ychydig o wybodaeth, gan gynnwys darnau allan o'r papurau newydd yn ddyddiol, a negeseuon byrion yn wythnosol; ond roedd y rheolau llym 'no transmission' yn golygu nad oedd y criw yn gallu anfon unrhyw atebion na chyfarchion adref.

Aseiniad gweithredol olaf Wilkinson oedd fel Capten 2il Sgwadron y Llongau Tanfor, wedi'i leoli yn Devonport. Dilynodd wedyn amrywiaeth o benodiadau staff yn Llundain a Portsmouth. Yn 2001, daeth ef yn Gyfarwyddwr Amodau Gwasanaeth y Llynges, yn atebol i Ail Arglwydd y Morlys, ac yn gyfrifol am amrywiaeth o bolisïau cadw. Dair blynedd yn ddiweddarach, dyrchafwyd ef yn Ôl-lyngesydd, ac yna, daeth ef yn Ysgrifennydd y Llynges yn gyfrifol am reoli gyrfaoedd 40,000 o bersonél Gwasanaeth y Llynges, yn amrywio o Longwyr Abl i'r Llyngesydd ei hun. Ei swydd nesaf oedd Ysgrifennydd y Gwasanaethau Amddiffyn, wedi'i leoli yn y Weinyddiaeth Amddiffyn ac yn gweithio i Bennaeth y Staff Amddiffyn, yn ogystal â gweithio i Ysgrifennydd Preifat Ei Mawrhydi, y Frenhines, ym Mhalas Buckingham. Yn 2007, dyrchafwyd ef yn Is-lyngesydd, a daeth ef yn Ddirprwy Bennaeth y Staff Amddiffyn (Personél), yn gyfrifol am gynhyrchu digon o bersonél galluog a chryf eu cymhelliad ym mhob un o'r tri gwasanaeth ar gyfer gweithrediadau, yn ôl gofynion y llywodraeth ar y pryd.

Gwnaeth Wilkinson ymddeol o'r Llynges yn 2010, ac yn 2011, daeth ef yn 'Clerk to the Worshipful Company of Cooks', un o gwmnïau lifrai hynaf Dinas Llundain. Ochr yn ochr â hyn, mae ef wedi bod yn rhan o nifer o elusennau'r lluoedd arfog. Rhwng 2012 a 2016, bu ef yn Llywydd Cenedlaethol y Lleng Brydeinig Frenhinol, fel ei chynrychiolydd ar gyfer digwyddiadau cenedlaethol, megis Gwasanaeth y Gofadail a Gŵyl y Cofio. Bu'n gadeirydd yr elusen forwrol 'Seafarers UK,' yn is-lywydd 'Combat Stress', yn gadeirydd y 'Forces Pension Society' ac yn ymddiriedolwr yr 'Armed Forces Memorial'. Bu'n llywydd Cymdeithas Pêl-droed y Llynges Frenhinol am chwe blynedd a hefyd yn is-

lywydd anrhydeddus i'r Gymdeithas Pêl-droed. Ar hyn o bryd, ef yw cadeirydd y 'Submariner Memorial Appeal', yn codi'r arian angenrheidiol ar gyfer adeiladu Cofeb newydd yn y Goedardd Genedlaethol, a leolir yn Swydd Stafford.

Yn 2007, gwnaethpwyd Wilkinson yn Gadlywydd Urdd Frenhinol Fictoria, ac yn Gadlywydd Urdd y Baddon yn 2010. Arwisgwyd ef yn Gymrawd Anrhydeddus Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn 2013. Mae ef yn briod â Tracey (Ward gynt), un o raddedigion eraill Llambed; mae ganddynt ddwy ferch sy'n oedolion, Kate a Hilary. Mae ef yn rhestru ymhlith ei hobïau achyddiaeth, garddio a gwylio pob math o chwaraeon.

**Ffynonellau**

Wilkinson, P. (2022). Peter Wilkinson clerk at the Worshipful Company of Cooks [LinkedIn page]. LinkedIn. Adalwyd ar Chwefror 10 2022 oddi wrth https://www.linkedin.com/in/peter-wilkinson-12352a19/

Wilkinson, Vice Adm. Peter John, (born 28 May 1956), Deputy Chief of Defence Staff (Personnel), 2007-10. *Who's Who & Who Was Who.* Adalwyd ar Chwefror 10 2022 oddi wrth https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540884.001.0001/ww-9780199540884-e-4000579?rskey=hwZN1w&result=5

Arwisgiad Cymrawd Anrhydeddus Investiture of Honorary Fellow Yr Islyngesydd / Vice Admiral Peter Wilkinson CB, CVO. Cynulliad Graddio – Degree Congregation 2013, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, University of Wales Trinity Saint David, Campws Llambedr Pont Steffan, Lampeter Campus

Royal Navy. (n.d.) HMS Vanguard (S28). Adalwyd ar Chwefror 11 2022 oddi wrth https://www.royalnavy.mod.uk/our-organisation/the-fighting-arms/submarine-service/ballistic-submarines/hms-vanguard

Wilkinson, P. (2009). First patrol: Vanguard – the first Trident missile submarine. In Roberts, J. *Safeguarding the nation: the story of the modern Royal Navy.* Seaforth Publishing. Adalwyd ar Chwefror 10 2022 oddi wrth https://www.google.co.uk/books/edition/Safeguarding_the_Nation/jNbZAwAAQBAJ?hl=en&gbpv=1&dq=%22peter+wilkinson%22+and+submarines&pg=PT222&printsec=frontcover

*Llawlyfr Undeb y Myfyrwyr 1976/77 = Students' Union handbook.* Coleg Prifysgol Dewi Sant

*Llawlyfr Undeb y Myfyrwyr 1977/78 = Students' Union handbook.* Coleg Prifysgol Dewi Sant

# Y Brigadydd A. P. Williams OBE – Y Gatrawd Fersiaidd Gynt



Magwyd Andrew Williams yng Nghaerloyw cyn ymgofrestru yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant yn 1980 i astudio daearyddiaeth. Roedd yn hoff iawn o bellenigrwydd Llambed. Oherwydd y bu'n byw yn Esgairdawe, yn aml, byddai'n rhedeg y nifer mawr o filltiroedd yn ôl ac ymlaen i'r Coleg er mwyn cynnal ei astudiaethau.

Roedd ef yn frwdfrydig iawn dros redeg, rhywbeth a fyddai'n elfen bwysig o'i fywyd am weddill ei oes. Cynrychiolodd ef y Coleg yn y rasio Draws Gwlad, ac ef oedd Capten yr 2il dîm XI Pêl-droed. Ar ôl ymuno â Chorfflu Hyfforddi Swyddogion Prifysgol Cymru yn ei ail flwyddyn, cafodd ei ddyrchafu'n gyflym i Is-swyddog Iau, cyn penderfynu ar yrfa yn y Fyddin.

Comisiynwyd ef i Gatrawd Swydd Gaerloyw yn 1984. Treuliodd ei ddyletswydd gatrodol gynnar yn y DU, Kenya a Berlin, ynghyd â nifer o fisoedd bob blwyddyn yn arwain Tîm Biathlon y Gatrawd yn Norwy. Dilynodd teithiau byrion i jyngloedd Brunei a Belize, a gwnaeth ef hefyd reoli cwmni amlwladol ar gyfer y Cenhedloedd Unedig yng Nghyprus.

Mae ei benodiadau staff iau yn cynnwys capten gweithrediadau G3 ym Mhencadlys 39 Brigâd y Milwyr Traed yn Belfast, ac am hynny, dyfarnwyd iddo Gymeradwyaeth y Frenhines am Wasanaeth Gwerthfawr, uwchgapten cynlluniau / gweithrediadau G3/G5 ym

Mhencadlys Gogledd Iwerddon, ac am hynny, rhoddwyd iddo MBE, a Chynorthwyydd Milwrol i'r Ysgrifennydd Milwrol a hefyd i'r Dirprwy Gadfridog.

Mae ganddo brofiad gweithredol sylweddol, ar y cychwyn fel cadlywydd platŵn yng Ngogledd Iwerddon, ac yn fwy diweddar yn y Balcanau, Irac ac Afghanistan. Gwnaeth ef reoli Catrawd Swydd Stafford rhwng 2003 – 2005, gan gynnwys gweithrediadau yn Kosovo ac Irac. Cafodd ei uwchraddio i OBE am ei arweinyddiaeth ragorol yn Irac.

Roedd ei gyd-ddyletswyddau yn cynnwys bod yn hyfforddwr i'r Rheolaeth Gwasanaethau ar y cyd ac i'r Coleg Staff, ac yn Ddirprwy Bennaeth Cynorthwyol y Staff J5 (Polisi a Chynlluniau -Y Dwyrain Canol) yn y Cyd-bencadlys Parhaol. Yno, roedd ef yn benodol gyfrifol am ddrafftio opsiynau ar gyfer cyfraniad milwrol y DU at Irac rhwng 2006 a 2008.


Ymunodd ef â'r Coleg Astudiaethau Amddiffyn Brenhinol ar ôl blwyddyn o fod yn gyrnol gyda'r Rheolaeth Trosglwyddo Diogelwch Gyfunol, yn bennaf, ar gyfer yr Unol Daleithiau – Afghanistan. Yno, bu ef yn benodol gyfrifol am ddylunio i'r dyfodol ac am ddiwygio Gweinyddiaethau Amddiffyn Afghanistan a'r Mewndiroedd. Dyfarnwyd iddo Fedal Seren Efydd yr UD am ei gyfraniad.

Ar gael ei ddyrchafu'n Frigadydd yn 2010, gwnaeth Andrew reoli Brigâd (Dwyrain) 49, a chyn hynny, am dair blynedd a hanner, bu'n Ddirprwy Ysgrifennydd Milwrol – yn gyfrifol am reoli gyrfaoedd yn y Fyddin. Yn ystod y cyfnod hwnnw yng Nglasgow, daeth hefyd yn gynrychiolydd ar bwyllgor Combat Stress (Yr Alban). Dechreuodd ef reoli'r Ysgol Milwyr Traed ym mis Mehefin 2015, cyn ymddeol yn gynnar i ymgymryd â swydd ymgynghorol gyda'r cwmni strategaeth fyd-eang Kearney yn y Dwyrain Canol.

Yn ogystal â'i radd oddi wrth Brifysgol Cymru, graddiodd hefyd o Goleg Staff y Fyddin ac mae ganddo Radd Meistr o Cranfield. Wedi ei benodi gan Ei Mawrhydi, Y Frenhines, i'r swydd anrhydeddus Cyrnol Y Gatrawd Fersiaidd, yn drist, bu rhaid iddo adael y cyfrifoldebau hynny ar ôl a symud dramor. Mae ef yn briod â Jacs – Cyn-swyddog Nyrsio yn y Fyddin – a gwnaeth ef gwrdd â hi wrth ymweld â Belize; mae ganddynt dri o blant sy'n oedolion. Mae ef yn dal i gymryd rhan gystadleuol mewn rasys triathlon a digwyddiadau dygnwch seiclo a rhedeg eraill. Mae ef wedi ennill yn gyson amrywiol gategorïau mewn nifer o farathonau mynydd, yn ogystal â Ras Copaon Ynysoedd yr Alban, ac mae ef yn un o enillwyr blaenorol y Ras Hwylio / Rhedeg Bryniau'r Tri Chopa, ac mae hyn efallai yn dyst o'i ddyddiau rhedeg cynnar ar fryniau Cymreig Ceredigion.

# Y Gwir Barchedig David William, Esgob Huron

**"A *man of Celtic fire and a human dynamo of energy*"**



*https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Anglican_archbishops_and_bishops_of_Canada_(David_Williams_cropped).jpg*

Mae bywyd cynnar David William yn enghraifft o bendantrwydd yn wyneb adfyd. Ganwyd ef ym mhlwyf bychan Silian, ger Llambed, yn 1859, a mynychodd ef yr ysgol gynradd Gymraeg leol. Ond, yn dilyn marwolaeth gynnar ei dad, prentisiwyd William i grydd, ac erbyn iddo droi dwy ar bymtheg mlwydd oed, roedd ef yn cynnal ac yn gofalu am ei fam a'i chwiorydd. Roedd ei dad wedi bod yn ddyn addysgedig, a gwnaeth William etifeddu ei hoffter mawr am wybodaeth, gan addysgu iddo ef ei hun Saesneg, Lladin a Groeg. Wrth helpu trefnu Ysgol Sul Gymraeg yn Llambed, daeth ef i sylw'r rheithor, a wnaeth ei annog i fynychu Ysgol Ramadeg Llambed am dri mis er mwyn paratoi ar gyfer yr arholiad a chael ei dderbyn yng Ngholeg Dewi Sant. Llwyddodd basio, gan ennill iddo ef ei hun Arddangosfa (ysgoloriaeth) a gwobrau olynol drwy gydol ei flynyddoedd yn y coleg; gwnaeth ymadael â'r coleg yn 1883, wedi ennill gradd ail ddosbarth yn y clasuron. Aeth ymlaen i astudio yn Rhydychen, gan ennill BA yn 1890 a chwblhau ei MA yn 1901. Ordeiniwyd ef gan Esgob Bangor yn 1885, a dechreuodd yn ei swydd fel curad yn Ffestiniog.

Ond gwnaeth cwrs bywyd William newid yn llwyr pan ddywedwyd wrtho gan ei feddyg na fyddai ei ysgyfaint yn gallu gwrthsefyll hinsawdd Cymru. Ar weld hysbyseb am swydd fel Athro yng Ngholeg Huron, gwnaeth William ymfudo i Ganada yn 1887. Am y pum mlynedd nesaf, gwnaeth addysgu yn y coleg a gweithio hefyd fel curad yng Nghabidyldy St John (1887-1888) ac Eglwys Gadeiriol St Paul (1888-1892), gan ddangos yr egni a'r ymrwymiad a fyddai nes ymlaen yn cael eu cydnabod gan awdurdodau'r Eglwys. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaeth gwrdd ag Alberta Eliza a'i phriodi, a chawsant chwech o blant.

Yn 1892, daeth William yn rheithor Eglwys St. James, Stratford, lle y gweithiodd ef am y tair blynedd ar ddeg nesaf. Penodwyd ef yn Archddiacon Perth yn 1903, a blwyddyn ar ôl hynny,

ar farwolaeth yr Esgob Baldwin, daeth yn Esgob Huron, talaith a oedd pedair gwaith yn fwy na Chymru gyfan. Byddai William yn profi ei hun i fod yn unigolyn annibynnol ac egnïol, yn weinyddwr a gwladweinydd medrus, ac yn athrylith gyda chyllid. Chwaraeodd rôl ganolog pan adolygwyd Y Llyfr Gweddi Gyffredin, oherwydd gwnaeth ef ei addasu er mwyn cydweddu â sut oedd bywyd yn newid yng Nghanada, ac fe honnwyd na allai fod unrhyw ddyn arall wedi cyflawni tasg mor anodd. Gwnaeth hefyd lywyddu dros eisteddiadau, gan arwain ystyriaethau'r Pwyllgor Emynol a gafodd ei benodi i roi Llyfr Emynau at ei gilydd ar gyfer Eglwys Loegr Canada. Ef oedd cadeirydd Pwyllgor Gweithredol Bwrdd Cenhadol yr Eglwys honno am un ar bymtheg o flynyddoedd, yn ogystal â chadeirydd Pwyllgor Gweithredol Y Symudiad Ymosodol Anglicanaidd, ac er iddo gydnabod y cysylltau agos a oedd ganddi ag Eglwys Loegr, ymdrechodd i sicrhau bod Eglwys Loegr Canada yn llai dibynnol ar adnoddau a thraddodiadau'r fam-eglwys, ac mae'r cyflawniad hwn wedi'i ddyfynnu fel gorchest fwyaf William.

Yn ystod y 1920au, gofynnwyd i William ystyried dychwelyd i Gymru er mwyn cael ei benodi'n Esgob Bangor, swydd y gwnaeth ef ei gwrthod oherwydd ei gariad tuag at y wlad a'r eglwys a wnaeth ei fabwysiadu. Yn 1926, penodwyd ef yn Archesgob cyntaf Huron a thrydydd Archesgob Ontario.

Bu farw yn sydyn ar Hydref 7fed 1931, ar ôl bod ar daith conffyrmasiwn, ond cafodd ei gofio gan ei hen goleg, a wnaeth gyhoeddi coflith teimladwy iddo yng nghylchgrawn y coleg.

Ymgymerwyd â'r ymchwil hwn gan Elizabeth Cawdell.

**Ffynonellau**

A Column About People "David Huron", *Maclean's* January 1st 1930. Adalwyd oddi wrth https://archive.macleans.ca/article/1930/1/1/a-column-about-people

*A Family History* a gedwir yn archifau'r Brifysgol

Project Canterbury *Leaders of the Canadian Church* VIII David Williams by Archdeacon J. B. Fotheringham, 1943. Adalwyd oddi wrth http://anglicanhistory.org/canada/bheeney/3/8.html

St David's College Magazine Vol 12, 1928-1933, pp. 92-93.

# John Williams

John Herbert Williams (1919-2003) oedd y caplan carchar yn gyfrifol am ofal bugeiliol Ruth Ellis, y fenyw ddiwethaf i gael ei chrogi ym Mhrydain.

Daeth Williams o Bentwyn-mawr, naw milltir i'r gogledd-ddwyrain o Gaerffili. Ei rieni oedd Thomas a Mary Williams. Mynychodd yr ysgol ramadeg leol ac yna, aeth i Goleg Dewi Sant, Llambed, i astudio Saesneg. Wedyn, aeth i Goleg Diwinyddol Caersallog (Salisbury) er mwyn paratoi ar gyfer bod yn offeiriad. Ordeiniwyd ef yn 1943 gan Esgob Trefynwy, a gweithiodd fel curad ym Mlaenafon, Sir Fynwy, ac yna, yn Llanisien, Caerdydd. Yn 1948, daeth yn benoffeiriad Y Tŷ Du (Rogerstone), ym maestrefi Casnewydd. Hefyd, yn 1948, priododd ef Joan Elizabeth Morgan; cawsant un mab.

Yn ystod ei gyfnod yng Nghaerdydd, gwnaeth Williams ymgymryd â pheth gwaith bugeiliol yn y carchar lleol. Yn 1948, daeth yn gaplan carchar amser llawn, yn gweithio ar y cychwyn fel caplan cynorthwyol yng Ngharchar Strangeways, ym Manceinion. Roedd dyletswyddau caplaniaid bryd hynny, fel maent heddiw, wedi'u rhagnodi gan y gyfraith. Rhaid i gaplaniaid ymweld ag unrhyw garcharorion sydd newydd gael eu derbyn o fewn pedair ar hugain awr, ymweld â phob carcharor a gaiff ei gadw ar wahân neu sydd yn ysbyty'r carchar, a chynnal gwasanaethau crefyddol. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn gwaith bugeiliol ehangach, er enghraifft cefnogi carcharorion a staff yn ystod adegau sydd yn arbennig o anodd. Bryd hynny, byddai caplaniaid carchar ym Mhrydain hefyd yn gyfrifol am ofalu am garcharorion a oedd yn aros i gael eu crogi. Adroddwyd gan un o ragflaenyddion Williams yn Strangeways, Joseph Walker, ei fod ef wedi mynychu dienyddiadau pum dyn ac un fenyw.



Carchar Strangeways

Ar ôl Strangeways, treuliodd Williams saith mlynedd yn Llundain yn gweithio yng Ngharchar Menywod Holloway. Ac yno, gwnaeth ef gefnogi Ruth Ellis, croesawferch clwb nos a gafodd y ddedfryd marwolaeth am lofruddio ei chyn-bartner, David Blakely. Gwnaeth Williams ofalu amdani ar ddiwrnod ei dienyddiad. Daeth treial Ellis yn achos enwog. Nid dim ond oherwydd mai hi oedd y fenyw ddiwethaf i gael ei chrogi ym Mhrydain oedd y rheswm am hyn, ond roedd y gwrthdro yn erbyn ei chosb yn un o'r sbardunau a wnaeth arwain at gyflwyno ac ymgorffori'r amddiffyniad o 'gyfrifoldeb lleihaëdig' yn *Neddf Dynladdiad* 1957.

Yn dilyn ei gyfnod yn Holloway, gwnaeth Williams weithio am ddau gyfnod o saith mlynedd yr un yng Ngharchar Birmingham ac yn Wormwood Scrubs, gorllewin Llundain. Yn y 'Scrubs', llwyddodd berswadio Syr David Willcocks i ddod a'i gôr 'the Bach Choir' i ganu bob Nadolig. Daeth hwn yn ddigwyddiad pwysig yng nghalendr blynyddol y carchar, gan barhau am fwy na phum mlynedd ar hugain. Meddai coflith Williams yn *The Daily Telegraph*, 'In each of these demanding spheres he

displayed the qualities of a priest of an older school, whose pastoral work was steeped in prayer and whose espousal of traditional values was tempered by a deep compassion.’

Yn 1971, penodwyd Williams yn Gaplan Rhanbarthol Y Gwasanaeth Carchardai ar gyfer y De-ddwyrain. Gwnaeth hyn olygu mai ef oedd yn gyfrifol am oruchwylio caplaniaid y rhanbarth; gwnaeth ei ddoethineb a’i brofiad brofi o werth mawr i lywodraethwyr carchardai, yn ogystal ag i gaplaniaid. Yn 1974, symudodd i’r Swyddfa Gartref fel Dirprwy Brif Gaplan. Roedd ei ddylanwad bellach yn ymestyn i lunio polisïau, recriwtio a hyfforddi.

Mewn cyferbyniad llwyr, bu Williams yn Offeiriad Sefydlog i’r Frenhines am dair blynedd, ochr yn ochr â’i rôl yn y Swyddfa gartref. Yn rhinwedd y swydd honno, gwnaeth gynorthwyo mewn gwasanaethau a gynhaliwyd yn y Capel Brenhinol yn St James’s. Ar ôl iddo ymddeol o’r Gwasanaeth Carchardai yn 1983, daeth yn gaplan yr Urdd Fictoraidd Frenhinol ac yn gaplan Capel Savoy’r Frenhines, cartref yr Urdd honno. Ar ymddeol am y tro diwethaf yn 1989, rhoddwyd iddo’r anrhydedd o gael ei urddo’n LVO, (Is-gapten yr Urdd Fictoraidd Frenhinol).

Bu farw Williams yn Ealing ar Ragfyr 26ain 2003.

**Ffynonellau**

Williams, Rev. John Herbert, (15 Aug. 1919–16 Dec. 2003), Chaplain to the Royal Victorian Order and Chaplain of the Queen’s Chapel of the Savoy, 1983–89; Chaplain to the Queen, 1988–89. *Who’s Who & Who Was Who.* Adalwyd ar Dachwedd 5 2020, oddi wrth https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540891.001.0001/ww-9780199540884-e-40003

The Daily Telegraph: Obituary of The Reverend John Williams: Prison chaplain for 35 years who ministered to Ruth Ellis and later to the Queen and the Royal Victorian Order. (2003, December 24). *Daily Telegraph*. Adalwyd ar Dachwedd 5 2020, oddi wrth https://infoweb-newsbank-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/apps/news/document-view?p=UKNB&docref=news/0FFA6E25ACFBEBC6.

Phillips, P. (2016, September 6). The statutory presence of the Church of England in prisons should give it a voice on issues of imprisonment, but it remains largely silent [Blog post]. Adalwyd ar Dachwedd 5 2020, oddi wrth http://eprints.lse.ac.uk/76474/

Psychiatrist tells of visit to condemned cell execution of women : Chaplain's protest: Execution of women : Chaplain's protest. (1950, May 06). *The Manchester Guardian.* Adalwyd ar Dachwedd 5 2020, oddi wrth https://search.proquest.com/docview/479051038?accountid=12799

Dunn, J. (2008, January 03). Ellis [née Neilson], Ruth (1926–1955), nightclub hostess and convicted murderer. *Oxford Dictionary of National Biography.* Adalwyd ar Dachwedd 5 2020, oddi wrth https://www-oxforddnb-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-56716.

# Rowland Williams



Rowland Williams (1817-1870) oedd Is-brifathro Coleg Dewi Sant Llambed am ddeuddeg mlynedd. Mae'n enwog, oherwydd dywedwyd mai ef oedd yn gyfrifol am gyflwyno rygbi i Gymru. Mewn cyferbyniad llwyr, cafodd hefyd fynd ar brawf am heresi.

Williams oedd ail fab goroesol clerigwr o Gymru, Rowland Williams arall, a'i wraig Jane (Jane Wynne Jones gynt). Ganwyd y Rowland iau yn Helygain (Halkyn), Sir y Fflint. Aeth i Eton yn 1828 fel ysgolhaig y brenin a daeth yn fedalydd Newcastle yn 1835. Yna, aeth i Goleg Y Brenin, Caergrawnt; dyfarnwyd iddo ysgoloriaeth brifysgol Battie pan oedd ef yn ei flwyddyn gyntaf. Etholwyd ef yn gymrawd Coleg y Brenin yn 1839.

Ar ôl graddio, teithiodd Ewrop, gan weithio am gyfnod byr fel meistr cynorthwyol yn Eton. Ordeiniwyd ef yn ddiacon yn 1842, ac yn offeiriad yn 1843. Yn 1842, dychwelodd i Goleg y Brenin i weithio fel tiwtor clasuron am yr wyth blynedd nesaf. Dyfarnwyd iddo MA yn 1844 a BD yn 1851. Datblygodd hefyd ddiddordeb mewn astudiaethau dwyreiniol; yn 1848, enillodd wobr am draethawd hir a wnaeth gymharu Cristnogaeth a Hindŵaeth.

Drwy gydol ei gyfnod yng Nghaergrawnt, bu Williams yn ymwybodol iawn o'i hunaniaeth Gymreig. Roedd e'n cysylltu'n weithredol â chylchoedd Cymry Llundain ac yn ysgrifennu barddoniaeth, gan ddefnyddio ei ffugenw Goronva Camlan, a gwnaeth hefyd ymgyrchu'n llwyddiannus yn erbyn cyfuniad arfaethedig esgobaeth Bangor ag esgobaeth Llanelwy. Yn 1849 a 1850, ysgrifennodd erthyglau ar Fethodistiaeth yng Nghymru ac ar yr eglwys ac addysg yng Nghymru i'r *Quarterly Review.*

Felly, roedd y cyfle i fod yn Is-brifathro yn ogystal ag yn Athro Hebraeg yng Ngholeg Dewi Sant yn apelio iddo. Gallai ef gyfuno parhau i wella safonau addysgol clerigwyr dyfodol Cymru â'i waith academaidd ef ei hun. Disgwyliwyd yn helaeth bryd hynny mai ef byddai'r esgob Cymraeg cyntaf am 150 o flynyddoedd. Ond oherwydd roedd y coleg bob amser wedi cael ei rwystro gan sylfaen ariannol annigonol, dechreuodd honiadau o anghymwysterau gweinyddol. Gweithiodd Williams yn galed i wella'r gweinyddu, y cynllun gwaith a safonau academaidd yr athrofa. Bu'n llwyddiannus iawn ac yn boblogaidd ymhlith y myfyrwyr.

Yn gyflym, gwnaeth Williams gyflwyno set o reolau coleg. Gwnaeth Rheol 5 ddweud wrth fyfyrwyr am beidio â 'spend their time and money, or to risk their health and memory, in the practice of smoking'. Meddai Rheol 6 'whatever time a student may require for relaxation, should be spent in healthful exercise, rather than in clownish lounging about the shops or market-place'. Sefydlwyd Clwb Pêl-droed Caergrawnt yn 1839, pan oedd Williams yn fyfyriwr. Yn Llambed, dywedwyd ei fod ef wedi cyflwyno rygbi, criced a phumoedd i'r coleg. Felly, Coleg Dewi Sant oedd y man lle dechreuodd gyntaf ein gêm genedlaethol yng Nghymru.

Ond gallai Williams hefyd fod yn ddadleuol. Wedi'i ddylanwadu arno gan F.D. Schleiermacher, Julius Hare a Samuel Taylor Coleridge, roedd ganddo safbwyntiau a oedd llawer o flynyddoedd cyn eu hamser. Yn ieithydd dawnus, ef oedd un o ychydig ddiwinyddion Prydeinig ei oes i gyd-gerdded yn llawn â'r datblygiadau diweddaraf o ran ysgolheictod Almaenig. Yn 1854, penodwyd Williams yn bregethwr dethol yng Nghaergrawnt; gwnaeth roi cyfres o bregethau, ac ynddynt, gwnaeth ddadlau y gellid rhoi'r gorau i bopeth amheus sydd yn y Beibl heb achosi llawer neu unrhyw niwed i'r hanfodion Cristnogol. Y flwyddyn ganlynol, cyhoeddwyd detholiad o'i bregethau mewn cyfrol o'r enw *Rational godliness.* Roedd yr ymateb yn gyflym ac yn ffyrnig. Dechreuodd pobl ofyn a oedd Llambed yn lle addas i hyfforddi ordinandiaid; gorfodwyd Williams i ymddiswyddo fel caplan arholi esgobaeth Llandaf. Ceisiodd amddiffyn ei safbwyntiau yn *Lampeter Theology* (1856), ond gwnaeth hynny bethau'n waeth.

Hefyd, yn 1856, cyhoeddodd Williams *Christianity and Hinduism,* fersiwn estynedig o'i hen draethawd a enillodd wobr yng Nghaergrawnt. Mae'r llyfr yn cynnwys dialog rhwng tri unigolyn o Ewrop a thri o Dde Asia (Bwdhydd, Hindŵ a Fedantydd) sy'n dadlau teilyngdod priodol crefyddau India, ymhlith eraill. Yn gyffredinol, ystyrir bod Blancombe, yr ieuaf o'r Cristnogion, yn cynrychioli safbwyntiau Williams ei hun. Dyfarnwyd gradd DD i Williams yn 1857.

Gwnaeth Williams achosi hyd yn oed fwy o ymryson drwy gyfrannu traethawd at yr *Essays and Reviews* drwg-enwog. Ceisiodd saith ysgolhaig blaenllaw gyflwyno achos yn cefnogi ymagwedd newydd a beirniadol at y Beibl a'r athrawiaeth Gristnogol. Ysgrifennodd Williams adolygiad o waith ei gyfaill y Barwn von Bunsen, o'r enw *Bunsen's Biblical Researches*. Gwnaeth gymeradwyo'r ymagwedd feirniadol at y Beibl a oedd wedi'i hen sefydlu yn yr Almaen. Awgrymodd hefyd ddehongliad mwy derbyniol o rai o'r athrawiaethau Cristnogol traddodiadol, yn ogystal â phwysleisio ei hoff thema, sef nad yw proffwydoliaethau'r Hen Destament yn rhagweld y dyfodol. Gwnaeth y gyfrol hon achosi gwrthgri. Ynghyd â H.B. Wilson, cafodd Williams ei roi ar brawf am anuniongrededd gerbron Llys y Bwâu Talaith Caergaint. Cyhuddwyd ef o wadu ysbrydoliaeth yr Ysgrythur. Gwnaeth y llys farnu bod Williams yn euog o dri chyhuddiad yn ei erbyn, ond gwnaeth wrthod y gweddill. Gwnaeth ef a Wilson apelio yn erbyn y rheithfarn, ac ym mis Chwefror 1864, gwnaeth y llys ddirymu'r farn honno. Roedd y ddau ddyn wedi ennill yr hawl i ryddid academaidd. Dywedwyd mai'r farn hon oedd 'the most momentous single judgement of that series which enabled Anglican clergymen to adjust their teaching in the light of modern knowledge.'

Yn y cyfamser, yn ôl yn Llambed, roedd Williams yn rhan o ffrae arall. Yn ddadleuol, roedd ysgoloriaeth wedi cael ei dyfarnu i George Lewellin, mab Llewelyn Lewellin, Prifathro'r Coleg. Ym marn Williams, roedd y Prifathro wedi dwyn yr ysgoloriaeth hon. Anfonodd ei fersiwn o'r hyn a ddigwyddodd i'r wasg leol heb rybuddio'r Prifathro yn gyntaf o'i fwriad. Dilynodd ohebiaeth rhwng y ddau yn y *Welshman.* Tyfodd y ffrae yn fwyfwy chwerw a chafodd un a oedd yn ymweld â'r coleg, sef yr Esgob Connop Thirlwall, ei dynnu i mewn iddi. Erbyn diwedd ei gyfnod yn Llambed, roedd Williams wedi cael ei ddiarddel gan y coleg.

Yn 1858, gwnaeth  Williams dderbyn bywoliaeth Coleg y Brenin, sef Broad Chalke gyda Chalke ac Alvedistone, ger Caersallog (Salisbury); ar y cychwyn, gwnaeth ef gyfyngu'r gwaith hwnnw i'r gwyliau. Y flwyddyn ganlynol, priododd ef ag  Ellen, merch Charles Cotesworth, masnachwr o Lerpwl. Ni chawsant blant. Ymadawodd Williams â Llambed yn 1862; testun ei bregeth ffarwel yng nghapel y coleg oedd  'Princes have persecuted me without a cause,' (Salm 119:161). Ni aeth unrhyw aelod o staff y coleg i'r gwasanaeth. Treuliodd ef y rhan fwyaf o weddill ei fywyd yn Broad Chalke, fel clerigwr gweithgar. Er gwaethaf popeth, roedd yn dal i fod yn Gymro i'r carn. Ei waith diwethaf, a gafodd ei gyhoeddi ar ôl ei farwolaeth, oedd cerdd o'r enw 'Owen Glendower.'

Nid oedd Williams erioed yn gryf, ac fe ddywedwyd mai yn anaml iawn y byddech chi'n ei weld heb ei fod yn ysmygu sigâr. Bu farw cyn ei amser ar Ionawr 18 1870, a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Broad Chalke.  Mae ffenestr orllewinol yr eglwys honno yn cynnwys gwydr lliw er cof amdano. Hefyd, mae cofebion iddo yng nghapel y coleg, Llambed, ac yng Ngholeg y Brenin Caergrawnt. Yn 2016, cafodd cerflun o bêl rygbi, yn dathlu 150 o flynyddoedd ers iddo gyflwyno rygbi i Lambed, ac felly i Gymru, ei ddadorchuddio y tu allan i lyfrgell y campws.

**Ffynonellau**


Ellis, T. I., (1959). Williams, Rowland (1817 - 1870), cleric and scholar. *Dictionary of Welsh Biography*. Adalwyd ar Orffennaf 9 2020, oddi wrth https://biography.wales/article/s-WILL-ROW-1817

Robbins, K.  (2004, September 23). Williams, Rowland (1817–1870), Church of England clergyman. *Oxford Dictionary of National Biography.* Adalwyd ar Orffennaf 13 2020, oddi wrth https://www-oxforddnb-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-29545.

Price, D.T.W. (1977). *A history of Saint David's University College Lampeter. Volume one: to 1898.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru

Walters, S. (2016). *The fighting parsons: the role of St David's College, Lampeter, in the early development of rugby football in Wales.* Lampeter: Canolfan Peniarth

Hedges, P. (n.d.) Rowland Williams: Christianity and Hinduism. Adalwyd ar Orffennaf 10 2020, oddi wrth https://www.academia.edu/31053904/Rowland_Williams_Christianity_and_Hinduism

Badham, P. (2006). The significance of Rowland Williams. *Modern Believing.* 47(2),4-12. Adalwyd oddi wrth https://web.a.ebscohost.com/ehost/pdfviewer/pdfviewer?vid=4&sid=eb2c43d1-87ca-476a-8c5a-d81bca62606d%40sessionmgr4008

## Flora Winfield



Mae Flora wedi bod yn rhan o'r uwch dîm ym Mhalas Lambeth er 2007, gan gynrychioli Archesgob Caergaint mewn amrywiaeth o rolau: yn gyntaf fel ei *Ysgrifennydd dros Gysylltiadau Anglicanaidd*, wedyn yn *Gynrychiolydd Parhaol y Cymundeb Anglicanaidd i'r Cenhedloedd Unedig* yn Genefa, cyn dod yn *Gynrychiolydd Arbennig i'r Gymanwlad* yn 2017, cyn Cyfarfod Penaethiaid Llywodraeth y Gymanwlad (CHOGM) 20018. Bellach, mae Flora yn arwain Gweinidogaeth Gymodi Archesgob Justin Welby (un o'i 3 blaenoriaeth bersonol tra ei fod yn ei swydd) fel ei *Gynghorydd Cymodi*.

Mae'r weinidogaeth hon yn cwmpasu 3 phrif linyn: y *Cwrs Gwahaniaeth*, sy'n paratoi Cristnogion i fod yn gymodwyr yn eu cymunedau eu hun; *Menywod ar y Rheng Flaen*, gan gefnogi rôl menywod ac yn enwedig gwragedd Esgobion fel hyrwyddwyr heddwch mewn ardaloedd o wrthdaro; a *Hyrwyddo Heddwch yn Rhyngwladol*, gan gryfhau rôl hollbwysig arweinwyr ffydd yn y parthau lle ceir y gwrthdaro mwyaf cymhleth ar draws y byd.

Cafodd Flora ei haddysg yn Ysgol Uwchradd Portsmouth i Ferched ac wedyn yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llambed, gan raddio yn 1985 a mynd ymlaen i fod yn weithiwr lleyg yn Eglwys Crist Abbeydale, Swydd Gaerloyw. Ar ôl astudio am dystysgrif mewn Diwinyddiaeth yng Ngholeg Ripon, Cuddesdon, Rhydychen, fe'i hordeiniwyd yn Ddiacon yn 1989, a daeth yn Ddiacon y Plwyf ym Milton Keynes - partneriaeth ecwmenaidd yn cynnwys Anglicanwyr, Bedyddwyr, Methodistiaid, Catholigion, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig a Byddin yr Iachawdwriaeth. Erbyn 1992, Flora oedd *Swyddog Ecwmenaidd Sirol* cyntaf Swydd Gaerloyw ar gyfer Churches Together, gan ddarparu adnoddau ar gyfer esgobion ac arweinwyr eglwysig eraill a chynulleidfaoedd.

Yn 1994, ordeiniwyd Flora yn Offeiriad, un o glerigwyr benywaidd cyntaf Eglwys Loegr. Yng Ngholeg Mansfield, Rhydychen bu'n Gaplan a Thiwtor mewn Hanes Eglwysig, tan iddi fynd ymlaen i weithio fel *Swyddog Ecwmenaidd Cenedlaethol Eglwys Loegr* yn 1997.

Hefyd yn 1997, daeth Flora yn *Gaplan i Luoedd Arfog Ei Mawrhydi* - hi oedd y fenyw gyntaf ym Mhrydain i gael comisiwn fel Caplan. Yn 2002, daeth Flora yn *Ganon Preswyl* yn Eglwys Gadeiriol Caer-wynt ; yn dilyn hynny fe'i gwnaethpwyd yn *Ganon Emeritws* yn 2005, gan ddatblygu gwaith addysgol y gadeirlan yn ogystal â chryfhau ei gwaith bugeiliol.

Cyn cael ei gwneud yn Offeiriad â Gofal yn St Mary-at-Hill, (eglwys gan Christopher Wren yn Billingsgate, Dinas Llundain) yn 2008, bu Flora yn gweithio i Religions for Peace (corff anllywodraethol yn Efrog Newydd yn gysylltiedig â'r CU) fel *Ysgrifennydd Cyffredinol Cynorthwyol* ac wedyn yn *Gynghorydd Arbennig i'r Ysgrifenydd Cyffredinol*. Yn unol â gweledigaeth Religions for Peace ar gyfer cydweithredu rhyng-grefyddol er mwyn heddwch ar lefel fyd-eang, genedlaethol a lleol, roedd Flora yn gyfrifol am waith yn Ewrop a'r Dwyrain Canol, gan ymgymryd ag amryw o dasgau diplomyddol a thasgau eraill.

Rhwng 2007 - 2013, bu Flora yn darlithio yn y National School of Government, a dyfarnwyd Doethuriaeth mewn Diwinyddiaeth er anrhydedd iddi gan Goleg Diwinyddol Virginia.

Gydag Elizabeth Welch, cyd-ysgrifennodd Flora *Travelling together: a handbook on local ecumenical partnerships.* Roedd hwn yn llawlyfr cynhwysfawr ar bartneriaethau ecwmenaidd lleol a gyhoeddwyd yn gyntaf gan Churches Together yn Lloegr yn 1995, ac yna ei ail-ryddhau yn 2004. Ehangodd Flora ar hyn gyda *Releasing energy: how Methodists and Anglicans can grow together* (2000); *Growing Together: working for unity locally* (2002) a *Working with Partner Churches in the Diocese: a handbook for new bishops* (2002). Yn *Growing Together,* dadleuai fod undod Cristnogol yn ymwneud â chyfeillgarwch; y math o gyfeillach sy'n ymhyfrydu mewn amrywiaeth, yn ogystal ag yn y pethau hynny sydd yn gyffredin, ac sy'n parhau i fod yn llawn cariad a pharch yn wyneb anghytuno.

Mae gwaith gwirfoddol Flora wedi canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â digartrefedd ac addysg i ferched a menywod, gan gyd-sefydlu The Haven yn 1988 – canolfan ddydd arloesol yn Swydd Gaerloyw i deuluoedd ag anghenion o ran tai.

Mae hi'n briod â'r Canon Jonathan Gough, un arall o raddedigion Llambed ac Archddiacon Richmond a Craven. Hi yw'r Dirprwy Raglaw yn Rhaglawiaeth Llundain Fwyaf, ac yn ddiweddar fe'i penodwyd yn

*Gaplan i Siryf Dinas Llundain*, yr Henadur Alison Gowman. Mae Flora hefyd yn Aelod o'r Cabidwl yn Eglwys Gadeiriol Bradford.

**Ffynonellau**

Archbishop of Canterbury (2019). Archbishop of Canterbury appoints new Advisor for Reconciliation. Adalwyd 10 Awst 2020 o https://www.archbishopofcanterbury.org/news/latest-news/archbishop-canterbury-appoints-new-advisor-reconciliation

Archbishop of Canterbury (n.d.) The Archbishop's staff team. Adalwyd 10 Awst 2020 o https://www.archbishopofcanterbury.org/lambeth-palace/archbishops-staff-team#na

Winfield, Rev. Canon Flora Jane Louise, DL; Archbishop of Canterbury's Special Representative to the Commonwealth, since 2017. (2019). *Who's Who & Who Was Who.* Adalwyd 10 Awst 2020 o https://www.ukwhoswho.com/view/10.1093/ww/9780199540884.001.0001/ww-9780199540884-e-247397.

Welsh, E. & Winfield, F. (2004). *Travelling together: a handbook on local ecumenical partnerships.* Adalwyd o https://www.cte.org.uk/Publisher/File.aspx?ID=45303

New pastor will spread the word. (2002, March 26). *Hampshire County Publications*. Adalwyd o https://infoweb.newsbank.com/resources/doc/nb/news/10D865D14794A5F1?p=UKNB

50 Religions for Peace. (2020). Vision, mission & principles. Adalwyd 10 Awst 2020 o https://rfp.org/learn/vision-mission/